WIDENER
HN FGM4 B

C 8135.116.10

Harvard College Library

FROM

Prof. Evans

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# HANES

# EGLWYSI ANNIBYNOL

# CYMRU,

GAN T. REES, D.D., ABERTAWY,

A

J. THOMAS, LIVERPOOL.

## CYF. II.

LIVERPOOL:
ARGRAFFWYD YN SWYDDFA Y "TYST CYMREIG."

1872.

Digitized by Google

C 8135.116.10

HARVARD
UNIVERSITY
LIBRARY

Digitized by Google

# CYNWYSIAD.


| | |
|---|---|
| SIR FORGANWG. | 1 |
| Mynyddbach | 2—27 |
| Brynteg | 27—30 |
| Crwys | 30—35 |
| Yr Ysgetty | 35—38 |
| Ebenezer, Abertawy | 38—55 |
| Libanus, Treforis | 55—58 |
| Heolycastell, Abertawy | 58—61 |
| Siloh, Glandwr | 61—63 |
| Bethel, Llansamlet | 63—66 |
| Hebron, Clydach | 66—69 |
| Y Felindre | 69—70 |
| Baran | 70—73 |
| Canaan | 73—75 |
| Capel Sion, Abertawy | 75—76 |
| Zoar, etto | 76—78 |
| Pentre-estyll | 78—80 |
| Cwmbwrla | 80—82 |
| Horeb, Treforis | 82—84 |
| Tanygraig | 84—85 |
| Fabians Bay | 85—86 |
| Y Sandfields | 86 |
| Walter Road, Abertawe | 86—88 |
| Cadle | 88—89 |
| Gwaunarlwydd | 89—90 |
| Rhydyfro | 90—92 |
| Casllwchwr | 92—93 |
| Y Glais | 93—94 |
| Pantycrwys | 94—95 |
| Birchgrove | 95 |
| Maesyrhaf, Castellnedd | 95—108 |
| Melinycwrt | 108—111 |
| Glynnedd | 111—119 |
| Zoar, Castellnedd | 119—125 |
| Capel Sion, Cwmafan | 125—128 |
| Tabernacl, Aberafan | 128—130 |
| Wern, Aberafan | 130—134 |
| Rock | 134—136 |
| Bethania, Tymaen | 136 |
| Llansawel, neu Briton Ferry | 136—138 |
| Sciwen | 138—139 |


Digitized by Google

Bryn, Cwmafan .. .. .. .. .. 139
Tonmawr .. .. .. .. .. 139—140
Taibach .. .. .. .. .. 140—142
Sardis, Pontrhydyfen .. .. .. .. 142
Bryncaws .. .. .. .. .. 142—143
Castellnedd (Saesoneg) .. .. .. 143
Cwmllynfell .. .. .. .. .. 144—158
Alltwen .. .. .. .. .. 159—164
Godrerhos .. .. .. .. .. 164—168
Ystradgynlais .. .. .. .. 168—170
Pantteg .. .. .. .. .. 170—174
Bethel, Cwmaman .. .. .. .. 174—178
Y Gurnos .. .. .. .. .. 178—179
Bethel, Glantwrch .. .. .. .. 179—180
Y Wern, Ystalyfera .. .. .. .. 180
Ystalyfera (Saesoneg) .. .. .. 180—181
Ynysmudw .. .. .. .. .. 181—182
Gosen, Craigtrebanos .. .. .. .. 182
Llangynwyd .. .. .. .. .. 182—184
Carmel, Maesteg .. .. .. .. 184
Zoar, etto .. .. .. .. .. 185—188
Siloh, etto .. .. .. .. 188—189
Sabon, etto .. .. .. .. .. 189—190
Dyffryn, etto .. .. .. .. 190—191
Garth, etto .. .. .. .. .. 191—192
Maesteg (Saesoneg) .. .. .. .. 192
Drefnewydd .. .. .. .. .. 192—194
Cefncribwr .. .. .. .. 194—196
Mynydd Cynffig .. .. .. .. .. 196—197
Penybont-ar-ogwy .. .. .. .. 197—211
Brynmenyn .. .. .. .. .. 211—212
Coety .. .. .. .. .. 212—213
Bethel .. .. .. .. .. 213—214
Cymer-glyn-corwg .. .. .. .. 215—217
Blaencorwg .. .. .. .. .. 217—218
Cwmogwy .. .. .. .. .. 218—221
Nantymoel .. .. .. .. .. 221
Llanharan .. .. .. .. .. 221—225
Treoes .. .. .. .. .. 225—226
Maendy .. .. .. .. .. 226—230
Llanhari .. .. .. .. .. 230
Llantrisant .. .. .. .. 230—231
Zoar, Llantrisant .. .. .. .. 231—232
Castellau .. .. .. .. .. 232—233
Bethesda-y-fro .. .. .. .. .. 233—241
Nurston .. .. .. .. .. 241
Ebenezer, Llanilltydfawr .. .. .. .. 242—243
Tresimwn .. .. .. .. .. 243—244
Ynysgau, Merthyr Tydfil .. .. .. .. 244—259

Digitized by Google

Zoar, Merthyr Tydfil .. .. .. 259—269
Bethesda, etto .. .. .. .. 269—274
Bethania, Dowlais .. .. .. .. 274—278
Brynsion, etto .. .. .. .. 278—281
Gwernllwyn, etto .. .. .. .. 281—282
Penywern, etto .. .. .. .. 282—284
Capel Ivor, etto .. .. .. .. 284—286
Troedyrhiw, Merthyr .. .. .. .. 286—290
Adulam, Merthyr Tydfil .. .. .. 291—293
Penydarran .. .. .. .. .. 293—295
Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer .. .. .. 295—298
Tabor, etto .. .. .. 299—300
Pen-heol-gerig .. .. .. .. .. 300
Gellideg, Merthyr .. .. .. .. 300—301
Salem, etto .. .. .. .. 301—311
Craigyfargod .. .. .. .. 311—313
Pontlotyn .. .. .. .. .. 313—314
Y Fochriw .. .. .. .. 314—315
Y Deri .. .. .. .. .. 315
Y Coly .. .. .. .. .. 315—316
Pont-aber-bargod . .. .. .. 316
Market Square, Merthyr .. .. .. 316—317
Carmel, Llanguwg .. .. .. .. 317—319
Gwrhyd .. .. .. .. .. 319
Gibeah, Brynaman .. .. .. .. 320
Rhigos .. .. .. .. .. 321—323
Ebenezer, Aberdar .. .. .. .. 323—326
Nebo, Hirwaun .. .. .. .. 326—328
Salem, Aberdar .. .. .. .. 328—330
Siloa, etto .. .. .. .. 330—333
Y Tabernacl, etto .. .. .. .. 333—334
Saron, Aberaman .. .. .. .. 334—337
Cwmbach, Aberdar .. .. .. .. 337—339
Mountain Ash .. .. .. .. 339—340
Horeb, Llwynllyd .. .. .. .. 341—342
Bethel, Aberdar .. .. .. .. 342—344
Bethlehem, Abercwmboy .. .. .. .. 344—345
Cymar, Llantrisant .. .. .. .. 345—349
Bethel, Trehafod .. .. .. .. 349—350
Dinas, Cwmrhondda .. .. .. .. 350—351
Bodringallt .. .. .. .. .. 351—352
Siloh, Ystrad .. .. .. .. 353
Eglwys Seisnig yr Ystrad .. .. .. 354—355
Ebenezer, Tonypandy .. .. .. 355—356
Gilfachgoch .. .. .. .. .. 356
Carmel, Treherbert .. .. .. .. 356—358
Tynewydd, Ystradrhondda .. .. ... 358
Treorci .. .. .. .. .. 358—359
Blaenllechau .. .. .. .. .. 359

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Sardis, Pontypridd .. .. .. .. | 360—361 |
| Zion, etto .. .. .. .. | 361—362 |
| Taihirion .. .. .. .. .. | 362—365 |
| Efailisaf .. .. .. .. .. | 365—366 |
| Bronllwyn .. .. .. .. | 366—367 |
| Llansantffraid-ar-lai .. .. .. .. | 367—368 |
| Bethlehem, Pentyrch .. .. .. | 368—369 |
| Bethesda, Tongwynlas .. .. .. .. | 369 |
| Soar, Aberdar .. .. .. .. | 369—370 |
| Moriah-Aman, etto .. .. .. .. | 370 |
| Hirwaun, (Saesonig) .. .. .. .. | 370—371 |
| Porthycawl .. .. .. .. .. | 371—372 |
| Groeswen .. .. .. .. .. | 372—396 |
| Ebenezer, Rhydri .. .. .. .. | 397—398 |
| Nelson, Llancaiach .. .. .. .. | 398—400 |
| Libanus, Llanfabon .. .. .. .. | 400—401 |
| Mountain Ash, (Saesonig) .. .. .. | 401 |
| Bethesda, Abernant .. .. .. ... | 401—402 |
| Elim, Cwmdar .. .. .. .. | 402—403 |
| Ebenezer, Glantaf .. .. .. .. | 403—408 |
| Glandwr, Ffynontaf .. .. .. | 408—409 |
| Eglwysnewydd .. .. .. .. .. | 409—411 |
| Bethel, Caerphili .. .. .. .. | 411—412 |
| Watford .. .. .. .. .. | 412—414 |
| Capel y Drindod, Caerdydd .. .. .. | 414—420 |
| Ebenezer, etto .. .. .. .. | 420—427 |
| Mount-stuart, etto .. .. .. | 428—429 |
| Charles-street, etto .. .. .. .. | 429 |
| Hannah-street, etto .. .. .. | 429—430 |
| Canton, etto .. .. .. .. | 431 |
| Canton, (Saesonig) etto .. .. .. | 431—432 |
| Grange Town, etto .. .. .. .. | 432 |
| Wood-street, etto .. .. .. | 432—433 |
| Splotlands, Roath, etto .. .. .. | 433—434 |
| Capel y Burrows, Abertawy .. .. .. | 434—435 |
| Penyclawdd .. .. .. .. .. | 435—437 |
| Newton .. .. .. .. .. | 437—438 |
| Pilton Green .. .. .. .. .. | 438—439 |
| Park Mill .. .. .. .. | 439 |
| Y Tabernacl, Mumbles .. .. .. .. | 439—440 |
| Capel Rhagluniaeth .. .. .. | 440—441 |
| Onllwyn .. .. .. .. .. | 441—442 |
| Troedyrhiw, (Saesonig) .. .. .. | 442 |
| Soar, Penderyn .. .. .. .. .. | 442—443 |
| Adolygiad ar hanes y sir .. .. .. | 444—448 |


## SIR FON.


| | |
|---|---|
| SIR FON. | 449 |
| Rhosymeirch .. .. .. .. .. | 450—460 |
| Capel Mawr .. .. .. .. | 460—461 |


Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Bodffordd | 462 |
| Beaumaris | 462—468 |
| Pentraeth | 468—469 |
| Talwrn | 469 |
| Penmynydd | 469—470 |
| Rhosfawr | 470—471 |
| Moelfro | 472—473 |
| Amlwch | 473—477 |
| Llanerchymedd | 477—479 |
| Mynaddfwyn | 479 |
| Llanddeusant | 479—482 |
| Llanfechell | 483—487 |
| Cemaes | 487—490 |
| Siloh | 490—492 |
| Seion | 492—493 |
| Saron | 493—494 |
| Llanfachreth | 494 |
| Caergybi | 494—500 |
| Tabor | 500—501 |
| Y Tabernacl Newydd, Caergybi | 501 |
| Bodedeyrn | 501—503 |
| Llanfairneubwll | 503 |
| Bryngwran | 504—511 |
| Maelog | 511—512 |
| Gwalchmai | 512—513 |
| Glanyrafon | 513 |
| Groeslon | 513—515 |
| Hermon | 515—516 |
| Cana, Llanddaniel | 516—517 |
| Niwbwrch | 517—518 |
| Dwyran | 518 |
| Brynsiencyn | 518—519 |
| Llangefni | 519 |
| Berea | 520—521 |
| Llanfairyborth | 521—522 |
| Menai Bridge | 522—523 |
| Adolygiad ar hanes y sir | 523—525 |


## SIR FAESYFED. 526


| | |
|---|---|
| Maesyronen | 527—532 |
| Glasbury | 532—533 |
| Caebach | 533—536 |
| Rhaiadrgwy | 537—539 |
| Carmel | 539—540 |
| Gore | 540—541 |
| Huntington | 541—542 |
| Llanbadarnygareg | 542 |
| Aberedw | 543 |
| Hermon a Painscastle | 543—544 |


Digitized by Google

Digitized by Google

# HANES
# EGLWYSI ANNIBYNOL CYMRU.

## SIR FORGANWG.

Amgylchynir y sir hon ar y dwyrain gan sir Fynwy, ar y de gan gulfor Caerodor, ar y gorllewin gan fôr y Werydd a sir Gaerfyrddin, ac ar y gogledd gan siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog. Ei harwynebedd yw 547,494 o erwau. Mae ei chyfoeth o lô, mŵn, haiarn, ceryg calch, &c., yn ddihysbydd, a'i chyfleusderau gweithfaol yn ddigyffelyb. Ar gyfrif y pethau hyn y mae ei phoblogaeth wedi cynyddu yn ddirfawr er dechreuad y ganrif bresenol. Rhif y trigolion yn 1801, oedd 70,879; yn 1811, 85,067; yn 1821, 102,073; yn 1831, 126,612; yn 1841, 171,188; yn 1851, 231,849; yn 1861, 317,752, ac yn 1871, yr oedd yn 396,010. Darfu i Ymneillduaeth osod ei throed i lawr yn y sir hon gydag un o'r manau cyntaf yn Nghymru, ac y mae wedi dal ei thir ac ychwanegu nerth o flwyddyn i flwyddyn o'r dechreuad hyd yn awr. Gan fod y trigolion yn cael eu gwneyd i fyny o ddynion o bob parth o'r deyrnas, y mae agos pob enwad o grefyddwyr, ag sydd yn adnabyddus yn y deyrnas gyfunol, i'w cael yn y sir hon. Yr Annibynwyr yw yr enwad lluosocaf o lawer yma, ac y mae ei gynydd yn yr ugain mlynedd diweddaf wedi bod yn rhyfeddol. Rhif y capeli yma yn 1851, oedd 114, yn 1860, 142, ac yn 1871, y maent yn 202, ac amryw eraill ar gael eu hadeiladu. Yr enwad nesaf at yr Annibynwyr mewn nifer yw y Bedyddwyr; y Methodistiaid Calfinaidd yw y trydydd, a'r Wesleyaid yw y pedwerydd. O'r man enwadau Protestanaidd, y Trefnyddion Cyntefig, *(Primitive Methodists,)* yw y lluosocaf. Y mae ganddynt hwy rai ugeiniau o gynnulleidfaoedd yma. Er cryfed yw yr enwadau efengylaidd yma, y mae anfoesoldeb yn ofnadwy o rwysgfawr yn mysg y trigolion; ond y mae yn deilwng o sylw mai Gwyddelod, Saeson, ac estroniaid eraill, yw wyth o bob deg o'r drwg-weithredwyr a gosbir am droseddu y cyfreithiau. Gan fod poblogaeth y sir i raddau mawr yn cael ei chwyddo o flwyddyn i flwyddyn gan lawer o wehilion pob sir yn Lloegr a'r Iwerddon, buasai y lle yn uffern ar y ddaear oni buasai fod crefydd Ysgrythyrol wedi cymeryd gafael mor gadarn a chyffredinol yma.



Digitized by Google

## MYNYDDBACH.

Mae addoldy y Mynyddbach, neu Ty'rdwncyn Newydd, fel y gelwid ef gynt, yn mhlwyf Llangafelach, tua thair milldir i'r gogledd o dref Abertawy; ac y mae yr eglwys a gyferfydd yma yn un o'r rhai henaf yn y Dywysogaeth. Dywedir yn y *Broadmead Records*, mai Mr. Ambrose Mostyn ddarfu gasglu yr eglwys gyntaf yn Abertawy, a chan na fu Mr. Mostyn yn arosol yn y Deheubarth ar ol y rhyfel a derfynodd yn 1646, mae yn rhaid mai cyn y rhyfel y casglwyd yr eglwys ganddo yma. Ond gan nad yw yn debygol y buasai yr awdurdodau yn goddef iddo sefydlu eglwys Ymneillduol yn y dref cyn y rhyfel, mae yn naturiol casglu mai yn rhywle y tu allan i'r dref yr oedd. Yr oedd Mr. Phillip Jones, wedi hyny o Gastell Ffonmon, yn byw yr amser hwn yn Mhentwyn, Llangafelach, ac fel y mae yn hysbys, yn Buritan ac Annibynwr selog, a chan ei fod yn foneddwr o safle uchel a dylanwad mawr, mae yn ddigon tebygol mai ar ei gymhelliad a than ei nawdd ef y daeth Mr. Mostyn i'r ardal. Dywed Dr. Walker, yn ei hanes am ddyoddefiadau yr offeiriaid, i Mr. Hugh Peters, a'r Milwriad Phillip Jones, sefydlu eglwys Annibynol yn Abertawy tua'r flwyddyn 1650; ond y peth tebycaf ydyw fod yr eglwys wedi ei ffurfio gan Mr. Mostyn a'r Milwriad Jones ddeng mlynedd cyn hyny; ac os bu rhyw beth a wnelsai Mr. H. Peters, yr hwn oedd yn Sais, a'r achos yn 1650, cynorthwyo i ffurfio cangen Saesonig yn y dref, yw y peth mwyaf tebygol iddo wneyd. Felly yr ydym yn cael ein gogwyddo yn gryf i gredu i eglwys Annibynol gael ei ffurfio yn mhlwyf Llangafelach trwy lafur Mr. Mostyn a'r Milwriad Jones tua 1640, neu yn y flwyddyn ganlynol, ac mai hyny oedd dechreuad yr achos sydd yn bresenol yn y Mynyddbach. Cafodd yr Ymneillduwyr ryddid cyflawn i daenu eu golygiadau pa le bynag yr ewyllysient o 1646 hyd 1660, ac i raddau hyd 1662; ac y mae yn dra sicr fod trigolion plwyf Llangafelach wedi cael rhan helaeth o lafur y pregethwyr teithiol a ymwelent a'r gwahanol ardaloedd yn y tymor hwnw. Gorphenaf 24ain, 1646, penderfynwyd gan bwyllgor Seneddol, fod Mr. David Walter, pregethwr poblogaidd iawn, i gael ei dalu o gynyrch degymau plwyf Llandilo, Talybont, a rhyw blwyf arall yn y gymydogaeth, mewn trefn iddo fyned oddiamgylch "i bregethu, holwyddori, ac i addysgu y plwyfolion a'r trigolion yn y gwahanol blwyfydd."* Felly gwelir fod trigolion cymydogaeth y Mynyddbach wedi cael eu bendithio a gweinidogaeth effeithiol er's mwy na dau cant ac ugain o flynyddau. Yr oedd Mr. Walter yn bregethwr o'r radd uchaf. Dywedir y byddai Eglwys Gadeiriol Llandaf yn orlawn bob amser y byddai ef yn pregethu ynddi. Mae yn dra sicr i effeithiau gweinidogaeth nerthol Mr. Jenkin Jones, o Langattwg, Glynnedd, gyrhaedd y parthau hyn; ac y mae hefyd yn fwy na thebyg i Mr. Jones gorpholi eglwys Annibynol yn Llangattwg yn amser y Werinlywodraeth, a bod rhai o bobl Llangafelach a Llansamlet yn aelodau o'r eglwys hono. "Eglwys Llangattwg," oedd yr enw wrth ba un yr adnabyddid yr eglwys Annibynol, yr hon a gyfarfyddai mewn gwahanol anedd-dai yn Cynffyg, Baglan, Llangafelach, &c., yn y flwyddyn 1675.† Ymddengys mai y rheswm paham y gelwid hi yn

* *State Papers. Interregnum.* Vol. 286. Page 136.
† *Rees's History of Nonconformity in Wales.* Page 209.

Digitized by Google

"Eglwys Llangattwg" ydoedd, o herwydd mai Mr. Jones, pan yr oedd yn weinidog plwyf Llangattwg, ddarfu ei chasglu a'i chorpholi. Mae yn debygol hefyd i gynifer o aelodau yr eglwys a gorpholwyd yn Abertawy, a'r gymydogaeth cyn y rhyfel, gan Mr. A. Mostyn a'r Milwriad Phillip Jones, ag a ddewisent addoli yn yr iaith Gymraeg, ar ol adferiad Siarl II. ymuno ag eglwys Llangattwg, gan mai yn yr iaith Saesoneg yn unig y dygai yr eglwys Ymneillduol yn nhref Abertawy ei gwasanaeth cyhoeddus yn mlaen. Dywed y diweddar Mr. John Davies, Mynyddbach, yn yr hanes a gyhoeddwyd ganddo yn 1852, dan yr enw *Y Lloffyn Addfed*, i Mr. Jenkin Jones fod yn weinidog i'r eglwys yn mhlwyf Llangafelach, mewn cysylltiad a Chastellnedd, am rai blynyddau ar ol adferiad Siarl II., ond y mae hyny yn anghywir, canys cafodd Mr. Jones ei garcharu yn Mehefin, 1660. Bu am fis yn garcharor yn Nghaerfyrddin, ac nid oes un math o grybwylliad am dano ar ol hyny. Os na bu efe farw cyn diwedd y flwyddyn hono, bu raid iddo ymguddio yn rhywle am weddill ei oes, canys yr oedd yr awdurdodau ar ei ol fel gwaedgwn, o herwydd ei fod yn ddyn cyfoethog, dylanwadol, rhyfeddol o weithgar, yn Ymneillduwr didroi, ac yn enwedig o herwydd iddo gymeryd rhan mor amlwg yn y rhyfel, ac mewn achosion gwladol yn gystal a chrefyddol, yn amser y Senedd hir a'r Werinlywodraeth. Mae yn sicr na feiddiodd y dyn da hwn agoryd ei enau fel pregethwr ar ol y flwyddyn 1660, os na fu farw yn y flwyddyn hono. Un eglwys y cyfrifid yr holl Annibynwyr yn mhob ardal o Gynffyg hyd Gasllwchwr o'r flwyddyn 1662 hyd ar ol dechreuad y ganrif ddiweddaf. Yr oedd rhai Bedyddwyr a gwrth-Fedyddwyr (*Catabaptists*) yn eu mysg mewn rhai cymydogaethau.*

Mae yn ymddangos mai Mr. Robert Thomas, yr hwn a droisid allan o eglwys Baglan, fu y gweinidog sefydlog cyntaf ar yr eglwys hon ar ol adferiad Siarl II. Cynorthwyid ef yn y weinidogaeth gan y Meistri Jacob Christopher a Richard Cradock, a chan fod y Meistri Marmaduke Mathews, Stephen Hughes, David Jones, Llandysilio, a Meredith Davies, Llanon, yn byw yn Abertawy a'r ardal, mae yn ddiameu fod cangen Llangafelach o'r eglwys wasgaredig hon yn mwynhau gweinidogaeth pob un o honynt hwy yn achlysurol. Bu Mr. Robert Thomas yn ffyddlon yn llanw ei gylch gweinidogaethol eang hyd ei farwolaeth tua y flwyddyn 1693. Mewn anedd-dai y cynhelid y moddion crefyddol yn mhob ardal hyd nes i ddeddf y Goddefiad ddyfod i rym yn 1688, a bu rhai cynnulleidfaoedd am ddegau o flynyddau ar ol hyny cyn adeiladu addoldai. Mewn amaethdy o'r enw Cilfwnwr yr ymgynnullai eglwys y Mynyddbach am rai blynyddau; a dywedir mai llithriad gwraig y tŷ i'r pechod o odineb gyda'i gwas a barodd i'r gynnulleidfa roddi y lle hwnw i fyny ac edrych allan am le arall. Symudasant o Gilfwnwr i amaethdy a elwir Ty'rdwncyn, ac yno y buwyd yn ymgynnull hyd nes yr adeiladwyd capel y Mynyddbach yn 1762. Dilynwyd Mr. Robert Thomas yn y weinidogaeth gan Mr. Lewis Davies, aelod o'r eglwys yn Llanedi. Mae yn debygol i Mr. Davies ddechreu ei weinidogaeth yn y flwyddyn 1693, os nad yn gynt. Mae amser ei farwolaeth yn anhysbys. Yr oedd yn fyw yn 1700, a dichon iddo fyw ddeg neu ddeuddeng mlynedd ar ol hyny; ond yn 1715, Thomas Davies a David Thomas oedd y gweinidogion yn y cylch hwn.† Yr oedd Mr.

* *The Lambeth MSS.* Vol. 639. *Broadmead Records.* Page 514.

† Dr. John Evans's *MSS.*

Digitized by Google

Lewis Davies yn weinidog enwog a defnyddiol iawn, ac yn nodedig o lafurus i egwyddori plant ac ieuengctyd ei gynnulleidfaoedd yn ngair Duw. Yr oedd ganddo Ysgolion Sabbothol yn Nhy'rdwncyn a'r Chwarelaubach, mor foreu a'r flwyddyn 1697. Dechreuodd hen daid y diweddar Mr. J. Davies, Mynyddbach fyned i'r Ysgol Sul i Dy'rdwncyn yn blentyn deg oed, yn y flwyddyn hono, a pharhaodd i fyned iddi am lawer o flynyddau. Ei enw oedd Morgan John, y Gof. Yr oedd cofnodiad o'r ffaith hon yn llawysgrifen Morgan John, wedi ei ysgrifenu ganddo yn 1720, yn meddiant ei orwyr, Mr. Davies, Mynyddbach, ychydig flynyddau yn ol. Yn y flwyddyn 1700, cyhoeddodd Mr. Davies, gyfamod a rheolau eglwysig, a chan fod y llyfryn bychan hwn yn dangos syniadau yr hen Ymneillduwyr am drefn a dysgyblaeth eglwysig, rhoddwn ef yma air yn ngair o'r argraffiad a gyhoeddwyd gan Mr. Lewis Rees yn y flwyddyn 1774.

*Cyfamod eglwysig a gyfansoddwyd gan y Parchedig Mr. Lewis Davies, gweinidog yr efengyl, yn Nhy'rdwncyn, yn y flwyddyn* 1700, *ac a adnewyddwyd gan y Parchedig Mr. Samuel Jones, a Mr. Lewis Rees, trwy gydsyniad y gynnulleidfa, Rhagfyr*, 1759.

Yr ydym ni, y rhai sydd a'n henwau isod yn cymeryd yr unig wir Dduw a'n holl galonau i fod yn Dduw i ni a'n daioni penaf; a'r Arglwydd Iesu Grist i fod yn Waredwr ac yn Iachawdwr i ni. Ac yr ydym ni yn cymeryd yr Ysbryd Glan i fod yn Sancteiddydd i ni, a'r athrawiaeth a ddatguddiwyd ganddo, ac a seliwyd a'i wyrthiau, ac yr awr hon yn gynhwysedig yn yr Ysgrythyrau sanctaidd i ni, yn nghyfraith ein Duw, yn rheol ein ffydd a'n bywyd, a chan edifarhau yn ddiragrith am ein holl bechodau, yr ydym ni'n bwriadu trwy gymorth gras Duw roi ufudd-dod gwirioneddus iddo, trwy ymdrechu i fod yn sanctaidd tuag at Dduw, ac yn gyfiawn tuag at ddynion, a chenym enwedigol gariad tuag at holl bobl Dduw. Ac yr ydym ni yn bwriadu cadw cymundeb gyda hwynt yn erbyn holl brofedigaethau'r diafol a'r byd a'n cnawd ein hunain, a hyny hyd angau.

Yr ydym ni hefyd yn cydsynio o lwyr ewyllys ein calonau i fod ac i barhau yn aelodau o eglwys neillduol Iesu Grist sydd yn cyfarfod yn Nhy'rdwncyn, ar ba un y mae ein brawd Lewis Rees yn fugail ac yn olygwr. Ac yr ydym ni, trwy ras Duw yn bwriadu i ddyfal wrando ei athrawiaeth a'i weinidogol gyfarwyddiad, ac yn addunedu ymddarostwng i'w lywodraeth eglwysig, *yn ol rheol gair Duw.* Ac yr ydym ni yn bwriadu cadw cymundeb enwedigol gyda'r eglwys hon yn mhob rhan o addoliad Duw, ac i ymddarostwng i rybuddion ein cydaelodau, fel trwy hyny y byddo i ni gael ein hadeiladu mewn gwybodaeth a sancteiddrwydd; ac felly yn gymwysach i barhau ein hufudd-dod i Grist a daioni'r eglwys, fel y byddo i ni yn hyn ac yn y cwbl ogoneddu Duw. Amen.

*Rheolau efengylaidd, pa rai a roddwyd gan y Parch. Mr. Lewis Davies; ac a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd gan eglwys Ty'rdwncyn, yn y flwyddyn* 1700.

RHEOL I.—*Yn nghylch bywyd ac ymarweddiad efengylaidd ein cydaelodau.*—Gwyliwch yn ddiwyd ar rodiad ac ymarweddiad y naill y llall, gan ofalu am fod yn ddiachos tramgwydd i Iuddewon a chenhedloedd, ac i eglwys Dduw. 1 Cor. x. 32, 33. "Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iuddewon ac i'r cenhedloedd, ac i eglwys Dduw. Megis yr ydwyf finau yn rhyngu bodd i bawb yn mhob peth, heb geisio fy lleshad fy hun, ond lleshad llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig." Ac yn mhob peth yn gyfatebol i orchymynion Crist ac anrhydedd yr efengyl. Phil. i. 27. "Yn unig ymddygwch yn addas i efengyl Crist." Heb. xii. 14, 15. "Dilynwch heddwch a phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Gan edrych yn ddyfal na bo neb yn pallu oddiwrth ras Duw, rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny, ac yn peri blinder, a thrwy hwnw lygru llawer." 1 Pedr i. 15, 16. "Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau sanctaidd yn mhob ymarweddiad, oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi." Os digwydd i un o'r brodyr neu'r chwiorydd gael ei oddiweddyd a rhyw bechod neu fai, eich dyled yw myned ato a'i geryddu ef neu hi am y bai, yn neillduol mewn cariad. Gal. vi. 1. "Y brodyr, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un

Digitized by Google

mewn ysbryd addfwynder, gan ystyried dy hun rhag dy demtio dithau." Mat. xviii. 15. "Ac os pecha dy frawd i'th erbyn, dos, ac argyhoedda ef rhyngot ti ac ef ei hun," &c. Lef. xix. 17. "Ac na chasa dy frawd yn dy galon, gan geryddu cerydda dy gymydog, ac na ddyoddef bechod ynddo." 2 Thes. iii. 15. Iago v. 19, 20. "Fy mrodyr, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddiwrth y gwirionedd, a throi o ryw un ef; gwybydded y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lluaws o bechodau." Ac os y cerydd neu'r rhybudd neillduol ni thycia gyda'r cyfryw a roddodd y tramgwydd, ond myned yn mlaen; mae yn ddyled arnoch chwi gymeryd un neu ddau gyda chwi i'w rybuddio a'i ddwysbigo ef o'i fai; os hyny ni thycia, rhaid i chwi ddywedyd wrth yr eglwys. Mat. xivii. 17. "Ac os ni wrendy efe ar yr eglwys chwaith, bydded ef i chwi megis yr Ethnig a'r Publican."

RHEOL. II.—*Yn nghylch undeb yr eglwys.*—Mae yn rhaid i chwi ymegnio yn ddiwyd ac yn ofalus i gynal a chadw undeb yr eglwys. 1 Cor. i. 10. "Ac yr wyf yn atolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfan-gysylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn." Phil. ii. 1-3. "Od oes gan hyny ddim diddanwch yng Nghrist, od oes dim cysur cariad, od oes dim cymdeithas yr Ysbryd, od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau. Cyflawnwch yn awr fy llawenydd, fel o byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad genych, yn gytun yn synied yr un peth," &c. 2 Cor. xiii. 11. "Bellach, frodyr, byddwch wych, byddwch berffaith, diddaner chwi, syniwch yr un peth, byddwch heddychol; a Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyda chwi." Act. iv. 32. "A lluaws y rhai a gredasent oedd o un galon ac un enaid," &c. Eph. iv. 3. "Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd."

Ac i'r dyben hyn dylech graffu yn ddiwyd, a gochelyd yn ofalus yn gystal yr *achos* o'r ymraniad a'r *rhai* a fyddant yn peri ymryson ac anghydfod yn yr eglwys. Rhuf. xvi. 17. "Yr ydwyf yn atolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi, a chiliwch oddiwrthynt." Sef hudolwyr y gau athrawon, yn dal heresiau a chyfeiliornadau yn wrthwyneb i'r ffurf o ymadroddion iachus. Act. xx. 29. "Canys mi wn hyn, y daw yn ol fy ymadawiad i, fleiddiau blinion i'ch plith, heb arbed y praidd. Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwyr yn llefaru pethau gwyr-draws, i dynu disgyblion ar eu hol." 1 Tim. vi. 3. "Od oes neb yn dysgu yn amgenach, ac heb gytuno a iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Chwyddo y mae ac heb wybod dim. Cilia oddiwrth y cyfryw," Dat. ii. 14, 15. Ac os digwydd i chwi gael allan neb a fo'n gwneuthur yn orchwyl iddo, i ranu a rhwygo, hudo a themtio un o'ch cydaelodau i dori ei gyfamod a'r eglwys, gyda pha un yr unodd efe yn ol y rheol yn yr Ephesiaid iv. 16., eich dyled yw myned at y cyfryw un a fo yn cael ei demtio, ac ymdrechu hyd eithaf eich gallu, gan arfer pob moddion tuag at ei waredu ef neu hi o faglau'r cyfryw hudolwr. Ac os bydd y gorchwyl hwn yn rhy anhawdd i chwi eich hunan, eich dyled yw cymeryd rhyw frawd arall gyda chwi i'w gynghori ef. Os hyny ni thycia gydag ef i wella ei amcan, eich dyled yw mynegi i'r eglwys brofedigaethau'r cyfryw un; ac yna yr eglwys a ddylai wneuthur ei dyledswydd tuag ato.

RHEOL III.—*Yn nghylch addoliad Duw yn ei eglwys.*—1. Edrychwch at bob aelod yn fanol, rhag bod neb o fewn eich terfynau yn esgeuluso addoliad Duw yn y gymanfa gyhoeddus, sef gweddio a gwrando pregethiad gair Duw, neu ynteu yn gwrando addysg a bar iddynt gyfeiliorni. Diar. xix. 27. "A thrwy hyny osod tramgwydd o flaen eu cydaelodau." 2 Tim. iv. 3, 4. "Canys daw'r amser, pan na ddyoddefont athrawiaeth iachus; eithr yn ol eu chwantau eu hunain, y pentyrant iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino. Ac oddiwrth y gwirionedd y troant ymaith eu clustiau, ac at chwedlau y troant."

2. Daliwch hefyd sylw enwedigol o fewn eich terfynau, pwy a fyddo yn esgeuluso cymuno yn Swper yr Arglwydd. Act. xx. 7. 1 Cor. xxv. 26. "A phan gaffoch allan neb a fyddo yn esgeuluso ewch ato a gofynwch ei resymau am ei esgeulusdra, a pha ham y mae efe neu hi yn tori addunedau eu cyfamod a Christ ac a'i eglwys." Act. ii. 42, 46. "Ac yr oeddent (sef y rhai a dderbyniasant y gair) yn parhau yn athrawiaeth, ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn tori bara, ac mewn gweddiau," &c. 1 Cor. xi. 1. 1 Thes. ii. 14.

Digitized by Google

3. Creffwch hefyd os bydd neb o fewn eich terfynau yn esgeuluso'r cyfarfodydd neillduol o weddio gyda'r eglwys. Heb. x. 25. "Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain, fel y mae arfer rhai, ond annog pawb eu gilydd, a hyny yn fwy o gymaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesbau." Act. xii. 5-12. Rhybuddiwch y cyfryw mewn cariad i ddiwygio eu hesgeulusdra a'u diofalwch.

RHEOL IV.—*Yn nghylch rheolaeth ac addoliad Duw mewn teuluoedd.*—1. Gwyliwch ar bob pen teulu a ydyw efe yn cymeryd y cyfryw ofal a ddylai efe i osod i fyny addoliad y Duw mawr yn ei deulu, megis gweddio gyda hwynt, a darllen yr Ysgrythyrau sanctaidd iddynt. Act. x. 1. Yr oedd Cornelius yn ŵr defosiynol, yn ofni Duw yn nghyd a'i holl dŷ, ac yn gweddio Duw yn wastadol. Jer. x. 25. "Tywallt dy lid ar y cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwasant ar dy enw." Jos. xxiv. 15. Ioan v. 39. Dat. i. 3.

2. Gwiliwch hefyd arnynt pa un a'u bod hwy yn cymeryd y cyfryw ofal ag a ddylent, yn ol gair Duw, i ddysgu eu plant yn addysg ac ofn, ffydd ac athrawiaeth yr Arglwydd. Eph. vi. 4. Deut. vi. 6, 7. "A bydded y geiriau hyn yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw, yn dy galon, a hyspysa hwynt i'th blant, a chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fyny." Diar. xxii. 6. 2 Tim. iii. 15.

3. Gwyliwch yn *fanol* arnynt, a ydynt yn sancteiddio dydd yr Arglwydd, ac yn ei barchu, rhag bod un aelod o fewn eich terfynau yn euog o ddyoddef eu plant, na neb o'u tylwyth, i halogi dydd yr Arglwydd.

RHEOL V.—*Yn nghylch gofalu am dlodion yr eglwys.*—Gwnewch eich goreu hyd y mae ynoch tuag at fod yn gydnabyddus a'r cyfryw aelod a fyddo o fewn eich terfynau, yn enwedig y cyfryw y tybygwch fydd trwy eu hymddangosiadau allanol yn dlawd ac yn anghenus, gan sefyll mewn diffyg o gynorthwy gan yr eglwys, "Os bydd yn dy fysg di un o'th frodyr yn dlawd o fewn un o'th byrth, yn dy dir, yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, na chaleda dy galon, ac na chau dy law oddiwrth dy frawd tlawd," Deut. xv. 7. "Eithr yr hwn sydd ganddo dda'r byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisiau, ac a gauo ei dosturi oddiwrtho ; pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?" 1 Ioan iii. 17. Ewch atynt ac ymddiddanwch a hwynt eich hunain, yn ol ymddangosiad eu cyflwr, gwnewch chwithau ef yn gydnabyddus i'r eglwys, gan annog eich brodyr allan o air Duw, i gyfranu yn rhwydd ac yn ewyllysgar o'u pethau tymhorol, er diwallu eu angenrheidiau presenol fel aelodau i'r Arglwydd Iesu, ac felly dwyn rhan o'u beichiau yn nydd eu cyfyngder. "Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly y cyflawnwch gyfraith Crist," Gal. iv. 2. "Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel pettech yn rhwym gyda hwynt." Heb. xiii. 3.

RHEOL VI.—*Yn nghylch cyflwr ysbrydol a phrofedigaethau ein gilydd.*—Ymofynwch hyd y mae ynoch am brofedigaethau y naill a'r llall, fel y gallech gynorthwyo eu gilydd ynddynt, fel y gweddai i gristionogion. "Gweddi ddyfal a wnaethpwyd gan yr eglwys at Dduw drosto ef," sef Pedr, Act. xii. 5. Mall aelod yw'r hwn ni theimla a bai yr aelodau eraill. "Pwy sydd wan, nad wyf finau wan? pwy a dramgwyddir, nad wyf finau yn llosgi?" 2 Cor. xi. 29. Ac os digwydda i un aelod gael ei daflu i lawr, yn anghysurus yn ei enaid, neu dan wan obaith, eich dyled yw myned at y cyfryw i geisio ei gynal, yn ol eich gallu a'ch gwybodaeth, ac hefyd ei gysuro a'i ddyddanu ef. "Ond yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr, rhybuddiwch y rhai afreolus, dyddanwch y gwan eu meddwl, cynheliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb, 1 Thes. v. 14. A gweddiwch gydag ef, a throsto ef hefyd; ac os na thycia hyny, rhaid myned a'i gyflwr i'r eglwys, fel y byddo iddi hithau weddio drosto ef, Act. xii. 5.

RHEOL VII.—*Yn nghylch galwedigaethau ein cydaelodau.*—Byddwch yn esiampl dda o dduwioldeb i'ch cydaelodau. "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd," Mat. v. 15. Ac hefyd byddwch yn ddiwyd yn y galwedigaethau neillduol a beunyddiol sydd genych i fyw wrthynt yn y byd. 1 Cor. vii. 17. "Megis y darfu i'r Arglwydd alw pob un, felly rhodied." Ac fel y mae'n ddyled arnoch chwi eich hunain, felly hefyd edrychwch at bob aelod gwryw a menyw, o fewn eich cyrhaedd, ar fod ganddynt rhyw alwedigaeth cyfreithlon a didramgwydd i fyw arno, oddieithr ei fod yn oedranus neu yn anhwylus, heb allu gweithio mewn un galwad; canys y mae segurdod yn un o bechodau Sodom, Ezec. xvi. 49., ac yn

Digitized by Google

gymhwysach i'w gyfrif ef gyda'r Sodomiaid, nag i'w ddyoddef mewn eglwys. Mae'n wrthwyneb i reol yr efengyl i'w ddyoddef, 2 Thes. iii. 10. "Os byddai neb ni fynai weithio, na chai fwyta chwaith." Nis gallwn addo i'n hunain ddim cysur oddiwrth gymundeb y cyfryw rai rhodresgar, afreolus, ond yn hytrach cywilydd a gwaradwydd yn mlynyddau eu hieuengctyd, a baich trwm i'r eglwys yn mlynyddau eu mhethiant a'u hoedran; am hyny ein dyled yw dal sylw ar y cyfryw mewn pryd, a'u rhybuddio hwy.

Rheol VIII.—*Yn nghylch y claf a'r cystuddiol mewn eglwys.*—Eich dyledswydd yw bod yn gydwybodol i ymweled a'r claf a'r cystuddiol. Iago v. 14. "A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed ato henuriaid yr eglwys; a gweddiant hwy drosto." Job ii. 11. "Canys hwy a gytunasent i ddyfod i gyd-ofidio ag ef, ac i'w gysuro." Mat. xxv. 36. "Bum glaf, ac ymwelsoch a mi;" yn enwedig y rhai y mae eu cyflyrau neu eu blinderau tu fewnol neu allanol yn gwneyd eu profedigaethau yn eu drygfyd yn ddyfnach ac yn drymach ar gyfrif y cyfryw amgylchiadau, sef y tlodion, yr amddifaid, y gweddwon, neu ddyeithriaid, a'r cyffelyb. Iago i. 27. "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn; Ymweled a'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Yn ol i chwi eich hunain gyflawni eich dyledswydd tuag atynt, rhaid i chwi wneuthur eu clefyd a'u cystudd yn gydnabyddus i'r eglwys, fel y byddo iddi hithau weddio drostynt, Iago v. 14, 16.

Rheol IX.—*Yn nghylch adeiladaeth eu gilydd yn neillduol.*—Eich dyled yw bod yn nghyd yn fynych mewn gweithredoedd o gymundeb ysbrydol er adeiladaeth eu gilydd. Judas 20. "Eithr chwy-chwi anwylyd, gan eich adeiladu eich hunain ar eich sancteiddiaf ffydd." 1 Thes. v. 11. "O herwydd paham y cynghorwch eich gilydd, ac adeiledwch bob un eich gilydd, megis ag yr ydych yn gwneuthur." Mal. iii. 16. Eph. iv. 16. I'r dyben hyn yr amser mwyaf cyfaddas yw diwedd dyddiau'r Arglwydd, tra na byddo yn rhwystro cyfarfodydd cyhoeddus. I bob rhai o fewn eich terfynau eich hunain alw ar enw yr Arglwydd. Mat. xviii. 19, 20. "Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd. Canys lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." I ddarllen gair Duw, Act. viii. 32. I ail adrodd pregethau, Heb. ii. 1 "Am hyny y mae yn rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli." I ganu mawl i'r Arglwydd. 1 Cor. xiv. 26. "Pan ddeloch yn nghyd, y mae gan bob un o honoch salm." I hyfforddi eich gilydd allan o air Duw, er cynydd cariad, gwybodaeth, profiadau, ymddiddan cristionogol, ac arfer y doniau a dderbyniwyd; i bob un roi dim cymhorth ag y gallo tuag at adeiladaeth y babell tra fo genym oedfa, oblegid ein hamser sydd fyr, a'n dyddiau yn ddrwg, gan hyny, bydded i'r rhan sy'n ol o'n bywyd gael ei dreulio i fyw i'r hwn a fu farw trosom. O na chydymffurfiwn a'r byd hwn, nag ag arferiadau'r bobl gnawdol sydd ynddo chwaith.

Rheol. X.—*Yn nghylch priodas.*—Dyled pob aelod yn arddel crefydd cristionogol yw gofalu am briodi yn yr Arglwydd, pan alwo Duw ef i newid ei gyflwr. 1 Cor. vii. 39. Gen xxxiv. 14. "Ni allwn wneuthur y peth hyn, gan roddi ein chwaer i wr dienwaededig; oblegid gwarthrudd yw hyny i ni." 2 Cor. vi. 14. "Na iauer chwi yn anghydmarus gyda'r rhai digred." Os digwydd fod un o fewn eich terfynau yn troseddu y rheol hon, trwy chwedleua ar gyfrif priodas a rhyw un cyfeiliornus yn ei farn, neu'n annuwiol a drwg yn ei fywyd, neu yn wrthwyneb i grefydd. Deut. vii. 4. "Canys efe a dry dy fab di oddiar fy ol i, fel y gwasanaethont dduwiau dyeithr." Neh. xiii. 28. "Ac un o feibion Joiada, mab Eliasib, yr archoffeiriad, oedd ddaw i Sambalat yr Horoniad; yr hwn a ymlidiais i oddi wrthyf." Dylid rhybuddio'r cyfryw o'r bai, ac oni thycia hyny, ei fynegi ef i'r eglwys.

*Holiadau neu gwestiynau buddiol i'w gofyn i swyddogion eglwysig, ar gyrddau neillduol mewn trefn i chwilio allan pwy sydd yn ein mysg yn esgeuluso'r rheolau hyn.*

1. A wyddoch chwi fod neb yn byw yn anaddas i'r efengyl, neu yn dramgwyddus yn eu bywyd o fewn eich terfynau chwi?
2. A wyddoch chwi am neb sy'n anesmwyth, ac yn ceisio ymranu neu neillduo oddiwrth yr eglwys, o fewn eich terfynau chwi?

Digitized by Google

3. A wyddoch chwi fod neb o'r aelodau yn euog o esgeuluso addoliad Duw yn y gymanfa gyhoeddus, neu Swper yr Arglwydd, na'r owrdd neillduol, o fewn eich terfynau?

4. A wyddoch chwi fod neb o'r aelodau ag sydd yn benteuluoedd, yn euog o esgeuluso addoliad Duw yn eu teulu, neu adael eu plant heb eu dysgu yn athrawiaeth yr Arglwydd, neu'n halogi y dydd Sabboth?

5. A wyddoch chwi am neb dan amheuaeth, neu ryw dan brofedigaeth anarferol arall, o fewn eich terfynau?

6. A wyddoch chwi a oes neb yn byw yn rhodresgar a gwag-siaradus segur, ac allan o alwedigaeth onest i fyw arni, o fewn eich terfynau chwi?

7. A wyddoch chwi a oes neb o'r aelodau yn dlawd, yn sefyll mewn diffyg o gynorthwy'r eglwys, a fuoch chwi yn ymresymu a'r cyfryw yn nghylch eu cyflwr?

8. A wyddoch chwi a oes neb yn glaf ac yn gystuddiol, o fewn eich terfynau chwi?

9. Pa mor fynych a threfnus yr ydych yn dyfod diwedd dydd yr Arglwydd, er adeiladaeth eich gilydd.

10. A wyddoch chwi a oes neb o'r aelodau yn chwedleua ar gyfrif priodas, a'r rhai annuwiol a gwrthwyneb i grefydd, o fewn eich terfynau chwi?

Fel y dywedasom eisioes, nis gwyddom amser marwolaeth Mr. Lewis Davies, ond y mae genym sicrwydd iddo gael ei ddilyn yn y weinidogaeth tua 1712, gan Mr. David Thomas. Yr oedd yr eglwys yn Nhy'rdwncyn er y flwyddyn 1662, os nad cyn hyny, yn un a'r eglwys yn y Chwarelaubach, Castellnedd, ond tua'r flwyddyn 1720, neu yn fuan ar ol hyny, cafodd y cylch gweinidogaethol eang hwn, yr hwn hyd yn hyn a gyrhaeddai o Flaengwrach, yn mhen uchaf Glynnedd, hyd Gasllwchwr, ei ranu yn dri. Urddwyd Mr. Henry Davies yn Mlaengwrach, a Mr. Samuel Jones yn Nhy'rdwncyn a'r canghenau yn Nghasllwchwr, y Cwmmawr, a'r Ysgetty, a chyfyngwyd llafur Mr. David Thomas i Gastellnedd, a'r gymydogaeth. Mae yn debygol fod Mr. Thomas Davies erbyn hyn, naill ai wedi marw neu wedi symud i ryw gylch arall. Nis gwyddom y flwyddyn yn gywir y dechreuodd Mr. Samuel Jones ei weinidogaeth yn Nhy'rdwncyn, ond yr ydym yn barnu iddo ei dechreu yn fuan ar ol 1720. Yr oedd yn hen wr oedranus yn 1759, pryd y daeth Mr. Lewis Rees, o Lanbrynmair, i gydweinidogaethu ag ef. Yn fuan ar ol sefydliad Mr. Rees yn y lle, fe adfywiodd yr achos yn fawr. Adeiladwyd capel y Mynyddbach yn y flwyddyn 1762, ei faint oedd 45 troedfedd wrth 24 o fewn y muriau. Testyn cyntaf Mr. Rees yn Nhy'rdwncyn ydoedd, Act. x. 29 "O ba herwydd, ie, yn ddinag y daethum, pan anfonwyd am danaf; yr wyf gan hyny yn gofyn am ba achos y danfonasoch am danaf." Parhaodd Mr. Rees yn ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb yn y cylch pwysig hwn nes i lesgedd henaint ei analluogi. Yn y flwyddyn 1770, adeiladwyd capel yn yr Ysgetty, ac yn 1782, un arall yn Nhreforis. Yn y flwyddyn 1777, cymerodd peth lled anghyffredin le yma. Yr oedd tri gwr perthynol i'r gynnulleidfa, sef Meistri Robert Terry, Penlle'rmarch; John Rosser, Wigucha', a John Mathew, Tregernydd, yn ddiwygwyr blaenllaw—pell o flaen eu hoes. Gwrthodasant dalu treth eglwys, ac mewn canlyniad taflwyd hwy i lys Esgob Tyddewi, a chawsant eu hysgymuno. Peth difrifol iawn yw ysgymundod Eglwys Loegr; gan ei fod yn amddifadu y rhai fyddo dano o'u hawliau fel gwladwyr, ac yn eu gosod allan o nodded cyfraith y tir, fel y gallo pob dihyryn ymddwyn tuag atynt fel y myno, heb neb yn gallu ei alw i gyfrif. Pan daflwyd y tri wyr hyn i'r fath amgylchiad enbyd, cymerodd eu gweinidog eu hachos mewn llaw Ysgrifenodd at ei fab, Dr. Abraham Rees, yr hwn, trwy gydweithrediad Bwrdd y Tri enwad yn Llundain, a osododd yr achos ger bron y brenhin, ac yn ddioed derbyn-

Digitized by Google

fodd ei Arglwyddiaeth o Dyddewi, orchymyn brenhinol i ddadysgymuno y tri gwr. Dichon mai dyma yr engraifft olaf yn Nghymru o ysgymundod esgobol.

Pan oedd Mr. Rees wedi myned dros bedwar ugain mlwydd oed, ac wedi llafurio yn ddiattal yn y weinidogaeth am fwy na thriugain mlynedd, teimlai ei fod yn analluog i lenwi ei gylch eang yn y Mynyddbach, yr Ysgetty, Treforis, ac amryw leoedd eraill yn yr ardal, lle y byddai yn arfer pregethu yn rheolaidd; gan hyny, anogodd y bobl i edrych allan am weinidog ieuengach. Buasai yn fwy cydweddol a theimladau yr hen weinidog parchus, pe buasai pobl ei ofal yn dewis ei fab-yn-nghyfraith, Mr. John Davies, Llansamlet, yn gynorthwywr iddo, yn hytrach nag edrych allan am neb arall, a buasai hyny yn eistedd yn esmwyth ar deimladau lleiafrif lluosog o'r eglwys, ond yr oedd teimlad y mwyafrif am gael gweinidog mwy poblogaidd ei ddoniau na Mr. Davies, a rhoddodd y gweinidog oedranus a'r lleiafrif o'r eglwys, ffordd iddynt. Rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. David Davies, Llangeler, a'r hon y cydsyniodd. Dechreuodd ei weinidogaeth yma yn y flwyddyn 1795. Arferid dyweyd a chredu mai fel cydweinidog a Mr. Rees y daeth Mr. Davies i'r Mynyddbach a'r Ysgetty, ac nid fel ei ganlynydd; ond mewn llawysgrifen, o gyfansoddiad rhagorol, wedi ei llawnodi gan swyddogion eglwys y Mynyddbach, ar yr 16eg o Fedi, 1802, cawn, yn mysg pethau eraill, yr hyn a ganlyn:— "Tua diwedd y flwyddyn 1794, neu ddechreu 1795, hysbysodd Mr. Rees, yn gyhoeddus o'r areithfa, yn mhresenoldeb canoedd o bobl, fod ei oed a'i lesgedd ef yn ei gwneyd yn angenrheidiol iddo roddi gofal gweinidogaethol yr eglwysi i fyny, yr hyn a wnaeth y pryd hwnw, ac anogodd ni i ddewis gweinidog arall. Yr oedd efe amryw weithiau cyn hyn wedi hysbysu ei fwriad i wneuthur felly, ond perswadid ef dro ar ol tro gan y gynnulleidfa i beidio. Mewn canlyniad i'w waith ef yn rhoddi y weinidogaeth i fyny, ni a roddasom alwad i Mr. David Davies, Llangeler, i ddyfod yn weinidog i ni, ar gymeradwyaeth ac yn ol cydsyniad Mr. Rees, yr hwn ei hun a lawnododd yr alwad."

Pan aeth y son allan fod cais wedi ei anfon at Mr. Davies i symud, parodd gyffroad mawr trwy'r eglwysi yn siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, ac yn enwedigol yn ei eglwysi ef ei hun. Cynhyrfwyd eglwys y Neuaddlwyd braidd i ddigofaint, fel yr ysgrifenodd y llythyr llym a cheryddol canlynol at eglwys y Mynyddbach:—

"Frodyr Cristionogol yn y Mynyddbach.—Yr ydym yn anfon yr anerchiad hwn atoch gyda dymuniad am eich llwyddiant yn ysbrydol a thymhorol. Er fod ein helyntion fel eglwysi wedi bod i raddau yn anhysbys y naill i'r llall hyd yn awr, yr ydym yn cymeryd yn ganiataol nad ymddengys yn ddyeithr i chwi ein bod yn bresenol yn eich anerch, gan i'r pleidgarwch a'r hunanles a amlygir genych wrth geisio cymeryd oddi wrthym ein gweinidog, Mr. D. Davies, roddi achlysur i ni i wneyd hyn. Nid ydym am ei gwbl ryddhau ef o fai, gan iddo roddi mesur o wrandawiad i'ch cymhellion chwi cyn ymgynghori a phobl ei ofal, y rhai a'i galwasant allan gyntaf i'r weinidogaeth, ac eiddo pa rai ydyw mewn modd penodol. Yr ydym yn dal ar y cyfle yma i ymresymu a chwi mewn modd gonest a didderbynwyneb. Yn gyntaf, ystyriwch mai nid ymddygiad brawdol yw cyflogi dyn cyn y byddo amser ei wasanaeth drosodd gydag arall, ac heb ymgynghori dim a'r hwn sydd a hawl ganddo i'w wasanaeth. Ymddygiad yw hwn a gondemnir hyd y nod gan ddynion y byd; oni ddylech chwi, gan hyny, gywilyddio o'i blegid? Yn ail, gan eich bod chwi wedi mabwysiadu dull anmhriodol i geisio denu Mr. Davies i ddyfod atoch; os bydd i chwi lwyddo yn eich amcan, a thrwy hyny, amddifadu dwy eglwys luosog o wasanaeth eu hanwyl weinidog, y rhai yn ddiweddar a



Digitized by Google

luosogwyd yn fawr trwy fendith Duw ar ei ymdrechion ffyddlon a llafurus ef, ystyriwch y fath gyhuddiad pwysig y bydd/wch yn gorwedd dano; y fath euogrwydd blin a lyn wrthych i derfysgu eich meddyliau; a'r fath dal annheilwng a roddwch i'r dlwy eglwys hyny am alw i'r weinidogaeth y fath bregethwr llwyddianus ag ydyw ef. Nid oes neb a all ddyweyd eich bod yn rhodio yn uniawn, ac yn ymddwyn yn ddidramgwydd, wrth geisio denu gweinidog eglwysi eraill i ddyfod atoch chwi, gan adael yr eglwysi hyny i ymdaro fel y gallont. Nid ffordd tangnefedd, deddf cariad, na chyfraith Crist yw hyn. Nid ydym ni yn dewis dilyn eich esiampl chwi trwy ddymuno i chwi fod heb weinidog, a llawenhau am eich bod yn ddigynorthwy; ond nis gallwn mewn un modd deimlo yn foddlawn i chwi gymeryd ein gweinidog ni.

Er ei bod yn amlwg eich bod chwi yn sefyll mewn angen o gynghor, peth arall ydyw a fyddwch yn ewyllysgar i ddilyn y cynghor goreu a ellid roddi i chwi. Yr oll a allwn ni wneuthur drosoch ydyw eich gorchymyn chwi a'ch helyntion i ofal y Duw Hollalluog, i arweiniad ei Air a'i Ysbryd sanctaidd, ac i weddiau a chyfarwyddiadau dynion duwiol, fel y byddo i chwi a ninau fyw mewn heddwch a chydgordiad, rhodio mewn cariad, a marw mewn gobaith o wynfyd tragwyddol.

Hyn yn gywir a brawdol, oddiwrth aelodau eglwys Crist, cynnulledig yn y Neuaddlwyd.

Evan Thomas Evan,<br>James Evan,<br>John Jenkin, } Henuriaid.

James William,<br>Evan David,<br>James Thomas, } Diaconiaid."

Er i symudiad Mr. Davies fod yn ddolur mawr i deimladau ei eglwysi, a lluaws eraill yn siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, ac i'w deimladau ei hun yn fwy na neb arall; etto dangosodd y canlyniad iddo wneyd yr hyn oedd unol ag ewyllys ei Arglwydd. Yr oedd Abertawy a'i hamgylchoedd poblog yn llawer eangach, pwysicach, a chyfaddasach cylch i weinidog o'i gymhwysderau ef, na'r holl wlad o Langeler i Aberaeron.

Cyn gynted ag yr ymsefydlodd Mr. Davies yn y lle, adfywiodd yr eglwys, a chynyddodd y gwrandawyr yn ddirfawr, fel y bu raid helaethu y capel yn y flwyddyn 1797. Ei faint, fel y nodasom, pan adeiladwyd ef yn 1762, oedd 45 troedfedd wrth 24, ond yn 1797, gwnaed ef yn 51 wrth 35, fel yr oedd yn un o'r capeli helaethaf yn Nghymru y pryd hwnw. Gan i weinidogaeth danllyd ac effeithiol Mr. Davies, fod yn offerynol i ychwanegu lluaws at yr eglwysi, a bod capel eang Ebenezer yn y dref, yr hwn a adeiladwyd yn 1803, yn gofyn am ei wasanaeth yn fynych, bu raid iddo ef a'r eglwysi edrych allan am gynorthwywr yn y weinidogaeth. Yn 1808, rhoddwyd galwad i Mr. Daniel Evans, Bangor, a'r hon y cydsyniodd. Daeth ef a'i deulu yma, Mehefin 20fed, 1808. I fod yn gydweinidog a Mr. Davies y galwyd Mr. Evans yma, ond cafwyd allan yn fuan mai y cynllun mwyaf cysurus i'r gweinidogion a'r eglwysi, oedd rhanu maes y llafur, a rhoddi i bob gweinidog ei ran ei hun. Felly cyfyngodd Mr. Davies ei lafur i'r Dref, Clydach, a'r Ysgetty, a Mr. Evans, i'r Mynyddbach a Threforis. Yn fuan drachefn, helaethodd cylch Mr. Evans yn ddirfawr, pan aed i alw am bregethu cyson yn Nglandwr, Llansamlet, a'r Felindre'. Wedi marwolaeth Mr. Davies, disgynodd gofal y ddiadell fechan yn Nghlydach arno, ac ar ol i'r holl ganghenau hyn fyned yn annibynol ar y fam-eglwys, yr oedd yn rhaid iddo dori bara yn y naill le a'r llall bob Sabboth, a dwy waith bob yn ail Sabboth. Yr oedd ei lafur yn awr yn ddirfawr, trwy ei fod yn gorfod pregethu dair gwaith bob Sabboth, a bod yn bresenol mewn cynifer o gyfarfodydd eglwysig, angladdau, &c. Bu farw y gweinidog defnyddiol a llafurus hwn, Mawrth 3ydd, 1835.

Wedi marwolaeth Mr. Evans, rhanwyd ei gylch gweinidogaethol yn bedwar. Dewisodd yr eglwysi yn Nhreforis, Glandwr, a'r Felindre', weinidogion iddynt eu hunain, a chan fod yn y fam-eglwys yn y Mynydd-bach rhwng tri a phedwar cant o aelodau, yr oedd yn ddigon galluog i gynal gweinidog ei hun. Yn nechreu y flwyddyn 1836, rhoddwyd galwad i Mr. Isaac Harris, Talysarn, Arfon, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Mai y flwyddyn hono. Yr oedd Mr. Harris yn bregethwr galluog iawn, a bu yn dra llwyddianus yma am tua dwy flynedd. Yna cafwyd allan nad oedd ei fuchedd yn deilwng o weinidog yr efengyl, a'r canlyniad fu i'r eglwys fyned i gyflwr terfysglyd a rhanedig iawn. Gwrthwynebai rhai y gweinidog yn benderfynol, ac yr oedd eraill yn gwrthod credu y cyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn, ac am hyny, yn ei bleidio. Y canlyniad fu i'r eglwys rwygo—aeth dau cant a phedwar-ar-bymtheg o'r aelodau allan gyda Harris, ac adeiladasant gapel eang yn y gymydogaeth. Aeth Harris yn fuan yn rhy ddrwg i'w bleidwyr ei hun i'w ddyoddef, a bu raid iddynt ymwrthod ag ef. Yna cynygiasant eu hunain i gyfundeb y sir, a phan ddarfu i'r gymanfa yn y Taihirion yn Mai, 1841, eu gwrthod, cynygiasant eu hunain i'r Bedyddwyr, a chymerodd y rhan fwyaf o honynt eu trochi. Dyna ddechreuad yr achos yn Nghaersalem newydd. Yr oedd yn eu mysg lawer o ddynion da, ac y mae yn ddiameu pe buasid ychydig yn fwy tirion a phwyllog, y gallesid eu cadw gyda'r Annibynwyr hyd y dydd hwn. Yr oedd, ac y mae, yr ardal yn ddigon poblog i gynal dau achos. Yn Mai, 1840, dechreuodd Mr. John Davies, Aberdar, ei weinidogaeth yn y Mynyddbach. Yr oedd yr hen eglwys hon yn awr, trwy y rhwygiad diweddar, ac ymadawiad tua thriugain o'r aelodau i ddechreu yr achos yn Nghadle, wedi myned yn wan a chydmarol fechan. Dywed Mr. Davies, mai cant ac ugain oedd rhif yr aelodau pan ddechreuodd ef ei weinidogaeth yma. Cynyddodd wedi hyny yn raddol fel yr oedd y rhif yn fwy na dau gant cyn marwolaeth Mr. Davies, yn 1854. Yn y flwyddyn 1855, rhoddwyd galwad i Mr. John Daniel, aelod gwreiddiol o'r Bryn, Llanelli, y gweinidog presenol. Yr oedd Mr. Daniel wedi ei urddo yn America; a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad yma Hydref 17eg a'r 18ed, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Evans, Clydach; H. Evans, Carmel; J. Davies, Cwmaman; D. Rees, Llanelli; W. Watkins, Maesteg; T. Davies, Siloa, Llanelli; J. Thomas, Bryn; W. Jones, Abertawy; J. Thomas, Glynnedd; T. Davies, Treforis; L. Davies, Ysgetty, a J. Joseph, Llanedi. Mae Mr. Daniel wedi llanw ei le yn deilwng yma, a'r achos yn myned rhagddo yn ddymunol. Yn y flwyddyn 1860, adeiladwyd ysgoldy cyfleus ar y Drefboeth at gadw Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol. Mae yn 48 troedfedd o hyd wrth 20 o led. Bwriadwyd ef at gynal Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol. Mae tua chant a haner o blant ac eraill yn mynychu yr Ysgol Sabbothol a gedwir yma, a chan fod y lle mewn ardal sydd yn cynyddu yn gyflym yn ei phoblogaeth, mae yn dra thebyg y corpholir eglwys yma cyn pen llawer o flynyddau. Yn y flwyddyn 1865, tynwyd yr hen addoldy i lawr, ac adeiladwyd tŷ newydd, 56 troedfedd o hyd wrth 38 o led, y tu fewn i'r muriau. Gellir dyweyd yn ddibetrus, nad oes yr un capel harddach a mwy cyfleus na hwn yn yr holl Dywysogaeth. Y cynllunydd oedd Mr. J. Humphreys, un o ddiaconiaid yr eglwys, ac y mae Mr. Humphreys wedi cynllunio ac adeiladu amryw gapeli yn y gymydogaeth, heblaw y Mynyddbach. Amgylchynir y capel gan fynwent eang, yr hon a helaeth-

wyd yn fawr yn y flwyddyn 1850. Cafwyd tir gan Esgob Tyddewi at ei helaethu. Hyd prydles y capel yw, mil ond un o flynyddau, o ba rai y mae cant a naw wedi pasio.

Cafodd yr eglwys hon ei bendithio yn rhyfeddol, o bryd i bryd, a diwygiadau crefyddol nodedig o ddylanwadol a grymus. Nid oes genym ddefnyddiau i roddi hanes yr hyn a gymerodd le yma o ddechreuad yr achos hyd ddechreuad gweinidogaeth Mr. Lewis Rees, ond o hyny allan y mae genym hanes lled gyflawn. Nid oedd yr achos ond cymharol wan yma pan ymsefydlodd Mr. Rees yn y lle, er fod pregethu cyson yn cael ei gadw i fyny mewn gwahanol gyrau o'r ardal, heblaw Ty'rdwncyn, megis yn yr Ysgetty, y Wiguchaf, a'r Tycoch, gerllaw Treforis. Yn fuan wedi i Mr. Rees ddyfod i'r lle, cafwyd ychwanegiadau cyson at yr eglwys, nes y daeth mewn ychydig flynyddau yn eglwys luosog a dylanwadol. Yn mhen ychydig flynyddau wedi i Mr. Rees ddyfod yma, derbyniwyd dyn hynod iawn, dan amgylchiadau tra nodedig, i gymundeb yr eglwys. Ei enw oedd Roger Rogers, neu "Rotch o Gadle," fel y gelwid ef yn gyffredin. Yr oedd y gwr hwn yn more ei oes, ac yn mhell hyd at ganol ei ddyddiau, wedi bod yn nodedig o wyllt ac afreolaidd ei fywyd, fel meddwyn, ymladdwr, a digrif-ddyn. Trwy ryw foddion anhysbys yn awr, gweithiwyd argyhoeddiad ofnadwy o effeithiol o bechadurusrwydd ei gyflwr i'w feddwl. Teimlai ei gydwybod yn llosgi fel tân o'i fewn nes oedd ei boenau yn anoddefol. Elai oddiamgylch fel dyn gwallgof, a gofynai i bob un a gyfarfyddai a wyddent hwy am ryw foddion i ddiffoddi tân cydwybod euog. Aeth un bore Sabboth i eglwys Llangafelach, a chyfarfyddodd yno a'r person a'r clochydd. Dywedodd ei helynt wrthynt, ond nid oedd ganddynt hwy un cyfarwyddyd i'w roddi iddo amgen na'i gynghori i fyned at Mr. Lewis Rees, fel y dyn tebycaf yn y plwyf o allu ei wellhau. Dilynodd eu cynghor. Deallodd Mr. Rees ar unwaith natur ei glefyd a chyfarwyddodd ef at yr unig feddyginiaeth. Pan yr oedd Mr. Rees ar ei liniau yn gweddio drosto, teimlai loesion ei gydwybod yn dofi i raddau. Yn mhen ychydig derbyniwyd ef i aelodaeth eglwysig, a threuliodd weddill ei oes yn gristion disglaer, ac yn ddiarhebol am ei wresogrwydd. Byddai yn fynych yn tori allan i waeddi dan y bregeth, "O diolch, y mae yn gan mil gwell yma nag yn y dafarn." Dywedai Mr. Rees wrtho weithiau ar ganol y bregeth, "Taw Rotch, fy nhro i sydd i siarad yn awr." Ychydig a wyddai ac a deimlai Rotch am enwadyddiaeth. Byddai yn gwrandaw ac yn cymuno gyda'r Annibynwyr a'r Methodistiaid yn ddiwahaniaeth. Lle byddai fwyaf o dân oedd y lle a hoffai ef. Adroddir fod rhai o gymydogion Rotch wedi achwyn arno wrth feistr y gwaith ei fod gyda'i folianu a'i orfoleddu yn aflonyddu arnynt hwy. Galwodd ei feistr ef ato i'r swyddfa ryw ddiwrnod, a gofynodd iddo beth oedd hyn. Atebodd Rotch nad oedd neb o honynt yn achwyn arno pan oedd yn tyngu a rhegi, a meddwi, ac ymladd nes dychrynu pawb o'i gwmpas; ond yn awr, pan oedd e yn gweddio ac yn canmol ei Dduw, eu bod yn achwyn arno. "Wel Rotch," ebe ei feistr, "rhaid i ti beidio a dy stwr, a bod yn ddistaw gyda dy grefydd fel pobl eraill." "Alla i ddim syr," atebai Rotch. "Beth wedsech chwi syr tyswn i yn myned yn llaw y swyddog i'r carchar am ddyled, a chwithau yn dod i'n cwrdd ni, ac yn gofyn iddo, ble yr oedd e yn myn'd a fi; ac wedi cael gwybod yn talu drostw i, ac yn fy ngollwng i yn rhydd. Odych chi yn meddwl, syr, y gallaswn i beidio a'ch canmol wrth bawb. O! syr, yr own i yn llaw cyfiawnder, yn ymyl drws y carchar, ar gael y

Digitized by Google

mwrw i mewn; ond fe ddaeth Iesu anwyl yn mlaen, ac a 'wedodd wrth gyfiawnder am fy ngollwng i yn rhydd, y talsa ef fy nyled. Ych chi yn meddwl, syr, y galla i beidio a'i ganmol—Bendigedig fyddo ei enw." A chyda hyny, dechreuodd ei folianu yn swyddfa ei feistr, ac yr oedd llygaid y boneddwr yn llenwi o ddagrau wrth ei wrando, ac ni feddyliodd byth mwy am ei wahardd, canmoled a molianed a fynai. Mae lluaws o engreifftiau cyffelyb o angerddoldeb ei deimlad, yr hyn a ddangosai mor ddwfn a gwirioneddol oedd ei argyhoeddiad. Bu farw yr hen gristion nodedig hwn Rhagfyr 6ed, 1821, yn 78 oed. Ei gyfansoddiad ef yw y penillion canlynol o berthynas i'w droedigaeth a'i brofiad. Ni ddigwyddodd i ni weled dim arall o'i waith.

"Pan o'wn i ar fy ngwely,—Un prydnawn, &c.,
Heb feddwl dim ond pechu,—Un prydnawn,
Fe ddaeth ei danllyd saethau,
Y ddeddf a'i dychryniadau,
I'm tori lawr yn ddiau,—Un prydnawn, &c.,
A gado'm holl bleserau.—Un prydnawn.

O Iesu, mhriod hawddgar,—Diolch byth, &c.,
Ddanfonodd Duw i'r ddaear,—Diolch byth,
Fe lanwodd y cysgodau,
Cyflawnodd y 'Sgrythyrau,
Bu farw dros fy meiau,—Diolch byth, &c.,
Mae'n eiriol dros bechodau,—Diolch byth.

Ceir gwel'd yr arfaeth foreu,—Cyn b'o hir, &c.,
Yn esgor ar ei pherlau.—Cyn b'o hir,
Fe gwyd y meirw allan,
Daw'r defaid idd ei gorlan,
Trwy waed y bugail cadarn,—Cyn b'o hir, &c.,
Er gwaethaf dyfais Satan,—Cyn b'o hir.

Ni feddai'n wyneb angau,—Ond efe, &c.,
Pan elwyf i'r clorianau,—Ond efe,
Mi fentra yn ei glwyfau,
Heb ddim o'm cyfiawnderau,
Ni feddai ddim yn bwysau,—Ond efe, &c.,
Pan elwy' i o flaen y frawdle,—Ond efe.

Fe'm prynodd o gaethiwed,—Do yn wir, &c.,
O ddwylo'r hen gythreuliaid,—Do yn wir,
O blith y *criw* uffernol.
Oddiwrth euogrwydd damniol,
Fe'm golchodd yn y ffynon,—Do yn wir, &c.,
Addawodd i mi goron,—Do yn wir."

Mae yn ddiameu mai nefoedd ar y ddaear oedd gwrandaw yr hen bererin yn datganu y penillion hyn yn y teimlad a'i nodweddai ef.

Yn fuan wedi i Mr. Rees symud o Lanbrynmair, daeth gwr ieuangc o'r eglwys hono ar ei ol i'r ardal hon, er mwyn cael mwynhad o'i weinidogaeth. Ei enw oedd William Jones. Cafodd le mewn swyddfa yn Abertawy i ennill ei fywioliaeth, a threuliodd weddill ei oes yma. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, ac yn ddyn nodedig o grefyddol. Elai i fyny o'r dref i'r Mynyddbach bob Sabboth, ac yr oedd yn cyrhaedd yno tuag awr cyn pryd oedfa, er mwyn darllen ychydig benodau i bobl y wlad a ddeuant yno yn gynar. Aeth darlleniadau William Jones, gydag amser, mor boblogaidd a'r pregethau, a byddai y capel yn orlawn yn gyffredin erbyn y buasai yno. Arferai y gwr da hwn ysgrifenu pob pregeth a wrandawai, ac yn neillduol pregethau ei hoffus weinidog, y rhai a gofnodai agos air

Digitized by Google

yn ngair. Mae tair cyfrol o'i ysgrifeniadau yn ein meddiant ni yn awr, sef y pregethau a wrandawodd yn y blynyddoedd 1764, '65, '66 a '78. Heblaw y pregethau, cynwysa y cyfrolau gwerthfawr hyn lawer o nodiadau hanesyddol a phrofiadol o eiddo yr ysgrifenydd. Yr oedd yr achos yn y Mynyddbach yn y blynyddoedd hyn, yn ol tystiolaeth William Jones, yn rhyfeddol o lewyrchus. Ar ddiwedd ei gofnodiad o bregeth Mr. Rees, oddiar Esaiah xliv. 5., ar Sul cymundeb, Chwefror 10fed, 1765; ysgrifena, "Heddyw yr oedd un-ar-ddeg o aelodau yn cael eu derbyn i mewn i'r gynnulleidfa—saith o ferched ifainc, a dau ŵr ifanc, a dwy wraig newydd briodi. Duw a wyr pa faint o honynt oedd mewn undeb dirgelaidd a Iesu Grist. Rhwng y bregeth a'r ordinhad efengylaidd o Swper yr Arglwydd, ynghyd a'r olwg ddymunol o weled cynifer o ddynion ifainc yn ymofyn y ffordd tua Sïon, a'u hwynebau (mewn golwg allanol o'r hyn lleiaf,) tuag yno. Rhwng y naill beth a'r llall, meddaf, ni a gawsom un o'r oedfeydd mwya' dymunol ag a gefais erioed, a hyn oedd cyfaddefiad neillduol amryw eraill. O Dduw na âd i'n mwynder ni ymado, ond helpia ni, yn enwedig y rhai ifainc, i ddal ein ffordd ac i chwanegu cryfder. O Arglwydd na chaffer fi, yr hwn wyf yn awr er's rhai blynyddoedd wedi cyfenwi fy hun ar enw Israel, a rhoi fy hunan i ti, yn byw yn segur nac yn ddiffrwyth yn dy winllan di. Amen." Mawrth 10fed, 1765, ar ol pregeth Mr. Rees, oddiar Phil. iii. 8. Ysgrifena, "Yn wir, y mae genyf achos mawr i gwyno am fy nghalongaledwch dan y gyfryw weinidogaeth wresog ac efengylaidd. Heddyw y derbyniwyd Pally Rees* i'r gynnulleidfa, ac o mor serchiadol, mor ddifrifol, ac mor syml, yr oedd ei thad yn ymddiddan a hi, yn mhlith eraill, a hithau newydd wella ychydig ar ol bod yn glaf. Duw bendithia y naill beth a'r llall iddi hi, ac i ninau hefyd, i'n dwyn yn nes atat ti dy hun." Ar ol cofnodiad helaeth o bregeth gan Mr. John Powell, Henllan, oddiar Salm lxxxvii. 5. Sylwa, "O mor hyfryd oedd hi wrth gyfranu y Sacrament, pan oedd Mr. Rees yn holi ac yn rhybuddio y llangc ifanc oedd yn cael ei dderbyn i mewn. Fe fyddai yn dda genyf, debygwn weithiau, pe byddwn i yn un bob tro yn cael fy nerbyn i mewn, pan fwyf yn gwrando ar ein gweinidog anwyl a pharchedig yn cynghori, yn annog, ac yn gweddio dros y brodyr a'r chwiorydd fo yn cael eu derbyn i mewn, yn enwedig y rhai ifainc." Mae yn ymddangos fod y deng-mlynedd-ar-hugain cyntaf o dymhor gweinidogaeth Mr. Rees yn y Mynyddbach, yn ysbaid o lwyddiant graddol a chyson, ond yn y chwe' mlynedd blaenorol i sefydliad Mr. D. Davies, yr oedd yr achos yn hytrach yn dadfeilio, o herwydd methiant Mr. Rees gan henaint, a'r gradd o oerni oedd rhyngddo a'r eglwys ar gyfrif eu hanewyllysgarwch i dderbyn ei fab-yn-nghyfraith i fod yn gydweinidog ag ef.

Yn ddioed ar sefydliad Mr. Davies yn y lle, adfywiodd yr achos yn anghyffredin, ac ychwanegwyd canoedd yma, ac yn yr Ysgetty mewn ychydig amser. Yn y flwyddyn 1807, torodd diwygiad nodedig o rymus allan. Yr oedd y dylanwadau mor nerthol nes y byddai y bobl yn aros yn y capeli hyd haner nos i ganu, wylo, a gweddio, a byddent drachefn yn finteioedd wrth fyned adref yn aros yma a thraw i weddio. Cafodd llawer o'r dynion mwyaf annuwiol yn yr ardal eu hennill at grefydd yn y diwygiad hwn. Mae rhanau o'r gân a gyfansoddodd Mr. Davies mewn cyfeiriad ato yn deilwng o'u cofnodi yma.

* Merch Mr. Rees, y gweinidog, ac wedi hyn, gwraig Mr. John Davies, Llansamlet.

Digitized by Google

"Treforis yn ddiweddar, ga'dd brawf o nafar Duw,
Trwy ei ymweliad grasol, gwnaeth lawer marw'n fyw;
Rhai hen a chanol oedran, ac hefyd ieuengctyd man,
Achubwyd rhai ugeiniau rhag myn'd i uffern dân;
Fe gerddai'r awel rymus i fyny ac i lawr,
A'i thro trwy Abertawy nes briwio muriau mawr;
Ac hefyd Llangafelach o amgylch Mynyddbach,
Cawd yn Nghwmbwrla berlau, fydd byth yn berffaith iach.

Y Gwr a'r bwa ganddo, a lwyddodd ar ei farch,
Nes gwneuthur rhai gelynion o'u bodd roi iddo barch;
Rhai canoedd ga'dd eu cymhell i mewn i eglwys Dduw,
A welwyd yn ddiweddar ar faes y byd yn byw.
Mae rhai o'r cablwyr creulon, gelynion gwaethaf gaed,
Yn moli Duw yn uchel am iachawdwriaeth rad,
A lifodd fel yr afon rhwng lladron ar y bryn,
I olchi'r rhai ffieiddiaf mor lân a'r eira gwyn."

Yn ddioed ar ol y diwygiad tanllyd hwn, ysgubwyd llawer iawn o'r trigolion ymaith gan angau, yn enwedig yn Nhreforis. At hyny y cyfeiria y penillion canlynol o'r gân rag-grybwylledig.

"Mi edrychais, ac a welais, wr arall ar y ma's,
Yn tramwy trwy'r ardaloedd ar farch oedd welw las;
A rhoddwyd iddo awdurdod ar bob peth dan y nef,
Ac uffern ddu anhoffaidd yn canlyn gydag ef.
Ar dro daeth i Dreforis, fel gwr awyddus iawn,
I gwblhau gwaith ei Arglwydd yn ddiwyd fore a nawn;
Fe gwympodd frodyr gwrol oedd gu ac anwyl im',
A'u dodi mewn modd buan yn fud heb yngan dim.

Mi gollais eu cyfrinach, fu'n bleser lawer gwaith,
Ni welais byth o'u hwyneb o fewn i'r anial maith;
Aethant yn ngoleu'r haulwen, trwy'r hen Iorddonen ddu,
Maent 'nawr yn canu'r anthem yn nhref Caersalem fry.
Hwy dd'wedent yn dra eglur cyn myn'd o'r corph i ma's,
Fod Iesu Grist yn ddigon yn ngwyneb angau glas;
'Mae'r ffordd o'n blaen yn oleu, ni welwn dir ein gwlad,
Er maint yw grym y tonau, mae'r graig o dan ein traed.'

Ca'dd hefyd famau yn Israel, eleni eu tori lawr,
A'u symud mewn modd sydyn i'r tragwyddoldeb mawr;
Ni welai ddim o'u hwyneb o fewn i'r eglwys mwy,
Nes delo'r awr i ymddatod, gael myned atynt hwy.
Rhyw lawer welai'n eisiau, oedd llynedd ar y llawr,
Yn gwledda gyda'u gilydd wrth fwrdd ein Harglwydd mawr;
Maent 'nawr yn Sïon dawel, heb ryfel o un rhyw,
Pob un wrth fodd ei galon, yn gyson foli Duw."

Cafwyd ychwanegiadau mawrion at yr eglwys hon yn nhymor gweinidogaeth Mr. Evans, ar wahanol amserau, ond yn y flwyddyn 1829, y bu y cyffroad rhyfeddaf o gwbl yma. Derbyniodd Mr. Evans y flwyddyn hono, yn ystod chwe' mis, chwe' chant a haner o aelodau newyddion i gymundeb eglwysig!! Cafodd yr eglwys hon ei hamddifadu o'r gwlaw grasol a ddisgynodd ar y rhan fwyaf o eglwysi y Dywysogaeth yn y blynyddoedd 1839-41, o herwydd y terfysg a'r rhwygiad anhapus a gymerodd le ynddi. Yn yr adfywiad a gymerodd le yn Morganwg, Mynwy, a chyrau o'r siroedd cylchynol, yn 1849, cafodd y Mynyddbach ran o'r gawod. Ychwanegwyd pedwar-ugain-a-phump at yr eglwys yn y flwyddyn hono. Oddiar hyny hyd yn awr, y mae yr achos wedi myned rhagddo yn ddymunol, er na fu yma unrhyw gyffroadau anghyffredin.

Mae eglwys y Mynyddbach i'w hystyried fel mam i'r holl eglwysi oddi amgylch. Mae yr eglwysi canlynol yn ganghenau uniongyrchol o honi—

Digitized by Google

Brynteg, Crwys, Ysgetty, Ebenezer Abertawy, Glandwr, Libanus a Horeb, Treforis, Clydach, Felindre', Bethel, Llansamlet, a Chadle. Merched i'w merched hi y gellir ystyried yr eglwysi diweddaraf a ffurfiwyd yn y gymydogaeth. Aelodau o'r Mynyddbach hefyd oedd y rhan fwyaf o sylfaenwyr yr achosion Methodistaidd yn Llansamlet, Crug-glas, Abertawy, ac yn neillduol Treforis.

Gellid yn naturiol ddisgwyl fod lluaws o bregethwyr wedi cyfodi o bryd i bryd mewn eglwys mor hen a lluosog a hon. Mae yn ddigon tebyg i amryw gael eu cyfodi yma yn nhymor boreuaf yr achos, er nas gallasom ni ddyfod o hyd i'w henwau. Y rhai canlynol yw yr unig rai y gwyddom ni am danynt.

William Llewellyn, Cwmmawr. Gweler hanes y Crwys.

Noah Jones, Walsall, sir Stafford. Yr oedd yn enedigol o'r parth uchaf o blwyf Llangafelach. Addysgwyd ef yn Nghaerfyrddin. Bu am ychydig amser yn y Drefnewydd, Maldwyn, ond ni chafodd ei urddo yno. Symudodd i Cradley, yn sir Gaerwrangon, lle yr urddwyd ef yn 1750. Symudodd i Walsall yn 1762, lle yr ymddengys iddo dreulio gweddill ei oes. Mae Mr. Thomas Morgan, Henllan, yr hwn oedd yn gydfyfyriwr ag ef yn yr athrofa, yn dyweyd ei fod yn ŵr ieuangc teilwng a chrefyddol iawn, ac yn ysgolhaig rhagorol.

Daniel Gronow, Bala. Gwelir ei hanes yn nglyn a'r Bala.

Thomas Gray, Abermeurig. Glowr oedd ef wrth ei alwedigaeth, ac yn ei ieuengctyd yr oedd yn wyllt ac annuwiol iawn. Un prydnawn ceisiodd goruchwyliwr y gwaith ganddo fyned yn fore dranoeth ar neges drosto ef i Gastellnedd, yr hyn a wnaeth. Tra yr oedd ef yn Nghastellnedd, dygwyddodd damwain angeuol yn y pwll lle y gweithiai, a chafodd amryw o'i gydweithwyr eu hangau. Yntau, wrth ddychwelyd adref yn feddw, a gyfarfyddodd a dyn yr hwn a'i hysbysodd o'r ddamwain a ddigwyddasai i'w gydweithwyr, gan ei gyfarch, "Twm Gray, yr wyf fi yn synu dy weled di yma; yr oeddwn i yn meddwl dy fod yn uffern er wyth o'r gloch bore heddyw." Effeithiodd y newydd, a geiriau y dyn gymaint arno fel y sobrodd yn y fan, ac ni chafodd ei feddwl lonyddwch o hyny allan, nes iddo ymgymeryd a chrefydd. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn y Mynyddbach, ac yn mhen ychydig amser cafodd anogaeth i ddechreu pregethu. Derbyniwyd ef i'r athrofa yn Abergavenny, Hydref 3ydd, 1757. Ar orpheniad ei amser yno, cafodd alwad i fyned yn ganlynydd i'r enwog Phillip Pugh yn Abermeurig, Llwynpiod, &c. Syrthiodd yn raddol i gyfeillgarwch mynwesol a'i gymydog Mr. Rowlands, Llangeitho; ac o ychydig i ychydig aeth i ymgymysgu mwy a'r Methodistiaid nag a'r Annibynwyr, a'r canlyniad fu i'r hen eglwysi Annibynol dan ei ofal, erbyn terfyn ei oes ef, fyned yn hollol Fethodistaidd. Bu Mr. Gray farw yn y flwyddyn 1810. Dywedir y byddai ar amserau yn pregethu yn nodedig o effeithiol.

John Vulk. Ganwyd ef tua y flwyddyn 1745 Bu am rai blynyddau yn cyfaneddu yn y tŷ wrth gapel y Mynyddbach. Teithiodd lawer trwy dde a gogledd fel pregethwr. Ar ol bod am lawer o flynyddau yn pregethu gyda'r Annibynwyr, trodd at y Bedyddwyr, a chyda hwy y terfynodd ei oes yn 90 oed, tua y flwyddyn 1835.

Thomas Jones. Yr oedd yn briod a chwaer Mr. D. Davies, y gweinidog, ac yn enedigol o gymydogaeth Llangeler, ond dywedir mai yn y Mynyddbach y dechreuodd bregethu. Bu am rai blynyddau yn pregethu i'r Cymru yn Lambeth, Llundain. Bu farw Ionawr 27ain, 1817.

Digitized by Google

David Jones, Clydach. Daw ei hanes yn nglyn a'r lle hwnw.

David Morgan, gweinidog yr eglwys Gymreig yn Woolwich. Dichon y bydd genym ychydig hanes i'w roddi am dano pan ddelom at hanes yr achos Cymreig yno.

John Davies, Llansamlet. Yn nglyn a hanes yr eglwys yn Cross Inn y rhoddir ei hanes ef.

John Davies, Mynyddbach. Rhoddir ei hanes ef yn mysg gweinidogion yr eglwys hon.

John Joseph, Llanedi. Gweler hanes yr eglwys hono.

David Davies. Yr oedd ef yn un o'r rhai a aethant allan i adeiladu Caersalem Newydd. Bu am lawer o flynyddau yn weinidog eglwys y Bedyddwyr yn Nghlydach. Y mae yn awr yn analluog i bregethu o herwydd cystudd a henaint.

William Thomas, Clydach. Bydd genym air am dano yn nglyn ag eglwys y Glais.

Evan Davies, Richmond. Ganwyd ef yn mhlwyf Lledrod, sir Aberteifi. Pan oedd ef yn dair blwydd oed, symudodd ei dad a'i deulu i Lundain, ond gadawyd ef gyda modryb iddo yn y wlad. Pan ddaeth i oed cyfaddas gosodwyd ef i ddysgu y gelfyddyd o ddilledydd. Ar derfyniad amser ei egwyddor wasanaeth aeth i Lundain, ac ymunodd a'r eglwys Annibynol yn y Boro. Yn y flwyddyn 1827, daeth ef a Mr. W. Thomas, wedi hyny o Glydach, yr hwn oedd yn gweithio ei gelfyddyd fel saer yn Llundain, i lawr gyda'u gilydd i Abertawy, a chan eu bod yn adnabyddus a Mr. Evans, Mynyddbach, trwy ei weled yn Llundain, ymunasant a'i eglwys ef, ac yma yr un pryd y dechreuodd y ddau bregethu. Aethant yn fuan i athrofa y Neuaddlwyd. Ar ol bod yno am ddeunaw mis, symudodd Mr. Davies i'r Athrofa Orllewinol yn Exeter. Ar derfyniad ei amser yn yr athrofa, cafodd alwad i Great Torrington; ond nid arosodd yno yn hir gan ei fod wedi gwneyd ei feddwl i fyny i fyned allan yn genhadwr. Urddwyd ef yn Llundain yn Ebrill, 1835, i fyned yn genhadwr at y Chiniaid i Penang. Bu yno yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig i'r preswylwyr Saisonig, am bedair blynedd, yna gorfodwyd ef gan ddiffyg iechyd i ddychwelyd adref. Bu wedi hyny am dair blynedd-ar-ddeg yn weinidog yn Richmond, Surrey, ac am ddwy flynedd yn Heywood, ger Manchester. Bu am rai o flynyddau olaf ei fywyd heb ofal eglwysig, ond yr oedd galwad am dano bob Sabboth i lenwi pulpudau gweigion. Gwan fu ei iechyd trwy ei oes. Bu farw Mehefin 18fed, 1864. Yr oedd Mr. Davies yn ddyn nodedig o dduwiol, yn bregethwr da iawn, yn ysgolhaig rhagorol, ac yn dra galluog o feddwl. Ysgrifenodd amryw gyfrolau bychain, a golygodd weithiau Dr. Payne a Dr. Edward Williams. Mae pob peth a ysgrifenodd yn deilwng o ddarlleniad manwl.

Jenkin Jenkins, America. Mae yn adnabyddus wrth yr enw "Siencyn ddwywaith."

Thomas Davies, Horeb, Treforis. Mae yn llafurio gyda pharch gyda phobl sydd yn ei adnabod o'i febyd.

David Lewis, Llanfaple, Mynwy, ac y mae wedi llafurio yno bellach am fwy na 30 mlynedd.

William Rees. Yr hwn sydd yn bresenol yn offeiriad Llanboidy.

Myn rhai o hen bobl y Mynyddbach honi yr anrhydedd o gyfodi Dr. Abraham Rees i bregethu, ond nid ymddengys fod ganddynt dir teg i honi

hyny, canys yr oedd y Dr., er ieuenged ydoedd, yn cael ei gydnabod yn mysg gweinidogion Llundain yn 1760, cyn pen blwyddyn ar ol i'w dad symud i'r Mynyddbach. Yr oedd ef yn mysg gweinidogion y tri enwad yn llongyfarch Sior III. ar ei esgyniad i'r orsedd, ac yr oedd drachefn yn mhen triugain mlynedd yn blaenori gweinidogion y tri enwad yn eu llongyfarchiad i Sior IV. ar ei esgyniad yntau i'r orsedd.

Cafodd pob un o'r rhai blaenorol eu hurddo yn weinidogion; ond y mae nifer o bregethwyr defnyddiol wedi cyfodi yma o bryd i bryd na fuont yn weinidogion urddedig; megis, David Hugh, Thomas Evan, David Roberts, yr hwn fu yn pregethu am agos i ddeugain mlynedd gyda pharch a derbyniad nodedig; William Lloyd, John Jones, Howell Hopkin, Daniel David, Thomas Griffith, Ebenezer Edwards, Benjamin Gray, David Jones, gwr ieuangc galluog a gobeithiol a fu farw yn 1824, yn 21 oed, gyda'i fod yn dechreu ymagor yn ei ddefnyddioldeb; Daniel Evans, mab Mr. Evans, y gweinidog. Bu yn fyfyriwr yn athrofa Cheshunt, ond bu farw yn Mawrth, 1835, yn mhen ychydig ddyddiau ar ol ei dad; Samuel Samuel, Evan Jones, Edward Hughes sydd yn awr yn yr athrofa yn Nghaerfyrddin, a'i frawd William Hughes, yr hwn sydd yn ddiweddar wedi dechreu pregethu. Mae y brodyr hyn oll, ond y ddau olaf, wedi gorphen eu gyrfa ddaearol, oddieithr fod un neu ddau o honynt yn fyw yn yr America. Bu rhai o honynt yn ddefnyddiol iawn yn eu hoes, ac y maent yn awr yn derbyn eu gwobr.

Heblaw y pregethwyr a gyfodwyd yn yr eglwys hon, bu ynddi o bryd i bryd lawer o bersonau mwy anghyhoedd, ond etto, nodedig am eu duwioldeb a'u defnyddioldeb. Yn mysg y rhai, gellir crybwyll y tri John Powell, o Gefnyfforest, sef y tad, y mab, a'r ŵyr. Dywedir mai dan bregeth a draddodwyd gan Mr. Howell Harris wrth Gorseinion, y dygwyd y John Powell, cyntaf, i ystyried ei ddiwedd. Ymunodd yn fuan wedi hyny a'r eglwys yn y Mynyddbach, a bu yn ddefnyddiol iawn fel aelod a pregethwr achlysurol hyd ei farwolaeth. Yr oedd ei fab John Powell, yr ail, hefyd yn aelod ffyddlon, ac yn swyddwr defnyddiol; a bu John Powell, y trydydd, hefyd yn ddefnyddiol a pharchus fel aelod a swyddwr am lawer o flynyddau. Y mae yntau yn awr wedi huno gyda'i dadau, ond y mae ei ddau fab yn debygol o lynu yn ffyddlon yn ngwasanaeth Duw eu henafiaid. Dylai enwau Evan Dafydd a Thomas ei fab, taid a thad Mr. T. Davies, Treforis, a Mr. John Davies, Taihirion, gael eu cadw mewn coffadwriaeth barchus, fel gwyr cedyrn yn yr ysgrythyrau, ac yn enwog am eu ffyddlondeb. Y mae enwau Dafydd Sion Rees, o Gadle; John Rees ei frawd; William Awbre, a Dafydd William, Gelliwern; John Humphreys, o'r Castell, tad Mr. W. Humphreys, Cadle; David Jones, y teiliwr, un o ffyddloniaid y cyfarfod gweddi; John Rosser, John Davies, apostol yr ysgol gân; Evan Jenkin, Jeremiah David, Benjamin David, William Rees, o Gadle, a llawer eraill a allesid grybwyll, yn perarogli yn yr ardal hyd y dydd hwn, a hiliogaeth llawer o honynt yn glynu yn ffyddlon gyda yr achos oedd mor agos at galonau eu henafiaid. Daniel James yw braidd yr unig un o gyfoedion y gwyr uchod sydd yn awr ar dir y byw. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am lawer o'r ffeithiau a gynwysir yn yr hanes blaenorol. Er ei fod yn awr yn ei wythfed flwydd a phedwar ugain, y mae yn mwynhau iechyd da. Parhaed yr hen eglwys barchus o oes i oes, i gyfodi dynion o gyffelyb feddwl, i'r tadau fu wyr enwog gynt.

Digitized by Google

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

**Robert Thomas.** Rhoddir yr ychydig hanes sydd genym am dano ef yn nglyn a hanes Maesyrhaf, Casteilnedd.

**Lewis Davies.** Mae yn debygol mai un genedigol o blwyf Llanedi, sir Gaerfyrddin, ac mai aelod o'r eglwys Ymneillduol yno ydoedd. Yn yr Erw-wastad yn y plwyf hwnw yr oedd yn cyfaneddu. Urddwyd ef tua y flwyddyn 1693, a bu Mr. Llewellyn Bevan, Cwmllynfell, a Mr. John Thomas, Aberafan, yn ei gynorthwyo am rai blynyddau, canys yr oedd cylch ei weinidogaeth yn eang iawn. Mae yn ymddangos ei fod yn weinidog rhagorol, ac yn ymdrechgar iawn i addysgu ei bobl yn ngwirioneddau mawrion yr efengyl. Geilw Mr. Edmund Jones ef yn "weinidog enwog iawn."* Yr ydym yn barnu iddo farw tua'r flwyddyn 1712.

**Samuel Jones.** Yr ydym ni yn barnu nad oes yr un sail i ameu mai yr un gwr yw hwn a Samuel Jones, Capel Sïon, sir Gaerfyrddin. Bernir mai un genedigol o blwyf Llanedi oedd yntau. Cafodd ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin, fe ddichon mewn rhan dan Mr. William Evans, ac mewn rhan dan Mr. Thomas Perrot. Bu am rai blynyddau yn byw yn Mhentwyn, Llanon, ac yn cadw ysgol enwog iawn yno. Bu y dysgedig Dr. Richard Price, o Lundain; Mr. Owen Rees, Pentretygwyn, tad Mr. Josiah Rees, Gellionen; Mr. Thomas Morgan, Henllan, ac amryw eraill a ddaethant i enwogrwydd, yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol hon. Yr oedd y gair fod Mr. Jones yn gogwyddo at Arminiaeth, ac o herwydd hyny, yr oedd Mr. Edmund Jones yn groes i Thomas Morgan, wedi hyny o Henllan, fyned i'w ysgol. Mae yn lled debyg fod rhyw sail i'r dybiaeth ei fod yn tueddu at Arminiaeth, canys yr ydym yn cael ei fod yn traddodi y siars ar urddiad Mr. David Lloyd yn Llwynrhydowen, yn 1745, ac mae yn hysbys mai canlyniedydd Mr. Jenkin Jones, yr Arminiad, oedd Mr. Lloyd. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg fod Mr. Jones yn ddyn difrifol a chrefyddol iawn. Mae Thomas Morgan, Henllan, wrth son am ei fynediad i ysgol Mr. Jones, yn dyweyd, "Tua thri o'r gloch yn y prydnawn cychwynasom o Abertawy, a chyrhaeddasom Bentwyn yn sir Gaerfyrddin erbyn machlud haul. Llonwyd fi yn fawr wrth weled y teulu mor grefyddol, yn darllen ac adrodd yr Ysgrythyrau, ac yn canu Salmau." Mae yn ymddangos fod Capel Sïon, Llanddarog, a Thy'rdwncyn, dano fal Mr. Jones oddiar dechreuad ei weinidogaeth, ond rhoddodd Gapel Sïon i fyny tua y flwyddyn 1752, neu yn fuan ar ol hyny. Symudodd o Bentwyn i rywle yn mhlwyf Penbre, lawer o flynyddau cyn ei farwolaeth. Mae yn debyg mai rhyw gysylltiadau teuluol a barodd iddo symud yno, canys nid oedd un eglwys Ymneillduol yn y plwyf hwnw yn ei amser ef. Yr oedd ganddo ffordd bell i fyned o Benbre i Dy'rdwncyn, ond nid mwy nag oedd gan lawer o weinidogion yn yr oes hono, ac oesau diweddarach, i fyned at eu heglwysi. Mae yn ymddangos i Mr. Jones yn ei flynyddau olaf symud o Benbre i Dreforis i gadw ysgol, ac yr oedd ei fab, yr hwn oedd yn efrydydd, yn ei gynorthwyo gyda'r ysgol. O herwydd gofal ysgol ddyddiol, yn nghyda gradd o effeithiau henaint, rhoddodd Mr. Jones a'r eglwys yn Nhy'rdwncyn yn 1759, alwad i Mr. Lewis Rees i ddyfod yn gydweinidog ag ef. Un Sabboth yn y mis y byddai Mr. Jones yn pregethu

* *History of the parish of Aberystruth.* Page 113.

Digitized by Google

yn Nhy'rdwncyn wedi i Mr. Rees ddyfod yno, a dengys llawysgrifau Mr. William Jones, fod Mr. Jones yn cadw ei Sabboth yn lled reolaidd yn y blynyddoedd 1764 a 1765, ond ni bu yn pregethu o gwbl yno yn 1766, etto yr oedd yn fyw, canys derbyniodd arian o'r Drysorfa Henadurol o Lundain yn y flwyddyn hono. Digon tebyg ei fod erbyn hyn wedi methu gan henaint, ac iddo farw yn y flwyddyn 1767, neu 1768, ond gan nad yw ysgrifau William Jones am y blynyddoedd hyny yn ein meddiant, nac un crybwylliad am dano mewn un llawysgrif arall, nac argraph a welsom ni, nis gallwn benderfynu amser ei farwolaeth. Gyferbyn a Tachwedd 24ain, 1764, ysgrifena Mr. W. Jones, "Y Sabboth hwn myfi a aethum i'r cwrdd fel arferol, ond ni chawsom ni yr un bregeth yno. Rhwng bod yr hin oer, a'r ffordd yn bell, Mr. Jones a dariodd gartref." Ar ddiwedd cofnodiad helaeth o bregeth gan Mr. Jones, oddiar Luc xiv. 47, yr hon a draddododd yn Nhy'rdwncyn, Awst 18fed, 1764, cawn fel y canlyn, "Hefyd mae cenhadon Duw yn galw ar eich hol. Myfi heddyw, (meddai yr hen ŵr,) sydd yn galw arnoch yn ngwydd nefoedd a daear i ddychwelyd at yr Arglwydd." Ac o'r cynghorion perthynasol, yr anogaethau tyner, a'r geiriau ennillgar oedd ganddo. Mor hyfryd yw traed y rhai sydd yn efengylu pethau daionus; ie yn wir, mor hyfryd yw eu gwedd, ac mor ardderchog yw eu swydd; mor fawr yw eu gwaith, etto mor ddysglaer fydd eu coron." Er fod Samuel Jones yn ysgolhaig rhagorol, ac yn bregethwr da, etto, nid ymddengys ei fod yn ddyn cyhoeddus iawn. Unwaith yn unig y cawsom ei enw mewn cysylltiad ag urddiadau gweinidogion, ac ni ddigwyddodd i ni weled ei enw yn cael ei grybwyll mewn hanes unrhyw gyfarfod gweinidogion. Dichon fod ei amgylchiadau yn gyfyng, a'i fod yn cael ei gaethiwo gydag ysgol ddyddiol dros y rhan fwyaf o'i oes. Os felly, y mae yn hawdd cyfrif am ei anghyhoeddusrwydd. Mae yn amlwg ei fod yn bregethwr galluog, ac y mae y nifer o'i bregethau a ysgrifenwyd gan William Jones, yn dangos fod ei syniadau yn efengylaidd, ac os oedd yn Arminiad, nad oedd wedi myned cyn belled i'r tir hwnw a rhai o'i gydoeswyr.

LEWIS REES. Ganwyd y diwygiwr a'r gweinidog enwog a llafurus hwn yn Glynllwydrew, Cwmgwrach, Glynnedd, Mawrth 2il, 1710. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, ac yn aelodau o'r eglwys yn Mlaengwrach, dan ofal gweinidogaethol Mr. Henry Davies. Enw ei dad oedd Rees Edward Lewis. Mab i offeiriad plwyf Penderyn ydoedd. Gofynodd Mr. Rees i'w dad ryw dro pan yn blentyn, pa beth a barodd iddo ef, ac yntau yn fab i offeiriad, ymuno a'r Ymneillduwyr; a'r ateb a gafodd ydoedd, "Lewis bach, gwrando fy machgen i, mi adewais dŷ fy nhad, ac mi ymneillduais oddiwrth yr Eglwys Wladol, o herwydd ysbryd erlidigaethus yr offeiriaid a'r uchel-eglwyswyr yn gyffredinol, ac yr oedd yn rhaid i mi ymneillduo neu fod yn elyn calon i grefydd a chanlynwyr Iesu Grist, ac mi a sicrhaf i ti, Lewis, os byddi di byw i weled fy oedran i, a bod o rhyw ddefnydd gydag achos Crist, y cai dithau deimlo yn chwerw oddiwrth eu hysbryd erlidgar hwy. Hefyd, Lewis, nid wyf yn gweled pa fodd y gall dyn fod yn dduwiol wrth erlid duwiolion, na pha fodd y gall Eglwys Wladol fod yn eglwys i Grist, ac hefyd yr wyf yn dewis crefydda yn mysg y bobl dybycaf eu hysbryd i ysbryd addfwyn Iesu Grist." Yn yr ateb hwn cafodd y mab ddigon o resymau dros ei ymneillduaeth gan ei dad, fel na ofynodd ddim iddo ar y pen hwn mwyach. Un o ddau o blant oedd Mr. Rees. Christiana oedd enw ei chwaer, yr hon a dreuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn agos i Benybont-ar-ogwy, lle y bu farw. Pan yn blentyn ieuangc

Digitized by Google

anfonodd ei rieni Lewis Rees i ysgol a gedwid gan Mr. Henry Davies, eu gweinidog. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Mlaengwrach pan yn ieuangc iawn. Ar ol bod am rai blynyddau yn ysgol Mr. Davies, aeth i ysgol Mr. Joseph Simons, yr hwn a gadwai ysgol ramadegol yn, neu yn agos i Abertawy. Wedi hyny, bu am dymor yn derbyn addysg gan Mr. Rees Price, Ty'nton, Penybont-ar-ogwy, ac oddiyno aeth i'r athrofa i'r Llwynllwyd, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal Mr. Vavasor Griffith. Pan ddeallodd ei athraw ei fod yn ŵr ieuangc gobeithiol a galluog fel pregethwr, a'i fod trwy y manteision a gawsai yn flaenorol yn ysgolhaig lled dda, anogodd ef, ar ol iddo fod yno ychydig fisoedd, i fyned allan ac ymroddi i waith y weinidogaeth, gan fod y fath angen yn y wlad am wasanaeth gwr o'r fath gymhwysderau. Tua yr amser hwnw galwodd yr apostolaidd Edmund Jones, o Bontypool, heibio y Llwynllwyd, ar ei ffordd adref o daith trwy y gogledd. Rhoddodd anogaeth rymus i'r gwr ieuangc i fyned i Lanbrynmair, lle y barnai fod maes addawus iddo i'w wrteithio, ac er ei galonogi aeth yn ei ol o'r Llwynllwyd gydag ef i'w gyflwyno i'r bobl, a'r bobl iddo yntau. Bernir mai yn y flwyddyn 1734, y cymerodd hyn le. Ymserchodd Mr. Rees a'r bobl yn eu gilydd, ac ychwanegwyd llawer at y gynnulleidfa yn fuan. Bu yno am bedair blynedd cyn iddo gael ei urddo. Yn ei fam-eglwys yn Mlaengwrach yr urddwyd ef, Ebrill 13eg, 1738. Yna dychwelodd i Lanbrynmair, lle yr ymaflodd yn ei waith a'i holl egni. Yn 1739, adeiladwyd y capel, a thrwy lafur dibaid y gweinidog, talwyd y ddyled mewn ychydig amser. Bu sefydliad Mr. Rees yn Llanbrynmair yn fendith, nid yn unig i'r ardal hono, ond hefyd i Ogledd Cymru yn gyffredinol. Yr ydym eisioes wedi cael achlysur i grybwyll am ei lafur, ei lwyddiant, a'i beryglon yn y Bala, Llanuwchllyn, a Llanymawddwy, a phan y delom at hanes yr eglwysi yn Arfon o Mon, bydd genym etto lawer o bethau dyddorol i'w cofnodi am ei lafur a'i ddyoddefiadau. Bu yn rhyfeddol o lafurus a llwyddianus i blanu achosion newyddion mewn gwahanol ardaloedd, yn Maldwyn a Meirion, yn ysbaid ei arosiad yn Llanbrynmair, ac nid oedd un eglwys Annibynol yn y Gogledd, yn y tymor hwnw, nad ymwelai efe a hi unwaith neu ddwy bob blwyddyn. Tua y flwyddyn 1745, symudodd o Lanbrynmair i Faesyronen, Maesyfed, a bu yno dair blynedd, yna dychwelodd at ei hen gyfeillion i Lanbrynmair. Byddai yn myned atynt yn fisol trwy ysbaid y tair blynedd y bu yn Maesyronen, ac ni chafodd lonyddwch ganddynt hwy na chan ei feddwl ei hun nes iddo ddychwelyd atynt. Mae yn debyg mai ei amgylchiadau teuluol a barodd y symudiad hwn, canys un o gymydogaeth Maesyronen oedd ei wraig. Ar ol llafurio drachefn yn Llanbrynmair a'r cylchoedd o 1748 hyd 1759, gwnaeth ei feddwl i fyny i symud i'r Deheudir ac i beidio dychwelyd mwy. Mewn cydsyniad a galwad yr eglwys yn Nhy'rdwncyn, symudodd yno yn 1759, ac yno y bu nes i lesgedd henaint ei orfodi yn y flwyddyn 1795, i roddi ei weinidogaeth i fyny. Mae yn debyg mai sefyllfa isel crefydd yn nghymydogaeth Abertawy, yn nghyda'r ystyriaeth fod Mr. Richard Tibbot yn un cymwys yn mhob ystyr i gymeryd ei le yn Llanbrynmair, a'i harweiniodd i'r penderfyniad i symud, a dangosodd ei lwyddiant yn y cylch hwn, a llwyddiant Mr. Tibbot yn Llanbrynmair, iddo wneyd yr hyn oedd yn unol a meddwl yr Arglwydd. Ar ol rhoddi ei ofal gweinidogaethol i fyny yn y Mynyddbach, Ysgetty, a Threforis, parhaodd Mr. Rees i bregethu yn achlysurol hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth. Bu farw mewn tangnefedd yn nhŷ ei fab-yn-nghyfraith,

Digitized by Google

Mr. John Davies, Llansamlet, Mawrth 21ain, 1800, yn 90 oed, ar ol bod yn pregethu yr efengyl am tua thriugain a deg o flynyddau. Ei destyn diweddaf yn y Mynyddbach oedd, "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist a hwnw wedi ei groeshoelio." Dywedir fod yr oedfa hono yn nodedig o doddedig. Claddwyd ef yn mynwent y Mynyddbach. Ar yr achlysur pregethwyd gan Mr. Evan Davies, Llanedi, oddiar Luc ii. 29. Testyn a ddewisasid gan yr ymadawedig flynyddau cyn ei farwolaeth.

Tua y flwyddyn 1740, priododd Mr. Rees ferch Mr. Abraham Penry, gwr cyfrifol o ardal Maesyronen, a bu yn ddedwydd iawn yn ei sefyllfa briodasol am bedair blynedd-ar-ddeg-a-deugain. Cawsant chwech o blant, yr ail o ba rai oedd yr enwog Dr. Abraham Rees. Eu hunig ferch oedd Mary, gwraig Mr. John Davies, Llansamlet. Pan aeth Mr. Rees at ei dad-yn-nghyfraith i ofyn ei ganiatad i gael ei ferch yn wraig, gofynodd iddo pa eiddo oedd ganddo i gyfateb i'r hyn oedd ganddo ef i'w roddi gyda'i ferch. Yntau a ymaflodd mewn Bibl, ac a atebodd, "Hwn yw fy nghynysgaeth i." Boddlonodd hyny Mr. Penry, a chaniataodd iddo gael ei ferch yn wraig.

Yr oedd Mr. Rees yn un o'r gweinidogion mwyaf enwog, llafurus, a defnyddiol yn ei oes. Teithiodd lawer trwy holl siroedd Cymru, ac yr oedd yn dderbyniol a defnyddiol pa le byang yr elai. Fel pregethwr rhagorai ar y rhan fwyaf o'i gydoeswyr, ac fel gweddiwr yr oedd heb ei ail. Sonia amryw o'i gydnabod am yr effeithiau digyffelyb a gydgerddent a'i weddiau cyhoeddus. A thra yr oedd ei gyflawniadau cyhoeddus agos bob amser yn cael eu dilyn gan effeithiau daionus, nid oedd ei ymddiddanion cyfrinachol a phersonau unigol a theuluoedd yn llai effeithiol. Unwaith aeth i dŷ i lettya, ac ar ol swper, adroddai y tad a'r fam wrtho gyda dagrau y gofid a deimlent o herwydd afradlondeb eu hunig blentyn, Thomas, yr hwn oedd yn troi allan yn llangc gwyllt iawn. Bore dranoeth cyn y weddi deuluaidd, ymaflodd Mr. Rees yn llaw y gwr ieuangc, a siaradodd ychydig yn effeithiol a serchus ag ef am fater ei enaid, ac yn ei weddi tywalltai allan ddymuniadau ei galon ar ei ran gyda dylanwad anorchfygol. Yn mysg pethau eraill, dywedai, "O Arglwydd, dywed wrth y Thomas hwn, 'Na fydd anghredadyn, ond credadyn.'" Dywedai Thomas ar ol hyny, fod y geiriau yn myned i'w galon fel cleddyf. Y canlyniad fu iddo gael ei wir droi at yr Arglwydd, a threuliodd weddill ei oes yn gristion hardd. Adroddai Mr. Roberts, Llanbrynmair, yr hwn oedd yn fab i un o gyfeillion mynwesol Mr. Rees, yr hanesyn canlynol:— "Pan oedd Mr. Rees ar ymweliad yn Llanbrynmair, ar ol iddo symud i'r Mynyddbach, galwodd un diwrnod, tua chanol dydd, yn nhŷ fy nhad, ychydig wythnosau wedi marwolaeth fy mam. Ar ol ymddiddan ychydig a fy nhad, dymunodd am i'r plant gael eu galw yn nghyd i'r ystafell. Efe a eisteddai mewn cadair freichiau. Galwodd ato bob un o'r plant, ac yr oeddym yn saith o nifer. Ymaflodd yn llaw pob un o honom, o'r henaf i'r ieuengaf, gan ofyn ein henwau, a dywedyd ychydig eiriau caredig wrthym, cyfatebol i'n hoed. Ar ol darllen penod, ac egluro ychydig arni, aeth ar ei luniau a gweddiodd, gan ddymuno rhyw beth neillduol i bob aelod o'r teulu, ac enwi pob un o'r plant wrth ei enw. Er nad oeddwn i y pryd hwnw ond un-flwydd-ar-ddeg oed, gadawodd argraff ar fy meddwl nas gall amser byth ei dileu." Nid yw yr hanesion hyn ond engreifftiau o'r hyn a wnelai y dyn da hwn yn gyffredin yn y teuluoedd yr elai iddynt.

Digitized by Google

Calfiniad cymedrol oedd Mr. Rees o ran ei olygiadau athrawiaethol, ond er nad oedd yn uchelgalfiniad yr oedd yn mhell o goleddu unrhyw gydymdeimlad a'r Arminiaeth anefengylaidd a bregethid gan lawer o weinidogion Ymneillduol ei oes. Teimlai sel angerddol dros athrawiaeth efengylaidd, tra yr oedd mor selog a hyny yn erbyn golygiadau antinomaidd. O herwydd ei fod yn dal mor dyn dros sancteiddrwydd ymarferol, yn ei bregethau, dywedodd dyn wrtho unwaith, "Pregethwch rad ras i'r bobl, ac fe ddysg gras iddynt wneyd eu dyledswydd." "Yr wyf yn ofni," atebai yntau, "y dysg eu llygredd iddynt beidio." Er fod ei fab, Dr. Abraham Rees, yn Arminiad uchel, os nad yn Ariad, nid oedd yn dylanwadu dim ar olygiadau efengylaidd ei dad. Darfu i'w sel dros syniadau efengylaidd gyffroi Mr. Rees, yn y flwyddyn 1793, pryd yr oedd yn dair-a-phedwar-ugain oed, i gyfieithu a chyhoeddi pregeth Dr. Bogue, ar y "Mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gyson a'r Ysgrythyr." Er ei fod yn selog dros ei olygiadau neillduol ei hun, yr oedd yn ddyn nodedig o ryddfrydig. Cyfeillachai lawer a'r Methodistiaid, ac fel y mae yn hysbys, trwy ei anogaeth ef yr aeth Mr. Howell Harris gyntaf i'r Gogledd. Er iddo gael mesur o ofid yn Llanbrynmair o herwydd y croes-olygiadau ar fedydd oedd yn yr eglwys, a bod rhai o'r Bedyddwyr mwyaf penboeth yn ei feio, etto yr oedd y rhai duwiolaf a mwyaf rhyddfrydig o'r enwad hwnw, yn gystal ag enwadau eraill, yn ei anwylo a'i barchu. Aeth un o weinidogion y Bedyddwyr yn Abertawy ato unwaith i ofyn benthyg ei geffyl i fyned i daith i bregethu. "Cewch a chroesaw frawd anwyl, canys *dyfroedd lawer* nis gallant ddiffoddi cariad," oedd ei ateb iddo. Yn 1812, cyhoeddwyd llyfryn bychan o hanes bywyd Mr. Rees, gan Mr. Roberts, Llanbrynmair. Ond gan na chyhoeddwyd dim am dano hyd ben deuddeng mlynedd ar ol ei farwolaeth, a phan oedd y rhan fwyaf o'r rhai a'i cofient yn nyddiau ei nerth wedi meirw, a chan nad ymddengys fod Mr. Rees yn arfer cadw cofnodion ysgrifenedig o'i lafur a'i helynt, y mae canoedd o ffeithiau dyddorol yn ei hanes wedi eu colli. Dydd y farn yn unig a ddengys y daioni a wnaed ganddo yn Neheudir a Gogledd Cymru.

DAVID DAVIES. Rhoddir ei fywgraphiad ef ynglyn a hanes Ebenezer, Abertawy.

DANIEL EVANS. Ganwyd Daniel Evans mewn anedd-dy o'r enw Maindala, yn mhlwyf Eglwyserw, yn sir Benfro, Ionawr 16eg, 1774. Enwau ei rieni oedd David ac Ann Evans, ac yr oeddynt yn bobl onest a pharchus yn ngolwg eu cymydogion. Symudodd ei rieni cyn hir ar ol geni Daniel Evans, i le a elwir Trefygin, ac oddiyno drachefn i le a elwir Treboeth, yn mhlwyf Trewyddel. Cafodd yma ychydig fanteision addysg, gwell nag a roddid yn gyffredin i blant yn y dyddiau hyny. Nid oedd ond egwan o gorph y pryd hwnw, ac oblegid hyny, gadawyd ef yn hwy yn yr ysgol na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion. Dysgodd ddarllen ac ysgrifenu, ac ychydig o rifyddiaeth a Gramadeg Saesonaeg. Pan yn ddeuddeg oed rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda dilledydd, ac wedi treulio dwy flynedd felly, bu yn gweithio o fan i fan yn y gymydogaeth. Yr oedd er yn ieuangc o duedd fyfyrgar, a dilynai bobl oedranus i foddion gras, a dywedai fod arno er yn blentyn awydd am fyned yn bregethwr. Pan tua phymtheg oed teimlodd argraffiadau crefyddol cryfion ar ei feddwl, yn benaf trwy bregethau ei hybarch weinidog, Mr. John Phillips, a derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yn Nhrewyddel. Yn fuan wedi ei dderbyniad yn aelod, barnodd yr eglwys a'r gweinidog

fod cymhwysderau ynddo at y weinidogaeth, ac anogwyd ef i barotoi at hyny. Gwnaeth y prawf cyntaf ar bregethu yn nhy ei hen weinidog, Mr. Phillips, ac er mai gwan oedd yn ei farn ei hun, etto cymhellid ef i fyned yn mlaen, ac felly y bu am ysbaid blwyddyn yn pregethu ychydig o dŷ i dŷ cyn cael ei gydnabod yn bregethwr rheolaidd gan yr eglwys. Galwyd arno i bregethu mewn cyfarfod eglwysig yn y capel, ac wedi ei wrandaw, pasiwyd penderfyniad i'w gymeradwyo i sylw eglwysi eraill, pa le bynag y byddai galwad am dano; ac ar ol hyn pregethai fynychaf yn rhywle bob Sabboth. Nid oedd etto wedi cyrhaedd ei ddeunaw mlwydd oed, a pharhai i ddilyn ei alwedigaeth bob dydd, a phregethu y Sabboth lle y gelwid am ei wasanaeth. Pan tua 22 oed, gwahoddwyd ef i Lanwrtyd i gydlafurio a Mr. Isaac Price yno, ac yn Nhroedrhiwdalar, a bu yno yn llafurio yn ddiwyd a chyda chymeradwyaeth am dair blynedd. Yn yr ysbaid y bu yn Llanwrtyd, priododd a Mrs. Mary Jones, gweddw Mr. Rhys Jones, Llawrdre, yn mhlwyf Llanwrtyd, yr hon oedd yn lled gysurus arni o ran ei hamgylchiadau bydol, ac heb ond un ferch. Yn y flwyddyn 1799, penderfynodd fyned ar daith trwy y Gogledd. Nid oedd etto wedi ei urddo i holl waith y weinidogaeth, ac ymddengys ei fod yn teimlo i raddau oblegid arafwch yr hen weinidog a'r eglwysi yn symud yn mlaen at hyny. Yr oedd yr hybarch D. Williams, Llanwrtyd yn fachgenyn ieuangc yn cychwyn gydag ef i'r daith hon. Ymwelsant a Bangor, lle yr oedd eglwys fechan heb weinidog, oblegid symudiad Mr. W. Hughes i Ddinasmawddwy rai blynyddau cyn hyny. Derbyniodd Mr. Evans alwad gan yr eglwys yn Mangor; ac wedi ymgynghori a Dr. Lewis, a Meistri J. Griffith, Caernarfon; B. Jones, Pwllheli, a J. Powell, Rhosymeirch, y rhai a'i cymhellent i gydsynio, atebodd yr alwad, a symudodd i Fangor yn nechreu y ganrif bresenol. Yr oedd Mr. Price, a'r eglwysi oedd dan ei ofal erbyn hyn yn anfoddlawn iddo symud, ond yr oedd ei wraig yn gryf dros fyned, a theimlai yntau y gallasai fod o fwy o ddefnydd yn Mangor yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Yn fuan wedi ei sefydliad yn Mangor, urddwyd ef i holl waith y weinidogaeth. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Griffith, Caernarfon; holwyd y gofyniadau, a dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Hughes, Dinasmawddwy; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. D. Davies, Treffynon; ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. B. Jones, Pwllheli. Yr oedd yn bresenol hefyd Meistri J. Evans, Amlwch; J. Powell, Rhosymeirch; J. Jones, Ceirchiog, a T. Jones, Beaumaris. Nid oedd rhifedi yr aelodau ar ei sefydliad yn Mangor ond pump-ar-hugain, ac yr oedd y capel mewn man anghyfleus, y tu allan i'r ddinas. Deg punt y flwyddyn oedd y cwbl a allent addaw iddo, ac nis gallasai fyw oni buasai yr ychydig eiddo oedd gan ei wraig. Llwyddodd Mr. Evans i gael lle i adeiladu capel mewn man mwy cyfleus yn y ddinas, a gwelodd y fath lwyddiant ar ei lafur, fel yr oedd rhifedi yr aelodau wedi cynyddu cyn ei ymadawiad a'r lle i driugain-a-deg. Nid ymfoddlonodd Mr. Evans yn unig ar lafurio yn Mangor a'r amgylchoedd, ond ymestynodd ei lafur i Lanfairfechan, Dwygyfylchi, Henryd, a Llanrwst, fel y cawn achlysur i sylwi pan ddeuwn at hanes yr eglwysi hyny. Cyfarfu a phrofedigaethau yn ysbaid ei arosiad yn Mangor. Bu farw ei wraig, ac yn fuan bu farw ei merch, a gadawyd yntau yn unig; a chan fod eiddo y wraig yn dychwelyd ar farwolaeth y ferch i deulu y gwr cyntaf, nid oedd gan Mr. Evans yn awr ond y weinidogaeth i ymddibynu arni, heblaw yr ychydig a ennillai oddiwrth y gelfyddyd o rwymo llyfrau,

Digitized by Google

yr hon a ddysgodd ar ol ei sefydliad yn Mangor. Cyn hir, priododd a merch ieuangc o'r enw Miss Elizabeth Lewis, yr hon oedd yn aelod o'r eglwys dan ei ofal, yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymhwys, ac o'r hon y ganwyd iddo wyth o blant. Wrth weled ei deulu yn cynyddu, a'r eglwys yn Mangor yn rhy wan i'w gynal, a rhyw gynhenau wedi ymlusgo i mewn, gwnaeth Mr. Evans ei feddwl i fyny i ymadael, a chyn gynted ag y deallwyd hyny, derbyniodd alwadau oddiwrth luaws o eglwysi gweigion, ond tueddwyd ei feddwl i gydsynio a galwad hen eglwys barchus Mynyddbach, a symudodd yno yn Mehefin 1808. Dechreuodd ei weinidogaeth yn y Mynyddbach fel cydlafurwr a'r enwog David Davies, ond yn fuan barnwyd yn ddoethach, fel y crybwyllasom, i rann y maes eang, a disgynodd y Mynyddbach a Threforis i ran Mr. Evans. Am lafur a gweithgarwch Mr. Evans yn y maes eang yma, caiff hanes y lleoedd a gychwynodd ac a faethrinodd lefaru pan y deuwn atynt; ond gallwn ddyweyd yma na bu gweinidog erioed yn cael ei barchu yn fwy gan bobl ei ofal na Mr. Evans, ac er iddo orfod rhoddi rhai o'r eglwysi i fyny cyn ei farwolaeth o herwydd eangder cylch ei weinidogaeth, etto, yr oedd ganddo fawr ofal am danynt hyd ei ddiwedd, ac edrychent hwythau i fyny ato yntau fel eu tad. Yn y flwyddyn 1820, claddodd Mr. Evans ei ail wraig, yn 36 oed, gan ei adael yn unig gyda phump o blant bach ar ganol eu magu. Bu farw merch iddo yn bedair-ar-ddeg oed, yn mhen blwyddyn ar ol ei mam, ac yn mhen rhai blynyddau bu farw ei fab hynaf yn bedair-ar-bymtheg oed. Cafodd felly fel y gwelir ei ran o drallodion teuluol. Priododd drachefn a Miss Jane John, o'r hon y ganwyd iddo ddau o blant, a'r hon a adawodd yn weddw ar ei ol.

Yr oedd Mr. Evans yn wr galluog mewn corph a meddwl—yn addfwyn a phwyllog o ran ei dymer—yn nodedig o graff o ran ei sylw a'i farn, fel y diangodd heb gael ond ychydig o ofid yn ei gysylltiadau eglwysig. Yr oedd yn bregethwr sylweddol, ac yn traddodi yn rymus, ac yn ddigon hyawdl i fod yn foddhaol gan unrhyw gynnulleidfa; ond gan bobl ddeallgar y gwerthfawrogid ef fwyaf. O ran ei olygiadau duwinyddol Calfiniad cymhedrol oedd Mr Evans. Yr oedd wedi darllen gweithiau Dr. Edward Williams ac Andrew Fuller, ac i'r ysgol hono y perthynai, er na ddywedai bob peth yn hollol yn eu ffordd hwy. Ysgrifenodd amryw draethodau, i'r rhai y rhoddwyd lledaeniad eang yn adeg eu cyhoeddiad. *Traethawd ar gadwedigaeth babanod*, *Y Cawg Aur*, *Cawell y bara croyw*, *Rhesymau dros Ymneillduaeth*, *Llyfr Hymnau*, *&c.;* heblaw y bywgraphiadau a ysgrifenodd i Meistri Lewis Rees, Mynyddbach; J. Davies, Alltwen; W. Evans, Cwmllynfell; J. Davies, Llansamlet, ac eraill. Cyhoeddodd hefyd *Leferydd yr asyn*, yn erbyn Vicer Penbre am ailfedyddio plentyn, ar ol Mr. Howell Williams, Llanelli. Yr oedd yn weithiwr difefl, cyn y gallasai wneyd cymaint o waith, ac erys ei goffadwriaeth yn barchus yn y wlad lle y treuliodd ei oes i lafurio. Bu Mr. Evans yn gwaelu am beth amser. Y Sabboth diweddaf y pregethodd oedd Rhagfyr 7fed, 1834, yn y Mynyddbach, y boreu, ac yn Siloh, Glandwr, am dri o'r gloch yn y prydnawn. Ei destyn diweddaf ydoedd, Marc xvi. 15. "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Y dydd Iau canlynol aeth i lawr i ardal Glandwr i gasglu at yr ymdrech a wneid ar y pryd i dalu dyledion capeli yn Nghymru. Tarawyd ef gan boen yn ei ochr, yr hwn a'i blinodd dros rai dyddiau—yna trodd yn beswch blin, yr hwn a lynodd wrtho hyd nes



Digitized by Google

y rhyddhawyd ef gan angau ganol dydd, Mawrth 3ydd, 1835, yn 61 oed. Claddwyd ef y Llun canlynol, yn mynwent y Mynyddbach, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Roberts, Abertawy, (un o weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd); J. Evans, Crwys; D. R. Stephens, Abertawy, (un o weinidogion y Bedyddwyr), a W. Jones, Penybont-ar-ogwy; ac yr oedd mwy nag ugain o weinidogion eraill yn bresenol. Dygwyd holl draul y claddedigaeth gan yr eglwysi a fuasai dan ei ofal cyhyd, ac yr oedd galar mawr drwy yr holl wlad y diwrnod y rhoddwyd Daniel Evans, Mynyddbach yn "nhy ei hir gartref."

JOHN DAVIES. Ganwyd ef mewn amaethdy bychan ar y Drefboeth, ar ymyl y ffordd sydd yn arwain o Langafelach i Abertawy, Mai 10fed, 1803. Bu farw ei dad pan yr oedd ef yn ieuangc iawn, ac felly ni chafodd nemawr o fanteision addysg yn ei febyd, am iddo orfod myned i weithio i'r gwaith glo pan yr oedd tua deg oed, er cynorthwyo ei fam weddw i fagu ei theulu. Yn mis Mawrth, 1821, pryd yr oedd yn agos i ddeunaw mlwydd oed, derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn y Mynyddbach gan Mr. D. Evans, ac yn nechreu y flwyddyn 1828, anogodd yr eglwys ef i ddechreu pregethu. Yn mhen tua blwyddyn wedi hyny aeth i'r ysgol at Mr. Evans o'r Crwys, lle y bu am chwe' mis yn dysgu y Gramadeg Saesoneg. Yn Mehefin, 1831, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys Annibynol yn Llantrisant, Morganwg, lle yr urddwyd ef Gorphenaf 14eg, yn yr un flwyddyn. Bu yn llafurio yno, ac am dymor yn Nhresimwn, mewn cysylltiad a Llantrisant, hyd Gorphenaf, 1836, pryd y symudodd i Aberdare, i gymeryd gofal yr eglwysi yn Ebenezer, Heolyfelin, a Nebo, Hirwaun. Yn Ebrill, 1840, derbyniodd alwad oddiwrth ei fam-eglwys yn y Mynyddbach, a'r hon y cydsyniodd, er mor ddigalon oedd agwedd pethau yno y pryd hwnw, o herwydd y rhwygiad oedd newydd gymeryd lle yno. Ni bu ei lafur yn ddilwydd. Cynyddodd yr eglwys yn raddol, fel yr oedd yr aelodau tua dau gant o rif yn hir cyn ei farwolaeth ef. Ar amser ei symudiad o Aberdare, i'r Mynyddbach, priododd a Miss Mary Stephens, o Benycae, Mynwy, o'r hon y cafodd saith neu wyth o blant. Gan fod traul ei deulu yn fwy na'r hyn a dderbyniai oddiwrth yr eglwys, ymgymerodd ag arolygiaeth pwll glo yn y gymydogaeth. O herwydd fod rhy fach o awyr mewn rhyw fan yn y gwaith, aeth ef i mewn i edrych y lle, ac aeth yn rhy bell, fel y syrthiodd yn farw o ddiffyg awyr i anadlu. Cymerodd hyn le Medi 6ed, 1854. Yn mhen rhai blynyddau ar ol ei farwolaeth ymfudodd ei feibion i'r America, ac y mae eu mam er's pedair neu bum' mlynedd bellach wedi myned yno atynt. Y mae dau o'i feibion yn weinidogion yn America.

Yr oedd John Davies yn ddyn cryf ac iachus iawn o gorph, yn un o feddwl gweithgar, ac yn siaradwr grymus dros ben. Nid oedd yn naturiol chwaethus a choethedig o ran ei feddwl, ond pe buasai yn cael addysg dda yn moreu ei oes yr oedd ganddo ddigon o alluoedd i'w gymhwyso i droi yn un o gylchoedd pwysicaf y weinidogaeth yn Nghymru. Yn anngwrteithiedig fel yr ydoedd gwnaeth lawer o ddaioni yn ei dymor. Cyhoeddodd gyfrol a alwai *Arch y Cyfamod*, ac un arall dan yr enw *Clorian y Cysegr*, yn nghyda nifer mawr o fan lyfrau ar wahanol byngciau, ac yr oedd wedi cyhoeddi amryw ranau o *Eiriadur Duwinyddol*, ond bu farw cyn ei orphen. Mae yr hyn oll a ysgrifenodd yn fuddiol ac iachus o ran athrawiaeth, ond nad oes mewn dim a ysgrifenodd un radd o wreiddiolder, tlysni, nac arwydd o athrylith; ac y mae ei ysgrifeniadau ef, fel cynnyrchion miloedd o

Digitized by Google

awdwyr eraill, yn debyg o syrthio i ebargofiant. Pa fodd bynag, dengys ei ysgrifeniadau, yn gystal a'i lafur dibaid fel pregethwr, ei fod yn weithiwr difefl. Yr oedd yn ddyn pur ei fuchedd, ac yn un o'r dynion mwyaf diddrwg a charedig a sangodd y ddaear erioed. Cyfarfyddodd a llawer o helbulon yn mlynyddau diweddaf ei oes, ond cadwodd ei gymeriad moesol yn ddifrycheulyd ynddynt oll. Mae bedd-faen hardd wedi ei osod ar ei fedd yn mynwent y Mynyddbach.

## BRYNTEG.

Bernir mai cangen o hen eglwys Ty'rdwncyn yw yr eglwys hon, ac iddi gael ei chorpholi yn eglwys yn amser Mr. Lewis Davies, tua y flwyddyn 1693. Dywedir mai mewn anedd-dy yn Nhrefuchaf, Casllwchwr y dechreuwyd yr achos. Yn gynar yn y ddeunawfed ganrif, symudwyd o'r Drefuchaf i Rhydymardy, ychydig gyda haner milldir yn nes i'r dwyrain. Buwyd yn addoli yn hen dŷ cyfarfod Rhydymardy hyd y flwyddyn 1815, pryd yr adeiladwyd capel y Brynteg. Mae yn debyg i'r eglwys hon o'r dechreuad fod dan yr un weinidogaeth ag eglwys Ty'rdwncyn hyd y flwyddyn 1747, pryd y cafodd un Thomas Jones ei urddo yma. Nid ydym yn gwybod dim am y gwr hwn, ond ei enw ac amser ei urddiad, yr hyn a gawsom yn llyfr eglwys y Cilgwyn, yn llawysgrifen Mr. Phillip Pugh. Mae yn ymddangos na fu cysylltiad Mr. Jones a'r eglwys hon yn faith, oblegid yn Ebrill, 1754, yr oedd Mr. William Evans yn weinidog yma. Mr. Evans, fel yr ymddengys, oedd y gweinidog cyntaf a gadwodd gofnodion eglwysig yma. Mae ychydig ddalenau wedi haner pydru o'r hen lyfr eglwys, a ysgrifenwyd ganddo ef a'i ganlynyddion, yn awr ger ein bron. Bu Mr. Evans yn gweinidogaethu yma, ac yn y Cwmmawr, ddau Sabboth o bob mis hyd y flwyddyn 1770, pryd y bu farw, er mawr alar i'r eglwysi a wasanaethid ganddo mor ffyddlon ac effeithiol. Mae rhai o'r cofnodion a ysgrifenwyd ganddo yn llyfr yr eglwys yn dangos fod yr aelodau yn wasgaredig iawn, bod yr achos yn hen yn ei amser ef, a bod llawer o fywyd a gweithgarwch yn yr eglwys. Yr ydym yn cael fod rhai o'r aelodau yn byw yn ymyl tref Abertawy, a rhai yn mhlwyfydd Llanelli, Llangenych, Llanedi, Llanon, a Llangafelach. Yn mysg y marwolaethau a gofnodir, cawn y rhai canlynol: "Mai 8fed, 1754, bu farw yr hen gristion duwiol a selog David Rowland, o blwyf Llanedi. Yr oedd ei enaid yn llawn cysur yn ei awr ddiweddaf. Claddwyd ef yn Llanedi." "William Harry, o dref Casllwchwr, a ymadawodd a'r byd hwn Ionawr 6ed, 1763. Bu yn aelod o'r eglwys hon tua deugain mlynedd. Yr oedd yn un ffyddlon a diwyd iawn gyda moddion gras. Aeth o'r byd hwn a'i enaid yn gyflawn o dangnefedd, ac a'i ffydd yn ddiysgog yn yr Arglwydd Iesu. Ei eiriau diweddaf ydoedd gorchymyn ei unig fab i ras Duw. Claddwyd ef yn Nghasllwchwr." "David Mathew, hen broffeswr a henuriad llywodraethol yn eglwys Rhydymardy, ac ymadawodd a'r bywyd hwn mewn heddwch a thawelwch enaid, Tachwedd 18fed, 1769."

Yn ol yr hen gofnodion hyn, mae yn ymddangos mai tua thri o aelodau yn y flwyddyn oedd yr ychwanegiad at yr eglwys yn nhymor gweinidogaeth Mr. W. Evans, ar ol tynu allan y marwolaethau. Pan ystyrir mai eglwys fechan mewn gwlad deneu o bobl ydoedd, yr oedd y cynydd yn gymaint ag a allesid ddisgwyl. Mae y cofnodiad canlynol yn dangos nad

Digitized by Google

oedd yr eglwys yn amddifad o fywyd ysbrydol: "Medi 6ed. 1762, heddyw trwy gydsyniad unfrydol yr eglwys, cadwasom ddydd o ympryd a gweddi ar ran ein plant ac ieuengctyd y gymydogaeth yn gyffredinol, i ddeisyf bendith yr Arglwydd i wneyd y weinidogaeth yn effeithiol er eu troedigaeth. Traddodwyd ychydig sylwadau sylfaenedig ar y nawfed benod o Nehemiah, a rhoddodd yr Arglwydd radd o'i gymorth i'r hen frodyr i ymdrechu ag ef mewn gweddi. Yr ydym yn cyfrif hyn yn arwydd y bydd iddo, yn ol ei addewid, ein hateb i ryw fesur yn ei amser ei hun." Mae y crybwyllion am gasgliadau sydd yn yr hen lyfr yn dangos fod yr eglwys hon yn meddu gradd helaethach o gyfoeth ac ysbryd haelionus na'r eglwysi yn gyffredinol yn y dyddiau hyny. Mehefin 22ain, 1755, casglwyd pymtheg swllt ar gais Mr. Owen Davies at adeiladu capel Esgairdawe. Ebrill 22ain, 1759, casglwyd tair punt a deuddeg swllt a chwe' cheiniog at gynorthwyo Mr. Jenkin Morgan i adeiladu capel yn Mon. Yn 1762, casglodd Mr. Lewis Rees dair punt at adeiladu capel y Mynyddbach, ac yn Tachwedd 1770, casglodd Mr. Thomas Lewis ddeg swllt-ar-hugain at adeiladu capel Ty'nycoed, Glyntawy. Mae yn ymddangos fod cyfarfod gweinidogion yn cael ei gynal yn y lle hwn fynychaf bob blwyddyn. Mae y cofnodion canlynol am gyfarfodydd o'r fath wedi diange rhag y difrod a ddigwyddodd i'r rhan fwyaf o hen lyfr yr eglwys. "Cynaliwyd cyfarfod gweinidogion yn Rhydymardy Mai 22ain a'r 23ain, 1754. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol, sef Meistri Edmund Jones, Joseph Simons, Millbourn Bloom, Thomas Lewis, Owen Davies, Evan Williams, Thomas Davies, a William Evans, gweinidog y lle. Y dydd cyntaf pregethodd Mr. Edmund Jones, oddiwrth Iago i. 16. Yr ail ddydd pregethodd Mr. Owen Davies, a Mr. Millbourn Bloom, y ddau oddiwrth yr un testyn, sef Heb. ii. 3., ac oedfa anghyffredin o doddedig ydoedd. Yr oedd llaw yr Arglwydd i'w gweled yn amlwg yn yr effeithiau a ganlyddid ar y bobl. Dydd o wledd fras i bob cristion ydoedd. Cydunodd y gweinidogion ar y pethau canlynol: (1) I gadw dydd o ddiolchgarwch i'r Arglwydd am arbed y da corniog yn Nghymru rhag y clefyd sydd mewn ffordd o farn oddiwrth yr Arglwydd, wedi difetha miloedd o honynt yn Lloegr. (2) I weinyddu dysgyblaeth lemach ar bersonau o fuchedd anfoesol yn ein gwahanol eglwysi." "Cynaliwyd cyfarfod gweinidogion yn Rhydymardy, Mehefin 2il a'r 3ydd, 1756. Yr oedd y gweinidogion parchedig canlynol yn bresenol, sef Meistri Lewis Jones, Edmund Jones, Lewis Rees, Evan Williams, Thomas Jones, Thomas Davies, Henry Thomas, Rees Davies, William Miller, Benjamin Cadman, Thomas Lewis, William Jones, a William Evans. Pregethodd Mr. Rees Davies bregeth ardderchog y dydd cyntaf oddiwrth 1 Tim. i. 15. Y dydd canlynol pregethodd Mr. Lewis Rees oddiwrth Gal. iv. 18., a Mr. Lewis Jones oddiwrth Mat. xxviii. 20., a bendigedig fyddo enw Duw, oedfa hyfryd ydoedd, canys fe anrhydeddodd yr Arglwydd ni a'i bresenoldeb, i'w enw mawr y byddo'r holl ogoniant. Cydunwyd yn mysg y gweinidogion—(1) I gadw dydd o ympryd a gweddi yn ein gwahanol eglwysi unwaith bob tri mis ar gyfrif cyfeiliornadau yr oes, y marweidd-dra crefyddol sydd yn mysg yr Ymneillduwyr, i ddymuno bendith yr Arglwydd ar arfau Lloegr yn y rhyfel presenol a Ffraingc, ein gelyn cyffredin, i ddeisyf dylanwad yr Ysbryd er troedigaeth y dynion duon yn yr India Orllewinol, ac i ddiolch i Dduw dros y rhai sydd wedi eu dychwelyd yno yn barod. (2) I gadw dysgyblaeth fanylach yn ein heglwysi, ac i fod yn fwy diwyd i holwyddori ein pobl."

Digitized by Google

"Cynaliwyd cyfarfod gweinidogion yn Rhydymardy, Mai 31ain, a Mehefin 1af, 1758, pryd yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol, sef Meistri Joseph Simons, Gellionen; Thomas Jones, Drefach; Millbourn Bloom, Pentretygwyn; Thomas Morgan, Henllan; Lewis Phillips, o'r un lle; Owen Davies, Crofft-y-cyff; Thomas Davies, Castellnedd; David Williams, Cefnarthen; Henry Thomas, Gellidochleithe, (Godrerhos); Isaac Price, Llanwrtyd; David Jardine, Abergavenny, a William Evans, gweinidog y lle. Anrhydeddodd y Duw mawr ni a'i bresenoldeb. Bendigedig fydd ei enw." "Cynaliwyd cyfarfod gweinidogion yn Rhydymardy, Mehefin 10fed a'r 11eg, 1761, pryd yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol, sef Meistri Morris Griffith, Kebidog, (Trefgarn); David Lloyd, Brynberian; Rees Davies, Canerw; Thomas Davies, Llanybri; John Davies, Trelech; Thomas Jones, Drefach; Thomas Gray, Llwynypiod; Millbourn Bloom, Pentretygwyn; Evan Griffiths, Capel Sïon; Jenkin Morgan, o Ynys Mon; Joseph Simons, Castellnedd; Solomon Harris, Abertawy; Lewis Rees, Ty'rdwncyn; Edward Williams, Blaengwrach; Henry Thomas, Gellidochleithe; Thomas Williams, Groeswen, a William Evans, gweinidog y lle, heblaw amryw bregethwyr heb eu hurddo. Fe ymddangosodd y Duw mawr yn amlwg yn ein plith. Bendithier ei enw."

Gallwn farnu oddiwrth luosogrwydd y gweinidogion a ddeuant i'r cyfarfodydd, yr ystyrid Rhydymardy, y pryd hwnw, yn lle o gryn bwysigrwydd. Mae yn ymddangos i'r eglwys oddiar farwolaeth Mr. W. Evans, yn 1770, fod heb un gweinidog sefydlog hyd 1777, pryd yr urddwyd Mr. Noah Jones, myfyriwr o athrofa Abergavenny. Bu Mr. Jones yn llafurio yma gyda mesur o lwyddiant hyd 1784, pryd y symudodd i Lanharan a'r Taihirion. Dilynwyd ef gan Mr. Jonathan Lewis, aelod o eglwys Capel Isaac. Tua dwy flynedd y bu ef yma. Y gweinidog nesaf oedd Mr. Daniel Lewis, myfyriwr o athrofa Croesoswallt. Urddwyd ef yn 1789, a bu yma hyd ddiwedd y flwyddyn 1803, pryd y symudodd i Zoar, Merthyr. Y gweinidog nesaf oedd Mr. Thomas Edwards, Castellnedd. Mae yn ymddangos iddo ef ddechreu ei lafur yma yn 1805, ac iddo ymadael yn 1813. Yn mis Tachwedd, y flwyddyn hono, dechreuodd Mr. Lewis Powell, o Lanrwst ei weinidogaeth yma. Mab yr hybarch Jonathan Powell, Rhosymeirch oedd ef. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Gwrecsam, ac urddwyd ef yn Llanrwst yn 1810. Bu yn llwyddianus iawn am y tymor byr y bu yno, ac yma drachefn, mae yn ymddangos ei fod yn boblogaidd iawn am rai blynyddau. Ond yn raddol daeth yn amlwg ei fod yn yfwr anghymedrol, ac mewn canlyniad, lleihaodd ei barch a'i boblogrwydd, a phan ddeallodd yntau fod yr eglwysi ar fedr ymwrthod ag ef, cymerodd y blaen arnynt, trwy fyned at Esgob Tyddewi i ofyn am urddau esgobyddol. Cafodd yr hyn a geisiai, a threuliodd weddill ei oes yn gurad yn Llanon, sir Gaerfyrddin, yn hollol ddinod a diddefnydd i fyd ac eglwys. Tua diwedd y flwyddyn 1818, y rhoddodd ei swydd i fyny yn y Brynteg a'r Crwys, ac yn mhen ychydig wythnosau wedi hyny, rhoddodd yr eglwysi alwad i Mr. John Evans, yr hwn a lafuriodd yn eu plith am agos i ddeunaw-ar-hugain o flynyddau gyda pharch a llwyddiant mawr. Yn y flwyddyn 1849, gan fod Mr. Evans wedi cymeryd gofal yr achos yn Mhenyclawdd, mewn cysylltiad a'r Crwys a'r Brynteg, teimlai fod maes ei lafur yn ormod, ac felly anogodd eglwys y Brynteg i roddi galwad i Mr. Isaac Williams, yr hyn a wnaethant. Urddwyd Mr. Williams Ebrill 25ain, 1849. Dechreuwyd gwasanaeth yr urddiad trwy weddi gan Mr. E. Griffith, Abertawy; tra-

ddodwyd y gynaraeth gan Mr. T. Rees, Siloa, Llanelli; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. T. Thomas, Clydach; gweddiwyd yr urddweddi gan Mr. J. Evans, Crwys; rhoddwyd y siars i'r gweinidog gan Mr. D. Jones, Gwynfe, ac i'r eglwys gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Gweddiwyd a phregethwyd y nos flaenorol, a phrydnawn a hwyr dydd yr urddiad, gan Meistri W. Williams, Bryn; H. Davies, Bethania; T. Davies, Llandilo; J. Evans, Capel Sïon; Griffith John, Abertawy, (Cenhadwr i China); J. Thomas, Cefncribwr; J. Thomas, Maenclochog; J. Davies, Cwmaman; W. Humphreys, Glandwr; E. Jacob, Abertawy; J. Mathews, a D. Evans, Castellnedd. Ni bu arosiad Mr. Williams yma ond byr, tua dwy flynedd a dau fis, ond yr oedd yn boblogaidd a pharchus iawn tra y bu yn y lle. Derbyniodd alwad i Drelech, a symudodd yno yn Mehefin, 1851, ac yno y mae hyd yn bresenol. Ar ol ymadawiad Mr. Williams, bu yr eglwys drachefn am oddeutu tair blynedd dan ofal ei hen weinidog, Mr. Evans, o'r Crwys. Yn 1854, rhoddasant alwad i Mr. William Humphreys, i'w gwasanaethu mewn cysylltiad a Chadle, yr hyn a wnaeth yn ffyddlon ac effeithiol hyd ei farwolaeth yn 1869. Er hyny hyd yn awr, nid oes un gweinidog sefydlog wedi bod yma, ond yr ydym yn deall eu bod wedi rhoddi galwad unfrydol i Mr. John Stephens, Taibach. Os yma y daw, hyderwn y caiff ef a'r eglwys fesur helaeth iawn o wenau yr Arglwydd. Bu yr hen eglwys hon am tua chan mlynedd yn addoli yn hen gapel bychan Rhydymardy, ac fel y nodasom eisioes, adeiladwyd capel y Brynteg yn 1815, ac yn 1846, cafodd ei ailadeiladu a'i helaethu yn fawr. Mae yn awr yn addoldy cyfleus, digon helaeth i bedwar neu bum' cant o bobl i eistedd ynddo. Ni bu yr eglwys hon ar un cyfnod o'i hoes yn lluosog iawn, o herwydd nad oedd yr ardal hyd yn ddiweddar ond cymharol deneu ei phoblogaeth, ond yr ydym yn barnu y gall gyda bendith yr Arglwydd, ddyfod yn eglwys gref a lluosog iawn yn mhen ychydig amser, gan fod y boblogaeth yn cynyddu yn gyflym.

Nis gwyddom am neb a gyfodwyd yma i bregethu ond William Davies, o Whitley. Bu ef yma am ddegau o flynyddau yn bregethwr cynorthwyol parchus iawn. Yr oedd yn Galfiniad uchel o ran ei farn. Y mae wedi marw er's tua deng-mlynedd-ar-hugain. Yma hefyd yn amser Mr. W. Evans, y derbyniwyd Mr. John Thomas, awdwr *Caniadau Sïon*, i gyfundeb yr Annibynwyr, ac oddi yma yr aeth i athrofa Abergavenny, ond gan ei fod yn pregethu gyda'r Methodistiaid cyn ei dderbyn yma, prin y gall yr eglwys hon honi yr anrhydedd o'i gyfodi i bregethu.

Gan mai yr un gweinidogion a fu yma ac yn y Crwys ond Mr. Thomas Jones yn 1747, am yr hwn nid oes genym un hanes i'w roddi, a Mr. W. Humphreys, yr hwn y rhoddir ei hanes yn nglyn a Chadle; yn nglyn a hanes y Crwys y rhoddwn gymaint o gofnodion bywgraphyddol ag sydd genym am y gweinidogion.

## CRWYS.

Mae y Crwys yn mhlwyf Llanrhidian, ar gwr uchaf y rhan hono o Forganwg a elwir Browyr. Mae yma gapel helaeth a chynnulleidfa luosog o amaethwyr, glowyr, a gweithwyr cyffredin yn ymgynnull. Nid oes genym hanes manwl am ddechreuad yr achos hwn. Cangen ydyw o'r eglwys sydd yn awr yn y Brynteg, ond y mae y ferch wedi myned lawer yn

Digitized by Google

gryfach na'r fam er's ugeiniau o flynyddau bellach. Pan oedd yr eglwys a fu wedi hyny yn Rhydymardy, ac sydd yn awr yn Brynteg, yn addoli mewn anedd-dy yn Nhrefuchaf, Casllwchwr, mae yn debyg fod rhai o ardal y Crwys yn perthyn iddi, ac er mwyn eu cyfleusdra eu hunain a'u cymydogion, darfu iddynt drwyddedu anedd-dy a elwir Ty'rcethin at bregethu ynddo. Mae yn debyg i hyn gymeryd lle tua y flwyddyn 1700, neu yn fuan ar ol hyny. Nid yw yn hysbys pa cyhyd y bu y gynnulleidfa yn ymgynnull yno. Cafodd capel ei adeiladu yn y Cwmmawr, yn yr un gymydogaeth, yn gynar yn y ddeunawfed ganrif, oblegid yr oedd wedi cael ei ailadeiladu, neu ei adgyweirio yn y flwyddyn 1766, fel y dengys y sylw canlynol o lawysgrifau William Jones, aelod yn y Mynyddbach. "Mehefin 29ain, 1766. Y Sabboth hwn yr oeddid yn casglu arian at gynnulleidfa'r Cwmmawr, ac fe gasglwyd rhagor na dau cymaint ag a gawsom ni oddiyno at ein capel. Er nad oes neb yn danod iddynt, ond er hyn i gyd nid yw hyny yn eu boddloni. Maent yn eu *cleimio* fel dyled, ac yn *cleimio* mwy na'r tri chymaint ag a roisant hwy i ni. Yr wyf fi yn tybied fod eu gweinidog, er ei fod yn wr da a duwiol, wedi ymollwng i dymerau anghristionogol rhyfedd." Ar ol bod am lawer o flynyddau yn addoli yn y Cwmmawr, barnwyd fod eisiau cael addoldy mewn man mwy cyfleus a chanolog o'r ardal, ac felly yn 1788, adeiladwyd capel y Crwys, yr hwn sydd yn sefyll ar fan amlwg, lle y mae amryw ffyrdd yn croesi eu gilydd. Ailadeiladwyd y capel hwn yn y flwyddyn 1831, ac y mae yn addoldy mawr iawn mewn lle gwledig. Amgylchynir ef gan fynwent helaeth. Yr unig weinidog a fu yma, heblaw y gweinidog presenol, nad oedd hefyd yn weinidog i eglwys y Brynteg, oedd William Llewellyn, yr hwn a urddwyd yma yn 1746. Gan i Thomas Jones gael ei urddo yn Nghasllwchwr y flwyddyn ar ol urddiad W. Llewellyn yn y Cwmmawr, mae yn naturiol casglu mai methu cyduno wnaeth y ddwy eglwys ar un o'r ddau ymgeisydd, ac i bob un o'r eglwysi urddo yr un mwyaf hoff ganddi. Mae hanes William Llewellyn, yr un fath a Thomas Jones, yn hollol anhysbys i ni. Y cwbl a wyddom am dano ydyw iddo gael ei urddo yn y Cwmmawr yn 1746, a'i fod yma yn 1751. Dywed Mr. Davies, Mynyddbach, mai aelod o eglwys Ty'rdwncyn ydoedd, ac iddo farw heb fod yn hir ar ol ei urddo. Yn 1754, yr ydym yn cael eglwysi y Cwmmawr a Rhydymardy drachefn wedi ymuno dan yr un weinidogaeth, ac felly y buont o hyny hyd urddiad Mr. Isaac Williams, yn y Brynteg, yn 1849. Cyn belled ag y gallwn farnu, yr oedd eglwys y Cwmmawr yn wanach ac yn llai ei rhif nag eglwys Rhydymardy, hyd nes yr adeiladwyd addoldy y Crwys yn 1788, ond er y pryd hwnw aeth yr olaf yn flaenaf, ac y mae yn parhau i gadw y flaenoriaeth hyd yn bresenol. Bu yr eglwys hon ar rai adegau, yn nhymor gweinidogaeth lwyddianus Mr. John Evans, yn cynwys tua thri chant o aelodau. Wedi i Mr. Evans ymgymeryd a gofal yr achos yn Mhenyclawdd, unodd llawer o aelodau y Crwys a'r eglwys yno, ac er y pryd hwnw nid yw yr aelodau mor lluosog ag yr oeddynt cyn hyny. Mae yr eglwys hon wedi bod yn ganmoladwy am ei hysbryd tangnefeddus trwy holl ysbaid hirfaith ei hanes. Ni chlywsom fod dim tebyg i derfysg wedi bod ynddi erioed. Ar ol marwolaeth Mr. Evans, yn Ionawr, 1856, buwyd heb weinidog sefydlog yma hyd Rhagfyr, 1857, pryd y symudodd Mr. John Lloyd Jones yma o Dyddewi, mewn cydsyniad a galwad unfrydol yr eglwysi yn y Crwys a Phenyclawdd. Mae Mr. Jones wedi gwasanaethu y ddwy eglwys yn effeithiol o'r pryd hwnw hyd

Digitized by Google

yn awr, ac yr ydym yn hyderu fod etto flynyddau lawer o ddefnyddioldeb o'i flaen yn y cylch pwysig hwn. Mae yr eglwysi yn y Crwys a Phenyclawdd er's rhai blynyddau bellach wedi dechreu myned trwy gyfnewidiad pwysig gyda golwg ar iaith y gwasanaeth crefyddol. Mae y Saesonaeg yn ennill tir yn gyflym yn y ddwy gynnulleidfa, ac yn debyg yn mhen ychydig iawn o flynyddau etto o lwyr ymlid yr hen Gymraeg o'r pulpudau. O herwydd sefydlogrwydd y boblogaeth nid yw y cyfnewidiad yn debyg o effeithio mor niweidiol yma ag y mae wedi gwneyd mewn rhai manau.

Dichon fod amryw o aelodau yr eglwys hon yn yr oesau gynt wedi cyfodi yn bregethwyr, nas gallasom ni ddyfod o hyd i'w henwau. Y rhai canlynol yn unig y gwyddom ni am danynt.

Thomas Jones. Yr hwn a fu yn weinidog yn Newmarket, sir Fflint, am un-ar-ddeg-a-deugain a flynyddau. Daw ef etto dan ein sylw yn nglyn a hanes yr eglwys yno.

Thomas Edwards, Ebenezer, Arfon. Yn nglyn a'r eglwys a wasanaethodd mor ffyddlon trwy holl dymor ei weinidogaeth, y daw ei hanes yntau dan sylw.

Henry Edwards, brawd Thomas Edwards. Gyda hanes yr eglwys yn Moelfro, Mon, y rhoddwn ei fywgraphiad ef.

Michael Thomas, Wootton Bassett. Yr oedd ef yn nai fab chwaer i Mr. Evans, y gweinidog. Daeth yn ieuangc o ardal Capel Iwan i'r ardal hon i gadw ysgol, a dechreuodd bregethu yma yn 1829. Aeth i'r athrofa i Gaerfyrddin yn 1832, ac ar derfyniad ei amser yno, derbyniodd alwad o Wootton Bassett, sir Wilts, lle yr urddwyd ef yn 1838. Bu yno yn ddefnyddiol a pharchus iawn hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Medi 12fed, 1857, pryd yr oedd yn bump a deugain oed. Brawd iddo ef oedd y diweddar Mr. Samuel Thomas, St. Clears.

John Marks Evans, mab Mr. Evans y gweinidog. Bu ef yn gweinidogaethu yn olynol yn y Sarnau, Maldwyn, Llacharn, sir Gaerfyrddin, a Newton, Morganwg, o'r flwyddyn 1839 hyd 1868, pryd y gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i roddi ei swydd i fyny. Mae yn awr yn byw yn Abertawy.

Joseph Hugh, oedd hen wr da a phregethwr cynorthwyol parchus yn yr eglwys hon, a'r eglwysi cymydogaethol, am lawer o flynyddau. Bu farw mewn henaint teg yn nhy ei ferch, yn agos i Bentre-estyll tua saith mlynedd yn ol.

Mae llawer o ddynion rhagorol iawn am eu duwioldeb a'u ffyddlondeb wedi bod yn yr eglwys hon o bryd i bryd, y rhai y mae eu henwau yn perarogli yn yr ardal hyd heddyw; megis Morgan Morgans, Rhianfawr; Samuel Eaton, Poundffald; David John, Cwmynant; John Roberts, Ystlysyrhian; David Beynon, Hopkin Rees, ŵyr yr hybarch Lewis Rees, Mynyddbach, ac amryw eraill a ellid enwi.

Mae ysgoldy cyfleus wedi ei godi mewn cwr o'r ardal a elwir y Wernoleu, yn yr hwn y cedwir Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol. Cangen o'r eglwys hon hefyd yw yr eglwys yn Ngwaenarlwydd.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Yr ydym wedi rhoddi cymaint o hanes y gweinidogion fu yma yn dechreu yr achos ag a wyddem, yn nglyn a hanes y Mynyddbach.

Digitized by Google

WILLIAM LLEWELLYN, oedd y gweinidog cyntaf a fu yma ar wahan oddiwrth y Mynyddbach. Urddwyd ef fel y gwelsom yn 1746, ac yr oedd yma yn 1751, ond yr oedd naill a'i wedi marw, neu wedi symud yn 1754. Nid oes genym unrhyw hanes pellach i'w roddi am dano.

WILLIAM EVANS. Ar ddiwedd hanes Cwmllynfell y rhoddir ei fywgraphiad ef.

NOAH JONES. Gweler hanes Llanharan a'r Taihirion.

JONATHAN LEWIS. Mab un Lewis Thomas Dafydd, o ardal Capel Isaac, oedd ef. Dechreuodd bregethu yr un amser a Mr. Thomas, Penmain, a Mr. Bowen, Castellnedd. Bu am ychydig amser yn ysgol Mr. John Griffiths, Glandwr. Daeth oddiyno i'r Cwmmawr a Rhydymardy tua diwedd y flwyddyn 1784, a bu yma tua dwy flynedd, yna symudodd i Lanybri, lle y bu am ychydig fisoedd. Cymerwyd ef yn glaf yn ardal Penygraig, yn y Plasgwyn fel y tybir, a bu farw yno, a chladdwyd ef wrth gapel Penygraig, tua diwedd y flwyddyn 1786, neu ddechreu 1787. Dywedai yr hen bobl a'i hadwaenai ei fod yn wr ieuangc hynaws a chrefyddol iawn, ac yn bregethwr da.

DANIEL LEWIS. Gweler hanes Llanfaple, Mynwy.

THOMAS EDWARDS. Yn hanes Godrerhos y rhoddwn yr hyn a wyddom am dano ef, gan mai yno y diweddodd ei weinidogaeth yn Nghymru.

LEWIS POWELL. Nid oes genym ddim i ychwanegu at yr hyn a nodasom eisioes gyda golwg arno ef.

JOHN EVANS. Ganwyd ef mewn amaethdy a elwir Pantygwenith, plwyf Cenarth, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1791. Enwau ei rieni oeddynt Michael a Rachel Evans, ac yr oeddynt mewn amgylchiadau bydol gwell na'r cyffredin o amaethwyr y gymydogaeth. John oedd yr ieuengaf o naw o blant. Yn Nghapel Iwan, dan weinidogaeth Mr. Morgan Jones, Trelech, yr addolai ei rieni. Dygwyd ef dan argyhoeddiadau crefyddol yn ieuangc, a phan yn bedair-ar-ddeg oed, derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Nghapel Iwan. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny dechreuodd bregethu. Ar ol bod am gryn amser yn yr ysgol yn ei ardal enedigol, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. John Lewis, masnachydd, Caerfyrddin, ond ni fu yno yn hir. Gan faint ei duedd at bregethu, a'i syched am wybodaeth, aeth i'r Ysgol Ramadegol a gedwid gan Mr. Peter mewn cysylltiad a'r athrofa. Wedi bod yno am ysbaid, derbyniwyd ef i'r athrofa lle yr hynododd ei hun yn mysg ei gydfyfyrwyr fel dysgwr rhagorach na nemawr. Tra yn yr athrofa ennillodd y cymeriad o fod yn anghyffredin o alluog ei feddwl, ac felly yr ystyrid ef trwy ei oes gan bawb o'i gydnabod. Wedi gorphen ei amser yn yr athrofa, dychwelodd i'w ardal enedigol, a bu yno am rai blynyddau yn cadw ysgol. Y pryd hwnw, ymunodd mewn priodas a Mary, merch Mr. John Marks, o Benywaun, Cilrhedyn, yr hon yn mhob ystyr a gafodd yn "ymgeledd gymwys iddo." Bu iddynt un-ar-ddeg o blant, a chawsant yr hyfrydwch o'u gweled oll yn arddel crefydd. Yn nechreu y flwyddyn 1819, talodd Mr. Evans ymweliad a'r eglwysi yn y Crwys a'r Brynteg, a chafodd ei hoffi i gymaint o raddau yn y ddau le, fel y rhoddwyd iddo alwad unfrydol. Urddwyd ef yn Mai 1819. Yr oedd Mr. Jones, Trelech; Mr. Peter, Caerfyrddin, ac eraill, yn cymeryd rhan yn ngwasanaeth yr urddiad. Er iddo gael mwy nag un cynyg i symud i eglwysi lluosocach a phwysicach, etto dewisodd ef dreulio ei oes yn y man lle y dechreuodd ei weinidogaeth. Mae yn sicr na fu un gweinidog mewn



Digitized by Google

unrhyw eglwys nac oes yn Nghymru, yn sefyll yn uwch yn nghyfrif ei bobl na Mr. Evans. Credent hwy nad oedd galluocach gweinidog yn yr holl fyd na'u gweinidog hwy. Adwaenom lawer o bobl o'r Crwys a'r Brynteg, sydd wedi ymsefydlu mewn ardaloedd eraill, ac ymuno a'r eglwysi yn yr ardaloedd hyny, ac y maent braidd yn ddieithriad yn ddynion tangnefeddus a hawdd eu trin. Wedi arfer coleddu meddyliau uchel am y gweinidog y magwyd hwy dan ei weinidogaeth, ymddygant yn foneddigaidd at eu gweinidogion yn mhob lle arall. Am yr ugain mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth, y Crwys a'r Brynteg yn unig oedd dan ofal Mr. Evans, ond yn 1839, cymerodd ofal y gynnulleidfa fechan a ymgynnullai i'r capel a adeiladesid gan yr Arglwyddes Barham, yn Mhenyclawdd, a chynyddodd yr achos yn fawr dan ei ofal yno. Yr oedd ei lafur yn fawr iawn, pe na buasai yn ddim ond pregethu, ond gan nad oedd cyfraniadau yr eglwysi yn agos ddigon at gynhaliaeth ei deulu lluosog, bu raid iddo am lawer o flynyddau ychwanegu y llafur o gadw ysgol ddyddiol at waith y weinidogaeth. Yr oedd yn hapus iawn fel ysgolfeistr yn gystal ag fel gweinidog. Coleddai ei ysgolheigion oll y meddyliau uchaf ac anwylaf am dano. Bu amryw bregethwyr yn derbyn addysg yn ei ysgol, megis John Davies, Mynyddbach; John Joseph, Llanedi; Jenkin Jenkins, America; W. Jenkins, Pentre-estyll; J. Bevan, Llangadog; W. Williams, Bryn, Llanelli; I. Williams, Trelech, a J. Hopkins, W. Rees, a D. Knoyle, y rhai sydd wedi myned yn offeiriaid er's blynyddau bellach. Efe oedd oracl yr ardal mewn pethau gwladol yn gystal a chrefyddol. Pan fuasai eisiau mesur tiroedd a thai, gwneyd ewyllysiau, cytundebau, a'r cyffelyb, at Mr. Evans yr elai pawb, ac yr oedd gan yr ardalwyr lawer mwy o ymddiried yn ei fedr ef at bethau felly nag mewn un cyfreithiwr. Nid oes neb a fedr ddirnad pa faint o ddaioni gwladol a chrefyddol a wnaeth i'r ardal. Bu ei bobl yn ofalus i roddi iddo gyflawnder o waith, ac o barch o ryw fath, dros amser ei ymdaith yn eu mysg, ond buont fel y rhan fwyaf o eglwysi Cymru, yn fyr o wneyd yr hyn a ddylasent ac a allasent at ei gynaliaeth, fel y bu raid iddo werthu ei dir er magu ei deulu. Daeth atynt yn wr cymharol o gyfoethog, a bu farw, wedi agos i ddeugain mlynedd o lafur caled, heb ond y peth nesaf i ddim i'w adael ar ei ol i'w weddw a'i blant.

Yn y flwyddyn 1841, bu twymyn drom yn nheulu Mr. Evans, a bu ef ei hun, yn gystal ag amryw o'i blant, yn gorwedd am rai wythnosau. Ar yr amser hwnw yr oedd y gweinidogion cymydogaethol yn llanw ei bulpudau. Un bore Sabboth, pryd yr oedd ef yn ymddangos yn anobeithiol o glaf, yr oedd Mr. Morris, y pryd hwnw o Glandwr, i bregethu yn y Crwys. Ar ol darllen a chanu, cyn dechreu gweddio, anerchodd y gynnulleidfa yn y dull toddedig y medrai ef wneyd, gan anog pawb yno i uno gydag ef mewn gweddi ar ran y gweinidog. Yn ei weddi erfyniodd ar yr Arglwydd am estyn o leiaf bymtheng mlynedd ar ei fywyd. Mae yn deilwng o sylw i Mr. Evans fyw bymtheg mlynedd ond mis o'r diwrnod hwnw.

Yn mlynyddau diweddaf ei oes blinid Mr. Evans yn fawr gan y gymalwst, a'r clefyd hwnw, a'r ol wythnosau o boenau dirdynol, a osododd derfyn ar ei fywyd nos Sabboth, Ionawr 13eg, 1856. Claddwyd ef yn mynwent y Crwys. Pregethodd Mr. Jones, Heolycastell, Abertawy, a Mr. Davies, Cwmamman, yn ei angladd i dorf fawr a galarus.

O ran corph yr oedd Mr. Evans yn hardd, a lluniaidd, ac o wneuthuriad cadarn, a thua pum' troedfedd a deng modfedd o daldra. O ran ei dymer yr

Digitized by Google

oedd yn un o'r dynion mwyaf hawddgar a chyfeillgar a adnabuasom erioed; ac yn ei ymddangosiad a'i ymddygiad, yr oedd yn lân, heb fod yn goegaidd, ac yn foneddigaidd, heb fod yn fursenaidd. Yr oedd, fel y nodasom yn barod, yn ddyn o feddwl nodedig o dreiddgar a galluog. Dichon nad oedd un gweinidog yn Nghymru yn alluocach duwinydd nag ef. Yr oedd wedi talu sylw dwys i Athrawiaeth yr Iawn, Gwaith yr Ysbryd, Penarglwyddiaeth, a'r cyffelyb, fel y pregethai arnynt mor eglur a tharawiadol a neb a wrandawsom erioed. Gresyn na buasai ei duedd a'i amgylchiadau yn caniatau iddo ysgrifenu a chyhoeddi ei fyfyrdodau ar y pyngciau mawrion hyn. Buasai y llyfr yn gaffaeliad anmhrisiadwy. Fel Pregethwr yr oedd yn ymadroddwr rhwydd a chryf, a'i lais yn hyglyw, heb fod yn berseiniol nac yn aflafar. Safai ar dir canol rhwng y bloeddiwr poblogaidd a'r siaradwr sychlyd a dieffaith. Pregethwr cryf, eglur, a buddiol i bob math o wrandawyr ydoedd, ond yn fwy nodedig o swynol i feddylwyr craffus nag i'r lluaws difeddwl. Medrai drin ac egluro pyngciau dyfnion duwinyddiaeth yn fuddiol a tharawiadol i ddynion meddylgar, heb fod yn boenus i'r anwybodus. A chymeryd pob peth at ystyriaeth, yr oedd Mr. Evans o'r Crwys, yn un o'r gweinidogion mwyaf cyflawn a diddiffyg yn ei oes. Ni chlywsom neb o'i gydnabod erioed yn dyweyd dim yn anmharchus am dano. Yr uchel-Galfiniaid yn unig a deimlant fesur o oerni tuagato o herwydd ei fod yr hyn a alwant hwy yn Ffwleriad, ond yr oedd ei gymeriad a'i hawddgarwch y fath fel na theimlai y cyfryw ryw gasineb cryf ato.

## YR YSGETTY.

Ardal nodedig o brydferth, yn y rhan isaf o blwyf Abertawy, yw yr Ysgetty, ychydig gyda dwy filldir i'r gorllewin o'r dref. Mae yn dra thebyg fod yma gangen o eglwys Ty'rdwncyn yn cynal gwasanaeth crefyddol rheolaidd oddiar y flwyddyn 1688, os nad yn hir cyn hyny, ond gan nad oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig am yr achos ar gael, nid oes genym un sicrwydd am amser ei ddechreuad. Ar brydnawn a hwyr y Sabbothau y cedwid y gwasanaeth yma gynt, am y byddai pawb a fedrant yn myned i Dy'rdwncyn yn y bore. Cawn y cofnodiad canlynol yn nydd-lyfr Thomas Morgan, Henllan, yr hyn a ddengys mai felly yr arferid gwneyd yn ei amser ef, ac yn hir wedi hyny. "Tachwedd 15fed, 1741, yn Nhy'rdwncyn yn y bore, oddiwrth Col. i. 12; yn yr hwyr yn yr Ysgetty, oddiwrth Job xxx. 23." Mae yn sicr fod gwahanol anedd-dai yn yr ardal wedi bod yn dai cyfarfod gan y gynnulleidfa er dechreuad yr achos hyd y pryd yr adeiladwyd y capel cyntaf, ond nid ydym wedi dyfod o hyd i enwau ond dau o honynt, sef y Brynisaf a'r Tygwyn, y lle o ba un y symudodd y gynnulleidfa i'w haddoldy. Yn y flwyddyn 1770, yr adeiladwyd y capel, sef yr unfed-flwyddyn-ar-ddeg o weinidogaeth Mr. Lewis Rees yn y lle.

Yr oedd amryw ddynion selog a gweithgar yn perthyn i'r gynnulleidfa pan adeiladwyd y capel yn 1770. Y ddau henuriad llywodraethol oedd Mr. Rees Harris a Mr. Benjamin Davies, a'r ddau ddiacon oedd Mr. Thomas Perkins a Mr. William Jones. Enwir hefyd Mr. William Gwynne, Cwrt-y-saeson, a Mr. John Habaccuc, o'r Cocyd, fel rhai ffyddlon a haelionus iawn. Bu Mr. Habaccuc fyw nes yr oedd yn 102 flwydd oed. Aelod lled ieuangc oedd Mr. William Rosser, Gwerneinon y pryd hwn, ond parhaodd yn ffyddlon a defnyddiol iawn hyd derfyn ei oes, a bu ei fab Mr. Samuel

Digitized by Google

**Rosser, Goetrefawr, a'i ferch Mrs. Hughes,** Ysgettyisaf, yn golofnau oedyrn dan yr achos, yn enwedig mewn pethau arianol, am ugeiniau o flynyddau. Gan Mr. John Harris, o'r Brynisaf, y cafwyd y tir at adeiladu y capel. Ar y cyntaf rhoddwyd ef yn rhad, ond o herwydd i arolygwyr yr adeiladaeth gymeryd i mewn fwy o dir oddiamgylch y capel, er mwyn cael pren prydferth a dyfai gerllaw y tu fewn i'r mur allanol, nag a nodasai y perchenog ar y cyntaf, digiodd wrthynt a bygythiodd dori y lês, ond wedi llawer o ymdrech, a chullineb Mr. Rees, y gweinidog, ac eraill, cafwyd ganddo roddi lês o 999 o flynyddau am yr ardreth o bum' swllt y flwyddyn. Y mae un peth arall cysylltiedig ag adeiladiad y capel cyntaf yn yr Ysgetty na ddylid ei adael yn ddisylw. Yr oedd morwyn gyda Mr. William Rosser o'r enw Elizabeth, yr hon, o herwydd ei bod yn eneth gref iawn o gorph, a adwaenid dan yr enw *Hearty Bet*. Mae yn ymddangos fod ei sel gyda'r achos goreu yn gryfach na'i chorph, er cryfed oedd hwnw. Gan nad oedd ganddi lawer o arian i'w cyfranu at y capel newydd, elai allan yn y nos, ar ol gorphen ei diwrnod gwaith, i gasglu ceryg a'u cario at yr adeilad. Bu am lawer o nosweithiau am oriau bob nos yn gwneyd hyny, a thebyg iddi arbed rhai punoedd yn y modd hwnw. Pa beth a all sefyll o flaen sel a chariad?

Bu y gynnulleidfa yn addoli yn y capel hwn o 1770, hyd 1842. Yn yr ysbaid hwnw yr oedd agwedd a phoblogaeth yr ardal wedi cyfnewid yn fawr, fel y barnwyd yn angenrheidiol prynu darn o dir i adeiladu capel arno tua haner milldir yn uwch i fyny, er mwyn bod yn fwy yn nghanol y boblogaeth. Gorphenwyd yr adeilad ac agorwyd ef Tachwedd 9fed a'r 10fed, 1842. Rhoddwyd hanes cyfarfod yr agoriad yn y *Diwygiwr* fel y canlyn: "Dechreuwyd yr hwyr cyntaf am 6, pan y gweddiodd y Parch. E. Griffiths, Abertawy, a phregethodd y Parchn. T. Rees, Siloa, Llanelli, a D. Jones, Clydach, oddiwrth Zech. xii. 10-14., ac Esaiah v. 4. Am 10, dydd Iau. dechreuodd y Parch. J. Evans, Crwys, a phregethodd y Parchn. J. Davies, Cwmaman; T. Dodd, Burrows, Abertawy, (yn Saesoneg,) a J. Williams, Ty'nycoed, oddiwrth Salm xlii. 6., Hag. ii. 9., a Ioan viii. 56. Am 3, dechreuodd y Parch. T. Griffiths, Pentregethin, a phregethodd y Parchn. W. Jones, Heolycastell, Abertawy, (yn Saesonaeg,) ac L. Powell, Caerdydd, oddiwrth Esaiah lvi. 3., a Salm xxv. 20. Am 6, dechreuodd y Parch. R. Owens, Abertawy, a phregethodd y Parchn. D. Pugh, York Place, (Bedyddiwr,) yn Saesonaeg, a W. Morris, Glandwr, oddiwrth 1 Petr i. 13., a 2 Cor. xxxiii. 12, 13. Gorphenwyd trwy weddi gan y Parch. W. Ford, Browyr. Yr oedd y cynnulleidfaoedd yn lluosog ac ystyried gerwindeb yr hin, y pregethau yn gynwysfawr a gwlithog, y cyfraniadau yn haelionus, a phob arwyddion fod Duw gyda ni. Teilynga caredigrwydd yr ardal yn gyffredinol ar yr amgylchiad ganmoliaeth wresog, ac yn neillduol Mrs. Hughes, Ysgettyisaf, a blaenoriaid yr eglwys, gydnabyddiaeth gyhoeddus am eu dull ffyddlawn, trefnus, a gofalus, yn dwyn pethau oddiamgylch. Pwrcaswyd y tir, ac adeiladwyd y capel helaeth, hardd, a chyfleus hwn a 700p. o draul, o ba un y mae 300p. wedi eu talu eisioes, trwy ymdrech yr ardalwyr yn unig, a theimlant yn ewyllysgar ac awyddus iawn i barhau yn eu hymdrechion, nes cael y tŷ yn ddiddyled i gadw coffadwriaeth o enw Duw Jacob." Trwy gydweithrediad y gynnulleidfa ni buwyd yn hir cyn talu y geiniog olaf o'r ddyled. Mae yn deilwng o sylw fod y capel a'r tir wedi costio mewn gwirionedd tua 900p. er mai 700p. fu raid i'r eglwys dalu. Talodd Mrs. Hughes y gweddill o'i

Digitized by Google

llogell ei hun. Hi oedd yn gweinyddu fel trysorydd pwyllgor yr adeiladaeth. Mae mynwent helaeth a phrydferth iawn oddiamgylch y capel, a llawer o ganoedd o feirw o dref Abertawy, yn gystal ag o'ardal yr Ysgetty, wedi eu claddu ynddi. Y fynwent hon yw *Bunhill fields* Ymneillduwyr Abertawy o bob enwad. Mae tŷ cyfleus ar gwr y fynwent yn perthyn i'r capel, yr hwn a adeiladwyd gan y ddiweddar Mrs. Hughes, yn hollol ar ei thraul ei hun. Er fod y capel hwn, pan yr adeiladwyd ef yn cael ei gyfrif yn un hardd a nodedig o gyfleus, etto, cyn pen wyth-mlynedd-ar-hugain, cyfodwyd capeli yn y dref a'r cwmpasoedd llawer harddach a mwy cysurus, fel lleoedd addoliad. Parodd hyn i gynnulleidfa yr Ysgetty benderfynu mynu capel newydd mwy teilwng o'r oes ac o'u hardal brydferth hwythau, yn yr hon y mae ugeiniau o fan balasdai nodedig o dlysion. Yn 1869, tynwyd y rhan fwyaf oll o'r hen gapel i lawr, ac ail adeiladwyd ef. Y mae yn awr yn addoldy nad oes ei brydferthach yn y deyrnas, ac yn cynwys eisteddleoedd i tua 550 o wrandawyr. Traul yr ailadeiladaeth oedd 1108p., ac y mae mwy na haner y swm hwn wedi ei dalu eisioes, a diau na fydd y gweddill yn hir cyn cael ei lwyr ddileu. Agorwyd y capel tlws hwn, Mehefin 6ed a'r 7fed, 1870, pryd y gweinyddwyd gan Meistri Kilsby Jones, W. Jansen Davies, Llanymddyfri; Dr. Rees, Abertawy; W. E. Jones, Treforis; W. Morgan, Caerfyrddin; T. Johns, Llanelli; J. Thomas, Bryn, a W. Jenkins, Pentre-estyll. Dan yr un weinidogaeth y bu y gangen yn yr Ysgetty a'r fam-eglwys yn y Mynyddbach o'r dechreuad hyd y flwyddyn 1809. Yn y flwyddyn hono, gan fod y cylch gweinidogaethol mor eang, a bod yr eglwysi wedi dewis Mr. Daniel Evans, Bangor, yn gydweinidog a Mr. David Davies, barnwyd mai y ffordd oreu i ddwyn yr achos yn mlaen oedd rhanu y cylch gweinidogaethol. Dewisodd Mr. Davies, Ebenezer, Abertawy, a'r Ysgetty, a gadawodd y Mynyddbach a Threforis dan ofal Mr. Evans. O'r pryd hwnw hyd Mehefin, 1842, pan derfynodd cysylltiad Mr. Thomas Davies ag eglwys Ebenezer, bu yr Ysgetty dan yr un weinidogaeth ag Ebenezer. Yna dewisodd pob un o'r ddwy eglwys eu gweinidogion eu hunain. Rhoddodd eglwys yr Ysgetty alwad i Mr. Edmund G. Williams, o athrofa Aberhonddu, yn niwedd y flwyddyn 1842, ac urddwyd ef Ebrill 20fed, 1843. Bu Mr. Williams yma yn llafurus iawn, ac yn dra llwyddianus, hyd y flwyddyn 1849, pryd y cafodd ar ei feddwl i geisio urddau yn yr Eglwys Sefydledig, yr hyn a gafodd. Y mae er's mwy nag ugain mlynedd bellach yn gaplan carchardy, Abertawy. Mae gan bob dyn ei chwaeth ei hun, ond yr ydym ni yn sicr y buasai yn well genym gael treulio ein neith i bregethu i gynnulleidfa barchus yr Ysgetty, pe buasai raid i ni fyw ar fara a dwfr yn unig, na sefyll trwy y blynyddau, o Sabboth i Sabboth, uwch ben torf o garcharorion, er cael tal da am hyny. Yn y flwyddyn 1851, rhoddodd yr eglwys yn yr Ysgetty alwad i Mr. Thomas Rees Davies, Gwenddwr, mab yr hynod Rees Davies, Saron. Dewisiad anhapus i'r eglwys fu y dewisiad hwn. Bu raid iddynt dori y cysylltiad ag ef yn mhen ychydig gyda dwy flynedd. Yn nechreu y flwyddyn 1855, rhoddwyd galwad i Mr. Lewis Davies, o athrofa Aberhonddu, a mab yr hyawdl David Davies, Sardis; yr hwn a urddwyd yma yn Gorphenaf yr un flwyddyn. Rhoddwyd hanes yr urddiad yn y *Diwygiwr* fel y canlyn: "Gorphenaf 2il a'r 3ydd, 1855, cynaliwyd cyfarfod urddiad Mr. L. Davies, diweddar fyfyriwr yn Aberhonddu, yn yr Ysgetty, ger Abertawy. Nos Lun, dechreuwyd gan Mr. W. Humphreys, Cadle, a phregethodd Meistri Lewis, Carmel,

Digitized by Google

Llangiwc; Evans, Clydach, a Lewis, Ty'nycoed. Dranoeth am 10, dechreuodd Mr. Rees, Canaan, a phregethodd Mr. E. Jacob, Abertawy, ar natur eglwys; gofynodd Mr. E. Griffiths, Abertawy, y gofyniadau; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Evans, Crwys, a phregethodd Mr. D. Evans, Castellnedd, ar ddyledswydd y gweinidog. Am 2, dechreuodd Mr. T. Thomas, Glandwr, a phregethodd Meistri Jones, Heolycastell, Abertawy, yn Saesonaeg, a Daniel, Mynyddbach. Am 6, dechreuodd Mr. Evans, Castellnedd, a phregethodd Meistri Davies, Treforis; Jones, Myddfau, (i'r eglwys,) a Rees, Canaan. Mae Mr. Davies yn dechreu ei lafur dan arwyddion hyfryd. Mae bywhad ar yr achos. Llawer mwy nag arfer yn dyfod i'r cyfarfodydd yn yr wythnos, a rhai yn dyfod i'r gyfeillach agos bob tro. Fe dderbyniwyd pedwar y cymundeb diweddaf, ac y mae wyth yn y gyfeillach yn bresenol." Rhif yr aelodau yma yn 1850, oedd dau gant, ond erbyn 1861, yr oeddynt wedi lluosogi i ddau-cant-triugain-a-dau, ac y mae yn debyg eu bod tua y rhif hyny yn bresenol, neu ychwaneg. Mae Mr. Davies wedi bod yma bellach am un-mlynedd-ar-bymtheg a'i ddefnyddioldeb a'i ddylanwad yn myned fwy fwy o flwyddyn i flwyddyn.

Mae yr eglwys hon, cyn belled ag y gwyddom ni, er dechreuad yr achos, wedi bod yn rhagorol o dangnefeddus, a'i chymeriad crefyddol yn uchel yn y gymydogaeth. Gwneir y gynnulleidfa i fyny o amaethwyr, crefftwyr, gweithwyr, a gwasanaeth-ddynion yr amryw foneddigion a breswyliant yn y gymydogaeth. Mae dau ysgoldy cyfleus yn perthyn i'r eglwys. Un yn mhentref y Cocyd, lle y mae Ysgol Sabbothol lewyrchus tua phedwar ugain o rif, a'r llall yn mhentref Cillay, ac Ysgol Sabbothol yno hefyd, ond nid mor lewyrchus a'r ysgol yn y Cocyd. Nid ydym yn gwybod fod yr eglwys hon, er hened, lluosoced, a pharchused ydyw, wedi cyfodi cymaint ag un pregethwr o ddechreuad yr achos hyd yn bresenol, ac nis medrwn yn unwedd gyfrif am beth mor hynod.

## EBENEZER, ABERTAWY.

Abertawy oedd un o'r manau cyntaf yn Nghymru lle y gosododd Ymneillduaeth ei throed i lawr ynddo. Fel y nodasom yn hanes y Mynyddbach, cafodd eglwys Annibynol ei ffurfio yma tua y flwyddyn 1641, trwy offerynoliaeth Mr. Phillip Jones, o Benytwyn, Llangafelach, a Mr. Ambrose Mostyn, cyn toriad allan y rhyfel, yr hwn a ddechreuodd yn 1642, ac yn fuan ar ol ffurfiad yr eglwysi yn Llanfaches, Mynyddislwyn, a Chaerdydd. Yn 1662, trowyd Mr. Marmaduke Mathews allan o Eglwys Efan, ac yn fuan wedi hyny, daeth amryw weinidogion anghydffurfiol i fyw i'r dref a'r gymydogaeth, megis Meistri Daniel Higgs, M.A., William Thomas, M.A., Stephen Hughes, Meidrym; David Jones, Llandyssilio, a Meredith Davies, Llanon, a bu rhai, os nad pob un o honynt, yn trigianu yma am weddill eu hoes. Pan ganiatawyd rhyddid i'r Ymneillduwyr i drwyddedu tai at bregethu, yn y flwyddyn 1672, darfu i Marmaduke Mathews, Daniel Higgs, a Stephen Hughes drwyddedu eu tai i'r perwyl hyny yn nhref Abertawy. Cadwyd anghydffurfiaeth yn fyw yma trwy holl angerdd yr erlodigaeth, a chyn gynted ag y cafwyd deddf goddefiad yn 1688, adeiladwyd capel Annibynol yma, ac erbyn 1697, yr oedd hwnw wedi myned yn rhy fychan, fel y bu raid adeiladu un helaethach ar y tu deheuol i'r Heol

Digitized by Google

fawr, ar y fan y saif capel yr Undodiaid yn bresenol, a rhentiwyd y capel cyntaf i'r Bedyddwyr. Mae yn ymddangos mai yn yr iaith Saesonaeg y dygid y gwasanaeth yn mlaen yn y capel hwn o'r dechreuad. Sais oedd Mr. Higgs, y gweinidog cyntaf, a dilynwyd ef gan un Mr. Denbury, ac yna gan Mr. Whitcar. Mr. George Palmer, yr hwn a fu farw yn 1750, oedd y Cymro cyntaf fu yn pregethu yma, ond y mae yn sicr mai yn yr iaith Saesonaeg y pregethai yntau. Felly nid oedd yr achos hwn o nemawr o wasanaeth i boblogaeth Gymreig y dref, a pheth oedd waeth na'r iaith, aeth udgorn y weinidogaeth i roddi sain anhynod yma tua chanol y ddeunawfed ganrif, nes i'r lle o radd i radd fyned yn hollol i feddiant yr Undodiaid.

Yr oedd cangen o eglwys Ty'rdwncyn er's llawer o flynyddau yn cadw gwasanaeth crefyddol rheolaidd yn y Wigfach, amaethdy tua milltir a haner i'r gogledd-orllewin o dref Abertawy, yn benaf er mwyn yr aelodau a gyfaneddant yn y dref a'r gymydogaeth. Wedi marwolaeth Luce Rosser, gwraig y tŷ, yn 1776, cyfododd rhyw rwystr i gadw yr addoliad yno rhagllaw, a bu raid edrych am le arall. Aeth Mr. Lewis Rees a Mr. Solomon Harris, gweinidog y Saeson, at un Mr. Aleine, perchen ystafell gyfleus y tu cefn i Heolycastell, yn y dref, a chawsant y lle hwnw at gynal cyfarfodydd ar y Sabboth a nosweithiau o'r wythnos. Yn yr ystafell hon y buwyd yn addoli hyd nes yr adeiladwyd capel Ebenezer. Yn amser Mr. Lewis Rees, byddai gweinidogion y Methodistiaid yn lled fynych yn pregethu yn yr ystafell, gan nad oedd gan yr enwad hwnw un lle addoliad yn y dref. Byddai yr aelodau yn myned i'r Mynyddbach i gymuno, ac i'r cyfarfodydd bob bore Sabboth, ac yn cynal y gwasanaeth yn yr ystafell yn y prydnawn a'r hwyr. Wedi i Mr. Davies, Llangeler, ddyfod yn weinidog i'r Mynyddbach, tynodd ei ddoniau digyffelyb ef y fath luaws yn nghyd fel nad oedd yr ystafell, pan y deuai yno i bregethu, yn agos ddigon eang i gynwys ei wrandawyr. Yn y cyfamser, cyfododd rhyw fesur o gamddealldwriaeth rhwng yr aelodau a'u gilydd; barnai rhai fod y bobl yn angerdd eu sel dros eu gweinidog newydd, Mr. Davies, yn euog o daflu diystyrwch ar yr hen weinidog, Mr. Rees, ac felly aethant yn ddwy blaid. Darfu i Mr. David Thomas, Bragwr, adeiladu capel yn 1799, ar ei dir ei hun ar y Cruglas, a chyflwynodd ef i gorph y Methodistiaid. Aeth amryw o aelodau y Mynyddbach o'r ystafell i'r capel, ac ymunasant a'r Methodistiaid, a dyna ddechreuad Methodistiaeth yn Abertawy. Pa fodd bynag, glynodd nifer fawr gyda Mr. Davies yn yr ystafell, ac aeth y lle drachefn yn dra buan lawer rhy fychan i gynwys y gwrandawyr. Yn 1803, adeiladwyd capel Ebenezer, ac agorwyd ef ar y 9fed a'r 10fed o Fai, 1804, pryd y pregethodd y gweinidogion enwog—David Peter, Caerfyrddin; Morgan Jones, Trelech; Thomas Bowen, Castellnedd; John Davies, Alltwen; Griffith Hughes, Groeswen; David Morgan, Esgairdawe; Morgan Lewis, Glynnedd; Dr. Thomas Phillips, Neuaddlwyd; William Griffiths, Glandwr; John Lloyd, Henllan, a Sadrach Davies, Maendy. Yr oedd Ebenezer y pryd hwnw yn un o'r capeli mwyaf yn Nghymru. Mesurai 46 troedfedd wrth 34 o fewn y muriau. Aeth ar unwaith yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa yn gysurus. Y fath oedd poblogrwydd Mr. Davies fel yr oedd yn anhawdd cael unrhyw gapel yn ddigon mawr i gynwys ei wrandawyr. Yr oedd agwedd foesol Abertawy yn resynus i'r eithaf pan ddechreuodd Mr. Davies ei weinidogaeth yma. Yr oedd trigolion y dref tua deng mil, heb son am y pentrefi tua milldir y tu allan i'r dref, ac nid

oedd ond un capel Cymreig yn yr holl dref, sef capel y Bedyddwyr, yr hwn ni chynwysai ar ei eithaf dros dri chant a haner o bobl. Yr oedd y glowyr a'r gweithwyr eraill yn y dref a'r cyffiniau yn debycach i farbariaid nag i breswylwyr gwlad wareiddiedig. Tystiai amryw hen bobl oedd yn ddiweddar yn fyw, ei bod yn berygl bywyd i gerdded ystrydoedd y dref a'r pentrefi cyfagos ar "nos Sadwrn y cyfrif," am y byddai heidiau o ddyhirod meddw a chreulon yn wastad yn barod i ymosod ar y neb a elai yn agos atynt. Byddent hefyd yn arfer ymosod ar dai yn y nos, gan daflu ceryg mawrion atynt, nes dryllio y drysau a'r ffenestri, a phrin y medrant siarad gair heb fytheirio allan regfeydd a chableddau. Peth anghyffredin iawn gynt, yn yr ardaloedd hyn, fyddai cael gweithiwr yn proffesu crefydd. Gwnelid yr ychydig eglwysi, o bob enwad yn y gymydogaeth, i fyny agos yn hollol o amaethwyr a masnachwyr. Yr oedd y dosbarth gweithiol agos oll yn meddiant y diafol, ac yn ei wasanaethu hyd eithaf eu gallu. Pan ddaeth Mr. Davies i'r gymydogaeth, cymerodd cyfnewidiad buan a dymunol le. Cyffrodd ei ddoniau digyffelyb sylw y lluaws; aeth y Mynyddbach yn fuan yn ail i Langeitho, cyrchai canoedd o bell ac agos yno ar y Sabbothau i'w wrandaw, a chafodd llawer o flaenoriaid gwasanaeth Satan eu gwneyd yn wasanaethwyr ffyddlon i Iesu Grist. Er i ganoedd fyw a marw heb eu dychwelyd at yr Arglwydd, etto bu ei weinidogaeth nerthol yn foddion i gyfodi crefydd i gymaint o sylw a dylanwad, nes darostwng i raddau helaeth yr anfoesoldeb a'r barbareidd-dra gwaradwyddus a ffynant yn mysg gweithwyr y dref a'r gymydogaeth. Ennillodd gymaint o ddylanwad dros y werin mewn ychydig o flynyddau, nes y byddai ei ymddangosiad yn ddigon i dawelu yr annuwiolion mwyaf rhyfygus. Cymerer y ffeithiau canlynol fel engreifftiau:—Yr oedd amryw gigwyr o gymydogaeth Cwmaman a Llangiwc yn arfer cadw marchnad Abertawy. Byddai rhai o honynt bob nos Sadwrn, ar ol gorphen gwerthu eu cig, yn myned i'r tafarndai, ac yn yfed yno hyd foreu y Sabboth, pryd y cychwynent tua chartref ar eu ceffylau bychain. Os digwyddai iddynt wrth fyned allan o'r dref gyfarfod Mr. Davies yn dyfod i'w cyfarfod ar yr heol, gyrent yn eu hol nes y caent groesffordd i droi iddi o'i wydd. Yr oedd un dyn diarhebol fel rhegwr, a elwid "Dick y Badwr," yr hwn a arferai gludo dynion dros yr afon rhwng Abertawy a'r Foxhole, pa bryd bynag y canfyddai Mr. Davies yn dyfod yn agos, rhybuddiai ei gymdeithion annuwiol, gan ddyweyd, "Peidiwch rhegu fechgyn, dacw Davies yn dyfod." Un nos Sadwrn, darfu i haid o ddynion ieuaingc meddw, mewn ffordd o ddigrifwch drelaidd, wrth fyned adref yn hwyr o'r dafarn, daflu ceryg at dŷ Mr. Davies, fel yr arferent wneyd at dai eraill. Pan ddaeth i wybod pwy oeddynt, anfonodd atynt i ddyfod i siarad ag ef; aethant yn grynedig, a'u mamau gyda hwynt, dan wylo, ac mewn braw rhag iddo eu hanfon i garchar. Ond pan ddaethant yno ni wnaeth ddim iddynt, amgen eu cynghori gyda dagrau, a myned i weddi drostynt, gan eu rhwymo i addaw dyfod i'r capel y Sabboth canlynol, yr hyn a wnaethant. Daethant oll yn fuan wedi hyny at grefydd. Yr oedd un o honynt yn fyw yn ddiweddar, os nad yw etto, ac yn "hen ddysgybl" penwyn. Dengys yr engreifftiau hyn, ac amryw o rai cyffelyb a ellid gofnodi, fod un "gweinidog da i Iesu Grist" yn llawer effeithiolach i foesoli ardal na haner cant o'r heddgeidwaid mwyaf gofalus. Gwnaeth adeiladiad y capeli ar y Crug-glas ac yn Heol Ebenezer, a'r llwyddiant a ddilynodd hyny, wellhad buan yn moesau Abertawy a'r cylchoedd.

Digitized by Google

Wedi i Mr. Davies roddi y Mynyddbach a Threforis i fyny, a chyfyngu ei lafur i Ebenezer a'r Ysgetty, llwyddodd i sefydlu eglwys luosog a chref iawn yn mhob ystyr yn y dref. Mae yn debyg i'r eglwys gael ei chyfansoddi yn eglwys hollol annibynol ar y fam-eglwys yn y Mynyddbach cyn gynted ag yr agorwyd y capel yn 1804, os nad cyn hyny, ond nid oes genym unrhyw hanes ysgrifenedig nac argraffedig am ei chorpholiad fel eglwys Annibynol. Bendithiwyd yr eglwys hon, fel eglwysi eraill yn y gymydogaeth, a diwygiad grymus iawn yn 1807, pryd yr ychwanegwyd ugeiniau at yr aelodau, a pharhaodd pethau mewn agwedd nodedig o lewyrchus tra y bu Mr. Davies byw. Yr oedd Mr. Davies wedi llenwi ei bobl ag ysbryd cenhadol o'r pryd y daethai gyntaf i'w mysg, ac y mae yr ysbryd hwnw yn parhau i raddau dymunol yn eglwys Ebenezer hyd y dydd hwn. Yma y cynhaliwyd y cyfarfod cenhadol cyntaf yn Nghymru. Ar yr wythnos gyntaf o Awst, 1814, y cynhaliwyd y cyfarfod dyddorol hwn. Bore dydd Mawrth yn nghapel Ebenezer, gweddiwyd yn Gymraeg a Saesonaeg gan Meistri Davies, Browyr, a Smith Appledore, a phregethodd Mr. Jones, Islington, yn Saesonaeg, a Mr. Jones, Trelech, yn Gymraeg. Am dri o'r gloch, pregethodd Mr. Thomas, Penmain, yn Gymraeg. Am chwech, gweddiodd Mr. Warlow, Milford, a phregethodd Mr. Luke, Hwlffordd, yn Saesonaeg, a Mr. Hughes, Groeswen, yn Gymraeg, a diweddwyd trwy weddi gan Mr. Harris, gweinidog y Bedyddwyr yn Abertawy. Dydd Mercher, am saith y bore, pregethodd Mr. Skeel, Trefgarn, yn Gymraeg. Am ddeg, pregethodd Mr. Williams, Stroud, yn Saesonaeg, yn Eglwys Efan, a Mr. Jones, Talgarth, yn Gymraeg, yn Ebenezer. Am dri, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn neuadd y dref er ffurfio Cangen Gynorthwyol Deheudir Cymru o Gymdeithas Genhadol Llundain. Llywyddwyd y cyfarfod gan L. W. Dillwyn, Ysw. Dewiswyd Thomas Morris, Ysw., Caerfyrddin, yn Drysorydd, a Meistri Peter a Charles, Caerfyrddin, yn Ysgrifenyddion, a phenderfynwyd fod y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn Nghaerfyrddin. Gan mai yn yr iaith Saesonaeg y dygid y cyfarfod cyhoeddus yn mlaen, traddodwyd dwy bregeth i'r Cymry uniaith yn Ebenezer ar yr un amser, gan Mri. H. Williams, Llanelli, ac S. Davies, Maendy. Am chwech, pregethodd Mr. Thorp, Caerodor, yn Saesonaeg, a Mr. Jones, Pontypool, yn Gymraeg. Am saith bore ddydd Iau, pregethodd Mr. Powell, Aberhonddu. Am ddeg, pregethodd Mr. Davies, Sardis, ac ar ol y bregeth, darllenwyd yn Gymraeg y penderfyniadau a basiwyd yn y cyfarfod cyhoeddus y dydd o'r blaen. Am dri yn y prydnawn, cynnaliwyd cyfarfod cymundeb yn Ebenezer, pryd yr oedd llawer o ganoedd yn cydgymuno. Llywyddwyd wrth y bwrdd gan Mr. Davies, Alltwen, a Mr. Mathew Wilks, Llundain; ac anerchwyd y cymunwyr gan Mr. Thorp, a Mr. Peter. Gan fod y dorf yn aruthrol o fawr, tynwyd ymaith ffenestri y capel, a gosodwyd i fyny esgynlawr i'r llefarwyr i sefyll arno, fel y gallasai y torfeydd yn y tŷ, a thu allan eu clywed. Yr oedd rhyw deimlad nodedig o nefolaidd yn yr holl gyfarfodydd, ond yn enwedigol y cyfarfod cymundeb. Er. fod y cyfarfodydd wedi cael eu cadw yn ddiorphwys am dri diwrnod, nid oedd y lluaws yn foddlon ymadael heb gael dwy bregeth drachefn yn yr hwyr, ac felly pregethodd Mr. Mathew Wilks, a Mr. George, Brynberian. Daeth pob un o'r gweinidogion gwyddfodol a chasgliadau oddiwrth eu heglwysi i'r cyfarfod hwn, a chasglwyd yn ystod y cyfarfodydd yn Ebenezer 80p. 0s. 4c.; yn y Burrows 50p. 15s.; ac

yn Eglwys Evan 18p. Yr oedd y cwbl a anfonwyd i'r fam-gymdeithas o'r cyfarfod hwn yn 500p. Oddiar y cyfarfodydd enwog hyn y mae eglwysi Cymru wedi anfon degau o filoedd o bunau i Gymdeithas Genhadol Llundain, ac mewn ychwanegiad at hyny, wedi anfon allan amryw o'u gwyr ieuaingc i'r maes cenhadol, y rhai sydd wedi troi allan yn genhadon enwog a llwyddianus iawn, ac yn mysg yr enwocaf o ba rai y mae Mr. Griffith John, un o blant eglwys Ebenezer.

Bu farw Mr. David Davies, yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, yn Rhagfyr, 1816, er galar dirfawr i bobl ei ofal, ac i Gymru yn gyffredinol Yn mhen ychydig gyda blwyddyn ar ol marwolaeth Mr. Davies, rhoddodd yr eglwysi yn Ebenezer a'r Ysgetty alwad i Mr. Thomas Davies, myfyriwr yn athrofa Llanfyllin, ac urddwyd ef Ebrill 23ain, 1818. Dechreuwyd cyfarfod yr urddiad trwy weddi gan Mr. T. Bowen, Castellnedd; pregethwyd ar natur eglwys, a gofynwyd y gofyniadau arferol gan Mr. J. Davies, Alltwen; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. T. Powell, Aberhonddu; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. D. Peter, Caerfyrddin, oddiwrth Mat. xxi. 28.; ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. G. Hughes, Groeswen, oddiwrth 1 Tim. i. 17., a diweddwyd trwy weddi gan Mr. T. Luke, Abertawy. Pregethwyd yn yr hwyr, ac yn hwyr y dydd blaenorol, gan Meistri H. Williams, Llanelli; J. Williams, Ty'nycoed; J. Jones, Talgarth, a J. Rowlands, Llanybri. Bu Mr. T. Davies am rai blynyddau yn boblogaidd a rhyfeddol o barchus, nid yn unig gan ei bobl ei hun, ond hefyd gan y wlad yn gyffredinol. Gydag amser, pa fodd bynag, o herwydd rhyw wendidau perthynol iddo, bu raid i'r eglwys ymwrthod ag ef fel eu gweinidog, etto parhaodd canoedd yn y dref a'r cyffiniau yn eu teimlad o anwyldeb tuag ato er ei holl wendidau. Yn 1826, helaethwyd y capel trwy ychwanegu un-droedfedd-ar-bymtheg at ei led, fel yr oedd yn 50 troedfedd wrth 46 oddi fewn i'r muriau. Cynnaliwyd cyfarfodydd agoriad ar ol yr helaethiad hwn, Hydref 25ain a'r 26ain, 1826. Dechreuwyd y nos gyntaf gan Mr. D. Davies, Sardis, a phregethodd y Meistri L. Powell, Mynyddbach, Llandilo, a W. Jones, Penybont-ar-ogwy. Am haner awr wedi deg yr ail ddydd, gweddiodd Mr. S. Price, Llanedi, a phregethodd y Meistri D. Davies, Sardis, Brittan, Heolycastell, Abertawy, yn Saesonaeg, a D. Peter, Caerfyrddin. Yn y prydnawn, gweddiodd Mr. H. Herbert, Drefnewydd, a phregethodd y Meistri J. Williams, Ty'nycoed, a J. Rowlands, Cwmllynfell. Yn yr hwyr, gweddiodd Mr. J. Davies, Castellnedd, a phregethodd y Meistri Jenkins, Llangeitho, (Trefynydd,) a D. Peter, Caerfyrddin. Bu y capel ar ol ei helaethiad yn anghysurus o Iawn am tua phymtheng mlynedd, ond wedi adeiladu Canaan, Capel Sion, Pentre-estyll, a Zoar, teneuodd y gynnulleidfa i raddau. Yn Mehefin, 1842, darfu cysylltiad Mr. Thomas Davies a'r eglwys hon fel ei gweinidog, ac yn niwedd yr un flwyddyn, rhoddwyd galwad i Mr. Elias Jacob, myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, yr hwn a urddwyd yma Chwefror 1af a'r 2il, 1843. Yr oedd trefn y gwasanaeth fel y canlyn: Y nos gyntaf pregethodd y Meistri J. Evans, Crwys, a W. Morris, Glandwr. Am ddeg, dranoeth, pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Rees, Llanelli; gofynwyd y gofyniadau gan Mr. Evans, Crwys; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. Jones, Heolycastell, a phregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. E. Davies, un o athrawon yr athrofa yn Aberhonddu. Am ddau, pregethodd Mr. E. Lewis, athrofa Aberhonddu, a Mr. D. Evans, Castellnedd. Am chwech, pregethodd Mr. W. Griffiths, Llanharan, ar ddyledswydd yr eglwys, a Mr. Jones,

Digitized by Google

Heolycastell, i'r gynnulleidfa yn gyffredinol. Dechreuwyd y gwahanol oedfaon trwy weddi gan y Meistri Griffiths, Llanharan; Lewis, Aberhonddu; Watkins, Canaan, a Williams, Ysgetty. Bu Mr. Jacob, yn llafurio yma gyda diwydrwydd a ffyddlondeb canmoladwy hyd Awst, 1861, pryd y derbyniodd alwad i Ebley, sir Gaerloew, lle y mae hyd yn bresenol. Yn y flwyddyn 1856, gan fod y llywodraeth wedi gwahardd claddu ychwaneg wrth y capel, penderfynodd yr eglwys adeiladu ysgoldy helaeth dros y beddau. Costiodd yr adeilad cyfleus hwn 400p., yr hyn a dalodd y gynnulleidfa yn ddioed. Cynnaliwyd cyfarfod agoriad yr ysgoldy ddydd Nadolig, 1856, pryd y bu tua dwy fil o bersonau yn yfed te ar yr achlysur. Yn yr ysgoldy hwn y cedwir yr Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd wythnosol yr eglwys. Yn Mawrth, 1862, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Rees, Cendl, y gweinidog presenol. Dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Ebrill. Yn nechreu Gorphenaf, yr un flwyddyn, tynwyd yr hen gapel i lawr, a dechreuwyd adeiladu yr un presenol, yr hwn a orpheuwyd erbyn dechreu Mehefin, 1863. Ymddangosodd yr hanes canlynol am yr agoriad yn y *Diwygiwr* am Gorphenaf, 1863:—"Ailadeiladwyd y capel hwn yn ddiweddar, ac yn awr y mae yn un o'r capeli mwyaf a phrydferthaf yn y Dywysogaeth. Mesura 70 troedfedd o hyd, 46 o led, a 32 o uchder i'r nenfwd. Y mae yr oriel yn rhedeg dros dair rhan o bedair o hono, ac wedi ei gyfleu yn y fath fodd, fel y gall pob dyn o bob congl o honi weled y pregethwr ar yr esgynlawr yn hollol ddidrafferth. Tu cefn i'r esgynlawr y mae cofadail prydferth, o fynor gwyn, wedi ei osod i fyny ar y mur, er coffadwriaeth am Mr. David Davies, gweinidog cyntaf Ebenezer, a thrwy offerynoliaeth yr hwn y dechreuwyd yr achos yno, yn gystal ag yn y dref. Y mae dyweyd mai Mr. T. Thomas, Glandwr, dynodd y cynllun, yn ddigon o warantiad am dlysni y capel. Yr adeiladwyr oeddynt Meistri Thomas, Watkins, a Jenkins, Abertawy, y rhai a gyflawnasant eu gwaith yn anrhydeddus. Costiodd yr adeilad 2,000p. neu 2,100p., heblaw defnyddiau yr hen gapel. Daeth yn barod erbyn diwedd Mai, ac yn Mehefin, cynaliwyd tri o gyfarfodydd neillduol mewn cysylltiad a'r agoriad. Yr oedd y cyfarfod cyntaf, yr hwn a gynaliwyd Mehefin yr 2il, yn gwbl Seisnig, pryd y disgwylid Dr. Brown, o Cheltenham, i bregethu; ond oblegid afiechyd, methodd, a daeth Mr. J. Whiting, o Stroud, yn ei le, a phregethodd ddwy bregeth hynod o alluog, a chymerwyd rhan yn y gwahanol gyfarfodydd gan Meistri W. Jones, Castle Street; J. M. Evans, Newton; a J. Whitby, Burrows. Casglwyd yn y ddau gyfarfod 106p.

"Mehefin 6ed a'r 7fed, cynaliwyd cyfarfodydd Cymreig, pryd y pregethodd y Meistri J. Roberts, Castellnedd; J. Davies, Cwmaman; T. Thomas, Glandwr; W. Morgan, Caerfyrddin, a J. Mathews, Castellnedd.

"Mehefin 15fed a'r 16eg, cynaliwyd y gyfres olaf o gyfarfodydd mewn cysylltiad a'r agoriad; pryd y pregethwyd am 2 y dydd cyntaf gan y Meistri E. Evans, Skiwen, ac R. Thomas, Bangor. Am haner awr wedi 6, pregethwyd gan y Meistri J. Griffiths, Llanymddyfri; J. Evans, Capel Sion, a P. Griffiths, Alltwen. Am 7 yr ail ddydd, pregethodd y Meistri R. Lewis, Ty'nycoed, a Thomas, Bryn. Am 10, y Meistri E. Jacob, Ebley, ac R. Thomas. Am 2, y Meistri T. Davies, Siloah, Llanelli, a J. Thomas, Liverpool. Am haner awr wedi 6, y Meistri J. Thomas, ac R. Thomas. Cymerwyd rhan hefyd yn y gwahanol gyfarfodydd gan y Meistri D. Rees, Llanelli; J. Rees, Canaan; T. Davies, Llandilo; R. Williams, Bryntroedgam; J. Davies, Capel Sion; L. Davies, Sketty; W. Davies, Aberhonddu,

Digitized by Google

&c. Rhwng y symiau a gasglwyd yn y cyfarfodydd agoriadol, a'r hyn a gasglwyd gan y gynnulleidfa yn flaenorol, gwnaed yn agos i 600p. rhwng y cwbl, gan adael rhywbeth fel 1,500p. o ddyled, yr hon modd bynag a doddir yn fuan trwy ymdrech y Dr. Rees, a'i gynnulleidfa fawr. Rhwydd hynt iddynt yn yr ymdrech. Gwna les mawr iddynt."

Saith gant o bunau yw y ddyled sydd yn aros yn awr, ac yn y swm hwn y mae dau cant o ddyled y capel yn Fabian's Bay, a gymerwyd gan eglwys Ebenezer arni ei hun er cynorthwyo yr achos ieuangc hwnw. Gellid talu y cwbl mewn ychydig wythnosau pe yr ymgymerid a hyny. Rhif aelodau yr eglwys yn bresenol yw pum' cant a phedwar-ar-ddeg-ar-hugain, ac er's blynyddau bellach, y mae cyfanswm y casgliadau at bob achos rhwng pump a chwe' chant punt yn y flwyddyn.

Mae yr eglwys hon, er nad yw nemawr dros driugain-a-deg oed, yn fam i amryw o eglwysi yn y gymydogaeth: megis Heolycastell, Canaan, Capel Sïon, Pentre-estyll, Cwmbwrla, y Sandfields, a Walter-road. Er fod cynifer o ganghenau wedi myned allan o honi, mae yr hen fam etto yn ymddangos yn gryf ac iachus. Ag ystyried lluosogrwydd yr eglwys, nid yw y nifer a gyfodwyd i bregethu ynddi ond ychydig mewn cymhariaeth. Y rhai canlynol yw yr unig rai y cawsom ni eu henwau.

David Williams, mab yr hen swyddwr enwog Peter Williams. Ganwyd ef Ionawr 27ain, 1804. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig Medi 7fed, 1819, gan Mr. T. Davies. Dechreuodd bregethu yn mis Mawrth, 1823. Aeth i athrofa Caerfyrddin yn 1824 neu 1825, ac urddwyd ef yn Forest Green, sir Gaerloew, yn 1829. Symudodd oddiyno i Kingswood, yn 1832; i Kineton, yn 1843; i Eatington, yn 1845; i Welford, yn 1855, ac i Wootton Bassett, yn 1860, lle y bu farw Awst 27ain, 1868. Yr oedd yn ddyn da iawn, ac yn bregethwr rhagorol. Perchid ef yn fawr yn mhob un o'r lleoedd y bu ynddynt.

David Thomas. Gweler ei hanes yn nglyn a hanes Bethel, Llansamlet, lle y bu am ychydig amser yn weinidog.

John Thomas. Y mae er's blynyddau bellach yn weinidog defnyddiol yn America.

Daniel Thomas. Y mae yntau er's blynyddau wedi ymfudo i America.

John Thomas, sydd un o ddiaconiaid yr eglwys, ac yn bregethwr cynorthwyol derbyniol iawn.

David John, gweinidog eglwys Booth Street, Manchester.

David Davies, gweinidog yr hen gapel, Llanybri.

John Mathews. Mae yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Thomas Thomas, a ddechreuodd bregethu yma, ond a symudodd i ogledd Lloegr.

Yn yr eglwys hon y magwyd Mr. Griffith John, y Cenhadwr, ac yma y derbyniwyd ef yn aelod pan nad oedd ond wyth mlwydd oed; ac er mai yn Onllwyn y dechreuodd bregethu, etto Ebenezer a gyfrifir ganddo fel ei fam-eglwys. Yma yr urddwyd ef cyn ei fynediad allan i China, ar y 6ed o Ebrill, 1855. Mae y safle uchel y mae wedi ei gyrhaedd fel Cenhadwr gweithgar, galluog, a llwyddianus, yn anrhydedd, nid yn unig i'r eglwys a'i magodd, ond hefyd i'r genedl yn gyffredinol.

Mae nifer o ddynion rhagorol am eu duwioldeb, eu ffyddlondeb, a'u dylanwad fel crefyddwyr wedi bod yn perthyn i'r achos hwn o'i ddechreuad, y rhai y cedwir eu henwau mewn coffadwriaeth barchus; megis Peter Williams, Daniel Daniel, Dafydd Hugh, Dafydd Rees, Dafydd Harry

Digitized by Google

William Dafydd, yn nghyd ag amryw eraill a ymadawsant a'r eglwys hon pan ddechreuwyd y gwahanol ganghenau. Cawn etto achlysur i grybwyll eu henwau hwy yn hanes yr eglwysi hyny.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

DAVID DAVIES. Ganwyd ef yn mhentref Llangeler, sir Gaerfyrddin, Mehefin 12fed, 1763. Cadwai ei rieni dafarndy y pentref, a chyfrifid hwy yn deulu parchus yn mysg eu cymydogion, ond ymddenys fod yr oll o'u crefydd yn gynwysedig mewn myned yn achlysurol i eglwys y plwyf. Gan nad oeddynt yn ddynion cyfoethog, nac yn ddifrifol fel crefyddwyr, ni chafodd eu mab fwy o fanteision addysg yn ei flynyddau boreuol nag a allasai gael yn yr ysgol ddyddiol a gedwid yn mhentref bychan Llangeler. Nid yw agwedd yr ysgoldy sydd yn y pentref hwnw yn bresenol yn dangos fod yno *yn awr* fawr o lewyrch ar yr ysgol, a diau ei bod yn waelach gan' mlynedd yn ol nag yn awr; felly nis gallasai David ieuangc gael dim amgen nag addysg o nodwedd dra chyffredin. Pa fodd bynag, dysgodd ddarllen ac ysgrifenu ychydig, ac felly cafodd ddrws gwybodaeth i raddau yn agored o'i flaen. I feddwl treiddgar a bywiog, gwna ychydig fanteision lawer o les, tra na wna meddwl diog a diegni nemawr o ddefnydd o'r manteision rhagoraf.

Er cael ei fagu mewn tafarndy, ac mewn pentref lled ddigrefydd, ymddengys i'r llangc David, mewn rhyw fodd anhysbys i ni, ddyfod yn ieuangc iawn i deimlo argraffiadau crefyddol ar ei feddwl. Mae traddodiad yn ei deulu, y byddai er yn blentyn bychan yn arfer yn wastad ofyn bendith ar ei fwyd, pwy bynag fyddai yn ei weled a'i glywed; a dywedir y byddai ei ddull difrifol a'i eiriau pwrpasol yn taro y dynion a eisteddent yn y tŷ i yfed a syndod, ac y byddent yn wastad pan welent y plentyn yn nesu at y bwrdd yn dystewi ac yn tynu ymaith eu hetiau. Dywedir hefyd i'w dad ei glywed unwaith dan gysgod llwyn yn yr ardd yn gweddio dros ei rieni, ac i hyny adael cryn lawer o argraff ar ei feddwl. Nis gwyddom pa cyhyd y parhaodd y teimladau crefyddol hyn yn meddwl y llangc, ond y mae yn dra thebygol iddynt wanychu i raddau mawr gyda ei fod yn tyfu i fyny i oedran gwr, ac yn myned yn ddeiliad y profedigaethau y mae ieuengctyd yn agored iddynt.

Yn yr ugeinfed flwyddyn o'i oed aeth i'r sefyllfa briodasol. Enw gwraig ei ieuengctyd oedd Jane Evans, yr hon oedd enedigol o'r un gymydogaeth ag yntau. Yr oedd hi tua blwyddyn yn ieuengach na'i phriod. Er ieuenged y priododd, hi a drodd allan yn wraig werthfawr a rhinweddol, ac yn un o'r mamau rhagoraf. Y mae miloedd o ieuengctyd Cymru, a allasent ddringo i safleoedd o ddefnyddioldeb ac urddas mewn cymdeithas, wedi gosod eu hunain dan y dwfr am eu hoes wrth briodi yn rhy ieuangc; a diau mai felly y buasai gyda David Davies a'i briod, oni buasai ei fod ef wedi ei gynysgaeddu a galluoedd digon nerthol i esgyn trwy bob anhawsderau, nes cyrhaedd safle amlwg yn nheml enwogrwydd. Rhyfyg fyddai i ddynion ieuaingc dybied y gallant hwythau lwyddo yr un modd, oblegid ychydig mewn oes a feddant y fath dalentau ag a feddai ef.

Nid oes genym un hanes am ei deimladau crefyddol o'r pryd yr oedd yn blentyn lled ieuangc nes ei fod yn ugain oed. Wedi cyrhaedd yr oed hwnw daeth ar ei feddwl i wneyd proffes gyhoeddus o grefydd, ac ym-

Digitized by Google

unodd a'r eglwys Ymneillduol yn Mhenrhiw, yn agos i le ei enedigaeth. Yr oedd yr eglwys hono dan ofal gweinidogaethol yr enwog David Davies, o Gastellhywel. Rhyw fath o Arminiaid, Pelagiaid, neu Ariaid, oeddynt o ran eu golygiadau crefyddol. Mae yn dra thebygol fod y rhan fwyaf o'r aelodau yn ddynion lled wybodus, ac yn fedrus fel dadleuwyr ar byngciau crefyddol; ond nid ymddengys fod nemawr o'r teimladau duwiolfrydig hyny yn eu meddianu, a ystyrid yn hanfodol i wir grefydd gan ddynion o olygiadau efengylaidd. Darfu i'r hyglod Christmas Evans ymuno a'r eglwys yn Mhenrhiw tua'r un amser a David Davies, ac ymadawodd y ddau a hi yn dra buan; aeth y naill at yr Annibynwyr, a'r llall at y Bedyddwyr, a buont am flynyddau lawer yn heuliau dysglaer yn ffurfafenau y ddau enwad.

Dywedir na fu David Davies ond un waith yn cyfranogi o swper yr Arglwydd yn Mhenrhiw. Trwy rhyw foddion anhysbys i ni, gweithiodd Ysbryd yr Arglwydd ef i'r fath wasgfa am ei gyflwr fel pechadur colledig, nes y bu i'w reswm fod ar fin cael ei ddymchwelyd. Yn ofer y buasai yn troi at neb o'i gydaelodau yn Mhenrhiw am gysur a chyfarwyddyd yn ngwyneb ei deimladau trallodus. Pe buasai pwt o ddadl ar ryw bwngc athrawiaethol, neu ymgomiad ar hynafiaethau, daearyddiaeth neu feirniadaeth ysgrythyrol, yn gwneyd y tro, gallasai gael digon o hyny yn eu plith hwy; ond yr oedd yn rhaid iddo droi i rywle arall i ymofyn olew gras i dawelu loesion cydwybod archolledig. Yr oedd hwnw yn beth hollol ddyeithr iddynt hwy. Yn y cyfamser, pan y teimlai ei hun ar fin dystryw, daeth i adnabyddiaeth a rhai o aelodau yr hen eglwys Annibynol yn Mhencadair, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal Mr. William Perkins. Aeth yno, a chlywodd eiriau a fendithiwyd i dawelu ei fynwes derfysglyd; daeth i fwynhad o dangnefedd yr efengyl, a chafodd ei dderbyn yn aelod o'r eglwys hono gan Mr. Perkins.

Nid hir y bu David Davies wedi ei dderbyn yn Mhencadair, cyn i'w wybodaeth grefyddol, ei brofiad nefolaidd, a'i ddoniau toddedig mewn gweddi, arwain y gweinidog a'r eglwys i'w anog i arfer ei ddoniau fel pregethwr. Cydsyniodd yntau a'r anogaeth a gafodd gan yr eglwys, a thraddododd ei bregeth gyntaf mewn anedd-dy bychan yn mhlwyf Llangeler, yr hwn a breswylid gan ddilledydd; ac y mae y ffaith yn deilwng o'i chofnodi, mai yn yr un anedd-dy, ac o fewn yr un wythnos, y traddododd Christmas Evans ei bregeth gyntaf. Mae yn ymddangos i hyn gymeryd lle yn y flwyddyn 1784 neu 1785. Yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, tynodd ei ddoniau digyffelyb sylw neillduol, a chyrchai torfeydd lluosog i'w wrandaw pa le bynag y cyhoeddid ef i bregethu. Ar ol pregethu yn Mhencadair a'r eglwysi cymydogaethol am rai blynyddau gyda derbyniad a chymeradwyaeth neillduol, cafodd ei urddo yn gydweinidog a Mr. John Lewis, yn y Drefach, gerllaw Llangeler, yn y flwyddyn 1790. Mae yn naturiol i'r gofyniad ymgodi yn meddwl y darllenydd yn y fan yma, "Pa fodd y goddefwyd i ddyn o ddoniau iraidd David Davies fod am o bump i chwe' blynedd heb ei urddo wedi iddo ddechreu pregethu, ac yn enwedig pryd yr oedd gweinidogion cymeradwy mor brin, fel yr oedd yn rhaid i bob un gymeryd gofal amryw eglwysi gwahanol?" Mewn trefn i ateb y gofyniad hwn, mae yn ofynol ystyried agwedd yr enwad Annibynol yn y dyddiau hyny, yn nghyd ag amgylchiadau teuluol Mr. Davies. Nid oedd Ariaeth noeth hyd yn hyn wedi tori allan yn yr eglwysi a elwid yn Bresbyteraidd ac felly ni chyfrifid y cynnulleidfaoedd hyny oeddynt wedi

Digitized by Google

coleddu Arminiaeth neu Belagiaeth, yn blaid wahanol oddiwrth yr Annibynwyr. Byddai y gweinidogion yn gyffredin yn newid pulpudau a'u gilydd, ac yn cydgynal cyfarfodydd urddiadau, cymanfaoedd, &c. Yr oedd *ychydig* o'r gweinidogion a'r cynnulleidfaoedd mwyaf selog dros Galfiniaeth yn dechreu sefyll draw oddiwrth y rhai a gyfrifid yn Arminiaid; ond yr oedd mwyafrif y gweinidogion a'r eglwysi mwyaf dylanwadol, yn dawel i bethau fod fel yr oeddynt, ac yn hytrach yn beio y rhai a ddywedasent neu a wnaethent unrhyw beth a dueddasai i oeri y Calfiniaid a'r Arminiaid at eu gilydd. Dichon, gan hyny, i ymadawiad Mr. Davies a'r Arminiaid yn Mhenrhiw, a'i ymuniad a'r Calfiniaid yn Mhencadair, fod yn foddion i beri i rai gweinidogion edrych gyda gradd o wg a drwgdybiaeth arno. Hefyd, nid oedd wedi derbyn addysg athrofaol, yr hyn a ystyrid y pryd hwnw gan y gweinidogion Ymneilltuol, yn Galfiniaid yn gystal ag Arminiaid, fel peth o bwys hanfodol braidd er addasu dyn ieuangc i dderbyn urddau. Edrychai yr hen Annibynwyr a'r Presbyteriaid ar y Trefnyddion Calfinaidd a'r Bedyddwyr gyda gradd o ddiystyrwch a dirmyg, o herwydd eu bod yn gollwng cynifer o ddynion *annysgedig*, fel y galwent hwy, i'w pulpudau. Yr oedd ychydig ddynion mwy talentog na'r cyffredin wedi eu hurddo yn mysg yr Annibynwyr yn y ddeunawfed ganrif, y rhai ni dderbyniasant addysg athrofaol, megis Morgan Jones, Pentretygwyn; Jonathan Jones, Rhydybont; John Davies, Alltwen, &c.; ond ychydig o rif oeddynt, a chyfrifid mai rhyw fraint fawr iddynt oedd cael gweinidogion i ymostwng i'w hurddo. Carid y teimlad hwn lawer yn rhy bell, a rhoddid y blaen i addysg athrofaol ar dalent naturiol. Gall talent gref wneyd gweinidog da heb addysg reolaidd; ond ni wna yr addysg oreu weinidog da byth heb dalent. Peth cyffredin yw i un eithafion greu y llall. Yr oedd y Trefnyddion a'r Bedyddwyr yn y dyddiau hyny yn gollwng llawer o ddynion hollol amddifad o dalent ac addysg i fyned o gylch y wlad yn y cymeriad o bregethwyr. Gyrai hyny yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, y rhai oeddynt ddiarhebol o selog dros weinidogaeth ddysgedig, i'r eithafion o wrthwynebu derbyniad dynion o gymhwysderau da i'r weinidogaeth, heb iddynt yn gyntaf fyned trwy gwrs o addysg athrofaol. Darfu i'r teimlad hwn yn mysg y gweinidogion, a rhai o brif aelodau yr eglwysi, yru llawer o wyr ieuaingc fuasent yn addurn i'r enwad, at enwadau eraill. Dichon fod y rhesymau hyn, yn nghyd a'r ffaith ei fod wedi cymeryd arno ofal teulu mor ieuangc, yn ddigon i gyfrif paham na buasai Mr. Davies yn cael ei urddo yn gynt.

Yr oedd Mr. John Lewis, gweinidog y Drefach, yn Calfiniad selog dros ben; ond nid oedd yn unwedd yn weinidog cymhwys y Testament Newydd. Yr oedd naill ai diffyg doniau, synwyr cyffredin, neu ddigon o weithgarwch, yn peri fod ei weinidogaeth yn hollol ddilwydd. Nid oedd ond deuddeg o aelodau yn ei eglwys pan y penderfynwyd rhoddi galwad i David Davies i ddyfod yn gydweinidog ag ef, a'r deuddeg hyny ar fedr rhoddi y lle i fyny, ac ymuno ag eglwysi eraill. Pan ddechreuodd Mr. Davies ymweled a hwy, adfywiodd yr achos, o lluosogodd y gwrandawyr a'r aelodau. Wedi cyduno i roddi galwad i'r gwr ieuangc, aeth dau o'r aelodau i gyfarfod gweinidogion a gynelid yn Penygroes, sir Benfro, i ofyn eu cymeradwyaeth a'u presenoldeb yn yr urddiad. Dywedir wrthym iddynt fyned yno "i wneyd cais *gostyngedig*" at y gweinidogion, yr hyn a ddengys eu bod yn ofni na chawsai eu cais ei ganiatau iddynt. Pa fodd bynag, fe ganiatawyd eu cais iddynt, a chafodd Mr. Davies ei urddo yn

weinidog iddynt yn y flwyddyn 1790. Yn anffodus, nid yw y dydd, y mis, nac enwau y gweinidogion a gymerasant ran yn ngwaith yr urddiad, wedi eu cofnodi mewn nac argraff nac ysgrifen, hyd y gwyddom ni.

Cyn pen dwy flynedd wedi ei urddiad, aeth y gynnulleidfa yn rhy luosog i addoldy bychan y Drefach i'w chynwys, fel y penderfynwyd adeiladu addoldy helaethach mewn man mwy canolog o'r ardal. Y man a ddewiswyd oedd ymyl y ffordd o Gastellnewydd i Gaerfyrddin, ychydig uwchlaw pentref Llangeler. Adeiladwyd yr addoldy yno yn y flwyddyn 1792, a galwyd ei enw Saron. Talwyd am yr addoldy newydd ar unwaith, a gorlanwyd ef o aelodau a gwrandawyr. Ni chyfyngai Mr. Davies ei lafur gweinidogaethol i ardal Llangeler, ond cymerodd hefyd ofal yr eglwysi yn y Neuaddlwyd, sir Aberteifi, a'r Gwernogle, sir Gaerfyrddin. Pregethai un Sabboth yn y mis yn mhob un o'r lleoedd hyn, a bu ei weinidogaeth yn foddion i roddi bywyd newydd i'r achos yn y ddau le, fel y daethant yn fuan o fod yn gynnulleidfaoedd bychain, marwaidd, a digalon i fod yn eglwysi lluosog, bywiog, a blodeuog.

Darfu i weinidogaeth seraphaidd Mr. Davies effeithio daioni annirnadwy, nid yn unig yn yr eglwysi oeddynt yn uniongyrchol dan ei ofal ef, ond hefyd trwy holl eglwysi yr enwad y perthynai iddo. Rhoddodd ei ysbryd bywiog, a'i ddull tanllyd o bregethu, dôn newydd i'r weinidogaeth yn mysg yr Annibynwyr trwy Gymru, ac effeithiodd y chwyldroad mwyaf bendithiol a thrwyadl trwy yr holl enwad. Wedi marwolaeth yr Anghydffurfwyr a'u holynwyr uniongyrchol, ni chyfododd nemawr o bregethwyr tanllyd a diwygwyr selog yn mysg yr Annibynwyr Cymreig, nes i Mr. Davies ymddangos fel seraph llawn o dân yn Llangeler. Mae yn wir fod Isaac Price, o Lanwrtyd, ac ychydig eraill o ddynion gwresog, wedi ymddangos ar y maes tua deugain mlynedd o'i flaen ef; ond nid ymddengys fod eu talentau na'u doniau y fath ag i'w galluogi i ddylanwadu yn rymus ar y wlad yn gyffredinol. Yr oedd gweinidogion yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn Nghymru yn y ddeunawfed ganrif yn gorph o ddynion dysgedig a pharchus iawn; a rhyw ddau neu dri, mwy neu lai, o deuluoedd cyfrifol a chyfoethog yn perthyn i bob un o'u cynnulleidfaoedd; ond yr oeddynt agos oll yn amddifad o gymhwysderau hanfodol pregethwyr poblogaidd; ac nid oedd sefyllfa yr eglwysi o ran eu teimladau tuag at eu gilydd, a'u golygiadau athrawiaethol, yn unwedd yn ddymunol a gobeithiol o 1750 i 1790. Gellid rhanu gweinidogion y cyfnod hwnw i dri dosbarth, sef y Calfiniaid selog, yr Arminiaid cyhoeddus, yn nghyd a phlaid ganol, y rhai a gelent eu golygiadau ar y pyngciau mewn dadl rhwng y pleidiau eraill, ac a ymdrechant sefyll fel cyfryngwyr rhyngddynt, i'w cadw rhag ymrwygo a myned yn ddau enwad gwahanol. Ychydig neu ddim efengyl a bregethid gan y blaid Arminaidd, ond safent braidd yn hollol ar ddyledswyddau moesol, gan eu gwasgu at feddyliau eu gwrandawyr ag anogaethau deddfol. O'r tu arall, traddodi pregethau neu ddarlithiau ymresymiadol a meithion ar y naill neu y llall o'r "pum' pwngc," gan ergydio yn ddiarbed ar yr Arminiaid, yn lle troi min eu gweinidogaeth at gydwybodau eu gwrandawyr, y byddai y blaid Galfinaidd agos yn hollol. Tra mai "heddwch ar unrhyw bris" oedd arwyddair y blaid ganol. Math o dduwinyddion nacaol oeddynt; pa beth bynag oedd eu golygiadau athrawiaethol, yr oedd eu dyfais *(policy)* i gadw y pleidiau eraill yn un enwad yn eu rhwymo i beidio eu pregethu yn gyhoeddus. Nis gallesid disgwyl i grefydd lwyddo tra yr oedd pethau yn y

sefyllfa hon; o herwydd hyny, yr ydym yn cael yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid—yr enwad dysgedicaf a mwyaf dylanwadol o Ymneillduwyr Cymru—o 1750, hyd yn agos i ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yn hytrach yn colli nag yn ennill tir. Dyma sefyllfa pethau pan y dechreuodd Mr. David Davies ei weinidogaeth. Er yr holl anfanteision y llafuriai ef danynt, o ddiffyg addysg foreuol a sefyllfa uchel o ran meddianau bydol, trwy ei dduwioldeb, ei ddoniau anghydmarol, a'i lafur dibaid, gweithiodd ei ffordd i sylw, a daeth yn fuan y pregethwr mwyaf poblogaidd trwy yr holl wlad; rhoddodd yr holl weinidogion Calfinaidd, er cymaint eu sel dros ddysg a ffurfiau, eu dylanwad o'i blaid, a chyfododd o'i amgylch, cyn pen deuddeng mlynedd wedi ei urddiad, nifer o weinidogion ieuaingc doniol, talentog, a gweithgar, hollol o'r un ysbryd ag ef ei hun, megis Morgan Jones, Trelech; Griffith Hughes, Groeswen; David Davies, Sardis; John Bowen, Saron; Dr. Thomas Phillips, Neuaddlwyd; Methuselah Jones, Merthyr Trydfil; Azariah Shadrach, Aberystwyth; Daniel Evans, Mynyddbach, &c. Ystyrid Mr. Davies fel blaenor y llu gobeithiol hwn; cynhyrfasant y wlad o gwr i gwr; adfywiwyd llawer o'r hen eglwysi oedd yn barod i farw; ymranodd y Calfiniaid a'r Arminiaid oddiwrth eu gilydd; dyddymwyd y blaid ganol, a gorfodwyd y duwinyddion nacaol i ddewis eu pleidiau; ac felly iachawyd yr awyrgylch foesol. O'r pryd hwnw hyd yn awr y mae yr enwad Annibynol wedi parhau yn ddiatal i ychwanegu nerth yn Nghymru. Trwy weinidogaeth danllyd a dylanwad Mr. David Davies yn benaf, fel moddion yn llaw Duw, y dygwyd y chwyldroad pwysig hwn oddiamgylch. Tra y byddo Annibyniaeth yn fendith i Gymru, bydd y genedl dan rwymedigaeth i Mr. Davies, fel y prif offeryn a ddefnyddiodd Duw i roddi iechyd a bywyd newydd yn yr achos.

Ar ol llafurio yn Llangeler, y Neuaddlwyd, a'r Gwernogle am bum' mlynedd, gyda llwyddiant ac arddeliad anghyffredin, derbyniodd Mr. Davies alwad unfrydol oddiwrth yr eglwysi yn y Mynyddbach a'r Ysgetty, gerllaw Abertawy, i ddyfod yn ganlyniedydd i'r hybarch Lewis Rees.

Dichon na ddarfu i un gweinidog erioed yn Nghymru, nac un wlad arall, lafurio yn fwy diwyd oddicartref, yn gystal a chartref gydag achos ei Feistr mawr na Mr. David Davies. Teithiodd amryw weithiau trwy Dde a Gogledd Cymru, gan bregethu i dorfeydd lluosog ddwy a thair gwaith y dydd tra byddai ar ei deithiau. Bu yn foddion i adfywio amryw achosion oedd ar fin trancedigaeth mewn llawer o ardaloedd, ac i gychwyn achosion newyddion mewn ardaloedd eraill. Yn mysg yr achosion newyddion a ddechreuwyd ganddo, gellir enwi heblaw, Abertawy, Llanon, a Phenbre, yn sir Gaerfyrddin; Clydach, Capel Rhagluniaeth, Heolycastell, Abertawy, a rhai lleoedd eraill yn Morganwg. Cyfododd amryw wyr ieuaingc doniol a defnyddiol i'r weinidogaeth yn ei eglwysi; megis John Bowen, a Thomas Jones, Saron; David Davies, Sardis; Methuselah Jones, Merthyr; Thomas Jones, Lambeth; David Williams, Llanfairmuallt; David Jones, Taihirion; David Davies, ei fab hynaf; y Cadben Richards, &c. Cymaint oedd ei ysbryd cyhoeddus, fel yr ymroddai i ledaenu terfynau yr achos yn mhob man y medrai estyn ei ddylanwad iddo. Rai blynyddau wedi ei sefydliad yn y Mynyddbach, gadawodd ei deulu a'i eglwysi, ac aeth i Lundain, lle yr arosodd am bedwar mis, i'r dybenion o berffeithio ei wybodaeth o'r iaith Seisnig, a phregethu yr efengyl i'r Cymry



Digitized by Google

yn Llundain, Deptford, ac Woolwich. Yn ystod y pedwar mis hyny, treuliai bob dydd o'r wythnos fel myfyriwr yn athrofa Hackney, a'r Sabbothau i bregethu i'w gydgenedl. I'w lafur hunanymwadol ef yn flaenaf a phenaf o bawb yr ydys i briodoli dechreuad yr achosion Annibynol Cymreig yn Llundain, a'r trefydd cymydogaethol.. Nid yn unig am y Cymry yn Nghymru ac yn Lloegr y gofalai ef; ond teimlai hefyd yn ddwys dros y Saeson yn Nghymru. Fel y crybwyllasom eisioes, trwy ei ymdrechion ef yn benaf y dechreuwyd yr achosion Seisnig yn Heolycastell, Abertawy, a Chapel Rhagluniaeth yn Mrowyr. Nid digon i'w enaid eang ef oedd gwneyd daioni i breswylwyr ei wlad ei hun, ond teimlai hefyd dros y byd yn gyffredinol. Yfodd yr ysbryd cenhadol gyda y cyntaf yn Nghymru. Yn ei gapel ef yn Abertawy, ar yr wythnos gyntaf o Awst, 1814, y cynhaliwyd y cyfarfod cenhadol cyntaf a gynaliwyd yn y Dywysogaeth. Yr oedd yr enwog Mathew Wilks, Mr. Tracy, ysgrifenydd Cymdeithas Genhadol Llundain, ac eraill o weinidogion Lloegr, yn nghyd a'r rhan fwyaf o weinidogion Deheudir Cymru, yn y cyfarfod bythgofus hwnw. Casglwyd yn siroedd y Deheudir at y genhadaeth y flwyddyn hono bum' cant o bunau; ac o'r swm hwnw yr oedd triugain punt a deg a dwy geiniog wedi eu cyfranu gan bobl Mr. Davies ei hun yn Abertawy a'r Ysgetty. Bu ar hyd a lled y wlad yn areithio dros yr achos cenhadol. Dywed y Parch. D. Griffiths, gynt o Madagascar, mai wrth wrandaw Mr. Davies, Abertawy, yn traddodi araeth genhadol, y cyffrowyd ei feddwl ef gyntaf i benderfynu myned yn genhadwr i fysg y paganiaid.

TreulioddMr. Davies ei holl fywyd i wasanaethu ei genedl a'r enwad y perthynai iddo. Teithiodd beth dirfawr trwy Gymru a Lloegr i gasglu at yr amrywiol addoldai a adeiladwyd ganddo; a thrwy ei ymddyddanion, ei areithiau, a'i ysgrifeniadau, cymhellai yr eglwysi o bryd i bryd i ymdrechion egniol er helaethiad terfynau yr achos. Yn y flwyddyn 1815, cyfansoddodd anerchiad cyffrous, yr hwn a gyhoeddwyd gyda hanes cymanfa y Mynyddbach, yn yr hwn yr anoga yr holl eglwysi trwy Dde a Gogledd i gasglu trysorfa at dalu dyledion yr addoldai, cyfodi addoldai newyddion, a chynal yr athrofeydd yn fwy effeithiol. Yn yr anerchiad cyffrous hwn dywed mai nifer eglwysi yr Annibynwyr yn Nghymru y flwyddyn hono oedd 240, yn cynwys 23,600 o aelodau; a dengys y gallasai y nifer hwnw o bersonau yn rhwydd gyfodi 4,250p. y flwyddyn at drysorfa enwadol i'r dybenion rhag-grybwylledig. Y cynllun a gynygia ydyw fod i 2,000 o'r aelodau goreu eu hamgylchiadau i gyfranu deg swllt y flwyddyn; 8,000 o rai is eu hamgylchiadau i roddi pum' swllt y flwyddyn; 10,000 o weithwyr, gwasanaethyddion, &c., i roddi dau swllt a chwe' cheiniog y flwyddyn. Yn y modd hwn gwnelid i fyny y swm gofynedig, sef 4,250p., gan adael 3,600 o gyfanswm yr aelodau fel rhai rhy dlawd i gyfranu dim. Gan fod Mr. Davies yn dechreu gwaelu yn ei iechyd, ac iddo farw cyn pen blwyddyn a haner o'r pryd y cynygiodd y cynllun hwn i sylw yr eglwysi, aeth y cwbl i'r dim, gan nad oedd un arall o'i frodyr yn y weinidogaeth yn meddu digon o ddylanwad a phenderfyniad i weithio y cynllun allan. Diau pe cawsai Mr. Davies fywyd ac iechyd, na buasai yn gorphwys nes cyrhaedd yr amcan. Nid oedd unrhyw beth rhesymol a phosibl nad oedd ganddo ddigon o ddylanwad a doniau i gyffroi a *thoddi* pob dyn crefyddol i ymestyn at ei gyflawni. Pe buasai genym gofnodion manwl o'r symiau a gasglodd at gapeli, y genhadaeth, ac achosion crefyddol eraill, nifer y pregethau a draddododd, a'r milldiroedd a deithiodd yn

Digitized by Google

ngwasanaeth y cyhoedd, heb dderbyn ond y peth nesaf i ddim am ei lafur, yr ydym yn sicr y tarawsid pob darllenydd a syndod. *Dyn cyhoeddus* ydoedd yn holl ystyr yr ymadrodd. Bu fyw a marw yn ngwasanaeth y cyhoedd.

Dyn o faint canolig, o gyfansoddiad corphorol lluniaidd a chadarn, o wynebpryd nodedig o hardd, ac o edrychiad treiddgar a siriol oedd Mr. David Davies. Yr oedd ei gyfansoddiad corphorol, ei wynebpryd, a'i lais, yn gystal a'i alluoedd meddyliol, a'i dduwioldeb, oll wedi cydgyfarfod i'w wneyd yn un o'r pregethwyr mwyaf effeithiol a phoblogaidd a esgynodd erioed i areithfa. Er holi degau o hen bobl a'i hadwaenent yn dda, ac a gawsant gyfle i'w wrandaw yn fynych yn ei ddyddiau goreu, yr ydym wedi y cwbl yn fyr o gael darluniad cyflawn a boddhaol o hono fel pregethwr. Pan ofynem i hwn a'r llall, pa fath bregethwr oedd Mr. Davies, Abertawy, atebent gan godi eu dwylaw mewn syndod, mai y pregethwr rhyfeddaf a mwyaf effeithiol a glywsent erioed ydoedd. Nid ydym etto wedi cyfarfod a neb a roddodd i ni ddarluniad celfydd, cryno, a phwrpasol o'i ragoriaethau a'i neillduolion fel un o brif bregethwyr ei oes. Ymddengys fod ei ymddangosiad, pan yn cyfodi mewn areithfa, neu ar esgynlawr, yn nodedig o darawiadol. Byddai ef bob amser, yn y cymanfaoedd, a'r cyfarfodydd cyhoeddus eraill, yn pregethu yn ddiweddaf o dri yn yr oedfa ddeg o'r gloch. Gan nad pa mor rhagorol fuasai y ddau bregethwr blaenorol, deg i un na fuasai llawer o'r dorf yn eistedd ar y cae, neu yn lled orwedd ar ochreu y cloddiau; ond can gynted ag y gwnai Mr. Davies ei ymddangosiad ar yr esgynlawr, cyfodai pawb, ac ymwasgent yn mlaen hyd y gallent; a byddai pob llygaid a chlust yn y dorf fawr yn hoeliedig ar unwaith, ac yn ymddangos yn awyddus i ddal ar bob gair, ac i graffu ar bob ysgogiad o eiddo y pregethwr. Cerddai ei lais fel gwefr trwy yr holl gynnulleidfa wrth ei fod yn rhoddi penill allan i'w ganu, er na fyddai ond yn unig yn parablu mewn cywair hollol naturiol, heb roddi un math o don i'w lais. Darllenai ei destyn yn araf, ond yn ddigon uchel i ddeng mil o bobl i'w glywed yn eglur. Ar ol rhagymadroddi mewn ychydig o ymadroddion tarawiadol, a hollol berthynasol i'w destyn, rhanai ei bregeth i ddau neu dri o benau a changenau. Byddai ganddo rhyw hanes ysgrythyrol, ymresymiad eglur, cymhariaeth, neu hanesyn (*anecdote*) i egluro pob pen a changen o'i bregeth; ac fel y byddai yn myned rhagddo, byddai ei faterion a'i lais yn myned fwy fwy effeithiol, nes y byddai ei holl wrandawyr yn hir cyn y gorphenai lefaru wedi eu llwyr orchfygu. Yr oedd yn wahanol braidd i bob pregethwr arall; pa uwchaf y dyrchafai ei lais, pereiddiaf oll fyddai. Llefarai yn yr awyr agored, ar ddiwrnod tawel, yn ddigon uchel i fod yn glywedig am ddwy a thair milldir o bellder. Na thybied neb wrth ein bod yn son cymaint am effeithiolrwydd ei *lais*, mai mewn "pwff o lais" yn unig yr oedd ei ragoriaeth fel pregethwr yn gynwysedig. Yr oedd ei bregethau oll, fel y nodasom eisioes, wedi eu cyfansoddi yn drefnus, ac yn cynwys cronfa o feddyliau tarawiadol, nodedig o gyfaddas i oleuo deall a chyffroi cydwybodau ei wrandawyr, a'r meddyliau hyny yn cael eu cario adref i'r galon gan agwedd swynol y pregethwr, a llais anorchfygol o effeithiol. Yn absenoldeb desgrifiad gwell, dichon i'r hanesion canlynol roddi rhyw ddrychfeddwl i'r darllenydd am ragoriaeth Mr. Davies fel pregethwr. Dywedai y diweddar Mr. Daniel Jones, o'r Aber, wrthym, iddo ef fod gydag ef tua thriugain mlynedd yn ol am daith bregethwrol o dair wythnos, trwy ranau o siroedd Caerfyrddin,

Penfro, ac Aberteifi, a'u bod yn pregethu ddwy waith, ac yn fynych dair gwaith, y dydd, ac na welodd gymaint ag un oedfa trwy yr holl daith heb i Mr. Davies lwyr orchfygu ei wrandawyr, nes y byddai lluaws o honynt yn mhob lle yn aros yn y capel am amser maith i wylo a moliannu ar ol y bregeth.

Byddai y bendefiges dduwiol hono, yr Arglwyddes Barham, yn fynych yn gwrandaw ar Mr. Davies, a phob amser y gwrandawai ef nis gallai ymatal rhag wylo yn hidl, er nad oedd yn deall yr un gair a lefarai. Yr oedd dull ei wynebpryd, ysgogiadau ei freichiau, a sain ei lais, yn gadael yr argraff ar feddwl pob un a'i gwelai ac a'i clywai, mai un yn teimlo pwys y genadwri a draddodai ydoedd, a thrwy hyny, gorfodai eraill i deimlo hyd y nod pryd na buasent yn deall yr iaith yn yr hon y llefarai.

Cofnoda y diweddar Mr. James Griffiths, Tyddewi, engraifft gyffelyb. Dywed ei fod ef yn sefyll yn nghanol y dorf yn ymyl boneddiges Seisnig, mewn cymanfa yn sir Benfro, pryd yr oedd Mr. Davies yn pregethu. Yn fuan wedi i'r pregethwr ddechreu trin ei fater, gwelai y dagrau mawrion yn llifo i lawr dros ruddiau y foneddiges, a pharhaodd i wylo drwy y bregeth. Ar y diwedd trodd Mr. Griffiths ati, a gofynai paham yr oedd hi yn wylo, gan nad oedd yn deall iaith y pregethwr. Atebodd, "Pa fodd y gallaswn beidio wylo pan yr oedd pawb o'm hamgylch yn foddfa o ddagrau."

Dywed yr hybarch William Davies, Abergwaun, am ei ddull o bregethu fel y canlyn:—"Y mae genyf gof da am ymweliadau olynol Mr. Davies, Abertawy, a sir Benfro, ac nis gallaf byth anghofio y teimladau dwys a dyfnion a gynyrchai ei hyawdledd digyffelyb yn y torfeydd lluosog a ymdyrent i'w wrandaw i bob lle yr elai iddo. Yr oedd ganddo feddwl treiddgar, dychymyg bywiog, a pharabledd eglur a difloesgni. Meddai lywodraeth nodedig ar ei lais. Pan arweiniai ei wrandawyr i Sinai, taranai allan felldithion y ddeddf yn y fath seiniai dychrynllyd, nes y byddai braidd pob un o'r gynnulleidfa yn teimlo ei hun ar lewygu gan ofn; yna cymerai ei safle ar Galfaria, a desgrifiai ddyoddefiadau Oen Duw dros yr euog, a rhinwedd anfeidrol gwaed y taenelliad, gyda y fath ffrydlif o hyawdledd, ac yn y llais mwyaf perseiniol, nes y buasai ei wrandawyr swynedig braidd yn barod i neidio o lawenydd. Ca y ffaith ganlynol wasanaethu fel engraifft o effaith rhyfeddol ei ddoniau pregethwrol:—Byddai cadben llong, yr hwn oedd yn aelod o'm heglwys i yn Abergwaun, yn arfer bob amser y byddai ei long yn Abertawy, fyned i Ebenezer i wrandaw Mr. Davies. Un diwrnod gofynodd i gadben arall, 'A ddeuwch chwi gyda mi i Ebenezer y Sabboth nesaf i wrandaw Mr. Davies, yr wyf yn sicr y gwna i chwi wylo? 'Gwneyd i mi wylo,' ebe hwnw gyda rheg, 'nid oes un pregethwr yn y byd a wna i mi wylo.' Pa fodd bynag, addawodd fyned. Bore y Sabboth a ddaeth, ac ar ddechreu yr oedfa cymerodd y ddau gadben eu safle yn ngwyneb yr oriel gyferbyn a'r areithfa. Edrychai y cadben annuwiol ar y dechreu yn ngwyneb y pregethwr gyda thalcen presaidd, fel pe buasai yn penderfynu herio pob peth a ddywedasai. Ond pan ddechreuodd meistr y gynnulleidfa dwymo, aeth y morwr gwynebbresaidd yn raddol i ostwng ei ben, ac yn hir cyn fod y bregeth drosodd yr oedd yn wylo fel plentyn."

Mae yr hanesyn a ganlyn o hanes bywyd ei dad gan Dr. W. Rees, Liverpool, yn ddiamheuol yn cyfeirio at Mr. Davies, ac yn deilwng o'i

Digitized by Google

gofnodi fel prawf o'i ddylanwad fel pregethwr:—"Dygwyddodd fy nhad fyned ar neges i Ddinbych unwaith yn amser Mr. Llwyd, ar ddiwrnod cyfarfod blynyddol yr Annibynwyr; aeth i wrandaw y pregethau am ddeg a dau, a chafodd y fath hyfrydwch fel yr arferai fyned yno i'r cyfarfod blynyddol ar ol hyny am amryw flynyddau. Adroddai am un cyfarfod hynod. Yr oedd gweinidog dyeithr o'r Deheudir yn pregethu am ddau o'r gloch gyda nerth ac effeithioldeb anarferol. Yn mysg y gwrandawyr yr oedd yr hen William Lewis, fel y gelwid ef, o Ddinbych y pryd hwnw, ond a symudodd ar ol hyny i fyw i sir Fon. Yr oedd William Lewis yn bregethwr tanllyd iawn gyda'r Methodistiaid, a llais fel udgorn Sinai ganddo. Yr oedd teimladau William Lewis wedi eu dwys gyffroi er ys meityn dan bregeth y gwr dyeithr. Ar ganol yr hwyl adroddodd y pregethwr y darn penill:—

'Ca'dd ddwr o'r graig, ca'dd fanna gwiw,
Dan Sinai fe'i cynaliodd Duw,
Er saled oedd eu drych.'

Tarawodd y llinell '*Dan Sinai fe'i cynaliodd Duw*,' y gynnulleidfa fel gwefriad trydan, a thorodd William Lewis allan y fonllef fawr, 'O diolch! Do! 'Dan Sinai fe'i cynaliodd Duw.' Y man mwyaf ofnadwy y bu dynion erioed! Ond fe'i cynaliodd Duw hi yno! Do, ac fe'm cynaliodd inau yno hefyd—er saled oedd fy nrych.' Yr oedd hyny yn ddigon; wedi i William Lewis agor yr adwy torodd y llifeiriant i mewn, ac aeth y gynnulleidfa trwyddi i waeddi a molianu. Methais byth a chael gwybod pwy oedd y pregethwr. Dywedai Sion William, o'r Bryndu wrthyf ei fod ef yn y cyfarfod, a'i fod yn cyd-deithio yno ac yn ol gyda'm tad—iddynt holi pwy oedd y pregethwr, ac mai yr ateb a gawsent oedd mai Mr. Davies, o'r Deheudir ydoedd; felly digon tebyg mai yr hen efengylwr Mr. Davies, o Abertawy oedd y gwr."

Iachawdwriaeth rad i bechadur colledig, trwy angau iawnol y Cyfryngwr, fu unig destyn gweinidogaeth Mr. Davies o'i dechreu i'w diwedd. Ei hoff awdwyr oedd Henry, Flavel, y ddau Erskine, Boston, a'u cyffelyb. Ni thraddodai gymaint ag un bregeth heb ei bod yn cynwys mer yr efengyl. Er yr addefwn yn rhwydd fod amryw o'i gydoeswyr, a llawer o weinidogion Cymreig yr oes hon, yn medru cyfansoddi a thraddodi pregethau a mwy o ol mawredd meddyliol arnynt nag a nodweddai ei bregethau ef; etto prin y gallwn gredu i unrhyw bregethwr erioed ymddangos mewn un oes na gwlad a fedrasai draddodi gwirioneddau syml yr efengyl yn fwy effeithiol na Mr. David Davies, Abertawy.

Er mai yn ei alluoedd digyffelyb fel pregethwr yr oedd cuddiad cryfder Mr. Davies, etto nid yw heb enwogrwydd yn perthyn iddo fel awdwr. Ei brif waith yw ei *Fibl Teuluaidd*, gyda sylwadau eglurhaol ar bob penod. Bu farw yr awdwr cyn gorphen y gwaith hwn. Gan Mr. D. Davies, Pantteg, yr ysgrifenwyd y sylwadau ar lyfr y Dadguddiad. Mae hwn yn argraffiad nodedig o hardd a chywir o'r Bibl Cymreig, ac yn cynwys ar odreu y dail ganoedd o sylwadau esboniadol ac ymarferol nodedig o darawiadol a melus. Heblaw anerchiadau at yr eglwysi yn nglyn a hanes cymanfaoedd, marwnadau ar ol amryw gyfeillion ymadawedig, cyfansoddodd Mr. Davies bedwar-ugain-ac-un o emynau Cymreig, ac yn eu plith y mae amryw o'r penillion goreu yn yr iaith. Gan na oddefa ein gofod i ni roi dyfyniadau o'i gyfansoddiadau barddonol, nid oes genym ond cyfeirio y

Digitized by Google

darllenydd at ei lyfr emynau, yr hwn a gyhoeddwyd tuag ugain mlynedd yn ol gan Mr. Griffiths, Abertawy. Byddai yn werth i bob un feddianu y llyfr bychan hwn, yr hwn a ellir bwrcasu am chwe' cheiniog.

Er i Mr. Davies gael ei fendithio a chyfansoddiad nerthol, etto, "llestr pridd" ydoedd, a darfu i lafur caled a diatal ei anmharu, a hau hadau marwolaeth ynddo yn fuan wedi iddo gyrhaedd ei haner canfed flwyddyn. Yr oedd am fwy na blwyddyn cyn ei farwolaeth yn dechreu teimlo fod amser ei ymddatodiad yn agoshau. Pregethodd yn nodedig o effeithiol ar y Sabboth cyntaf o flwyddyn olaf ei fywyd, oddiwrth y geiriau, "O fewn y flwyddyn hon y byddi farw," a chyfansoddodd emyn nodedig o gyfaddas i'w chanu ar ol y bregeth, y pedwerydd penill o ba un sydd fel y canlyn:

"'Rwy'n teimlo rhyw ddadfeiliad mawr,
O fewn fy mhabell bridd yn awr;
A thebygolrwydd dan fy mron,
Y bydda'i farw'r flwyddyn hon."

Parhaodd i wanychu fis ar ol mis, nes i natur yn y diwedd ymollwng yn llwyr dan bwys ei llesgedd. Yn nghymanfa Gwynfe, sir Gaerfyrddin, yn niwedd Mehefin, 1816, y traddododd ei bregeth olaf mewn cyfarfod cyhoeddus. Yr oedd pob gair a lefarai yn disgyn yn ddwfn i galonau ei wrandawyr, er nad oedd yn medru traddodi ei genadwri yn ei nerth arferol. Deallodd ei holl gyfeillion y pryd hwnw fod yr udgorn arian ar ddystewi. Canodd yn iach i'w frodyr yn y weinidogaeth a'r dorf yn gyffredinol ar ddiwedd y bregeth, hyd oni chyfarfyddent yn nghymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig; yna rhoddodd y penill canlynol o'i gyfansoddiad ei hun allan i'w ganu, a hawdd i bawb ddeall nad oedd un llygad sych yn y gynnulleidfa wrth ei ganu:—

"Mae'r arwyddion yn cynyddu
Mae fy ngwely fydd y clai,
Gyda'r pryfed mân caf orwedd,
Dyna'r diwedd i bob rhai;
Pan b'o f'enaid yn ymadael
A'r ddaiarol deml hon,
Caf ehedeg yn ddiorphwys
Mewn i'r lân Baradwys lon."

Pan eisteddodd i lawr, gofynodd i un o'i frodyr am ddyferyn o win, o herwydd ei fod yn teimlo ei hun ar lewygu. Wedi yfed y gwin adfywiodd ychydig. Aeth oddiyno adref, ac ni fu oddicartref wedi hyny; ond pregethodd i bobl ei ofal agos bob Sabboth hyd o fewn mis i'w farwolaeth. Yn mis Hydref, 1816, cafodd ergyd a ysigodd ei natur lesg, ac a gyflymodd ei datodiad, yn marwolaeth ei anwyl briod. O'r pryd hwnw hyd derfyn ei oes, yr oedd yn amlwg i bawb o'i gydnabod ei fod yn disgyn yn gyflym i lawr dros risiau marwolaeth. Y tro diweddaf y bu yn y capel oedd ar Sabboth cymundeb, tua thair wythnos cyn ei farwolaeth. Y pryd hwnw rhoddodd ddeheulaw cymdeithas i dri-ar-ddeg o bersonau ar eu derbyniad i'r eglwys. Siaradodd ychydig ar yr ordinhad, a dywedodd wrth y gynnulleidfa ei fod yn dra sicr mai dyna y tro diweddaf y gwelent ef yn eu mysg. Sabboth rhyfedd oedd hwnw yn Ebenezer. Yr oedd y lle yn Bochim—pob grudd yn wlyb gan ddagrau, a phob calon yn drom gan ofid.

Y nos cyn ei farwolaeth dywedodd wrth ei gyfaill Dafydd Hugh, un o ddiaconiaid eglwys Ebenezer, ei fod yn teimlo mor gysurus ag yr oedd yn

Digitized by Google

ddichonadwy iddo deimlo, ac ymdrechodd yn ol y nerth oedd ynddo i ganu yr hen benill hwnw:—

> "Os rhaid i gystudd garw'r groes,
> I ddilyn f'ysdryd ddydd a nos,
> Os rhaid, gwna fi yn foddlon iawn."

Dranoeth, sef dydd Iau, Rhagfyr 26ain, 1816, anadlodd allan ei ysbryd a'i bwys ar haeddiant holl ddigonol ei Waredwr. Claddwyd ei ran farwol mewn daeargell yn ymyl capel Ebenezer. Yn awr wedi helaethu yr addoldy, y mae ei feddrod dan ganol yr adeilad. Yr oedd torf ddirfawr yn yr angladd, y rhai a anerchwyd gan y Meistri Luke, Abertawy; Davies, o'r Alltwen, a Jones, o Drelech—cyfeillion mynwesol yr ymadawedig. Fel hyn y machludodd un o ser dysgleiriaf Cymru; ond machludodd yma i gyfodi a llewyrchu yn fyrdd tanbeidiach yn nheyrnas nefoedd.

Gadawodd Mr. Davies chwech o blant yn amddifaid o dad a mam, y rhai ydynt oll yn fyw hyd y dydd hwn, ac yn golofnau amlwg o ofal a thiriondeb Tad yr amddifaid. Y mae ei ddau fab yn weinidogion enwog, sef Mr. David Davies, Stoke Bishop, ger Caerodor, a Mr. John Davies, Homerton, ger Llundain.

Yn ystod gweinidogaeth o chwe' blynedd-ar-hugain, derbyniodd Mr. Davies dros ddwy fil o aelodau i'w eglwysi; a'r hwn a wyr bob peth yn unig a wyr nifer yr eneidiau a drowyd trwyddo at yr Arglwydd yn ei deithiau pregethwrol mynych trwy Gymru a Lloegr.

## LIBANUS, TREFORIS.

Er nad oes ond tair-blynedd-a-deugain er pan gorpholwyd yr eglwys a gyferfydd yn y capel hwn yn eglwys Annibynol, yr oedd yn y gymydogaeth hon gangen o eglwys Ty'rdwncyn yn cynal addoliad cyhoeddus yn rheolaidd er's amryw oesau. Bernir fod gwasanaeth crefyddol wythnosol yn cael ei gadw yn gyson yn y Tycoch er y flwyddyn 1682, os nad cyn hyny, gan aelodau Ty'rdwncyn a gyfaneddent yn y gymydogaeth, a byddai rhai o aelodau y Chwarelbach, Castellnedd yn dyfod yn fynych i'r cyfarfodydd hyn. Dywedir fod y bobl a gyfarfyddent yn y Tycoch yn rhai diarhebol am eu gwresogrwydd crefyddol. Pan gyfododd Methodistiaeth daeth rhai o brif bregethwyr yr enwad hwnw yn achlysurol i bregethu i'r gynnulleidfa yn y Tycoch, a'r canlyniad fu yno, fel agos yn mhob ardal arall, i rai o'r bobl fyned yn Fethodistiaid, a ffurfio achos Methodistaidd yn Llansamlet. Mae yn deilwng o sylw, mai canghenau o'r hen eglwysi Ymneillduol oedd agos pob un o'r cymdeithasau Methodistaidd cyntaf a ffurfiwyd yn Nghymru. Nid ydym yn gwybod am gymaint ag un gymydogaeth hollol ddi-Ymneillduaeth lle y gosododd Methodistiaeth ei thraed i lawr am y pump neu y deng mlynedd cyntaf o'i hanes. Teimlid er's blynyddau fod y Tycoch yn le lled anghyfleus i gynal y cyfarfodydd wedi i boblogaeth Treforis luosogi, a bod angen am adeiladu tŷ cyfarfod, ond yr oedd Mr. Lewis Rees, a phobl y Mynyddbach yn groes i hyny, rhag ofn y buasai pobl Treforis, ar ol cael tŷ cyfarfod, yn ymneillduo o'r Mynyddbach, ac yn myned yn eglwys Annibynol. Syniad cyffredin yr hen bobl dda gynt oedd cael rhyw un lle mawr i gyfarfod ynddo bob bore Sabboth, a chadw addoliadau yn yr hwyr mewn pump neu chwech o wahanol ardal-

Digitized by Google

oedd. Edrychid ar adeiladu capel o fewn dwy neu dair milldir i addoldy y fam-eglwys yn gystal a rhwyg, ac yn brawf o ddiogi. Ystyrid cerdded llawer o filldiroedd i'r addoliad ar fore y Sabboth fel prawf o ragoriaeth mewn crefydd. Mae y syniad hwn o eiddo yr hen bobl yn cael ei osod allan yn dda gan Williams, Bethesda, yn y penill canlynol:—

"Mae crefyddwyr a'u tiemladau,
'Nawr mor dyner nad aent trwy
Wres nac oerfel i addoliad,
O fewn milldir fach neu ddwy;
Rhaid cael temlau'n agos agos,
Tŷ cwrdd yma, tŷ cwrdd draw,
Gormod gwaith yw cerdded milldir,
Chwaethach cerdded wyth neu naw."

Barnai pobl y Mynyddbach mai diogi i gerdded, a difaterwch crefyddol, ac nid lles ysbrydol eu hardal boblog, oedd yn peri i bobl y Tycoch awyddu am gael addoldy yn Nhreforis. Pa fodd bynag, fe drefnodd rhagluniaeth yn ei hamser i bobl Treforis gael yr hyn a ddymunent. Daeth galwad i Mr. William Edwards, gweinidog y Groeswen, ddyfod i aros am rai misoedd yn yr ardal, pan yr oedd yn adeiladu Pontyfforest, wrth Dreforis. Yr oedd Mr. Edwards yn ŵr dylanwadol iawn yn mysg boneddwyr y wlad ar gyfrif ei fedr a'i enwogrwydd fel adeiladydd pontydd, ac yr oedd iddo barch mawr fel pregethwr gan bawb a'i hadwaenai. Llwyddodd Mr. Edwards i gael gan Mr. Rees a'i bobl yn y Mynyddbach foddloni iddo ef adeiladu capel yn Nhreforis i'r gangen a gyfarfyddent yn y Tycoch, ond gosod amod yn y weithred, na byddai cyfarfodydd i gael eu cynal ynddo ar foreu y Sabbothau, rhag lleihau cynnulleidfa y Mynyddbach, ac na byddent i fyned yn eglwys ar eu penau eu hunain. Cydunodd y bobl a'r amodau caethion hyn. Adeiladodd Mr. Edwards y capel, a chasglodd ddigon i ddwyn y draul yn mysg y boneddigion yr oedd ef yn adnabyddus a hwy, a rhoddodd y capel heb un geiniog o ddyled arno yn anrheg i'r gynnulleidfa. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1782. Capel cymharol fychan oedd hwn, ond yr oedd yn ddigon i ateb i boblogaeth y lle y pryd hwnw. Yn fuan wedi sefydliad Mr. Davies, Llangeler, yn y Mynyddbach, aeth capel Treforis yn rhy fychan i gynwys y gwrandawyr, fel y bu raid ei helaethu yn 1796. Yn 1831, cafodd ei ailadeiladu a'i helaethu yn fawr, ac yn 1857, adeiladwyd a helaethwyd ef y drydydd waith, pryd y costiodd yn agos ddwy fil o bunau, y rhai a dalwyd oll mewn ychydig o flynyddau. Eleni, (1871,) etto, mae y gynnulleidfa gref, anturiaethus, a gweithgar hon yn adeiladu ei chapel y bedwerydd waith, ac y mae hwn i fod yr addoldy helaethaf a mwyaf ardderchog yn yr holl Dywysogaeth. Bydd yn werth o saith i wyth mil o bunau. Mr. John Humphreys yw yr adeiladydd.

Dan yr un weinidogaeth a'r Mynyddbach y bu yr achos hwn o'r dechreuad hyd farwolaeth Mr. Daniel Evans, yna dewisodd yr eglwys weinidog iddi ei hun. Ei gweinidog cyntaf oedd Mr. William Hughes, o Amlwch, brawd y diweddar Mr. D. Hughes, Trelech. Urddwyd ef yn nechreu y flwyddyn 1836. Bu yma hyd ddechreu y flwyddyn 1841, pryd y bu raid i'r eglwys ymwrthod ag ef o herwydd anfoesoldeb ei gymeriad. Wedi hyn buwyd am rai blynyddau yn byw ar weinidogaeth achlysurol. Tua y flwyddyn 1845, rhoddwyd galwad i Mr. W. Morris, mewn cysylltiad a Glandwr. Hoffid Mr. Morris yn fawr, a bu ei weinidogaeth yn dra llwyddianus am y tymor byr y bu yma. Yn 1847, derbyniodd alwad o

Digitized by Google

Birkenhead, a rhoddodd yr eglwysi yn Nglandwr a Threforis i fyny. Yn 1850, ymsefydlodd Mr. Thomas Jones, yn awr o Abertawy, yma, a bu yn gwasanaethu yr achos yn effeithiol a rhyfeddol o barchus hyd y flwyddyn 1858, pryd y symudodd i Lundain. Yr oedd yr eglwys yn Libanus yn lluosog oddiar agoriad y capel a adeiladwyd yn 1831, ond yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones y daeth y lle i enwogrwydd cenhedlaethol. Oddiar ymadawiad Mr. Jones, buwyd drachefn yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1862, pryd yr urddwyd Mr. Evan Evans, o athrofa Aberhonddu. Cymerodd urddiad Mr. Evans le Mehefin 25ain a'r 26ian, a bu yn nodedig o boblogaidd a pharchus tra yr arosodd yn y lle. Yn 1865, derbyniodd alwad o Salem, Caernarfon, a symudodd yno, yn groes iawn i deimladau yr eglwys a'r gynnulleidfa yn Nhreforis. Wedi byw unwaith etto ar weinidogaeth achlysurol hyd 1869, rhoddwyd galwad i Mr. William Emlyn Jones, y gweinidog presenol, ac yr ydym yn hyderu fod i Mr. Jones dymor hir o ddefnyddioldeb a chysur yn y lle pwysig hwn, yr hwn sydd yn cynyddu yn gyflym yn ei boblogaeth. Mae eglwys Libanus er's mwy nag ugain mlynedd bellach wedi ei chyfodi i sylw ac enwogrwydd neillduol trwy fod ei gweinidogion mor enwog ac adnabyddus; a'n dymuniad ydyw iddi gael y fraint o gadw y safle uchel yr hon y mae wedi gyrhaedd. Mae haelioni yr eglwys a'r gwrandawyr yn teilyngu y ganmoliaeth uwchaf.

Y rhai canlynol yn unig a gyfodwyd i bregethu yma er pan y mae yr eglwys ar wahan oddiwrth y Mynyddbach.

Richard Richards. Dechreuodd bregethu yma yn 1847, ac yn fuan wedi hyny ymfudodd i'r America, lle yr urddwyd ef. Bu am ychydig amser yn weinidog yn Ebenezer, Pontypool, ar ol ei ddychweliad i'r wlad hon. Mae yn awr yn byw yn Abertawy.

Josiah R. Lewis, yn awr o Dorrington, sir Amwythig. Dechreuodd bregethu yn 1861. Ar derfyniad ei efrydiaeth yn Aberhonddu, urddwyd ef yn Glasbury, a symudodd oddiyno yn ddiweddar i Dorrington.

W. M. Davies. Yn 1861 y dechreuodd yntau bregethu. Aeth o athrofa Aberhonddu i Edinburgh i astudio Phisygwriaeth gyda y bwriad i fyned allan yn genhadwr. Y mae wedi cyrhaedd safle uchel fel myfyriwr meddygol.

Joseph Joseph, a ddechreuodd bregethu yn 1867, ac sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Bu amryw ddynion rhagorol yn dal cysylltiad a'r achos hwn o bryd i bryd. Megis John Evans, yr hwn oedd yn ddyn o feddwl galluog, yn gyfansoddwr emynau chwaethus iawn, ac yn swyddog eglwysig defnyddiol a dylanwadol. Yr oedd llawer o ragoriaethau yn perthyn i Thomas Evan, William James, a Thomas Richards, ac yr oedd Daniel Evans yn un hynod o ddefnyddiol a medrus gyda chyfarfodydd gweddio y bobl ieuaingc. Nid yn gyffredin y cyfarfyddid a dyn mwy medrus mewn cyfeillach eglwysig na Daniel Dafydd, yr hwn yn ddiweddar a gyrhaeddodd ben ei daith. O'r holl hen frodyr ffyddlon a welsom yn Libanus ddeugain mlynedd yn ol, nid oes braidd un yn aros ar dir y byw, ond yr hen frawd gonest a didwyll Mr. Josiah Rees, ac y mae yntau yn cyflymu tua'r wlad, lle na ddywed y preswylwyr, "Claf ydwyf."

Mae yn deilwng o sylw, mai cangen o Libanus yw eglwys y Methodistiaid yn Nhreforis. Fel y nodasom yn hanes y Mynyddbach ac Ebenezer, yr oedd rhai yn yr eglwys yn awyddus am ddewis Mr. John Davies, Llan-

samlet, yn gynorthwywr i'w dad-yn-nghyfraith, Mr. Lewis Rees, ac yr oedd yn naturiol i'r hen weinidog deimlo yn ffafriol i hyny. Wedi i Mr. Davies, Llangeler, ddyfod yn weinidog i'r lle, barnai cyfeillion gwresocaf Mr. Davies, Llansamlet, fod yr hen weinidog yn cael ei anmharchu, trwy angerdd y parch a ddangosid i'r gweinidog newydd, ac felly, cynyddodd oerni rhwng y ddwy blaid, nes y darfu i'r rhai mwyaf selog dros Mr. Davies, Llansamlet, yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Rees, ymneillduo o'r Mynyddbach a Libanus, Treforis, a gosod addoliad i fyny yn nhŷ Mr. Evan Rees, Treforis. Yr oeddynt o bymtheg i ugain o rif. Aeth Mr. Davies, Llansamlet, i weini yr ordinhadau iddynt, ond o herwydd eu bod yn cael edrych arnynt fel gwrthwynebwyr i Mr. Davies, Llangeler, a'i bobl yn y Mynyddbach a Threforis, nid elai nemawr o bregethwyr yr Annibynwyr atynt, ond Mr. Davies, Llansamlet yn unig. Parhaodd ef i fod yn weinidog iddynt, yn cael ei gynorthwyo gan bregethwyr y Methodistiaid, hyd ei farwolaeth, yna rhoddasant eu hunain a'u capel i fyny i gyfundeb y Methodistiaid. Hyn oedd dechreuad Methodistiaeth yn Nhreforis.

## HEOLYCASTELL, ABERTAWY.

Mae dechreuad yr achos hwn yn ffrwyth llafur ac ymdrechion hunanymwadol Mr. D. Davies, gweinidog Ebenezer, a rhai o aelodau ei eglwys. Gwelent hwy fod angen am le yn y dref i Saeson o olygiadau Annibynol i addoli, a bod plant amryw o honynt yn debygol o fyned at enwadau eraill, neu fyned yn hollol ddigrefydd, oddieithr i wasanaeth crefyddol yn yr iaith Saesonig gael ei gynal yn y dref, gan fod llawer a honynt yn anhyddysg yn y Gymraeg. Yr aelodau o Ebenezer a gydweithredent a Mr. Davies i gychwyn yr achos Saesonig, oeddynt Meistri Roger Hopkins, Thomas Jones, a Henry Griffiths, yn nghyda rhai pobl ieuaingc. Adeiladwyd y capel yn Heolycastell yn y flwyddyn 1814, ac agorwyd ef Rhagfyr 28ain a'r 29ain, yn yr un flwyddyn, pryd y pregethwyd gan Meistri W. Warlow, Milford; Peter, Caerfyrddin; Williams, Llanelli; East, Frome, wedi hyny o Birmingham, a Thorpe, Caerodor. Y mae y capel hwn yn awr yn helaeth iawn mewn cyferbyniad i gapeli yn gyffredin, ond yr amser yr adeiladwyd ef nid ymddengys fod un addoldy yn y Dywysogaeth mor helaeth ag ef. Yr oedd traul yr adeiladaeth tua dwy fil o bunau, a chan na chasglwyd ond ychydig mewn cymhariaeth ar y cychwyniad, bu y ddyled arno yn agos a lladd yr achos, ac yn waradwydd i'r enwad am fwy nag ugain mlynedd. Pe buasai Mr. Davies, Ebenezer, yn cael iechyd a bywyd am ychydig o flynyddau yn hwy, mae yn ddiau y buasai yr holl ddyled yn cael ei dileu yn fuan, ond gan fod ei iechyd ef yn gwaelu ar y pryd, ac iddo farw yn mhen dwy flynedd wedi hyny, cafodd y baich trwm ei adael fel hunlle i lethu yr achos ieuangc a gwan. Yn fuan wedi agoriad y capel, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Luke, y pryd hwnw o Hwlffordd. Bu ef yma o 1815 hyd 1821, yn dderbyniol iawn fel pregethwr, ac yn sefyll yn uchel yn ngolwg trigolion y dref, ond nid ymddengys iddo wneuthur ond ychydig mewn cymhariaeth at ddileu y ddyled oedd ar y capel. Ar ol ymadawiad Mr. Luke, daeth yma un Mr. Barfit, ond nid ymddengys iddo aros yma ond dwy neu dair blynedd o hwyaf. Dilynwyd ef gan Mr. Brittan, gwr genedigol o Gaerodor. Dywedir fod Mr. Brittan

Digitized by Google

yn bregethwr rhagorol, ac y buasai yn debygol o gyfodi yr achos i gryfder, pe buasai ei gallineb a'i lywodraeth ar ei dymherau yn gyfartal a'i alluoedd fel pregethwr. O herwydd ei annoethineb bu yn foddion i rwygo yr eglwys. Aeth a rhyw nifer gydag ef allan i'r dyben o gychwyn achos newydd. Adeiladodd gapel York Place, ond methodd wneyd un daioni yno drachefn. Y canlyniad fu iddo ymadael, ac i'r capel gael ei werthu i'r Bedyddwyr. Wedi ymadawiad Mr. Brittan, o Heolycastell, rhoddwyd galwad i Mr. Eliezer Jones, myfyriwr yn athrofa Caerfyrddin, a mab yr enwog Dr. Arthur Jones, Bangor. Urddwyd ef yma Ebrill 9fed, 1828, pryd y gweinyddwyd gan Meistri Peter, Caerfyrddin; Hamerton, Newton, ac eraill. Bu Mr. Jones yma hyd Mawrth, 1832, pryd y symudodd i Rodborough. Mae yn bresenol yn weinidog eglwys fawr yn Ipswich. Dilynwyd Mr. Jones gan Mr. Robert Taylor, ond ni bu ef yma nemawr o amser cyn i'r capel gael ei gauad, ac i'r gynnulleidfa gael ei gwasgaru, o herwydd y ddyled oedd yn aros ar y lle. Wedi i bethau fod yn yr agwedd flin hon am tua dwy flynedd, cafodd y lle ei ail agoryd yn 1836, pryd y dechreuodd Mr. William Jones, y gweinidog presenol ei lafur yma. Ymddangosodd yr adroddiad canlynol, yr hwn a ddengys sefyllfa pethau ar y pryd, yn y *Diwygiwr* am 1838, tu dal. 181:—"Adeiladwyd y capel ei's pedair-blynedd-ar-hugain yn ol, a chan na allesid cael dernyn o dir ar werth y pryd hwnw, buwyd dan yr angenrheidrwydd o lesi y sylfaen am 35p. o ardreth flynyddol. Mae yr adeilad yn helaeth a chyfleus, ond nid oes dim afreidiol yn ei gylch; yr oedd y draul o'i adeiladu yn llawer, llog yr hyn at yr ardreth flynyddol a wnai swm lled fawr i'w dalu bob blwyddyn, ond yr oedd y gynnulleidfa mor fawr a chyfrifol fel y telid hi yn rhwydd, a lleiheid llawer ar y corph h[illegible] am gryn amser; ond o herwydd amgylchiadau a phersonau, y byddai yn anfuddiol manylu yn eu cylch ar hyn o bryd, ymranodd y gynnulleidfa, a buan iawn yr aeth yr ardreth a'r llog yn rhy drwm i'r rhai a arosodd yn Castle Street i'w ddwyn. Goddefid i'r naill a'r llall i gynyddu, gwywodd y gynnulleidfa, nychodd yr achos, a'r diwedd fu cau y drws i fyny; yna ymwasgarodd yr ychydig oeddynt wedi bod yn ffyddlon yn mhob tywydd, fel defaid heb ganddynt fugail. Gwnaed parotoadau uniongyrchol i werthu y capel; dangosai yr Undodwyr a'r Eglwyswyr am y mwyaf awyddus am dano; ar hyn, gwresogodd calonau ychydig o gyfeillion, hoffasent ei feini, a thosturiasant wrth lwch yr achos yn y fan; daethant yn mlaen a chynygiasant atal y gwerthiant, ar yr amod i'r 'Undeb Cyffredinol' dderbyn y capel i mewn; ac yn nghyfarfod yr Undeb Cyffredinol, derbyniwyd ef yn rheolaidd fel achos anghyffredin, ar yr amod fod Abertawy a Morganwg yn ymysgwyd yn gyntaf; a'r hyn ymrwymodd y Parchn. W. Jones, Penybont; T. Davies, Abertawy; D. Jones, Clydach; J. Evans, Crwys; D. Rees, Llanelli, a'r Meistri D. Rees, a D. Gibbs, Abertawy; W. Hughes, ac S. Rosser, Ysgetty; M. Morgans, Rhianfawr; J. Jones, Brynbrain; J. Powell, Cefnyfforest, ac R. Monger, Glandwr, yn feichnion am y ddyled, a phrynasant y gwaelod am 700p., yr hyn, at y ddyled oedd yn aros, a thraul tynu y gweithredoedd, a wnai fwy na 1,900p. Gwnaeth yr ymddiriedolwyr agor y capel, ac yn fuan gwahoddasant Mr. W. Jones, Rhydybont, yno i weinidogaethu; yr hwn, trwy lawer o aberth personol, a gydsyniodd a'u cais, ar y dybiaeth fod yr Undeb yn cymeryd y ddyled; adffurfiwyd yr eglwys, a dynesodd llawer o'r gwrandawyr, ar y ddealldwriaeth na fuasai i'r hunlle fu bron a gwasgu yr anadl o honynt gynt yn cael pwyso arnynt mwy; ond y mae llawer

Digitized by Google

hyd yma yn sefyll draw, gan ofni na fydd i'r Undeb gyflawni yr hyn a addawyd. Pe ysgogai eglwysi Cymru fel pe byddent yn ddifrifol, llenwid y capel yn y man, a byddai y gynnulleidfa hon mor gynorthwyol ag un yn Morganwg at leihau y dyledion cyffredinol. Yn awr y mae pob amod a wnaed ar dderbyniad y capel i'r Undeb wedi ei gyflawni. Dirprwywyd y Meistri D. Rees, Llanelli, a R. Thomas, Glandwr, i gasglu yn mysg y Saeson yn Abertawy; cawsant yn yspaid wyth diwrnod *gant a thair punt.* Casglodd yr un personau yn Merthyr a Dowlais 40p. Bu y Meistri Jones, Peny-bont; Evans, Cymar; Griffiths, Llanharan; Williams, Maendy; Hughes, Dowlais; Powell, Caerdydd, a Jones a Davies, Abertawy, yn ddiwyd yn eu gwahanol ddosbarthion, fel y mae y sir, gan mwyaf, wedi ei cherdded yn lled lwyddianus; yn awr troir at siroedd eraill Cymru." Casglwyd amryw ganoedd yn Morganwg a'r siroedd cylchynol yn yr ymdrech hon, ond arosodd y rhan fwyaf o'r ddyled nes i Mr. Evan Watkins, y pryd hwnw o Ganaan, ymgymeryd a'r gorchwyl o'i dalu yn y flwyddyn 1843. Ymroddodd ef gydag egni penderfynol at y gwaith. Ysgrifenodd filoedd o lythyrau i bob parth o'r deyrnas, a theithiodd ganoedd o filldiroedd i gasglu, fel erbyn diwedd y flwyddyn 1846, yr oedd y rhan fwyaf o'r baich wedi cael ei symud. Gwnaeth Mr. Jones a'r gynnulleidfa yn Heolycastell eu rhan yn deilwng, ac fe lafuriodd amryw o'r gweinidogion cymydogaethol yn dda, ond i lafur digyffelyb Mr. Watkins y mae llwyddiant yr ymdrech yn benaf i'w briodoli. Wedi symud baich y ddyled aeth pob peth yn mlaen yn gysurus a llwyddianus dros lawer o flynyddau, ond nid yw y gynnulleidfa yn awr mor lluosog ag y bu rai blynyddau yn ol, o herwydd fod amryw gapeli Saesonig eraill wedi cael eu hadeiladu yn y dref. Effeithiodd agoriad y capel Presbyteraidd yn fawr ar gynnulleidfa Heolycastell, am mai yno yn benaf yr oedd y Scotiaid yn addoli cyn iddynt gael capel eu hunain. Mae Mr. Jones yn awr yn iach a bywiog mewn corph a meddwl, er ei fod o fewn ychydig fisoedd i bedwar ugain mlwydd oed.

Nid ydym yn gwybod am neb a gyfodwyd i bregethu yn yr eglwys hon ond Mr. C. M. Davies, Wallingford, a Mr. Thomas Lloyd, St. Ives, sir Huntingdon. Maent hwy yn weinidogion parchus yn Lloegr er's degau o flynyddau bellach.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS LUKE. Ganwyd ef yn Salisbury, yn y flwyddyn 1777. Yr oedd ei rieni yn perthyn i'r eglwys Annibynol yn ninas Salisbury, ac ymunodd yntau a'r eglwys hono yn dra ieuangc. Yn 1802, aeth yn yfyriwr i athrofa Dr. Bogue yn Gosport. Wedi bod yno am rai blynyddau ymsefydlodd yn Alton, lle y bu yn llafurio am bum' mlynedd, ond ni chafodd ei urddo yno. Symudodd i Hwlffordd, lle yr urddwyd ef Awst 29ain, 1811. Yn nechreu 1815, symudodd i Abertawy, ac oddiyno yn 1821, i Taunton, lle y bu yn weinidog defnyddiol a pharchus am ddwy flynedd-ar-hugain. Yn 1843, rhoddodd ei weinidogaeth i fyny, a symudodd i Goodwig, Abergwaun, lle yr oedd etifeddiaeth gan ei wraig, ac yno y bu yn cyfaneddu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Rhagfyr 12fed, 1853. Cyhyd ag y parhaodd ei nerth, pregethai unwaith bob Sabboth yn nghapel yr Annibynwyr yn Abergwaun, er mwyn yr ychydig Saeson a

Digitized by Google

gyfaneddent yn y dref a'r gymydogaeth. Yr oedd Mr. Luke yn gristion pur, yn bregethwr buddiol, ac yn ŵr boneddig yn holl ystyr y gair. Yr oedd ef a'i briod yn ddiarhebol am eu haelioni at bob achos crefyddol a dyngarol.

Mae hanes Mr. Barfit, canlyniedydd Mr. Luke, yn Abertawy, yn hollol anhysbys i ni; ac nis gwyddom ddim ychwaneg am Mr. Brittan, na'i fod yn enedigol o Gaerodor, ac iddo ymfudo i'r America ar ei ymadawiad o Abertawy. Nis gwyddom hefyd ddim am Mr. Robert Taylor, ond iddo gael ei addysgu yn athrofa Hackney, ac iddo symud o Abertawy i Somerton, lle yr oedd hyd yn ddiweddar.

## SILOH, GLANDWR.

Cyn dechreu yr achos yn y lle hwn, yr oedd trigolion yr ardal yn hynod am eu hanfoesoldeb a'u hanwybodaeth. Yn y flwyddyn 1822, dechreuodd rhai o aelodau y Mynyddbach gynal cyfarfodydd gweddio yn y gymydogaeth, a chychwynwyd yma ysgol ar nosweithiau o'r wythnos, ac ar y Sabboth. Dechreuwyd yr ysgol ar nos Fawrth mewn lle a elwir y Cwm. Sion Rosser, David Davies, David Rosser, David Williams, Joseph Maybery, William Rees, a Thomas Williams, oedd y prif offerynau i gychwyn yr ysgol. Ar ol bod yn y Cwm am dair wythnos, aeth y lle yn anghyfleus, a chan fod y gwaith copr, a elwir y Gwaithbach, yn sefyll ar y pryd, cawsant ganiatad gan Mr. Morgans, arolygydd y gwaith, i fyned i'r swyddfa *(office)* i gadw eu hysgol a'u cyfarfodydd. Aeth y lle hwnw drachefn yn rhy gyfyng, fel y bu raid iddynt symud i ystordy y gwaith. Buwyd fel hyn yn symud o fan i fan am agos ddwy flynedd. Yn 1824, cafwyd darn cyfleus o dir gan Syr John Morris, ar ba un yr ailadeiladwyd ysgoldy, yr hwn a alwyd y Coleg, o herwydd ei fod wedi cael ei amcanu at gadw ysgol ddyddiol yn gystal a gwasanaeth crefyddol. Wedi adeiladu y Coleg, cafwyd yma bregethu lled gyson agos bob nos Sabboth. Pan darodd yr adfywiad mawr allan yn 1828, cynyddodd rhif yr aelodau i'r fath raddau, fel y barnwyd yn addas eu corpholi yn eglwys, a bu raid adeiladu capel helaeth ar ddarn o dir yn gyfochrog a'r Coleg. Gwnaed hyn yn y flwyddyn 1829. Yr oedd hwn yn addoldy prydferth, a chymharol helaeth. Galwyd ei enw ef Siloh. Llwyddodd yr achos yn fawr wedi cael addoldy cyfleus, fel erbyn 1840, yr oedd y tŷ hwn wedi myned yn rhy fychan, fel y bu raid ei ailadeiladu a'i helaethu yn y flwyddyn hono. Drachefn yn 1862, helaethwyd yr oriel, fel yr eistedda arni rai degau yn fwy nag o'r blaen, ac ar yr un amser cafodd yr eisteddleoedd oll eu had-drefnu, a'r holl adeilad ei brydferthu yn fawr.

Mr. D. Evans, Mynyddbach, oedd gweinidog cyntaf yr eglwys hon, yr hon a gorpholwyd ganddo yn eglwys Annibynol yn y flwyddyn 1828, fel y nodir uchod, ond o herwydd fod ei gylch gweinidogaethol mor eang, fel nas gallasai ymweled a Glandwr ond anfynych, dewiswyd Mr. E. Griffiths, Abertawy, yn gydweinidog ag ef yn Siloh, a buont ill dau yn gwasanaethu yr achos gyda ffyddlondeb mawr am rai blynyddau. Ar farwolaeth Mr. Evans, rhanwyd maes eang ei lafur rhwng tri gweinidog. Rhoddodd yr eglwys yn Nglandwr alwad i Mr. Robert Thomas, myfyriwr yn athrofa y Drefnewydd. Urddwyd Mr. Thomas yma Ebrill 18fed a'r 19eg, 1837. Y noson gyntaf gweddiodd Mr. W. Williams, Tredwstan, a phregethodd

Digitized by Google

Mr. R. Pryse, Cwmllynfell, a Mr. J. Evans, Capel Sïon, oddiwrth Heb. ii. 16, a Job xix. 28. Dranoeth am 10, gweddiodd Mr. D. Roberts, Dowlais. Traddodwyd y gynaraeth gan Mr. D. Rees, Llanelli; holwyd y gofyniadau gan Mr. T. Davies, Abertawy; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Jones, Heolycastell, Abertawy, a rhoddwyd siars effeithiol i'r gweinidog ieuangc gan Mr. W. Williams, Wern, y pryd hwnw o Liverpool, dan weinidogaeth pa un y dygasid Mr Thomas i fyny yn Rhosllanerchrugog. Am 2, gweddiodd Mr. P. Griffiths, Alltwen, a phregethodd Mr. D. R. Stephen, (Bedyddiwr,) Abertawy, yn Saesoneg, a Mr. J. Hughes, Dowlais, oddiwrth Dat. ii. 27, a 1 Cron. xxix. 5. Yn yr hwyr, dechreuwyd gan Mr. Daniel Davies, (Bedyddiwr,) Abertawy, a phregethodd Mr. Williams, Wern, yn absenoldeb Mr. D. Williams, Llanwrtyd, ar ddyledswydd yr eglwys, a Mr. W. Jones, Penybont, i'r gynnulleidfa, oddiwrth Act. xiii. 15, a Salm. iv. 4.

Dwy flynedd fu tymor gweinidogaeth Mr. Thomas yma. Yn 1839, symudodd i Raiadrgwy, yn groes i deimladau ei bobl yn Nglandwr, ond barnai mai ei ddyledswydd oedd gwneyd hyny er mwyn iechyd ei deulu. Yn mhen ychydig fisoedd ar ol ymadawiad Mr. Thomas, rhoddwyd galwad i Mr. W. Morris, Llanfyllin, yr hwn a ymsefydlodd yma yn Mai, 1839. Cynhaliwyd cyfarfod sefydliad Mr. Morris, Hydref 18fed a'r 19eg, a chymerodd y gweinidogion canlynol ran yn ngwasanaeth cyhoeddus y cyfarfod; Meistri J. Lewis, Caerodor; P. Griffiths, Alltwen; D. Rees, Llanelli; J. Evans, Crwys; W. Jones, Penybont; J. Davies, Aberdare; J. Evans, Capel Sïon, a D. Evans, Castellnedd. Darfu i ddoniau poblogaidd Mr. Morris, ar unwaith orlenwi y capel, a chan fod gradd o ddiwygiad crefyddol yn yr holl eglwysi ar y pryd, aeth y capel yma yn llawer rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, felly, adeiladwyd y capel helaeth presenol yn 1840. Parhaodd Mr. Morris i lafurio gyda mesur helaeth o lwyddiant hyd ddiwedd y flwyddyn 1847, ac yn nechreu y flwyddyn ganlynol symudodd i Birkenhead. Yn ddioed ar ol ei ymadawiad ef, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Thomas, Clydach, y gweinidog presenol. Mae Mr. Thomas wedi cyflawni ei waith fel gweinidog yma bellach am dair-blynedd-ar-hugain, ac y mae ol ei lafur i'w ganfod yn amlwg ar yr eglwys a'r ardal. Heblaw talu y ddyled drom oedd ar y capel pan ddechreuodd ef ei weinidogaeth yma, gosodwyd allan amryw ganoedd o bunau i'w helaethu a'i addurno, ac i adeiladu tŷ yn ei ymyl, ac ysgoldy hardd ar safle yr hen Goleg, yn 1862. Y mae hefyd ysgoldy eang wedi ei adeiladu ar y Brynhyfryd, lle y cedwir ysgolion dyddiol a Sabbothol, ac ysgoldy arall yn Mhlasmarl, yr hwn a adeiladwyd gan yr eglwysi yn Nglandwr, a Libanus, Treforis, cydrhyngddynt. Traul adeiladaeth y Coleg oedd 90p.; y capel a adeiladwyd yn 1829, 560p.; y capel y 1840, 760p.; yr adgyweiriad, ac adeiladau oddiamgylch iddo yn 1862, 900p. Costiodd ysgoldy Brynhyfryd 600p., a rhan eglwys Siloh o ysgoldy Plasmawr 160p. Fel hyn gwelir fod yr eglwys weithgar hon wedi gosod allan ar ei chapeli a'i hysgoldai, heb gyfrif y llogau, dros dair mil o bunau mewn saith-mlynedd-a-deugain, ac y mae dros ddwy ran o dair o'r swm hwn wedi ei wneyd yn yr ugain mlynedd diweddaf.

Yr aelodau cyntaf a dderbyniwyd yma wedi sefydliad yr achos oedd Mr. Robert Morgan, a'i wraig. Enwau y diaconiaid yma o ddechreuad yr achos hyd yn bresenol ydynt Joseph Maybery, David Williams, a adwaenir wrth yr enw "Cymro o Mexico;" William Rees, Robert Monger, William

Digitized by Google

Williams, William Hughes, Samuel Hughes, Evan Griffiths, yr hwn sydd yn awr yn aelod yn Ebenezer, Abertawy; William Richard, John Jones, Evan Mathews, Joseph Evans, David Rees, Rees David, John Davies, William Williams, John Evans, a Thomas Jones. Mae amryw o'r brodyr teilwng hyn wedi myned oddiwrth eu gwaith at eu gwobr. Mr. Joseph Maybery, oedd un o'r prif offerynau yn nghychwyniad yr achos. Yr oedd yn ddyn nodedig o wybodus, coethedig, a llafurus gyda'r achos, ac yn ddyn hollol rydd oddiwrth syniadau bychain, crebachlyd, a gwael. Ni chawsom erioed y fraint o adnabod dyn mwy rhagorol yn mhob ystyr nag ef. Wedi llafurio yn ffyddlon i gyfodi yr achos i fod yn gryf a hunan-gynaliol yn Nglandwr, arweiniwyd ef gan Ragluniaeth i Lanelli, lle y bu drachefn yn un o brif golofnau yr achos Saesonig yno hyd ei farwolaeth. Bu farw y cristion gwerthfawr hwn Ionawr 16eg, 1871, yn 74 oed. Pe byddai yn mhob eglwys ond un diacon o fath Mr. Maybery, gwelid golwg well yn fuan ar agwedd crefydd yn Nghymru. Cyfaill teilwng i Joseph Maybery, oedd Robert Monger. Gwasanaethodd ei swydd yn effeithiol fel diacon, a bu farw a llwyddiant yr achos yn agos at ei galon. Gorphenodd ei yrfa Ionawr 1af, 1868, yn 75 oed. Y diweddaf o ddiaconiaid Siloh a ymadawodd a'r fuchedd hon, yw John Davies—dyn siriol, gweithgar, a llawn o rinweddau.

Mae yn eglwys Glandwr er's blynyddau o dri i bedwar cant o aelodau, a dichon nad oes un eglwys, yn ol ei rhif a'i sefyllfa, yn fwy haelionus at bob achos cartrefol a chyhoeddus. Mae ei chasgliadau cenhadol tua haner can punt y flwyddyn, ac nid oes braidd un achos perthynol i'r enwad nad yw yn cael ei gynorthwyo gan yr eglwys hon.

Y pregethwyr a gyfodwyd yma ydynt y rhai canlynol:

Daniel Jones, Wickham Market, Suffolk. Urddwyd ef yn y flwyddyn 1843, ac y mae yn parhau etto yn gryf a ffyddlon yn ngwaith ei Arglwydd.

William Roberts, Gt. Mersey-street, Liverpool. Un genedigol o Llanfyllin, ydyw, ond yma y dechreuodd bregethu yn amser Mr. Morris.

Joseph Morris, Brunswick Chapel, Caerodor. Mab hynaf Mr. Morris, y gweinidog.

Griffith Morris, ail fab Mr. Morris. Bu y gwr ieuangc gobeithiol hwn farw ar gychwyniad ei fywyd cyhoeddus.

William Humphreys, yn nglyn a hanes eglwys Cwmbwrla y rhoddir ei gofiant ef.

Thomas Davies, yr hwn a aeth i Unol Daleithiau America.

Joseph John, gweinidog yr eglwys Saesonig yn Ystalyfera.

David Rees, a urddwyd yn ddiweddar yn Witton Park, yn ngogledd Lloegr.

## BETHEL, LLANSAMLET.

Yr oedd amryw aelodau perthynol i'r enwad Annibynol yn cyfaneddu yn y plwyf hwn yn mhob oes er dyddiau yr Anghydffurfwyr, a bu eglwys fechan, neu gangen o eglwys y Chwarelaubach, Castellnedd, yn ymgynnull am lawer o flynyddau mewn anedd-dy dan fynydd y Drymmau, dan ofal gweinidogaethol Mr. Joseph Simons; ond mae yn ymddangos i'r achos hwn ddarfod rai blynyddau cyn dechreuad y ganrif bresenol, ac o hyny allan

Digitized by Google

nid oedd gan yr Annibynwyr a breswylient yn y plwyf un lle nes i fyned iddo na Chastellnedd, y Mynyddbach, neu yr Alltwen. Yr oedd Mr. John Davies, Llansamlet, flynyddau cyn ei farwolaeth yn hiraethu am gael achos Annibynol yn y plwyf lle y preswyliai. Wedi llawer o ymgynghori cafodd gan gynifer o aelodau y Mynyddbach ag a breswylient yn yr ardal i uno ag ef i adeiladu capel, o fewn haner milldir i eglwys y plwyf, ar fin y ffordd oedd yn arwain o Abertawy i Gastellnedd, ac yn agos i haner y ffordd rhwng y ddwy dref. Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1818, ac agorwyd ef ar y Sabboth, Awst 9fed, y flwyddyn hono, pryd y pregethodd Mr. Davies, Llansamlet, oddiwrth Hag. ii. 9; Mr. Davies, Alltwen, oddiwrth Heb. iii. 6, a Mr. Sadrach Davies, Maendy, oddiwrth Rhuf. viii. 13. O herwydd lluosogrwydd y torfeydd, bu raid cynal y gwasanaeth yn yr awyr agored. Dywedir fod o bedair i bum' mil o bobl wedi ymgynnull yno. Bu yr eglwys dan ofal gweinidogaethol Mr. Daniel Evans, Mynyddbach, hyd 1828. Yr oedd yr aelodau erbyn hyn yn bedwar ugain o rif, a chan nad allai Mr. Evans roddi iddynt ond un bregeth yn y mis, barnent y buasai yn well iddynt gael gweinidog iddynt eu hunain. Rhoddasant alwad i ŵr ieuangc doniol iawn, o'r enw David Thomas, ac urddwyd ef yma Medi 28ain, 1828. Bu yma hyd fis Mai 1832, pryd yr ymfudodd i America. Ar ol ei ymadawiad ef buwyd heb un gweinidog sefydlog hyd 1837, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. Isaac Harris, mewn cysylltiad ar Mynyddbach. Yn y flwyddyn 1839, aeth Harris yn rhy ddrwg ei gymeriad i gael ei ddyoddef i fyned i un pulpud, ac felly bu raid i'r eglwys hon, yr un modd a'r Mynyddbach ymwrthod ag ef. Yn fuan wedi hyny rhoddodd yr eglwys yn Bethel alwad i Mr. W. Morris, mewn cysylltiad a Glandwr, a bu Mr. Morris yn ei gwasanaethu am oddeutu dwy flynedd. Yna rhoddwyd galwad i Mr. Evan Watkins, mewn cysylltiad a Chanaan. Bu Mr. Watkin yn llafurio yma gyda pharch nodedig nes iddo symud i Langatwg yn 1850. Yn 1852, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Davies, myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 14eg a'r 15fed. Y nos gyntaf, gweddiodd Mr. J. Davies, o athrofa Aberhonddu, a phregethodd Meistri Davies, Llandilo, a Rees, Llanelli. Am 10, yr ail ddydd, gweddiodd Mr. Griffiths, Abertawy; pregethodd Mr. Davies, Llandilo, ar natur eglwys; holwyd y gofyniadau gan Mr. Hughes, Dowlais; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. Roberts, Dowlais; rhoddwyd siars i'r gweinidog ieuangc gan Mr. Davies, athraw athrofa Aberhonddu. Am 2, gweddiodd Mr. Jones, Maesteg, a phregethodd Meistri Pryse, Cwmllynfell, a Griffiths, Alltwen. Am 6, gweddiodd Mr. G. John, athrofa Aberhonddu, a phregethodd Meistri Thomas, Glynnedd, a Rees, Llanelli, yr olaf ar ddyledswydd yr eglwys. Deunaw mis fu tymor gweinidogaeth Mr. Davies yma. Derbyniodd alwad i Siloa, Llanelli, a symudodd yno yn nechreu 1854, yn groes iawn i deimladau ei bobl yn Llansamlet, ond nid yn groes i ewyllys yr Arglwydd, fel y mae y canlyniadau wedi dangos. Ar ymadawiad Mr. Davies, rhoddodd yr eglwys yn Bethel ei hun dan ofal Mr. J. Rees, Canaan, a than ei ofal ef y bu nes iddo yn 1866, symud i Rodborough. Yn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. Rowland Rowlands, o athrofa Caerfyrddin, yr hwn a urddwyd yma Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd, yn y flwyddyn hono. Yn nghyfarfod yr urddiad, traddodwyd y gynaraeth gan Mr. W. Morgan, un o athrawon athrofa Caerfyrddin; derbyniwyd y gyffes ffydd, a gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Jones, Machynlleth; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr.

Digitized by Google

D. Hughes, B.A., Tredegar, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan ei gweinidog blaenorol, Mr. Rees, Rodborough. Traddodwyd amryw bregethau yn Bethel ac addoldai eraill yn yr ardal, y nos flaenorol, ac ar brydnawn a hwyr ddydd yr urddiad. Mae Mr. Rowlands yn parhau i lafurio yma gyda pharch a llwyddiant cynyddol, a'r achos yn ychwanegu nerth o flwyddyn i flwyddyn.

Capel lled fychan, 40 troedfedd o hyd wrth 20 o led, heb un oriel ynddo, oedd Bethel yn ei flaenaf gyntefig. Yn 1839, gosodwyd oriel mewn un pen iddo. Traul yr adeil daeth yn 1818, a'r oriel yn 1839, oedd 352p., heb gyfrif cludiad y defnyddiau. O herwydd yr ychwanegiad dirfawr at yr eglwys a'r gynnulleidfa yn 1849, bu raid tynu yr hen adeilad i lawr, ac adeiladu un mwy. Maint y capel presenol yw 47 troedfedd wrth 37 dros y muriau, a'r draul oedd 508p., heb gyfrif codiad a chludiad y cerig a defnyddiau eraill, yr hyn a wnaed yn rhad gan yr ardalwyr. Arbedwyd wrth hyn tua 150p. Mr. Thomas, Glandwr, oedd cynllunydd ac arolygydd y gwaith. Agorwyd ef Chwefror 13eg a'r 14eg, 1851. Mae yr adeilad yn un cadarn, hardd, a chyfleus, a'r ddyled oll wedi ei thalu er's blynyddau bellach. Yn nhymor gweinidogaeth Mr. Rees, adeiladwyd ysgoldy yn Birchgrove, ac yn awr y mae yno gapel tlws agos wedi ei orphen.

Mae eglwys Bethel wedi bod yn rhagorol o dangnefeddus o'i dechreuad hyd yn bresenol, ac er iddi fod dan fesur o anfantais o herwydd gorfod newid ei gweinidogion mor fynych, a bod am y rhan fwyaf o'i thymor yn ymddibynol ar ran yn unig o lafur ei gweinidogion, o herwydd fod eglwysi eraill dan eu gofal, etto, mae yr achos wedi llwyddo a gwreiddio yn y gymydogaeth, ac yn bresenol y mae yn gryfach nag y bu ar un cyfnod o'i hanes. Bu yma nifer o grefyddwyr rhagorol yn perthyn i'r achos o bryd i bryd; megis Evan Dafydd, yn nhŷ yr hwn y cynelid y moddion cyn adeiladu y capel cyntaf; Llewellyn Llewellyn, William Williams, Thomas Evan, a John Jones, dau bregethwr cynorthwyol, y rhai a grybwyllasom eisioes yn hanes y Mynyddbach; John Dafydd, Robert Robert, Dafydd Morris, a William Llewellyn, hen farworyn llawn a dân, yr hwn a roddai fywyd i'r cyfarfodydd a'i amenau a'i ddiolchiadau toddedig. Mae Rachel Bevan, yr hon a gerddai yr holl ffordd i'r Mynyddbach, fynychaf a phlentyn sugno yn ei chol, cyn cyfodi capel yma, yn aros etto yn mysg y byw; hi, a'r hen frawd ffyddlon a siriol, Dafydd Bevan, feddyliwn, yw yr unig rai o'r aelodau gwreiddiol sydd wedi eu gadael yn ngweddill gan angau.

Mr. John Davies, gweinidog yr eglwys Gymreig yn yr Amwythig, a Mr. William Davies, yr hwn a urddwyd yn ddiweddar yn Llwydcoed, Aberdare, yw yr unig bregethwyr a godwyd yma.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

David Thomas. Ganwyd ef yn rhyw ran o sir Aberteifi, ond nis gwyddom pa le yno. Nid ydym yn hysbys o amser ei enedigaeth, nac o'i hanes yn moreu ei oes. Daeth i Abertawy i weithio ei gelfyddyd fel dilledydd, ac yno y dechreuodd bregethu, fel y nodasom yn hanes Ebenezer, tua y flwyddyn 1825, feddyliwn. Yn 1827, yr oedd yn gweithio yn y Taibach, ac yn pregethu ar y Sabbothau lle y celai ddrysau yn agored. Efe yn yr amser hwnw fu yn foddion i gychwyn achos yr Annibynwyr ar Gefncribwr.

Yn mis Medi, 1828, urddwyd ef yn Bethel, Llansamlet, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mr. Methusalah Jones, Merthyr, ac eraill. Yn 1832, priododd ddynes ieuangc o Landilo, ac yn mis Mai yr un flwyddyn, ymfudodd ef a'i wraig i'r America, ond yn mhen y bythefnos wedi iddo dirio yno, yn nechreu Gorphenaf, bu farw o'r Geri Marwol, a chafodd ei wraig ddychwelyd i wlad ei genedigaeth yn weddw, unig, a galarus. Clywsom Mr. David Thomas yn pregethu ddwy neu dair o weithiau, ac nid yn aml y gwrandawsom neb o ddoniau mwy poblogaidd. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, a'i lais yn rhyfeddol o berseiniol. Yr oedd yn ddyn ieuangc pur ei fuchedd a dirodres yn ei holl ymddygiadau,, a gwnaeth lawer o waith mewn ychydig o amser.

## HEBRON, CLYDACH.

Mae y pentref prydferth hwn yn cael ei enw oddiwrth yr afonig Clydach yr hon sydd yn rhedeg trwy ei ganol, ac yn ymarllwys i'r Tawy ychydig islaw iddo.

Mae yr ardal hon yn hen artrefle Ymneillduaeth. Adeiladwyd capel y Gellionen yn y gymydogaeth hon mor foreu a'r flwyddyn 1692, a bu ol yniad o weinidogion efengylaidd eu golygiadau yn pregethu ynddo i gyr nulleidfaoedd lluosog hyd o fewn ychydig i ddiwedd y ganrif ddiweddaf. Pan ddechreuodd udgorn y weinidogaeth yn Gellionen fyned i roddi sain anhynod, cymerwyd anedd-dy yn Mhentrefmalwod, yn agos i Glydach, at gynal moddion crefyddol gan bobl y Mynyddbach. Mae yn dra thebygol fod yma wasanaeth crefyddol lled gyson yn cael ei gynal er amser Mr. Lewis Rees, ond yn nhymor gweinidogaeth Mr. David Davies y ffurfiwyd yma eglwys. Nis gwyddom a gymerodd hyny le cyn y flwyddyn 1809, pryd y rhanwyd y cylch gweinidogaethol rhwng Mr. D. Davies, a Mr. D. Evans. Y pryd hwnw cymerodd Mr. Davies ofal yr eglwysi yn Ebenezer a'r Ysgetty, yn nghyda'r gangen fechan yn Nghlydach, a gadawodd y Mynyddbach a Threforis i Mr. Evans. Parhaodd Mr. Davies i ofalu am yr achos yn Nghlydach hyd derfyn ei oes, ac yn y flwyddyn ar ol ei farwolaeth ef, sef yn 1817, rhoddasant eu hunain dan ofal Mr. Evans, Mynyddbach. Gan fod yr anedd-dy yn Mhentrefmalwod yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, penderfynwyd adeiladu capel yn mhentref Clydach. Addoldy lled fychan ydoedd, ond rhwng y llawr a'r oriel, cynwysai o ddau i dri chant o bobl. Agorwyd y tŷ hwn, Mawrth 22ain, 1821. Yn y boreu, dechreuwyd yr addoliad gan Mr. W. Beynon, Llangynwyd, a phregethodd y Meistri W. Jones, Penybont; M. Lewis, Ystradfellte, ac H. Williams, Llanelli, oddiwrth Salm cxxxviii. 2., Esaiah xxv. 6., 1 Petr iii. 18. Yn yr hwyr, pregethodd Mr. David Griffiths, Cydwely, a Mr. Thomas Davies, Abertawy. Cafodd yr addoldy bychan hwn wasanaethu i'r gynnulleidfa hyd 1848, pryd yr adeiladwyd y capel hardd a helaeth presenol. Gan fod llafur Mr. Evans mor fawr, a bod yr eglwys yn Nghlydach wedi dyfod yn gymharol gref, anogodd hwynt i ddewis gweinidog iddynt eu hunain. Rhoddasant alwad i Mr. William Thomas, o athrofa y Neuaddlwyd. Urddwyd ef yma Rhagfyr 17eg, 1830. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1834, bu raid iddynt ymwrthod ag ef am nad oedd yn ymarweddu yn deilwng o'i swydd, ond o herwydd ei fod yn ddyn mor hynod o serchus, a'i ddoniau fel pregethwr mor swynol, darfu i rai o'r aelodau lynu wrtho, ac adeiladu capel bychan iddo mewn rhan arall o'r ardal. Daw y capel hwnw dan

Digitized by Google

ein sylw etto. Yn Gorphenaf, 1834, dechreuodd Mr. David Jones, Taihirion, ei weinidogaeth yma, a pharhaodd i lafurio yn y lle hwn mewn cysylltiad a Chadle, o'r pryd y dechreuwyd yr achos yno, hyd ei farwolaeth yn Ionawr, 1845. Yn haf y flwyddyn 1846, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Thomas, y pryd hwnw o Abertawy. Urddwyd ef yma Mehefin 16eg, 1846. Rhoddir hanes yr urddiad yn y *Diwygiwr* fel y canlyn:—"Mehefin 15fed a'r 16eg, cynaliwyd cyfarfodydd yn Hebron, Clydach, er neillduo Mr. Thomas Thomas, o Abertawy, i gyflawn waith y weinidogaeth, dros yr eglwys gynnulleidfaol a gyferfydd yn y lle hwnw. Am 6 nos Lun, gweddiodd Mr. Morgan Evans, Milo, a phregethodd Meistri T. Rees, Siloa, a D. Evans, Castellnedd. Am 10 bore ddydd Mawrth, gweddiodd Mr. J. Davies, Mynyddbach; traddododd Mr. D. Rees, Llanelli, araeth ar natur eglwys; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. D. Davies, Llundain; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Morris, Glandwr, a phregethwyd siars i'r gweinidog gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Am 2, gweddiodd Mr. J. Thomas, Bwlchnewydd, a phregethodd Meistri W. Jones, Abertawy, ar ddyledswydd yr eglwys, a Thomas Roberts, Llanelli, a J. Evans, Capel Sïon, i'r gynnulleidfa yn gyffredinol. Yn yr hwyr, pregethodd Mr. J. Davies, Cwmaman, a Mr. D. Davies, Llundain. Yn nechreu y flwyddyn 1848, cymerodd Mr. Thomas ofal yr eglwys yn Nglandwr, ond ni roddodd Glydach i fyny am rai blynyddau wedi hyn. Rhanai ei lafur yn gyfartal rhwng y ddwy eglwys. Yn mhen amser, gyda bod ei lafur yn cynyddu, teimlodd yn angenrheidiol iddo roddi Clydach i fyny, a chyfyngu ei hun i Landwr. Yn 1853, rhoddodd yr eglwys yn Hebron alwad i Mr. David Evans, o athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yma Rhagfyr 28ain a'r 29ain, 1853. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. T. Jones, Treforis; holwyd y gofyniadau gan Mr. T. Davies, Llandilo; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. E. Jacob, Abertawy; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. E. Davies, athraw athrofa Aberhonddu, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. T. Thomas, Glandwr. Wedi i Mr. Evans symud oddiyma i Britonferry, rhoddwyd galwad i Mr. Esay Owen, o athrofa Aberhonddu, ac efe yw y gweinidog yma yn bresenol, ac i fod, fel yr hyderwn, am flynyddau lawer etto. Urddwyd Mr. Owen, Mehefin 27ain, 1861. Dechreuwyd yr addoliad gan Mr. E. Griffiths, Abertawy; pregethodd Mr. J. Thomas, Liverpool, ar natur eglwys; holwyd y gofyniadau arferol gan Mr. W. Williams, Hirwaun; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. P. Griffiths, Alltwen; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. J. Morris, athraw duwinyddol athrofa Aberhonddu, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. D. Rees, Llanelli. Traddodwyd hefyd amryw bregethau yn y prydnawn a'r hwyr, ac yn yr hwyr y dydd blaenorol, yn Nghlydach a'r Glais. Yr oedd 38 o weinidogion a phregethwyr yn bresenol. Mae eglwys gref, heddychol, a gweithgar, yn Nghlydach er's amryw flynyddau bellach, a phob arwyddion yn bresenol mai yn gryfach gryfach yr â. Yn mysg y ffyddloniaid o'r eglwys hon sydd wedi diango i'r wlad well, gellid enwi David Davies, ac Evan Jones, Rhydypandy, y rhai fuont yn henuriaid yn yr eglwys. Yr oedd y ddau yn nodedig am eu gwresogrwydd a'u gweithgarwch gyda chrefydd. Yr oedd Richard Jones, Cefnygarth, a John Jenkins, Gelliwastad, yn ddiaconiaid, ac yn ddynion diwyd a haelionus iawn. Bu Morgan Griffith, Ynyspenllwch, brawd y diweddar Mr. Griffith, Casnewydd, yn aelod a diacon defnyddiol am lawer o flynyddau. Yr oedd yn ddyn hynaws a llawn o hawddgarwch, ac yn un o'r rhai ffyddlonaf

Digitized by Google

gyda holl foddion gras. Ni byddai ei le yn y capel un amser yn wag. William Baker, a fu yn ddiacon am flynyddau. Yr oedd yn grefyddwr gweithgar ryfeddol. Byddai ei ysgwydd ef dan y pen trymaf i'r arch bob amser. Dyn cryf o feddwl, siaradwr doniol, a chanwr rhagorol, oedd Daniel Davies. Bu yntau yn ddiacon am flynyddau. Mae enwau y ddau frawd rhagorol Joseph a Benjamin Rees, yn deilwng o'u cofnodi. Dynion gwerthfawr oedd y ddau. Rhagorai Joseph Rees fel tangnefeddwr. Efe fynychaf oedd yn cael ei benodi i derfynu pob anghydfod rhwng brodyr a chwiorydd tramgwyddedig, ac anfynych y methai lwyddo. Un rhagorol i feithrin ieuengctyd mewn crefydd oedd Benjamin Rees. Yr oedd yn dwyn sel mawr dros yr ysgolion dyddiol a Sabbothol, ac yn wastad yn myned yn mlaen gyda'r oes; ïe, yn blaenori pob mudiad daionus yn yr eglwys a'r ardal. Bu farw y ddau frawd teilwng yma o'r Geri Marwol o fewn pedwar diwrnod i'w gilydd, yn mis Hydref, 1866. Flynyddau yn ol yr oedd yma hen chwaer nodedig iawn o'r enw Ann Jones, neu "Nancen o'r Hendy," fel y gelwid hi. Yr oedd yn un hynod o danllyd dan y gair, byddai ei hamenau yn uwch na'r eiddo neb arall yn y gynnulleidfa. Yr oedd Mr. Davies, o'r Alltwen, yn un o'i hoff bregethwyr hi.

Y pregethwyr a godwyd yn yr eglwys hon ydynt,

Evan Jones, mab Evan Jones, Rhydypandy. Dechreuodd bregethu yn 1824 neu 1825. Bu yn pregethu am flynyddau lawer. Trodd at y Methodistiaid ryw gymaint o amser cyn ei farwolaeth.

William Thomas, mab David Thomas, o'r Fagwyr, un o henuriaid eglwys Clydach. Dechreuodd bregethu o gych y flwyddyn 1831. Efe a drodd at y Bedyddwyr.

William Hill. Addysgwyd ef yn yr Athrofa Orllewinol, yn Plymouth. Urddwyd ef yn Bodmin, yn Mawrth, 1851. Mae yn awr yn Beeralston, gerllaw Tavistock.

William Williams. Dechreuodd bregethu yn 1845. Urddwyd ef yn y Bryn, Llanelli, yn 1849, a bu farw yn mhen ychydig ar ol hyny. Rhoddwn ei fywgraphiad yn nglyn a hanes eglwys y Bryn.

Isaac James. Dechreuodd bregethu yr un amser a W. Williams, a chafodd ei urddo yn weinidog i'r Cymry yn Walker, gerllaw Newcastle-on-Tyne, yn 1862.

David Davies. Dechreuodd bregethu yn 1860. Bu am ddwy flynedd yn cael addysg yn yr athrofa Normalaidd yn Abertawy, a phedair blynedd yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Mynyddsion, Casnewydd, yn 1867, ac yno y mae etto yn barchus a llwyddianus.*

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

DAVID JONES. Ganwyd ef yn Nhreforis tua y flwyddyn 1784. Derbyniwyd ef yn aelod yn y Mynyddbach gan Mr. David Davies, a dechreuodd bregethu oddeutu y flwyddyn 1808. Urddwyd ef yn Ebenezer, Aberdar, Gorphenaf 29ain, 1813, pryd y gweinyddodd y Meistri Davies, Abertawy; Hughes, Groeswen; Evans, Zoar, Merthyr; Lewis, Ystradfellte, ac eraill. Symudodd yn mhen tua dwy flynedd o Aberdare i Lanharan a'r Taihirion, lle y bu am flynyddau yn enwog a llwyddianus iawn. Yn mhen rhai

* Llythyr Mr. E. Owen.

Digitized by Google

blynyddau rhoddodd Lanharan i fyny, a chyfyngodd ei lafur i'r Taihirion a Bethlehem, Pentyrch—achos a ddechreuwyd trwy ei lafur ef. Tua y flwyddyn 1833, cyfododd teimladau anghysurus rhyngddo a rhai o aelodau y Taihirion, fel y barnodd yn well ymadael. Yn Gorphenaf, 1834, fel y nodwyd eisioes, dechreuodd ei weinidogaeth yn Nghlydach, lle y treuliodd weddill ei oes. Pan ffurfiwyd eglwys yn Nghadle, cymerodd ef ei gofal mewn cysylltiad a Chlydach. Bu farw yn ddisymwth iawn Ionawr 2il, 1845. Yr oedd wedi myned i Gadle i bregethu mewn angladd, a thra yn sefyll ar y fynwent i ddisgwyl yr angladd, syrthiodd i lawr mewn llewyg, fel y tybid. Cludwyd ef i'r Beaufort Arms, yn ymyl y fynwent, ond erbyn ei fod yno yr oedd yr enaid wedi ymadael a'i babell bridd. Bu farw yn driugain mlwydd oed.

Bu David Jones am rai blynyddau yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Morganwg a Mynwy. Efe fyddai fynychaf yn nghyfarfodydd cyhoeddus Mynwy a dwyrainbarth Morganwg, yn pregethu yn gyntaf yn yr oedfa ddeg o'r gloch, a Hughes, Groeswen, neu Jones, Pontypool, ar ei ol. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, a'i lais yn berseiniol ac effeithiol iawn. Claddwyd ef yn mynwent Cadle, lle mae maen prydferth wedi ei osod ar ei fedd.

## Y FELINDRE.

Ardal amaethyddol yw hon, yn y rhan ogleddol o blwyf Llangafelach, tua phedair milldir i'r gogledd o'r Mynyddbach. Yr oedd pregethu achlysurol yn y gymydogaeth hon er's llawer o flynyddau, o bosibl er y pryd y dechreuwyd yr achos sydd yn awr yn y Mynyddbach, ond nid ymddengys i addoliad cyson gael ei sefydlu yma cyn y flwyddyn 1823, pryd y cychwynwyd ef yn rheolaidd yn nhŷ David Thomas, yn agos i'r felin, y tŷ a breswylir yn bresenol gan Mr. Griffith Phillips. Yn 1824, adeiladwyd yma gapel bychan. Mr. D. Evans, Mynyddbach, a'r pregethwyr cynorthwyol a berthynent i'w eglwys, fu yn llafurio yma i gychwyn yr achos, a Mr. Evans fu y gweinidog hyd ei farwolaeth yn 1835. Wedi marwolaeth Mr. Evans, rhoddwyd galwad i Mr. John Davies, a bu ef yn gwasanaethu yr eglwys hon mewn cysylltiad a Chwmaman o Ebrill 5ed, 1836, hyd Ebrill 17eg, 1859. Wedi i Mr. Davies roddi y lle i fyny, cymerwyd y gofal gan Mr. Daniel, Mynyddbach. Bu yr eglwys dan ei ofal ef o Mai 15fed, 1859, hyd Gorphenaf 3ydd, 1864. Wedi ymadawiad Mr. Daniel, buwyd am tua phymtheng mis heb un gweinidog sefydlog. Yn 1866, rhoddwyd galwad i Mr. David Morgan, aelod o eglwys Cross Inn. Urddwyd ef yma Tachwedd 6ed, y flwyddyn hono. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. H. Davies, Bethania; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. E. Griffiths, Abertawy; rhoddwyd y siars i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Heolycastell, Abertawy, ac i'r eglwys gan ei hen weinidog, Mr. J. Davies, Cwmaman. Pregethwyd a gweddiwyd yn y prydnawn a'r hwyr gan Meistri J. Bevan, Waunarlwydd; J. Joseph, Llanedi; T. Davies, Treforis; J. Morgan, Cwmbach, ac F. Samuel, Abertawy. Yn mhen ychydig wedi ei urddiad yn y Felindre, cafodd Mr. Morgan alwad gan yr hen eglwys yn Llanedi, ac y mae yn parhau i wasanaethu y ddwy eglwys.

Mae eglwys a chynnulleidfa y Felindre yn cael ei gwneyd i fyny o amaethwyr a'u gweithwyr. Nid yw erioed wedi bod yn lluosog iawn, ac nis gall fod, gan nad yw y boblogaeth ond teneu, a bod capeli heb fod yn

Digitized by Google

mhell gan enwadau eraill. Mae yr eglwys hon wedi bod bob amser trwy ei holl dymor yn enwog am ei hysbryd tangnefeddus, a'i pharodrwydd yn ol ei rhif a'i gallu i gydweithredu gyda phob achos cyhoeddus. Gan fod y capel a adeiladwyd yma yn 1824, wedi myned yn ddadfeiliedig, adeiladwyd yma gapel newydd prydferth iawn yn 1858. Mae mynwent oddiamgylch iddo, a llawer wedi cael eu claddu ynddi.

## BARAN.

Mae y capel hwn yn sefyll ar fin y mynydd yn nghwr uchaf plwyf Llangafelach. Dechreuwyd yr achos yma dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd yr hen eglwys Ymneillduol yn Gellionen, dan weinidogaeth Mr. Josiah Rees, wedi cael ei harwain er's rhai blynyddau oddiwrth yr hen athrawiaeth efengylaidd a bregethid yno o oes i oes, er dechreuad yr achos, ac er fod llawer, o bosibl mwyafrif yr aelodau, wedi llyngcu syniadau Ariaidd y gweinidog, yr oedd yno nifer yn dwyn sel dros yr hen wirioneddau a broffesid ac a gredid gan eu tadau. Tua dechreu y ganrif bresenol aeth Mr. Rees, i bregethu ei olygiadau neillduol am berson Crist yn fwy digel nag y gwnelsai yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, a phan ddaeth ei fab, Mr. Thomas Rees, wedi hyny Dr. T. Rees, Llundain, allan o'r athrofa, mynai rhai e. neillduo i fod yn gydweinidog a'i dad, er ei fod yn Undodwr proffesedigi Gwrthwynebid hyn gan y blaid driundodaidd yn yr eglwys, y rhai a fynent urddo Mr. Roger Howell. Canlyniad yr ymryson fu ymraniad. Aeth y Triundodwyr allan a dechreuasant gynal addoliad mewn amaethdy o'r enw Llwynefan, symudasant oddiyno i Nantmoel, ac ar ran o'r tir hwnw adeiladasant gapel Baran. Rhoddwyd les o 999 o flynyddau ar y tir gan Mr. John Howell, a'i fab a'i etifedd Mr. Roger Howell, am yr ardreth o bum' swllt yn y flwyddyn. Amseriad y les yw Hydref 1af, 1805, ond yr ydym yn tybied fod y capel wedi cael ei orphen a'i agor rai mis edd cyn hyny. Y personau canlynol oedd yr ymddiriedolwyr: David Howell, Cwmnant-hopkin; Evan Hopkin, Penlan; John Phillips, Tychwith; Hopkin Harry, Rhydyfro; Rees Thomas, Coedcaemawr; Harry Thomas, Rhydyfro; Phillip John, a Daniel John, Tresgwich; Thomas Thomas, Maestirmawr; Samuel Thomas, Llwyndomen, a Jenkin Jenkins, Cynordyfuch. Mawrth 14eg, 1805, urddwyd Mr. Roger Howell yn weinidog. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth, D. Peter, Caerfyrddin; D. Davies, Llanybri; J. Abel, Cydwely; T. Bowen, Castellnedd; J. Davies, Alltwen; J. Davies, Llansamlet; E. Evans, Penygraig; W. Gibbon, Capel Sion, a dau o weinidogion y Bedyddwyr, sef Mr. Rees, Felinfoel, a Mr. Davies, Salem. Parhaodd Mr. Howell i weinidogaethu yma am 38 o flynyddau. Gan mai mynydd anghyfanedd sydd ar y naill du i'r capel yr oedd y gynnulleidfa yn gorfod ymgasglu o bellder mawr. Yr oedd Baran gynt i lawer o deuluoedd fel Jerusalem, "Y man lle yr oedd yn rhaid addoli." Cyrchai pobl yno o'r Gerdinen, Llandremoruchaf, Llwyngweno, Penwaenfach, Cynhordyfach, Cefnparc, Llwyndomen, Craigtrebanos, Alltwen, Hendregradog, Ynysmudw, Pentwyn, Blaenegel, Bettws, &c. Yr oedd golwg brydferth i'w gweled ar y mynydd ar fore y Sabboth; rhai ar draed a rhai ar geffylau, yn brithio y mynydd wrth ddyfod o bob cyfeiriad i'w hoff deml i addoli. Erbyn y flwyddyn 1830, yr oedd y capel wedi myned yn rhy fychan i gynwys y gwrandawyr fel y bu raid ei helaethu.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1831, ymfudodd o ddeugain i haner cant o'r aelodau gyda eu gilydd i dalaeth Pensylfania, America, a chan eu bod wedi trefnu i fyw yn yr un gymydogaeth, rhoddasant alwad i Mr. Daniel Jones, gwr ieuangc oedd newydd ddechreu pregethu yn y Baran, ac urddwyd ef gartref cyn iddo ef a'i eglwys gychwyn i'w taith. Gweinyddwyd yn yr urddiad gan y Meistri Howell, Baran; Rowlands, Cwmllynfell, a Powell, Cross Inn. Bu Mr. Jones, yn gweinidogaethu i'r bobl hyn yn America hyd ei farwolaeth. Gwanychodd hyn gryn lawer ar yr eglwys, ond yn raddol llanwyd lleoedd y rhai a ymadawsant. Yn y flwyddyn 1840, o herwydd llesgedd Mr. Howell, barnwyd yn angenrheidiol cael cynorthwywr iddo, ac yn nechreu y flwyddyn 1841, rhoddwyd galwad i Mr. Pryse, Cwmllynfell, i ddyfod yn gydweinidog ag ef. Parhaodd Mr. Pryse i ofalu am yr eglwys am flwyddyn ar ol marwolaeth Mr. Howell. Yn 1844, pan adeiladwyd capel yn Rhydyfro, ac y gollyngwyd tua 55 o aelodau Baran yno i ddechreu yr achos, rhoddodd Mr. Pryse ofal y fam-eglwys i fyny, a chymerodd ofal y gangen yn Rhydyfro. Yna rhoddodd eglwys Baran alwad i Mr. Davies, Cwmaman, a buont dan ei ofal ef hyd Ebrill, 1859, pryd y cymerodd ofal yr eglwys yn Cross Inn. Dilynwyd ef yn Baran gan Mr. T. Davies, Treforis, yn Mai, 1859, ac efe yw y gweinidog yno hyd y dydd hwn. Yn y flwyddyn 1862, adeiladwyd ysgoldy yn Nghwmclydach, mewn lle a elwir Pantycrwys, ac yn 1866, ffurfiwyd yno eglwys. Wedi colli ardaloedd poblog Rhydyfro a Chwmclydach, y mae cynnulleidfa Baran o angenrheidrwydd wedi lleihau yn fawr, gan nad yw y gymydogaeth uniongyrchol oddiamgylch y capel ond teneu iawn ei thrigolion, ac y mae amryw o'r amaethdai yr oedd eu preswylwyr gynt yn perthyn i Baran, yn awr yn cael eu preswylio gan Saeson, neu bobl o enwadau eraill. Yr oedd rhif yr aelodau yn 1842, yn 181, ond yn bresenol nid ydynt ond 65, er fod y gweinidog presenol wedi derbyn 79 o aelodau yn y deuddeng mlynedd diweddaf, a thua deugain trwy lythyrau. Y canghenau aethant allan o honi sydd wedi difa nerth y fam-eglwys, fel na ddaw mwyach mor lluosoced ag y bu, oddieithr i weithiau glo gael eu hagor yn yr ardal.

Y diaconiaid yn yr eglwys hon, o ddechreuad yr achos hyd yn awr, oeddynt Thomas Davies, Cwmgors; Rees Harry, Gartheithin; Phillip Bevan, Bwllfa; William Hopkin, Godre'rgarth; John Howell, Nantmoel; Evan Llewellyn, a William Llewellyn, Gerdinen; David Jones, Nantmelyn, a Jonah Williams, Cwmgors. Nid oes ond tri o'r rhai hyn yn fyw yn awr, sef John Howell, David Jones, a Jonah Williams.

Dau bregethwr yn unig a gyfodwyd yma er dechreuad yr achos, sef Daniel Jones, yr hwn a urddwyd yma cyn ei ymfudiad i'r America, a John Davies, yr hwn sydd yn bresenol yn Ynysmudw, ac yn ŵr ieuangc gobeithiol iawn.

Gadawodd Mr. Howell, y gweinidog cyntaf, ac un o sylfaenwyr yr achos, argraff ei dymer addfwyn a chariadus ar yr eglwys hon, fel na chlywyd un amser am unrhyw anghydfod na therfysg yma. Parhaed yr un dymer gristionogol i lywodraethu yma tra byddo careg ar gareg o'r adeilad yn sefyll, a dynion yn ymgynull i'r lle.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

**Roger Howell.** Ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw Pyllau Watkin, yn mhlwyf Llangafelach, yn y flwyddyn 1774 Yr oedd ei dad, Mr. John

Digitized by Google

Howell, yn wyr i Mr. Roger Howell, gynt gweinidog y Gellionen a Chwm-llynfell, ac yn ddyn crefyddol iawn. Byddai yn pregethu yn achlysurol yn y Gellionen, lle yr oedd yn aelod, ac mewn manau eraill yn y gymydog-aeth. Dywedir iddo unwaith, wrth bregethu mewn tŷ yn yr ardal, roddi cerydd effeithiol iawn i ddyn am ddyfod yn ddiweddar i'r oedfa. Daethai y dyn i mewn pan oedd Mr. Howell ar orphen ei bregeth. "Yn awr," ebe y pregethwr, "er fy mod yn myned i derfynu, byddai yn well i mi ddyweyd ychydig yn ychwaneg er mwyn ein cyfaill M. N., yr hwn sydd newydd ddyfod i mewn," ac felly estynodd ei bregeth am ddeg munyd yn hwy nag y bwriadai. Bu y dyn da hwn yn ofalus iawn i ddwyn ei fab Roger i fyny yn grefyddol. Pan yn llangc lled ieuangc anfonwyd ef i ysgol ieithyddol a gedwid yn Abertawy gan un Mr. Rees. Tra yno y derbyn-iwyd ef yn aelod eglwysig gan Mr. W. Howell, yn y capel sydd yn awr yn meddiant yr Undodiaid. Tua y flwyddyn 1795, derbyniwyd ef i ath-rofa Caerfyrddin, lle y treuliodd ei amser yn fyfyriwr diwyd. Wedi gorphen ei amser yn yr athrofa bu am ryw vspaid yn athraw i blant J. Haynes, Ysw., arianydd, Abertawy. Yn y flwyddyn 1804, priododd a Miss Sarah Elizabeth, merch Mr. W. Price, Penyfan, Llanelli. Bu iddynt chwech o blant, a chawsant yr hyfrydwch o'u gweled oll yn grefyddol. Dewiswyd ac urddwyd ef yn 1805, fel y nodasom yn barod, yn weinidog i'r gynnulleidfa a ymneillduasai o'r Gellionen. Treuliodd ei oes yn dded-wydd a pharchus yn ei gysylltiad a'r eglwys hon. Yr oedd ei gof wedi gwaelu yn fawr yn ei flynyddau diweddaf, fel y byddai yn gorfod darllen ei bregethau, ond y fath oedd serch ei bobl tuag ato, fel yr oedd yn well ganddynt ei glywed ef yn *darllen* ei bregethau na chlywed llawer un mwy doniol yn eu *traethu* gyda'r hyawdledd mwyaf. Bu Mr. Howell farw Ebrill 29ain, 1843, yn 69 oed, a chladdwyd ef wrth gapel Baran. Gwein-yddwyd yn ei angladd gan Mr. Davies, Cwmaman; Mr. Thomas, Glais; Mr. Powell, Cross Inn, a Mr. Griffiths, Castellnedd. Mr. Powell, a Mr. Griffiths fu yn pregethu oddiwrth Ioan ii. 20., ac 2 Cron. xxiv. 15, 16. O ran ei ymddangosiad corphorol yr oedd Mr. Howell yn ddyn nod-edig o hardd, o faintioli cyffredin, o liw goleu, ac o edrychiad siriol a mwyn. O ran ei dymer yr oedd yn anghyffredin o garuaidd ac addfwyn, ac o ran ei ymddygiad nid oedd un dyn mwy boneddigaidd a dirodres yn rhodio y ddaear. Er ei fod o ran ei amgylchiadau bydol yn dirfeddianwr, yn gymharol gyfoethog, ac yn rhagorach ysgolhaig na phedwar-ar-bymtheg o bob ugain o bregethwyr ei oes, yr oedd mor ostyngedig a diymhoniad a'r iselaf yn mysg ei frodyr. Nid oedd yn feddianol ar ddoniau poblogaidd fel pregethwr, ond yr oedd ei bregethau yn wastad yn llawn o synwyr a defnyddiau addysg i'w wrandawyr. Yr oedd ei haelioni a'i lettygarwch yn ddiarhebol. Byddai ef, ei wraig, a'i blant am y parotaf i roesawi dyeithriaid, a bu eu hanedd glud yn lletty fforddolion am ddegau o flyn-yddau. Estynodd ganoedd o ddarnau o arian i ddwylaw ei frodyr tlodion yn y weinidogaeth pan alwant heibio iddo ar eu teithiau. Bu yn cadw ysgol agos trwy ei holl oes, nid o herwydd fod ei amgylchiadau yn ei orfodi i wneyd hyny, ond o herwydd mai hyfrydwch ei fywyd oedd cyfranu addysg i blant ac ieuengctyd. Rhoddodd eu haddysg yn rhad i ugeiniau o blant y gymydogaeth, a bu rhai degau o bregethwyr ieuaingc yn derbyn eu haddysg ganddo. Mae rhai o honynt etto ar dir y rhai byw, megis Evans, Nazareth; Jones, gynt o Dalgarth; Watkins, Llangattwg; Williams, Hirwaun; Edwards, Jones, Powell, a Lewis Williams, America, &c.

Digitized by Google

Gwnaeth ddaioni dirfawr yn ei ddydd yn ei ardal fynyddig fel ysgolfeistr yn gystal ag fel pregethwr. Mae ei goffadwriaeth hyd y dydd heddyw yn barchus gan ugeiniau, ac y mae crefydd yn parhau i ddal ei gafael yn ei hiliogaeth.*

## CANAAN.

Dechreuwyd yr achos hwn er's yn agos i gan' mlynedd yn ol yn y Pentrefchwith, gan Mr. Lewis Rees, yn nhŷ Thomas William. Yr oedd niferi o aelodau y Mynyddbach yn cyfaneddu yn yr ardal y pryd hwnw, a Thomas William, a Thomas Howell, fel diaconiaid o'r fam eglwys yn gofalu am y gangen yn yr ardal hon. Dywedir fod y ddau yn ddynion rhagorol iawn, a medrus nodedig i ddwyn achosion eglwysig. Pan aeth tŷ Thomas William yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, cafwyd caniatad i gynal y gwasanaeth mewn ysgoldy perthynol i berchenogion y gwaith copr. Buwyd yn addoli yn yr ysgoldy hwn am tua deugain mlynedd. Pan ymadawodd Mr. David Davies a'r Mynyddbach, darfu i'r gangen yn y Pentrefchwith uno ag eglwys Ebenezer, yn y dref; yno y byddent yn addoli bob boreu Sabboth, hyd nes iddynt gael eu corpholi yn eglwys yn y flwyddyn 1836. Yn y flwyddyn 1839, dechreuwyd adeiladu y capel ar odre craig Kilvey, yr hwn a orphenwyd yn gynar yn 1840, ac agorwyd ef yn y flwyddyn hono, ond nid ydym yn deall i hanes yr agoriad gael ei anfon i'r *Diwygiwr*, nac un cyhoeddiad arall. Yn y flwyddyn 1842, rhoddwyd galwad i Mr. Evan Watkins, Llanelli, Brycheiniog, a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad yma Medi 28ain a'r 29ain y flwyddyn hono. Bu Mr. Watkins yn llafurio yma, ac yn Bethel, Llansamlet hyd haf y flwyddyn 1850, pryd y symudodd i Langattwg, Crughowell, lle y mae hyd yn bresenol. Ni fu gweinidog erioed anwylach gan ei bobl nag yr oedd ef gan bobl Canaan a Bethel, a gwnaeth yma waith mawr yn ystod yr wyth mlynedd y bu yn y lle. Yr oedd Capel Canaan wedi costio 702p. 6s., ac nid oedd nemawr o ddim wedi ei gasglu nes i Mr. Watkins ddyfod yma. Yn mhen saith mlynedd talodd yr holl ddyled a'r llogau, ac er mawr dristwch i'r bobl a'i carai mor anwyl ymadawodd yn fuan ar ol hyny. "Yr oedd y flwyddyn 1850, yn adeg anarferol o bwysig yn hanes eglwys Canaan. Yr oedd Elias Jenkins, Ysw., Kilvey House, a'i ddwy ferch, Miss Rebecca a Miss Sarah Jenkins, yn hynod o gynorthwyol i'r achos. Yr oedd y ddwy foneddiges yn aelodau yn Canaan, ac er mai yn Castle-street yr oedd Mr. Jenkins yn aelod, etto yr oedd yn addoli unwaith bob Sabboth yn Canaan, ac yn haelionus dros ben at yr achos. Hwy oedd cefn yr achos, ac annichonadwy dyweyd y da a wnaethant iddo yn yr ardal. Yr oeddynt yn gwneyd yr oll a wnaethant yn ddistaw, ac ni fynent glywed am eu gweithredoedd da; a'r dydd mawr yn unig a ddatguddia yr oll a wnaethant. Modd bynag, yn ngwanwyn 1850, bu farw Mr. Jenkins, ac yn haf yr un flwyddyn symudodd ei ferched o'r ardal i fyw, ac yn yr un adeg symudodd Mr. Watkins, y gweinidog, fel y nodir uchod, i Langattwg. Yr oedd y cyfnewidiadau hyn yn golledion mawrion anarferol i'r achos yn y lle, tra yn ennill i fanau eraill. Mewn gair, yn 1850, *y cafodd eglwys Canaan ei*

* *Diwygiwr*, Mehefin, 1845, a llythyr Mr. John Howell.



Digitized by Google

*thaflu i fyw arni ei hun.* Hyd yn hyn yr oedd wedi bod dan nawdd teulu duwiol, cyfoethog, a haelionus Kilvey, a than weinidogaeth un o'r dynion caredicaf a fu erioed yn weinidog efengyl, ond collodd yr eglwys y cwbl megis yn yr un dydd."*

Hydref 8fed, 1850, rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. John Rees, Carmel, Llangiwc, a'r hon y cydsyniodd, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Rhagfyr, 1850. Cynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Ebrill 22ain a'r 23ain, 1851, pryd y pregethodd Meistri Morgan, Caerfyrddin; Rees, Ystrad; Rees, Cendl; Davies, Pantteg; Jones, Treforis; Griffiths, Alltwen, ac eraill. Bu Mr. Rees yn llafurus a llwyddianus iawn yma yn y cyflawniad o bob rhan o waith y weinidogaeth, ac yn enwedig gyda'r Ysgol Sabbothol. Pan ddechreuodd ef ei weinidogaeth yma, nid oedd rhif yr ysgol dros driugain-a-deg. Trwy sefydlu dosbarth Biblaidd, ac agor Ysgolion Sabbothol yn y Llysnewydd a Phort-tenant, llwyddwyd i gael rhifedi y rhai oeddynt dan addysg yn yr Ysgolion Sabbothol yn nglyn a Chanaan i *dri chant a haner*, ar un tymor. Gwnaeth ef, a'r bobl a gydweithredent ag ef, ymdrech lwyddianus i ddymchwelyd yr arferiad lygredig o gadw *Cwrw bach*, yr hon oedd yn ffynadwy yn yr ardal, ac yn effeithio mor ddinystriol ar foesau y bobl. Dyoddefodd yr achos lawer o anfantais agos trwy holl dymor gweinidogaeth Mr. Rees oddiwrth sel ac ymdrechion pobl gyfoethog yn y gymydogaeth i ddenu y gweithwyr o'r capeli i'r Eglwys Wladol. Llwyddasant i gael llawer i fyned i'r eglwys, ac i anfon eu plant i ysgolion eglwysig, ond y mae y dylanwad hwnw yn gwanychu er's rhai blynyddau bellach. Yn 1860, adeiladwyd capel Tanygraig, ac aeth nifer o aelodau Canaan yno i ddechreu yr achos. Yn 1864, ailadeiladwyd Canaan, ac agorwyd y capel newydd Gorphenaf 18fed a'r 19eg, yn yr un flwyddyn, pryd y pregethodd Meistri Davies, Llandilo; Lewis, Ty'nycoed; Watkins, Llangattwg; Rees, Llanelli; Griffiths, Alltwen, a Davies, Cwmaman. Mae y capel prydferth hwn yn 60 troedfedd wrth 40 dros y muriau. Costiodd 1,100p. Casglwyd 221p. erbyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad, ac erbyn hyn nid oes fawr o'r ddyled yn aros heb ei thalu. Teimlai Mr. Rees ar ol cael y capel newydd y dylasai roddi ei holl wasanaeth yma yn lle ei ranu rhwng Canaan a Bethel, ond gan yr ofnai y bobl nas gallasent gyfranu digon at ei gynal, gwnaeth ei feddwl i fyny i ymadael, gan na oddefai sefyllfa ei iechyd iddo ofalu am y ddau le fel yr arferai wneyd. Yn Gorphenaf, 1866, symudodd i Rodborough, lle y mae yn bresenol. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. B. Williams, Dinbych, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Mehefin 18fed a'r 19eg, pryd y cymerodd y gweinidogion canlynol ran yn y gwasanaeth, Meistri E. Griffiths, Abertawy; Stephens, Liverpool; Williams, Castellnewydd; Evans, Britonferry; Rees, Rodborough; Watkins, Llangattwg; Davies, Caerdydd, a Bevan, Waunarlwydd. Mae Mr. Williams a'r eglwys yn hoff iawn o'u gilydd, ac yn cydweithio yn llwyddianus. Mae dyled y capel, fel y nodasom, agos a chael ei lwyr ddileu, nifer yr aelodau wedi ychwanegu yn fawr, fel y maent yn awr tua thri chant o rif, a chasgliadau yr eglwys a'r gynnulleidfa at bob achos cartrefol a chyhoeddus, yn y pedair blynedd diweddaf tua 300p. yn y flwyddyn. Cafodd yr achos hwn gam mawr o'i ddechreuad trwy fod mewn cysylltiad ag eglwysi eraill, am yr ofnai y bobl eu bod yn analluog i gynnal gweinidog eu hunain, ond wedi

* Llyfr eglwys Canaan.

Digitized by Google

gwneyd y prawf, cawsant eu bod yn ddigon galluog i hyny, a'u bod wedi gwasanaethu yr achos trwy fyny gweinidogaeth gyflawn i ardal mor boblog a phwysig.

Nis gwyddom am neb a ddechreuodd bregethu yma ond Mr. William Thomas, Port-tenant, a'r diweddar Mr. Benjamin Wilkes, Trecastell.

## CAPEL SION, ABERTAWY.

Tua diwedd y flwyddyn 1841, barnodd rhai o aelodau yr eglwys yn Ebenezer fod angen am achos Cymreig arall yn y dref, a chafodd pymtheg neu ugain o honynt lythyrau o ollyngdod o eglwys Ebenezer er ffurfio eu hunain yn eglwys wahanol. Cymerasant y Victoria Rooms, yn Oxford street, at gynal cyfarfodydd, a chawsant amryw o weinidogion enwocaf siroedd Morganwg a Chaerfyrddin, i bregethu iddynt ar y Sabbothau. Pan drowyd Mr. T. Davies allan o Ebenezer yn Mehefin 1842, derbyniwyd ef gan bobl y Victoria Rooms i fod yn weinidog iddynt, a bu yn gweinidogaethu iddynt am tuag un-mlynedd-ar-bymtheg. Yn nechreu y flwyddyn 1843, cafwyd tir ar yr ochr ddeheuol i High street, ar y fan lle mae gorsaf y *South Wales Railway* yn awr, lle yr adeiladwyd capel hardd a chyfleus. Cyhoeddwyd yr hanes canlynol am yr achos a'r capel hwn yn y *Diwygiwr* am 1843, tu dal. 250:—"Dydd Iau, Mai 18fed, gosodwyd y gareg sylfaen i'r addoldy newydd perthynol i'r eglwys Annibynol ag sydd yn ymgyfarfod i addoli yn Neuadd Victoria, Abertawy. Am 2 o'r gloch yn y prydnawn, dechreuwyd trwy weddi gan y Parch. D. Jones, Clydach. Cyflawnwyd y gorchwyl o osod y gareg sylfaen gan y Parch. T. Davies, gweinidog yr eglwys hon, ac yn ei gynorthwyo yr oedd y Parch. D. Griffiths, Castellnedd; yna areithiodd y Parch. W. Williams, Llandilo, yn dra hyawdl a chymwysiadol ar yr achos; canlynwyd ef gan y Parch. D. Griffiths, Castellnedd, mewn pregeth ragorol oddiar Ezra x. 4., 'Cyfod; arnat ti y mae y peth; a ni a fyddwn gyda thi; ymwrola a gwna.' Cyfeiriodd a gwasgodd ei sylwadau ar feddyliau y gweinidog a'r eglwys, gydag effeithioldeb mawr ar y gynnulleidfa oedd yn bresenol ar y pryd; terfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. Davies, Mynyddbach. Am 7 yn yr hwyr, cafwyd benthyg addoldy Ebenezer, pan ymgynnullodd tyrfa fawr, nes oedd yr addoldy helaeth hwnw yn orlawn. Dechreuwyd trwy ddarllen, gweddi, a mawl, gan y brawd T. Thomas, Llandilo, a phregethodd y Parch. W. Williams, o'r un lle, yn ddoniol oddiwrth 2 Cor. x. 4, 5. Bydded yn hysbys i bawb fod y gangen fechan hon wedi ymadael a'r eglwys yn Ebenezer, mewn modd rheolaidd a thangnefeddus i sefydlu achos newydd yn y dref boblog hon, gan ystyriad y byddai hyny yn fwy buddiol i lwyddiant crefydd, ac i ennill eneidiau at y Gwaredwr, nag aros yn segur wrth y canoedd yn yr un man. Y mae arwyddion da ar yr achos—yr addoldy yn myned yn mlaen yn hwylus—yn barod i osod y pen arno. Ein hawydd yw ennill eneidiau o'r byd i'r eglwys, ac nid eu denu o un eglwys arall."

Pan agorwyd y capel, cafwyd cynnulleidfa dda a chryfhaodd yr eglwys yn fawr. Yn 1849, cymerwyd y capel gan berchenogion y *South Wales Railway* a thynwyd ef, yn nghyd ag amryw adeiladau eraill oddiamgylch iddo, i lawr, er cael lle i'r orsaf. Cafwyd tir ar yr ochr arall i'r heol, ychydig yn is i lawr, lle yr adeiladwyd y capel presenol, yr hwn a agor-

Digitized by Google

wyd yn nechreu y flwyddyn 1850. Bu Mr. T. Davies yn gweinidogaethu yma, mewn cysylltiad a Phentre-estyll, hyd y flwyddyn 1858, pryd, o herwydd ei lesgedd ef, ac am nas gallesid cael ar y goreu ond haner ei lafur, y barnwyd y buasai yn well iddo ef gyfyngu ei lafur yn unig i Bentre-estyll, a gadael eglwys Capel Sïon at eu rhyddid i ddewis gweinidog iddynt eu hunain. Ar ol bod ychydig gyda blwyddyn yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, rhoddwyd galwad i Mr. John C. Davies, Carfan, sir Benfro, a dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn Hydref, 1859. Parhaodd i weinidogaethu yn y lle hyd Awst, 1868, pan y symudodd i Newton. Ychydig cyn ymadawiad Mr. Davies, adgyweiriwyd a phrydferthwyd y capel yn fawr, yr hyn a gostiodd rai canoedd o bunau, ond trwy ymdrech ddiflin y gweinidog a'r bobl talwyd y cwbl yn fuan. Ychydig amser ar ol ymadawiad Mr. Davies, rhoddwyd galwad i Mr. John Jenkins, Pantteg. Bu ef yma am tua blwyddyn a haner, ond er's yn agos i flwyddyn bellach y mae y cysylltiad rhyngddo a'r eglwys wedi darfod, ac y mae y gynnulleidfa er hyny heb un gweinidog sefydlog.

Mae yr eglwys hon, er nad oes llawn ddeng-mlynedd-ar-hugain er pan y ffurfiwyd hi, wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau. Bu yr achos ar rai adegau yma yn gryf a llwyddianus iawn, ac ar adegau eraill yn lled wan a gwywlyd. Mae yn bresenol yn llawer gwanach nag y bu, ac wedi cael ei daflu i'w iselder presenol gan amgylchiadau na byddai eu crybwyll o un budd i neb. Hyderwn fod y gauaf presenol i gael ei ddilyn gan dymor hafaidd a llwyddianus.

## ZOAR, ABERTAWY.

Gan David Richards, yr hwn oedd yn aelod yn Mhentre-estyll, a David Davies, aelod o Gapel Sïon, y dechreuwyd yr achos hwn. Cymerasant y Trade'shall, yn High-street, at gynal gwasanaeth crefyddol. Ebrill 2il, 1848, y cynhaliwyd y gwasanaeth cyhoeddus cyntaf yno. Yn y boreu, cadwyd yno Ysgol Sabbothol. Pedwar-ar-ddeg rhwng plant a dynion mewn oed oedd ynddi y Sul cyntaf. Am ddau a chwech yn y prydnawn a'r hwyr, pregethodd Mr. Rees Rees, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, yr hwn yn fuan ar ol hyny a urddwyd yn weinidog ar yr eglwys ieuangc. Heblaw plant yr Ysgol Sul, nid oedd ond pump o bersonau yn gwrandaw Mr. Rees y Sabboth hwnw. Er mor waned a digalon yr ymddangosai pethau ar y cychwyniad, aeth Mr. Rees a'r ddau frawd, D. Richards, a D. Davies, yn mlaen heb lwfrhau dim. Awst 3ydd, 1848, urddwyd Mr. Rees yn weinidog gan Mr. Evans, Capel Sïon, a Mr. Jenkins, Penygroes. Rhif yr aelodau y pryd hwnw oedd naw, ond erbyn Tachwedd 4ydd, 1849, yr oeddynt wedi lluosogi i 135, a'r Ysgol Sabbothol yn 160. Awst 23ain, 1848, cymerwyd tir at adeiladu y capel, a dechreuwyd ei adeiladu Hydref 9fed, yn yr un flwyddyn. Erbyn Rhagfyr 30ain, yr oedd y tô wedi ei osod ar yr adeilad, a phregethodd Mr. Rees yno y noson hono. Buwyd wedi hyny yn addoli yn y Trade'shall nes i'r capel gael ei orphen. O ddiffyg arian i fyned ar gwaith yn mlaen, ni allwyd gorphen yr adeilad hyd Hydref 30ain, 1849, pryd yr agorwyd ef. Dechreuwyd yr oedfa y nos gyntaf gan Mr. T. Jenkins, Penygroes, a phregethodd Mr. D. Williams, Aberafon, a Mr. J. Ridge, gynt o Cendl. Am ddeg dranoeth, gweddiodd Mr. Williams, Aberafon, a phregethodd Meistri Jinkins, Penygroes; Thomas

Digitized by Google

Glandwr, a Griffiths, Alltwen. Am 2, gweddiodd Mr. J. Davies, Taihirion, a phregethodd Meistri Williams, Bryn; Watkins, Canaan, a Jones, Bethesda, Merthyr. Am 6, gweddiodd Mr. W. Humphreys, Glandwr, a phregethodd Meistri Davies, Siloa, Llanelli, a Griffiths, Alltwen, a diweddwyd trwy weddi gan Mr. E. Jacob, Ebenezer. Maint y capel oedd 40 troedfedd wrth 41, yn cynwys 48 o eisteddleoedd ar y llawr, a 36 ar yr oriel. Traul yr adeiladaeth oedd 700p. 2s. 5c. Gan i'r achos gael ei ddechreu yn afreolaidd, heb ymgynghori a'r gweinidogion a'r eglwysi cymydogaethol, fod yr ychydig frodyr a'i dechreuodd, o herwydd bychander eu rhif, yn derbyn pob un a ddeuai atynt o eglwysi eraill heb ofalu eu bod yn dyfod yn rheolaidd trwy lythyrau, a bod y ddyled yn fawr, buwyd am dymor yn gwrthod eu derbyn i undeb eglwysi y sir. Parodd hyny drallod nid bychan, oblegid ei fod yn rhwystr i'r ymdrech er talu y ddyled. Ond wedi myned trwy lawer o bryderon ac amgylchiadau bygythiol, gwenodd Duw a dynion arnynt, a chyfododd yr achos ei ben yn fuddugoliaethus. Rhoddodd Mr. Rees ei weinidogaeth i fyny Awst 12fed, 1855, a symudodd i Gapel Isaac. Bu pethau yn lled ddigalon yma wedi ei ymadawiad ef. Collwyd llawer o'r gwrandawyr a'r aelodau, a buwyd unwaith yn ofni y buasai raid gwerthu y capel i'r Pabyddion er talu ei ddyled. Mawrth 3ydd, 1859, cymerodd Mr. Davies, Ysgetty, ofal y lle, mewn cysylltiad a'r Ysgetty. Adfywiodd pethau yn fuan yma dan ei nawdd ef. Yn ystod y tair blynedd y bu y lle dan ofal Mr. Davies talwyd 150p. o'r ddyled heblaw talu y llogau, a daeth pethau i wisgo agwedd obeithiol. Pan welodd ef fod yr achos wedi dyfod i sefyllfa hunan-gynaliol, rhoddodd ei ofal i fyny, ac anogodd y bobl i roddi galwad i Mr. Frederick Samuel, yr hwn oedd ar y pryd yn fyfyriwr yn yr athrofa Normalaidd yn y dref hon. Urddwyd Mr. Samuel, Hydref 3ydd a'r 4ydd, 1862. Rhoddir hanes cyfarfodydd yr urddiad yn *Niwygiwr*, Gorphenaf, 1862, fel y canlyn:—"Zoar, Abertawy. Oddeutu tair blynedd yn ol, cymerodd Mr. Davies, Ysgetty, ofal yr eglwys uchod pan oedd ar drangcedigaeth, ac wedi marw yn ngolwg llawer; gwnaeth ei oreu mewn amser ac allan o amser; ac yr oedd llwydd mawr ar ei waith. Boed bendithion lawer yn orphwysedig ar Mr. Davies, ac eglwys yr Ysgetty, am eu daioni tuag atom yn ein cyfyngder. Ond am nad oedd Mr. Davies yn barnu ei fod yn gwneyd cyfiawnder a'r ddwy eglwys, rhoddodd Zoar i fyny. Yr oedd teimladau gofidus ac hiraethlon yn yr eglwys ar ei ymadawiad. Wedi hyny rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. F. Samuel, myfyriwr o goleg Normalaidd, Abertawy. Nos Fawrth, a dydd Mercher, y 3ydd a'r 4ydd o Fehefin, dygwyd yr urddiad yn mlaen. Y nos gyntaf, gweddiodd Mr. Davies, Capel Sion, a phregethodd y Parchn. W. Morgan, Caerfyrddin, a J. Mathews, Castellnedd. Am 10 dydd Mercher, gweddiodd Mr. Thomas, Glandwr, a phregethodd y Parch. D. Rees, Llanelli, ar natur eglwys; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan y Parch. W. Jones, Castle-street; yna pregethodd y Parch. R. G. Jones, Merthyr, ar ddyledswydd y gweinidog. Am 2, dechreuwyd gan Mr. Owens, Clydach, a phregethodd y Parch. W. Edwards, Aberdare, ar ddyledswydd yr eglwys, a diweddwyd trwy weddi gan Mr. Thomas, Aberdare. Yn yr hwyr cynaliwyd y cyfarfod yn Ebenezer, am fod y lle yn rhy fychan i gynwys haner y dyrfa. Dechreuwyd trwy weddi gan Mr. D. Davies, o'r athrofa Normalaidd, a phregethodd y Parchn. J. Rees, Canaan; a T. Rees, Ebenezer. Cafwyd cyfarfod hwylus." Mae Mr. Samuel wedi ac yn ymroddi a'i holl egni i gyflawni ei weinidogaeth yn effeithiol, ac wedi bod yn rhagorol o

Digitized by Google

lwyddianus i dalu y ddyled a lluosogi y gynnulleidfa. Tua thair blynedd yn ol gwnaeth ef a'r eglwys eu meddyliau i fyny i adeiladu capel newydd a mwy teilwng o'r dref a'r oes nag oedd yr un a adeiladwyd yn 1849. Bwriadent adeiladu yr ochr arall i'r heol, a gadael yr hen gapel at gychwyn achos Saesonig ynddo, ond o herwydd gomeddiad y Duc o Beaufort i roddi y tir, bu raid iddynt dynu yr hen gapel i lawr ac adeiladu yr un newydd ar ei safle. Mae hwn yn un o'r capeli harddaf a mwyaf cyfleus yn yr holl wlad, ac ysgoldy eang oddi tano yn cynwys lle i 400 o bobl. Gosodwyd ei gareg sylfaen gan S. Morley, Ysw., A.S., Medi 14eg, 1869, a rhoddodd gan' punt at yr adeiladaeth; traddodwyd hefyd areithiau ar yr achlysur gan H. Richard, Ysw., A.S., E. M. Richards, Ysw., A.S., Mr. Jones, Castle-street, a Dr. Rees, Ebenezer. Cynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad yn Gorphenaf, 1870. Traul yr adeiladaeth oedd 2,750p. Y mae 750p. o'r swm yma wedi eu casglu yn y ddwy flynedd ddiweddaf, ac er fod swm mawr etto yn aros, ni saif yn hir o flaen dyn mor weithgar a Mr. Samuel, a'r bobl ffyddlon sydd yn ei gynnulleidfa. Pan ddechreuodd Mr. Samuel ei weinidogaeth yma, rhif yr aelodau oedd o 70 i 80, ac yr oedd 550p. o ddyled yn aros ar y lle. Yn awr mae yr aelodau yn 250 o rif, a'r rhan fwyaf o honynt yn bobl a chalon ganddynt i weithio.

Mae agwedd pethau yma yn awr yn ddigon o dal i'r hen frawd ffyddlon David Richards, am yr holl bryderon a'r gofidiau yr aeth trwyddynt wrth gychwyn a chario yr achos yn mlaen yn ei wendid. Dichon y caiff ef etto, er ei lesgedd a'i nychdod, fyw i weled y deml hardd hon yn ddiddyled.

## PENTRE-ESTYLL.

Mae y lle hwn o fewn milldir i Abertawy, ar y ffordd i Langafelach. Yr oedd ugeiniau o aelodau Ebenezer yn byw yn yr ardal hon er dechreuad yr achos yn y dref, a llawer o'r preswylwyr yn perthyn i'r Mynyddbach cyn hyny. Cychwynwyd yma Ysgol Sabbothol effeithiol rai blynyddau cyn fod son am adeiladu capel yn y lle. Dau neu dri o aelodau Ebenezer ddarfu ei chychwyn, ac ar y pryd nid oedd y cyfeillion yn Ebenezer yn gwbl foddlon i hyny, rhag ofn y buasai yr ysgol hono yn gwanychu yr ysgol oedd ganddynt yn barod yn Mhentrefgethin. Pa fodd bynag, yn mlaen yr aeth yn llwyddianus. Pan ddarfu cysylltiad Mr. T. Davies ag eglwys Ebenezer, yn Mehefin, 1842, glynodd llawer o'r aelodau yn nghymydogaeth y Pentre wrtho a chawsant eu ffurfio yn eglwys ganddo. Ar ol bod am beth amser yn addoli mewn anedd-dai yn yr ardal, adeiladwyd capel yma, yr hwn a agorwyd Mai 15fed a'r 16eg, 1844, pryd y pregethwyd gan Meistri Williams, Aberafon; Davies, Cwmaman; Watkins, Canaan; Griffiths, Castellnedd; Stedman, Newton, a Powell, Caerdydd. Maint y capel hwn oedd 30 troedfedd wrth 30 y tu fewn i'r muriau, a chan fod oriel gyfleus ynddo, cynwysai lawer o bobl. Bu Mr. Davies yn gweinidogaethu yma i gynnulleidfa wresog hyd derfyn ei oes, yn Awst, 1861. Yn niwedd y flwyddyn 1862, rhoddwyd galwad i Mr. David A. Jones, Cwmsaerbren, a chynnaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Tachwedd 18fed a'r 19eg, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri J. Davies, Aberaman; J. Morgans, Cwmbach; T. Rees, D.D., Abertawy; W. Williams, Hirwaun; D. Evans, Salem, Llandilo; D. Price, Aberdar; J. Thomas, Bryn, a W. Thomas, Rock. Yn 1864, dechreuwyd adeiladu capel newydd yma, yr hwn a agorwyd yn y flwyddyn ganlynol. Mae

Digitized by Google

hwn yn gapel prydferth dros ben, yn mesur 60 troedfedd wrth 40. Costiodd 1,500p., ac y mae yr eglwys a'r gynnulleidfa trwy eu hymdrechion diflino wedi tynu y ddyled i lawr i dri chant, ac y maent yn debyg o dalu y geiniog olaf yn fuan. Yn mis Medi, 1865, rhoddodd Mr. Jones ei ofal weinidogaethol i fyny, a symudodd o'r ardal. Yn mis Ebrill, 1866, dechreuodd Mr. W. Jenkins, Brynmawr, ei weinidogaeth yma, ac y mae yn parhau i lanw ei gylch gyda pharch, llwyddiant, a dylanwad mawr yn yr eglwys a'r ardal. Tua thair blynedd yn ol adeiladodd yr eglwys anedd-dy hardd o werth 500p. i'w gweinidog. Byddai yn ddymunol i bob eglwys ddilyn ei hesiampl yn hyn. Mae rhif yr aelodau yma rhwng tri a phedwar cant, ac er nad oes yma nemawr yn uwch eu sefyllfa na gweithwyr, y maent wedi gwneyd mwy mewn pethau arianol at achos crefydd na llawer o gynnulleidfaoedd sydd yn ymffrostio yn eu masnachwyr cyfoethog a'u tirfeddianwyr.

Y rhai canlynol, cyn belled ag y gwyddom ni, yn unig a gyfodwyd i bregethu yn yr eglwys hon:—

Richard Martin. Yn Zoar, Abertawy, y mae efe yn bresenol yn aelod.

David Prosser. Urddwyd ef yn ddiweddar yn weinidog yr eglwysi yn yr Aber a Thalybont, Brycheiniog.

David Evans. Y mae efe newydd orphen ei efrydiaeth yn athrofa Caerfyrddin, ac i gael ei urddo yn fuan yn Rehoboth, Brynmawr.

Richard Williams. Y mae efe yma yn awr yn aelod, ac yn bregethwr cynorthwyol.

David Evans. Mab i'r enwog Mr. Daniel Evans, Mynyddbach yw efe. Dechreuodd bregethu yma yn ddiweddar.

Joseph Devonald. Mae yn awr yn fyfyriwr yn yr athrofa Normalaidd, yn Abertawy.

William Stephen Jenkins, mab Mr. Jenkins, y gweinidog. Mae y gwr ieuangc gobeithiol hwn yn awr yn fyfyriwr yn New College, Llundain.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Thomas Davies. Ganwyd ef yn Ninbych yn y flwyddyn 1796. Gof, mewn amgylchiadau bydol cysurus oedd ei dad. Derbyniwyd ef yn dra ieuangc yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Ninbych, gan Mr. Thomas Powell. Wedi iddo ddechreu pregethu aeth i'r athrofa i Lanfyllin. Yn niwedd y flwyddyn 1817, aeth ef a'i gydfyfyriwr Mr. John Ridge, wedi hyny o Cendl, ar daith trwy y Deheudir, a chafodd ei hoffi mor fawr gan yr eglwysi yn Ebenezer, Abertawy, a'r Ysgetty, fel y rhoddasant iddo alwad unfrydol i ddyfod yn ganlyniedydd i'r enwog David Davies. Urddwyd ef yn Ebenezer, Ebrill 23ain, 1818, ac er nad oedd y pryd hwnw dros ddwy-ar-hugain oed, yr oedd o ran galluoedd a doniau yn berffaith addas i lenwi y cylch pwysig y gelwesid ef iddo. Parhaodd i weinidogaethu yn Ebenezer a'r Ysgetty am fwy na phedair-blynedd-ar-hugain, ac am y deuddeg, neu y pymtheg mlynedd cyntaf o'i dymor, yr oedd yn sefyll yn rhyfeddol o uchel yn ngolwg pobl ei ofal, ac yn ngolwg gweinidogion ac eglwysi y wlad yn gyffredinol. Pan dorodd y diwygiad dirwestol allan tua y flwyddyn 1835, rhoddwyd tôn newydd i'r farn gyhoedd gyda golwg ar ddiotta a chyfeddach, fel na oddefid mwyach, fel cynt, i broffeswyr crefydd, yn enwedig pregethwyr yr efengyl, fynychu tafarndai yn

Digitized by Google

ddigondemniad. Nid oedd Mr. Davies yn flaenorol i hyn, am ddim a wyddom ni, yn waeth na'r rhan fwyaf o'i frodyr, ond gan iddo barhau yr un fath wedi i'r farn gyhoedd newid, aeth ei ymddygiad i ymddangos yn fwy gwrthun ac annoddefol. Yn Mehefin, 1842, barnodd mwyafrif eglwys Ebenezer mai eu dyledswydd oedd ymwrthod ag ef fel eu gweinidog. Pan fwriwyd ef allan gan eglwys Ebenezer, derbyniwyd ef, fel y crybwyllasom eisioes, gan yr eglwys oedd newydd gael ei ffurfio yn y Victoria Rooms; ac yr oedd niferi o aelodau Ebenezer yn ardal Pentre-estyll, mor hoff o hono, fel yr ymffurfiasant yn eglwys gan ei ddewis ef yn weinidog. Rai blynyddau cyn ei farwolaeth, er fod ei nerth corphorol yn parhau, yr oedd ei gof wedi myned yn ddiffygiol iawn, fel na fedrai wneyd dim ond traddodi yr hen bregethau y buasai yn gyfarwydd a hwy gynt. Bu farw yn ddisymwth iawn Awst 23ain, 1861, yn driugain-a-phump oed, a chladdwyd ef wrth gapel yr Ysgetty. Yr oedd miloedd lawer o bobl yn ei angladd. Dywedir na welwyd y fath angladd erioed yn Abertawy, oddieithr angladd Henry John Vivian, Ysw., A.S. Er ei holl golliadau, yr oedd Thomas Davies yn ddyn o'r fath ag a orfodai fyd ac eglwys i'w anwylo.

Yr oedd o ran ei ymddangosiad corphorol yn un o'r dynion harddaf a mwyaf mawreddog a welsom erioed. Yr oedd tua phum' troedfedd a deg moedfedd o daldra, ac o wneuthuriad cadarn a lluniaidd, heb ddim yn anffurfiol ynddo o'i goryn i'w draed. Teimlai pob un wrth edrych arno fod ynddo fawredd na pherthynai i un o bob deng mil o blant Adda. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, naturiol, esmwyth, a dylanwadol, a chanddo lais cryf, cyflawn, a pherseiniol, heb ddim yn arw nac aflafar ynddo. O ran ei dymer yr oedd yn hynaws, caruaidd, ac heb un amser sarugrwydd i'w ganfod ar ei wedd. O ran ei feddwl yr oedd yn dreiddgar, eang, parod, a galluog anarferol. Yr oedd wedi ei wneyd gan Awdwr natur yn ddyn mawr, a phe buasai yn gwrteithio ei alluoedd, ac yn defnyddio ei amser yn briodol, prin yr ydym yn tybied y buasai un gweinidog o un enwad yn y Dywysogaeth yn uwch nag ef mewn defnyddioldeb ac enwogrwydd. Segurdod ac esgeulusdod o ddyledswyddau ei swydd bwysig fu yr achos o bob coll ynddo. Ond er ei holl wendidau mae yn ddiameu iddo wneyd llawer o ddaioni, etto, llai nag un ran o fil o'r hyn yr oedd natur a Rhagluniaeth wedi ei gymhwyso i'w wneyd. Dylai hanes y dyn rhyfeddol hwn fod yn rhybudd difrifol i bob dyn ieuangc talentog i ochelyd cymeryd ei ryddid i fod yn segur ar gefn ei ddoniau a'i dalentau naturiol, oblegid pa fwyaf o dalentau a roddir i ni, mwyaf o gynyrch a ddysgwylia ein Harglwydd oddiwrthym. Nid y dynion mwyaf eu galluoedd naturiol sydd, fel rheol, wedi bod y rhai mwyaf defnyddiol, ond dynion o dalentau cyffredin yn gwneyd y defnydd goreu o honynt.

## CWMBWRLA.

Pentref ychydig gyda milldir o Abertawy, ar y ffordd i Lanelli a Chaerfyrddin, yw Cwmbwrla. Yr oedd gan eglwys Ebenezer ysgoldy at gadw Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddio yn Mhentrefgethin, ychydig yn nes i fyny i'r wlad, er's llawer o flynyddau, a phan gymerodd perchenog y tir feddiant o hwnw, adeiladwyd ysgoldy yn Nghwmbwrla yn 1844, yr hwn a agorwyd Awst 12fed a'r 13eg, yn yr un flwyddyn. Pregethwyd

Digitized by Google

ar yr achlysur gan Meistri D. Rees, a T. Roberts, Llanelli; W. Jones, Abertawy; E. Roberts, Cwmbychan; J. Bowen, yn awr o Bendaran; T. Thomas, Abertawy; E. G. Williams, Ysgetty, a W. Morris, Glandwr. Cadwyd Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, pregethu achlysurol, ac ysgol ddyddiol yn yr ysgol ly hwn hyd y flwyddyn 1861, pryd y ffurfiwyd yma eglwys Annibynol. Gollyngwyd 50 o aelodau o Ebenezer i ffurfio yr eglwys newydd, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Mr. E. Jacob, yr hwn oedd yn awr wedi rhoddi gofal Ebenezer i fyny, ac ar symud i Ebley. Cawn y nodiad canlynol gyda golwg ar ffurfiad yr eglwys hon yn y *Diwygiwr* am Hydref, 1861:—"Yn ddiweddar, wrth weled fod preswylwyr yr ardal yn amlhau yn fawr, penderfynwyd sefydlu achos rheolaidd yn y lle. Unodd ychydig frodyr gweithgar y dref a'r rhai oedd yn byw yno, yn y cynyg er dyogelu yr amcan teilwng hwn, a choronwyd eu llafur a llwyddiant. Cydweithredodd y Parch. W. Humphreys, Cadle, yn wresog yn yr ymdrech; a chan ei fod yn byw yn yr ardal, mae yn addaw cydweithredu etto. Nos Sabboth, Medi 8fed, 1861, cafodd y Parch. E. Jacob yr hyfrydwch o ffurfio eglwys yn y lle, yn cynwys yn nghylch 50 o aelodau. Derbyniwyd ar y pryd wyth o rai newyddion, ac y mae o ddeg i bymtheg etto yn y gyfeillach heb eu derbyn. Bwriedir adeiladu addoldy hardd yno mor fuan ag y byddo yn gyfleus. Mae golwg obeithiol iawn ar yr achos ieuangc yn ei gychwyniad." Dewiswyd Mr. Humphreys yn weinidog yn fuan ar ol hyn, a pharhaodd i gyflawni ei weinidogaeth yn wir effeithiol hyd derfyniad ei fywyd defnyddiol. Yn haf 1862 gosodwyd careg sylfaen y capel gan Mr. E. Griffiths, Abertawy, a phregethwyd ar yr achlysur gan Mr. Daniel, Mynyddbach, a Dr. Rees, Abertawy. Cynaliwyd cyfarfodydd agoriad y capel newydd Mawrth 29ain, 30ain a'r 31ain, 1863, pryd y pregethodd Meistri J. Thomas, Bryn; W. Morgan, Maesteg; Dr. Rees, Abertawy; J. Roberts, Castellnedd; D. Jones, Cwmafon; T. Davies, Siloa; J. Mathews, Castellnedd; D. Evans, Llansawel; H. Evans, Penbre; E. Evans, Treforis; J. Rees, Canaan; T. Davies, Treforis, a T. Thomas, Glandwr. Traul yr adeiladaeth oedd 700p., a chasglwyd erbyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad 200p. Yn y flwyddyn 1864, gosodwyd oriel yn y capel a chynaliwyd cyfarfodydd agoriad drachefn ar orpheniad y gwaith hwnw, Tachwedd 13eg a'r 14eg, pryd y pregethodd Meistri J. Rees, Cwmaman, Aberdare; H. Evans, Penbre; W. Griffiths, Llanharan; J. Evans, Maendy; J. Thomas, Bryn, a J. Joseph, Llanedi. Gorphenaf 9fed, 1869, bu farw y gweinidog llafurus, Mr. Humphreys, er dirfawr dristwch a cholled i bobl ei ofal. Wedi bod tua blwyddyn ar ol marwolaeth Mr. Humphreys yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, rhoddwyd galwad i Mr. David Jones, New Tredegar, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma yn Medi, 1870. Mae Mr. Jones a'r bobl yn cydweithredu yn ddymunol, a phob arwydd y bydd ei lafur yn y lle yn llwyddianus. Er fod y capeli Zoar, Pentre-estyll, Ebenezer, Capel Sïon, Glandwr, a'r capel hwn, oll o fewn llai na milldir i'w gilydd, y mae yma ddigon o drigolion i'w llenwi oll, a digon yn ngweddill i'r enwadau eraill.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

WILLIAM HUMPHREYS. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Glandwr yn y flwyddyn 1822. Yr oedd yn blentyn i rieni crefyddol, ac felly cafodd ei fagu yn eglwys Dduw. Ymunodd a chrefydd yn ieuangc iawn yn Siloh,



Digitized by Google

Glandwr. Tua y flwyddyn 1847, ychydig cyn ymadawiad Mr. Morris a'r lle, anogwyd ef i ddechreu pregethu. Ar ol bod am rai blynyddau yn bregethwr cynorthwyol derbyniol yn ei fam-eglwys a'r eglwysi cymydogaethol, urddwyd ef yn weinidog yr eglwys yn Nghadle, Chwefror 13eg, 1851. Yn fuan wedi hyny cymerodd ofal yr eglwys yn y Brynteg mewn cysylltiad a Chadle, ac ar ffurfiad yr eglwys yn Nghwmbwrla, cymerodd ofal hono at y ddwy flaenorol. Rhwng y tri lle yr oedd ei lafur yn ddirfawr mewn pregethu, cynal cyfarfodydd eglwysig, a theithio ar bob tywydd o le i le. Mae yn ddiameu i'w waith caled fod yn foddion i gyflymu ei farwolaeth. Wrth deimlo fod ei waith yn ormod iddo, a gweled fod yr eglwys yn Nghadle, ar ol cael capel newydd, yn alluog i gadw gweinidog ei hun, rhoddodd y lle hwnw i fyny, gan fwriadu cyfyngu ei lafur i'r Brynteg a Chwmbwrla, ond yn mhen ychydig fisoedd wedi iddo wneyd hyn, galwodd ei Arglwydd ef oddiwrth bob llafur at ei wobr. Bu farw, ar ol ychydig wythnosau o gystudd trwm, Gorphenaf 9fed, 1869, a chladdwyd ei gorph, yn ngwydd tyrfa ddirfawr o alarwyr, yn mynwent y Mynyddbach, yn agos i'r man y gorphwysa llwch yr enwogion Lewis Rees a Daniel Evans. Gweinyddwyd yn ei angladd gan Mr. Thomas, Glandwr; Mr. Thomas, Bryn; Dr. Rees, Abertawy, ac eraill.

Yr oedd William Humphreys yn weithiwr difefl yn ngwasanaeth ei Arglwydd, ac yn ddyn llawn o ysbryd cyhoeddus. Cymerai ddyddordeb neillduol yn yr ymdrech i adeiladu capeli Saesonig yn Abertawy. Er helaethiad ei gylch gweinidogaethol, a maint ei lafur, pwy bynag fyddai yn eisiau yn nghyfarfodydd pwyllgor yr achosion Saesonig, byddai ef yn sicr o fod yno, ac ni ddywedai un amser air i rwystro, ond yn wastad i anog y gwaith i fyned rhagddo. Trwy ei lafur ef yn benaf y dechreuwyd yr achos yn Mhontarddulais. Ni welsom erioed frawd yn barotach i weithio er lledaenu yr achos. Er na chafodd fanteision addysg yn ei ieuengctyd, ac iddo er yn blentyn, ac am beth amser wedi iddo gael ei urddo, orfod gweithio yn galed yn y gwaith copr, casglodd radd helaeth o wybodaeth Ysgrythyrol a chyffredinol, a medrai draethu ei feddwl gyda rhwyddineb a chywirdeb yn yr iaith Saesonig yn gystal a'r Gymraeg. Pregethai yn ddoniol a gwresog. Ni ddarfu i un gweinidog yn Nghymru wneyd mwy o ddaioni mewn cyn lleiad o amser, a than gymaint o anfanteision, na'r gweinidog rhagorol a gweithgar hwn. Mae yn anrhydedd i'r eglwys a'i cyfododd i bregethu, a bu yn fendith anmhrisiadwy i'r eglwysi a gawsant eu breintio a'i lafur.

## HOREB, TREFORIS.

Yr oedd Mr. Thomas Davies, gweinidog y capel hwn, wedi bod yn bregethwr cynorthwyol parchus yn yr ardal er's amryw flynyddau, a nifer o'i gyfeillion yn awyddus am ddyogelu ei wasanaeth yn yr ardal fel gweinidog, ac i'r dyben hwnw cymhellasant ef i uno a hwy i gyfodi achos newydd. Cydsyniodd a'u cais, a phregethodd yn ei dŷ ei hun ar yr ail Sabboth yn Ebrill, 1842. Y Sabboth canlynol pregethodd yn nhy John Evans, Edward-street, a pharhawyd i gynal y moddion yn y tŷ hwnw am dri mis. Yna ardrethwyd swyddfa hen waith y Clundu, am yr ardreth flynyddol o dair punt. Yn y lle hwnw corpholwyd yr eglwys, ac urddwyd Mr. Davies gan y brodyr heb alw un gweinidog i gymeryd rhan yn y

gwasanaeth. Er nad oedd yr achos hwn yn rhwygiad o unrhyw eglwys, etto, gan iddo gael ei gychwyn heb ymgynghori a'r eglwysi a'r gweinidogion cymydogaethol, nid ystyrid ef y pryd hwnw yn achos rheolaidd, ac felly penderfynodd y brodyr urddo eu gweinidog eu hunain. Tua yr amser hwn cafwyd darn helaeth o dir at adeiladu capel a chladdu y meirw gan L. W. Dillwyn, Ysw., am yr ardreth o swllt y flwyddyn. Hyd y les yw mil ond un o flynyddoedd. Traddodwyd pregeth ar y sylfaen yn mis Hydref, 1842, gan Mr. D. Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Abertawy. Yn nghyfarfod Calan, Castellnedd, yn 1843, rhoddwyd cais at y cyfeillion yn y lle hwn i osod eu hunain dan nawdd Cyfarfôd Chwarterol y sir, a chydymffurfio a threfn arferol yr enwad gyda golwg ar urddiad eu gweinidog. Cydsyniwyd a'r cais, a chynaliwyd cyfarfod urddiad Mr. Davies Gorphenaf 24ain, 1843, pryd y gweinyddwyd gan y Meistri W. Thomas, Glais; D. Jones, Clydach; E. Griffiths, Abertawy, a J. Davies, Mynyddbach. Rhwng muriau y capel, yr hwn oedd y pryd hwnw heb ei dôi, y cynaliwyd y cyfarfod hwn. Cyn gynted ag y gosodwyd tô a ffenestri i'r capel aeth y gynnulleidfa iddo. Yn raddol gorphenwyd ef trwy osod eisteddleoedd &c. ynddo. Ebrill 7fed, 1844, y dechreuwyd cynal gwasanaeth rheolaidd ynddo, pryd y pregethodd Mr. W. Rees, o athrofa Lancashire, yn awr offeiriad Llanboidy. Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyn bu raid gosod oriel ynddo, oherwydd fod y gynnulleidfa wedi myned yn rhy luosog i lawr y capel i'w chynwys. Rhagfyr 10fed a'r 11eg, 1845, cynaliwyd cyfarfod agoriad ar ol gorphen yr oriel, a phob peth arall perthynol i'r adeilad, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Meistri P. Griffiths, Alltwen; W. Morgans, Troedyrhiw; W. Thomas, Rock; J. Evans, Crwys; E. Jacob, Abertawy; E. Watkins, Canaan; W. Morris, Glandwr, ac eraill. Maint y capel hwn oedd 36 troedfedd wrth 31 o fewn y muriau. Traul yr adeiladaeth, trefnu a chau oddiamgylch y fynwent &c., oedd rhwng 600p. a 700p., a thalwyd y cwbl trwy ymdrechion diattal y gweinidog a'i bobl ffyddlon. Erbyn y flwyddyn 1869 yr oedd y capel hwn wedi myned yn rhy fychan fel y bu raid ei dynu i lawr ac adeiladu un llawer helaethach. Gosodwyd careg sylfaen y capel newydd prydnawn dydd Sadwrn, Awst 28ain, 1869, gan Miss Hughes, (Morfudd Glantawy,) yn ngwydd torf fawr o edrychwyr, y rhai a anerchwyd gan y Meistri F. Samuel, a Dr. Rees, Abertawy; R. Rowlands, Llansamlet; W. Cuthbertson, B.A., Bishop Stortford, a J. Davies, Caerdydd. Rhoddodd Miss Hughes 20p., a'i thad, R. Hughes, Ysw. 10p., at draul yr adeiladaeth. Gorphenwyd y gwaith ac agorwyd y capel Rhagfyr 3ydd, 4ydd a'r 5ed, 1870. Pregethwyd yn nghyfarfodydd yr agoriad gan Dr. Rees, Abertawy; y Meistri J. Davies, Taihirion; E. Griffiths, Abertawy; J. Roberts, a J. Mathews, Castellnedd; T. Johns, Llanelli; R. Morgans, Glynnedd; R. Morgans, Aberafan; J. Ll. Jones, Crwys, a J. Thomas, Bryn. Mae y capel hwn yn un o'r rhai harddaf yn yr holl ardal, ac ysgoldy eang odditano. Costiodd tua 2,300p., ac y mae y gynnulleidfa ffyddlon wedi casglu 700p. o'r swm hwn yn y ddwy flynedd ddiweddaf. Maint y capel prydferth hwn yw 55 troedfedd wrth 45.

Mae Mr. Davies er dechreuad yr achos yma yn 1842, wedi derbyn dros 1200 o aelodau i'r eglwys. Rhai o honynt yn hen iawn a rhai yn ieuaingc iawn. Erbyn hyn y mae tua 300 o honynt wedi marw, a chanoedd eraill wedi cael eu gwasgaru gan Ragluniaeth i wahanol ardaloedd a gwledydd. Nifer y gynnulleidfa yn bresenol, rhwng aelodau a gwrandawyr yw tua

500. Yn mysg y ffyddloniaid a fuont feirw gellid enwi David Jones, Tanyard; David Jones, Gwehydd; John David, David John, Jonah Francis, Mary Anne Hopkin, Martha Rees, Hannah Davies, gwraig y gweinidog, a Mary Charles.

Y pregethwyr a godwyd yn yr eglwys hon ydynt y rhai canlynol:—

John Davies, gweinidog yr eglwysi yn y Taihirion, Bronllwyn, a'r Efail-isaf, Morganwg.

Samuel Jones, gynt o Benmorfa, sir Gaernarfon.

Lot Jenkins, yr hwn a urddwyd yn Pomeroy, Ohio, America, ac a symudodd oddiyno i St. Clairs, yn nhalaeth Pennsylvania, lle y bu farw yn mlodau ei ddyddiau er mawr alar i bobl ei ofal a'i frodyr yn y weinidogaeth.

William Thomas. Ymfudodd yntau i'r America, ac yno ymunodd a'r Wesleyaid.

Thomas Davies. Addysgwyd ef yn athrofa Lancashire, a chafodd ei urddo yn Runcorn, ond ymfudodd yn fuan oddiyno i South Australia, lle y mae yn bresenol.

William Davies. Y mae ef yma etto yn bregethwr cynorthwyol defnyddiol.

Rhif yr aelodau yma yn awr yw tua dau gant a haner, ac y mae golwg lewyrchus ar yr achos. Mae llwyddiant mawr fel y gwelir wedi bod ar lafur Mr. Davies yn y lle hwn, ac y mae y ffeithiau a goffawyd yn llefaru yn gryfach dros weithgarwch yr eglwys a'r gweinidog nag unrhyw ganmoliaeth a allwn ni ei roddi.

## TANYGRAIG.

Mae y lle hwn ar lan y mor yn y rhan isaf o blwyf Llansamlet, tua milldir a haner i'r dwyrain o dref Abertawy. Mae yma yn bresenol gryn lawer o drigolion, ac y mae yr ardal yn debyg o gynyddu yn ddirfawr yn ei phoblogaeth yn dra buan. Bu ysgol Sabbothol a phregethu achlysurol yn y gymydogaeth hon gan y Methodistiaid am rai blynyddau, ond oherwydd difaterwch y trigolion rhoisant yr ysgol a'r pregethu heibio. Yn mhen ychydig wedi hyny, sef tua y flwyddyn 1856, cychwynwyd pregethu achlysurol yma drachefn gan Mr. J. Rees, gweinidog Canaan, yn nhŷ Mr. Morgan Huzzey, yn agos i waith copr Porttenant. Ar symudiad Mr. M. Huzzey o'r ardal, rhentiodd Mr. Rees anedd-dŷ at gadw ysgol a phregethu, a buwyd yn cadw moddion yn y tŷ hwnw am ddwy flynedd. Pregethid hefyd yn fynych yn nhy Mr. Thomas Davies. Pan ddaeth Mr. William Thomas, yr hwn oedd yn bregethwr cynorthwyol yn Nghanaan, i fyw i'r ardal, dechreuwyd pregethu yn rheolaidd yma bob nos Sabboth; a phan y bu raid rhoddi y tŷ yn yr hwn y pregethid i fyny, agorodd Mr. David Williams, Cigydd, ei ddrws i'r Arch, ac yno y buwyd yn addoli nes adeiladu y capel. Ffurfiwyd yma eglwys, yn benaf o aelodau a ollyngwyd o Canaan, ac agorwyd y capel Hydref 9fed a'r 10fed, 1860. Mr. Rees fu yn gofalu am y lle fel gweinidog hyd ei symudiad i Rodborough, ond cynorthwyid ef yn achlysurol gan weinidogion y gymydogaeth. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1867, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. D. T. Jones, o goleg Caerfyrddin, ac urddwyd ef yma Mai 13eg a'r 14eg, y flwyddyn hono. Gweinyddwyd a'r yr achlysur gan Dr. Rees, Abertawy; J. Rees,

Digitized by Google

Rodborough; B. Williams, Canaan; W. Morgan, Caerfyrddin; E. Griffiths, Abertawy; E. Owens, Clydach, ac eraill. Gan fod yr eglwys yn ychydig o rif a gwan addawodd eglwysi y dref a'r gymydogaeth roddi iddynt ychydig gynorthwy i wneyd i fyny gyflog y gweinidog am beth amser. Bu Mr. Jones yn llafurio yma, ond heb gael ei galonogi gan nemawr o lwyddiant, hyd nes yr ymfudodd i'r America yn 1870. Oddiar ei ymadawiad ef y mae gweinidogion y gymydogaeth, yn nghyd a'r brodyr W. Thomas a W. Harris, y rhai sydd yn aelodau yn y lle, yn llenwi lle gweinidog sefydlog. Gwan a lled ddilwyddiant y mae yr achos hwn wedi bod er y dechreuad, ond y mae yr ychydig bobl sydd yma mor ffyddlon, haelionus, ac ymdrechgar ag unrhyw eglwys yn y Dywysogaeth. Costiodd y capel, heblaw llogau y ddyled, 600p., ac y mae yr ychydig frodyr a chwiorydd sydd yma wedi tynu y swm hwn i lawr i 350p., heb gael ond y peth nesaf i ddim o gymhorth y tu allan i'w hardal. Pe byddai llawer o eglwysi lluosog Cymru yn cyfranu yn ol eu rhif fel y bobl hyn byddai ganddynt filoedd yn flynyddol i'w rhoddi at achosion cyhoeddus. Yr ydym yn hyderu y ca yr ychydig ffyddloniaid yn y lle hwn eu talu yn dda am eu ffyddlondeb trwy gael byw i weled y bychan wedi myned yn fil a'r gwael yn genedl gref.

## FABIAN'S BAY.

Un o faesdrefi mwyaf cynyddol Abertawy, ar y tu dwyreiniol i'r afon, yw y lle hwn. Mr. Rees, Canaan; Mr. Griffiths, Abertawy; Mr. Jones, Heolycastell, a Dr. Evan Davies fu a'r llaw flaenaf yn nghychwyniad yr achos hwn yn y flwyddyn 1861. Wedi cael allan fod mwyafrif dirfawr trigolion y gymydogaeth yn siarad yr iaith Saesonaeg, ac i raddau mawr yn anwybodus o'r Gymraeg, barnasant fod yma angen achos Saesonig. Cymerwyd anedd-dŷ yn y gymydogaeth at gadw ysgol Sabbothol a moddion crefyddol eraill, ac yn mhen ychydig corpholwyd yno eglwys. Cymerwyd tir mewn man cyfleus at adeiladu addoldy, ac yn nechreu y flwyddyn 1862 adeiladwyd ysgoldy cyfleus ar ddarn o'r tir, yn cynwys 235 o eisteddleoedd, ac esgynlawr cyfleus i'r pregethwr i sefyll arno. Gadawyd digon o dir o flaen yr ysgoldy i adeiladu y capel heb gyffwrdd a'r adeilad hono. Aeth traul yr adeiladaeth, rhwng llogau a phethau eraill, tua 400p. Trwy ymdrech yr eglwys fechan, yn cael ei chynorthwyo gan yr eglwysi yn y dref a'r ardal, yr oedd y ddyled erbyn diwedd y flwyddyn ddiweddaf wedi ei dynu i lawr i 200p., a chymerodd eglwys Ebenezer, Abertawy, at y swm hwn er mwyn i'r eglwys ieuangc yn Fabian's Bay gael ei dwylaw yn rhyddion i ymgymeryd a'r gorchwyl o adeiladu capel, oblegid mae yr ysgoldy er's amryw fisoedd wedi myned yn rhy fychan i gynwys y gwrandawyr. Bwriedir yn ddioed adeiladu yma gapel digon eang i gynwys pum' cant o wrandawyr. Gosodwyd ei gareg sylfaen i lawr gan H. O. Wills, Ysw., o Gaerodor, Hydref 13eg, 1871, a disgwylir y bydd yr adeilad yn barod cyn pen blwyddyn. Y gweinidog cyntaf yma oedd un William Jones, a bu yma am tua dwy flynedd; ond gan nad oedd ei fuchedd yn deilwng o'r Efengyl bu ei ymadawiad a'r lle yn fantais i'r achos. O'r flwyddyn 1864 hyd 1868 bu yr eglwys yn benaf dan ofal Mr. W. Lloyd. Abertawy, yn cael ei gynorthwyo gan Meistri E.

Digitized by Google

Griffiths, F. Samuel, T. Rees, ac eraill o weinidogion y dref. Yn Ebrill 1861, symudodd Mr. J. Thomas yma o Dredegar, ac y mae yn parhau i lafurio yma ac ar y Sandfields. Am y ddwy flynedd gyntaf ni bu llafur Mr. Thomas yma mor llwyddianus ag y disgwyliasai ef a'i gyfeillion iddo fod, oherwydd rhyw amgylchiadau anffafriol, ond er's yn agos i flwyddyn bellach mae yr Arglwydd yn ymddangos fel yn gwenu yn neillduol ar y lle, a rhai degau wedi cael eu hychwanegu at yr achos. Mae rhif yr aelodau yn bresenol tua haner cant, ac y mae pob sail i obeithio pan y ceir yma gapel newydd y ceir ychwanegiad mawr at yr eglwys a'r gynnulleidfa. Mae yma ysgol Sabbothol lewyrchus er dechreuad yr achos.

## Y SANDFIELDS.

Y rhan isaf o dref Abertawy a elwir wrth yr enw hwn. Mae yn y rhan hon o'r dref o saith i wyth cant o anedd-dai gweithwyr, a thebygolrwydd yr adeiledir yma lawer yn ychwaneg yn dra buan. Yn y flwyddyn 1866 cymerodd Dr. Rees, ddarn o dir ar les o 499 o flynyddau gan E. M. Richards, Ysw., A.S., a'i frodyr, ac adeiladodd arno ysgoldy, o'r un faint a'r un cynllun a'r ysgoldy yn Fabian's Bay, yn y flwyddyn 1867. Y mae etto ddigon o dir o flaen yr ysgoldy at adeiladu capel pan y bydd galwad am dano. Pan orphenwyd yr adeilad dechreuwyd cadw ysgol Sabbothol a phregethu achlysurol yma gan weinidog a rhai o aelodau eglwys Ebenezer. Pan ddaeth Mr. J. Thomas yma o Dredegar yn 1868, rhoddwyd gofal y lle iddo ef. Corpholodd eglwys yma, a thrwy ei lafur ef a'i briod, yn nghyd a llafur dibaid Mr. Julias Smith, un o aelodau yr eglwys yn Walter Road, gyda yr ysgol Sabbothol, y mae yma eginyn achos yn cael ei gadw yn fyw, ac yr ydym yn gobeithio nad yw yr amser yn mhell pryd y gwelir yma eglwys gref a lluosog o'r dosbarth gweithiol o'r bobl. Yn yr iaith Saesonaeg yn unig y dygir y gwasanaeth yn mlaen yn y lle hwn. Traul adeiladaeth yr ysgoldy hwn oedd 278p., a thalwyd am dano o'r arian a gasglwyd gan Dr. Rees at adeiladu capeli Saesonig yn Abertawy.

## WALTER ROAD, ABERTAWY.

Un o brif ddybenion T. Rees wrth symud o Cendl i Abertawy yn 1862, oedd gosod ei hun mewn amgylchiadau mwy manteisiol i wneyd rhywbeth yn effeithiol er helaethu dylanwad yr enwad Annibynol yn mysg Saeson y dref fawr a chynyddol hon. Yn y flwyddyn 1865 cymerodd ef a'r diweddar David Davies, masnachydd coed, ddarn o dir cyfleus yn Walter Road at adeiladu capel. Yna cawsant gan weinidogion, a rhai lleygwyr, yn y dref a'r gymydogaeth, i ymffurfio yn bwyllgor er cynllunio mesurau i fyned yn mlaen a'r adeiladaeth. Wedi cael addewidion am symiau da o arian gan Samuel Morley, Ysw., A.S., John Crossley, H. O. Wills, a C. Jupe, Ysweiniaid, a rhai Saeson haelionus eraill, penderfynwyd ceisio gan H. O. Wills, Ysw. i osod i lawr gareg sylfaen y capel newydd, yr hyn a wnaeth yn ngwydd torf fawr o edrychwyr yn Medi 27ain, 1866. Gan nad oedd etto ddigon o arian mewn llaw nac mewn addewid i gyfiawnhau y pwyllgor i fyned i gytundeb ag adeiladydd, gadawyd y gwaith i aros ar ol adeiladu y muriau o'r sylfaen at wyneb y ddaear. Ar ol hyn buwyd am tua

Digitized by Google

dwy flynedd yn cynllunio ac yn casglu arian ac addewidion. Yn y cyfamser, ar anogaeth yr haelionus Mr. S. Morley, A.S., darfu i T. Rees gymeryd y *Music Hall* at bregethu a chadw ysgol Sabbothol, er casglu cynnulleidfa barod i fyned i'r capel newydd pan orphenid ef. Telid punt yr wythnos am wasanaeth y *Music Hall*, ond addawodd Mr. Morley 50p. y flwyddyn, a Mr. Jupe 10p., at gynorthwyo y gynnulleidfa newydd i ddwyn y draul. Ar y Sabboth cyntaf yn Ionawr 1867, pregethodd T. Rees yn y *Music Hall* yn y prydnawn a'r hwyr, i gynnulleidfaoedd lluosog o Saeson. O hyny allan cafwyd gweinidogion enwog o Loegr a Chymru i bregethu yno bob Sabboth. Nos Wener, Mawrth 8fed, 1867, cynaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth T. Rees, er corpholi eglwys. Ar y pryd rhoddodd lythyrau i ddeuddeg o aelodau yr eglwys yn Ebenezer i ddyfod i'r *Music Hall* i gychwyn yr achos newydd; daeth Mr. Richard Prust a'i wraig trwy lythyrau yno o Heolycastell; derbyniwyd hefyd ar y pryd unarddeg eraill, wyth o ba rai na fuasent yn aelodau erioed o'r blaen. Felly rhif y cymmunwyr y waith gyntaf oedd saith-ar-hugain. Y nos Sabboth canlynol, pregethodd T. Rees a gweinyddodd swper yr Arglwydd i'r eglwys ieuangc yn cael ei gynorthwyo gan Mr. D. Jones, B.A., Merthyr. Ar y pryd dewiswyd gweinidog Ebenezer yn weinidog i'r eglwys hon, a pharhaodd yn y cysylltiad hwn nes i Mr. Jones, y gweinidog presenol, ymsefydlu yma. Aeth yr achos rhagddo yn llwyddianus o fis i fis fel yr oedd rhif yr aelodau erbyn fod y capel newydd yn barod yn agos i gant.

Yn haf y flwyddyn 1868, cytunwyd a'r Meistri Thomas, Watkins, a Jenkins, adeiladwyr, Abertawy, am adeiladu y capel yn ol cynllun y Meistri Paull a Robinson, Manchester. Maint yr adeilad yw 96 troedfedd wrth 50 o fewn y muriau. Mae yr addoldy hwn, yn ol ei faint, yn un o'r capeli harddaf, cadarnaf, a mwyaf cyfleus yn y deyrnas. Costiodd o gwbl tua £5850. Casglodd T. Rees o'r swm hwn dros dair mil o bunau, yn benaf yn mysg y Saeson yn Lloegr. Rhoddodd Mr. S. Morley 700p., Mr. John Crossley 350p., Mr. C. Jupe 200p., Mr. H. O. Wills 100p., a Syr Titus Salt 100p. Mae etto tua 2400p. o ddyled yn aros, ond gan fod y gynnulleidfa mor luosog, cyfoethog, a haelionus, bydd y geiniog olaf wedi ei thalu yn dra buan. Eleni adeiladwyd ysgoldy eang yn ymyl y capel, yr hwn a gostiodd 800p., ac yr ydym yn deall fod y swm hwn agos oll wedi ei gasglu eisioes.

Pan orphenwyd y capel newydd cynaliwyd nifer o gyfarfodydd agoriadol nad ant yn fuan yn anghof gan drigolion y dref a'r gymydogaeth. Awst 26ain, 1869, pregethwyd yn y bore gan Mr. Thomas Jones, y pryd hwnw o Lundain, i dorf ddirfawr o wrandawyr. Yn hwyr yr un dydd pregethodd Mr. W. Cuthbertson, B.A. Awst 31ain a Medi 1af, traddodwyd pregethau Cymreig gan Dr. W. Rees, Liverpool, a Mr. J. Davies, Caerdydd. Ar y Sabboth, Medi 5ed, pregethwyd y bore a'r hwyr gan Dr. Halley, Llundain; a'r Sabboth canlynol pregethwyd yn y bore gan Mr. Thomas Binney, ac yn yr hwyr gan Mr. Ll. D. Bevan, Ll.B. Nos Lun, Medi 13eg, diweddwyd y cyfarfodydd agoriadol, â chyfarfod cyhoeddus dan lywyddiaeth S. Morley, Ysw., A.S. Yn y cyfarfod hwn darllenwyd papyr ar hanes yr ymdrech i gyfodi achosion Saesonig yn Abertawy, gan Mr. B. Williams, Canaan, a thraddodwyd areithiau cynhyrfus gan H. Richard, Ysw., A.S., Dr. Halley, Mr. Binney, Mr. Bevan, Dr. Rees, ac eraill.

Yr oeddid yn gobeithio er pan ddechreuwyd adeiladu y capel y llwyddesid, pan gawsid ef yn barod, i gael gwasanaeth Mr. Thomas Jones fel

Digitized by Google

gweinidog i'r gynnulleidfa, ac ni chafodd y gobaith hwnw ei siomi. Yn nechreu y flwyddyn 1870 symudodd Mr. Jones yma o Lundain. Mae ei weinidogaeth wedi llwyddo i orlenwi y capel helaeth o wrandawyr cyson. Mae tua mil o bobl yn ei wrandaw agos bob Sabboth trwy y flwyddyn. Mae casgliadau yr eglwys a'r gynnulleidfa yn y ddwy flynedd ddiweddaf wedi dyfod i fyny i'r swm anrhydeddus o dros *un cant ar ddeg o bunau yn y flwyddyn.* Os parha yr Arglwydd i wenu ar yr achos hwn, fel y mae wedi gwneyd o'i gychwyniad hyd yn bresenol, bydd yr eglwys hon yn fuan yn un o'r rhai mwyaf llewyrchus, cyfoethog, a dylanwadol yn y deyrnas. Teimla ysgrifenydd yr hanes hwn, fel yr un fu a'r llaw flaenaf ganddo yn nghychwyniad yr achos newydd a llwyddianus yma, ei rwymau neillduol i'w frodyr ffyddlon yn y weinidogaeth, Mr. E. Griffiths, Mr. B. Williams, Mr. F. Samuel, a'r diweddar Mr. W. Humphreys, yn nghyd a'r Meistri W. Harries, John Prust, J. B. Pritchard, a D. Isaac Davies, a chyfeillion eraill yn y dref, am y cymhorth a'r calondid a roddasant iddo yn yr anturiaeth bwysig. Yr ydym oll yn awr, ar ol blynyddau o lafur a phryder diattal, yn alluog i ddyweyd, "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen."

## CADLE.

Mae y capel ar ben y tair milldir o dref Abertawy, ar ymyl y ffordd sydd yn arwain i Lanelli a Chaerfyrddin. Gan fod yr ardal hon yn y canol rhwng yr hen gapeli yn y Mynyddbach, yr Ysgetty, a Rhydymardy, ac o fewn tair milldir i bob un o honynt, mae yn sicr fod amryw aelodau perthynol i bob un o'r lleoedd hyn yn preswylio yma er cychwyniad yr achos yn mhob un o'r cyfryw leoedd, ond ymddengys mai aelodau o'r Mynyddbach oeddynt yn fwyaf lluosog yma o oes i oes. Buont am ugeiniau o flynyddau yn cadw moddion crefyddol agos bob nos Sabboth ac ar nosweithiau o'r wythnos, yn y Wigfach, tŷ John Knoyle, ac anedd-dai eraill. Yn y flwyddyn 1838, pan ddechreuodd pethau fyned yn annymunol yn y Mynyddbach oherwydd y gweinidog Mr. Isaac Harries, penderfynodd yr aelodau a breswylient yn ardal Cadle ymneillduo o'r fam eglwys ac ymffurfio yn eglwys ar eu penau eu hunain. Rhoddwyd llythyrau gollyngdod i tua thriugain o honynt, a chawsant eu corpholi yn eglwys, Ionawr 13eg, 1839. Cymerwyd rhan yn ngwasanaeth y cyfarfod gan y Meistri J. Evans, Crwys; D. Jones, Clydach, ac E. Griffiths, Abertawy. Buont yn addoli mewn tŷ anedd nes i'w capel gael ei agoryd yn 1840. Bethlehem yw yr enw a roddwyd ar y capel. Yr oedd hwn yn dy prydferth a chyfleus, ac yn cynwys tua phedwar cant o eisteddleoedd; a mynwent helaeth o'i amgylch. Mr. David Jones fu y gweinidog yma mewn cysylltiad a Chlydach er amser corpholiad yr eglwys hyd ei farwolaeth ddisymwth yn Ionawr 1845. Wedi hyny buont dan ofal Mr. Thomas, Glandwr, hyd 1851, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. William Humphreys, yr hwn a urddwyd yma Chwefror 11eg a'r 12ed yn y flwyddyn hono. Gweinyddwyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan y Meistri J. Evans, Crwys; J. Rees, Canaan; T. Jones, Treforis; T. Thomas, Glandwr; J. Davies, Cwmaman; T. Davies, ac E. Jacob, Abertawy; T. Rees, Cendl, a J. Davies, Llanelli, Brycheiniog. Bu Mr. Humphreys yn llafurio yma gyda llwyddiant nodedig mewn cysylltiad a'r Brynteg a Chwmbwrla, hyd

Digitized by Google

o fewn llai na blwyddyn i amser ei farwolaeth, pryd y rhoddodd yr eglwys hon i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i'r Brynteg a Chwmbwrla. Yn y flwyddyn 1866, gan fod y capel a adeiladwyd yn 1840 wedi myned yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, tynwyd ef i lawr ac adeiladwyd un llawer helaethach a harddach. Mae y capel presenol yn cynwys tua 600 o eisteddleoedd. Yn niwedd y flwyddyn 1869 rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. W.H. Thomas, Fochriw. Y mae Mr. Thomas a'r eglwys yn cyd-dynu yn ddymunol, a'r gwaith da yn myned rhagddo yn llwyddianus. Trwy ymdrech egniol y gweinidog, a chydweithrediad y gynnulleidfa a'r gymydogaeth, yn nechreu y flwyddyn hon (1871) adeiladwyd ysgoldy cyfleus ar yr ochr ogleddol i'r heol gyferbyn a'r fynwent, at gadw ysgol ddyddiol anenwadol, ac y mae y sefydliad hwn yn sicr o fod yn fendith fawr i blant yr ardal. Gan fod y ddaear am filldiroedd yn mhob cyfeiriad oddiamgylch y lle hwn yn llawn glo, mae y boblogaeth yn sicr o gynyddu yn ddirfawr yma yn dra buan, ac y mae yn hyfryd meddwl fod eglwys gref a gweithgar yn y lle ar gyfer y cynydd sydd yn ei aros. Mae yr aelodau yn bresenol yn agos i ddau cant a haner o rif.

## GWAUNARLWYDD.

Saif y lle hwn yn ymyl Gower Road Station, o fewn chwe' milldir i Abertawy. Glowyr ac amaethwyr yw y trigolion. Ugain mlynedd yn ol nid oedd ond dau neu dri o dai yn yr holl gymydogaeth, heblaw yr amaethdai oedd yma ac acw. Yn y flwyddyn 1833, dechreuwyd ysgol Sabbothol yn nhy John Lewis, Dilledydd, a elwir Wern, gan gyfeillion o'r Crwys. Y rhai mwyaf blaenllaw oedd David Griffiths, Cefngorwydd, a'i deulu; John Lewis, gwr y tŷ; John Higgs, Saer; Thomas Bowen, amaethwr; Evan Morris, hynaf, Evan Morris, ieu.; George Williams, Vexe Fach; Thomas Gibbs, Cefngorwydd Fawr, a John Thomas, Tygwyn. Bu yr ysgol yn y Wern ac yn Cefngorwydd am flynyddau lawer yn flodeuog iawn. Yn mhen blynyddau wedi dechreu yr ysgol hon gan bobl y Crwys, dechreuodd pobl Cadle ysgol mewn cwr arall o'r gymydogaeth. Yr oedd gweithiau glo yn awr yn dechreu cael eu hagor, tai yn cael eu hadeiladu, a'r boblogaeth yn cynyddu. Bu yr ysgol ddiweddaf a nodwyd yn symud o dŷ i dŷ, ac o'r diwedd unwyd y ddwy ysgol yn un. Yn fuan ar ol hyny cymerwyd tir i adeiladu ysgoldy, gan Mr. Henry Griffiths, Bryn Dafydd. Yr oedd Mr. Griffiths wedi prynu y tir a elwir Gwaunarlwydd gan yr Arglwydd Faenorydd *(Lord of the Manor)*, a dyna paham y gelwir y lle ar yr enw uchod. Cymerwyd y tir Medi 29ain, 1852, ac adeiladwyd ysgoldy arno, a gwnaed hyny yn rhad iawn trwy garedigrwydd y cymydogion yn gweithio ac yn cludo defnyddiau ato. Y rhai mwyaf blaenllaw gyda'r gwaith heblaw Mr. John Evans, gweinidog y Crwys, oeddynt James Morris, hynaf, James Morris, ieu.; David Griffiths, Cefngorwydd; Thomas Bowen, Thomas Walters, Vexe Fawr; Benjamin George, Thomas Walters, Thomas Morgan, Heolyfelin, a William Thomas. Yn Gorphenaf 1858, corpholwyd yma eglwys gan Mr. John Ll. Jones, Crwys, a neillduwyd Thomas Bowen, James Morris, John Davies, a Thomas Walters, yn ddiaconiaid. Rhif yr aelodau oedd deg-ar-hugain. Yn mhen oddeutu blwyddyn rhoddodd Mr. Jones eu gofal i fyny; ond nid cyn cynyg adeil-



Digitized by Google

adu capel iddynt a'u cynorthwyo i dalu am dano; ond yr oedd y cyfeillion yn y lle yn teimlo eu bod yn rhy wan ar y pryd i ymgymeryd a'r anturiaeth. Yn fuan wedi hyn daeth Mr. William Humphreys, Cadle, heibio y gymydogaeth, a dywedodd wrthynt fod yn rhaid iddynt gael capel—ac heb ymdroi dim aeth i Abertawy, a gyrodd werth yn agos i haner can' punt o goed at adeiladu capel newydd. Dechreuwyd ar y capel yn y flwyddyn 1859, ac yr oedd yn barod y flwyddyn ganlynol, ac agorwyd ef Mehefin 24ain a'r 25ain, 1860. Yr oedd holl draul ei adeiladaeth yn 422p. 14s. 3½c. Yn nechreu y flwyddyn 1861 rhoddwyd galwad i Mr. John Bevan o Maesteg, yr hwn oedd yn yr ysgol gyda Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont, ac urddwyd ef Mawrth 21ain, 1861. Y gweinidogion a gymerasant ran yn y gwasanaeth oeddynt y Meistri J. B. Jones, B.A., Penybont; J. Davies, Cwmaman; J. Joseph, Llanedi; T. Llewelyn, Mountain-ash; J. Thomas, Bryn; W. Rees, Maesteg; H. Evans, Penbre; J. Ll. Jones, Penclawdd; D. Rees, Llanelli; W. Humphreys, Cadle; J. Jones, Maesteg, a J. Daniel, Mynyddbach. Mae Mr. Bevan wedi llafurio yma er hyny hyd yn awr; ac y mae yr achos er dan lawer o anfanteision wedi myned rhagddo. Mae yr holl ddyled oedd ar y capel a'r ysgoldy sydd yn nglyn ag ef wedi ei thalu er's pedair blynedd. Mae prydles y capel yn fil ond un o flynyddau, am chwecheiniog yn y flwyddyn o ardreth. Mae pob peth yn myned yn mlaen yn gysurus.

Codwyd yma un pregethwr, sef John D. Williams. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1864, a bu am naw mis yn yr ysgol gyda Dr. E. Davies, yn Abertawy, yn parotoi ar gyfer un o'r athrofeydd; ond dyryswyd ei holl amcanion—bu farw Mehefin 4ydd, 1866, a chladdwyd ef yn Waunarlwydd. Yr oedd yn fachgen ieuangc gobeithiol, ac yn cael ei barchu gan bawb a'i hadwaenai. Y mae agos yr holl rai ag oedd yn dwyn sel dros yr achos yn ei gychwyniad wedi myned at eu gwobr. Bu farw David Griffiths, Cefngorwydd, Mehefin 22ain, 1857. Yr oedd ef yn wr mawr yn Israel; bu yn ddefnyddiol iawn am flynyddau yn y Crwys—a'i dŷ yn gartref i weision yr Arglwydd. Benjamin George, yr hwn a fu farw Tachwedd 9fed, 1861, oedd ddyn da a ffyddlon iawn gyda'r achos yn y lle. Thomas Walters, yr hwn a fu farw Medi 26ain, 1866, oedd yn un o'r pedwar diacon a neillduwyd ar ddechreu yr achos yn y lle. Mae Thomas Thomas hefyd wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Teimlodd yr eglwys golled fawr ar ol y brodyr uchod, ond y mae yr Arglwydd wedi codi eraill i lanw eu lle.

## RHYDYFRO.

Pentref bychan tua milldir a haner o Bontardawy, ar y ffordd sydd yn arwain oddiyno i Langadog, yw y lle hwn. Yn mhlwyf Llanguwg y mae. Nid oedd y gymydogaeth hon ychydig flynyddau yn ol ond lled deneu ei phoblogaeth, ac anghyfleus i'r ychydig drigolion i fwynhau breintiau crefyddol; ond er hyny yr oedd amryw bobl grefyddol yn byw yn yr ardal o oes i oes er's ugeiniau o flynyddau. Y Gellionen oedd addoldy yr ardalwyr hyn cyhyd ag y parhawyd i bregethu athrawiaeth efengylaidd yno. Wedi adeiladu capel Baran yn 1805, yno y byddai y rhan fwyaf o honynt yn cyrchu. O'r pryd yr adeiladwyd Baran hyd y flwyddyn 1828, nid oedd un math o foddion crefyddol yn cael eu cynal yn ardal Rhydyfro,

Digitized by Google

oddieithr ambell bregeth achlysurol mewn anedd-dai. Yn y flwyddyn hono torodd diwygiad crefyddol grymus allan trwy yr holl wlad, a chafodd yr ardal hon, yn mysg ardaloedd eraill, ran o'r gawod fendithiol, ac ymunodd amryw o'r ardalwyr a'r eglwysi yn Baran, yr Alltwen, a Charmel Llanguwg. Tua yr amser hwn daeth William Hopkin i fyw i'r ardal, a bu yn offerynol i gael gan yr ychydig frodyr yn y gymydogaeth i osod i fyny gyfarfod gweddi bob nos Sabboth. Enwau y brodyr a unasant yn y gwaith da hwn gyda W. Hopkin oeddynt Howell Llewellyn, Evan Howell, Job Morgan a'i fab, Thomas Howell, Llewellyn William, a Dafydd Morgan; ac yn fuan wedi hyny ymunodd Owen Evans a hwy. Yr oedd hefyd yn eu mysg rai gwragedd rhagorol megis Catherine Llwyd, Margaret Edwards, a gwraig Hopkin Harry. Yn fuan ar ol hyn cafwyd pregethu lled gyson yn yr ardal. Byddai y naill neu y llall o'r pregethwyr ieuainge o ysgol Mr. Howells, Baran, yma agos bob nos Sabboth. Coffeir yn barchus am ffyddlondeb Mr. W. Williams, yn awr o Hirwaun, a Mr. John Jones, yr hwn a ymfudodd i'r America, yn ymweled a'r ardal hon pan yr oeddynt yn ysgol Baran. Wedi i bethau fod mewn agwedd lewyrchus iawn am dymor yma cyfododd ysbryd ymfudo yn yr ardalwyr, ac aeth amryw o'r crefyddwyr ffyddlonaf o'r ardal hon i'r America, a bu y cyfarfod gweddi yn agos i farw ar ol eu colli. Ond trefnodd Rhagluniaeth yn garedig i ragflaenu hyny trwy arwain hen frawd ffyddlon a nodedig o wresog o'r enw Dafydd Jones i fyw i felin Gelligron, tua y flwyddyn 1832. Bu ef yn foddion, nid yn unig i adfywio y cyfarfod gweddi, ond hefyd i gychwyn ysgol Sabbothol yn yr ardal, yr hon a fu o fendith ddirfawr i'r ieuengctyd ac eraill. Effeithiodd yr ysgol i luosogi y cynnulleidfaoedd a ddeuent i'r cyfarfodydd gweddio ac i wrando y pregethau, a theimlid fod yr anedd-dai yn anghyfleus iawn, yn enwedig at gynal yr ysgol. Yn ngwyneb hyn aed i feddwl a siarad am adeiladu ysgoldy bychan at gadw yr ysgol, a moddion crefyddol eraill, ar brydnawn a nos y Sabboth, ond ni fwriedid llai na myned i fyny i Baran bob bore Sabboth. Penodwyd William Hopkin, Godregarth, ac Owen Evans, Llwynmudw, i fyned trwy yr ardal i gasglu addewidion at yr ysgoldy. Cawsant dderbyniad caredig ac addewidion mwy haelionus nag a ddisgwylient yn mhob man. Wedi galw yn mhob ty yn y Fro, aethant i'r Mynydd-dir, yn nghymydogaeth Baran, ar yr un neges, ond yn lle cymorth, sarugrwydd a gawsant gan mwyaf yno, am yr ofnid y buasent ar ol cael ysgoldy yn llwyr ymadael a'r fam eglwys. Darfu i angharedigrwydd pobl Baran, yn lle rhagflaenu ymadawiad pobl Rhydyfro, ei gyflymu. Pan welodd pobl y Fro fod pobl y Mynydd-dir yn wrthwynebol iddynt, yn lle adeiladu ysgoldy, fel y bwriadent, adeiladasant gapel o werth £320, heb un oriel ynddo. Dechreuwyd adeiladu yn y flwyddyn 1843, ac wedi gorphen y gwaith ymadawodd tua deugain o'r aelodau o Baran, a chorpholwyd hwy yn eglwys Annibynol ar y 10fed dydd o Ionawr, 1844. Cymerodd Mr. Pryse, Cwmllynfell, yr hwn yn flaenorol oedd yn weinidog yr eglwys yn Baran, ofal y gangen hon, a pharhaodd ei gysylltiad a hi fel eu gweinidog hyd derfyn ei oes. Llwyddodd yr achos yn rhyfeddol dan ei ofal ef, fel yr oedd yr eglwys flynyddau cyn ei farwolaeth yn fwy na chant o aelodau, yr hyn oedd yn nifer fawr i ardal gyfyng a chymharol deneu ei phoblogaeth. Mae oriel wedi ei gosod yn y capel er's blynyddau bellach, y fynwent wedi cael ei harddu, a thy capel cyfleus wedi ei adeiladu yn ymyl, a'r cwbl yn ddiddyled. Wedi byw ar weinidogaeth achlysurol am oddeutu

Digitized by Google

blwyddyn ar ol marwolaeth eu gweinidog parchus, rhoddodd yr eglwys hon ei hun yn 1870 o dan ofal Mr. John Jones, mewn cysylltiad a Charmel, Llanguwg, a'r Gwrhyd. Cymerasom y rhan fwyaf o'r hanes hwn o law ysgrifen Mr. Pryse, Cwmllynfell, yr hon a ysgrifenwyd ganddo lai na blwyddyn cyn ei farwolaeth.

## CASLLWCHWR.

Saif y fwrdeisdref fechan hon ar lan yr afon Llwchwr, yr hon a rana rhwng siroedd Morganwg a Chaerfyrddin. Mae yn saith milldir i'r gogledd-orllewin o Abertawy, a phedair i'r de-ddwyrain o Lanelli. Fel y nodasom eisioes, mewn anedd-dy yn nhref uchaf Casllwchwr y dechreuwyd yr achos sydd yn awr yn y Brynteg. Y mae Rhydymardy, lle bu yr eglwys am oesau yn addoli, a'r Brynteg lle yr addola yn awr, tua milldir a haner o dref isaf Casllwchwr. Nid oedd cymaint a hyny o ffordd i fyned i le o addoliad ond bychan yn nghyfrif yr hen bobl selog gynt, ond yn awr bernir yn ddoeth, os na cheir gan bobl fyned at yr Efengyl, fyned a'r Efengyl atynt hwy, a dichon ein bod ni yn hyn yn gweithio yn fwy effeithiol er Efengyleiddio yr holl wlad nag y gwnelai ein tadau. Yr oedd degau o bobl yn Nghasllwchwr na chymerent y drafferth i gerdded ffordd arw o fwy na milldir er mwyn gwrando yr Efengyl. Pan oedd Mr. I. Williams, yn awr o Drelech, yn fyfyriwr yn y Crwys, ac wedi hyny yn weinidog yn y Brynteg, aeth i bregethu yn achlysurol i anedd-dai yn Nghasllwchwr, a sefydlodd gyfarfod gweddio wythnosol yno, yn nhy Dafydd Harri, yn agos i'r fan y saif y capel yn awr. Tra y bu Mr. Williams yn y Brynteg methwyd a llwyddo i gael tir at adeiladu capel arno. Ar ol ei ymadawiad ef i Drelech ni bu nemawr o lewyrch ar bethau yn Nghasllwchwr nes i Mr. W. Humphreys ymgymeryd a'r weinidogaeth yn y Brynteg yn y flwyddyn 1854. Ail gychwynodd ef y moddion crefyddol yn nhref isaf Casllwchwr, ac aeth pethau yn mlaen yno yn fwy llewyrchus a gobeithiol nag o'r blaen. Yn fuan deallwyd fod hen dafarndy o'r enw *Hope and Anchor* ar werth. Prynwyd ef gan Mr. John Evans, Bryncoch, un o ddiaconiaid y Brynteg, a rhoddodd le *yn rhad* i adeiladu capel ar safle yr hen dafarndy, ac felly trowyd synagog Satan yn fan i addoli y Goruchaf. Yn nechreu y flwyddyn 1857 dechreuwyd adeiladu y capel, yr hwn a elwir Horeb. Costiodd yn agos i 500p. Yn Ionawr 1858, corpholwyd eglwys ynddo o bedwar-ar-ddeg o aelodau, a ollyngesid o'r Brynteg, y Crwys, a'r Bryn, Llanelli. Pan ddechreuwyd adeiladu y capel yr oedd pob peth yn ymddangos yn obeithiol iawn, ond cyn ei orphen safodd gwaith copr yr Ysbytty, ar yr hwn yr ymddibynai y rhan fwyaf o'r trigolion am eu cynaliaeth. Y canlyniad fu i luaws symud o'r ardal, fel nad oedd ond ychydig iawn wedi eu gadael i fyned a'r achos yn mlaen ar ol cael y capel yn barod. Felly ymdaenodd cwmwl du dros yr ardal ar gychwyniad yr achos. Pa fodd bynag, gweithiodd Mr. Humphreys, a'r ychydig bobl a adawyd yn yr ardal, yn egniol, a chadwyd yr achos yn fyw er pob anfantais. Yn mhen tua thair blynedd, sef yn 1861, rhoddodd Mr. Humphreys ofal Casllwchwr i fyny er mwyn rhoddi rhan o'i lafur at gyfodi achos yn Nghwmbwrla, a chanlynwyd ef yn Nghasllwchwr gan Mr. J. Thomas, Bryn, y gweinidog presenol. Mae Mr. Thomas wedi bod yn llwyddianus iawn yma o'r flwyddyn 1861 hyd yn bresenol. Yn y

Digitized by Google

flwyddyn 1869 rhoddwyd ail fywyd i fasnach yr ardal trwy ail gychwyniad gwaith yr Ysbytty. Dygodd hyn lawer o bobl i fyw i'r lle, yr hyn a fu yn gryn gryfhad i'r achos. Daeth yma amryw ddynion da trwy lythyrau o eglwysi eraill, a chafodd niferi hefyd eu derbyn o'r byd yn ddiweddar, fel y mae yr achos yn bresenol mewn agwedd obeithiol a thra llewyrchus. Mae yr ysgol Sabbothol yn lled fywiog, yr eglwys yn cynnyddu yn barhaus, a'r gwrandawyr yn lluosogi, a'r ddyled ar y capel wedi ei symud oll hyd o fewn saith bunt a deugain.*

## Y GLAIS.

Mae y capel hwn yn y cwr uchaf o blwyf Llansamlet, ar ymyl y ffordd sydd yn arwain o Glydach i Gastellnedd. Fel y nodasom yn hanes Clydach, dechreuwyd yr achos hwn gan nifer o aelodau Hebron, Clydach, y rhai a lynasant wrth Mr. William Thomas, pan drowyd ef o'r weinidogaeth yn y lle hwnw. Bu yr eglwys fechan hon yn ymgynnull i addoli mewn aneddy, o'r enw Cefnygarth, o'i dechreuad yn y flwyddyn 1834, hyd 1841, pryd yr adeiladwyd capel y Glais. Mr. William Thomas fu yn gweinidogaethu yma o'r dechreuad hyd y flwyddyn 1847, pryd yr ymadawodd o'r ardal. Yn 1848, rhoddwyd galwad i Mr. John Rees, mewn cysylltiad a Charmel, Llanguwg, a bu yr eglwys dan ei ofal ef hyd y flwyddyn 1853. Dilynwyd Mr. Rees yma yn yr un flwyddyn gan Mr. David Evans, mewn cysylltiad a Chlydach. Ar ymadawiad Mr. Evans, rhoddwyd galwad i Mr. E. Owen gan y ddwy eglwys yn Nghlydach a'r Glais, ac efe ydyw y gweinidog yma er y flwyddyn 1861. Gan fod y gynnulleidfa yn cynyddu bu raid tynu y capel cyntaf i lawr yn 1865, ac adeiladu yr un presenol. Mae hwn yn gapel hardd ac o wneuthuriad cadarn, cynwysa tua 400 o eisteddleoedd, ac nid oes ond ychydig o ddyled yn aros arno.

Cafodd y personau canlynol eu cyfodi i bregethu yn yr eglwys hon:—

D. G. Morgan. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1860. Ar ol gorphen ei amser yn athrofa Aberhonddu, ymsefydlodd yn weinidog ar yr eglwys Gymreig yn Stockton-on-Tees, lle y mae hyd yn bresenol.

Thomas J. Rees. Dechreuodd bregethu yn 1869. Mae yn bresenol yn yr ysgol gyda Mr. Jones, Penybont-ar-ogwy, yn parotoi i fyned i'r athrofa.

Mathew Griffiths. Dechreuodd ef bregethu gyda'r Wesleyaid, ond y mae er's tua dwy flynedd wedi ymuno a'r eglwys hon, ac yn bregethwr cynorthwyol derbyniol yma.

Joseph Griffiths. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1870.

Bu Richard Thomas, Danycoed; David Jones, y gof, a William Baker, yr hwn a grybwyllasom yn hanes Clydach, yn aelodau selog ac yn ddiaconiaid defnyddiol yn yr eglwys hon o ddechreuad yr achos hyd derfyn eu hoes.

Mae yr achos yma yn awr mewn agwedd lewyrchus iawn, a chan fod poblogaeth yr ardal yn debyg o gynyddu am flynyddau etto, mae yn dra sicr y bydd yma eglwys luosog iawn cyn pen nemawr o flynyddau.

* Llythyr Mr. Thomas, Bryn.

Digitized by Google

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

William Thomas. Ganwyd ef tua y flwyddyn 1806, yn ardal Penygroes, sir Benfro. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan Mr. John Evans, yn Mhenygroes, pan yn lled ieuangc. Aeth yn fuan wedi hyny i Lundain i weithio ei gelfyddyd fel saer, ac fel y nodasom yn hanes y Mynyddbach, daeth o Lundain i ardal Abertawy, a dechreuodd bregethu yn y Mynyddbach. Aeth oddiyno i athrofa y Neuaddlwyd, lle y bu nes iddo dderbyn galwad o Glydach. Pan ddarfu ei gysylltiad a Chlydach tua diwedd y flwyddyn 1833, darfu iddo ef, a'r ychydig gyfeillion o lynasant wrtho, ddechreu achos yn y Glais. Yn y flwyddyn 1847, aeth i Rhymni, lle y bu am tua dwy flynedd yn dilyn ei alwadigaeth fel saer, ac yno y bu farw o'r geri marwol yn mis Medi, 1849.

Yr oedd rhyw gymysgedd rhyfedd o ragoriaethau a diffygion yn Mr. W. Thomas. Er nad oedd yn ysgolhaig nac yn feddyliwr galluog, etto, yr oedd yn dalp o ddawn byw. Ymadroddai yn rhwydd, ac yr oedd pereidd-dra ei lais yn ddigyffelyb. Yr oedd ganddo rhyw fedr diail i weithio ei hun i serchiadau pob dyn a gymerai ei lywodraethu yn fwy gan ei deimladau na chan ei reswm. Pe buasai William Thomas yn fwy o *ddyn* ac yn llai o *blentyn*, yn ddirwestwr, yn lle bod yn ddiotwr, ac yn meddu rhyw fesur o'r difrifoldeb gofynol i'r swydd bwysig yr ymgymerodd a hi, gallasai fod yn un o'r gweinidogion mwyaf defnyddiol, er nad y mwyaf enwog, yn ei oes.

## PANTYCRWYS.

Mae y lle hwn yn agos i flaen Cwmclydach, yn mhlwyf Llangafelach. Yn y flwyddyn 1862, adeiladwyd yma ysgoldy bychan yn mesur o fewn y muriau 23 troedfedd wrth 15. At gadw Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol y bwriedid ef. Cafodd y ty hwn ei agor Gorphenaf 27ain, 1862, pryd y pregethwyd gan Meistri P. Griffiths, Alltwen; R. Pryse, Cwmllynfell; J. Rees, Canaan, ac E. Owen, Clydach. Y personau fuont a'r llaw flaenaf gyda chychwyniad yr achos hwn oeddynt Mr. Thomas Davies, gweinidog yr eglwysi yn Horeb, Treforis, a Baran; Llewellyn Bevan, John Thomas, Evan Thomas, Morgan Thomas, Thomas Thomas, a'i feibion, Thomas a Stephen, yn nghyd a rhai eraill o aelodau Baran; David Davies a'i wraig, aelodau o Rydyfro, a Howell Hopkin, aelod o Glydach. Ar ol cael ty cyfarfod yn eu hardal blinodd y bobl yn fuan fyned i Baran, a manau pellenig eraill i addoli. Ni buont yn dawel nes iddynt gael eu ffurfio yn eglwys, yr hyn a wnaed yn mis Awst, 1866, gan Mr. T. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. John Howells, un o ddiaconiaid y fam-eglwys yn Baran. Ar y pryd hwnw cafodd David Davies ei neillduo yn ddiacon, a gwasanaethodd ei swydd yn ffyddlon nes iddo gael ei symud yn ddisymwth trwy ddamwain angeuol yn y gwaith.

Ar ol ffurfio yr eglwys, a chael moddion crefyddol cyson bob Sabboth cynyddodd y gynnulleidfa yn raddol fel y bu raid helaethu y ty yn 1869. Mae yn bresenol yn mesur 33 troedfedd wrth 28 y tu fewn i'r muriau, ac nid yw y ddyled sydd yn aros arno ond ugain punt. Mae rhif yr aelodau yn awr yn 65, a'r gwrandawyr tua yr un rhif, neu ychydig yn rhagor. Er nad oes fawr dros naw mlynedd er pan gychwynwyd yr achos hwn y

Digitized by Google

mae amryw o'i gychwynwyr wedi cael eu rhifo yn mysg y meirw, megis Joseph Rees, Cynhordy, a'i wraig; David Davies, a'i wraig; gweddw John Thomas, a Hannah Davies, a'i mherch. Dan ofal gweinidogaethol Mr. Davies, Treforis y mae yr achos hwn wedi bod o'r dechreuad, ac yr ydym yn hyderu mai dan ei ofal ef y bydd am flynyddau etto. Gan fod cyflawnder o lô yn y ddaear oddiamgylch y lle hwn, mae yn debygol y bydd yma boblogaeth fawr yn mhen ychydig flynyddau.

## BIRCHGROVE.

Pentref bychan, ond yn cynyddu yn gyflym, yw Birchgrove, ar lechwedd prydferth yn mhlwyf Llansamlet, tua milldir i'r gogledd o Bethel, ac ychydig yn fwy na milldir i'r de o'r Glais. Mae wedi cael ei enw oddi wrth y fferm, ar ran o ba un y mae wedi ei adeiladu. Wrth weled y lle hwn yn cynyddu yn ei boblogaeth, darfu i Mr. J. Rees, gweinidog Canaan a Bethel, yn 1862, adeiladu ysgoldy cyfleus yma at gadw ysgolion dyddiol a Sabbothol, yn nghyda chyfarfodydd gweddio a phregethu achlysurol. Llwyddodd y gwaith da yma i gymaint o raddau fel y barnodd Mr. R. Rowlands, a'i bobl yn Bethel, mai doeth fuasai corpholi yr aelodau a breswyliant yn Birchgrove yn eglwys Annibynol, yr hyn a wnaed Hydref 18fed, 1868. Aeth yr ysgoldy yn rhy fychan i gynwys y gwrandawyr, ac felly penderfynwyd adeiladu capel. Cafwyd y tir ar lês o 999 o flynyddau am un pupuren yn y flwyddyn gan Mr. Smith, Birchgrove. Agorwyd y capel newydd y Sul a'r Llun, Hydref 15fed a'r 16eg, 1871. Mae yn adeilad tlws dros ben, yn mesur 36 troedfedd wrth 36 dros y muriau, ac wedi ei wneyd yr un hyd a lled mewn trefn iddo gael ei helaethu wrth ychydig o draul pan y byddo galwad am hyny. Y draul oedd rhwng 600p. a 700p. Y mae tua 200p. o'r swm hwn wedi eu talu. Mae pob sail i ddisgwyl y bydd yn fuan achos cryf iawn yn y lle prydferth hwn. Mae yr eglwys hon dan ofal Mr. Rowlands mewn cysylltiad a'r fam-eglwys yn Bethel. Bu Mr. Griffiths, Abertawy yn pregethu yn fisol yma er dechreuad yr achos hyd yn bresenol, ac y mae yn debyg o wneyd hyny etto tra y parhao ei nerth.

## MAESYRHAF, CASTELLNEDD.

Yr eglwys a ymgyferfydd yn y capel hwn yw yr eglwys Ymneillduol henaf yn y parth hwn o Forganwg. Nid oes genym ddefnyddiau i roddi hanes manwl o ddechreuad yr achos. Mae yn sicr fod rhai o drigolion y dref a'r ardal hon wedi cofleidio golygiadau Puritanaidd er yn fore iawn. Yr oedd Robert Powell, yr hwn oedd yn Buritan selog, yn weinidog plwyf Llangattwg oddiar 1622, a bu yno hyd ryw amser ar ol 1649. Nis gallasai gweinidog o ddoniau, gweithgarwch, a golygiadau efengylaidd Robert Powell fod am gynifer o flynyddau mewn ardal heb ennill llawer o ddysgyblion. Dilynwyd Mr. Powell yn Llangattwg gan Mr. Jenkin Jones, ryw amser rhwng 1649 a 1660. Yr oedd Jenkin Jones, fel y gwyddys, nid yn unig yn Buritan, ond hefyd yn Ymneillduwr selog. Mae yn debyg mai efe sydd i'w ystyried fel sylfaenydd yr achos sydd yn awr yn Maesyrhaf, oblegid, "Eglwys Llangattwg" y gelwid yr eglwys hon gynt. Nis

Digitized by Google

gallwn benderfynu pa gymaint o amser cyn adferiad Siarl II. y cafodd ei chorpholi. Yn ddioed ar ol adferiad y brenin gorfodwyd Jenkin Jones gan erledigaeth i ffoi o'r ardal. Cymerwyd gofal ei bobl ar ol ei ymadawiad ef gan Mr. Robert Thomas, yr hwn a droisid allan o eglwys plwyf Baglan. Efe oedd y gweinidog yn 1669 ac yn 1675,* a pharhaodd yn y cysylltiad hwn a'r eglwys hon yn nghyd ag eglwys Ty'rdwncyn a'u canghenau hyd ei farwolaeth tua'r flwyddyn 1693. Dywedir fod "Eglwys Llangattwg," yn ei amser cyntaf ef fel ei gweinidog, yn gynwysedig o Annibynwyr, Bedyddwyr, a gwrth-fedyddwyr, hyny yw, dynion yn gwrthwynebu pob math o fedydd dwfr, ond mae yn debygol i'r Bedyddwyr ymneillduo o honi yn hir cyn marwolaeth Mr. Thomas, ac hefyd i'r gwrth-fedyddwyr ymuno a'r Crynwyr. Cynorthwyid Mr. Thomas yn y weinidogaeth am rai blynyddau gan Jacob Cristopher a Richard Cradock. Yn amser yr erledigaeth o adferiad Siarl II. hyd Ddeddf Goddefiad cyfarfyddai gwahanol ganghenau yr eglwys mewn anedd-dai mor ddirgel ag y medrent, ac nid ydyw yn ymddangos i'r eglwys oll fod yn addoli yn nghyd trwy yr holl flynyddau hyny, oddieithr iddynt gyfarfod yn achlysurol yn 1672 a 1673, pan y caniataodd y brenin ychydig o ryddid i'r Ymneillduwyr. Yr ydym yn cael fod tŷ Robert Thomas yn Baglan wedi cael ei drwyddedu yn 1672 at bregethu ynddo a Robert Thomas ei hun wedi cael ei drwyddedu yr un dydd i fod yn bregethwr Annibynol yn ei dŷ ei hun. Yr un amser hefyd trwyddedwyd tŷ Elizabeth Morgan yn nhref Castellnedd, a thai Lewis Alward, yn Cynffyg, a Watkin Cradock yn y Dref Newydd. Rhoddwyd hefyd drwydded i Watkin Cradock † i fod yn bregethwr Annibynol yn ei dŷ ei hun. Ar yr 16eg o Gorphenaf, 1672, y rhoddwyd y trwyddedau hyn. Heblaw y manau a drwyddedwyd yr oedd yr eglwys wasgaredig hon yn ymgynnull mewn amryw leoedd yn mhlwyf Llansamlet, Llangafelach, a Llanguwg, ac oddiwrth y canghenau a gyfarfyddent yn y ddau blwyf olaf y cyfododd yr eglwysi yn y Gellionen a Chwmllynfell. Wedi marwolaeth Mr. R. Thomas, dewiswyd Mr. Lewis Davies o blwyf Llanedi yn ganlyniedydd iddo yn Nghastellnedd a Thy'rdwncyn a'u canghenau. Bu Mr. Davies yn cael ei gynorthwyo am dymor gan Mr. John Thomas, Aberafan, a Llewellyn Bevan, Cwmllynfell. Yr oedd Mr. Davies yn weinidog rhagorol a llafurus iawn, ac fel y nodasom yn hanes y Mynyddbach, darfu iddo sefydlu cyfarfodydd holwyddori ac Ysgolion Sabbothol yn yr eglwysi dan ei ofal ugeiniau o flynyddau cyn fod son am Ysgolion Sabbothol yn gyffredin yn y wlad. Bu farw fel y tybiwn ryw bryd tua 1712, neu yn fuan ar ol hyny. Yr oedd ei gylch gweinidogaethol ef yn cyrhaedd o Blaengwrach hyd Gasllwchwr, ac o'r Drefnewydd i Gwmllynfell, ond yn fuan ar ol ei farwolaeth rhanwyd y maes; gadawyd plwyfydd Abertawy, Llanrhiadau, Casllwchwr, Llandilo Talybont, Llangafelach, a rhan o blwyf Llansamlet i gylch gweinidogaeth y Mynyddbach, a pharhaodd y parth hwnw o'r wlad o'r Drefnewydd i Gwmllynfell mewn cysylltiad a gweinidogaeth Castellnedd dros rai blynyddau.

Mewn anedd-dai, fel y crybwyllasom eisioes, y buwyd yn addoli o ddechreuad yr achos hyd ar ol marwolaeth Mr. R. Thomas. Yn 1695,

* *The Lambeth MSS. and the Broadmead Records.*

† *Richard* Cradock yw yr enw yn y *Lambeth MSS.* a'r *Broadmead Records*, ond *Watkin* Cradock yw yr enw yn y cofrestr o drwyddedau sydd yn y *Record Office* yn Llundain. Os yr un person a olygir mae yn rhaid fod yr enw wedi ei gam osod yn y naill neu y llall o'r llawysgrifau hyn, ond dichon eu bod yn ddau berson gwahanol.

yr adeiladwyd capel y Chwarelaubach, yn agos i Gastellnedd, ac yn yr un flwyddyn yr adeiladwyd capel y Gellionen. Yr oedd Mr. Busey Mansel o Lansawel, boneddwr o gyfoeth a dylanwad mawr, yn aelod o'r eglwys hon, ac wedi i'r Ymneillduwyr gael rhyddid yn ol cyfraith y tir i addoli rhoddodd ef dir, coed, a cherig iddynt at adeiladu y capeli yn Chwarelaubach a'r Gellionen. Dywed Edmund Jones, yn ei lawysgrifau, i Mr. Mansel fynu adeiladu capel y Chwarelaubach ychydig bellder oddiwrth y brif ffordd, rhag pe buasai yn ymyl y ffordd i bob gelyn wrth fyned heibio daflu ceryg i ddryllio y ffenestri. Dichon mai ffyrnigrwydd gelyniaeth y werin yn erbyn Ymneillduaeth oedd yr achos pa ham na ddarfu i bobl Castellnedd adeiladu capel cyn 1695, oblegid yr oedd Deddf Goddefiad wedi ei phasio naw mlynedd cyn hyny.

Dywed Dr. John Evans, mai Thomas Davies oedd y gweinidog yma yn 1715. Nid ydym yn gwybod dim am y gwr hwn, ac yr ydym yn gogwyddo i dybied mai gwall yn llawysgrif y Dr. yw *Thomas* Davies, ac mai *Lewis* Davies a ddylasai fod, ac os yw ein tyb yn gywir, ni bu Lewis Davies farw hyd ar ol 1715. Pan ranwyd y cylch gweinidogaethol ar ol marwolaeth Mr. Davies, dilynwyd ef yn Nghastellnedd a'r canghenau gan David Thomas a Henry Davies. David Thomas oedd yn benaf yn gofalu am y fam-eglwys yn Nghastellnedd, a Henry Davies am y ganghen yn Mlaengwrach. Bu yr eglwys yn Nghastellnedd dan ofal Mr. Thomas hyd 1748, pryd y bu farw. Yn 1740, cafodd Mr. John Davies o athrofa Caerfyrddin ei urddo yma yn gynorthwywr i Mr. Thomas, ond ni bu ei arosiad ef yma yn hir. Yn 1750, derbyniodd alwad oddiwrth ei fam-eglwys yn Nhrelech, a symudodd yno, lle y bu hyd derfyn ei oes. Wedi ymadawiad Mr. Davies, rhoddwyd galwad i Mr. Joseph Simmons, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd wedi bod yn weinidog i rai o ganghenau yr eglwys hon, megis Gellionen, Cwmllynfell, &c., am fwy nag ugain mlynedd cyn iddo gael galwad gan y fam-eglwys. Bu Mr. Simmons yn weinidog yma o 1750 hyd derfyn ei oes yn 1774, ond yr oedd ei fab Noah Simmons wedi ei urddo yn gynorthwywr iddo tua thair blynedd cyn ei farwolaeth.

Gan fod capel y Chwarelaubach wedi myned yn hen, ac yn anghyfleus o herwydd ei fod allan o'r dref, cafwyd darn helaeth o dir at fynwent ac adeiladu capel yn y dref gan Syr Herbert Mackworth, o'r Gnol, tua 1771, ar les o 999 o flynyddau am yr ardreth o bum' swllt yn y flwyddyn, ond fod y gynnulleidfa yn rhoddi yr hen gapel a'r ychydig dir perthynol iddo, i Syr Herbert yn gyfnewid am y llall. Mae yr eglwys er's ychydig amser yn ol wedi prynu y lle gan berchenogion ystad y Gnol, fel y mae yn awr yn feddiant hollol i'r gynnulleidfa. Cafodd y capel ei adeiladu yn ol cynllun rhyw gapel a welsai Syr Herbert yn Lloegr, ac yr oedd ar y pryd yr adeiladwyd ef y capel helaethaf a phrydferthaf yn Nghymru. Ei faint oedd 50 troedfedd wrth 40, ac yr oedd yn ddigon uchel i osod dwy oriel, un uwchlaw y llall, ynddo. Ar ddydd ei agoriad yr urddwyd Mr. Noah Simmons yn gydweinidog a'i dad. Dywedir i'r oriel y diwrnod hwnw, o herwydd lluosogrwydd y dorf, roddi ychydig o'i ffordd. Parodd hyn lawer o ddychryn, ond ni chafodd neb niwed. Yr oedd Syr Herbert Mackworth yn wyddfodol ar y pryd, ac er rhagflaenu pob trychineb rhagllaw, penderfynodd osod colofnau cedyrn ar ei draul ei hun o dan yr oriel. Cafwyd cryn lawer o helbul yn nglyn ag adeiladu y capel hwn. Gan nad oedd mor hawdd y pryd hwnw i gael coed at adeiladu o'r America ag yn awr,



Digitized by Google

penderfynwyd anfon dyn drosodd i'r America i brynu y coed. Casglwyd digon o arian at eu prynu a thalu traul y prynwr. Yn mysg eraill, darfu i un Richard Jones, diacon a phregethwr yn yr eglwys, werthu dau fustach a rhoddi eu harian i'r drysorfa at brynu y coed. Aeth y prynwr i'r America, ond hoffodd ei le yno, ac ni welwyd mo hono ef, na'r coed, na'r arian byth mwyach yn Nghymru; ond llwyddwyd i gael coed ac i orphen yr adeilad. Yr oedd y dywededig Richard Jones yn faendowr wrth ei gelfyddyd, a darfu iddo doi y tŷ a'i ddwylaw ei hun yn rhad. Wedi cael y capel yn barod ymddiriedwyd i ddyn arall i fyned i Loegr i gasglu at y ddyled, ond darfu i hwnw hefyd hoffi ei le yn Lloegr, ac ni ddychwelodd byth, er y bernir iddo gasglu digon i dalu yr holl ddyled. Fel hyn yr ydym yn gweled mai mewn amseroedd blinion yr adeiladwyd muriau y ddinas hon. Yn fuan ar ol ei urddo aeth Mr. Noah Simmons i Loegr a chasglodd yno ddigon i dalu yr hyn oedd o ddyled yn aros ar y capel. Bu Mr. Simmons yn weinidog yma am ugain mlynedd wedi marwolaeth ei dad; ond tua diwedd ei dymor yma cyfododd rhyw bersonau maleisus yn ei ben gan ddwyn y cyhuddiadau mwyaf gwaradwyddus yn erbyn ei gymeriad, ac er nad oedd pobl y dref, na mwyafrif y gynnulleidfa, yn credu dim o'r cyhuddiadau, etto, barnodd ef mai gwell oedd iddo ymadael, ac felly ymfudodd i'r America yn 1794. Yn niwedd 1795, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Bowen, Maesyronen. Mae yr alwad wedi ei geirio fel y canlyn:—

"CASTELLNEDD, Rhagfyr 27ain, 1795.

Barchedig Syr,

Nyni, y rhai y mae ein henwau yn ysgrifenedig isod, aelodau o eglwys Crist, ymddiriedolwyr a chyfranwyr at dreuliau yr addoliad crefyddol, yn nhŷ cyfarfod yr Ymneillduwyr Protestanaidd yn Nghastellnedd, y rhai ydym yn awr yn amddifad o weinidog sefydlog, wedi clywed am eich bwriad chwi i ymadael a'r lle yr ydych ynddo yn bresenol, ac mor belled ag y cawsom brawf o'ch cymhwysderau gweinidogaethol yr ydym yn eu hoffi yn fawr, gan hyny yr ydym yn unfrydol yn rhoddi i chwi alwad fel gweinidog i Grist i ddyfod yn fugail arnom. Gosoda eich cydsyniad a'n cais ni dan rwymedigaeth i chwi. Yr ydym yn addaw cyfranu yn ol ein gallu tuagat eich cynhaliaeth a'ch cysur, a'n gweddi ydyw i'r Pen bugail mawr dueddu eich meddwl i gydsynio a'r alwad ddidwyll a thaer yma oddiwrthym, fel y byddo i chwi ddyfod atom yn nghyflawnder bendith efengyl Crist."

Arwyddwyd yr alwad hon gan gant a chwech-ar-hugain o bersonau. Yr oedd Mr. Bowen o ran ei ddoniau fel pregethwr, ei ragoriaeth fel ysgolhaig, a boneddigeiddrwydd ei ymddangosiad yn ateb y lle i'r dim, ond ni bu yntau, er ei holl ragoriaethau, yma yn hir cyn gorfod teimlo, fel ei ragflaenor, Noah Simmons, oddiwrth ymosodiadau gelynion ffyrnig ac annghymodlon. Nid ydym yn gwybod pa un a'i yr un personau fuont yn ymosod ar Mr. Bowen ag ar Mr. Simmons, a'i ynte rhai gwahanol oeddynt. Blaenoriaid yr ymosodwyr ar Mr. Bowen oeddynt Rees Rees, John Rees, William Rees, a Lewis Herbert. Yr oeddynt oll, rhwng gwyr a gwragedd, tua phymtheg mewn rhif. Sosiniaid oeddynt o ran eu golygiadau, a'u hamcan ydoedd cael meddiant o'r capel i'r enwad hwnw. Dechreuodd y terfysg ar y Sabboth, Ionawr 13eg, 1799, trwy waith Rees Rees yn atal Mr. Bowen i fyned i'r pulpud, a chymeryd agoriad y capel oddiwrth Joan Hopkins, y wraig oedd yn glanhau y lle, gan ei gloi ac atal y gweinidog a'r gynnulleidfa i fyned i mewn. Bu y capel yn meddiant Rees Rees a'i blaid o Ionawr 13eg hyd Chwefror 25ain, pryd y gorfodwyd hwy gan yr ynadon, Mr. Gabriel Powell a Mr. John Miers, i'w roddi i fyny i Mr.

Bowen a'i bobl. Terfynwyd y ddadl mewn llys cyfraith yn ffafr Mr. Bowen a'i blaid. Yna darfu i Rees Rees a'i blaid gymeryd ystafell yn y dref at gynal gwasanaeth Undodaidd, a dewisasant Mr. David Davies, mab yr enwog David Davies, Castellhowell, yn weinidog iddynt. Bu cynnulleidfa fechan o Undodiaid yn Nghastellnedd o'r pryd hwnw hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol, pryd yr aeth i'r dim. Bu Mr. Bowen yn barchus a defnyddiol iawn yma am lawer o flynyddau. Yn nhymor ei weinidogaeth ef rhoddodd Mr. Grant o'r Gnol ddarn helaeth o dir yn rhad at helaethu y fynwent, a thrwy ei lafur ef y dechreuwyd yr achosion yn Melinycwrt a Chwmafan. Yn ei amser ef hefyd y dechreuwyd cynal y cyfarfod Calan yn Maesyrhaf. Mae y cyfarfod hwn wedi cael ei gynal yma bellach er's mwy na thriugain-a-deg o flynyddau, ac yn bresenol mor boblogaidd ag y bu erioed. Nid ymddengys i'r eglwys hon fod mor lluosog a dylanwadol ar un tymor blaenorol o'i hanes ag yr oedd yn amser Mr. Bowen. Yr oedd llawer o brif deuluoedd y dref a'r gymydogaeth yn perthyn i'r gynnulleidfa hon yn ei amser ef. Pan oedd Mr. Bowen yn dechreu heneiddo, a maes ei lafur wedi helaethu, penderfynodd ef a'r eglwys urddo cynorthwywr iddo. Mr. Daniel Griffiths, gwr ieuangc a ddygesid i fyny dan weinidogaeth Mr. Bowen yn Melinycwrt, a ddewiswyd i fod yn gynorthwywr. Urddwyd ef Chwefror 12fed a'r 13eg, 1823. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. T. B. Evans, Ynysgau; gofynwyd yr holiadau gan Mr. M. Lewis, Cwmnedd; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Williams, Ty'nycoed; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. R. Howells, Baran, ac i'r eglwys gan Mr. D. Evans Mynyddbach. Gweinyddwyd hefyd ar yr achlysur gan Meistri J. Harrison, Aberdare; J. Rowlands, Cwmllynfell; T. Davies, Abertawy, ac eraill.* Darfu i ddoniau poblogaidd digyffelyb Mr. Griffiths luosogi y gwrandawyr yn ddirfawr, a chafodd llawer eu hychwanegu at yr eglwys. Parhaodd pethau yn rhyfeddol o lewyrchus yma hyd haf 1825, pryd y dygwyd cyhuddiad gan ferch ieuangc yn erbyn y gweinidog ieuangc, o fod yn dad i'w phlentyn anghyfreithlawn; yr hyn a lwyr wadai yntau. Achlysurodd hyn derfysg yn yr eglwys a'r ardal a'r wlad yn gyffredinol. Credid y cyhuddiad gan rai ac anghredid ef gan eraill. Y diwedd fu i'r eglwys ymranu, aeth tua saith ugain o'r aelodau allan gyda Mr. Griffiths i ddecheu yr achos sydd yn awr yn Zoar, ac arosodd tua yr un nifer yn yr hen gapel. Ar ol yr ymraniad rhoddodd yr eglwys yn Maesyrhaf alwad i Mr. John Davies, myfyriwr yn athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef Gorphenaf 4ydd, 1826. Bu yma ddiwygiad tanllyd iawn yn 1829, ac ychwanegwyd nifer fawr at yr eglwys; ond yn raddol cyfododd oerni rhwng Mr. Davies a'r eglwys yr hwn a derfynodd mewn ymadawiad hollol yn 1835. Yn y flwyddyn ganlynol, rhoddwyd galwad i Mr. John Davies, Cwmaman, a bu ef yn gweinidogaethu yma ddau Sabboth o bob mis am tua blwyddyn, yna rhoddodd ei ofal i fyny, ac wrth wneuthur hyny, ysgrifenodd y llythyr canlynol at yr eglwys:—

"*At y gangen o eglwys Crist sydd yn cyfarfod yn hen gapel Castellnedd.*

Anwyl frodyr a chwiorydd yn yr Arglwydd,

Trwy gyfrwng y llinellau hyn, yr ydwyf yn eich hysbysu fy mod yn eich rhoddi fel eglwys i fyny, nad ydych o hyn allan i edrych arnaf fel eich gweinidog, ac nad wyf finau i'ch hystyried chwithau fel pobl fy ngofal o hyn allan. Wrth fwrw golwg arnoch chwi a'r Felindref, yr wyf yn gwybod y gellwch chwi

* *Dysgedydd*, 1823. Tu dal. 152.

Digitized by Google

gynal gweinidog eich hunain yn hollol gysurus, a'u bod hwythau yn rhy dlawd i wneuthur hyny. Nis gallaf wneuthur cyfiawnder a'r tair eglwys; mae fy iechyd wedi gwanychu i raddau mawr; pe rhoddwn y wanaf i fyny, dywedai llawer mai arian yn unig sydd yn fy ngolwg—hyderaf fod genyf bcth mwy. Yr ydwyf yn dra diolchgar i chwi am eich sirioldeb a'ch caredigrwydd attaf dros yr amser byr y bum yn llafurio yn eich plith. Dymunwn i chwi gael gweinidog duwiol, dysgedig, llafurus, doniol, a llwyddianus. Ceisiwch un i chwi eich hunain. Nis gellir disgwyl daioni i eglwys mewn tref heb fod ei gweinidog yn byw yn mhlith ei bobl. Yn awr, yr wyf yn gwir ewyllysio eich llwyddiant yn ysbrydol ac yn dymorol, a chadwed Duw chwi yn un, ac addased chwi oll i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

Ydwyf, eich ewyllysiwr da,

JOHN DAVIES.

CWMAMAN, Ionawr 24ain, 1837.

Yn Ebrill, 1837, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Daniel Evans, Nazareth, sir Gaerfyrddin, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn fuan ar ol hyny. Dywed Mr. Evans ei hun yn y *Diwygiwr* am 1849, yr hyn a ganlyn am y llwyddiant anghyffredin a ddilynodd ei sefydliad ef yma:—"Yn amser y gweinidog presenol yr adgyfodwyd yr Ysgol Sabbothol yn Maesyrhaf o farw yn fyw, ac yr ymledodd yn chwech o ganghenau yn dra buan, yn cynwys amryw ganoedd o rifedi—y sefydlwyd chwech neu wyth o gyfarfodydd gweddio at y rhai oedd o'r blaen—y cynyddodd yr eglwys o saith ugain heibio i bedwar cant o aelodau, mewn llai na chwe' blynedd—y gwelwyd pedwar ugain ar yr un amser ar brawf yn y gyfeillach—y gwnawd dwy bunt a deugain at achos y Genhadaeth yn yr un flwyddyn—y dygwyd dirwest a chyfarfod gweddi y gwragedd i'r capel—yr adeiladwyd addoldy Salem, ac y talwyd am dano—y codwyd y canu i sylw a siarad parchus yn y dref a'r gymydogaeth—y dygwyd *gas* i oleuo y capel," &c. Bu Mr. Evans yn rhyfeddol o lwyddianus a pharchus yma am ddeg neu ddeuddeg mlynedd, ond yn ol, yn hytrach nag yn mlaen, yr oedd yr achos yn myned yn mlynyddoedd olaf ei dymor ef. Dichon fod hyn i'w briodoli mewn rhan i farweidd-dra yr amseroedd gyda golwg ar grefydd, ac mewn rhan hefyd i'w ddull pigog ef o geryddu pechod, ac i fesur o chwerwder yn ei ysbryd, yr hyn a achosid gan y gofidiau a gyfarfyddodd yn mlynyddau diweddaf ei oes. Nid oedd yr eglwys yn ddim lluosocach, os oedd mor lluosog, yn niwedd tymor ei weinidogaeth ef ag yr oedd yn ei ddechreuad. Bu farw y gweinidog da a llafurus hwn ar ol rhai misoedd o gystudd a nychdod, Ebrill 17eg, 1859.

Wedi i'r eglwys fod am ychydig gyda blwyddyn yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, rhoddwyd galwad i Mr. Jonah Roberts, myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 20fed a'r 21ain, 1860. Dechreuwyd cyfarfod yr urddiad trwy weddi gan Mr. Mathews, Castellnedd, pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. E. Roberts, Cwmafon; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. E. C. Jenkins, Rhymni; traddodwyd siars i'r gweinidog gan Mr. J. Morris, o athrofa Aberhonddu, a siars i'r eglwys gan Mr. T. Rees, Cendl. Pregethwyd yr hwyr blaenorol, ac ar brydnawn a hwyr dydd yr urddiad gan Meistri Williams, Hirwaun; Davies, Aberaman; Thomas, Glandwr; Rees, Canaan, ac eraill. Mae Mr. Roberts wedi llenwi ei le yn dda yma am fwy nag un-mlynedd-ar-ddeg bellach. Gan fod y capel wedi myned yn hen, ac i raddau yn anghyfleus fel lle addoliad, penderfynodd yr eglwys a'r gynnulleidfa ei dynu i lawr, ac adeiladu un newydd, a mwy teilwng o'r dref a'r oes. Gosodwyd careg sylfaen y capel

Digitized by Google

newydd Awst 18fed, 1864, gan y diweddar Mr. Evan Evans, yr hwn ar y pryd a roddodd 50p. at draul yr adeiladaeth. Cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar yr achlysur ar y fynwent, dan lywyddiad y Maer, y diweddar Mr. W. T. Morgan, yr hwn hefyd a roddodd ddeg gini at yr adeiladaeth. Bu amryw weinidogion, ac eraill, yn areithio yn y cyfarfod hwnw. Mr. Thomas, Glandwr, oedd cynllunydd y capel hwn, ac y mae prydferthwch yr adeilad yn glod iddo. Trwy fusgrellni y gweithwyr buwyd ddwy flynedd cyn ei orphen. Cynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad Awst 12fed, 13eg, 14eg, 15fed, 16eg a'r 19eg, 1866. Pregethwyd gan Meistri W. Rees, D.D., Liverpool; T. Rees, D.D., Abertawy; R. Ferguson, LL.D., Llundain; J. Davies, Caerdydd; T. Davies, Llandilo; E. Hughes, Penmain; W. Williams, Hirwaun; J. Williams, Castellnewydd; J. Thomas, Liverpool; R. Pryse, Cwmllynfell, ac eraill. Maint y capel hardd hwn yw 62 troedfedd wrth 42 tu fewn i'r muriau, ac ysgoldy with un pen iddo yn 42 troedfedd wrth 13. Costiodd dros 2,200p., ac o'r swm hwn yr oedd dros wyth gant o bunau wedi eu casglu erbyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad. Y mae rhai canoedd wedi eu casglu wedi hyny, a'r ddyled fawr yn toddi yn barhaus o flaen ymdrechion pobl sydd a chalon ganddynt i weithio.

Gan fod yr eglwys hon yn un o'r rhai henaf yn Nghymru, a bod gweinidogion dysgedig ac enwog wedi bod yn gofalu am dani o oes i oes, mae yn hynod na buasai rhyw gofnodion eglwysig wedi cael eu cadw gan rai o honynt, er rhoddi manylion hanes yr achos, a'r dynion mwyaf nodedig fuont yn perthyn iddo, ond er pob ymchwil yr ydym wedi methu dyfod o hyd i ddim o'r fath. Mae yn ddiameu fod llawer o aelodau teilwng a rhagorol mewn llawer o bethau wedi bod yn y lle hwn o bryd i bryd, ond o ddiffyg defnyddiau yr ydym yn gorfod gadael eu henwau a'u hanes mewn ebargofiant. Clywsom am David Rogers, Ysw., fel aeled amlwg iawn yma er's tua dwy genhedlaeth yn ol; ac y mae coffadwriaeth David Davies, o'r Fynachlog; Mathew Arnold, William Thomas, Morgan Morgans, ac amryw eraill sydd wedi eu symud yn ddiweddar, yn barchus gan lawer.

Mae yn ddigon tebyg fod llawer o bregethwyr wedi cyfodi yma yn yr oesau gynt, ond yr ydym ni wedi methu cael enw cymaint ag un o honynt.

Thomas Jones, pregethwr cynorthwyol, a fu farw rai blynyddau yn ol, a J. R. Davies, Rhosymeirch, Mon, yw yr unig bregethwyr y gwyddom ni am danynt a gyfodwyd yma.

Mae yr hen eglwys hon, er iddi fyned trwy lawer o dywydd mewn tua dau gant ac ugain mlynedd, a chael ei hysgwyd yn ofnadwy gan derfysgiadau mewnol amryw weithiau, yn ymddangos yn awr yn gref ac iachus, a digon o elfenau bywyd ynddi i ddal ei ffordd am ganrifoedd etto. Hi yn briodol yw mam yr holl eglwysi o'r Llwyni a'r Drefnewydd hyd Gwmllynfell a Chwmaman. Hyderwn fod dyfodol gogoneddus yn ei haros.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Jenkin Jones. Ganwyd y gwr enwog hwn yn y Tymawr, yn mhlwyf Llanddetty, sir Frycheiniog. Enw ei dad oedd John Jones, neu John ap John Howell. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys. Bu farw ei dad yn 1646, ac yr oedd ei fab yn Sirydd Brycheiniog yn 1658. Cafodd Mr. Jones ei addysgu yn Rhydychain, ac yr oedd yn bregethwr cyhoeddus cyn i'r rhyfel dori allan yn 1642. Dywed y rhagfarnllyd Theophilus Jones,

Digitized by Google

hanesydd Brycheiniog, "Ar doriad allan y rhyfel, gwelwyd ef (Jenkin Jones) a chleddyf yn y naill law a Bibl yn y llall. Cyfododd fyddin o chwech ugain o wyr meirch yn mysg ei berthynasau, ei weithwyr, a'i denantiaid, ac arfogodd a gwisgodd hwynt ar ei draul ei hun. Efe a lywyddai y gwyr hyn, a thrwy eu cynorthwy gallodd gadw pleidwyr y brenin yn sir Frycheiniog, er eu bod yn llawer o rif, ac yn fawr eu dylanwad a'u cyfoeth, yn gwbl dan law." Yr oedd Jenkin Jones yn wr lled gyfoethog. Priododd un o deulu y Manseliaid yn Mrowyr. Yn ddioed ar ol adferiad Siarl II., cafodd ei fwrw allan o eglwys Llangattwg, Glynnedd. Dywed Walker iddo gael ei benodi yn weinidog Llanddetty, ei blwyf genedigol yn 1656. Mae yn bosibl fod ganddo balasdai yn Llanddetty a Llangattwg, gan ei fod yn foneddwr o gyfoeth mawr, a bod ei wraig hefyd o deulu urddasol. Dywed Walker hefyd fod un "Jenkin Jones, ailfedyddiwr ffyrnig," yn dal bywioliaeth plwyf Merthyr Tydfil ar ol bwrw yr offeiriad esgobyddol allan oddiyno; ond mae yn amheus iawn mai yr un person oedd hwnw a'r Jenkin Jones hwn. Gan fod Mr. Jones yn foneddwr o radd uchel, ac yn un o'r rhai blaenaf gyda phob achos gwladol ac eglwysig, nid yw yn debyg y buasai ef yn cymeryd arno ofal tri o blwyfydd yn mhell oddiwrth eu gilydd, canys yr oedd rhan fawr o'i amser yn cael ei gymeryd i fyny gyda phethau cyhoeddus.

Yr oedd Mr. Jones yn bregethwr galluog, diwyd, a llwyddianus. Bernir mai efe yw sylfaenydd yr hen eglwysi yn Nghastellnedd a'r Mynyddbach, yn Morganwg, a Chefnarthen, yn sir Gaerfyrddin, ac o bosibl yr holl eglwysi henaf yn neheubarth Brycheiniog. Bu mewn enbydrwydd am ei fywyd lawer gwaith wrth bregethu yr efengyl i'w gydwladwyr anwybodus. Yr oedd unwaith wedi cael ei gyhoeddi i bregethu yn Gelligrug, yn mhlwyf Aberystruth, Mynwy, a chan mai o sir Frycheiniog y disgwylid ef i ddyfod, aeth dyn ffyrnig o'r enw John James Watkin, yr hwn a fuasai yn filwr yn myddin y brenin, yn ei wisg filwrol ac yn arfog, i heol gul ger llaw eglwys y plwyf i'w gyfarfod, gyda bwriad i ymosod arno a'i ladd. Pan ddaeth Mr. Jones yn mlaen, a gweled milwr yn sefyll ar y ffordd, tynodd ei het, a chyfarchodd ef yn foneddigaidd. Darfu i'w gyfarchiad moesgar a'r olwg brydferth oedd arno orchfygu teimladau y creulonddyn fel y methodd osod ei fwriad llofruddiog mewn gweithrediad. Dilynodd y pregethwr i'r Gelligrug, a chafodd ei ddychwelyd at yr Arglwydd dan y bregeth. Bu o hyny allan yn grefyddwr selog, ac yn ddioddefydd mawr yn achos ei grefydd.

Dywed Dr. Calamy mai gwrth-fedyddiwr (*cata-baptist*) oedd Mr. Jones, hawlia rhai Bedyddwyr ef fel un o'u plaid hwy, ond y peth mwyaf tebyg ydyw nad oedd y naill na'r llall o'r pethau hyn. Yr oedd ei sel dros Ymneillduaeth y fath, a'i awydd am atal dadl bedydd i'w rhanu, ac felly ei gwanychu, mae yn debyg wedi peri iddo beidio dywedyd dim ar fedydd, neu yn hytrach ddyweyd rhyw bethau a arweiniodd rai i gasglu ei fod yn erbyn pob math o fedydd. Dyna sail y chwedl a gofnododd Calamy fel ffaith ei fod yn wrth-fedyddiwr, a'i ddystawrwydd am fedydd babanod, rhag rhanu yr Ymneillduwyr a barodd i'r Bedyddwyr honi hawl ynddo.

Yn gymaint a bod Mr. Jones yn ddyn o safle uchel, yn Ymneillduwr selog, ac wedi bod yn un o'r rhai blaenaf gyda phob achos cyhoeddus yn amser y werinlywodraeth, ymosodwyd arno ef yn un o'r rhai cyntaf wedi adferiad Siarl II. Cafodd ef ac amryw o aelodau yr eglwys a gasglasai yn sir Gaerfyrddin, eu dal yn niwedd mis Mai, 1660, a'u carcharu am fis

yn Nghaerfyrddin. Yn fuan ar ol cael ei ryddhau o garchar Caerfyrddin, aeth adref i Landdetty. Ar y Sabboth, Gorphenaf 22ain, 1660, daeth torf o bump i chwe' chant i'w wrandaw yn pregethu yn Llanddetty. Yr oedd amryw o'r bobl hyn wedi ymgasglu o Forganwg, Mynwy, a Maesyfed, yn gystal a Brycheiniog. Clywodd eglwyswyr erlidgar y sir am y cyfarfod, ac anfonodd Henry Williams, un o'r ynadon, ddeuddeg o filwyr yno i ddal yr addolwyr. Diangodd amryw, a chymerwyd nifer o honynt i'r Gelli, i sefyll eu prawf ger bron yr ynadon dranoeth. Ni ddywedir wrthym pa un a oedd Mr. Jones yn mysg y rhai a ddaliwyd ai nad oedd.* Dyma yr hanes diweddaf sydd genym am dano ef. Cymerodd y llywodraeth feddiant o'i ystad, a rhoddodd yr awdurdodau ran o'i diroedd i un Edward Hughes, cyfreithiwr, o Aberhonddu. Mae yn dra sicr os na fu Mr. Jones farw yr amser hwn iddo orfod ymguddio yn rhywle am weddill ei oes, ac na chafodd byth mwyach gyfleusdra i bregethu yn gyhoeddus.

ROBERT THOMAS. Nid oes genym unrhyw hanes i'w roddi am dano ef ond iddo gael ei droi allan gan Ddeddf Unffurfiaeth o eglwys Baglan, ac iddo o'r pryd hwnw hyd amser ei farwolaeth tua 1693, fod yn weinidog yr eglwys wasgaredig a gyfarfyddai mewn gwahanol fanau yn ardaloedd Castellnedd, Llangafelach, &c.

JACOB CHRISTOPHER. Yr oedd ef yn "Henaduriad Athrawiaethol," hyny yw, yn bregethwr yn eglwys Mr. Robert Thomas. Mae yn ymddangos ei fod yn pregethu cyn 1662, ond nid ymddengys ei fod yn dal un fywioliaeth eglwysig pan ddaeth Deddf Unffurfiaeth i rym, ac felly ni chafodd ei droi allan o un lle neillduol. Yn mis Ebrill, 1664, darfu i ynad o'r enw John Aubrey, anfon milwyr i ddal Mr. Christopher, a thri eraill, am gynal cyfarfod yn nhy Lewis Alward, yn Cynffyg. Ni ddywedir wrthym pa cyhyd y buont yn garcharorion.† Yr oedd Mr. Christopher yn fyw ac yn pregethu yn 1675, a dyna yr hanes diweddaf sydd genym am dano.‡

RICHARD CRADOCK. Enwir ef yn llawysgrifau Lambeth fel un a gadwai gyfarfodydd crefyddol, ac a bregethai yn ei dy ei hun, yn y Drefnewydd, neu Newton Nottage, yn 1669, ac yn 1672. Cymerodd Watkin Cradock, o'r un lle, drwydded i bregethu, a thrwydded ar ei dŷ at bregethu ynddo. Nis gwyddom pa un a'i dau berson gwahanol oeddynt, neu i'r enw cyntaf gael ei gamosod yn y naill neu y llall o'r llawysgrifau. Dichon y gallasent fod yn ddau frawd, neu dad a mab, a bod y ddau yn pregethu. Nid oes genym un wybodaeth pellach am danynt.

LEWIS DAVIES. Mae y cwbl a wyddom am dano ef i'w gael yn nglyn a hanes y Mynyddbach.

THOMAS DAVIES. Nid oes genym unrhyw wybodaeth am dano ef ond ei fod yn cael ei grybwyll yn llawysgrif Dr. John Evans fel cydweinidog a David Thomas yn Nghastellnedd yn 1715.

DAVID THOMAS. Mae ei hanes yntau yn hollol anhysbys i ni. Mae yn ymddangos iddo gael ei urddo ryw amser rhwng 1710 a 1715, a pharhaodd i weinidogaethu yma hyd ei farwolaeth yn 1748; ond cafodd John Davies ei urddo, naill ai yn ganlyniedydd neu yn gynorthwywr iddo, yn 1746.

* *State papers for the year 1660.* † *State papers for the year 1664.*

‡ *Broadmead Records*, p. 514

Digitized by Google

John Davies. Yn nglyn a hanes Trelech y rhoddwn yr hyn a fedrom gasglu am dano ef, gan mai yno y terfynodd ei oes.

Joseph Simmons. Ganwyd ef yn agos i Foxhole, ger Abertawy, tua 1694. Cafodd ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin. Yr ydym yn tybied mai tua 1722, y terfynodd ei amser yn yr athrofa, ac iddo yn fuan ar ol hyny gael ei urddo yn weinidog cynorthwyol yn y Gellionen a Chwmllynfell. Bu am ryw gymaint o amser yn preswylio yn Hendreforgan, gerllaw Cwmllynfell. Symudodd oddiyno i Fforest, yn mhlwyf Llansamlet, ac oddiyno drachefn i'r Wind-mill-hill, yn yr un plwyf, a dywedir mai efe a adeiladodd y felin wynt yn y lle hwnw.* Nid ydym yn gwybod yr amser y symudodd o Hendreforgan, ond bernir iddo roddi gofal Cwmllynfell i fyny y pryd hwnw. Yn 1750, y derbyniodd alwad i ymsefydlu fel gweinidog yn Nghastellnedd, a bu yno o'r pryd hwnw hyd amser ei farwolaeth, Mai 12fed, 1774, pryd yr oedd yn bedwar ugain oed. Bu farw yn ddisymwth iawn. Cymerwyd ef yn glaf yn Heolygwynt, Abertawy, a chariwyd ef oddiar yr heol i dŷ un Evan Smith, a bu farw yno yn mhen yr awr. Cyfododd dau o'i feibion i'r weinidogaeth, sef Joseph a Noah. Nid ydym yn gwybod dim o hanes Joseph ei fab, ond urddwyd Noah yn gynorthwywr a chanlyniedydd i'w dad.

Yr ydym yn analluog, o ddiffyg defnyddiau i roddi unrhyw ddisgrifiad o Mr. Simmons fel pregethwr. Y cwbl a allwn gasglu oddiwrth y crybwyllion am ei enw a gyfarfyddir yn achlysurol mewn llawysgrifau, ydyw ei fod yn weinidog o gymeriad moesol pur, a'i fod yn iachus o ran ei athrawiaeth. Yr oedd yn enwog iawn fel ysgolhaig ac ysgolfeistr. Bu am rai blynyddau yn cadw ysgol ramadegol ragorol yn Abertawy a Chastellnedd, a bu yr enwog Lewis Rees am dymor yn ei ysgol. Yr oedd y werin hygoelus yr amser hwnw yn credu fod pob ysgolhaig gwell na'r cyffredin yn medru *consurio*, a dywedir fod y dyb yn gyffredin yn mysg y bobl o gylch y Foxhole fod gan Mr. Simmons awdurdod ar yr ysbrydion, ac felly yr oedd ofn ei ddigio ar bawb o honynt.

Noah Simmons. Mab Mr. Joseph Simmons. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Derbyniwyd ef yn fyfyriwr i athrofa Abergavenny, Hydref 3ydd, 1768. Mae Dr. B. Davies, yn ei adroddiadau blynyddol o sefyllfa yr athrofa, yn ei ganmol fel myfyriwr diwyd a gobeithiol. Yn 1772, ar ddydd agoriad capel Maesyrhaf, urddwyd ef yn gynorthwywr i'w dad oedranus, a pharhaodd i weinidogaethu yno hyd 1794, pryd yr ymfudodd i'r America. Yr oedd wedi claddu ei wraig a dau o'i blant yn mynwent Maesyrhaf, ac ar ei ymadawiad o'r wlad hon nid oedd ganddo ond un plentyn, yr hwn a aeth gydag ef i'r America. Nis gwyddom ddim o'i hanes ar ol ei ymfudiaeth ragor nag iddo ysgrifenu rhai llythyrau at Mr. John Davies, un o aelodau yr eglwys yn Maesyrhaf. Yr oedd yntau, fel ei dad, yn enwog iawn fel ysgolfeistr, ac yn fwy enwog fel pregethwr. Yr oedd hen bobl yn fyw yn Nghastellnedd, ychydig flynyddau yn ol, y rhai a soniant yn barchus iawn am dano, ac a gwynant o herwydd y driniaeth greulawn a gafodd oddiar law rhyw ddynion drygionus, yr hyn fu yn achos iddo adael ei wlad.

Thomas Bowen. Ganwyd ef yn rhywle yn mhlwyf Llandilo, yn sir Gaerfyrddin, yn 1756. Mae lle ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Yr oedd ei rieni yn isel yn eu hamgylchiadau bydol. Cymerwyd ef, pan yn fach-

* Llawysgrifau Mr. Pryse, Cwmllynfell.

genyn tra ieuangc, i wasanaeth Mr. Morris, tad ynghyfraith y diweddar Mr. Powell, Cross Inn, ac yno yr oedd pan y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Nghapel Isaac. Yn mhen ychydig amser ar ol ei dderbyn cafodd ef, a dau frawd ieuangc eraill, sef David Thomas, Penmain, a Jonathan Lewis, Cwmmawr, eu hanog gan yr eglwys i ddechreu pregethu. Gan ei fod yn wr ieuangc gobeithiol anfonwyd ef i ysgol Mr. John Griffiths, Glandwr, ar draul ei feistr, Mr. Morris, a chyfeillion eraill yn eglwys Capel Isaac. Ar ol bod yno am ryw ysbaid derbyniwyd ef i'r athrofa yn Abergavenny, Tachwedd 3ydd, 1777. Yn ei adroddiad, dyddiedig Rhagfyr 26ain, 1780, dywed Dr. Davies:—"Y nesaf yw Thomas Bowen, yr hwn fydd wedi gorphen ei amser yma yn mis Medi nesaf. Efe a ddaeth i'r athrofa dan anfanteision mawr gan nad oedd wedi cael nemawr ó fanteision addysg cyn dyfod yma. Pa fodd bynag, y mae wedi myned rhagddo yn mhell tu hwnt i'm disgwyliad i; ond y mae yn amheus genyf y bydd iddo gyrhaedd y fath berffeithrwydd yn yr iaith Saesonig ag i'w wneyd yn dderbyniol fel gweinidog i gynnulleidfa o Saeson, etto, yr wyf yn gobeithio y bydd iddo droi allan yn weinidog Cymreig derbyniol a defnyddiol." Darfu i'r athraw da gamgymeryd y tro hwn, oblegid fe ddaeth Thomas Bowen, ar ol hyn, yn gymaint o feistr ar yr iaith Saesonaeg fel yr oedd yn bregethwr poblogaidd ynddi.

Ar orpheniad ei amser yn yr athrofa, tua diwedd y flwyddyn 1781, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Maesyronen, sir Faesyfed, ac urddwyd ef yno, a bu yn rhyfeddol o lwyddianus. Tua y flwyddyn 1792, bu yno ddiwygiad nerthol iawn, ac ychwanegwyd amryw ugeiniau at yr eglwys yn Maesyronen, a'r gangen yn Brechfa, sir Frycheiniog. Yn mysg eraill a dderbyniwyd yn Mrechfa, yr oedd llangc deuddeg oed o'r enw William Havard, yr hwn wedi hyny a ymunodd a'r Methodistiaid, ac a fu yn weinidog enwog yn eu mysg am ugeiniau o flynyddau. Yr oedd Mr. Havard hyd derfyn ei oes yn son am Mr. Thomas Bowen fel ei dad yn yr efengyl. Yr oedd Mr. Bowen o gychwyniad ei fywyd cyhoeddus yn nodedig o lafurus. Yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn Maesyronen aeth trwy yr holl ardaloedd i bregethu yn mhob man y cawsai dderbyniad. Trwy ei lafur ef y dechreuwyd yr achos yn Brechfa, ac y mae yn debyg pe buasai yn aros yn y parth hwnw yn hwy y buasai yn dechreu amryw achosion eraill. Byddai yn myned yn lled fynych i bregethu mewn aneddдai yn mhlwyfydd Llangan, Llanfihangel, Talyllyn, a Llansantffraid, Brycheiniog. Cynhyrfodd ei ymweliadau a phlwyf Llansantffraid gynddaredd un Mr. Frew, person y plwyf hwnw, fel y dygodd gwyn yn ei erbyn, ac y gwysiwyd ef ger bron yr ynadon yn Aberhonddu yn 1791, dan y cyhuddiad o bregethu yn mhlwyf Llansantffraid mewn tŷ heb ei drwyddedu. Yn ol y gyfraith yr oedd yn agored i ddirwy o ugain punt, un ran o dair o ba swm oedd i fyned i'w gyhuddwr am ddwyn yr achwyniad yn mlaen. Gwnaeth Mr. Bowen ei ymddangosiad yn ol y wys yn llysdy Aberhonddu ar y dydd penodedig. Darllenwyd y cyhuddiad iddo, ac addefodd yntau ei fod yn euog; yna dywedodd yr ynadon wrtho ei fod dan ddirwy o ugain punt, heblaw y costau. Ond yn lle ymostwng yn wasaidd i ofyn eu trugaredd, a dadleu ei dlodi, fel yn ddiau y dysgwylient iddo wneyd, talodd yr arian bob ceiniog, a chyda moesgyfarchiad, o'r fath ag a fedrai ef wneyd, dymunodd fore da i'r boneddigion, a throdd ymaith. Pan yr oedd ar waelod y grisiau yn myned allan, anfonwyd cenad i'w alw yn ol. Pan ddychwelodd dywedodd cadeirydd y faingc ynadol wrtho:—

"Mr. Bowen, er fod genym ni hawl i'ch dirwyo chwi o ugain punt, yr ydym yn foddlon iselhau y swm." Atebodd yntau, "Na ofalwch foneddigion, mae yr arian yn awr wedi eu talu, a dichon y bydd i'r rhan o honynt sydd i fyned i logell fy nghyhuddwr fod yn ddinystr iddo;" a chyda hyny aeth allan o'r llys. Casglwyd digon o arian yn ddioed i wneyd ei golled i fyny. Yn mysg manau eraill, anfonodd pobl y Groeswen tua thair punt iddo. Yn mhen tua chwech wythnos ar ol hyn yr oedd ei gyhuddwr, Mr. Frew, person Llansantffraid, yn dychwelyd adref o Aberhonddu, a darfu i'w geffyl syrthio dano, neu syrthiodd ef oddiar yr anifail, a disgynodd ar ei ben nes i'w siol hollti, ac i'w ymenydd gael ei wasgaru ar gerig yr heol!! Yr ydym yn gadael i bob darllenydd i dynu ei gasgliad ei hun oddiwrth y ffaith arswydus hon.

Yn y flwyddyn 1795, fel y gwelsom eisioes, derbyniodd Mr. Bowen alwad oddiwrth yr eglwys yn Maesyrhaf, a symudodd yno yn nechreu y flwyddyn ganlynol. Cafodd gryn ofid yn Nghastellnedd yn fuan ar ol dechreu ei weinidogaeth yno, ond treuliodd yno weddill ei oes yn enwog, parchus, a defnyddiol i raddau helaeth, ond nid i haner y graddau y gallasai fod pe buasai pob peth yn ei le ynddo. Bu farw mewn llewyg ar y ffordd yn agos i'w dŷ ei hun, Chwefror 27ain 1827, yn 71 oed, a chladdwyd ef wrth gapel Maesyrhaf.

Yr oedd Thomas Bowen yn un o'r dynion mwyaf boneddigaidd yn ei oes. Medrai gyfeillachu a'r pendefigion mwyaf coethedig, a gwneyd ei hun ar yr un pryd yn gartrefol gyda'r weddw dlawd ar y plwyf. Edrychid i fyny ato gan uchel ac isel. Mewn gair, yr oedd yn foneddwr yn yr ystyr helaethaf i'r gair. Fel pregethwr yr oedd yn dlws, eglur, a phoblogaidd. Yr oedd yn feistr perffaith ar y ddwy iaith. Tystiolaeth y rhai a'i hadwaenant yn dda ydyw ei fod mor ddiddiffygion fel gwladwr a phregethwr a neb yn ei oes. Ond y mae gonestrwydd hanesyddol yn ein rhwymo i grybwyll nad oedd ei gymeriad moesol yn bob peth y gallesid dymuno iddo fod. Bu amryw weithiau dan ddysgyblaeth am yfed yn annghymedrol. Hyn oedd ei wendid, a phe buasai yn rhydd oddiwrth y gwendid hwn mae yn ddiameu na buasai un gweinidog, o un enwad, yn y Dywysogaeth yn uwch nag ef mewn defnyddioldeb ac enwogrwydd. Ond er ei holl ddiffygion, gwnaeth ddaioni dirfawr yn ei ddydd, ac y mae genym obaith iddo ddiangc i'r wlad yn yr hon nid oes cofio beiau.

John Davies. Ganwyd ef yn Esgairfynwent, plwyf Llanfihangel-rhos-y-corn, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1799. Yr oedd ei rieni yn bobl dduwiol iawn, ac yn aelodau parchus o'r eglwys Annibynol yn Gwernogle. Bu farw ei dad pryd nad oedd ef ond ieuangc; gan adael ei fam yn weddw ac un-ar-ddeg o blant dan ei gofal; ond cafodd fyw i'w gweled oll wedi tyfu i'w maintioli, ac ymsefydlu yn y byd, a'r hyn sydd yn bwysicach byth, cafodd eu gweled oll yn aelodau o eglwys Crist. Aeth dau o'r meibion, sef John, a'i frawd Mr. David Davies, o Stanstead, Essex, i'r weinidogaeth. Bu farw eu mam mewn oedran teg, ac yn gyflawn o gysuron crefydd, ar ol bod yn arddel Crist am yn agos i driugain mlynedd. Pan yn bedair-ar-ddeg oed derbyniwyd John Davies yn aelod o'r eglwys yn Gwernogle, gan y diweddar Mr. Powell, o Gaerdydd, yr hwn oedd y gweinidog yno y pryd hwnw. Anogwyd ef yn mhen ychydig amser ar ol ei dderbyn i ddechreu pregethu. Yn 1819, derbyniwyd ef i athrofa Caerfyrddin, lle bu am chwe' mlynedd. Ar derfyniad ei amser yno derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Maesyrhaf, lle yr urddwyd ef Gorphenaf

Digitized by Google

4ydd, 1826. Bu yn weinidog yma rhwng naw a deng mlynedd. Yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol i'w gysylltiad ag eglwys Maesyrhaf ddarfod, ymaelododd yn Zoar, ac yno yr oedd yn aelod yn amser ei farwolaeth. Bu farw Awst 3ydd, 1862, a chladdwyd ef yn mynwent Maesyrhaf. Yr oedd John Davies yn ddyn tawel, o dymer addfwyn, ac yn bregethwr digon derbyniol, ond bu yr un peth yn fagl iddo ef ag a fu yn gymaint o niwed i'w ragflaenor, Mr. Bowen. O herwydd hyn, bu am y pum'-mlynedd-ar-hugain olaf o'i oes heb fod o nemawr gwasanaeth i fyd nac eglwys. Byddai yn pregethu yn achlysurol yn ei flynyddau olaf, a dywedir ei fod yn ei ddyddiau diweddaf yn amlygu teimladau nefolaidd iawn. Ni chafodd ond dau ddiwrnod o gystudd trwm cyn ei farwolaeth.

Daniel Evans. Ganwyd ef yn Mhenygraig, Ystlumgwyli, yn mhlwyf Abergwyli, sir Gaerfyrddin, Hydref 4ydd, 1803. Cafodd ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Hermon, Cynwyl, Mehefin 24ain, 1821. Ar anogaeth yr eglwys dechreuodd bregethu yn Gorphenaf, 1823. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn ysgol ramadegol Mr. Peter, Caerfyrddin, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Nazareth, plwyf Llangyndeyrn, ac urddwyd ef yno Ionawr 21ain, 1829. Yn fuan ar ol ei urddiad, dechreuodd achos yn Crwbyn, ac adeiladodd yno gapel bychan. Cymerodd hefyd ofal yr eglwys yn Siloam, Pontargothi, mewn cysylltiad a Nazareth a Chrwbyn, a bu yn rhyfeddol o boblogaidd a defnyddiol yn y tri lle hyd nes iddo symud i Gastellnedd. Yn 1837, dechreuodd ei weinidogaeth yn Maesyrhaf, lle y bu yn llafurio am ddwy-flynedd-ar-hugain. Bu am rai blynyddau yn gofalu am yr eglwys sydd yn awr yn ymgynull yn nghapel y Wern, Aberafan, mewn cysylltiad a Maesyrhaf. Fel y nodasom yn barod, bu ei weinidogaeth yn Nghastellnedd a'r cylchoedd, yn annghyffredin o lwyddianus am y deg neu y deuddeng mlynedd cyntaf o'i amser yno, ond o hyny allan yr oedd y gynnulleidfa a'r eglwys yn lleihau yn raddol; nid o herwydd unrhyw goll yn nghymeriad moesol y gweinidog, canys ni bu yr un dyn purach ei foesau nag ef erioed yn rhodio y ddaear, ond o herwydd yr hyn a grybwyllasom yn flaenorol. Cyfarfyddodd y dyn da hwn a llawer o ofidiau blinion a siomedigaethau tost yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, yr hyn a adawodd effeithiau niweidiol ar ei iechyd corphorol, ac ar ei holl gyflawniadau fel dyn cyhoeddus. Bu farw Ebrill 17eg, 1859, yn 56 oed, a chladdwyd ef wrth gapel Maesyrhaf, lle y mae maen prydferth wedi ei osod ar ei fedd. Gweinyddwyd yn ei angladd gan Meistri Rees, Llanelli; Griffiths, Alltwen; Thomas, Glandwr, ac eraill, a dangosodd pobl y dref eu parch iddo trwy gau eu masnachdai a dyfod yn dorf ddirfawr i'w ganlyn i dy ei hir gartref.

Yr oedd Daniel Evans o ran corph o wneuthuriad lluniaidd, tua phum' troedfedd a naw modfedd o daldra, ei wallt yn wineuliw, a'i edrychiad yn nodedig o fywiog a siriol. Yr oedd ei dymer, fel ei gorph, yn llawn tân a bywiogrwydd. O ddyn twymn ei dymer, yr oedd yn hynod ofalus i beidio tramgwyddo neb yn ddiachos, ond pan y cawsai achos medrai arfer geiriau a frathent fel cleddyf daufiniog. Fel pregethwr yr oedd, yn mlynyddau boreuaf ei weinidogaeth, yn anarferol o boblogaidd. Tywalltai allan ffrydlif o eiriau a meddyliau, gyda chyflymder agerdd-beiriant, ac mewn llais rhyfeddol o soniarus. Tua diwedd ei oes yr oedd wedi myned yn rhy siaradus yn ei bregethau i fod yn boblogaidd fel cynt. Yr oedd y ddawn brydyddol yn naturiol iddo. Cyfansoddodd a chyhoeddodd lawer iawn o'i brydyddiaeth, ac y mae ei holl gyfansoddiadau yn cael eu nodweddu

gan ystwythder, melusder, a rhai ergydion gwir farddonol, ond nid yw ei iaith na'i feddyliau y fath ag i ddal yn ngwyneb beirniadaeth fanol. Pe buasai ychydig yn fwy coethedig ei feddyliau a'i iaith, buasai llawer o'i gyfansoddiadau prydyddol yn sicr o gyrhaedd enwogrwydd cenedlaethol. Fel gweinidog a phregethwr yr oedd yn rhyfeddol o weithgar a diddiogi. Yr oedd yn ngafael a rhyw waith da yn ddiatal, ac ni feddyliodd erioed am arbed ei gorph wrth deithio a phregethu. Os yw rhai yn byrhau eu heinioes trwy ormod o seguryd, yr ydym yn credu iddo ef ei byrhau trwy ormod o waith, yn enwedig wrth gerdded trwy bob tywydd ar ol chwysu a lluddedu wrth bregethu. Bu am y pedair-blynedd-ar-hugain olaf o'i fywyd yn ddirwestwr egwyddorol a didwyll, a braidd nad oedd ei sel dros yr achos dirwestol weithiau yn ei gario i eithafion i ddyweyd pethau a dueddent yn hytrach i galedu a digio pobl na'u hargyhoeddi. Dau fath o bersonau oedd yn ei gynhyrfu hyd waelodion ei ysbryd, ac yn ei gyffroi braidd i lid aflywodraethus—diottwyr blysig ar enw crefydd, a dynion anhywaith mewn eglwys.

Fel cyfaill yr oedd yn un o'r rhai ffyddlonaf a mwyaf didwyll a adnabuom erioed. Ni welai unrhyw beth yn ormod i'w wneyd dros gyfaill, a gallasai ei gyfeillion ymddiried eu bywydau i'w ffyddlondeb. Ond er ei holl ddidwylledd fel cyfaill yr oedd yn ddiffygiol, er ei fawr anfantais ei hun, o un o nodweddau cyfaill, sef parodrwydd i dywallt ei deimladau a'i ofidiau ei hun i fynwesau ei gyfeillion goreu, er cael eu cynghorion a'u cydymdeimlad. Cadwai ei holl ofidiau dirgelaidd yn hollol oddiwrth bawb ond ei Dad nefol Mae yn ddiau y buasai yn ysgafnhau llawer ar ei feichiau yn fynych pe buasai yn fwy agored i fynegu ei helbulon i'w gyfeillion; ond cofir am dano gyda pharch gan yr ychydig o'i gyfoedion sydd yn aros; ac y mae tô ieuengach y rhai a'i cafodd yn gyfaill caredig, a didwyll, yr erys ei "goffadwriaeth yn fendigedig" ganddynt.

## MELINYCWRT.

Mae y lle hwn yn Nghwmnedd, yr ochr ddeheuol i'r afon wrth fyned i fyny o Gastellnedd, o fewn ychydig gyda phum' milldir o'r dref. Hyd yn agos i ddiwedd y ganrif ddiweddaf nid oedd ond ychydig o'r trigolion yn meddwl fawr am grefydd. Cyrchai ambell un i Godrerhos, ac yr oedd rhai yn arfer myned i lawr i Gastellnedd, ond treuliai y rhan fwyaf eu Sabbothau yn hollol ddifeddwl am grefydd. William Griffiths, *Bottle and Glass*, ac Elenor ei wraig, (tad a mam Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd), ac Ann Davies, Cefnygelli, oedd yr unig dri y mae genym sicrwydd am danynt oeddynt yn aelodau yn Nghastellnedd yn yr adeg yma. Yn fuan wedi sefydliad Mr. Thomas Bowen yn Nghastellnedd, daeth i fyny i Cefnygelli ar un prydnawn Sabboth i bregethu, a daeth cynifer yn nghyd fel y bu raid iddo bregethu allan. Daeth i fyny yn fuan wedi hyny a phregethodd i dorf fawr yn muarth ty William Griffiths, ac yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi iddo, ac i'w weinidogaeth, ffafr yn ngolwg yr ardalwyr. Pregethodd drachefn yn mhentref Melinycwrt, a thro arall cafodd genad i fyned i dy cang oedd gan gwmpeini y gwaith haiarn oedd yn y lle at gadw glô, ac un tro buwyd yn addoli yn y tawdd-dy (*cast house*). Yr oedd y gwaith haiarn oedd yn y lle wedi dwyn cryn lawer o bobl i'r ardal ar y pryd, ac yr oedd gweinidogaeth Mr. Bowen yn gymeradwy ganddynt oll, a

Digitized by Google

gogwyddwyd llawer o honynt i geisio yr Arglwydd. Penderfynodd Mr. Bowen gynal cyfeillach grefyddol yn nhy William Griffiths, ac er nad oedd neb ond William Griffiths, a'i wraig, ac Ann Davies, a Hopkin Hopkins, aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ynddi gyda Mr. Bowen y tro cyntaf, nid hir y bu raid disgwyl cyn gweled amryw yn ymwasgu a'r dysgyblion. Derbyniwyd cyn pen ychydig fisoedd un-ar-bymtheg o'r ardal yma ar yr un Sabboth yn gyflawn aelodau yn Nghastellnedd, a daliodd y rhan fwyaf o honynt eu ffordd hyd y diwedd. Yn y fintai gyntaf yma yr oedd Howell John, un o'r rhai fu a'r llaw flaenaf yn nghychwyniad yr achos yn Nghwm-afan. Trwyddedwyd ty William Griffiths i gynal gwasanaeth yn rheol-aidd, ac wedi bod yno dros dymor, barnwyd mai gwell a fuasai symud yn nes i bentref Melinycwrt, ac agorodd un Mary Cook ei drws i'w derbyn, a chymerwyd trwydded ar ei thy. Llwyddodd yr achos fel yr aeth y lle yn rhy gyfyng, a theimlid yn llawn bryd edrych am dir i adeiladu capel arno. Er y cynhelid yma bob moddion yn rheolaidd, nid oedd yma eglwys hyd yn hyn wedi ei ffurfio, ac elai yr holl aelodau i Gastellnedd i gymundeb. Bu siarad am amryw leoedd i godi y capel—mynai rhai ei gael ar dir Pentwyn yn agos i'r Ynysfach, ond barnai eraill mai gerllaw Melinycwrt y dylasai fod, lle yr oedd y boblogaeth luosocaf ar y pryd. Cafwyd tir gan Mr. Jones, Llwyncoedwr, ar brydles o 300 mlynedd, am yr ardreth o ddeg swllt a chwe' cheiniog y flwyddyn, a chafwyd digon o dir at gapel a mynwent helaeth yn nglyn ag ef. Codwyd y capel y flwyddyn olaf o'r ganrif ddiweddaf, yn mesur 32 troedfedd wrth 22 troedfedd, ac agorwyd ef y flwyddyn ganlynol, ac yn fuan wedi ei agor ffurfiwyd eglwys ynddo o'r aelodau oedd eisioes yn y lle, a bu gofal yr eglwys ar Mr. Bowen tra y gallodd gyflawni ei weinidogaeth. Yn fuan wedi codi y capel, methodd cwmpeini y gwaith haiarn oedd yn y lle, a gwasgarwyd y bobl, yr hyn a effeithiodd yn fawr ar yr achos, ond glynodd rhai yn ffyddlon wrtho er pob digalondid, ac er gorfod myned yn mhell i weithio, cyrchent adref erbyn pob Sabboth, ac yn aml deuant i gyfarfodydd yr wythnos. Yr oeddynt yn nodedig yn eu serch at eu gilydd, ac ni bu eglwys erioed yn fwy cariadus nag y bu yr eglwys hon am yr haner canrif cyntaf o'i hanes. Tua'r flwyddyn 1806, bendithiwyd yr eglwys a diwygiad grymus pan yr ychwanegwyd llawer o bobl i'r Arglwydd, ac yn yr adeg yma y derbyn-iwyd yr hybarch Phillip Griffiths, Alltwen, yr hwn "wedi cael help gan Dduw sydd yn aros hyd yr awr hon." Bu diwygiad grymus drachefn yn yn y flwyddyn 1816. Dyma y pryd y derbyniwyd y diweddar Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd, yn aelod, ac yr oedd teimladau mor ddwysion yr adeg yma fel yr oedd y bobl yn "neidio ac yn moli Duw."

Bu gofal yr eglwys ar Mr. Bowen hyd nes y dewiswyd Mr. Daniel Griffiths yn gydweinidog ag ef yn Nghastellnedd a Melinycwrt, ac er i gysylltiad Mr. Griffiths a'r eglwys yn y dref gael ei dori, etto parhaodd ei gysylltiad a'r eglwys hon hyd ddiwedd ei oes. Er mai ei ardal enedigol ydoedd, etto nid oedd neb a ddeuai i'r lle yn fwy cymeradwy gan y bobl nag ef, ac ymgynnullai yr holl wlad i wrandaw arno, ac yn yr holl am-gylchiadau blin a'i cyfarfu glynodd ei fam-eglwys yn ffyddlon wrtho.

Wedi marwolaeth Mr. Griffiths, yn anffodus daeth un Joseph Jones, a fuasai yn weinidog yn Bristol, i'r ardal, a chafodd fwyafrif yr eglwys i roddi galwad iddo, ond ni chafwyd ond gofid oddiwrtho tra y bu yma, ac wedi hwylio yn annyben am fwy na blwyddyn, ymadawodd a rhyw ychydig gydag ef at y Bedyddwyr, a dyna ddechreuad yr achos sydd gan

yr enwad hwnw yn yr Ynysfach. Bu gofal y lle am ychydig ar ol hyn ar Mr. John Ridge, gynt o Cendle, ond gan ei fod yn byw yn rhy bell i'w gwasanaethu gydag un cysondeb rhoddodd y lle i fyny. Yn nechreu y flwyddyn 1850, ar symudiad Mr. John Thomas, o Bwlchnewydd i Glynnedd, cymerodd hefyd ofal y lle hwn, a bu yma hyd ddechreu y flwyddyn 1854, pan y symudodd i Liverpool. Er na bu llwyddiant mawr ar yr achos yn y blynyddoedd hyny, etto bu yr eglwys yn nodedig o heddychol a thangnefeddus, a gwnaed rhyw adgyweiriadau a chyfnewidiadau yn y capel ac o amgylch iddo, a dygwyd yr holl draul gan y gymydogaeth ar y pryd. Bu gofal y lle ar ol hyn dros ysbaid ar Mr. William Watkins, Maesteg, yr hwn yn ffyddlon a ddeuai yma dros y mynydd ar bob tywydd, ond yr oedd teithio y fath ffordd anhygyrch ddwywaith yn y mis yn ormod iddo, ac oblegid hyny rhoddodd y lle i fyny. Wedi iddo ef ei rhoddi i fyny, cymerodd Mr. J. Mathews, Castellnedd ofal yr eglwys, a chyrchai yma yn ffyddlon am rai blynyddau, nes yn mhen amser wedi i Mr. Rees Morgan sefydlu yn Glynnedd, cymerodd ef ofal yr eglwys, ac felly y parhaodd hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pryd y symudodd Mr. Morgan i Bethlehem, St. Clears, ac er hyny y mae yr eglwys hon heb neb yn neillduol i fwrw golwg drosti. Gwelir ei bod wedi myned trwy gryn gyfnewidiadau, ond yn y cyfnewidiadau hyny y mae wedi mwynhau gwahanol ddoniau, ac er nad yw yr achos yn gryf a lluosog y mae yma ychydig enwau yn glynu wrth yr Arglwydd, a'r achos ar y cyfan mewn agwedd siriol a chalonog.

Mae yma lawer o bersonau wedi bod yn nglyn a'r achos y buasai crybwylliad am danynt yn ddigon gweddus pe buasai ein terfynau yn caniatau, ond gallwn grybwyll nad â caredigrwydd a ffyddlondeb hen deuluoedd Llwyncoedwr, Clungwilym, y Felin, ac eraill, ddim yn angof yn fuan, a gobeithiwn fod eu disgynyddion yn etifeddu eu hysbryd.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Phillip Griffiths. Derbyniwyd ef, fel y crybwyllasom, yn y flwyddyn 1806, ac y mae er's yn agos i haner can' mlynedd yn gweinidogaethu yn yr Alltwen.

Daniel Griffiths. Gweler ei hanes ef yn nglyn a Zoar, Castellnedd.

Thomas Evans. Bu ef am dymor hir yn ddiacon ac yn bregethwr cynnorthwyol parchus yn yr eglwys, ac arno ef yn benaf yr oedd gofal yr achos, ac yr oedd yn gwir ofalu am dano. Yr oedd yn un o gyfoedion Mr. Daniel Griffiths, ac yn gyfaill mawr iddo. Yr oedd Thomas Evans yn ddyn o ddeall cryf, wedi darllen llawer, ac yn meddu gwybodaeth helaeth am bethau yn gyffredinol. Er nad oedd yn ddoniol o hyawdl fel pregethwr, etto yr oedd ganddo ddawn rhwydd i draethu ei feddwl heb fod mewn un modd yn boenus i wrandaw arno. Ymdriniai yn benaf a phethau athrawiaethol, ac yr oedd ei olygiadau ar drefn yr efengyl yn eang a rhyddfrydig, etto nid mewn un modd i gymylu graslonrwydd yr iachawdwriaeth. Yn ei gyfeillach ymyfrydai yn fawr i siarad ar byngciau duwinyddol, a chael eglurhad ar yr hyn a ymddangosai iddo ef yn dywyll, ac ni fynai un amser ymgymeryd ag un golygiad heb reswm drosto. Bu ei dy am dymor hir yn agored i lettya pregethwyr, ac nid yn fuan yr anghofir gan y rhai a fu dan ei gronglwyd am ei garedigrwydd dirodres ef a'i wraig. Yr oedd er's blynyddau yn dyoddef oddiwrth ddiffyg anadl, yr hyn a'i hanalluogai i bregethu, ac a'i gorfodai hefyd i ymgadw rhag myned allan i awyr y nos, fel nas gallodd fod am y pymtheng mlynedd diweddaf o'i oes o'r fath

Digitized by Google

wasanaeth i'r achos ag y bu mewn blynyddau blaenorol. Bu farw Mawrth 25ain, 1869, yn 73 oed.*

## GLYNNEDD.

Er mai yn ddiweddar mewn cydmariaeth y dechreuwyd yr achos yn y lle hwn, etto y mae addoli wedi bod yn Nghwmnedd er dyddiau boreuaf Anghydffurfiaeth yn Nghymru. Ar drumun craig uwchlaw afon Cwrach, mewn llanerch gysgodfawr, o fewn llai na haner milldir i orsaf Glynnedd, y mae hen gapel Blaengwrach, ac yr oedd yma achos Ymneillduol er yn foreu iawn. Ystyrid y lle am dymor hir fel cangen o'r Chwarelaubach, Castellnedd, ac yr ydoedd dan yr un weinidogaeth. Ond tua'r flwyddyn 1718, urddwyd Mr. Henry Davies yn weinidog yn Blaengwrach, a llafuriodd yn y lle am yn agos i ddeng-mlynedd-ar-hugain. Dan ofal Mr. Davies yn Blaengwrach y bu yr hyglod Lewis Rees yn yr ysgol, ac yno y derbyniwyd ef yn aelod ac y dechreuodd bregethu, ac yno hefyd yr urddwyd ef Ebrill 13eg, 1738, fel y crybwyllasom yn hanes Llanbrynmair. Mae enwau a rhifedi yr aelodau yn y flwyddyn 1734 i'w gweled yn awr yn llawysgrif Mr. Davies. Yr oeddynt yn 63 o nifer; 34 o wrywiaid a 29 o fenywaid, ac yn wasgaredig trwy Glyntawy, Ystradfellte, Cwmdulais, a Glyncorwg, yn gystal a Chwmnedd. Mr. Davies, Blaengwrach a sefydlodd yr eglwys yn y Cymer, Cwmrhondda, fel y cawn sylwi pan ddeuwn at yr eglwys hono; ac ar ol ffurfiad yr eglwys yno symudodd i gymeryd ei gofal, a dilynwyd ef yn Blaengwrach gan Mr. Thomas Lewis, aelod o Benmain, yr hwn a fu yno o'r flwyddyn 1748 hyd 1773, pryd yr ymadawodd i Lanharan. Dilynwyd ef gan Mr. Thomas Morgan, yr hwn oedd yn Armin, os nad yn rhywbeth pellach; ac yn ei amser ef y dirywiodd yr eglwys yn ei golygiadau, nes o radd i radd yr aeth y lle yn hollol i ddwylaw y Sosiniaid, a chanddynt hwy y mae hyd y dydd hwn Bu Cwmnedd am dymor maith yn y cyfwng rhwng dirywiad y weinidogaeth yn Blaengwrach, a chodiad yr achos sydd yn awr yn Glynnedd, heb ddim pregethu efengylaidd o'i fewn; ac yr oedd y trigolion yn cydymroddi i bob rhysedd ac annuwioldeb. Yr oedd yma ychydig o grefyddwyr yn foreu yn y ganrif bresenol, a chlywsom rai o hen bobl Glynnedd yn son gyda pharch am un hen wraig, yr hon a fuasai unwaith yn aelod yn Blaengwrach, ond pan aeth y weinidogaeth yno i roddi sain dyeithr a ymaelododd yn Nhy'nycoed, ac a gerddai yr holl ffordd yno er mwyn clywed yr efengyl yn ei phurdeb. O gylch y flwyddyn 1812, dechreuodd Mr. Morgan Lewis, Ystradfellte, bregethu yn ei dŷ ei hun yn Abernantyfedwen a'r Banwaen Byrddyn, a ffurfiwyd eglwys yno, a derbyniwyd amryw aelodau o Gwmnedd yno. Yr oedd yn Nghwmnedd, ar y pryd hwnw, a chyn hyny, amryw aelodau o eglwysi Godrerhos, Melinycwrt, Ty'nycoed, a Hermon, y rhai a gynhalient gyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol bob wythnos yn Penystair, Tainewydd, a lleoedd eraill, a deuai ambell bregethwr atynt yn achlysurol. Yr oedd Mr. Phillip Griffiths, Alltwen, yn mysg yr ychydig ffyddloniaid yma, yn ddyn ieuangc llawn bywiogrwydd a gwres crefyddol. Deuai Mr. Morgan Lewis i bregethu iddynt bob mis ar nos Fawrth, ac wrth weled yr achos yn myned rhagddo mor llwyddianus, ac yn cael ffafr yn ngolwg

* Yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau yr hanes uchod, yn enwedig y rhan flaenaf, i ysgrif Mr. P. Griffiths, Alltwen, a ymddangosodd yn y *Diwygiwr*, 1849. Tu dal. 107.

trigolion y Cwm, penderfynwyd symud o Abernant-y-fedwen i Gwmnedd, ac agorodd un Jenkin Morgan, Maesmarchog, ei dŷ i dderbyn yr Arch. Cafwyd trwydded ar y tŷ rhag i neb gymeryd eu rhyddid i aflonyddu arnynt, symudodd Mr. Morgan Lewis i Gwmnedd i fyw, ac yr oedd cael ei bresenoldeb cyson yn mhob moddion yn help mawr i'r achos yn ei gychwyniad. Torodd diwygiad grymus allan yn fuan ac ychwanegwyd degau at yr achos, llawer o ba rai a fu yn addurn i'w proffes hyd angau. Aeth tŷ Jenkin Morgan yn llawer rhy fychan ar ol hyny, a soniwyd llawer am gael capel, ond yr oedd cael tir i'w osod i lawr yn anmhosibl ar y pryd. Ogylch y flwyddyn 1816, trwy ganiatad cwmpeini Camlas Cwmnedd, cafwyd benthyg ystordy helaeth oedd yn eiddo iddynt; ac er nad oedd yr hen Storehouse ond lle cyffredin, etto yr oedd yn gaffaeliad gwerthfawr o dan yr amgylchiadau yr oeddynt ynddynt. Wedi bod yma am flynyddau, a'r achos yn myned rhagddo yn llwyddianus, daeth angen y Storehouse ar y cwmpeini, gan fod eu masnach yn ymeangu; ond rhoddwyd rhyddid i'r eglwys os mynant i roddi llofft ar yr ystordy ac y caent ei gwasanaeth, gan mai y gwaelod yn unig oedd yn angenrheidiol ar y cwmpeini. Derbyniwyd y cynyg gyda diolchgarwch, a dechreuwyd ar y gwaith yn ddioed. Gwnaed hi yn ystafell eang a chyfleus iawn, gyda phulpud a meingciau ynddi, a grisiau oddiallan i fyned iddi. Bu yr eglwys yn ymgynnull yma am lawer o flynyddoedd, ac nid yn fuan yr anghofir, gan y rhai a'u mwynhaodd, y cyfarfodydd hwyliog a melus a gafwyd ynddi. Bendithiwyd yr eglwys a diwygiad grymus, ac ychwanegwyd ugeiniau o bobl i'r Arglwydd. Llawer gwaith y gwelwyd llawr yr ystafell yn plygu gan fel y byddai plant y diwygiad yn neidio ac yn gorfoleddu. Yr oedd yr eglwys yn un o'r rhai mwyaf nodedig am ei gwres crefyddol, ac ni roddid ganddi fawr gwerth ar yr ymborth a gynygid iddi o'r pulpud os na byddai yn iach ac yn dwymn. Wedi disgwyl am flynyddau, cafwyd o'r diwedd dir ar brydles o 999 o flynyddoedd i adeiladu capel arno gan W. Williams, Ysw., Aberpergwm, ar un o'r llanerchau prydferthaf a mwyaf swynol yn yr ardal, a chodwyd capel hardd arno yn mesur 46 troedfedd wrth 32 troedfedd, ac y mae mynwent helaeth yn nglyn ag ef yr hon sydd wedi ei hamgylchynu a choed, fel y mae y capel a phob peth cysylltiedig ag ef yn ddymunol i'r golwg. Costiodd fil o bunau. Galwyd ef "Addoldy Glynnedd." Agorwyd ef yn y flwyddyn 1839. Wedi myned i'r capel newydd teimlodd yr hen weinidog, Mr. Morgan Lewis, fod ei nerth yn gwanhau, gan ei fod yn awr ar fin pedwar ugain oed; a thua'r flwyddyn 1843, daeth Mr. David Williams, Tredwstan i'r ardal i fod yn gynorthwywr iddo. Bu Mr. Williams yma yn llafurio gyda gradd o gymeradwyaeth am fwy na thair blynedd; ond gan nad oedd yr eglwys yn unol drosto, rhoddodd ei le i fyny. Cyn diwedd haf 1846, rhoddwyd galwad i Mr. John Morgan Thomas, aelod o Gwmllynfell, ond a fuasai am dymor dan addysg yn Hanover, ac urddwyd ef Hydref 13eg a'r 14eg, y flwyddyn hono. Ar yr achlysur gweinyddodd Meistri J. Bowen, Penywaun; E. Jacob, Abertawy; R. Pryse, Cwmllynfell; J. Williams, Ty'nycoed; E. Watkins, Canaan; W. Williams, Hirwaun; Ll. R. Powell, Hanover; P. Griffiths, Alltwen; W. Edwards, Aberdar; E. G. Williams, Ysgetty; D. Evans, Castellnedd; E. Rowlands, Pontypool; J. Thomas, Cefncribwr; J. Davies, Mynyddbach; W. Morris, Glandwr; D. Rees, Llanelli, a J. Davies, Hanover.* Ni bu yr hen weini-

* *Diwygiwr*, 1846. Tu dal. 379.

iog. Mr. M. Lewis byw ond ychydig ar ol urddo Mr. Thomas, canys bu fawr Rhagfyr 21ain, 1846, yn 85 oed; ond llonwyd ei galon yn fawr fod an wedi ei ddewis yn olynydd iddo oedd wrth fodd calon yr holl bobl. Bu adfywiad neillduol ar y canu, ac ar yr Ysgol Sabbothol yn y tymor byr y bu Mr. Thomas yn weinidog yma, a derbyniwyd cryn nifer o ieuengctyd y gynnulleidfa yn aelodau o'r eglwys. Llai na thair blynedd yr arhosodd Mr. Thomas yma, canys derbyniodd alwad o New York, America, ac ymfudodd yno yn Gorphenaf, 1849.

Cyn diwedd y flwyddyn hono derbyniodd Mr. John Thomas, Bwlchnewydd alwad gan yr eglwys, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Chwefror, 1850; a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Ebrill 17eg a'r 18fed. Tymor marwaidd ar fasnach y lle oedd y tymor y bu Mr. Thomas yma, a gorfodwyd llawer o deuluoedd i ymadael, yr hyn a effeithiodd ar yr eglwys a'r gynnulleidfa; ond daliodd yr achos ei dir er hyny, ac yn y cyfnod yma y talwyd y gweddill dyled oedd yn aros ar yr addoldy. Yn niwedd y flwyddyn 1853, derbyniodd Mr. Thomas alwad o'r Tabernacle, Liverpool, a symudodd yno yn nechreu y mis Mawrth canlynol. Wedi bod am flwyddyn yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, rhoddwyd galwad i Mr. John Thomas (Ieuan Morganwg), yr hwn a urddwyd yma Gorphenaf 25ain a'r 26ain, 1855. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri E. Griffiths, Abertawy; D. Price, Aberdar; J. Thomas, Bryn; D. Jones, Bethlehem; E. Jones, Myddfai; J. Thomas, Aberdar; D. Roberts, a J. Hughes, Dowlais; P. Griffiths, Alltwen; W. Williams, Hirwaun; D. Evans, a J. Mathews, Castellnedd; T. Davies, Llanelli; J. Davies, Aberaman, a W. Edwards, Aberdar.* Bu Mr. Thomas yma yn barchus a derbyniol am yn agos i dair blynedd, ond gan nad oedd ei iechyd yn gryf rhoddodd i fyny ei ofal gweinidogaethol ac ymneillduodd i drigianu i'r Mumbles, gerllaw Abertawy. Ar ol bod drachefn am fwy na blwyddyn heb weinidog, rhoddwyd galwad i Mr. David Williams, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Mawrth 1af a'r 2il, 1859. Ar yr achlysur gweinyddodd Meistri B. Thomas, Gurnos; D. Thomas, Pentre-estyll; E. Evans, Sciwen; J. Cunnick, Aberdar; P. Griffiths, Alltwen; J. Mathews, Castellnedd; J. Rees, Moriah-Aman; D. Price, Aberdar; R. Lewis, Ty'nycoed; W. Humphreys, Cadle; W. Williams, Hirwaun; W. Watkins, Maesteg, ac S. Davies, Aberdar.† Cafodd Mr. Williams dymor llwyddianus yma. Yr oedd masnach yr ardal yn myned yn dda ar y pryd, a llawer o bobl yn dyfod i'r lle, ac ychwanegwyd o honynt, yn gystal ac o blant y gynnulleidfa, lawer o bobl i'r Arglwydd. Bu Mr. Williams yma hyd y flwyddyn 1862, pryd y derbyniodd alwad gan eglwysi Rhydybont, Capelnoni, a Brynteg, ac y symudodd yno. Yn nechreu y flwyddyn 1863, rhoddwyd galwad i Mr. Rees Morgan, Llechryd, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma yn ddioed, ac a fu yma yn dderbyniol a llwyddianus hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pryd y symudodd i Bethlehem, St. Clears, ac er hyny hyd yn hyn (Tachwedd, 1871,) y mae yr eglwys yn amddifad o weinidog. Gwelir fod yr eglwys hon wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau yn y deng-mlynedd-ar-hugain diweddaf, yn enwedig gyda symudiadau mynych ei gweinidogion, ond y mae yr achos er y cwbl yn dal ei ffordd, ac yn ychwanegu cryfder, ac mewn cystal gwedd yn awr ag y gwelwyd ef o gwbl.

* *Diwygiwr*, 1855. Tu dal. 283. † *Diwygiwr*, 1859. Tu dal. 153.

Mae i'r eglwys hon er ei sefydliad amryw ganghenau lle y cynhelir Ysgolion Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a chyfeillachau. Cyfarfyddent mewn tai anedd ar y Banwaen, Penwaenmarchog, Pontwhalby, a Chwmgwrach. Bu y ganghen yn y lle olaf a enwyd yn gref unwaith pan yr oedd gweithiau haiarn a glo y lle yn myned yn mlaen yn dda; ond siomwyd disgwyliadau y rhai mwyaf hyderus yn nglyn a'r gweithfaoedd hyny. Soniwyd llawer o bryd i bryd am godi capel yno, ond yr anhawsder oedd cael tir, ond yn y flwyddyn 1862, aeth Mr. Williams, Hirwaun at N. E. Vaughan, Ysw., Rheolau, i ymofyn am ddarn o dir, a chafwyd ef yn ddinacad, am yr ardreth isel o swllt y flwyddyn. Adeiladwyd yma gapel bychan cyfleus, ac agorwyd ef Ionawr 18fed a'r 19eg, 1863, pryd y pregethwyd gan Meistri D. Williams, Rhydybont; R. Morgan, Llechryd; J. Mathews, Castellnedd; R. Lewis, Ty'nycoed; D. Thomas, Ystradfellte, a W. Williams, Hirwaun.* Mae Capel Cwmgwrach yn parhau yn ganghen o Glynnedd, lle y cynhelir pob moddion yn rheolaidd, ond nid oes eglwys wedi ei chorpholi ynddo.

Mae eglwys Glynnedd wedi bod yn nodedig yn mysg eglwysi yr enwad am ei gwres crefyddol. Dechreuodd mewn adeg fywiog, ac yr oedd ei hen weinidog cyntaf, a'r hwn a adawodd ei ddelw yn ddwfn arni, yn ddiarhebol am ei danbeidrwydd a'i angerddoldeb. Ymlynai yr hen dô cyntaf yn dỳn wrth hen athrawiaethau yr efengyl; ac er nas gallesid eu cyfrif yn rhai eang eu gwybodaeth, etto, yr oedd taflod eu genau yn deall camflas, ac nid anghofir gan y rhai a'u gwelodd, yr olwg foddhaol a fyddai arnynt pan yn gwledda ar frasder yr efengyl. Aeth Thomas, brawd Mr. Williams, Hirwaun, adref yn orfoleddus yn ngwres ei gariad cyntaf. Sion Hopkin, Blaengwrach oedd un o'r rhai mwyaf tanllyd ei ysbryd. Sion Siencyn a fu yn ddiacon ffyddlon am oes hir; ac nid oedd yn yr eglwys neb o gyffelyb feddwl, yr hwn a wir ofalai am yr achos, ac er nad oedd yn un o'r rhai mwyaf tanllyd, etto, pan y cyffyrddid a'i galon, byddai ei "amen" a'i "o diolch" gwefreiddiol yn ysgwyd yr holl le. Llawer brwydr galed fu rhwng William Morgan, Penmarc a'r diafol, cyn cael y goncwest arno. Richard Dafydd oedd un o'r dynion diniweitiaf a charedicaf, ac er nad oedd ond anllythrenog hollol, etto, anaml y gwrandawsom neb mor flasus a gafaelgar mewn gweddi. Yr oedd yma hefyd lawer o wragedd rhagorol gynt, ac er nas gallwn eu crybwyll oll, etto, y mae enw Margaret Williams (neu modryb Peggy, o'r Banwaen, fel yr arferid ei galw), yn haeddu cofnodiad parchus. Llawer gwaith y gwelsom hi wrth wrando a'i theimladau yn ymgroni o'i mewn, ac wedi hir ymatal torai allan yn fonllef uchel; ac yr oedd dylanwad ei chymeriad da yn gyfryw fel y cerddai trydan oddiwrthi i'r holl gynnulleidfa. Magodd deulu lluosog o fwy na deuddeg o blant i'w cyflawn faintioli, er fod eu tad am lawer o flynyddau olaf ei oes yn gorwedd ar ei glaf wely, o afiechyd poenus; ac wedi ei gladdu, ymfudodd hi a'i theulu mawr i America, lle y bu hithau farw, ond y mae y rhan fwyaf o'i phlant yn aros etto yn aelodau defnyddiol yno mewn gwahanol eglwysi. Nid oes ond ychydig o hen deulu y Storehouse yn aros, ac er fod eu holynwyr yn amddifad o'u tân a'u gwres hwy, etto, y mae yn y plant lawer o ragoriaethau nad oedd yn eu tadau, ac y maent yn cario crefydd ymarferol yn mlaen yn llawer mwy effeithiol; ond pe gellid uno yn nghyd wres crefyddol yr hen dô, a threfnusrwydd ymarferol y tô presenol byddai yn gydgyfarfyddiad hapus.

* *Diwygiwr*, 1863. Tu dal. 56.

Digitized by Google

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Richard Jones. Urddwyd ef yn Cymer-glyn-corwg, a bu wedi hyny yn Cwmogwr, lle y daw ei hanes dan ein sylw.

Evan Pritchard. Urddwyd ef yn Sgethrog, sir Frycheiniog, lle y bu lawer o flynyddoedd; ac y mae yn awr yn byw yn Sciwen, ac er nad oes ganddo ofal eglwysig y mae yn pregethu fynychaf bob Sabboth.

William Williams. Urddwyd ef yn Nhredwstan, ac y mae yn Hirwaun bellach er's deuddeng mlynedd-ar-hugain.

William Griffiths. Urddwyd ef yn Cerig-cadarn, ac y mae yn awr er's blynyddau wedi rhoddi ei ofal gweinidogaethol i fyny, ac wedi ei dderbyn ar Drysorfa yr hen weinidogion.

David Price. Urddwyd ef yn Siloa, Aberdar er's wyth-mlynedd-ar-hugain yn ol, ac yno y mae yn aros etto.

Thomas E. Evans. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Rhosllanerchrugog, a symudodd oddiyno i Booth-Street, Manchester, a bu farw yn mlodeu ei ddyddiau. Daw ei hanes ef yn nglyn a Booth-Street, Manchester.

John E. Evans. Bu yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn Merthyr-cynog.

John M. Evans. Aeth at y Bedyddwyr, ac wedi hyny i'r America, lle y mae etto.

John Rogers. Addysgwyd ef yn athrofa y Bala. Urddwyd ef yn Pant-teg, ger Caerfyrddin, ac y mae yn awr yn Jerusalem, Penbre.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Morgan Lewis. Ganwyd ef Medi 29ain, 1761, yn y Creunant, yn mhlwyf Llangattwg, gerllaw Castellnedd. Yr oedd yn un o chwech o blant, a'i chwaer ieuengaf ef oedd gwraig y diweddar Mr. Jonathan Powell, Rhosymeirch, Mon. Bu farw ei dad a'i fam pan nad oedd ef ond plentyn, ond trwy garedigrwydd boneddiges yn ei gymydogaeth—Mrs. Llewellyn, Ynyscedwyn—rhwymwyd ef i ddysgu y gelfyddyd o ddilledydd, a bu yn dilyn y gelfyddyd hono am lawer o flynyddoedd. Pan oedd tua 16 oed teimlodd argraffiadau crefyddol dwysion iawn ar ei feddwl, o dan bregeth Mr. John Evans, Cilcwm, pregethwr perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd; ac yn ddioed ymunodd a'r Methodistiaid yn y Creunant, ei bentref genedigol. Ymaflodd mewn crefydd ar unwaith, a hyny a'i holl egni; ac yr oedd ei ddawn gweddi yn tynu sylw pawb a'i clywai. Yn y flwyddyn 1784, penodwyd ef i fyned yn gyfaill i Mr. John Thomas, Risca, ar daith trwy y gogledd, er nad oedd etto wedi dechreu pregethu. Wrth glywed ei ddawn gweddi cymhellid ef yn mhob man i bregethu, ac ar gais taer y blaenoriaid yn Towyn, Meirionydd, pregethodd ei bregeth gyntaf oddiar y geiriau "A chan ddechreu ar Moses a'r holl brophwydi, efe a esboniodd iddynt yn yr holl Ysgrythyrau y pethau am dano ei hun;" ac o hyny yn mlaen pregethai ychydig o flaen Mr. J. Thomas yn mhob man. Wedi dyfod i sir Fon, digwyddodd fod Cyfarfod Misol yn y lle yr oeddynt un diwrnod, a chyhoeddwyd y ddau ŵr dyeithr o'r Deheudir i bregethu am ddeg o'r gloch yr ail ddiwrnod. Aeth Morgan Lewis yn ddigalon iawn, a thorodd allan i wylo wrth feddwl am bregethu yn y fath le. Cymerodd

Digitized by Google

Mr. John Jones, Bodynolwyn dosturi arno, a dywedodd wrtho am iddo beidio digaloni, ac y cai ddechreu yr oedfa, ac y pregethai ef yn ei le, ond wrth ei glywed yn gweddio gyda'r fath afael a gwres, penderfynodd John Jones y mynai gael ganddo bregethu; ac felly y bu, ac ni adawyd ef iddo ei hun. Wedi dychwelyd adref o'r daith hon, ni soniodd Morgan Lewis na'i gyd-deithiwr wrth neb ei fod wedi pregethu o gwbl yn y gogledd; ond yn fuan ar ol hyn daeth Mr. John Jones, Bodynolwyn ar daith trwy y Deheudir, ac yn Nghastellnedd efe a ymofynodd am y pregethwr ieuangc, ac wedi ei ddesgrifio deallodd y bobl mai Morgan Lewis, o'r Creunant ydoedd; ac heb gymaint a gofyn ei genad cyhoeddwyd ef i bregethu yn Nghastellnedd y Sabboth canlynol. Pregethai o hyny allan yn mhob man y gelwid am dano, ac elai ar deithiau i wahanol ranau y wlad. Yn y flwyddyn 1791, priododd a dynes ieuangc rinweddol yn nghymydogaeth Llanymddyfri, ac aeth i fyw i'r Bailidu gerllaw yno. Blinid ef yn y blynyddau hyn oblegid yr angenrheidrwydd a roddid ar y Methodistiaid i fyned i gymuno i'r Eglwysi Plwyfol; ac yn aml gorfodid hwy i dderbyn yr elfenau o law offeiriaid drwgfucheddol. Unwaith ar adeg o ddiwygiad grymus yr oedd Morgan Lewis yn Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, yn pregethu, a'r Sabboth hwnw yr oeddynt, ar ol yr oedfa, i fyned i'r eglwys i gymuno. Yr oedd yno hen offeiriad digrefydd o'r enw Mr. Cobner, a dyn ieuangc, yr hwn oedd yn rhyw berthynas iddo, yn ei gynnorthwyo. Yn ngwres eu teimladau wrth gofio angau Crist, torodd plant y diwygiad allan i neidio a gorfoleddu. Cynhyrfodd yr hen berson, ac er ei fod wrth ei ddwy ffon, ac ar fin ei fedd, gwaeddai yn groch "Hwy ddrylliant y corau a'r eglwys. Gyrwch y diawliaid m'as. Cerwch m'as. Beth mae y diawliaid yn briwo y tŷ?" a llawer o gabl-eiriau cyffelyb. Penderfynodd Morgan Lewis yn y fan nad elai i'r Eglwys i gymuno byth ond hyny, ac nid hyny yn unig, ond nad arhosai yn hwy yn y cyfundeb ag oedd yn gosod ei aelodau mewn perygl i oddef y fath sarhad. Yr oedd wedi bod gyda'r Methodistiaid am ddwy-flynedd-ar-hugain, ac am bymtheg o'r rhai bu yn tramwy yn eu mysg yn pregethu teyrnas Dduw. Yn y flwyddyn 1800, ymunodd a'r Annibynwyr yn Mhentretygwyn, ac wedi ei dderbyn ar foreu Sabboth gan Mr. Evan Harris, y gweinidog, pregethodd y prydnawn, ac am ysbaid blwyddyn ar ol hyny pregethai yn fynych yn eglwysi cwr uchaf sir Gaerfyrddin, ac yn aml elai drosodd i sir Forganwg. Yn 1801, derbyniodd alwad o Godrerhos, gerllaw y Creunant lle y magesid ef, ac urddwyd ef yno, ac yr oedd Mr. J. Davies, Alltwen, a Mr. D. Davies, Abertawy, yn mysg eraill, yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth. Cyn hir wedi iddo symud i Godrerhos, cymerodd hefyd ofal Ty'nycoed a Hermon, Ystradfellte, a bu am ysbaid yn barchus a defnyddiol yn ei gylch eang, ond nid hir y bu cyn i gymylau duon ei orchuddio. Bu farw ei wraig ar ol cydfyw yn hapus am bymtheng mlynedd, ac nid oedd hyny ond dechreuad gofidiau iddo gyda'i bum' plentyn amddifad. Priododd drachefn yn 1810 ag un Margaret Watkins, aelod o Dy'nycoed. Yn fuan ar ol hyn darfu ei gysylltiad a Thy'nycoed, ac yr oedd ei gysylltiad a Godrerhos wedi darfod cyn hyny, fel nad oedd ganddo mwyach ond Hermon dan ei ofal, ac yn yr adeg yma y trowyd ei sylw at Gwmnedd, ac y penderfynodd godi achos yno, ac fel y gwelsom nid ofer fu ei lafur, ac yr oedd Glynnedd, Hermon a Rhigos—lle arall a ddechreuwyd ganddo—dan ei ofal hyd nes y gorfodwyd ef gan lesgedd a gwendid henaint i roddi y weinidogaeth i fyny. Daliodd i bregethu hyd o fewn tair blynedd i'w farwolaeth, ac wedi methu

Digitized by Google

myned i'r addoldy i bregethu, pregethai, cynghorai, ac areithiai ar Ddirwest yn ei wely i'r rhai a ymwelent ag ef. Yr oedd y ddiod feddwol wedi bod yn brofedigaeth iddo yn mlynyddoedd boreuaf ei weinidogaeth, er ei fod flynyddoedd cyn bod son am Ddirwest yn llwyrymwrthodwr hollol, a phan y clywodd am y gymdeithas yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i arwyddo yr ardystiad. Yr oedd yr achos yn agos at ei galon hyd ei ddyddiau olaf, ac nid oedd dim a lonai ei galon yn fwy na chlywed newyddion da am lwyddiant crefydd. Bu farw Rhagfyr 21ain, 1846, yn 85 oed, wedi bod yn proffesu crefydd am yn agos i dri-ugain-a-deg o flynyddau, ac yn pregethu yr efengyl am ddwy-flynedd-a-thriugain, a chyfrif y tair blynedd olaf o'i oes, y bu yn fethiedig. Claddwyd ef ar ddydd Nadolig y flwyddyn hono. Gweinyddwyd cyn cychwyn o'r tŷ gan Mr. W. Williams, Hirwaun, ac yn yr addoldy, dechreuwyd gan Mr. E. G. Williams, Ysgetty, a phregethodd Meistri J. Williams, Ty'nycoed, a P. Griffiths, Alltwen, a dodwyd yr hyn oedd farwol o Morgan Lewis yn nhy ei hir gartref.

Dyn bychan, egwan, eiddil o gorph oedd Morgan Lewis, gwylaidd a gostyngedig dros fesur, cyfrifai ei hun yn llai na'r lleiaf. Nid rhodres ynddo oedd dyweyd hyny, ond felly y teimlai, a chariai ei ostyngeiddrwydd i'r fath eithafion nes yr oedd yn wasaidd i bawb. Ni fynasai er dim wneyd dolur na pheri tramgwydd i neb. Y peth hynotaf yn nglyn ag ef oedd, fod dyn mor hynaws a thirion ei dymherau mor selog a thanllyd gyda chrefydd. Llosgai fel tân yn y fan y deuai i gysylltiad a phethau crefydd, ac yr oedd ei holl enaid yn fflam angherddol. Ysbryd ei weinidogaeth oedd yn gosod hynodrwydd arni. Ni chafodd fawr fanteision addysg, ac nid oedd cylch ei ddarlleniad ond cyfyng, oblegyd ychydig o lyfrau Cymreig oedd yn ei dymor boreuol ef. Nid oedd o ddeall cryf i dreiddio yn ddwfn i bethau yr efengyl, ac nid oedd byth yn amcanu at hyny; arosai yn wastad gyda'r pethau amlwg, ac etto byddai rhyw eneiniad rhyfedd weithiau ar ei bregethau, a phan y cai yr awel o'i du nid oedd dim a safai o'i flaen, a rhyw fodd byddai yr awel o'i du agos yn wastad. Pan y byddai pawb yn mron yn oer a dihwyl, byddai tân ar aelwyd Morgan Lewis, ac nid yn fynych y lledai ei hwyliau na chai y gwynt o'i du. Adroddir am gymanfa a gynhelid yn Abertawy, yn nyddiau yr enwog David Davies, yn yr hon yr oedd amryw o gedyrn y weinidogaeth, ond er hyny nid oedd myn'd ar ddim. Dilewyrch iawn oedd oedfaeon y dydd cyntaf, a saith a deg yr ail ddydd, a theimlai Mr. Davies yn ddwys o herwydd hyny. Yn yr oedfa ddau o'r gloch aeth Mr. Davies at Morgan Lewis, a dywedai fod yn rhaid iddo bregethu. Mynai ef ymesgusodi am ei fod yn ymyl i'w gartref, a bod yno lawer o rai dyeithrach ac enwocach, ond ni fynai Mr. Davies ei omedd, ac i fyny i'r pulpud y bu raid iddo fyned rhwng bodd ac anfodd. Teimlai llawer yn y dorf yn siomedig wrth weled y fath greadur bychan diolwg yn myned i fyny, ei bod yn ddigon dilewyrch yn barod, a thybiant mai waethwaeth yr âi gydag ef. Ond nid cynt yr agorodd ei enau nag yr argyhoeddwyd hwy oll eu bod wedi camgymeryd. Darllenodd ei destyn mewn llais uchel, gwichlyd braidd, ond gyda thynerwch cwynfanus un yn teimlo i'r byw—"Pa le y mae Arglwydd Dduw Elias?" Cerddodd ei eiriau fel trydan trwy y lle, ac yr oedd y dorf oll ar eu traed mewn munyd, a phawb yn barod i ddywedyd, "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn." Gallesid crybwyll engreifftiau eraill o ddylanwad grymus gwres ei weinidogaeth; a llwyddodd yn arbenig i gadw cynearwydd crefyddol yn mysg pobl ei ofal, oblegid yr oedd hyny yn nodweddu ei gyfeill-

Digitized by Google

ach a'i ymddiddanion yn gystal a'i bregethau; a gobeithio fod y dydd yn mhell pan y gwelir yr elfen yna wedi ei cholli o grefydd Cymru.*

JOHN THOMAS. Ganwyd ef yn y Cwmdubach, gerllaw Caerfyrddin, Ebrill 13eg, 1811. Enwau ei rieni oedd John a Phoebe Thomas. Collodd ei dad pan yn ieuangc, a disgynodd gofal ei ddygiad i fyny yn gwbl ar ei fam, yr hon oedd yn wraig grefyddol, ac yn aelod o'r eglwys yn Heol Awst, Caerfyrddin. Pan yn ieuangc symudodd i sir Forganwg, a derbyniwyd ef yn aelod yn Bethania, Dowlais, gan Mr. Evans, Soar, Merthyr, tua'r flwyddyn 1829. Tra yn Dowlais ymgododd i barch ac ymddiried gyda'i feistri fel y gwnaed ef yn isoruchwyliwr, ond nid effeithiodd hyny mewn un modd er peri iddo golli ei ddyddordeb gyda phethau crefyddol. Cymerai ran flaenllaw gyda'r achos yn ei holl ranau, ac yn enwedig mewn egwyddori y bobl ieuaingc mewn cyfarfodydd wythnosol, ac yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn yr adeg yma y talodd sylw i lenyddiaeth Cymreig, a chyrhaeddodd fesur o enwogrwydd fel bardd a llenor, ac yr oedd yn adnabyddus wrth y ffugenw Ieuan Morganwg. Dewiswyd ef yn ddiacon yn Bethania, Dowlais, ac yn y cyflawniad o'i swydd ennillodd iddo ei hun radd dda. Yn y flwyddyn 1844, penodwyd ef yn oruchwyliwr ar waith haiarn yn Walker, gerllaw New-Castle-on-Tyne. Symudodd yno yn niwedd y flwyddyn 1844; ac ymgododd i barch a dylanwad mawr gan y meistri a'r gweithwyr. Yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi ei fynediad yno, dilynwyd ef gan nifer o Gymry crefyddol, phenderfynwyd cychwyn achos Cymreig yn y lle; ac yn y flwyddyn 1848, ar anogaeth ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan fwy na phedwar ugain o bersonau, dechreuodd bregethu. Cydsyniodd a'r cais heb feddwl dim ar y pryd am ymgymeryd byth a gofal gweinidogaethol. Wedi treulio amryw flynyddau yn Walker yn barchus gan bawb, meddyliodd am ddychwelyd i Gymru, ac yn 1853, symudodd i Lanelli, lle y bwriadai unwaith gychwyn gwaith mewn cysylltiad ag eraill, ond rhoddodd y bwriad hwnw i fyny, ac yn 1855, derbyniodd alwad gan yr eglwys yn Glynnedd, ac urddwyd ef yno i holl waith y weinidogaeth. Yr oedd Mr. Thomas uwchlaw deugain mlwydd oed pan y sefydlodd yn Glynnedd; ac er ei fod yn ddyn gwybodus a deallgar—yn llenor rhagorol—yn fardd gwych—ac yn dra chyfarwydd ag areithio ar gwestiynau cyhoeddus, etto, yr oedd darparu pregethau erbyn pob Sabboth, a chyflawni dyledswyddau eraill y weinidogaeth, yn fwy nag a allasai ei gyfansoddiad ddal, ac oblegid hyny, barnodd yn ddoethach ymryddhau o'i ofalon gweinidogaethol, er y pregethai ar ol hyny bob amser y caffai gyfleustra, ac yr oedd fel pregethwr, yn dderbyniol a chymeradwy, yn enwedig gan bobl ddeallgar. Symudodd i fyw i'r Mumbles, gerllaw Abertawy, gan dybied y buasai yn fanteisiol i'w iechyd; ac wedi hyny aeth i Gaerfyrddin, a chyn hir adeiladodd dŷ cyfleus iddo ei hun mewn llecyn iach ychydig allan o'r dref, yr hwn a alwodd yn Fountain Villa. Pregethai Mr. Thomas agos bob Sabboth yn rhywle, ac yn ychwanegol at hyny, cyfansoddai ddarnau mewn rhyddiaeth a barddoniaeth; a golygai farddoniaeth y *Diwygiwr*, fel yr oedd ganddo rhwng y cwbl ddigon o waith i gymeryd i fyny ei amser. Cydnabyddir ef, gan y rhai a'i hadwaenai oreu, yn ddyn o egwyddorion pur a gonest, ac yr oedd ei gymeriad moesol trwy ei oes yn hollol uwchlaw anmheuaeth. Nid effeithiodd ei lwyddiant bydol er peri iddo anghofio ei hun, ac yr oedd yn wastad yn barod i gynorthwyo pob

* Cofiant Mr. Morgan Lewis, gan Mr. P. Griffiths, Alltwen.

Digitized by Google

achos da a ddeuai ar ei ofyn. Addawai iddo ei hun ddyddiau da ar ol codi ei dŷ newydd yn Fountain Hall, ond dyryswyd ei holl amcanion yn annisgwyliadwy ag un ergyd gan angau. Aeth i gyfarfod urddiad Mr. T. G. Jones yn Gwernogle, a phan yn pregethu yno prydnawn dydd Mercher, Awst 3ydd, 1870, cymerwyd ef yn glaf; a phan yn enwi y pen diweddaf o'i bregeth, dywedodd, "Nis gallaf fyned yn mhellach," ac eisteddodd i lawr. Ymlusgodd i lawr o'r pulpud, ond yr oedd yn ymddangos heb nerth ynddo. Cariwyd ef i dŷ gerllaw, ac yn mhen ychydig o fynudau hunodd yn yr angau, mewn tawelwch perffaith, yn nghanol nifer o'i frodyr gweinidogaethol, yn 58 oed. Nid yn aml y cymerodd marwolaeth gweinidog le dan amgylchiadau mor ddifrifol; ac nid oes achos ychwanegu i'r newydd galarus beri prudd-der a sobrwydd cyffredinol.

## ZOAR, CASTELLNEDD.

Yn mhen tua thair blynedd wedi i Mr. Daniel Griffiths gael ei urddo yn Maesyrhaf, a phan yr oedd ei boblogrwydd a'i lwyddiant wedi ei ddyrchafu i sylw yr holl wlad; yn annisgwyliadwy i bawb dygwyd cyhuddiad difrifol yn ei erbyn gan ferch ieuangc—megis y crybwyllasom eisioes yn hanes Maesyrhaf—yr hyn a barodd ofid a thristwch cyffredinol. Nid oes achos i ni yma fyned i mewn i fanylion yr amgylchiad gofidus hwnw. Y mae Mr. P. Griffiths, Alltwen, yr hwn oedd yn gydnabyddus hollol a'r amgylchiad, wedi cyfeirio yn helaeth ato yn y cofiant a gyhoeddodd i Mr. Daniel Griffiths, ac o'r cofiant hwnw y cymerwn sylwedd y cwbl a ysgrifenwn ar y digwyddiad pruddaidd. Pan aeth y sibrwd allan, galwyd Mr. Griffiths ger bron yr eglwys, a rhoddwyd y cyhuddiad i'w erbyn, ac annogwyd ef i beidio pregethu hyd nes y deuai rhyw oleuni ychwanegol ar ei achos. Yn yr ysbaid y bu heb bregethu, magwyd llawer o dybiaethau, a rhagfarnau, a phleidiau, rhai drosto a rhai yn ei erbyn, ond yr oedd lluaws yn awyddu am ei weled a'i draed yn rhydd fel cynt. Gan ei fod yn byw yn nes i Felinycwrt, yr eglwys lle y derbyniwyd ef gyntaf, nag i Gastellnedd, yno y cyrchai yn benaf yn yr adeg y bu heb bregethu; ac ar gymhelliad yr eglwys yno, a chefnogiad rhai gweinidogion ac eraill, ailddechreuodd bregethu, er fod yr eglwys yn Maesyrhaf yn gwrthwynebu hyny. Wedi iddo ddechreu pregethu yn Melinycwrt, cyrchai amryw o'r dref yno i'w wrando, a gwahoddent ef i'w tai i bregethu, yr hyn a wnaeth wedi ymgynghori a rhai o'r gweinidogion cylchynol. Ar ol iddo ddechreu pregethu mewn tai yn Nghastellnedd ymdyrai y lluaws i wrando arno, fel na chynwysai y tai y rhai a ddeuai yn nghyd; ond yr oedd y rhwyg rhyngddo ef a'r eglwys yn Maesyrhaf, trwy hyny, yn myned yn fwy a'r anhawsder i'w gyfanu yn ychwanegu. Yr oedd y rhan fwyaf o'r gweinidogion yn cymeryd plaid yr eglwys; ond glynai nifer o honynt yn ffyddlon wrth Mr. Griffiths a'i bobl. Cymerwyd ganddynt hen *Coach-house* ar ardreth, ac adrefnwyd ef yn lle cyfleus at bregethu, a galwyd ef "Zoar fach," ac agorwyd ef Awst 29ain, 1826, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri Morgan Lewis, Cwmnedd; Joseph Harrison, Aberdar; Joshua Evans, Cymer; David Jones, Taihirion; Roger Howells, Baran; Phillip Griffiths, Alltwen, a Richard Jones, Cymer-glyn-corwg. Bu mynediad y gweinidogion hyn i agor y lle yn achlysur i rwygo y cyfundeb, ac mor gryf oedd y teimladau fel na dderbynid i lawer o bulpudau yn y wlad, neb a elai i bregethu at Daniel

Digitized by Google

Griffiths a'i blaid, neu i gapelau neb o'i gefnogwyr. Ond yr oedd teimladau yn iachau yn raddol, a phoblogrwydd Mr. Griffiths yn ennill iddo bleidwyr ychwanegol, ac yn lladd rhagfarn ei wrthwynebwyr; ac yn enwedig yr oedd yr achos newydd yn Zoar fach yn myned rhagddo yn llwyddianus dan ei weinidogaeth; ac yn nghymanfa y tair sir a gynhaliwyd yn Taihirion, yn 1827, cyhoeddwyd heddwch rhwng y ddwy blaid, ac felly y terfynodd yr ymrafael blin a gofidus hwnw.

Yr oedd Zoar fach ar y dechreu yn llawer rhy gyfyng i gynwys y lluoedd a ddeuai i wrando Mr. Griffiths, ac oblegid hyny, heb golli dim amser, aed i chwilio am dir at adeiladu capel. Wedi methu mewn dau neu dri o fanau y gofynwyd am danynt; prynodd Rowland Thomas, Ysw., tad-yn-nghyfraith Mr. Griffiths, ddarn helaeth o dir yn 1827, gan James Coke, Ysw., am 160p., a rhoddodd ddarn mawr o hono at gapel a mynwent. Am fod y tir yn llaith, aeth y draul yn fawr wrth gloddio am sylfaen safadwy. Ar osodiad y gareg sylfaen cynaliwyd cyfarfod pryd yr anerchwyd y dorf gan Mr. Griffiths, y gweinidog, a chan Mr. Griffiths, Alltwen, a Mr. Howells, Baran, ac eraill. Ar yr un dydd claddwyd gwraig Dafydd Henry o'r Fynachlog, yn y fynwent newydd, ac felly dechreuwyd adeiladu a chladdu yr un pryd. Mesuriad y capel yw 55 troedfedd wrth 45. Yr oedd, pan yr adeiladwyd ef, yn un o'r addoldai harddaf a helaethaf yn y sir, ac y mae etto ar ol cael ei adgyweirio a'i brydferthu, yn deilwng o'r oes a'r dref gynyddol y mae ynddi. Costiodd ar y cyntaf dros ddwy fil o bunau, ac y mae llawer o ganoedd wedi hyny wedi cael eu gosod allan arno mewn adgyweiriadau, paentio, ac adeiladu ysgoldy prydferth yn ei ymyl. Bu y ddyled yn faich trwm ar y lle hwn am flynyddau lawer, ac yn achos o bryder a llafur dirfawr i Mr. Griffiths. Deugain mlynedd yn ol ystyrid dwy fil o ddyled ar gapel yn beth dychrynllyd, ond yn awr, pan y mae yr eglwysi wedi yfed mwy o ysbryd haelionus, ni chyfrifir dwy fil o ddyled ar gynnulleidfa gymharol wan, yn gymaint ag yr edrychid ar bum' cant yn 1828. Os yw eglwysi Cymru yn llai gwresog a thanllyd dan y Gair nag yr oeddynt yn nyddiau y tadau, y maent yn annghydmarol fwy haelionus yn eu cyfraniadau at achosion crefyddol.

Wedi cael y capel newydd yn barod, tynodd doniau poblogaidd Mr. Griffiths dorf o bobl i'w lenwi ar unwaith, a pharhaodd ei boblogrwydd yn ddidrai hyd derfyn ei oes. Yr oedd Ysgol Sabbothol flodeuog yn Zoar o'r cychwyniad, ac yn fuan wedi agoryd y capel sefydlwyd canghenau o ysgolion yn Sciwen, Melingryddan, y Tonnau, y Bryncoch, y Thimle, &c. Rai blynyddau cyn marwolaeth Mr. Griffiths adeiladwyd capel ar y Sciwen, a chapel y Rock yn Nghwmafan, gan aelodau Zoar. Wedi oes gymharol fer, ond anarferol o lwyddianus, bu farw Mr. Daniel Griffiths yn 1846, er galar dirfawr i bobl ei ofal, a phobl Deheudir Cymru yn gyffredinol. Ar ol ei farwolaeth, penderfynodd yr eglwys fod am flwyddyn cyn myned i edrych allan am weinidog, a thalu y cyflog arferol i Mrs Griffiths, nid am fod ei hamgylchiadau yn galw am hyny, ond fel arwydd o barch i'w gweinidog ymadawedig. Ar ol byw ychydig gyda blwyddyn ar weinidogaeth achlysurol, rhoddwyd galwad unfrydol yn Awst 1847, i Mr. John Mathews, Casnewydd, a dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn y mis canlynol. Ar y 24ain a'r 25ain o Dachwedd, yn yr un flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad, pryd y pregethodd Meistri D. Rees, Llanelli; P. Griffiths, Alltwen; M. Ellis, Mynyddislwyn; R. Pryse, Cwmllynfell, ac eraill. Rhif yr aelodau pan ddechreuodd Mr. Mathews ei lafur yma, bedair blynedd-ar-

Digitized by Google

hugain yn ol oedd, 340. O'r pryd hwnw hyd yn awr y mae ef wedi derbyn, trwy ddeheulaw cymdeithas 1308, a thrwy lythyrau o eglwysi eraill 590. Ar ymneillduad eglwys y Sciwen, rhoddwyd llythyrau gollyngdod i 53 o'r aelodau, ac i 61 ar sefydliad yr eglwys yn Llansawel. Trwy symudiadau, marwolaethau, a gwrthgiliadau, y mae dros ddeugain bob blwyddyn, mewn eglwys luosog fel hon, yn cael eu colli. Rhif yr aelodau yn bresenol yw 456. Mae canghen o eglwys Zoar yn ddiweddar wedi cael ei chorpholi yn eglwys Annibynol yn Bryncaws; ond er colli pobl y Rock, y Sciwen, Llansawel, a Bryncaws, y mae y fam-eglwys mor lluosog ei haelodau a'i gwrandawyr ag y bu ar un cyfnod o'i hanes.

Cafodd y rhai canlynol eu cyfodi i bregethu yn yr eglwys hon:—

John Davies, yr hwn sydd wedi bod yn bregethwr cynorthwyol parchus am fwy na deugain mlynedd, ac sydd etto yn aelod yn ei fam-eglwys.

David Griffiths. Dechreuodd ef bregethu tua yr un amser a John Davies, ac yr oedd yn ddyn da a phregethwr cymeradwy iawn. Glowr ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chyfarfyddodd ef, a phump-ar-hugain eraill o'i gydweithwyr, eu hangau yn mhwll y Bryncoch yn 1859, trwy i'r dwfr dori i mewn i'r gwaith a'u boddi oll.

Griffith Owen. Nid oedd ganddo ef lawer o ddoniau at bregethu, er ei fod wedi cael addysg dda, ac yn ddyn o wybodaeth led helaeth. Yr oedd yn ganwr rhagorol, a dichon, fel y dywedai ei weinidog, Mr. Griffiths, mai aros fel blaenor y gân fuasai ddoethaf iddo yn hytrach nag esgyn i'r pulpud. Etto yr oedd yn ddyn da. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau.

Gwilym Treharne. Yr oedd ef wedi myned yn lled hen cyn dechreu pregethu, ac felly ni ddarfu iddo ennill nemawr o sylw fel pregethwr. Yr oedd yn ddyn medrus a gwerthfawr iawn yn y cyfeillachau crefyddol, ac yn anwyl iawn gan yr eglwys. Bu farw o'r geri marwol yn 1849.

Yn nhymor gweinidogaeth Mr. Griffiths y dechreuodd y pedwar uchod bregethu, a than weinidogaeth Mr. Mathews y dechreuodd y rhai canlynol:

William Davies, yr hwn sydd yn awr yn aelod ac yn bregethwr cynorthwyol derbyniol yn yr eglwys ieuangc yn Bryncaws.

John Jones. Y mae ef yma yn bresenol yn aelod, ac yn pregethu yn fynych yn ei fam-eglwys ac mewn eglwysi eraill.

Charles Jones. Y mae yntau yn parhau yma fel aelod a phregethwr cynorthwyol.

David Griffiths, oedd bregethwr ieuangc derbyniol iawn yma. Y mae efe a'i deulu newydd ymfudo i'r America.

John Griffiths. Treuliodd ef ei amser yn athrofa y Bala, ac y mae wedi ymsefydlu er's mwy na blwyddyn bellach yn weinidog yn y Fochriw.

Samuel Owen. Yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

David E. Phillips. Y mae yntau yn fyfyriwr yn awr yn athrofa y Bala.

Byddai hanes yr eglwysi Annibynol yn Nghastellnedd yn annghyflawn heb grybwyll enwau y Cadben Morris, a'i wraig ragorol. Yr oedd y ddau gristion anwyl hyn, fel Zacharias ac Elizabeth, yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd. Yn Maesyrhaf yr oedd ef yn aelod a hithau yn Zoar. Bu eu tŷ am ddegau o flynyddau yn gartref i bregethwyr Cymru. Bu Mrs. Morris fyw flynyddau ar ol ei phriod, ac yr oedd yn un o'r gwragedd rhagoraf a welsom erioed.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

DANIEL GRIFFITHS. Ganwyd y gweinidog enwog hwn yn agos i Felinycwrt, yn Nghwmnedd yn y flwyddyn 1798. Yr oedd ei henafiaid o du ei dad a'i fam yn preswylio yn yr ardal hon er's amryw oesau. William ac Elenor Griffiths oedd enwau ei rieni. Yr oeddynt ill dau yn proffesu crefydd, ac yr oedd ei fam yn un nodedig iawn am ei duwioldeb. Daniel oedd yr ieuengaf o chwech o blant. Bu farw ei dad pryd nad oedd ef ond ieuangc iawn, ond darfu i ofal a ffyddlondeb ei frawd hynaf lenwi lle y tad yn effeithiol i'r teulu. Bu farw ei fam drachefn cyn iddo ef gyrhaedd oedran gwr, ond trwy ofal ei frawd hynaf a'i chwaer ni welodd eisiau dim. Wedi iddo gyrhaedd oedran cyfaddas gosododd ei frawd ef i ddysgu y gelfyddyd o saer badau, a bu am amryw flynyddau yn gweithio y gwaith hwnw. Pan yr oedd tua naw mlwydd oed teimlodd argraffiadau crefyddol grymus dan bregeth Mr. T. Bowen, ond bu flynyddau wedi hyny cyn ymostwng i wneyd proffes o grefydd. Bu yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sabbothol am gryn amser cyn iddo ddyfod yn aelod o'r eglwys. Gan nad yw Mr. Griffiths, o'r Alltwen, yn y cofiant helaeth a ysgrifenodd iddo, wedi rhoddi amseriad nemawr o ddygwyddiadau pwysig ei fywyd, nis gallwn ddyweyd ei oed pan y dechreuodd broffesu a phregethu, ond y mae yn debygol ei fod wedi dechreu pregethu cyn ei fod yn ugain oed, oblegid yr ydym yn cael ei fod yn pregethu mewn cymanfa yn y Groeswen yn 1820. Bu am rai blynyddau yn ysgol Mr. Howells, Baran, wedi iddo ddechreu pregethu, ond ni chafodd fawr llonyddwch i ddysgu gwersi yr ysgol gan fod ei ddoniau poblogaidd fel pregethwr, a'i fedr digyffelyb fel holwr ysgolion, wedi tynu sylw yr holl wlad, a cheisiadau beunyddiol am ei wasanaeth. Byddai agos trwy yr holl amser y bu yn yr ysgol yn Baran yn pregethu neu yn holi ysgolion bedair a phum' gwaith bob wythnos. Tua y flwyddyn 1820, aeth ef a'i gyfaill a'i berthynas, Mr. Phillip Griffiths, i ysgol Dr. Phillips, Neuaddlwyd. Ni fuont yno yn hir cyn i ddiwygiad nerthol a phoeth iawn dori allan yn y Neuaddlwyd ar un boreu Sabboth pan yr oedd Dr. Phillips yn pregethu. Yn fuan ymdaenodd y tân trwy y wlad oddiamgylch, a chafodd ysbryd tanllyd a doniau poblogaidd Daniel Griffiths ddigon o ddyfroedd i chwareu ynddynt. Darfu i'w lafur a'i hynodrwydd yn y diwygiad hwnw ei gyfodi i sylw cyffredinol yn sir Aberteifi. Er fod haner can' mlynedd wedi myned heibio er hyny, y mae ei enw ef ar gof a chadw etto mewn cysylltiad a'r diwygiad mawr gan ganoedd o Gapelywig i Gilcenin. Yn y flwyddyn 1822, dychwelodd adref o'r Neuaddlwyd, a chafodd ei urddo, fel y nodasom, yn Maesyrhaf, Chwefror 13eg, 1823. Ar ol bod yn llafurio fel cydweinidog a Mr. Bowen yn Maesyrhaf a Melinycwrt am ychydig dros dair blynedd gyda pharch a phoblogrwydd anghyffredin, darfu ei gysylltiad a Maesyrhaf, yn yr amgylchiad gofidus a grybwyllasom eisioes, ac o hyny allan fel gweinidog Zoar y bu yn llafurio yn Nghastellnedd. Bu Melinycwrt a Godrerhos dan ei ofal hefyd mewn cysylltiad a Zoar hyd derfyn ei oes. Parhaodd ei boblogrwydd a'i barch yn ddiatal hyd y diwedd. Mae yn ymddangos mai un gwanaidd o iechyd ydoedd er yn blentyn, a chan na feddyliodd am arbed ei gorph trwy wrthod unrhyw gais i bregethu a theithio, llosgodd y fegin allan pan yr oedd yn wyth-a-deugain oed. Bu farw o'r darfodedigaeth Ebrill 1af, 1846, mewn teimladau nefolaidd iawn. Ar ddydd ei angladd ymgasglodd y dyrfa luosocaf a

welsom mewn angladd erioed i hebrwng ei weddillion marwol i'r ddaeargell wrth gapel Zoar. Yr oedd y ffordd am tua dwy filldir yn llawn o bobl fel yr oedd yn anhawdd symud. Cyn cychwyn oddiwrth y tŷ, darllenodd a gweddiodd Mr. Thomas Rees, Siloa, Llanelli. Wedi cyrhaedd y capel, yn yr hwn nid oedd digon o le i un o bob deg o'r dorf, darllenodd a gweddiodd Mr. R. Pryse, Cwmllynfell, a thraddodwyd dwy bregeth fer gan Meistri D. Evans, Castellnedd, a W. Morgan, Llwyni. Areithiodd Meistri J. Hughes, Dowlais, a D. Rees, Llanelli, wrth y bedd, a therfynwyd trwy weddi gan Mr. Powell, Caerdydd. Yr oedd 39 o weinidogion a phregethwyr yn cerdded o flaen y corph wedi eu gwisgo mewn arwyddion galar. Yr oedd Daniel Griffiths yn ei farwolaeth yr un modd ag yn ei fywyd yn un o'r dynion mwyaf poblogaidd yn ei oes.

"Yr oedd Mr. Griffiths yn ddyn lled dal, o gylch pum' troedfedd a naw modfedd o hyd, yn lled denau, o gorph cadarn, er heb fod yn iach erioed; yn ddyn gewynog heibio i'r cyffredin. Yr oedd ei edrychiad yn serchog bob amser, yn hawddgar ei gyfarchiad, nes y byddai pawb yn caru ei gyfarfod ar y ffordd. Byddai plant yr holl wlad yn ei gyfarch, ac yn tyru o'i amgylch yn mhob lle y byddai. Gwyneb lled hirgul oedd ganddo, a dau lygaid mawr treiddgar yn dangos ei fod wedi ei wneyd gan natur yn areithiwr hyawdl. Yr oedd ei olwg mor hawddgar ac mor nefolaidd pan fyddai ei enaid yn gwresogi wrth dân crefydd, fel y gallasai y miloedd ei gofleidio a'u breichiau yn gystal ag a'u calonau."

Yr oedd yn ddyn cyfeillgar, hynaws, a charedig iawn, tra ar yr un pryd yr oedd ganddo ddigon o synwyr cyffredin a rhyw fawredd a gadwai bobl rhag myned yn rhy eofn arno. Cafodd ysgrifenydd y llinellau hyn ddigon o gyfleusderau i'w weled a chyfeillachu ag ef am y tair-blynedd-ar-ddeg olaf o'i fywyd fel ag i allu ffurfio barn lled gywir am ei nodweddiad fel dyn a chyfaill. Ni ddygwyddodd iddo erioed gyfarfod a dyn llawnach o garedigrwydd a natur dda. Mae llawer o ddynion yn siriol a chyfeillgar a'u cydradd, ac yn enwedig a'u huwchradd, ond yr oedd ef yn hytrach yn fwy hynaws a charuaidd i'w isafiaid nag i neb arall. Ar un nos Sabboth yn Tachwedd, 1833, yr oedd pregethwr ieuangc, tan ddeunaw oed, wedi anfon ei gyhoeddiad i fod yn Zoar. Galwodd gyda Mr. Griffiths, cyn yr oedfa, mewn tŷ yn agos i'r capel, lle yr oedd ef a dau weinidog enwog o sir Gaerfyrddin, y rhai hefyd oeddynt wedi eu cyhoeddi i fod yn Zoar y noson hono. Pan welodd y gwr ieuangc derbyniodd ef yn garedig, a dywedodd wrth y ddau weinidog, "Mae yn rhaid i chwi frodyr dalfyru ychydig ar eich pregethau heno fel y gallo y gwr ieuangc gael dyweyd ychydig o'ch blaen. Rhaid rhoddi magwraeth i'r lloi cyn cael ychain." Talp cyflawn o natur dda ydoedd.

Yr oedd yn un nodedig o fedrus i drafod dynion. Medrai heb honi ei awdurdod a dadleu ei hawliau swyddogol gael y dynion mwyaf anhywaeth i'w ffordd ei hun. Cadwodd eglwys luosog Zoar mewn undeb a heddwch hollol trwy holl dymor ei weinidogaeth. Yr oedd ganddo ffordd effeithiol i *doddi* pawb i gydweithredu a'i gynlluniau.

Yr oedd yn ddyn hynod o ddirodres a digoegni. Nid yw yn debygol ei fod ef, mwy nag eraill o blant Adda, yn rhydd oddiwrth falchder meddwl, a thra thebygol fod ei barch a'i boblogrwydd pa le bynag yr elai yn peri iddo feddwl tipyn am dano ei hun. Ond os ydoedd yn teimlo felly, yr oedd ganddo ddigon o synwyr cyffredin i guddio hyny oddiwrth y werin. Er ei fod yn anymddibynol yn ei amgylchiadau bydol, ac yn dywysog yn

Digitized by Google

mysg ei frodyr fel pregethwr, yr oedd mor ddiymhoniad a'r gostyngeiddiai o honynt. Nid ydym yn priodoli hyn yn fwy i'w ras nag i'w synwyr cyffredin cryf, oblegid y mae dyn coegaidd ac ymffrostgar yn amlygu llawn cymaint o ddiffyg synwyr ag o ddiffyg gras.

Fel pregethwr yr oedd yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn ei oes. Nid mewn medr i drin ac egluro athrawiaethau mawrion yr efengyl gyda chraffder a manylder ymresymiadol, fel Evans, o'r Mynyddbach, y rhagorai; ni ddeuai ychwaith yn agos at Jones, Penybont, fel esboniwr y Bibl, ac mewn athrylith a dynai allan fer yr Ysgrythyrau i'w sylwadau; ac yr oedd Hughes, o'r Groeswen yn ddigon o'i flaen am ddychymygion hededog a medr i dynu darluniadau byw ger bron ei wrandawyr o'r gwrthrychau y soniai am danynt. Ond yr oedd rhagoriaeth Daniel Griffiths fel pregethwr yn gynwysedig yn y pethau canlynol:—1. Cyflawnder o eiriau cymwys a gweddus i osod allan ei feddyliau. Ni fyddai un amser yn petruso am air. Tywalltai allan ei frawddegau yn ffrydlif naturiol heb ddim yn goegaidd nac yn isel yn un o honynt. Gwisgai y rhan fwyaf o'i feddyliau yn yr ymadroddion Ysgrythyrol mwyaf priodol. Gellir dywedyd yn briodol am dano, "Chwiliodd y pregethwr am eiriau cymeradwy," ac yr oedd ei eiriau oll fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistr y gynnulleidfa. 2. Difrifoldeb a phurdeb chwaeth. Ni ddywedid dim ganddo i beri crechwenau ysgafn yn y gynnulleidfa, ond byddai ei agwedd, ei eiriau, a'i swn yn cynyrchu difrifoldeb ofnadwy yn ei wrandawyr. Ni chlywid ef un amser yn adrodd hanesyn nac yn arfer cydmariaeth isel a dichwaeth. 3. Nodwedd efengylaidd ei faterion. Crist a'i groes—trueni dyn trwy bechod—breintiau credinwyr—a gogoniant trefn gras, fyddai pyngciau ei bregethau yn wastadol. 4. Grym a phereidd-dra llais. Dywedai yn ddigon uchel wrth ddarllen ei destyn i ddeng mil o bobl i'w glywed, a siaradai yn rhwydd, heb fod yn rhy araf nac yn rhy gyflym, gan roddi, yn awr a phryd arall, ryw dôniad mor beraidd ac effeithiol i'w lais nes y buasai y dagrau yn saethu yn ddiarwybod o ganoedd o lygaid ar darawiad amrant. Pan godai ei lais i'r man uwchaf byddai yn llai effeithiol. Yr oedd cydgyfarfyddiad y pethau hyn ynddo fel pregethwr yn ei wneyd yn un o'r pregethwyr mwyaf effeithiol a wrandawsom erioed. Anfynych iawn y gwelsom ef yn sefyll uwchben cynnulleidfa heb ei thoddi fel cwyr o flaen y tân.

Yr oedd yn ddyn llafurus a chyhoeddus iawn ei ysbryd. Anaml trwy ei holl fywyd cyhoeddus, y treuliodd wythnos heb deithio a phregethu i eraill heblaw i'w bobl ei hun. Llafuriodd yn galed gyda'r ymdrech fawr i dalu dyledion capeli yn y blynyddoedd o 1832 i 1835, ac wedi gorphen yr ymdrech fawr a chyffredinol hono, bu am flynyddau yn teithio bob tri neu bedwar mis trwy Forganwg, er cyffroi yr eglwysi i orphen dileu dyledion eu haddoldai. Ymwelai yn ei deithiau a'r lleoedd gwanaf yn gystal a'r rhai cryfaf, heb ddisgwyl na derbyn unrhyw dal ond y boddlonrwydd meddwl a fwynhai wrth wasanaethu ei enwad ac achos ei Arglwydd. Dilynai y cyfarfodydd misol a chwarterol, agoriadau capeli, urddiadau, &c., yn ddinag, ac yr oedd ei bresenoldeb yn fywyd i bob cynnulleidfa. Ni byddai yn ormod dyweyd iddo dreulio agos un ran o dair o'i holl fywyd, tra bu yn y weinidogaeth, yn ngwasanaeth cyhoeddus yr enwad y perthynai iddo, ac iddo wario canoedd o bunau o'i arian wrth wneuthur hyny. Cafodd wybod trwy brofiad fod llanw cylch uchel yn y weinidogaeth yn gostus iawn i gorph, meddwl, a llogell.

Digitized by Google

Y mae genym farn uchel am ei grefydd bersonol. Buom ddegau o weithiau yn ei gyfeillach, a chawsom ef bob amser yn ddifrifol heb fod yn bruddaidd a sarug, ac yn llawn o sirioldeb heb fod un amser yn ysgafn a chellweirus. Prin y gallwn gredu fod yn bosibl i neb fod mor llawn o deimladau toddedig, a'r fath eneiniad ar ei gyflawniadau cyhoeddus, ag ydoedd yn nodweddu yr eiddo ef, heb ei fod yn dal llawer o gymdeithas ddirgel a'r Arglwydd. Yr oedd yn rhyfeddol o nefolaidd ei brofiad yn ei gystudd diweddaf. Y nos olaf y bu byw yr oedd un o'r brodyr yn ei wylied; clywai y dyn ef yn siarad, fel pe buasai yn ymddiddan a rhyw rai. Tybiodd y dyn ei fod yn syfrdanu ac atebodd ef yn ol fel yr oedd wedi deall ei ofyniad. Yn mhen ychydig dywedodd, "Yr oeddych chwi yn fy nghamddeall i; nid gofyn i chwi a oedd plant genych yr oeddwn i; ond yr oedd gyda mi dri o blant glandeg yr olwg arnynt, a gofyn yr oeddwn i'r plant pwy oeddynt, a dywedasant mai plant Duw oeddynt, a'u bod yn ymofyn am ŵr y tŷ i dd'od gyda hwynt, ac wrth ymadael dywedasant, Pan ddelom nesaf rhaid i chwi ddyfod gyda ni." Prydnawn dranoeth aeth Mrs. Morris a'i merch, Mrs. Morgans, i'w weled. Siaradodd ychydig a hwynt, ac yna aeth i geisio adrodd pennill. Gofynodd i Mrs. Morris pa beth oedd ei ddechreu, atebodd hithau,

"Ymado wnaf a'r babell
Rwy'n trigo ynddi'n awr," &c.

Canodd y pennill gyda Mrs. Morris, ac adroddodd wrthi am y plant a welsai y nos o'r blaen. Yn fuan wedi i'r ddwy chwaer fyned allan o'r ystafell, gwelodd y plant eilwaith a dywedodd, "Oh, wel, y maent yn bedwar yn bresenol. Mae yn rhaid i mi gusanu Jenny a'r plant cyn dyfod gyda chwi, ac wrth ddyfod, rhaid i mi farw." Yn fuan ar ol hyny cusanodd ei briod a'i ddeg plentyn, a rhoddodd ei law dan ei ben gan gau ei lygaid ar y byd hwn, a'u hagoryd ar ryfeddodau byd yr ysbrydoedd.

Fel hyn y bu fyw a marw Daniel Griffiths. Yr oedd yn ddyn anghyffredin a rhagorol iawn. Nid ydym yn meddwl nac am adael yr argraff ar neb ei fod yn ddyn difai, ond pa ddyben fyddai ceisio chwilio am y beiau sydd wedi eu maddeu a'u taflu gan Dduw i for o angof. Meddyliwn am y rhinweddau oedd mor amlwg yn ei gymeriad, ac ymdrechwn eu hefelychu.

## CAPEL SION, CWMAFAN.

Mae Cwmafan yn mhlwyf Llanfihangel-ar-afan, tua phum' milldir i'r de-ddwyrain o Gastellnedd. Cwmafan yw yr enw sydd ar y dyffryn oll o Aberafan i Bontrhydyfen, ond y mae amryw fan gymoedd yn ymganghenu o hono, ac yn mysg eraill, y Cwmbychan, ac am mai yn y Cwm hwn y dechreuwyd cyfodi glo gyntaf yn yr ardal, wrth yr enw Cwmbychan yr adnabyddid yr holl le am flynyddau. Nid oedd dros o ddau gant i ddau gant a haner o drigolion yn yr holl blwyf cyn agor y gweithiau tua 1811, ac ni fu ar ol hyny fawr o gynydd hyd 1819, pryd yr adeiladwyd yma ffwrnais i doddi haiarn. O'r pryd hwnw hyd yn awr y mae y boblogaeth wedi cynyddu yn ddibaid, fel y mae y trigolion yn awr tuag wyth mil o rif.

Yr oedd rhai o aelodau yr eglwys yn Maesyrhaf, Castellnedd, yn byw yn y plwyf hwn o oes i oes er's dros ddau cant o flynyddau, a byddai

Digitized by Google

gweinidogion y lle hwnw yn pregethu yn achlysurol yn eu tai. Byddai Mr. Bowen yn dyfod yma yn fynych. Dechreuwyd cynal addoliad yma yn nhy Howell John tua'r flwyddyn 1819, ond nid ymddengys i achos rheolaidd gael ei sefydlu yn y lle cyn y flwyddyn 1821, pryd y daeth Mr. Hugh Owen o Abertawy yma i bregethu bob Sabboth. Dechreuodd ef ddyfod yma yn gyson yn mis Mai, 1821, ac yn Awst yr un flwyddyn corpholwyd yma eglwys. Bu amryw weinidogion yn gweinyddu ar yr achlysur. Yn nhy Howell John y cynhelid y moddion. Ebrill 8fed, 1822, urddwyd Mr. H. Owen yn weinidog yr eglwys ieuangc. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri R. Howells, Baran; T. Davies, Abertawy; W. Jones, Penybont; D. Evans, Mynyddbach, a Jonathan Davies, Llanybri. Bu Mr. Owen yn llafurus iawn i adeiladu y capel yma yn 1824, ac i gasglu ato, ond gan ei fod ar dir Cwmni y gwaith ac heb un les, ac i'r gweinidog yn rhyw fodd ddigio Mr. Vigurs, y prif berchenog, bu raid iddo ymadael a'r lle yn 1828. Yn y flwyddyn 1830, rhoddwyd galwad i Mr. Lodwick Edwards, myfyriwr yn athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef Medi 7fed a'r 8fed y flwyddyn hono. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Davies, Penygraig; W. Thomas, Clydach; R. Howells, Baran; D. Griffiths, Castellnedd; J. Rowlands, Cwmllynfell; T. Davies, ac E. Griffiths, Abertawy; J. Williams, Ty'nycoed, ac eraill.* Bu Mr. Edwards yma yn barchus hyd y flwyddyn 1833, pryd y trodd i'r Eglwys Wladol. Yn y flwyddyn ganlynol rhoddwyd galwad i Mr. Robert Owen, Llanengan, sir Gaernarfon. Bu ef yma hyd y flwyddyn 1840. Ar ol ei ymadawiad ef bu yr eglwys am dymor yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, ac am ddwy flynedd dan ofal Mr. Davies, Cwmaman. Yn y flwyddyn 1844, rhoddwyd galwad i Mr. Edward Roberts, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 24ain a'r 25ain yr un flwyddyn. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Williams, Hirwaun; holwyd y gweinidog gan Mr. S. Roberts, Llanbrynmair; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. C. Jones, Dolgellau; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E. Davies, athraw Aberhonddu, ac i'r eglwys gan Mr. Joseph Evans, Capel Sïon. Gweinyddwyd hefyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan Meistri H. Davies, Bethania; D. Evans, Castellnedd; J. Davies, Cwmaman; W. Edwards, Aberdar; R. Fairclough, Ffestiniog; E. Jacob, Abertawy; H. Herbert, Drefnewydd; D. Williams, Aberafan, ac E. Griffiths, Abertawy.†

Mae Mr. Roberts wedi bod yma bellach am saith-mlynedd-ar-hugain, a thrwy yr holl dymor yn barchus a defnyddiol. Yn 1849, ailadeiladwyd y capel ac agorwyd ef Mai 20ed a'r 21ain, 1850, pryd y pregethodd Meistri Williams, Brynteg; Pryse, Cwmllynfell; Griffiths, Alltwen; Rees, Carmel; Edwards, Aberdar; Thomas, Glynnedd; Williams, Tredegar; Rees, Llanelli; Williams, Hirwaun, ac eraill. Mae y capel hwn yn adeilad helaeth a chyfleus, yn mesur 63 troedfedd wrth 42, ac yn cael ei lenwi gan gynnulleidfa fywiog a gweithgar.

Yn y flwyddyn 1852, gwnaeth Mr. Roberts ei hun yn gyhoeddus iawn, ac adnabyddus yn agos a phell, a chyflawnodd wasanaeth dirfawr i achos rhyddid crefyddol trwy ddynoethi ystrywiau un Mr. Biddulph a'i wraig, gyda golwg ar ysgolion dyddiol Cwmafan. Yr oedd, ac y mae yr ysgolion hyn yn cael eu cynnal ag arian y gweithwyr, a gedwir bob mis yn swyddfa

* *Dysgedydd*, 1830. Tu dal. 372. † *Dysgedydd*, 1844. Tu dal. 251.

Digitized by Google

y gwaith. Pan aeth y gwaith i ddwylaw perchenogion y *Bank of England*, o herwydd fod y Cwmni wedi myned yn ddwfn i ddyled y Bank, gosododd awdurdodau y Bank un Mr. John Biddulph, mab-yn-nghyfraith y diweddar Mr. W. Chambers, Llanelli, yn arolygydd ar y lle. Mewn canlyniad i'r diwygiad nerthol a fu trwy yr holl le yn y flwyddyn 1849, yr oedd y capeli Ymneillduol o bob enwad yn orlawn, a'r eglwys, er lleied ydoedd, yn fwy na haner gwag. Barnodd Mr. Biddulph a'i wraig y gallasant ddefnyddio dylanwad eu sefyllfa yn y lle i wneyd tipyn o wasanaeth i'r *Church of England*, yn gystal a'r *Bank of England*; ac felly cysylltasant ysgolion y gwaith a'r *National Society*, a thrwy hyny gwnaethant hwy yn ysgolion hollol Eglwysig. Cyd-rhyngddynt hwy, yr offeiriad, a'r ysgolfeistr, dechreuwyd denu a gorfodi y plant i fyned i'r eglwys ar y Sabbothau, a cheisid yn mhob modd eu gwneyd yn eglwyswyr. Yr oedd achwyn cyffredinol trwy y gymydogaeth yn herwydd y peth, ac felly darfu i Mr. Roberts, trwy Mr. Kennedy, o Stepney, osod cwyn yn erbyn Mr. Biddulph ger bron pwyllgor llywyddol y *Bank of England*. Derbyniodd y gwyr hyny dystiolaeth un ochrog y cyhuddedig, a gwrthodasant chwilio i'r achos. Yn ngwyneb hyn ysgrifenodd Mr. Roberts chwech o lythyrau i'r *Morning Advertiser* i ddynoethi y cwbl. Parodd y dynoethiad gynwrf mawr trwy yr holl wlad, ond yn enwedig yn Nghwmafan a'r gymydogaeth. Aeth Mr. Biddulph a'i is-swyddogion oddiamgylch i geisio cael gan y trigolion i lawnodi papyr yn gwadu y cyhuddiadau. Dywedai ef a'i blaid fod tua mil wedi ei lawnodi, ond y mae yn sicr fod canoedd wedi gwneyd hyny rhag ofn colli eu gwaith, a llawer mewn anwybodaeth o'i gynwysiad. Bygythiai Mr. Biddulph fyny symud Mr. Roberts o'r gymydogaeth, ond methodd yn ei amcan, trwy i'r gwaith fyned i ddwylaw y perchenogion gwreiddiol yn mhen ychydig ddyddiau, ac felly efe ac nid Mr. Roberts gafodd adael yr ardal. Cafodd Mr. Roberts ei gefnogi yn galonog yn ei ymdrech o blaid rhyddid crefyddol gan weinidogion Ymneillduol yr ardal yn gyffredinol, a chan filoedd o'r bobl, ond trodd rhai, hyd yn oed o aelodau ei eglwys ei hun, yn Judasiaid bradychlyd, gan obeithio y cawsant trwy hyny ryw fantais dymorol. Pa fodd bynag Mr. Roberts, ac achos rhyddid crefyddol, a gariodd y fuddugoliaeth; ac y mae yn debygol i'r frwydr boeth hon fod yn ddigon o rybudd i bob meistr gwaith a'i oruchwylwyr yn y parthau hyn, o hyny allan, i beidio ymyraeth a golygiadau crefyddol y gweithwyr a'u plant.

Mae eglwys Sion er's blynyddau lawer yn lluosog iawn ei haelodau, ac yn ganmoladwy am ei heddychlonrwydd, a'i gweithgarwch, a'i haelioni, yn enwedig gydag achosion cartrefol.

Ychydig yw rhif y rhai a gyfodwyd i bregethu yn yr eglwys hon, er lluosoced ydyw. Yma y dechreuodd William Morgan, yn awr o'r Llwyni, bregethu fel Annibynwr, ond yr oedd cyn hyny wedi bod am flynyddau yn pregethu yn mysg y Methodistiaid.

Zecharias Davies, oedd fab i Jenkin Davies, un o gychwynwyr yr achos yn y lle. Bu ef yn pregethu am rai blynyddau, ond o herwydd ei ymddygiad yn y ddadl rhwng Mr. Roberts a Mr. Biddulph, rhoddwyd terfyn ar ei bregethu, ac yn mhen rhyw gymaint o amser wedi hyny bu farw yn ddisymwth iawn.

Mae Thomas Griffiths, aelod o'r eglwys hon, yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Caerfyrddin. Nis gwyddom am neb arall a gyfodwyd i bregethu yma.

Digitized by Google

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

LODWICK EDWARDS. Yr oedd ef yn enedigol o ardal Llangeitho. Yn yr Eglwys Sefydledig y cafodd ei ddwyn i fyny, ond o herwydd cael ei siomi yn ei ddisgwyliad am urddau yno trodd at yr Annibynwyr, ac urddwyd ef, fel y nodasom yn Nghwmafan yn 1830, ac yn niwedd 1833, ymadawodd a chafodd ei urddo yn offeiriad gan Esgob Llandaff. Bu am lawer o flynyddau wedi hyny yn offeiriad yn Rhymni. Y mae wedi marw er's deuddeg neu bymtheng mlynedd bellach. Yr oedd Mr. Edwards yn ddyn da, ac yn bregethwr derbyniol, a diau y gallasai dreulio ei holl oes yn barchus yn Nghwmafan, ond gan mai amgylchiadau, ac nid argyhoeddiadau, a'i dygodd i gysylltiad a'r Annibynwyr, nid ydym yn rhyfeddu iddo ddychwelyd i fynwes yr Eglwys Sefydledig.

ROBERT OWEN. Yr oedd yn enedigol o Lanfyllin. Cafodd ei urddo yn Bwlchtocyn, Lleyn, sir Gaernarfon, Medi 12fed, 1820. Dywedir iddo fod yn barchus a thra defnyddiol yn sir Gaernarfon am rai blynyddau. Yn 1834, symudodd i Gwmafan, a bu yn lled dderbyniol yma nes i'r eglwys a'r ardal gael allan nad oedd yn bucheddu yn deilwng o gristion. Wedi ymadael a Chwmafan bu am ychydig amser yn Carmel, Llansadwrn, ond er's rhai blynyddau cyn ei farwolaeth yr oedd wedi myned yn wrthodedig yn mhob man. Y mae wedi cael ei alw i roddi cyfrif o'i weithredoedd er's mwy nag ugain mlynedd bellach. Prin y mae cymeriad o'r fath yma yn haeddu sylw, ond gan ei fod ef a llawer eraill a grybwyllir gynym yn nglyn a gwahanol fanau, wedi bod mewn cysylltiad cyhoeddus a'r weinidogaeth, y mae cywirdeb hanesyddol yn galw arnom i wneyd rhyw gyfeiriad atynt.

## TABERNACL, ABERAFAN.

Mae yn ymddangos fod Mr. Hugh Owen, pan y dechreuodd yr achos yn Nghwmafan, yn bwriadu cychwyn achosion yn y Taibach ac Aberafan hefyd. Wedi adeiladu capel Sion, Cwmafan, yn 1824, dechreuodd adeiladu y Tabernacl yn Aberafan yn niwedd yr un flwyddyn, neu yn gynar yn y flwyddyn ganlynol. Yr aelodau yma ar gychwyniad yr achos oeddynt John Evans, Gwehydd, Aberafan, a Jane ei wraig; John Rees, a Demares ei wraig; Rees Madog, Cilygofid; Stephen Hughes, Taibach; William Griffiths, a hen wraig o gymydogaeth y Pil. Bu Mr. Owen yma yn gofalu am y ddeadell fechan hon am oddeutu deng mlynedd, ond nid ymddengys i nemawr o lwyddiant fod ar ei lafur, oblegid wyth oedd eu rhif yn y dechreu, ac wyth oeddynt, fel yr eneidiau yn yr Arch, ar ei ymadawiad ef oddiwrthynt.

Pan yr ymsefydlodd Mr. Daniel Evans yn Maesyrhaf yn 1837, efe a gymerodd ofal y praidd bychain yn Aberafan, ac yn dra buan tynodd ei ddoniau poblogaidd a'i ysbryd bywiog luaws i'w wrandaw. Lluosogodd yr eglwys yn mhen ychydig nes yr oedd yn chwech ugain o rifedi. Yn y flwyddyn 1843, cyfododd ymryson yma. Yr oedd Dafydd Williams, perchenog gwreiddiol y tir ar ba un yr oedd y capel wedi ei adeiladu, yn honi fod ugain punt o ddyled ar yr eglwys iddo ef. Gwrthodai Mr. Evans a'r eglwys wneyd un sylw o'i honiad, a'r canlyniad fu iddo ef gloi y capel yn eu herbyn. Aeth Mr. Evans a'r mwyafrif o'r aelodau, y rhai a gydwelent ag ef, i addoli i Neuadd y dref, ac yn fuan wedi hyny rhentiwyd

Digitized by Google

hen gapel y Bedyddwyr, lle y buont hyd 1849, pryd yr adeiladwyd capel y Wern. Darfu i'r rhan o'r eglwys a arosasant yn y Tabernacl roddi galwad i Mr. David Williams, mab y gwr a gloisai y capel yn erbyn Mr. Evans a'r gynnulleidfa, ac urddwyd ef yma Tachwedd 22ain a'r 23ain, 1843. Ar yr achlysur gweinyddodd Meistri D. Jones, Clydach; T. Davies, Abertawy; D. Griffiths, Castellnedd; J. Davies, Castellnedd, a W. Morgan, Llwyni. Bu pethau yn lled lewyrchus yma am rai blynyddau, ond gydag amser gwywodd yr achos a bu agos a myned i'r dim cyn i Mr. Williams ymadael tua y flwyddyn 1855. Ar ol hyn bu y lle am tua blwyddyn dan ofal Mr. John Davies, Castellnedd. Wedi hyny, bu Mr. John Steadman yn weinidog yma hyd 1866, ond ni bu ond y peth nesaf i ddim o lwyddiant ar ei lafur yntau. Tua deuddeg o bersonau, neu lai, oedd rhif yr aelodau ar ei ymadawiad. Buwyd ar fedr rhoddi y capel at gychwyn achos Saesonig, ond drwy ryw amgylchiadau ni ddaeth yr amcan hwnw i ben; ac o'r flwyddyn 1866 hyd 1868, bu gweinidogion y gymydogaeth yn tori bara i'r ychydig aelodau yn fisol, a phregethwyr cynorthwyol yn eu gwasanaethu ar y Sabbothau eraill, ond am y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd hyn nid oedd un math o foddion yn cael ei gadw yma ond pregethu ar bryd-nawn Sabboth. Yn Mai 1868, penderfynwyd rhoddi galwad i Mr. Richard Morgan, pregethwr cynorthwyol yn eglwys y Wern, Aberafan. Gan fod Mr. Morgan yn alluog i fyw heb ymddibynu ar yr hyn a dderbyniai oddiwrth y bobl, cydsyniodd a'r alwad, ac urddwyd ef yma Tachwedd 1af, 1868, pryd y pregethodd Dr. Rees, Abertawy; J. Mathews, a J. Roberts, Castellnedd; E. Roberts, a W. Thomas, Cwmafan; G. Jones, Cefncribwr, a W. Morgan, Llwyni. Pan ymgymerodd Mr. Morgan a gofal y lle yn Mai, 1868, aed i'r draul o 160p. i adgyweirio y capel, a chynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad a'r urddiad yr un dydd. Sefydlodd Mr. Morgan Ysgol Sabbothol yma, a chasglodd 67 y Sabboth cyntaf. Darfu iddo hefyd ffurfio *Band of Hope*, a chyn pen chwe' mis ar ol ei urddiad yr oedd yr ysgol yn rhifo 150, ac yn mhen y deuddeg mis o ddechreuad ei weinidogaeth yr oedd 53 o aelodau newyddion wedi uno a'r tri brawd a'r naw chwaer oeddynt yn llawnodi yr alwad iddo. Yn nechreu y flwyddyn 1870, gan fod y capel wedi myned yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, penderfynodd yr eglwys ei dynu i lawr, ac adeiladu un newydd a helaethach o lawer. Gorphenwyd y capel newydd ac agorwyd ef Hydref 29ain a'r 30ain, a Tachwedd 2il, 1871, pryd y pregethodd Meistri J. Mathews, Castellnedd; D. Jones, B.A., Merthyr; T. Davies, Siloa, Llanelli; R. W. Roberts, Ystradgynlais, a Dr. Rees, Abertawy. Nid oes achos dymuno harddach addoldy na hwn. Mae yn mesur 46 troedfedd wrth 38 tu fewn i'r muriau, ac er prydferthed adeilad ydyw, nid yw wedi costio llawn 900p. Mae yr achos hwn, ar ol bod i fyny ac i lawr amryw weithiau, yn awr a golwg llawer mwy gobeithiol arno nag a welwyd erioed o'r blaen. Rhif yr aelodau yn bresenol yw 120.

Yn nhymor gweinidogaeth Mr. Evans, Castellnedd, dechreuodd un George Lewis bregethu yma. Symudodd i Borthycawl, ac yno ymunodd a'r Bedyddwyr. Cyfodwyd yma dri i bregethu yn 1870, sef David Francis, yr hwn sydd wedi ymfudo i America; Isaac Evans, mab John Evans, un o'r Annibynwyr cyntaf yn y lle, a Theophilus Davies. Mae y ddau olaf yma yn awr, ac yn debyg o fod yn gynorthwywyr derbyniol a defnyddiol.*

* Llythyr Mr. R. Morgan.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

HUGH OWEN. Ganwyd ef yn ardal y Waunfawr, sir Gaernarfon. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Dechreuodd grefydda a phregethu, fel yr ymddengys, gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yn amser y diwygiad grymus a ddechreuodd yn sir Gaernarfon tua 1817, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf selog a thanllyd. Daeth ar daith i'r Deheudir, ac yn rhywle yn sir Benfro gadawodd y Methodistiaid ac ymunodd a'r Annibynwyr. Bu am ryw faint o amser yn yr ysgol yn Aberdaugleddyf. Yn 1818, priododd wraig weddw, yr hon a gadwai y tafarndy *Black Cock* yn Abertawy, a daeth yno i fyw. Yn mhen ychydig amser wedi hyny aeth i'r Taibach, Aberafan, a Chwmafan i bregethu, ac wedi corpholi eglwys yn Nghwmafan, urddwyd ef yno ar yr amser a grybwyllwyd eisioes. Bu yn gweinidogaethu yn Nghwmafan, ac wedi hyny yn Aberafan, hyd y flwyddyn 1832, neu 1833, pryd yr ymadawodd a'r lle. Ar ol hyny bu am ryw faint o amser yn weinidog yn Leominster, yn sir Henffordd. Tua 1836, dychwelodd i Gymru, ond ni bu un eglwys mwyach dan ei ofal. Yn 1836, cyhoeddodd ddwy bregeth ar Ioan x. 17., a'r xxviii. 17.

Yr oedd Hugh Owen yn bregethwr synwyrol ac yn ysgolhaig gweddol dda. Yr oedd yn ddyn gweithgar a llafurus; ond yr oedd ynddo ddiffygion pwysig a anafent ei ddefnyddioldeb yn mhob man yr elai iddo. Mae yn ymddangos nad oedd yn gwbl rydd oddiwrth bechod oedd yn rhy gyffredin yn mysg pregethwyr ei oes ef, sef diotta, ond trwy briodi tafarnwraig gosododd ei hun mewn perygl ychwanegol i fyned yn ysglyfaeth i'r "pechod oedd barod i'w amgylchu." Yn ychwanegol at hyny, yr oedd rhywbeth yn anserchus yn ei dymer, fel nad allai fyw mewn heddwch a phobl. Gorfu iddo, fel y gwelsom, ymadael a Chwmafan o herwydd cweryla a meistr y gwaith, a digwyddodd yr un peth rhyngddo a goruchwyliwr Mr. Talbot, yr hwn mewn canlyniad a ddywedodd na chawsai yr Annibynwyr fodfedd o dir at adeiladu capel yn y Taibach tra y buasai efe byw, a safodd at ei air. Bu farw Hugh Owen yn nhŷ Mr. Lewis Lloyd yn Abertawy yn y flwyddyn 1840. Yr ydym yn tybied ei fod yn amser ei farwolaeth o wyth a deugain i haner cant oed. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Efan, Abertawy.

## WERN, ABERAFAN.

Yr ydym wedi dilyn hanes dechreuad yr eglwys hon yn nglyn a'r achos yn y Tabernacl hyd Sabboth, Mehefin 18fed, 1843, pan y clowyd y capel yn erbyn Mr. Daniel Evans, y gweinidog, a'r gynnulleidfa. Yn briodol, yr eglwys hon ydyw yr olyniad rheolaidd o'r eglwys hono, oblegid mai yma yr oedd mwyafrif yr aelodau. Nid arosodd ond 30 ar ol yn yr hen gapel, pryd y daeth 67 allan gyda Mr. Evans. Sabboth a hir gofir oedd y Sabboth hwnw; ac nis gellir edrych ond gyda dirmyg ac anghymeradwyaeth hollol ar y rhai oedd a fynent yn uniongyrchol a'r weithred. Pan aeth Mr. Evans a'r gynnulleidfa fel arfer at y capel y prydnawn Sabboth hwnw, cawsant y drws wedi ei gloi; ond er ei bod yn ddiwrnod gwlawog, safodd Mr. Evans mewn certwyn yn ymyl hen goeden—boncyff yr hon sydd i'w weled etto—a phregethodd i'r bobl gyda hwyl nodedig. Erys adgofion yr oedfa ar feddyliau llawer oeddynt yn bresenol hyd y dydd heddyw.

Digitized by Google

Cadwyd cyfarfod gweddi y noson hono mewn tŷ anedd a elwid y Felindre, ac yno y cynhelid y cyfeillachau wythnosol am fwy na phedwar mis. Cymerwyd Neuadd y dref (*Town Hall,*) i gynal y moddion cyhoeddus, ac ymgynnullai lluaws mawr i wrando, ac ychwanegwyd llawer at yr eglwys. Ar ol bod yn Neuadd y dref yn addoli am bedwar mis, cymerwyd Moriah, hen gapel i'r Bedyddwyr, dan ardreth flynyddol. Aeth yr achos rhagddo yn llwyddianus, a gweinidogaeth Mr. Evans yn dra chymeradwy, ac undeb brawdol yn yr eglwys, ac ar ol y diwygiad grymus a gafwyd yn 1849, yr oedd capel Moriah yn llawer rhy fychan, fel y penderfynodd yr eglwys gael capel newydd. Cafwyd darn o dir ar brydles, am chwe' phunt y flwyddyn o ardreth, gan Mr. Samuel Bamford, yn y pen gorllewinol i'r dref, a galwyd ef y Wern. Dyddiad y weithred yw Ionawr 1af, 1850. Ymgymerodd Mr. Bamford ag adeiladu y capel, ac agorwyd ef y Mercher a'r Iau olaf yn Medi, 1850. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Davies, Bryn; J. Hopkins, Drefnewydd; J. Steadman, Mumbles; H. Rees, Ystradgynlais; J. Thomas, Glynnedd; R. Pryse, Cwmllynfell; T. Davies, Treforis; O. Owens, Brynmenyn; D. Davies, Rhiadr; E. Evans, Hermon; P. Griffiths, Alltwen; J. Thomas, Graig; J. D. Williams, Penybont; E. Jacob, Abertawy; J. Bowen, Pendaran; J. Rees, Carmel; J. Thomas, New York, a T. Thomas, Clydach.* Yr oedd yn gapel helaeth a chyfleus, yn mesur 48 troedfedd wrth 40 troedfedd. Llafuriodd Mr. Evans yma gyda chymeradwyaeth a mesur o lwyddiant hyd derfyn ei oes; er iddo gael llawer o ofid oddiwrth rai personau. Fel y crybwyllasom yn ein cofnodiad bywgraphyddol o hono yn nglyn a Maesyrhaf, Castellnedd, medrai ddyweyd ymadroddion llymion, miniog, a chyrhaeddgar, y rhai a frathent hyd yr asgwrn; a thywalltai gawodydd o ymadroddion gwawdlym y fath ag a orfodai y rhai y disgynent arnynt i deimlo oddiwrthynt. Nid oedd yr ymadroddion hyny hwyrach yn gwneyd dim lles iddo; ond y fath oedd ei gasineb at dwyll, a rhagrith o bob math, yn enwedig at anhyweithdra mewn dynion ar enw crefydd, fel nas gallasai eu goddef. Digwyddodd iddo glywed am un o'r dynion hyn oedd ar un adeg yn yr eglwys dan ei ofal yn y Wern; a chlywsai ei fod yn cynllwyn yn ei erbyn, ac yn ceisio casglu plaid yn ddirgelaidd i'w godi ymaith; a phenderfynodd weinyddu cerydd arno mewn dull nas gallasai gamgymeryd ei ystyr. Wrth fyned o'r capel un noswaith, galwodd y dyn o'r neilldu, ac wedi ysgwyd llaw ag ef dywedai wrtho, yn ddystaw ac yn gyfeillgar, fel y gallesid tybied—"Hwn a hwn, os gwyddoch chwi am rhyw ddyn bach yn yr eglwys yma sydd wedi blino arna' i, ac am fy nghael i oddiyma—mae dynion felly i'w cael chi wyddoch na bydd neb wrth eu bodd yn hir—dywedwch wrtho mai gwell iddo fyned i Benrhiw, ac aros yno dipyn; a phan y bydd e wedi blino yno—waeth mae e yn siwr o flino, fedr dynion anhywaeth ddim bod yn hir yn unman—gall fyn'd i fyny at Mr. Roberts i Gapel Sion i'w threio hi yno, ac wedi iddo flino yno, a methu llwyddo i'w gyru hi yn ddrwg rhwng Mr. Roberts a'r eglwys, fe all dd'od yn ol yma atom ninau am dipyn. Mi fyddai i yma wedi hyny—waeth dwy i ddim yn meddwl myned oddiyma. Nos da i chwi;" ac ymaith ag ef. Yr oedd yn dywedyd y cwbl mor gyflym a chyffrous, fel na chai y dyn hamdden i wthio gair i mewn; ond teimlai rhyw lais oddifewn iddo yn dywedyd, "Tydi yw y gwr." Bu rhai o'r dynion hyn o gryn ofid iddo

* *Diwygiwr*, 1850. Tu dal. 376.

er hwyrach y gallasai gydag ychydig o hunanlywodraethiad a bynawsedd rhagflaenu llawer o hono.

Yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Evans, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Job Jones, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, yr hwn a urddwyd yma Rhagfyr 5ed a'r 6ed, 1860. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. H. Jones, Caerfyrddin; holwyd y gweinidog gan Mr. E. Roberts, Cwmafan; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Thomas, Bryn, Llanelli; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Lewis, Henllan, ac i'r eglwys gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Cymerodd amryw weinidogion eraill ran yn oedfaon y dydd. Ni bu tymor Mr. Jones ond byr yma; ond yn yr ysbaid byr hwnw bu yn nodedig o dderbyniol a chymeradwy, ac yr oedd yr adeg hono yn wresog ar grefydd yn y wlad. Gorfodwyd ef gan sefyllfa ei iechyd yn gynar yn yr haf dilynol i fyned adref i dŷ ei rieni, ac ni ddychwelodd yma mwy. Gwanychodd yn raddol, a bu farw Medi 29ain, 1861, yn 27 oed. Bu yr eglwys am fwy na dwy flynedd ar ol hyn yn amddifad o weinidog, ond er hyny ni bu na segur na diffrwyth. Yn nghyfarfod Jubili taliad dyled y capel a gynaliwyd yma Rhagfyr 16eg, 1862, dangosodd yr ysgrifenydd fod yr eglwys wedi casglu at ddyled y capel o'r flwyddyn 1849 hyd y cyfarfod hwnw 993p. 7s. 5½c., heb gyfrif yr hyn a wnaed at gynhaliaeth yr achos yn y lle, ac at achosion cyhoeddus y tu allan. Yn Gorphenaf, 1863, derbyniodd Mr. John Garibaldi Thomas, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, alwad gan yr eglwys; a chynaliwyd cyfarfodydd ei urddiad y dyddiau olaf o fis Rhagfyr y flwyddyn hono. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Morgan, Caerfyrddin; holwyd y gofyniadau gan Mr. E. Evans, Sciwen; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan ei frawd Mr. W. Thomas, Gwynfe; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Davies, Aberaman, (dan weinidogaeth yr hwn y dechreuodd Mr. Thomas bregethu); ac i'r eglwys gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Yr oedd amryw weinidogion eraill yn bresenol yn cymeryd rhan yn y gwahanol gyfarfodydd, heblaw nifer fawr o fyfyrwyr Caerfyrddin ac Aberhonddu. Dechreuodd Mr. Thomas ei weinidogaeth yma dan amgylchiadau tra ffafriol. Yr oedd masnach yr ardal yn fywiog, a'r eglwys yn llawn o ysbryd gweithio; ac yn haf 1864, penderfynwyd adgyweirio y capel, ac adeiladu ysgoldy helaeth gerllaw iddo, lle yr addysgir y plant ar y Sabboth, ac y cynhelir y moddion wythnosol, a chostiodd y cyfnewidiadau a'r ad-drefniadau agos yr un faint ag a gostiodd adeiladu y capel ar y dechreu. Ail agorwyd ef Awst 6ed a'r 7fed, 1865, a phregethwyd ar yr achlysur gan Meistri E. G. Jones, o athrofa Caerfyrddin; J. M. Thomas, Wyddgrug; E. Evans, Treforis; S. Davies, Aberdar, a T. Rees, D.D., Abertawy. Parhaodd yr eglwys i fyned rhagddi yn llwyddianus, fel cyn diwedd y flwyddyn 1866, yr oedd rhif yr aelodau yn 300. Yn Mai, 1867, dechreuwyd cynal Ysgol Sabbothol ar gyfer y Saeson yn Neuadd y dref, gan feddwl y pryd hwnw am sefydlu achos Seisnig yn y lle, ond dyryswyd yr amcan hwnw a hyny pan oedd y rhagolygon yn addawol iawn.* Yn haf 1868, cyflwynwyd Tysteb i Mr. Thomas gan yr eglwys am ei ffyddlondeb gyda'r achos yn y lle; ac yn enwedig fel cydnabyddiaeth o'u parch iddo am ei waith yn sefyll mor wrol o blaid iawnderau yr Ymneillduwyr pan y ceisid gosod iau drom ar eu gwarau yn mrwydr hir gofiadwy y "*lle claddu newydd.*" Cyflwynwyd yr anrheg i Mr. Thomas, dros yr eglwys a chyfeillion y tu allan, gan yr hen

* Ysgrif Mr. J. G. Thomas, Aberafan.

ddiacon ffyddlawn Evan Enoch, yr hwn sydd ar fin 80 oed. Mae yr eglwys yma wedi dyoddef oddiwrth fethiant rhai o weithfeydd yr ardal, ac ymadawiad llawer o aelodau i eglwysi eraill; ac nid yw yr ymadawiadau bob amser wedi bod yn y dull mwyaf rheolaidd; ond y mae yr achos er hyny mewn gwedd lewyrchus, ac ni bu ei heddwch mewnol yn helaethach mewn unrhyw gyfnod yn ei hanes, ac nid heddwch diffrwyth ydyw ychwaith canys yr oedd cyfanswm derbyniadau yr eglwys at bob achos am 1870 yn ymyl dau cant o bunau, ac y mae dyled y capel wedi ei dynu i lawr o dan ddau cant.

Bu yma lawer o bersonau ffyddlon o bryd i bryd y rhai y mae ei henwau yn teilyngu eu cofnodi yn barchus. Benjamin James oedd frawd ffyddlon a llafurus. David Griffiths a David Bowen oeddynt ystwyth ac iraidd eu profiad. Morgan Hussey oedd un a wir ofalai am yr achos yn y lle er pan y daeth yma o'r Mynyddbach, a pharhaodd felly hyd y diwedd. Bu farw yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau, (93 oed,) ac er ei fod er's blynyddau wedi colli ei olygon, yr oedd ei weled yn gwrando a'i ddagrau mawrion yn treiglo dros ei ruddiau yn dangos fel yr oedd ei enaid yn mwynhau diddanwch yr efengyl. Evan Jones oedd ddyn tawel a heddychol, a dangosodd y dorf fawr a ddaeth i'w gladdedigaeth y parch oedd i'w gymeriad; ac y mae yn ddyled cofnodi, yn mysg llawer o wragedd rhinweddol a fu yma, enw Catherine Howell, yr hon a fu farw y flwyddyn hon (1871). Yr oedd yn berthynas i'r hen bregethwr hynod Siencyn Thomas, Penhydd, ac mewn pethau yn dwyn tebygolrwydd iddo. Yr oedd yn un o'r rhai olaf o'r hen dô a welwyd lawer gwaith yn neidio ac yn llamu o flaen Arch Duw.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

John Phillips. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1807, mewn lle a elwir Nantysaeson, yn mhlwyf Llanfyrnach. Bedyddiwyd ef gan Mr. William Evans, Hebron, gyda'r hwn yr oedd ei rieni yn aelodau. Derbyniwyd John Phillips yn aelod yn Hebron gan Mr. John Evans, pan nad oedd ond 12 oed. Wedi iddo briodi bu yn trigianu am flynyddau yn ymyl Mr. Evans, Hebron, ac yn gweithio iddo, a theimlai John Phillips trwy ei oes yn fraint iddo gael ei ddwyn i gysylltiad mor agos a'r gwr nodedig hwnw. Cafodd ei wraig ei chystuddio yn drwm am flynyddau, a thrwy fod ei deulu yn lluosog, bu raid iddo adael cymydogaeth dawel Hebron, a throi ei wyneb tua Morganwg i ymofyn cynhaliaeth iddynt. Sefydlodd yn Aberafan, lle y bu yn ddefnyddiol iawn gyda chrefydd. Tua diwedd y flwyddyn 1845, anogwyd ef i ddechreu pregethu, ac o hyny hyd ddiwedd ei oes bu yn bregethwr cynorthwyol derbyniol a chymeradwy. Heblaw yn Aberafan, pregethodd lawer yn Melinycwrt, Glynnedd, Ystradfellte, Llwyni, Cefncribwr, Drefnewydd a manau eraill, a bu yn myned yn fisol am flynyddau i rai o'r lleoedd a enwyd. Cymerai deithiau byrion yn achlysurol i sir Gaerfyrddin neu sir Benfro, ac yr oedd yn hynod o gymeradwy pa le bynag yr elai. Yr oedd yn ddyn o ddeall da, o barabl clir, a'i lais yn hyglyw. Edrychid arno fel dyn tyner a charedig, ac yr oedd yn ffyddlon gyda holl ddyledswyddau crefydd, yn enwedig yn ei ofal am y llesg, y trallodedig, a'r cystuddiol. Pregethai yn bur a sylweddol, ac yr oedd ei draddodiad yn wastad yn gynes a bywiog. Gallesid yn yr olwg arno ddisgwyl iddo fyw i oedran teg; ond gwelwyd arwyddion fod y dyfrglwyf arno, yr hwn a gynyddodd yn gyflym, a bu farw Mai 25ain, 1866, yn 59 oed, a chladdwyd ef yn barchus un o'r dyddiau canlynol yn mynwent eglwys blwyfol Aberafan.

Robert B. Williams. Dechreuodd bregethu yr un pryd a John Phillips ac y mae yn awr yn weinidog yn y Morfa, sir Fynwy.

Richard Morgan. Urddwyd ef, fel y gwelsom, yn weinidog yn y Tabernacl, Aberafan.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Job Jones. Mab ydoedd i David a Mary Jones, o'r Crinoedd, yn agos i Narberth. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1834. Derbyniwyd ef yn aelod pan yn ieuangc, ac yn fuan wedi dechreu pregethu aeth i'r athrofa i Gaerfyrddin. Wedi treulio ei amser yno, derbyniodd alwad o'r Wern, Aberafan. Cychwynodd ei weinidogaeth ar adeg fywiog—ar haf o ddiwygiad, ac yr oedd wedi cyfranogi yn helaeth o'r un ysbryd. Cynhelid cyfarfodydd gweddio undebol ar y pryd, ac yr oedd ei dymer serchog a'i ddawn melus yn ei wneyd yn dderbyniol nid yn unig gan ei bobl ei hun, ond gan bob enwad yn y dref; ond yr oedd yr eglwys a'r gynnulleidfa dan ei ofal wedi ymserchu yn arbenig ynddo. Pregethai yn danllyd iawn, yn rhy danllyd o lawer i ateb i'w nerth, a llosgodd allan yn fuan. Yn mhen tua chwe' mis wedi ei urddiad gwelwyd arwyddion eglur fod y darfodedigaeth wedi ymafael ynddo. Aeth adref i dŷ ei rieni gan ddisgwyl gwellhad, ond nychodd yn raddol, a bu farw brydnhawn Sabboth Medi 29ain, 1861, a chladdwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent Brynsion, ac ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri L. James, Carfan; J. Lewis, Henllan; J. Davies, Gapel Sion, Abertawy; W. Thomas, Whitland, a J. Morris, Narberth. Bu eglwys y Wern yn hynod o garedig iddo yn ystod ei gystudd, ac elai rhai o honynt yn aml yr holl ffordd o Aberafan i ymyl Narberth i ymweled ag ef, ac aeth tua haner cant o honynt i'w angladd. Cymerasant holl draul ei gladdedigaeth, a chodasant gofadail ar ei fedd; ac y mae maen coffadwriaethol am dano ef a'i ragflaenor, Mr. Evans, i'w weled mewn man amlwg yn nghapel y Wern. "Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," a thros amser byr yr oedd yr eglwys yn "ewyllysgar yn gorfoleddu yn ei oleuni ef."

## ROCK.

Dechreuwyd yr achos yma yn 1838, trwy gadw cyfarfod gweddi yn nhŷ John Griffiths, cefnder Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd. Yr oedd y tŷ yr oedd John Griffiths yn byw ynddo wedi bod yn dafarndy, o dan yr enw *Rock & Fountain*, ac oddiwrth hyny y gelwir y capel hyd heddyw Capel y Rock. Aelodau yn Zoar, Castellnedd, oedd John Griffiths, Rock; Edward Jenkins, Penstar, a Thomas Hughes, Cwmclais, y tri a gychwynasant yr achos, ac unodd Morgan Rees, dilledydd, ac eraill o gapel Seion a rhai o aelodau y Cymer gyda hwy. Yr oedd Morgan Rees yn ganwr rhagorol, yr hyn oedd yn help mawr i'r achos ar ei gychwyniad. Cadwyd y gyfeillach gyntaf yma ar foreu Nadolig 1838, ar ol oedfa-weddi blygeiniol a gynhelid, ac arosodd Rees Griffiths, mab John Griffiths, a Jennet Rees a William Rees, Pontrhydyfen, ynddi. Cedwid cyfeillach yn rheolaidd bob wythnos ar ol hyn, a daeth Thomas Lewis a'i frawd William Lewis yn fuan attynt, a derbyniwyd y pump yn gyflawn aelodau yr un Sabboth yn Zoar, Castellnedd. Yn mhen oddeutu tri mis cafwyd dwy bregeth yn y lle ar brydnhawn Sabboth gan John Davies a David Griffiths,

dau bregethwr cynorthwyol perthynol i Zoar; ac o hyny allan cafwyd Ysgol Sabbothol bob boreu Sabboth, pregethu am ddau, a chyfarfod gweddi yn yr hwyr. Deuai y ddau bregethwr a enwyd o Zoar, Castell-nedd yma, a Zechariah Davies, aelod o Gapel Seion, a David Griffiths, pregethwr perthynol i'r Bedyddwyr, yr hwn sydd yn aros etto yn Nghwmafan. Cafwyd cyfarfod pregethu yma yn 1838, pryd y pregethodd Meistri W. Thomas, Cymer-glyn-corwg; D. Griffiths, Castellnedd; W. Morgan, Llwyni, a P. Griffiths, Alltwen. Yn niwedd Mehefin, 1839, daeth Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd yma i bregethu, ac i gorpholi yr aelodau yn y lle yn eglwys, ac i weinyddu yr ordinhadau. Bu y lle am ychydig dan ofal Mr. Griffiths, ac wrth weled pethau yn myned yn mlaen mor obeithiol, edrychwyd am le i adeiladu capel; yr hyn a gafwyd yn ymyl y lle y saif y capel presenol. Codwyd capel bychan, diaddurn, ac agorwyd ef Awst 20fed a'r 21ain, 1840. Ar ol cael capel newydd, anogodd Mr. Griffiths yr eglwys yn y lle i edrych am ryw un i'w bugeilio, gan fod ei lafur ef eisioes yn ormod i allu gwneyd hyny. Cyn diwedd y flwyddyn 1841, cymerodd Mr. William Thomas, Cymer-glyn-corwg, ofal y lle mewn rhan, yr hwn oedd wedi bod yn un o brif gefnogwyr y lle o'r dechreuad. Bu yn gofalu am y lle felly yn rhanol mewn cysylltiad a Cefncribwr hyd Ebrill 1845, pryd y rhoddodd yr eglwys yno i fyny, ac y cymerodd yn gyflawn at yr achos yma; ac y mae yn parhau i lafurio yn y lle hyd yr awr hon.* Yn fuan wedi sefydliad Mr. Thomas, lluosogodd yr eglwys a'r gynnulleidfa. Rhoddwyd oriel ar y capel, ac wedi y llwyddiant mawr a gafwyd yn 1849, aeth yn llawer rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa. Yn hytrach na helaethu y Rock, penderfynwyd codi capel newydd eang ar y Wauntymaen, mewn man lle yr oedd y boblogaeth yn cynyddu yn gyflym; ac wedi ei gael yn barod aeth rhan o'r eglwys yno. Effeithiodd ymadawiad cynifer o'r aelodau ar yr un pryd ar y lle dros ychydig; ond cryfhaodd yn raddol, fel y daeth y capel yn llawn drachefn, ac erbyn y flwyddyn 1869, penderfynwyd cael capel newydd eangach, ac adeiladwyd un gwerth wyth gant o bunau, yr hwn a agorwyd Tachwedd 20fed a'r 21ain, 1870; ac erbyn hyn nid oes ond cant-a-thri-ugain punt o ddyled yn aros, yr hyn a ddengys fod gan y bobl galon i weithio.†

Mae yr eglwys hon wedi bod bob amser yn heddychol a thangnefeddus, ac wedi gwasgar ei dylanwad er daioni mawr yn y cylch pwysig y mae ynddo.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

William Rees. Urddwyd ef yn Siloh, Maesteg, lle y mae yn aros etto.

Jenkin Davies, Mynyddbychan. Dechreuodd bregethu yn 1856. Yr oedd yn bregethwr ieuangc gobeithiol, a disgwyliadau mawrion wrtho, ond gwaelodd ei iechyd, a bu farw yn mlodeu ei ddyddiau, Tachwedd 27ain, 1861.

Richard Williams. Urddwyd ef yn y Bryn, lle y mae yn parhau i lafurio.

George Williams. Bu yn yr ysgol Normalaidd yn Abertawy. Urddwyd ef yn Nhrewyddel, ac y mae yn awr yn Amlwch.

John Evans (Ieuan Afan). Mae ef yn parhau yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys, ac yn gwasanaethu gyda Mr. Thomas, y gweinidog, fel "ei fab anwyl yn y ffydd."

* Llythyr Mr. Thomas, Rock. † Llythyr Mr. J. Evans (Ieuan Afan).

Digitized by Google

## BETHANIA, TYMAEN.

Ar ol yr ychwanegiad mawr a fu at yr eglwysi yn Nghwmafan, fel mewn llawer o fanau eraill yn Morganwg yn y flwyddyn 1849, aeth capel y Rock yn rhy gyfyng i'r gynnulleidfa, fel y penderfynodd Mr. Thomas a'r eglwys yn hytrach na'i ailadeiladu, i godi capel arall mewn man cyfleus i ran o'r eglwys yn nes i ganol y Cwm. Cafwyd darn o dir ar Wauntymaen, lle yr oedd llawer o dai eisioes wedi eu codi a'r boblogaeth yn cynyddu yn ddirfawr. Adeiladwyd yma gapel eang yn mesur dros y muriau 54 troedfedd o hyd wrth 50 troedfedd o led, a chostiodd yn agos i naw cant o bunau. Agorwyd ef Mai 5ed a'r 6ed, 1861, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri W. Humphreys, Cadle; O. Owens, Brynmenyn; H. Rees, Ystrad; J. Thomas, Glynnedd; T. Thomas, Clydach; E. Griffiths, Abertawy; T. Jones, Treforis; T. Davies, Treforis; E. Jacob, Abertawy; J. Steadman, Mumbles; J. Mathews, Castellnedd, a J. Davies, Mynyddbach.* Yn anffodus wedi dechreu adeiladu cafwyd allan fod y tir o dan y capel yn ymollwng ac agenodd y muriau ychydig fel y bu raid eu cadarnhau a barau heiyrn, yr hyn, heblaw ychwanegu y draul, a barodd lawer o bryder i'r cyfeillion yn y lle. Dyoddefodd yr eglwys hon yn gystal a holl eglwysi y Cwm, oblegid arafwch masnach y lle am flynyddoedd, ac ymadawodd llawer mewn canlyniad i ardaloedd eraill; ond teimlodd yr eglwys hon yn fwy, oblegid mai achos newydd ydoedd, dan faich o ddyled; ond daliodd yr achos ei dir, a thrwy ddyfalbarhad Mr. Thomas, y gweinidog, ac ychydig ffyddloniaid, cariwyd yr achos yn mlaen yn ddiwaradwydd. Yn 1858 gorphenwyd ac ad-drefnwyd y capel, a gwnaed rhyw gyfnewidiadau ynddo; a chynhaliwyd cyfarfodydd ei ail agoriad Gorphenaf 18ed a'r 19eg. Tua diwedd y flwyddyn hono a dechreu yr un ganlynol ychwanegwyd tua 220 at yr eglwys; ond y mae yr eglwys er hyny wedi dyoddef colledion mawrion trwy symudiadau a marwolaethau, ond y mae yr achos mewn cyflwr gobeithiol; a'r ddyled yr hon unwaith a ofnid mor fawr wedi dyfod i lawr i 300p. er i'r capel trwy ei adeiladiad a'i ad-drefniad gostio dros 1300p.† Erbyn hyn y mae yr eglwys wedi dyfod yn mlaen yn gryf a llwyddianus. Mae yr achos o'r dechreuad wedi bod mewn cysylltiad a'r Rock, ac o dan yr un weinidogaeth. Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef John Stephens, sydd yn awr yn yr ysgol yn Menybont-ar-ogwy.

## LLANSAWEL, NEU BRITON FERRY.

Er nad yw yr achos Annibynol yn y plwyf hwn yn hen, dichon na fu un adeg er's yn agos i ddau cant a haner o flynyddau heb fod aelodau perthynol i'r Annibynwyr yn byw yn y plwyf. Yma yr oedd Bussey Mansel yn byw yn yr ail-ganrif-ar-bymtheg, ac efe oedd perchenog y rhan fwyaf, os nad yr oll, o'r plwyf. Yr oedd y boneddwr hwnw yn un o weinyddwyr y weithred er taenu yr efengyl yn Nghymru yn 1650, a bu trwy dymor yr erledigaeth yn aelod ffyddlon ac yn noddwr cadarn i'r eglwys yn y Chwarelaubach. Gresyn na buasai Iarlliaid Jersey, ei ddisgynyddion a'i etifeddion, yn glynu gydag egwyddorion eu henafiaid. Gan

* *Diwygiwr* 1861. Tu dal. 187. † Llythyr Mr. Thomas, Rock.

nad yw y lle hwn ond dwy filldir o Gastellnedd, mae yn ddiamheu fod llawer o aelodau a gwrandawyr y Chwarelaubach a Maesyrhaf yn trigianu yma o oes i oes. Yn y flwyddyn 1809, gan fod Mr. Bowen, Castellnedd, wedi bod yn ddyoddefydd o herwydd pregethu mewn tai heb eu trwyddedu, mynodd drwyddedu tŷ yma fel y gallasai bregethu yn ddiofn cosp. A ganlyn sydd gopi o'r drwydded.

"To all to whom it my concern. Whereas the dwellinghouse of David Rees of the parish of Briton Ferry, in the county of Glamorgan, and the Diocese of Llandaff, is certified to the Right Reverend Father in God, Richard, by Divine permission, Bishop of Llandaff, to be lately fixed upon as a proper place for the Protestant Dissenters of the Independent persuasion to meet in for Divine Worship.

These are, pursuant to an Act of Parliament, in that behalf made and provided, To certify that the Certificate hereof was Registered in the said Lord Bishop's Registry the 1st day of April, in the year of Our Lord 1809.

EDW. PEARSON,
Registrar."

Bu Mr. Bowen yn pregethu yn fynych yma hyd derfyn ei oes, ac ymwelid a'r ardal yn aml gan weinidogion o ardaloedd eraill, megis Methusalem Jones, Merthyr; W. Jones, Penybont, &c. Pregethodd yr enwog Daniel Griffiths lawer yma yn ei dymor, ond ei ganlyniedydd Mr. J. Mathews gafodd yr anrhydedd o sefydlu achos yn y lle. Yn 1847, cynaliwyd Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd gweddio, yn nghyd a phregethu achlysurol, gan Mr. Mathews, a phobl Zoar, Castellnedd, mewn anedd-dy yn Giant's Grave. Yn y flwyddyn 1848, adeiladwyd yma gapel lled helaeth a chyfleus yn cynwys tua 400 o eisteddleoedd. Yn mhen tua blwyddyn ar ol agor y capel corpholwyd yma eglwys yn cael ei gwneyd i fyny gan mwyaf oll o aelodau a ollyngasid o Zoar. Mr. Mathews, a Mr. William Parker, un o ddiaconiaid Zoar, fu yn gweinyddu ar yr achlysur. Y dynion mwyaf blaenllaw a gweithgar yma fel aelodau ar ffurfiad yr eglwys oeddynt Griffith Lewis, Thomas Morgan, Thomas Parker, William Hughes, Thomas Davies, William Hunter, Benjamin Howells, a William Lovett. Bu yr eglwys ieuangc dan ofal Mr. Mathews hyd Hydref, 1851, pryd yr urddwyd Mr. Griffith Roberts yn weinidog. Ychydig gyda dwy flynedd y bu ef yma cyn i'w fuchedd fyned yn rhy annheilwng iddo gael ei ddyoddef yn hwy fel gweinidog yr efengyl. Ar ol ei ymadawiad ef bu yr eglwys yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1859, pryd yr ymsefydlodd Mr. David Evans, y gweinidog presenol yma. Mae gweinidogaeth Mr. Evans wedi bod yn dderbyniol a llwyddianus iawn hyd yn bresenol. Yn y flwyddyn 1865, tynwyd yr hen gapel i lawr ac adeiladwyd un llawer mwy a harddach ar ei safle. Cynwysa y capel presenol o saith i wyth cant o eisteddleoedd. Traul adeiladaeth y capel cyntaf oedd 516p., a thraul adeiladaeth yr ail oedd 1500p. Rhif yr aelodau yn bresenol yw 260. Ni fu yma ddim tebyg i derfysg eglwysig hyd o fewn tair blynedd yn ol, pryd y darfu i ryw nifer o'r aelodau yn nghymydogaeth Giant's Grave fyned i groes-dynu a'r eglwys, ac amlygu dymuniad am gael eu ffurfio yn eglwys ar eu penau eu hunain, ond barnai yr eglwys yn wahanol iddynt, am y golygent fod un achos Annibynol yn bresenol yn ddigon i gyfateb i anghenion yr ardal. Parhaodd y blaid fechan hon i ymgyndynu. O'r diwedd, rhoddwyd llythyrau gollyngdod iddynt i fyned i Zoar, Castellnedd, ond nid oedd hyny drachefn yn eu boddloni. Dechreu achos newydd



Digitized by Google

yn Giant's Grave oedd eu pwngc hwy. Buont yn nghyfarfodydd chwarterol yr undeb sirol yn gofyn cymeradwyaeth i gwblhau eu hamcanion, ond pan wrthododd y gweinidogion yn benderfynol eu cefnogi, aethant i gyfarfod misol y Methodistiaid, a chawsant dderbyniad ganddynt hwy. Peth blin yw gweled y naill enwad crefyddol yn y modd hwn yn cefnogi rhwygiadau mewn enwad arall. Nid oes un enwad yn Nghymru yn hollol ddifai ar y pen hwn, ond y mae yn llawn bryd i ni oll amlygu mwy o ysbryd caredig cristionogaeth a llai o ysbryd plaid.

## SCIWEN.

Cangen o Zoar, Castellnedd yw yr eglwys hon. Dechreuwyd yr ardal gan Mr. Daniel Griffiths, yr hwn a bregethodd lawer mewn tai yn yr achos flynyddau cyn bod son am gapel; a derbyniwyd llawer o bersonau o'r gymydogaeth yn aelodau yn y dref. Cynhelid yma Ysgol Sabbothol, yr hon a gynyddodd i'r fath raddau fel yr oedd pedwar o dai anedd yn rhy gyfyng i gynwys y rhai a ddeuent yn nghyd. Gwelwyd yn angenrheidiol cael capel, a phrynwyd darn o dir, a chodwyd arno gapel yn mesur 34 troedfedd wrth 28 troedfedd. Agorwyd ef Mehefin 8fed a'r 9fed, 1842; ac ar yr achlysur gweinyddodd Meistri D. Evans, Castellnedd; E. Watkins, Llanelli, Brycheiniog; J. Davies, Mynyddbach; W. Morris, Glandwr; J. Davies, Cwmaman; R. Pryse, Cwmllynfell, a W. Morgan, Llwyni.* Am rai blynyddau ar ol hyn cedwid yma Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd yn yr wythnos, a chyfarfod gweddi neu bregeth bob nos Sabboth; ond yr oeddynt yn myned i'r dref bob boreu Sabboth, ac i'r dref i gymundeb; ond gweinyddid yma gymundeb yn achlysurol er mantais i'r rhai oedd yn analluog i fyned i'r dref; ac felly y parhaodd hyd farwolaeth Mr. Griffiths, ac am dymor wedi i Mr. Mathews ddechreu ei weinidogaeth yn Zoar. Ond wrth weled y lle yn cynyddu barnwyd yn ddoeth ffurfio eglwys yma, a rhoddwyd gollyngdod i 53 o aelodau o Zoar, ac ar foreu Sabboth, Medi 24ain, 1848, corpholodd Mr. Mathews hwy yn eglwys yn y lle. Parhaodd y Sciwen dan ofal Mr. Mathews hyd y flwyddyn 1851, pan y barnodd yn ddoethach ei rhoddi i fyny gan fod maes ei lafur yn rhy eang. Yn fuan ar ol hyn rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Evan Evans, yr hwn a fuasai dan addysg gyda Mr. Davies yn Llanelli, Brycheiniog; ac urddwyd ef Mai 26ain a'r 27ain, 1851. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Davies, Llanelli; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Mathews, Castellnedd; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. S. Evans, Rheoboth, (brawd yr urddedig); pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jenkins, Nantyglo, ac i'r eglwys gan Mr. J. Thomas, Glynnedd. Cymerwyd rhan hefyd yn ngyfarfodydd yr urddiad gan Meistri J. Rees, Canaan; T. Jones, Treforis; D. Evans, Castellnedd; R. Rees, Abertawy; P. Griffiths, Alltwen; W. Miles, Tyrhos; J. Davies, Mynyddbach; T. Davies, Treforis, ac eraill.† Mae Mr. Evans wedi llafurio yma bellach am fwy nag ugain mlynedd, ac y mae yr achos, er gorfod myned trwy lawer o gyfnewidiadau, wedi myned rhagddo yn llwyddianus. Aeth yr hen gapel yn rhy fychan yn fuan, ac yn 1859, penderfynwyd adeiladu capel newydd heb fod yn mhell o'r fan lle y safai yr hen, ac aeth yr eglwys i'w theml newydd a hardd yn mis Awst, 1860.

* *Diwygiwr*, 1842. Tu dal. 252. † *Diwygiwr* 1851. Tu dal. 216.

Digitized by Google

Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef Thomas Phillips, yr hwn a fu farw pan yn cychwyn ei efrydiau er parotoi ar gyfer y weinidogaeth. Deifiwyd ei brydferthwch gan awelon oerion y darfodedigaeth, a gwywodd fel blodeuyn pan yn dechreu ymagor.

## BRYN, CWMAFAN.

Dechreuwyd pregethu yma yn achlysurol mewn tai anedd tua'r flwyddyn 1841, ond yn 1846 y dechreuwyd gwneyd hyny yn rheolaidd. Adeiladwyd yma haner cant o dai newyddion ar gyfer y glowyr a'r mwnwyr oedd wedi dyfod i'r ardal i weithio, ac yn mhlith eraill daeth rhai o aelodau Capel Seion a'r Rock, Cwmafan, a Zoar, Maesteg, yma i fyw. Cymerwyd yma anedd-dy, a threfnwyd ef at gadw moddion crefyddol. Ffurfiwyd yma eglwys yn 1847 gan Meistri W. Thomas, Rock; E. Roberts, Cwmafan, a W. Watkins, Maesteg. Yn y flwyddyn ganlynol rhoddodd yr eglwys, er nad oedd ei rhif ond ychydig, alwad i Mr. John Davies, pregethwr cynorthwyol yn Seion, Cwmafan; ac urddwyd ef Hydref 18fed a'r 19eg, 1848. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. E. Roberts, Cwmafan; holwyd y gweinidog gan Mr. W. Thomas, Rock; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Davies, Mynyddbach; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. P. Griffiths, Alltwen, ac i'r eglwys gan Mr. W. Watkins, Maesteg.* Bu Mr. John Davies yma yn barchus am fwy na phedair blynedd, hyd nes y syrthiodd i bechod gwarthus fel y bu raid i'r eglwys ymwrthod ag ef. Bu farw yn mhen blynyddoedd heb fod mewn cysylltiad a'r weinidogaeth. Ar ol hyny bu gofal yr eglwys ar Mr. David Henry mewn cysylltiad a Cymer-glyn-corwg hyd y flwyddyn 1859, pan y symudodd i Benygroes, sir Gaerfyrddin. Aeth yr achos rhagddo yn raddol yn ystod y blynyddau hyn, ac yn niwedd 1860 a dechreu 1861, adeiladwyd yma gapel newydd cyfleus. Rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Richard Williams, pregethwr cynorthwyol yn y Rock i fod yn weinidog iddi, ac urddwyd ef yn nglyn ag agoriad y capel Mai 21ain a'r 22ain, 1861. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. E. Roberts, Cwmafan; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Jones, Maesteg; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. Henry, Penygroes; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Thomas, Rock, ac i'r eglwys gan Mr. W. Rees, Maesteg.† Ysigwyd llawer ar yr achos yma tua diwedd y flwyddyn 1860, pan y safodd gwaith yr ardal, ond y mae pethau er hyny wedi adfywio, a'r achos yn myned rhagddo, er nid gyda chyflymder mawr.

## TONMAWR.

Mae y lle yma yn myned dan wahanol enwau, gelwid ef gynt yn Fforchdwn, wedi hyny galwyd ef yn Cwmgwenffrwd; ond dewisir yn awr ei alw Tonmawr, am mai yno y mae yr ysgoldy lle yr ymgynnullent i addoli. Pregethodd Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd, ac eraill lawer mewn anedd-dai yn yr ardal, a chynhelid yma Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddio, a chyfrifid y lle fel cangen o Zoar, Castellnedd. Yn haf

* *Diwygiwr*, 1848. Tu dal. 387. † *Diwygiwr*, 1861. Tu dal. 216.

Digitized by Google

1847, furfiwyd yr ychydig aelodau yn y lle yn eglwys, a gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd iddynt gan Mr. David Williams, Hermon, Ystradfellte. Wedi bod dros rai blynyddoedd yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, cymerodd Mr. John Davies, Bryn-troed-gam ofal y lle, a bu yn ffyddlawn yn gofalu am dano. Wedi hyny bu y lle yn olynol dan ofal Mr. E. Evans, Sciwen, a Mr. W. Thomas, Rock; ond yn nechreu y flwyddyn 1866, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Davies, pregethwr cynorthwyol a godwyd ynddi; ac urddwyd ef Ebrill 4ydd a'r 5ed, y flwyddyn hono, ac y mae yn parhau i ofalu am y lle. Nid oes yma a hyd yn hyn gapel wedi ei adeiladu, ond cyfarfyddant mewn ysgoldy ar y Tonmawr.

Codwyd yma ddau bregethwr, sef John Davies, y gweinidog presenol, ac Evan Lewis, yr hwn a symudodd oddiyma i Pontypridd.

## TAIBACH.

Mae y pentref poblog hwn yn mhlwyf Margam, tua milldir i'r de o Aberafan. Yr oedd Mr. Hugh Owen wedi dechreu pregethu, ac wedi bwriadu cychwyn achos Annibynol yma, yn y flwyddyn 1821, cyn fod gan un enwad arall achos yn y lle, ond o herwydd camddealldwriaeth rhyngddo ef a Mr. Llewellyn, goruchwyliwr Mr. Talbot, perchenog yr holl blwyf, gwrthodwyd tir i'r Annibynwyr i adeiladu capel yn y lle hyd o fewn unflynedd-ar-bymtheg yn ol. Yr oedd yr ychydig Annibynwyr a breswylient yn y lle hwn yn myned i Gapel Seion, Cwmafan i gymuno yn amser Mr. H. Owen, ac wedi hyny i'r Tabernacl, Aberafan; ond ni bu yr achos yno ond gwywlyd ac ar drancedigaeth nes i Mr. Evans, Castellnedd, gymeryd ei ofal yn 1837; o hyny allan parhaodd i ychwanegu nerth o flwyddyn i flwyddyn. Yn 1841, derbyniodd Mr. Evans chwech o breswylwyr Taibach yn aelodau yn y Tabernacl, Aberafan, a pharhaodd i dderbyn rhai o'r lle hwn yn feunyddiol nes oeddynt erbyn y flwyddyn 1852 wedi myned yn ddigon lluosog i gadw cyfeillach grefyddol iddynt eu hunain. Cynhaliwyd y gyfeillach gyntaf yn nhy John Williams, Groeswen, tad Mr. Robert Williams, Morfa, Mynwy, Ebrill 1af, 1852. Y rhif oedd yn bresenol y noson hono ydoedd un-ar-ddeg. Parhawyd i gynal y gyfeillach a chyfarfodydd gweddio, ac ar y 9fed o Ebrill, 1854, dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn rhif 13, Constant Row. Ar yr 21ain o Fai, yn yr un flwyddyn, corpholwyd yma eglwys, cynwysedig o 23 o aelodau, y rhai a gawsant ollyngdod o eglwys y Wern, Aberafan. Ar ffurfiad yr eglwys, gweddiodd Mr. John Phillips, Aberafan, a phregethodd Mr. Evans, Castellnedd, a gweinyddodd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Gweinyddodd Evan Enoch, un o ddiaconiaid eglwys y Wern, fel diacon ar yr achlysur. Wedi cael eglwys yn y lle yr oedd yn rhaid cael moddion crefyddol yn fwy rheolaidd nag o'r blaen, ac felly cydunwyd i dderbyn gwasanaeth Mr. John Steadman fel gweinidog. Y peth nesaf oedd edrych am le i adeiladu capel, ac nid bychan y drafferth a gafwyd cyn ei gael, o herwydd fod Mr. Llewellyn, goruchwyliwr Mr. Talbot yn gosod pob rhwystr a fedrai ar y ffordd. O'r diwedd llwyddodd Mr. Steadman i gael gan Mr. Vivian, perchenog y gwaith yn y lle, a Mr. Gray, ei oruchwyliwr, i ddylanwadu ar Mr. Talbot i roddi tir, ac ar yr 28ain o Ragfyr, 1855, gosodwyd y gareg sylfaen i lawr. Gan fod y tywydd yn ayfnder y gauaf yn anghyfaddas at adeiladu, ni ddechreu-

Digitized by Google

wyd ar y gwaith cyn Mawrth, 1856. Yr oedd Mr. Vivian a'i feibion wedi addaw 65p. at y draul, a'r bobl wedi casglu ychydig at hyny. Yn y mis canlynol, ataliwyd y gwaith i fyned yn mlaen gan oruchwyliwr Mr. Talbot, o herwydd fod arian yn ddyledus i gyfaill iddo oddiwrth gynulleidfa yn Nghwmafan, nes y buasai yr arian hyny wedi eu talu. Bu hyny drachefn yn rhwystr am gryn lawer o amser. Ar ol llawer o drafferth cafwyd y ffordd yn rhydd i orphen y gwaith, a chafodd y capel ei agor Ebrill 3ydd a'r 4ydd, 1861. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri O. Owens, Brynmenyn; W. Griffiths, Llanharan; D. Rees, Llanelli; J. Thomas, Bryn; Job Jones, Aberafan; J. Davies, Cwmaman; J. Mathews, Castellnedd, ac eraill. Costiodd y capel ychydig dros 600p. Mae yn addoldy hardd a chyfleus, yn mesur 52 troedfedd wrth 38. Rhif yr aelodau pan agorwyd y capel oedd 70, a'r Ysgol Sabbothol yn 140. Aeth pethau yn mlaen yn ddymunol iawn am ychydig amser ar ol hyn; cynyddodd y gynnulleidfa a'r eglwys, a thalwyd cryn gyfran o'r ddyled, ond tua 1864, aeth pethau yn annymunol rhwng Mr. Steadman a rhai o'r aelodau, fel y lleihaodd y gynnulleidfa, ac y taflwyd y cwbl i ddyryswch. Yn 1866, rhoddodd Mr. Steadman y lle i fyny o herwydd henaint a methiant, a rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. John Stephens, Siloh, sir Gaernarfon, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma yn 1867. Erbyn hyn yr oedd yr achos drachefn yn dechreu cyfodi ei ben uwchlaw y dwfr. Bu Mr. Stephens yn llwyddianus a chysurus yma am tua dwy flynedd; llanwyd y capel o wrandawyr, a lluosogodd yr eglwys yn fawr. Ond tua dwy flynedd yn ol, cyfododd trallod tost drachefn. Ymrysonodd y glowyr a'u meistriaid; gwasgarwyd ugeiniau o honynt o'r ardal, a daeth Saeson i'w gwaith. Gan mai glowyr oedd y rhan fwyaf o aelodau yr eglwys hon, bu yr amgylchiad gofidus hwn yn niweidiol iawn i'r achos, ac mae yn debyg y dyoddefa oddiwrtho am flynyddau etto. Gan fod yr eglwys wedi myned yn rhy wan i gynal gweinidog, ac nad oes un argoel i bethau wellhau yma yn fuan, gorfu i Mr. Stephens wneyd ei feddwl i fyny i ymadael, ac yn Hydref 1871, symudodd oddiyma i Brynteg, Casllwchwr. Felly mae yr eglwys hon yn bresenol heb weinidog, ac y mae yn debyg o fod yn analluog i gynal un nes y ceir adfywiad ar y gweithiau ac ar grefydd. Hyderwn y ceir pob un o'r ddau yn fuan. Gwelir oddiwrth yr hanes blaenorol nad oes nemawr o achos o'i oed wedi bod mewn mwy o helbulon na hwn, ond y mae wedi cael ei gadw yn fyw ynddynt oll. Dylid crybwyll fod y diweddar Mr. John Phillips, Aberafan, a Mr. Richard Morgan, gweinidog presenol y Tabernacl, Aberafan, wedi bod yn gymorth mawr i'r achos hwn yn ei gychwyniad, ac am flynyddau wedi hyny.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

JOHN STEADMAN. Ganwyd ef yn mhlwyf Llangunor, yn agos i Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1791. Ymunodd a'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nghaerfyrddin yn dra ieuangc. Aeth i Gaerodor i weithio ei gelfyddyd fel saer, ac ymaelododd gyda'r Methodistiaid yno. Yn mhen rhyw gymaint o amser, oddeutu y flwyddyn 1818, fel y tybiwn, dechreuodd bregethu. Symudodd o Gaerodor i'r Casnewydd, lle y bu am lawer o flynyddau. Daeth yn lled enwog yn mysg y Methodistiaid fel pregethwr. Tua'r flwyddyn 1838, ymunodd a'r Annibynwyr yn Nghaerdydd, lle yr

oedd yn cyfaneddu ar y pryd. Yn 1840, cafodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Newton-on-Mumbles. Ar ol bod yno am rai blynyddau, cymerodd ofal yr eglwys ieuangc yn y Taibach, a'r eglwys fechan yn y Tabernacl, Aberafan, ac yn 1866, rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny o herwydd henaint a methiant. Bu farw Rhagfyr, 1869, a chladdwyd ef yn mynwent plwyf Oystermouth, gerllaw Abertawy.

Yr oedd John Steadman yn gristion pur ei fuchedd, ac yn bregethwr galluog, ac efengylaidd, yn ei ddyddiau goreu, ond achwynid yn dost arno o herwydd meithder ei bregethau. Dywedir y byddai weithiau yn pregethu dros ddwy awr cyn tewi. Yr oedd wedi diwygio i raddau mawr oddiwrth y bai hwnw yn ei flynyddau diweddaf. Er ei fod yn ddyn da, nid oedd yn un o'r rhai mwyaf medrus i lywyddu dynion ac i'w cadw yn heddychol. Cyfododd ymrysonau ragor nag unwaith yn yr eglwysi dan ei ofal, yr hyn a allesid yn rhwydd ragflaenu pe buasai ef yn fwy doeth a phwyllog. Dichon ei fod yn rhy benderfynol i fyny cario allan ei gynlluniau pa beth bynag fuasai y canlyniad; ond cydnabyddid ef gan bawb yn ddyn da, ac yn gristion didwyll.

## SARDIS, PONTRHYDYFEN.

Dechreuwyd cynal cyfarfodydd gweddio tua'r Efailfach gan nifer o aelodau y Rock a Fforchdwn, y rhai a gwynent oblegid pellder y ffordd oedd ganddynt i fyned i addoli. Nid oedd y boblogaeth yn lluosog, ac nid addawol iawn oedd y rhagolygon am achos yn y lle; ond cyn hir anturiodd yr ychydig gyfeillion yn y lle a chodi capel, yr hwn a alwyd Sardis. Agorwyd ef Ebrill 3ydd a'r 4ydd, 1859, ac ar yr un adeg neillduwyd Mr. David Jones, yr hwn oedd yn aelod yn Bethania, Cwmafan, i gyflawn waith y weinidogaeth. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri J. Mathews, Castellnedd; J. Davies, Cwmafan; W. Thomas, Rock; O. Owens, Brynmenyn; T. Thomas, Glandwr; J. Jones, Maesteg, ac eraill.* Mae Mr. Jones yn parhau yn weinidog yn y lle, ac er na bu yr achos erioed yn gryf, etto y mae yn Sardis "ychydig enwau" yn ffyddlon i gynal coffadwriaeth o enw yr Arglwydd.

## BRYNCAWS.

Mae y lle hwn ar lechwedd bryn yn mhlwyf Llangattwg, Glynnedd, tua milldir i'r gogledd o Aberdulais, ac yn agos i dair milldir o dref Castellnedd. Hyd yn ddiweddar nid oedd yn y gymydogaeth ond tri neu bedwar o amaethdai, ond wedi agoryd gweithiau glo yma daeth rhai degau o deuluoedd i fyw i'r ardal. Yn 1866, rhoddodd Mr. Owen Jones, Bryncaws, dir at adeiladu capel, am yr ardreth o chwe'cheiniog y flwyddyn am fil ond un o flynyddau, ac ar yr un pryd, rhoddodd ei hun yn ei henaint, i fod yn ddysgybl proffesedig i'r Arglwydd Iesu. Adeiladwyd yma gapel bychan a thlws, o werth dau gant o bunau, gan y diweddar Evan Evans, Ysw., Castellnedd, a rhoddodd ef yn anrheg i'r gynnulleidfa. Ffurfiwyd yma eglwys yn 1866, cynwysedig yn benaf o aelodau Zoar, Castellnedd. Mae y gangen fechan hon o'r dechreuad dan ofal gweinidogaethol Mr. Mathews,

* *Dywysydd*, 1859. Tu dal. 155.

a phob peth yn myned yn mlaen yn gysurus a gobeithiol iawn. Yr ymddiriedolwyr yn y weithred ydynt Meistri J. Mathews, y gweinidog; Joseph Lloyd Mathews, David Bevan, Evan Evans Bevan, Owen Jones, Jonah Owen Jones, John Jones, a William Davies. Mae tri phregethwr cynorthwyol yn aelodau yma, sef John Davies, William Davies, a William Close. Er nad yw yr eglwys hyd yma ond ychydig o rif, etto, gan fod poblogaeth yr ardal ar gynydd mae yn debyg y bydd yma eglwys luosog yn mhen ychydig o flynyddau.

## CASTELLNEDD, (Saesonaeg).

Teimlid er's blynyddoedd fod angen achos Seisnig yn y dref; ac yn Mehefin, 1848, cymerwyd Neuadd y dref i'r perwyl. Pregethwyd yma yn gyntaf gan Mr. W. Jones, Castle-Street, Abertawy; a ffurfiwyd eglwys ar y pryd. Mr. W. T. Morgan a'i deulu; Mr. Thomas Sims, a Mr. David Davies, oll yn dal cysylltiad a Maesyrhaf, oedd a'r llaw flaenaf yn nghychwyniad yr achos, ac unodd amryw eraill y tu allan gyda hwy. Dechreuwyd cyn hir ag adeiladu capel yn Wind-Street, ac agorwyd ef Hydref 10fed a'r 11eg, 1849. Mae yn addoldy cyfleus yn mesur 42 troedfedd wrth 32 troedfedd. Wedi cael y capel yn barod, rhoddwyd galwad i Mr. E. S. Hart, M.A., ac urddwyd ef Mehefin 29ain, 1850. Ni bu yma ond ychydig canys symudodd i St. Ives yn Ebrill, 1851. Wedi bod am dymor yn dibynu ar weinidogion cylchynol, rhoddwyd galwad i Mr. David Davies, B. A., o athrofa Caerfyrddin, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Medi, 1853. Bu yr achos yn dra blodeuog yn y tymor hwn. Talwyd 400p. o ddyled oedd yn aros ar y capel, a gwisgai pob peth agwedd lwyddianus, ond yn Awst, 1856, ymadawodd Mr. Davies oddiyma i Therfield, Herts, lle y mae etto. Rhoddwyd galwad yn ddioed i Mr. Benjamin B. Williams, B.A., myfyriwr o athrofa Aberhonddu. Dechreuodd ei weinidogaeth yma Hydref, 1856, a bu yma hyd fis Mai, 1858, pryd yr ymadawodd i fyned i Pembroke Dock. Yn mhen y flwyddyn wedi ymadawiad Mr. Williams, rhoddwyd galwad i Mr. John Evans, B.A., myfyriwr o athrofa Aberhonddu, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Gorphenaf, 1859, a bu yma hyd Ebrill, 1864, pryd yr ymadawodd i Milford. Yn Mawrth, 1865, daeth Mr. David S. Jones yma, yr hwn a fuasai yn weinidog yn Hope Chapel, Aberteifi, a bu yma hyd nes yr ymadawodd i'r America yn Ebrill, 1869. Cyn diwedd y flwyddyn hono, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas P. Lyke, myfyriwr o athrofa Aberhonddu. Dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Rhagfyr, 1869, ond o herwydd gwaeledd ei iechyd bu raid iddo roddi y weinidogaeth i fyny yn Gorphenaf y flwyddyn ganlynol. Yn Ionawr, 1871, dechreuodd Mr. J. L. Phillips—yr hwn a urddwyd yn weinidog ar yr eglwys yn Nhredegar—ei weinidogaeth yma; ac y mae yn parhau yn y lle hyd yn bresenol, a'r achos yn myned rhagddo yn llwyddianus. Yn ystod y flwyddyn hon y mae y capel wedi myned dan gyfnewidiadau trwy ei ad-drefnu a rhoddi oriel ynddo, ac aeth y draul yn fwy na 260p., ond nid oes yn aros ond 80p. o'r ddyled heb ei thalu.* Gwelir fod yr achos wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau yn ystod yr ychydig gydag ugain mlynedd er y sefydlwyd ef; ond y mae yma rai wedi bod yn ffyddlon iddo trwy yr amgylchiadau; ac yn ol yr argoelion presenol y mae dyddiau gwell yn aros yr achos yn y lle.

* Llythyr Mr. J. Mathews.

Digitized by Google

## CWMLLYNFELL.

Saif yr addoldy hwn yn mhlwyf Llanguwg, Morganwg, ond o fewn ychydig latheni i derfyn plwyf Llangadog, sir Gaerfyrddin, ac yn dra agos hefyd i blwyf Ystradgynlais, yn sir Frycheiniog. Mae yn dra sicr i'r achos yn y lle hwn gael ei ddechreu yn foreu yn amser yr Anghydffurfwyr, ond yr ydym wedi methu dyfod o hyd i amser ei ddechreuad, nac enwau neb o'i gychwynwyr. "Tybir mai un o'r enw Phillips oedd y gweinidog cyntaf yn Nghwmllynfell, ac iddo gael ei ganlyn gan John Llewellyn, a Llewellyn Bevan."* Ni ddigwyddodd i ni daro wrth enwau Mr. Phillips na Mr. John Llewellyn mewn unrhyw gofnodiad argraffedig nac ysgrifenedig, ond yn unig yn llawysgrif Mr. Pryse, ond y mae enw Llewellyn Bevan i'w gyfarfod yn aml mewn hen lawysgrifau. Yr oedd ef yn weinidog yn Nghwmllynfell, y Gellionen, a Gwynfe, yn 1715, ac o bosibl amryw flynyddau cyn hyny. Yr oedd y tair cynnulleidfa hyn, mae yn debyg o'r dechreuad, dan yr un weinidogaeth, ac yn 1715, yr oeddynt yn nghyd yn chwech chant o rif, a'r aelodau yn meddu naw-ar-hugain o bleidleisiau dros siroedd Morganwg, Caerfyrddin, a Brycheiniog. Yr ydym yn anhysbys o amser marwolaeth Llewellyn Bevan, ond yr oedd Roger Howell yn gydweinidog ag ef yn 1715, a pharhaodd i weinidogaethu yma hyd ei farwolaeth yn 1742. Mae yn debygol i Joseph Simmons gael ei urddo yma yn gydweinidog a Roger Howell tuag amser marwolaeth Llewellyn Bevan, a pharhaodd ef i wasanaethu i'r eglwys hon a'r Gellionen, hyd nes iddo gymeryd gofal yr eglwys yn Maesyrhaf, Castellnedd, tua'r flwyddyn 1751. Nid ydym yn deall fod un gweinidog sefydlog wedi bod yma ar ol ei ymadawiad ef nes i William Evans gael ei urddo yn Nghastellnedd fel gweinidog cynorthwyol yn 1754. Yr oedd ef yn gwasanaethu yr eglwysi yn Rhydymardy a'r Cwmmawr ddau Sabboth o bob mis, a'r Brychgoed am un Sabboth o'r mis am rai blynyddau, a thebyg mai ei fam-eglwys yn Nghwmllynfell oedd yn cael ei wasanaeth ar y Sabboth arall. Bu Mr. Evan Williams, o'r Brychgoed, a Mr. Lewis Rees, Mynyddbach, yn rhoddi rhan o'u gweinidogaeth i bobl Cwmllynfell rhwng 1757 a 1769, ond mae yn debygol mai fel cynorthwywyr i Mr. William Evans yr oeddynt hwy yn ymweled a'r lle, oblegid yr oedd y cynnulleidfaoedd yn Nghwmtawy, Cwmaman, a'r Alltwen dan ei ofal ef, yn gystal a Chwmllynfell, Rhydymardy, a'r Cwmmawr. Er dirfawr golled i'r eglwys, a'r wlad yn gyffredinol, bu farw y gweinidog gweithgar hwn yn bedair-ar-ddeg-a-deugain oed, yn 1770. Dywedir iddo ar ei wely angau gynghori pobl Cwmllynfell, yr Alltwen, a Chwmaman, i roddi galwad i Mr. John Davies, Pentre-tŷ-gwyn, i fod yn ganlyniedydd iddo ef, yr hyn a wnaethant. Dechreuodd Mr. Davies ei weinidogaeth yma yn 1771, a pharhaodd i lafurio yma gyda pharch a dylanwad mawr hyd 1821, pryd y bu farw mewn henaint teg. Yn fuan wedi marwolaeth Mr. Davies, rhoddodd yr eglwysi yn Nghwmllynfell Chwmaman alwad i Mr. John Rowlands, Llanybri, a bu yntau yma yn barchus a rhyfeddol o boblogaidd hyd ei farwolaeth ddisymwth yn Mai 1834. Ar ol bod tua blwyddyn heb un gweinidog sefydlog, rhoddodd eglwys Cwmllynfell alwad i Mr. Rhys Pryse, Llanwrtyd, ac urddwyd ef Awst 19eg a'r 20fed, 1835. Ar yr achlysur traddodwyd y gynaraeth gan

* Llawysgrif Mr. R. Pryse.

Mr. D. Evans, Cwmwysg; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Davies, Llanymddyfri; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. H. Herbert, Drefnewydd; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Williams, Llanwrtyd, ac i'r eglwys gan Mr. P. Griffiths, Alltwen.* Bu yn enwog a llwyddianus iawn yma hyd derfyn ei oes. Yn fuan ar ol ei sefydliad ef yn Nghwmllynfell adeiladwyd capel a chorpholwyd eglwys yn Mrynaman, yr hon sydd er's llawer o flynyddoedd bellach yn eglwys gref a blodeuog iawn. Ar farwolaeth Mr. Pryse, rhanwyd cylch ei weinidogaeth a chymerodd pob un o'r eglwysi weinidogion iddynt eu hunain. Rhoddodd eglwys Cwmllynfell alwad i Mr. John Rees, myfyriwr yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yma Medi 28ain a'r 29ain, 1870. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. E. Evans, Capel Seion; gofynwyd yr holiadau arferol gan Mr. W. Williams, Hirwaun; gweddiodd Mr. P. Griffiths, Alltwen, am fendith ar yr undeb; rhoddwyd siars i'r gweinidog gan Mr. J. Peter, Bala, ac i'r eglwys gan Dr. T. Rees, Abertawy.† Efe yw y gweinidog yn bresenol. Yr ydym yn hyderu y pery yntau, fel ei ragflaenoriaid enwog, i lafurio yn dderbyniol a llwyddianus yma hyd derfyn ei yrfa. Nid oes genym hanes fod neb, ond Mr. Joseph Simmons, o weinidogion yr eglwys hon wedi ei gadael nes iddynt gael eu lluddias gan farwolaeth i barhau.

Nid ydym wedi gallu dyfod o hyd i amseriad adeiladiad y capel cyntaf. Adeiladwyd yr ail gapel yn 1814, a chafodd ei adgyweirio a'i ad-drefnu yn 1823. Yn 1860, tynwyd yr hen gapel i lawr ac adeiladwyd yr un helaeth presenol. Yn yr un flwyddyn hefyd, adeiladwyd tŷ helaeth yn Nghwmtwrch, yr hwn a elwir y *Temperance Hall*, lle y cedwir Ysgol Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol.

Gellir ystyried yr holl eglwysi Annibynol a Methodistaidd o Flaen-glyntawy i Gwmaman, ac o Odrerhos a Phontardawy i Frynaman, fel canghenau uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r hen fam-eglwys yn Nghwmllynfell, ac er yr holl ganghenau a aethant allan o honi, mae yr hen eglwys yn awr yn gryfach a lluosocach nag y bu erioed. Un cylch gweinidogaethol, os nad un eglwys y cyfrifid Cwmllynfell a'r Gellionen hyd tua y flwyddyn 1767, pryd yr ymsefydlodd Mr. Josiah Rees yn y Gellionen, ac yr aeth y gynnulleidfa hono i gael ei chyfrif yn Arminaidd, ac o radd i radd aeth yn Ariaidd, ac er's mwy na thriugain mlynedd bellach yn hollol Undodaidd. Pan oedd y cynnulleidfaoedd yn y Gellionen a Chwmllynfell dan yr un weinidogaeth yr oedd ganddynt gapel bychan yn Fforchegel, ar fin y mynydd, tua haner y ffordd rhwng y ddau le. Cafodd amryw eu claddu yno. Wedi ymraniad y ddwy gynnulleidfa, aeth y capel yn Fforchegel yn ddiddefnydd, gan nad yw yn debygol y gallasent mwyach gyduno i'w gyd-ddefnyddio yn lle addoliad ar brydnawn Sabbothau, fel y gwnelent gynt. Nid oes yn awr yn Fforchegel unrhyw olion o'r hen addoldy, ond ychydig ddarnau drylliedig o'r hen fedd-feini; ond y mae capel Carmel, Rhydyfro, a'r Gwryd yn mwy na llenwi lle yr hen fan gysegredig hwnw.

Mae yn ddiameu fod llawer iawn o bregethwyr wedi cyfodi yn yr hen eglwys hon o oes i oes, ond yr ydym wedi methu a dyfod o hyd i enwau nemawr o'r rhai a gyfodwyd yma yn nhymor boreuaf yr achos. Mae yn dra thebyg mai aelodau gwreiddiol o'r eglwys hon oedd Llewellyn Bevan, a Roger Howell, y rhai a fuont am flynyddau yn weinidogion yma, ac y

* *Diwygiwr*, 1836. Tu dal. 275. † *Tyst Cymreig*, Hydref 7fed, 1870.



Digitized by Google

mae yn sicr mae yma y cyfo dwyd William Evans. Daw pob un o honynt hwy dan sylw etto.

Evan Williams, brawd William Evans, y gweinidog, yw y pregethwr cyntaf a godwyd yma ag y mae genym ni hanes am dano, heblaw y rhai fuont yn weinidogion yn y lle. Ganwyd ef yn Abercraf, yn mhlwyf Ystradgynlais, Ionawr 6ed, 1719. Yr oedd ei dad a'i fam yn aelodau ffyddlon o'r eglwys yn Nghwmllynfell, a'i fam yn un o hiliogaeth sylfaenwyr yr achos yn y lle. Dechreuodd deimlo dylanwad crefyddol ar ei feddwl yn ieuangc, a than bregeth Mr. Lewis Jones, Penybont-ar-ogwy, torwyd pob dadl yn ei fynwes, a phenderfynodd roddi ei hun i'r Arglwydd ac i'w bobl. Derbyniwyd ef yn aelod yn Nghwmllynfell gan Mr. Roger Howell tua'r flwyddyn 1739. Yn fuan ar ol ei dderbyniad daeth gwresogrwydd ei ysbryd a'i weithgarwch crefyddol i'r amlwg, fel y daeth yn ŵr ieuangc mwy cyhoeddus a defnyddiol na'r cyffredinolrwydd o'i gyfoedion. Gan fod y Methodistiaid, y rhai oeddynt yn awr yn dechreu cyffroi y wlad a thynu sylw, yn fwy cydweddol yn eu dull o ddwyn crefydd yn mlaen a'i ysbryd gwresog ef na Mr. Howell, a'i bobl, efe a ymunodd a'r bobl hyny. Yn mhen ychydig amser wedi iddo ymuno a'r Methodistiaid, aeth i ogledd Cymru yn athraw ysgol dan Mr. Griffith Jones, Llanddowror. Mawrth 4ydd, 1742, agorodd ysgol yn Lleyn, sir Gaernarfon, ond cymaint oedd yr ysbryd erlediguethus yn y parth hwnw o'r wlad fel na oddefwyd iddo gadw ei ysgol ond am ddau ddiwrnod yn unig. Yn hwyr yr ail ddydd daeth dau ddyn ffyrnig i'w letty i holi pa beth oedd a fynai ef a dyfod i'r ardal, gan ddyweyd nad oedd arnynt hwy ddim o'i eisieu ef, ei ysgol, na'i lyfrau, fod y Bibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn ddigon i'w cyfarwyddo hwy i'r nefoedd. Mynent iddo fyned allan o'r tŷ, i'r dyben o'i guro, fel y bernid, ond gwrthododd fyned, ac aethant hwythau ymaith rhyw bryd cyn haner nos. Bore dranoeth, sef y Sabboth, aeth Mr. Williams i eglwys y plwyf, lle y traddododd y person bregeth chwerw yn ei erbyn ef, yr Ymneillduwyr, a'r Methodistiaid. Ar ddiwedd y gwasanaeth aeth Mr. Williams allan, ond cyn gynted ag yr aeth y tu allan i furiau y tir cysegredig diosgodd un o ffyddlon ganlynwyr y person ei ddillad a dechreuodd guro y gwr ieuangc yn ddidrugaredd. Wrth ei guro archollodd ei ben yn dost. Edrychai y lleill o wrandawyr y person a chwarddant wrth weled y diniwed yn cael ei guro gyda'r fath greulondeb. Pan flinodd ei elyn ei guro, aeth ef tua ei letty dan ei glwyfau. Tua haner nos y noswaith hono daeth rhai cyfeillion crefyddol i'w letty i'w hysbysu fod ei erlidwyr yn bwriadu dyfod yno bore dranoeth i'w ddal, ac anogasant ef i fyned gyda hwy i le o ddiogelwch. Aethant ag ef i'r Tyddynmawr. Dranoeth ymgasglodd tua deg-ar-hugain o erlidwyr wedi eu harfogi a drylliau, ffyn, a chwn, fel pe buasent yn myned i ddal bwystfil rheibus; a'r ol chwilio yn ofer am dano trwy y dydd, aethant i le a elwid Bodfeiliog, yn agos i'r Tyddynmawr, i fwyta ac yfed, yna aethant drachefn o dŷ i dŷ i chwilio am eu hysglyfaeth, ac yn mysg manau eraill aethant i'r Tyddynmawr. Erbyn eu bod yno yr oedd y teulu wedi perswadio Mr. Williams i ymguddio mewn cwpwrdd. Ar ol chwilio yr holl dŷ, rhoddodd un o honynt droediad i'r cwpwrdd yn yr hwn y llechai, gan ddywedyd, "Dichon ei fod yma." "Y ffwl," ebai un o honynt, "Pa beth a wnelai mewn lle fel yna," a ffwrdd yr aethant i ryw le arall. Wedi iddynt ymadael ymgynghorodd ef a'r teulu, a phenderfynwyd mai gwell fuasai iddo ddychwelyd i'r Deheudir, ac felly y gwnaeth. Cychwynodd tua haner nos. Bu mewn enbyd-

Digitized by Google

rwydd mawr dranoeth. Bu dynion yn rhedeg ar ei ol i geisio ei ddal, ac yntau er diangc rhagddynt a redodd trwy afon yn agos i Bwllheli, lle y bu agos a boddi o herwydd fod llanw y mor i mewn yn lled uchel ar y pryd. Wedi croesi yr afon cerddodd am amryw filldiroedd yn ei ddillad gwlybion. Cafodd rhyw fath o letty y noson hono rhwng Pwllheli a Phorthmadog; a gwisgodd ei ddillad gwlybion bore dranoeth, ac ymaith yr aeth tua ei fro ei hun. Effeithiodd y driniaeth greulon hono ar ei iechyd am weddill ei oes, a bu yn achos o'i farwolaeth.

Wedi dychwelyd adref ymunodd drachefn a'r Ymneillduwyr yn 1743, a chafodd ei dderbyn yn fyfyriwr i athrofa Caerfyrddin yn 1745. Tra y bu yno byddai galwadau beunyddiol arno i bregethu, ac yr oedd effeithiau bendithiol yn dilyn ei bregethau yn mhob man. Yn 1747, ymwelodd drachefn a'r Gogledd a bu yn pregethu yn sir Gaernarfon hyd y Nadolig y flwyddyn hono, pryd y dychwelodd i'r athrofa i Gaerfyrddin. Ar y 13eg o Awst, 1748, cymerwyd ef yn glaf a bu farw wedi chwe' diwrnod o gystudd. Claddwyd ef wrth gapel Heol Awst, Caerfyrddin. Buasai Evan Williams yn debyg o ddyfod yn un o'r gweinidogion mwyaf enwog a defnyddiol yn Nghymru pe cawsai fywyd ac iechyd, ond ewyllys yr Anfeidrol ddoeth oedd ei gymeryd ato ei hun gyda bod ei werth a'i ddefnyddioldeb yn dechreu ymddangos.

Morgan Jones. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1770, a derbyniwyd ef i athrofa Abergavenny. Daw ef etto dan ein sylw yn nglyn a hanes yr eglwys yn Llangattwg, Crughowell, lle yr urddwyd ef.

Thomas Davies. Nai Mr. John Davies, y gweinidog. Cawn etto achlysur i son am dano ef yn hanes Bethania, Llanon, a'r Cymer, Morganwg, lle y bu farw.

William Jones, Llwynhen. Bu ef yn weinidog am flynyddau yn St. Ives, Cornwell, lle y bu farw amryw flynyddau yn ol.

Daniel Morgan. Dywedir mai gyda'r Saeson y bu yntau yn gweinidogaethu, ond nis gwyddom yn mha le.

Evan B. Evans, o Hyde Parke, America.

Evan Watkins, yn awr o Langattwg, Crughowell.

Daniel Rees, yr hwn ar ol bod yma am flynyddau yn bregethwr cynorthwyol derbyniol, a ymfudodd i'r America. Urddwyd ef yno yn Beavers Meadow, ac yno y bu farw.

John Morgan Thomas, gynt o Glynnedd, ond yn awr o America.

William Thomas, gweinidog yr eglwysi yn Bethel a Zoar, gerllaw yr Hendygwyn-ar-daf.

Moses Rees. Bu yn athrofa Aberhonddu, ac y mae yn awr yn ysgolfeistr gerllaw Llundain.

John Gwrhyd Lewis. Mae yn bresenol yn fyfyriwr yn athrofa Caerfyrddin.

Morgan Hopkin. Mae yntau yn fyfyriwr yn Nghaerfyrddin.

John Williams. Mewn ysgol ragbarotoawl yn Nghaerdydd y mae ef.

William J. Gwilym. Gwr ieuangc sydd wedi dechreu pregethu yn ddiweddar.

Mae lluaws o aelodau yr eglwys hon yn deilwng o'u coffhau ar gyfrif eu rhagoriaeth fel crefyddwyr, ond ni oddefa ein terfynau i ni enwi ond ychydig o honynt. Yr oedd Mr. John Jones, Brynbrain, tad-yn-nghyfraith Mr. Rowlands a Mr. Pryse, yn un o ragorolion y ddaear. Yr oedd yn grefyddwr rhagorol, ac yn ddefnyddiol, haelionus, a digyffelyb o ddylan-

Digitized by Google

wadol. Bu ei dŷ yn agored i weision Crist o bell ag agos am fwy na haner canrif. Bu ef farw tua phymtheng-mlynedd-ar-hugain yn ol. Yn ddiweddar y claddwyd ei weddw rhagorol, pryd yr oedd yn agos i gan' mlwydd oed. Yr oedd Ezeciel, Daniel, a Benjamin Evans, meibion yr hen weinidog, William Evans, yn ddynion nodedig yn eu hoes fel crefyddwyr. Nid yn fuan yr anghofir enwau Edward William, Glyncynwelisaf; Richard Bowen, Dorwen; Owen Bowen, Penywern; Sion Gwilym, Thomas William, Cwmtwrch; Dafydd William, Ddolgam; Dafydd Sion Lewis, William J. Thomas, Felinfach; Dafydd Isaac, Y Dderi; John Harries, Coedffalde; Griffith T. Williams, a Lewis Rowlands. Rhagorai rhai o'r gwyr hyn yn eu doniau fel gweddiwyr, eraill yn eu medr i drafod achosion eglwysig, ac eraill fel blaenoriaid y gân; ac y mae pob sail i gredu eu bod oll heddyw yn nghymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig.

Mae eglwys Cwmllynfell nid yn unig wedi gofalu am gynal gweinidogaeth efengylaidd yn yr ardal am fwy na dau gant o flynyddau, ond y mae hefyd er's llawer o flynyddau wedi gofalu am ysgol ddyddiol i blant y gymydogaeth. Adeiladwyd ysgoldy yn ymyl y capel yn 1804, a chafodd ei helaethu wedi hyny ddwy waith. Mae yn bresenol yn ysgoldy eang a chyfleus, ac ysgol effeithiol yn cael ei chynal ynddo.*

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Llewellyn Bevan. Nid oes genym ond y peth nesaf i ddim o hanes am dano ef. Bernir mai un genedigol o'r ardal yma ydoedd, a bod ei dad, John Llewellyn, yn weinidog yma o'i flaen. Yn Ystradowen, yn agos i'r capel, yr oedd yn cyfaneddu. Mae yn dra thebyg ei fod wedi dechreu ei weinidogaeth yma cyn y flwyddyn 1700. Nis gwyddom pa bryd y bu farw. Bu farw ei wraig yn 1724, a chladdwyd hi wrth gapel Fforchegel. Yr oedd ei chareg fedd i'w gweled yno ychydig flynyddau yn ol, ar cofnodiad canlynol arni:—"Yma y gorwedd corph Mary John, gwraig Llewellyn Bevan, o Ystradowen, gweinidog efengyl Iesu Grist, yr hon a ymadawodd a'r bywyd hwn ar y 24ain dydd o'r XI mis, yn y flwyddyn 1724, yn 63 mlwydd oed." Mae yn debyg iddo yntau farw cyn pen llawer o flynyddau ar ol ei briod, ond nis gwyddom yr amser na pha le y claddwyd ef.

Roger Howell. Dywedir mai un genedigol o'r gymydogaeth hon oedd yntau. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Gof ydoedd wrth ei alwedigaeth, a pharhaodd i ddilyn yr alwedigaeth hono hyd derfyn ei oes. Mae yn debyg iddo gael ei urddo yn gynorthwywr i Mr. Llewellyn Bevan ryw gymaint o amser cyn marwolaeth y gwr hwnw. Bu yntau farw yn 1742. Yr ydym yn casglu oddiwrth ei lawysgrifen ei fod yn ysgolhaig da. Dywedir ei fod yn ddyn nodedig ei gof. Mewn cyfarfod gweinidogion yn Llanedi gofynodd un ar giniawu i'r gweinidogion, a wyddai un o honynt pa le yr oedd Mynegair Ysgrythyrol ar werth. Atebodd rhyw un "Yr

* Yr ydym yn ddyledus am lawer o'r ffeithiau uchod i'r hen batriarch ffyddlon John Herbert, yr hwn sydd yn aelod yn y lle er's wyth-mlynedd-a-deugain, ac yn swyddwr er's deuddeg-ar-hugain. Er ei fod yn agos i bedwar ugain oed, y mae yn hynod o fywiog mewn corph a meddwl. Ni ddylem hefyd anghofio cydnabod ein rhwymau i'n cyfaill llafurus Mr. John Jones, ysgrifenydd yr eglwys; dyn cymharol ieuangc, ond yn ymdrechgar rhyfeddol gyda'r achos goreu, er yn cael ei analluogi yn fawr gan gystudd.

Digitized by Google

wyf fi yn gwybod pa le y mae Mynegair Ysgrythyrol, ond nid wyf yn gwybod a ydyw ar werth, Roger Howell, Llanguwg ydyw. Y mae yr holl Fibl ganddo ar ei gof." Dywed Mr. Edmund Jones, Pontypool, nad oedd neb a'i hadwaenai yn ameu nad oedd Mr. Roger Howell yn ddyn gwir dduwiol, a'i fod yn hynod ddefosiynol yn ei deulu ac yn yr eglwys, ond fod rhai yn barnu ei fod yn gogwyddo at Arminiaeth, neu yn hytrach at olygiadau Baxter. Gorwyr iddo ef oedd y diweddar Mr. Roger Howell, Baran.

Joseph Simmons. Gweler hanes Maesyrhaf, Castellnedd.

William Evans. Ganwyd ef yn Abercraf, yn mhlwyf Ystradgynlais, yn y flwyddyn 1716. Pan yn ddeunaw mlwydd oed derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Nghwmllynfell. Nis gwyddom pa bryd y dechreuodd bregethu. Cafodd ef a Mr. Thomas Davies, o'r Fagwyr, Llangafelach, eu hurddo yr un diwrnod yn y Chwarelaubach, Castellnedd, mae yn debygol fel gweinidogion cynorthwyol yn holl eglwysi y gymydogaeth, yn 1754. Yn fuan wedi hyny cafodd Mr. Davies alwad i Lanybri, a chymerodd Mr. Evans ofal yr eglwysi yn Rhydymardy a'r Cwmmawr. Byddai yn rhoddi ei lafur am ddau Sabboth o bob mis yn y lleoedd hyny, ac am y ddau Sabboth arall yn Brychgoed a Blaenglyntawy. Yn mhen rhyw gymaint o amser rhoddodd y Brychgoed a Glyntawy i fyny, a chymerodd ofal ei fam-eglwys yn Nghwmllynfell, mewn cysylltiad a'r Cwmmawr a Rhydymardy. Adfywiodd yr achos yn rhyfeddol yn Nghwmllynfell yn y tymor byr y bu yr eglwys dan ei ofal ef. Trwy ei lafur ef y sefydlwyd yr eglwysi yn yr Alltwen a Chwmaman. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb yn 1770, pryd yr oedd yn bedair-ar-ddeg-a-deugain oed. Dywed Edmund Jones fod William Evans yn ddyn nodedig o ragorol a selog dros athrawiaeth gras. Yr oedd yn ysgolhaig da, ac yn weinidog rhyfeddol o weithgar a llwyddiannus. Bu yn briod ddwywaith. Cafodd un mab o'i wraig gyntaf, a deg o feibion a merched o'r ail. Bu saith o'i blant fyw i henaint teg, ac yr oeddynt oll yn ddynion nodedig o ragorol fel crefyddwyr. Gorwyr iddo ef yw Mr. Daniel Evans, gweinidog presenol Nazareth, sir Gaerfyrddin. Yn mhlwyf Llanguwg y bu yn byw trwy ei oes, ac wrth eglwys y plwyf hwnw y claddwyd ef.

John Davies. Rhoddir ei gofiant ef yn nglyn a hanes yr Alltwen, gan mai wrth yr enw "Davies, Alltwen," yr adnabyddid ef yn gyffredin.

John Rowlands. Ganwyd ef yn agos i'r Ystrad, yn y rhan uchaf o sir Aberteifi, yn 1792. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, ac yn aelodau gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llangeitho. Hysbysir ni ei fod yn berthynas o ochr ei dad i'r enwog Daniel Rowlands. Tueddwyd John Rowlands pan yn ieuangc i fyned i wrando Dr. Phillips yn y Neuaddlwyd, a derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yno pan yn 15 oed. Tynodd yn fuan sylw yr eglwys ar gyfrif ei gynydd mewn gwybodaeth a'i ddoniau mewn gweddi, fel yr anogwyd ef, cyn hir, i ddechreu pregethu; a rhoddodd brawf yn fuan ei fod wedi ei alw i'r gwaith nid gan ddynion yn unig ond gan Dduw hefyd. Wedi bod am dymor dan addysg ei hybarch weinidog yn y Neuaddlwyd, derbyniwyd ef i athrofa Caerfyrddin, lle y treuliodd allan y tymor rheolaidd. Gwnaeth gynydd cyflym mewn gwybodaeth gyffredinol, a phrofodd ei fod yn meddu ar alluoedd meddyliol cryfion. Edrychid i fyny ato gan ei gydefrydwyr, fel un o feddwl uwchraddol, ac ystyrid ef ganddynt ar gyfrif ei synwyr cyffredin cryf yn gynghorwr pwyllog a diogel, ac yr oedd ei ffyddlondeb y fath fel yr oedd ganddynt oll ymddiried

ynddo. Derbyniodd alwad gan yr eglwys a gyfarfyddai yn y capel newydd Llanybri, yr hon oedd newydd gael ei ffurfio mewn canlyniad i ymraniad a gymerasai le yn yr hen gapel; ac urddwyd ef yr un adeg ag yr agorwyd y capel newydd, rywbryd yn y flwyddyn 1816. Bu yno yn dderbyniol a llwyddianus iawn am chwe' blynedd; ac yr oedd ei bwyll a'i dynerwch yn ei wneyd yn un cymhwys iawn i'r lle yn yr adeg hono pan yr oedd teimladau briwedig rhwng pleidiau ar gyfrif yr ymraniad a gymerasai le. Yn y flwyddyn 1822, derbyniodd alwad o Gwmllynfell a Chwmaman, a symudodd yno, lle y bu yn barchus a chymeradwy hyd derfyn ei oes. Priododd yn 1828 a Miss Jane Jones, merch Mr. Jones, Brynbrain, un o ddiaconiaid mwyaf parchus yr eglwys yn Nghwmllynfell, a dedwydd iawn a fu yr undeb a ffurfiwyd hyd nes y gwahanwyd hwy gan angau. Yr oedd Mr. Rowlands ar ol ei symudiad i Gwmllynfell wedi dyfod i faes eang lle yr oedd cyflawnder o gyfleusderau iddo i ddadblygu ei ddoniau fel pregethwr, a'i ysbryd cyhoeddus fel gweinidog.

Yr oedd Mr. Rowlands yn ddyn o faintioli cyffredin, ac yn meddu corph cryf cymhwys i fyned trwy lawer o waith, a dal tywydd garw ac ystormydd wrth fyned dros waunydd noethion, a mynyddeedd uchel. Yr oedd ei olwg yn serchog ac ennillgar—ei dymer yn hynaws a digyffro—a'i gyfarchiad yn wastad yn hawddgar a serchog, er y medrai os byddai angen ddyweyd geiriau a gyrhaeddai i'r asgwrn. Nid oedd yn bosibl fod dyn tynerach ei deimladau, a chyrchai pregethwyr ieuaingc ato am gynghor a chyfarwyddid fel at eu tad. Cymerai drafferth i'w hyfforddi a'u haddysgu, ond os gwelai ambell un yn llawn ymchwydd a balchder nid hir y byddai cyn dwyn y cyfryw i adnabod ei hun, a gwnai hyny yn y dull esmwythaf a mwyaf didramgwydd. Nid â ei garedigrwydd a'i dynerwch yn anghof gan y rhai a fu yn aros dan ei gronlwyd; ac ar unrhyw gyfrif ni throai yr ieuangc o'r neilldu er anrhydeddu y gwr mawr. Digwyddodd unwaith fod pregethwr ieuangc iawn o gymydogaeth wledig heb fod yn mhell oddi wrtho wedi anfon ei gyhoeddiad i bregethu ar un noson i Gwmaman, ond yn ddiarwybod i'r llangc yr oedd cyhoeddiad Meistri Michael Jones, Llanuwchllyn, a W. Williams, o'r Wern, i fod yn Nghwmaman y noson hono. Yr oedd Mr. a Mrs. Rowlands wedi dyfod yno gyda'r bwriad o fyned a'r ddau ŵr enwog o'r Gogledd gydag ef adref, ac meddai wrth y gwr ieuangc, "Well i tithau dd'od hefyd—ti leici fod gyda nhw mi wn." Un o gant a feddyliasai am wahodd bachgenyn ieuangc tlawd felly, pan yr oedd ganddo y fath wyr enwog i'w croesawi. Yr oedd wedi darllen llawer yn enwedig ar byngciau duwinyddol ac Ysgrythyrol, ac yr oedd ei gof bron yn ddihysbydd, ac nid oedd dim yn myned i golli o hono unwaith y deuai i mewn iddo. Yr oedd yn gwybod cynwys yr holl lyfrau a ddarllenasai, a medrai adrodd darnau cyfain o waith gwahanol awduron, a hyny heb ymddangos ei fod mewn un modd yn trethu ei gof wrth wneyd hyny. Darllenodd weithiau Jonathan Edwards, ac Edward Williams, ac Andrew Fuller; ac yr oedd yn deall yn glir yr olwg a gymerent ar drefn yr efengyl, ond yr oedd yn nodedig o ochelgar wrth draethu golygiadau felly, a phan y traethai hwy gwnai hyny yn ei eiriau a'i dermau ei hun, a hyny gyda'r fath wres a hyawdledd fel na ddrwgdybid ef gan y Calfin uchaf, o fod mewn un modd yn ymylu ar yr hyn a elwid yn "System newydd." Yr oedd ei bregethau yn cynwys casgliad trefnus o'r drychfeddyliau prydferthaf yn cael eu traddodi gyda chyflymdra didor, mewn iaith gref, fywiog, gynhyrfus; a'i ysbryd ei hun yn llawn o dan yr efengyl. Anaml y

gwelwyd pregethwr ac ynddo gydgyfarfyddiad cyflawnach o'r elfenau gofynol i wneyd yr hyn a elwir yn bregethwr poblogaidd.

Ond ni bu ei dymor er hyny ond byr mewn cydmariaeth. Yn Mai, 1834, yr oedd cymanfa sir Forganwg yn Nghwmllynfell, ac yr oedd y cynnulliad yn un lluosog o bregethwyr a gwrandawyr, ac yr oedd Mr. Rowlands yno yn ei nerth a'i sirioldeb arferol. Dydd Mawrth ar ol y gymanfa yr oedd mewn cyfarfod eglwysig yn Nghwmaman, a phregethodd oddiar y geiriau "Gan brynu yr amser." Ychydig o bosibl a feddyliodd ef na neb o'i wrandawyr fod ei amser ef mor agos i'r terfyn, ond dyna y bregeth olaf iddo byth. Boreu dranoeth, sef Mai 28ain, aeth allan o'i dŷ yn ei iechyd arferol, tua naw o'r gloch, ac wedi ychydig fynudau o ymddiddan a'i frawd-yn-nghyfraith, i'r hwn yr ymddangosai yn iach a siriol, aeth rhagddo ar hyd y ffordd, a'r newydd cyntaf a gafwyd oedd ei fod wedi ei gael yn farw yn ochr y ffordd. Cariwyd ef i'w dŷ yn gorph cyn deg o'r gloch, a llanwyd yr holl wlad a galar oblegid iddo gael ei alw ymaith mor ddisymwth yn 42 oed. Y Sadwrn canlynol, sef Mai 31ain, 1834, cyfarfu tyrfa fawr yn Nghorsto i ddilyn ei weddillion marwol i'r "tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." Pregethwyd yn Nghorsto gan Meistri D. Jones, Gwynfe, D. Davies, Pantteg, ac wedi cyrhaedd Cwmllynfell, pregethwyd gan Meistri W. Jones, Penybont-ar-ogwy, a D. Davies, Sardis, a chladdwyd ef mewn bedd newydd yn mynwent newydd Cwmllynfell. Efe oedd y cyntaf a gladdwyd ynddi, ond y mae tyrfa fawr wedi eu rhoddi i orwedd ynddi ar ei ol.

Rhys Pryse. Ganwyd ef mewn lle a elwir Penrhiw-llwyn-fynwent yn mhlwyf Llangammarch, sir Frycheiniog, yn niwedd y flwyddyn 1807. Pan nad oedd ef ond plentyn, symudodd ei rieni i le a elwid Caerhedynbach, gerllaw Glancledan, yn mhlwyf Llanwrtyd; ac yno bu farw ei dad, ac yn fuan symudodd ei fam weddw gyda'i thri phlentyn amddifad i got-tŷ bychan, syml yr olwg arno, o'r enw Pwllclai, mewn culbant neillduedig, heb fod yn mhell o lanau Irfon, ac o fewn rhyw bellder o haner milldir i bentref Llanwrtyd, neu Bontrhydyfferau, fel y gelwid ef gynt; ac yno y trigianodd hyd y dydd yr ymddangosodd efe i Israel yn ei gymeriad cyhoeddus fel pregethwr. Mae yr hen fwthyn diaddurn wedi ei chwalu i wneyd lle i'r ffordd haiarn sydd wedi ei hagor i fyned heibio, ond ymhyfryda rhai o'r hen frodorion etto, mewn dangos y fan y safai i'r rhai a ymwelent a'r lle. Dilynai ei frawd ac yntau y gelfyddyd o wehyddion, ac yr oeddynt yn barchus iawn gan eu holl gymydogion fel dynion gonest, heddychol, a diymyraeth. Dechreuodd ei frawd, Hugh Pryse, bregethu yn y flwyddyn 1824, a chyn hir aeth i athrofa y Drefnewydd, ac wedi bod yno am ysbaid, gwanychodd ei iechyd fel y bu raid iddo ddychwelyd i dŷ ei fam, a bu farw Gorphenaf 11eg, 1826. Er yr arferai Rhys Pryse wrando yr efengyl o'i febyd, yn benaf o dan weinidogaeth ei ewythyr, yr hybarch David Williams, Llanwrtyd; ac er fod ei fywyd cyffredin yn hollol ddiargyhoedd, etto nid oedd wedi ymuno a'r eglwys hyd ddychweliad ei frawd adref yn glaf. Un noson ychydig cyn i Hugh Pryse "huno yn yr Iesu," aeth ei fam at ochr ei wely, ar ol dychwelyd o'r gyfeillach grefyddol yn hen gapel Llanwrtyd, gan ofyn iddo, "A wyddost ti pwy ddaeth i'r *seiat* heno?" "Na wn i," ebe yntau. "Rhysun dy frawd," ebai hithau. Yr oedd ar y pryd cyn waned fel mai prin y medrai symud, ond effeithiodd y newydd da mor fawr arno, fel y cyfododd yn ei eistedd, a chan guro ei ddwylaw teneuon yn nghyd mewn gorfoledd, bloeddiodd

allan fel y mynai, "Bendigedig fyddo Duw—Diolch iddo." Ymddangosai yn dawelach i farw ar ol clywed fod ei unig frawd wedi bwrw ei goelbren gyda phobl Dduw. Yr oedd y ddau yn gyfeillion mawr, a chan eu bod yn byw yn neillduedig o gymdeithas y byd, ac yn ymhyfrydu mewn pethau gwahanol i'r rhan fwyaf o'u cymydogion, ymglymai eu serchiadau yn gryfach y naill at y llall. Yr oedd athrylith gelfyddydol yn wreiddiol yn y ddau, a rhoddasant brawf o hyny pan nad oeddynt ond plant. Er nad oedd Pwllolai ond bwthyn bychan diaddurn, etto yr oedd yn lanwaith a thaclus, ac yn llawn o holl angenrheidiau bywyd, ac yr oedd diwydrwydd a chynildeb y llangciau wedi cyfodi y teulu uwchlaw angen. Gan ei fod o dueddfryd ddistaw a diymyraeth, ychydig a ymgymysgai Rhys Pryse a neb o'r eglwys hyd yn nod ar ol ei dderbyniad yn aelod. Wrtho ei hun y byddai fynychaf yn myned i ac yn dychwelyd o'r capel; a theimlai ei fod yn cael mwy o adeiladaeth pan wrtho ei hun i edrych ar weithredoedd rhyfeddol yr Anfeidrol, neu i adfyfyrio ar yr hyn a wrandawsai yn y capel, nac a gawsai oddiwrth ymddiddanion y rhan fwyaf o'i gydgrefyddwyr. Ychydig a wyddai ei gymydogion am dano, yn ychwaneg nag yr ystyrid ef yn un hynod, ac yn wastad ar ei ben ei hun. Yn mhen amser wedi ei dderbyn yn aelod, ceisiwyd ganddo fyned i weddi mewn cyfarfod gweddio a gynhelid mewn tŷ anedd yn y gymydogaeth. Cydsyniodd yn ddinacâd, a gweddiodd yn y fath fodd nes synu y gwyddfodolion at gyflawnder a phriodoldeb ei ymadroddion, a thaerineb ei erfyniau, ac yr oedd pawb wrth ddychwelyd yn barod i ofyn, "Beth a fydd y bachgen hwn?" ac nid oedd petruster yn meddwl neb nad oedd pregethwr mawr wedi codi yn eu plith. Cymhellid ef yn daer ar ol hyn i feddwl am bregethu, ond nid oedd dim a'i brawychai yn fwy na chyhoeddusrwydd—mewn dinodedd y dymunasai gael aros—ond wedi hir gymell rhoddodd ei fryd ar barotoi pregeth, a rhyw noson mewn cyfarfod gweddio oedd i'w gynal mewn amaethdy o'r enw Pyllho, rhwng Llanwrtyd ac Abergwesyn, ar ol darllen a gweddio, rhoddodd emyn allan, a darllenodd yn destyn y geiriau, "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni oherwydd efe a arbed yn helaeth." Traddododd ei bregeth heb na diffyg na choll, ac nid oedd tòn ar ei hyawdledd o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1829. Ar ol yr oedfa hono aeth son am dano ef trwy yr holl wlad oddiamgylch, a dilifai gwahoddiadau iddo o'r holl eglwysi cylchynol. Yr oedd golwg wreiddiol arno o ran ei wisg a'i ymddangosiad y pryd hwnw, ac yr oedd yn eglur arno mai un o blant y mynydd-dir ydoedd. Nid oedd ei gymydogion yn synu at ei wisg a'i ddiwyg, oblegid yr oeddynt wedi cynefino ag ef, ac nid rhyw lawer oedd y gwahaniaeth rhyngddo ef a'r rhan fwyaf o honynt, ond yn unig ei fod yn edrych yn fwy meddylgar na hwynt oll; ond tynai yr olwg ddyeithr oedd arno sylw neillduol yn mhob man y tu allan i'w fro ei hun. Er prawf o hyn, cymerwn y difyniad canlynol o un o gyfres o lythyrau galluog a ysgrifenodd ei gyfaill, Mr. J. R. Kilsby Jones, ar ei nodwedd a'i athrylith, yn y *Tyst Cymreig* yn fuan ar ol ei farwolaeth; ac i'r rhai yr ydym yn ddyledus am lawer o ffeithiau y cofnodion hyn.

"Cyn ei weled y waith gyntaf, yr oeddym wedi clywed llawer o son am dano gan ewythr i ni a ddigwyddai fod yn ddiacon yn hen eglwys Annibynol Llanwrtyd. Trwy lawer o waith llwyddodd ein perthynas i gael ganddo addaw treulio Sabboth yn Ffaldybrenhin. Gallasai fod y

Digitized by Google

pryd hwnw rhwng tair a phedair-ar-hugain oed, a thynai ei ymddangosiad allanol, heb son am yr hyn, a'r modd y llefarai, sylw y mwyaf disylw a chysglyd o blant Adda. Yr oedd yn ŵr ifanc tal, esgyrniog, ac ar ei goryn gnwd o wallt du trwchus, a hwnw yn cyrhaedd hyd at ei ysgwyddau; a rhoddai hyny, yn nghyd a mynegiant cyffredinol ei wyneb, iddo olwg anarferol o gyffrous. Edrychai yn rhyw fath o Ioan Fedyddiwr, ac fel hwnw wedi rhuthro allan o ryw ddiffaethwch a garai yn llawer mwy na'r byd gwareiddiedig; ac ar orchymyn rhyw awdurdod nas beiddiai anufuddhau iddi, er mwyn traddodi cenadwri natur a gras i fyd wedi gwrthgilio oddiwrth uniondeb; a phechu yn waradwyddus yn erbyn gorchymynion syml, rhesymol, ac ysgafn natur a datguddiad. Mae yn wir mai nid gwisg o "flew camel" oedd am dano, ac ni wisgai "wregys o groen am ei lwynau;" ond yr oedd ei wisg o frethyn cartref, garw, blewog, wedi ei weu gan ei ddwylaw ei hun, a chwedi ei banu yn mhandy Esgairmoel, yn ymyl ei got-tŷ meudwyaidd neillduedig; a hwnw wedi ei dori a'i bwytho yn wisgoedd yn ol hen ffasiwn hynafol trigolion ardal gyntefig fel un Llanwrtyd. Yr oedd digon o le i fyned i mewn ac allan o honynt, ac am hyny yn unig y gofalai eu perchenog; ond pe dywedem eu bod yn ei *ffito* gwnaem gam a'r gwirionedd, ac a'r teiliwr. Trwy ryw fath o gyd-ddealldwriaeth rhwng y gwahanol bilynau a'u gilydd, ac a'r gwisgwr, cydunant i guddio a chynesu ei berson naturiol, golygus a hardd; ac am hyny yn unig y maliai ein plentyn natur. Cymerai gan mil mwy o bleser i edrych ar wisg amryw-ddefnydd ac amrywliw y ddaear, nac a gymerai yn unrhyw wisgoedd a fuont erioed am dano ef ei hun, neu am dywysogion a brenhinoedd, pe digwyddasai gael cyfleustra i'w canfod. Nid oedd ganddo ddim ymddiried mewn unrhyw wisgoedd ond y rhai oeddynt wedi cael eu gwneyd o'r gwlan, ac ydoedd eisioes wedi cadw yn gynes ar rew ac eira y defaid a borent ar fryniau a mynyddoedd Garthmadryn."

Yr ydym yn sicr fod y rhai sydd yn cofio Rhys Pryse, Llanwrtyd, yn troi allan gyntaf i bregethu yn barod i ddyweyd fod yn anmhosibl tynu darlun cywirach o'r dyn oddiallan. Ac yr oedd clywed llangc mynyddig felly yn son am y ser a'r planedau, ac yn egluro eu deddfau a'u cysylltiadau; neu yn ymdrin a phyngciau dyrus duwinyddiaeth, neu yn tynu darluniadau barddonol o'r fath fwyaf rhamantus, a gwneyd y naill a'r llall mewn dull hollol briodol iddo ei hun, a chyda hyawdledd ffrydlifol nes ysgubo pob peth o'i flaen, yn peri i'r lluaws ofyn, fel y gofynwyd am un mwy nag ef o'i flaen, "O ba le y daeth y doethineb hwn, a'r gweithredoedd nerthol i'r *dyn* hwn?" Bu dros rai blynyddau ar ol dechreu pregethu gartref, yn dilyn ei alwedigaeth ac yn pregethu y Sabbothau yn yr eglwysi cylchynol, ac elai yn aml i gwr uchaf sir Gaerfyrddin, ac ymwelodd lawer gwaith a rhai o eglwysi Morganwg, a chynygiwyd galwad iddo o fwy nag un lle, ond nid oedd dim awydd ynddo i ymgymeryd a'r cyhoeddusrwydd a'r cyfrifoldeb cysylltiedig a'r weinidogaeth. Cynygiwyd galwad iddo gan eglwys barchus Zoar, Merthyr Tydfil, wedi marwolaeth Mr. Samuel Evans; ond nid oedd gan ferw cynhyrfus lle trystfawr fel Merthyr ddim swyn i un oedd mor hoff o dir neillduaeth, pa faint bynag a allasai fod ganddo o barch i'r eglwys a roddodd iddo y cynygiad caredig. Cyn hir derbyniodd alwad gan hen eglwys gyfrifol Cwmllynfell; ac er nad oedd dim yn swynol yn y wlad na'i golygfeydd i ddynion eraill, etto yr oedd y fath gydrywdeb rhwng y lle a'i chwaeth fel y cydsyniodd a'r cais,

ac urddwyd ef yno, fel y crybwyllasom, Awst 19eg a'r 20fed, 1835; a phrofodd yn agos i bymtheg-mlynedd-ar-hugain o weinidogaeth ddefnyddiol a llwyddianus yn y lle, iddo wneyd yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd. Anaml y treuliwyd cynifer o flynyddoedd mor gysurus a diofid gan un gweinidog yn yr un lle. Yn mhen llai na dwy flynedd wedi ei sefydliad yn Nghwmllynfell, priododd a Mrs. Rowlands, gweddw ei ragflaenydd yn y weinidogaeth—Mr. J. Rowlands—a symudodd ati i Corsto i fyw, lle y treuliodd yn gysurus weddill ei oes. Cafodd un o'r gwragedd rhagoraf a serchocaf a ddisgynodd erioed i ran gwr, ac yr oedd eu hanedd glyd, gynes, lawn, yn baradwys fechan. Treuliasom lawer noswaith yn hapus dan eu cronglwyd; ac nis gallwn ffurfio dychymyg uwch am hapusrwydd teuluaidd—heb blant—nag a fwynheid ar aelwyd Corsto. Saif y tŷ ar lethr ar ochr Gwaun-cae-gurwen, a'i wyneb yn union tua'r gogledd, ac er nad yw yn eang, y mae wedi ei drefnu yn dda, ac yn llawn dodrefn gwasanaethgar, a'r cwbl mor lân, ag y gallasai dwr a sebon a nerth braich merch eu gwneyd. Mae gardd eang o'i gylch, yn yr hon y mawr ymyfrydai Mr. Pryse, a gardd-lysiau yn yr hon y ceir llawer o lysiau dymunol i'r golwg a daionus yn fwyd; a llawer math o lysiau meddyginiaethol yn ychwanegol at hyny; a phe buasai cysuron allanol yn gallu estyn dyddiau dyn dylasai Mr. Pryse fyw i oedran teg, ond nid yw "y rhedfa yn eiddo y cyflym, na'r rhyfel yn eiddo y cedyrn, na'r bwyd yn eiddo y doethion, na chyfoeth yn eiddo y pwyllog, na ffafr yn eiddo y cyfarwydd." Er fod golwg gryf, gorphorol arno, etto ni bu erioed yn ddyn iach, caled, y fath ag a oddefasai dywydd garw; a dichon ddarfod iddo trwy or-ofal am dano ei hun dyneru ei natur fel ag i'w wneyd yn analluog i ddal caledfyd, er nad oedd un tywydd a'i hataliai i fyned i gyflawni ei ddyledswyddau yn ei gylch cartrefol, ond gofalai ddarparu cyn cychwyn i fod yn ddiddos. Mwynhaodd er hyny, ar y cyfan, iechyd da trwy ei oes, hyd o fewn ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth, rhuthrodd tarw cymydog iddo arno, a gwanodd un o'i gyrn i'w enau, a rhwygodd ei wyneb, fel yr ofnid ar y pryd am ei einioes; ond gyda gofal a thynerwch adferwyd ef yn raddol fel y daeth drachefn i allu cyflawni ei ddyledswyddau fel cynt, er y dywed y rhai a gafodd fwyaf o gyfle i wybod na ddaeth byth cystal ag y bu. Yn ei gystudd diweddaf bu yn dyoddef am yn agos i dri mis, ac yn y diwedd daeth *inflamation of the lungs* fel gelyn erchyll ato, a rhoddodd derfyn ar ei einioes ddydd Mawrth, Gorphenaf 6ed, 1869, yn 62 oed. Claddwyd ef yn anrhydeddus y dydd Gwener canlynol yn mynwent Gibeah, Brynaman, a bernid fod yno lawn dwy fil o bobl wedi dyfod i'w ddilyn i "dy ei hir gartref;" ac yn eu plith yr oedd tua deg-ar-hugain o'i frodyr yn y weinidogaeth. Cyn cychwyn o Corsto darllenodd a gweddiodd Mr. E. Watkins, Llangattwg; ac wedi myned yn orymdaith at y capel, gwelwyd nas gallesid myned i mewn, a chynhaliwyd y gwasanaeth yn yr awyr agored. Dechreuwyd gan Mr. E. Hughes, Penmain, a phregethodd Meistri J. Mathews, Castellnedd, a T. Rees, D.D., Abertawy. Anerchwyd y dorf hefyd gan Mr. D. Williams, Llanwrtyd—yr hwn a fedyddiasai Mr. Pryse pan yn faban—a chan Mr. P. Griffiths, Alltwen; ac wrth y bedd gweddiodd Mr. J. Davies, Cwmaman, a gadawyd gweddillion marwol y "tywysog a'r gwr mawr" o Gwmllynfell i gysgu yn dawel hyd foreu yr "adgyfodiad gwell."

Gan na theithiodd Mr. Pryse ond ychydig y tu allan i'w gylch gweinidogaethol, a chan yr ystyriwn ef yn un o dywysogion y pulpud Cymreig,

Digitized by Google

yn gystal ag yn un o bendefigion y natur ddynol, byddai yn dda genym allu tynu portread o hono, y fath ag a roddai syniad lled gywir am dano i'r rhai na chawsant y fraint o'i adnabod. O ran ei ymddangosiad allanol yr oedd yn ddyn mawr, esgyrniog, unionsyth, llydan ei ysgwyddau, yn gorphol, ond heb fod yn dew, a'i wneuthuriad yn llac yn hytrach na chryf a chydnerth. Yr oedd ganddo ben mawr, a'i holl ermygau wedi eu llawn ddadblygu; ac er nad oedd ei wyneb yr hyn a elwir yn hardd, etto yr oedd rhyw ddyndeb *(manliness)* yn amlwg yn ei holl linellau. Yn ddiarwybod iddo ei hun teimlai pawb fod dylanwad gan ei bresenoldeb, yr hwn nad yw yn canlyn neb ond y rhai a fwriadwyd gan Dduw i lywodraethu yn mysg dynion. Am ei deithi meddyliol, yr oedd athrylith yn wreiddiol ynddo. Nis gwyddom pa syniad a gysyllta y darllenydd a'r gair, ond wrtho yr ydym ni yn deall, y gallu gwreiddiol a chynyrchiol hwnw mewn dyn sydd yn peri nad yw yn dibynu ar gynorthwyon allanol. Gall dynion cyffredin trwy ymroddiad gasglu toraeth o feddyliau, ond gall y dyn o athrylith eu cynyrchu. Nid oes eisiau ond talent ailraddol i gerdded yn ol traed y rhai a aeth o'r blaen; ond y mae yn rhaid fod athrylith mewn dyn cyn y gall gerdded llwybr disathr, a rhodio ffordd na sangodd troed arni o'i flaen. Yr oedd y gallu yma yn nodedig yn Mr. Pryse. Beth bynag a gyrhaeddodd, daeth iddo yn nerth mewnol ei feddwl, ac nid oedd dyn yn Nghymru yn ei oes a ymddibynodd lai ar gynorthwyon allanol. Ni chafodd ond tri diwrnod erioed o ysgol ddyddiol, ac etto cyrhaeddodd wybodaeth helaeth o'r iaith Gymraeg ac o'r iaith Saesonaeg, ac yr oedd wedi cyrhaedd graddau o wybodaeth o'r Groeg a'r Lladin, a hyny yn gwbl trwy hunan-ddysgiaeth. Dangosodd yn foreu ei allu celfyddydol, a phe troesai ei holl feddwl at beirianyddiaeth nid oes un ddadl na ddaethai i enwogrwydd mawr yn y cyfeiriad hwnw. Nid oedd odid ddim na allasai ei wneyd gan mor gelfydd oedd ei law, ac yr oedd ganddo amryw ddyfeisiau o'r eiddo ei hun at wahanol orchwylion. Gallasai weithio pob dilledyn angenrheidiol ar ddyn, a phob dodrefnyn angenrheidiol mewn ty; ac os buasai awrlais neu oriawr yn ei gymydogaeth mewn anhwyl, ato ef yr edrychid am eu dwyn i'w lle. Byddai yn aml gynifer a deg-ar-hugain o *watches* yn hongian yn ei dy wedi eu dwyn yno gan fechgyn yr ardal i'w gosod mewn trefn. Talodd sylw nodedig i lysieuaeth, fel o'r braidd nad oedd yn adnabod holl lysiau y maes, a gwyddai yn lled dda at ba beth yr oeddynt yn rhinweddol. Ymdyrai cleifion, a dynion yn cael eu blino gan ddoluriau ato i ba le bynag yr elai, a thystiai lluaws mawr iddynt dderbyn cwbl iachad wrth ddilyn ei gyfarwyddiadau. Cyhoeddodd y *Llysieulyfr Teuluaidd* mewn cysylltiad a Mr. E. Griffiths, Abertawy; ac edrychid ar y llyfr hwnw yn awdurdod uchel ar y fath bethau. Yr oedd ei athrylith yn amrywiol, ac yn rhedeg i gyfeiriadau hollol wahanol. Ond nid ymarferol yn unig oedd ei athrylith. Yr oedd yn gyfarwydd iawn mewn seryddiaeth, a siaradai gyda'r fath gyfarwydd-deb am y ser ar planedau a phe buasent ei gymydogion agosaf; ac nid twyllo anwybodusion ychwaith yr ydoedd yn hyny, ond cydnabyddai y rhai oedd wedi talu sylw helaeth i "ordeiniadau y nefoedd," ei fod yn dra hyddysg a chyfarwydd yn mysg ser Duw. Yr oedd yn fardd naturiol. Yr oedd wedi astudio y cynghaneddion Cymreig, a gallasai gyfansoddi ynddynt, ond gwell oedd gan ei ddychymyg cryf ef beidio cael ei gadwyno mewn hualau felly. Berwai barddoniaeth fyw trwy ei holl bregethau, a phan y cawsid ef i hwyl siarad ar yr aelwyd, nis gallasai siarad heb siarad yn farddonol. Yn ei farddon-

Digitized by Google

iaeth yr oedd ei darfelydd yn gryfach na'i grebwyll. Gallasai ei ddychymyg ddwyn creadigaethau i'r golwg; ond fel desgrifiwr cyflawn, manwl, craff, yr oedd yn ddihafal. Gosodai bob peth y siaradai am dano i ymrithio yn fyw o flaen ei wrandawyr; ac am ddarluniadau cywir i natur anhawdd oedd cael ei gyffelyb. Yr oedd yn nodedig ynddo hefyd mai y gwrthun a bortreadai oreu. Clywsom ef yn darlunio yr haul a'r lleuad, y daran a'r cwmwl, toriad y wawr a machludiad yr haul, y glaswellt dan wlith y boreu, y maes gwenith yn ysgwyd i ddisgwyl y cynhauafwyr; ac nis gallesid dymuno dim rhagorach; ond pan y dechreuai ddarlunio y cybydd yn crafangio am y byd, neu y meddwyn yn ymwerthu i'w chwant, neu y coegfalch yn ymwisgo i gael ei weled; dyna y pryd y byddai ei ddarfelydd yn ei lawn nerth, a chyda'i arabedd tawel, a'i wawdiaith frwmstanaidd gwnai y cymeriadau a ddesgrifiai yn wrthrychau dirmyg a chwerthiniad pawb.

Ond er y cwbl, nid oedd yn ymhoni i ddim oll. Gallesid bod yn hir yn ei gwmni heb iddo gymeryd arno y gwyddai ddim o'r pethau hyn, a chan mor ddiymyraeth ydoedd, gadawai mewn cwmni i ddynion wneyd honiadau cyfeiliornus am bethau, heb eu cywiro, os na ofynid iddo, rhag i neb dybied ei fod am ddangos ei wybodaeth. Yn sicr yr oedd yn un o'r dynion mwyaf anymhongar a adnabuom erioed. Ychydig iawn o weithiau y gwelwyd ef mewn cynnadledd cymanfa na chyfarfod chwarterol, ac os digwyddai fyned yn achlysurol, ni ddywedai yr un gair. Nid ydym yn meddwl fod ganddo fedr, ond yr ydym yn sicr nad oedd ganddo chwaeth at bethau cyhoeddus. Nid am y tybiai nad oedd raid wrth y pethau hyny yr oedd felly—na ni bu neb erioed yn fwy parod i roddi pob help gartref i achosion cyhoeddus, ac yr oedd ganddo barch dwfn a gwirioneddol i'r rhai oedd yn cysegru eu hamser a'u talentau i wasanaethu yr enwad gyda phethau amgylchiadol; ond nid oedd ganddo ef unrhyw hoffder at bethau felly. Dewisai aros yn y cysgod, i siarad a hen gymeriadau gwreiddiol y digwyddai daro arnynt, neu i eistedd wrtho ei hun i fyfyrio, yr hyn a fwynhai yn llawn cystal. Gwnaed llawer cais i gael ganddo fyned i Lundain a Liverpool, ac i gymanfaoedd y gogledd, ond ni lwyddwyd erioed i gael ganddo gymaint ag addaw yn bendant. Bu unwaith mewn cymanfa yn sir Aberteifi, a bu yn sir Fynwy ddwywaith neu dair flynyddau lawer yn ol; oud am flynyddau lawer cyn ei farwolaeth ni cheid ganddo fyned yn mhellach na Chastellnedd, neu Abertawy, neu Lanelli, oddigerth ei fod weithiau yn myned cyn belled a Llanwrtyd, ei le genedigol. Ciliai rhag cyhoeddusrwydd, ac yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddynion, nid oedd poblogrwydd yn un brofedigaeth iddo, oddigerth yn wir ei bod yn brofedigaeth i'w gochel.

Yr oedd yn un o'r dynion puraf a weledd Cymru erioed—nid yn ei arferion yn unig a feddyliwn—er ei fod yn ddiarhebol felly. Unwaith erioed y profodd ddiod feddwol, ac ni wnaeth y pryd hyny ond ei phrofi; ac yr oedd mor groes i'w archwaeth fel na feddyliodd am gyffwrdd a hi mwy. Yr oedd hyny flynyddau cyn bod son am ddirwest. Gellir dywedyd ei fod yn Nazaread o'r groth; ac yr oedd rhai o'i areithiau dirwestol yn mysg y pethau mwyaf hyawdl a draddododd erioed. Ni lygrwyd ei archwaeth erioed a myglus; ac ychydig o ddim a fwytai neu a yfai ond a godai ar ei dir ei hun. Tê llysiau a yfai bob amser, ac nid tê yr India. Cyn belled ag yr oedd ei arferion yn myned yr oedd mor agos at berffeithrwydd ag y gallasai dyn mewn cnawd fod. Ond heblaw hyny, yr oedd

yn ddyn o chwaeth bur, o feddwl pur, o galon bur. Ni wyddai am absen na chenfigen, am eiddigedd na drwg dybiaeth. Llawenhai yn llwyddiant pawb, ac nid ymrysonai a neb; a bu farw, y mae yn sicr genym, heb adael gelyn iddo ar ei ol; a buasai yn rhaid fod unrhyw ddyn yn llawn iawn o ddrwg ysbryd cyn y gallasai fod yn elyn i ddyn oedd yn gorpholiad mor gyflawn o arabedd, caredigrwydd, cywirdeb, a natur dda. Nid yn unig cadwodd ei gymeriad heb ei lychwino mewn oes lygredig, ac mewn ardal lawn o brofedigaethau, ond hefyd cadwodd allan o bob cynen ac ymryson eglwysig, a hyny mewn adeg yr oedd cynhenau ac ymrysonau yn llawer amlach mewn eglwysi a chyfundebau nag ydynt yn awr.

Yr oedd ganddo ofal mawr am yr eglwysi yn y rhai y llafuriai. Byddai gyda hwy bob amser yn nghyfarfodydd yr eglwys. Ni fynasai golli cyfarfod eglwys neu gyfarfod parotoad mwy na cholli Sabboth Cymundeb. Pregethai yn y cyfarfodydd hyny fel yr arferai yr holl hen Ymneillduwyr wneyd. Ychydig iawn a ymyrai yn achosion yr eglwysi, gadawai hyny yn benaf i'r diaconiaid, a digwyddodd fod o'i gylch ddiaconiaid medrus i ddwyn yn mlaen holl amgylchiadau yr achos. Ni phregethai lawer i'w bobl, ac nid oedd ei gred yn gryf yn hyny. Ystyriai ef fod un bregeth y Sabboth yn ddigon i'r un gynnulleidfa. Ni phregethai yn Nghwmllynfell ond dau foreu Sabboth yn y mis. Byddai yno hefyd un nos Sabboth, ond ni phregethai. Cynhelid cyfarfod gweddi, a rhoddai yntau anerchiad a therfynai trwy weddi, ac yr oedd cynnulleidfa mor luosog yn dyfod yn nghyd y noson hono, ag a ddeuai ar unrhyw adeg yn nghorph y mis. Nid oedd gan bobl Cwmllynfell un dychymyg am fwynhad uwch yn nglyn a chyfarfod, na chael cyfarfod gweddi ar nos Sabboth, a Mr. Pryse yno i roddi anerchiad a therfynu trwy weddi. Gweddiwr heb ei fath ydoedd; ni chlywsom neb erioed cyffelyb iddo. Ni ddywedwn na chlywsom neb yn dyfod yn nes i'r synied sydd genym ni am yr hyn ddylai gweddi fod; ond yn ol y syniad poblogaidd am weddi i gynhyrfu cynnulleidfa a dylanwadu arni, ni chlywsom yn ein hoes neb i'w gystadlu ag ef. Yr oedd ei hyawdledd gorlifol, a'i danbeidrwydd angherddol yn gyru pawb bron i anghofio eu hunain. Nis gallasai fod neb yn fwy crefyddol a defosiynol nag oedd efe ei hun; ond nid oedd ei weddiau *anghyffredin*, y rhai cyfaddasaf i gynyrchu teimlad defosiynol yn eraill, a hyny oblegid eu bod yn rhy ddoniol a chyffrous. Parai ymdywalltiad didor y ffrydlif i ddynion anghofio neges y weddi, gan fel y llyngcid hwy i fyny mewn synedigaeth wrth dwrf rhaiadrau ei ddoniau ef.

Am dano fel pregethwr, yr oedd yn sefyll yn hollol ar ei ben ei hun. Ni chlywsom neb o'i fath. Ni ddywedwn na chlywsom erioed ei gystal, a'i ragorach hwyrach, er y rhestrwn ef yn nosbarth blaenaf pregethwyr ei oes; ond yr oedd yn hollol ar ei ben ei hun. Ni feddyliodd erioed am efelychu neb, ac ofer fuasai i neb geisio ei efelychu yntau. Safai yn y pulpud yn syth a sefydlog, ac yr oedd golwg dywysogaidd arno, fel y teimlai pawb ar unwaith mai nid dyn cyffredin ydoedd. Darllenai ei destyn yn isel iawn—yn rhy isel o lawer i bawb mewn cynnulleidfa o faintioli cyffredin allu ei glywed—ac yn y cywair hwnw y siaradai am gryn amser. Gwelid y dorf yn ymestyn yn mlaen er ceisio clywed yr hyn a ddywedai; ac yn aml y torid ar y distawrwydd gan ambell i frawd anamyneddgar a floeddiai, "gwedwch yn uwch"—ond ni wnai efe un sylw o aflonyddwyr felly, ac nid oeddynt mewn un modd yn anhwylysu dim arno. Ni wnai ond prin agor haner ei enau, a gollyngai ei eiriau

allan trwy un ochr; ond newidiai o'r naill ochr i'r llall, fel y cai un ochr orphwys pan y byddai y llall yn gweithio. Byddai y rhan gyntaf o'i bregeth fynychaf yn eglurhad ar y testyn a'i gysylltiadau, ond ni byddai un amser yn faith gyda'r rhagymadrodd, er y byddai yn hawdd deall oddi wrth yr hyn a ddywedai y gwyddai yn dda pa le yr oedd yn myned. Pregethai yn destynol yn gyffredin, ac nid yn aml y byddai unrhyw newydd-deb na chywreinrwydd yn ei raniadau. Yr oedd ei iaith yn dda —ei ymadroddion yn gryfion—ac ar y dechreu ni byddai ei frawddegau ond byrion. Deuai yn mlaen yn raddol i arddull mwy hapus, hamddenol, a chwareus. Byrlymai ei arabedd allan heb yn wybod iddo, ac yn aml gwelwyd cynnulleidfa fawr yn ysgwyd mewn gwenau ger ei fron, ac yntau mor ddiysgog a'r graig yn nghanol yr holl gyffro. Yr oedd weithiau mewn profedigaeth i ddefnyddio ymadroddion a ystyrid yn arw, ac i ddisgyn islaw safon iaith bur, ond yr oedd y fath nerth yn ei iaith a'i feddyliau fel y diangai rhag beirniadaeth lem y chwaeth buraf. Nid oedd ei lais yn swynol, yn annibynol ar ei iaith, ei feddyliau, a lluniad bachog ei frawddegau, er fod rhyw calef dyner iddo pan y byddai yn disgyn ar ol gollwng allan ffrydlif o ymadroddion cryfion. Ond nid mewn mwydo a thoddi cynnulleidfa yr oedd ei ragoriaeth, ond ei synu a'i chyffroi, a'i thanio a'i ddesgrifiadau neu ei apeliadau. Tynai ddarluniadau barddonol mewn iaith gref, ac aruchel weithiau. Nid oedd pall ar ei ddarfelydd, a throai bob peth y llefarai am danynt yn ddelweddau byw o flaen llygaid y gynnulleidfa. Yr oedd ei wawdiaith yn gryf a bachog, a phan y defnyddiai hwnw, yr hyn a wnai yn aml, torai hyd yr asgwrn. Darluniai y balch, y cybydd, y meddwyn, neu yr anfoddog, nes ei wneyd yn wawd cyffredinol; ac os na ddygai y cyfryw i ffieiddio ei hun, dygai pawb arall i'w ffieiddio. Fel y byddai yn poethi agorai ei enau yn lletach, a llefarai yn gyflymach, yn gryfach, ac yn wresocach, ac yr oedd ei frawddegau yn ymestyn mewn hyd, ac yn cynyddu mewn nerth. Difrifolai wrth fyned rhagddo, ac yr oedd ganddo apeliadau cryfion weithiau a ysgydwai y gynnulleidfa fwyaf; ond fynychaf ryw ddychlamiadau hyawdl o ddymuniadau am lwyddiant y gwirionedd oedd terfyniadau cyffrous ei bregethau. Yr oedd yn alluog fel pregethwr yn mhob arddull. Ymdriniai ag athrawiaethau dyfnion, ac a dyledswyddau pwysig, ac a rhinweddau ymarferol. Dylifai gordial i ddiddanu y saint trallodus, ac yr oedd yn fab y daran i ddychrynu annuwiolion rhyfygus. Yn sicr yr oedd yn un o gedyrn cyntaf y pulpud Cymreig. Gwyddom y buasai yn dda weithiau pe buasai ei iaith yn fwy coeth a chaboledig, ond maen mynor heb ei lyfnhau yn ormodol ydoedd; a phe buasid yn tori cydunau ei wallt a'i wneyd, fel dyn arall, nid Rhys Pryse, Cwmllynfell fuasai. Nid oeddym yn barod i dderbyn y newydd o'i farwolaeth pan gyrhaeddodd atom, oblegid tybiem y gallasai fyw lawer o flynyddau yn hwy, ond fel arall y trefnodd yr Hwn sydd yn "penu amseroedd rhagosodedig" plant dynion. Mae yr hyn oedd farwol o hono yn gorwedd yn mynwent Gibeah, i aros y boreu y cymer y golygfeydd gogoneddus a ddarluniodd ganwaith mor hyawdl le yn weithredol.

Cysged yn dawel wrth droed y Mynydd Du! Sanged pob troed yn ysgafn arno—nac ymyred neb a'i esgyrn ef—a chadwer y llecyn byth yn gysegredig fel "BEDD GWR DUW."

Digitized by Google

## ALLTWEN.

Nis gallwn wneyd dim yn well i ddechreu na rhoddi i mewn yma yn gyflawn yr ysgrif ganlynol o eiddo Mr. Griffiths, Alltwen, yr hon a ymddangosodd yn y *Diwygiwr* am 1847. Tu dal. 313. "Mae'r Alltwen yn mhlwyf Cilybebyll, yn swydd Forganwg. Adroddir i mi gan yr hen bobl henaf sydd yn yr ardal, am hanes dechreuad yr achos yma fel y canlyn:—Yr oedd dyn o'r enw Lewis Richard yn byw mewn fferm a elwir Bryncarnau, yn y plwyf uchod, a chryn arwyddion duwiolideb arno, ac yn aelod o'r Eglwys Sefydledig. Ar ryw ddiwrnod rhoddodd fenthyg ei geffyl i'r offeiriad er myned i dref gymydogaethol, a digwyddodd i'r offeiriad wneyd gormod o gyfeillach a rhai o'r ysbrydion poethion ag oedd i'w cael yn y dref, a dilynodd eu heffeithiau hwynt ef tuag adref, gwnaent iddo gerdded lled y ffordd fel ei hyd; a gwaeth na hyny, bu gorfod arno gerdded yr ymyloedd, fel ag y syrthiodd ef a'r anifail i bwll llifo; a digwyddodd iddo, fel i Jacob gynt: llaesodd cyswllt ei forddwyd, a bu yn gloff dros ddiwedd ei oes (rhai drwg yw yr ysbrydion yma); a gwaeth na hyny, anafodd yr anifail, yr hwn oedd yn un lled werthfawr. Wrth fwrw golwg ar y daith hon, anfoddlonodd Lewis Richard yn fawr, a phenderfynodd adael yr Eglwys a myned at y Methodistiaid; ac am fod moddion gras yn brin yn yr ardaloedd yma, bu gorfod arno fyned i gapel Llanllian, ger y Foelgastell, swydd Gaerfyrddin; trafaeliodd tuag yno, er mor bell, am gryn amser. Ond wedi urddo y Parch. Henry Thomas, yn Nghodrerhos, penderfynodd Lewis Richard ymuno a'r Ymneillduwyr, a myned i Godrerhos yn aelod. Ar ol hyn daeth Mr. Thomas i bregethu yn achlysurol i Brynasgellog a Bryncarnau. O gylch yr amser yma yr oedd L. Richard yn cael *lease* ar ei dir gan ei feistres; ac am iddo ymadael a'r Eglwys, neu rhag ofn drwg oedd fwy, mynodd ei feistres roddi yn y weithred, nad oedd iddo gadw cyrddau yn ei dŷ, sef yn Bryncarnau. Wedi i'r rhwystr hwn godi, aeth L. Richard i edrych am ryw le arall fel y gallasai gael lle i addoli ei Dduw; a phenderfynodd ar dy bychan ag oedd wedi ei adeiladu gan bobl yr ardal at gadw ysgol ynddo; yr oedd yn mesur 21 o droedfeddi wrth 16 o led, ac o gylch 7 troedfedd o uchder, wedi ei doi a rhedyn; yr oedd yn sefyll ar ymyl *common* a elwir yr Alltwen. Gelwir ef felly am fod ar y *common* yma glogwyni o greigiau uchel a mawrion, y rhai sydd yn ymddangos yn wynion o bell gan y mwswn sydd yn gorchuddio y creigiau; ac y mae yr ardal, y ffermydd, y dafarn, a'r addoldy, yn myned wrth yr un enw oll. Cafwyd *lease* ar y tŷ bach gan Mr. W. Jones, Cilhendrefawr, dros ysbaid bywyd tri o ddynion, a pharhaodd y *lease* hyd y flwyddyn 1841. Wedi cael lle o addoliad, bu y Parch. Henry Thomas, ac eraill, yn pregethu yma, a daeth y Parch. William Evans, Cwmllynfell, i fod yn weinidog iddynt, a bu gyda hwynt o gylch deng mlynedd, a llwyddodd i gael cynnulleidfa ddá yn ol fel ag oedd pethau yn yr oes hono. A phan oedd yn myned i farw, cynghorodd bobl Cwmllynfell a'r Alltwen i ymofyn y Parch. John Davies, gwr ieuangc ag oedd newydd gael ei urddo yn Mhentretygwyn; ac felly aethant i hysbysu i Mr. Davies gynghor eu hymadawedig weinidog; cydsyniodd a'u cais, a daeth atynt yn y flwyddyn 1770. Bu Mr. Davies yn gweinidogaethu yn y tŷ bach am amryw flynyddau hyd nes aeth yn rhy fychan i'r gynnulleidfa, ac adeiladwyd ty oedd fwy wrth dalcen yr hen gapel, mesur yr hwn sydd 42 wrth 22 o droedfeddi, ac nid

oes hanes iddynt ymofyn cymorth gan neb ond yn yr ardal; cynyddodd yr achos, a lledaenodd y winwydden ei cheingciau i lawr ac i fyny, nes aeth yn gadarn, ac aeth yn lle o gyrchfa mawr iddo gan bobl yr ardaloedd, a rhai pellenig, a hyny oddiar enwogrwydd eu gweinidog, oblegid yr oedd yn ddyn cadarn yn yr Ysgrythyrau. Nid oedd neb cenhadau yn myned heibio heb alw gyda'r hen Shon Calfin, fel y galwent ef, ac yr oedd amryw o'r Methodistiaid yn galw gydag ef, ac yn ei dy ef y byddent yn lletty. Wedi bod felly yn llwyddianus am flynyddau, daeth eisiau gwellhau yr addoldy, yr hyn a wnaethant. Codasant ef yn uwch, a rhoddasant ben newydd a chadarn arno, a gwellhawyd ef y tu fewn; bu hyn yn y flwyddyn 1814, a dygodd y gynnulleidfa a'r ardalwyr y draul oll. Bu Mr. Davies yn gweinidogaethu yn yr Alltwen am 51 mlynedd; ond er mor gadarn o gorph ac o feddwl oedd, ac er mor hoff o hono ydoedd y bobl, bu gorfod arnynt ymadael ag ef pan ddanfonwyd cerbyd Israel a'i farchogion i'w gyrchu i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, &c. Bu farw Rhagfyr 4ydd, 1821, a chladdwyd ef wrth Eglwys Llanguwg, oblegid nid oedd mynwent wrth yr Alltwen na Chwmllynfell y pryd hwnw. Er mor enwog oedd y gweinidog a'r lle, etto nid oeddynt yn eglwys luosog, ond yr oeddynt yn bobl gyfrifol a pharchus iawn, yn ymgasglu o bell o lawer o wahanol ardaloedd; rhai o swydd Frycheiniog, plwyf yr Ystrad; eraill o blwyf Llanguwg, 4 neu 5 milldir i fyny; eraill o blwyf Llangafelach, Treforis, Llansamlet, plwyf Cadwg, godreu Cwmdulais, tu draw i'r mynydd, etto nid oeddynt ond bychan o rifedi yn yr oes dywyll hono, pryd nad oedd Ysgolion Sabbothol, na chyhoeddiadau misol, na thai addoliad yn aml iawn, na nemawr o fanteision fel sydd yn ein hoes ni, ac yr oedd llawer o elyniaeth at yr achos mewn llawer man. Bu gorfod ar un o ddiaconiaid yr Alltwen gael trwydded (*license*) ar ei dy er cael cadw addoliad ynddo (George Williams, Glanrhyd); yr oedd hyny yn beth hynod iawn; ond nid yw yr elyniaeth wedi marw etto, ond yn unig ei bod yn ormod o oleuni iddi ddangos ei hun.

Wedi marw Mr. Davies bu y gynnulleidfa yn araf, pwyllog, tawel, a diwylltni ar ol pob dawn ag oedd yn myned heibio iddynt. Ac wedi i eglwys y Pantteg roddi galwad i'r ysgrifenydd, daeth eglwys yr Alltwen o'r un feddwl, a chydsyniasant a'r Pantteg er bod yn rhanog a hwynt dan yr un weinidogaeth; rhoddasant alwad wedi ei harwyddo oll heb un yn groes, nid oeddynt y pryd hwnw ond 67 o nifer. Wedi yr urddiad aeth pethau yn mlaen yn gysurus, llwyddodd yr achos, derbyniwyd amryw, ac aeth eisiau helaethu y lle, yr oedd yn rhy gyfyng i breswylio ynddo; nid oedd ond *lease* bywydau ar y ty, a dau o'r tri wedi marw, a'r llall yn hen iawn. Y canlyniad fu, aeth un o'r hen bobl (Richard Hopkin, Cwmnantllwyd) at berchen y lle, er ceisio adnewyddu y *lease*, i gael adeiladu—cafodd addewid o gan' mlynedd; aeth eilwaith, a chafodd addewid o fil ond un. Felly penderfynodd yr eglwys wneyd cytundeb a H. Gwyn, Ysw., am y lle dros 999 o flynyddau. Rhyw fodd wrth ymddiddan a'r gwr boneddig, daethbwyd i benderfyniad i gael darn o'r cae oedd islaw y tai addoliad at yr hyn oedd eisioes o dan y tai addoli, a hyny er adeiladu ty newydd a'r ddau gyntaf i sefyll, i fod yn ystabl a thai anedd, ac i fod mewn cysylltiad a'r ty newydd, a'r cwbl yn yr un *lease*. Yr unig rwystr i hyn oedd, fod *lease* gan Mr. Richard Hopkin, ar y cae; a thuag at symud hyny, rhoddodd ei hawl i'r darn tir i fyny i'r eglwys am *ddim*. Felly dechreuwyd adeiladu yn y flwyddyn 1831. Mae yr adeilad presenol yn mesur 46 troedfedd wrth 36 o led, 22

Digitized by Google

o uchder, 3 drws, ac 8 o ffenestri, ac oriel helaeth, corau (50); ac anrhydeddwyd y lle a dau awrlais (*clocks*), un tu fewn, a'r llall tu allan, gan berchen y lle, Howell Gwyn, Ysw., eu gwerth oedd £18 18s. Gwerth yr adeilad yma oedd £407 5s., ond rhwng talu llog, ac adeiladu muriau o gylch iddo, aeth y swm i £523 10s., ond casglwyd y cwbl yn yr ardal mewn ysbaid chwe' blynedd, oddigerth rhyw ychydig gymorth o'r undeb, ac oddiwrth ryw 15 o gapeli yn y gymydogaeth; cludodd y bobl yr holl ddefnyddiau yn rhad, ceryg, coed, sand, dwfr, calch, &c.; yr oedd gan y bobl galon i weithio, a gwasanaethasant eu cenhedlaeth drwy hyny, a chenhedlaethau lawer etto.

Y draul nesaf aeth arnynt oedd adgyweirio yr hen addoldy, er ei wneyd yn dri thy byw ac ystabl, costiodd hyn iddynt £45. Wrth gloddio am sylfaen i'r addoldy presenol, deallwyd fod yno ddyfnder o ddaear, ac y gallesid claddu, er ar lechwedd y graig. Yna gwnawd apeliad at H. Gwyn, Ysw., trwy gyfrwng T. Lott Martin, Ysw., am ychwaneg o dir er cael lle i gladdu ein meirw, yr hyn a ganiatawyd yn rhwydd, heb godi dim yn y *rhent* flynyddol, ond i ni gael cydsyniad Richard Hopkin, yr hwn oedd a *lease* ar y cae; bu yntau mor hael a rhoddi y tir heb ddim tal eilwaith dros amseriad ei hawl ef ynddo. Felly cafwyd y cae oll at fynwent, ac y mae yn un o'r mynwentydd mwyaf yn y sir, os nad yn Nghymru, lle sych hyfryd i gladdu; etto, er mor hyfryd, lle ni ddaeth, ac ni ddaw neb i orwedd yma o'i fodd, ond gorfod dyfod dan rwymau angau—hen elyn i ni yw, ac a fydd hyd nes y gorchfygo Iesu mawr ef. Costiodd adeiladu muriau o amgylch claddfa mor eang lawer iawn o arian i'r gynnulleidfa. Hydref 22ain, 1834, dechreuwyd claddu yma; Margaret Hopkin, Forestgoch, oedd y gyntaf a roddwyd i orwedd yma; pregethwyd ar yr achlysur oddiwrth Gen. xxiii. 17. Mae yma heddyw, (Awst 12fed, 1847,) dros ddau gant yn gorwedd. Mae'r beddau wedi eu trefnu yn rhesi wrth linell gywir—dau fedd i bob teulu, 7 troedfedd o hyd wrth 6 o led; ac y mae'r beddau wedi eu coflyfru wrth eu rhif (*numbers*) yn mhob rhes.

Y draul nesaf aeth yr eglwys iddo yn 1846, oedd toi y ty addoliad, ben ac ochr, er ei ddiddosi, yr hyn a gostiodd £51 7s. 4c. Eilwaith yn y flwyddyn hon, ail adeiledir yr hen dy hynaf er ei wneyd yn dy anedd cyfleus, costia hwn i ni dros £30. Fel uchod y mae achos y Gwaredwr mawr wedi cychwyn yn yr Alltwen dros y pedwar ugain a deg o flynyddau a aethant heibio; a dymuna'r ysgrifenydd iddo fil myrdd mwy o lwyddiant yn y 90 nesaf, ac hefyd hyd nes cano'r udgorn a'n galw o'n beddau, y rhai sydd barod i ni eisioes. Ni chafodd eglwys yr Alltwen y fraint o fod yn fam i amryw ganghenau fel llawer lle, ond cafodd y fraint o breswylio ynghyd heb ymrwygo na nemawr o amrafaelion o ddim pwys er pan y corpholwyd hi yn eglwys, a thrwy drugaredd y mae cariad ac undeb yn fyw yma heddyw—hir oes iddynt byth ac yn dragywydd. Ni chafodd y lle hwn y fraint o fagu llawer o genadau i sefyll ar yr adwy danllyd, ond cafodd y fraint o beidio lladd neb; mae llawer o ladd cenadau trwy ormod o waith, rhy fach o fwyd, gormod o fustl yn eu cwpanau; ond cafodd yr eglwys hon weled ei hathrawon yn disgyn i'r bedd mewn oedran teg, yn gyflawn o ddyddiau, a hwyr eu bywyd, yn llawn o gysur. Etto cafodd fagu rhai i fod yn eneuau cyhoeddus: yma y codwyd y Parch. Jenkin Lewis, Llanfyllin, yr hwn a lafuriodd yn llwyddianus yn y lle hwnw trwy lawer o anfanteision. Codwyd David Rees yma, bachgen bach

call, duwiol, a hyfryd iawn, hynod yn ei athrylith, ond machludodd ei haul gyda ei fod yn dyfod dros y terfyngylch, a bu farw yn ieuangc. Mae yma ddyn ieuangc yn bresenol yn dechreu arfer ei ddawn (Joseph Owen); dymuna yr eglwys a'r gweinidog iddo fawr a hir lwyddiant. Cyfrifir yr eglwys hon yn iach yn y ffydd er pan mae yn eglwys; y mae yn mhell o fod o farn Arminaidd, etto mae am flaenori ar bawb mewn diwydrwydd, dyledswyddau, buchedd sanctaidd, a dysgyblaeth yn ol gair Duw. Cyfrifir gan y rhai sydd yn teithio, fod yma gymaint o archwaeth grefyddol ag sydd mewn nemawr o fan yn y dyddiau marwaidd hyn. Cafodd yr eglwys hon y fraint o gynal dwy gymanfa bedair-sirol yn y'sbaid 21 mlynedd diweddaf. Mae'r gangen hon o'r mynydd yn dorf luosog at a fu cyn hyn, ond nid yw hi ond bechan at a fydd, gobeithio, a hyny cyn byddo yn hir. Mae yn ymranu i 6 o ddosbarthiadau er cynal cyfarfodydd gweddio, a hyny i feithrin doniau, llesoli cymydogaethau, ac ennill tir a phersonau newyddion. Bydded bendith ar eu llafur, a bydded Duw Israel gyda ni tra fyddom gyda ein gilydd, ac ar ol fy ymadawiad i arosed cwmwl y gogoniant yma byth."

Yr ychydig ffeithiau canlynol yn unig sydd genym i'w hychwanegu at yr hanes cyflawn blaenorol. Urddwyd Mr Griffiths, Rhagfyr 12fed a'r 13eg, 1822. Dechreuwyd y cyfarfod y nos gyntaf yn y Pantteg gan Mr. D. Davies, myfyriwr yn athrofa y Neuaddlwyd, yn awr o'r New Inn, a phregethodd Mr. L. Powell, Capel Isaac, a Mr. D. Davies, Sardis. Yr ail ddydd, yn yr Alltwen, dechreuwyd trwy weddi gan Mr. Morgan Lewis, Glynnedd; pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Evans, Mynyddbach; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. R. Howell, Baran; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. Daniel Jones, Crugybar; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. T. Bowen, Castellnedd, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. D. Davies, Sardis.

Mae Mr. Griffiths wedi bod yn llafurio yn y maes pwysig hwn bellach er's cyflawn haner can' mlynedd. Yn ystod y tymor hwn, heb gyfrif ei lafur achlysurol yma er y pryd y dechreuodd bregethu, ac am yr amser y bu ar brawf yma, y mae o ddydd ei urddiad hyd yn bresenol wedi traddodi yn y lle, *naw mil a phump o bregethau;* wedi bedyddio 2886 o blant; wedi gweinyddu mewn 2007 o angladdau; ac wedi derbyn trwy ddeheulaw cymdeithas 1930 o bersonau, heb gyfrif y rhai a dderbyniwyd ganddo trwy lythyrau, a'r gwrthgilwyr a adferwyd. Yn nhymor gweinidogaeth Mr. Griffiths, y mae eglwys a chynnulleidfa yr Alltwen wedi myned i'r draul o 1082p. 3s. i adeiladu a helaethu y capel, murio o gylch y fynwent, troi yr hen gapel yn anedd-dai, adeiladu *Reading-room,* &c., ac wedi talu y cwbl eu hunain heb ond y peth nesaf i ddim o gymorth o un ardal arall. Daw y canghenau yn Ynysmudw, a Chraigtrebanos, dan sylw etto yn eu lleoedd priodol. Helaethwyd y capel i'w faint presenol yn 1861, pryd yr aed i'r draul o 319p. 10s. i wneyd hyny.

Heblaw y rhai a grybwyllwyd yn barod, cafodd y rhai canlynol eu cyfodi i bregethu yn yr eglwys hon:—

John Jenkins, yr hwn a dderbyniwyd i athrofa Abergavenny, Mai 8fed, 1775, ac a urddwyd yn Llangattwg, Crughowell, Medi 30ain, 1779. Daw ef etto dan sylw yn nglyn a hanes yr eglwys hono.*

* Llawysgrifau P. David a chofnodion y *Congregational Fund.*

Digitized by Google

Lewis Williams, yr hwn a urddwyd yn ddiweddar yn Mynyddislwyn; yn nghyda dau ŵr ieuangc sydd newydd ddechreu pregethu, o'r enwau Samuel Thomas a Dan Williams.

Mae yr eglwys hon, a'r Ysgol Sabbothol, mewn agwedd hynod o lewyrchus, a Mr. Griffiths, er ei henaint a'i holl lafur, yn gryf a bywiog mewn corph a meddwl, ond ei fod fel Jacob, yn gloff o'i glun. Hyderwn fod etto flynyddoedd o gysur a llwyddiant o'i flaen.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

JOHN DAVIES. Ganwyd y gweinidog enwog hwn yn mhlwyf Llanllawddog, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1737, mewn anedd-dy yn agos i Eglwys y Plwyf. Aelodau o'r Eglwys Wladol oedd ei rieni. Treuliodd ef flynyddau boreuaf ei oes yn was gyda boneddwr o'r enw Mr. Lloyd, Glangwili. Yno y dysgodd ac y cymerodd hoffder mewn saethu adar, yr hyn a barhaodd i wneyd trwy ei oes. Ymddengys ei fod yn wyllt a thra annuwiol, er ei fod mewn parch mawr gyda ei feistr, hyd nes yr oedd tuag ugain mlwydd oed. Y pryd hwnw cafodd gystudd trwm a pheryglus a bu yn cadw ei wely am rai wythnosau. Bendithiodd yr Arglwydd ei gystudd er ei ddifrifoli. Pan wellhaodd ymunodd a'r eglwys Annibynol yn Mhenycadair. Yn mhen ychydig amser ar ol ei dderbyn, anogwyd ef gan yr eglwys i arfer ei ddawn fel pregethwr, ac ar ol pregethu am rai misoedd ar brawf yn ei fam-eglwys, aeth, yn ol arferiad yr oes hono, i gyfarfod gweinidogion, lle y traddododd bregeth er mwyn i'r gweinidogion a'r eglwysi cymydogaethol gael cyfle i farnu ei gymhwysder. Barnwyd ef yn addas i gael ei anog i fyned trwy yr eglwysi fel pregethwr rheolaidd. Gan ei fod yn dra enwog fel pregethwr, ac yn enwedig ar gyfrif ei gryfder corphorol a'i wroldeb, anfonodd yr eglwys yn Rhosymeirch, Mon, alwad iddo, cyn iddynt ei glywed, ar sail y son oedd wedi myned allan am dano. Yr oedd o bwys cael dynion gwrol y pryd hwnw i fod yn weinidogion Ymneillduol yn Mon, o herwydd ysbryd erlidgar y trigolion. Tybiodd ef a'i gyfeillion mai llais oddiwrth yr Arglwydd oedd yr alwad hon, ac felly cychwynodd i'w daith tua'r gogledd, ond cyn iddo fyned yn mhell cloffodd ei geffyl, a bu raid iddo ddychwelyd adref. Yna rhoddodd i fyny y meddwl am fyned i'r gogledd. Tua y flwyddyn 1767, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Mhentretygwyn, sir Gaerfyrddin, lle yr urddwyd ef. Yn niwedd y flwyddyn 1770, neu ddechreu 1771, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn Nghwmllynfell, yr Alltwen, a Chwmaman, ac ymsefydlodd yno, ac yno y bu yn rhyfeddol o ddylanwadol a pharchus hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Rhagfyr 4ydd, 1821. Ar ddydd ei gladdedigaeth, cymerwyd ei gorph o'i anedd i gapel yr Alltwen, lle y traddodwyd pregeth oddiar Salm xl. 2, gan Mr. Thomas Edwards, Castellnedd. Yr oedd y testyn a'r pregethwr wedi cael eu penodi gan yr ymadawedig ar ei wely angau. Claddwyd ef yn ymyl ei ragflaenor, Mr. W. Evans, yn mynwent Llanguwg, yn ngwydd llawer o ganoedd o alarwyr.

Dichon na fu un gweinidog erioed yn fwy ei barch gan bobl ei ofal na Davies, o'r Alltwen. Nis gellir crybwyll ei enw i'r dydd heddyw yn nghlyw yr hen bobl sydd yn ei gofio heb enyn ynddynt deimladau o barch iddo. Dywedir mai dyn mawr, garw ei gorph a'i ymadroddion ydoedd,

Digitized by Google

ond er hyny yr oedd ganddo ryw ffordd ryfedd i fyned i serchiadau dynion ac i beri iddynt deimlo parch tuag ato.

Yr oedd fel pregethwr yn llefaru yn gryf, ac eglur, ac yn gadael yr argraff ar ei wrandawyr ei fod yn feistr ar ei bwngc. Er nad oedd dim yn swynol yn ei lais, nac yn dlws yn ei gyfansoddiadau, yr oedd pawb o'i gydoeswyr yn ei gyfrif yn bregethwr mawr. Llygriad dynoliaeth trwy y cwymp, a chyfiawnhad trwy ffydd yn angau iawnol y Cyfryngwr, oedd y materion y safai arnynt agos bob amser. Anfynych y traddodai un bregeth heb roddi ergyd i'r Sosiniaid, ac er hyny, yr oedd gan Sosiniaid y gymydogaeth barch mawr iddo fel cymydog. Yr oedd ganddo yn ei ymddiddanion a'i bregethau ryw ergydion pwrpasol, ac yr oedd ei ateb yn wastad yn barod. Yr oedd ryw nos Sabboth i bregethu yn Ebenezer, Abertawy, a chan ei fod tua phedwar ugain oed y pryd hwnw, ac wedi bod yn pregethu yn yr Alltwen yn y bore, cynygiodd Peter Williams, un o swyddogion yr eglwys, alw rhyw frawd i ddechreu yr oedfa iddo. "Na wnewch," ebe efe, mewn llais garw uchel, "mae yn well genyf fi gael hogi fy mhladur fy hun na gadael i neb arall wneyd hyny."

Bu Mr. Davies yn briod ddwywaith ond ni bu iddo blant.

## GODRERHOS.

Cymerwn hanes yr eglwys hon allan o'r *Diwygiwr* am 1847. Tu dal. 150, yr hwn a ysgrifenwyd gan Mr. P. Griffiths, Alltwen, a bydd yn dda gan ein darllenwyr ei gael yn arddull yr awdwr ei hun. "Mae'r eglwys fechan hon wedi ei ffurfio er ys mwy na chan mlynedd yn ol, er nad oes hanes cywir i'w gael trwy un ysgrifen, nac ychwaith trwy draddodiad, ond fod pregethu mewn ty bychan, lle y trigianai hen ŵr crefyddol, gwehydd wrth ei gelfyddyd. Ymddengys fod yno ryw ychydig bobl yn ofni Duw, ac yn cynal addoliad. Nid oes neb yn gwybod pa fodd yr oedd yr achos yn cael ei gynorthwyo, na chan bwy. Y peth cyntaf sydd ar gof gan yr hen bobl, trwy glywed gan eu tadau, yw i un Henry Thomas, genedigol o Lacharne, swydd Gaerfyrddin, priddfeinwr wrth ei gelfyddyd, yr hwn oedd yn bregethwr, ddyfod i Godrerhos i gadw ysgol, a phregethu yn achlysurol. Yn mhen amser urddwyd ef i waith y weinidogaeth. Nid oes un hanes i gael pwy oedd y gweinidogion a fu yn yr urddiad. Wedi i dalm o amser fyned heibio, priododd y Parch. Henry Thomas, a merch Mr. Jenkin Davies, Gellidochleitha, yr hwn oedd yn byw ar ei dir ei hunan, ac ar ei dir ef yr oedd tŷ y gwehydd, lle yr oedd yr addoliad yn cael ei gynal. Y canlyniad fu i Mr. Henry Thomas gael *lease* ar y tŷ bach, a darn helaeth o dir at fynwent, gan Mr. Jenkin Davies, ei dad-yn-nghyfraith, er adeiladu ty addoliad mwy cyfleus; yr hyn a wnaethant, yr hwn sydd yn sefyll heddyw. Yr oedd y *lease* dros fil ond un o flynyddau, wedi ei hymddiried i ymddiriedolwyr, sef y Parch. Henry Thomas, Godrerhos; R. Rees, Cwmdulais; John Evans, Brynasgellog; a'r Parch. Noah Simmons, Castellnedd; ardreth flynyddol y lle yw chwe' cheiniog. Mae darbodaeth yn y *lease*, os bydd y gynnulleidfa yn ewyllysio adeiladu rhyw beth ar y tir, neu'r fynwent, fod iddynt hawl, ond ei fod mewn cysylltiad a'r addoldy; a bod coed at hyny i'w cael, os byddai coed o'r fath ar y fferm uchod, Gellidochleitha. Amseriad y *lease* yw 1753. Oddiwrth yr hanes uchod, gallwn gasglu, rhwng ffurfio yr eglwys, dyfodiad Mr.

Digitized by Google

Thomas atynt, ei urddo, priodi, &c., fod cryn lawer o flynyddau o ddechreuad yr achos hyd amser dyddiad y *lease*, yr hon sydd heddyw yn 94 o flynyddau, ac i barhau etto 905. Tymor anwyl i fraich yr Arglwydd i weithio. Mae'r addoldy uchod wedi ei adgyweirio bedair gwaith, er nad yw wedi ei ail adeiladu. Cafodd y lle yr enw Godrerhos oddiwrth sefyllfa y fan y mae. Mae llain o dir yn rhedeg trwy'r cwm, rhwng Mynydd-march-howell ar y gorllewin-ogledd, a Hir-fynydd ar y dwyrain-ddeheu iddo, a elwir y Rhos (*common*), ac yn agos i odreu hwnw y saif yr addoldy. Wrth yr hanes a gawn gan hen bobl, ymddengys nad oedd achos crefyddol gan yr Annibynwyr yn Nghwmnedd, yn enwedig tua'i ganol, yn amser y Parch. Henry Thomas, o gylch i 80 neu 90 o flynyddau yn ol; oblegid yr oedd pedwar o bersonau yn dyfod oddiyno i Godrerhos—John Harrison o Glyncastell, tu draw i Nedd, plwyf Illtyd, ewythr i'r Parch. J. Harrison, Aberdar, a brawd i dadcu y Parch. John Jones, Cincinnati, America; yr ail oedd Thomas Hopkin, Penlan, tad Rees Hopkin, Tongarwyd, pregethwr selog a phoblogaidd gyda'r Methodistiaid, a thadcu Rees Hopkin, Creinant, pregethwr gyda'r un bobl; y trydydd oedd Jenkin Lewis, Blaen-nant-yr-hebog, sef yr enwog a'r Parchedig Jenkin Lewis, Llanfyllin, yr hwn a lafuriodd yn galed trwy lawer o wrthwynebiadau a thlodi mawr lawer gwaith pan oedd yr achos ond yn ei fabandod yn ngogledd Cymru. Er nad yn Nghodrerhos y dechreuodd bregethu, etto, yno y derbyniwyd ef yn aelod, a symudodd i gymydogaeth yr Alltwen, pan y dechreuodd sefyll i fyny yn gyhoeddus; y pedwerydd oedd Jennet Christmas, Hendregledren; nid wyf yn adnabyddus a neb o'i phobl, pa un ai crefyddol ai digrefydd y maent. Oddiwrth hanes y dynion da a ffyddlon uchod, gallwn weled fod Duw yn bendithio llafur, ac yn gwobrwyo ffyddlondeb, ac yn ymweled hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'i carent ef. Felly hefyd y mae o barth i lawer o bobl eraill ag oedd yn aelodau yn Nghodrerhos, mae eu had gyda'r achos, crefydd fel wedi gwreiddio yn y teuluoedd —lle byddo didwylledd hi wna hyny. Yn mhen oes neu ddwy eilwaith, daeth eraill yn uwch i fyny o Gwmnedd, i fod yn aelodau yn Nghodrerhos: un Morgan Curtis, Blaen-nant-yr-ewig, a Morgan Jones, Ddrysiog, ac eraill, y rhai, ynghyd ag aelodau o fanau eraill, a ddechreuasant yr achos sydd yn Nglynnedd yn bresenol. Nid oedd nemawr o bregethu dros y mynydd i'r gorllewin i Godrerhos yn amser y Parch. H. Thomas; yr oedd un Lewis Richard, Bryncarnau, a John Evan Thomas, Brynasgellog, yn byw yn mlaen plwyf Cilybebyll, ac yn aelodau yn Nghodrerhos; a byddai y Parch. H. Thomas yn dyfod dros y mynydd i bregethu iddynt, yr hyn a achlysurodd i gael pregethu yn nes i waered yn y plwyf, ac o'r diwedd, sefydlodd yr arch ei man, sef yr Alltwen; a thebyg heddyw, na symud hyd nes cano'r udgorn, a galw'r dorf sydd yn gorwedd, ac a orwedd etto yno. Yr oedd achos Godrerhos yn lledaenu i'r gogledd hefyd; yr oedd rhai o'r aelodau yn byw yn y Graigarw, ar lan afon Twrch; bu y Parch. M. Lewis yn pregethu yn fisol yn Ystalyfera-uchaf, ty William Williams. Bu y Parch. H. Thomas o ddefnydd mawr, ac yn llafurus iawn yn yr oes dywyll hono, ond rhoddodd i fyny bregethu amryw flynyddau cyn ei farw, a bu farw yn 90 oed; claddwyd ef gyda'i wraig yn mynwent Godrerhos, yn 1802, claddwyd ei wraig yn 1771. Nid wyf yn gwybod am neb o'i bobl yn bresenol. Yr oedd iddo wyr, y Parch. Jeremiah Thomas, Croesoswallt, yn *Shropshire;* nid wyf yn gwybod a ydyw yn fyw ai peidio, mae wedi rhoi fyny bregethu, ac yn byw ar ei feddianau.

Digitized by Google

Wedi i'r Parch. H. Thomas roddi fyny bregethu, cafodd y Parch. Morris Williams alwad, ac urddwyd ef i waith y weinidogaeth yn Nghodrerhos, lle y bu yn ffyddlon a llwyddianus iawn, ac mae ei goffadwriaeth yn hoff ac yn anwyl ganddynt. Bu yntau farw, ac y mae yn gorwedd yn mynwent Godrerhos gyda'r dorf sydd yno yn tawel huno. Yn ganlynol daeth y Parch. John Davies, Llansamlet, i weinidogaethu yn eu plith yn achlysurol, a bu gyda hwynt yn llwyddianus, ac yn hynod o heddychol, ac y mae ei enw yn beraidd gan yr hen bobl fyth. Wedi i Mr. Davies ymadael, cafodd Morgan Lewis alwad ganddynt, yr hwn oedd yn byw yn yr ardal, ac yn bregethwr bywiog a selog anarferol. Yr oedd Mr. Lewis wedi dechreu ei yrfa grefyddol yn y Creinant, gyda'r Methodistiaid, fel nad oedd yn aelod yn Nghodrerhos, er ei fod yn byw yn ngolwg y lle. Urddwyd ef yno, a bu yn llafurus a llwyddianus anarferol; cafodd alwad i Ty'nycoed, ac adeiladwyd Hermon, fel yr oedd cylch ei lafur yn fawr iawn; rhyw fodd neu gilydd, gadawodd Mr. Lewis, Godrerhos, a llafuriodd yn Ty'nycoed a Hermon yn unig. Ar ol ymadawiad Mr. Lewis, daeth Mr. Wm. Williams, Newton Nottage, i fod iddynt yn weinidog achlysurol, bu gyda hwynt am ysbaid pum' mlynedd, a meddyliodd fod y ffordd yn nes a hawddach trwy y dwfr na thros y tir i'r nef, ac felly aeth at y Bedyddwyr. Wedi hyn, yr oedd y ddiadell fechan heb neb eilwaith. Cafodd y Parch. Thos. Edwards, Castellnedd, alwad ganddynt, ac atebodd hi; bu yn diwyd lafurio yn eu plith am flynyddau, hyd nes iddo ef a'i deulu symud i America, lle y terfynodd ei oes. Eilwaith aeth y pulpud yn wag, a daeth eu cymydog nesaf, sef y Parch. James Williams, Ty'nycoed, i'w cynorthwyo, a bu yn ddiwyd, llafurus, a pharchus iawn, yn gofalu am danynt am rai blynyddau. Wedi hyn, rhoisant alwad i'r Parch. Dl. Griffiths, Castellnedd, yr hwn a gymerodd eu gofal, a lledaenodd ei ddefnyddioldeb a'i lafur trwy yr ardaloedd, casglodd y bobl yn lluoedd, derbyniwyd amryw, adeiladwyd *gallery* newydd, a gwnawd eisteddleoedd newyddion; ac hyderir i lawer gael calonau newyddion. Ond yn nghanol y gwres, y cariad, a'r anwyldeb, bu farw Ebrill 1af, 1846, claddwyd ef yn Zoar, Castellnedd. Bellach, mae eglwys Godrerhos heb un bugail arni etto, ond wele yr Arglwydd yn tueddu eu calonau at y brawd Henry Rees, aelod o Lanelli, swydd Gaerfyrddin, yr hwn a urddwyd Mawrth 9fed a'r 10fed, (gwel *Diwygiwr*, Ebrill, 1847,) i fod yn weinidog iddynt mewn cysylltiad a'r Ystrad. Bydded bendith bryniau tragwyddoldeb i aros arnynt, ac a'r un ffyddlondeb a ddangosasant trwy yr oesau, y caffont dreulio eu hoes i ben; ac arosed ei fwya ef, sef fy mrawd Rees, yn gryf, a nerther ei ddwylaw ef trwy ddwylaw grymus Duw Jacob—eled y bychan yn fil, a'r wael yn genedl gref, a phresured ei pherchen hyny yn ei amser. Wedi dilyn hanes crefydd yn Nghodrerhos, gallwn nodi rhai pethau hynod am yr eglwys hon. Nid y lleiaf o ran defnyddioldeb, yn gystal ag oedran, yw hon; mae yn fam i'r achos yn yr Alltwen, ac yn Nglynnedd, ac mae amryw o'i haelodau wedi cynorthwyo i ffurfio achos yr Onllwyn, er fod y merched, feallai, yn dalach na'u mam, mae yn digwydd felly yn aml. Mae yn hynod o ran breintiau, cafodd y fraint o fagu amryw bregethwyr, ac mae rhai o honynt yn weinidogion defnyddiol. Yn Nghodrerhos y ganwyd ac y magwyd y Parch. Joshua Evans, Cymer; John Thomas, Carbondale, America; Henry Davies, *Town Missionary*, Liverpool, ac eraill hefyd. Mae eglwys Godrerhos trwy yr holl gyfnewidiadau—gweinidogion yn marw, symud, a dewis rhai newydd, nid oes dim

yn debyg i ymraniad wedi bod erioed yn eu plith, ond fel un llaw, gan mwyaf, bob amser. Diau fod hyn yn enw da iddynt, ac yn gysur i fyned atynt. Eilwaith, mae yn enwog yn mhurdeb yr athrawiaeth—nid ydynt yn barnu eu bod yn gwybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Mae gwres crefyddol yn aros yn y lle bach hwn er amser y tadau, cof genyf am amryw o honynt yn eu cynesrwydd a'u ffyddlondeb. O! disgyned deubarth eu hysbryd ar eu had, a bendith Ior ar eu hiliogaeth. Claddwyd mamau yn Israel o'r ddiadell hon, ac a wylodd fwy o ddagrau na digon i'w boddi ynddynt. Mae yr aelodau presenol yn wrandawyr da, yn gantorion cynes, yn weddiwyr doniol—gwisger hwynt oll a gwir ostyngeiddrwydd ger bron y Duw mawr, ac a sel danllyd, ac a diwydrwydd diflino yn ngwaith eu Harglwydd."

Nid oes genym nemawr i ychwanegu at yr hanes cyflawn uchod. Parhaodd Mr. Henry Rees i weinidogaethu yn ffyddlon i'r eglwys hon mewn cysylltiad a'r Ystrad, o amser ei urddiad yn Mawrth, 1847, hyd ei symudiad i'r America Mai 20fed, 1869. Ar yr ail Sabboth yn Chwefror, 1871, dechreuodd Mr. R. W. Roberts, Pentrefoelas, sir Ddinbych, ei weinidogaeth yma ac yn yr Ystrad, fel canlyniedydd Mr. Rees, ac mae ei lafur yn argoeli bod yn dderbyniol a llwyddianus yn y ddau le. Yn 1856, tynwyd hen gapel Godrerhos i lawr ac adeiladwyd y capel prydferth presenol, yr hwn sydd yn mesur 36 troedfedd wrth 30 dros y muriau, ac a gostiodd 416p. 9s. 8c., heb gynwys cludiad y defnyddiau, yr hyn a wnaed yn rhad gan yr ardalwyr. Agorwyd y capel newydd Gorphenaf 2il a'r 3ydd, 1856, pryd y pregethodd Meistri Griffiths, Alltwen; Griffiths, Abertawy; Mathews, Castellnedd; Thomas, Bryn, Llanelli; Thomas, Glandwr; Davies, Cwmaman; Daniel, Mynyddbach, ac eraill. Yn yr oedfa ddeg o'r gloch yr ail ddydd, casglwyd mwy na digon i dalu yr holl ddyled.

Nid yw eglwys Godrerhos erioed wedi bod yn lluosog, ac nis gallasai fod, am fod poblogaeth y wlad am filldiroedd oddiamgylch yn deneu iawn, ond yn awr pan mae gweithiau glô yn cael eu hagoryd yn mhob cyfeiriad yn yr ardal, mae y boblogaeth yn sicr o gynyddu yn ddirfawr yn dra buan, a bydd yma wrth bob tebygolrwydd eglwys a chynnulleidfa luosog iawn cyn pen nemawr o flynyddau.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

**Henry Thomas.** Nid oes genym unrhyw hanes i'w roddi am dano ef yn ychwanegol at yr hyn a roddwyd yn yr hanes blaenorol am yr eglwys. Bu farw yn mis Awst, 1802, yn 90 oed, a chladdwyd ef wrth gapel Godrerhos. Mae yn ymddangos ei fod yn ei ieuengctyd a chanol ei ddyddiau yn weinidog llafurus a thra llwyddianus. Darfu iddo roddi i fyny y weinidogaeth o herwydd diffyg iechyd, neu ryw achos arall anhysbys i ni, fwy na deng-mlynedd-ar-hugain cyn ei farwolaeth.

**Morris Williams.** Yr oedd yn un genedigol o blwyf Llanllwyni, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1733. Mae yn debygol mai yn Rhydybont neu Bencadair y dechreuodd ei yrfa grefyddol. Yr ydym yn hollol anhysbys o hanes boreu ei oes. Cafodd ei urddo yn weinidog yn Nghodrerhos a Thy'nycoed, tua'r flwyddyn 1773, a bu farw Mai 3ydd, 1799, yn 66 oed. Claddwyd ef wrth gapel Godrerhos. Mae yn ymddangos ei fod yn ddyn llafurus a pharchus iawn, ac o olygiadau efengylaidd fel pregethwr.

Yr oedd hefyd yn feddyg tra medrus a llwyddianus, yn enwedig i osod esgyrn a chymalau yn eu lle. Bu un o'i feibion hefyd yn dra llwyddianus fel meddyg esgyrn, ac felly etto y mae mab hwnw, sef Mr. John Williams, Aberdar.

MORGAN LEWIS. Gweler hanes Glynnedd.

WILLIAM WILLIAMS. Bu ef am ryw gymaint o amser yn y Drefnewydd cyn dyfod i Odrerhos. Tybiem mai yn y flwyddyn 1811, ar ymadawiad Mr. Morgan Lewis, y dechreuodd ei weinidogaeth yma. Yn 1816, symudodd i Philadelphia, gerllaw Caerfyrddin, ac ni bu yno yn hir cyn i anghydfod gyfodi rhyngddo a'r eglwys. Yna trodd at y Bedyddwyr a bu am lawer o flynyddau yn weinidog gyda'r enwad hwnw yn Melin-Evan-ddu, Morganwg, lle y bu farw rai blynyddau yn ol.

THOMAS EDWARDS. Dywed Mr. Griffiths, o'r Alltwen, mai un genedigol o ardal Caerphili oedd ef, a thybia mai aelod gwreiddiol o'r Groeswen ydoedd. Gwerthwr brethynau *(draper)* ydoedd wrth ei alwedigaeth, a bu am lawer o flynyddau yn cadw masnachdy helaeth yn Nghastellnedd. Merch Mr. Rees Rees, un o'r Undodiaid a fu yn ceisio troi Mr. Bowen allan o gapel Maesyrhaf, oedd ei wraig, ac yr oedd hithau, fel ei thad, o'r farn Undodaidd. Dywedai ryw dro yn ei thŷ yn nghlyw amryw ddieithr-iaid y geiriau rhyfygus, "Mae Edwards yn clebran byth a hefyd am ei Grist, ond myfi a af i'r nefoedd tu cefn i'w Grist ef." Bu Mr. Edwards yn gofalu am yr eglwysi yn y Crwys a Rhydymardy am tua saith neu wyth mlynedd, ac ymddengys i'r eglwys yn Nghodrerhos fod dan ei ofal o 1816 hyd tua 1822. Pan ddyrysodd yn ei fasnach bu am ryw faint o amser yn Dowlais, ac wedi hyny yn Nghaerdydd; symudodd o'r lle hwnw i America tua'r flwyddyn 1829. Nid oes genym ddim yn mhellach o'i hanes i'w roddi.

Yr oedd Thomas Edwards yn cael ei gyfrif yn bregethwr o gryn enwog-rwydd. Calfiniad uchel ydoedd o ran ei farn. Dywedir iddo fod unwaith dan gerydd mewn cynnadledd gweinidogion am bregethu yr athrawiaeth o gyfiawnhad yr etholedigion er tragwyddoldeb. Yr oedd gan Mr. Davies, o'r Alltwen olwg uchel arno. Efe oedd yr un a benodwyd ganddo i bregethu ei bregeth angladdol.

## YSTRADGYNLAIS.

Er fod yma lawer o drigolion ni chynygiwyd dechreu achos Annibynol yn y lle cyn y flwyddyn 1832. Y rheswm am hyny y mae yn debygol ydoedd fod Ty'nycoed o fewn pedair milldir i'r gogledd-ddwyrain i'r lle, Cwmllynfell o fewn tair milldir i'r gogledd-orllewin, Godrerhos tua dwy filldir a haner i'r de, a'r Pantteg tua dwy filldir i'r Gorllewin. Pa fodd bynag, wedi i hen chwaer selog o'r enw Magdalen Thomas, neu "Modryb Matti," fel y gelwid hi yn gyffredin, ddyfod i gyfaneddu i'r pentref, ni bu gorphwys iddi nes cael gan ei gweinidog, Mr. Williams, Ty'nycoed, a rhai o aelodau ei eglwys i gydweithredu a hi i gychwyn achos yn y lle. Yn nhy Modryb Matti yn Rhestr Canol y dechreuwyd ef yn y flwyddyn rag-grybwylledig. Yr oedd yr hen santes hon yn un o ragorolion y ddaear. Hen wraig o'r hen ffasiwn ydoedd, a'r gair garwaf yn gyntaf ganddi. Ni welai unrhyw draul na thrafferth yn ormod i fyned trwyddynt er mwyn achos ei Duw. Yr oedd yn hynod am ei charedigrwydd i bob Cristion, yn

enwedig i bregethwyr yr efengyl. Buwyd am gryn amser yn cynal moddion Sabbothol ac wythnosol yn nhy Modryb Matti, ond i Dy'nycoed yr elid i gymuno dros ysbaid. Yr hen frawd ffyddlon Watkin Evan a'i wraig, y rhai sydd etto ar dir y byw, oedd yn cychwyn yr achos gyda Modryb Matti. Margaret Thomas a Margaret Jones oedd y ddwy gyntaf a dderbyniwyd trwy ddeheulaw cymdeithas gan Mr. Williams, Ty'nycoed yn yr Ystrad. Yn mhen rhyw gymaint o amser aeth tŷ Modryb Matti yn rhy gyfyng i gynwys y gynnulleidfa. Yn wyneb hyny rhentiodd Mr. Williams dŷ helaethach yn Rhestr Penybont, yn agos i'r fan y saif y Penybont Inn yn bresenol. Darfu i'r gweinidog dalu rhent y tŷ hwn o'i logell ei hun am flynyddau rhag gosod baich ar yr ychydig gyfeillion a berthynent i'r gynnulleidfa, a bu yn gwasanaethu yr achos yn ei ddechreuad a'i wendid am flynyddau heb dderbyn ond y peth nesaf i ddim o dal am ei lafur, ond y boddlonrwydd a deimlai yn ei fynwes ei hun wrth ystyried ei fod yn gwasanaethu ei Feistr dwyfol ac eneidiau dynion. Yr amser hwn yr oedd dau ŵr ieuangc yn dechreu pregethu yn Nhy'nycoed, sef William Watkin, wedi hyny o'r Llwyni, a David Davies, yn awr o America, y rhai a fuont o wasanaeth mawr i'r achos ieuangc yn yr Ystrad. Bu amryw o aelodau Ty'nycoed hefyd yn gynorthwy mawr iddo, yn enwedig William Dafydd a John James. Teithiasant hwy am flynyddau trwy wynt a gwlaw, oerni a gwres, ac ar y nosweithiau tywyllaf i'r cyfarfodydd gweddio, ac nid yn fuan yr anghofir eu defnyddioldeb. Y maent ill dau yn awr yn derbyn eu gwobr.

Yn 1840, daeth Mr. John Williams i fyw i'r gymydogaeth, fel perchenog gweithiau glo a haiarn Onllwyn, ac ymunodd ef a'i deulu a'r cyfeillion a ymgynnullent i addoli yn y tŷ yn Rhestr Penybont. Cyn gynted ag y daeth ef yno, rhoddodd ei sefyllfa fydol a'i weithgarwch crefyddol fywyd newydd i'r achos. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd anog Mr. Williams, Ty'nycoed, a'r bobl i edrych allan am dir i adeiladu capel, gan addaw pob cynorthwy iddynt, a bu ef a'i deulu yn llawn cystal a'u gair. Cymerwyd darn o dir gan R. D. Gough, Ysw., Ynyscedwyn, ar les o 99 o flynyddau, ac adeiladwyd capel hardd a lled fawr arno, yr hwn a gostiodd agos 800p. Yn 1841, rhoddodd T. Lewis, Ysw., Penygoraf, gan' punt at y capel newydd, ar yr amod i'r eglwys dalu dwy bunt yn flynyddol i eglwys y Methodistiaid yn Nghwmgiedd. Parhaodd yr eglwys yn Sardis—dyna yr enw a roddwyd ar y capel—hyd ddiwedd 1846 dan ofal Mr. Williams, Ty'nycoed, pryd, o herwydd gwaeledd ei iechyd, y rhoddodd y lle i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i Dy'nycoed yn unig. Yn nechreu 1847, urddwyd Mr. Henry Rees, aelod o eglwys capel Als, Llanelli, yn Sardis, a bu yn gofalu am yr eglwys hon a Godrerhos hyd Mai, 1869, pryd yr ymfudodd i'r America. Ennillodd Mr. Rees iddo ei hun air da gan bobl ei ofal a holl drigolion yr ardal, ac yr oedd ei barch a'i ddylanwad yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod y ddwy-flynedd-ar-hugain y bu ef yma, cafodd yr eglwys ac yntau lawer o ofidiau, nid o herwydd dim yn annheilwng ynddo ef na hwythau, ond o herwydd amgylchiadau blinion nad oedd ganddynt hwy un lywodraeth drostynt. Wedi ymdrech egniol a llwyddianus i dalu y geiniog olaf o'r ddyled oedd yn aros ar y capel, ac adeiladu ysgoldai yn Nghwmgiedd a Hendrelatis, yn werth o bedwar ugain i gan' punt yr un, cafwyd allan fod sylfaen y capel yn rhoddi ffordd o herwydd fod cwmni gwaith Ystalyfera yn gweithio glô odditano. Holltodd y mur-



Digitized by Google

iau, ac aeth y lle yn rhy beryglus i ddynion ddyfod iddo. Apeliwyd at berchenogion y gwaith am wneyd y golled i fyny, ond ni chafwyd yr un geiniog ganddynt, a chan fod amryw o'r gynnulleidfa yn gweithio danynt, nid aed i lys cyfraith i'w gorfodi i wneyd yr hyn oedd gyfiawn. Bu raid yn wyneb hyn edrych allan am le i adeiladu capel newydd. Cafwyd man cyfleus, ac adeiladwyd y tŷ prydferth presenol gan Mr. Thomas Morgans, Cwmgiedd, dan arolygiad Mr. Thomas, Glandwr. Pregethwyd ar y gareg sylfaen ar brydnawn Sabboth, Mai 6ed, 1860, oddiwrth 2 Bren. vi. 17., gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Gorphenwyd y capel ac agorwyd ef Awst 11eg a'r 12fed, 1861, pryd y pregethodd Meistri H. Hughes, (Tegai), E. Roberts, Cwmafan; D. Williams, Troedrhiwdalar; D. Rees, Llanelli; D. Henry, Penygroes, a J. Williams, Castellnewydd. Costiodd y ty hwn un-cant-ar-bymtheg o bunau. Yn fuan wedi dechreu adeiladu y capel, cyfododd cwmwl du dros yr holl ardal trwy i waith haiarn Ynyscedwyn sefyll, ac ni bu nemawr o drefn arno am saith mlynedd ar ol hyny. Gan mai ar y gwaith hwn yr ymddibynai y rhan fwyaf o drigolion yr ardal am eu cynaliaeth, gwasgarwyd lluaws o weithwyr o'r gymydogaeth wedi iddo sefyll, ac felly lleihawyd eglwys a chynnulleidfa Sardis yn ddirfawr pan yr oeddynt dan faich o un-cant-ar-bymtheg o ddyled. Mae yn rhyfedd na buasai yr amgylchiad adfydus yn llwyr ladd yr achos; ond er syndod i bawb, cadwodd ei ben uwchlaw y dwfr trwy y cwbl. Nid yn unig talwyd llog y ddyled ar yr amser adfydus hwn, ond hefyd talwyd tua phum' cant o'r ddyled. Yn awr, pan y mae y gweithiau yn adfywio, a'r boblogaeth yn cynyddu yn gyflym, mae yma olwg obeithiol iawn ar bethau, a phob tebygolrwydd y bydd y ddyled oll wedi llwyr ddiflanu mewn ychydig flynyddau, canys y mae gan y bobl galon i weithio.

Fel y nodasom yn barod, rhoddodd Mr. H. Rees yr eglwys i fyny yn Mai, 1869, a'r ei ymfudiad i'r America. O'r pryd hwnw buwyd yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd yr ail Sabboth o Chwefror, 1871, pryd y dechreuodd Mr. R. W. Roberts, Pentrefoelas ei weinidogaeth yma. Mae Mr. Roberts yn argoeli bod yn dderbyniol a defnyddiol iawn yn y lle, a chan fod y gweithiau haiarn a glô yn eangu yn gyflym, bydd nifer y boblogaeth wedi dyblu neu dreblu cyn pen dwy flynedd, ac felly mae pob lle i ddisgwyl y bydd yma yn fuan un o'r eglwysi lluosocaf a chryfaf yn yr holl ddyffryn.

Dau bregethwr a gyfodwyd yn yr eglwys hon o ddechreuad yr achos hyd yn bresenol, sef Daniel Morgans, yr hwn sydd wedi ymuno a'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yn bregethwr cynorthwyol yn eu mysg hwy, a David G. Morgans, gweinidog yr eglwys Gymreig yn Stockton-on-Tees. Yr oedd ef wedi dechreu pregethu yn y cyfeillachau yma cyn ei symudiad i'r Glais, ond yno y dechreuodd arfer ei ddawn yn gyhoeddus.*

## PANTTEG.

Yn y *Diwygiwr* am 1848, tu dal. 15, y mae hanes lled gyflawn am yr eglwys hon wedi ymddangos. Ysgrifenwyd ef gan Mr. P. Griffiths, Alltwen, yr hwn oedd mewn gwell cyfle i wneyd hyny na neb sydd yn fyw; ac yr ydym yn rhoddi yr hyn a ysgrifenwyd ganddo ef yn llawn yma.

* Llythyr Mr. Thomas Hopkins.

Digitized by Google

"Mae'r Pantteg yn sefyll ar yml y ffordd fawr yn Nghwmtawe, 12 milldir o Abertawy, yn mhlwyf Llangiwc, sir Forganwg. Yr oedd yn yr ardal hon dŷ bychan wedi ei adeiladu gan drigolion yr ardal, at gadw ysgol ddyddiol; ac wedi cael lle at hyny gan y parchus F. Gough, Ynysgedwyn, am ddim, tra fyddai dwfr yn rhedeg yn afon Tawe. Yr oedd amryw o bobl grefyddol yn byw yn yr ardaloedd yma, rhai o'r Alltwen, Godre'rhos, a Chwmllynfell; ac yr oeddynt yn cadw cyfarfodydd gweddio ar nosweithiau o'r wythnos, a phrydnawnau Sabbothau—a phregethu achlysurol yn Penpont-yr-ystrad, Glan'rhyd, Ystalyfera Uchaf, &c., ond nid oedd un achos wedi ei sefydlu. Cododd ysgol Sabothol yn yr ardal, a chafodd hon ei chynal yn yr hen ysgoldy. Yn y cyfamser, (hyny yw tua 1818), daeth y diweddar Barch. Daniel Griffiths, bryd hwnw o Felinycwrt, yn ddyn ieuangc dawnus a hwylus, i bregethu yn achlysurol i'r ardal, a chymhellwyd ef i dd'od yn fisol. Adnewyddodd yr ysgol, lluosogodd y gwrandawyr, ac aeth yr ysgoldy, a holl dai yr ardal, yn rhy fychain i gynwys y gwrandawyr; byddem yn gorfod bod allan—ac allan y bu'r ysgrifenydd agos bob tro cyn cael addoldy. Oddiar yr arwyddion yma o lwyddiant, meddyliwyd, siaradwyd, ac ymgynghorwyd am ryw le mwy cyfleus ac eangach er cynal addoliad, a hyny yn achlysurol; a daethant i benderfyniad i fynu tŷ er addoli. Yr oedd Mr. John Jones, Fountain Hall, goruchwyliwr ar *gannal* Cwmtawe (aelod o Gastellnedd), yn trigianu yn yr ardal, ac yn ddyn gwybodus iawn o amgylchiadau adeiladu, &c. Ymgynghorasant ag ef am y mater, ac aeth drostynt at Mr. F. Gough, o Ynysgedwyn, a chafodd ddarn mawr o dir at adeiladu, mewn lle cyfleus ar yml y ffordd fawr ar *gommon* Alltgrug, yn y Graigarw, heb fod yn mhell oddiwrth yr hen ysgoldy; a rhoddodd y boneddwr uchod *lease* ar y lle, dros 999 o flynyddau, am chwe cheiniog yn y flwyddyn, os deuent i'w cheisio. Felly, trosglwyddwyd y lle i ofal ymddiriedolwyr, sef Meistriaid Jones, Fountain Hall; Thomas Harper, Pontardawe Cottage; Thomas Morgans, Penlanfach; Evan Evans, Gilfachyrhaidd; Rees Prise, Ystalyferra isaf; Hezekiah Evans, Gwrid, a W. Evans, Cwmnantllieu. Wedi cael y lle yn sicr, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu; a bu yma ymdrech nid bychan i gael y defnyddiau at eu gilydd, cludwyd ato nos a dydd, a buwyd wrth oleuni y ser yn cludo meini a phethau eraill at y deml hon. Tanysgrifiwyd ato, a chasglwyd gan yr aelodau trwy amryw ardaloedd, ac heb gymorth neb gweinidogion na phregethwyr; oblegid yr oedd y Parch. John Davies, Alltwen, yn barnu nad oedd dim o'i eisiau, y gallasent gerdded 4 milldir i'r Alltwen, a rhywbeth tebyg i Gwmllynfell a Godre'rhos; ac o barch i henaint Mr. Davies, yr oedd pawb yn sefyll draw; ond er y cwbl aeth y bobl yn mlaen, a gorphenwyd y ty yn hardd a phrydferth. Y mae yn mesur drosto 35 wrth 28 o droedfeddi, 20 o uchder, ac oriel helaeth ynddo. Rhoddwyd *corau* ynddo, ac anrhegwyd ef ag awrlais ardderchog gan Mr. Jones, Fountain Hall. Er fod yn yr ardal amryw grefyddwyr o wahanol fanau, eto nid oedd pawb yn cydymdrechu o blaid y ty newydd. Pobl Cwmllynfell oedd yn gofalu fwyaf, ac nid oeddynt hwythau oll. Y rhai a roddodd eu hysgwyddau dano, ac oedd a chalon i weithio, oedd y rhai canlynol:—Evan Evans, Gilfachyrhaidd; Rees Prise, Ystalyferra, ac Ann ei wraig; Mary Morgan, Penlanfach; W. Hopkin, henaf, Caregpentwyn, a Mary ei wraig; William Hopkin, ieuengaf, ac Ann ei wraig; Joseph Jones, a'i wraig; John Rees Thomas; Susannah Gibbs; Ann Hopkins, Pantyffynon; W. John, Cwmtawe, a

Mary ei wraig; ac Ann Morgan, Cilmangwyn. Yr 16eg yma o Gwmllynfell oedd y gwroniaid a wynebodd ar y gwaith mawr o adeiladu ty i Arglwydd y lluoedd, ynghyd a Robert Todd o Godre'rhos, a'i wraig; Mr. John Jones, Castellnedd, a'r rhan fwyaf o bobl ddigrefydd yr ardal. Aeth y brawd Evan Evans i Abergwili, er cael trwydded (*license*) i bregethu ynddo—felly y daeth teml i Dduw yn yr ardal yma. Costiodd yr adeilad hardd a chadarn yma rhwng tri a phedwar cant o bunau; a chasglodd y bobl ffyddlon yma hwynt oll oddigerth rhyw £120, a gasglodd yr ysgrifenydd. Yn Mai 1821, agorwyd yr addoldy, a daeth amryw weinidogion yn nghyd, ac yn eu plith Mr. Davies, Alltwen; ac ar derfyn yr addoliad, cododd i fynu a dywedodd, mai PANTTEG a fyddai enw yr addoldy o hyny allan. Boddlonodd y bobl i hyny o enau henaint, er fod ei groesineb ef i'r lle wedi bod yn aflwydd mawr iddynt. Ni phregethodd ef erioed ynddo, dim ond ei enwi a wnaeth yn ei agoriad. Wedi hyny daeth amryw i alw heibio, ac yr oedd y Methodistiaid yn galw mor aml agos a neb. Yr oedd torf yn d'od i wrando, eto heb un eglwys wedi ei ffurfio. Rhagfyr 1821, bu farw Mr. Davies, Alltwen; a thua dechreu y flwyddyn ganlynol, daeth gwasgfa ar feddwl amryw o blant yr ysgol am eu cyflyrau. Annogwyd hwynt i gymeryd eu haelodi yn Nghwmllynfell, lle yr oedd yr hen bobl yn aelodau, ond pallodd y bobl ieuainc, gan ddywedyd mai yno oedd eu lle hwynt, ac mai yno oedd raid eu derbyn; y canlyniad fu iddynt gymhell y Parch. T. Edwards, o Godre'rhos, a'r Parch. James Williams, Tynycoed, i dd'od yno er corffoli eglwys, a derbyn y bobl, 11eg o rifedi, at yr 16eg, ar y 29ain o Fawrth, 1822. Y misoedd canlynol daeth amryw eraill. Yn mis Mai daeth yr ysgrifenydd o'r Neuaddlwyd, heb fod yn gwbl iach, i dreulio ychydig wythnosau yn yr ardal, a daeth amryw eraill at yr achos yn ysbaid yr haf hwnw. Hydref yr 2il, 1822, rhoddasant alwad unfrydol i'r ysgrifenydd. Yr oeddynt erbyn hyn yn 89, ac yn grefyddwyr ieuainc oll ond 16eg. Wedi hyn aeth pethau rhagddynt yn gysurus, a gorphenwyd talu y ddyled.

Ar y 17eg o Fai, 1824, bu farw un o'r aelodau, o'r enw John Evans, Craigarw, a dymunodd gael ei gladdu wrth y Pantteg, er nad oedd yno un fynwent wedi ei chau i fynu, ond lle garw cerygog, ag oedd ryw amser wedi llithro bendramwnwgl yn bridd ac yn geryg fel coffrau mawrion. Beth bynag, claddwyd ef y tu dwyreiniol i'r ty addoliad, a chladdwyd eraill yn fuan o du'r gorllewin i'r addoldy. Wrth weled y lle mor ddiffaeth o arw, a sel y bobl am orwedd wrth yr addoldy, penderfynodd yr ysgrifenydd ac eraill, os oedd modd, i wneyd lle addas i roi y meirw i orwedd; felly digaregwyd y tir saith troedfedd o ddyfnder, a rhoddwyd gwal yn y ddaear mor isel a gwaelod y fynwent, 7 troedfedd dan wyneb y tir, a muriwyd o amgylch y lle claddu oll. Costiodd hyn i'r gynnulleidfa dros £35. Symudwyd y brawd John Evans i'r fynwent. Mae'r beddau wedi eu trefnu yn rhesau union o'r naill ochr i'r llall, ac y mae yn gorwedd yno rhwng dau a thri chant o feirwon wedi peidio a'u cyffro. Yn fuan ar ol hyn aeth traul arall ar yr eglwys, sef adeiladu dau dŷ annedd wrth dalcen yr addoldy, er diddosi talcen y ty, yr hwn oedd yn gollwng dwfr—costiodd hyn gryn swm o arian. Ar ol hyn adeiladwyd ysgoldy, ty i'r ysgol feistr, ac ystabl, ar gŵr eithaf tir yr eglwys. Wedi hyny ychwanegwyd dau *room* at dy yr ysgolfeistr, ac fe aeth at y cwbl amryw ugeiniau o bunau. Yn ysbaid y blynyddau yma, bu yr Arglwydd yn dda wrth ei achos yn y Pantteg, er i amryw farw a symud, eto cynyddodd yr

Digitized by Google

eglwys i ganoedd, a meddyliwyd am gymuno ar y *gallery*—helaethwyd peth ar hono, gan fwriadu helaethu y ty. Wedi hir siarad ac ymgynghori, daethom i benderfyniad i adeiladu ty newydd, a gadael yr hen i sefyll er cynal addoliad, a'i droi at ddybenion eraill wedi hyny.

Yn y flwyddyn 1841, adeiladwyd ty eang, hardd, a chadarn, yn mesur 52 wrth 36 o droedfeddi drosto. Mae iddo oriel helaeth, 61 o gorau ar y llawr, 2 ddrws, a 14 o ffenestri. Costiodd yr adeilad hwn ynghyd a'r mur a'r *palisade* sydd o'i flaen, yn agos i £600, y rhai a gasglwyd oll yn ol ystyr flaenaf yr Egwyddor Wirfoddol; oblegid ni fuwyd gymaint a cherdded yr ardal—dim ond siarad o'r pwlpud a thano—ni orfodwyd neb mewn dim, ond rhydd ac ewyllysgar offrymau i'r Arglwydd. Talwyd yr holl draul mewn ysbaid chwech mlynedd, ac y mae heddyw yn rhydd, heb geiniog o ddyled du arno.

Yn 1846, rhoddwyd llofft ar yr hen addoldy er cadw ysgol ynddo, ac mae wedi ei gyfleu yn ysgoldy eang ac ardderchog heddyw, ac un Mr. Williams, o Ysgol Normalaidd Aberhonddu, yn addysgu o gylch cant o blant yn ngwahanol ranau dysgeidiaeth. Mae'r Ysgol Frytanaidd yma yn gwbl yn llaw eglwys y Pantteg, heb un blaid arall yn cynorthwyo, na dim *grant* gan neb iddi. Mae iddi drysorydd, ysgrifenydd, a phwyllgor o aelodau y Pantteg, ac eiddo yr eglwys yw y llyfrau oll. Mae llawr yr hen addoldy wedi ei wneyd yn dy annedd y naill ran, a'r rhan arall yn lle hardd, lle yr ymgynull cymdeithas y bobl ieuainc i ddarllen; mae ganddynt lyfr-gell wych at eu gwasanaeth, ac yno yr ymgynullant yn nosweithiol i'w *reading-room*. Mae yr hen ysgoldy a'r ystabl wedi eu troi yn dai annedd, ac felly mae traul o amryw ugeiniau o bunau wedi myned at bob peth yn ysbaid y saith mlynedd ar hugain diweddaf, eto nid oes neb yn grwgnach. Gallwn weled fod achos Duw yn y lle uchod wedi cael ei roddi ar y fath sefyllfa, ac yn y fath fodd, ag y gellir dysgwyl llwyddiant arno yn y blynyddau dyfodol—"Ond os yr Arglwydd nid adeilada y ty, ofer y llafuria ei adeiladwyr;" ac nid adeilada'r Arglwydd 'mo hono, os na lafuria ei adeiladwyr hefyd.

O barth i eglwys y Pantteg, nid yw o oedran ag y gall fod wedi enwogi ei hun ag amryw hynodion; er hyny, y mae wedi cael y fraint o roesawi y gymanfa bedair-sirol, ac amryw gyfarfodydd mawrion eraill; mae wedi cael yr enw mawr o fod yn cadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd; mae gyda'r blaenaf o ran ei llais o blaid santeiddio dydd Duw, ac o blaid Dirwest, ac y mae y rhan fwyaf o'i blaenoriaid yn Ddirwestwyr da; ac mae ynddi lawer o ymdrech gyda'r canu cerddgar a soniarus. Rhenir llafur yr eglwys i bedwar dosbarth er cynal cyfarfodydd gweddio, ysgolion Sabothol, a chyfeillachau crefyddol.

Dymunaf i Haul mawr y Cyfiawnder drigo uwchben y lle hwn hyd nes y machludo haul y byd yma, a bendith bryniau tragywyddoldeb a ddisgyno ar y rhai fyddo yn addoli yma hyd nes cael llwch ac esgyrn fy anwyl ffryndiau o'r gladdfa, ac yna rhoed ef y lle i dân, os hyny fydd da yn ei olwg."

Ymddengys oddiwrth yr hanes blaenorol, mai yn hytrach yn groes i feddwl Mr. Davies o'r Alltwen yr adeiladwyd capel y Pantteg. Yr oedd gwrthwynebiad i helaethu terfynau yr achos yn cael ei ddangos gan y rhan fwyaf o *hen* weinidogion yr oesau o'r blaen, am y tybient, fel y mae lle i gasglu, fod cerdded ffordd bell i le o addoliad yn brawf nodedig o rym cariad a sel grefyddol.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1849, bu ychwanegiad dirfawr at yr eglwys hon. Derbyniodd Mr. Griffiths, ar un boreu Sabboth, 209 trwy ddeheulaw cymdeithas i gymundeb eglwysig. Derbyniwyd yma drachefn amryw ugeiniau yn 1867. Yn y flwyddyn 1865, cafodd y capel ei adeiladu y drydedd waith dan arolygiad Mr. John Morgan, Penlanfach, un o'r diaconiaid. Nid oedd y draul, o herwydd gofal a gwybodaeth Mr. Morgan, ond 700p., ond y mae y capel mor eang a hardd a'r capeli y telir yn gyffredin 1200p. am danynt. Cynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad Medi 24ain a'r 25ain, 1865, pryd y pregethodd Meistri D. Davies, New Inn; W. Morgan, Maesteg; T. Rees, D.D., Abertawy; H. Oliver, B.A., Pontypridd; D. Price, Aberdar; W. Jones, Abertawy; J. Roberts, Castellnedd, ac eraill. Talwyd dros haner y draul cyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad, ac y mae y gweddill wedi eu talu er's amser bellach. Yn niwedd y flwyddyn 1866, rhoddodd Mr. Griffiths, o'r Alltwen ofal yr eglwys hon i fyny, ar ol bod yn weinidog iddi am bedair-blynedd-a-deugain. Helaethrwydd dirfawr maes ei lafur, ei henaint, a'r ystyriaeth fod y Pantteg bellach yn ddigon galluog i gynal gweinidog ei hun, a barodd iddo ddyfod i'r penderfyniad hwn. Yn haf y flwyddyn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. John Jenkins, Treffynon, yr hwn a fu yma hyd ddiwedd 1868, pryd y symudodd i gapel Seion, Abertawy. Yn niwedd y flwyddyn 1870, rhoddwyd galwad i Mr. R. Trefor Jones, Meifod, Maldwyn, y gweinidog presenol. Cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad Chwefror 22ain a'r 23ain, 1871, pryd y pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. B. Williams, Canaan; gweddiwyd am fendith ar yr undeb gan yr hen weinidog, Mr. Griffiths, o'r Alltwen; pregethodd Dr. Rees, Abertawy, siars i'r gweinidog, a Mr. Johns, Llanelli, siars i'r eglwys.

Y pregethwyr a godwyd yn yr eglwys hon ydynt,—Benjamin Thomas, gweinidog yr eglwys yn y Gurnos. Thomas Evans, Talgarth, a John Clee, gwr ieuangc gobeithiol iawn, yr hwn a fu farw ar gychwyniad ei fywyd cyhoeddus.

## BETHEL, CWMAMAN.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Llandilo, yn swydd Caerfyrddin, ond yn nghyfundeb eglwysi Morganwg y mae yr eglwys wedi bod bob amser. Mae yn ymddangos fod achos crefyddol wedi cael ei ddechreu yma tua chanol y ganrif ddiweddaf, gan yr Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd yn nghyd, ond ni chafodd capel ei adeiladu yma cyn y flwyddyn 1773. Yr oedd y ddau enwad yn cydweithredu hyd y pryd hwnw, ond mae yn ymddangos i'r Methodistiaid ymneillduo oddiwrth yr Annibynwyr tua yr amser yr adeiladwyd y capel, neu yn dra buan ar ol hyny, oblegid yn y flwyddyn 1774, anfonodd Mr. Evan Griffiths, capel Seion, enwau a rhif yr eglwysi Annibynol yn sir Gaerfyrddin i Lundain, ac y mae eglwys Cwmaman yn cael ei henwi ganddo fel eglwys Annibynol, a'r gynnulleidfa yn gant a haner o rifedi. Wedi i'r Methodistiaid ymwahanu oddiwrth yr Annibynwyr, buont am ychydig amser yn addoli yn yr Hendrefawr, tua haner milldir i'r dwyrain o gapel Cwmaman, ac wedi hyny yn Glynymeirch, tua dwy filldir i'r gorllewin; ond aeth eu hachos hwy yn lled fuan yn yr ardal hon yn wan a dilewyrch, ac felly y parhaodd hyd y flwyddyn 1840, pryd y daeth aelodau o fanau eraill i'r ardal gydag agoriad y gweithiau glo. Dywedir yn *Hanes Methodistiaeth*, Cyf. II., tu dal. 480, mai yr

Digitized by Google

achos o ymwahaniad y ddau enwad oedd i'r Annibynwyr, o herwydd eu bod lawer yn lluosocach, un boreu Sabboth, gloi y capel yn erbyn un Mr. Jones, o Llanllian; ond mae yn dra thebyg mai yr achos o hyny ydoedd fod dadl wedi cyfodi rhyngddynt yn nghylch perchenogaeth y capel.

Mr. William Evans, Cwmllynfell, yn nghyda rhai o bregethwyr y Methodistiaid fu yn offerynol i ddechreu yr achos yn y lle hwn. Nid yw yn hysbys pa un a ffurfiwyd yma eglwys cyn adeiladu y capel ai naddo. Pan ymsefydlodd Mr. John Davies yn weinidog yn Nghwmllynfell a'r Alltwen, efe a gymerodd ofal yr achos hwn, mewn cysylltiad a'r eglwysi hyny, a bu yn gofalu am dano hyd derfyn ei oes yn 1821. Yr oedd ei barch a'i ddylanwad yn yr eglwys hon, fel yn ei eglwysi eraill, yn ddirfawr. Ni fynai y bobl dan ei ofal gredu fod un gweinidog rhagorach nag ef ar y ddaear. Edrychid i fyny atto gan hen ac ieuangc, crefyddol a digrefydd, fel cenad Arglwydd y lluoedd.

Wedi marwolaeth Mr. Davies, sef yn y flwyddyn 1822, rhoddodd yr eglwysi yn Nghwmllynfell a Chwmaman, alwad i Mr. John Rowlands, Llanybri, a bu yntau yn llafurio yn eu plith gyda llwyddiant a pharch anghyffredin am ddeuddeng mlynedd. Erbyn y flwyddyn 1825, yr oedd ei ddoniau poblogaidd wedi gorlenwi y capel, fel y bu raid ei helaethu i'w faintioli presenol. Cafodd ar ol hyny ei adgyweirio a'i brydferthu. Ar farwolaeth Mr. John Davies, rhanwyd maes eang ei weinidogaeth yn ddau. Dewiswyd Mr. Rowlands gan y cynnulleidfaoedd yn Nghwmllynfell a Chwmaman, a Mr. Griffiths gan bobl yr Alltwen, y Pantteg, a Charmel. Yr un modd ar farwolaeth Mr. Rowlands, rhanwyd maes ei lafur yntau. Dewisodd pobl Cwmllynfell Mr. R. Pryse, a phobl Cwmaman Mr. John Davies, eu gweinidog presenol, yr hwn a symudodd yma o Benygraig, lle yr urddwyd ef ddydd Llun y Pasg, 1829, ac yn mis Mawrth, 1835, symudodd oddiyno i Gwmaman, lle y mae wedi bod yn llafurio bellach am ddwy-flynedd-ar-bymtheg-ar-hugain. Yr oedd capel Cwmaman pan yr adeiladwyd ef mewn man canolog iawn o'r gymydogaeth, ond wedi adeiladu llawer o dai, mewn cysylltiad a'r gweithfaoedd, mewn un ran o'r ardal, mae yr addoldy yn bresenol yn lled anghyfleus i fwyafrif y boblogaeth. Yn wyneb hyny, penderfynodd yr eglwys tua saith mlynedd yn ol, adeiladu ysgoldy eang yn y rhan fwyaf poblog o'r ardal, ac yno y cynelir y gwasanaeth bob nos Sabboth, a'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd wythnosol.

Pa ddiffygion bynag a ddichon fod yn perthyn i eglwys Cwmaman, nid oes un eglwys yn Nghymru wedi rhagori arni mewn dau beth, sef ei hysbryd heddychol, a'i hymlyniad wrth ei gweinidogion. Nid oes yma ond tri gweinidog wedi bod er's mwy na chan mlynedd, ac y mae y trydydd, fel ei ddau ragflaenor, yn debyg o aros yma nes y symudir ef gan angau.

Eglwys nodedig am fagu pregethwyr yw hon, fel y dengys y rhestr ganlynol :—

Herbert Herbert. Derbyniwyd ef yn aelod a dechreuodd bregethu yma yn amser Mr. Davies, o'r Alltwen. Rhoddwn ei gofiant ef yn nglyn a hanes y Drefnewydd, lle y bu yn llafurio am y rhan ddiweddaf o'i oes.

William Hopkins. Dan weinidogaeth Mr. Rowlands y dechreuodd ef bregethu. Gyda hanes Cwmrhos a Thretwr y rhoddir ei gofiant.

Thomas Williams. Gweler hanes Mount Pleasant, Pontypool.

Thomas Edwards. Ymfudodd i America yn 1834, a bu am flynyddau lawer yn weinidog yn Pittsburgh a Cincinatti.

William Edwards. Yn amser Mr. Davies, y gweinidog presenol, y dechreuodd ef bregethu. Mae wedi ymfudo i'r America, ac yn weinidog yno yn awr.

David Davies, oedd ŵr ieuangc gobeithiol iawn. Pan yn yr athrofa yn Aberhonddu, torodd un o'i waed-lestri, fel y bu raid iddo ddychwelyd adref. Wedi nychu am rai misoedd, torodd ei waed yn ddisymwth drachefn pan yn sefyll yn nrws y tŷ. Ymaflodd ei fam ynddo pan welodd ei waed yn rhedeg, a bu farw rhwng ei breichiau Chwefror 8fed, 1854.

Jonathan Jones. Ar ol bod am dymor yn derbyn addysg dan arolygiad ei weinidog, derbyniwyd ef i athrofa Aberhonddu. Bu farw cyn i'w dymor yno ddyfod i ben. Claddwyd ef wrth gapel Cwmaman Ionawr 20fed, 1857. Yr oedd yn un gafaelgar iawn ei gof, ac yn draddodwr hwylus.

Daniel Jones. Yr oedd yn ddyn ieuangc talentog. Pan yn yr athrofa yn Nghaerfyrddin, ymaflodd y darfodedigaeth ynddo, fel y bu raid iddo ddychwelyd adref i farw.

William Thomas. Dechreuodd bregethu yn ieuangc iawn, ac yr oedd bychander ei gorph, ei ieuengctyd, a'i ddoniau diail, yn tynu canoedd i'w wrandaw. Yr oedd yn ŵr ieuangc o fuchedd a galluoedd rhagorol. Bu am ychydig yn yr ysgol gyda Dr. Davies, Abertawy, ond gorfodwyd ef gan gystudd i ddychwelyd adref, lle y bu farw yn yr Arglwydd Awst 8fed, 1864.

W. I. Morris. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac y mae yn awr yn Sardis, Pontypridd.

John Evans. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Caerfyrddin, ac y mae yn awr yn Nghwmaman, Aberdar.

Mae yn bresenol ddau bregethwr cynorthwyol yma, sef John Williams, a William Jones.

Yr oedd llawer o gymeriadau hynod a rhagorol iawn yn perthyn i gynulleidfa Cwmaman yn y dyddiau gynt:—dynion tra doniol a thalentog, a rhai o honynt yn brydyddion rhagorol. Yn mysg y rhai gellid enwi Thomas William Edward, tad Mr. Thomas Edwards, Cincinatti. Ganwyd ef yn 1754, a bu farw yn 1806. Mae ei gorph yn gorphwys wrth gapel Cwmaman. Magodd blant rhagorol, ac y mae crefydd yn parhau i aros yn mysg ei hiliogaeth. Dywedir ei fod yn brydydd parod iawn. Un nodedig arall oedd Thomas o'r Gors, yr hwn a anwyd yn 1742, ac a fu farw yn 1838, yn agos i gan' mlwydd oed. Meddai yntau y ddawn brydyddol i raddau helaeth. Wrth wrandaw pregeth yn Nghwmllynfell ar Arch Noah, cyfansoddodd y penill canlynol, a rhoddodd ef allan ar ddiwedd y bregeth:—

"Pa beth oedd Arch hen Noah, at arch ein Iesu glan,
Fe geidw hon eneidiau, rhag myn'd i uffern dân;
Wyth gadwyd yn Arch Noah, bydd cof am hyny byth,
Fe geidw'r arch ysbrydol fyrddiynau rif y gwlith."

Dro arall, mewn cyfarfod gweddi yn Llwynhen, pan yr oedd gwr y ty yn glaf, cyfansoddodd y penill canlynol:—

"Mae'r babell rwy' ynddi mor wan,
Sigledig rwy'n teimlo ei bod,
O Iesu gad i mi gael rhan
Mewn pabell na siglwyd erioed;
Llinynau hon yma a dŷr,
Mae'r hoelion yn llacio bob dydd,
Ac yna fe'm rhoddir ar fyr
I orwedd mewn gwely o bridd."

Digitized by Google

Ond yr hynotaf a'r enwocaf o bobl Cwmaman yn ei ddydd oedd Owen Dafydd, y melinydd. Yr oedd ef yn ddyn hynod iawn, ac yn brydydd rhagorol. Dywedir mai ei gân ar Dragywyddoldeb yw yr oreu o'i gyfansoddiadau, ond ofnir fod hono, oddieithr ambell benill sydd ar gof rhai hen bobl, wedi myned ar goll. Bu Owen Dafydd yn prydyddu llawer yn erbyn y Sosiniaid, y rhai a'u galwant eu hunain yn Ddwyfundodiaid. Er ei fod yn ddyn rhagorol a rhyfeddol o dalentog, yr oedd yn mhell o fod yn berffaith. Ei bechod parod oedd yfed yn anghymedrol yn awr ac eilwaith. Un tro yr oedd mewn priodas yn y Gwndwngwyn, lle y gwnaeth yn rhy rydd ar y ddioden. Eisteddai yno a chysgodd dan effaith y cwrw. Yr oedd yn wyddfodol amryw o'i wrthwynebwyr y "Dwyfundodiaid," y rhai yn ddiau a deimlent yn llawen eu bod wedi cael cyfleusdra i daflu careg at y gwr a'u poenai mor fynych a'i benillion ffraethlym. Ymgasglodd nifer o honynt at y fan lle yr eisteddai, a chan ei ddeffro o'i gwsg, dywedodd un o honynt:—

"Mae Owen Dafydd gystal dyn,
Ag un o'r Calfinistiaid,
Ond iddo beidio meddwi mwy
Yn mhlith y Dwyfundodiaid."

Dechreuodd Owen rwbio ei lygaid, ac atebodd hwynt yn ddifyfyr:—

"Achubwyd Lot er meddwi,
Mae heddyw yn y nef,
'Does yno neb yn dannod
Ei fedd'dod iddo ef;
Achubwyd ddim o Judas,
Mae'r Bibl geni'n dyst,
Achubir un o'r rhai'ny
Sy'n gwadu Duwdod Crist.

Fe welodd Ioan dyrfa
Yn dyfod at y Tad,
Oll yn eu gynau gwynion
A gànwyd yn y gwaed;
Rhai o bob llwyth a chenedl,
A phobl yn y byd,
'Doedd un o'r Dwyfundodiaid
Yn mysg y rhai'n i gyd."

Ond er fod Owen yn ddyn anmherffaith, yr oedd yn ddyn edifeiriol a thyner ei gydwybod, fel y dengys y penill canlynol o'i eiddo:—

"Mi ryfeddais fil o weithiau,
A rhyfeddu 'rwyf o hyd,
Fod amynedd Iesu'n para
I'm diodde'i bechu cy'd;
Pechu wnes yn erbyn goleu,
Pechu wnes yn erbyn gras,
Ond peth rhyfedd fod amynedd
Iesu heb ei threulio ma's."*

Ganwyd Owen Dafydd yn 1751, a bu farw yn 1816. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Ystradgynlais.

* Llythyr Mr. Davies, Cwmamán, ac ysgrif Mr. Morgan, Cwmbach, yn y *Beirniad*, Cyf. IV. Tu dal. 204.



Digitized by Google

Ymddengys mai ei gân ar Dduwdod ac Aberth Crist, yr hon a gyfansoddodd i wrthwynebu y Dwyfundodiaid, fel ei gelwid hwynt, yw y ragoraf o'i eiddo; ac y mae yn gyfansoddiad rhagorol fel y dengys y difyniadau a ganlyn:—

"Rhyw fyrdd a mwy na hyny, 'does neb all ddyweyd pa faint,
Yw haeddiant Crist yn drymach na phechod pawb o'r saint;
Pe buasai yn yr arfaeth i fyn'd i uffern dân,
Fe olch'sai'r holl gythreuliaid i gyd yn berffaith lan.

Er cwrdd a geiriau newydd i roddi ei glod i ma's,
Ac uno'r holl angylion ac etifeddion gras;
Heb enwi dim ond unpeth ar unwaith yn y gân,
Hyd eithaf tragywyddoldeb, ddaw glod e' byth yn mlaen

Pe b'ai angylion nefoedd bob un yn myn'd yn fil,
Ac ennill rhyw fyrddiynau bob munyd wrth ei sgil,
I roddi ei glod ef allan am farw ar y pren,
Hyd eithaf tragywyddoldeb, ddo'i dim o'r gwaith i ben.

'T'ai sant am bob glaswelltyn sydd ar y ddaear lawr,
A myrdd am bob tywodyn sydd yn y moroedd mawr;
Tafodau gan y rhai'ny fwy na rhifedi'r dail,
Rhy fach i ddyweyd y mawredd sy'n haeddiant Adda'r ail.

'T'ai un o'r côr angylaidd yn d'od o'r nef i lawr,
I rifo llwch y ddaear a gwlith y boreu wawr,
Fe allai wneuthur hyny mewn 'chydig iawn o bryd,
Dyweyd haner haeddiant Iesu nis gall y côr i gyd."

Mae yn brofedigaeth i ni fyned yn mlaen, ond byddai hyny yn annghydweddol a'n hamcan; ond gall y neb a ewyllysio weled y gân yn gyflawn yn y *Beirniad*, Cyf. IV., tu dal. 218.

## Y GURNOS.

Saif y capel hwn ar derfyn dwyreiniol plwyf Llanguwg, ac yn ymyl Gorsaf Ystalyfera, ar y *Swansea Vale Railway*. Yr oedd aelodau perthynol i Gwmllynfell, Godrerhos, a'r Alltwen yn preswylio yn yr ardal hon er's amryw oesau, ac yn arfer cynal cyfarfodydd gweddio o dŷ i dŷ. Pan ffurfiwyd eglwys yn y Pantteg ymunasant a'r achos yno, ond parhasant i gynal cyfarfodydd gweddio yn yr ardal fel o'r blaen, a "Changen y Gurnos" y gelwid hwy gan eglwys y Pantteg. Yn 1839, adeiladodd y Wesleyaid gapel bychan yma, ond ni fu fawr lewyrch ar eu hachos, ac yn 1856, hysbysodd y gynnadledd ei fod ar werth. Pan glywodd eglwys y Pantteg hyny, rhoddasant awdurdod i'w gweinidog, Mr. Griffiths, o'r Alltwen, i'w brynu, a phrynodd ef. Yn 1857, corpholwyd "Cangen y Gurnos" yn eglwys Annibynol. Bu Mr. Griffiths yn gofalu am yr eglwys ieuangc am rai misoedd nes gosod pob peth mewn trefn. Yna anogodd hwynt i edrych allan am weinidog iddynt eu hunain. Penderfynasant yn unfrydol i roddi galwad i'w hen gymydog Mr. Benjamin Thomas, gweinidog yr eglwys Gymreig yn Walker, ger Newcastle-on-Tyne. Cynaliwyd cyfarfod sefydliad Mr. Thomas yma Sul a Llun y Sulgwyn, 1858, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri Rees, Ystrad; Griffiths, Alltwen; Pryse, Cwmllynfell; Jones, Treforis; Davies, Treforis; Lewis,

Digitized by Google

Ty'nycoed, ac eraill. Yn mhen blwyddyn ar ol sefydliad Mr. Thomas aeth y capel yn rhy fychan fel y bu raid gosod oriel ynddo. Erbyn 1864, yr oedd wedi myned drachefn yn rhy fychan fel y bu raid ei helaethu i'w faint presenol. Costiodd ei bryniad a'i helaethiad ddwywaith 761p., ond nid oes yn awr ond ychydig iawn o'r ddyled yn aros arno. Mae yn addoldy hardd a nodedig o gyfleus, ac yn cynwys tua chwe' chant o eisteddleoedd, a chynnulleidfa dda ac eglwys wresog a gweithgar yn ymgynnull iddo.

Cyfodwyd dau i bregethu yn yr eglwys hon, sef E. G. Jones, gweinidog yr eglwys yn Nhreorci, Morganwg, a T. P. Evans, gweinidog yr eglwys Annibynol yn y Ceinewydd, sir Aberteifi.

Er nad yw yr achos hwn ond ieuangc, mae nifer o'r hen frodyr ffyddlon a'i cychwynodd wedi gorphen eu gyrfa ddaearol; megis Dafydd Simmon, John Clee, William Bowen, ac amryw eraill y rhai y mae eu coffadwriaeth yn arogli yn beraidd yn yr ardal.*

## BETHEL, GLANTWRCH.

Mae y capel hwn o fewn terfynau plwyf Llanguwg, yn Morganwg, ond o fewn ychydig latheni i blwyf Ystradgynlais yn Mrycheiniog. Saif ar lan yr afon Twrch, tua haner milldir uwchlaw capel y Gurnos. Dechreuwyd yr achos yma tua'r flwyddyn 1850, mewn anedd-dy o'r enw y Felinganol, preswylfod William John Thomas, un o ddiaconiaid yr eglwys yn Nghwmllynfell, a bu ef a William Llewellyn yn ei flaenori a'i fagu am flynyddau fel cangen o Gwmllynfell. Pregethai Mr. Pryse, Cwmllynfell yn achlysurol i'r gangen hon, a bu Mr. B. Thomas, Gurnos yn pregethu yn fisol iddi am rai blynyddau. Yn y flwyddyn 1861, cyn fod y capel wedi ei gwbl orphen, corpholwyd y gangen hon yn eglwys annibynol ar y fam-eglwys yn Nghwmllynfell, pryd y gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd gan Mr. Pryse, yn cael ei gynorthwyo gan amryw o ddiaconiaid ei eglwys. Mr. Thomas Griffiths, masnachydd, Ystalyfera, a Mr. H. Rees, o'r Ystrad fu a'r llaw flaenaf gydag adeiladu y capel. Bu Mr. Rees hefyd yn gofalu am yr eglwys fel ei gweinidog am rai misoedd, ond o herwydd helaethrwydd cylch ei lafur, bu raid iddo roddi ei ofal yma i fyny yn dra buan. Mae llafur a ffyddlondeb William Thomas, Isaac Williams, John Jones, Owen John, Owen Owen, David Owen, ac eraill, gydag adeiladaeth y capel hefyd yn teilyngu coffâd. Pan ddechreuwyd adeiladu yr oedd sefyllfa fasnachol yr ardal yn dra llewyrchus, ond cyn gorphen gwaethygodd pethau yn fawr iawn. Agorwyd y capel yn mis Hydref, 1861, ac yn mis Mawrth, 1862, sefydlwyd Mr. E. Evans yn weinidog yma, mewn cysylltiad a'r Sciwen. Bu Mr. Evans yn gofalu am y lle hyd 1868, ond yn ngwyneb llawer o ddigalondid o herwydd marweidddra masnach y lle, ac ymadawiad llawer o'r aelodau o'r ardal. Yn Chwefror, 1869, rhoddwyd galwad i Mr. L. P. Humphreys, y gweinidog presenol, a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad yma Mehefin 13eg a'r 14eg, y flwyddyn hono, pryd y gweinyddwyd gan Mr. M. D. Jones, Bala; Dr. Rees, Abertawy, ac eraill. Mae yr achos hwn wedi gorfod gweithio ei ffordd trwy lawer o anhawsderau. Bu y ddyled ar y capel am flynyddau, o herwydd

* Llythyr Mr. Thomas.

Digitized by Google

marweidd-dra y gweithiau, yn faich braidd annyoddefol ar ysgwyddau yr eglwys fechan, ond y mae yn dyfod i lawr yn raddol a'r achos yn ychwanegu nerth o flwyddyn i flwyddyn er's amser bellach. Mae y capel yn adeilad hardd a chyfleus ac yn cynwys o bedwar i bum' cant o eisteddleoedd.

Yr unig bregethwr a gyfodwyd yma yw Mr. John Elias, gweinidog presenol Salem, Trelyn, Mynwy.

## Y WERN, YSTALYFERA.

Mae y capel hwn yn ymyl y ffordd, tua thri chwarter milldir uwchlaw y Pantteg, a chwarter milldir islaw capel y Gurnos. Gan fod y boblogaeth mor luosog a chynyddol, a bod capel y Pantteg yn rhy lawn, barnai llawer fod galwad am sefydlu achos newydd yn y gymydogaeth hon. Yn nechreu mis Mai, 1863, ffurfiwyd pwyllgor o ddeg-ar-hugain o bersonau, a chydunodd y pwyllgor hwnw i roddi y gwaith o gynllunio a gofalu am adeiladaeth y capel i Mr. Thomas Griffiths, masnachydd, Ystalyfera, yr hwn a ymgymerodd a'r gwaith ac a'i cyflawnodd yn effeithiol. Pregethwyd ar sylfaen y capel newydd ar brydnawn y Sabboth, Gorphenaf 19eg, 1863, gan Dr. Rees, Abertawy, a Mr. Griffiths, Alltwen; ac agorwyd ef Medi 6ed a'r 7fed, 1864, pryd y pregethodd Meistri Thomas, Bangor; Oliver, B.A., Pontypridd; Daniel, Pontypool; Rees, Llanelli; Davies, Llandilo, ac Evans, a Davies, Treforis. Mae y capel yn adeilad cadarn a hardd, yn cynwys tua 500 o eisteddleoedd, ac ysgoldy eang odditano. Costiodd 1181p., ac y mae y rhan fwyaf o'r swm hwn wedi ei gasglu bellach. Ffurfiwyd yma eglwys yn cynwys amryw ugeiniau o aelodau o'r Pantteg, a rhai o eglwysi cymydogaethol eraill, Gorphenaf 12fed, 1864. O'r pryd hwnw bu yr eglwys yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd Gorphenaf 5ed, 1866, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. Owen Jones, o brif athrofa Glasgow, ac urddwyd ef Mehefin 4ydd a'r 5ed, yr un flwyddyn. Ar yr achlysur eglurwyd natur eglwys gan Mr. R. Thomas, Bangor; holwyd y gweinidog gan Mr. R. Williams, Bethesda; gweddiodd Mr. P. Griffiths, Alltwen; pregethodd Mr. M. D. Jones, Bala, ar ddyledswydd y gweinidog, a Mr. D. Rees, Llanelli, ar ddyledswydd yr eglwys.* Bu Mr. Jones yn llafurio yma gyda derbyniad a pharch neillduol hyd Medi 11eg, 1870, pryd y symudodd i Ebenezer, sir Gaernarfon. Mae yr eglwys heb yr un gweinidog sefydlog oddiar ymadawiad Mr. Jones, ond y mae yn edrych allan yn awyddus am un cymwys, ac yn barod i gynal y neb a ddewiso yn deilwng o'r efengyl a'r oes. Mae yr eglwys a'r gynnulleidfa yn y lle hwn o'r dechreuad wedi dangos yr ysbryd mwyaf haelionus. Hyderwn yr enfyn yr Arglwydd yn fuan ddyn cymwys iddynt.

## YSTALYFERA, (Saesonaeg.)

Yr oedd amryw Saeson yn y gymydogaeth boblog hon, a rhai o honynt yn Annibynwyr, ond yn gorfod myned i'r Eglwys Wladol gan nad oedd gwasanaeth Saesonig mewn un capel Ymneillduol yn y lle. Ar ol ym-

* *Dysgedydd*, 1866. Tu dal. 248.

Digitized by Google

gynghori a'u gilydd, a chael pob calondid gan weinidogion Cymreig y gymydogaeth, cawsant fenthyg capel y Wern am un-ar-ddeg y bore a thri o'r gloch yn y prydnawn bob Sabboth at gynal gwasanaeth Saesonig. Dechreuwyd cynal y moddion ar y Sabboth Ionawr 12fed, 1868, pryd y pregethodd Dr. Rees, Abertawy i gynnulleidfaoedd lluosog yn y bore a'r prydnawn. Parhawyd i gynal gwasanaeth yn y drefn hon yn nghapel y Wern nes i'r capel Saesonig gael ei orphen a'i agor. Gosodwyd careg sylfaen y capel newydd gan y diweddar Mr. H. O. Wills, Bryste, Medi 10fed, 1868. Gorphenwyd yr adeilad, a chafodd ei agor Gorphenaf 1af, 1869. Rhoddodd Mr. S. Morley 225p. at draul yr adeiladaeth. Costiodd o gwbl tua 1200p., ac y mae dros 700p. o'r ddyled wedi ei dalu. Mae y capel yn un destlus dros ben ac yn addurn i'r gymydogaeth. Mae yma eglwys o tua deg-ar-hugain o aelodau ac Ysgol Sabbothol nodedig o lewyrchus. Yn mis Hydref, 1869, rhoddwyd galwad i Mr. Joseph Johns, o athrofa Aberhonddu, yr hwn a urddwyd yma yr 28ain o'r mis hwnw. Cyflawnwyd gwasanaeth yr urddiad yn y drefn ganlynol:—pregethodd Mr. Jones, Heolycastell, Abertawy, ar natur eglwys; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. Thomas, Glandwr; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Dr. Rees, Abertawy; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. Morris, Aberhonddu, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. Williams, Canaan. Mae Mr. Johns yn parhau i lafurio yma gyda mesur helaeth o lwyddiant. Mae yr eglwys, y gynnulleidfa, a'r Ysgol Sabbothol, yn cynyddu yn raddol, a phob argoel y bydd yma achos llewyrchus a hunan-gynaliol yn mhen ychydig iawn o flynyddau.

Yn mysg y rhai mwyaf blaenllaw yn nghychwyniad yr achos, gellir enwi Mr. Parish, un o oruchwylwyr gwaith Ystalyfera; Mr. Bayne, perchenog gwaith glô Hendreforgan, a Mr. White, arolygydd Camlas Glyntawy. Dan arolygiaeth Mr. White yr adeiladwyd y capel, ac y mae tlysni yr adeilad yn anrhydedd i'w wybodaeth a'i chwaeth fel cynllunydd adeiladau.

## YNYSMUDW.

Mae y lle hwn tua haner y ffordd o Bontardawy i Ystalyfera. Yr oedd yma amryw o aelodau yr Alltwen a'r Pantteg yn cyfaneddu, a chyfarfodydd gweddio yn cael eu cynal ganddynt, ond nid oedd gan yr Annibynwyr, nac un enwad arall, un addoldy o fewn dwy filldir i'r lle. Pan ddaeth Mr. Owen Jones, o Gastellnedd i fyw i'r ardal, darfu iddo ef a'i weinidog, Mr. Griffiths, o'r Alltwen, gydymgynghori, a phenderfynasant adeiladu yma gapel bychan yn 1862. Galwyd ei enw Bethesda. Costiodd y capel, a'r oriel a osodwyd ynddo ar ol ei adeiladu, 206p. 12s. 2c., heb son am doriad y sylfaen, a llawer o ddefnyddiau at y gwaith roddwyd yn rhad. Trwy lafur Mr. Griffiths a Mr. Owen Jones, talwyd yr oll o'r ddyled a chynaliwyd yma gyfarfod jubili, Hydref 26ain a'r 27ain, 1864, pryd y pregethodd Meistri Davies, Taihirion; Davies, New Inn; Morgans, Maesteg; Mathews, Castellnedd, a Pryse, Cwmllynfell. Pris y tir ar ba un yr adeiladwyd y capel yw swllt yn y flwyddyn. Cynlluniwyd yr adeilad, arolygwyd y gwaith, a thalwyd am y tô gan Mr. Griffiths, o'r Alltwen. Ffurfiwyd yma eglwys, ac y mae oddiar ei ffurfiad hyd yn bresenol dan ofal Mr. Griffiths. Yma, os nad ydym yn camgymeryd, y dechreuodd y brawd gweithgar Owen Jones arfer ei ddoniau fel pregethwr. Gan fod

Digitized by Google

poblogaeth yr ardal hon yn debyg o gynyddu yn fawr, gellir disgwyl y bydd yma gynnulleidfa luosog yn mhen ychydig o amser.

## GOSEN, CRAIGTREBANOS.

Cymydogaeth boblog rhwng Pontardawy a Chlydach yw Craigtrebanos. Ychydig flynyddau yn ol darfu i nifer o aelodau yr Alltwen a'r Glais, a gyfaneddent yn yr ardal hon, gymeryd ystafell fechan at gynal cyfarfodydd gweddio a phregethu achlysurol, yn benaf er mwyn yr hen bobl oeddynt yn analluog i gerdded i'r Alltwen a'r Glais. Yn fuan penderfynasant adeiladu ysgoldy, neu gapel bychan, o werth tua chan' gini. Agorwyd ef Tachwedd 11eg, 1866, a galwyd ei enw ef Gosen. Yn mhen amser, wrth weled yr achos yn llwyddo, daethant i'r penderfyniad i ofyn caniatad y ddwy fam-eglwys am gael eu ffurfio yn eglwys Annibynol, yr hyn a ganiatawyd iddynt. Cafodd tua phedwar-ar-hugain o aelodau eu gollyngdod o'r Alltwen a'r un nifer o'r Glais. Corpholwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1869, pryd y gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd gan Mr. Griffiths, o'r Alltwen, a Mr. Owen, Clydach, a than eu gofal unol hwy y mae yr eglwys ieuangc hyd yn bresenol. Ar amser ffurfiad yr eglwys, neillduwyd y brodyr Edward Thomas a John Williams yn ddiaconiaid. Mae yma achos bychan mewn agwedd obeithiol, a digon tebygol, gydag amser, y daw yma eglwys gref gan fod poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn raddol.*

## LLANGYNWYD.

Mae Llangynwyd yn enwog yn mysg plwyfydd sir Forganwg, oblegid mai yn Eglwys y plwyf hwn y gweinyddodd y dysgedig Samuel Jones am dymor yn amser y werin-lywodraeth, a thros ysbaid ar ol adferiad Siarl yr ail; ac allan o'r eglwys hon y trowyd ef pan ddaeth Deddf Unffurfiaeth i'w grym yn 1662, ac yn Brynllywarch yn y plwyf hwn y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ac y cyfranodd addysg i luaws mawr o wyr ieuaingc oeddynt yn ymbarotoi at y weinidogaeth; ac yn mynwent Llangynwyd yr erys ei weddillion cysegredig hyd foreu yr adgyfodiad cyffredinol. Er nas gall yr achos Annibynol sydd yn awr yn Llangynwyd ddilyn yn ol mewn llinell ddidor hyd ddyddiau Samuel Jones, etto, nid ymddengys i'r plwyf er hyny hyd yn awr fod heb ryw rai yn glynu wrth grefydd efengylaidd yn mysg yr Ymneillduwyr. Ymddengys fod gan Samuel Jones achos bychan dan ei ofal mewn hen amaethdy, o'r enw Cildeudy, yn y plwyf hwn, yr hwn wedi hyny a symudwyd i le a elwir y Siti, yn mhlwyf Bettws, ac yn mhen amser adeiladwyd yno gapel, ond dirywiodd yn raddol nes yr aeth y lle yn feddiant i'r Sosiniaid, fel y cawn achlysur i sylwi yn helaethach pan ddeuwn at eglwysi Penybont a Brynmenyn.

Tua'r flwyddyn 1790, ymsefydlodd nifer o aelodau y Bettws mewn amaethdy o'r enw Sychbant, Llangynwyd. Enw gwr y tŷ oedd Rhys Howells, yr hwn cyn hir a drefnodd dŷ bychan ar ei dir, yr hwn a elwid y Graigfach, yn lle i bregethu, a chadw ysgol ddyddiol. Daeth Mr.

* Llythyrau Mr. Griffiths a Mr. Owen.

Digitized by Google

Abraham Tibbot yma rywbryd wedi y flwyddyn 1792, canys dyna y flwyddyn yr ymadawodd a Llanuwchllyn. Bu Mr. Tibbot yma yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn pregethu yn y ty bychan. Mae hen ŵr o'r enw William Hopkin yn aelod yn awr yn Llangynwyd, yr hwn pan yn blentyn a fu yn yr ysgol gyda Mr. Tibbot.* Oblegid rhyw gamymddygiad o'i eiddo, bu raid i'r eglwys ddiarddel Rhys Howells, ac o ddial arni am hyny trodd yntau yr achos allan o'r Graigfach, a chauodd y drws yn erbyn yr ysgol ddyddiol. Cymerodd Mr. Tibbot drwydded ar ystafell cymdeithas ddyngarol hen dafarn Llangynwyd. Ni bu Mr. Tibbot yma yn hir, canys dychwelodd i'r gogledd, ac ymsefydlodd yn sir Fon, ac yr oedd yno yn y flwyddyn 1794. Bu yr eglwys yn ymgynnull yn yr ystafell yma hyd nes yr adeiladwyd y capel. Cafwyd tir ar brydles gan Mr. Elias Jenkins, cyfreithiwr, o Gastellnedd. Dyddiad y weithred yw Ionawr 10fed, 1799, a'r ymddiriedolwyr oeddynt, Rowland Griffith, Cwmcerwyn; Evan Jenkins, Cwmtrisant; Griffith Powell, Corwgfechan; Thomas Richard, Rhiwlech, a Morgan Powell, Gilfachganol. Coffeir hefyd am enwau Christopher Thomas, Ty'nyrheol; Joan Powell, Gilfach; Pegi, Cwmdu, a Catherine Mathew, Tanywaun, fel rhai o ffyddloniaid yr achos yma ar y pryd. Agorwyd y capel, yr hwn a alwyd yn Bethesda, cyn diwedd y flwyddyn 1799, yn mesur deg-troedfedd-ar-hugain wrth ddeunaw; ac yn mysg eraill, ar ei agoriad, pregethwyd gan Meistri D. Davies, Sardis, a D. Davies, Abertawy. Bu un Mr. Walter Edwards, yn cyrchu yma i bregethu yn lled gyson wedi ymadawiad Mr. Tibbot, ond nis gwyddom a urddwyd ef a'i peidio. Ymfudodd i America, lle y bu farw cyn hir. Yn y flwyddyn 1800, rhoddwyd galwad i Mr. Methuselah Jones, ac urddwyd ef i fod yn weinidog i'r eglwys yma, ac eglwys y Cymer. Llafuriodd Mr. Jones yma am wyth mlynedd, hyd nes y derbyniodd alwad gan gynnulleidfa fechan yn Merthyr Tydfil, ac y symudodd yno yn y flwyddyn 1808. Yn mhen amser wedi ymadawiad Mr. M. Jones, rhoddwyd galwad i Mr. William Beynon, yr hwn a fu yma dros lawer o flynyddoedd, ond oblegid ryw amgylchiadau darfu ei gysylltiad a'r eglwys tua'r flwyddyn 1828, ac ni bu un eglwys mwyach dan ei ofal, ond ymaelododd yn Brynmenyn dan ofal Mr. W. Jones, Penybont. Yn y flwyddyn 1828, derbyniodd Mr. William Morgan alwad gan yr eglwys, ac urddwyd ef yn mis Mawrth y flwyddyn hono, a bu y lle o dan ei ofal hyd y flwyddyn 1863. Bu yr achos yma yn hynod o isel ar un cyfnod yn ysbaid gweinidogaeth Mr. Morgan. Nid oedd yma ar un adeg ond un brawd i weddio yn gyhoeddus, sef John Thomas, Bryncarnau, ond cefnogid ef yn wrol gan nifer o chwiorydd ffyddlon, y rhai oeddynt yn golofnau yr achos. Mae eu henwau yn werth eu croniclo—Jannet Powell, Gilfach; Jannet Jenkins, Pentre; Margeret Thomas, Maescadlawr; Mary Richard, a Catherine Treharne, Ty'nywaun. Llawer gwaith y bu Jannet Powell, Gilfach, yn darllen penod ac yn gweddio ar ddechreu cyfarfod gweddi ar nos Sabboth, a gwnai pawb o'r lleill eu rhan at ddwyn y gwaith yn mlaen; ond cafodd y rhai hyn fu yn "sefyll yn nhy yr Arglwydd y nos" yr hyfrydwch o weled y wawr yn tori.

Nadolig 1870, cymerodd Mr. Richard Morgan, Aberafan ofal yr eglwys yma, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Gorphenaf 5ed a'r 6ed, 1871, ac y mae golwg addawol ar yr achos. Rhifedi yr aelodau yn bresenol ydyw 43.

* Llythyr Mr. R. Morgan, Aberafan.

Digitized by Google

Nid ydym yn cael fod un pregethwr wedi ei godi yma, ond yn yr eglwys hon y derbyniwyd Mr. Thomas Thomas, y Cenhadwr o Affrica, yn aelod, er mai nid yma y dechreuodd bregethu.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

WILLIAM BEYNON. Nid oes genym ond ychydig o'i hanes. Ganwyd ef yn rhywle yn sir Gaerfyrddin yn y flwyddyn 1774. Bu am ddeunaw mlynedd yn weinidog yn Llangynwyd, ac efe a ddechreuodd yr achos yn Carmel, Maesteg; ac yr oedd y capel cyntaf yno ar ganol cael ei adeiladu pan roddodd ei weinidogaeth i fyny. Yr oedd yn hawddgar a serchog fel dyn, a hoffid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai; ac fel pregethwr yr oedd yn hwylus a gwlithog. Maglwyd ef fwy nag unwaith gan y ddiod gadarn, a hyny a'i gorfododd o'r diwedd i roddi i fyny ei weinidogaeth. Bu am lawer o flynyddoedd yn aelod yn Brynmenyn er yn byw yn Maesteg, ond er's blynyddoedd cyn ei farwolaeth yr oedd yn aelod yn Carmel, ac yn ymddangos yn cael goruwchafiaeth ar y "pechod oedd barod i'w amgylchu." Bu farw Chwefror 13eg, 1846, yn 72 oed. Pregethwyd ar ddydd ei angladd gan Mr. William Morgan, ar destyn o'i ddewisiad ef ei hun, "Minau, nesau at Dduw sydd dda i mi;" a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Llangynwyd.

## CARMEL, MAESTEG.

Nid yw ein defnyddiau ond prin iawn er ysgrifenu hanes yr eglwys hon. Dechreuwyd yr achos yma yn y flwyddyn 1827, gan Mr. William Beynon. yn nghyda phedwar o aelodau Llangynwyd, sef Evan David, Edward Jones, David Morgans a'i wraig. Pan ar ganol adeiladu y capel yn y flwyddyn 1828, darfu cysylltiad Mr. W. Beynon a'r lle, a chymerwyd y gofal gan Mr. William Morgan yn nglyn a Llangynwyd, ac y mae efe yn parhau yn weinidog yma. Gorphenwyd y capel yn fuan wedi sefydliad Mr. Morgan yma; ac yn y flwyddyn 1831 ailadeiladwyd ef, ac yn y flwyddyn 1850 adeiladwyd yr addoldy helaeth presenol, yn mesur 60 troedfedd wrth 42 troedfedd. Agorwyd ef Mai 20fed a'r 21ain, 1850, ac ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri E. Griffiths, Abertawy; W. Roberts. Tabor; O. Owens, Brynmenyn; D. Evans, Nazareth; R. Pryse, Cwmllynfell; P. Griffiths, Alltwen; J. Mathews, Castellnedd; M. Rees, Groeswen; H. Davies, Bethania; J. Thomas, Glynnedd; T. Davies, Abertawy; R. Rees, Abertawy; J. Rees, Carmel; W. Thomas, Rock, ac eraill.* Gwyddom i lawer o bobl dda fod yn nglyn a'r achos yma o bryd i bryd, ond gan na chawsom y manylion yn eu cylch, nis gallwn eu crybwyll. Canghenau o'r eglwys hon sydd yn Zoar, Siloh, a'r Garth.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yma:—

David Jones. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Bethesda, Arfon, ac y mae yn awr yn Zoar, Merthyr.

William Rees. Ymfudodd i Awstralia.

John Davies. Bu yn fyfyriwr yn athrofa Caerfyrddin, ac y mae yn awr yn weinidog gyda'r Saeson yn Maesteg.

Thomas Ll. Jones. Mae yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Lancashire.

* *Diwygiwr* 1850. Tu dal. 222.

Digitized by Google

## ZOAR, MAESTEG.

Dechreuwyd yr achos hwn yn y flwyddyn 1839, mewn ty anedd yn Rhester Jenkin, gan nifer o aelodau a ymadawsant o eglwys Carmel, oblegid fod eu golygiadau ar drefn yr efengyl yn eangach nag eiddo y mwyafrif o'r eglwys. Y personau a fu fwyaf blaenllaw yn y symudiad oeddynt y rhai canlynol, John Williams, Jonathan Davies, William Rees, William Thomas, Thomas Thomas, Thomas Watkins, William Howells, David Henry, Thomas Jenkins, William Thomas, Evan Roberts, David Lewis, David Sharah, Evan Sharah, Thomas Evans, a James Jones. Yn mhen dau fis wedi iddynt ymadael, prynasant yr hen gapel a ddechreuwyd gan yr Annibynwyr, yr hwn oedd ar y pryd yn eiddo y Methodistiaid Calfinaidd. Talasant 61p. am dano, a symudasant iddo yn ddioed i addoli. Yn yr amser hwn yr oeddynt fynychaf heb bregethwr, oblegid gwrthodai y gweinidogion cylchynol ddyfod atynt am y tybid fod eu mynediad allan yn afreolaidd; ond deuai ambell un atynt, er gwybod ei fod trwy hyny yn tynu gwg eraill. Yr oedd cyfarfod chwarterol yr undeb yn hollol wrthwynebol iddynt; ac mewn cyfarfod a gynaliwyd yn Cymer-glyn-corwg, ar y 7fed a'r 8fed o Ebrill, 1841, penderfynwyd "I beidio cynorthwyo y rhai a dorwyd allan o Carmel, Llwyni, ond eu hanog i gynyg eu hunain yn ol, a bod drws agored iddynt ar delerau'r efengyl."*

Ni ddigalonwyd hwy mewn un modd gan y penderfyniad uchod, ond aethant yn mlaen fel cynt, gan gynal moddion rheolaidd, a gwneyd goreu y gallent dan yr amgylchiadau. Yr oedd cyfarfod chwarterol nesaf yr undeb i gael ei gynal yn Carmel, Maesteg, a phan ddaeth y dydd apwyntiedig, ymgasglodd lluaws o weinidogion i'r gynnadledd; ac yn mhlith pethau eraill, dygwyd achos y brodyr a ymadawsent o Carmel dan sylw. Wedi ymdrin yn bwyllus a'u hachos, daethpwyd i'r penderfyniad, Fod yr ardal yn ddigon eang i gynwys dau achos Annibynol, heb i'r naill niweidio y llall; a bod i'r gangen ymadawedig i ddychwelyd yn ol i gydeistedd wrth Fwrdd yr Arglwydd gyda'r brodyr yn Carmel, ac yna i Mr. William Morgan, eu hen weinidog, i fyned gyda hwynt i bregethu yn gyntaf iddynt. Pan ddaeth boreu Sabboth cymundeb, dychwelasant i Carmel, yn ol penderfyniad y gynnadledd, i gydgyfranogi o'r Swper Sanctaidd; ac yn yr hwyr aeth Mr. Morgan gyda hwynt i'w capel, a phregethodd iddynt, felly terfynwyd pob anghydfod, ac ymadawyd yn rheolaidd a boneddigaidd o'r ddeutu. Corpholwyd yr aelodau perthynol i'r lle yn eglwys yn fuan ar ol hyn, a derbyniwyd dau-ar-bymtheg o'r newydd atynt, fel yr oeddynt o gwbl yn 44 o nifer.

Yn fuan ar ol hyn—gan fod y lle yr oeddynt yn addoli ychydig tu allan i boblogaeth yr ardal—meddyliasant am gael lle mwy cyfleus, a phenderfynasant gael capel newydd mewn man canolog. Aethant i ymofyn am dir i'w adeiladu at Mr. Robert Smith. Addawodd ei roddi ar yr amod iddynt werthu eu hen gapel iddo ef at wasanaeth yr eglwys Sefydledig. Cytunasant i hyny. Cawsant 61p. am yr hen gapel, y swm a dalasant am dano, a symudasant o hono yn ddioed i le a elwir Ty Candryll, ar ochr yr un heol, ond yn uwch i fyny yn y lle. Buont yma am chwe' mis, ac ychwanegwyd amryw atynt yn ystod y tymor hwnw. Oddiyno symudas-

* *Diwygiwr*, Mai, 1841.

ant i dy Dafydd Jones, y Gwehydd, ar ochr y *Tram-road*, lle y buont am chwe' mis arall, ac ymunodd rhai a hwy yno. Erbyn hyn yr oedd eu capel newydd yn dyfod yn mlaen yn gyflym, a symudasant iddo cyn diwedd y flwyddyn 1841; er nad oedd wedi ei orphen, ac ni orphenwyd ef am rai misoedd ar ol hyny. Agorwyd ef y Mercher a'r Iau cyntaf yn mis Medi, 1842.

Yn mis Hydref yr un flwyddyn, cymerwyd eu gofal yn fisol gan Mr. John Davies, Mynyddbach. Yn ystod y tymor yr oedd Mr Davies yn dyfod yma, gwelodd yr eglwys dywydd blin iawn. Cafodd yr ymddiriedolwyr wys-lythyron am 220p., sef yr arian dyledus am y llechi a'r priddfeini oedd wedi myned at y capel, a chan nad oedd ganddynt arian i'w talu, ac yn methu a'u cael ar log gan neb, ofnent y buasai yn rhaid gwerthu y capel, ac felly y buasai oni bai i ymwared ddyfod o le annisgwyliadwy. Dangosodd Mr. Davies y cydymdeimlad mwyaf diffuant a hwy; teithiodd lawer nos a dydd trwy bob tywydd er eu cynorthwyo. Coffeir yn neillduol am un boreu Sabboth, wedi iddo esgyn i'r areithfa, plygodd ei ben i lawr, a threiglodd dagrau gloywon dros ei ruddiau wrth feddwl fod y capel yn debyg o gael ei werthu gan swyddogion y gyfraith. Nid teg hefyd fyddai gadael yn ddisylw eiriau caredig a ffyddiog yr hybarch W. Jones, o Benybont-ar-ogwy, wrth ddau o'r brodyr a alwasant gydag ef pan yn y dref yn ceisio cael arian ar log i dalu eu gofynwyr, ac yn methu cael dim. Wedi iddynt adrodd eu helynt wrth Mr. Jones, dywedodd wrthynt:—"Cymerwch gysur frodyr bach, oblegid os tŷ i Dduw ydyw eich capel, fe ofala yr Arglwydd na chaiff ddim cam; os bydd hi wedi myned yn galed iawn, gadewch i mi wybod a chymeraf ddeg punt i'w casglu drosoch." Cyn pen ychydig wythnosau ar ol yr ymddiddan yna, cyflawnwyd geiriau hyderus Mr. Jones trwy i'r Arglwydd roi yn nghalon brawd parchus gyda'r Bedyddwyr, Mr. W. Thomas, Paentiwr, o Benybont-ar-ogwy, i ddyfod yn mlaen a thalu yr arian gofynedig i fyny yn swyddfa Alexander Cuthbertson, cyfreithwr, Castellnedd. Costiodd yr helynt yma dros 30p. i'r eglwys. Wedi i'r cwmwl tywyll yma gael ei symud, dechreuodd yr eglwys gymeryd calon drachefn. Meddyliodd mai gwell fuasai iddi gael gweinidog ei hun, er nad oedd ei nifer ond rhyw 49. Daeth Mr. Thomas Lloyd, o Nantyglo, heibio i bregethu, hoffwyd ef gan yr eglwys a rhoddwyd galwad iddo, cydsyniodd yntau a hi, ac urddwyd ef Medi 27ain a'r 28ain, 1843; ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Davies, Mynyddbach; holwyd y gofyniadau gan Mr. R. Jones, Sirhowy; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. Evans, Castellnedd; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. D. Stephenson, Nantyglo, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. W. Jones, Penybont. Gweinidogaethodd Mr. Lloyd yma am ddwy flynedd, ac yr oedd yn gymeradwy iawn gan yr eglwys a'r ardal yn gyffredinol. Ychwanegwyd amryw at yr eglwys—symudwyd ychydig ar y ddyled—ac yn ei dymor ef y bu y gymanfa sirol yma. Rhoddodd y weinidogaeth i fyny oblegid gwendid a llesgedd corphorol i ymgymeryd a'r ddyled drom oedd ar y capel; ond trwy iddo ymsefydlu yn y lle fel masnachwr, bu o wasanaeth mawr i'r eglwys fel aelod a phregethwr am flynyddau, a theimlid colled ar ei ol pan yr ymadawodd o'r ardal. Yn fuan ar ol i Mr. Lloyd roddi y weinidogaeth i fyny, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. William Watkins, o Rhymni, i ddyfod i'w bugeilio. Derbyniodd yr alwad, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Gorphenaf 1af o'r 2il, 1846. Bu Mr. Watkins yn gweinidogaethu

Digitized by Google

yma gyda chymeradwyaeth mawr am dair blynedd a naw mis. Symudwyd llawer o'r ddyled oddiar y capel yn ei dymor, ac yn y flwyddyn 1849, pan yr ymwelodd y geri marwol a'r ardal, ychwanegwyd rhai ugeiniau at yr eglwys, fel yr oedd uwchlaw 300 mewn nifer. Ond daeth ystorm gref i gyfarfod yr eglwys, yr hon a derfynodd mewn ymraniad gofidus. Dygwyd cyhuddiad o anweddeidd-dra yn erbyn y gweinidog, a galwyd am help gweinidogion cymydogaethol i chwilio i'r amgylchiadau. Credid yr hyn a ddywedid gan rai, ac anghredai eraill y cwbl; ond yr oedd mwyafrif yr eglwys yn ei erbyn, ac oblegid hyny, aeth Mr. Watkins allan a 140 gydag ef, ac ymsefydlasant yn eglwys, yr hon sydd yn bresenol yn Saron; ac arosodd 162 ar ol yn Zoar. Gwelodd y rhai hyn dywydd garw ar ol yr ymraniad. Yr oedd y rhan luosocaf o weinidogion y cyfundeb yn ffafrio Mr. Watkins, ac ychydig o honynt a ddeuai i bregethu i Zoar, ond yr oedd Mr. T. Lloyd yn gweini yr ordinhad yn fisol iddynt, ac yn pregethu mor aml ag y gallai, a deuai eraill i'w gynorthwyo. Wedi i'r eglwys fod fel hyn am ddeunaw mis, rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. John Jones, myfyriwr o athrofa Aberhonddu. Cydsyniodd Mr. Jones a'r alwad, ac urddwyd ef Awst 12fed a'r 13eg, 1851. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. T. Rees, Maesygroes; holwyd y gofyniadau arferol gan Mr. E. Jacob, Abertawy; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. L. Powell, Caerdydd; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E. Davies, Athraw Ieithyddol Aberhonddu, ac i'r eglwys gan Mr. P. Griffiths, Alltwen. Gweinyddwyd hefyd gan Meistri E. Roberts, Cwmafan; R. G. Jones, Rhiadr; J. D. Williams, Penybont; D. Henry, Cymer; J. Davies, Bryn; S. Phillips, Llangynidr, ac eraill.

Mae ugain mlynedd bellach wedi myned heibio er pan y sefydlodd Mr. Jones yma, ac y mae yr eglwys wedi bod yn lled gysurus er hyny hyd yn bresenol. Mae amryw ganoedd wedi cael eu hychwanegu atti o bryd i bryd. Mae y ddyled drom oedd ar y capel wedi ei thalu er's blynyddau, a chyfnewidiadau mewnol wedi eu gwneyd ynddo fwy nag unwaith, ac nid oes dimai o ddyled yn aros arno yn bresenol. Mae yr eglwys hon wedi bod bob amser yn barod i gynorthwyo achosion gweiniaid yn y gymydogaeth o dan ei beichiau, ac nid yw wedi bod yn ol yn ei chyfraniadau at holl achosion cyhoeddus yr enwad yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Heblaw hyn hefyd, y mae wedi sefydlu achos Saesonig yn y lle. Bu y gynnulleidfa hono yn addoli yn Zoar am ddwy flynedd a haner, a dygai yr eglwys yma ei holl dreuliau oddigerth y weinidogaeth, a chynorthwyai i wneuthur hyny hefyd. Mae y ffeithiau yna yn brawf nad yw wedi bod yn segur na diffrwyth, gartref, nac oddicartref. Er fod yr eglwys wedi colli rhai ugeiniau o'i haelodau yn ystod y tymor a nodwyd trwy ymfudiaeth i wahanol barthau, a rhai wedi ymuno a'r Saeson yn y lle, etto y mae hi yn dal yn dda mewn rhifedi trwy y cwbl, ac nid yw mewn un modd yn llaesu ei dwylaw.

Bu y personau canlynol, yn mysg llawer eraill, yn wasanaethgar iawn i'r achos yma fel aelodau crefyddol. Thomas Thomas. Bu o wasanaeth mawr i'r eglwys hon pan yn adeiladu y capel, ac yn ei ofal am dani am rai blynyddau ar ol ymadael a'r lle. Cafodd ei ddiwedd ar y *Vale of Neath Railway* rai blynyddau yn ol. David Jones. Daeth yma o Dreoes. Gwehydd oedd wrth ei gelfyddyd. Hen grefyddwr cynes, ac Annibynwr selog. Ymdrechodd lawer gyda'r achos yma pan oedd yn wan. Bu yn casglu trwy ranau o'r sir at y capel, ac efe fu yn ymofyn am y gymanfa

Digitized by Google

yn y Groeswen yn y flwyddyn 1843, pryd y penderfynwyd fod ceiniog oddiwrth bob aelod yn eglwysi y sir i gael ei ofyn o hyny allan at gynal cymanfa y sir mewn eglwysi gweiniaid. Yr eglwys hon gafodd y cymorth hwnw gyntaf, ac nid yw wedi anghofio hyny hyd yn hyn. Bu David Jones yn ddiacon yma am rai blynyddau. Mae ei ran farwol yn gorwedd wrth gapel Treoes, lle y bu a'r llaw flaenaf yn nechreuad yr achos. Richard Thomas. Un genedigol o'r ardal hon ydoedd, a bu yn amaethwr yn y gymydogaeth am amryw flynyddau. Yr oedd yn un o'r Annibynwyr hynaf yn yr ardal. Cafodd ef a'i weddw, yr hon sydd yn fyw yn bresenol ac yn 84 oed, eu derbyn yn aelodau yn Cymer-glyn-corwg, a buont yn garedig iawn yn eu llettygarwch i genhadau Crist pan nad oedd neb arall yn yr ardal i'w derbyn. Yr oedd Richard Thomas yn hen frawd cynes ei ysbryd. Bu yn ddiacon yn yr eglwys hon am rai blynyddau. Bu farw yn bedwar ugain oed. William Thomas, genedigol o ardal Penygraig, sir Gaerfyrddin, a gof wrth ei gelfyddyd. Ymunodd a'r eglwys hon yn amser ei chorpholiad a bu yn aelod ffyddlon ac yn ddiacon am rai blynyddau. Gwnaeth fwy o ddaioni distaw na nemawr neb. William Isaac, genedigol o ardal Llanguwg, a saer wrth ei gelfyddyd. Ymunodd a'r eglwys hon yn y flwyddyn 1847. Bu yn aelod gweithgar, ac yn ysgrifenydd yr eglwys am rai blynyddau. Cafodd ei ddiwedd yn nghyda thri-ar-ddeg eraill mewn pwll glô. James Jones. Derbyniwyd ef yn aelod yn Carmel, ac yr oedd yn un o ddechreuwyr yr achos yma, a pharhaodd mewn cysylltiad a'r eglwys hon hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pan y bu farw. Yr oedd yn Annibynwr selog, ac yn un o'r dynion mwyaf gweithgar a gofalus am achos crefydd yn ei holl ranau. Yr oedd gair da gan bawb iddo, a bydd ei enw yn perarogli yn yr ardal am flynyddau lawer.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

David Henry. Yr oedd yn un o gychwynwyr yr achos. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1841. Bu yn yr ysgol yn Llanelli. Urddwyd ef yn Cymer-glyn-corwg, ac y mae yn awr yn Penygroes.

Thomas Llewellyn. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1848. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yn Mountain Ash, lle y mae etto.

John Davies, Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1858. Bu yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Merthyrcynog, a throdd allan yn anfoesol fel y darfu ei gysylltiad a'r weinidogaeth.

William Davies. Dechreuodd bregethu yn 1858. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Gatley, gerllaw Manchester.

Samuel Lewis. Dechreuodd bregethu yr un pryd a'r ddau uchod. Aeth i athrofa Airdale yn 1861, ac urddwyd ef yn 1866 yn Hallaton, swydd Leicester.*

## SILOH, MAESTEG.

Yn y flwyddyn 1841, codwyd yma gapel bychan gan Mr. William Morgan, a'r eglwys yn Carmel, a'r un flwyddyn ffurfiwyd un-ar-bymtheg o aelodau Carmel yn eglwys ynddo. Gweinyddodd Meistri L. Powell, Caerdydd; D. Griffiths, Castellnedd, a P. Griffiths, Alltwen, yn agoriad

* Cafwyd y rhan fwyaf o ddefnyddiau yr hanes uchod oddiwrth Mr. Jones, Zoar, Maesteg; a byddai yn dda genym gael defnyddiau mor gyflawn o'r holl eglwysi.

Digitized by Google

y capel. Bu y lle dan ofal Mr. Morgan hyd haf 1849, pryd y cydunodd ef a'r eglwys i roddi galwad i Mr. Henry Pritchard, pregethwr cynorthwyol oedd ar y pryd yn aelod yn y lle, ond a ddaethai yma o Nantyglo. Urddwyd ef Gorphenaf 18fed a'r 19eg, 1849; a bu yma hyd y flwyddyn 1854, pryd yr ymadawodd a'r lle, gan adael ei wraig a'i blant ar ol, ac ni welwyd ef yma mwy. Ychydig o gynydd fu ar yr achos yn ystod ei arosiad yn y lle, a pha lwyddiant a allesid ddisgwyl dan weinidogaeth y fath un. Yn nechreu y flwyddyn 1856, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. William Rees, pregethwr cynorthwyol perthynol i Bethania, Cwmafan; ac urddwyd ef yma yr 21ain o'r Chwefror canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri E. Roberts, Cwmafan; W. Thomas, Rock; J. Davies, Taihirion; T. Davies, Treforis; D. Jones, Efailfach; I. Jones, Drefnewydd; E. Evans, Sciwen, ac R. Williams, Cerigllwydion.* Bu gweinidogaeth Mr. Rees yma yn dra llwyddianus, fel cyn diwedd y flwyddyn gyntaf yr oedd y capel wedi myned yn rhy fychan, a'r flwyddyn ganlynol adeiladwyd un eangach a harddach, yr hwn a gostiodd 625p., ac agorwyd ef Mawrth 21ain, 1858, a phregethwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Lewis, Henllan; D. Price, Aberdar; W. Jenkins, Brynmawr, ac I. Jones, Drefnewydd. Mae yr achos yma wedi myned rhagddo yn fawr yn ystod y pymtheng mlynedd diweddaf, ac y mae golwg lewyrchus arno yn bresenol. Nid oes ond dau o'r un-ar-bymtheg oedd yma yn dechreu yr achos, ddeng mlynedd-ar-hugain yn ol yn aros, sef Evan Evans a Catherine Jenkins, ac y mae y rhan fwyaf o'u cyfoedion wedi blaenu arnynt i'r wlad well.

Codwyd yma gryn nifer o bregethwyr, ag ystyried nad yw yr eglwys ond cydmarol ieuangc.

John Bevan. Urddwyd ef yn Llangadog, a daw ei hanes yn nglyn a'r eglwys yno.

William Edwards. Ymfudodd ef i America, ac y mae yn weinidog yno.

Arthur Bowen. Bu yn bregethwr cymeradwy am ychydig flynyddoedd, ond bu farw yn Hydref, 1862.

John Bevan. Bu dan addysg yn Mhenybont-ar-ogwy, ac urddwyd ef yn y Waunarlwydd, gerllaw Abertawy, ac yno y mae yn aros etto.

David M. George. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yr haf diweddaf (1871) yn Hermon a Llansadwrn, sir Gaerfyrddin.

James Jones. Aeth i America yr haf diweddaf.

John Michael. Y mae yn bresenol yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

## SARON, MAESTEG.

Wedi i gysylltiad Mr. W. Watkins ddarfod a'r eglwys yn Zoar, dechreuodd ef a'r rhai ymadawsant gydag ef gyfarfod mewn ystafell eang yn *Commercial Street*, ac ymgorpholasant yn eglwys dan ofal Mr. Watkins, Mawrth 17eg, 1850. Y rhai mwyaf blaenllaw gyda'r achos hwn ar ei gychwyniad, heblaw y gweinidog, oedd William Thomas, Thomas Thomas, a Griffith Gibbon, (tad Mr. W. Gibbon, Capel Isaac), ac yr oedd y tri hyn yn ddynion ymroddedig a phenderfynol. Meddyliasant yn fuan am adeiladu capel, a dechreuwyd arno yn ddioed, a galwyd ef Saron. Agorwyd ef Ionawr 12fed a'r 13eg, 1853, yn nglyn a chyfarfod chwarterol

* *Diwygiwr*, 1856. Tu dal. 122.

Digitized by Google

cyfundeb gorllewinol Morganwg, yr hwn a gynhelid yma. Ar yr achlysur pregethodd Meistri J. Thomas, Glynnedd; T. R. Davies, Ysgetty; T. Thomas, Clydach; E. Roberts, Cwmafan; E. Griffiths, Abertawy; R. Rees, Abertawy, a T. Davies, Treforis.* Bu Mr. Watkins yn gofalu am y lle am yn agos i bymtheng mlynedd, ond ni bu llwyddiant mawr ar ei lafur. Yr oedd yr amgylchiadau o dan ba rai y cychwynwyd yr achos, a lluosogrwydd capelau yr un enwad yn yr ardal yn cyfrif am hyny. Yn niwedd y flwyddyn 1866, rhoddodd Mr. Watkins yr eglwys i fyny, ac ymgymerodd a dechreu achos, ac adeiladu capel yn y Dyffryn. Wedi bod flwyddyn a haner heb weinidog, rhoddwyd galwad i Mr. S. D. Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn Heolgerig, gerllaw Merthyr, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Rhagfyr 29ain a'r 30ain, 1867; a bu yma am dair blynedd, pryd y symudodd i Carmel, Penbre. Yn fuan wedi ymadawiad Mr. Jones, rhoddwyd galwad i Mr. William B. Morgan, Myddfai, sir Gaerfyrddin, a chadwyd cyfarfodydd ei sefydliad Medi 10fed a'r 11eg, 1871. Egwan y mae yr achos yma wedi bod o'r dechreuad, ond dywedir ei fod wedi sirioli yn ddiweddar.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

William Thomas. Yr oedd yn un o'r diaconiaid cyntaf, ac ni phallodd ei ddefnyddioldeb ar ol iddo ddechreu pregethu. Bu farw Mehefin 1860.

Richard W. Watkins, mab Mr. Watkins, yr hen weinidog. Mae yn awr yn bregethwr cynorthwyol yn Saron.

Thomas G. Jones. Bu yn efrydydd yn athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef yn Gwernogle, lle y mae yn bresenol.

William Morris. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef y flwyddyn hon yn Brynmenyn, gerllaw Penybont-ar-ogwy.

William Owen. Bu am ysbaid yn athrofa Aberhonddu, ond gwaelodd ei iechyd, ac ymfudodd i'r America, lle y mae etto.

Mae yn Saron ychydig ffyddloniaid oedd gyda'r achos ar ei gychwyniad yn aros hyd yr awr hon.

## DYFFRYN, MAESTEG.

Yn nechreu y flwyddyn 1867, wedi rhoddi i fyny ofal eglwys Saron, cychwynodd Mr. Watkins achos a chododd gapel yn y Dyffryn, a ffurfiwyd eglwys yma yn Ebrill, 1868, yr hon a fu dan ei ofal hyd ei farwolaeth, Mai 17eg, 1870. Yn Hydref y flwyddyn hono, daeth capel y Dyffryn dan nawdd eglwys Siloh, a chymerodd Mr. William Rees ofal yr achos, ac felly y mae y Dyffryn yn parhau mewn cysylltiad a Siloh. Gan nad yw ond achos newydd, nid oes dim neillduol yn nglyn ag ef i'w cofnodi.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

William Watkins. Ganwyd ef yn Caehopkin, yn mhlwyf Ystradgynlais, sir Frycheiniog, Mehefin 23ain, 1810. Derbyniwyd ef yn aelod yn ieuangc yn Nhy'nycoed, a dechreuodd bregethu pan yn ugain oed. Ni chafodd ond ysgol ddyddiol gyffredin yn ei febyd, oblegid gorfu iddo weithio yn galed fel glowr er yr oedd yn dair-ar-ddeg oed hyd o fewn

* *Diwygiwr*, 1863. Tu dal. 60.

ychydig wythnosau i'w urddiad, yr hyn a gymerodd le yn Rhymni, Hydref 5ed a'r 6ed, 1836, fel y crybwyllasom yn hanes eglwys Seion. Bu Mr. Watkins yn llafurio yno am fwy nag wyth mlynedd; ac yn ei amser ef, a thrwy ei lafur ef yn benaf y codwyd capel Seion; a chododd gapel arall yno a elwir Gosen, i nifer o gyfeillion a ymlynent wrtho pan yr ymadawodd o Seion. Yn y flwyddyn 1845, derbyniodd alwad o Zoar, Maesteg, a'r hon y cydsyniodd, ond ni symudodd yma yn fuan, ac wedi iddo symud, arferai deithio yr holl ffordd dros y mynyddoedd unwaith yn y mis at ei gyfeillion yn Gosen, Rhymni. Bu am bum' mlynedd yn gysurus a llwyddianus, ond oblegid y cyhuddiadau a ddygid i'w erbyn, at y rhai y crybwyllasom yn hanes Zoar, darfu ei gysylltiad a'r eglwys yno, ac aeth nifer luosog o'r rhai a ymlynent wrtho allan i ddechreu yr achos sydd yn awr yn Saron. Wedi bod yn gofalu am y lle hwnw am yn agos i bymtheng mlynedd, rhoddodd yr eglwys yno i fyny yn niwedd 1866; a dechreuodd achos newydd yn y Dyffryn, a chododd yno gapel yn 1868, ond erbyn hyn yr oedd ei iechyd yn dechreu adfeilio, a bu farw Mai 17eg, 1870, yn 60 oed, gan adael gweddw a chwech o blant i alaru ar ei ol, a chladdwyd ef yn mynwent Saron, lle yr oedd rhai o'i anwyliaid, a llawer o'i gyfeillion wedi eu rhoddi i orwedd o'i flaen.

Gyrfa helbulus iawn a gafodd Mr. Watkins yn nglyn a'r weinidogaeth, ond glynodd wrth ei waith yn ddi-ildio; ac yr oedd ei garedigrwydd a'i sirioldeb yn peri fod ganddo gyfeillion yn glynu wrtho trwy ei holl brofedigaethau. Yn mlynyddoedd olaf ei fywyd yr oedd yn oruchwyliwr yn nglyn a chwmni ysweiriant, a theithiai lawer oddicartref i sefydlu goruchwylwyr; ac yr oedd yn ddyn mawr gyda'r cymdeithasau cyfeillgar, y rhai a ddangosasant barch nodedig iddo ar ddydd ei gladdedigaeth.

Yr oedd Mr. Watkins yn ddyn o gorph cryf—o ysbryd bywiog—o dymer lawen—yn gyfaill serchog a chywir—yn bregethwr da ar faterion ymarferol, a byddai weithiau yn dra effeithiol. Ond nid oedd yn un o'r rhai mwyaf hapus i ymwneyd a dynion, goddefai iddynt fyned yn rhy hyf arno; ac yr oedd ei ysgafnder a'i anwyliedwriaeth yn rhoddi achlysur i'r rhai a ewyllysient gael achlysur yn ei erbyn. Bu yn llafurus iawn i adeiladu pedwar o gapeli; ond y mae yn ddrwg genym orfod ychwanegu fod dau o'r rhai hyny wedi eu cyfodi mewn canlyniad i rwygiadau yn yr eglwysi dan ei ofal; ac wedi eu codi mewn manau nas gallesid profi fod angenion y cymydogaethau yn galw am danynt. Ystyriwn fod tegwch yn galw arnom i ddyweyd hyn, er fod genym lawer o barch i enw a choffadwriaeth William Watkins.

## GARTH, MAESTEG.

Y Garth y gelwir y rhan isaf o ddyffryn Maesteg, lle y mae rhagolygon mwyaf addawus y lle yn bresenol. Mae yma amryw weithfeydd glo ac alcam yn y lle. Adeiladwyd yma gapel yn y flwyddyn 1868, a galwyd ef yn Ebenezer. Costiodd tua 230p., ac y mae ynddo le i ryw 200 i eistedd. Bwriadwyd ef ar y cyntaf i wasanaethu fel ysgoldy mewn cysylltiad a Carmel. Cynhelid yma Ysgol Sabbothol y boreu, pregeth am ddau, a chyfarfod gweddi yr hwyr, er cyfleusdra i'r rhai nad allent fyned i Carmel. Prydnhawn Sabboth, Gorphenaf 30ain, 1871, y corpholwyd yma eglwys. Pregethodd Mr. R. Morgan, Aberafan, a chydweinyddodd ef a Mr. Morgan, Carmel, ar y cymundeb. Tua 27 o aelodau oedd yma yn

Digitized by Google

cychwyn, ond y mae yr achos yn myned rhagddo, fel y mae yn debyg y bydd yma eglwys gref cyn pen ychydig flynyddoedd. Mae y rhan fwyaf o ddyled y capel wedi ei dalu. Yn y cyfarfod blynyddol a gynaliwyd yma Mai 21ain a'r 22ain, 1871, daeth un Joshua Morgan, aelod gyda'r Bedyddwyr, ond hen gyfaill i Mr. Morgan, Carmel, yn mlaen ac a roddodd 21p. at gynorthwyo i dalu y ddyled. Nid dyma yr unig engraifft sydd genym o garedigrwydd brodyr ffyddlon perthynol i'r Bedyddwyr at achos yr Annibynwyr yn Maesteg.

## MAESTEG, (Saesonaeg).

Dechreuwyd yr achos yma Ebrill 14eg, 1869, a ffurfiwyd yr eglwys Awst 15fed, yr un flwyddyn gan Mr. Davies, Caerdydd. Bu Mr. Jones, Zoar, a'r eglwys dan ei ofal yn hynod o gefnogol i'r achos yma, a chafwyd gwasanaeth eu capel cyhyd ag y bu angen am hyny. Rhoddwyd careg sylfaen y capel newydd i lawr Tachwedd 23ain, 1870, ac erbyn y 3ydd o Fedi y flwyddyn ganlynol yr oedd yn barod i'w agor, ac yn nglyn a'r agoriad urddwyd Mr. John Davies, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin i holl waith y weinidogaeth. Ar yr achlysur, gweinyddwyd gan Meistri W. Morgan, Caerfyrddin; J. Jones, Maesteg, ac F. S. Johnstone, Merthyr. Yr oedd Mr. Davies yn llafurio yma er cychwyniad yr achos; ac heblaw yr help gwerthfawr a gafodd gan Mr. Jones, Zoar, a gweinidogion eraill yn y sir, y mae enwau y personau canlynol yn y lle, yn mysg eraill, yn deilwng o grybwylliad parchus:—Dr. Davies, W. Rees, Draper; J. R. Thomas, grocer; B. Evans, Overman, ac E. Davies, meddyg. Costiodd y capel 800p., ac y mae 500p. eisioes wedi eu talu. Araf fel y gellid disgwyl y mae yr achos yn myned yn mlaen, ond y mae wedi ei sefydlu ar gyfer cynydd cyflym yr iaith Saesnaeg yn mysg pobl ieuaingc yr ardal, ac ar gyfer dyfodiaid o Saeson y rhai sydd beunydd yn amlhau yn y gymydogaeth.

## DREFNEWYDD.

Gelwir y lle hwn yn aml yn Newton Nottage. Ymddengys fod pregethu achlysurol yn y lle hwn er y flwyddyn 1662, ond nid oes genym sicrwydd fod eglwys Annibynol wedi ei ffurfio yma; llawer llai y gallwn ei holrhain mewn dilyniad rheolaidd hyd yn awr. Gwelsom yn hanes Maesyrhaf, Castellnedd, fod tai Lewis Alward, yn Cynffyg, a Watkin Cradock, yn y Drefnewydd, wedi eu trwyddedu i bregethu yn 1672; a bod Watkin Cradock ei hun wedi cael trwydded i bregethu yr un amser. Bu Lewis Jones, Penybont yn pregethu yma o'r flwyddyn 1742 hyd 1763; a digon tebyg i'w olynwyr, Evan Williams a Samuel Price, bregethu llawer yma; ond isel a dilewyrch fu yr achos yma trwy yr holl flynyddoedd. O gylch y flwyddyn 1808, daeth un William Williams yma i bregethu, a bu mesur o lwyddiant ar ei lafur, ac urddwyd ef i fod yn weinidog yn y lle Gorphenaf 21ain, 1808. Ar yr achlysur, dechreuwyd yr oedfa gan Mr. D. Evans, Mynyddbach; pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Davies, Abertawy; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. T. Bowen, Castellnedd; rhoddwyd siars i'r gweinidog gan Mr. J. Davies, Alltwen, ac i'r eglwys gan Mr. S. Davies, Maendy. Yn nglyn a hanes

Digitized by Google

yr urddiad yn yr *Evangelical Magazine* am 1809, tu dal. 393, dywedir, "Cyfrifid y lle hwn yn dywyll a drygionus iawn hyd yn ddiweddar, pryd y darfu i'r Arglwydd mewn modd neillduol lwyddo llafur y gweinidog sydd yn awr wedi sefydlu yma." Bu Mr. Williams yma am dair blynedd pan y symudodd i Godrerhos; ac am flynyddau bu yr achos egwan yma fel "llin yn mygu," ac yr oedd ar farw, os nad yn wir *wedi* marw pan ddaeth Mr. Herbert Herbert yma i fyw. Yn Ionawr, 1826, symudodd Mr. Herbert yma o Bristol. Dechreuodd bregethu o dŷ i dŷ, a chyn hir cafwyd ystafell a alwyd y Brickyard, ac yn mis Mehefin y flwyddyn hono addffurfiwyd yma eglwys. Nid oedd ond pump o honynt yn y cymundeb cyntaf, a daethai dau o'r rhai hyny atynt o'r Tabernacl, Penybont. Dyma eu henwau—Herbert Herbert, y gweinidog; Frances Herbert, ei wraig; Morgan Williams, Thomas Roberts, ac Ann Roberts. Ychwanegwyd tri atynt cyn diwedd y flwyddyn, sef Leyshon Hardee, yr hwn a ddaeth wedi hyny yn nodedig ar gyfrif ei wres crefyddol; Mary Jones a Mary Evans. Gwnaed parotoadau at gael capel newydd, a chafwyd tir gan R. Knight, Tythegston Court—clerigwr fel yr ydym yn tybied—ac y mae y weithred wedi ei dyddio Awst 25ain, 1827. Yr ymddiriedolwyr oeddynt Meistri W. Jones, Penybont; T. Davies, Abertawy; J. Hughes, Maendy; J. Davies, Castellnedd; R. Jenkins, Penybont, a B. Martin, Merthyrmawr. Gosodwyd y gareg sylfaen i lawr gan Mr. Herbert, Medi 4ydd, 1827, ac agorwyd y capel Mehefin 27ain a'r 28ain, 1828, ac yr oedd deunaw o weinidogion yn bresenol. Galwyd ef Hope Chapel.* Llafuriodd Mr. Herbert yma am ddeunaw mlynedd, heb weled ond ychydig ffrwyth; ac ymddibynai am ei gynhaliaeth ar y fasnach a ddygai yn mlaen. Nid oedd ei iechyd ond gwan ar y goreu, ac yn haf 1845, aeth i gymanfa Cwmaman, ei ardal enedigol, gan ddisgwyl y gwnaethai cyfnewid awyr les iddo; ond ni ddychwelodd mwy i'w dŷ. Bu farw yn nhy ei frawd Hopkin Herbert, a'r tŷ lle y ganwyd ac y magwyd yntau, Gorphenaf 7fed, 1845, yn 50 oed. Yn gynar yn y flwyddyn ganlynol, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Hopkins, o Lanelli, yr hwn a fuasai am ychydig yn yr ysgol yn Crwys, ac urddwyd ef Mawrth 5ed, 1846. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Jones, Penybont; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. Evans, Castellnedd; dyrchafwyd yr urddweddi gan Mr. W. Morris, Glandwr; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Rees, Llanelli, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Mynyddbach.† Bu Mr. Hopkins yma dros amryw flynyddoedd, ond nid rhyw lewyrch mawr a fu ar ei weinidogaeth yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf. Bu yn dra anhapus yn ei briodas, yr hyn a effeithiodd yn fawr ar ei ddefnyddioldeb. Symudodd oddiyma i Elim, Penywaun, sir Fynwy, lle y bu fel y gwelsom nes yr ymwrthododd yr eglwys yno ag ef oblegid iddi ddeall ei fod yn ceisio ymwthio i'r Eglwys Sefydledig. Yn Hydref, 1854, dechreuodd Mr. Isaac Jones, Carmel, Llansadwrn, sir Gaerfyrddin, ei weinidogaeth yma, ac y mae yn parhau i lafurio yn y lle hyd yn hyn gyda derbyniad a pharch. Nid ydym yn cael i neb ddechreu pregethu yma, ond Thomas Thomas, yr hwn a fu am ysbaid yn athrofa Ffrwdyfal, ac a urddwyd yn Hebron, Lleyn, ac y mae yn awr yn Llanfair-cludoge, sir Aberteifi.

* Allan o gofiyfr Mr. H. Herbert. † *Diwygiwr*, 1846. Tu dal. 123.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

HERBERT HERBERT. Ganwyd ef yn mis Mehefin, 1795, mewn amaethdy o'r enw Nantmeel, yn agos i'r man y mae capel Gibeah, Brynaman yn awr. Yr oedd ei rieni, Rhys ac Ann Herbert, yn bobl grefyddol, ac yn aelodau o'r eglwys yn Nghwmaman dan ofal Mr. J. Davies, Alltwen, lle hefyd y derbyniwyd Herbert Herbert pan yn ddwy-ar-bymtheg oed. Efe oedd yr ieuengaf o'r plant, a chan nad oedd ond gwan o gyfansoddiad, a'i rieni yn gysurus arnynt yn eu hamgylchiadau, rhoddwyd iddo well addysg nag a roddid yn gyffredin i blant yn y dyddiau hyny. Gan fod ynddo dalent at ddysgu a thuedd at bregethu, anogwyd ef i hyny yn ddioed wedi ei dderbyn yn aelod. Aeth i'r ysgol at Mr. Howells, Baran, ac wedi hyny i Abertawy, ac yn y flwyddyn 1817, derbyniwyd ef i'r athrofa yn Llanfyllin, ac arosodd yn yr athrofa hyd y flwyddyn 1821. Derbyniodd alwad gan yr eglwys Gymreig oedd wedi ei sefydlu yn Barker's Hall, Bristol; ac urddwyd ef yno Awst 30ain, 1821. Yr oedd Dr. Rayland, Mr. W. Thorp, Mr. G. Hughes, Groeswen, a Mr. D. Davies, Penywaun, yn gweinyddu yn yr urddiad. Llafuriodd yn egniol i gael capel yno, ac adeiladwyd un a gyfrifid y pryd hyny yn gyfleus iawn yn Lower Castle Street, ac agorwyd ef Ionawr 8fed, 1823. Ymroddodd Mr. Herbert cyn belled ag y daliodd ei nerth; ond yn nechreu y flwyddyn 1826, symudodd i'r Drefnewydd, lle y treuliodd weddill ei oes, ac fel y crybwyllasom, bu farw ar ei ymweliad a'i ardal enedigol yn nglyn a chymanfa Cwmaman yn haf 1845, a chladdwyd ef yn mynwent Gibeah. Yr oedd yn dra gofalus am bob peth a berthynai i'r enwad; ac yn meddu llawer iawn o gymhwysder i ymdrin ag amgylchiadau allanol yr achos. Pregethai yn oleu a gafaelgar, ac yr oedd yn hawdd deall arno fod y pethau a draddodai wedi ymafael yn ddwfn yn ei ysbryd ef ei hun. Yr oedd gwasanaethu crefydd yn hyfrydwch ei galon, a pharhaodd i wneyd hyny nes y galwyd arno i dderbyn gwobr y "gwas da a ffyddlon."

## CEFNCRIBWR.

Mae y lle hwn yn mhlwyf Llandidwg, (*Tythegston,*) ac o fewn pedair milldir i Benybont-ar-ogwy, ar yr ochr orllewinol. Er fod amryw Annibynwyr yn preswylio yn yr ardal er yn foreu, etto ni wnaed un cynyg i gychwyn achos yma hyd y flwyddyn 1827, pan y daeth un David Thomas —yr hwn oedd ar y pryd yn dilyn ei alwedigaeth fel dilledydd—yma i bregethu. Yr ydym eisioes wedi crybwyll am dano yn nglyn a Bethel, Llansamlet, lle yr urddwyd ef, ac o'r lle hefyd yr ymfudodd i'r America. Bu ymweliadau David Thomas a'r ardal yn dderbyniol gan, ac yn fendithiol i'r trigolion, fel y penderfynwyd adeiladu capel; ac aeth Evan Jenkins, Ffynoniagofawr, yr hwn oedd yn aelod yn Llangynwyd, a David Francis, yr hwn sydd etto yn fyw, i'r Werndew, at oruchwyliwr *Dunraven Castle* i ymofyn am dir i adeiladu, yr hyn a ganiatawyd iddynt. Meddyliwyd am ddarn o dir yn uwch i fyny na'r lle y mae y capel presenol, ond oblegid fod rhywun yn ei hawlio methwyd a'i gael, a sefydlwyd ar y fan y mae y fynwent yn bresenol. Nid oedd ond tir gwyllt yn ochr y ffordd yn llawn eithin a dyrysni, ond codwyd capel arno trwy gydweithrediad yr ardalwyr

Digitized by Google

tua'r flwyddyn 1828. Galwyd ef Siloam. Yr oedd Evan Jenkins, Ffynoniago yn un gwresog iawn ei deimladau, a llawer gwaith y clywyd ef yn nghanol ei hwyliau gorfoleddus yn gwaeddi, "Bendigedig, dyma y llwyn eithin ar dân," "Pwy feddyliasai y gwelsid y llwyn eithin yn fflam?" mewn cyfeiriadau at ansawdd ddreiniog ac eithinog y lle y codwyd y capel bach arno. Yn fuan wedi agor y capel corpholwyd ynddo eglwys, er nad oeddynt ond ychydig ar y dechreu, a chymerwyd ei gofal gan Mr. William Morgan, Llwyni, yr hwn a fu yn bwrw golwg drosti hyd y flwyddyn 1840. Cynyddodd yr achos yn raddol yn nhymor gweinidogaeth Mr. Morgan. Nid oedd yr ardal ond teneu ei thrigolion hyd nes y cychwynwyd yma weithfeydd glo a haiarn; ond ansefydlog iawn y bu y rhai hyny. Wedi i Mr. Morgan roddi y lle i fyny, cymerodd Mr. W. Thomas ofal yr eglwys mewn cysylltiad a'r Rock, a bu yn cyrchu yma am fwy na phedair blynedd, a chryfhaodd yr achos yn fawr yn y cyfamser, ac yr oedd y capel wedi ei helaethu, er nad oedd etto ond adeilad hir-gul heb ynddo ddim ond pulpud a meingciau. Rhoddodd Mr. Thomas ofal y lle i fyny yn nechreu y flwyddyn 1845, a rhoddodd yr eglwys yn fuan ar ol hyny alwad i Mr. John Thomas, aelod o Gedeon, Penfro, ond a fuasai yn fyfyriwr yn Narberth, ac urddwyd ef Awst 14eg a'r 15fed, 1845. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. S. Thomas, Trefdraeth; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. Evans, Castellnedd; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Morris, Glandwr; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Penybont, ac i'r eglwys gan Mr. W. Griffiths, Llanharan.* Bu Mr. Thomas yma am bum' mlynedd yn drà defnyddiol, nes y derbyniodd alwad o'r Graig, Rhymni, ac y symudodd yno. Cynyddodd yr eglwys yn y cyfnod yma nes bod yr aelodau yn rhifo 112, ac yn yr adeg hono y codwyd capel ar Fynyddcynffig, ac y gollyngwyd mwy na deg-ar-hugain o aelodau yno i ddechreu yr achos. Yn ddioed wedi ymadawiad Mr. Thomas, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Griffith Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn Mhontypridd, a dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn Mawrth, 1850; ac y mae wedi llafurio yma bellach gyda derbyniad cyffredinol am yn agos i ddwy-flynedd-ar-hugain. Cyn hir wedi sefydliad Mr. Jones yma penderfynwyd adeiladu yma gapel newydd, yr hyn a wnaed yn 1853, ac agorwyd ef Hydref 25ain a'r 26ain, 1854. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri O. Owens, Brynmenyn; J. Thomas, Bryn; J. Evans, Maendy; T. Thomas, Glandwr; E. Griffiths, Abertawy; D. Davies, a J. Mathews, Castellnedd, ac L. Powell, Caerdydd. Adeiladwyd y capel newydd y tu allan i glawdd y fynwent, ar y pen dwyreiniol iddi; ac y mae y lle y safai yr hen gapel ar ganol y fynwent yn awr wedi ei lenwi a beddau. Costiodd y capel dros 500p., ond y mae y ddyled agos oll wedi ei thalu. Bu yr eglwys ar un adeg yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones yn 125 o aelodau, ond wedi i waith haiarn Cefncwsg sefyll, ac i'r gweithfeydd glo yn yr ardal fyned yn hynod farwaidd, ymfudodd llawer i America ac Awstralia, heblaw y rhai a symudodd i ranau eraill o'r wlad hon, fel nad yw rhifedi yr aelodau yn bresenol ond 89. Bu yma lawer o ffyddloniaid yn nglyn a'r achos o bryd i bryd—David Rees, Ty'nycaeau, oedd ddiacon ffyddlon a dylanwadol. Canmolir Thomas Jones, Kildidy, fel diacon diwyd a gofalus; ac yn enwedig fel un a ragorai mewn arfer duwioldeb gartref. Adwaenid Thomas Rees, Machine, gan lawer fel dyn

* *Diwygiwr*, 1855. Tu dal. 282.

Digitized by Google

siriol a charedig, a bu am oes hir yn ddosbarthwr llyfrau yn y gynnulleidfa, ac nid yn aml y ceid ei ragorach. John Morgan oedd ddyn tawel a phwyllog, ac a ddewiswyd yn ddiacon yn yr eglwys, ond bu farw gan adael gweddw ac un-ar-ddeg o blant i alaru ar ei ol. Y diaconiaid presenol ydyw William David a Rees Rees.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Ogmore Davies, yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa swydd Lancaster. Dechreuodd bregethu yn Mehefin, 1866.*

## MYNYDD CYNFFIG.

Mae y lle hwn yn mhlwyf Llandidwg (*Tythegston*), o fewn tri chwarter milldir i'r gorllewin o Gefncribwr. Nid oedd yma ond cymydogaeth foel, anmhoblog, nes y cychwynwyd cloddfa y Bryndu tua'r flwyddyn 1837, a chyda hyny daeth llawer o ddyeithriaid i'r lle, ac adeiladwyd yma nifer o dai. Dechreuwyd cynal cyfarfod gweddi yn wythnosol yn nhŷ un William Walter, a ddaeth yma o Gaerdydd. Aelod gyda'r Wesleyaid oedd, ond wedi symud yma ymunodd a'r eglwys yn Siloam, Cefncribwr, ac yr oedd yn un o'r rhai mwyaf awyddus am gychwyn achos ar Fynydd Cynffig. Byddai nifer o hen frodyr Cefncribwr yn arfer cyrchu i'r cyfarfodydd gweddio yn nhŷ William Walter; a choffeid gan rai o honynt hyd ddiwedd eu hoes y gwleddoedd breision a fwynhaent ynddynt. Yn fuan ar ol hyn, dechreuwyd yma Ysgol Sabbothol, a bu yn cael ei chynal yn olynol yn nhai Noah David, John Jones, a Benjamin Jones, nes y cafwyd lle sefydlog iddi ar ol codi y capel. Pregethwyd llawer hefyd o dŷ i dŷ yn yr ardal, gan Meistri J. Davies, Bryn; David Griffiths, Castellnedd, ac eraill; ac yn enwedig gan Mr. J. Thomas, ar ol ei sefydliad yn Cefncribwr. Trwy gydsyniad yr eglwys yn Nghefncribwr, penderfynwyd cael capel yn y lle, a chafwyd tir i'w osod i lawr ar etifeddiaeth Margam. Ni fwriedid ef ar y cyntaf ond i wasanaethu fel ysgoldy, ac oblegid hyny ni roddwyd eisteddleoedd ynddo. Gwnaed ef yn 34 troedfedd wrth 29 y tu fewn i'r muriau, a chostiodd heb gyfrif traul y cludiad—yr hyn a wnaed gan yr ardalwyr yn rhad—ddau cant o bunau. Cynhelid yma bob moddion yn rheolaidd, ond ar y 26ain o Awst, 1849, corpholwyd yma eglwys cynwysedig o 77 o aelodau, 31 o ba rai a ollyngwyd trwy lythyrau o Cefncribwr, a'r 46 eraill a dderbyniwyd o'r newydd a'r y pryd. Yr oedd y geri marwol ar yr adeg yn y wlad, a diangodd ugeiniau yn yr ardal i'r eglwys rhag ofn y fflangell; ond wedi i'r drygfarn gael ei symud aeth llawer o honynt yn ol i'w hen lwybrau. Aeth yr achos er hyny yn mlaen gyda mesur o lwyddiant, fel yn y flwyddyn 1852, y gwelwyd yn angenrheidiol rhoddi oriel yn y capel, a'i lenwi ag eisteddleoedd, ac ail agorwyd ef Tachwedd 17eg a'r 18fed y flwyddyn hono, ac yr oedd yn aros o ddyled arno dros 500p., rhwng yr hen a'r newydd pan agorwyd ef. Erbyn y flwyddyn 1864, yr oedd yr holl ddyled wedi ei thalu, ac ar y 29ain o Fai, y flwyddyn hono, cafwyd yma gyfarfod Jubili taliad y ddyled. Yn y flwyddyn 1870, codwyd ysgoldy prydferth yn ymyl y capel trwy draul o 170p., ac y mae rhan o'r ddyled wedi ei thalu. Ysigwyd cryn lawer ar y gangen hon, fel ar y fam-eglwys yn Nghefncribwr, trwy fethiant rhai o weithfeydd yr ardal, ac arafwch eraill, yr hyn a achosodd

* Llythyr Mr. Jones, Cefncribwr.

Digitized by Google

lawer iawn o symudiadau. Bu yr eglwys ar un adeg yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones yn 225 o nifer, ond ar hyn o bryd nid yw yn fwy na 120, er y cyfrifir hefyd mai yma y mae y gynnulleidfa luosocaf yn y lle.* Mae yr achos yma o'r dechreuad wedi bod o dan yr un weinidogaeth a Chefncribwr, ac felly y mae yn parhau. Yn mysg y ffyddloniaid a fu yn yr eglwys hon, y rhai a hunasant, gellir crybwyll enwau, William Rees, yr hwn oedd un o'r diaconiaid mwyaf heddychol a boneddigaidd; John Yandell, tirion a serchog, a John Jones, ffyddlon a selog iawn. Y diaconiaid presenol ydynt, William Jenkins, Bryn; David Davies, Llangeinydd; Jenkin Jenkins, Waterhall; Gwilym David, a Rees Jenkins, Pentref.

Codwyd y rhai a ganlyn i bregethu yn yr eglwys hon:—

William Rees, Bryndu. Dechreuodd bregethu yn 1859, ond bu farw Mai 21ain, 1862.

Thomas Beynon. Dechreuodd bregethu yn 1859, ac aeth oddiyma i Trefgarn, sir Benfro.

Thomas G. Jones, (Tafalaw). Mab Mr. Jones, y gweinidog. Dechreuodd bregethu yn 1859. Ymfudodd i America, lle yr urddwyd ef, ac yno y mae etto.

Evan C. Davies. Dechreuodd bregethu yn 1863. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu; ac y mae yn awr yn Llanerchymedd.

William B. Marks. Dechreuodd bregethu yn 1866. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin; ac y mae yn awr yn Salem, gerllaw Aberystwyth.

Derbyniwyd yma amryw eraill, ond gan mai ar ol myned oddiyma y dechreuasant bregethu, yn nglyn a'r lleoedd hyny y crybwyllwn am danynt.

## PENYBONT-AR-OGWY.

Dechreuwyd yr achos a gynelir yn awr yn y Tabernacl yn y dref hon, gan yr enwog Samuel Jones, A.M., Brynllywarch, yn fuan wedi iddo gael ei droi allan o Eglwys Llangynwyd, yn 1662. Yn Nghildeudy, yn agos i'r Goetrehen, anedd Rees Powell, Ysw., tad-yn-nghyfraith Mr. Jones, y cynelid y gwasanaeth am lawer o flynyddau. Yr oedd yma addoliad cyson yn cael ei gadw yn y flwyddyn 1669, ac mae yn debygol am tua saith mlynedd cyn hyny.† Ar y 30ain o Ebrill, 1672, cymerwyd trwyddedau ar Cildeudy a Brynllywarch at bregethu, ac ar yr un dydd cafodd Mr. Jones drwydded i bregethu yn y tai hyn.‡ Yr oedd Mr. Rees Powell wedi bod yn Sirydd Morganwg ac yn ynad heddwch yn amser y werin-lywodraeth, ac yn ddyn o gryn gyfoeth a dylanwad, a diau y gallasai gael ei gyfrif yn mysg boneddigion y sir, a chadw ei swydd fel ynad heddwch, oni buasai iddo gael ei orfodi gan argyhoeddiad cydwybod i fwrw ei goelbren yn mysg yr Ymneillduwyr erlidiedig. Bu farw y dyn da hwn Awst 16eg, 1672, a'i wraig, yr hon fel y tybir, oedd ferch i Morgan Jones, D.D., trysorydd esgobaeth Llandaf, a fu farw Ionawr 29ain, 1694, yn 86 oed. Cadwodd hi ei thy yn addoldy hyd derfyn ei hoes, ac yno y bu yr eglwys yn ymgynull am fwy nag ugain mlynedd ar ol ei marwolaeth. Bu yr eglwys hon dan ofal gweinidogaethol Mr. Samuel Jones hyd derfyn ei oes ddefnyddiol yn 1697. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth, ac fel athraw yn yr athrofa a sefydlesid ganddo, gan Mr. Rees Price, Ty'nton, gwr ieuangc

* Llythyr Mr. Jones, Cefncribwr. † *The Lambeth MSS.* ‡ *State papers.*

Digitized by Google

genedigol o'r gymydogaeth, ac a ddygesid i fyny mewn dysgeidiaeth yn athrofa Brynllywarch. Cadwodd Mr. Price yr athrofa yn mlaen yn gystal a gofalu am yr eglwys hyd y flwyddyn 1704, pryd y sefydlodd Mr. William Evans athrofa yn Nghaerfyrddin. Mae yn ymddangos i'r *athrofa* y pryd hwnw gael ei symud i Gaerfyrddin, ond parhaodd Mr. Price am flynyddau lawer wedi hyny i roddi addysg i bregethwyr ieuaingc, a bu yr eglwys dan ei ofal hyd derfyn ei oes yn 1739. Felly efe a fu yn weinidog yr eglwys hon am ddwy-flynedd-a-deugain. Nid oes genym unrhyw fanylion o hanes yr eglwys yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones na Mr. Price. Buwyd yn addoli yn Brynllywarch a Childeudy hyd farwolaeth Mr. Jones; ac yn Nghildeudy, both bynag am Frynllywarch, hyd ryw amser ar ol y flwyddyn 1715. Nis gwyddom pa bryd y rhanwyd y gynnulleidfa ac yr adeiladwyd y capeli yn Mhenybont a'r Bettws. Mae yn debygol i hyny gymeryd lle ryw amser rhwng 1715 a 1720. Yr oedd Mr. Rees Price, fel ei ragflaenydd enwog Mr. S. Jones, yn ddyn parchus a chyfrifol iawn fel ysgolhaig a boneddwr o syfyllfa well na'r cyffredin; ond nid ymddengys fod y gynnulleidfa dan ei ofal yn lluosog pan yr oedd yn un, nac wedi iddi gael ei rhanu yn ddwy. Ychydig deuluoedd gwell eu hamgylchiadau na'r cyffredin oedd eu nerth yn fwy na'u lluosogrwydd. Bu Mr. Price farw yn 1739, a dilynwyd ef yn y weinidogaeth yn Mhenybont a'r Bettws gan Mr. Lewis Jones, yr hwn a fuasai cyn hyny yn weinidog yn Llanedi, sir Gaerfyrddin, ac yn y Drewen, sir Aberteifi. Nis gwyddom pa flwyddyn y dechreuodd Mr. Jones ei weinidogaeth yma, ond yr ydym yn tybied iddo ddyfod yma yn mhen blwyddyn neu ddwy wedi marwolaeth Mr. Price. Mae yn ymddangos i'r achos adfywio yn fawr ac i'r cynnulleidfaoedd gynyddu i raddau helaeth dan weinidogaeth gyffrous a phoblogaidd Mr. Jones. Byddai ef yn pregethu dair gwaith bob Sabboth rhwng Penybont a'r Bettws, ac am dri o'r gloch bob prydnhawn dydd Sadwrn yn Mhenybont, er mwyn i'r bobl a ddeuent i'r farchnad gael cyfleusdra i wrando yr efengyl. Dywedir y byddai yn cerdded o'i dŷ i'r capel trwy y farchnad a'i Fibl yn ei law a'i glogyn du, yn yr hwn y pregethai, am dano. Tynai hyny sylw y bobl, a dilynai llawer ef i'r capel gan adael eu prynu a'u gwerthu am yr awr hono er mwyn gwrandaw am "Y gwin a'r llaeth heb arian ac heb werth." Yr oedd Mr. Jones yn ŵr rhagorol i esbonio yr Ysgrythyrau. Cynaliai gyfarfod bob wythnos i esbonio y Bibl, a llwyddodd i wneyd llawer o bobl ei ofal yn "gedyrn yn yr Ysgrythyrau."

Ar ol bod yma yn llafurio gyda diwydrwydd a llwyddiant nodedig am fwy nag ugain mlynedd, cyfododd anghydfod rhwng Mr. Jones a Samuel Price, Ysw., mab Mr. Rees Price, yr hen weinidog, yr hwn a derfynodd yn ei ymadawiad a'r lle er galar dirfawr i lawer o'r bobl. Mae yn ymddangos fod Mr. S. Price wedi cael ei osod yn ymddiriedolwr ar blentyn amddifad, a chafodd ei gyhuddo o ddefnyddio rhyw gyfran o arian yr amddifad. Pa un a oedd sail i'r cyhuddiad ai nid oedd nis gwyddom. Pa fodd bynag, daeth y peth yn fater eglwys, a throdd Mr. Jones, y gweinidog, yn erbyn Mr. Price. Galwyd gweinidogion cymydogaethol i gyfrynga rhyngddynt. Daeth yno nifer o weinidogion yn nghyd Gorphenaf 14eg, 1763. Cawn y cofnodiad canlynol yn nydd-lyfr Mr. Phillip Dafydd, Penmain, gyda golwg ar y cyfarfod gofidus hwn:—"Gorphenaf 14eg, 1763. Bum heddyw yn Mhenybont mewn cyfarfod gweinidogion, ac yr oedd yno lawer o weinidogion; deunaw neu bedwar-ar-bymtheg feddyliwyf. Pregethodd Mr. John Powell, oddiwrth Galatiaid iii. 26. Yr oedd yno

anghydfod ac ymryson blin rhwng Mr. Lewis Jones a Samuel Price, Yswain, fel mai trwy lawer o anhawsder y gallodd y gweinidogion drafod yr achos o gwbl, ac oni buasai i Mr. Price amlygu y fath dymer dda a gostyngeiddrwydd nis gallesid gwneyd dim yno. Nis gallaswn i lai na theimlo dros y ddwy blaid; dros Mr. Price o herwydd iddo gael cymaint o'i boeni a'i aflonyddu yn ei feddwl gan ledawgrymiadau ac enllibau dynion cenfigenllyd a maleisus; a thros Mr. Jones o herwydd iddo fod mor wan a chredu y fath gyhuddiad disail am Mr. Price, a sefyll mor benderfynol gyda y blaid wrthwynebol er mawr niwed iddo ei hun a'r achos." Canlyniad yr ymryson fu i Mr. Jones orfod ymadael yn mhen mis neu ddau ar ol hyn. Ni bu nemawr o ymryson erioed heb fod bai o'r ddwy ochr, ac felly yn ddiau yr oedd yn yr amgylchiad hwn.

Wedi ymadawiad Mr. Jones, bu yr eglwysi yn Mhenybont a'r Bettws yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1765, pryd y rhoddasant alwad i Mr. Evan Williams, Llanuwchllyn. Yr oedd Mr. Williams yn ddyn llafurus ac yn bregethwr poblogaidd. Parhaodd i lafurio yma am bymtheng mlynedd, ac yn 1780, derbyniodd alwad o'r Bala, lle y bu farw yn 1786. Yn 1782, rhoddwyd galwad i Mr. Samuel Price, o athrofa Caerfyrddin, yr hwn a fu yma hyd ei farwolaeth yn 1806. Nid oes genym unrhyw hanes i'w roddi am sefyllfa yr eglwysi yn nhymor gweinidogaeth Mr. Price, amgen na bod pob peth yn heddychol a chysurus ynddynt, a bod y gweinidog mewn parch mawr gan bobl ei ofal a'r ardalwyr yn gyffredinol.

Yn fuan wedi marwolaeth Mr. Price, aeth pethau yn annymunol iawn yma o herwydd fod y bobl yn methu cyduno yn newisiad gweinidog. Yr oedd Mr. Walter Coffin, yr unig ymddiriedolwr yn ngweithredoedd y capeli oedd yn fyw, ac ychydig o'r bobl gydag ef, dros roddi galwad i Mr. James Griffiths, o athrofa Caerfyrddin, wedi hyny o Dyddewi, a mwyafrif dirfawr y ddwy eglwys dros Mr. Thomas Edwards, o athrofa Gwrecsam. Barnai Mr. Coffin a'i blaid fod Mr. Griffiths yn well ysgolhaig, ac yn fwy doeth a boneddigaidd na Mr. Edwards, ond barnai y lluaws mai Mr. Edwards oedd y dyn cymhwysaf o herwydd ei fod yn fwy doniol ac yn pregethu golygiadau Calfinaidd yn fwy noeth. Pan welodd Mr. Griffiths fel yr oedd pethau yn sefyll, safodd draw a derbyniodd alwad o Fachynlleth, ond glynodd Mr. Edwards am ychydig gyda'i blaid, a'r canlyniad fu i'r eglwysi rwygo, ac i gorph y gynnulleidfa fyned allan o'r ddau gapel yn Mhenybont a'r Bettws. Yr oedd gan Mr. Coffin feddiant o'r capeli fel yr unig ymddiriedolwr, a chan fod ei fab, Mr. Walter Coffin, yn Undodwr, cafodd gan yr hen ŵr ei dad, er nad oedd o'r gred hono, i wahodd pregethwyr Undodaidd i'r capeli, ac yn meddiant yr Undodiaid y maent, yn nghyd a'r gwaddol perthynol iddynt, hyd y dydd hwn. Mae yn ddiameu y gallesid rhagflaenu y rhwyg hwn oni buasai annoethineb y bobl, yn cael eu cefnogi yn eu gwylltineb gan amryw o weinidogion y sir, y rhai a ddygent sel benboeth dros uchel-Galfiniaeth, ac a gyhuddent bob gweinidog a elai i'r capeli at Mr. Coffin a'i blaid o fod yn Arminiaid. Pe buasid yn arfer ychydig fwy o bwyll a doethineb, gallasai y capeli a'r eiddo perthynol iddynt fod yn meddiant yr Annibynwyr hyd y dydd hwn.

Wedi i bobl Penybont fyned allan o'r capel buont am tua thair blynedd yn addoli mewn hen ysgubor yn mhen uchaf y Casnewydd-ar-ogwy. Yn y flwyddyn 1809, dechreuwyd adeiladu y Tabernacl, yr hwn a agorwyd Mehefin 15fed, 1810, pryd y pregethodd Meistri W. Williams, Drefnewydd;

Digitized by Google

G. Hughes, Groeswen; J. Davies, Alltwen, a D. Davies, Abertawy. Yr oedd yr eglwys cyn hyn wedi dewis Mr. William Jones, o athrofa Gwrecsam yn weinidog, ac yr oedd wedi cael ei urddo ar y 29ain o Fawrth, 1810. Bu Mr. Jones yn gweinidogaethu yma, yn Brynmenyn, y Coety, a Bethel, hyd derfyn ei oes ddefnyddiol yn 1847. Er na ddarfu i Mr. Jones gasglu o'i gylch gynnulleidfaoedd lluosog yn un o'r pedwar lle, ni bu un gweinidog yn Nghymru, mewn un oes, yn fwy parchus gan fyd ac eglwys nag efe. Er nad oedd ei ddoniau yn swynol i'r werin ddifeddwl, yr oedd ei weinidogaeth yn fwyd cryf a blasus i bob gwrandawr meddylgar.

Yn nechreu y flwyddyn 1848, rhoddodd yr eglwysi yn Mhenybont a'r Coety alwad i Mr. John David Williams, o athrofa Homerton, Llundain, ac urddwyd ef yma Chwefror 23ain a'r 24ain, yn y flwyddyn hono. Gweinyddwyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan Meistri Watkins, Llwyni; Rees, Siloa; Evans, Penbre; Stephens, Sirhowy; Davies, Llanelli, Brycheiniog; Evans, Castellnedd; Jones, Abertawy; Griffiths, Llanharan; Owens, Zoar; Powell, Caerdydd, ac eraill. Yr oedd Mr. Williams yn ŵr ieuangc dysgedig, doniol, a gweithgar anghyffredin, ac fel yr oedd yn naturiol disgwyl parodd ei sefydliad yma gyffroad ac adfywiad yn yr eglwys a'r gynnulleidfa. Yn fuan wedi ei urddiad, dechreuodd alw sylw at yr angenrheidrwydd o gael capel newydd. Er mai yn 1809 yr adeiladesid y capel gyntaf, ac iddo gael ei adgyweirio, neu ei ailadeiladu drachefn yn 1828, yr oedd erbyn 1849 wedi myned mor wael yr olwg arno fel yr oedd yn annheilwng o dref o fath Penybont o ran maint ac agwedd. Dichon i Mr. Williams gyffroi i gychwyn gyda'r capel newydd cyn fod y bobl yn gyffredinol yn ddigon addfed i hyny, yr hyn a achlysurodd fesur o deimladau anhyfryd. Pa fodd bynag, efe a aeth a'r gwaith yn mlaen yn 1850, a chafodd y capel presenol ei orphen a'i agor yn Hydref, 1851. Yn 1852, derbyniodd Mr. Williams alwad o Ebenezer, Caerdydd, a symudodd yno. Bu yr eglwysi yn Mhenybont a'r Coety o'r pryd hwnw hyd 1857 heb weinidog sefydlog. Yn y flwyddyn hono rhoddasant alwad i Mr. Rhys Gwesyn Jones, Rhaiadr, ond ni arosodd ef yma nemawr dros flwyddyn. Yn 1858, symudodd i Bethesda, Merthyr. Yn 1859, rhoddwyd galwad i Mr. John Bowen Jones, B.A., ac y mae ef wedi cadw ei le yn deilwng yma o'r pryd hwnw hyd yn bresenol. Yn 1866, adeiladwyd ysgoldy cyfleus y tu cefn i'r capel gwerth 250p. Ni bu ar un cyfnod o hanes yr achos hwn agwedd fwy dymunol ar ei amgylchiadau allanol nag sydd arno yn bresenol. Y mae yma gapel hardd ac ysgoldy cyfleus ac agos yn rhyddion o ddyled; ac y mae y gweinidog yn ddyn dysgedig a galluog, ac yn barchus fel y cyfryw gan fyd ag eglwys; ond mae lledaeniad cyflym yr iaith Saesnaeg yn mysg plant ac ieuengctyd y dref yn milwrio yn dost yn erbyn yr achos hwn, fel pob achos Cymreig arall yn y dref.

Mae nifer o bregethwyr enwog wedi cael eu cyfodi yn yr eglwys hon. Dichon i amryw gyfodi yma yn amser Mr. Jones, Byrnllywarch; Mr. Price, a Mr. Lewis Jones, nad ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i'w henwau.

Rees Price, yr ail weinidog yw y cyntaf a godwyd yma cyn belled ag y gwyddom ni. Rhoddir ei gofiant ef yn nes yn mlaen.

Samuel Price. Brawd Rees Price oedd ef. Nid ydym yn gwybod pa flwyddyn y ganwyd ef. Mae yn dra sicr iddo fod am rai blynyddau dan addysg ei weinidog, Mr. Jones. Bu o 1699 hyd 1702, yn athrofa Mr. Thomas Jolly, yn Attercliffe, gerllaw Sheffield. Yn 1703, cafodd alwad i fyned yn gynorthwywr i'r enwog Dr. Isaac Watts i Lundain. Bu yno

Digitized by Google

am ddeng mlynedd yn gynorthwywr, ac yn 1713, cafodd ei urddo yn gyd-weinidog a'r Dr., ac felly y bu hyd farwolaeth y gwr enwog, a pharhaodd yn unig weinidog yr eglwys o amser marwolaeth y Dr. hyd ei farwolaeth ei hun, yr hyn a gymerodd le Ebrill 21ain, 1756. Claddwyd ef yn ymyl ei hoff gyfaill, Dr. Watts, yn Bunhille Filds, lle y mae beddfaen prydferth yn dangos y fan y gorphwysa.

Yr oedd Samuel Price yn un o'r gweinidogion parchusaf yn ei oes. Cyfrifid ef yn un nodedig am ei arafwch, ei gallineb, ei ddefnyddioldeb fel pregethwr, a'i effeithiolrwydd digyffelyb mewn gweddi. Nid ymddengys iddo ef, mwy na'i gyfaill mynwesol Dr. Watts, fyned i'r sefyllfa briodasol. Yn ei ewyllys ddiweddaf gadawodd lawer, os nad yr oll o'i lyfrau, i'w rhanu rhwng gweinidogion Cymru. Enwa Mr. Phillip Dafydd, Penmain, yn ei ddydd-lyfr, y cyfrolau a ddaethant i'w ran ef. Er fod Mr. Price yn ddyn dysgedig a galluog iawn, ni oddefai ei wylder iddo gyhoeddi llyfrau. Yr oll o'i waith a argraffwyd yw tair-ar-ddeg o bregethau, ac y mae naw o'r rhai hyny i'w cael yn y cyfrolau gwerthfawr a elwir *The Berry Street Sermons*.

Richard Price, D.D., LL.D., F.R.S. Mab Mr. Rees Price, y gweinidog, oedd y gwr enwog hwn. Ganwyd ef yn Ty'nton, Chwefror 22ain, 1723. Pan yn lled ieuangc anfonwyd ef i ysgol Ramadegol Mr. Samuel Jones, Capel Seion, sir Gaerfyrddin. Yn y flwyddyn 1739, anfonwyd ef i athrofa y Llwynllwyd, dan olygiaeth Mr. Vavasor Griffiths. Yn mhen ychydig fisoedd wedi iddo fyned yno bu farw ei dad, ac yn mhen tua chwe' mis ar ei ol bu farw ei fam, ac felly cafodd ei adael yn amddifad o dad a mam pan yn ddwy-ar-bymtheg oed. Wedi colli ei rieni, cafodd trwy ddylanwad ei ewythr, Mr. Samuel Price, ei dderbyn i athrofa Mr. Eames yn Llundain, lle y bu am bedair blynedd. Bu wedi hyny yn weinidog yn olynol yn Stoke Newington, Old Jewry, ac Old Gravel Pitt. Yr oedd Dr. Price yn enwog fel pregethwr a duwinydd, ond yr oedd lawer o flynyddau cyn ei farwolaeth wedi ymwrthod a'r athrawiaeth a gredid ac a bregethid gan ei dad a'i ewythr, a choffeidio golygiadau yr Ariaid. Ond fel athronydd, gwleidiedydd, a *Mathmatician* y darfu iddo ef anfarwoli ei enw. Yn y pethau hyny nid oedd un dyn yn ei oes ef yn y deyrnas, os oedd neb yn holl Ewrop, yn uwch nag ef. Edrychid i fyny ato gan brif ddysgedigion Lloegr, Ffrainc, ac America. Dichon na ddarfu i un Cymro erioed ddringo i safle uwch yn mysg dysgedigion nag ef. Bu farw yn haf y flwyddyn 1791, yn y nawfed-flwyddyn-a-thriugain o'i oed.

Thomas Jones. Ganwyd ef yn Nghwmnedd, ond yn Mhenybont y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig, ac y dechreuodd bregethu yn amser Mr. Evan Williams. Derbyniwyd ef yn fyfyriwr i'r athrofa yn Abergavenny, Ebrill 4ydd, 1774. Cafodd ei urddo yn Ottery St. Mary, yn Mai, 1780. Yn y flwyddyn ganlynol symudodd i Cholford, sir Gaerloew, lle y treuliodd weddill ei oes yn barchus a defnyddiol. Bu farw Ionawr 10fed, 1820, yn 72 oed, a chladdwyd ef yn mynwent hen capel Cholford, lle y mae beddfaen hardd yn dangos y fan y gorphwysa ei lwch.

David Williams. Mab Mr. Evan Williams, y gweinidog. Derbyniwyd ef i'r athrofa yn Abergavenny, Ebrill 3ydd, 1775. Bu am lawer o flynyddau yn weinidog yn sir Gaerefrog. Yr oedd yn fyw mor ddiweddar a'r flwyddyn 1820. Nid ydym yn gwybod ychwaneg o'i hanes.

John Rees. Gwelir ei hanes ef yn y gyfrol gyntaf, tu dalen 331.



Digitized by Google

John Thomas. Dechreuodd ef bregethu yn nhymor gweinidogaeth Mr. W. Jones; ond symudodd i Nantgarw, lle y bu hyd ddiwedd ei oes yn bregethwr cynorthwyol parchus yn nglyn a'r eglwys yn Groeswen. Bydd genym air yn mhellach i'w ddywedyd am dano pan ddeuwn at yr eglwys yno.

Dichon fod eraill o flaen ac ar ol y rhai uchod wedi eu cyfodi i'r weinidogaeth yma, ond nid ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i'w henwau.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Samuel Jones, M.A. Yr oedd y gweinidog enwog hwn yn fab i Mr. John Roberts, Corwen, Meirionydd. Yn 1628, pan y ganwyd ef, yr oedd ei rieni yn byw yn agos i Gastellywaun, sir Ddinbych. Derbyniwyd ef i All Souls's College, Rhydychain, Mawrth 11eg, 1647, ond symudodd wedi hyny i Jesus College, lle y dyrchafwyd ef i fod yn gymrawd *(fellow,)* ac yn athraw. Cafodd ei urddo yn weinidog, yn ol y drefn henadurol, yn Taunton, yn Ngwlad-yr-Haf, ond nis gwyddom pa flwyddyn. Ryw amser cyn 1660, gwnaed ef yn weinidog plwyf Llangynwyd, Morganwg, a throwyd ef allan oddiyno gan Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662. Yn fuan wedi oddi ymsefydlu yn Llangynwyd, priododd a Mary, merch Rees Powell, Ysw., Maesteg, o'r hon y cafodd bedwar-ar-ddeg o blant, ond bu y rhan fwyaf o honynt feirw yn eu mabandod, a bu y fam ei hun farw ar enedigaeth y diweddaf o honynt, Gorphenaf 23ain, 1676, yn 38 mlwydd oed. Mae y beddargraff canlynol, yr hwn yn ddiau a gyfansoddwyd gan ei phriod, i'w weled etto ar ei beddfaen yn mynwent Llangynwyd:—

"A loving wife, and mother dear,
Asleep in Christ, is lodged hear;
Reader, repent, thy minutes fly,
Redeem thy time, and learn to die;
Now make thy peace in Christ alone,
Slight not the counsel of a stone."

Priododd Mr. Jones yr ail waith Awst 14eg, 1677, a Mrs. Mary David, o Lanfleiddanfach, yn agos i Gaerdydd. Nid ymddengys iddo gael plant o'i ail wraig. Priododd Maria, ei ferch henaf yn Abertawy, Awst 15fed, 1687, a Mr. David Jones, o Langollen, un o ysgolheigion ei thad. Yn fuan ar ol ei briodas ymsefydlodd Mr. D. Jones yn weinidog yr eglwys Annibynol yn yr Amwythig, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1718. Bu ei fab Mr. Joshua Jones yn weinidog Ymneillduol yn Manchester am lawer o flynyddoedd.

Brynllywarch, yn mhlwyf Llangynwyd, fu aneddle Mr. Samuel Jones o'r pryd y priododd ei wraig gyntaf hyd amser ei farwolaeth. Mae yn debygol mai eiddo ei dad-yn-nghyfraeth, Mr. Rees Powell, oedd y fferm hono. Yn fuan wedi iddo gael ei droi allan o Langynwyd, gosododd Mr. Jones ysgol i fyny yn Brynllywarch, yr hon a gadwyd ganddo hyd derfyn ei oes, ac a ddaeth yn sefydliad enwog iawn. Er fod yr athraw yn annghydffurfiwr selog, etto, o herwydd ei enwogrwydd digyffelyb fel ysgolhaig ac ysgolfeistr, yr oedd amryw foneddigion Eglwysig yn anfon eu plant i'w ysgol. Bu mab Arglwydd Mansel, o Margam, ynddi am flynyddau. Ysgol Brynllywarch oedd yr athrofa Ymneillduol gyntaf yn Nghymru, a pharhad o honi hi yw y sefydliadau sydd yn awr yn Nghaerfyrddin ac

Digitized by Google

Aberhonddu. Yn ysgol Mr. Jones y derbyniodd y rhan fwyaf o weinidogion Cymru o 1662 hyd 1697 eu haddysg. Yn mysg y rhai y gellir enwi James Owen, Phillip Pugh, Daniel Phillips, Rees a Samuel Price, ac eraill. Er fod Mr. Jones yn bregethwr galluog, etto, gan fod gofal yr ysgol arno nis gallodd wneyd ei hun mor gyhoeddus a defnyddiol trwy y wlad fel pregethwr a rhai o'i gydoeswyr, megis Stephen Hughes, Henry Maurice, Vavasor Powell, ac eraill. Cyfyngodd ei lafur gweinidogaethol agos yn hollol i'r ardal yr oedd yn byw ynddi. Yr oedd yn un o'r ysgolheigion rhagoraf yn ei oes, ac yn un o'r athrawon mwyaf llwyddianus. Bu yn ddyoddefydd mawr yn mlynyddau olaf ei fywyd oddiwrth ddolur y gareg, ac ymddengys mai hyny fu yn achos o'i farwolaeth. Bu farw Medi 7fed, 1697, yn y ddegfed-flwyddyn-a-thriugain o'i oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangynwyd. Mae y cerfiad ar gareg ei fedd wedi ei dreulio ymaith gan y tywydd er's blynyddau bellach.

Yr oedd Samuel Jones yn Anghydffurfiwr cydwybodol a hollol ddiysgog. Pe buasai yn cydffurfio nid oes un ddadl na buasai ei ddysg, ei foneddigeiddrwydd, a'i holl ragoriaethau eraill, yn ddigon i sicrhau ei ddyrchafiad o Frynllywarch i balas esgobydd yn dra buan, ond y fath oedd grym ei argyhoeddiad fel na oddefai ei gydwybod oleuedig a thyner iddo osod ei hun mewn un safle well nag yn mysg yr Anghydffurfwyr erlidiedig. Yn y flwyddyn 1665, cafodd gymhelliad taer gan Esgob Llandaf a chan Dr. Davies, Archddiacon, Llandaf, i dderbyn bywioliaeth eglwysig a gynygid iddo. Yn ei atebiad iddynt, gyda diolchgarwch am eu cynygiad caredig, rhoddodd iddynt bedwar-ar-ddeg o ofyniadau gyda golwg ar amodau Cydffurfiad, gan ddyweyd nas gallasai ef dderbyn eu cynygiad hyd oni atebent hwy y gofyniadau hyny i foddlonrwydd ei gydwybod ef, yr hyn, wrth reswm, oedd yn annichonadwy iddynt, ac felly yn Ymneillduwr y parhaodd efe trwy ei oes. Yn y flwyddyn 1680, ysgrifenodd lythyr galluog iawn at frawd oedd yn dechreu siglo yn ei Annghydffurfiaeth, yr hwn a effeithiodd i'w gadarnhau. Ychydig amser cyn ei farwolaeth taenwyd y chwedl ei fod wedi ymwrthod ag Annghydffurfiaeth. Darfu i gyfaill iddo, yr hwn a glywsai y chwedl, ysgrifenu er gwybod a oedd hyny yn wir, a chafodd yr ateb canlynol oddiwrtho:—

"Syr,

Cefais fy nharo a mesur o syndod gan eich llythyr diweddaf, ac nis gallaf lai na rhyfeddu fod y fath chwedlau celwyddog, ag a gynwysa eich ysgrifen, yn cael unrhyw dderbyniad, yn enwedig yn mysg y rhai sydd wedi bod yn adnabyddus o'm person, fy mhroffes, a fy ymddygiadau am ddeugain mlynedd bellach. Ond y mae tad y celwydd etto heb farw, er gellid meddwl ei fod weithian wedi defnyddio y rhan fwyaf o'i ddefnyddiau rhyfel, gan ei fod yn gorfod defnyddio y fath ystrywiau bychain a gwrthun a'r chwedl hon er cyrhaedd ei amcanion. Yr wyf yn ei chyfrif yn drugaredd fod yr unig ddoeth Dduw hyd yma, tuhwnt i bob disgwyliad, wedi estyn allan fy mywyd brau fel y gallaf amddiffyn, nid yn gymaint fy enw bychan fy hun, ag enw mawr y Duw sanctaidd a bendigedig, a'i ffyrdd daionus ef, yn y rhai yr wyf fi a'm cyfeillion cristionogol wedi rhodio mewn heddwch a chydgordiad er yr holl waradwyddiadau a'r dyoddefiadau a gyfarfuasom. Mae yn wir i Mr. David Thomas, gweinidog plwyf Margam, a chyfaill mynwesol i mi, ymweled a mi amser yn ol yn fy nghystudd; ond anwiredd noeth a haerllug ydyw iddo fy holi i o berthynas i'm Hannghydffurfiaeth, ac i minau broffesu fy edifeirwch am dano, gydag adduned y buaswn, os buasai Duw yn adferu fy iechyd, yn gweithredu cymaint dros Eglwys Loegr ag a wnes yn flaenorol yn ei herbyn. Yr wyf yn hysbysu i chwi ac i'r holl fyd, o ymyl angau, er fod genyf gynt, a bod genyf etto, lawer o bechodau mawrion i alaru o'u herwydd ger bron Duw, etto na theimlais y pryd hwnw, na chwedi hyny, yr aflonyddwch lleiaf yn fy nghydwybod o herwydd

Digitized by Google

y ngwrthodiad i gyduno ac ymostwng i'r gosodiadau a osodid i fyny fel amodau anhebgorol cymundeb ag Eglwys Loegr. Yr wyf yn addef fy mod gynt, am bod yn awr, yn coleddu y teimladau mwyaf parchus at weinidogion galluog a chydwybodol Eglwys Loegr, am bod yn cyduno a phawb sydd yn iach yn y ffydd a phur eu hymarweddiad; ond proffesu fy *nghydsyniad calonog* am crediniaeth o bob peth a gynwysa y *Llyfr Gweddi Cyffredin*; ymwrthod am hurddiad blaenorol, yr hwn a ystyrir genyf yn Ysgrythyrol, a chydunol ag arferiad yr holl eglwysi Protestanaidd; llyncu amryw lwon; ac ymgrymu yn wasaidd dan lwyth o osodiadau eraill, nad oes raid eu henwi, oeddynt y fath gerig rhwystr wedi eu gosod gan y gyfraith ar ddrws yr eglwys, fel nas gallaswn gynt, wedi ystyriaeth bwyllog, ac nis beiddiaf etto, neidio drostynt, er i mi wrth hyny sicrhau parch a bywioliaeth, elw, dyrchafiad, ac urddas, heb fod yn euog o'r rhagrith ffieiddiaf, a dymchwelyd heddwch fy mynwes, yr hwn sydd, ac a ddylai fod, i mi yn anwylach na'm bywyd. Cefais fy arwain gynt i'r penderfyniad hwn, nid gan esiamplau dynion enwog, na chyda bwriad i gael eraill i'm dilyn inau, ond gan argyhoeddiad cydwybod. Hyn yw tystiolaeth olaf

Eich cyfaill wrth farw,

SAMUEL JONES.

*Brynllywarch*, Chwef. 16eg, 1696.

Nid oedd un dyn mwy boneddigaidd, didramgwydd, dysgedig, a defnyddiol yn ei oes na Samuel Jones, ond o herwydd ei fod yn Ymneillduwr cydwybodol oddiwrth y grefydd wladol, cafodd yntau ei ran o ddyoddefiadau. Bu yn garcharor am ei Annghydffurfiaeth amryw weithiau o'r flwyddyn 1667 i 1675, pryd yr oedd Dr. Francis Davies yn Esgob Llandaf. Un diwrnod yn amser y cynhauaf pan yn eistedd ar geubren yn agos i'w dŷ daeth dau ddyn i fyny ato a gofynasant iddo ai Brynllywarch oedd y lle hwnw. Atebodd hwynt yn gadarnhaol. Yna gofynasant a oedd Mr. Jones gartref. "Ydyw," ebe yntau, "ewch i mewn a chewch ei weled yn fuan." Yr oedd wedi lled-dybied mai heddgeidwaid oeddynt wedi dyfod i'w ddal ef, ond ni chynygiodd ddiangc, yr hyn a allasai yn hawdd wneyd. Aeth yn fuan ar eu hol i'r tŷ, a dywedodd, "Myfi yw Mr. Jones, pa peth sydd a fynoch a mi?" Effeithodd ei eiriau a'i ymddangosiad urddasol gymaint ar y ddau ddyn fel y buont am beth amser cyn gallu ateb gair iddo. O'r diwedd dywedodd un o honynt yn grynedig eu bod wedi dyfod yno a gwarant i'w ddal oddiwrth yr ynad T——, o'r Ewenny, ynad creulon, ymyrgar, ac erlidgar. Er fod yr Ewenny o wyth i ddeng milldir o Frynllywarch, dewisodd Mr. Jones eu cerdded yn hytrach na thaflu cymydog, i'r hwn yr oedd wedi rhoddi benthyg ei geffylau i gywain gwair y diwrnod hwnw, i anghyfleusdra. Gan ei fod yn hytrach yn dew ac hefyd yn wael ei iechyd, teimlai yn flinedig iawn erbyn iddo gerdded y fath bellder. Wedi iddo gyrhaedd tŷ yr ynad, arweiniwyd ef i'r gegin, ac eisteddodd yno. Yn mhen ychydig amser daeth yr ynad i mewn yn ddisymwth, a phan gafodd Mr. Jones yn eistedd, gofynodd iddo yn sarug, pa fodd y beiddiai efe eistedd yn ei dŷ ef. "Syr," atebai Mr. Jones, "ni thybiais y buasai yn dramgwydd i ŵr boneddig i ddyn blinedig yr anfonasai ef am dano i eistedd yn ei gegin; ond, bydd fy aelodau blinedig i yn abl fy nal pan byddo rhai yn methu sefyll." "A wyddoch chwi," ebe yr ynad digofus, "a phwy yr ydych yn siarad?" "Gwn," ebe Mr. Jones. "Y mae genyf fi," ebe'r erlidiwr, "awdurdod i'ch anfon chwi i garchar." "Nid heb genad fy Nhad nefol," ebe Mr. Jones. Ar hyn eisteddodd yr ynad ffyrnig ac ysgrifenodd warant carchariad, ac anfonodd ef dan ofal y ddau heddgeidwad i'r carchar i'r Bontfaen; ond cyn ei fod dros filldir ar ei ffordd tuag yno, dechreuodd cydwybod yr erlidiwr ei aflonyddu am yr hyn a wnaethai, ac er ei thawelu anfonodd genad ar ol

Digitized by Google

Mr. Jones i orchymyn iddo gael ei ollwng yn rhydd. Yna dychwelodd adref wedi cerdded tuag ugain milldir y diwrnod hwnw.

Nid oedd dysg, duwioldeb, defnyddioldeb, a boneddigeiddrwydd dyn o safle Samuel Jones yn ddigon i'w ddyogelu rhag ymosodiadau creulon Eglwyswyr erlidgar ei oes. Yr un etto yw ysbryd llawer o honynt ond fod y farn gyhoedd wedi newid, ac amgylchiadau wedi durlifio eu danedd fel nas gallant yn awr gnoi ac ysglyfaethu fel y gwnelent gynt.

Rees Price. Yr oedd ef yn fab i Rees a Catherine Price, o blwyf y Bettws. Bu farw ei dad Hydref 13eg, 1723, yn 91 oed, a'i fam Ebrill 7fed, 1739, yn 90 oed. Mae yn ymddangos eu bod yn well yn eu hamgylchiadau bydol na'r cyffredin, a pheth oedd lawer yn bwysicach na hyny, yr oeddynt yn ofni yr Arglwydd ac yn ei wasanaethu yn ffyddlon mewn oes pan yr oedd proffesu crefydd bur yn beth tra anmhoblogaidd. Mae y penill canlynol ar feddfaen Mr. Rees Price yn ngangell Eglwys y Bettws:

> "A faithful, pious, painful man,
> And zealous to the end,
> For to promote the cause of Christ,
> And on him to attend;
> Lyes here asleep advising all,
> To live to Christ their Lord,
> To work in haste, while he to them,
> Doth life and time afford."

Mae yn ymddangos mai Rees Price, yr ieuengaf, oedd yr hynaf o blant ei dad a'i fam. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1673; ac addysgwyd ef dan arolygiaeth gweinidog enwog ei rieni, Mr. Samuel Jones, Brynllywarch. Ar farwolaeth Mr. Jones yn 1697, dilynwyd ef yn y weinidogaeth ac fel athraw yr athrofa gan Mr. Price, yr hwn nid oedd y pryd hwnw dros bedair-ar-hugain oed. Gan fod Mr. Jones wedi ei analluogi gan gystudd tua dwy flynedd cyn ei farwolaeth, mae yn ymddangos mai Mr. Price oedd yn cyflawni ei waith yn yr amser hwnw. Yn ol cofnodion y Bwrdd Cynnulleidfaol yn Llundain am Chwefror 28ain, 1698, buwyd yn ymgynghori am benodi Mr. Price fel canlyniedydd i Mr. Jones yn yr athrofa. Yr oedd athrofa wedi cael ei gosod i fyny yn Abergavenny gan Mr. Roger Griffiths, yr un amser, ond ymddengys mai y Bwrdd Presbyteraidd oedd yn ei gefnogi ef, tra y cefnogid Mr. Price gan y Bwrdd Cynnulleidfaol. Wedi i Mr. Griffiths gefnu ar Ymneillduaeth, y sefydliad dan ofal Mr. Price oedd yr unig athrofa Ymneillduol yn Nghymru nes i Mr. William Evans osod un i fyny yn Nghaerfyrddin. Mae yn ymddangos i'r ddau fwrdd yn Llundain, y Presbyteraidd a'r Cynnulleidfaol, uno i gynal y sefydliad dan ofal Mr. Evans yn Nghaerfyrddin, canys o 1704 yn mlaen nid ydym yn cael yn nghofnodion y Bwrdd Cynnulleidfaol unrhyw grybwylliad am athrofa Mr. Price.

Bu Mr. Price yn briod ddwywaith. Bu farw ei wraig gyntaf Gorphenaf 12fed, 1712, a chladdwyd hi yn nghangell eglwys y Bettws. Yr oedd ei ail wraig tua chwe'-mlwydd-ar-hugain yn ieuengach nag ef. Hi oedd mam ei fab enwog Dr. Richard Price. Bu farw Mehefin 4ydd, 1740, a chladdwyd hi yn nghapel Esgobyddol Nolton, Penybont. Bu Mr. Price ei hun farw Mehefin 28ain, 1739, a chladdwyd ef yn medd ei wraig gyntaf yn eglwys y Bettws. Yr oedd yn 66 oed pan y bu farw. Yr ydym yn analluog o ddiffyg defnyddiau i roddi darluniad o nodwedd Mr. Price fel dyn ac fel pregethwr. Mae yn sicr ei fod yn ysgolhaig rhagorol, a'i fod

Digitized by Google

yn selog dros athrawiaeth efengylaidd. Dywed bywgraphydd ei fab, Dr. Price, iddo unwaith ei ddal, pan yn llangc tuag un-ar-bymtheg oed, yn darllen cyfrol o bregethau Dr. Samuel Clark, yr Ariad, ac iddo yn mhoethder ei sel yn erbyn cyfeiliornad, ymaflyd yn y llyfr o law y bachgen a'i daflu i'r tân. Yr oedd gwyrad mwyafrif y myfyrwyr yn yr athrofau Ymneillduol y dyddiau hyny oddiwrth olygiadau y tadau yn boen dirfawr i'r hen weinidogion. Parhaodd Rees Price hyd ei farwolaeth yn Galfiniad selog, ond yr oedd ei fab, yn neillduol yn mlynyddau olaf ei fywyd, yn Ariad proffesedig. Mewn lle a elwir Ty'nyton y preswyliai Mr. Price trwy y rhan fwyaf o'i oes, os nad yno y ganwyd ac y magwyd ef.

Lewis Jones. Dywedir mai yn sir Aberteifi y ganwyd ef, ond nid yw yn hysbys yn mha ran o'r sir hono. Yn ol ei oed ar ei feddfaen, mae yn ymddangos iddo gael ei eni yn y flwyddyn 1703. Dywed Dafydd William, yr hen emynwr enwog, yr hwn a gyfansoddodd farwnad iddo, iddo ddechreu pregethu yn ddeunaw mlwydd oed. Treuliodd ei amser yn athrofa Caerfyrddin. Yn Llanedi, sir Gaerfyrddin yr urddwyd ef yn mis Medi, 1734. Nis gwyddom paham y bu cyhyd cyn cael ei urddo ac yntau wedi dechreu pregethu dair-blynedd-ar-ddeg cyn hyn. Ychydig fu ei arosiad yn Llanedi, oblegid yr oedd yn weinidog yn y Drewen a Llechryd, sir Aberteifi yn 1739, pryd yr urddwyd Mr. David Evans yn gydweinidog ag ef. Yr ydym yn barnu iddo symud i Benybont tua y flwyddyn 1740, neu y flwyddyn ganlynol, a bu yno hyd ddiwedd y flwyddyn 1763, fel y gwelsom. Ar ei ymadawiad o Benybont ymsefydlodd yn weinidog yr eglwys Annibynol yn Rhosan, sir Henffordd. Bu yno yn llafurus a pharchus hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ionawr 8fed, 1772, pryd yr oedd yn 69 oed. Claddwyd ef yn mynwent plwyf Rhosan, lle y mae careg ar ei fedd, i'r cerfiad ar ba un yr ydym yn ddyledus am wybodaeth o amser ei farwolaeth a'i oed.

Yr oedd Lewis Jones yn un o'r pregethwyr Ymneillduol mwyaf poblogaidd, llafurus, a llwyddianus yn ei oes. Mae pob cyfeiriad ato a ganfyddir mewn llyfrau argraffedig a llawysgrifau yn cyduno i'w osod allan fel un o'r pregethwyr mwyaf yn Nghymru yn y ganrif ddiweddaf. Bu ei weinidogaeth yn foddion i ddychwelyd lluaws o bechaduriaid. Cymerer y ffaith ganlynol fel engraifft o'i sel, ei lafur, a'i lwyddiant fel pregethwr. Wrth ddychwelyd adref o Lanharan, ar ol bod yno yn pregethu un boreu Sabboth, pan yn myned heibio eglwys Llangrallo, canfu nifer fawr o bobl yn chwareu pel. Teimlodd wrth weled dydd yr Arglwydd yn cael ei halogi felly, ac aeth i ben mur gerllaw iddynt a dechreuodd weddio drostynt. Yn fuan tynodd sylw y rhan fwyaf o'r chwareuwyr, ac wedi gorphen gweddio traddododd bregeth rymus iddynt oddiwrth Esaiah xxxviii. 10. Cafodd pedwar o'r annuwiolion eu dychwelyd at yr Arglwydd dan y bregeth hono. Tra y bu yn Mhenybont pregethai yn fynych yn y Drefnewydd, y Bontfaen, ac agos yn mhob pentref am fill diroedd oddiamgylch.

Yr oedd hen bobl yn Mhenybont ddeugain a haner can' mlyned d yn ol yn son am ryw effeithiau rhyfeddol a ddilynent weddiau y dyn da hwn. Dywedir iddo unwaith dreulio diwrnod mewn gweddi, ar amser cyn hauaf gwlyb, pryd yr ofnai pawb y buasai yr ŷd yn pydru ar y maesydd, ac i'r tywydd droi yn sych o'r diwrnod hwnw allan; a chredai lluaws o bobl Penybont a'r cylchoedd mai mewn atebiad i weddiau Mr. Jones y bu hyny. Sonir am dro rhyfedd arall: yr oedd rhai tai yn un o gyrau tref

Digitized by Google

Penybont wedi myned ar dân, a chan fod y rhan fwyaf o'r dref y pryd hwnw yn dai coed, a bod y gwynt yn chwythu y fflamau i mewn i'r dref, ofnid y buasai yr holl le yn myned ar dân. Yn nghanol y dychryn cyffredinol aeth amryw bobl at Mr. Jones i ddeisyf arno weddio am waredigaeth. Aeth i'w ystafell a dechreuodd yno dywallt ei ymbiliau ger bron Duw, ac yn mhen ychydig amser trodd y gwynt a diffoddodd y tân. Yr ydym yn cofnodi y ffeithiau hyn fel yr adroddid hwy gan yr hen bobl flynyddau yn ol, ac yn gadael i bob darllenydd dynu ei gasgliad ei hun oddiwrthynt.

Yr oedd Mr. Jones yn ddyn o dymer hynod o addfwyn a thyner. Dywedir fod hen geisbwl ffyrnig a barbaraidd yn byw yn Mhenybont yn ei amser ef. Cymerodd yr adyn hwnw i'w ben ryw foreu i luchio cerig at ffenestri y gwr da pryd yr oedd ar weddi gyda'i deulu. Aeth Mr. Jones allan a siaradodd ag ef yn addfwyn fel y trodd ymaith. Anogai y cymydogion ef i'w gosbi, ond gwrthododd. Yn mhen amser wedi hyny aeth y ceisbwl yn glaf iawn. Nid oedd ganddo neb i estyn diferyn o ddwfr iddo yn ei gystudd. Clywodd Mr. Jones am ei gyflwr diymgeledd, ac aeth i ymweled ag ef ac edrychodd am ryw un i ofalu am dano tra bu yn glaf. Lleddfodd y caredigrwydd hwn elyniaeth y creadur at grefydd, fel y daeth pan wellhaodd i fynychu capel Mr. Jones. Yr oedd tynerwch ei deimlad y fath fel nas gallasai ddiarddel yr un troseddwr o'r eglwys. Pan fuasai galwad am hyny buasai yn cyfnewid am Sabboth a'r hen brophwyd, Edmund Jones, o Bontypool, fel y gallasai ef eu diarddel yn ei le.

Gyda'i holl boblogrwydd a'i lafur fel pregethwr, yr oedd yn ysgolhaig rhagorol. Dywedir ei fod mor hyddysg yn yr Hebraeg fel y medrai ymddiddan yn rhwydd ag Iuddewon dysgedig yn yr iaith hono. Bu Mr. Jones yn briod ddwywaith. Claddwyd ei wraig gyntaf wrth gapel y Casnewydd-ar-ogwy. Merch iddo ef oedd gwraig Mr. David Jardine, athraw yr athrofa yn Abergavenny.

Samuel Price. Mab hynaf yr enwog Isaac Price, gweinidog yr eglwysi yn Llanwrtyd a Throedrhiwdalar, oedd efe. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1757. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Llanwrtyd yn ieuangc iawn. Nid ydym yn gwybod ei oed pan y dechreuodd bregethu. Cafodd ei dderbyn yn fyfyriwr i athrofa Caerfyrddin yn 1778, a bu yno hyd 1782. Yn yr amser yr oedd yn fyfyriwr yn Nghaerfyrddin aeth adref, ryw dro ar amser y gwyliau, a gwahoddwyd ef i bregethu un boreu Sabboth yn Mhantycelyn, capel perthynol i'r Bedyddwyr, heb fod yn mhell o Lanwrtyd. Cafodd yno oedfa ryfeddol o ddilewyrch, yr hyn a effeithiodd gymaint ar ei ysbryd fel y daeth i'r penderfyniad nad oedd yr Arglwydd wedi ei alw i bregethu. Yn y teimlad isel hwnw aeth i amaethdy yn y gymydogaeth, lle yr oedd ei dad wedi cael ei gyhoeddi i bregethu yn yr hwyr, a gofynwyd iddo ddechreu yr oedfa. Cydsyniodd, ond yn dra digalon. Pa fodd bynag, torodd y wawr arno, a theimlodd ef a'r bobl yn ddisymwth ryw ddylanwad anorchfygol. Aeth yr holl gynnulleidfa i folianu, a bu yr amgylchiad hwnw yn ddechreuad diwygiad nerthol iawn yn y gymydogaeth, pryd y dychwelwyd ugeiniau o bobl at yr Arglwydd. Yn y flwyddyn 1783, derbyniodd Mr. Price alwad oddiwrth yr eglwysi yn Mhenybont a'r Bettws, y rhai a wasanaethwyd yn ffyddlon ganddo, gyda mesur helaeth o lwyddiant, am dair-blynedd-ar-hugain. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Mhenybont, priododd Mr. Price ag orwyres i Mr. Rees Price, Ty'nyton, o'r hon y cafodd bump neu chwech o blant. Y mae un

Digitized by Google

o honynt etto yn fyw yn Casnewydd-ar-ogwy. Bu farw y gweinidog da hwn Ionawr 16eg, 1806, yn naw-mlwydd-a-deugain oed, er mawr alar i bobl ei ofal a'r wlad yn gyffredinol. Claddwyd ef wrth y capel yn y Casnewydd-ar-ogwy. Clywsom, gan y rhai a welsant ac a wrandawsant Mr. Price, ei fod yn ddyn lled fawr o gorph, a bod yr olwg arno yn hardd ac urddasol iawn. Yr oedd ei lais yn gryf ond yn berseiniol. Ystyrid ef yn bregethwr da, ond ni chawsom le i ddeall ei fod yn un o brif bregethwyr ei oes. O ran ei athrawiaeth yr oedd yn Galfiniad cymedrol, ac yn hollol efengylaidd, er nad oedd mor uchel yn ei Galfiniaeth a'r rhan fwyaf o'i gydoeswyr. Yr oedd ychydig o bersonau yn ei gynnulleidfaoedd yn gogwyddo yn gryf at y peth a elwid yn Arminiaeth, a thrwy y cyfryw aeth y capeli, yn fuan ar ol ei farwolaeth ef, i feddiant yr Undodiaid, ond fel y nodasom yn barod, aeth mwyafrif dirfawr yr aelodau, pan na oddefid iddynt gadw meddiant o'r capeli, allan i ddechreu yr achosion sydd yn awr yn y Tabernacl, Penybont, a'r Brynmenyn. Pregethwyd ar ddydd angladd Samuel Price gan ei gyfaill, Mr. Morgan Jones, o'r Cymer, yr hwn a fagesid yn yr un ardal ac eglwys ag yntau. Testyn Mr. Jones ydoedd, "A bu farw Samuel; a holl Israel a ymgynnullasant, ac a alarasant am dano ef, ac a'i claddasant ef yn ei dŷ yn Ramah."

William Jones oedd fab William ac Elizabeth Jones, o'r Bala. Ganwyd ef yn y dref hono yn y flwyddyn 1784. Yr oedd ei rieni yn aelodau parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a'i dad yn flaenor yn y gymdeithas eglwysig yn y Bala. Yr oedd tuedd at bregethu yn William Jones er yn blentyn ieuangc. Byddai pan rhwng tair a phedair blwydd oed yn arfer cynull plant yn nghyd a phregethu iddynt, a phan oedd tua deuddeg oed byddai yn myned i ymweled a hen bobl analluog i ddyfod i un lle o addoliad ac yn pregethu iddynt yn eu tai. Ceryddwyd ef yn llym unwaith gan ei dad am hyny, oblegid tybiai ei fod yn rhyfygu wrth wneuthur y fath beth. Pan yr oedd tuag un-ar-bymtheg oed aeth i gapel yr Annibynwyr yn y Bala i wrando Dr. Phillips, Neuaddlwyd yn pregethu. Ei destyn ydoedd, "Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb." Effeithiodd y bregeth mor ddwys ar ei feddwl fel y penderfynodd ofyn am ei le yn nhŷ yr Arglwydd. Gogwyddwyd ei feddwl i ymuno a'r Annibynwyr, yn hytrach na'r enwad y perthynai ei rieni iddo. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys yn y Bala tua'r flwyddyn 1800, ac yn y flwyddyn ganlynol, anogodd yr eglwys ef i ddechreu arfer ei ddoniau fel pregethwr. Daeth ar unwaith yn dderbyniol pa le bynag yr elai. Gan ei fod wedi cael addysg dda yn ei febyd aeth, wedi iddo ddechreu pregethu, i gadw ysgol i Bentre-llyn-y-cymer, yn sir Ddinbych. Nis gwyddom pa faint o amser y bu yno. Yn y flwyddyn 1805, derbyniwyd ef i'r athrofa yn Ngwrecsam, a bu yno yn ddiwyd a diesgeulus iawn yn myfyrio hyd ddiwedd y flwyddyn 1809. Tua yr amser hwnw derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn Mhenybont a'r Brynmenyn, Morganwg, ac urddwyd ef yno Mawrth 29ain, 1810. Pregethodd Mr. D. Davies, Abertawy, ar natur eglwys; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. T. Bowen, Castellnedd; rhoddwyd y siars i'r gweinidog ieuangc gan Mr. G. Hughes, Groeswen, ac i'r eglwys gan Mr. D. Morgan, Deptford. Yn mhen ychydig gyda thair blynedd ar ol ei urddo cyfarfyddodd a phrofedigaeth ofnadwy. Cyhuddwyd ef gan forwyn y tŷ lle y llettyai o fod mewn ymdrafodaeth anfoesol a hi. Galwyd gweinidogion, ac eraill, yn nghyd i wneyd ymchwiliad i'r achos; ac ar eu gwaith yn myned i edrych i mewn i'r peth,

Digitized by Google

addefodd yr eneth mai dynes, oddiar elyniaeth at Mr. Jones, oedd wedi rhoddi haner gini iddi hi am ddwyn camgyhuddiad yn ei erbyn. Bu yr amgylchiad agos a bod yn angau iddo gan y boen a barodd i'w feddwl; ond daeth allan o'r brofedigaeth yn fwy ei barch gan y cyhoedd na chyn hyny, o herwydd yr edrychid arno fel un o'r cymeriadau puraf yn cael ymosod arno yn hollol ddiachos. Yn fuan wedi hyny priododd a dynes ieuangc ragorol a duwiol iawn o'r enw Miss Turberville, yr hon oedd yn aelod o'i eglwys. Buont fyw yn ddedwydd iawn am ddwy-flynedd-ar-hugain, a chawsant ddeg o blant. Er nad oedd cyflog Mr. Jones ond bychan iawn gyferbyn a'r fath deulu lluosog, etto trwy fedr a chynildeb ei wraig ragorol dygasant eu plant i fyny yn weddus a theilwng iawn. Yn mhen rhai blynyddau wedi claddu Mrs. Jones, a phan yr oedd ei ferched oll wedi ei adael, priododd yr ail waith ag un Mrs. Howells, aelod o eglwys y Maendy, yr hon a fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd derfyn ei oes.

Yr oedd pedair o gynnulleidfaoedd bychain dan ofal Mr. Jones trwy y rhan fwyaf o dymor ei weinidogaeth, sef Penybont, Brynmenyn, y Coety, a Bethel. Pregethai dair gwaith bob Sabboth, a phedair gwaith ar un Sabboth o'r mis. Wedi bywyd o lafur diattal am ddwy-flynedd-ar-bymtheg-ar-hugain, gorphenodd ei yrfa yn dra disymwth. Bu farw yn yr Arglwydd dydd Sadwrn, Mehefin 5ed, 1847, wedi chwe' diwrnod o gystudd trwm yn cael ei achosi gan enyniad yr afu. Pregethodd bedair gwaith a gweinyddodd Swper yr Arglwydd ddwy waith y Sabboth olaf y bu byw. Aeth adref yn dra lluddedig y nos Sabboth hwnw, ac ni chododd o'i wely byth mwyach. Claddwyd ef wrth ei gapel yn Mhenybont yn ngwydd tyrfa fawr o alarwyr. Gweinyddwyd yn ei angladd gan Meistri Rees, Groeswen; Evans, Castellnedd; Powell, Caerdydd; Griffiths, Llanharan; Morris, Glandwr, a Davies, Mynyddbach, y rhai oll erbyn hyn sydd wedi ei ganlyn i dir distawrwydd.

Yr oedd "Jones, Penybont" yn enw adnabyddus a pharchus trwy holl Gymru ddeng-mlynedd-ar-hugain yn ol, a chan fod cenhedlaeth wedi ei geni er pan y cuddiwyd ef yn y bedd, byddai yn briodol i ni helaethu ychydig ar nodweddiad dyn mor enwog a defnyddiol, er mwyn y rhai na chawsant y fraint o'i weled a'i glywed.

Yr oedd Mr. Jones yn ddyn lled dal, o fewn moedfedd neu ddwy i chwe' troedfedd, ac yn yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes yr oedd yn lled dew, ond nid o lawer cyn dewed a rhai o hen bregethwyr yr oes hono. Yr oedd ei wallt yn hytrach yn ddu, ei lygaid yn leision, a chroen ei wyneb yn welwlwyd. Nid oedd dim yn nodedig o hardd na hagr yn ei wynebpryd, ond gallasai y neb a edrychasai arno ganfod ynddo gydgyfarfyddiad dedwydd o ddiniweidrwydd, meddylgarwch, sirioldeb, a difrifoldeb. Er fod ei gorph yn lled fawr a phwysig, nid oedd yn unwedd o wneuthuriad cadarn nac yn debyg i ddyn a allasai ddisgwyl hir hoedledd.

O ran ei dymer yr oedd yn hynod addfwyn, gwylaidd, a diymhoniad. Cyfrifid ef gan bawb o'i gydnabod yn ddyn hynod ddiniwed, ie, yn ormodol felly i sefyll dros ei iawnderau. Prin y tybiwn iddo erioed ddyweyd gair garw wrth neb, ac yr oedd yn rhaid cael dyn diffaethach na'r cyffredin o ddiffaethwyr a allasai gasglu digon o haerllugrwydd i ddyweyd dim yn angharedig wrtho, gan fod ei dymer, ei agwedd, a'i eiriau yn dangos ei fod mor ddiddrwg a'r oen. Yr oedd wedi ymroddi mor hollol i fyfyrdodau



Digitized by Google

crefyddol a gwaith y weinidogaeth fel yr oedd yn gwbl ddifedr i drafod helyntion y bywyd hwn, ac oni buasai i ragluniaeth drefnu iddo un o'r gwragedd mwyaf medrus a gofalus buasai ei amgylchiadau tymorol yn sicr o fod yn ddidrefn iawn.

Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol. Ysgrifenai a siaradai y Gymraeg a'r Saesoneg yn ramadegaidd a thlws dros ben, ac yr oedd yn hyddysg iawn yn yr Hebraeg, y Groeg, a'r Lladin. Darllenai weithiau yr hen dduwinyddion a ysgrifenasant yn Lladinaeg, a chyfieithai hwynt gyda'r un rhwyddineb ag y cyfieithai o'r Saesoneg i'r Gymraeg, a braidd yr elai un diwrnod dros ei ben, pan y buasai yn ei lyfrgell, na buasai yn darllen rhanau o'r Hen Destament yn yr Hebraeg ac o'r Newydd yn y Groeg. Er na chaniataodd ei amgylchiadau iddo brynu llawer o'r llyfrau mwyaf costus, etto casglodd brif weithiau y prif dduwinyddion, hen a diweddar, ac ni wnaeth un gweinidog mewn un oes well defnydd o'i lyfrau nag ef.

Yr oedd yn *gristion* didwyll a theilwng iawn o'r enw. Buom ugeiniau o oriau yn ei gyfeillach ac ni welsom ynddo ddim un amser anghydweddol a dyn fyddai yn dal cymundeb agos a'r Arglwydd. Ni byddai, fel rhai, yn gwthio ymddiddanion crefyddol i mewn yn annaturiol, ac yn cymeryd arno ei fod yn ddyn mwy duwiol na'r cyffredin. Nid yn ei *siarad* mawr yr ymddangosai ei dduwioldeb, ond yn ei agwedd ddirodres, ei ymarweddiad gweddus, a rhediad crefyddol ei holl fywyd.

Fel *pregethwr*, mae yn anhawdd genym gredu fod ei ragorach, a chymeryd pob peth i ystyriaeth, wedi bod mewn un oes na gwlad. Nid oedd dim yn swynol yn ei lais, canys llais crynedig, hytrach yn wichlyd, ydoedd; ond nid oedd dim yn aflafar ynddo, ac yr oedd yn ddigon hyglyw i ddeng mil o bobl ei glywed yn yr awyr agored; etto pe buasai ei gymeriad fel pregethwr yn sefyll ar ei *lais* buasai raid ei restru gyda phregethwyr gwaelaf ei oes. Yn ei *bethau a'i ddull yn eu trin* yr oedd ei fawredd ef fel pregethwr yn gynwysedig, ac yn hyny yr oedd yn ddigamsyniad yn wir fawr. Sylfaenai ei sylwadau fynychaf ar eiriau ei destyn, a chyfodai y fath feddyliau tarawiadol a naturiol o ymadroddion Ysgrythyrol, hollol gynefin, nes y buasai ei wrandawyr meddylgar yn digio wrthynt eu hunain am eu bod wedi darllen y cyfryw ymadroddion ddegau o weithiau ac heb weled y perlau hyny ynddynt. Ni ddarfu i ni ei wrandaw erioed heb iddo beri i ni feddwl yn uwch am gyfoeth dihysbydd gair Duw, ac am alluoedd treiddgar ac ymchwiliad manwl y dyn a allasai ddwyn y fath drysorau newyddion i'n golwg. Tra y tynai allan feddyliau byw a gogoneddus o frawddegau ei destyn gadawai, yr argraff yn wastad ar feddyliau ei wrandawyr fod llawer mwy o drysorau ar ol yno nag a ddygasai ef i'r golwg. Clywsom lawer pregethwr rhwyddach ei draddodiad, mwy hededog ei ddychymyg, mwy cywrain ei ymresymiadau, a mwy dylanwadol ar bob math o feddyliau; ond ni chlywsom erioed, yn ol ein barn ni, neb yn medru cydymffurfio a'r gorchymyn apostolaidd, "pregetha'r Gair," mor gyflawn a pherffaith ag ef. Yr oedd ei agwedd, ei iaith, ei eglurder, a'i faterion, oll yn gweddu i un yn traethu "geiriau gwirionedd a sobrwydd." Nid arferai un gair chwyddedig na brawddegau cywrain a choegaidd, ac o'r tu arall, ymgadwai rhag arfer ymadroddion sathredig ac isel. Gosodai ei feddyliau allan yn iaith syml yr Ysgrythyrau. Yr oedd ganddo yn wastad ddigon o eiriau cymeradwy i osod allan ei feddwl, ac ymgadwai rhag arfer geiriau afreidiol. Teimlai y werin ddifeddwl yn fynych wrth ei wrandaw ei fod yn drymaidd a sychlyd, ond ni byddai un

Digitized by Google

amser, hwyl neu beidio, heb fod ganddo gyflawnder o ymborth iachus i feddylwyr awyddus am fwyd i'w heneidiau. Clywsom ef yn aml yn effeithiol iawn, ac weithiau gwelsom gynnulleidfaoedd lluosog yn toddi wrth ei wrandaw fel y cwyr o flaen y tân. Yr oedd yr athrawiaethol a'r ymarferol yn nodweddu ei holl bregethau. Anfynych, os un amser, y traddodai bregeth ar unrhyw athrawiaeth heb gymhwysiad ymarferol, nac ar unrhyw ddyledswydd heb ddangos ei chysylltiad a rhyw ganghen hanfodol o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.

Mae ei ragoriaeth fel *duwinydd* yn hysbys trwy oll Gymru. Cyhoeddodd amryw fan lyfrau, megis y saith bregeth ar Ioan iii.; y bregeth ar Dduwdod Crist; y llythyrau ar yr un pwngc; pregeth ar swydd diaconiaid; o ddeugain i haner cant o bregethau yn y misolion; ac ar ol ei farwolaeth cyhoeddodd ei ganlyniedydd, Mr. J. D. Williams, ddetholiad o bedair-ar-ddeg-ar-hugain o'i bregethau o'i lawysgrifau. Ond ei *Eiriadur Duwinyddol*, yr hwn a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol wyth plyg yn y flwyddyn 1837, ac mewn un gyfrol fawr yn 1864, yw ei brif waith, yr hwn sydd wedi anfarwoli ei enw. Gall y neb a ddarlleno y prif erthyglau yn y gwaith anmhrisiadwy hwn ganfod fod yr awdwr yn feddyliwr dwys, yn ymresymydd goleu a chadarn, ac yn deall gwirioneddau crefydd yn eu gwahanol ganghenau, eu cysylltiadau, a'u cysondeb a'u gilydd, yn llawn cystal a neb a ysgrifenodd arnynt mewn unrhyw oes; ac yn ddiddadl nid oes unrhyw ysgrifenydd Cymreig ar *holl* byngciau duwinyddiaeth etto wedi dyfod i fyny ag ef. Gall fod rhai ar byngciau neillduol wedi ysgrifenu yn rymusach, helaethach, a mwy treiddgar, ond a chymeryd duwinyddiaeth yn y crynswth, mae yn anhawdd genym gredu y rhoddai unrhyw farnydd diduedd y flaenoriaeth arno ef i un duwinydd Cymreig. Mae ei ragoriaeth fel duwinydd yn gynwysedig yn fwy yn ei ofal i osod allan ei feddyliau mewn geiriau eglur a phriodol, i ymresymu yn deg ac argyhoeddiadol, i sylfaenu ei holl osodiadau ar ymadroddion Ysgrythyrol pendant neu gasgliadau naturiol oddiwrthynt, ac i fod yn ofalus i beidio gwrthddywedyd ei hun, yn hytrach nag mewn gorddyfnder ac arucheledd meddylddrychau. Ychydig cyn ei farwolaeth yr oedd wedi dechreu ysgrifenu Geiriadur ar droell ymadroddion yr Ysgrythyrau, a diau pe cawsai fyw i'w orphen a'i ddwyn allan y buasai yn drysor gwerthfawr.

Mae y safle uchel ac anrhydeddus a gyrhaeddodd fel ysgolhaig, pregethwr, a duwinydd, dan gynifer o anfanteision, yn gywilydd mawr i'r rhai sydd wedi cael deg cymaint o fanteision, ac yn boddloni myned trwy y byd yn gymharol ddinod a diddefnydd. Tra byddo'r iaith Gymraeg yn cael ei darllen bydd enw William Jones, Penybont-ar-ogwy mewn cof, a'i ysgrifeniadau gwerthfawr yn cael eu darllen a'u gwerthfawrogi.

## BRYNMENYN.

Saif y capel hwn tua phedair milldir i'r gogledd o Benybont, ac heb fod yn mhell o Abercynffyg. Yn amser yr ymraniad a gymerodd le wedi marwolaeth Mr. Samuel Price yn 1806, y dechreuodd yr achos yn y lle hwn, yr un fath a'r achos yn y Tabernacl, Penybont. Yn hen gapel y Bettws yr arferai y bobl addoli cyn hyny. Mae yr achos hwn mor hen a'r achos yn Mhenybont, a chan ein bod wedi rhoddi hanes y ddau yn nghyd o'u dechreuad yn amser Mr. Samuel Jones, hyd farwolaeth Mr. Samuel Price, yn hanes Penybont, nid oes genym yn awr ond rhoddi hanes

Digitized by Google

Brynmenyn oddiar ymadawiad y bobl o gapel y Bettws hyd yn awr. Nis gwyddom yn mha le y buwyd yn addoli o'r ymraniad yn 1806 hyd y pryd yr adeiladwyd y capel. Adeiladwyd y capel cyntaf yma yn 1808, ac agorwyd ef Ionawr 31ain a Chwefror 1af, 1809, pryd y pregethodd Meistri William Williams, Drefnewydd; Walter Thomas, Aberdar; G. Hughes, Groeswen, a D. Davies, Abertawy. Mr. Thomas Edwards oedd yn pregethu yma ar amser yr ymraniad, ac efe fu yr achlysur o hono, ond nid ymddengys iddo aros yma yn hir na chael ei urddo. Symudodd oddiyma i Lanedi, lle mae yn debygol yr urddwyd ef. Yn niwedd y flwyddyn 1809, rhoddodd yr eglwys hon, mewn cysylltiad a'r eglwys yn Mhenybont, alwad i Mr. W. Jones, a pharhaodd i weinidogaethu yma hyd derfyn ei fywyd yn 1847. Nid oes genym ddim neillduol i'w gofnodi o hanes yr achos yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones, amgen na bod yr eglwys yn dangnefeddus, a'r gweinidog, fel y dylasai fod, mewn parch mawr gan yr eglwys a'r ardalwyr yn gyffredinol. Wedi marwolaeth Mr. Jones, rhanwyd cylch ei weinidogaeth. Dewisodd Penybont a'r Coety weinidog iddynt eu hunain, ac ymunodd Brynmenyn a Bethel i gynal gweinidog rhyngddynt. Darfu iddynt hwy wneyd dewisiad o Mr. Owen Owens, Llanwrtyd, yr hwn a ymsefydlodd yma yn gynar yn y flwyddyn 1848. Yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn y lle ail adeiladwyd y capel, ac agorwyd ef Tachwedd 8fed a'r 9fed, 1848, pryd y traddodwyd pregethau gan y gweinidogion canlynol:—Meistri E. Griffiths, Abertawy; J. Thomas, Cefncribwr; J. D. Williams, Penybont; M. Rees, Groeswen; W. Griffiths, Llanharan; J. Evans, Maendy; W. Morgan, Llwyni, ac eraill. Parhaodd Mr. Owens i lafurio yma hyd Medi, 1865, pryd yr ymfudodd i'r America. Mehefin 18fed a'r 19eg, 1866, urddwyd Mr. David Lewis, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, yma. Traddodwyd y gynaraeth gan Mr. W. Roberts, Athraw Clasurol yr athrofa; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Griffiths, Llanharan; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Price, Aberdar, ac i'r eglwys gan Mr. W. Edwards, Aberdar. Bu Mr. Lewis yn llafurio yma ac yn Bethel yn barchus iawn hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pryd y symudodd i Lanelli, sir Gaerfyrddin. Yn 1871, rhoddwyd galwad i Mr. W. Morris, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Mehefin 19eg a'r 20fed. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont; holwyd y gofyniadau gan Proffesor Morris, Aberhonddu; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Davies, Taihirion; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Jones, B.A., Merthyr, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Caerdydd.

Mae ysgoldy perthynol i Brynmenyn wedi ei adeiladu yn Bryncethin, lle y cynhelir ysgol bob Sabboth, a chyfarfodydd gweddio a phregethu yn achlysurol. Cafwyd y tir yn rhad gan Mr. William Evans, Felinnewydd, yn 1828, ac adeiladwyd yr ysgoldy y flwyddyn ganlynol.

Yma y dechreuodd Evan Griffiths, Abertawy—cyfieithydd Esboniad Mathew Henry—bregethu, ac yma hefyd y dechreuodd Evan Martin bregethu, yr hwn wedi treulio blynyddau yn America, a ddychwelodd yma, ac a fu farw yn ddiweddar yn Mhenybont.

## COETY.

Nid oes dim hanes i unrhyw ymgais gael ei wneyd i efengyleiddio y pentref hwn cyn y ganrif hon. Mae traddodiad yn yr ardal i Daniel Rowlands, Llangeitho, bregethu unwaith yn yr hen gastell sydd yma.

Digitized by Google

Hen arferiad yma ydoedd fod chwareu pel ar y fynwent ar y Sabboth ar ol y gwasanaeth, a'r gweinidog plwyfol yn blaenori y gamp. Mae yn yr ardal etto rai hen bobl sydd yn cofio hyny. Cynhelid yma Wylmabsant bob blwyddyn, yr hwn oedd yn ffynhonell llygredigaeth ac anfoesoldeb yn yr ardal; a pharhawyd i'w chadw hyd y flwyddyn 1860, pryd y rhoddwyd yr wyl i lawr trwy waith yr Annibynwyr yn cadw cyfarfod pregethu ar yr un dydd. Yn nechreu y ganrif bresenol pan yr oedd Mr. Methusalem Jones (Bethesda, Merthyr, wedi hyny,) yn weinidog yn Llangynwyd, ac yn gofalu am eglwys y Maendy ddau Sabboth o bob mis, pregethai ef yn aml ar ei ffordd i'w gartref yn y Bettws, mewn ty anedd yn y Coety; ond boddlonodd yn unig ar bregethu yn achlysurol yn y lle heb wneyd un cynyg ar sefydlu achos yma. Cyfarfyddai amryw o aelodau Penybont, oeddynt yn byw yn agos yma, a'u gilydd i ddarllen bob Sabboth, ac un noswaith o'r wythnos; ac er dechreu gweinidogaeth Mr. William Jones, yn Mhenybont, pregethai yn dra rheolaidd yn yr Oak, Coety, a chadwai gyfeillach grefyddol bob wythnos er cyfleusdra yr aelodau oeddynt yn rhy bell i fyned i'r dref. Gan fod Mr. Jones am y rhan fwyaf o'i oes wedi byw yn nes i'r Coety, nag i un arall o'r canghenau dan ei ofal, cafodd yr achos bychan yma fantais ei bresenoldeb fynychaf yn ei holl gyfarfodydd; ac yr oedd yma ychydig nifer o bersonau yn gallu gwerthfawrogi ei addysg a'i weinidogaeth. Yn y flwyddyn 1826, codwyd yma gapel bychan, yr hwn a alwyd yn Gilead; ond ni chorpholwyd eglwys ynddo hyd y flwyddyn 1834. Nid oedd ond adeilad bychan diaddurn, ond yr oedd ei gael fel yr oedd yn gyfleustra mawr i'r ardal. Bu y lle dan ofal Meistri W. Jones, a J. D. Williams, ac R. Gwesyn Jones yn olynol hyd ymadawiad yr olaf. Dros rai blynyddau ar ol hyny bu yr eglwys fechan yma yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd Awst, 1863, pryd y cymerodd Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont ei gofal; yr hwn oedd eisioes wedi bod yn Mhenybont am fwy na phedair blynedd, ac o dan ei fugeiliaeth ef y mae yn parhau. Yn y flwyddyn 1862, adeiladwyd yma gapel newydd gwerth 300p., ac y mae yr achos mewn gwedd gysurus pan gofiwn nad yw y cylch ond bychan a chyfyng.

Clywsom lawer gwaith ganmoliaeth uchel i rai o aelodau y Coety fel dynion meddylgar a deallus, ond gan na chawsom eu henwau nis gallwn wneyd unrhyw grybwylliad am danynt; ond yr ydym yn gasglu oddiwrth "Nodiadau coffadwriaethol am William Evan, Coety, Morganwg," gan Mr. J. D. Williams, a ymddangosodd yn y *Diwygiwr* am 1851, tu dal. 259, ei fod ef yn un o honynt, ac fel y gallwn feddwl y rhagoraf yn eu mysg. Yr oedd fod dyn cyffredin ei amgylchiadau yn nghanol y wlad wedi cyrhaedd y fath wybodaeth yn beth anghyffredin yn y dyddiau hyny, ac y mae yn mhell o fod yn beth cyffredin yn y dyddiau hyn.

## BETHEL.

Yr Ysgol Sabbothol oedd y dechreuol achos o sefydliad eglwys yn y gymydogaeth hon. Cafodd yr ysgol ei dechreu mewn Elusendy ar Hirwaun, tua dechreu y flwyddyn 1819, gan dri cymydog, heb un o honynt yn dal perthynas ag un enwad crefyddol. Y tri hyn oeddynt Thomas Hopkin, Pantcarfan; Thomas William, Tyn'ywaun, a Isaiah John, gof, mab y Wernfach, yr hwn oedd yn llettya y pryd hwnw yn y Parcbach. Gwahoddasant eraill i'w cynorthwyo, sef Evan John, brawd Isaiah John, ac Evan Davies (Myfyr Morganwg), Corneldu. Ymdrechwyd yn ffydd-

Digitized by Google

lon gyda'r ysgol, a daeth yn flodeuog cyn pen blwyddyn; ond nid oedd yno neb i fyned ag achos yr ysgol at orsedd gras wrth ddechreu nac wrth ddiweddu. Tynodd hyn sylw brodyr y Brynmenyn a daethant yn fynych i'w cynorthwyo.

Tua chanol mis Hydref, y flwyddyn hono, daeth Mr. William Jones, Penybont, i bregethu yma ar foreu Sabboth, a rhoddodd ryw gymaint o Holwyddoreg i'r ysgol gan eu hanog i ddysgu penod ar "Berson Crist" erbyn dydd Nadolig. Yr oedd yr ysgolion canlynol yn cyfarfod yn Brynmenyn y Nadolig hwnw, sef Penybont, Coety, Brynmenyn, a Llangynwyd. Ymdrechwyd gyda'r ysgol yn ddiwyd o hyny hyd y gymanfa; ac erbyn treulio y cyfarfod derbyniwyd y chwaer ieuangc i'r undeb gyda chymeradwyaeth mawr. Erbyn hyn yr oedd yn nghanol y gauaf, a'r hen elusendy ar Hirwaun yn oerllyd ac annymunol iawn. Cafodd Morgan Howell, Llwyniwrch, ar ei feddwl i wahodd yr ysgol i ddyfod i'w dŷ ef, ac y caent ystafell ganddo ef am ddim, sef y pen dwyreiniol i'r tŷ. Yr oedd y cynyg yn gaffaeliad mawr i'r ysgol, oblegid yr oedd y lle yn fwy cysurus o lawer iawn, ac yn helaethach gogyfer ag ychwanegiad parhaus yr ysgol. Yn Mehefin, 1820, bu cymanfa ysgolion ar y cyntedd o flaen y ty hwn. Parhaodd Mr. Jones i ddyfod yma i bregethu yn achlysurol, a dechreuwyd siarad un noswaith y buasai yn ddymunol iawn cael ty i gadw ysgol ac i bregethu yn y gymydogaeth. Addawodd Mr. Jones ddyfod yno yn mhen yr wythnos i bregethu ac i gael siarad yn mhellach yn nghylch yr achos; a daeth yn ol ei addewid, a daeth y bobl yn nghyd yn ffyddlon a gwresog ac a chalon i weithio. Tanysgrifiwyd cyn ymadael 20p. Yn fuan ar ol hyn, aed i ymofyn tir i adeiladu, yr hyn a gafwyd gan Thomas Thomas, Ragland, a'i wraig, sef wyth perc ar brydles o 999 o flynyddau am ddau swllt a chwe' cheiniog yn y flwyddyn. Dechreuwyd adeiladu yn ddioed, a chymerodd Morgan Howell, Llwyniwrch; Edward John, Wern, a Thomas Williams, Ty'nywaun, y gofal arnynt. Codwyd y cerig, a chludwyd y defnyddiau i gyd am ddim gan y cymydogion, a chafwyd y rhan fwyaf o'r coed am ddim gan foneddigion, sef, R. H. Jenkins, Ysw., Llanharan; W. Vaughan, Ysw., Llanlai; W. Coffin, Ysw., Llandaf; ac M. P. Treharne, Ysw., Coetrahen. Cwblhawyd yr adeilad, a chafodd y capel ei agor Medi 28ain, 1820, gan luaws o weinidogion, yn mhlith eraill, Mr. G. Hughes, Groeswen, yr hwn a enwodd y capel yn Bethel, gan bregethu oddiwrth Gen. xxviii. 19. Yn mis Tachwedd canlynol, ffurfiwyd eglwys yma, a pharhaodd Mr. Jones i lafurio yma hyd ddiwedd ei oes. Y Sabboth diweddaf y bu fyw, sef y 30ain o Fai, 1847, gweinyddodd y Cymundeb yn y boreu. Bu y gweinidogion cymydogaethol yn gweinyddu yn y lle wedi marwolaeth Mr. Jones, hyd ganol y gauaf canlynol, pryd y rhoddodd Brynmenyn a Bethel alwad i Mr. O. Owens, o Lanwrtyd, ac mewn cysylltiad gweinidogaethol a Brynmenyn y mae y lle wedi bod hyd yr awr hon. Yn Mehefin, 1854, tynwyd yr hen gapel i lawr ac adeiladwyd un newydd; ac erbyn y flwyddyn 1859 yr oedd cynydd graddol wedi bod ar yr achos fel y barnwyd yn angenrheidiol rhoddi oriel ynddo. Nid yw terfynau yr eglwys yn eang, na'r boblogaeth yn lluosog, ond y mae gwedd gysurus ar yr achos. Rhif yr aelodau ydyw 52.

Codwyd yma ddau bregethwr, sef Evan Davies, Corneldu, yr hwn a adnabyddir yn well fel Myfyr Morganwg; ond y mae ei gysylltiad ef a'r enwad wedi darfod er's blynyddau; ac Isaiah John, yr hwn sydd yn parhau yn bregethwr cynorthwyol parchus yn yr eglwys.

Digitized by Google

## CYMER-GLYN-CORWG.

Y mae y lle hwn yn mhlwyf Glyncorwg, a'i safle yn mhen isaf glyn a elwir Glyncorwg, lle y mae yr afonydd Corwg ac Afan yn ymuno a'u gilydd, ac y *cymer* yr olaf y flaenaf iddi ei hun. Yn niwedd y ganrif ddiweddaf, yr oedd chwareuyddiaethau a champiau gwageddus, llygredig, ac annuwiol, yn cael eu cynal yn gyhoeddus yn y lle hwn, a hyny ar y Sabbothau. Ychydig iawn oedd o gyrchu i'r Eglwys i'r gwasanaeth dwyfol i glywed y "duwiol ŵr o'i lân ddarllenfa" yn darllen "a llafar doeth y llyfr da;" ond yr oedd cyrchu mawr gan ddynion o bell ag agos i'r lle ar y Sabbothau, i gynal y campiau llygredig ac annuwiol a ddygid yn mlaen yno. Yr oedd llawer yn dyfod i'r lle i gymeryd rhan yn y chwareuon trwy gystadlu ynddynt, a llawer eraill yn dyfod yno er mwyn y difyrwch a'r pleser o'u gweled yn cael eu dwyn yn mlaen. Yr oedd crythwr *(fiddler)* o ardal Glynnedd yn dyfod yma yn gyson a rheolaidd, bob prydnawn Sabboth i chwareu y crwth er difyrwch y gwyddfodolion. Y campau a'r chwareuon a ddygid yn mlaen oeddynt, neidio, rhedeg, taflu maen a throsol, a choetiau, ymladd ceiliogod, chwareu disiau a chardiau, dawnsio, a chwareu bwlpinau. Y chwareufa oedd y tafarndy, yn nghyd a'r gwastad-tir ar lan afon Corwg, yn agos i'r Cymer.

Dywedir mai Thomas Richard, o'r Rhiwlech, a fu yn offerynol i osod terfyn ar y campiau llygredig hyn. Cymerodd hyny le fel y canlyn:—Yr oedd Thomas Richard yn myned i'r mynydd ar brydnawn Sabboth, yn ol ei arfer i edrych am yr anifeiliaid. O herwydd fod y llwybr i'r mynydd yn serth a garw, ac yntau yn teimlo yn lluddedig, efe a eisteddodd i lawr mewn man cyfleus i orphwys ac adnewyddu ei nerth. Tra yn eistedd yno, clywai floeddiadau, a chableddau, a rhegfeydd arswydus, yn esgyn i fyny o'r dyfnder odditano, nes oedd yr hen greigiau o'i gylch yn dysbedain. Meddianwyd ef yn y fan gan ofn a dychryn mawr iawn, nes oedd yn mron methu symud o'r lle, a daeth yr ystyriaeth mor gryf i'w feddwl mai efe oedd yn gyfrifol am yr holl anfadwaith a'r annuwioldeb a ddygid yn mlaen, gan mai ar ei dir ef yr oedd y tafarndy, fel yr ofnai rhag i farn Duw ddisgyn arno yn y lle. Penderfynodd yn y fan heb ymgynhori a chig a gwaed, yn nerth Duw, i osod terfyn ar y fath annuwioldeb, a hyny yn ddioed, os oedd yn bosibl. Rhoddodd rybudd i'r Tafarnwr i ymadael o'r tŷ, a gwaharddodd i'r campiau i gael eu cynal yno o hyny allan. Wedi ymadawiad y tafarnwr, trowyd y tafarndy yn addoldy at wasanaeth yr Annibynwyr. Nid oedd pregethu yn rheolaidd gan yr Ymneillduwyr yn y Cymer cyn o gylch o flwyddyn 1792, ond yr oedd un o'r enw Thomas Jones, yr hwn oedd frodor o'r ardal hon, ac yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn sir Gaerloyw, yn rhoddi pregeth unwaith yn y flwyddyn yn Glyncymer, ffermdy cyfagos, ond yn mhlwyf Llangynwyd, pan yn dyfod i ymweled a'i fam, yr hon oedd yn byw yn Lluest-nant-yr-afael, plwyf Llangynwyd. Y cyntaf a fu yn pregethu yn rheolaidd yn ardal y Cymer oedd Abraham Tibbot. Daeth yma mae yn debyg yn fuan wedi gadael Llanuwchllyn yn y flwyddyn 1792, ac yn yr ardaloedd hyn y bu hyd nes y dychwelodd i'r gogledd yn y flwyddyn 1794, oblegid cawn ei fod y flwyddyn hono yn sir Fon, ac yn gwneyd cais am gynorthwy o'r Trysorfwrdd Cynnulleidfaol; ac yn Mon y parhaodd i lafurio o hyny hyd ei farwolaeth. Y lle cyntaf y bu Mr. Tibbot yn pregethu ynddo yma

Digitized by Google

oedd Glyncymer, lle yr oedd un Morgan Thomas yn byw, taid i'r Morgan Thomas sydd yno yn bresenol. Bu hefyd yn pregethu yn yr awyr agored yn y Cymer gyferbyn a'r hen dafarndy; ac yr oedd nerth mawr yn cydfyned a'i weinidogaeth, fel y trowyd llawer oddiwrth eu ffyrdd drygionus at yr Arglwydd. Ffurfiwyd eglwys yma yn ol trefn yr Annibynwyr, a chafodd yr eglwys fechan y tafarndy at ei gwasanaeth, a throwyd ef yn lle cyfaddas at addoli Duw. Bu mesur helaeth o lwyddiant ar lafur Mr Tibbot yn ystod y ddwy flynedd y bu yn llafurio yma ac yn Llangynwyd. Nid oes genym sicrwydd pwy fu yn gweinidogaethu i'r eglwys yma yn y blynyddoedd wedi ymadawiad Abraham Tibbot hyd sefydliad Mr. Methusalem Jones yn 1800. Dywedir yn hanes Llangynwyd i un Walter Edwards fod yn gweini i'r eglwys yno, ond nid oes son am dano yn nglyn a'r eglwys yma, a sonir am un Watkin, Tonygrugos, yn Nghwmgwenffrwd, yn gweini i'r eglwys hon wedi ymadawiad Mr. M. Jones; ond ni sonir am enw hwnw yn nglyn a Llangynwyd, er fod yr ddwy eglwys o dan yr un weinidogaeth yn y tymor hwnw. Dywedir am y ddau fod yn amheus a urddwyd hwy, ac iddynt ymfudo i'r America. Ai tybed nad yr un yw y ddau, ond fod yr enw yn cael ei gamgymeryd yn un o'r ddau amgylchiad? Ac os yr un ydynt, pa un ai cyn ai ar ol Mr. Methusalem Jones y bu yma? Pwy a fedr roddi goleuni ar hyn? Yn mis Medi, 1800, urddwyd Mr. Methusalem Jones yn weinidog. Llafuriodd Mr. M. Jones yma gyda derbyniad a mesur o lwyddiant am wyth mlynedd nes yr ymfudodd i Ferthyr at gynnulleidfa fechan yno. Ar ei ol ef bu Mr. Walter Thomas yn weinidog y Cymer a Llangynwyd dros ryw ysbaid. Gweler ei hanes ef yn Cyf. I., tu dal. 13. Ar ei ol ef urddwyd Mr. William Beynon yn weinidog i'r eglwys hon mewn cysylltiad a Bethesda, Llangynwyd. Ymddengys i Mr. W. Beynon fod yma tua deuddeng mlynedd, ac iddo ddatod ei gysylltiad a'r lle tua'r flwyddyn 1822. Bu Mr. Daniel Griffiths, Castellnedd yn dyfod yma am ychydig ar ol hyn hyd nes y rhoddwyd galwad i Mr. Richard Jones, aelod o'r Storehouse, Cwmnedd, ac urddwyd ef Hydref 6ed a'r 7fed, 1824. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Evans, Godrerhos; D. Jones, Llanharan; R. Howells, Baran; M. Lewis, Hermon; J. Rowlands, Cwmllynfell; D. Evans, Mynyddbach; D. Griffiths, Castellnedd, ac eraill.* Bu Richard Jones yma dros rai blynyddoedd yn barchus, ond ymgollodd o radd i radd, nes yr aeth o'r diwedd i'r fath wrthgiliad fel y bu raid i'r eglwys dori pob perthynas ag ef. Bu gofal yr eglwys ar ol hyny am dymor ar Mr. William Morgan, Llwyni; ond yn y flwyddyn 1833, rhoddwyd galwad i Mr. William Thomas, aelod o Nebo, Hirwaun, ac urddwyd ef Gorphenaf 16eg a'r 17eg, y flwyddyn hono. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri L. Edwards, Cwmbychan; M. Lewis, Hermon; J. Rowlands, Cwmllynfell; J. Harrison, Aberdar; D. Griffiths, Castellnedd; W. Morgan, Llangynwyd, ac eraill.† Llafuriodd Mr. Thomas yma am wyth mlynedd, pryd y cymerodd ofal yr eglwys yn Cefncribwr; ac ar ol hyny bu yr achos yn olynol dan ofal Meistri Daniel Evans, Castellnedd; Thomas Lloyd a William Watkins, Maesteg; ond nid oedd y naill na'r llall yn gallu rhoddi i'r eglwys yma ond rhan fechan o'u llafur. Yn y flwyddyn 1849, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. David Henry, aelod a phregethwr yn Zoar, Maesteg, ond a fuasai am dymor yn derbyn addysg yn Llanelli.

* *Dysgedydd*, 1825. Tu dal. 243. † *Yr Efengylydd*, 1833. Tu dal. 283.

Digitized by Google

Urddwyd ef yn mis Hydref y flwyddyn hono; ac ar yr achlysur cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri W. Watkins, Maesteg; J. Rees, Carmel; H. Rees, Ystrad; W. Thomas, Rock; J. Thomas, Cefncribwr; J. Davies, Bryn, a D. Evans, Castellnedd. Bu Mr. Henry yma am ddeng mlynedd, nes y derbyniodd alwad o Benygroes a Milo, sir Gaerfyrddin, ac y symudodd yno. Wedi ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol am dymor, yn mis Hydref, 1862, urddwyd Mr. William Hopkins, yr hwn oedd yn aelod ac yn bregethwr yn yr eglwys, yn weinidog iddi. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn wyddfodol, ac yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth, Meistri W. Watkins, Saron; J. Jones, Zoar; W. Rees, Silo, a W. Morgans, Carmel, Maesteg; P. Griffiths, Alltwen; W. Thomas, Rock, a J. Mathews, Castellnedd. Mae Mr. Hopkins yn parhau i weinidogaethu yn y lle. Y capel cyntaf, fel y gwelsom, yn Cymer-glyn-corwg oedd yr hen dafarndy. Bu gwasanaeth crefyddol yn cael ei gynal yn hwnw am dros driugain mlynedd. Cafwyd cyfarfodydd gwlithog a hapus ynddo, a mwynhawyd llawer o'r nefoedd ganoedd o weithiau. Yn Mehefin, 1865, agorwyd yma gapel newydd hardd. Cymerwyd rhan yn ngwasanaeth yr agoriad gan Meistri I. Jones, Drefnewydd; J. Evans, Maendy; W. Morgans, Carmel; T. Rees, D.D., Abertawy; P. Griffiths, Alltwen; D. Henry, Penygroes; J. Mathews, Castellnedd, a W. Thomas, Rock.

Yr unig bregethwyr a gyfodwyd yn yr eglwys hon ydynt John Davies, yr hwn a urddwyd yn y Bryn, a William Hopkins, gweinidog presenol yr eglwys.

Bu amryw bersonau a gyfrifid yn hynod am eu duwioldeb yn perthyn i'r eglwys hon yn y dyddiau gynt, megis Dafydd Thomas, Tonmawr, yr hwn a fu farw pan yn ieuangc trwy gael ei daro gan fellten. Yr oedd un Griffith, Blaenafan, ac un William Thomas, o'r Tygwynbach, a Thomas, o'r Gelliron, yn rhai hynod am eu ffyddlondeb i ddyfod i'r cynnulliadau crefyddol. Yr oedd yma rai hynod hefyd mewn amseroedd diweddarach —Mary Lewis, o'r Wern, gwraig Rees Lewis, a fu yn offerynol i wasgaru llu o chwareuwyr ag oeddynt wedi dyfod o'r Maesteg i gymydogaeth y Cymer, ar y dydd Sabboth, i chwareu bando. Yr oedd yno rai ugeiniau o ddynion rhwng y chwareuwyr a'r edrychwyr. Aeth hi yn mlaen yn ddiofn i'w canol, a safodd rhwng y chwareuwyr, edrychodd arnynt gyda'r fath lymder a difrifoldeb, a siaradodd gyda'r fath bwys ac awdurdod am eu hymddygiad annuwiol, ac am y perygl o iddynt ddilyn y cyfryw arferion, a bod digofaint Duw yn aros arnynt, tra yr oeddynt yn gwneyd dydd Duw yn dymor eu difyrwch, a bod barn Duw yn sicr o ddyfod arnynt wrth ddilyn eu bywyd annuwiol; fel y methasant a myned yn mlaen yn mhellach yn eu chwareu, ond ymwasgarasant ymaith, ac aeth pawb i'w ffordd, a dychwelodd hithau adref, wedi cael buddugoliaeth, gan glodfori Duw am ei chynorthwyo yn yr ymdrech. Y mae yn yr eglwys etto amryw o rai rhagorol y ddaear, y rhai nid yw y byd yn deilwng o honynt.*

## BLAENCORWG.

Gydag agoriad y gweithiau yn mlaen Glyncorwg, meddyliodd yr eglwys yn y Cymer am gychwyn achos yn y lle. Dechreuwyd cynal moddion

* Yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r hanes blaenorol i draethawd Mr. D. Henry, Penygroes, yn y llyfr a gyhoeddwyd dan yr enw *Gardd Flodeu Glyncorwg.*

crefyddol yma tua'r flwyddyn 1862, a chyn hir codwyd yma gapel bychan o goed ar dir Ty'nypant, a chorpholwyd eglwys ynddo, a buwyd yn addoli yn y lle am fwy na phedair blynedd. Yn y flwyddyn 1868, adeiladwyd yma gapel bychan cyfleus, ac y mae yr eglwys dan ofal Mr. William Hopkins yn nglyn a'r Cymer. Mae cyfoeth o fwnau yn y mynyddoedd cylchynol, fel y mae yn sicr y bydd yma ddylifiad pobloedd yn yr amser a ddaw.

## CWMOGWY.

Nid oes genym hanes fod un cynyg wedi ei wneyd i sefydlu achos Ymneillduol yn y Cwm hwn hyd y flwyddyn 1840. Yr oedd Gweni Jones, gwraig Nantymoel, yn aelod yn Brynmenyn, a Richard Williams, Margaret Williams, a Morgan Williams, Rhiwglyn, a Mary Williams, Gadlys, yn aelodau gyda'r Methodistiaid yn Glynogwy; a theimlodd y rhai hyn awydd am gael pregethiad cyson o'r efengyl yn y Cwm. Gwahoddwyd Mr. Hopkin, gweinidog y Bedyddwyr yn Felin-Ifan-Ddu, i bregethu yn achlysurol iddynt ar y Sabbothau; a phregethodd lawer yn Tyhowel, a'r Aber, a manau eraill yn y Cwm—ond yn Tyhowel fynychaf, a deuai nifer luosog o'r ardalwyr i wrando. Cyn hir ymadawodd Mr. Hopkin, a daeth Mr. William Williams, cyn-weinidog Felin-Ifan-Ddu, a chymerodd ei le yma; ond oblegid i Mr. Williams roddi gormod o arbenigrwydd i'w olygiadau neillduol ar Fedydd, ciliodd y gwrandawyr, a rhoddodd yntau i fyny ddyfod yma. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1843. Yn yr adeg yma, dechreuodd Mr. William Morgan, pregethwr cynorthwyol perthynol i'r Cymer, a chyrchu i'r lle, a hoffwyd ef gan y trigolion. Ffurfiwyd yma eglwys Annibynol, yn yr hon yr unodd amryw o'r brodorion, a'r rhai oeddynt yn aelodau yn flaenorol; a chyn diwedd y flwyddyn rhoddwyd galwad i Mr. Morgan i fod yn weinidog yma, ac urddwyd ef yn gynar yn y flwyddyn 1844. Cynhaliwyd cyfarfodydd yr urddiad yn ysgubor yr Aber; ac ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri J. Evans, Cymer; W. Griffiths, Llanharan; M. Morgan, Bethesda; J. Evans, Maendy; W. Jones, Penybont; T. Lloyd, Llwyni, ac L. Lawrence, Llantrisant. Pum' wythnos yr arhosodd Mr. Morgan yma wedi ei urddo, canys derbyniodd alwad o Troedyrhiw, Merthyr, a dechreuodd ei weinidogaeth yno y Sabboth cyntaf yn Ebrill, 1844, ac y mae yn parhau i lafurio yno.

Yn haf 1847, adeiladwyd yma gapel ar ddarn o dir a gafwyd gan Mr. Jenkins, Llanharan. Galwyd ef Bethania. Costiodd 106p. 18s. 9½c., heblaw cludiad y defnyddiau, yr hyn a gafwyd yn rhad gan yr ardalwyr.* Agorwyd y capel yn mis Mehefin, 1848. Wedi ymadawiad Mr. Morgan, bu gofal yr eglwys yn benaf ar Meistri W. Jones, Penybont; W. Griffiths, Llanharan, a J. Evans, Cymer; ac wedi marw y blaenaf, parhaodd y ddau a enwyd olaf i ofalu am y lle am flynyddoedd. Cymerodd Mr. Richard Jones ofal yr eglwys tua'r flwyddyn 1857, a pharhaodd i ofalu am dani hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mawrth 10fed, 1863; ac yn fuan wedi hyny, cymerwyd gofal yr eglwys gan Mr. David Jones, Efailfach, yr hwn sydd yn parhau yn weinidog iddi. Nid yw yr achos ond bychan; ond y mae adnoddau y Cwm y fath fel y gellir disgwyl y bydd y boblogaeth yma yn lluosog cyn hir, ac y gwelir yma achos blodeuog.

* Llythyr Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont.

Digitized by Google

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

**Richard Jones.** Ganwyd ef yn Tainewydd, gerllaw Aberpergwm, yn Nghwmnedd, yn y flwyddyn 1794. Adnabyddid ef yn ei gymydogaeth fel "Richard o'r siop," am fod ei rieni yn cadw siop fechan. Efe oedd unig blentyn ei rieni, a rhoddwyd iddo well addysg nag a gafodd y rhan fwyaf o'i gyfoedion. Treuliodd flynyddoedd ei febyd a'i ieuengctyd yn wyllt ac anystyriol, gan rodio yn ol helynt y byd hwn a dilyn arferion llygredig ei gymydogion; ond yn y diwygiad grymus a gafwyd yn Nglynnedd tua'r blynyddoedd 1814 a 1815, ymwelodd yr Arglwydd ag ef yn ffordd ei ras; ac yr oedd yn mysg blaenffrwyth y cnwd mawr a gasglwyd yn y diwygiad hwnw, a diwygiadau dilynol yn nyffryn Nedd. Gan fod Richard Jones wedi derbyn gwell addysg na'r rhan fwyaf, ac yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu, ac yn meddu llawer o ddawn canu, a gweddio, a chynghori, rhoddodd hyny iddo gyhoeddusrwydd a blaenoriaeth yn mysg ei frodyr, ac yr oedd ganddo galon i weithio. Yr oedd yn flaenllaw gyda'r Ysgol Sabbothol, a rhoddid ef yn aml i egwyddori yn gyhoeddus pan yn parotoi ar gyfer y cymanfaoedd ysgolion a gynhelid, ac ar ddydd yr uchelwyl ato ef yr edrychid fel arweinydd yr ysgol. Rhoddodd hyn gyfle i'w ddoniau ymddadblygu, a chymhellwyd ef i ddechreu pregethu, yr hyn a wnaeth tua'r flwyddyn 1820. Wedi pregethu dros rai blynyddoedd yn Glynnedd a'r wlad oddiamgylch, derbyniodd alwad gan eglwys Cymerglyn-corwg, ac urddwyd ef yno Hydref 6ed a'r 7fed, 1824. Ar ol treulio rhai blynyddoedd yn dderbyniol a chymeradwy yn y weinidogaeth, ymdaenodd cwmwl du, tywyll, drosto, a disgynodd mor isel fel yr ofnai ei gyfeillion goreu mai yn y tywyllwch y dybenai ei yrfa. Dywedir iddo gael ei siomi mewn merch ieuangc, ar yr hon yr oedd wedi rhoddi ei serch; ac yn ei brofedigaeth iddo ymollwng i yfed, nes o radd i radd yr aeth y chwant yn feistr arno, fel y bu raid ei ddiarddel o bob cysylltiad a chrefydd. Treuliodd y deng mlynedd dyfodol heb un math o berthynas rhyngddo ag eglwys Dduw; a dengys ei hanes gofidus yr eithafion y gall dynion fyned iddynt trwy gellwair a phrofedigaethau er wedi dangos arwyddion gobeithiol unwaith. Aeth i sir Fynwy i weithio fel glowr, ac yno ymunodd a'r Siartiaid, y rhai ar y pryd oeddynt yn lluosog iawn yn Morganwg a Mynwy, ac yn peri cynhyrfiadau dirfawr. Gan fod Richard Jones yn meddu ar ddawn siarad rhwydd a chyffrous, daeth yn fuan i gyhoeddusrwydd yn nglyn a'r cynhyrfiadau Siartaidd, ac yr oedd yn un o'u hareithwyr mwyaf poblogaidd, a chyfrifid ef yn un o'r blaenoriaid ganddynt. Areithiodd lawer yn eu cyfarfodydd trwy yr holl wlad o Rhymni hyd Lanelli, Brycheiniog. Ond pan y gweithiodd y terfysg hwnw i'w bwynt uchaf, yn eu mynediad yn dorf fawr tua Chasnewydd, ar y dydd angeuol, ac y gwasgarwyd hwy gan y milwyr, rhoddwyd gorchymyn allan i ddal arweinwyr y terfysg; ac yn mysg eraill, rhoddwyd gwarant allan i ddal Richard Jones, ond ciliodd ef ymaith yn ddirgelaidd tua sir Gaerfyrddin. Mae un engraifft nodedig o gyfryngiad Rhagluniaeth (fel y credwn,) ar ei ran yn ei ffoedigaeth. Yr oedd yn nyfnder y gauaf, ac yn hytrach na chymeryd y ffordd fawr, aeth yn groes i'r wlad ar hyd y llwybrau mwyaf anhygyrch gan ymddieithrio goreu gallai. Ar un prydnhawn Sadwrn daeth i dafarndy yn mhentref bychan, diarffordd, Felindre, heb fod yn mhell o Langa-

Digitized by Google

felach, ar y ddeheu i Bontarddulais. Gofynodd am letty, a chan ei fod yn lluddedig iawn aeth i'r gwely cyn chwech o'r gloch; ond cyn myned talodd am ei letty, gan roddi ar ddeall y bwriadai gychwyn yn foreu dranoeth. Yn hwyr yr un noson, dyna ŵr dyeithr arall yn dyfod i'r tŷ, ac yn gofyn am letty, yr hyn a ganiatawyd iddo, ond iddo gysgu yn un o ddau, gan fod un eisioes yn y gwely. Aeth hwnw hefyd i'w wely, a chan ei fod yntau yn lluddedig cysgodd yn drwm. Boreu dranoeth yr oedd Richard Jones i fyny rhwng pedwar a phump o'r gloch, a chychwynodd i chwilio am gysgod o ffordd ei erlynwyr; a thua naw o'r gloch cododd y gwr arall, ac ar ol boreufwyd, dywedodd wrth ŵr y tŷ, mai heddgeidwad ydoedd yn ymlid ar ol un o'r enw Richard Jones, yr hwn yr oedd gwarant allan i'w ddal am gymeryd rhan yn y cynhwrf Siartaidd. Ac yna darluniodd pa fath un ydoedd. "Wel," ebe gwr y tŷ, "'roedd e yn cysgu yn yr un gwely a chwi neithiwr, ond y mae e wedi myned ymaith er's mwy na phum' awr, ac nis gwn yn y byd tua pha gyfeiriad yr aeth." Rhoddodd yr heddgeidwad i fyny i ymlid ar ei ol, a dychwelodd tua'r lle o'r hwn y cychwynodd. Aeth Richard Jones tua Phontyberem, sir Gaerfyrddin, a dechreuodd weithio yno, a daeth ato ei hun i weled ffolineb ei ofer ymarweddiad. Priododd wraig weddw yno, a dechreuodd fywyd newydd. Arwyddodd yr ardystiad dirwestol, i'r hwn y bu yn ffyddlon hyd angau. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan Mr. Joseph Evans, Capel Seion, yr hwn yn ol ei arfer i bawb a fu yn hynod o garedig iddo. Ennillodd Richard Jones trwy ei wyleidd-dra, ei weithgarwch, ei dynerwch, a'i fuchedd newydd, ymddiried yr holl eglwys. Anaml y gwelwyd neb yn dwyn arwyddion eglurach o wir edifeirwch a dychweliad at yr Arglwydd, a chafodd yr eglwys a'r gweinidog y fath foddlonrwydd ynddo, fel yr anogwyd ef i ail ddechreu pregethu, yr hyn a wnaeth ond gyda gwylder a gostyngeiddrwydd mawr. Er fod ei ddoniau wedi rhydu a'i alluoedd wedi pylu rhagor y peth oeddynt unwaith, etto, pregethai gyda gwres a bywiogrwydd neillduol, ac yr oedd ôl ei brofedigaethau yn amlwg i'w canfod yn ei weddiau a'i bregethau. Anturiodd i ymweled a'i hen gyfeillion yn Nghwmnedd a manau eraill yn Morganwg, ac yr oedd yn dda gan bawb o honynt ei weled wedi cael ei draed yn rhydd o'r clai tomlyd. Symudodd yn mhen amser i Maesteg i weithio, heb fod yn mhell o'r fan lle yr urddwyd ef; a thua'r flwyddyn 1852, ymfudodd i America, lle y bu am fwy na dwy flynedd, a thra yno ymddibynai am ei gynaliaeth ar ei waith, a gweinidogaethai i eglwys fechan o Gymry oedd yn Blossburg, lle yr oedd yn aros. Dychwelodd i Gymru drachefn a sefydlodd yn Maesteg eilwaith, gan bregethu yn mha le bynag y gelwid am dano, ac yr oedd yn dderbyniol yn mha le bynag yr elai; ac nid oedd neb yn cofio ei fuchedd gynt. Derbyniodd alwad gan yr eglwys fechan yn Bethania, Cwmogwy, a bu yn weinidog yno nes y cymerwyd ef ymaith gan angau Mawrth 10fed, 1863, yn 69 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Salem, capel y Bedyddwyr, yn Maesteg, pryd y pregethwyd gan Mr. J. Jones, Zoar, Maesteg.

Gyrfa hynod oedd gyrfa Richard Jones. Galwyd ef yn eglur i bob ymddangosiad gan ras yn ei droedigaeth ar ddechreu ei daith grefyddol; a threuliodd flynyddoedd yn ngwres ei gariad cyntaf, ond aeth deng mlynedd canol ei oes dros ei ben yn y fath fodd ag y buasai yn dda ganddo allu eu dileu o hanes ei fywyd; ond trwy ras Duw adferwyd ef, a threuliodd fwy nag ugain mlynedd olaf ei fywyd gan ddwyn yr arwyddion amlycaf o ddyn gwir edifeiriol; ac yr oedd yn wastad yn barod i ganmol y gras

Digitized by Google

mawr a dra amlhaodd tuag ato. Credwn y gellid heb betrusder roddi ysgrif-fedd Theomemphus ar gareg fedd Richard Jones:—

"Wel dyma'r dyn a garwyd a gadwyd yn y gwaed,
Deng miliwn llawn o feiau faddeuwyd iddo yn rhad;
Ei dynu wnaed o'r danllwyth, ac yntau'n myn'd i lawr,
Fe gadwyd hwn o uffern, mae yn y nef yn awr."*

## NANTYMOEL.

Yn y flwyddyn 1865, agorwyd gwaith glo yn Cwmogwy, a dylifodd pobl i fyw yma. Adeiladwyd ugeiniau o dai hyd flaen y Cwm. Yr oedd Bethania yn rhy bell i'r bobl uchaf i fyned i lawr iddo; felly cymerwyd darn o dir ar fferm Nantymoel ar brydles gan ei berchen, W. Llewelyn, Ysw., Cwrtcolmaen, ac adeiladwyd addoldy ar ffurf anedd-dy arno. Agorwyd ef Medi 3ydd, 1867. Gweithwyr glo y lle yn benaf fu yn gychwynwyr i'r achos yma, ac ydynt yn gofalu am dano etto. Bwriadant adeiladu addoldy hardd a chyfleus yn haf 1872, gwerth rhwng 500p. a 600p. Gyda'r eithriad o ychydig fisoedd ar ddechreu gweinidogaeth Mr. D. Jones, yn Bethania, y mae eglwys Nantymoel wedi bod heb un gweinidog i ofalu am dani. Mae yma oddeutu 50 o aelodau, ac yn ol pob arguelion bydd yn lle pwysig yn fuan, ac yn faes ardderchog i weinidog ymroddgar.

## LLANHARAN.

Yn y flwyddyn 1690, yr oedd offeiriad o'r enw Lewis yn dal bywioliaeth y plwyf hwn a phlwyf Llanilid, ac yn aneddu gydag un Mr. Mathews, yn Meiros. Yr oedd yr offeiriad hwn yn flaenor mewn annuwioldeb. Yr oedd yn hoff iawn o chwareu cardiau, a dywedir y byddai ef a'i gyfeillion yn eistedd lawer nos Sadwrn gyda'r cardiau hyd doriad y wawr y Sabboth, yna eilliai ei farf ar y Sabboth, ac elai i'r eglwys, ond anfynych y byddai neb ond y clochydd yno yn ei gyfarfod. Byddai ef ac un William Thomas weithiau yn ymladd ceiliogod ar y fynwent. Yr oedd hefyd yn un blysig iawn am gwrw. Tra yr oedd yr unig athraw crefyddol o'r cymeriad hwn nis gallesid disgwyl fod llawer o grefydd yn y plwyf. Nis gwyddom pa bryd y terfynodd y creadur gwael hwn ei yrfa lygredig; ond effeithiodd ei ymddygiad i wneyd yr ardal yn ddiarebol o annuwiol. Pa fodd bynag, fe ddaeth yr amser nodedig i'r Arglwydd drugarhau wrth y lle pechadurus hwn i fyny. Tua y flwyddyn 1730, trwyddedwyd ty neu ddau ar Waun Llanhari at bregethu ynddynt, a daeth Mr. David Williams o'r Watford; Mr. Henry Davies, Blaengwrach, ac eraill, i'r ardal i bregethu, ac fe fendithiodd yr Arglwydd eu llafur. Rywbryd rhwng 1730 a 1734, cafodd eglwys Annibynol ei chorpholi yn y Garth, yn mhlwyf Llanharan. Mr. Henry Davies, Blaengwrach oedd y gweinidog a ofalai yn benaf am yr eglwys ieuangc hon. Yr ydym yn cael yn llawysgrif Mr. Davies fod yma ddeunaw o aelodau ar yr 16eg o Fai, 1734. Eu henwau

* Cawsom y rhan fwyaf o'r ffeithiau blaenorol oddiwrth Mr. Williams, Hirwaun, yr hwn a adwaenai Richard Jones o'i gychwyniad cyntaf. Gwnaed crybwylliad am farwolaeth R. Jones yn y *Congregational Year Book* am 1864, ond y mae hwnw yn wallus iawn.

Digitized by Google

oeddynt John Richard, henuriad; William How, diacon; Thomas Henry, James Richard, William Meyrick, John Thomas, John Williams, Richard Bassett, Phlarw Thomas, Jannet Thomas, Catherine Thomas, Margaret How, Margaret Thomas, Barbara Thomas, Gwenllian David, Ioan David, Gwenllian ———, a Pryswydd Walter. Nis gwyddom pa cyhyd y bu'r praidd bychan yn addoli yn y Garth. Yn mhen rhyw gymaint o amser aethant at y Counsellor Powell, perchenog y rhan fwyaf o bentref Llanharan, i ofyn am le i osod yr arch ynddo. Caniataodd eu cais iddynt gyda'r sirioldeb mwyaf. Rhoddodd dafarndy yn nghanol y pentref iddynt at eu gwasanaeth, yr hwn a gyfaddaswyd ganddynt i fod yn dy addoliad yn lle bod yn synagog Satan. Buont yno yn addoli hyd farwolaeth Mr. Powell. Yna daeth ei frawd, yr hwn oedd yn offeiriad rhagfarnllyd, i feddiant o'r etifeddiaeth, a chan nad oedd hawl gan ei frawd i roddi *lease* gyfreithlon ar y lle i'r gynnulleidfa, cymerodd feddiant o hono a gyrodd hwynt allan i'r heol gan feddwl, mae yn debyg, y buasai wrth hyny yn lladd Ymneillduaeth yn y gymydogaeth. Ond camgymerodd. Yn wyneb cael eu hamddifadu o'u haddoldy, aeth y bobl at un Mr. Jones, perchenog y fferm a elwir y Coedbychan, a chawsant dir ganddo ef at adeiladu capel a chladdu eu meirw, mewn man prydferth iawn ar fin y ffordd fawr, ac o fewn chwarter milldir i bentref Llanharan, ond yn mhlwyf Llanbedr-ar-fynydd. Yr ydym yn tybied mai tua y flwyddyn 1780 yr adeiladwyd y capel. Bu Mr. Lewis Jones o wasanaeth mawr i'r achos hwn tra y bu yn Mhenybont. Ni bu yma yr un gweinidog sefydlog cyn y flwyddyn 1774, pryd y daeth Mr. Thomas Lewis o Dy'nycoed, Glyntawy, yma. Efe gafodd y llafur o fod a'r llaw flaenaf yn adeiladaeth y capel a thalu am dano, ond ni chafodd fyw yn hir i bregethu ynddo, canys bu farw yn y flwyddyn 1783. Cyn pen llawn flwyddyn wedi marwolaeth Mr. Lewis, rhoddwyd galwad i Mr. Noah Jones, gweinidog yr eglwysi yn y Cwmmawr a Rhydymardy. Bu ef yma ac yn y Taihirion yn barchus a dylanwadol iawn hyd ei farwolaeth ddisymwth ddydd Nadolig, 1814. Yn mhen tua blwyddyn wedi ei farwolaeth ef rhoddwyd galwad i Mr. David Jones, gweinidog yr eglwys yn Ebenezer, Aberdar. Darfu i'w ddoniau poblogaidd ef luosogi yr eglwys a'r gynnulleidfa yn fawr, a bu yn llafurio yma hyd y flwyddyn 1829, pryd y rhoddodd y lle i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i'r Taihirion a Bethlehem, Pentyrch. Chwefror 4ydd, 1830, urddwyd Mr. William Griffiths, myfyriwr o athrofa y Neuaddlwyd yma, ac efe oedd y gweinidog cyntaf a urddwyd yn y lle. Gweinidogion wedi eu hurddo mewn lleoedd eraill oedd y tri fuont yma o'i flaen. Ar yr achlysur o urddiad Mr. Griffiths pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Jones, Penybont; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. Jones, Taihirion; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. M. Jones, Bethesda, Merthyr; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Davies, Rhosycaerau, ac i'r eglwys gan Mr. D. Griffiths, Castellnedd.* Bu Mr. Griffiths yn gweithio yma yn egniol a ffyddlon am flynyddau cyn gweled nemawr o lwyddiant ar ei lafur, ond yn y flwyddyn 1841, torodd diwygiad grymus allan yma ac ychwanegwyd amryw ugeiniau at yr eglwys. Bu yma ddiwygiad effeithiol iawn drachefn yn 1860 a 1861. Yn y flwyddyn 1836, tynwyd yr hen gapel i lawr, gan ei fod yn rhy fychan ac yn dra dadfeiliedig, ac adeiladwyd y capel presenol. Maint y capel hwn yw 36 troedfedd wrth 24 tu

* *Dysgedydd*, 1830. Tu dal. 86.

Digitized by Google

fewn i'r muriau, ac oriel gyfleus ynddo. Traul yr adeiladaeth oedd 289p., yr hyn a dalwyd hyd at 60p. erbyn dydd yr agoriad. Agorwyd ef Mawrth 15fed a'r 16eg, 1837, pryd y traddodwyd pregethau gan Meistri Rowlands, Pontypool; Jones, Tredegar; Jones, Penmain; Jones, Penybont; Hughes, Dowlais, ac eraill. Bu Mr. Griffiths yn rhyfeddol o ddefnyddiol yma ac yn Nhreoes am yn agos i ddeugain mlynedd, a bydd ei enw yn perarogli yn yr ardal a thrwy yr holl sir am lawer o flynyddau etto i ddyfod. Bu farw yn yr Arglwydd yn 1867. Dilynwyd ef gan Mr. J. W. Morris, yr hwn a urddwyd yma Awst 18fed a'r 19eg, 1868. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Williams, Hirwaun; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Evans, Maendy; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. H. Evans, Penbre, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Caerdydd.*

Nid ydym yn gwybod am neb a gyfodwyd yma i bregethu ond y gweinidogion canlynol:—

Morgan Morgans, Bethesda-y-fro.

Elias Jacob, gynt o Abertawy, yn awr o Ebley, sir Gaerloew.

William Griffiths, Trefriw, Arfon. Mab Mr. Griffiths, y gweinidog.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS LEWIS. Ganwyd ef yn Nghwm-Ebwy-fawr, plwyf Bedwellty, sir Fynwy, yn y flwyddyn 1706. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Mhenmain. Mae yn debyg iddo ef, fel llawer o wyr ieuaingc gwresog eraill yn y cynnulleidfaoedd Ymneillduol, ymuno a'r Methodistiaid ar gychwyniad y diwygiad Methodistaidd, a bu am ddwy neu dair blynedd yn pregethu yn eu mysg, ond dychwelodd yn dra buan at ei hen frodyr. Cafodd ei urddo yn weinidog yr eglwys yn Mlaengwrach, Glynnedd, tua y flwyddyn 1746, neu y flwyddyn ganlynol. Bu yn gweinidogaethu yno ac yn Nhy'nycoed hyd y flwyddyn 1774, pryd y symudodd i Lanharan. Efe ddarfu adeiladu y capel cyntaf yn Nhy'nycoed a'r capel cyntaf yn Llanharan. Bu farw Awst 15fed 1783, yn 77 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y capel newydd a adeiladasid ganddo yn Llanharan. 1785 yw blwyddyn ei farwolaeth ar ei gareg fedd, ond gwall ydyw; 1783 a ddylasai fod.

Yr oedd Thomas Lewis, yn ol tystiolaeth ei gydoeswyr, yn ddyn da a defnyddiol iawn, ac yn bregethwr nodedig o alluog. Dywed Mr. Phillip Dafydd yn ei ddydd-lyfr, fel y canlyn am dano:—"Medi 3ydd, 1783. Heddyw y clywais am farwolaeth Mr. Thomas Lewis, yr hwn oedd yn weinidog yn Llanharan, yn Morganwg; colled ddirfawr i'r parth hwnw o'r wlad. Yr oedd yn ddyn talentog, ond nid heb ryw wendidau yn moreu ei fywyd. Etto bu o wasanaeth mawr yn ei oes." Mae yn debyg mai ei waith yn ymuno a'r Methodistiaid yn ei ieuengctyd oedd "y gwendidau" a briodola Phillip Dafydd iddo.

NOAH JONES. Ganwyd ef yn y Trasserch, amaethdy yn mhlwyf Llangafelach, heb fod yn mhell oddiwrth gapel Baran, yn y flwyddyn 1747. Mae yn debyg mai yn y Mynyddbach y derbyniwyd ef yn aelod ac y

* *Tyst Cymreig*, Awst 28ain, 1868.

dechreuodd bregethu. Derbyniwyd ef i'r athrofa yn Abergavenny Mai 3ydd, 1773. Yn y flwyddyn 1777, urddwyd ef yn weinidog yr eglwysi yn y Cwmmawr a Rhydymardy, a symudodd oddiyno yn 1784, i gymeryd gofal yr eglwysi yn Llanharan a'r Taihirion, ac yno y bu hyd derfyn ei oes. Bu farw yn rhyfeddol o ddisymwth ddydd Nadolig 1814, yn nghapel y Taihirion. Yr oedd wedi myned yno gyda bwriad i bregethu y boreu hwnw. Eisteddodd mewn cadair freichiau yn agos i'r tân yn y capel, a bu farw yno mewn eiliad yn ngwydd amryw bersonau a eisteddant yn ei ymyl. Gadawodd deulu lluosog o blant, ond gofalodd yr Arglwydd yn dyner am danynt. Bu y rhan fwyaf o honynt yn ddefnyddiol gyda chrefydd. Y mae un neu ychwaneg o'i ferched yn fyw hyd etto.

Yr oedd Noah Jones yn ddyn rhyfeddol o barchus a dylanwadol. Heblaw ei wasanaeth fel gweinidog gwnaeth ei hun yn ddefnyddiol iawn fel ysgolfeistr a meddyg. Claddwyd ef wrth gapel Llanharan, lle y mae careg ar ei fedd. Ni chlywsom neb a'i gwrandawodd yn son dim am ei ragoriaethau na'i ddiffygion fel pregethwr. Yr ydym yn barnu mai pregethwr o'r radd ganol ydoedd, heb fod yn nodedig o wael nac yn nodedig o ragorol.

William Griffiths. Ganwyd ef Mai 30ain, 1806, mewn amaethdy a elwir Rhydlhir, yn mhlwyf Trefelen, gerllaw Narberth, sir Benfro. Bu farw ei dad pan nad oedd ef ond naw mis oed, a bu dan ofal ei fam weddw hyd nes oedd yn ddeuddeg oed, pryd y symudodd at ewythr iddo o'r enw Evan Rees, yr hwn oedd yn byw yn y Garn Dinas, yn agos i Abergwaun. Yr oedd Evan Rees yn ŵr crefyddol, yn aelod ac yn ddiacon yn yr eglwys Annibynol yn Abergwaun; a chyn hir wedi ei fynediad at ei ewythr derbyniwyd William Griffiths yn aelod eglwysig. Canfyddwyd yn fuan fod ynddo ddoniau uwchlaw y cyffredinolrwydd o'i gyfoedion, ac anogwyd ef gan ei weinidog, Mr. W. Davies, a'r eglwys i arfer ei ddawn i bregethu pan yn ddwy-ar-bymtheg oed. Bu am flwyddyn yn derbyn addysg dan ofal ei weinidog, ac yna aeth i athrofa Neuaddlwyd, lle yr arhosodd bum' mlynedd, ac yno ennillodd gymeradwyaeth ei athraw, serch ei gydefrydwyr, ac ymddiried yr holl eglwysi cylchynol.

Yn niwedd y flwyddyn 1829, aeth ar daith trwy sir Forganwg, a derbyniodd alwad gan eglwys Llanharan, a'r hon y cydsyniodd, ac urddwyd ef yno Chwefror 4ydd, 1830. Dechreuodd ei weinidogaeth o dan ystyriaeth bwysig o'i gyfrifoldeb, a chyda difrifoldeb un yn teimlo fod ganddo waith mawr o'i flaen, ac ni bu raid iddo aros yn hir cyn cael prawf o foddlonrwydd yr Arglwydd ar ei lafur. Yr oedd yn nechreuad ei weinidogaeth, ac felly y parhaodd trwy ei oes, o deimladau crefyddol dwys, yn bur a didoledig yn ei fuchedd a'i ymarweddiad, ac yn llawn gweithgarwch ac awydd am helaethu terfynau teyrnas y Gwaredwr. Ni chyfyngai ei lafur yn unig i'w gylch cartrefol, ond pregethai trwy yr holl wlad oddiamgylch; a thrwy ei offerynoliaeth ef yn benaf y sefydlwyd yr achos yn Nhreoes, am yr hwn y gofalai mewn cysylltiad a Llanharan hyd ddiwedd ei oes. Yn holl achosion yr enwad yn y sir yr oedd yn barod i gymeryd ei ran yn ewyllysgar, ac anaml y gwelid ei le yn wag yn urddiadau, nag agoriad capeli, na chyfarfodydd chwarterol y cyfundeb i'r hwn y perthynai iddo; ac yn aml iawn gwahoddid ef i gyfarfodydd a chymanfaoedd siroedd eraill. Byddai bob amser yn barod i roddi pob help yn ei allu i achosion gweiniaid, neu eglwysi amddifaid o weinidogion, a phan y byddai baich o ddyled ar y naill neu y llall ag eisiau ei symud, nid oedd neb y gallesid

ymddibynu yn fwy ar ei gynorthwy. Gwasanaethodd fel ysgrifenydd i gyfundeb dwyreiniol Morganwg am fwy nag ugain mlynedd, ac nis gallasai neb fod yn ffyddlonach ynddi nag y bu ef. Yr oedd yn bregethwr sylweddol ac efengylaidd, ac ar brydiau byddai yn cael oedfaon anarferol o hwyliog. Dichon y cyfrifasai rhai yn welliant pe buasai ei gydmariaethau yn fwy coeth weithiau, ond "pur yn ddiau yw pob peth i'r rhai pur." Bendithiwyd ef ag amryw ddiwygiadau grymus yn ystod ei weinidogaeth, ac ar rai adegau derbyniwyd canoedd ganddo i gymundeb eglwysig, ac o dan y dylanwadau hyny yr oedd yn nodedig o effeithiol yn ei weinidogaeth. Yr oedd ddwy flynedd cyn ei farwolaeth wedi cael ergyd ysgafn o'r parlys, yr hyn a effeithiodd yn fawr arno, ac a'i hanalluogodd i gyflawni ei ddyledswyddau fel cynt; a dangosodd yr eglwysi dan ei ofal, a gweinidogion y cyfundeb, ac eraill, eu gwerthfawrogiad o'i lafur a'i wasanaeth am ddeunaw-mlynedd-ar-hugain trwy gyflwyno tysteb iddo; a theimlai pawb ei fod yn haeddu gwneuthur o honynt hyn iddo. Bu farw Gorphenaf 25ain, 1867, yn 61 oed, a chan bawb a'i hadwaenai y mae "ei goffadwriaeth yn fendigedig."

## TREOES.

Dechreuwyd yr achos yma yn y flwyddyn 1831 gan Mr. W. Griffiths, Llanharan, yn benaf; ac yn mysg yr aelodau gwreiddiol yr oedd David Jones, gwehydd, a Benjamin Lewis, aelodau o Lanharan, a Morgan Williams, Tycendy, a Margaret ei wraig, a David Owen ac Elizabeth Leyshon, Treoes, aelodau o Benybont. Ffurfiwyd yr eglwys gan Mr. Griffiths mewn hen ysgubor yn mhentref Treoes, a chyn hir prynwyd yr hen adeilad hono, gyda gardd oedd yn nglyn ag ef, gan David Jones, Lewis Jenkins, a David Owen oddiar Edward Mordicai, Treoes, am 30p., er mwyn adeiladu capel arno pan ddeuai amser cyfaddas. Sefydlwyd yma Ysgol Sabbothol a phob moddion yn rheolaidd, a daeth yr achos rhagddo yn dra llwyddianus. Yn y flwyddyn 1841, adeiladwyd yma gapel newydd yn mesur 40 troedfedd wrth 34 troedfedd, gwerth 240p., ac agorwyd ef yn nglyn a chyfarfod chwarterol y cyfundeb a gynaliwyd yma Chwefror 16eg a'r 17eg, 1842;* ac yr oedd haner dyled y capel wedi ei thalu cyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad. Ennillodd yr achos yma ffafr yn ngolwg yr ardalwyr, ac wedi y diwygiad grymus a gafwyd yn y flwyddyn 1859, a'r flwyddyn 1860, aeth y capel yn rhy fychan fel y gwelwyd yn angenrheidiol rhoddi oriel ynddo, yr hon gyda rhyw adrefniadau eraill a gostiodd gan' punt. Ailagorwyd ef Medi 17eg a'r 18fed, 1861.† Bu y lle mewn cysylltiad a Llanharan hyd farwolaeth Mr. Griffiths, ac ar ol hyny penderfynodd yr eglwys fynu gweinidog iddi ei hun, a rhoddwyd galwad i Mr. Rees Saron Jones, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Hydref 14eg a'r 15fed, 1868. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Davies, Caerdydd; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Evans, Maendy; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Williams, Castellnewydd, ac i'r eglwys gan Mr. M. Morgan, Bethesda.‡ Llafuriodd Mr. Jones yma gyda derbyn-

* *Diwygiwr*, 1842. Tu dal. 124. † *Diwygiwr*, 1861. Tu dal. 344
‡ *Tyst*, Hydref 23ain, 1868.



Digitized by Google

iad hyd ddiwedd y flwyddyn 1871, pryd yr ymfudodd i'r America. Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef Thomas Thomas, yr hwn wedi derbyn ei addysg yn athrofa Aberhonddu, a aeth allan yn genhadwr i Affrica, ond y mae yn awr yn y wlad hon.

Mae capel bychan wedi ei godi gan eglwys Treoes yn Llangrallo. Cafwyd y tir i adeiladu yn rhad, i fod byth yn eiddo yr eglwys, gan Mr. John Thomas, Llangrallo, yr hwn sydd yn aelod yn Nhreoes. Gosodwyd y gareg sylfaen i lawr gan Mr. M. Morgan, Bethesda, Medi 21ain, 1870; ac agorwyd y capel Mehefin 26ain a'r 27ain, 1871, ac ar yr achlysur pregethwyd gan Meistri J. Davies, Caerdydd; J. Evans, Maendy; M. Morgan, Bethesda; J. Davies, Taihirion; J. Thomas, Tresimwn; J. M. Evans, Caerdydd; D. E. Jones, M.A., Sirhowy; J. Edwards, Pontygof; W. C. Davies, Llantrisant, ac eraill. Costiodd yr adeilad oddeutu 120p., heb gyfrif y cludiad, yr hyn a roddwyd gan yr ardalwyr yn rhad. Cynhelir yma Ysgol Sabbothol yn rheolaidd, a phregethir ynddo yn lled gyson er nad oes ynddo eglwys wedi ei ffurfio.

## MAENDY.

Mae y lle hwn yn mhlwyf Llanbleddian, ac mae yn ymddangos fod gwasanaeth crefyddol yn cael ei gynal yn yr ardal hon er dyddiau Siarl II. Bu Henry Williams, Llantrisant; John Powell, Llanbleddian; W. Thomas, Llanfair, a Samuel Jones, Llangynwyd yn llafurio yma. Dywedir fod ty wedi ei drwyddedu yn mhentref Aberthyn cyn gynted ag y cafwyd cysgod dan Ddeddf Goddefiad, a rhoddodd y perchenog y tŷ a'r ardd berthynol iddo drosodd trwy weithred gyfreithiol i fod yn feddiant i'r Ymneillduwyr. Yr oedd y lle hwnw mewn cysylltiad a Phenybont-ar-ogwy, a bu Mr. Lewis Jones yn gofalu am y ddeadell fechan wedi ei ddyfodiad ef i Benybont, ond nid oes genym sicrwydd a oedd ei ragflaenoriaid yn y weinidogaeth yn gwneyd hyny. Tua'r flwyddyn 1740, daeth Mr. Howell Harris, Trefeca, trwy y wlad, a pharodd ei ymweliad gyffroad mawr. Rhoddwyd derbyniad iddo yn Aberthyn fel y gwneid mewn llawer o fanau lle yr oedd hen gynnulleidfaoedd Ymneillduol. Yr ydym fwy nag unwaith yn flaenorol wedi cael achlysur i gofnodi y gefnogaeth a roddid i Howell Harris gan rai o weinidogion yr Ymneillduwyr a chan eu cynnulleidfaoedd. Ymunodd pobl Howell Harris, fel eu gelwid, a'r Annibynwyr yn Aberthyn, am fod ganddynt ryw fath o dŷ addoliad yn barod, a buont yno yn cydaddoli dros lawer o flynyddoedd. Nid y Methodistiaid *yn benaf* yn cael eu cynorthwyo gan yr Annibynwyr, fel y camhysbysir yn *Hanes Methodistiaeth*, Cyf. III., tu dal. 51, a adeiladodd gapel Aberthyn; ond y Methodistiaid a ymwasgodd at yr Annibynwyr i'r ty cwrdd bychan oedd ganddynt yno eisioes at eu gwasanaeth.* Gwelir hefyd nad cywir yw yr hyn a ddywedir gan awdwr yr ysgrif ar "Jones o Langan a'i amserau" yn y *Traethodydd:*—"Adeiladwyd y capel hwn yn benaf gan y Methodistiaid, ond nid ganddynt hwy eu hunain. Cynorthwyid hwy gan yr Annibynwyr, y rhai er bod llawer o honynt yma a thraw ar hyd y wlad *nid oedd ganddynt un lle o addoliad eu hunain.*" Oedd, yr oedd yr hen dy yn Aberthyn ganddynt, ac er mor ddiaddurn

* Ysgrif Mr. J. Evans, Maendy

Digitized by Google

ydoedd yr oedd yn dda gan y dychweledigion trwy weinidogaeth Howell Harris gael ymwasgu at yr Annibynwyr ynddo. Yn y flwyddyn 1749, codwyd capel newydd yn Aberthyn yn lle yr hen dy, ac ar y fan lle y safai hwnw; ac yn adeiladiad hwnw yr oedd y ddau enwad yn cydweithio, ac nid ydym mewn cyfle i ddywedyd pwy a wnaeth fwyaf. Pregethid yma gan weinidogion yr Annibynwyr, a chan y pregethwyr Methodistaidd y rhai a deithiant y wlad. Tua'r flwyddyn 1766, rhoddwyd galwad i Mr. David Williams, Llysyfronydd i fod yn weinidog yr eglwys yn Aberthyn, ac urddwyd ef yn ol trefn yr Annibynwyr. Dywedir mai un o Blaenpenal, sir Aberteifi oedd David Williams, a'i fod yn un o ddisgyblion yr hybarch Phillip Pugh, ond iddo ar doriad y diwygiad Methodistaidd allan ymuno a Daniel Rowlands yn Llangeitho, fel y gwnaeth amryw eraill nad oeddynt yn teimlo fod gwres digonol yn nghrefydd yr Ymneillduwyr, ac nad oedd nodwedd eu gweinidogaeth yn ddigon ymosodol. Mae yn ffaith mai o'r hen eglwysi Ymneillduol oedd eisioes yn y wlad y cafodd y Methodistiaid lawer, os nad y rhan fwyaf o'u cynghorwyr cyntaf; a hen Ymneillduwyr gan mwyaf oedd y rhai a osodwyd yn olygwyr ar eu cymdeithasau neillduol; a dychwelodd amryw o honynt yn ol at eu pobl a chymerasant ofal gweinidogaethol. Un o honynt hwy fel yr ymddengys oedd David Williams, ac anfonwyd ef i Fro Morganwg i edrych ar ol y mân gymdeithasau Methodistaidd oedd bellach wedi eu sefydlu yn y wlad; a chan mai achos cymysgedig o Annibynwyr a Methodistiaid oedd yn Aberthyn, yr oedd y lle hwnw yn rhan o faes ei lafur. Priododd ferch i ŵr cyfrifol yn y wlad ac aeth i fyw i Lysyfronydd, yr hyn a'i cododd i barchusrwydd yn ngolwg y bobl, ac fel y crybwyllasom, urddwyd ef yn weinidog i'r gynnulleidfa gymysg yn Aberthyn. Cynyddodd yr eglwys dan ei ofal mewn rhifedi ac mewn doniau, a chyrchid i'r lle gan luaws o bobl o'r holl wlad oddiamgylch. Ond ni ddiangodd Mr. Williams heb gael ei flino gan gyfeiliornadau. Diarddelwyd tua dwsin o Antinomiaid o Aberthyn tua'r flwyddyn 1780, y rhai a wnaethant gais am sefydlu achos iddynt eu hunain yn y Bontfaen. Blaenorid hwy gan un a elwid Rhys y Printer; ond yntau hefyd a ddarfu am dano, a chynifer ag a lynasant wrtho a wasgarwyd. Ar ol hyny bu Sandemaniaeth yn ymosod ar y lle trwy ddylanwad Mr. Popkin, Talygarn, yr hwn a gyhoeddodd waith Robert Sandeman; ond symudodd ef i Abertawy, ond nid cyn peri rhwyg a therfysg yn yr eglwys. Ciliodd plaid Arminaidd hefyd allan o'r eglwys, ond darfu yn fuan am danynt hwythau. Er fod lefain drygionus yn gweithio fel hyn yn yr eglwys yn mhell cyn diwedd oes Mr. David Williams, etto yr oedd yr achos ar y cyfan yn flagurog a llwyddianus. Yn nechreu 1780, penderfynwyd ailadeiladu y capel, yr hyn a wnaed trwy gydweithrediad yr Annibynwyr a'r Methodistiaid; ac agorwyd ef Awst 20fed y flwyddyn hono. Bu farw Mr. David Williams Mai 5ed, 1792, yn 75 oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl am haner can' mlynedd. Cyn diwedd y flwyddyn hono, rhoddwyd galwad i Mr. David Davies, Rhiadr-wy; a bu diwygiad grymus yn y lle yn ddioed wedi iddo ddechreu ei weinidogaeth. Clywid sain cân a moliant yn mhyrth merch Seion. Ond dilynwyd yr haf dymunol hwn gan auaf blin ac ystormus. Daeth Mr. Peter Williams i'r ardal ar ol i'r Methodistiaid ei fwrw ymaith am ei Sabeliaeth, a bu yn aros yma dros dymor; ac yn y cyfamser hauodd ei egwyddorion o dŷ i dŷ nes cynhyrfu y wlad. Cofleidiwyd y golygiadau Sabelaidd gan lawer yn eglwys Aberthyn, fel yr aeth yn gynwrf a therfysg mawr; ac ar un Sab-

both yn y flwyddyn 1797, daeth Mr. John Davies, Alltwen, a gweinidog arall i'r lle a diarddelasant driugain o'r Sabeliaid. Parodd hyn derfysg mawr—clowyd y drysau—torwyd y cloion—ac ymgyfreithiwyd am y capel, ond collodd y Sabeliaid y dydd fel y bu raid iddynt fyned i chwilio am rywle arall i draethu eu golygiadau. Yr oedd Thomas Williams, awdwr *Dyfroedd Bethesda* yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw yn eu plith; ac efe wedi hyny a ddewiswyd ganddynt yn weinidog pan ymffurfiasant yn eglwys, ac adeiladasant Bethesda-y-fro. Ond effeithiodd hyn yn ddinystriol ar yr eglwys. Cyn dechreu y terfysg yn nghylch Sabeliaeth yr oedd yn ddau gant mewn nifer, ond yn mhen blwyddyn ar ol hyny yr oedd yn llai na thriugain. Yn 1798, ymadawodd Mr. Davies i gymeryd gofal yr eglwys yn Llangatwg, Crughowell, Brycheiniog. Dilynwyd ef gan Mr. Howell Powell, yr hwn oedd yn weinidog yn Zoar, Merthyr Tydfil, ac yn rhoddi rhan o'i lafur yn Aberthyn; ac yn ei dymor ef yr aeth yn ddadl rhwng yr Annibynwyr a'r Methodistiaid am y capel. Nid oedd eu hundeb ar y goreu o'r fath fwyaf efengylaidd. Byddai hwyliau mawrion yn y lle ar amserau, ond anaml yr âi yr Annibynwyr i hwyl o dan weinidogaeth un o'r Methodistiaid, ac yn llawn mor anaml y dangosai y Methodistiaid eu bod yn cael dim o dan weinidogaeth yr Annibynwyr. Ymwasgent at eu gilydd pan y byddai rhyw gyfeiliornwyr i'w bwrw allan; ond nid oeddynt yn nodedig am fod yn dangnefeddus yn eu plith eu hunain. Cydunent i fwrw ymaith y blaid gyfeiliornus, ond methent a chytuno pa beth i'w wneyd wedi hyny. Cauodd yr Annibynwyr y drws yn erbyn y Methodistiaid, ond "trwy ymadrodd teg" llwyddodd y Methodistiaid i gael ganddynt eu gollwng i mewn drachefn, ond wedi cael i mewn talasant y pwyth trwy gloi y capel yn erbyn yr Annibynwyr. Bygythiodd yr Annibynwyr dori y clo, soniasant am fyned i gyfraith, ond ni wnaethant mor naill na'r llall, ond ymadawsant yn dawel a chychwynasant achos Annibynol yn y Maendy. Bu Mr. Howell Powell yn pregethu yn ysgubor y Maendy, ac weithiau yn yr awyr agored; ond Chwefror 27ain, 1800, trwyddedwyd tŷ Robert Rees, yn mhlwyf Llanbleddian. Yn y flwyddyn 1800, ymadawodd Mr. Powell i fyned i America, a chymerwyd gofal yr eglwys ddau Sabboth o bob mis gan Mr. Methusalem Jones, Llangynwyd; ac yn ei amser ef, yn 1802, yr adeiladwyd capel y Maendy, a thrwyddedwyd ef yn llys yr Esgob gan un William Thomas, Gorphenaf 6ed, 1802* Yn y flwyddyn 1807, urddwyd Mr. Shadrach Davies yn y Maendy; a thynodd ei ddoniau poblogaidd sylw mawr. Bu yma hyd y flwyddyn 1824, pryd yr ymfudodd ef a'i deulu i America. Yn yr un flwyddyn rhoddwyd galwad i Mr. John Hughes, myfyriwr o athrofa Neuaddlwyd, ac urddwyd ef cyn diwedd y flwyddyn hono. Bu yma yn ddefnyddiol a llwyddianus iawn am naw mlynedd, hyd nes yn 1833 y derbyniodd alwad o Bethania, Dowlais, ac y symudodd yno. Yn 1835, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Williams, Llandilo, a bu yma hyd 1839, pan y symudodd i Bontypool. Yn 1841, rhoddwyd galwad i Mr. John Evans, myfyriwr yn athrofa Ffrwdyfal, ac urddwyd ef Hydref 27ain, 1841. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Hughes a D. Roberts, Dowlais; M. Rees, Groeswen; W. Griffiths, Llanharan; D. Williams, Llanwrtyd; T. Rees, Aberdar; W. Williams, Hirwaun; P. Griffiths, Alltwen; L. Smith, Taihirion; D. Thomas, Troedyrhiw, ac eraill. Mae Mr. Evans

* Cofnodion Llandaf.

Digitized by Google

yn parhau i lafurio yma, a'r achos dan ei ofal mewn gwedd gysurus. Yn 1842, ailadeiladwyd y capel a gwnaed ef yn addoldy helaeth a chyfleus, ac agorwyd ef Hydref 12fed a'r 13eg, yr un flwyddyn. Talwyd am dano gan yr eglwys a'r ardal ar y pryd.

Mae eglwys y Maendy wedi bod yn nodedig yn ei sel dros burdeb yr athrawiaeth, ac am ei gwresowgrwydd crefyddol, ac nid yw y tân santaidd etto wedi diffodd ar ei hallor, er y gwelwyd ef ar rai adegau yn llosgi yn fwy angerddol. Ni chyfodwyd yma hyd y gwyddom ond dau bregethwr, sef Shadrach Davies, a David Thomas, am yr hwn y crybwyllasom yn hanes Llanfaches.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

SHADRACH DAVIES. Ganwyd ef yn 1778. Yr oedd ei rieni o ardal Mynyddbach, gerllaw Abertawy, ond daethant i ardal y Maendy yn fuan wedi priodi, fel mai yn y gymydogaeth hono y magwyd Shadrach Davies, os nad yno y ganwyd ef. Yr oedd yn ddyn o gyfansoddiad corphorol cryf a chyduerth, a dygwyd ef i fyny yn y gelfyddyd o saer maen, yr hon a ddilynodd dros y rhan fwyaf o'i oes, a dywedir ei fod yn dra medrus ynddi. Efe a'i ddwylaw ei hun a adeiladodd gapel y Maendy. Arferai wrandaw yn Aberthyn cyn yr ymraniad rhwng yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, a phan y cymerodd yr ymadawiad le aeth allan gyda'r blaid Annibynol i'r Maendy, ac ymunodd yn ddioed a'r eglwys, os nad oedd wedi gwneyd cyn hyny. Dechreuodd bregethu yn fuan, ac yr ydym yn cael ei fod yn pregethu yn fynych yno yn nhymor gweinidogaeth Mr. Methusalem Jones. Yn 1807, urddwyd ef yn weinidog yn Maendy, a bu yn boblogaidd fel pregethwr hyd 1824, pryd yr ymfudodd ef, a'i wraig, a naw o blant drosodd i America. Bu yno dros rai blynyddoedd yn pregethu lle y byddai drws agored, ond yn benaf yn New York. Claddodd ei wraig yno, a chyn hir dychwelodd i Gymru, a phriododd weddw yn Abertawy oedd yn cadw tafarndy a adnabyddid fel y Tymelyn. Yn mhen amser aeth yn ei ol i America, ac wedi gweinidogaethu i wahanol enwadau yn New York bu farw Medi 21ain, 1837, yn 59 oed.

Cymeriad nodedig oedd Shadrach Davies; ac fel pregethwr yr oedd yn ol tystiolaeth pawb a'i gwrandawsant yn un o'r rhai mwyaf doniol fu erioed yn sefyll ger bron cynnulleidfa, yn enwedig mor bell ag oedd medr i siarad, a llais peroriaethus yn myned. Gyrai gynnulleidfaoedd mawrion i lwyr anghofio eu hunain gan y fath swyn oedd yn ei lais. Yr oedd bloesgni ar ei dafod yr hyn a osodai hynodrwydd ychwanegol arno. Nid oedd yn gwaeddi nag yn canu yn barhaus; ond siaradai yn y dull mwyaf naturiol, ond yn ddisymwth rhoddai ergyd hapus gyda thôniad tyner yn ei lais nes y byddai yr holl gynnulleidfa yn ymwingo ger ei fron fel pe buasai ryw beth yn cerdded rhwng eu crwyn a'u cnawd. Rhaid fod ei ddoniau yn ddigyffelyb cyn y goddefasid cymaint ganddo. Yr oedd ei dymer yn aflywodraethus a'i fuchedd yn dra anwastad. Yfed yn anghymedrol fu ei brofedigaeth dros ei holl fywyd, a hyny a'i gorfododd i adael gwlad lle yr oedd mor boblogaidd fel pregethwr. O ran ei olygiadau duwinyddol yr oedd yn Galfin uchel, os nad yn wir yn Antinomiad; ond er ei holl ddiffygion yr oedd pregethu lonaid ei enaid, ac yr oedd yn llosgi o fewn ei esgyrn. Pe buasai ei fuchedd yn cyfateb i'w ddoniau, a'i

Digitized by Google

ymroddiad yn cyfateb i'w alluoedd naturiol, buasai yn ddiameu yn sefyll yn rhestr flaenaf cedyrn y pulpud Cymreig.

## LLANHARI.

Dechreuwyd cynal Ysgol Sabbothol gan bobl y Maendy yn ardal Llanhari, yn nhy Richard Richard yn Ebrill, 1820. Hon oedd yr Ysgol Sabbothol gyntaf a sefydlwyd yn y wlad yma. Wedi bod tua chwech wythnos yn nhy Richard Richard, cafwyd tŷ gwag perthynol i Thomas Griffith, yn Rhiwperau, a symudwyd yno. Cyn hyn yr oedd yr ardal yn nodedig am ei champau annuwiol, a chyrchai ieuengctyd yr ardaloedd cylchynol yma ar y Sabboth i chwareu pel. Ar un Sabboth yn fuan wedi dechreu yr ysgol yn Rhiwperau, aeth Shadrach Davies i'r cae at y bechgyn oedd yn chwareu, a daliodd y bel pan y daeth hyd ato, a dywedodd yn siriol wrthynt, "Dewch gyda mi i'r ysgol i Rhiwperau," ac felly fu. Daeth yr ysgol yn mlaen yn llewyrchus, a dechreuwyd pregethu gan Shadrach Davies yn wythnosol, a chynal cyfeillach grefyddol; ac y mae yn nodedig i'w goffau fod ychwanegiad o un wedi bod atynt dros ddeuddeg tro yn olynol, a'r bedwaredd-waith-ar-ddeg daeth dau. Yr oedd Richard Richard, yr hwn a roddodd ei dŷ at gadw ysgol, yn un o'r rhai cyntaf a ymwasgodd a'r eglwys. Buwyd yn addoli yn Rhiwperau am yn agos i bedair blynedd, pan y daeth angen y tŷ ar ei berchenog. Meddyliwyd am gael capel, a chafwyd tir gan Mr. Llewelyn Yorath, ac adeiladwyd y capel yn 1824; ond nid oes genym wybodaeth pa bryd yr agorwyd ef, na phwy fu yn gweinyddu ar yr achlysur. Cynhelid yma Ysgol Sabbothol, a phregethid yn rheolaidd yma gan weinidogion y Maendy, ond nid oedd eglwys wedi ei ffurfio yma hyd y flwyddyn 1837, pan oedd Mr. Thomas Williams yn weinidog yn y Maendy. Yn nhymor gweinidogaeth Mr. J. Evans cynhyddodd yr achos fel y barnwyd yn angenrheidiol yn 1850 i adeiladu addoldy newydd, yr hwn a gostiodd 400p., ac y mae y ddyled oll wedi ei thalu. Mae yr achos yma o'r dechreuad wedi bod mewn cysylltiad gweinidogaethol a'r Maendy, ac felly y mae yn parhau.

## LLANTRISANT.

Nid ydym yn cael fod pregethu gan yr Annibynwyr yn y lle hwn cyn dechreu y ganrif bresenol. Mr. G. Hughes, Groeswen, hyd y gallwn gasglu, a ddechreuodd yr achos yma tua 1802; a choffeir enwau William Gardener, William Morgan, ac Abraham, Bedwbach, yn mysg yr aelodau cyntaf; a dywedir eu bod yn ddynion o gymeriadau dysglaer, ac yn llawn sel dros burdeb eglwysig. Yn y flwyddyn 1809, adeiladwyd yma gapel, yr hwn a alwyd yn Bethel, yn benaf trwy lafur Mr. Hughes, Groeswen. Cofrestrwyd ef yn llys Llandaf, Medi 6ed, 1809, gan James Jacob, un o'r diaconiaid, ac un o gychwynwyr yr achos. Bu y gofal ar Mr. Hughes hyd y flwyddyn 1824, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. William Davies, myfyriwr o athrofa y Drefnewydd, ac urddwyd ef yma. Ni bu arosiad Mr. Davies yma yn hir, canys symudodd yn nechreu 1828 i gymeryd gofal yr eglwys yn Llanymddyfri, lle y treuliodd weddill ei oes. Nid oedd yr achos ond egwan iawn, ac oblegid fod Mr. Davies yn ddyn

Digitized by Google

llwfr dyoddefodd lawer o galedi. Yn nechreu 1831, rhoddwyd galwad i Mr. John Davies, aelod o'r Mynyddbach, ac urddwyd ef y 14eg o'r Gorphenaf canlynol. Nid oedd nifer yr aelodau ar ei sefydliad ef yma ond 38, llafuriodd yn ymroddgar yma am bum' mlynedd, ac yr oedd nifer yr aelodau wedi cynyddu i 72. Derbyniodd alwad yn 1836 o Ebenezer, Aberdar, a Nebo, Hirwaun, a symudodd yno. Bu yr eglwys hon am flynyddau ar ol hyny heb weinidog, ac yr oedd gwedd ddigon isel ar yr achos. Yn 1842, rhoddwyd galwad i Mr. Lefi Lawrence, aelod o Maenclochog, sir Benfro, ac urddwyd ef Mehefin 27ain a'r 28ain. Bu Mr. L. Lawrence yma am bum' mlynedd, nes y symudodd i Adulam, Merthyr. Ar ol hyny bu y gweinidogion cylchynol yn gofalu am yr achos dros rai blynyddau. Yn 1855, rhoddwyd galwad i Mr. Sem Phillips, Llangynidr, a bu yma yn llafurio am yn agos i ddeng mlynedd, hyd nes yr ymfudodd i America. Bu Mr. Phillips yn dra derbyniol a llwyddianus yma am dymor. Derbyniodd gryn lawer o aelodau newyddion i'r eglwys, ac addrefnwyd yr hen gapel, a gwnaed ef yn brydferth a chyfleus i bregethu a gwrando; a gwisgodd yr achos wedd siriol ac addawus iawn. Ond drwy ryw amgylchiad cyfododd anghydfod rhyngddo a rhai o'r aelodau, a chynyddodd i derfysg blin, a'r diwedd fu i nifer o'r eglwys ymadael a chodi capel iddynt eu hunain ychydig y tu allan i'r drefian. Wedi ymadawiad Mr. Phillips rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Dan Griffiths, ac urddwyd ef Rhagfyr 10fed a'r 11eg, 1866, ac y mae efe yn parhau yn weinidog yma. Mae yr eglwys yma fel y gwelir wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau, ac wedi ei churo gan lawer o ystormydd. Bu dyled y capel yn faich trwm yn hir, a llawer a ddadleuwyd mewn cynadleddau yn ei gylch; ond y mae yr eglwys yn awr wedi myned trwy yr holl amgylchiadau hyny, a'r achos ar y cyfan a gwedd gysurus arno, er nad yw olion yr ystormydd a'i cyfarfu wedi eu llwyr ddileu.

## ZOAR, LLANTRISANT.

Yn y flwyddyn 1861, ymadawodd nifer luosog o aelodau Bethel, Llantrisant, yn herwydd y terfysg at yr hwn y cyfeiriasom, a dechreuasant gynal moddion mewn tŷ anedd yn y dreflan. Nid hir y buont yno, canys yn gynar yn 1862, aethant i ffermdy a elwid y Mwyndy, o gylch milldir o Lantrisant yn nghyfeiriad Caerdydd; ac yno y ffurfiwyd yr eglwys gan Meistri J. Davies, Taihirion; J. Morgan, Cwmbach, a J. Davies, Caerdydd. Rhif yr aelodau ar y pryd oedd 73. Yn mis Mai ar ol hyny ymadawodd John John, gwr y Mwyndy a'i fferm, ac felly bu raid i'r eglwys edrych allan am le arall i drigo ynddo. Cafwyd ystafell berthynol i'r Talbot Inn gan Mrs. Thomas, ac yno y buwyd yn addoli nes yr adeiladwyd Zoar. Mae y capel ar y brif ffordd o Lantrisant i Gaerdydd, ac o fewn haner milldir i'r blaenaf. Cafwyd y tir ar brydles gan Mr. Insole am yr ardreth o 30s. y flwyddyn. Agorwyd y capel Tachwedd 24ain a'r 25ain, 1862. Bu yr eglwys yn ymddibynu ar gynorthwy gweinidogion a phregethwyr y wlad am fwy na chwe' blynedd; ond yn haf 1868, cytunasant a'r eglwys yn y Castellau i roddi galwad i Mr. William Cranog Davies, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Gorphenaf 29ain a'r 30ain. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan y Proffeswr Roberts, Aberhonddu;

Digitized by Google

holwyd y gofyniadau gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Davies, Taihirion; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Williams, Castellnewydd, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Caerdydd. Mae Mr. Davies yn parhau i lafurio yma, ac y mae golwg siriol a llewyrchus ar yr achos; er fod yr eglwys hon fel llawer eraill yn y wlad yma wedi dyoddef llawer yn y tair blynedd diweddaf oblegid yr ymadawiadau mynych i America, yn cael eu hachosi yn benaf gan iselder masnach. Mae yma lawer o ffyddloniaid, er nad oes yma gymeriadau nodedig i'w croniclo.

## CASTELLAU.

Mae y lle hwn yn mhlwyf Llantrisant, ar y ffordd i Bontypridd. Yr oedd nifer o aelodau perthynol i'r Cymer yn byw yn yr ardal yn niwedd y ganrif ddiweddaf, ac arferent gyrchu yno yn lled reolaidd er fod ganddynt fynydd garw i'w groesi. Byddai Mr. M. Jones, Cymer, yn pregethu yn achlysurol yn y gymydogaeth o'r flwyddyn 1791 hyd derfyn ei weinidogaeth. Pregethai yn Trefarigisaf, lle yr oedd Thomas Jenkins yn byw, ac yn Ty-mab-Ellis, lle yr oedd John Jenkins yn byw, a chedwid cyfeillachau crefyddol yn achlysurol yn y Gelynogfawr, lle yr oedd William Jenkins yn byw. Yr oedd y tri hyn yn frodyr, a buont yn ffyddlon i'r achos, ac y mae rhai o'u holafiaid yn parhau yn aelodau defnyddiol yn y lle. Wedi dyfodiad Mr. Joshua Evans i'r Cymer, byddai yntau yn dyfod yn fisol i'r ardal, ond nid i'r un manau ag y pregethai Mr. M. Jones, oblegid mai pobl eraill erbyn hyn oedd yn byw ynddynt. Yn Felin, Trefarhig, lle y preswyliai hen chwaer ffyddlon o'r enw Pheobe, y pregethai Mr. Evans fynychaf. Bu llawer o siarad am godi capel yma, a chafodd yr ardal golled fawr na buasai hyny wedi cael ei wneyd ddeng-mlynedd-ar-hugain yn gynt; ond nid oedd yma neb yn meddu calon i ymafael yn y gorchwyl. Yr oedd y Milwriad Smith, o'r Castellau, boneddwr caredig yn yr ardal, yn teimlo yn ddwys dros y rhai oedd yn mynychu moddion gras wrth eu gweled dan y fath anghyfleustra; a rhoddodd dir at adeiladu capel, a dygodd y rhan fwyaf o draul yr adeiladaeth ei hun, a gwnaed ef ar gynllun o'i eiddo, yr hyn a barodd i'r draul fyned yn fawr iawn, ond talodd y cwbl ei hun ond ryw 60p. a adawodd i'r bobl ei wneyd. Addawodd brydles am fil ond un o flynyddau am swllt y flwyddyn o ardreth; ond oblegid rhyw esgeulustra y mae heb ei chael etto. Agorwyd y capel Tachwedd 22ain a'r 23ain, 1843. Bu gofal y lle ar Mr. Evans, Cymer, hyd ei farwolaeth, ac ar ol hyny bu Meistri D. Stephens, Glantaf, ac H. Oliver, B.A., Pontypridd, yn olynol yn gofalu am y lle; a chynyddodd yr achos yn fawr yn nhymor eu gweinidogaeth hwy, er nad oeddynt yn gallu rhoddi ond cyfran fechan o'u hamser i wasanaethu yr eglwys hon. Yn 1866, rhoddwyd galwad i Mr. W. C. Davies i fod yn weinidog yma, ac urddwyd ef, fel y crybwyllasom, yn Zoar, Llantrisant, Gorphenaf 29ain a'r 30ain, a'r dydd canlynol cadwyd cyfarfod yma, pryd y gweinyddwyd gan Meistri T. C. Williams, Canton; J. B. Jones, B.A., Penybont; J. Evans, Maendy, (ar ddyledswydd yr eglwys); J. Thomas, Salem, Aberdar; D. Thomas, Abercanaid, a J. Farr, Awstralia. Parhâ Mr. Davies i lafurio yma gyda derbyniad, ac y mae y capel wedi myned yn rhy fychan, fel y sonir yn awr am ei helaethu.

Digitized by Google

Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef William C. Jenkins, yr hwn a addysgwyd yn athrofa Caerfyrddin, ac y mae yn awr yn weinidog yn Nghydweli, sir Gaerfyrddin.

## BETHESDA-Y-FRO.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Llanilltydfawr, yn Mro Morganwg. Cafodd yr achos yma ei ddechreuad dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd eglwys gymysg o Annibynwyr a Methodistiaid yn Aberthyn, yn agos i'r Bontfaen, er cychwyniad cyntaf Methodistiaeth, a thebyg fod yno gynnulleidfa fechan o Annibynwyr flynyddau cyn hyny. Cydaddolai y ddau enwad yn heddychol yn y lle hwnw hyd nes i derfysg gyfodi yn mysg y Methodistiaid o berthynas i olygiadau Mr. Peter Williams. Yr oedd amryw o aelodau yr eglwys yn Aberthyn yn bleidiol i Mr. P. Williams, ac o herwydd fod mwyafrif eu cydaelodau yn ei gyfrif ef a'i bleidwyr yn Sabeliaid, ac felly yn gyfeiliornwyr peryglus, cymerodd ymraniad le yn yr eglwys, ac aeth pleidwyr P. Williams allan. Gan fod nifer o'r rhai mwyaf dylanwadol yn eu mysg yn byw rai milldiroedd yn nes i waelod y fro nag Aberthyn, darfu iddynt drwyddedu tŷ yn y Brittwn, yn agos i Aberddawen, at gynal gwasanaeth crefyddol. Yn 1797, trwyddedwyd ty yn mhentref Aberthyn, a thy Thomas Williams, yn mhlwyf Penmark, er cyfleustra yr aelodau a gyfaneddant yn yr ardaloedd hyny.* Ond ymddengys mai y Brittwn oedd eu prif le cyfarfod, a bod eglwys Annibynol wedi ei chorpholi yno cyn hyny. Nid oedd yr eglwys hon y pryd hwnw, nac am flynyddau wedi hyny, yn dal cysylltiad ag un enwad o grefyddwyr. Ystyrid hwy gan yr Annibynwyr, y Methodistiaid, a'r Bedyddwyr, yn gyfeiliornwyr, o herwydd eu bod yn dal golygiadau Peter Williams o berthynas i athrawiaeth y Drindod, er eu bod yn hollol iachus ac efengylaidd eu golygiadau ar bob pwngc arall. Y ddau frawd mwyaf eu gallu oedd a'u dylanwad yn y gymdeithas hon oedd Mr. John Williams, St. Athan, a Mr. Thomas Williams, o Ffonmon, yn mhlwyf Penmark. Yn y flwyddyn 1798, dewiswyd Mr. Thomas Williams gan y frawdoliaeth yn weinidog, ac urddasant ef eu hunain. Cofnodwyd hanes yr urddiad gan Mr. John Williams. Yr hyn a ganlyn sydd gopi o'i lawysgrifen:—"Heddyw, y trydydd dydd o fis Mehefin, 1798, y dewiswyd trwy gydsyniad yr eglwys sydd yn cyfarfod yn benaf yn y Brittwn, plwyf Penmark, sir Forganwg, ac y neillduwyd y Parch. Thomas Williams i gyflawn waith y weinidogaeth trwy gyfodiad dwylaw yr henuriaid yn nghyd ag ympryd a gweddi. Ac os bydd i neb yn gyhoeddus neu yn ddirgel ddyweyd dim yn erbyn ein ffordd o ordeinio, pell y byddom rhag rhoi barn galed ar neb o'n gwrthwynebwyr gan ein bod yn dymuno dilyn heddwch a phawb a sancteiddrwydd. John Williams, *St. Athan*. Ar ddymuniad yr holl eglwys heb neb yn tynu yn groes.

D.S.—Mae y ffordd uchod o ordeinio i'w gweled yn y llyfr a elwir *Gospel Church*, gan Dr. Owen; hefyd yn llyfr Dr. Chancey ar Ddysgyblaeth; hefyd dyna fel yr ordeiniwyd Morgan John, gweinidog cyntaf y New Inn.

John Williams, *St. Athan*."

Felly yr urddwyd Thomas Williams. Er ein bod yn hollol ffieiddio athrawiaeth yr *Olyniad Apostolaidd*, fel dychymyg Pabyddol ac an-

* Cofnodion llys Esgobol Llandaf.



Digitized by Google

Ysgrythyrol, etto nis gallwn lai nag edrych ar ymddygiad yr eglwysi hyny a gymerant y gwaith o urddo eu gweinidogion i'w dwylaw eu hunain, heb alw am gymorth a chydweithrediad gweinidogion eglwysi eraill, ond fel peth hollol afreolaidd, anfrawdol, ac o duedd ymarferol ddrwg. Ein barn ni yw, barned eraill drostynt eu hunain, mai yr hyn a ddysga y Testament Newydd ar y pen hwn ydyw, mai gan yr eglwys yn unig y mae yr hawl i ddewis ei gweinidogion, ond mai gan weinidogion, a gydnabyddir gan y cyhoedd fel y cyfryw, yn unig y mae yr hawl i'w neillduo yn gyhoeddus i'w swydd. Ystyriwn hyn yn ddarbodaeth ddoeth iawn er atal dynion amddifaid o'r galluoedd a'r cymeriadau gofynedig, i ymruthro i waith pwysig y weinidogaeth. Gall amgylchiadau gyfiawnhau eithriadau i'r rheol hon, a dichon fod amgylchiadau Mr. Williams a'i eglwys ar y pryd yn cyfreithloni yr hyn a wnaethant. Yr oeddynt ar eu penau eu hunain heb fod yn perthyn i un enwad crefyddol, wedi ymadael a'r Methodistiaid, ac heb gynyg eu hunain i gyfundeb yr Annibynwyr, ac felly nid oedd ganddynt eglwysi o'r un enwad a hwy eu hunain i ymgynghori a hwynt, ac i ofyn eu cydweithrediad. Buont o ddechreuad yr achos hyd 1814 ar eu penau eu hunain; ond byddai ambell i bregethwr perthynol i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn ymweled a hwy weithiau ar eu cais. Yn mhen amser gwnaeth Mr. Williams gyfeillion mynwesol o amryw o weinidogion yr Annibynwyr; mynychai eu cyfarfodydd cyhoeddus, a gwahoddai hwythau i gynal cyfarfodydd yn ei addoldy ef, ac felly aeth ef a'i bobl o radd i radd i gael eu cyfrif yn weinidog ac eglwys Annibynol. Yn nghymanfa y Maendy yn 1814, derbyniwyd hwy i'r cyfundeb. Yn y Brittwn y parhawyd i addoli hyd 1806, pryd y cawsant ddarn o dir yn agos i'r Fisher's Bridge, yn mhlwyf Llanilltydfawr, gan Charles Redwood, Ysw., ac adeiladwyd capel arno, yr hwn a alwyd Bethesda. Yr oedd Mr. Redwood, y gwr a roddodd y tir, yn aelod o'r eglwys, ac yn pregethu yn achlysurol. Agorwyd y capel yn mis Mehefin, 1806, pryd y pregethwyd gan Mr. Redwood, yn Saesoneg, oddi wrth Esaiah xxvi. 2, a Mr. Thomas Williams, y gweinidog, yn Gymraeg, oddiwrth Gen. xxviii. 17. Nis gwyddom pa faint oedd traul adeiladaeth y capel, ond talwyd y cwbl gan y gynnulleidfa ei hun cyn dydd yr agoriad. Wedi cael y capel yn barod, parhaodd Mr. Williams i weinidogaethu ynddo am oddeutu dwy-flynedd-ar-hugain. Pan y bu farw ei wraig yn niwedd y flwyddyn 1827, effeithiodd yr amgylchiad gymaint ar ei feddwl a'i iechyd fel y penderfynodd roddi y weinidogaeth i fyny, ac anog yr eglwys i edrych am weinidog yn ei le ef. Yn yr alargân a gyhoeddodd ar ol ei briod yn nechreu 1828, adolyga ei fywyd gweinidogaethol, a chwyna yn dost o herwydd ei aflwyddiant. Dichon ei fod yn mhrudd-der ei feddwl yn achwyn mwy nag a ddylasai am ei aflwyddiant. Fel y canlyn y dywed:—

"Deg-ar-hugain o flynyddau bum yn hau trwy hyd y rhai'n,
Syrthio wnaeth yr had gan mwyaf, wrth y ffordd, y graig, a'r drain,
Mewn tir da ni syrthiodd nemawr, nemawr iawn—fe syrthiodd peth,
Gwlith y nef aroso arno, fel nad elo byth ar feth.

O Bethesda anniolchgar, ac anghofus iawn o Dduw,
Wedi hau a hau drachefn, braidd eginyn sydd yn fyw;
Mae'r hen frodyr ond rhyw 'chydig wedi myned draw i dre',
Ac nid oes arwyddion nemawr am rai eraill yn eu lle.

Digitized by Google

O na ddo'i rhyw un o'r gogledd, neu o'r dwyrain ynte'r de,
O'r gorllewin, neu o rywle, ni waeth genyf ddim o b'le;
Ond i'r nefoedd fawr ei anfon, *heb* ei anfon 'thal e' ddim,
I Bethesda i bregethu gair y bywyd yn ei rym.

'Rwy'n rhoi'r gorchwyl byth i fyny, wedi rhoi, nid rhof ryw bryd,
Mae fy ngwaith, os gwaith fu genyf, wedi darfod 'nawr i gyd;
Fy ngwaith yn awr a'm gwaith fydd etto, dymuno a disgwyl bob yr awr
I'r hyn sydd bridd i'r pridd gael myned wrth ochr mur Bethesda i lawr."

Mae yn sicr na fu Mr. Williams yn gwbl mor aflwyddianus yn ei lafur ag y prudd-ddesgrifia yn y penillion hyn, canys cadwodd o'i gylch trwy ei oes gynnulleidfa fechan o'r dynion mwyaf gwresog fel addolwyr yn Nghymru; ond mae yn wir, a chymeryd gwahanol amgylchiadau dan ystyriaeth, mai cymharol aflwyddianus fu ei lafur. Ar ddechreuad yr achos ymunodd amryw deuluoedd cyfrifol, mewn bro fras a phoblog, i sefydlu cynnulleidfa, a dewisasant o'u plith eu hunain ddyn parchus, cyfoethog, hardd, a boneddigaidd, o feddwl galluog, ac ymadroddwr ffraeth a doniol iawn, i fod yn fugail arnynt. Ond wedi "hau, a hau drachefn," am ddeg-ar-hugain o flynyddau, cwynai yn dost wrth roddi ei waith i fyny, mai "braidd eginyn oedd yn fyw." Pa fodd yr ydym i gyfrif am hyn? Gallasem yn naturiol ddisgwyl, wrth ystyried amgylchiadau yr ardal a chymeriad Mr. Williams, y buasai yn mhen deng-mlynedd-ar-hugain, yn cael ei gylchynu gan eglwys o bump i chwe' chant o aelodau gweithgar a bywiog, ond gadawa hwynt yn llai na hyny o ugeiniau o rif. Tebyg y gallasai rhai mwy adnabyddus o Bethesda a'r ardal nag yr ydym ni, roddi amrywiol resymau i gyfrif am hyn; ond tybiwn y gwyddom ni am un o brif achosion yr aflwyddiant, os nad y penaf o honynt, a dyna fe —Esgeulusdod o ddyledswydd grefyddol bwysig; sef cyfranu arian at gynnaliaeth yr achos. Nid oedd amgylchiadau Mr. Williams yn gofyn am gyfraniadau yr eglwys at ei gynaliaeth; ac yn y casgliadau achlysurol at fan dreuliau yr achos, efe ei hun oedd y prif gyfranwr, ac felly cafodd yr aelodau a'r gwrandawyr eu gadael trwy yr holl flynyddau heb gyfranu ond y peth nesaf i ddim at achos y Gwaredwr. Os na all gweinidog gael gan ei bobl gyfranu eu harian *hyd eithaf eu gallu* at gynhaliaeth yr achos, bydd ei weinidogaeth mor sicr o fod yn aflwyddianus, a phe byddai ei holl eglwys yn *ddiweddi*. Mae hwn yn haeriad pwysig, ond tybiwn na raid myned allan o Gymru i gael ugeiniau o ffeithiau a brofant ei wirionedd. Os na bydd gweinidog yn sefyll mewn angen o gyfraniadau ei bobl at ei gynaliaeth, etto dylai eu derbyn, ac ni cha' un drafferth i gael digon o leoedd i'w rhoddi allan er lledaeniad crefydd yn y byd. Camgymeriad mawr yw tybied mai caredigrwydd mewn gweinidogion cyfoethog yw peidio derbyn arian gan eu heglwysi. *Creulondeb* ydyw mewn gwirionedd, oblegid ni lwydda un eglwys byth os na fydd ei chrefydd yn costio dim iddi. Am bob eglwys a nychwyd wrth gyfranu mwy na'i gallu, y mae mil wedi eu nychu wrth gyfranu llai na'u gallu.

Er y mynai Mr. Williams roddi y weinidogaeth i fyny yn 1828, o herwydd ei lesgedd a'i anallu i bregethu, ni foddlonai y bobl ollwng eu gafael ynddo. Ar y 19eg o Fawrth, 1829, urddwyd Mr. Edward Williams, mab Mr. David Williams, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn Merthyr, yn gynorthwywr iddo. Ni bu arosiad Mr. Williams yma ond llai na dwy flynedd. Symudodd i Main a Meifod, sir Drefaldwyn. Wedi ei ymadawiad ef bu yr eglwys yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1836,

Digitized by Google

pryd y rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. Morgan Morgans, Blaenafon, Mynwy. Mae Mr. Morgans yn parhau yma hyd y dydd hwn yn barchus a defnyddiol. Nid oes yn awr ond dau neu dri yn fyw o'r aelodau oeddynt yn rhoddi galwad i Mr. Morgans, ond y mae yr Arglwydd wedi cyfodi eraill i lenwi eu lleoedd, fel y mae yr eglwys, er nad yw etto ond ychydig mewn cymhariaeth o rif, yn lluosocach nag y bu ar un tymor o'i hanes. Gan fod Mr. Williams wedi arfer y bobl i fyw heb gyfranu at yr achos, mae yn naturiol i ni gasglu fod Mr. Morgans wedi cael cryn drafferth a dyoddef llawer o anfanteision wrth ddysgu eu dyledswydd iddynt, ond gan ei fod yn ddyn mor ryfeddol o hynaws a doeth, cadwodd bob peth i fyned yn mlaen yma yn unol a pherffaith dangnefeddus trwy yr holl flynyddau. Yn 1853, gosodwyd eisteddleoedd prydferth a chyfleus yn y capel, yn lle meingciau moelion oeddynt ynddo o'r blaen. Gwnaed y pulpud o newydd hefyd, ac amryw adgyweiriadau eraill yn ac oddiamgylch y lle, a thalwyd am y cwbl ar unwaith gan y gynnulleidfa. Capel bychan yw Bethesda, prin yr eistedd dau gant o bersonau yn gyfleus ynddo, ond y mae y gweinidogion, a rhyw nifer o bersonau dylanwadol sydd o oes i oes wedi bod yn perthyn i'r achos yma, wedi gosod rhyw enwogrwydd neillduol ar y lle. Nid ydym yn gwybod hanes y personau fuont yma yn cychwyn yr achos mor fanwl fel y gallwn roddi desgrifiad o'u cymeriadau. Yr oedd Henry Edmunds a'i wraig, o Felin, Llanddiddan, tad a mam Mrs. Griffiths, gweddw y diweddar Mr. Griffiths, Llanharan, yn bobl ragorol, ac yn rhyfeddol o ffyddlon a chroesawus i holl bregethwyr yr oes o'r blaen a ymwelent a'r fro. Ond dichon mai y gwr mwyaf nodedig gyda'r achos hwn, heblaw Mr. Williams, y gweinidog, oedd Mr. John Williams, St. Athan. Yr oedd ef yn frawd i Mr. David Williams, Llysyfronydd, gweinidog yr eglwys yn Aberthyn. Cylchwr *(cooper)* oedd wrth ei alwedigaeth. Bu yn byw am flynyddau lawer yn mhentref St. Athan, ac yn cadw siop yno. Yr oedd yn gysurus yn ei amgylchiadau bydol. Bu yn briod a phedair o wragedd. Bu farw Awst 26ain, 1806, yn 81 oed, a chladdwyd ef yn mynwent plwyf St. Athan. Yr oedd yn ddyn o alluoedd cryfion ac yn grefyddwr o'r fath ragoraf. Cymhellwyd ef yn daer gan yr eglwys i arfer ei ddoniau fel pregethwr, ond gwrthododd wneyd hyny. Yr oedd yn brydydd rhagorol. Efe yw awdwr yr emyn adnabyddus hwnw—"Pwy welaf o Edom yn d'od," &c., ac amryw emynau poblogaidd eraill. Cyfansoddodd hefyd rai marwnadau ar ol cyfeillion crefyddol.* Yr oedd Thomas Williams, y gweinidog, a John Williams yn gyfeillion mynwesol iawn. Yn mhen pedwar ugain o fisoedd wedi ei farwolaeth, cynhyrfwyd awen Thomas Williams wrth fyned heibio anedd ei hen gyfaill i ganu y penillion canlynol:—

"Ai hon yw'r anedd hono bu Williams ynddi'n byw?
Er gwybod, prin 'rwy'n credu mai'r anedd hyny yw;
Mae'r myrtwydd man, a'r *tulip*, a'r lili gwyn ei gwawr,
A muriau'r tŷ'n mynegu, mai eraill sy' yma 'nawr.

Hawddfyd i'r oriau hyfryd, dreuliasom ganwaith, gwn,
Myfi a'm hoff gydymaith dan dô yr hen dŷ hwn;
O'm golwg, trwm yw'r galon, fe'i mudwyd, dacw'r fan,
Mae'i dŷ e' 'nawr wrth ochr hen furiau llwyd y llan.

* Llythyr Mr. Morgans, Bethesda.

Digitized by Google

Mewn hiraeth mi af heibio, y tŷ lle'r oeddyt ti,
Ac mi ddof yn ol drachefn a hiraeth gyda mi;
Mewn misoedd bedwar ugain un gronyn llai nid yw,
Fy nghyfaill fydd mae'n debyg byth bellach tra f'wyf byw.

Efe oedd ganwyll hawddgar, llewyrchu'r oedd mor llon,
A minau fum dros amser yn hyfryd ger ei fron;
Ond anadl Duw a'i t'rawodd o'r llusern bridd i ma's,
Esgynodd fry, â'r llusern i lawr i'r ddaear las.

O foreu'r adgyfodiad, yn fuan brysied, troed
Olwynion dy gerbydau'n fwy cyflym nag erioed,
I agor beddau'r seintiau, a'u hyfryd ddwyn i ma's,
Fu cyd yn garcharorion dan gloion angau glas."

Nis gwyddom am ond un pregethwr a godwyd yn yr eglwys hon, heblaw Mr. Thomas Williams, y gweinidog, sef Mr. Thomas Thomas, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn 1842. Bu am dymor yn derbyn addysg dan ofal Mr. Jones, Penybont, ac aeth oddiyno i athrofa Newport Pagnel. Ar derfyniad ei amser yno, urddwyd ef yn Weldon, sir Northampton, lle y bu nes iddo ymfudo i'r America yn 1853. Nis gwyddom ddim yn mhellach o'i hanes.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Thomas Williams. Ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw Trerhedyn, yn mhlwyf Pendeulwyn, yn agos i'r Bontfaen, Morganwg, Mawrth 1af, 1761. Enwau ei rieni oeddynt Richard a Margaret Williams. Yr oedd ei dad yn amaethwr cyfrifol a chysurus yn ei amgylchiadau bydol. Nid ydym yn gwybod dim o berthynas i'w gymeriad moesol ef na'i wraig; ond gallwn gasglu, os nad oeddynt yn proffesu crefydd, nad oeddynt fel llawer yn erlidwyr yr achos goreu, cyn i'w mab Thomas gael y ffordd yn rhydd i wneyd proffes gyhoeddus o Grist, pan mor ieuangc a deng mlwydd oed. Thomas, mae yn debyg, oedd yr ieuengaf o feibion ei rieni. Dywedir ei fod ef er yn blentyn yn nodedig o ddifrifol a meddylgar. Dysgodd ddarllen ei Fibl yn ieuangc iawn, a byddai yn teithio milldiroedd i wrandaw pregethau, pan nad oedd ond plentyn bychan. Mae yn deilwng o'n sylw, fod y rhan fwyaf o'r dynion a ddefnyddiodd yr Arglwydd i wneyd gorchestion nodedig gyda'i achos, wedi cael eu galw i'r winllan yn foreu. Ymunodd Thomas Williams a chymdeithas fechan o'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhrehill, yn agos i'r Bontfaen, yn y ddegfed flwyddyn o'i oed, fel y nodasom. Cyfarfyddodd ag ystorom y tro cyntaf yr aeth i'r gyfeillach, ddigon nerthol i ladd teimladau crefyddol llawer un. Dygwyddodd fod yno ryw hurtyn balch o bregethwr yn blaenori y gyfeillach, yr hwn na wyddai ddim am y gwaith o "borthi yr wyn." Pan ddaeth y llangc yn mlaen, gofynodd iddo yn sarug ryw ofyniad tra anmherthynasol; a thra yr oedd y plentyn yn crynu ac yn methu ateb, dywedodd yn awdurdodol wrth un o'r bobl, "Ymaflwch yn ei fraich a bwriwch ef allan, nes y dysgo ei wers yn well." Ond er cael ei drin yn drwsgl a chreulon yn y modd hwn, ni ddigalonodd, oblegid yr oedd y Bugail da wedi ymaflyd ynddo, ac ni ollyngodd ei afael. Aeth rhagddo trwy bob anhawsderau, gan gynyddu mewn corpholaeth, doethineb, a ffafr gyda Duw a dynion. Ni chyfrifid un cyfarfod gweddi yn yr ardal yn llawn os na byddai ef ynddo. Ymroddodd a'i holl egni gyda gwaith ei Arglwydd; a chan ei

Digitized by Google

fod yn tra rhagori ar ei gyfoedion mewn gwybodaeth, doniau, a gras, bu yn offerynol i wneyd lles mawr i'r cymdeithasau crefyddol a gawsent eu ffurfio yn Mro Morganwg y blynyddau y dechreuodd efe ei yrfa grefyddol. Yn 1768, sef tua dwy flynedd cyn i Thomas Williams ymuno a'r achos, y daeth yr enwog David Jones, i Langan; ac felly cafodd yr eginyn hwn ei fendithio o'i darddiad a gwlith nefolaidd gweinidogaeth doddedig yr efengylwr anghydmarol hwnw. Y mae ef ei hun yn ei farwnad i Mr. Jones, yn darlunio ei deimladau yn y tymor hwnw o'i fywyd, yn well nag y medr neb arall wneyd. Gwrandawn arno:—

"Un o'r manau byth mi gofiaf, gwelais i e' gynta' gyd,
Yn cyhoeddi gair y cymod i golledig anwir fyd;
Iesu'n marw, Iesu'n eiriol, diwedd byd a boreu'r farn,
Oedd ei araeth o flaen cauoedd wrth hen gapel Talygarn.

Dyddiau hyfryd oedd y rhai'ny, pan oedd Rowlands uchel ddysg,
Peter ffyddlon, William Williams, Llwyd, a Morris, yn ein mysg;
Jones, fel angel yn Llangana, yn udganu'r udgorn mawr,
Nes bae'r dorf mewn twym serchiadau yn dyrchafu uwch y llawr.

Minau yno'n un o'r lluaws, er mai'r anheilynga'i gyd,
Dan y bwrdd yn bwyta'r briwsion, O! mor hyfryd oedd fy myd;
Torf yn bwyta'r bwydydd brasa', gwin a manna, nefol faeth,
Wrth y fron 'rown inau'n chwerthin tra'n ymborthi ar y llaeth."

Mae yn ymddangos i Thomas Williams dreulio yr ugain mlynedd cyntaf o'i fywyd crefyddol, yn ddedwydd iawn yn nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, ond dilynwyd yr haf tesog hwnw gan auaf garw ac ystormus. Pan gyfododd yr ymryson rhwng Mr. Peter Williams, a'i frodyr y Methodistiaid, trodd Thomas Williams, ac amryw eraill, yn Mro Morganwg, o blaid Peter Williams, a'r canlyniad fu iddynt ymneillduo oddiwrth y Corph. Nid yw yn perthyn yn briodol i'n gwaith ni yn bresenol i roddi hanes manwl o'r ymryson anffodus hwnw, na rhoddi ein barn arno; ond gan fod gwrthrych y bywgraphiad hwn a llaw ynddo, ac iddo achlysuro ei ymuniad a'r enwad yr ydym ni yn ysgrifenu ei hanes, byddai yn briodol i ni adael iddo ef ddywedyd ei farn am dano, trwy ddifynu ychydig benillion o'i farwnad gampus i Peter Williams:—

"Buost nod i saethau rhagfarn, er cadarned oedd dy ddawn,
Cyfeiliornus y'th gyfrifid, pan y byddit ar yr iawn;
Duw'n Iachawdwr i bechadur, oedd dy destyn yn mhob man,
Ac er hyny fe'i cyfrifid megis rhyw athrawiaeth wan,

Fe chwedleuodd yn dy erbyn, ddynion rai o ddoniau mawr,
Dynion eraill isel raddau, geisiodd dynu d'enw i lawr;
Ti gest wawd oddiwrth bob enw, ti gest wawd oddiwrth bob dawn,
Plant dy fam edrychent arnat, megis estron dyeithr iawn.

Cym'ryd ôg i ddyrnu facbys, wnaeth dy frodyr (gwyro'n mhell),
Troisant olwyn mèn ar gwmin, pan oedd gwiail lawer gwell:
Geiriau llym fel brath cleddyfau, fwriwyd atat yn ddiri',
Saethau tanllyd, arfau marwol, gym'rwyd i'th geryddu di.

Am wrthod credo Athanasius, fel gwnaeth gwyr o ddoniau maith,
Siglwyd *urn* yr hen Sabelius yn dy wyneb lawer gwaith;
Cyffes ffydd a llunio credo, gwneyd erthyglau mawr eu clod,
Magu 'mryson, rhanu eglwysi, fu effeithiau rhai'n erioed.

Digitized by Google

Tithau gym'raist aden c'lomen, est o'u swn yn ddigon pell,
Draw o'r 'storm a'r gwynt tymestlog, i ardaloedd lawer gwell;
Lle mae myrdd o rai lluddedig, fu mewn carchar, fu mewn tân,
Nawr yn gorphwys wedi gorphen eu cystuddiau mawr yn lan.

Mae 'nychymyg i mi'n dangos, pan aeth ef i'r nefoedd draw,
'Ddarfu neb fel yn Llandilo,* yn ei erbyn godi llaw;
Ond ei wahodd i mewn a d'wedyd, Peter ffyddlon tyr'd yn mlaen,
'Fu mwy disgwyl ddyfod yma neb o Gymru erioed o'r blaen."

Rai blynyddau cyn ei ymadawiad a'r Methodistiaid, sef ar y 10fed o Orphenaf, 1790, ymunodd Thomas Williams mewn priodas a Jane Morgan, o'r Brewis, yn agos i Lanilltydfawr, ac aeth i fyw i Ffonmon, yn mhlwyf Penmark. Cafodd yn Jane Morgan wraig ragorol am ei doethineb, medr, a'i duwioldeb. Tua y flwyddyn 1806, y flwyddyn yr adeiladwyd capel Bethesda, symudasant i Drefflemin, lle y treuliasant weddill eu hoes. Ar ol agos bum' mlynedd o gystudd bu farw Mrs. Williams, Hydref 24ain, 1827. Effeithiodd yr amgylchiad hwn, a chroesau eraill, gymaint ar feddwl ac iechyd Mr. Williams, fel na bu yn alluog i wneyd ond y peth nesaf i ddim gyda gwaith y weinidogaeth o'r pryd hwnw hyd ei farwolaeth. Mae "Cwyn yr unig," sef yr alargan a gyfansoddodd ar ol ei briod, mor lawn o deimlad ac mor naturiol a melus, fel na byddai un esgusawd yn angenrheidiol am ddifynu y penillion canlynol o honi, pe na buasent, fel y gwelir eu bod, yn rhoddi y fath eglurhad rhagorol ar nodwedd foesol a meddyliol yr awdwr:—

"Rhaid tawelu, rhaid mae'n debyg, er na wn i ddim pa lun,
Peidio cwyno ac och'neidio, cwyno nad oes genyf ddyn;
'Does genyf ddyn i gydofidio na chyd-deimlo a mi mwy,
Rhaid i'm gario'r baich fy hunan, neu syrthio dano'r fan lle bwy.

Gwell yw dau nag un 'rwy'n gwybod, ond gwae'r unig fel 'rwy'n awr,
Nad oes ganddo ail i'w godi wedi iddo syrthio i lawr;
'Rwy'n rhyfeddu, nid yn beio, trefn arfaeth nefoedd fry,
Os nid da bod dyn ei hunan, pa'm y trefnwyd hyn i mi?

O'r cyfnewid mawr ddaeth arnaf, wedi colli f'anwyl un,
Er fy mod yn nghanol cartref, nid wyf ond dyeithr ddyn;
Oer yw'r tŷ, y tân a'r gwely, oer yw pob peth yn y byd,
Ac oer iawn yw 'ngalon inau atynt hwythau oll i gyd.

Trwm yw tywod mân y moroedd, ond er trymed ydynt hwy,
Trymach yw och'neidiau hiraeth, mewn clorianau pwysent fwy;
Ond er cwyno ac hiraethu, bellach byth nis gwelaf hi,
Yn y ty, y maes, na'r eglwys, nac yn unman gyda mi.

Myned at y bedd i wylo mae fy meddwl heb nacau,
Er ei ragod, ceisio'i rwystro, rhag myn'd yno, myn'd y mae;
'Does neb, 'does dim o *dan* y nefoedd, trwy gydol maith y nos a'r dydd,
'Nawr yn destyn fy myfyrdod, ond yr un sydd yn y pridd.

Ac er gwybod heb amheuaeth ei bod wrth Bethesda draw,
Dan y ddaear oer yn dduo, pridd yw'r llygad, pridd yw'r llaw;
Mae 'nychymyg i mi'n haeru 'mod i'n gwel'd ei hawddgar lun,
Weithiau yma, weithiau acw, weithiau'n eistedd wrth fy nghlun.

* Yn Llandilo y cynelid y Sasiwn, yn yr hon y diarddelwyd Peter Williams o'r Corph.

Digitized by Google

Mi ddych'mygaf gyda phleser 'mod i'n clywed swn ei chân,
Mor felusber yn fy ymyl, fel y clywswn hi o'r blaen;
Cyn pen mynud try'r hyfrydwch oll i gyd yn dristwch im',
Nid oedd yno ond fy hunan, nid o'wn i yn clywed dim.

Meddwl wnawn a meddwl eilwaith, teimlo nghalon oll yn glaf,
Gwel'd ei hail hi na'i chyffelyb, ar y ddaear byth ni chaf;
Pawb yn awr yn myned heibio, rhai ar aswy, rhai ar dde,
Neb am wrandaw cwyn yr unig, a'i och'neidiau trymion e'."

Cyn iddo gael ond prin amser i gyrchu ei anadl ar ol y ddyrnod a gafodd yn marwolaeth ei wraig, bu farw ei unig ferch, yr hon oedd yn wraig weddw, gan adael ar ei hol bump o blant amddifaid o dad a mam. Yn mhen ychydig flynyddoedd drachefn claddodd ei ail fab; ac felly cafodd fyw i gladdu ei briod a'i blant oll, ond ei fab hynaf. O'r diwedd cafodd yntau ei ollwng mewn tangnefedd ar y 23ain o Dachwedd, 1844, yn 84 oed, a chladdwyd ef yn ymyl ei briod "wrth ochr mur Bethesda," lle y gorphwys y rhai lluddedig.

Yr oedd Thomas Williams yn un nodedig am ei ffraethineb, ac am ei benderfyniad i weithredu yn ol ei farn ei hun. Un tro mewn cyfeillach yn Bethesda, ar ol i un o'r brodyr ddarllen a gweddio, ac iddo yntau agoryd y cyfarfod trwy anerchiad byr, gofynodd i dri neu bedwar a oedd ganddynt ryw beth ar eu meddyliau, ac wedi iddynt ateb nad oedd ganddynt ddim, dywedodd, "Pa ddyben i ni aros yma yn fudion?" ac aeth i weddi i derfynu y cyfarfod. Unwaith yr oedd yn cyflawni gwasanaeth crefyddol ar angladd gwrthgiliwr, ac ar ol gweddio, dywedodd, "Dyma ddyn a fu fyw yn hwy na'i grefydd; cleddwch y marw allan o'n golwg," a dyna y cwbl a ddywedodd. Dro arall wrth gladdu dyn yn Bethesda, ag yr oedd dau offeiriaid wedi gwrthod bedd iddo am nad oedd yn un o'u plwyfolion, dywedodd, ar ol darllen a gweddio, "Dyma ddyn na fu yma erioed yn ei fywyd, a phe cawsid lle iddo yn rhyw le arall, ni buasai yn dyfod yma yn farw ychwaith; cleddwch ef allan o'n golwg." Achwynodd un wrtho unwaith fod ei bregeth yn rhy fyr. "A gofiaist ti yr oll a ddywedais?" gofynai. "Na ddo," ebe'r dyn. "Wel," atebai yntau, "yr oedd y bregeth yn rhy hir i ti."

Yr oedd Thomas Williams yn hen ŵr triugain-a-phedair-ar-ddeg oed pan y gwelsom ni ef y waith gyntaf, ond yr oedd y pryd hwnw lawer o'r harddwch a'i nodweddai yn ngrym ei ddyddiau heb lwyr gilio. Dywedir gan y rhai a'i hadwaenent ei fod yn ei ieuengctyd yn un o'r dynion harddaf o gorph yn yr holl wlad, a'i fod o ymddygiad boneddigaidd iawn. Yr oedd ganddo feddwl grymus, barddonol, a threiddgar, a llawn iawn o wybodaeth gyffredinol. Fel pregethwr yr oedd yn ffraeth, tarawiadol, ac anarferol o effeithiol. Tua haner awr fynychaf fyddai hyd ei bregeth, ond yr oedd tra y parhâi mor felus a'r mel. Efe oedd y pregethwr blaenaf o bawb yn nghyfrif pobl ei ofal; ac oni buasai iddo dreulio ei ddyddiau goreu yn neillduedig oddiwrth bob enwad o grefyddwyr, diau y buasai yn un adnabyddus trwy yr holl wlad, ac yn un o'r gweinidogion mwyaf poblogaidd. Fel emynwr a chyfansoddwr marwnadau a chaniadau crefyddol, nid yw yn debyg fod neb o'i gyffelyb yn Nghymru yn ei oes. Cyhoeddodd yr argraffiad cyntaf o'i emynau yn 1812, dan yr enw *Llais y durtur yn y wlad*, a chyhoeddodd yr ail argraffiad yn 1824, dan yr enw *Dyfroedd Bethesda*. Cynwysa yr argraffiad hwn 143 o emynau, a deg o ganiadau,

Digitized by Google

ac yn mysg eraill, y gân ddigyffelyb o anerchiad a anfonodd i Margaret Watkins, un o'i aelodau a ymfudasai i'r America. Ni ddygwyddodd i ni weled un darn o brydyddiaeth tlysach ac effeithiolach na'r gân hon erioed. Gresyn na chymerai rhywun cymwys at y gorchwyl o gasglu a dwyn trwy y wasg argraffiad cyflawn o holl gyfansoddiadau prydyddol Thomas Williams. Byddai y gyfrol yn anrheg anmhrisiadwy i ddarllenwyr Cymreig sydd yn hoff o brydyddiaeth grefyddol.

## NURSTON.

Mae y lle prydferth hwn yn mhlwyf Penmark, ac o dair i bedair milldir i'r de-ddwyrain o Bethesda. Bu Mr. Thomas Williams, gweinidog Bethesda, yn byw, fel y gwelsom, am tuag un-mlynedd-ar-bymtheg yn Ffonmon, yn agos i Nurston, a chafodd ei dy ei drwyddedu at bregethu ynddo Chwefror 18fed, 1797. Pan symudodd ef o Ffonmon i Drefflemin, yr adeiladwyd Bethesda, ac y symudodd y gynnulleidfa o'r Brittwn i'r capel newydd, amddifadwyd pobl ardal y Nurston o lawer o'r breintiau a fwynhaent yn flaenorol. Fel na chaent eu hamddifadu yn hollol, trwyddedwyd ty Owen Thomas o Nurston, yn llys Llandaf gan Mr. Thomas Williams, Mai 18fed, 1806, at bregethu yn achlysurol ynddo. Yr oedd Owen Thomas a'i wraig yn rhai rhagorol iawn fel crefyddwyr. Edrychid arnynt gan bawb o'u cydnabod fel pobl nodedig o dduwiol. Cynelid cyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol yn wythnosol yn eu ty, a byddai Mr. T. Williams yn dyfod ambell brydnawn Sabboth i bregethu ynddo, ond disgwylid i bawb o'r ardal hon fyned i Bethesda bob boreu Sabboth er pelled y ffordd. Yn mhen rhai blynyddau bu farw gwraig ragorol Owen Thomas, a chan ei fod yntau yn ddiblant rhoddodd i fyny gadw ty, a thrwy hyny collodd y praidd bychain yn yr ardal hon eu haddoldy. Wedi hyny darfu iddynt rentu hen ysgubor am ddeg-swllt-ar-hugain yn y flwyddyn, gan Mr. John Jenkins, o Blas Penmark. Gydag ychydig o draul gwnaed yr hen adeilad yma yn addoldy gweddol gysurus, a buwyd yn addoli ynddo am fwy na deugain mlynedd. Yn 1829, pan ymsefydlodd Mr. Edward Williams yn weinidog yn Bethesda, corpholodd yr aelodau a gyfaneddent yn ardal y Nurston yn eglwys, ond wedi ei ymadawiad ef, rhoddwyd y cymundeb yno heibio, a byddent yn myned fel cynt i Bethesda i gymuno nes i Mr. Morgans ddyfod i Bethesda yn 1836, pryd yr ail gorpholwyd hwy yn eglwys Annibynol, ac felly y maent hyd yn bresenol. Gan fod yr hen ysgubor yn wael a thra anghyfleus fel addoldy, edrychwyd allan am ddarn o dir at adeiladu capel. Yn y flwyddyn 1867, llwyddwyd i gael man cyfleus iawn, yn ymyl yr hen gapel, gan Mr. David Morgans, Ffonmon, aelod gyda'r Bedyddwyr yn Llancarfan. Bu Mr. Morgans mor garedig a rhoddi y tir dros fil ond un o flynyddau am swllt y flwyddyn o rent. Adeiladwyd yma gapel bychan nodedig o dlws am ddau cant o bunau, trwy fod yr amaethwyr yn y gymydogaeth yn cludo y defnyddiau yn rhad ato. Trwy lafur dibaid Mr. Morgans, y gweinidog, a'r bobl, y mae y lle yn awr yn ddiddyled. Agorwyd y capel newydd yn 1868, pryd y pregethwyd gan Meistri J. Davies, Caerdydd; J. Davies, Taihirion; J. Mathews, Castellnedd, a Dr. Rees, Abertawy. Salem ydyw enw yr addoldy. Y mae ynddo gynnulleidfa fechan nodedig o siriol a bywiog. Rhif yr aelodau yw 41. Nid yw poblogaeth yr ardal ond cymharol deneu, ac am hyny nis gellir disgwyl y bydd yma byth nifer fawr o bobl.



Digitized by Google

## EBENEZER, LLANILLTYDFAWR.

Mae llawer o enwogrwydd hanesyddol yn perthyn i'r lle henafol hwn. Os gwir y traddodiad, mai yma y glaniodd y llong a ddygodd y Cenhadau Cristionogol cyntaf i Frydain, y mae rhyw fri yn perthyn i'r lle tuhwnt i bob lle arall yn y deyrnas gyfunol. Ond nid oes dim yn nodedig o ddymunol yn nglyn a hanes yr eglwys Annibynol yma. Yr ydym yn cael yn nghofnodion llys Esgobol Llandaf, fod un Nicholas Stokes wedi trwyddedu tŷ Pierce Clark yn y dref hon at gynal addoliad *Presbyteraidd*, Hydref 17eg, 1754. Yr oedd enwau *Annibynwyr* a *Phresbyteriaid* y pryd hwnw yn cael eu harfer fel geiriau cyfystyr yn Nghymru, a chan nad oedd Undodiaid, y rhai tua diwedd y ganrif ddiweddaf a'u galwent eu hunain yn *Bresbyteriaid*, i'w cael yn y dywysogaeth yr amser hwnw, yr ydym yn casglu mai Annibynwyr, neu Ymneillduwyr uniawngred, oedd y bobl hyn. Ar yr un dydd ag y trwyddedwyd tŷ Clark yn Llanilltyd, cafodd tŷ Richard David, yn Llancarfan, hefyd ei drwyddedu gan yr un bobl. Nid ydym yn gwybod pa cyhyd y bu yr achos hwn fyw, ond mae yn amlwg ei fod wedi diflanu cyn dechreu y ganrif bresenol. Yn y flwyddyn 1815, darfu i Mr. Watkin Watkins, yr hwn oedd yn weinidog cynnulleidfa fechan o Annibynwyr yn St. Donnett's, tua dwy filldir o Llanilltyd, brynu hen anedd-dy, a gardd helaeth, yn Calhne Street, yn nhref Llanilltyd, a chyfaddasodd ef i fod yn dŷ addoliad. Hwn oedd yr unig addoldy Ymneillduol yn y dref ar y pryd. Wedi cael yr addoldy yn barod, dechreuodd Mr. Watkin Watkins bregethu ynddo, a chasglodd gynnulleidfa dda. Ymddangosai pob peth yn obeithiol am dymor, ond yn mhen rhyw gymaint o amser ymddyrysodd y gweinidog yn ei amgylchiadau, ac ymadawodd a'r ardal. Wedi hyny cauwyd y capel i fyny, ac ymwasgarodd y bobl. Aeth rhai o'r aelodau i Bethesda, a rhai at enwadau eraill. Bu y capel am rai blynyddau ar rent gan y Bedyddwyr, a buasent yn ei brynu oni buasai i rai o weinidogion y sir, megis Hughes, Groeswen; Jones, Penybont; Evans, Mynyddbach, ac eraill, sefyll yn groes i'w werthu. Tua y flwyddyn 1832, penderfynodd eglwysi y sir gynal cenhadwr yn y Fro, ac i Lanilltyd fod yn brif arosfa iddo. Bu Mr. John Lewis, wedi hyny o Tuihirion, yma am dymor, a dilynwyd ef am ychydig amser gan Mr. David Phillips, mab Dr. Phillips, Neuaddlwyd. Yn nghapel Llanilltyd yn benaf y pregethent. Ni fu nemawr o lewyrch ar yr anturiaeth. Cauwyd y capel drachefn am lawer o flynyddau, a dadfeiliodd i'r fath raddau nes nad oedd yno ddim ond muriau moelion. Mewn cyfarfod chwarterol a gynaliwyd yn Nghaerphili yn Awst 1855, anogwyd Mr. Morgans, Bethesda, i ymgymeryd a'r gorchwyl o adgyweirio y capel a cheisio ail gychwyn achos ynddo. Addawodd yntau wneyd hyny ar yr amod i Mr. Rees, Groeswen, a Mr. Williams, Caerdydd, addaw bod yn gyfrifol gydag ef am y draul, yr hyn a wnaethant. Aed at y gwaith o adgyweirio, yr hyn a gostiodd 98p. 15s. Ond erbyn fod y gwaith wedi ei orphen, yr oedd Mr. Rees a Mr. Williams wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a disgynodd y baich o dalu y ddyled yn gwbl ar Mr. Morgans ei hun. Casglodd yr arian oll mewn dwy flynedd, ac er y pryd hwnw hyd yn awr y mae gwasanaeth crefyddol rheolaidd yn cael ei gynal yma gan weinidog ac aelodau Bethesda. Yn ddiweddar darfu i'r eglwys yn Bethesda fyned i'r draul ychwanegol o 60p. mewn adgyweiriadau angenrheidiol

yma. Yr unig ffordd i gyfodi achos effeithiol yn y lle hwn yw troi y gwasanaeth yn hollol i'r iaith Saesonaeg, gan fod achosion Cymreig yma yn barod gan y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Wesleyaid, a bod y rhan fwyaf o ieuengctyd y dref a'r gymydogaeth yn hoffach o'r Saesonaeg nag o'r Gymraeg. Pe gellid cael pregethwr da a gweithgar yma, gellid casglu cynnulleidfa luosog i addoli yn yr iaith Saesonaeg. Mae y capel a'r fynwent yn eiddo i'r enwad Annibynol dros byth, a gresyn na wnelid y defnydd goreu o hono.*

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

WATKIN WATKINS. Mae yn debyg mai yn ardal Castellnedd y ganwyd ef, ond nid ydym wedi gallu cael allan flwyddyn ei enedigaeth. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys yn Maesyrhaf, ryw amser wedi dechreuad gweinidogaeth Mr. Bowen yno. Saer ydoedd wrth ei alwedigaeth. Efe ydoedd adeiladydd capel Melinycwrt. Dechreuodd bregethu yn 1799. Yn yr amser y dechreuodd ef bregethu y clowyd Mr. Bowen a'i gynnulleidfa allan o'r capel gan yr Undodiaid, a phan orchymynodd yr ynadon dori y cloion, Watkin Watkins a gyflawnodd y gorchwyl. Yn lled fuan wedi iddo ddechreu pregethu, priododd a merch Hendregradog, yn mhlwyf Cilybebyll, ac aeth i fyw i Danygrugos, rhwng Castellnedd a Phontrhyd-y-fen. Wedi bod yn bregethwr cynorthwyol derbyniol am rai blynyddau, casglodd gynnulleidfa fechan yn St. Dynwyd, neu Donnetts, yn agos i Lanilltydfawr, ac urddwyd ef yno tua y flwyddyn 1809. Bu ei lafur yma yn dra llwyddianus, ond gorfodwyd ef gan ragfarn esgobyddol perchenog y rhan fwyaf o'r plwyf i roddi heibio bregethu yma. Yna symudwyd yr achos i Lanilltydfawr tua y flwyddyn 1814, ac yn 1815, agorwyd y capel yno. Yn fuan wedi hyny aeth amgylchiadau Mr. Watkins yn ddyryslyd, o herwydd anrhefn ac esgeulusdod ei wraig fel y tybir, yr hyn a'i gorfododd i ymadael a'r ardal. Bu wedi hyny yn byw am rai blynyddau yn ardal Pontypool. Pregethai yn achlysurol, ond ymddibynai am ei gynaliaeth ar ei gelfyddyd fel saer. Efe a adeiladodd gapel Sardis ar y Farteg. Tua y flwyddyn 1829, ymfudodd i'r America. Bu farw yno, ond nis gwyddom pa bryd, a chladdwyd ef yn mynwent capel Pabyddol yn rhyw le yn nghymydogaeth mynyddoedd yr Alleghany.

Dywed y rhai sydd yn ei gofio fod Watkin Watkins yn ddyn crefyddol iawn, ac er na chyfrifid ef yn bregethwr mawr, yr oedd yn llefarwr gwresog, buddiol, a phoblogaidd. Yr oedd ei lais yn doddedig a hytrach yn gwynfanus, ond yn dra effeithiol. Bu yn lled gyhoeddus fel pregethwr o 1809 hyd 1816. Byddai yn pregethu yn aml yn y cymanfaoedd yn y blynyddoedd hyny. Dywedir hefyd ei fod yn un adeiladol iawn mewn cyfeillach crefyddol.†

## TRESIMWN.

Saif yr addoldy hwn—yr hwn a elwir Carmel—ar dwyn iachus gerllaw pentref Tresimwn; ar y llaw ddeheu wrth fyned o Bontfaen i Gaerdydd. Dechreuwyd yr achos yma yn benaf trwy lafur Mr. Benjamin Morgan, yr hwn oedd yn weinidog yn Llansantffraid ar y pryd, ond ni bu

* Llythyr Mr. Morgans, Bethesda. † Llythyr Mr. Griffiths, Alltwen.

yma yn hir, canys darfu ei gysylltiad a'r weinidogaeth ac a chrefydd yn fuan. Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1834, a dywedir i'r draul fyned yn ddau cymaint ag y dylasai, yr hyn a fu yn hir yn boen a blinder. Cymerodd Mr. John Davies ofal yr achos mewn cysylltiad a Llantrisant, a bu yn cyrchu yma am dair blynedd, hyd nes y symudodd i Aberdar. Bu yn llwyddianus i gasglu cynnulleidfa, ond yr oedd y ddyled yn parhau.

Rhoddwyd galwad i Mr. Daniel Jones, yr hwn oedd ar y pryd yn yr ysgol yn Llanboidy, ac urddwyd ef yma Gorphenaf 26ain a'r 27ain, 1837, a bu yma am dair blynedd, ac yna symudodd i gymeryd gofal yr eglwys yn Bethesda, Merthyr. Yn 1841, rhoddwyd galwad i Mr. Rees Evans, yr hwn a fuasai yn yr ysgol yn Mhenywaun, a bu yma am chwe' blynedd; ond isel iawn oedd yr achos yn ei dymor ef, a'r ddyled yn parhau i lethu yr achos. Bu Mr. Evans allan yn casglu, ond ychydig dalwyd o'r ddyled, o'r diwedd rhoddodd yr eglwys i fyny ac ymfudodd i America. Nid oedd odid gynadledd yn nglyn a chyfarfod chwarterol na chymanfa nad oedd dyled Carmel ger bron. Gwasgai y gofynwyr ar y meichnion, a gwasgai y meichnion ar y gweinidogion, oblegid yr oedd y llog yn ychwanegu at gorph y ddyled. Digalonodd yr ychydig gyfeillion yn y lle gymaint ar un adeg fel y penderfynwyd gwerthu y capel i'r Bedyddwyr; ond wedi trefnu i gyfarfod yn y capel ar noswaith benodedig i wneyd hyny, nid oedd un agoriad i'w gael i fyned i mewn. Yr oedd un hen chwaer gynes ei chalon wedi clywed am y bwriad, a chuddiodd yr agoriad; a chan na allwyd myned i mewn y noson hono ni wnaed ail gynyg ar ei werthu. Yn y flwyddyn 1850, dechreuodd Mr. James Thomas ei ymweliadau yn fed reolaidd a'r lle, a chyn hir derbyniodd alwad gan yr ychydig aelodau oedd yma yn aros. Nid oeddynt ond pedwar-ar-ddeg o nifer, a'r rhai hyny yn dlodion, a 160p. o ddyled ar y capel, a chymeriad y lle i fesur mawr wedi ei golli; ond ymroddodd Mr. Thomas a'i holl egni i godi yr achos. Gweithiai a'i ddwylaw yn galed trwy yr wythnos er gweini i'w cyfreidiau; ac nid oedd yr hyn a dderbyniai gan yr eglwys ar y dechreu yn werth ei gyfrif. Urddwyd ef Ebrill 20fed a'r 21ain, 1853. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. D. Williams, Caerdydd; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Evans, Cymer; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. M. Morgans, Bethesda; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Maendy, ac i'r eglwys gan Mr. W. Griffiths, Llanharan. Ymroddodd Mr. Thomas a'i holl egni i dalu y ddyled; cerddodd y wlad o dŷ i dŷ, gwerthodd docynau *Tea Parties* a darlithiau, a chydweithredai yr eglwys a'r ardal yn galonog gydag ef, heb flino na chymanfa na chyfarfod chwarterol. Gwnaed adgyweiriadau yn y capel, gan ei fod wedi myned yn adfaeliedig, yr hyn a gostiodd gryn swm, ac erbyn dechreu y flwyddyn 1861, yr oedd yr holl ddyled wedi ei thalu, a chadwyd yma gyfarfod i gydlawenhau am hyny. Cynyddodd yr eglwys yn raddol er sefydliad Mr. Thomas yma; ond yn y flwyddyn 1860, cafwyd yma ddiwygiad grymus, pryd yr ychwanegwyd ugeiniau at yr eglwys, ac y mae yr achos yn parhau yn gryf a llewyrchus.

## YNYSGAU, MERTHYR TYDFIL.

Nid oes un sicrwydd pa bryd na chan bwy y dechreuwyd Ymneillduaeth yn mhlwyf Merthyr Tydfil. Mae Malkin, ysgrifenydd Saesonig, yn hanes ei deithiau trwy Gymru, ar awdurdod Iolo Morganwg, yn priodoli ei

Digitized by Google

ddechreuad i lafur un Thomas Llewellyn, o'r Rhigos, yr hwn oedd fardd, yn ddyn da a dysgedig, ac yn llafurus yn ei oes i wneuthur daioni. Dywed Iolo iddo gyfieithu y Bibl i Gymraeg da, o gyfieithiad Saesonig William Tyndal, tua y flwyddyn 1540, ac iddo wedi hyny gael trwydded gan yr Archesgob Grindal i bregethu; iddo bregethu llawer mewn anedd-dai, ac mai ei ddysgyblion ef ddarfu ddechreu yr achos Ymneillduol yn Merthyr, trwy osod addoliad rheolaidd i fyny mewn amaethdy o'r enw Blaencanaid, ar lechwedd y mynydd rhwng Merthyr ac Aberdar, oddeutu y flwyddyn 1620. Dywedir hefyd fod Thomas Llewellyn yn pregethu pryd yr oedd wedi myned yn ddall gan henaint. Bernir iddo fyw nes oedd yn mhell dros gan' mlwydd oed.* Nid ydym yn gwbl barod i wrthod na derbyn yr hyn a ddywed Iolo am Thomas Llewellyn, a chysylltiad ei lafur a dechreuad Ymneillduaeth yn Merthyr a'r cylchoedd, fel ffaith hanesyddol. Mae yn hysbys i'r Archesgob Grindal drwyddedu dynion i fyned allan fel pregethwyr teithiol, a bod eu cyflawniadau crefyddol yn myned dan yr enw *Prophesyings*, ac i'w waith yn caniatau hyny dynu arno ŵg y frenhines Elizabeth ac awdurdodau yr Eglwys. Dichon fod yr hen Gymro o'r Rhigos yn un o'r rhai a awdurdodwyd ganddo i "brophwydo," ac i lwyddiant mawr ddilyn ei lafur yn y cymoedd anghysbell, ac ar lechweddi y mynyddau gwylltion o'r afonydd Nedd a'r Rhondda hyd y Taf a'r Rhymnwy; ond yr hyn sydd yn peri i ni betruso yw dystawrwydd hollol cyfeillion a gelynion Ymneillduaeth yn ei gylch ef a'i lafur. Yr ydym yn cael cyfeiriadau at ddechreuad Ymneillduaeth yn Morganwg yn ysgrifeniadau Walter Cradock, William Erbery, Vavasor Powell, Henry Maurice, a'r Archesgob Laud, oll o fewn deugain neu ychydig gyda haner can' mlynedd i amser Thomas Llewellyn, ond nid oes unrhyw grybwylliad am dano ef na'i ganlynwyr gan yr un o honynt. Os bu ei lafur mor llwyddianus ag yr awgryma Iolo mae yn rhyfedd na buasai rhyw elyn neu gyfaill yn son rhywbeth am dano ryw bryd o fewn y can' mlynedd cyntaf ar ol ei farwolaeth. Pa fodd bynag, mae un peth yn ddiamheuol, sef fod Ymneillduaeth wedi ei phlanu a gwreiddio yn Merthyr a'r cylchoedd yn foreu iawn. Dywed Jones, yn hanes Brycheiniog, fod Ymneillduwyr amryw yn y rhanau deheuol o'r sir hono—plwyfydd y Faenor a Phenderyn yn ymyl Merthyr, wrth reswm a feddyliai—cyn i'r rhyfel cartrefol dori allan yn 1642, a dywed Henry Maurice, yn ei ysgrif a gyhoeddwyd yn y *Broad Mead Records*, mai yr eglwysi yn Merthyr Tydfil ac Abertawy oedd y rhai cyntaf a gasglwyd yn Morganwg. Ond y dystiolaeth fwyaf pendant a phwysig am henafiaeth Ymneillduaeth yn Merthyr yw eiddo Nathaniel Jones, offeiriad y plwyf hwn rhwng 1640 a 1662. Mae ysgrifen o'i eiddo ef yn awr yn nghadw mewn cist yn eglwys plwyf Merthyr, yn rhoddi hanes ei helbulon yn amser y Senedd Hir, yr hon, fel y mae yn amlwg, a ysgrifenwyd ganddo ryw bryd rhwng 1650 a 1655. Yn nechreu yr ysgrif hon, dywed, "Y mae genym ni, yn mhlwyf Merthyr Tydfil, gymdeithas o wyr a gwragedd, y rhai *er's amser maith* sydd wedi bod yn yr arferiad o gynal cyfarfodydd anghyfreithlon (*conventicles*), yn mha rai y maent wedi trefnu ffurflywodraeth eglwysig yn ol eu hewyllys eu hunain, yn groes i'r deddfau a'r ordeiniadau."† Yn ol y dystiolaeth hon nid oes dim yn anhygoel yn yr haeriad fod cyfarfodydd crefyddol yn cael eu cynal yn Mlaencanaid er y flwyddyn 1620, oblegid nid oedd cyfarfodydd

* *Llyfryddiaeth y Cymry*. Tu dal. 14. † *Wilkin's History of Merthyr*. Tu dal. 93.

Digitized by Google

Ymneillduol "yn groes i'r deddfau ar ordeiniadau" o 1640 hyd 1662, gan fod yr awdurdodau yn caniatau rhyddid cydwybod i ddynion i addoli yn ol argyhoeddiad eu meddyliau. Mae yn rhaid gan hyny mai at y cyfarfodydd a gynelid cyn 1640 y cyfeiria yr ysgrifenydd. Pan drodd y Senedd yn bleidiol i ryddid crefyddol, ni bu raid i Ymneillduwyr Merthyr bellach ddirgelu eu hunain yn Mlaencanaid. Daethant i gadw eu cyfarfodydd yn amlwg heb ofn cael eu haflonyddu, yn enwedig ar ol 1646, pan y gorchfygodd milwyr y Senedd blaid y brenhin yn Nghymru. Aethant bellach i gynal eu cyfarfodydd yn Eglwys y plwyf, am yr hyn y cwyna Nathaniel Jones, yr offeiriad yn dost. "Y maent," meddai, "nid yn unig wedi dileu a bwrw i lawr bob math o ddegymau, ond y maent hefyd yn dinystrio Eglwys y plwyf. Ni oddefant i neb bregethu yno ond un o'u sect eu hunain, ac eraill sydd yn ysbeilio yr Eglwys. Mae ganddynt yno dri o bregethwyr lleyg. Mae y brodyr hyn yn cyfarfod bob Sabboth yn yr Eglwys, ac yn fynych ar ddyddiau o'r wythnos, lle y maent yn ymgynghori, yn dadleu, ac yn trefnu eu materion mewn modd anghyfreithlon ac annuwiol. Ni oddefent i weinidog y plwyf bregethu yn yr eglwys, oblegid ni thalant ddegwm iddo. Maent weithiau wedi canu y gloch er aflonyddu arno; brydiau eraill y maent wedi ei dynu allan o'r pulpud gan dori ei ddillad ac arfer creulondeb tuag ato; ar amserau eraill gosodant rywun arall i bregethu dan yr ywen ar y fynwent pan fyddo y gweinidog yn y pulpud yn yr Eglwys. Ni fyn y bobl yma na gweddiau na sacrament, yn enwedig gweddiau santaidd yr Eglwys, a'r sacrament o ddwylaw y gweinidog. Mae yn wir fod Mr. Jenkin Jones yn tori bara yn fisol yma, yr hwn, yn nghyd a'r gwin, a renir trwy y gynnulleidfa. Yr wyf yn sicr fod yma bum' mil o wyr a gwragedd yn y plwyf nad ydynt wedi derbyn Swper yr Arglwydd y deng mlynedd diweddaf hyn. Mae Mr. Jenkin Jones neu Henry Williams, yn sicr o gymeryd meddiant o'r pulpud bob Sul y Pasg, ac ar amserau eraill ni oddefir i'r bobl dderbyn y sacrament gan weinidog y plwyf na dwyn eu plant yno i'w bedyddio." Yr ydym yn mhell o gymeradwyo ymddygiad y werin tuag at yr offeiriad hwn, nag unrhyw offeiriad arall, ond nis gellid gydag un mesur o degwch osod y bai o'i drin fel y gwnaed, a thybied nad oedd ef yn gosod lliw gwaeth ar y driniaeth a gafodd nag ydoedd mewn gwirionedd, wrth ddrws yr Ymneillduwyr, oblegid yr oedd yr holl wlad y pryd hwnw yn ferw gwyllt o derfysg, fel nad oedd gan ddynion difrifol a chrefyddol un lywodraeth dros y werin.

O'r dechreuad hyd y flwyddyn 1649, Annibynwyr, neu Bresbyteriaid, oedd Ymneillduwyr Merthyr oll, ond mae yn dra thebygol i rai o honynt droi yn Fedyddwyr tua yr amser hwn, ac y mae yn wybyddus i'r Crynwyr ennill llawer o ddysgyblion yn Merthyr yn amser y werin-lywodraeth. Mae yn debyg mai hwy yn benaf oedd yn aflonyddu yr offeiriad. Y mae yn enwi un o honynt, sef Richard Thomas, ei fod yn dyfod i'r Eglwys pan y buasai ef yn pregethu i aflonyddu arno a gofyn gofyniadau iddo ar ganol ei bregeth. Mae yn wybyddus fod y Crynwyr yn yr oes hono yn euog o aflonyddu, nid yn unig addoliadau yr Esgobyddion, ond hefyd addoliadau yr Ymneillduwyr. Mae yn ddiameu i raniad yr Ymneillduwyr i wahanol sectau achlysuro mesur o deimlad oer rhyngddynt a'u gilydd, a llawer o ddadleuon anffafriol i feithriniad ysbryd crefyddol ac ymdrech egniol i efengyleiddio y werin anwybodus, ond er hyny fe barhaodd yr eglwys hon, fuasai gynt yn addoli mewn enbydrwydd yn Mlaencanaid, yn gryf a gweithgar, ac fe ymddengys iddi ychwanegu nerth dirfawr yn nhymor y

rhyddid a fwynhaodd o 1646 hyd 1662. Wedi adferiad y brenin, Siarl II., i'r orsedd, eafodd Nathaniel Jones, a chynifer o ganlynwyr ag oedd ganddo yn y plwyf, eu hadferu i'r eglwys, a bu raid i'r Ymneillduwyr ddychwelyd drachefn i Flaencanaid, neu rywle arall, i gynal eu cyfarfodydd. Yn 1669, yr oeddynt yn ymgynull yn nhai Howell Rees Phillips ac Isaac John Morgan, a'r cynnulliadau yn rhifo o dri i chwe' chant o bobl.* Darfu i Vavasor Powell, pan ddaeth ar ei dro trwy Ferthyr yn 1668, gymeryd yr hyfdra i bregethu i tua mil o bobl yn agos i fynwent yr eglwys, ond arweiniodd hyny i'w garchariad dranoeth, fel y gwelir yn hanes ei fywyd. Gwelsom mai Mr. Jenkin Jones, a Mr. Harry Williams, a rhyw dri phregethwr cynorthwyol, oedd yn gweinidogaethu i'r gynnulleidfa hon yn amser y rhyddid; a Henry Williams, neu Henry William Thomas, fel y gelwir ef yn llawysgrifau Lambeth, oedd eu gweinidog yn 1669. Yr ydym yn barnu mai yr un gwr oedd hwn a'r Henry Williams a drowyd allan gan Ddeddf Unffurfiaeth o Eglwys Llantrisant. Dywedir yn llawysgrifau Lambeth ei fod wedi bod yn gadben yn myddin y Senedd, ac nad oedd yn gwybod yr un iaith ond y Gymraeg; ond mae yn ymddangos ei fod yn gwybod digon o efengyl i fod yn weinidog defnyddiol i'r gynnulleidfa luosog hon. Rhyw amser wedi adferiad y brenin aeth y gynnulleidfa hon i addoli i anedd-dy o'r enw Cwmyglo, heb fod yn mhell o Flaencanaid, lle y buasent yn addoli gynt. Yr oedd hwn fel y lle arall, yn fan neillduedig a dirgel. Dichon mai hwn oedd tŷ Howell Rees Phillips, neu dŷ Isaac John Morgan, lle yr oeddynt yn addoli yn 1669. Yn Nghwmyglo yn benaf, os nad yn unig, y buont yn addoli trwy holl dymor yr erledigaeth, ac yn hir ar ol hyny. Wedi cael nodded Deddf Goddefiad, yn 1688, awd i edrych am le i adeiladu capel, a chafwyd tir gan y Cadben David Jenkins, o Hensol, yn ymyl amaethdy Cwmyglo.* Dywedir eu bod yn cydymgynghori at bwy yr aethant i geisio tir i adeiladu y capel arno, ac i un o'r aelodau ddyweyd yr elai ef at y Cadben Jenkins i ofyn y ffafr, gan mai ei frawd oedd *butler* y boneddwr hwnw. Aeth, a dywedodd ei neges wrth y boneddwr, yr hwn a atebodd yn siriol, "Os ydych chwi yn dewis addoli yn y lle hwnw, chwi gewch dir, ond am y *butler* bach a minau, nid ydym ni yn gofalu am addoli dim ond ein boliau." Adeiladwyd yno gapel, adfeilion pa un sydd i'w gweled yno etto. Yno y buwyd yn ymgynnull hyd 1749, pryd yr adeiladwyd yr Ynysgau. Bu yr eglwys hon am flynyddau yn cael ei chyfrif fel cangen o eglwys Llanigon, cangenau o ba un oedd yn wasgaredig trwy holl sir Frycheiniog, o'r rhan uchaf o sir Gaerfyrddin. Mr. Henry Maurice oedd gweinidog yr eglwys fawr wasgaredig hon o 1672 hyd ei farwolaeth yn 1682, ond yr oedd ganddo lawer o gynorthwywyr. Mae llawer o draddodiadau am ddyoddefiadau yr eglwys hon yn mlynyddoedd yr erledigaeth, ond nis gwyddom pa faint o bwys sydd i'w osod arnynt fel ffeithiau hanesyddol. Dywedir i un Edwards, yr hwn oedd yn bregethwr yma, gael ei lofruddio yn agos i'r Gyfartha. Mae yn wybyddus i un Major Carne ddyfod yma a nifer o filwyr gydag ef yn 1668, i ddal yr enwog Vavasor Powell. Dywedir i swyddwr milwraidd o'r enw Colonel Morgan fyned unwaith at Gwmyglo, a milwyr gydag ef, gyda'r bwriad i gymeryd y pregethwr a'r gwrandawwyr yn garcharorion, ond iddo ar ol gwrandaw ychydig wrth y drws gael ei doddi i'r fath raddau gan yr hyn a glywodd fel y darfu iddo droi ymaith

* *The Lambeth MSS.* * *Llyfryddiaeth y Cymry.* Tu dal. 440.

a dyweyd wrth ei filwyr, "Trueni yw gwneyd dim i'r bobl hyn." Adroddir gan Mr. Thomas yn *Hanes y Bedyddwyr*, i hen gristion enwog o'r enw Saphin, neu Sephaniah, fyned unwaith yn nyfnder y nos tua Chwmyglo, ac wedi iddo fyned i mewn, i'r addolwyr mewn rhan arall o'r tŷ glywed trwst ei draed ac iddynt ddychrynu rhag ofn mai erlidiwr oedd yno. Pan ddeallodd yntau eu bod wedi brawychu, gwaeddodd allan, "Pa ham yr ofnwch, 'y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn.'"

Nid ydym wedi cael allan pwy fu yn gweinidogaethu yma o amser marwolaeth Mr. Henry Maurice yn 1682 hyd y flwyddyn 1698. Gan fod yr eglwys hon wedi bod yn gangen o eglwys wasgaredig sir Frycheiniog, mae yn eithaf naturiol i ni gasglu mai Mr. Rees Prytherch, Ystradwallter, a gweinidogion Aberhonddu a Thredwstan, a ofalent yn benaf am y gangen hon, fel y cangenau eraill. Yn 1698, sefydlwyd Mr. Roger Williams yn weinidog yma mewn cysylltiad a Chefnarthen, a pharhaodd i lafurio yn y cylch hwn hyd derfyn ei oes yn 1730. Gallwn gasglu oddiwrth ganiadau Sion Llewellyn, un o aelodau yr eglwys, fod yr achos yn dra llewyrchus yma dan weinidogaeth Roger Williams; fod y gweinidog yn un manol ac ymdrechgar iawn i addysgu yr ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig yn egwyddorion mawrion Cristionogaeth; a bod yr eglwys yn ofalus iawn i edrych pwy a pha fath ddynion a dderbyniai i'w chymundeb. Dywed Sion Llewellyn iddo ef gael ei gadw ar brawf "o fis Mehefin hyd wyl *Andreas*," a bod rhai hyd yn nod ar ol y prawf maith hwnw am ei wrthod. Fel y canlyn y rhigymir yr hanes ganddo:—

Treulio'r dyddiau hyny'n chwerw,
Rhai'n fy nhaflu, rhai'n fy nhadw,
Fe ddywedai rhai mor ffol dan chwerthin,
Na rowch un law i Sion Llewellyn;
Fe dd'wedai'r gwir addolwyr cynes,
Os yw e' 'nawr yn rhodio'n addas,
Oni phrofir i'r gwrthwyneb
Mae'n rhaid ei dderbyn i gymundeb."

Mae'n ymddangos fod Roger Williams yn gogwyddo yn fawr at Arminiaeth neu Belagiaeth, ac iddo hau yr egwyddorion hyny yn mysg pobl ei ofal yn Merthyr a Chefnarthen, yr hyn a achosodd ofid nid bychan, ac a derfynodd yn rhwygiad y ddwy eglwys yn mhen ychydig flynyddau ar ol ei farwolaeth ef. Ryw amser rhwng 1720 a 1725, rhoddodd yr eglwys yn Nghwmyglo alwad i Mr. James Davies, Llanwrtyd, i ymsefydlu yn eu plith fel cydweinidog a Mr. Roger Williams. Yr oedd James Davies yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru, ac yn Galfiniad trwyadl o ran ei olygiadau. Yr ydym yn barnu mai y blaid Galfinaidd yn yr eglwys fu a'r llaw flaenaf yn ei ddewisiad ef, ac mai eu hamcan oedd gwrthweithio Arminiaeth Roger Williams. Wedi marwolaeth Williams, aeth y blaid Arminaidd i fethu cael bwyd enaid dan weinidogaeth Mr. Davies, ac i edrych allan am Arminiad i fod yn gydweinidog ag yntau. Dewisasant Mr. Richard Rees, gwr ieuangc o'u plith eu hunain, yr hwn oedd newydd orphen ei amser yn athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef yn 1732, yn mhen dwy flynedd wedi marw R. Williams. Cafodd yr Arminiaid bob peth a ddymunent yn Richard Rees, fel y tystia Sion Llewellyn yn y llinellau canlynol:—

"Wedi marw Rosser William,
Gwr oedd ei lwybrau megis Abr'am,
A'i symud ymaith trwy farwolaeth,
Ni wyddwn beth a wnawn gan hiraeth;

Digitized by Google

Gwrando hwn a gwrando arall,
Weithiau'n dwlio, weithiau'n deall,
Rhai'n gwledda'n fras ar seigiau cyfain,
A minau'n wylo am fwy o halen.

Er cynaliaeth mawr i'm crefydd,
Duw gododd Mr. Rees i fynydd,
Gwr llawn o ddeall, dysg, a doniau,
Llariaidd gwresog ei rasusau;
Mi glywn y gwr yn rhoi ergydion,
Ac yn dechreu hela hoelion,
'Nol eu hiro yn olew'r Ysbryd,
Fe gerddai'r hoelion hyny'n hyfryd."

Fel hyn bu yr Arminiaid a'r Calfiniaid yn cael eu porthi yn nghyd yn yr un lle am bymtheng mlynedd; ond mae yn eithaf naturiol casglu fod llawer dadl boeth wedi bod rhyngddynt yn ystod y blynyddau hyny, ac o'r diwedd aeth yn rhy boeth arnynt i gydfyw fel yr ymrwygasant. Aeth y blaid Arminaidd allan ac adeiladodd gapel iddi ei hun ar Gefn-coed-y-cymer—y capel sydd yn awr yn meddiant yr Undodiaid. Cymerodd yr ymraniad le yn 1747. Yr oedd Sion Llewellyn, y prydydd, yn un o flaenoriaid y blaid Arminaidd. Yn y flwyddyn 1749, darfu i'r blaid a adewsid yn Nghwmyglo, dan ofal Mr. James Davies, gymeryd darn o dir cyfleus yn mhentref Merthyr, lle yr adeiladasant gapel yr Ynysgau, i ba un y symudodd yr arch o hen addoldy Cwmyglo. Yn y flwyddyn 1751, darfu i'r aelodau a breswylient y tu arall i'r mynydd yn Aberdar adeiladu capel ar Heolyfelin. Nid ydym yn barnu fod y rhai hyn yn Arminiaid, oblegid Owen Rees, gweinidog y Calfiniaid yn Mhentretygwyn, oedd y gweinidog cyntaf a ddewisasant. Er iddynt lithro yn raddol wedi hyny i Arminiaeth, Ariaeth, ac Undodiaeth. Y mae genym bob sail i farnu mai cyfleustra yr addolwyr oedd yr achos o'u hymadawiad oddiwrth Mr. James Davies a phobl yr Ynysgau, yn hytrach na gwahaniaeth golygiadau. Yn y flwyddyn 1750, yn fuan wedi agor capel yr Ynysgau, urddwyd Mr. Samuel Davies, yn gydweinidog a'i dad, Mr. James Davies. Os cafodd yr hen weinidog ofid wrth gydweinidogaethu yn Nghwmyglo a Mr. Richard Rees, mae pob lle i ddeall i'w ofid fod yn fwy mewn cysylltiad a'i fab yn yr Ynysgau. Yr oedd Samuel Davies, fel y rhan fwyaf o fyfyrwyr Caerfyrddin yn yr oes hono, wedi ymwrthod a'r golygiadau Calfinaidd a gredid ac a bregethid gan ei dad, ac wedi cofleidio Arminiaeth. Darfu i'r hen wr yn ei henaint gydymddwyn ag Arminiaeth yn ei fab, yr hyn a wrthwynebai mor selog yn Richard Rees, a thrwy hyny collodd ei barch gyda'r Calfiniaid a'r Arminiaid. Mae yn ymddangos iddo dreulio blynyddoedd olaf ei fywyd yn lled anghyoedd a dinod, os nad yn ddiddefnydd hefyd; er iddo fod am dymor maith o'i fywyd yn un o'r gweinidogion Ymneillduol mwyaf enwog yn Nghymru. Bu farw yn Ebrill, 1760. Parhaodd Mr. Samuel Davies yn weinidog yn yr Ynysgau hyd derfyn ei oes yn Mawrth 1781. Yr oedd y gynnulleidfa yn ei dymor ef yn lluosog iawn, ac yn cael ei gwneyd i fyny o brif deuluoedd y plwyf, ac amryw o'r plwyfydd cylchynol, ac er ei fod yn Arminiad hollol, nid ymddengys i nemawr o'i bobl ef, fel pobl Cefn-coed-y-cymer ac Aberdar, lithro i Ariaeth. Dilynwyd Mr. S. Davies gan Mr. Thomas Williams, mab Mr. David Williams, o'r Watford, ond ni bu ei arosiad ef yma ond tair blynedd. Ar farwolaeth ei dad symudodd i gymeryd gofal yr eglwysi yn Nghaerdydd a'r Watford. Can-



Digitized by Google

lyniedydd Mr. Williams oedd Mr. Daniel Davies, o athrofa Caerfyrddin, yr hwn a urddwyd yma Medi 6ed, 1786. Arminiad oedd Mr. Davies o ran ei farn, ond nid ymddengys iddo fyned yn mhellach nag Arminiaeth, er mai yr Undodiaid oedd y bobl yr ymgyfeillachai fwyaf a hwy yn y rhan ddiweddaf o'i oes. Tua diwedd y ganrif ddiweddaf daeth amryw aelodau perthynol i'r Annibynwyr i Ferthyr, a chan nad oedd gweinidogaeth Mr. Davies yn yr Ynysgau yn ddigon bywiog ac efengylaidd at eu harchwaeth hwy, dechreuasant yr achos sydd yn awr yn Zoar, a chyda llwyddiant hwnw, lleihawyd y gynnulleidfa yn yr Ynysgau yn fawr. Gan fod Mr. Davies wedi priodi yn gyfoethog iawn, ac wrth weled fod addoldai Ymneillduol yn lluosog yn cael eu cyfodi o'i amgylch, yr hyn a deneuai ei gynnulleidfa ef yn feunyddiol, gwnaeth ei feddwl i fyny i ymadael o'r weinidogaeth yn nechreu y flwyddyn 1811, ac ar yr 20fed o Fawrth, yn yr un flwyddyn, cafodd Mr. Thomas Benjamin Evans, o athrofa Caerfyrddin, ei urddo yn ganlyniedydd iddo yn yr Ynysgau. Yn dra buan ar ol ei urddo dechreuodd Mr. Evans bregethu athrawiaeth fwy efengylaidd nag a bregethasid yn mhulpud Ynysgau er dyddiau Mr. James Davies. Cynhyrfodd hyny rai o'r hen deuluoedd perthynol i'r gynnulleidfa, y rhai a ogwyddent at Undodiaeth, yn mysg pa rai yr oedd ymddiriedolwyr y capel. Ceisiasant trwy gyfraith yn 1814, fwrw y gweinidog allan o'r lle, a chymeryd meddiant o'r capel i'r Undodiaid, ond ennillodd Mr. Evans y gyfraith a chafodd gadw ei le. Wedi hyny agorwyd cwyn cyfreithiol arall rhyngddo a'r ymddiriedolwyr. Yr oedd un John Williams, o Benydarran, yr hwn oedd yn aelod yn Nghwmyglo, wedi gadael yn ei ewyllys, dyddiedig Tachwedd 18fed, 1735, dir o dri ugain erw yn Mhenydarran, ac amryw dai yn mhentref Merthyr, at gynaliaeth Mr. James Davies, gweinidog Cwmyglo, a'i olynwyr. Cafodd cynyrch y tir a'r tai ei dalu yn flynyddol i weinidogion yr Ynysgau hyd amser Mr. Evans, pryd y cymerodd yr ymddiriedolwyr eu rhyddid i ranu yr arian rhwng gweinidogion yr Undodiaid yn Aberdar a Chefn-coed-y-cymer, yn gystal a gweinidog yr Ynysgau, dan yr esgus fod ganddynt hwy gystal hawl ynddynt ag oedd gan weinidog yr Ynysgau, yn gymaint mai at yr achos yn Nghwmyglo yr oedd yr eiddo wedi ei adael, a bod Aberdar ar Cefn yn ganghenau o'r hen eglwys hono yr un fath a'r Ynysgau. Ar ol llawer o ymgyfreithio bu raid i'r ymddiriedolwyr roddi ffordd a gadael y gwaddol i weinidogion yr Ynysgau yn unig. Mae y gwaddol hwn yn bresenol, os nad ydym yn camgymeryd, rhwng haner cant a thriugain punt yn y flwyddyn.

Am y deg neu y pymtheng mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth yr oedd Mr. Evans yn barchus a thra phoblogaidd yn Merthyr, ond yn ei flynyddau diweddaf ymollyngodd yn dost nes iddo fyned yn ddiddawn, yn ddiddefnydd, ac yn ddibarch, fel gweinidog yr efengyl, er y parheid hyd derfyn ei oes i'w barchu a'i anwylo yn fawr fel dyn a chymydog hynaws a charedig. Yn ei flynyddau olaf ef yr oedd yr eglwys a'r gynnulleidfa wedi myned yn agos i'r dim. Ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth aeth tua haner cant neu ychwaneg o aelodau o Zoar yno, ac yn eu plith Mr. Rosser Beynon. Bu hyny yn foddion i gyfodi yr hen le megis o farw yn fyw, ac i ddarparu yno rywbeth teilwng o'r enw eglwys erbyn y buasai amgylchiadau yn gofyn am ddewis canlyniedydd i Mr. Evans. Bu Mr. Evans farw yn Chwefror, 1851. Yn niwedd hanes ei farwolaeth a'i gladdedigaeth yn *Diwygiwr* 1851, tu dal. 96, dywed Mr. Rosser Beynon, gyda golwg ar sefyllfa yr achos yn yr Ynysgau:—"Mae yn dda genym allu hysbysu fod

Digitized by Google

golwg obeithiol iawn ar yr achos yn y lle hwn yn bresenol. Mae yr Ysgol Sabbothol yn dra blodeuog yma eisioes, rhif canolig pa un sydd tua 200. Yn ol yr arwyddion presenol bydd yn angenrheidiol helaethu lle y babell, ac estyn cortynau y preswylfeydd yn fuan."

Wedi byw ar weinidogaeth achlysurol hyd haf y flwyddyn 1852, rhoddwyd galwad i Mr. James Morris, o athrofa Aberhonddu, yr hwn a urddwyd yma Gorphenaf 14eg, 1852. Ni bu ei arosiad ef yma ond byr. Yn y flwyddyn 1855, barnodd fod cynesach lle yn Eglwys Waddoledig Lloegr nag yn hen eglwys waddoledig yr Ynysgau, ac felly ymofynodd am urddau esgobol, yr hyn a gafodd. Nid oes a fynom ni a'i hanes yn mhellach. Yr unig beth o bwys a wnaed yn yr Ynysgau yn nhymor gweinidogaeth Mr. Morris, oedd tynu yr hen gapel adfeiliedig i lawr, ac adeiladu y capel prydferth presenol. Gwnaed hyn yn 1853, ac ar Sul, Mawrth, a Mercher, y Pasg, 1854, agorwyd y capel newydd. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Rees, Llanelli; D. Stephens, Glantaf; J. Morris, athraw athrofa Aberhonddu; W. Morgan, Caerfyrddin; N. Stephens, Sirhowy; J. Evans, Capel Seion; J. Davies, Cwmaman; M. Ellis, Mynyddislwyn, ac eraill. Mae y capel hwn yn adeilad cadarn, prydferth, a chyfleus.

Yn haf 1856, rhoddwyd galwad i Mr. Evan Jones, Myddfai, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Medi 1af a'r 2il, yn yr un flwyddyn. Pregethwyd yn y cyfarfodydd hyn gan Meistri J. Thomas, Glynnedd; W. Thomas, Rock; J. Thomas, D. Price, a W. Edwards, Aberdar; J. Davies, Aberaman; J. B. Jones, B.A., Hermon; Dr. Thomas, Stockwell, ac eraill. Bu Mr. Jones yma yn barchus a defnyddiol iawn hyd y flwyddyn 1861, pryd y symudodd i Langadog a Tabor, sir Gaerfyrddin. Yn 1860, cafodd yr eglwys hon, fel y rhan fwyaf o eglwysi y dref a'r ardal, deimlo awelon bendithiol y diwygiad crefyddol a ymdaenodd dros yr holl wlad yn y flwyddyn hono a'r un flaenorol. Derbyniwyd yma amryw ugeiniau, a chafwyd yma oedfaon nodedig o wlithog. Cyn diwedd y flwyddyn 1862, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Price Howell, Pwllheli, yr hwn a lafuriodd yma gyda derbyniad a chymeradwyaeth hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pryd y symudodd i Four Crosses, Ffestiniog; ac y mae yr eglwys hyd etto heb sefydlu ar olynydd iddo.

Yr ydym wedi dilyn hanes hen eglwys Ynysgau o'i dechreuad hyd yr awr hon; a'r helbulon mawrion yr aeth drwyddynt, ac y mae yn llawen genym ddeall er y cwbl fod golwg mor lewyrchus arni yn bresenol. Mae yn sicr i lawer o gymeriadau hynod fod ynddi o bryd i bryd, ond nid oes enwau ond ychydig o honynt wedi treiglo hyd atom ni.

Yr ydym eisioes wedi crybwyll enw a dyfynu ychydig o brydyddiaeth Sion Llewellyn, ond gan ei fod yn gymeriad mor hynod, ac iddo gymeryd rhan mor amlwg yn y ddadl Arminaidd, yr hon a rwygodd yr eglwys hon yn 1747, ni byddai yn anmhriodol rhoddi ychydig o'i hanes. Ar Gefn-coed-y-cymer yr oedd yn byw. Dywedir mai gof ydoedd wrth ei alwedigaeth. Derbyniwyd ef yn aelod yn Nghwmyglo yn 1711, a bu farw Ionawr 1af, 1776, yn 85 oed. Claddwyd ef wrth hen gapel Cefn-coed-y-cymer, ac y mae y penill canlynol ar ei feddfaen:—

"Fe roddwyd Sion Llewellyn,
A'i wraig mewn daear erwyn;
I orwedd dan y gareg hon,
A saith o'u hwyrion rhyngddyn'."*

* Llythyr C. Wilkins, Ysw.

Cyfansoddodd lawer o ganiadau a phenillion, gan mwyaf oll ar destunion crefyddol, ac yn benaf mewn amddiffyniad i'w olygiadau Arminaidd ei hun, ac i ddiraddio y Calfiniaid. Mae rhai ergydion barddonol yn ei gyfansoddiadau, ond mae ei iaith yn wallus a thrwsgl. Nis gwyddom pa bryd y cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i waith, ond cafodd yr ail argraffiad ei gyhoeddi yn 1772, yn llyfryn deuddeg plyg, o 60 o dudalenau, yn cynnwys ugain o ganiadau a deg o emynau. Ddeugain mlynedd yn ol nid oedd nemawr o hen ŵr na hen wraig yn mysg trigolion gwreiddiol Merthyr, y Faenor, Aberdar, a Gelligaer, nad allasent adrodd y rhan fwyaf o benillion Sion Llewellyn. Bu ei waith yn rhyfeddol o boblogaidd am lawer o flynyddau, ac y mae yn ddiameu i'w rigymau ef wneyd mwy at daenu Arminiaeth yn Merthyr a'r cylchoedd na holl bregethau Roger Williams, Richard Rees, a Samuel Davies. Dywedir fod Sion Llewellyn yn weithiwr anghyffredin ac yn fwytawr digyffelyb. Pan y byddai yn myned allan yn amser y cynhauaf i ladd gwair ac ŷd, byddai yn gwneyd gwaith tri dyn, ac yn bwyta bwyd tri o ddynion. Mae yn mysg caniadau Sion Llewellyn rai penillion rhagorol iawn. Cymerer y dyfyniadau canlynol o'i anerchiad i'w wraig yn ei chystudd, fel engraifft:—

"Er mysgu dy gymalau gan boenau yn y byd,
A gwasgar rhai o'th esgyrn, na ddodir ddim yn nghyd,
Ymwasga dan dy gystudd, rho'th bwys ar Grist dy graig,
Ti fyddi'r adgyfodiad mor iached ag un wraig.

Yn wir yr oedd dy gystudd yn ddyfal ac yn faith,
Gwr iach o'wn i fynychaf, mewn gallu i wneuthur gwaith;
Ni gawsom ein cynaliaeth yn nghyd fel hyn i fyw,
Mewn cariad gyda'n gilydd i gyrchu i deulu Duw.

Cael hir broffesu crefydd, flynyddau haner cant,
Cael byw yn nghyd a'th briod i fagu wyth o blant;
Cael pymtheg-ŵyr-ar-hugain, rhoi'r pethau hyn yn nghyd,
Beth oedd i'w gael yn rhagor o fwyniant hyn o fyd.

Fel hyn fy mhriod, Mary, ni fuom fyw mewn hedd,
Boed p'un a'i ti neu minau, â'n flaena' i byrth y bedd;
'Rwy'n erfyn cael dy weled di'r haner draw i'r llen,
Er maint dy grymwyd yma, yn llawer uwch dy ben."

Mae yn ddiameu i lawer o bregethwyr gyfodi yn yr hen eglwys hon, ond hyd ddechreuad y ganrif bresenol nid ydym wedi dyfod o hyd i enwau neb o honynt ond Richard Rees a Samuel Davies, y rhai y rhoddir eu hanes yn mysg y gweinidogion. Yn y ganrif bresenol, y rhai canlynol yn unig a gyfodwyd yma, cyn belled ag y gwyddom ni:—

William Daniel. Urddwyd ef yn Nghwmtaf-fechan. Daw etto dan ein sylw yn nglyn a hanes yr eglwys hono.

John Williams. Bu ef yma am flynyddau yn amser Mr. Evans yn bregethwr cynorthwyol. Yr oedd yn ddyn o gymeriad pur. Nid ydym yn gwybod pa bryd y bu farw.

Lewis Evans. Trodd ef at y Bedyddwyr, ac y mae yn awr yn weinidog yn y Casnewydd, ac yn dra adnabyddus trwy holl Gymru fel goruchwyliwr Cymdeithas y Gweddwon.

John Beynon, brawd Mr. Rosser Beynon (Asaph Glan Taf.) Y mae ef wedi dechreu pregethu yma er's rhai blynyddau bellach.

Digitized by Google

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Gan ei bod yn debygol i'r achos hwn ddechreu mor foreu a'r flwyddyn 1620, mae yn dra sicr fod yma weinidog neu weinidogion wedi bod nad ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i'w henwau. Y cyntaf y mae genym ni hanes am dano yw,

Henry Williams, neu Harry William Thomas, fel y galwai ei erlidwyr ef. Nid oes genym ond y peth nesaf i ddim o hanes am dano ef. Mae yn dra sicr mai yr un gwr oedd ef a'r Henry Williams a drowyd allan o Eglwys blwyfol Llantrisant gan Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662. Dywed Dr. Calamy, mai dyn gonest ond gwan ydoedd. Ni oddefai ei gydwybod iddo dderbyn degymau tra bu yn gwasanaethu plwyf Llantrisant, ond derbyniai 60p. o'r Trysorlys *(Exchequer)*. Byddai, fel y gwelsom, yn pregethu yn lled fynych yn Eglwys Merthyr yn amser y werin-lywodraeth. Efe oedd gweinidog yr eglwys ymneillduedig yma yn 1669, a pharhaodd i gynorthwyo yma yn y weinidogaeth hyd 1675 beth bynag. Nis gwyddom pa cyhyd y bu fyw ar ol y flwyddyn hono. Y cwbl a allodd ei elynion ddyweyd am dano i'w warthruddo ydoedd, iddo fod yn gadben yn myddin y Senedd yn amser y rhyfel, ac nad oedd yn deall un iaith ond y Gymraeg.*

Henry Maurice. Mab ieuengaf Griffith Maurice o Methlan, yn Lleyn, sir Gaernarfon, oedd ef. Cafodd ei dderbyn i Goleg Iesu, yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1652. Treuliodd ei febyd a'i ieuengctyd yn wyllt ac anystyriol, ac yr oedd yn un balch a gwag ogoneddgar iawn am rai blynyddau wedi iddo ddechreu pregethu. Daeth i'n llaw rai blynyddau yn ol ei ddydd-lyfr am rai misoedd o'r flwyddyn 1672. Yn hwnw yr ydym yn cael ar ddeall, wedi iddo gael ei ddychwelyd at yr Arglwydd, y byddai ei erlidwyr mewn modd dieflig yn danod iddo ei fywyd gwyllt ac anfoesol cyn ei droedigaeth. Cyfeiria mewn ysbryd teimladwy iawn at hyn yn ei ddydd-lyfr am Gorphenaf 20fed, 1672:—"Dywed Mr. Kinaston wrthyf fod Esgob Bangor, a rhai eraill, yn fy nghablu o herwydd drygioni ac afreoleiddiwch fy mywyd cyn i'r Arglwydd weled yn dda o'i anfeidrol drugaredd i ymweled a mi, a theimlais, feddyliwyf, fod yr Arglwydd yn cynal fy yspryd rhag ymollwng yn ngwyneb eu cabledd, ac yn fy ngalluogi i dosturio wrth y rhai a genfigenent wrthyf o herwydd daioni gras Duw i mi." Mehefin 18fed, 1672, ysgrifena, "Wrth ymddiddan yr hwyr hwn a Mrs. King, yn sir Faesyfed, am fywyd aflan a drygionus Mr. Lloyd, arweiniwyd fy meddwl i adolygu fy ffyrdd pechadurus fy hun gynt; ac wrth feddwl pa beth a wnaeth Duw i mi, a pha ddrych fuasai arnaf pe cawswn fy ngadael i mi fy hun, cyffrowyd fy nheimladau i'r fath raddau fel y bu raid i mi fyned allan o'r tŷ a myned i'r goedwig gyfagos i weddio, lle yr ymbiliais a'r Arglwydd gyda mesur o daerni a graddau o dynerwch teimlad, ond nid cymaint ag a ddymunaswn, canys yr oedd fy nghalon ar hollti, ac er hyny nis gallaswn wylo yn rhydd." Efe a gafodd ei urddo ryw gymaint o amser cyn adferiad Siarl II., ac ymsefydlodd yn Bromfield, yn agos i Ludlow, ac yno cydymffurfiodd yn 1662. Symudodd oddi yno i Church Stretton, yn yr un sir, lle yr oedd bywioliaeth eglwysig yn werth 140p. yn y flwyddyn. Efe a ddaliodd y fywioliaeth hono hyd nes i'r Arglwydd weled yn dda ymweled a'r dref a thwymyn drom, yr hon a ysgubodd ymaith lawer o'r plwyfolion, a thrwy yr oruchwyliaeth ddifrifol hono deffrowyd yntau i bryder mawr yn nghylch ei fater tragywyddol,

* *The Lambeth MSS.*

Pan ddifrifolwyd ei feddwl felly aeth ei gydwybod i'w aflonyddu yn anoddefol o herwydd iddo gydymffurfio, ac er ei fod ar y pryd wedi myned i ddyled o 300p., yn benaf wrth adgyweirio y persondy a'r adeiladau o'i amgylch, nis gallodd dawelu ei feddwl nes iddo roddi ei le i fyny. Yr oedd yn amlwg fod rhyw beth mawr yn gwasgu ar ei feddwl, ond efe a gadwodd y cwbl iddo ei hun, nes i'w wraig, yr hon oedd yn ddynes wrol a phenderfynol, fyned rhyw ddiwrnod i'w lyfrgell a dyweyd wrtho nad elsai hi allan oddi yno nes cael gwybod ganddo pa beth oedd yn ei flino. O'r diwedd dywedodd wrthi nas gallasai fod yn dawel ei feddwl nes y buasai wedi rhoddi ei swydd fel offeiriad Church Stretton i fyny, a'i fod yn bryderus iawn gyda golwg ar ei chynaliaeth hi a'r plentyn ar ol hyny. Hithau a'i hatebodd, gan ei anog i wneuthur yn ol cyfarwyddyd ei gydwybod, a sicrhau iddo y gallasai hi yn ddibetrusder roddi ei hun a'i phlentyn i ofal Rhagluniaeth Duw, am ofal pa un nid oedd ynddi yr amheuaeth lleiaf. Darfu i ymadrodd ei wraig galonogi llawer arno. Wedi hyny agorodd ei fynwes i Mr. James Quarrell, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Amwythig. Cynghorodd Mr. Quarrell ef i fwrw y draul cyn myned i ganol erledigaeth. Atebodd yntau, na oddefasai ei gydwybod iddo gadw ei le fel offeiriad yn hwy. Yn ddioed wedi hyny rhoddodd ei le i fyny, a thraddododd ei bregeth ymadawol oddiwrth Luc xxiii. 3. Yn ganlynol i hyny gosodwyd achwyniad yn ei erbyn yn llys yr esgob am wneyd sylwadau condemniol ar lywodraeth yr Eglwys Sefydledig yn ei bregeth. Ei atebiad i'r cyhuddiad ydoedd, nad oedd yr hyn a ddywedodd ef ddim wedi cael ei amcanu i gondemnio neb na dim arall, ond yn unig i dawelu ei gydwybod ei hun. Rhoddodd ei holl eiddo i fyny i'w ofynwyr er talu ei ddyled; ond darfu i rai o honynt na chawsent eu llwyr dalu ei roddi yn ngharchar yr Amwythig. Tra yno anfonwyd iddo amryw roddion gan bersonau anhysbys iddo ef. Yr oedd gwraig ceidwad y carchar ar y cyntaf yn sarug iddo, ond cyn iddo ymadael oddi yno bu yn foddion i'w throi at yr Arglwydd. Yn mhen amser darfu i rai cyfeillion, yn mysg y rhai yr oedd Mr. Orton, taid yr enwog Job Orton, ymrwymo i dalu ei ddyled, ac felly cafodd ei ollwng yn rhydd. Bu yn byw am gryn amser ar ol hyny yn yr Amwythig. Bernir mai tua'r flwyddyn 1666 y rhoddodd ei le i fyny yn Church Stretton. Tua diwedd 1672, symudodd i sir Frycheiniog i gymeryd gofal gweinidogaethol yr eglwys Ymneillduol a gyfarfyddai mewn gwahanol ardaloedd o'r sir hono, ac yn Merthyr, yn Morganwg. Gan fod ganddo tuag ugain o wahanol fanau i bregethu ynddynt, yr oedd ei lafur yn ddirfawr, er fod ganddo o bedwar i bump o weinidogion yn ei gynorthwyo. Ond er cymaint ei lafur yn mysg pobl ei ofal, byddai yn fynych yn myned i ymweled a phob rhan o Gymru i bregethu yr efengyl, ac fe fendithiodd yr Arglwydd ei lafur er troedigaeth lluaws o eneidiau. Dyoddefodd lawer o anghyfleusderau yn ei deithiau mynych, oddiwrth y tywydd a thlodi llawer o'r lleoedd y llettyai ynddynt. Gwnaeth erlidwyr crefydd ymosodiadau mynych arno. Buwyd unwaith yn chwilio ty lle yr oedd wedi ymguddio rhagddynt, ac yn rhagluniaethol methasant ddyfod o hyd i'w guddfa. Ni chafodd ei ddwyn ger bron ynadon ond unwaith, a chafodd ei ollwng yn rhydd dan feichnion y tro hwnw. Bu lawer gwaith mewn amgylchiadau cyfyng iawn, yn enwedig yn y blynyddoedd y bu yn byw yn yr Amwythig, ond diwallwyd ei anghenion yr amser hwnw yn fynych trwy ragluniaethau rhyfeddol iawn. Yr oedd ei wraig yn etifeddes y Gwynfryn, gerllaw Pwllheli, yr hwn oedd y pryd hwnw yn werth 40p. y flwyddyn, ond

Digitized by Google

ataliwyd ei hiawnderau oddiwrthi yn anghyfiawn am ddeng mlynedd, a hyny ar yr adeg yr oedd amgylchiadau y teulu yn fwyaf anghenus. Pa fodd bynag, trwy ei diwydrwydd, ei chynildeb, a'i thymer siriol hi, gallu-ogwyd hwy i dynu yn mlaen trwy bob anhawsderau, a chafodd Mr. Maurice fyw i ddyfod allan o bob dyled, ond bu farw yn fuan ar ol hyny.

Yr oedd ei lafur diatal y fath fel yr ofnai ei gyfeillion y buasai trwy ormod o lafur yn byrhau ei oes, a phan y cynghorant ef i fod yn fwy hamddenol er mwyn arbed ei hun, ei ateb ydoedd, "Pan y byddo dyn wedi segura y rhan oreu o'i ddiwrnod, a'r dydd ar ddarfod y mae yn ofynol iddo roddi dau ergyd am yr un." O'r diwedd gorchfygwyd ei natur gan lafur dibaid, a rhoddodd ffordd. Yr oedd yn dawel a dyoddefgar iawn yn ei gystudd diweddaf. Pan ddywedodd ei wraig wrtho un boreu, ar ol noswaith anesmwyth iawn, iddo gael noswaith dra blin. "Pa beth os cefais," meddai, "fe gafodd Job lawer o nosweithiau blinion." Wrth weled y cyfeillion crefyddol a ddeuent i ymweled ag ef yn ei gystudd yn wylo oddiamgylch ei wely, trodd at ei wraig gan ddyweyd, "A weli di diriondeb trugaredd yr Arglwydd tuag atom ni estroniaid tlodion yn cyfodi cynifer o gyfeillion calon dyner i gydymdeimlo a ni? Mae cariad Duw yn Nghrist yn lloni fy enaid tlawd. Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a'th wnaeth di a minau yn gydgyfranogion o'r un gras." Bu farw Gorphenaf, 1682, pryd yr oedd rhwng pump-a-deugain a haner cant oed. Ar ol ei farwolaeth symudodd Mrs. Maurice o sir Frycheiniog at ei chydnabod i Bwllheli, ac a briododd Mr. Daniel Phillips, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Mhwllheli.

Yr oedd Henry Maurice yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig, llafurus, a llwyddianus yn ei oes. Dengys ei ddydd-lyfr ei fod yn byw mewn cymundeb diatal a'r Arglwydd, ac mai gwasanaethu ei Feistr nefol oedd prif waith a hyfrydwch ei fywyd. Yr oedd yn bregethwr eglur, trefnus, a nodedig o effeithiol. Anfynych y pregethai heb wylo. Cymaint oedd ei awydd am ennill eneidiau fel nas gallasai fyned heibio na dyn, dynes, na phlentyn, ar yr heol heb ymddiddan ag ef am fater ei enaid. Bernir iddo trwy ymddiddanion personol fod yn foddion i droi ugeiniau at yr Arglwydd. Dengys ei ddydd-lyfr ei fod yn ddyn nodedig o nefolfrydig ac mai gwasanaethu Duw ac achub eneidiau dynion oedd prif waith ei fywyd. Ni chafodd ond un-mlynedd-ar-bymtheg o'i oes i wasanaethu ei Arglwydd fel gweinidog Ymneillduol, ond gwnaeth waith dirfawr yn yr ysbaid byr hwnw. Yr oedd holl Gymru mewn gwirionedd yn faes ei lafur, ond yn enwedig siroedd Brycheiniog, Morganwg, a'i ardal enedigol yn sir Gaernarfon. Trwyddo ef yr aeth Meistri James Owen a Daniel Phillips i Bwllheli. Efe mewn gwirionedd fu yn foddion i gadw yr achos yn y lle hwnw yn fyw ar yr adeg fwyaf helbulus yn ei hanes. I'r llythyr a ysgrifenwyd ganddo ef at Mr. Edward Teril, o Gaerodor, yr hwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn *Broad Mead Records*, yr ydym yn ddyledus am y wybodaeth gywiraf a feddwn o hanes yr hen eglwysi Ymneillduol yn Nghymru. Stephen Hughes, James Owen, a Henry Maurice, oedd o bosibl y tri gweinidog Ymneillduol mwyaf cyhoeddus a llafurus yn y dywysogaeth yn nhymor blin yr erledigaeth yn amser Siarl II. Tra yr oedd amryw eraill yn ddefnyddiol iawn mewn ardaloedd neillduol, yr oedd y tri hyn yn ddefnyddiol ac adnabyddus trwy Gymru oll.*

* *Rees's History of Nonconformity in Wales.* Tu dal. 236-248. Ceir yno hanes cyflawn o fywyd Mr. Maurice a difyniadau helaeth o'i ddydd-lyfr.

ROGER WILLIAMS. Nid oes genym nemawr o ddim hanes am dano ef. Mae lle ei enedigaeth, a hanes boreuol ei fywyd yn gwbl anhysbys i ni. Mae yn dra thebyg mai yn ysgol Mr. Rees Prytherch, Ystradwalter, y derbyniodd ei addysg. Urddwyd ef yn weinidog i'r eglwysi yn Merthyr, a Chefnarthen, sir Gaerfyrddin, yn 1698, a pharhaodd i weinidogaethu iddynt hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mai 25ain, 1730, pryd yr oedd yn 63 oed. Bu ei wraig, Catherine Williams, fyw dair-blynedd-ar-ddeg ar ei ol ef. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth yn Nghefnarthen gan John Williams, ei fab fel y tybiwn, ac yr oedd Mr. James Davies wedi dyfod i gydweinidogaethu ag ef yn Merthyr bump neu ddeng mlynedd cyn ei farwolaeth.*

Yr oedd Roger Williams o ran ei olygiadau yn gogwyddo at Arminiaeth, a dichon ei fod yn un o'r Ymneillduwyr cyntaf a bregethodd yr athrawiaeth hono. Yr ydym yn casglu fod cryn wrthwynebiad iddo yn yr eglwys yn Nghwmyglo. Pan ddarfu i un Evan Edwards, yr hwn oedd yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys, newid ei farn am fedydd, a dymuno cael llythyr gollyngdod i fyned i Hengoed, rhoddwyd iddo lythyr, yn yr hwn y dywedid ei fod mor wylaidd fel yr oedd yn anhawdd cael ganddo fyned i'r pulpud. Ar ddarlleniad y llythyr yn Hengoed, sylwodd rhywun fod Evan Edwards yn wahanol iawn i'w weinidog, Roger Williams, oblegid fod yn anhawdd ei gadw ef o'r pulpud. Yr ydym yn lled dybied, fel y nodasom yn barod, mai er gwrthweithio Arminiaeth Roger Williams y rhoddwyd galwad i Mr. James Davies gan eglwys Cwmyglo.

JAMES DAVIES. Dywedir mai un genedigol o Lanedi, sir Gaerfyrddin, oedd ef. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Caerfyrddin yn amser Mr. W. Evans. Urddwyd ef yn weinidog yr eglwysi yn Llanwrtyd a Throedrhiwdalar tua'r flwyddyn 1712. Ar ol bod yno yn rhyfeddol o boblogaidd am rai blynyddoedd, symudodd i Gwmyglo, Merthyr, ryw amser rhwng 1720 a 1725, lle y treuliodd weddill ei oes. Yr oedd ganddo gynnulleidfa fawr yn Merthyr, a chyfrifid ef yn un o'r gweinidogion mwyaf poblogaidd yn ei oes. Yr oedd yn bregethwr galluog iawn, a dywed Mr. Edmund Jones, Pontypool, fod ganddo ddoniau digyffelyb mewn gweddi. Pan gychwynodd Mr. Howell Harris fel pregethwr, yr oedd Mr. Davies yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw i'w gynorthwyo a'i galonogi. Y mae amryw o'i lythyrau at Harris, a ysgrifenwyd ganddo yn y flwyddyn 1738, i'w gweled yn awr yn llyfrgell Trefecca. Mae yn ymddangos i Mr. Davies fod mewn gofid trwy ei holl oes weinidogaethol yn Merthyr. Aeth yno i fod yn gydweinidog a Mr. Williams, yr hwn a bregethai athrawiaeth wahanol iddo ef, ac yn mhen dwy flynedd wedi claddu Williams urddwyd Mr. Richard Rees, Arminiad arall, i fod yn gydweinidog ag ef. Buont yn pregethu athrawiaethau gwahanol yn yr un pulpud am bymtheng mlynedd, ac o'r diwedd yn 1747, torodd y croesolygiadau allan yn rhwyg gweithredol, pryd yr ymadawodd Rees a'i blaid ac yr adeiladasant gapel Cefn-coed-y-cymer. Ond nid oedd gofid Mr. Davies ar ben etto. Wedi urddo ei fab, Mr. Samuel Davies, yn gydweinidog ag ef, trodd hwnw drachefn allan yn Arminiad noeth, yr hyn yn ddiau fu yn ofid dirfawr i'w dad. Yn niwedd mis Ebrill, 1760, galwodd yr Arglwydd ei hen was i wlad lle y caiff lonyddwch tragywyddol gan bob anghydfod. Mae Mr. Phillip Dafydd, Penmain, yn ei ddydd-lyfr

* Llawysgrifen Morgan Williams, Ty'nycoed, Rhandirisaf, ger Llanymddyfri, yr hwn oedd yn gydoeswr a Roger Williams.

yn cyfeirio at ei farwolaeth fel y canlyn:—"Mai 8ydd, 1760. Heddyw y clywais fod Mr. James Davies wedi cael ei gladdu. Yr wyf fi yn ei gofio ef y pregethwr mwyaf poblogaidd yn y rhan hon o Gymru, ond o herwydd iddo amlygu y fath dymer ansefydlog, a cheisio boddio pob math o ddynion, yn enwedig dynion cyfoethog, yr oedd wedi myned er's amser bellach yn lled ddibarch yn nghyfrif y dynion mwyaf pwysig a synwyrol. 'Peidiwch chwithau ar dyn, yr hwn sydd a'i anadl yn ei ffroenau.'" Taflwyd ef i amgylchiadau rhyfeddol o brofedigaethus fel nad yw yn rhyfedd iddo ymddyrysu i raddau ynddynt; ond wedi'r cyfan yr oedd yn ddyn gwir dda. Yn ei amser diweddaf yr oedd yn llettya yn nhy Mr. David John, o'r Gwernllwynisaf, hen aelod o'i eglwys. Yr oedd y pryd hwnw wedi claddu ei wraig, a dichon nad oedd yn gyfleus iddo lettya gyda ei fab. Byddai yn cadw dyledswydd deuluaidd yn ddefosiynol yno, ac nid yn unig gweddiai gyda'r teulu oll ar amser y ddyledswydd, ond elai drachefn, ar ol i'r teulu fyned i'w gwelyau, at wely pob un i weddio yn bersonol drostynt. Adroddwyd hyn wrth Mr. Daniel Davies pan yr oedd yn weinidog yn yr Ynysgau, gan ei fam-yn-nghyfraith, yr hon oedd yn ferch i Mr. D. John, lle y llettyai Mr. Davies.

Richard Rees. Nid ydym yn gwybod pa bryd y ganwyd ef. Aelod gwreiddiol o'r eglwys hon ydoedd. Yr oedd yn byw ar ei dir ei hun, sef y Gwernllwynuchaf, ac yn berchen amryw diroedd eraill. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin yn amser Mr. Parrot. Ar derfyniad ei amser yno dychwelodd adref, ac urddwyd ef tua'r flwyddyn 1732, yn gydweinidog a Mr. James Davies, yn ei fam-eglwys yn Nghwmyglo. Wedi bod yno hyd 1747, ymranodd yr eglwys, ac adeiladodd y blaid Arminaidd y capel ar Gefn-coed-y-cymer. Bu Mr. Rees yn weinidog yno hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn Awst, 1749.* Yn 1754, cyhoeddodd ei ganlyniedydd, Mr. Phillip Charles, dair o'i bregethau dan yr enw *Gwirionedd y Grefydd Gristionogol, a dull y farn fawr*. Dywedir fod Richard Rees, er ei fod yn wr cyfoethog a dysgedig, yn ddyn hynod am ei ostyngeiddrwydd a'i addfwynder, a'i fod yn ddyn defosiynol a chrefyddol iawn. Gadawai bob gofalon bydol i'w wraig, ac ymroddai yn hollol i fyfyrdodau crefyddol.

Samuel Davies. Yr oedd ef yn fab i Mr. James Davies, y gweinidog. Dywed Mr. Thomas Morgan, o Henllan, yr hwn oedd yn gydfyfyriwr ag ef yn athrofa Caerfyrddin, am dano fel y canlyn:—"Gwr ieuangc difrifol, yn meddu cymhwysderau rhagorol at y weinidogaeth. Urddwyd ef yn Merthyr i fyned yn weinidog i King's Wood, yn Wiltshire, yn 1746. Pregethwyd yn ei urddiad gan Mr. George Palmer, Abertawy, a Mr. David Thomas, Castellnedd. Wedi bod dair blynedd yn King's Wood, dychwelodd i Ferthyr, yn 1750, i gynorthwyo ei dad, ac i ymdrechu adferu heddwch, ar ol yr ymraniad a gymerasai le yno. Priododd yn Merthyr yn 1752." Mae yn debyg iddo lwyddo i adferu rhyw fath o heddwch rhwng pobl yr Ynysgau a phobl Cefn-coed-y-cymer; ond gwnaeth hyny trwy bregethu athrawiaeth groes i'r hyn a bregethasid gan ei dad trwy ei oes. Mae Mr. Phillip Dafydd, Penmain, yn ei ddydd-lyfr yn cyfeirio yn fynych at athrawiaeth Samuel Davies, ac yn tystio na byddai un amser yn pregethu dim o neillduolion yr efengyl, ond yn unig y dyledswyddau moesol

* Llyfr eglwysig y Cilgwyn.

hyny a ellir alw yn grefydd natur, gan eu hargymell yn unig a rhesymau dynol, heb o gwbl arwain ei wrandawyr at Grist a'i groes. Er ei fod fel hyn yn ddiffygiol yn ei athrawiaeth, yr oedd yn ddyn boneddigaidd, parchus, a phur iawn ei ymarweddiad. Clywsom amryw hen bobl yn Merthyr a Gelligaer, bymtheng-mlynedd-ar-hugain yn ol, yn son yn barchus ac anwyl iawn am dano, ac yn ei ddarlunio fel dyn o ymddangosiad urddasol dros ben. Parhaodd i weinidogaethu yn yr Ynysgau hyd derfyn ei oes. Bu farw Mawrth 18fed, 1781, a chladdwyd ef wrth gapel yr Ynysgau. Dywed Mr. Daniel Davies, ei ganlyniedydd, ei fod yn ddyn o gynneddfau cryfion iawn, a'i fod yn cael ei gyfrif yn un o'r areithwyr rhagoraf yn ei oes.

Thomas Williams. Gweler ei hanes yn nglyn ag eglwys y Watford.

Daniel Davies. Yr oedd ef yn fab i Mr. James Davies, un o weinidogion yr eglwysi yn Abermeurig, Blaenpenal, Cilgwyn, &c., ac yn frawd i Mr. Evan Davies, Llanedi. Efe oedd yr ieuengaf o wyth o blant—pum' mab a thair merch. Ganwyd ef yn mis Mehefin, 1760, yn y Dyffryn-llwyn-ddol, yn agos i Landysul, yn sir Aberteifi. Bu farw ei dad a'i fam cyn fod y plant oll wedi eu magu i'w llawn faint, ac felly disgynodd eu gofal ar fam eu mam, yr hon oedd yn hen wraig gref a gweithgar, ac a fu fyw i'r oedran teg o gan' mlynedd. Bu Mr. Davies yn derbyn addysg rhagbarotoawl yn Llanedi dan ofal ei frawd. Yn 1779, derbyniwyd ef yn fyfyriwr i athrofa Caerfyrddin, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal Mr. Robert Gentleman. Yn mhen ychydig o amser wedi gorphen ei dymor yno, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn yr Ynysgau. Dechreuodd ei waith yno Medi 3ydd, 1785, ac urddwyd ef Mai 6ed, 1786. Parhaodd i weinidogaethu yno hyd ddiwedd y flwyddyn 1810, neu ddechreu yr un ganlynol. Heb fod yn hir ar ol ymsefydlu yn Merthyr priododd a dynes ieuangc gyfoethog iawn. Un o deulu parchus y Gwernllwynisaf. Ar ol rhoddi i fyny ei weinidogaeth yn yr Ynysgau, ni bu yn weinidog sefydlog mewn un lle, ond pregethodd am rai blynyddau yn hen gapel Cefn-coed-y-cymer, ac yn y Watford wedi ymadawiad Mr. W. James oddiyno. Bu yn byw am dymor yn y Cwm, gerllaw Caerphili, ac wedi hyny yn Mhont-ypridd, lle y bu farw yn y flwyddyn 1851, yn 91 oed, a chladdwyd ef yn mynwent yr Ynysgau, lle yr oedd ei briod ac amryw o'i berthynasau wedi eu claddu er's blynyddau.

Yr oedd Mr. Davies, yr un fath a'i frawd, Mr. E. Davies, Llanedi, yn nodedig am ei foneddigeiddrwydd, ei dymer heddychlon, a'i ofal i beidio rhoddi dolur yn afreidiol i deimladau neb. A'r Undodiaid yr ymgyfeillachai yn benaf yn ei flynyddau diweddaf, ond nid oes un sail i farnu ei fod ef wedi llyngcu eu golygiadau hwy. Arminiad, o'r un fath a llawer o'r hen Ymneillduwyr yr ymgyfeillachai efe a hwynt yn moreu ei oes, y dewisai efe gael ei gyfrif hyd derfyn ei fywyd. Cyhoeddwyd ysgrifau o'i eiddo ar hanes Ymneillduaeth yn Merthyr a'r cylchoedd yn y *Drysorfa Gynnulleidfaol* am Ebrill, 1845, ac yn y *Diwygiwr* am Medi, 1849. Yr oedd yr ysgrif yn y *Diwygiwr* wedi ei bwriadu i gael ei darllen yn nghyfarfod can' mlwyddol yr Ynysgau, ond methodd gan lesgedd henaint fyned yno i'w darllen. Terfyna hi yn y geiriau toddedig canlynol:—"Yr ydwyf yn teimlo nad yw y pedwar ugain a naw yn amser i ysgrifenu. Mae y llaw a'r llygaid yn pallu. Buasai yn dda genyf fod yn eich cyfarfod, ond nid oes genyf ond aros gartref, a dymuno llwyddiant i chwi a'r gweinidogion, y rhai ydynt ddyeithriaid i mi agos oll." Yr ydym yn ddyledus i

Digitized by Google

ysgrifau Mr. Davies am amryw o'r ffeithiau a gynwysir yn yr hanes blaenorol.*

THOMAS BENJAMIN EVANS. Ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw Llygadenwyn, yn mhlwyf Llanybydder, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1787. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Rhydybont yn dra ieuangc. Aeth i'r ysgol a gedwid gan Mr. Peter mewn cysylltiad a'r athrofa yn Nghaerfyrddin, a thra yno dechreuodd bregethu yn Heol Awst, pan yn bedair-arbymtheg oed. Tua yr amser hwnw derbyniwyd ef i'r athrofa. Wedi gorphen ei dymor yn yr athrofa bu am ychydig amser yn Truro, yn Cornwal. Daeth oddiyno i Ferthyr, ac urddwyd ef yn yr Ynysgau, Mawrth 20fed, 1811. Ar ddydd ei urddiad rhoddodd oriel y capel ffordd oherwydd lluosogrwydd y dorf, yr hyn a barodd ddychryn dirfawr, ond diangodd pawb yn ddianaf. Bu raid cynal y gweddill o'r gwasanaeth ar y fynwent. Parhaodd cysylltiad Mr. Evans a'r Ynysgau fel gweinidog o ddydd ei urddiad hyd ddydd ei farwolaeth Chwefror 7fed, 1851. Bu yn nychu am lawer o fisoedd cyn iddo farw. Claddwyd ef wrth gapel yr Ynysgau yn ngwydd torf ddirfawr o bobl. Gweinyddwyd ar ei gladdedigaeth gan Meistri Hughes, Dowlais; Moses, Cefn-coed-y-cymer, ac eraill.

Yr oedd T. B. Evans yn ddyn hardd iawn o gorph, tua chwe' troedfedd o daldra, yn orlawn o natur dda, cymwynasgarwch, a didwylledd fel cyfaill, yn ysgolhaig rhagorol, a dywedir ei fod yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth yn bregethwr nodedig o boblogaidd. Yr oedd am fwy nag ugain mlynedd cyn ei farwolaeth wedi myned yn hynod o ddifudd fel pregethwr. Byddai yn pesychu gyda phob brawddeg a draethai nes yr oedd yn boenus i'w wrandaw. Bu am lawer o flynyddau yn barchus a dylanwadol iawn yn Merthyr a'r holl wlad oddiamgylch, a phe buasai yn llwyrymwrthodwr a diodydd meddwol trwy holl ystod ei fywyd cyhoeddus, ni buasai nemawr o weinidog yn Nghymru yn fwy defnyddiol a pharchus nag ef, oblegid yr oedd ei ragoriaethau fel dyn ac ysgolhaig o radd uchel iawn. Er ei holl ddiffygion yr oedd y rhan fwyaf o'i gydnabod yn teimlo rhyw anwyldeb neillduol tuag ato. Dywedir ei fod yn ei gystudd diweddaf yn amlygu teimladau tyner a chrefyddol iawn, ac yr ydym yn hyderu iddo ddiangc trwy ras Duw i'r wlad yn yr hon nid oes cofio beiau.

## ZOAR, MERTHYR TYDFIL.

Yn y deng mlynedd olaf o'r ganrif ddiweddaf daeth Merthyr Tydfil yn gyrchfan i luaws mawr o ddynion o bob cwr yn y Dywysogaeth. Parodd agoriad y gweithfeydd glo a mŵn, ar raddfa eang, ac adeiladiad y ffwrneisiau a'r melinau mawrion yma, i lawer o drigolion rhanau amaethyddol y wlad ddylifo yma. Tua Merthyr y cyfeiriai pob gwr pan yr elai yn gyfyng arno am gynhaliaeth iddo ei hun ac i'w deulu yn ei wlad; a phan yr anesmwythai rhyw fachgen ar dawelwch aelwyd ei rieni, ac yr awyddai am daflu yr iau oddiar ei war a chael mwy o ryddid i fyw yn ol helynt y byd hwn, tua Merthyr yr hwyliai ei gamrau. Os cyrhaeddai unrhyw ddyn i Ferthyr teimlai ei fod yn ddyogel pwy bynag a ymlidiai ar ei ol; ac yr oedd cynifer o'r fath gymeriadau wedi cael y lle yn ddinas noddfa, fel yr ofer-dybiai llawer mai hwynt-hwy yn unig a'i cyfaneddent. Ond yn mysg

* Llythyr D. Davies, Ysw., Cwm.

Digitized by Google

y lluaws a ymsefydlasant yn y lle yn y blynyddoedd hyny, sefydlodd lluaws o rai rhagorol y ddaear. Dynion a gadwasant eu cymeriad yn bur, a'u crefydd yn loyw yn nghanol holl brofedigaethau y lle; a dynion oedd eu syniadau mor efengylaidd a'u teimladau mor wresog, fel nas gallasent fwynhau yr ymborth a osodid ger eu bron os na byddai yn gynes yn gystal ag yn iachus. Yn mysg y rhai hyny yr oedd Lewis Foster, a Chatherine ei wraig, a Gabriel ei brawd, a John Salathiel, o'r Groeswen; David Nicholas Thomas, a Letice ei wraig, o'r Brychgoed; Jenkin Andrew, a'i wraig, o Benmain, a Thomas Rees, o'r Mynyddbach. Daethant yma yn y flwyddyn 1794, neu yn fuan wedi hyny.* Yr oedd achos yn yr Ynysgau, fel y gwelsom, yn mhell cyn hyn; ond yr oedd y weinidogaeth yno wedi myned i roddi sain anhynod, heblaw fod ffurfioldeb a marweidd-dra yn nodweddu yr holl wasanaeth; yr hyn nis gallasai hen grefyddwyr tanllyd Mynyddbach a'r Groeswen ddygymod a hwy. Ymofynasant yn ddioed am le i gyfarfod ynddo i addoli Duw, a chymerasant ystafell y tu cefn i'r Crown Inn, yr hon a elwid yn *Long room* y *Crown*, a thelid am dani chwe' phunt y flwyddyn o ardreth. Nid oeddynt ond naw mewn nifer, ond cefnogid hwy yn eu gwaith gan weinidogion goreu yr enwad. Yn enwedig gan Meistri E. Jones, Pontypool; J. Bowen, Castellnedd, ac H. Powell, Casnewydd, y rhai yn fynych a ymwelai a hwynt. Nid ydym wedi gallu cael allan ddyddiad cywir sefydliad yr achos, na phwy a fu yno yn corpholi yr eglwys. Chwefror 2il, 1798, y cofrestrwyd ystafell y Crown a hyny gan Mr. Howell Powell.† Ond y mae yn eglur fod yma achos rai blynyddau cyn hyny. Yn y flwyddyn 1796, daeth yr hybarch D. Williams, Troedrhiwdalar yn awr, yma yn fachgen ieuangc i weithio ei gelfyddyd, a daeth a'i lythyr at yr eglwys fechan gynes oedd yn y Long room; a chofeir gan Mr. Williams hyd y dydd hwn yr oedfaon hwylus a'r cyfeillachau melus a fwynhawyd ganddynt yn yr ystafell hono. Pan yr oedd yr eglwys yn ymgynull yma y derbyniwyd Maria Jenkyn, (mam Dr. Jenkyn,) yn aelod, a chyn hir derbyniwyd Dafydd Jenkyn, ei gwr, yr hwn a wasanaethodd fel blaenor y gân i'r gynnulleidfa am flynyddoedd. Cyn diwedd y flwyddyn 1797, rhoddodd yr eglwys ieuangc alwad i Mr. Howell Powell, Casnewydd, yr hwn a symudodd yma yn ngwanwyn y flwyddyn ganlynol. Bu cymanfa fawr yma yn mis Mehefin ar ol dyfodiad Mr. Powell i'r lle, yr hon a gynaliwyd yn yr awyr agored, ar y tir oedd wedi ei neillduo at adeiladu capel newydd. Adfywiodd yr eglwys a lluosogodd y gwrandawyr yn fawr ar ol sefydliad Mr. Powell yn y lle, a phenderfynwyd adeiladu capel i fod yn eiddo yr eglwys, yn lle yr ystafell ardrethol yr oeddynt yn cyfarfod ynddi. Sicrhawyd darn helaeth o dir yn y fan lle y saif y capel presenol, a dechreuwyd adeiladu yn y flwyddyn 1798, oblegid yr oedd y muriau wedi eu codi i uchder gwaelod ffenestri y llawr pan gadwyd y gymanfa yn Mehefin y flwyddyn hono. Helbul mawr a fu gyda chodi y capel, oblegid yr anhawsder i gael arian. Yr oeddynt wedi cymeryd yr holl dir o'r Heol fawr hyd at yr afon, yn gystal a'r tir sydd o dan y capel presenol am yr ardreth flynyddol o ddeuddeg gini; ond oblegid eu bod yn methu tal y swm hwnw, cymerodd un Henry Thomas, neu "Harri'r Blawd," fel y gelwid ef yn gyffredin, y brydles oddiarnynt, a rhoddodd iddynt y darn oedd dan y capel, ac ychydig heblaw hyny, am yr ardreth o dair punt a saith swllt. Ond yr oedd codi y capel yn faich rhy drwm iddynt drachefn

* Hanes eglwys Zoar gan Mr. R. Griffiths, Cefn. † Cofnodion llys Llandaf.

Nid oedd ganddynt arian eu hunain, ac yr oeddynt yn rhy dlodion i gael arian ar log gan neb; ac nid oedd dim i wneyd ond gadael i'r gwaith sefyll. Aeth Mr. Powell oddicartref i gasglu, ond oblegid nad oedd mor llwyddianus i hyny ag y disgwyliai rhai, aeth yn ddiflasdod rhyngddo a'r eglwys, a rhoddodd ei gofal i fyny, a chyfyngodd ei lafur i eglwys y Maendy, i'r hon yn flaenorol y rhoddai ran o'i lafur. Pan ymadawodd Mr. Powell, yr oedd y capel ar ei haner, ac felly y parhaodd dros amser o eisiau arian i'w gwblhau. Trwy ddylanwad Mr. Ebenezer Jones, Pontypool, llwyddwyd i gael arian gan Mr. Walters, Mynyddislwyn, a gorphenwyd y capel erbyn diwedd 1803, a thua yr un amser rhoddwyd galwad i Mr. Daniel Lewis, Cwmmawr,—Crwys yn awr. Trwyddedwyd capel Zoar gan Mr. D. Lewis, y gweinidog, yn llys Llandaf Medi 10fed, 1804. Ymroddodd Mr. Lewis a'i holl egni i dalu dyled y capel, a dengys rhestr y tanysgrifiadau iddo deithio yn mhell er gosod yr achos ger bron yr eglwysi, ac na bu ei apeliadau yn ofer. Aeth i Lundain, a manau eraill yn Lloegr, i gasglu; ond wedi ei ddychweliad adref aeth rhai o'r aelodau i gwyno nad oedd wedi casglu digon, a bod ei dreuliau yn ormod. Yr ydym eisioes wedi cyfeirio at hyn yn ein cofnodiad bywgraphyddol o Mr. Lewis yn nglyn a hanes Llanfaple, Cyf. I., tu dal. 116. Parodd hyn derfysg mawr yn yr eglwys. Cyhuddid Mr. Lewis o ysbeilio yr eglwys, er iddo roddi cyfrif cyflawn a manwl o'r holl dderbynion a'r treulion. Galwodd yr eglwys a Mr. Lewis am gynorthwy gweinidogion cymydogaethol, y rhai a ddatganasant fod y cyfrifon yn hollol deg, a barnwyd yn unfrydol fod yn rhaid i'r terfysgwyr ymostwng neu gael eu diarddel. Gwrthodasant blygu, ond ymadawsant i ddechreu achos arall, ar lofft hen efail heb fod yn mhell iawn oddiwrth Zoar; ac yno y cychwynodd yr eglwys luosog sydd yn awr yn Bethesda. Cymerodd hyn le tua'r flwyddyn 1807. Bu Mr. Lewis yma dros ysbaid ar ol hyn, ond yr oedd y dymestl wedi ei ysigo, fel y symudodd oddiyma i Lanfaple, yn sir Fynwy, yn nechreu y flwyddyn 1810. Yr un flwyddyn ag yr ymadawodd Mr. Lewis, rhoddwyd galwad i Mr. Samuel Evans, ac urddwyd ef yn weinidog yn y lle. Bu dyfodiad Mr. Evans i'r lle yn ddechreuad cyfnod newydd ar yr achos yn Zoar. Yr oedd cymhwysder neillduol ynddo i fod yn weinidog mewn lle yr oedd cynifer o ddyeithriaid a dyfodiaid, oblegid y medr neillduol oedd ganddo i lywodraethu, a pheri i bawb deimlo oddiwrth ei awdurdod, er nad oedd mewn un modd yn chwerw a gormesol. Teimlwyd ei ddylanwad fel pregethwr, a dylanwad ei gymeriad fel dyn, a chynyddodd yr achos yn fuan dan ei ofal. Talwyd y ddyled oedd ar y capel, a daeth eisiau ei helaethu, yr hyn a wnaed cyn hir. Erbyn y flwyddyn 1825, yr oedd hwnw hefyd wedi myned yn rhy gyfyng, a phenderfynwyd adeiladu capel newydd, a chodwyd un gwerth 600p., yr hyn yn y dyddiau hyny a ystyrid yn swm mawr. Llanwyd y capel cyn hir, ac yr oedd yr eglwys yn cynyddu yn raddol; ond yn 1829, cafwyd diwygiad grymus pryd yr ychwanegwyd llawer o bobl i'r Arglwydd. Yn Awst y flwyddyn hono, derbyniwyd ar yr un Sabboth cymundeb bymtheg-a-deugain o aelodau; a choffeir gan rai hyd etto am y cyfarfodydd gwlithog a fwynheid yn y dyddiau hyny. Effeithiodd y terfysgoedd gwladol a gymerodd le yn mhen rhyw ddwy flynedd ar ol hyny yn fawr ar holl eglwysi y lle. Aeth llawer o grefyddwyr i ysbryd y cynhyrfiadau afreolus a gwaedlyd hyny, os nad oeddynt yn cymeryd rhan ynddynt; yr hyn o angenrheidrwydd a effeithiodd yn niweidiol i grefydd bur ac ysbrydol. Tua'r flwyddyn 1831, deallwyd fod afiechyd poenus a pheryglus wedi ym-

-afael yn Mr. Evans, ac wedi i bob dyfais feddygol fethu, bu farw Mehefin 27ain, 1833, yn 56 oed. Bu yr eglwys am fwy na dwy flynedd ar ol marwolaeth Mr. Evans yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol, a theimlai fod yn anhawdd cael gwr cymhwys i lenwi lle y "tywysog a'r gwr mawr oedd wedi syrthio." Cyn diwedd 1835, rhoddwyd galwad i Mr. Benjamin Owens, aelod o Trefdraeth, sir Benfro; ac urddwyd ef Chwefror 10fed a'r 11eg, 1836. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Griffiths, Castellnedd; gofynwyd yr holiadau a dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. H. George, Brynberian; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog ieuangc gan ei ewythr, Mr. T. Griffiths, Hawen, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. H. Jones, Tredegar.* Cynyddodd yr achos yn gyflym wedi dyfodiad Mr. Owens i'r lle, lluosogodd yr eglwys a'r gynnulleidfa, a chyn diwedd y flwyddyn 1840, penderfynwyd adeiladu capel newydd eang a chyfleus. Gan fod Mr. Owens yn gyfarwydd ag adeiladu, tynodd y cynllun ei hun, ac arolygodd ei adeiladaeth; a thynodd maint a gwerth y capel sylw cyffredinol. Mae yn mesur 66 troedfedd wrth 60 troedfedd, ac oriel o'i amgylch, a chostiodd 2300p., yr hyn ddeng-mlynedd-ar-hugain yn ol a gyfrifid yn swm anferth. Gwnaed y gwaith maen gan Meistri Thomas Williams a David Richards, a'r gwaith coed gan Mr. John Gabe, ac nid rhaid canmol yr adeiladaeth wrth neb a'i gwelodd. Os cafwyd trafferth i gael arian ar log i adeiladu y Zoar cyntaf, ni bu dim o hyny gyda'r diweddaf. Agorwyd y capel Mawrth 9fed a'r 10fed, 1842, a phregethwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Evans, Maendy; T. Griffiths, Blaenafon; J. Evans, Cymer; W. Griffiths, Llanharan; D. Griffiths, Castellnedd; D. Davies, New Inn, a W. Jones, Penybont; ac yr oedd 1830p. o ddyled yn aros ddiwedd dydd yr agoriad. Llafuriodd Mr. Owens a'r eglwys i dalu y ddyled, ac yr oedd trwy gydymdrech yn dyfod i lawr bob blwyddyn; ac yr oedd yr achos yn fewnol mewn agwedd gysurus. Llanwyd y capel eang a chynnulleidfa astud; ac yn y flwyddyn 1849, pan yr ymwelodd y geri marwol a'r dref, ac y symudodd ddynion wrth y degau i dragywyddoldeb, ychwanegwyd canoedd at yr eglwys. Derbyniwyd 120 ar yr un Sabboth. Ond dychwelodd llawer o honynt i'w hen lwybrau, a chyfarfu ystormydd blin ar ol hyny. Yn y flwyddyn 1850, terfysgwyd yr eglwys ar yr achlysur o ddewisiad diaconiaid; ac oblegid rhyw anghydwelediad yn nglyn a hyny ymadawodd 58 trwy lythyrau i'r Ynysgau ar y Sabboth, Gorphenaf 2il, 1850. Teimlodd yr eglwys ar y pryd oblegid eu hymadawiad, yn neillduol oblegid fod llawer o honynt yn gantorion rhagorol, ond ni chollodd yr eglwys ei hysbryd na'i gweithgarwch, ac yn fuan llanwyd lle y rhai a ymadawsant. Yn y flwyddyn 1854, codwyd dau ysgoldy gan yr eglwys gwerth oddeutu 300p., un yn y Caedraw, a'r llall ar ben *incline* Penydarran. Mae y gymydogaeth lle y mae y blaenaf wedi myned yn isel a gwyddelig iawn, ond parheir i gadw Ysgol Sabbothol a moddion eraill yn rheolaidd yn yr olaf. Yn y flwyddyn 1860, taflwyd yr eglwys i brofedigaeth am y mynai llawer o'r aelodau godi dyn i bregethu, yr hwn y barnai y gweinidog a mwyafrif yr eglwys nad oedd hyny yn briodol. Yn yr anghydwelediad yma ymadawodd 74 o'r aelodau i eglwys arall yn y dref. Achosodd yr ymryson yma deimladau blin a gofidus, ac ysigwyd holl natur Mr. Owens trwy hyn, fel na bu byth yr un dyn wedi hyny. Llesgaodd ei nerth, a bu colli ei anwyl wraig, yr hon a'i calonogai yn ei holl drallodion,

* *Diwygiwr*, Ebrill, 1836.

Digitized by Google

yn ormod i'w gyfansoddiad. Gwelodd nas gallasai sefyll yn hwy ger bron arch Duw, ac ar y 19eg o Hydref, 1862, rhoddodd i fyny ofal yr eglwys dros yr hon y bu yn gwylio yn ddyfal am fwy na chwe'-blynedd-ar-hugain.

Wedi i'r eglwys fod am dair blynedd heb weinidog, rhoddodd alwad i Mr. David Jones, B,A., Caerdydd, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Gorphenaf, 1865, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad ar yr 21ain a'r 22ain o'r mis, pryd y gweinyddodd Meistri H. Oliver, B.A., Pontypridd; J. Davies, Caerdydd; J. Hughes, Dowlais, (gynt); R. Griffiths, Cefn; W. Williams, Hirwaun; W. C. Williams, Groeswen; J. Ll. Hughes, Gwernllwyn; J. Davies, Taihirion, a D. Davies, Llanbedr; ac y mae Mr. Jones yn parhau i lafurio yma gyda chymeradwyaeth. Yn y flwyddyn 1867, codwyd ysgoldy eang o flaen y capel er cynal Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd wythnosol. Prynwyd dau dŷ er mwyn cael lle i'w wneyd, a chostiodd 550p., ond y mae ei ddyled yn cael ei thalu yn gyflym.

Mae eglwys Zoar wedi bod bob amser yn ewyllysgar a pharod i gymeryd ei rhan yn deg gyda holl achosion cyhoeddus crefydd. Mewn cyfranu at sefydliadau addysgol, a chymdeithasau crefyddol, neu gynorthwyo eglwysi dan feichiau eu dyledion, nid yw un amser wedi bod yn ol. Er yr ystyrid hi yn Galfinaidd yn ei golygiadau duwinyddol yn y blynyddoedd yr oedd y pyngciau hyny yn cynhyrfu y wlad, etto nid oedd yn bosibl fod eglwys yn mhellach oddiwrth benrhyddid Antinomaidd. Blaenorai mewn gweithredoedd da, ac yr oedd yn fanwl a gofalus yn ngweinyddiad dysgyblaeth. Cadwodd i fyny urddas crefydd, ac yr oedd ei chymeriad cyffredinol yn ddyrchafiad i Annibyniaeth yn ngolwg trigolion y dref. Gwelodd amseroedd blinion yn y lle o herwydd cynhyrfiadau cymdeithasol a gwladyddol, ond ymgadwodd mor ofalus ag unrhyw eglwys o unrhyw enwad rhag cael ei thynu iddynt na'i gwarthruddo drwyddynt; ac yr oedd teimlad trwy yr amgylchoedd o'r dechreuad fod rhyw urddas yn gysylltiedig a'r eglwys yn Zoar.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

David William Jenkyn. Brawd Dr. T. W. Jenkyn. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1813. Addysgwyd ef yn athrofa Hackney. Mae yn awr yn Rye, Sussex, ar fin 75 oed.

Thomas Rees. Urddwyd ef yn Llanfaple, a symudodd i Casgwent, a gweler ei hanes yn nglyn a'r eglwys hono.

James Evans. Dechreuodd bregethu yn 1822. Urddwyd ef yn Craigyfargoed, yn 1844, ac y mae yn awr yn Gellideg.

Griffith Jones. Tua'r flwyddyn 1824 y dechreuodd bregethu. Symudodd i Benycae, Mynwy, a thra yno bu yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw i ddechreu yr achos sydd yn awr yn Saron. Urddwyd ef yn Victoria, ac y mae yn awr yn Cefncribwr.

John Edwards. Gelwid ef fynychaf John Madlen. Dechreuodd bregethu yn 1830. Yn mhen y dwy flynedd aeth at y Bedyddwyr; ond y mae wedi marw er's blynyddau.

Thomas Griffiths. Dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1831. Urddwyd ef yn Blaenafon yn 1838, ac yno y mae etto.

Richard Griffiths. Dechreuodd bregethu yn 1835, ac urddwyd ef yn Tabor, Cefn-coed-y-cymer yn 1858, ac y mae yn parhau i lafurio yno.

John Thomas, Rhydycar. Dechreuodd bregethu yn 1838. Yr oedd yn ddyn ieuangc crefyddol, ac yn nghymdeithas hen grefyddwyr profiadol yr ymhyfrydai. Bu farw yn mlodeu ei ddyddiau.

Digitized by Google

John Edwards. Yn 1838 y dechreuodd bregethu. Urddwyd ef yn Hermon, Ystradfellte yn 1855, ac y mae yn awr yn Abertawy.

David Davies. Mab ydoedd i Mesach Davies. Tua'r flwyddyn 1840 y dechreuodd bregethu. Ymfudodd i America yn 1843, ac urddwyd ef yno, ond y mae wedi marw er's blynyddau.

John Williams. Mae yn bresenol yn y Wern, Ystalyfera, yn bregethwr cynorthwyol.

David Abel Jones. Addysgwyd ef yn athrofa y Bala. Urddwyd ef yn Treherbert, ac y mae yn awr yn Ebenezer, Cefn.

Griffith Jones. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef yn Llacharn, lle y mae etto.

Evan Jones. Brawd i Griffith Jones. Aeth ef at yr Eglwys Sefydledig.

James Bowen. Urddwyd ef yn Llansanan, ac y mae yn awr yn Bethel, Croesoswallt.

William Thomas. Bu yn athrofa y Bala. Derbyniodd alwad o Abertillery, ond bu farw Chwefror 23ain, 1864, cyn ei urddo yn weinidog. Yr oedd yn ddyn ieuangc difrifol a diniwed.

John R. Thomas. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef yn Bethesda a Llandysilio, lle y mae etto.

Daniel T. Williams. Adnabyddir ef yn well wrth yr enw Tydfylin. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1860, ac urddwyd ef yn Adulam, Merthyr yn 1870.

Llewellyn Jenkins. Mae yn awr yn yr ysgol yn parotoi i fyned i'r athrofa.

Bu llawer o bregethwyr eraill yn perthyn i'r eglwys hon o bryd i bryd, y rhai a ddechreuasant bregethu mewn eglwysi eraill; a bu llawer yn aelodau yma a ddechreuasant bregethu mewn eglwysi eraill, ar ol eu hymadawiad oddiyma. Crybwyllasom am yr oll y gwyddom am danynt yn nglyn a'r eglwysi yn y rhai y dechreuasant bregethu.

Coffeir am lawer o wyr rhagorol yn mysg y brodyr, a fu yn yr eglwys hon o bryd i bryd. Yr oedd Lewis Foster yn un o'r diaconiaid cyntaf, os nad y cyntaf a fu yn yr eglwys hon. Yr oedd ef yn un o'r rhai a aethant allan i ddechreu yr achos sydd yn awr yn Bethesda. Morgan Sion, fel ei gelwid, oedd frawd pwyllog a gofalus, a Harri Llwyd oedd un nodedig am ei dynerwch. Sonir gan lawer hyd heddyw am William Humphrey, yr hwn oedd un o'r rhai mwyaf dylanwadol yn yr eglwys; ac yr oedd pawb yn esmwyth yn rhoddi y flaenoriaeth iddo. Bu Josiah Williams yn ffyddlon fel trysorydd, yn enwedig yn adeg adeiladaeth y capel yn 1841. John Thomas oedd ŵr cywir, unplyg, a dihoced.

Diaconiaid presenol yr eglwys ydynt, David Davies, Tynewydd; William Jones, Tramroad; Rees Davies, Twyn-yr-odyn; David Williams, Grocer; John Jones, Tydfil's Well; John Sibbering, John Arthur, John Lewis, Cemetery y Cefn; John Jones, Boat Builder; Thomas Williams, Goetre, a John Davies, Peirianydd. Mae enwau rhai o honynt yn adnabyddus i'r enwad oll.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Samuel Evans. Yr unig hanes am y gweinidog enwog hwn sydd ar gael yw y cofiant byr iddo a ysgrifenwyd gan Dr. Jenkyn i'r *Evangelical Magazine*, am Awst, 1834. Dywed y Dr. mai yn mhlwyf *Clydog* neu

Digitized by Google

*Clydach*; yn sir Frycheiniog y ganwyd ef. Gan nad oes un plwyf o'r enw hwnw yn sir Frycheiniog, yr ydym yn barnu mai Cwmclydach, yn mhlwyf Llanelli, Brycheiniog, a feddylir. Yn Mehefin, 1777, y ganwyd ef. Pan yr oedd ef tua chwe' mlwydd oed symudodd ei rieni i gymydogaeth y Dref-hir, yn agos i derfynau siroedd Brycheiniog a Henffordd. Yr oedd yno hen achos Annibynol Cymreig y pryd hwnw, a phan yr oedd Samuel Evans yn dair-ar-ddeg oed efe a dderbyniwyd yn aelod eglwysig yno. Wrth weled ei alluoedd meddyliol a'i rinweddau crefyddol yn ymagor yn obeithiol, anogwyd ef gan yr eglwys pan yn ddeunaw mlwydd oed i ddechreu arfer ei ddoniau fel pregethwr. Yn fuan wedi hyny symudodd yn ol i sir Frycheiniog, a gosododd i fyny ysgol ddyddiol yn Nghwmdwr, rhwng Trecastell a Llanymddyfri. Tra y bu yno yn cadw ysgol byddai yn pregethu bob Sabboth yn Nghefnarthen, Pentre-ty-gwyn, ac eglwysi cymydogaethol eraill. Bu yn yr ardal hono am amryw flynyddau, ac yno y priododd ag un Miss Griffiths, aelod o'r eglwys yn Nghefnarthen, yr hon a fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd derfyn ei oes. Cawsant deulu lluosog o blant, ond y maent oll ond un wedi dilyn eu rhieni i'r ty rhagderfynedig i bob dyn byw. Yn y flwyddyn 1810, derbyniodd Mr. Evans alwad oddi wrth yr eglwys yn Zoar, ac urddwyd ef yno. Yr oedd yr eglwys pan yr aeth ef yno mewn agwedd isel a thra annymunol o herwydd terfysg a rhwygiad oedd newydd gymeryd lle ynddi, ond trwy lafur dibaid, callineb, a doniau rhagorol y gweinidog, yn cael eu dilyn gan fendith yr Arglwydd, lluosogodd a chryfhaodd yn dra chyflym, fel y daeth i fod yn un o'r eglwysi cryfaf ac enwocaf yn y sir. Bu Mr. Evans yn llafurio yma, ac am rai blynyddau yn Bethania, Dowlais, mewn cysylltiad a Zoar, hyd derfyn ei oes. Yn 1832, cafwyd allan fod y clefyd angeuol hwnw y *cancer* wedi gafael yn ngwraidd ei dafod. Cynyddodd yn dra chyflym fel yr analluogwyd ef i bregethu. Traddododd ei bregeth olaf oddiwrth Diar. i. 33, yn Awst, 1832. Bu wedi hyny yn nychu, ac mewn poenau mawr a pharhaus hyd ddydd Iau, Mehefin 27ain, 1833, pryd y cafodd ei ysbryd ollyngdod o gaethiwed y babell bridd. Claddwyd ef, yn ol ei orchymyn ei hun, wrth gapel esgobyddol Dowlais. Ar ddydd yr angladd, aed a'r corph i gapel Zoar, lle y traddodwyd dwy bregeth gan Meistri J. Davies, Rhymni, yn Gymraeg, a W. James, Caerdydd, yn Saesonig. Yr oedd saith-ar-hugain o weinidogion Ymneillduol ac offeiriaid yn cerdded yn orymdaith o flaen y corph.

Yr oedd Samuel Evans, Zoar, yn un o'r gweinidogion mwyaf enwog a dylanwadol yn ei oes yn ei eglwys ei hun ac o fewn cylch ei adnabyddiaeth, ond gan i'w amgylchiadau fod yn rhwystr iddo deithio nemawr nid oedd yn bersonol adnabyddus mewn un ran o Gymru ond yn Morganwg a chyrau o'r siroedd cylchynol. Dywed Dr. Jenkyn, yr hwn a fu am rai blynyddau yn eistedd dan ei weinidogaeth, ei fod yn ymresymwr manol, craffus, ac argyhoeddiadol dros ben, a'i fod yn bregethwr galluog ac effeithiol iawn. Er na chafodd addysg athrofaol yr oedd yn ysgolhaig da ac yn ddyn o wybodaeth helaeth. Myfyriai ei bregethau gyda gofal a manylder, a thraddodai hwy yn wresog ac effeithiol iawn. Ni fynai ei wrandawyr arferol gredu fod un pregethwr mwy nag ef yn yr holl fyd. Yr oedd ganddo rhyw fedr digyffelyb i osod yr argraff ar bawb a ddeuant i gyffyrddiad ag ef ei fod yn ddyn mawr yn mhob peth. Yr oedd ei allu i lywodraethu pobl yn anghyffredin. Byddai ei air yn mhob cyfarfod eglwysig yn ddigon o ddeddf.



Digitized by Google

Gwnaeth iddo ei hun enw mawr fel meddyg. Er nad oedd wedi cael ei ddwyn i fyny yn feddyg, cyrhaeddodd y fath glod am ei fedr i wellhau clefydau fel y byddai pobl yn dyfod ato o bell ac agos i gael eu gwellhau. Yr oedd yn derbyn tri chymaint o dal am ei wasanaeth i'r cyhoedd fel meddyg ag a dderbyniai oddiwrth ei eglwys fel gweinidog. Trwy hyny yr oedd ei amgylchiadau flynyddau lawer cyn iddo farw yn hynod o gysurus, a'r dyb ei fod yn ddyn cyfoethog yn ychwanegu yn ddirfawr at ei ddylanwad gyda'r werin.

Yn 1815, argraffodd bregeth ar Athrawiaeth y Drindod, a dyna yr unig beth a argraffwyd ganddo heblaw ychydig o emynau rhagorol o'i eiddo a gyhoeddwyd yn emyn-lyfr Mr. Evans, Mynyddbach. Dywedir y byddai fynychaf yn cyfansoddi emyn i ateb i'w bregeth, ac yn ei rhoddi allan i'w chanu ar ddiwedd yr oedfa. Gresyn na chyhoeddesid ychwaneg o'i emynau, oblegid mae yr ychydig a gyhoeddwyd mor ragorol a chwaethus a phenillion tlysaf Williams, Pantycelyn, neu Williams, Bethesda. Mae darllen ei emynau yn ddigon ar unwaith i ddangos ei fod yn ddyn a chwaeth goethedig ac o feddwl treiddgar a galluog.

Benjamin Owens. Ganwyd ef yn Nhrefdraeth, sir Benfro, Awst 28ain, 1810. Yr oedd yn un o bump o blant, ac efe oedd yr ieuengaf o honynt. Bu ganddo ddau frawd yn y weinidogaeth, sef Daniel E. Owens, yn Cendl, a John Owens, yn Maenclochog. Yr oedd Benjamin o gorph cryf, ac o ysbryd gwrol a diofn er yn blentyn, ac yn mysg ei gyfoedion edrychid arno fel eu blaenor yn mhob camp. Ni chafodd ond ychydig addysg ddyddiol pan yn blentyn, gan fod ei fam wedi ei gadael yn weddw, a bu raid iddo yn foreu ymafael mewn rhyw orchwyl. Pan yn un-ar-ddeg oed rhwymwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd o saer, i'r hon yr ymroddodd yn egniol a gwnaeth gynydd buan. Darllenodd lawer pan yn fachgen, ac ymhyfrydai yn fawr mewn dadleu ag Eglwyswyr a Bedyddwyr, ac yn erbyn y syniad oedd yn gyffredin yn y dyddiau hyny yn mysg ei gyfoedion am ymddangosiad ysbrydion a drychioliaethau. Ymhyfrydai mewn gwneyd gwawd o hygoeledd dynion ofnus. Er iddo gael ei gadw heb ymollwng i annuwioldeb cyhoeddus, etto yr oedd ei galon yn ddyeithr i oruchwyliaeth gras, hyd nes y cyfarfu a damwain wrth weithio mewn llong ar y traeth. Trodd y llestr yn ddisymwth ar ei hochr, a thaflwyd yntau gryn bellder oddiwrthi; ond diangodd heb gael unrhyw niwed, er iddo ddychrynu yn ddirfawr, a bu y dychryn hwnw yn foddion i'w ddwyn i ystyried llaw Duw yn ei waredigaeth, ac i'w ddwyn i benderfynu cyflwyno ei hunan i'w wasanaeth. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Nhrefdraeth, ac yn ddioed ymaflodd yn holl ranau gwaith yr Arglwydd. Gyda dysgu ac adrodd pyngciau yn yr Ysgol Sabbothol efe oedd yr arweinydd, a phan y profid hwy a chwestiynau celyd ato ef yr edrychai yr ysgol am ymwared. Rhoddodd ei gynydd mewn gwybodaeth a doniau y fath foddlonrwydd i'r eglwys fel yr anogwyd ef i ddechreu pregethu, yr hyn a wnaeth yn 1833, a bu yn pregethu am ysbaid dwy flynedd, fynychaf bob Sabboth, yn Nhrefdraeth a'r eglwysi cymydogaethol, ac yn gweithio ei gelfyddyd trwy yr wythnos. Bwriadai unwaith fyned i ryw athrofa, ond ataliwyd ef gan ryw amgylchiadau. Yn y flwyddyn 1835, aeth ar daith trwy ranau o siroedd Caerfyrddin, Morganwg, a Mynwy, gyda bwriad i fyned cyn belled a Cendl, lle y buasai ei frawd Daniel yn weinidog. Daeth i Ferthyr, ac yr oedd eglwys Zoar ar y pryd heb weinidog, a hoffwyd ef gymaint fel yr anfonwyd cenad ar ei ol i Cendl i ddymuno arno ddyfod yno i bregethu ar

Digitized by Google

lawf. Gwrthododd ddychwelyd y pryd hwnw, ond addawodd ystyried y mater, ac y rhoddai ateb wedi iddo gael cyfle i ymgynghori a'i weinidog, Mr. George, Brynberian, ac a'i ewythr, Mr. Griffiths, Hawen. Yn mhen amser, pa fodd bynag, ymwelodd eilwaith a Zoar, a chafodd yr eglwys y fath foddlonrwydd ynddo fel y rhoddodd alwad iddo; ac urddwyd ef Chwefror 10fed a'r 11eg, 1836. Wedi ymsefydlu yn Merthyr dechreuodd weithio a'i holl egni. Yr oedd pob peth yn wahanol yn maes ei lafur i'r hyn ydoedd yn ei ardal enedigol; ond yr oedd ynddo ddigon o graffder i adnabod neillduolion y lle, a'r gwaith oedd ganddo i'w gyflawni, a digon o benderfyniad i gyfaddasu ei hunan ar eu cyfer. Yr oedd yr eglwys yn lled Galfinaidd ei golygiadau, ac edrychai gyda llygaid drwgdybus ar y gweinidogion hyny oedd yn eang eu golygiadau ar drefn yr efengyl; ond cadwodd Mr. Owens ar ganol y ffordd, heb droi yn ormodol i'r dde na'r aswy. Cyrchai llawer i Ferthyr yn y dyddiau hyny, oblegid dyma ganolbwynt y gweithfaoedd; ac yr oedd yn ofynol wrth ddoethineb a phwyll mawr mewn dyn ieuangc i gario pethau yn mlaen yn esmwyth mewn eglwys luosog lle yr oedd y rhan fwyaf yn ddyfodiaid o eglwysi eraill, a phob un yn selog dros y trefniadau a welodd yn yr eglwys o'r hon y daethai, ond bu Mr. Owens ar y cyfan yn lled ddibrofedigaeth yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Yn mis Mai, 1840, priododd Mr. Owens a Miss Mary Ann Evans, merch Mr. Samuel Evans, ei ragflaenydd yn y weinidogaeth yn Zoar, yr hon a fu iddo yn ngwir ystyr y gair yn ymgeledd gymhwys. "Hi a wnaeth iddo les, ac nid drwg, holl ddyddiau ei bywyd." Yr oedd hi wedi ei dwyn i fyny yn nghanol cynhyrfiadau Merthyr, ac wedi gweled *riots* y *Scotch Cattle* a'r Siartiaid, yr hyn oedd wedi ei gwneyd yn orochelgar, a hwyrach i fesur wedi peri iddi ofni lle nid oedd ofn; a byddai yn hir iawn cyn y gallasai deimlo yn hyderus i ymddiried mewn personau, a chyfranogodd Mr. Owens i raddau, o dan ei dylanwad hi, o'r un ysbryd, yr hwn nid oedd mewn un modd yn naturiol iddo ef; ond bu hi o help a chalondid mawr iddo beth bynag fyddai ei brofedigaethau. Pan y penderfynwyd adeiladu Zoar yn 1841, cymerodd Mr. Owens y prif ofal arno ei hun; ac erys yr adeilad eang yn gofadail o'i fedrusrwydd. Wedi ei gael yn barod ymroddodd yn ddi-ildio i gasglu er talu am dano. Casglodd gartref ac oddicartref, yn mysg cyfeillion ac yn mysg dyeithriaid. Teithiodd i Lundain a Bristol, a manau eraill; a goddefodd y caledfyd sydd yn nglyn a chasglu yn Llundain na wyr neb ond y profiadol am dano. Defnyddiodd bob cynllun er mwyn cael arian, a gwnaed *Tea Party* unwaith, oddiwrth yr hwn y caed *can' punt* o elw clir. Y cyntaf ar y fath raddfa eang a fu erioed yn Nghymru. Ond nid at ei achos cartrefol yn unig yr oedd Mr. Owens yn gweithio; ond cymerai ran, a rhan helaeth, gyda phob achos cyhoeddus. Mae llawer o eglwysi gweiniaid a allent dystiolaethu am yr help ewyllysgar a estynai iddynt. Noddodd yr achos Saesonig yn Merthyr yn ei nychdod a'i wendid fel tad yn noddi ei fab anwyl ganddo; a theimla yr achos Cymreig yn Bristol yn fwy dyledus iddo ef, nag i neb arall, am y cynorthwy amserol a estynodd iddo. Yr oedd yn ffyddlon i'w enwad yn mhob peth, ac yn gywir dros fesur i'w holl frodyr. Gwyddai terfysgwyr yn mhob eglwys mai ofer hollol oedd iddynt droi at Mr. Owens am help i ddrygu eneiniog yr Arglwydd. Mae rhai gweinidogion i'w cael sydd yn dyfod o hyd i ddynion aflonydd pob eglwys os digwydd iddynt fyned i'w cymydogaeth, ac y mae yr aflonyddwyr yn eu hadnabod hwythau, y maent fel pe byddai ryw reddf ynddynt i adnabod eu gilydd; ond nid

Digitized by Google

un o'r cyfryw oedd Mr. Owens. Tynodd ag llawer arno o bryd i bryd oblegid na buasai yn eu cefnogi hwy i godi yn erbyn eu gweinidogion. Yr oedd yn gyfaill pur; ac unwaith y gosodai ei law ar unrhyw beth ni throai yn ol nes ei gwblhau. Medrai, os byddai angen, ddyweyd geiriau fel brath cleddyf, ac nid oedd terfyn i'w wawdeb pan y teimlai fod angen i'w ddefnyddio. Ond ni chyfyngai ei lafur i'w eglwys a'i enwad, ond yr oedd yn ddyn i'r dref, ac yn ddyn i'r holl wlad. Cymerai ran yn holl achosion cyhoeddus y dref, ac yn holl amcanion cyffredinol y wladwriaeth. Yr oedd yn deall gwleidiadaeth yn dda, ac yr oedd yn werinol braidd yn ei olygiadau. Yn nadleuon cynhyrfus y Dreth Eglwys, ac ar adegau o etholiad, ni byddai byth yn llechu yn y cysgod, ond cymerai ran amlwg, ac ni chywilyddiai arddel yr hyn a gredai oedd yn wirionedd.

Fel pregethwr yr oedd yn gryf a sylweddol, a chynwysai ei weinidogaeth "ymadrodd iachus, yr hwn ni ellir beio arno." Gwasgarog oedd ei arddull, ac nid oedd unrhyw goethder yn ei iaith, na dillynder yn ei frawddegau, ond hynodid ef gan nerth a ffraethineb. Ni byddai byth ball arno am eiriau, ac ar brydiau cariau ddylanwad grymus ar y rhai a wrandawent arno. Yr oedd rhyw gryndod yn ei lais, a phan y disgynai i ryw dôn wylofus, ac y gwelid y deigryn gloyw yn treiglo dros ei rudd, byddai yn nodedig o effeithiol, ac yr oedd y rhai a wrandawent arno yn barhaus yn teimlo ei fod yn wastad yn ei flas. Yn ystod ei weinidogaeth, fel y crybwyllasom yn hanes yr eglwys, cyfarfu a llawer o helbulon, a phan gofiom ei fod yn ddyn mor nodedig o synwyrol, a medrus i gyfarwyddo eraill mewn amgylchiadau dyrus, y mae yn syn genym iddo gael y fath drallodion. Nid ydym yn amheu na chyfarfyddodd a rhai dynion anhywaeth a drygionus; ond y mae rhai felly i'w cael yn aml mewn eglwysi lluosog yn y trefydd a'r gweithfeydd; ac nid ydym yn meddwl fod y rhai y daeth ef i gyffyrddiad a hwy, oddigerth ychydig eithriadau, yn waeth na'r rhai a geir yn gyffredin. Hwyrach nad ymddiriedodd ei hun yn ddigon llwyr i'w bobl, ac y cawsai gydymdeimlad mwy cyffredinol ped agorasai ei galon yn llawnach iddynt; ond y mae yn sicr fod ysbryd o anesmwythder, a gwrthryfel yn erbyn y weinidogaeth yn gryf iawn yn yr eglwysi ugain a deng-mlynedd-ar-hugain yn ol, wedi ei gynyrchu gan Siartiaeth a chynhyrfiadau cyffelyb, ac oblegid fod y fath annibynoldeb meddwl ac ysbryd yn Mr. Owens mae yn hawdd cyfrif pa fodd yr oedd yn dyfod i wrthdarawiad a chymeriadau felly. Ysgydwyd ei holl natur gan yr amgylchiadau a'u cyfarfu. Yr oedd yn naturiol yn ddyn bychan, crwn, cryf, iach, y fath fel y gallesid tybied nad ysigasid ef gan ddim. Ond y mae corwyntoedd ystormus yn ormod i'r derw cryfaf; ac y mae profedigaethau eglwysig cyn hyn wedi tristau ysbryd a gwanhau iechyd y gweinidogion cryfaf. Yn nechreu haf 1860, pan oedd cymylau duon uwchben eglwys Zoar, aeth Mr. Owens ar ymweliad dros ychydig at ei hen gyfaill Mr. D. Davies, yr hwn oedd y pryd hwnw yn aros heb fod yn mhell o gymydogaeth Llandaf; a thra yn aros gyda Mr. Davies cafodd ergyd o'r parlys. Gwellhaodd ychydig yn raddol, ond cyn ei fod braidd o'i wely, dyma "y cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw;" bu farw Mrs. Owens yn mis Awst ar ol hir wendid a nychdod, a dyma yr ergyd drymaf iddo etto, ac yr oedd ei chael yn ei wendid yn peri iddo ei theimlo yn drymach fyth. Gwaethygodd yn raddol ar ol hyn, fel y barnodd yn oreu yn mhen dwy flynedd i roddi ei ofal gweinidogaethol i fyny, a derbyniwyd ef ar Drysorfa yr Hen Weinidogion. Gwnaeth lawer cynyg ar ol hyn am adferiad. Ymwelodd

Digitized by Google

a'i ardal enedigol lle y derbyniodd lawer o garedigrwydd, ac ychydig o adloniant. Gwnaeth brawf ar oruchwyliaeth y dwfr oer yn Malvern, ond nid oedd un gobaith am ei adferiad, a gwaethygodd yn raddol fel y bu farw ddydd Mawrth, Awst 23ain, 1864, yn 54 oed, a chladdwyd ef y dydd Gwener canlynol, ac yr oedd y dorf fawr a'i dilynodd i dŷ ei hir gartref, yn brawf o'r parch dwfn oedd iddo gan y bobl y bu yn llafurio yn eu plith am wyth-mlynedd-ar-hugain.

## BETHESDA, MERTHYR TYDFIL.

Dechreuwyd yr achos hwn, fel y crybwyllasom yn hanes Zoar, yn y flwyddyn 1807, mewn canlyniad i'r terfysg a gyfodwyd yn yr eglwys yno gan nifer o bersonau ar ddychweliad y gweinidog, Mr. Daniel Lewis, adref o Lundain wedi bod yn casglu yno. Tybiai rhai o honynt fod y treuliau cysylltiedig a'r casglu yn ormod, er nad oedd gan yr un o honynt ddim dirnadaeth pa faint a ddylasai y costau fod. Barnodd yr eglwys fod y treuliau yn deg a rhesymol, a chydolygai y gweinidogion cylchynol a phenderfyniad mwyafrif yr eglwys, a gofynid am ymostyngiad y rhai a awgryment fod unrhyw anhegwch wedi ei wneyd; ond yn hytrach nag ymostwng troisant allan i gychwyn achos arall yn y lle. Yn mysg y personau a ymadawsant a Zoar yr oedd Lewis Foster a'i wraig; John Salathiel a'i wraig; David Nicholas a'i wraig; David Jenkyn a'i wraig, (tad a mam Dr. Jenkyn); William Llwyd a'i wraig. Yr oedd rhai o'r personau hyn yn mysg cychwynwyr yr achos yn Zoar, ac yr oedd Lewis Foster a William Llwyd yn meddu cymhwysderau arbenig at gychwyn a dwyn yn mlaen achos newydd. Canmolir Lewis Foster ar gyfrif ei weithgarwch crefyddol, a'i ddoniau mewn gweddi; ac yr oedd gan William Llwyd allu nodedig i drin dynion a chael dylanwad drostynt. Cymerasant ystafell at gychwyn achos, heb fod yn mhell o'r fan lle y saif capel Salem yn awr. Galwyd y lle yn Philadelphia, a thrwyddedwyd ef at gynal gwasanaeth crefyddol gan David Nicholas, Mawrth 3ydd, 1808. Buont yn addoli yno am yn agos i flwyddyn, a chynyddodd yr achos i'r fath raddau fel yr aeth y lle yn rhy gyfyng, a bu raid chwilio am ystafell helaethach. Cafwyd llofft perthynol i efail gof, rhwng Zoar ac afon Morlais, a galwyd y lle hwnw Beth-haran, a thrwyddedwyd ef gan David Nicholas yn llys Llandaf Chwefror 6ed, 1809.* Pan oedd yr eglwys ar symud i Beth-haran, rhoddwyd galwad i Mr. Methuselah Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn Llangynwyd, a dechreuodd ei weinidogaeth yma cyn diwedd y flwyddyn 1808. Nid oedd rhifedi yr aelodau ond pedwar-ugain-a-deg, ac i gyd yn dlodion; ond adfywiodd yr achos yn fawr wedi sefydliad Mr. Jones yn y lle. Meddyliwyd am gael capel newydd, a chafwyd darn o dir ar brydles gan Mr. W. Morgan, Grawen, am 5p. y flwyddyn o ardreth. Adeiladwyd y capel yn nechreu y flwyddyn 1811, a thrwyddedwyd ef yn llys Llandaf Gorphenaf 23ain, 1811, gan Mr. M. Jones, y gweinidog. Bu gweinidogaeth Mr. Jones yn dra llwyddianus yn y capel newydd. Dywedir iddo yn ystod ei weinidogaeth dderbyn tua thair mil o aelodau, a bu yn foddion i blanu eglwysi newyddion yn Dowlais, Cefn-coed-y-cymer, a Throedyrhiw. Erbyn y flwyddyn

* Cofnodion llys Llandaf.

1829, yr oedd capel Bethesda wedi myned yn rhy fychan, ac adeiladwyd y capel helaeth presenol, yr hwn a gostiodd 1002p. Bu Mr. Jones farw Ionawr 15fed, 1839, yn 71 oed.

Yn y flwyddyn 1840, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Daniel Jones, yr hwn dair blynedd cyn hyny oedd wedi ei urddo yn weinidog yn Carmel, Tresimwn. Dechreuodd Mr. Jones ei weinidogaeth yma dan amgylchiadau ffafriol iawn, pan yr oedd lluaws yn dyfod i'r lle o siroedd Aberteifi a Phenfro; ac yr oedd ei fod yntau yn adnabyddus yn y siroedd hyny yn peri iddynt gyfeirio ato i Bethesda. Yr ail flwyddyn wedi ei symudiad yma bu dan yr angenrheidrwydd poenus o oddef tori ymaith ei fraich ddeheu, ac yn yr adeg hono dangosodd yr eglwys garedigrwydd neillduol iddo, a thynerwch mawr tuag ato. Yr oedd Bethesda bob amser yn nodedig am gynnulleidfa luosog, ac yr oedd llawer o wres a theimlad yn yr eglwys, ac weithiau torai allan yn orfoledd cyhoeddus. Sychwyd llawer ar ireidd-dra ysbryd yr eglwys yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones. Nid oedd nodwedd ei bregethau y mwyaf manteisiol i feithriniad teimlad crefyddol dwfn. Gwisgent ryw wedd ddyledswyddol fynychaf, ac yr oedd yn aml fwy o dôn moesoldeb nac efengyl ynddynt. Yn ychwanegol at hyny, dygodd gyfarfodydd adroddiadol a chystadleuol i gysylltiad a'r Ysgol Sabbothol a'r eglwys, ac yr oedd yn un o'r rhai cyntaf yn y wlad i ddwyn y pethau hyn i'r capeli; ac er yn ddiau iddynt wneyd llawer i greu ysbryd ymchwilgar mewn lluaws o bobl ieuaingc, etto nid ymddengys ddarfod iddynt fod o nemawr help i feithriniad crefydd ysbrydol yn yr eglwys. Cynyddodd yr eglwys yn fawr mewn rhif yn ystod ei weinidogaeth; ac ar adeg ymweliad y geri marwol a'r dref yn y flwyddyn 1849, ychwanegwyd canoedd at yr eglwys. Bu Mr. Jones yma hyd ddiwedd y flwyddyn 1855, pryd y gadawodd Ymneillduaeth ac y trodd at yr Eglwys Wladol, lle y bu hyd ei farwolaeth.

Wedi bod am dymor heb weinidog, cymerodd Mr. Rhys Gwesyn Jones, Penybont-ar-ogwy, ofal yr eglwys Hydref 3ydd, 1858. Yn yr adeg yma safodd gwaith Penydarren, ar yr hwn yr ymddibynai llawer o'r gynnulleidfa, fel y bu raid iddynt ymadael a'r lle; ac oblegid hyny, yn nghyd a rhyw amgylchiadau eraill, lleihaodd yr eglwys i raddau mawr yn nhymor gweinidogaeth Mr. Gwesyn Jones. Ond bu ef yma hyd wanwyn y flwyddyn 1867, pryd yr ymfudodd i Utica, America.

Yn mhen y flwyddyn rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Job Miles, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac oblegid fod ganddo flwyddyn cyn gorphen ei dymor yn yr athrofa, penderfynasant ddisgwyl wrtho. Urddwyd ef Mehefin 21ain a'r 22ain, 1869. Gan mai dyma yr unig urddiad a fu yn Bethesda, rhoddir ei hanes yn llawn yma fel yr ymddangosodd yn y *Tyst Cymreig*, Gorphenaf 2il, 1869:—"Nos Lun a dydd Mawrth 21ain a'r 22ain, cynhaliwyd cyfarfodydd mewn cysylltiad ag urddiad Mr. Job Miles, yn Bethesda, Merthyr. Nos Lun, dechreuwyd gan Mr. Miles Morgan, a phregethwyd gan y Parchn. W. I. Morris, Pontypridd, a W. Edwards, Aberdar. Dydd Mawrth am 10, dechreuwyd gan y Parch. W. C. Davies, Llantrisant, a phregethwyd gan y Parch. W. Roberts, athraw clasurol coleg Aberhonddu, ar natur eglwys; holwyd y gofyniadau gan y Parch. J. Morris, athraw duwinyddol y coleg, ac atebwyd hwy gan yr urddedig yn eglur, cryno, a boddhaol; gofynwyd yr arwydd o du y gweinidog, ac o du yr eglwys gan y Parch. W. Edwards, Aberdar; offrymwyd yr urdd-weddi gan y Parch. W. Williams, Hirwaun; yna pregethwyd i'r gweinidog gan

Digitized by Google

y Parch. H. Oliver, B.A., Casnewydd, ac i'r eglwys gan y Parch. J. Davies, Taihirion. Am 2 o'r gloch, dechreuwyd gan y Parch. J. Thomas, Salem, Aberdar, a phregethwyd gan y Parchn. J. Morris, Aberhonddu yn Seisnig, ac R. Morgan, Glynnedd. Yn yr hwyr, dechreuwyd gan y Parch. R. Griffith, Cefn, a phregethodd y Parchn. L. Probert, Bodringallt, ac H. Oliver, B.A., Casnewydd." Mae Mr. Miles yn parhau i lafurio yma, a'r achos yn myned rhagddo yn gysurus; ac er i'r eglwys fod yn lluosocach ar adegau yn flaenorol, ni bu erioed gymaint o waith sylweddol yn cael ei wneyd. Mae teimlad cryf yn awr dros ailadeiladu y capel; ac ni bydd y baich ond ysgafn i eglwys unol a gweithgar fel Bethesda.

Cyfodwyd y personau canlynol i bregethu yn Bethesda:—

Thomas William Jenkyn. Daw ei hanes ef dan ein sylw etto.

David Beynon. Dechreuodd bregethu yr un pryd a T. W. Jenkyn. Urddwyd ef yn Mon, ac y mae yn awr yn byw yn Nantgarw.

Daniel Roberts. Urddwyd ef yn Bryn Seion, Dowlais, lle y daw ei hanes dan ein sylw.

John Jones. Mab yr hen weinidog, Mr. M. Jones. Urddwyd ef yn Rhydri, mae yn awr yn Pentyrch.

Richard Evans. Urddwyd ef yn Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer.

Walter Williams. Urddwyd yntau yn Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer. Bydd genym ychydig o hanes y ddau pan ddeuwn at yr eglwys yno.

John Williams. Bu yn hir yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys, ac y mae yn awr yn Nghwmaman, sir Gaerfyrddin.

John Francis, Thomas Evans, a Thomas Davies. Nid oes genym ond eu henwau, ond deallwn fod y tri wedi marw.

John Williams. Urddwyd ef yn Llanberis, ac y mae yn awr yn byw yn Abertawy.

Evan Phillips. Nid yw yn pregethu yn bresenol.

Lewis Thomas, Thomas Evans, ac Ebenezer John. Aeth y tri i America.

John Williams. Bu am dymor yn athrofa Aberhonddu, ond enciliodd i'r Eglwys Sefydledig, ac y mae yn awr yn un o is-ganoniaid Tyddewi.

Thomas Jones. Urddwyd ef yn Middlesboro', ac y mae yn awr yn Llandderfel, Meirionydd.

Thomas Jenkins. Urddwyd ef yn Sarnau, Maldwyn, lle y mae etto.

Edward Miles. Urddwyd ef gyda'r Saeson yn Awstralia.

William George. Mae yn bresenol yn Nghaerdydd.

Thomas Rees. Mae yn parotoi ar gyfer myned i'r athrofa.

John Rogers. Mae yn aros yn bregethwr yn yr eglwys.

Bu yma lawer eraill yn aelodau o bryd i bryd, ond ar ol myned oddiyma y dechreuasant bregethu; a daeth yma rai pregethwyr o eglwysi eraill. Mae dau o'r cyfryw yma yn awr, sef Howell Davies, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn Ffynonddrain, gerllaw Caerfyrddin, ac Elias Maurice, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn Nhrefgarn, Penfro.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Methusalem Jones. Ganwyd ef yn mhlwyf Llandyfriog, sir Aberteifi, yn mis Awst, 1769. Ni chafodd nemawr fanteision addysg pan yn blentyn, yr hyn a fu o anfantais iddo trwy ei oes. Pan yn un-ar-ddeg oed collodd ei dad, ond syrthiodd i ofal modryb iddo, sef Mrs. Parry, Llwyncadfor; a

Digitized by Google

chafodd yno ymgeledd ac addysg. Cyn ei fod yn 15 oed rhoddwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu bod yn grydd, a bu yn dilyn ei alwedigaeth am y rhan fwyaf o'i oes. Bu yn help iddo i gynal ei deulu lluosog pan nad oedd yr hyn a dderbyniai oddiwrth y weinidogaeth yn ddigon i hyny. Yr oedd o dymer naturiol fywiog a llawen, yr hyn a'i gwnai yn gydymaith dyddan, ac a roddai iddo y flaenoriaeth yn mhob cymdeithas lle y byddai, a chan fod ganddo gôf da a gallu nodedig i adrodd hanesion difyr, yr oedd yn dderbyniol gan ei holl gyfoedion. Arferai wrando yr efengyl bob amser, ond yr oedd yn llawn 20 oed cyn teimlo ei dylanwad grymus ar ei galon, ond bu yn hir yn ymgyndynu heb broffesu crefydd, hyd ryw Sabboth wrth wrandaw Mr. D. Peter, Caerfyrddin, yn pregethu ar ddiffodd yr Ysbryd, gwnaeth ei feddwl i fyny i beidio oedi yn hwy. Ymunodd a'r eglwys yn Saron, Llangeler, lle y cafodd bob help ac ymgeledd, a dangosodd yn fuan fod ynddo gymhwysder i wneyd gwaith mawr dros ei Arglwydd. Cymhellwyd ef cyn hir i arfer ei ddawn i bregethu, yr hyn a wnaeth wedi ei hir anog, ac yr oedd y poblogrwydd buan a gyrhaeddodd yn profi ei fod wedi ei godi gan Dduw i'r gwaith. Daeth gwahoddiadau iddo i bregethu yn fisol yn Ffaldybrenin, Crygybar, a Chapel Isaac, a chyrchai yn rheolaidd i'r lleoedd hyny, lle y rhoddid iddo groesaw mawr Pan yn 25 oed priododd a Jane, merch David Evans, Felingyrnos, sir Aberteifi; yr hon oedd er yn ieuangc yn aelod hardd o'r eglwys yn Horeb. Aeth ar daith i ymweled a rhai o eglwysi sir Forganwg; a derbyniodd alwad gan yr eglwysi bychain oeddynt newydd eu ffurfio yn Llangynwyd a Cymer-glyn-corwg, ac urddwyd ef yno yn y flwyddyn 1800. Llafuriodd yno am wyth mlynedd, a bu yn ddefnyddiol iawn trwy yr holl wlad oddiamgylch. Ymwelai yn rheolaidd a'r Maendy, a phregethai yn gyson mewn anedd-dai ar ei ffordd o'r Maendy i Langynwyd. Bu o ddefnydd mawr yn Brynmenyn a'r cylchoedd; ac nis gwybyddir hyd y dydd diweddaf pa faint o ddaioni a wnaeth yn yr ardaloedd hyny.

Yn 1808, derbyniodd alwad gan eglwys fechan oedd yn cyfarfod mewn llofft yn nglyn a gefail gof yn Merthyr Tydfil, a symudodd yno, a bu ei lafur yn dra derbyniol. Cyn pen tair blynedd adeiladodd gapel Bethesda. a gwelodd hwnw yn myned yn rhy fychan, fel y bu raid adeiladu yr addoldy eang sydd yno yn awr. Helaethodd derfynau ei lafur i Dowlais, Rhymni, Troedyrhiw, a Chefn-coed-y-cymer, a thrwy ei lafur ef yn benaf y sefydlwyd eglwysi yn y lleoedd hyn. Treuliodd yn Bethesda un-mlynedd-ar-ddeg-ar-hugain, ac yn yr ysbaid hwnw dywedir iddo dderbyn tair mil o aelodau. Cadwodd wres ar aelwyd yr eglwys ei holl ddyddiau; ac yr oedd heddwch yn wastad rhwng yr aelodau. Er na chafodd lawer o dda y byd hwn, etto ni bu arno eisiau dim, a magodd i fyny wyth o blant. Mab iddo ef yw Mr. John Jones, gweinidog Pentyrch a Thongwynlas. Er ei fod yn ddyn o gyfansoddiad cadarn, etto dirwynodd ei ddyddiau i ben; ond mwynhaodd yn helaeth o dangnefedd yr efengyl yn ei ddyddiau olaf. Hunodd yn yr Iesu Ionawr 15fed, 1839, yn 71 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Bethesda y dydd Sadwrn canlynol; a gweinyddwyd yn ngwasanaeth y claddedigaeth gan Meistri T. B. Evans, Ynysgau; J. Hughes, Dowlais; J. Thomas, Adulam, a B. Owens, Zoar.

O ran corph yr oedd Methusalem Jones yn ddyn nodedig o fawr a hardd. Yr ydoedd dros chwe' troedfedd o daldra, ac yn gadarn o wneuthuriad. Er ei fod yn dal ac esgyrniog, yr oedd yn rhyfeddol o luniaidd a phrydferth yr olwg arno, heb fod yn rhy dew na rhy denau. Yr oedd yn bregethwr

ymarferol o effeithiol. Er nad oedd unrhyw ragoriaeth yn ei alluoedd meddyliol, medrai ddyweyd yr hyn fyddai ganddo i'w ddyweyd mor ddylanwadol ag un dyn a wrandawsom erioed. Yr oedd ei lais yn ystwyth a pherseiniol, a'i nerth, fel ei gorph, yn fawr iawn. Llefarai bob amser yn y cywair lleddf, a buasai yn rhaid fod ei wrandawyr yn galedach na'r cerig cyn na buasent yn toddi fel yr ymenyn yn ngwres yr haul pan y buasai ef yn ei hwyl. Gwelsom ef lawer gwaith yn gosod cynnulleidfaoedd mawrion yn foddfa o ddagrau pan y buasent yn gwrandaw y gwirioneddau mwyaf syml yn cael eu traddodi ganddo, ie gwirioneddau, cyffelybiaethau, neu fan hanesion, y buasai degau o honynt wedi ei wrandaw yn eu traddodi lawer gwaith cyn hyny. Yr oedd ei ddawn digyffelyb yn medru rhoddi agwedd a gwisg newydd i hen wirioneddau, nes y buasent mor swynol a'r waith gyntaf y gwrandawsid hwy.

Er i bobl ei ofal wneyd cam dirfawr ag ef ac a'i oes wrth gadw y fath bregethwr galluog a phoblogaidd gyda galwedigaeth fydol agos trwy ei holl fywyd, trwy beidio cyfranu yn ol eu gallu at ei gynhaliaeth, etto ni ddarfu i nemawr o weinidog yn ei ddydd ef yn Morganwg, oddigerth David Davies, Abertawy, wneyd cymaint ag a wnaeth ef tuag at helaethu terfynau yr enwad Annibynol. Iddo ef yn bennaf y mae dechreuad yr eglwysi yn Seion, Rhymni, Bethania, Dowlais, Ebenezer, Aberdar, Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer, a Throedyrhiw, i'w briodoli, a chymerodd ran helaeth yn nygiad yn mlaen yr achosion yn Nhredegar a Chendl. Yr oedd yn orlawn o ysbryd cenhadol, ac yn wastad yn cynllunio rhyw fesurau er gweithio achos ei Arglwydd yn mlaen. Pe cawsai ei osod mewn amgylchiadau bydol mwy ffafriol, er cymaint o ddaioni a wnaeth, mae yn ddiameu y buasai yn gwneyd llawer mwy. Nid oedd mwy nag eraill heb ryw wendidau ynddo, ond brychau bychain ar haul dysglaer oeddynt. Mae ei goffadwriaeth yn anwyl i'r dydd heddyw gan ganoedd, fel y teilynga, er ei fod bellach er's mwy na deng-mlynedd-ar-hugain yn ei fedd.

DANIEL JONES. Dygwyd ef i fyny yn nghymydogaeth Castellnewydd-Emlyn. Bu yn yr ysgol yn Llanboidy dan ofal Mr. W. Davies, Rhydyceisiad. Urddwyd ef yn Carmel, Tresimwn, fel y crybwyllasom yn hanes yr eglwys hono; ac yn y flwyddyn 1840, daeth i Bethesda, Merthyr, lle y bu am bymtheng mlynedd. Yr oedd llawer o ragoriaethau yn Mr. Jones, ac ar un adeg bu yn dderbyniol a phoblogaidd fel pregethwr. Yr oedd ganddo barabl croyw a naturiol, ac yr oedd llawer o dynerwch yn ei lais, fel y byddai ar brydiau yn dra effeithiol. Ar faterion ymarferol y pregethai oreu, a byddai ganddo ddywediadau miniog a bachog iawn. Nid oedd ond ychydig o'r hyn a elwir yn briodol yn *efengyl* yn ei bregethau, ond yr oeddynt yn llawnion iawn o wersi moesol a chymdeithasol, y rhai y mae eu dysgu yn hanfodol i grefydd.

Llac a chymysglyd oedd ei olygiadau duwinyddol, ac weithiau traethai syniadau amrwd ac anaddfed iawn. Nid rhyw lawer o hyder fu gan ei frodyr gweinidogaethol ynddo o gwbl. Proffesai ei hun yn Annibynwr mawr, a siaradai bob amser yn ddirmygus am gynadleddau gweinidogion a phob symudiad cyhoeddus; a pha bryd bynag y cyfodai cynen rhwng gweinidog a'i eglwys, byddai ei gydymdeimlad ef bob amser gyda'r bobl, fel pe buasai cefnogi gwrthryfel yn reddfol ynddo. Byddai pleidiau anesmwyth mewn eglwysi yn wastad yn cyfrif ar ei gefnogaeth ef, a rhoddai yntau ei nodded iddynt dan gochl rhyddfrydigrwydd a gofal am ryddid a

hawliau y bobl; ond profodd ei waith yn gwerthu Ymneillduaeth pa faint o bwys oedd i'w roddi ar y broffes hono. Meddyliodd y gallasai gario y rhan fwyaf o eglwys Bethesda gydag ef drosodd i'r Eglwys Wladol, ond profasant pan ddaeth y dymestl nad "plantos yn bwhwman" oeddynt. Gorfu arno fyned wrtho ei hun, ac efe a ymadawodd heb hiraeth am dano. Dywedir iddo fyned yn gul a rhagfarnllyd ei ysbryd at Ymneillduwyr wedi iddo eu gadael; ac er iddo gyrhaedd dyrchafiadau eglwysig, ac ymgodi i gryn boblogrwydd yn mysg ei gyfeillion newydd, etto ymddangosai i ni bob tro y gwelsom ef fel dyn yn ymwybodol ei fod wedi gadael yr hen ffordd dda yn yr hon y magesid ef. Dyledus yw i ni ddyweyd am dano ei fod yn ddyn o gymeriad moesol diargyhoedd, ac iddo weithio ei ffordd trwy lawer o anfanteision. Bu farw yn Llandudoch, gerllaw Aberteifi, tua dwy flynedd yn ol.

## BETHANIA, DOWLAIS.

Yr oedd rhai aelodau Annibynol yn preswylio yn Dowlais er yn foreu, y rhai a elent i lawr i Ferthyr, a chyn hyny i Gwmyglo i addoli. Yr oedd Mr. Richard Rees, un o'r gweinidogion, am yr hwn y crybwyllasom yn nglyn ag Ynysgau, yn byw yn Gwernllwynuchaf, ac yr oedd teulu y Gwernllwynisaf, fel y gwelsom, yn flaenllaw gyda'r achos yn Ynysgau; ond ni wnaed un cynyg i sefydlu achos yma yn nyddiau y genhedlaeth hono. Tua'r flwyddyn 1820, yr oedd yma gryn nifer o aelodau, rhai yn perthyn i Zoar a rhai yn perthyn i Bethesda. Cynalient gyfarfodydd gweddio o dŷ i dŷ, a deuai ambell i bregethwr yn achlysurol atynt. Yn y flwyddyn 1822, yr oedd yma gapel, yr hwn a elwid Bethel, yn segur, a chafwyd ei wasanaeth i gynal moddion yn rheolaidd bob nos Sabboth. Yr oedd capel Bethel wedi ei godi gan un William Price, yr hwn a fuasai yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Capel Isaf, Merthyr; a gwnaeth gynyg i gychwyn achos i'r Bedyddwyr ynddo, ond bu yn aflwyddianus. Byddai yn ei osod ar ardreth, a bu y Methodistiaid Calfinaidd a'r Annibynwyr yn addoli ynddo ar wahanol amserau; a chymerwyd ef yn yr adeg yma gan yr aelodau Annibynol oedd yn y lle. Ffurfiwyd yma eglwys gan Mr. Methusalem Jones, Bethesda, a bu ei gofal arno dros ryw gymaint; ond oblegid rhyw anghydwelediad rhoddodd hi i fyny, a chymerwyd ei gofal gan Mr. S. Evans, Zoar. Ni buwyd yn hir ar ol hyn cyn edrych allan am dir i adeiladu capel i fod yn eiddo i'r eglwys, ac nid aros yn nghapel ardrethol Bethel. Cafwyd tir ac adeiladwyd capel arno, yr hwn a alwyd Bethania, ac wedi ei gael yn barod symudodd yr eglwys iddo. Yn fuan wedi cael capel newydd lluosogodd yr eglwys a'r gynnulleidfa, a rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Jones, myfyriwr o athrofa y Drefnewydd, yr hwn a urddwyd yma Mawrth 23ain, 1826. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. T. B. Evans, Ynysgau; holwyd y gofyniadau gan Mr. S. Evans, Zoar; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Lewis, Tredwstan; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. M. Jones, Bethesda, ac i'r eglwys gan Mr. D. Lewis, Aber. Llai na dwy flynedd y bu Mr. Jones yma cyn i ryw anghydfod i godi rhyngddo ef a'r eglwys, a'r diwedd fu iddo ef a nifer o'r aelodau a lynent wrtho i ymadael a myned i Bethel i gychwyn achos arall, yr hwn a ddaw etto dan ein sylw. Yn yr amgylchiad yma cymerodd Mr. S. Evans, Zoar, ofal yr eglwys, a than ei ofal ef, a'r pregethwyr a'i cynorthwyent, y bu hyd ddydd ei farwolaeth.

Digitized by Google

Wedi marwolaeth Mr. Evans rhoddodd yr eglwys yma alwad i Mr. John Hughes, Maendy, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Rhagfyr 1833. Bu Mr. Hughes yn dra llwyddianus yma, cynyddodd yr eglwys a'r gynnulleidfa i'r fath raddau fel erbyn 1838, y barnwyd yn angenrheidiol codi y capel eang a helaeth presenol, yr hwn a gostiodd 1000p. Agorwyd ef yn 1839. Yn mhen deng mlynedd, wedi yr ychwanegiad mawr a gafwyd at yr eglwysi pan yr ymwelodd y geri marwol a'r wlad, aeth Bethania yn rhy gyfyng er eanged ydoedd; a phenderfynwyd codi capel newydd, yr hyn a wnaed yn 1850, a galwyd ef Gwernllwyn; ac aeth mwy na 250 o aelodau allan yn heddychol i ddechreu yr achos yno. Nid effeithiodd ymadawiad cynifer ond ychydig ar Bethania, oblegid llanwyd yn fuan leoedd y rhai a ymadawsant. Yn 1855, codwyd ysgoldy perthynol i Bethania yn Mhwll-y-chwiaid, lle y cynhelir Ysgol Sabbothol a phregethu achlysurol. Yn 1860, gwnaed adgyweiriadau ar y capel, a rhoddwyd pulpud newydd eang ynddo. Costiodd y cwbl yn agos i dri chant a haner o bunau. Yn 1864, teimlodd Mr. Hughes fod ei iechyd yn pallu, a phenderfynodd roddi i fyny ofal yr eglwys dros yr hon y bu yn gwylio yn ofalus am fwy na deng-mlynedd-ar.hugain; ac i'r hon y derbyniodd ddwy fil o aelodau. Gwnaed tysteb iddo ar roddiad ei weinidogaeth i fyny gan eglwys Bethania a chyfeillion iddo y tu allan iddi. Wedi ymadawiad Mr. Hughes, bu yr eglwys am bedair blynedd heb sefydlu ar weinidog, ac yn yr ysbaid hwnw mwynhaodd ddoniau cynifer a chant a phedwar-ar-ddeg-a-deugain o wahanol bregethwyr, heb gyfrif y rhai a ymwelent a'r lle yn achlysurol ar nosweithiau o'r wythnos. Yn yr ysbaid yma derbyniwyd dros 300 o aelodau, a thalwyd 220p. o ddyled y capel. Yn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. John Evans, myfyriwr o athrofa Aberhonddu. Yr un flwyddyn hefyd y paentiwyd y capel ac yr adeiladwyd ysgoldy eang wrth ei ochr er cynal Ysgol Sabbothol a moddion wythnosol, ac aeth yr holl draul yn bedwar cant o bunau. Urddwyd Mr. Evans Medi 19eg, 1867. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Proff. Roberts, Aberhonddu; holwyd y gofyniadau gan Proff. Morris, Aberhonddu; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Williams, Hirwaun; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Elim, Tredegar, ac i'r eglwys gan Mr. D. Jones, B.A., Merthyr. Gweinyddwyd hefyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan Meistri D. Thomas, Abercanaid; J Thomas (Ieuan Morganwg), Caerfyrddin; D. Thomas, Ystradfellte; R. Evans, a D. Price, Aberdar; J. Rogers, Pantteg, a D. A. Jones, Cefn-coed-y-cymer. Mae yr achos yn parhau i fyned rhagddo. Ychwanegwyd at yr eglwys yn y tair blynedd diweddaf, a chyfrif y rhai a ddaeth trwy lythyrau, ddau cant a deugain o aelodau; ac yn yr un adeg y mae yn agos i 850p. wedi eu talu at dreuliau y lle. Bwriada yr eglwys yn awr osod maen hardd i fyny er coffadwriaeth am ei diweddar weinidog, Mr. Hughes.

Mae eglwys Bethania wedi bod bob amser yn nodedig am ei heddychlonrwydd a'i brawdgarwch; ac y mae yn dda genym ddeall fod y rhinweddau hyn yn parhau ynddi. Bu ynddi o bryd i bryd lawer o gymeriadau nodedig am eu gweithgarwch a'u gofal am achos yr Arglwydd; ond y mae yr hen dô hwnw oll wedi myned, ond y mae dynion o gyffelyb feddwl yn aros, y rhai a wir ofalant am achos yr Arglwydd.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Benjamin Evans. Urddwyd ef yn Caerlleon-ar-wysg. Symudodd oddi yno i Loegr, ac oddiyno i America.

Digitized by Google

James Rees. Symudodd oddiyma i sir Gaerfyrddin. Byr fu ei oes fel pregethwr.

Thomas Jeffreys. Urddwyd ef yn Saron, Penycae, lle y mae etto.

David Davies. Mae ef yn parhau yn bregethwr cynorthwyol yma.

John Richards. Dechreuodd bregethu yn 1837, ac ymfudodd i America.

John Thomas. Urddwyd ef yn New-castle-on-tyne, lle y bu am ychydig, ond y mae wedi marw er's blynyddau.

Daniel Jones. Trodd allan yn siomedig. Mae etto yn fyw ond heb un cysylltiad rhyngddo a chrefydd.

Benjamin Davies. Urddwyd ef yn New-castle-on-tyne, ac ymfudodd i America, lle y bu farw.

Thomas Davies. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac y mae yn awr yn Siloa, Llanelli.

Josuah Davies. Bu yn fyfyriwr yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn New Market, lle y bu farw. Bydd genym ychwaneg am dano pan ddeuwn at yr eglwys hono.

David Evans. Bu yn yr ysgol yn Mhontypridd, ac nis gwyddom ragor o'i hanes.

David Griffiths. Bu yn efrydydd yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Cwmdar, lle y mae etto.

David Davies. Bu yn athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef yn Waunfawr, ac y mae yn awr yn Abercwmboy.

Benjamin Hughes. Mae yn awr yn fyfyriwr yn athrofa y Bala.

William Davies. Mae yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

David Polly. Mae ef yn bregethwr yn awr yn Bethania.

Bu amryw eraill a aeth i'r weinidogaeth yn aelodau yn Bethania; rhai o'r rhai a hunasant, ac y mae rhai yn aros, ond daw eu hanes dan ein sylw yn yr eglwysi lle y dechreuasant bregethu.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

John Hughes. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Capel Iwan, Chwefror 8fed, 1800. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys yno pan yn ddwy-ar-bymtheg oed, gan Mr. Morgan Jones, Trelech; a chyn hir anogwyd ef gan yr eglwys a'r gweinidog i ddechreu pregethu. Aeth i athrofa y Neuadd-lwyd, lle yr arosodd rai blynyddau dan addysg Dr. Phillips. Bu diwygiad grymus yn sir Aberteifi yn y cyfnod hwnw, a chyfranogodd yntau i fesur helaeth o'r ysbryd. Urddwyd ef yn y Maendy yn 1824, wedi ymadawiad Shadrach Davies i America. Llafuriodd yno gyda chymeradwyaeth mawr am naw mlynedd, nes yn 1833 y sefydlodd yn Bethania, Dowlais. Nid oedd yn bosibl fod neb yn fwy cymwys i'r fath le poblog a chynyddol. Yr oedd fel wedi ei wneyd gan Ragluniaeth i'r fan. Pregethwr cryno, cyfan, blasus, a gafaelgar dros ben ydoedd. Ni byddai byth yn amcanu at bethau mawr, ac etto yr oedd ganddo bob peth i foddhau y dosbarth mwyaf deallus o'i wrandawyr, a hyny heb i'r rhai gwanaf eu cyrhaedd-iadau ei deimlo yn feichus. Pregethwr byr ydoedd. Dechreuai yn bwyllog gan eirio ei frawddegau yn ofalus a gochelgar. Yr oedd yn hawdd i'r craffus ddeall fod llawer o *art* yn ei draddodiad, ond yr oedd wedi hir gynefino ei hun a'r arddull a fabwysiadodd nes yr oedd wedi dyfod yn hollol

Digitized by Google

naturiol iddo. Credwn mai angenrhaid a osodwyd arno oblegid ei wendid corphorol i gaethiwo ei hun felly, canys yr oedd ynddo ddigon o wres a bywiogrwydd i beri iddo dori trwy y cwbl, ond ei fod yn gweled fod yn rhaid iddo wneyd yn ol ei farn, ac nid yn ol ei deimlad. Fel y byddai yn gwresogi codai ei lais yn raddol, ac wedi iddo ddyfod i'w bwynt uchaf rhoddai ychydig o ergydion cryfion a chyffrous, am y rhai y gofalai erbyn pob pregeth; ac yna terfynai gan adael pob peth yn ei flas. Anaml y methai yn ei ergyd. Yn wir nid oedd un o'i gyfoedion yn sicrach nag ef o'i nod. Er fod rhai o honynt yn gryfach fel meddylwyr, ac eraill yn fwy doniol fel canwyr a bloeddwyr, etto anaml y rhoi yr un o honynt fwy o foddlonrwydd i luaws y gwrandawyr nag y rhoddai ef. Os ymgodai rhai o honynt yn uwch weithiau, disgynant hefyd yn is o lawer ar amserau eraill. Yr oedd gwastadrwydd mawr yn ei bregethau, yr hyn a'i gwnai yn dderbyniol gan bob dosbarth o wrandawyr. Casglodd yn nghyd, a chadwodd gyda'i gilydd am dymor hir un o'r cynnulleidfaoedd lluosocaf a feddai yr enwad yn sir Forganwg.

Yn ei berthynas a phobl ei ofal, diohon na fu gweinidog erioed yn fwy dibrofedigaeth. Yr oedd yn nodedig am ei gallineb. Nid cyfrwysdra sarffaidd a olygwn, ond synwyr cyffredin cryf wedi ei gyd-dymeru a diniweidrwydd pur. Nid ymrysonai a neb, a gwyddai yn dda pa fodd i drin dynion, a hyny heb ymostwng yn wasaidd iddynt. Ni chadwodd un gweinidog yn ei oes urddas y weinidogaeth yn deilyngach. Yn ystod y blynyddoedd y bu yn Dowlais, gwelodd lawer o ystormydd yn cynhyrfu y wlad, ac yn terfysgu yr eglwysi, ond hwyliodd ef ei lestr yn ddiogel rhwng y creigiau peryglus, a hyny heb dynu llawer o ŵg ac anfoddlonrwydd dynion ar y naill law, ac heb fradychu unrhyw egwyddor ar y llaw arall. Yr oedd ysbryd Siartiaeth yn gryf yn y wlad ar un adeg yn ei dymor ef, ac yr oedd yr un ysbryd wedi lefeinio yr eglwysi i raddau helaeth; ond trwy ei synwyr a'i garedigrwydd diangodd heb ddyoddef ond ychydig oddiwrtho. Bendithiwyd ef a gwraig ddoeth a synwyrol—un wedi ei gwneyd i fod yn wraig gweinidog—ac yn wraig i Mr. Hughes yn Dowlais. Yr ydym yn sicr fod rhan fawr o'i hapusrwydd gweinidogaethol ef i'w briodoli i'w chraffder a'i challineb hi. Hwyrach fod yr amgylchiadau cyffrous o dan ba rai y bu yn gweinidogaethu, a'r blinder y gwelodd weinidogion eraill yn ei ddyoddef, wedi peri ei fod braidd yn anymddiriedus yn ei bobl. Yr oedd amryw weinidogion a'u teuluoedd yn y rhanbarth yma o'r wlad, yn y cyfnod hwnw, yn cyfranogi o'r un ysbryd anymddiriedus yn y bobl, yr hyn, fel yr oedd yn ddigon naturiol, a genhedlodd y cyffelyb ysbryd anymddiriedol yn y bobl. Gwyddom fod yn haws dyweyd pa fodd i wneyd mewn amgylchiadau cyffrous, na gallu gwneyd pan yr arweinir ni iddynt; ond yn sicr dylai gweinidog fod "yn ddiofn" yn mysg pobl ei ofal, a dylai feddu digon o wroldeb i "draethu y gwirionedd gyda phob hyfder yn ddiwahardd." Yr oedd Mr. Hughes yn or-ochelgar i gadw ei hun yn glir o bob dadl wladol a duwinyddol, a diangc yn ddianaf ar bob cynen eglwysig a chyfundebol. Ymgadwai yn mhell oddiwrth bob peth dadleuol; ac yn nghanol yr holl ymrysonau a fu yn nghylch y "System Newydd," fel ei gelwid, rhodiai ef ar ganol y ffordd gan arfer geiriau cyffredin ac anamodol y Bibl. Nid oedd ynddo y gwroldeb a'r penderfyniad gofynol i fod yn ddiwygiwr; ac etto yr oedd ei gymeriad moesol yn loyw a diargyhoedd. Cofir ef yn hir gan y rhai a gawsant gyfle i'w glywed yn efengylu geiriau y bywyd tragwyddol, a bydd ei enw yn anwyl tra y

byddo y genhedlaeth bresenol yn fyw yn Morganwg. Yr ydym yn cofio rhai oedfaon nodedig a gafodd; ac nid anghofiwn, yn enwedig, yr anerchiad byr, cynhyrfus, a draddododd ar ddiwedd yr oedfa ddeg o'r gloch yn nghymanfa Cendl, yn y flwyddyn 1859. Aeth y cwbl yn chwilfryw mân cyn pen pum' munyd wedi iddo ddechreu llefaru. Yr oedd yr effeithiau fel toriad cwmwl llawn. Analluogwyd ef rai blynyddau cyn ei farwolaeth i gyflawni ei ddyledswyddau fel cynt, ac oblegid hyny rhoddodd ofal yr eglwys yn Dowlais i fyny yn 1864, a symudodd i Ferthyr i fyw, ac ymaelododd yn Zoar, i'r lle y cyrchai yn ei gerbyd bychan bob Sabboth tra y gallodd. Cyfyngwyd ef yn gwbl i'w dŷ am y gauaf diweddaf y bu fyw; a dydd Iau, Ebrill 7fed, 1869, ymadawodd "ei ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef;" a'r dydd Mawrth canlynol rhoddwyd ef i orwedd yn Cemetery Cefn-coed-y-cymer, lle yr erys hyd y boreu gogoneddus yr adgyfyd mewn nerth, heb deimlo dim oddiwrth y "mynych wendid" y bu drwy ei oes yn ddarostyngedig iddo.

## BRYNSEION, DOWLAIS.

Yn mhen llai na dwy flynedd wedi urddo Mr. Thomas Jones yn Bethania, cyfododd anghydfod rhyngddo a'r eglwys yn herwydd ryw gwynion a ddygid yn ei erbyn. Canlyniad yr ymryson fu i Mr. Jones, a rhyw nifer o'r rhai a'i pleidient, fyned allan o Bethania; ac am ryw ysbaid buont yn cyfarfod mewn ystafell yn y lle, a chyn hir cymerasant hen gapel Bethel, lle yr arferid addoli cyn codi Bethania. Nid rhyw lawer o lewyrch fu ar Mr. Jones yn Bethel, ac yn y flwyddyn 1829, ymadawodd ac aeth at y Bedyddwyr, gyda'r rhai y mae etto. Daeth i gryn gyhoeddusrwydd wedi uno a'r Bedyddwyr. Dewiswyd ef yn athraw yr athrofa yn Hwlffordd; ac yn y ddadl fythgofus yn Rhymni ar Fedydd, efe oedd yr arwr a ddygwyd allan gan y Bedyddwyr yn erbyn Mr. John Jones, Llangollen. Egwan iawn oedd yr achos yn Bethel yn parhau, ac ychydig o ffafr a roddid iddo gan y gweinidogion cylchynol, oblegid nad oedd yr amgylchiadau dan ba rai y cychwynwyd ef yn gwbl foddhaol. Cymerwyd gofal yr eglwys wedi ymadawiad Mr. Thomas Jones gan Mr. M. Jones, Bethesda, dros ychydig; ac yn y flwyddyn 1830, rhoddwyd galwad i Mr. John Morgan, myfyriwr o'r Neuaddlwyd, ac urddwyd ef Tachwedd 24ain a'r 25ain. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Lewis, Aber; holwyd y gofyniadau gan Mr. R. Howells, Baran; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. M. Jones, Bethesda; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. G. Griffiths, Ebenezer, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. T. B. Evans, Ynysgau.* Siriolodd yr achos i fesur wedi sefydliad Mr. Morgan yma, ond cyn pen pedwar mis daeth rhybudd oddiwrth gyfreithiwr yn Aberhonddu at yr eglwys yn galw arni dalu 27p. iddo yn ddioed neu golli y capel. Ymddengys ei fod wedi rhoddi benthyg yr arian i Mr. W. Price, yr hwn a adeiladodd y capel, ac yr oedd heb eu cael yn ol. Daeth Mr. Morgan a'r achos i'r cyfarfod chwarterol, a chafodd genad i fyned trwy sir Frycheiniog i gasglu, a chasglodd y swm gofynol a thalwyd y cyfreithiwr yn llawn, fel yr oedd Bethel yn rhydd.† O gylch yr amser yma torodd cangen allan oddiwrth y Bedyddwyr yn Nghaersalem, a chan nad oedd

* *Dysgedydd*, 1831. Tu dal. 86. † Llythyr Mr. J. Morgan.

Digitized by Google

gweinidogion yr enwad hwnw yn eu cefnogi, yr oeddynt yn ymwasgu at yr ychydig Annibynwyr oedd yn Bethel, er eu bod yn cynal eu gwasanaeth yn hollol ar wahan, etto yr oedd rhyw ogwyddiad ynddynt o'r ddau tu i ymuno a'u gilydd. Cymerwyd tir at adeiladu capel newydd yn y fan lle y saif Brynseion yn awr. Yr oedd Mr. Morgan erbyn hyn wedi gadael y lle, ac wedi ymsefydlu yn weinidog yn Lleyn, sir Gaernarfon. Y gangen a drodd allan o Gaersalem oedd a'r llaw flaenaf yn adeiladiad Brynseion; ond wedi ei gael yn barod unodd yr eglwys fechan yn Bethel a hwythau a'u gilydd, a ffurfiwyd hwy yn eglwys Annibynol gan Mr. T. B. Evans, Ynysgau; yr hwn a arferai ddyweyd ar ol hyny, "mai efe fu yn priodi yr ieir a'r chwiaid yn Dowlais a'u gilydd." Aeth amryw o'r Bedyddwyr mwyaf selog yn ol i Gaersalem wedi i bethau ddechreu oeri; ond arosodd y rhan fwyaf o honynt yn Brynseion, yn aelodau didramgwydd hyd eu diwedd. Bu gofal Brynseion dros dymor ar ol hyn ar Mr. Josuah Thomas, Adulam, Merthyr; ond o'r diwedd rhoddasant alwad i Mr. Daniel Roberts, yr hwn oedd eisioes yn byw yn y lle, ac yn dibynu ar ei fasnach am ei gynaliaeth, ac wedi pregethu llawer iddynt er sefydliad Mr. John Morgan yn y lle. Aelod a phregethwr perthynol i Zoar oedd Mr. D. Roberts, er ei fod yn byw yn Dowlais. Urddwyd ef Mai 23ain a'r 24ain, 1836. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. P. Griffiths, Llanrwst; derbyniwyd cyffes ffydd yr urddedig gan Mr. J. Ridge, Cendl; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. L. Powell, Caerdydd; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. T. Davies, Abertawy, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. D. Griffiths, Castellnedd.* Nid oedd yr achos ond bychan pan y cymerodd Mr. Roberts ei ofal; 45 oedd rhif yr aelodau, ac nid oedd ond un gwrandawr ar yr oriel y Sabboth cyntaf y pregethodd, a llafuriodd yn ddyfal cyn gweled nemawr o lwyddiant. Yr oedd yr amgylchiadau o dan ba rai y cychwynodd yr achos, a'i hanes flaenorol yn mhell o fod yn ffafriol i'w lwyddiant; ond yr oedd y cyfeillgarwch mawr oedd rhwng Mr. Roberts a Mr. Hughes, Bethania, yn help mawr i iachau pob drwgdeimlad a allasai fod wedi bod rhwng y ddwy eglwys gynt; ond er y cwbl gwyr pawb fod anfantais fawr gan eglwys fechan i weithio ei ffordd mewn lle y mae eglwys fawr eisioes wedi cyrhaedd dylanwad eang. Cynyddodd yr achos yma er hyny yn raddol, fel yr aeth yr hen gapel yn rhy gyfyng, ac yn y flwyddyn 1844, adeiladwyd capel newydd hardd, gwerth mil o bunau, yr hwn a gynlluniwyd gan Mr. Owens, Zoar; ac o hyny allan daeth yr achos rhagddo gan ennill tir yn barhaus. Ychydig a dderbyniai Mr. Roberts oddiwrth y weinidogaeth yn yr holl flynyddau cyntaf—llai na deg-swllt-ar-hugain y mis—ond dibynai ar ei fasnach am gynhaliaeth iddo ei hun a'i deulu. Gweithiodd Mr. Roberts a'i bobl yn egniol i dalu eu dyled. Yr oedd dau gant o bunau o ddyled ar yr hen Brynseion pan godwyd y newydd yn 1844, ac yn 1862, aed drachefn i ddau cant o bunau i'w ad-drefnu; ond talwyd y ddyled agos yn llwyr cyn diwedd oes Mr. Roberts, a hyny gan y bobl eu hunain, oddigerth rhyw ddeugain punt a gasglwyd gan Mr. Roberts yn Bristol. Mwynhaodd yr eglwys heddwch mawr trwy holl dymor gweinidogaeth Mr. Roberts, ac os nad oedd yn tynu llawer o sylw y cyhoedd oddiallan, yr oeddynt yn dangnefeddus yn eu plith eu hunain. Bu farw Mr. Roberts Ionawr 9fed, 1868, yn 68 oed. Wedi ei farwolaeth cymerwyd gofal yr eglwys dros ychydig gan Mr. Jenkin Jones, yr hwn

* *Diwygiwr*, 1836. Tu dal. 405.

Digitized by Google

oedd newydd roddi ei weinidogaeth i fyny gyda'r Saeson yn Nghapel Ivor, ond ymadawodd ef yn fuan i Loegr. Cyn diwedd y flwyddyn 1869, derbyniodd Mr. John Henry Jones, Pwllheli, alwad unfrydol gan yr eglwys, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Chwefror, 1870, ac y mae yn parhau yn weinidog yma; ond drwg genym ddeall fod sefyllfa ei iechyd wedi ei analluogi er's misoedd i gyflawni ei ddyledswyddau. Nid ydym yn cael fod unrhyw ddigwyddiad anghyffredin wedi cymeryd lle yn hanes yr eglwys yn y blynyddoedd diweddaf; ac er fod yma lawer o ddynion da wedi bod o bryd i bryd, etto nid ydym yn cael am neb wedi ymgodi gymaint uwchlaw pawb arall fel ag i deilyngu crybwylliad arbenig. Ni chawsom enw neb a gyfodwyd i bregethu yn yr eglwys hon ond William Roberts, mab Mr. D. Roberts, y gweinidog, yr hwn sydd yn awr yn Athraw Clasurol yn athrofa Aberhonddu.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Daniel Roberts. Ganwyd ef yn mhlwyf Llansamlet, gerllaw Abertawy, Mai 14eg, 1800. Treuliodd ei flynyddoedd bachgenaidd gyda pherthynasau iddo, y rhai a ddalient fferm yn mhlwyf Llangafelach. Arferai wrando bob amser yn y Mynyddbach, ond ar ol gadael ei ardal enedigol y daeth i benderfyniad o roddi ei hun i'r Arglwydd. Yn y flwyddyn 1819, daeth i Ferthyr Tydfil i weithio, ac er nad oedd yn proffesu crefydd yr oedd yn ddyn ieuangc sobr, a gofalus iawn yn newisiad ei gyfeillion. Yn y flwyddyn 1820, derbyniwyd ef yn aelod yn Bethesda gan Mr. M. Jones, a'r un Sabboth ag y derbyniwyd ef yn aelod, yr oedd Evan Harris, cyn hyny o Bentretygwyn, yn cael ei adferu i gymundeb yr eglwys. Yn y flwyddyn 1822, dechreuodd Mr. Roberts bregethu; a'r flwyddyn ganlynol aeth i'r Neuaddlwyd, lle y bu am ddwy flynedd dan addysg Dr. Phillips. Nid oedd awydd cryf ynddo am fyned i'r weinidogaeth; a chan nad oedd yn gweled Rhagluniaeth yn agor unrhyw ddrws iddo ar y pryd, yn hytrach na myned i deithio y wlad i chwilio am le, dychwelodd i Ferthyr i ddilyn ei orchwyl fel cynt, ac ymaelododd yn Zoar, a phregethai bob Sabboth lle y caffai ddrws agored, a phregethodd lawer mewn manau o Aberdar i Lanelli, Brycheiniog, ac o Dowlais i Bontypridd, mewn manau lle nad oedd eglwysi Annibynol y pryd hwnw wedi eu ffurfio. Wedi priodi aeth i fyw i Dowlais, lle yr ymddibynai am ei fywoliaeth ar ei fasnach, a pharhaodd i bregethu mor egniol ac ymdrechgar ag erioed. Magodd deulu lluosog i fyny, a rhoddodd iddynt addysg dda. Mab iddo ef ydyw Mr. William Roberts, Athraw Clasurol athrofa Aberhonddu; a merch iddo ef ydyw gwraig Mr. N. Stephens, Liverpool, ac y mae dwy arall o'i ferched yn fyw mewn cylchoedd parchus. Derbyniodd Mr. Roberts alwad gan yr eglwys fechan yn Brynseion, ac urddwyd ef yno, fel y gwelsom, Mai 24ain, 1836. Er nad oedd yr achos ond bychan, ac nad oedd yr hyn a dderbyniai am ei lafur ond ychydig iawn, etto yr oedd ei ofal am dano y fath a phe buasai ei amgylchiadau yn dibynu yn hollol arno. Yr oedd yn caru y gwaith, ac oddiar hyny y cyfodai ei fawr ofal am dano. Ddeng mlynedd cyn ei farwolaeth yr oedd Mr. Roberts yn ddyn iach a chryf, ac oblegid ei ofal am dano ei hun, a chymedroledd ei holl arferion, gallesid disgwyl iddo fyw i oedran teg; ond taflwyd ef i ddyfnder galar trwy farwolaeth ei fab ieuengaf, Daniel, a hir a chwerw gystudd ei anwyl briod, yr hwn o'r

Digitized by Google

Wedi a derfynodd yn ei marwolaeth; a thrwy yr holl amgylchiadau hyn a prysurwyd awr ei ymddatodiad yntau. Bu yn nychu drwy fisoedd olaf y flwyddyn 1867, ac er nad oedd unrhyw afiechyd neillduol arno, etto yr oedd yn amlwg fod ei holl natur yn ymollwng, a bu farw mewn tawelwch Ionawr 9fed, 1868, yn 68 oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa y Pant, Dowlais, pryd y pregethwyd gan Mr. J. Davies, Caerdydd, ac y gweinyddwyd gan amryw weinidogion eraill yn y capel ac ar lan y bedd; a'r Sabboth dilynol traddodwyd pregeth angladdol Mr. Roberts yn Brynseion gan Dr. Rees, Abertawy.

Yr oedd Mr. Roberts o ran ei alluoedd naturiol yn mhell uwchlaw y cyffredin, a thrwy ymroddiad a hunan-ddysgiant yr oedd wedi diwyllio y galluoedd hyny. Myfyriodd gryn lawer ar byngciau duwinyddol, ac yr oedd yn dra chyfarwydd yn yr Ysgrythyrau. Nis gallesid ei wrando yn pregethu heb deimlo ei fod yn hyddysg iawn yn y Bibl. Parotoai yn fanwl ar gyfer y pulpud, ac yr oedd gwastadrwydd mawr yn ei holl bregethau. Cyfunid y pregethwr a'r dysgawdwr i raddau dymunol yn ei weinidogaeth, ac er y gallesid cael rhai i ragori arno yn y naill neu y llall, etto nid yn aml y ceid ei ragorach yn y ddau. Yr oedd trefn a rheol yn hollol naturiol iddo gyda phob peth, ac yr oedd hyny yn amlwg yn ei weinidogaeth. Prophwydai yn wastad yn ol cysondeb y ffydd, ac nid oedd dim a'i hudai oddiwrth hen wirioneddau mawr yr efengyl. Dyma oedd baich ei bregethau trwy ei oes, a dyma oedd defnydd ei ddiddanwch wrth farw. Perchid ef yn fawr gan bobl ei ofal, ac yr oedd eu hymddiried ynddo agos yn ddiderfyn, ac yr oeddynt hwy a'i gyfeillion y tu allan i'w eglwys yn parotoi i wneyd tysteb iddo, ond cyn iddynt gael amser i gwblhau hyny, galwyd ef i fwynhau gwobr y gwas da a ffyddlon. Yr oedd yn fawr yn serch ei holl frodyr yn y weinidogaeth, ac yr oedd cynifer a deuddeg-ar-hugain o honynt yn bresenol yn mysg y lluaws galarwyr ddydd ei angladd. Cafodd gladdedigaeth fel tywysog, a phery ei "goffadwriaeth yn fendigedig."

## GWERNLLWYN, DOWLAIS.

Wedi yr ychwanegiad mawr a fu at eglwys a chynnulleidfa Bethania yn y flwyddyn 1849, penderfynwyd adeiladu capel newydd mewn cwr arall o'r lle poblog, ac i nifer o'r eglwys fyned allan yn wirfoddol i ffurfio eglwys arall. Adeiladwyd capel hardd yn y flwyddyn 1850, a galwyd ef yn Gwernllwyn, yn ol enw y lle, ac agorwyd ef ar ryw Sabboth yn Chwefror, 1851. Ffurfiwyd eglwys ynddo yn ddioed gan Mr. Hughes, Bethania, a bu y lle dan ei ofal ef—yn cael ei gynorthwyo gan y gweinidogion cylchynol—am ysbaid blwyddyn. Cyn ymadael o Bethania, neillduwyd chwech o ddiaconiaid i weinyddu yn y Gwernllwyn, sef Henry Pergrine, Thomas Lewis, Dafydd Williams, Edward Roderick, John Griffiths, a Thomas Williams; ond o'r chwech nid oes ond yr olaf yn aros. Ar derfyniad ei amser yn athrofa Aberhonddu yn haf 1852, rhoddodd yr eglwys alwad unfrydol i Mr. Benjamin Williams, yr hwn a urddwyd i holl waith y weinidogaeth, Gorphenaf 12fed a'r 13eg, 1852. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. N. Stephens, Sirhowy; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Hughes, Bethania; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. L. Powell, Caerdydd; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E. Davies, athraw athrofa Aber-



Digitized by Google

honddu, ac i'r eglwys gan Mr. T. Rees, Cendl. Gweinyddwyd hefyd gan Meistri J. Jones, Rhydri; W. Morgan, Caerfyrddin; J. Davies, Llanelli; J. Williams, Castellnewydd; H. Oliver, B.A., Pontypridd; J. Thomas, Glynnedd; D. Williams, Berea; D. Lewis, Llanfaple; D. Jones, Bethesda; J. D. Williams, Caerdydd; J. M. Bowen, Penydarran; J. B. Jones, B.A., Hermon; T. Davies, Llanelli, ac M. Ellis, Mynyddislwyn.* Rhifedi yr aelodau ar sefydliad Mr. Williams yma oedd 250, ac os buont yn fwy cyn hyny, yr hyn nid yw yn debyg, dyna oedd eu nifer y pryd hwnw. Llafuriodd Mr. Williams yma gyda derbyniad a llwyddiant am fwy na naw mlynedd. Talwyd y ddyled oedd ar y capel, ac yn ei amser ef, ac yn benaf trwy ei offerynoliaeth ef, y sefydlwyd achos Penywern, a'r achos Saesneg yn nghapel Ivor. Ymadawodd Mr. Williams cyn diwedd y flwyddyn 1861 i Ddinbych, lle y treuliodd flynyddoedd; ac y mae yn awr yn Canaan, gerllaw Abertawy. Wedi ymadawiad Mr. Williams, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Ll. Hughes, myfyriwr o athrofa y Bala; ac urddwyd ef Mehefin 24ain a'r 25ain, 1862. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Price, Aberdar; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Hughes, Bethania; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. Roberts, Bryn Seion; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Hughes, B.A., Tredegar, ac i'r eglwys gan Mr. W. Griffiths, Llanharan.† Bu Mr. Hughes yma am saith mlynedd yn barchus gan bawb fel dyn gwir dda a chrefyddol. Mae yn awr yn Rehoboth, Penbre. Yn Ebrill 1870, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. David Thomas, Abercanaid, a dechreuodd ei weinidogaeth, y 19eg o'r Mehefin canlynol, ac efe ydyw y gweinidog yma yn bresenol. Mae yma eglwys dda, a chynnulleidfa luosog, ac Ysgol Sabbothol lewyrchus. Mae ysgoldy cyfleus wedi ei godi wrth dalcen y capel er cynal moddion wythnosol, a'r ysgol ar y Sabboth.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

John M. Jones. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yn Nghwmbran, ac y mae yn awr yn Gibeah, Brynaman.

David Jones. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yn New Tredegar; ac y mae yn awr yn Cwmbwrla, gerllaw Abertawy.

Bu yma amryw bersonau o dipyn o hynodrwydd yn perthyn i'r eglwys hon, er nad yw ond ieuangc. Edrychid ar Henry Pergrine fel duwinydd nodedig, a gwr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Dafydd Williams oedd un hynod o afaelgar ac effeithiol mewn gweddi. Yr oedd Edward Roderick yn sicr o dynu sylw wrth ei weled mor hwylus yn gwrando. Daniel Jones oedd ddyn hynaws a boneddigaidd, ac a fu o lawer o help i'r achos yma ar ei gychwyniad, ond "ei haul a fachludodd a hi yn ddydd." Pe byddai yn weddus cyfeirio at y byw gallem enwi yn mysg y rhai sydd yn aros rai sydd yn mhob ystyr yn llawn cystal a'r rhai a ymadawsant.

## PENYWERN, DOWLAIS.

Mae Penywern yn sefyll ychydig i'r gogledd o Dowlais. Tua'r flwyddyn 1856, gwelodd Mr. Williams ac eglwys y Gwernllwyn fod y lle yn debyg o fod yn gynyddol, a dechreuwyd pregethu yn achlysurol mewn anodd-dai

* *Diwygiwr*, 1852. Tu dal. 254. † *Diwygiwr*, 1862. Tu dal. 250.

Digitized by Google

yma. Cymerwyd *Long-room* perthynol i'r Ivor Arms dan ardreth at gynal Ysgol Sabbothol, a chyn hir penderfynodd eglwys y Gwernllwyn i adeiladu yma gapel. Cafwyd tir at adeiladu gan gwmpeini Dowlais, a dangosodd Mr. Clark y parodrwydd mwyaf i gynorthwyo. Cynlluniwyd y capel gan Mr. B. Owens, Zoar, a gwnaed ef yn 36 troedfedd wrth 30 troedfedd; a dechreuwyd addoli ynddo y Sabboth cyntaf yn Mawrth, 1858. Aeth plant yr ysgol a'u hathrawon yn orymdaith am naw o'r gloch o'r *Long-room* i'r capel newydd, dan ganu yn effeithiol dan arweiniad Mr. David Evans. Pregethodd Mr. B. Williams am 11 oddiwrth Salm cxxvii. 1. Cadwyd y cymundeb cyntaf Mawrth 21ain. Yr oedd 25 o aelodau yn yr ardal. Neillduwyd David Thomas, David Samuel, ac Evan Lewis yn ddiaconiaid i fyned allan gyda'r 25, fel yr oedd 28 o aelodau yn cychwyn. Cyn canol yr haf canlynol yr oedd yr eglwys wedi cynhyddu i 51 o nifer. Agorwyd y capel Mehefin 22ain a'r 23ain. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Williams, Berea; W. Williams, Hirwaun; J. Morgan, Cwmbach; J. Cunnick, Aberdar; J. Davies, Aberaman; J. Griffiths, Llanymddyfri; T. Rees, Cendle; D. Evans, Clydach; H. Oliver, B.A., Pontypridd; T. Jeffreys, Penycae; D. Richards, Llanelli; N. Stephens, Sirhowy, a J. Mathews, Castellnedd. Cynyddodd yr Ysgol Sabbothol fel yr oedd yn fwy na dau gant yn fuan wedi agor y capel.* Bu y lle dan ofal Mr. Williams, mewn cysylltiad a Gwernllwyn, hyd ddiwedd 1861, pryd yr ymadawodd i Ddinbych; a chyn ei ymadawiad yr oedd y gynnulleidfa wedi cynyddu, a'r eglwys yn 120 o nifer. Wedi ymadawiad Mr. Williams, bu yr eglwys dan ofal Mr. J. M. Bowen, Penydarran; ac aeth yr achos rhagddo yn llwyddiannus yn nhymor ei weinidogaeth; ond gan fod y llafur yn ormod iddo rhoddodd y lle i fyny. Wedi hyny rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. James Gwesyn Davies, myfyriwr o athrofa Aberhonddu; ac urddwyd ef Rhagfyr 11eg a'r 12fed, 1865. Llafuriodd Mr. Davies yma gyda derbyniad a chymeradwyaeth mawr am y tymor byr y bu yma. Gwelodd aml a blin gystuddiau personol a theuluol, a dadfeiliodd ei iechyd fel y bu farw Ionawr 21ain, 1870. Cyn hir rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. William J. Richards, yr hwn oedd yn weinidog yn Abererch, sir Gaernarfon, i ddyfod i'w bugeilio; a dechreuodd Mr. Richards ei weinidogaeth yma y Sabboth cyntaf yn Awst, 1870; ac y mae yn parhau i lafurio yma, a'r achos yn parhau i fyned rhagddo. Ni chyfodwyd yma neb i bregethu. Coffeir yn barchus am enwau rhai o'r ffyddloniaid a ymadawsant, ac y mae ffyddloniaid hefyd yn mysg y rhai sydd yn aros.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

JAMES GWESYN DAVIES. Ganwyd ef yn y Tygwyn, yn mhlwyf Llanganmarch, Mai 18fed, 1837. Mae ei dad yn ddiacon yn hen eglwys barchus Llanwrtyd, ac y mae crefydd wedi bod yn y teulu er's cenhedlaethau. Ymadawodd James a thy ei dad pan yn ieuangc at ewythr iddo yn Abergwesyn; ond yr oedd yno hefyd yn parhau i fwynhau manteision crefyddol, a thrwy addysg yr aelwyd, a'r Ysgol Sabbothol, a gweinidogaeth y pulpud, goleuwyd ei ddeall yn mhethau yr efengyl, ac nid hyny yn unig ond daeth i deimlo ei dylanwad yn ddwfn ar ei galon, a derbyniwyd ef yn

* *Diwygiwr*, 1858. Tu dal. 251.

Digitized by Google

aelod yn Moriah, Abergwesyn. Dangosodd nad un o feddwl cyffredin ydoedd, a bod ynddo alluoedd a chymhwysterau at bethau uwch na gwylio praidd ar tyddynoedd Brycheiniog. Anogwyd ef i ddechreu pregethu gan y gweinidog a'r eglwys, a phrofodd yn fuan fod gwreiddioldeb yn ei feddwl, a effeithiolaeth yn ei ddawn. Derbyniwyd ef i athrofa Aberhonddu yn haf y flwyddyn 1861; a thra yno ennillodd hyder ei gydefrydwyr a pharch ei athrawon. Yr oedd yn syml ac unplyg, ond yn gydwybodol yn mhob peth; a phan yr argyhoeddid ef pa beth oedd ei ddyledswydd ni phetrusai ei chyflawni. Wedi gorphen ei dymor yn yr athrofa, derbyniodd alwad gan eglwys Penywern, Dowlais, lle yr urddwyd ef Rhagfyr 11eg a'r 12fed, 1865. Ennillodd barch yr holl eglwys a'r gynnulleidfa, ac yr oedd syniadau uchel am dano gan y gweinidogion a'r eglwysi cymydogaethol. Yr oedd ganddo yn mhob peth a wnelai ei ffordd ei hun i'w gyflawni. Yn ei feddyliau, a ffurfiad ei frawddegau, a'i egluriadau, yr oedd yn hollol wreiddiol; ac yr oedd gyda hyny ryw dynerwch byw, gwefreiddiol, yn ei draddodiad fel y tynai sylw ei holl wrandawyr. Er mai yr hen wirionedd a bregethai, etto yr oedd yn nodedig o fedrus i roddi gwedd newydd ar y cwbl; ond yr oedd y cwbl yn hollol ddirodres a diymhoniad. Pe cawsai fyw gosodasai ei argraff yn ddwfn ar gymdeithas. Yr oedd yn nodedig am ei ffraethder a pharodrwydd ei atebion, fel y gallasai gadw bywyd yn unrhyw gymdeithas yr aethai iddi, ac etto yr oedd efe ei hun yn hollol ddigynwrf, fel pe na buasai dim anghyffredin yn cael ei ddyweyd. Coffeir ei ddywediadau hapus gan ei gyd efrydwyr, a'r rhai a gafodd fwyaf o fantais i gymdeithasu ag ef. Cafodd ran helaeth o drallodion bywyd. Gwelodd briod ei ieuengctyd yn dihoeni ac yn marw o flaen ei lygaid; a chyn hir rhoddodd ei iechyd yntau ffordd, ac er pob dyfais feddygol, angau a orfu, a bu farw Ionawr 21ain, 1870, yn 33 oed; ac ar y 25ain o'r un mis dilynwyd ef i le ei feddrod yn Cemetery y Pant gan eglwys alarus, a chan nifer fawr o frodyr gweinidogaethol, y rhai a deimlant fod "ei haul wedi machludo a hi yn ddydd."

## CAPEL IVOR, DOWLAIS.

Yn ngauaf y flwyddyn 1859, ymgyfarfu yr ychydig gyfeillion a ddwysdeimlent yr angen am achos Seisnaeg yn y lle hwn, er ymgynghori yn nghylch hyny. Wedi cael cefnogaeth ac addewid am gymorth oddiwrth y drysorfa a fwriedid sefydlu er cynorthwyo achosion Seisnaeg yn Nghymru, gwnaed cais at gwmni gwaith haiarn Dowlais am le i adeiladu. Prynwyd oddiwrth y cwmni dri o dai yn heol Ivor, am y swm o 175p., a chafwyd prydles ar y tir y safai y tri thŷ arno, am yr ardreth flynyddol o 2p. 17s. 6c. Ffurfiwyd pwyllgor yn cynrychioli y pedair eglwys Annibynol Gymreig yn Dowlais, er adeiladu capel Seisnaeg. Derbyniwyd *Tender* Mr. John Gabe, adeiladydd, ac aed i gytundeb ag ef i adeiladu y capel am y swm o 811p. 10s. Gosodwyd y gareg sylfaen gan H. O. Wills, Ysw., Bristol, Mai 22ain, 1860. Cymerodd amryw o weinidogion a boneddigion eraill ran yn y seremoni. Cafwyd llawer o gymorth arianol o Bristol a manau eraill, yn gystal ag oddiwrth y *Chapel Building Society*. Gorphenwyd yr adeilad erbyn diwedd Mawrth, 1861; ac agorwyd ef Ebrill 1af, 2il, a'r 3ydd, yr un flwyddyn. Nos Lun, Ebrill 1af, gweddiwyd yn gyffrous gan luaws o frodyr yn Gymraeg a Seisnaeg. Cafwyd anerchiad yn Gymraeg gan Mr. J. Hughes, Bethania, ac yn Seisnaeg gan Mr. J. T.

Digitized by Google

Davies, M.A., Market Square, Merthyr. Nos Fawrth, pregethodd Mr. J. O. Hill, Henffordd, yn Seisnaeg, a Mr. D. Jones, B.A., Caerdydd, yn Gymraeg. Boreu ddydd Mercher, pregethodd Mr. D. Thomas, B.A., Bristol, yn Seisnaeg; am 2 o'r gloch, Mr. A. McAuslane, Casnewydd; ac am 7 o'r gloch, Mr. McAuslane, yn Seisnaeg, a Mr. T. Rees, Cendl, yn Gymraeg. Cymerwyd rhan yn ngwaith y dydd gan amryw eraill. Y Sabboth cynlynol pregethodd y Proff. Nicholas, o athrofa Caerfyrddin. Nos Sabboth Ebrill 21ain, ffurfiwyd yr eglwys gan Meistri J. Hughes, Bethania, a B. Williams, Gwernllwyn, yr hwn a lywyddodd ar yr achlysur. Ymunodd 42 o bersonau i ffurfio yr eglwys, y rhai oll a dderbyniwyd trwy lythyrau cymeradwyaeth oddiwrth yr eglwysi Cymreig y perthynent iddynt. Bethania 10, Brynseion 3, Gwernllwyn 26, Bristol a Merthyr 2, Beulah (Bedyddwyr Seisnaeg,) 1. Rhoddwyd anerchiad yn Saesneg gan Mr. B. Williams, ac yn Gymraeg gan Mr. J. Hughes.

Sabboth, Ebrill 28ain, dechreuwyd yr Ysgol Sabbothol, pryd yr oedd yn bresenol tua 160 o ysgolheigion, ac yr ymgymerodd tua 22 o athrawon ac athrawesau at y dosbarthiadau. Mai yr 2il, penderfynodd yr eglwys wahodd Mr. B. Williams, Gwernllwyn, i gymeryd gofal yr eglwys hyd oni phenderfynent ar weinidog; ac mewn cyfarfod eglwysig a gynhaliwyd Mai 16eg, enwodd Mr. Williams, ar gais yr eglwys, dri i fod yn ddiaconiaid, sef George Koulson, Thomas Edwards, a Henry Williams, y rhai a gymeradwywyd gan yr eglwys. Yn yr un cyfarfod, nodwyd Mr. Thomas Davies, grocer, yn drysorydd, a Mr. David Davies yn ysgrifenydd.

Dyna hanes dechreuad a ffurfiad yr achos Seisnaeg yn Dowlais. Yr oedd Mr. J. Hughes, Bethania, a Mr. D. Roberts, Brynseion, yn gweithio yn ffyddlon gyda'r symudiad; ond Mr. B. Williams, Gwernllwyn, oedd yn dwyn baich y gwaith. Efe a weithiodd yn galed i osod yr achos mewn ffordd i fyned rhagddo.* Chwefror 11eg, 1862, penderfynwyd yn unfrydol i roddi galwad i Mr. Daniel M. Jenkins, o athrofa Hackney, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma yn Ebrill canlynol. Yn ystod y pedair blynedd cyntaf o weinidogaeth Mr. Jenkins, cawn i 49 o aelodau gael eu hychwanegu at yr eglwys. Casglwyd cynnulleidfa dda, gweithiwyd hefyd yn ardderchog tuag at dalu y ddyled, ac yr oedd pethau yn ymddangos yn hynod o lewyrchus, hyd nes yr enynwyd ymryson a chynen yn yr eglwys. Bu yma lawer o ddiflasdod yn y cyfnod hwnw; ac yn niwedd Gorphenaf, 1865, ymadawodd Mr. Jenkins i'r Tabernacl, Aberdar. Mehefin 7fed, 1866, rhoddodd yr eglwys alwad unfrydol i Mr. Jenkin Jones, Ty Ddewi, i gymeryd ei gofal gweinidogaethol, a'r hon y cydsyniodd. Ychydig gyda dwy flynedd y bu yma, canys rhoddodd ei gofal i fyny, a phregethodd ei bregeth ymadawol yn nghapel Ivor, y Sabboth cyntaf yn Medi, 1868. Medi 30ain, 1869, penderfynodd yr eglwys roddi galwad i Mr. John Lloyd James, Eglwysnewydd, ger Caerdydd. Dechreuodd Mr. James ar ei weinidogaeth yma yn niwedd Hydref; a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad Tachwedd 29ain, 1869. Ar yr achlysur traddodwyd pregethau gan Meistri H. Oliver, B.A., Casnewydd, a T. Rees, D.D., Abertawy. Yn y cyfarfod hwyrol, cymerwyd y gadair gan T. Williams, Ysw., Goetre, yr hwn hefyd a draddododd anerchiad pwrpasol. Anerchwyd y cyfarfod gan Meistri D. Jones, B.A., Merthyr; F. S. Johnstone, H. Oliver, B.A., D. M. Jenkins, Aberdar, a T. Rees, D.D., Abertawy. Mae Mr. James wedi gweithio yn

* Llythyr Mr. J. Lloyd James.

galed yma gyda'r cyfarfodydd Biblaidd, yr Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd eraill, yn gystal ag yn y weinidogaeth gyhoeddus. Mae wedi derbyn lluaws o aelodau, er fod iddo rwystrau lawer i weithio yn mlaen o herwydd canlyniadau y cynhenau a'r ymrysonau blaenorol. Mae dyled y capel wedi ei thynu i lawr fel nad oes ond 290p. yn aros.

## TROEDYRHIW, MERTHYR.

O gylch y flwyddyn 1820, cafodd nifer o bersonau yn yr ardal yma ar eu meddwl i gychwyn Ysgol Sabbothol, a chynhelid hi o dŷ i dŷ. Yn mhen dwy flynedd daeth Robert Davies a'i wraig i fyw i Felin, Troedyrhiw. Yr oedd ef yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Mhont-Morlais, a'i wraig yn aelod yn Bethesda, ac agorasant hwy eu drws i'r ysgol. Yr oedd y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn cydgynal yr ysgol, a deuai pregethwyr perthynol i'r ddau enwad yn achlysurol i ymweled a hwy. Cynhelid yr ysgol am 9 yn y boreu, ac oedfa gan y Methodistirid am 2, ac oedfa gan yr Annibynwyr am 6. Daeth un W. Morgan, o ardal Pentre-ty-gwyn i'r ardal i gynal ysgol ddyddiol, a bu ef o lawer o help gyda'r Ysgol Sabbothol, ac wedi i Robert Davies a'i deulu symud o'r Felin, agorodd yr ysgolfeistr ei dŷ i'r ysgol, a disgynodd gofal yr achos erbyn hyn yn hollol i ddwylaw yr Annibynwyr. Deuai Mr. M. Jones, Bethesda, yma mor aml ag y gallai i bregethu, a phan na allai ef ddyfod, deuai y pregethwyr cynorthwyol oedd yn perthyn i eglwys Bethesda. Meddyliwyd am adeiladu capel, a chafwyd darn o dir gan Syr John Guest, Dowlais, yn mis Gorphenaf, 1833. Adeiladwyd capel, yr hwn a enwyd yn Saron, yn mesur 32 troedfedd wrth 28 troedfedd, gydag oriel iddo, a chostiodd 409p. 5s. 11c. Agorwyd ef Chwefror 10fed, 1835, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri T. Rees, Craigyfargoed; J. Hughes, Dowlais; J. Davies, Llantrisant; J. Thomas, Adulam, ac eraill. Hyd yn hyn ystyrid hwy yn aelodau yn Bethesda, ond wedi cael capel newydd corpholwyd hwy yn eglwys Annibynol ynddo, a disgynodd gofal a chyfrifoldeb yr eglwys ar yr ychydig aelodau oedd yma. Nid oeddynt ond 29 o rifedi, ac yr oedd baich y ddyled yn aros; ond cawsant y gweinidogion a'r eglwysi cymydogaethol yn hynod garedig. Wedi marw Mr. M. Jones, a'u cysylltiad hwy a Bethesda eisioes wedi tori, penderfynasant gael gweinidog iddynt eu hunain, a rhoddasant alwad i Mr. David Thomas, aelod o Hermon, gerllaw Llandilo; ond a fuasai yn yr ysgol am ychydig yn Rhydybont; ac urddwyd ef Tachwedd 19eg, 1840. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri W. Jones, Penybont; D. Jones, Aber; J. Stephens, Brychgoed; E. Davies, Libanus; L. Powell, Caerdydd; D. Davies, Llansantffraid; D. Williams, Bethlehem; T. James, Hermon; W. Griffiths, Llanharan; J. Hughes, Dowlais, a T. Rees, Craigyfargoed. Ni chafodd Mr. Thomas ond tymor byr i lafurio yma, ond bu yn nodedig o lwyddianus, a cherid ef gan bawb yn yr eglwys a'r gynnulleidfa. Gwaelodd ei iechyd, a bu farw Hydref 6ed, 1843. Ni bu yr eglwys yn hir heb weinidog wedi marw Mr. Thomas, canys yn gynar yn y flwyddyn 1844, rhoddodd alwad i Mr. William Morgan, yr hwn a urddasid ychydig cyn hyny yn Nghwmogwy, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Ebrill, ac y mae yn parhau i lafurio yma etto. Cynyddodd yr eglwys a'r gynnulleidfa, fel y gwelwyd angen helaethu yr addoldy, ond gwrthodid tir iddynt i hyny gan Syr John Guest; o'r diwedd wedi iddo

omedd yn hollol, deallwyd mai Mr. Wyndham Lewis oedd y gwir berchenog, ac addawodd ef dir yn ewyllysgar gyda darn helaeth at fynwent. Adeiladwyd addoldy cyfleus yn mesur 46 troedfedd wrth 40 troedfedd, ac aeth y draul yn 700p. Agorwyd ef Ebrill 4ydd a'r 5ed, 1852; a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri H. Oliver, B.A., Pontypridd; J. Hughes, Dowlais; J. Thomas, Aberaman; T. Jeffreys, Penycae; D. Jones, Bethesda; J. Evans, Cymer; T. Rees, Cendl; I. Thomas, Towyn; J. Thomas, Graig, Rhymni; J. Evans, Maendy; W. Williams, Hirwaun; W. Griffiths, Llanharan; L. Powell, Caerdydd, ac eraill.* Mae yr achos yma wedi dal ei ffordd trwy y blynyddau, ac ychwanegu cryfder; a thrwy lafur Mr. Morgan, ac aelodau o'r eglwys hon, y cychwynwyd yr eglwys lewyrchus sydd yn awr yn Abercanaid.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Rees Morgan. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu; ac y mae yn awr yn Bethlehem, St. Clears.

Llewelyn Llewelyn. Aeth at y Methodistiaid, ac y mae yn awr yn Abercarn.

Daniel Jones. Addysgwyd ef yn Aberhonddu. Urddwyd ef yn yr eglwys Saesonig yn Hirwaun. Aeth i Mountain Ash i gadw siop; a bu llaw ganddo yn nghychwyniad yr achos Seisonig yno. Methodd yn ei amgylchiadau. Enciliodd i'r Eglwys Sefydledig, ac aeth i Lanbedr i dderbyn addysg i fyned i weinidogaeth yn yr Eglwys Wladol; ond bu farw yno, ac felly dyryswyd ei holl gynlluniad. Mae ei oes fer brofedigaethus ef yn rhybudd i fyfyrwyr a gweinidogion ieuaingc i ochel uchder ysbryd a chwerwder tymer.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

David Thomas. Ganwyd ef Chwefror 26ain, 1814, yn Troedyrhiw, yn mhlwyf Llandilo, sir Gaerfyrddin. Enwau ei rieni oedd William ac Ann Thomas. Cafodd addysgiadau o'i febyd. Treuliodd lawer o'i amser wedi claddu ei dad gyda'i daid a'i ewythr yn y Tyisaf, gerllaw Hermon. Arferai fyned i'r Ysgol Sabbothol er yn blentyn, ac yr oedd yn ymdrechgar iawn dros y sefydliad daionus hwn hyd ei fedd. Yn amser y diwygiad yn 1828 ymunodd a'r eglwys gynnulleidfaol yn Hermon, ger Llandilo, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal gweinidogaethol Mr. Daniel Jones. Darfu i'w ragoriaeth mewn duwioldeb, ei gynydd digyffelyb mewn gwybodaeth Ysgrythyrol, a'i ddawn melus mewn gweddi, dueddu yr eglwys i'w anog i arfer ei ddawn i bregethu; ac yn y flwyddyn 1832, cydsyniodd a'i chais. Nid hir wedi iddo ddechreu pregethu yn Hermon y bu heb gael galwadau i bregethu yn fisol yn yr eglwysi cymydogaethol. Bu am ychydig amser yn yr ysgol yn Rhydybont, gyda Mr. William Jones, yn awr o Abertawy. Dysgodd egwyddorion yr iaith Saesonig yn lled dda yno, a thrwy ei lafur personol wedi hyny daeth yn alluog i ddefnyddio awdwyr Saesonig gyda rhwyddineb. Wedi iddo ymadael a'r ysgol, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser gyda'i ewythr yn y Tyisaf. Gweithiai ar y fferm ar ddyddiau yr wythnos, a phregethai ar y Sabbothau yn y manau yr oedd yn fisol ynddynt. Yn ystod y blynyddau hyny teithiodd ychydig i bregethu trwy ranau o siroedd y Deheudir. Yr oedd yn dderbyniol iawn yn mhob man, ac ni

* Ysgrif Mr. W. Morgan, *Diwygiwr*, 1853. Tu dal. 78.

Digitized by Google

byddai son annymunol am dano wedi ei ymadawiad o un man. Yn niwedd i y flwyddyn 1840, aeth am daith trwy sir Forganwg. Hoffwyd ef yn fawr gan yr eglwys yn Troedyrhiw, a rhoddasant alwad unfrydol iddo i ddyfod yn weinidog iddynt. Ar y 19eg o Dachwedd, yr un flwyddyn, urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Yn fuan wedi urddiad Mr. Thomas yn Nhroedyrhiw, rhoddodd Mr. T. Rees ofal yr eglwys yn Nghraigybargoed i fyny, a chymerodd Mr. Thomas ei gofal yn ei le, llafuriodd yno, mewn cysylltiad a Throedyrhiw, yn dderbyniol a llwyddianus iawn hyd ei farwolaeth. Ar y 10fed o Fehefin, ymunodd mewn priodas a Miss Hannah Gething, un o aelodau ei eglwys, yr hon fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd ei fedd. Ni chafodd ei anwyl wraig ac yntau fawr mwynhad o gysuron priodasol, canys dechreuodd ei iechyd waethygu yn lled fuan wedi iddo briodi. Bu am amryw fisoedd yn nychu ac yn gwaethygu yn raddol; ond parhaodd i bregethu ychydig hyd o fewn pythefnos i'w farwolaeth. Bu farw ar y 5ed o Hydref, 1843, yn dawel a'i bwys ar Grist ei Iachawdwr, gan adael priod serchus, plentyn amddifad, a lluaws o berthynasau a chyfeillion crefyddol i alaru ar ei ol. Fel yr arwydd olaf o barch a allesid ddangos i'w ran farwol, mynodd yr eglwys wneyd bedd iddo dan yr areithfa, yn nghapel Troedyrhiw. Ar ddydd ei angladd ymgasglodd torf luosog i'w hebrwng i'w wely pridd. Gweddiwyd ac anerchwyd y dorf alarus gan Meistri Evans, Maendy; Owens, Zoar; Jones, Bethesda; Hughes, a Roberts, Dowlais; Davies, Libanus; Jones, Merthyr-cynog, a Thomas, Bethlehem. Gyda golwg ar Mr. Thomas, gellir dyweyd ei fod—

Fel *dyn*, yn un o'r rhai mwyaf diniwaid yn y byd. Nid adnabuom neb erioed yn fwy gochelgar nag ef rhag drygu neb yn ei deimladau, ei gymeriad, na'i berson, trwy ymddygiad, gair, na gweithred. Braidd na chariai ei ddiniweidrwydd ef mor bell, nes ei atal i geryddu dynion am eu pechodau gyda llymder dyladwy; peth cyffredin yw i ddynion o'i dymerau ef fod yn ddiffygiol yn hyn. Yr oedd yn un addfwyn a siriol iawn ei dymerau. Ni byddai un amser yn ddiserch a swrth. Yr oedd o'r fath dymerau fel yr ymollyngai yn ei ysbryd, ac y gofidiai yn anghyffredin pan y byddai rhywbeth yn ei groesi; etto, nid oedd un radd o ddiserchrwydd yn ymddangos ynddo pan fuasai fwyaf gofidus ei feddwl, llwfrhau ac nid ffyrnigo y buasai mewn gofid. Yr oedd hefyd yn un gostyngedig a gwylaidd iawn. Nid oedd dim yn chwyddedig nac ëon yn ei ymadroddion na'i ymddygiad, na dim yn goegynaidd a ffol yn ei ymddangosiad.

Fel *cristion*, gellir dyweyd yn ddibetrus, ei fod mor agos at berffeithrwydd a nemawr un o blant Duw yn y byd llygredig hwn. Treuliodd ei fywyd o'r dydd yr ymunodd ag eglwys Dduw hyd ddydd ei farwolaeth, heb gymaint a chael ei ddrwg-dybio, chwaethach cael ei brofi yn euog o gamymddygiad. Dangosai ei agwedd a'i eiriau ei fod yn gyfaill calon i Dduw —yn dal llawer o gyfrinach dirgelaidd ag ef, a'i fod yn elyn anghymodlon i bechod. Yr oedd yn ddirwestwr didwyll a selog. Dywedodd lawer gwaith, fod arno ofn nad oedd pobl Troedyrhiw yn addfed iddo ddyweyd llawer am ddirwest wrthynt o'r areithfa, a bod hyny, oblegid ei fod yn gweled mai diotta a meddwdod oedd yn gwarthruddo fwyaf ar yr eglwys, ac yn atal dychweliad y gwrandawyr, yn peri gofid mawr i'w feddwl, ond ei fod yn benderfynol os nad oedd yn gyfleus iddo lefaru llawer am ddirwest wrth ei bobl, y buasai iddo ei harfer yn ddidwyll yn eu plith, ac felly y gwnaeth hyd farw, oddieithr iddo orfod cymeryd ychydig yn ei gystudd dan gyfarwyddyd meddygol.

Digitized by Google

Fel *pregethwr*, nis gellir dyweyd ei fod yn tra rhagori ar y cyffredin, ond nid yw yn ormod dyweyd ei fod yn bregethwr call, trefnus, a defnyddiol iawn. Mae yr amryw bregethau a thraethodau o'i waith a ymddangosasant yn y *Diwygiwr* a'r *Tywysydd*, yn dangos y dull y cyfansoddai ei bregethau. Ni byddai un amser yn ymaflyd mewn pyngciau dyrus, nac yn dyweyd dim dylni; cariad a marwolaeth Crist, gwerth crefydd, drwg pechod, rhinweddau Cristionogaeth, a chymhelliadau i wrandawyr yr efengyl i'w chredu, trueni yr annuwiol, a dedwyddwch y saint mewn byd dyfodol, diwygiad crefyddol, llwyddiant yr efengyl, a'r cyffelyb, oedd prif faterion ei bregethau. Triniai y pethau hyn yn eglur, trefnus, melus, ac yn fynych yn dra hyawdl ac effeithiol. Yr oedd ei holl bregethau yn ymarferol. Cyfansoddai a thraddodai hwynt dan yr ystyriaeth mai nid difyru ei wrandawyr, ond gwneyd lles iddynt ddylasai fod ei brif ddyben. Nid ymyrai ddim a dirgelion y cyngor tragywyddol, ond a'r "pethau amlwg a roddwyd i ni, ac i'n plant." Eglurai y pethau hyn yn adeiladol a blasus iawn, a dangosodd yr Arglwydd ei fod yn foddlon iddo, trwy beri i'r fath lwyddiant ganlyn ei ymdrechion. Digon hawdd adnabod wrth bob un o'i bregethau mai dangos ei Feistr mawr, ac ennill eneidiau ei gyd-bechaduriaid ato, oedd ei unig amcan, ac nid dangos ei hun. Yr oedd *amcan* neillduol i holl bregethau Mr. Thomas. Y mae llawer yn traddodi pregethau nas gellir dyweyd fod dim yn gyfeiliornus ynddynt, ond ar yr un pryd mae yn anhawdd gwybod i ba beth y traddodir hwynt, gan hyny, ni theimla neb oddiwrthynt. Yr oedd pregethau Mr. Thomas yn wahanol i hyn, tarawai pob un o honynt ar ben rhyw ddrwg, neu dyrchafent ryw dda, fel y byddai cydwybod rhyw bechadur yn lled sicr o gael ei brathu, neu feddwl cristion ei adeiladu.

Fel *gweinidog*, yr oedd yn ddiwyd iawn i lanw ei gylch; os byddai gartref ac yn iach, nid elai un cyfarfod gweddi, cyfeillach grefyddol, nag Ysgol Sabbothol heibio, heb ei fod ef yn wyddfodol, ac yn gwneyd ei ran ynddynt. Yr oedd ei ofal yn fawr am heddwch a chysur yr eglwys, a dychweliad y gwrandawyr. Byddai rhyw anghydfod rhwng rhai o'r aelodau a'u gilydd, neu lithriad proffeswr i ryw bechod gwaradwyddus, yn ofid calon iddo. Trwy ei ymddygiad sanctaidd, ei ymddiddanion duwiol, ei serchawgrwydd, a'i ddiniweidrwydd digyffelyb, ei fawr ddiwydrwydd i lanw ei gylch fel gweinidog, ei weddiau dwysion, a'i bregethau diwygiadol ac ymarferol, bu yn foddion yn ystod ei weinidogaeth fer i ychwanegu amryw ugeiniau at yr eglwys yn Nhroedyrhiw, ac ychydig yn Nghraigybargoed. Yr oedd Mr. Thomas yn llanw ei gylch i bwrpas yn Nhroedyrhiw a Chraigybargoed; perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, a gallasem ni feddwl y buasai ei arosiad yn hwy yn ei gylch yn fendith fawr i achos crefydd; ond barn y Llywydd Doeth ydoedd mai gwell oedd ei symud oddiwrth ei waith at ei wobr, ac felly rhaid i ni fod yn ddistaw, ac ymostwng i'w drefn ddoeth ef a dyweyd, "pob peth yn dda."

## SEION, ABERCANAID.

Dechreuwyd cynal moddion cyhoeddus yn Abercanaid yn y flwyddyn 1859. Cedwid Ysgol Sabbothol yn y lle gan aelodau o Bethesda, Zoar, Adulam, ac Ynysgau, Merthyr; ond yn benaf gan aelodau Saron, Troed-



Digitized by Google

yrhiw. Byddai yr Ysgol yn cael ei chynal o dŷ i dŷ, hyd nes y rhentwyd tŷ o dan y siop 287, yn ymyl y gamlas. O hyny allan dyma lle cynhelid pob moddion cyhoeddus, megis cyfarfodydd gweddi, a phregethu yn achlysurol. Byddai Mr. Morgans, Troedyrhiw, a Mr. Gwesyn Jones, Bethesda, yn rhoddi ambell i bregeth yn awr ac yn y man. Yn y flwyddyn 1860, penderfynwyd adeiladu capel, ac ymgymerwyd a'r gwaith yn galonog ac o ddifrif. Cafwyd cynllun gan Mr. Jonathan Reynolds, Merthyr, ac adeiladwyd y capel gan Mr. Thomas Williams, Pentyrch. Costiodd 572p. Ffurfiwyd yma eglwys yr hon a rifai tua 43. Y diaconiaid oeddynt Ebenezer Davies, Pentrebach, a William Davies, o'r un lle. Yr oedd y ddau hyn yn ddiaconiaid yn barod yn Troedyrhiw, ac wedi bod yn gwasanaethu y swydd am flynyddau lawer yno. Mae William Davies wedi myned adref oddiwrth ei waith at ei wobr—wedi newid y cledd am y palmwydd —dyn hynaws a charedig ydoedd. Ond y mae Ebenezer Davies yn fyw ac yn llawn bywyd gydag achos ei Feistr etto. Yr oedd amryw eraill o ddynion da iawn yn dechreu yr achos yma—Dafydd William, William Roderick, John Lewis, William James, Jacob Davies, Thomas Davies, Thomas L. Thomas, a Thomas Lewis; mae y tri blaenaf wedi myned er's amryw flynyddau i "gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig," ond mae y lleill yn ffyddlon a gweithgar gyda'r achos yn y lle. Agorwyd y capel newydd Medi 19eg a'r 20fed, 1860. Cymerodd y gweinidogion canlynol ran yn y gwasanaeth agoriadol, Meistri J. Davies, Aberaman; M. Ellis, Mynyddislwyn; T. Rees, Cendl; W. Griffiths, Llanharan; R. Morgan, Llechryd; J. Morgan, Cwmbach; J. Thomas, Tresimwn; D. Williams, Glynnedd; J. Davies, Taihirion; M. Morgan, Bethesda-y-fro; J. Evans, Maendy; R. Gwesyn Jones, Bethesda, Merthyr; B. Owens, Zoar, Merthyr; E. Jones, Ynysgau, Merthyr, a W. Morgans, Troedyrhiw. Cymerodd Mr. Morgans, Troedyrhiw, ofal yr eglwys; ond oblegid rhyw anghydwelediad rhoddodd hi i fyny, wedi bod yn gofalu am dani am tua blwyddyn. Bu yr eglwys am tua blwyddyn wedi hyny heb neb yn neillduol yn gofalu am dani. Yr oedd erbyn hyn yn rhifo tua 80. Yn y flwyddyn 1863, rhoddwyd galwad i Mr. David Thomas, Hermon, Ystradfellte, ac ar y 10fed o Fai, yn yr un flwyddyn, dechreuodd Mr. Thomas ar ei weinidogaeth yn Abercanaid.

Yn y flwyddyn 1864, oblegid fod y capel cyntaf yn llawn, a'r lle yn cynyddu, daeth yr eglwys i'r penderfyniad i helaethu a chyfnewid yr hen gapel. Y cynllunydd oedd Mr. T. Thomas, Glandwr. Costiodd yr helaethiad a chodi festri yn ymyl y capel 500p. Gorphenaf 9fed a'r 10fed, 1865, agorwyd y capel newydd. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri D. Henry, Penygroes; R. Jones, Llanidloes; R. Gwesyn Jones, D. Price, W. Edwards, Aberdar; R. Morgan, Glynnedd; W. Williams, Hirwaun; T. Thomas, Glandwr, a T. Rees, D.D., Abertawy. Mae yn awr yn gapel hardd a chyfleus. Yn y flwyddyn 1870, ymadawodd Mr. D. Thomas i Gwernllwyn, Dowlais. Mae gwedd lewyrchus ar yr achos, ac y mae yr eglwys wedi rhoddi galwad i Mr. George Williams, Amlwch, Mon, a bydd yn dechreu ar ei weinidogaeth Mawrth 10fed, 1872.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Thomas. Bu am dair blynedd yn athrofa y Bala, ond y mae yn awr yn athrofa Yale yn America.

Digitized by Google

## ADULAM, MERTHYR TYDFIL.

Dechreuwyd yr achos hwn tua'r flwyddyn 1829, mewn canlyniad i ymadawiad Mr. David Williams, a'r rhai a lynasant wrtho, oddiwrth y Methodistiaid Calfinaidd, oblegid rhyw ymryson a gymerasai le rhyngddo a hwynt. Wedi troi allan cymerodd Mr. David Williams ystafell yn y Bush Inn, ac yno y buont yn cyfarfod nes y cymerwyd tir ac yr adeiladwyd Adulam. Yr oedd teimlad gweinidogion Zoar a Bethesda yn dra gwrthwynebol i David Williams a'i bobl, ac felly hefyd y teimlai llawer o weinidogion y tu allan i Ferthyr, ond yr oedd amryw yn ei ffafrio ac yn myned ato i bregethu, ac yn ei wahodd yntau i'w pulpudau hwythau, ac o'r diwedd yn nghymanfa Tretwr, cydnabyddwyd ef a'r bobl dan ei ofal yn eglwys reolaidd. Yr oedd y capel dan faich o ddyled, ac ychydig o ymdrech a wnaed i'w thalu cyn diwedd oes Mr. David Williams. Nid rhyw lawer o gynydd oedd ar yr achos. Yr oedd y ffaith mai hen Fethodistiaid oeddynt yn gwneyd nad oedd fawr awydd ar yr Annibynwyr a ddeuai i'r lle ymwasgu atynt, yn enwedig gan fod yn y lle hen eglwysi Annibynol yn barod. Ni bu Mr. D. Williams byw yn hir wedi iddo uno a'r Annibynwyr, canys yr ydym yn cael iddo farw Mehefin 12fed, 1832.

Wedi dibynu dros ychydig ar gynorthwy gweinidogion cymydogaethol, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Josuah Thomas, myfyriwr yn athrofa y Drefnewydd; ac urddwyd ef Ebrill 12fed, 1833. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Lewis, Abergavenny; holwyd y gofyniadau arferol i'r gweinidog gan Mr. T. B. Evans, Ynysgau; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Lewis, Tredwstan; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Penybont, ac i'r eglwys gan Mr. H. Jones, Tredegar.* Llafuriodd Mr. Thomas yma yn ffyddlon am ddeng mlynedd, a thalwyd ychydig o'r ddyled oedd ar y capel; ac aelododd amryw o Annibynwyr a ddeuant o leoedd eraill, eu hunain yn y lle. Yn y flwyddyn 1843, derbyniodd Mr. Thomas alwad o Bethlehem, Llangadog, a symudodd yno. Cyn diwedd y flwyddyn hono, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Thomas Jones, yr hwn dair blynedd cyn hyny a urddasid yn weinidog i'r eglwysi bychain yn Rhiw, Nantglyn, a Llansanan, yn sir Ddinbych; a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Rhagfyr 27ain a'r 28ain, 1843. Bu Mr. Jones yma am yn agos i dair blynedd, hyd nes y symudodd i Aberaman, ac yno y bu farw. Wedi ei ymadawiad ef rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Levi Lawrence, Llantrisant, yr hwn a fu yma dros lawer o flynyddoedd, hyd nes y symudodd i Casnewydd yn 1862. Yn 1857, adeiladwyd y capel presenol, yn mesur 46 troedfedd wrth 35, a chostiodd 1200p., ac er fod ymdrech mawr wedi ei wneyd i dalu am dano y mae 700p. yn aros. Ar ol hyny rhoddwyd galwad i Mr. Abraham Mathews, a bu yn gweinidogaethu yma mewn cysylltiad a'r Llwydcoed hyd wanwyn y flwyddyn 1865, pryd yr ymfudodd i Patagonia. Cyn diwedd y flwyddyn hono, rhoddwyd galwad i Mr. Fredrick Evans, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin; ac urddwyd ef Chwefror 22ain, 1866, a bu yma yn barchus hyd nes yr ymfudodd i Blossburg a Morris Run, Pennsylfania, America, yn y flwyddyn 1869. Yn gynar yn y flwyddyn ganlynol rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Daniel T. Williams, aelod a phregethwr perthynol i Zoar; ac urddwyd ef Gorphenaf 18fed a'r 19eg, 1870. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys

* *Yr Efengylydd*, 1833. Tu dal. 187.

gan Mr. D. Jones, B.A., Merthyr; holwyd y gweinidog gan Mr. J. Morgan, Cwmbach; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. P. Howell, Merthyr; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Edwards, Aberdar, ac i'r eglwys gan Mr. W. Williams, Hirwaun.* Mae Mr. Williams yn parhau i lafurio yma. Yr anfantais fwyaf a deimlir ydyw y ddyled drom sydd yn aros yn faich mawr ar ysgwyddau gweiniaid. Dan y dwfr i raddau y mae yr achos wedi bod yn Adulam trwy y blynyddoedd. Cychwynodd dan amgylchiadau anfanteisiol i ennill dylanwad—yr oedd y capel pan y cyfodwyd ef, ac am flynyddau wedi hyny, mewn lle nad oedd mynedfa gyfleus ato—mae y mynych symudiadau sydd wedi bod yn y weinidogaeth wedi milwrio yn erbyn llwyddiant yr achos, ac nid bob amser y maent wedi bod yn hapus yn eu dewisiad—ac y mae baich y ddyled yn fwy na dim arall wedi, ac yn bod, yn fawr yn erbyn y lle. Mae yma gapel da, ac mewn man mor gyfleus erbyn hyn ag un yn y lle, a'r fynedfa ato o heol newydd, agored. Bernir gan lawer mai troi y capel at wasanaeth y Saeson fyddai y peth goreu yma, ac i'r Cymry sydd yma nas gallant fwynhau gweinidogaeth Seisnig fyned i un o'r capeli Cymreig sydd yn ddigon cyfleus iddynt. Beth bynag, y mae yn eglur y dylai fod darpariaeth helaethach yn Merthyr ar gyfer cynydd cyflym yr iaith Saesonig; a darpariaeth ar gyfer dosbarth o bobl nad oes yno hyd yma ond darpariaeth anmherffaith ar eu cyfer.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

David Jones. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Bethlehem, Llangadog, ac wedi hyny symudodd i Hermon, ac y mae yn awr yn Gomer, Ohio, America.

Benjamin Watkin. Bu farw yn ieuangc.

William Evans. Mae yn awr yn America.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

David Williams. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanwrtyd yn nechreu y flwyddyn 1768. Yr oedd ei dad, Edward Williams, yn aelod yn hen eglwys Annibynol Llanwrtyd, ac yn un cynes a thanllyd iawn ei ysbryd gyda chrefydd, ac yr oedd ei fam yn chwaer i Mr. David Davies, Llangatwg. Pan yn dra ieuangc symudodd gyda'i rieni i Gilycwm a Rhandirmwn, ac yno y daeth i adnabyddiaeth a pherchenog y gweithiau mwn yr hwn a ddysgodd dir-fesuriaeth iddo, yr hyn mewn blynyddau dyfodol a fu o fantais fawr iddo. Yr oedd y pryd yma yn wyllt ac annuwiol, yn dilyn pechod yn ei holl ffurfiau, yn ymhyfrydu mewn canu a dawnsio, ac ymladd ceiliogod, ac yn dyngwr arswydus i'w wrando. Tyngai unwaith mor arswydus nes y dywedai un o'r tyngwyr gwaethaf yn y wlad wrtho:—"Dafydd, yr wyt ti yn tyngu nes y mae arna' i arswyd dy glywed." Aeth hyny fel saeth i'w galon i glywed y fath un yn ei geryddu; ac o hyny allan enciliodd oddiwrth ei hen gwmni annuwiol, ac nid ymgysylltodd a hwy mwy. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig cyn hir gyda'r Methodistiaid yn Nghilycwm. Arferai fyned i Langeithio i gymundeb, ac yn aml gyda lluaws eraill dychwelai oddiyno "dan rodio a neidio a moli Duw." O gylch y flwyddyn 1789, y daeth i Ferthyr, ac yr oedd yn un o'r rhai blaenaf i gychwyn achos y Methodistiaid yn y lle; ac am lawer o flynyddoedd efe oedd prif ateg yr achos; gydag ef y llettyai y pregethwyr a ddeuai

* *Tyst Cymreig*, Gorphenaf 29ain, 1870.

heibio, ac yr oedd wedi tyfu i fyny gyda'r eglwys. Yr oedd wedi ennill ymddiried ei feistri fel is-oruchwyliwr yn y gwaith, ac yr oedd hyny yn rhoddi iddo ddylanwad dros eraill. Dechreuodd bregethu pan yr oedd tua 38 oed, ac urddwyd ef o gylch y flwyddyn 1812, a daeth yn fuan yn un o ddynion pwysicaf y Corph yn eu cyfarfodydd misol a'u cymanfaoedd. Yr oedd yn bregethwr grymus a nerthol, ac wedi myfyrio duwinyddiaeth yn dda, ac yn gyfarwydd yn ysgrifeniadau y Puritaniaid, yn enwedig Dr. Owen, yr hwn oedd ei hoff awdwr. Cyfieithodd ranau o'i waith ef a gwaith Boston i'r Gymraeg. Yr oedd yn ddyn o ewyllys gref, ac yn dra phenderfynol am ei ffordd, yr hyn yn nghyd a'i olygiadau ar natur yr Iawn, mai dirprwyol ac nid masnachol ydoedd, a arweiniodd i wrthdarawiad anhapus rhyngddo ef a'r Methodistiaid. Parodd yr anghydfod flinder mawr yn eglwys Pontmorlais, ac yn y Corph. Anfonwyd cenhadon yn awdurdod y gymdeithasfa i ddiarddel yr holl eglwys, ac i dderbyn yn ol y rhai a welent yn dda bob yn un ac un, ond ni fynent dderbyn David Williams, na'r rhai a ymlynent wrtho; a'r diwedd fu iddo droi allan, a chychwyn achos iddo ei hun, ac adeiladu Adulam, ac ymwasgu a'r Annibynwyr; a gweinidogaethodd yn y capel a adeiladodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 12fed, 1832, pan yn 64 oed. Cyduna pawb a adwaenant David Williams i ddyweyd ei fod yn ddyn o alluoedd pell uwchlaw y cyffredin—o ddoniau helaeth fel pregethwr—o ysbryd gwrol a didroi yn ol—ac o dduwioldeb amlwg a diamheuol. Yr oedd ei ymddiriad yn yr Arglwydd yn dal heb siglo yn mhob tywydd a'i cyfarfu; ac er na fynai ei blygu gan ddynion, yr oedd yn gwbl ymostyngol i ewyllys Duw. Yn ei gystudd diweddaf galwai rhai o'i gyfeillion heibio iddo, a gofynent a gaent weddio am i'r Arglwydd ei arbed ychydig yn hwy, ei ateb oedd, "Na, gadewch ddwylaw yr Arglwydd yn rhydd, ei was ef ydwyf fi, gwnaed a mi fel y byddo da yn ei olwg." Pan y gofynodd ei wraig iddo beth oedd ei deimladau wrth weled ei fod yn myned yn ddyfnach i'r glyn, dywedodd, "O! Mari fach, y mae yr hen graig yr wyf wedi pwyso arni am bum'-mlynedd-a-deugain yn dal yn awr, a'r cyfamod a wnaethum y pryd hwnw a Duw yn Nghrist yn aros yn ddisigl." Bu farw fel y bu fyw, mewn ymddiried disigl yn yr Arglwydd; a chladdwyd ef o fewn muriau capel Adulam, a dangoswyd y parch mwyaf iddo gan yr holl dref ddiwrnod ei gladdedigaeth.

## PENYDARRAN.

Dechreuwyd yr achos yma yn y flwyddyn 1837, gan Mr. Josuah Thomas, Adulam, a rhai aelodau perthynol i'r eglwys yno oedd yn byw yn Dowlais. Cadwai Mr. Thomas ysgol ddyddiol mewn ty sydd yn awr yn dafarndy wrth gongl uchaf y fynwent, ac yn y ty hwnw y pregethai. Wrth weled fod yr achos yn myned rhagddo, cymerodd Mr. Thomas a'r cyfeillion dir at adeiladu capel, a gosodwyd y gareg sylfaen i lawr Awst 1af, 1839, ac ar yr achlysur traddodwyd araeth gan Mr. R. Jones, Sirhowy, a phregethodd Mr. J. Hughes, Dowlais. Mesurai y capel 42 troedfedd wrth 36 troedfedd, ac aeth y draul i'w godi yn fwy na 700p. Galwyd y capel yn Horeb, ac agorwyd ef y flwyddyn ganlynol. Llai nag ugain oedd nifer yr aelodau pan aethant i'r capel newydd, ac yn mysg eraill, coffeir am y rhai a ganlyn:—John Williams, neu Sion William, fel ei gelwid yn gyffredin,

Digitized by Google

ac yr oedd ef a'i wraig, Mari, yn nodedig o ffyddlon—arno ef yr oedd gofal yr arian, ond arferai ddyweyd mai "Mari oedd y bancer;" William Evans, Llanddewi, oedd frawd ffyddlon, ac yn gynghorwr melus yn y cyfeillachau; John Morgan oedd yn un nodedig o afaelgar mewn gweddi, yr oedd ef wedi ei dderbyn yn aelod gan Mr. Peter Jenkins yn Gwynfe; Thomas Jenkins hefyd a gyfrifid yn ddyn da gan y rhai a'i hadwaenai. Bu y rhai hyn, ac amryw eraill, yn help mawr ar gychwyniad yr achos. Llafuriodd Mr. Thomas yma gyda diwydrwydd mawr a graddau o lwyddiant hyd y flwyddyn 1843, pryd y symudodd i Bethlehem, Llangadog, sir Gaerfyrddin. Hyd yn hyn yr oedd yr eglwys hon mewn cysylltiad gweinidogaethol ag Adulam; ond wedi ymadawiad Mr. Thomas, penderfynodd gael gweinidog iddi ei hun, a rhoddodd alwad i Mr. Evan Morgans, yr hwn oedd yn bregethwr cynorthwyol yn eglwys Glandwr, gerllaw Abertawy, ac urddwyd ef Mawrth 26ain a'r 27ain, 1844. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Davies, Mynyddbach; holwyd y gweinidog gan Mr. D. Davies, Taihirion; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Jones, Rhydri; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. T. Davies, Abertawy, ac i'r eglwys gan Mr. L. Powell, Caerdydd. Bu Evan Morgans yma am bum' mlynedd yn dderbyniol a pharchus; ond yn Mehefin 1849, bu farw o'r geri marwol, a chladdwyd ef a'i wraig ag un plentyn iddynt yr un diwrnod!

Yn nechreu y flwyddyn ganlynol, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Meredith Bowen, Penywaun, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Hydref 8fed a'r 9fed, 1850. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri H. Daniel, Pontypool; J. Thomas, Glynnedd; E. Hughes, Penmain; W. Williams, Tredegar; J. Evans, Maendy; W. Williams, Hirwaun; J. Hughes, Dowlais; E. Rowlands, Pontypool; T. Rees, Cendl; D. Roberts, Dowlais; T. Jeffreys, Penycae; J. Thomas, Aberaman; W. Edwards, Aberdar; J. Thomas, Rhymni; J. Jones, Rhydri, a W. Roberts, Tabor. Rhifedi yr aelodau pan ddechreuodd Mr. Bowen ei weinidogaeth oedd 128, ac yr oedd baich lled drwm o ddyled ar y capel, ond cynyddodd yr eglwys a'r gynulleidfa yn gyflym, fel erbyn 1853 y barnwyd yn angenrheidiol helaethu y capel i'w faintioli presenol. Mesura 56 troedfedd wrth 42 troedfedd. Yn mhen tair blynedd, sef yn 1856, adeiladwyd ysgoldy eang a chyfleus yn nglyn a'r capel, ac aeth yr holl draul rhwng y capel a'r ysgoldy yn 1500p., ac nid oes yn aros heb ei dalu ond rhyw 400p. Mae yr achos yma wedi myned trwy gyfnewidiadau lawer mewn amser byr. Parodd safiad gwaith Penydarran i lawer adael y lle. Nid oes ond dau frawd ac wyth chwaer yma yn awr ag oedd yma pan ddechreuodd Mr. Bowen ei weinidogaeth ychydig gydag un-mlynedd-ar-hugain yn ol; ond y mae yr achos wedi dal ei dir, a'r eglwys yn awr yn rhifo uwchlaw 250 o aelodau.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Henry Williams. Yr oedd ef yn fab i John a Mari Williams, yr hen aelodau cyntaf. Bu am ychydig yn yr ysgol yn y Crwys, ond gwanhaodd ei iechyd a bu farw yn y flwyddyn 1844. Canmolir ef fel dyn ieuangc hynaws a chrefyddol.

John Jones. Urddwyd ef yn Llanybri lle y daw ei hanes etto dan ein sylw.

John Evans. Mae ef yn awr yn bregethwr cynorthwyol parchus yn Gwernllwyn, Dowlais.

David Waters. Mae ef yn Cwmyrhondda, ac yn pregethu yn achlysurol.

Digitized by Google

Heblaw y rhai a grybwyllwyd eisioes, bu yma eraill y rhai a deilyngant gofnodiad parchus. Rees Lloyd oedd ddyn bywiog, llygadgraff, un o'r rhai goreu i drin materion eglwysig. Thomas Price, un genedigol o Lanymddyfri, oedd ddyn da a heddychol, a theimlid colled ar ei ol. Diaconiaid presenol yr eglwys ydyw Thomas Jones, William Griffiths, Thomas Davies, a John Jones; ac y maent yn gwir ofalu am yr achos yn y lle.*

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Evan Morgans. Un genedigol o ardal Pentyrch ydoedd. Derbyniwyd ef yn aelod yn Taihirion; ond nid ydym yn sicr a ddechreuodd bregethu yno. Symudodd i gymydogaeth Abertawy, ac aeth yn aelod i Glandwr, ac yr oedd yn bregethwr cynorthwyol perthynol i'r eglwys hono pan dderbyniodd alwad o Horeb, Penydarran. Nid oedd wedi cael ond ychydig o fanteision addysg, ond yr oedd ganddo ddawn nodedig mewn gweddi, ac yr oedd weithiau yn pregethu yn dra effeithiol, ond ei fod yn ddiffygiol mewn chwaeth, ac yn lled gyfyng ei wybodaeth. Bu yn ymladd yn galed ag amgylchiadau y byd, a chyn ei urddo ac wedi ei urddo yr oedd yn dilyn ei alwedigaeth fel dilledydd er ei gynhaliaeth ei hun a'i deulu. Bu farw, fel y crybwyllasom, o'r geri marwol yn mis Mehefin, 1849, a bu ef a'i wraig ac un o'i blant farw yr un dydd; a gadawyd nifer o blant ganddynt ar ol heb dad na mam, ond bu "Tad yr amddifaid" yn dirion o honynt, fel y deallwn na fu arnynt eisiau dim daioni.

## EBENEZER, CEFN-COED-Y-CYMER.

Mae y lle yma yn sir Frycheiniog, ond y mae bob amser wedi bod yn nglyn a chyfundeb Morganwg. Canghen ydyw Ebenezer o Bethesda, Merthyr; ac yr oedd yma cyn cychwyniad yr achos yn y lle hwn nifer o bersonau mor ffyddlon a neb o'r rhai a berthynent i eglwys Bethesda. Arferent gefnogi eu gweinidog, Mr. Methusalem Jones, yn ei holl lafur. Yn mysg y ffyddloniaid hyn yr oedd Morgan Morgans, Morgan Jenkins, Samuel Jenkins, ac eraill. Yr oeddynt ynddarllenwyr da ac yn gan wyr medrus, ac felly yn alluog i gario yr achos yn mlaen yn ei holl ranau. Arferent gyrchu i Droedyrhiw i'r ysgol bob boreu Sabboth ar gychwyniad yr achos yno, ac yn ol i'r Cefn erbyn ciniaw, ac yn ol a hwy drachefn i'r ysgol i Bethesda erbyn dau o'r gloch. Tua'r flwyddyn 1836, dechreuasant gynal moddion ar y Cefn, ac yn fuan cymerasant ystafell dan ardreth yn y Cefnisaf, a deuai Mr. M. Jones yno i bregethu. Cyrchent i lawr i Bethesda bob boreu Sabboth, a chynhelid ysgol yn y Cefn am ddau, a chyfarfod gweddi neu bregeth yn yr hwyr. Yn yr adeg yma daeth Mr. Evan Williams i fyw i Ferthyr, a bu yn cadw ysgol yn nghapel Bethesda am dymor. Yr oedd Mr. Williams wedi ei urddo yn Moelfro, Mon, ond ymfudodd oddiyno i America, ac yn mhen amser dychwelodd i Gymru, a thua'r flwyddyn 1837, daeth i Ferthyr. Pregethai yn fynych yn Bethesda, ac i'r ganghen ar y Cefn, ac yr oedd yn dra derbyniol, ac o'r diwedd penderfynwyd yn unfrydol mai gwell fuasai i'r aelodau ar y Cefn ymneillduo ac ymffurfio yn eglwys yno, ac i Mr. E. Williams fod yn weinidog iddi.

* Llythyr Mr. J. M. Bowen.

Digitized by Google

Gollyngwyd hwy yn rheolaidd, ac yr oeddynt oll yn 35 o nifer heblaw gwragedd a phlant. Wrth weled yr achos yn myned rhagddo, daethant i'r penderfyniad i adeiladu capel, a phrynwyd darn o dir i'r perwyl gan un Lewis Edwards, yr hwn oedd wedi tynu darn o'r mynydd a gwneyd gardd o hono, ac wedi ei ddigolledu ef, aethant at Lady Gwyn, Holford, a chawsant y darn tir am bris isel, ac yn y flwyddyn 1838, adeiladasant arno gapel gwerth pedwar cant o bunau, a galwasant ef, Ebenezer. Bu Mr. Williams yn gweinidogaethu yma am flwyddyn wedi codi y capel; ond cododd ryw anghydfod rhyngddo ag arolygydd y gwaith maen yn nghylch mur y fynwent; ac ar yr adeg hono hefyd yr oedd y cyffroad Siartaidd yn berwi yr holl wlad, a chan fod llawer o'r eglwys hon yn cefnogi pwyntiau y Siartr, a Mr. Williams yn eu gwrthwynebu, barnodd ef a hwythau yn oreu ymadael. Ceir ar glawr un o rifynau y *Diwygiwr* am 1839, gymeradwyaeth yr eglwys iddo ar ei ymadawiad, yn yr hwn y cyfeirir yn bendant at eu gwahaniaeth golygiadau ar bwngc y Siartr, fel rheswm dros hyny. Aeth Mr. Williams i sir Aberteifi, ac wedi bod yn cadw ysgol mewn amryw fanau, derbyniodd alwad gan eglwys Penycae, Llanarth, lle y llafuriodd hyd ddydd ei farwolaeth. Cyn hir wedi ymadawiad Mr. Williams, cymerodd Mr. William Moses, Libanus, gerllaw Aberhonddu, ofal yr eglwys mewn rhan, a deuai yma yn rheolaidd bob mis i gadw cymundeb, ac ar y Sabbothau eraill pregethid gan ddau bregethwr cynorthwyol oedd yn yr eglwys, a chan eraill yn achlysurol. Bu Mr. Moses yn parhau i ddyfod yma yn gyson hyd ddechreu y flwyddyn 1842, a thymor cythryblus a fu y tymor hwnw. Nid awn yma i mewn i'r holl amgylchiadau blinion. Bu yr achos o'r ddau tu yn cael ei drin yn gyhoeddus ar dudalenau y *Diwygiwr* am 1842, a gall y neb a ewyllysio wybod yr holl helynt ei chael yno; ond y mae tegwch hanesyddol yn galw arnom i roddi crynodeb o'r prif ffeithiau. Fel yr ydym wedi crybwyll fwy nag unwaith, yr oedd y cynwrf Siartaidd yn cyffroi yr holl weithfaoedd yn y dyddiau hyny, ac yr oedd llawer iawn o aelodau eglwysig yn uno ynddo. Nid ydym wrth hyn am awgrymu fod pawb o'r Siartiaid yn cymeradwyo y moddion gorfodol a threisiol y dadleuid drosto gan lawer o'r rhai mwyaf eithafol, oblegid gwyddom fod llawer o honynt yn hollol wrthwynebol i hyny, a thra y dadleuant yn wresog dros holl bwyntiau y Siartr, etto, ni fynent ddefnyddio unrhyw foddion gorthrechol i'w sicrhau. Yr oedd dylanwad y cyffroadau hyn wedi effeithio yn fawr ar yr eglwysi, ac wedi arwain llawer yn eithafol yn eu golygiadau ar ryddid eglwysig, ac y mae yn ddrwg genym ychwanegu, edrychent ar weinidogion fel gwrthwynebwyr iawnderau y bobl. Mae yn sicr genym mai oddiar gamddealldwriaeth yr oedd y fath synied yn cyfodi, oblegid y mae cydymdeimlad gweinidogion Ymneillduol wedi bod bob amser a hawliau y werin. Dichon fod eithriadau, ond nid ydynt ond ychydig a dibwys. Mae yn ymddangos mai yn Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer, y gweithiodd y teimlad yma i ffurf amlwg a gweledig, er fod yr ysbryd yn ymsymud ar wyneb llawer o'r eglwysi eraill. Wedi i'r eglwys yn Saron, Tredegar, ymrwygo, ac i'r gangen sydd yn awr yn Adulam, Tredegar, fyned allan, gwrthododd gweinidogion y sir, a gweinidogion y siroedd cylchynol fyned i bregethu iddynt. Yr oedd pregethwr cynorthwyol perthynol i'r eglwys hon o'r enw Richard Evans, yn arfer myned i bregethu iddynt, a phregethwr cynorthwyol arall perthynol i Bethesda, Merthyr, o'r enw Walter Williams, ac yr oeddynt yn gwneyd hyny trwy gydsyniad yr eglwysi. Galwyd sylw eglwysi Bethesda ac Ebenezer gan gyfundeb dwyreiniol

Digitized by Google

Morganwg, trwy yr ysgrifenydd, Mr. W. Jones, Penybont-ar-ogwy, at yr anmhriodoldeb o'u bod yn gadael i'w pregethwyr cynorthwyol fyned i bleidio cynnulleidfa afreolaidd mewn sir arall. Penderfynodd eglwys Bethesda atal Walter Williams i fyned, ond gwrthodai eglwys Ebenezer wahardd i Richard Evans fyned; ac yn yr adeg yma cododd Walter Williams ei lythyr i fyned o Bethesda i'r Cefn, ac o hyny allan cyrchai y ddau frawd yn gyson i Dredegar trwy ganiatad a chefnogaeth eglwys y Cefn. Yn yr adeg yma penderfynwyd urddo Richard Evans a Walter Williams i fod yn weinidogion yn y Cefn, ac i gynorthwyo y cyfeillion yn Adulam. Penderfynwyd i'r urddiad fod Chwefror 15fed, 1842. Gwahoddwyd amryw o weinidogion Morganwg a Brycheiniog i ddyfod i'w hurddo, ond ni ddaeth yr un o honynt; yna penderfynodd yr eglwys fyned yn mlaen a'r gwaith eu hunain. Hysbyswyd dyben y cyfarfod gan Jedediah Jones, henuriad, a darllenwyd y cyfamod eglwysig gan Morgan Jenkins, un o'r brodyr; yna gofynodd Jedediah Jones i'r ddau frawd oedd i'w hurddo, os oeddynt yn cydsynio a'r hyn a ddarllenwyd, ac wedi iddynt ateb yn gadarnhaol, gofynodd i'r eglwys os oeddynt yn eu neillduo i'r swydd weinidogaethol, i'r hyn yr arwyddasant eu bod trwy godi dwylaw, ac wedi hyny rhoddodd Jedediah Jones ychydig o gynghorion o'r ddau tu, a gweddiodd Dafydd Powell, Tredegar, a Jedediah Jones. Ar ol hyny pregethodd y ddau frawd a urddasid. Ceir hanes cyflawn am yr urddiad, a'r cyfamod a gaeliwyd ar y pryd, yn y *Diwygiwr*, 1842, tu dal. 125, ac mewn rhifynau dilynol ceir y ddadl rhyngddynt a gweinidogion y sir yn nghylch yr hyn a wnaethant. Buont allan o'r cyfundeb am flynyddau, nid elai yr un gweinidog atynt hwy, ac ni dderbynid y ddau frawd a urddasid ganddynt i unrhyw eglwys arall; ond yr oedd yr achos ar y cyfan yn myned yn mlaen yn gysurus. Nid oedd yr holl eglwys yn cydsynio a'r hyn a wnaed oblegid aeth nifer o'r aelodau allan gyda Mr. W. Moses i gychwyn achos arall yn y lle, yr hwn a ddaw etto dan ein sylw. Wedi i eglwys Ebenezer a'i gweinidogion fod ar wahan am ryw bedair blynedd, daeth gweinidogion y cyfundeb a hwythau i gyd-ddealldwriaeth, a chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ebenezer, yn yr hwn y cydnabyddwyd Richard Evans a Walter Williams yn weinidogion rheolaidd, ac y claddwyd pob peth annymunol oedd wedi pasio. Bu y ddau yn cydlafurio hyd Awst, 12fed, 1849, pryd y bu farw Walter Williams o'r geri marwol; ac ar y 29ain o fis Ebrill, 1850, bu farw Richard Evans o'r darfodedigaeth, ac y mae cyrph y ddau yn gorwedd yn mynwent Ebenezer. Bu yr eglwys ar ol hyn heb weinidog hyd mis Medi, 1852, pryd yr urddwyd Mr. David Jones, a fuasai yn fyfyriwr yn Nghaerfyrddin. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri D. Davies, Pantteg; J. Jones, Rhydri, ac eraill. Bu yma am flynyddau, ond ychydig lewyrch fu ar yr achos yn ei ddyddiau ef. Symudodd at ei dad i sir Gaerfyrddin, lle y bu farw. Yn y flwyddyn 1860, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Griffith Roberts, yr hwn a urddasid yn Llansawel, ger Castellnedd, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma yn mis Tachwedd, y flwyddyn hono. Bu yma hyd fis Chwefror, 1864, pan y bu raid i'r eglwys dori pob cysylltiad ag ef, ac ymadawodd ac aeth at y Bedyddwyr. Am y pedair blynedd dilynol bu yr eglwys yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol; wedi hyny rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. David Abel Jones, yr hwn a fuasai yn weinidog yn Mhentre-estyll, gerllaw Abertawy, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yma Ionawr 6ed, 1868;

ac y mae Mr. Jones yn parhau i weinidogaethu yma. Mae y capel wedi ei ailadeiladu a'i helaethu, ac er fod cryn faich o ddyled yn aros, etto y mae yn ysgafnhau ychydig bob blwyddyn. Mae yr hen ffyddloniaid weithgar a diofn a gychwynasant yr achos yma ac a fuont gydag ef yn ei brofedigaethau, wedi myned agos oll, nid oes ond ychydig yn aros, a thô newydd sydd yma yn awr gwahanol iawn mewn llawer o bethau i'r rhai a fu o'r blaen.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Evan Lewis, a William Morgan. Cyd-ddechreuodd y ddau, ac yr oedd-ynt yn wyr ieuaingc gobeithiol, ond torwyd hwy i lawr yn mlodeu eu dyddiau.

William Lewis. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac y mae yn awr yn Newburgh, Ohio, America.

John Bowen. Ymfudodd yntau i America.

Daniel Davies. Urddwyd ef yn weinidog yn y Coly, lle y mae etto.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Walter Williams. Dechreuodd bregethu yn Bethesda, ond yn 1841, aeth yn aelod i Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer, a'r flwyddyn ganlynol dewis-wyd ef a Richard Evans yn gydweinidogion gan yr eglwys yno. Glowr ydoedd wrth ei alwedigaeth, a pharhaodd i ddilyn ei orchwyl ar ol ei urddo. Nid ystyrid ef yn un o alluoedd cryfion, ond yr oedd yn ddiwyd a ffyddlon, a bu yn dra defnyddiol. Ni chafodd ond byr gystudd. Ymaflodd y geri marwol ynddo, a bu farw Awst 12fed, 1849, yn 38 oed. Claddwyd ef yn mynwent Ebenezer, a gweinyddodd Meistri B. Owens, Zoar, a J. Hughes, Dowlais, yn ei gladdedigaeth.

Richard Evans. Dechreuodd ef bregethu yn Bethesda, ond ar sefydliad yr achos yn Cefn-coed-y-cymer aeth yno, ac yr oedd yn dra derbyniol fel pregethwr. Gweithiodd wrth ei gelfyddyd fel gôf yn ngwaith y Gyfartha tra y daliodd ei iechyd. Dewiswyd ef a Walter Williams yr un pryd i fod yn weinidogion i'r eglwys yn Ebenezer. Yr oedd Richard Evans yn ddyn llafurus, ac o alluoedd treiddgar, a phe cawsai addysg foreuol dda buasai yn rhagori fel meddyliwr a phregethwr. Ymaflodd y darfodedigaeth ynddo, a bu yn hir yn nychu, o'r diwedd dirwynodd ei oes i ben Ebrill 29ain, 1850.

David Jones. Yr oedd yn enedigol o gymydogaeth Felingwm. Derbyniwyd ef yn aelod yn Siloam, Pontargothi, lle hefyd y dechreuodd bregethu. Bu yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin, ond nid rhyw gynydd neillduol a wnaeth mewn dysgeidiaeth. Urddwyd ef yn Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer yn 1852, a bu yno rai blynyddau. Bu farw ei wraig o'r Cholera yn mis Tachwedd, 1854. Dilewyrch hollol fu ei weinidogaeth yn Ebenezer, ac ymaflodd afiechyd yn ei gyfansoddiad a dychwelodd i dy ei dad yn Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, lle y bu farw; ac nid oes genym ddim i'w ychwanegu am ei fywyd a'i gymeriad sydd yn werth ei gofnodi.*

* Yr ydym yn ddyledus i Mr. Henry Thomas, Cefn, am lawer o ddefnyddiau yr hanes uchod.

## TABOR, CEFN-COED-Y-CYMER.

Wedi urddiad Meistri W. Williams ac R. Evans gan eglwys Ebenezer, aeth nifer o'r aelodau a anghymeradwyant hyny allan gyda Mr. W. Moses—yr hwn oedd hyd hyny yn gweinyddu fel gweinidog yn Ebenezer—i ddechreu achos newydd. Cefnogwyd hwy yn hyny gan weinidogion y ddwy sir, Morganwg a Brycheiniog; a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r blaid oedd wedi myned allan ar y Cefn, Mai 9fed a'r 10fed, 1842, ac yn y cyfarfod gweinyddodd Meistri J. Prothero, Llangynidr; D. Jones, Aber; J. Stephens, Brychgoed; G. Griffiths, Aberhonddu; J. Hughes, Dowlais; J. Thomas, Adulam, Merthyr; D. Roberts, Dowlais, ac eraill. Yn y cyfarfod hwnw gwnaed cais, ond yn aflwyddianus, i ddwyn y pleidiau at eu gilydd.* Adeiladwyd yma gapel yn nghwr uchaf y Pentref, gyda mynwent helaeth yn nglyn ag ef, ac agorwyd y capel Medi 27ain a'r 28ain, 1845. Parhaodd Mr. Moses i lafurio yma hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 27ain, 1857, yn 49 oed. Wedi bod am dymor heb weinidog, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Richard Griffiths, pregethwr cynorthwyol perthynol i Zoar, Merthyr; ac urddwyd ef Mawrth 2il a'r 3ydd, 1858. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri T. Llewellyn, Mountain Ash; J. Morgan, Cwmbach; W. Williams, Hirwaun; J. Thomas, Tresimwn; D. Roberts, Dowlais; J. M. Bowen, Penydarran; J. Evans, Gellideg; J. Hughes, Dowlais; B. Owens, Merthyr; D. Jones, Cefn; B. Williams, Gwerullwyn; E. Jones, Ynysgau; J. Thomas, Salem, Aberdar; a D. Stephens, Glantaf. Mae Mr. Griffiths yn parhau i weinidogaethu yma, a'r achos yn myned rhagddo yn siriol. Rhifedi yr aelodau ydyw 80.

Codwyd yma ddau bregethwr:—

John Lloyd. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Cwmbach, Aberdar, lle y bu farw. Bydd genym air am dano yn nglyn a'r eglwys yno.

Evan Harris. Bu yn efrydydd yn athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef yn Mydroilyn, ac y mae yn awr yn byw yn Erwood, sir Frycheiniog.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

William Moses. Ganwyd ef yn Rhiwlas, yn mhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, Tachwedd 5ed, 1808. Yr oedd ei dad yn bregethwr cynorthwyol gyda'r Methodistiaid, a chafodd yntau addysg grefyddol pan yn blentyn. Derbyniwyd ef yn aelod yn Siloam, Pontargothi, yn y flwyddyn 1830, a chyn hir dechreuodd bregethu, a bu am dymor yn yr ysgol ramadegol yn Nghaerfyrddin, dan ofal Mr. D. Peter. Urddwyd ef yn Libanus, gerllaw Aberhonddu, Medi 26ain, 1833. Bu yn gofalu am yr eglwys yn Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer, am flynyddau mewn cysylltiad a Libanus, a phan y cymerodd ymraniad le yno, ffurfiodd eglwys arall, ac adeiladodd gapel newydd, yr hwn a elwir Tabor, a bu gofal y lle arno hyd ddydd ei farwolaeth. Yn y flwyddyn 1848, rhoddodd Libanus i fyny, a symudodd i fyw i Gefn-coed-y-cymer. Tymhestlog fu ei yrfa, ond daliodd i lafurio yn ddiwyd hyd ei ddiwedd. Bu farw Mehefin 27ain, 1857, yn 49 oed, ac

* *Diwygiwr*, 1842. Tu dal 176.

Digitized by Google

wedi bod 24 mlynedd yn y weinidogaeth, a chladdwyd ef yn mynwent Tabor. Gadawodd ar ei ol bump o blant yn amddifaid, a rhai o honynt ar ganol eu magu, ond bu Rhagluniaeth yn dirion o honynt.

## PEN-HEOL-GERIG.

Mae y lle hwn o fewn milldir a haner i Ferthyr, ar yr ochr orllewinol i'r ffordd yr eir i Aberdar. Yr oedd yma dri o bersonau o'r enwau Moses Richard, Jenkin Rosser, a Thomas Jones. Yr oedd y blaenaf yn perthyn i'r Bedyddwyr, yr ail i'r Wesleyaid, a'r trydydd i'r Annibynwyr; ond unent a'u gilydd i gynal cyfarfodydd gweddi yn y lle pan na byddai yn gyfleus iddynt fyned i'w gwahanol gapeli yn Merthyr. Cychwynwyd yma Ysgol Sabbothol, yr hon a gynhelid yn nhy un John Davies, a chyn hir dechreuwyd cynal cyfeillachau yn yr un lle. Annibynwyr oedd y rhan fwyaf o'r aelodau oedd yn byw yma, ac yn perthyn i eglwys Bethesda. Meddyliwyd am adeiladu yma gapel bychan, a chafwyd tir i hyny gan Mr. Evan Evans, Six Bells, am yr ardreth o swllt y flwyddyn. Costiodd yr adeilad 120p., ac yr oedd yn barod erbyn mis Mehefin, 1840. Cyn hir ar ol cael capel blinodd yr aelodau fyned i lawr i Bethesda, a ffurfiwyd hwy yn eglwys yma, ond mewn cysylltiad gweinidogaethol a Bethesda. Erbyn y flwyddyn 1854, yr oedd y capel wedi myned yn rhy gyfyng, heblaw ei fod mewn lle anghyfleus, a llwyddwyd i gael tir mewn man ar ochr yr heol fawr am yr ardreth o ddeg swllt y flwyddyn. Costiodd y capel newydd 368p. 8s. 7c., ac agorwyd ef Mai 26ain a'r 27ain, 1856. Yr oedd y lle dan ofal gweinidog Bethesda o'r dechreu, ond oblegid nas gallasai roddi iddynt gymaint o'i wasanaeth ag a ddymunent, rhoddodd Mr. Rhys Gwesyn Jones y gofal i fyny cyn hir wedi ei sefydliad yn Bethesda. Cawsant help gweinidogion cymydogaethol am dymor ar ol hyny, hyd nes y rhoddasant alwad i Mr. Samuel D. Jones, aelod o Brynseion, gerllaw Castellnewydd, ac urddwyd ef Gorphenaf 23ain, 1861. Bu Mr. S. D. Jones yma hyd y flwyddyn 1869, pryd y symudodd i Saron, Maesteg. Ar ol hyny rhoddwyd galwad i Mr. Daniel Jones, pregethwr cynorthwyol perthynol i Hen Gapel, Llanybri, ac urddwyd ef Mawrth 29ain, 1869. Nid arosodd yma ond ychydig gyda blwyddyn, canys symudodd yn ol i Lanybri, lle yr oedd ei deulu yn aros. Yn fuan wedi ei ymadawiad rhoddwyd galwad i Mr. Isaac J. Evans, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Ebrill 10fed, 1871, ac y mae yn parhau i lafurio yma.

Codwyd yma un pregethwr, sef Thomas C. Griffiths, sydd yn awr yn weinidog yn Pontlotyn. Yr oedd y lle yma gynt yn gyrchfa i luaws o Ferthyr, yn enwedig ar y Sabbothau, lle y dygid yn mlaen bob math o ddifyrwch pechadurus ac annuwiol, ond y mae yr holl arferion hyny wedi eu dileu o'r ardal. Mae gwedd siriol ar yr achos yma, ond y mae tir lawer i'w feddianu yma yn mysg poblogaeth fawr a chynyddol.

## GELLIDEG, MERTHYR.

Dechreuwyd yr achos yma gan eglwys Bethesda. Yn mysg yr aelodau mwyaf gweithgar ar gychwyniad yr achos yma yr oedd John Roger, Thomas Watkins, Edward Hughes, Rees Price, Thomas Morris, a David Jones.

Digitized by Google

Cynhelid yma Ysgol Sabbothol mewn gwahanol dai yn y gymydogaeth, a cheid ambell bregeth achlysurol yn yr awyr agored, gan na chynwysai yr un o'r tai anedd y lluaws a ddenai yn nghyd. Cafwyd y tir yn rhad at adeiladu capel, yr hwn a fwriedid i wasanaethu fel ysgoldy, gan Robert T. Crawshey, Ysw., a rhoddodd hefyd y ceryg a'r calch am bris isel, a chariataodd i'w oruchwylwyr arolygu y gwaith yn rhad, ac yn ychwanegol at hyny, rhoddodd 5p. at y draul. Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1860, a chyn hir corpholwyd yr aelodau oedd yn yr ardal yn eglwys, ac yr oedd y lle dan ofal Mr. R. G. Jones, hyd nes yr ymfudodd i America. Yn 1867, cymerodd Mr. James Evans, Craigyfargod, gynt, ofal yr achos, a chynhaliwyd cyfarfod i'w gydnabod yn weinidog yma yn mis Mai y flwyddyn hono, ac y mae yn parhau etto i lafurio yma.

## SALEM, MERTHYR.

Pan y cymerodd ymraniad le yn nghyfundeb y Wesleyaid, o gylch y flwyddyn 1850, ac yr ymadawodd y blaid a elwid y Diwygwyr Wesleyaid (*Wesleyan Reformers*), yr oedd nifer o honynt yn Merthyr, y rhai a ymadawsant oddiwrth yr hen gyfundeb, ac a ffurfiasant eu hunain yn Eglwys Ddiwygiadol yn y Temperance Hall. Yr oedd un hen frawd selog yn eu plith, Mr. Walter Watkins, yr hwn oedd mewn amgylchiadau gwell na'r rhan fwyaf o honynt, ac felly yn gefn mawr i'r achos. Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf gweithgar gyda phob achos da, ac yn enwedig gyda'r achos dirwestol yr oedd ei sel yn angherddol. Gelwid ef yn aml *Father Watkins*. Efe a W. John, Rees Chandler, George Williams, a Richard Harris, oeddynt brif gychwynwyr yr achos yma. Wedi bod am amser yn disgwyl i'r rhwyg rhyngddynt a'r hen gyfundeb gael ei gyfanu, ac heb weled gobaith am hyny, adeiladasant gapel iddynt eu hunain yn niwedd y flwyddyn 1856, yr hwn a alwyd Salem. Gweinyddid iddynt yn benaf gan Mr. W. Jones, Tredegar, a chan nifer o bregethwyr perthynol i'w plaid oedd yn yr amgylchoedd o Aberdar i Dredegar, ac weithiau yn niffyg un o'u pregethwyr eu hunain, pregethid iddynt gan rai o bregethwyr yr Annibynwyr. Dewisasant Mr. Thomas Jenkins, Aberaman, pregethwr a ymneillduasai oddiwrth yr hen gyfundeb gyda'r blaid Ddiwygiadol yn weinidog iddynt, ac yn nghyfarfod chwarterol cyfundeb dwyreiniol Morganwg a gynhaliwyd yn Bethesda, Merthyr, Mai 8fed a'r 9fed, rhoddasant eu hunain fel gweinidog ac eglwys drosodd i gyfundeb yr Annibynwyr, a derbyniwyd hwy yn roesawgar. Llafuriodd Mr. Jenkins yma hyd y flwyddyn 1864, pryd yr ymfudodd i America. Wedi hyny rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Ephraim Thomas, pregethwr cynorthwyol yn Pentreestyll, gerllaw Abertawy, ac urddwyd ef yma Mehefin 26ain a'r 27ain, 1866. Ni bu yma yn hir, canys symudodd i Rhesycae, sir Fflint, cyn diwedd 1868, ac er hyny ni bu un gweinidog sefydlog yn yr eglwys hon.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yma:—

Thomas Jones. Mae yn aelod yn bresenol yn Adulam, ond wedi rhoddi i fyny bregethu.

Thomas Davies. Mae yn parhau yma yn bregethwr cynorthwyol.

John Morgan. Mae yntau yma yn bregethwr cynorthwyol.

Rhif yr eglwys yn bresenol ydyw 80, ac y mae yr aelodau yn dangnefeddus yn eu plith eu hunain.

Digitized by Google

Cyn gadael eglwysi Cymreig Merthyr y mae yn briodol i ni wneyd cyfeiriad pellach at un gwr enwog, yr hwn yr ydym eisioes wedi crybwyll ei enw, a'r hwn na chawn gyfle i wneyd cofnodiad bywgraphyddol o hono yn un man arall, oblegid mai yn Lloegr y treuliodd ei oes.

THOMAS WILLIAM JENKYN, ond a adnabyddir yn well yn Nghymru fel Dr. Jenkyn. Yn nglyn ag eglwys Bethesda yr ydoedd, fel y gwelsom, pan y dechreuodd bregethu; ond ar Zoar yr edrychai trwy ei oes fel ei fam-eglwys, a theimlai bob amser serch cryf ati, fel y teimlai yn wir at holl eglwysi a gweinidogion ei le genedigol. Ganwyd Dr. Jenkyn Medi 1af, 1794, mewn bwthyn bychan, diaddurn, heb fod yn mhell o'r fan y saif capel Ynysgau, yn Merthyr. Yr oedd ei dad, David Jenkyn, yn enedigol o Lanymddyfri, sir Gaerfyrddin, a'i fam, Maria Morris—yn ol ei henw morwynol—yn enedigol o blwyf Llandilofawr, yn yr un sir. Cafodd ei dad pan yn fachgen well addysg na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion, fel y daeth yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg a Saesnaeg yn lled wych, ac yr oedd wedi bod yn arfer gyru ychain i Loegr, yr hyn a roddodd gyfle iddo i weled cryn lawer o'r byd; ond bu hyny hefyd yn brofedigaeth iddo i ymlygru gyda'r dosbarth yn mysg y rhai yr ymdroai. Yr oedd ei fam yn ferch i Thomas Morris, o Felinypentre, Llandilo—yr oedd yn un o un-ar-bymtheg o blant; a throdd pedwar o honynt allan yn weinidogion yn mysg y Bedyddwyr, sef Theophilus, Gabriel, Morris, a Thomas. Priododd David Jenkyn a Maria Morris yn Eglwys Merthyr, a dechreuasant eu byd yn isel arnynt yn mhob ystyr. Nid oedd eu ty ond tlodaidd, na'u dodrefn ond ychydig a thra chyffredin, a gwaeth na hyny yr oeddynt ill dau yn hollol ddyeithr i grefydd. Ymollyngai y gwr i fywyd ofer ac annuwiol, ac yr oedd y wraig yn gwbl anwybodus am Dduw, ei dŷ, a'i air. Gwrthrych ein cofnodion oedd eu mab cyntafanedig, a phan y gwnaeth ei ymddangosiad yn y byd, nid oedd y rhieni yn ystyried ond ychydig o'r cyfrifoldeb mawr oedd arnynt yn nglyn a'r bachgen oedd Duw wedi ei roddi iddynt. Drwy ryw amgylchiad tueddwyd y fam i fyned i ystafell y Crown i wrando un Sabboth, a chafodd gweinidogaeth danllyd a chyffrous y pregethwr argraff frawychus ar ei meddwl. Edrychai ar ei chyflwr yn anfeddyginiaethol, a chafodd y fath olwg ar fawredd ei phechodau nes yr ofnai eu bod yn ormod i'w maddeu. Bu ar fin anobaith. Ar un noson pan yn y teimlad ingol yma cymerodd ei mab bychan yn ei breichiau, ac aeth dros yr afon Morlais i gae glas Ynysllwyfen, ac wedi rhoddi ei baban i orwedd ar y borfa las, ymneillduodd i weddio. Hawdd oedd gwybod mai gwraig galed arni, fel Hannah gynt ydoedd, a bod chwerwder marwolaeth yn ei henaid, ac ni fynai symud o'r fan nes y gorfodwyd hi gan gri ei phlentyn. Cafodd radd o esmwythdra, ac etto yr oedd yn cael ei churo yn nhrigfa y dreigiau. Y Sabboth canlynol aeth eilwaith i ystafell y Crown, ac yr oedd "Cenad o ladmerydd," yno yn barod i ddangos iddi ffordd o ddiangfa. Testyn y pregethwr ydoedd, "Y rhai sydd yn iach nid rhaid iddynt wrth y meddyg, ond y rhai cleifion; ni ddaethum i alw y rhai cyfiawn ond pechaduriaid i edifeirwch." Yr oedd y bregeth iddi hi yn "air yn ei bryd." Cafodd ei baich i lawr, ac yn fuan "ymwasgodd a'r dysgyblion" yn ystafell y Crown, a derbyniwyd hi yn gyflawn aelod.* Ond yr oedd

* Gwel *Beirniad*, Ionawr, 1866, tu dal. 269, lle y mae sylwedd darlith ar Dr Jenkyn gan Mr. B. Owens, Zoar, yr hon a barotowyd i'r wasg gan Mr. B. Williams, Dinbych, Canaan yn awr; ac i'r ysgrif hono yr ydym yn ddyledus am lawer o ffeithiau y cofnodion hyn.

Digitized by Google

ei gwr yn parhau yn annuwiol, yr hyn a barai iddi hi ofid dirfawr, yn enwedig am yr ofnai i'w bachgen ddilyn arferion llygredig ei dad, i'r rhai unwaith y bu yn gogwyddo; ond rhagflaenwyd ef mewn pryd yn nychweliad ei dad o'i ffordd ddrygionus at yr Arglwydd; ac wedi i'r tad a'r fam ymuno a'r achos yn ystafell y Crown, yr oedd y bachgen Thomas Jenkyn yn cael ei ddwyn yno yn rheolaidd, i'w "faethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." O herwydd amgylchiadau isel ei rieni, yn gystal a'r synied isel oedd yn yr oes hono am werth addysg i blant tlodion, bu raid i Thomas Jenkyn fyned yn ieuangc i'r gwaith glo. Tair ceiniog y dydd a ennillai fel drysor yn mhwll Rhoslas, yn ngwaith Penydarran; ac er newid ei waith i fod yn *haulier*, nid llawer mwy a ennillai. Ni bu erioed yn hynod o fedrus yn y naill na'r llall o'r goruchwylion hyn, ac oblegid hyny byddai yn gorfod newid ei waith yn dra mynych, a chafodd aml gurfa yn herwydd ei anfedrusrwydd. Curodd un goruchwyliwr ef unwaith mor greulon, fel yr aeth y bachgen adref yn ei ddagrau, gan benderfynu nad elai i'r pwll glo mwyach. Cafodd ychydig ysgol ar ol hyn yn yr Hen Efail, dan addysg un Mr. Powell, ac arferai fyned i Ysgol Sabbothol y Wesleyaid Seisnig, lle y daeth i fedru darllen a deall ychydig ar yr iaith hono. Yn y flwyddyn 1806, torodd diwygiad grymus allan mewn llawer o barthau o Gymru, a chafodd Merthyr brofi effeithiau yr ymweliad grasol, ac yn yr adeg hono, pan nad oedd ond deuddeg oed, derbyniwyd Thomas Jenkyn yn aelod. Yn ngwresowgrwydd y diwygiad yma cafodd ei ddoniau mewn gweddi fantais i ymagor, a synai pawb fod un mor ieuangc yn dangos y fath fedrusrwydd, a mynych y gofynwyd wrth ei glywed, "Beth a fydd y bachgen hwn?" er na ddychmygodd calon neb o honynt y byddai y peth y daeth wedi hyny. Yn mhen y flwyddyn wedi ei dderbyn yn aelod daeth ei ewythr Thomas Morris, yn weinidog at y Bedyddwyr yn Ebenezer, Merthyr, a themtiodd ei nai, Thomas Jenkyn, pan nad oedd ond bachgen tair-ar-ddeg i adael Zoar a dyfod ato ef i Ebenezer, a chydsyniodd y bachgen a'r hudoliaeth, ac ar un boreu Sabboth trochwyd ef gan ei ewythr yn afon Taf. Er nas gallwn lai na chondemnio yn yr iaith gryfaf waith yr ewythr yn temtio bachgen dibrofiad i adael yr eglwys lle y magesid ef, a lle yr oedd ei rieni yn aelodau, etto y mae y ffaith ddarfod i'r nai gymeryd ei hudo yn profi mai bachgen bywiog, cyffrous, hawdd ei arwain, ydoedd, a'i fod yn ddiffygiol y pryd hwnw yn y sefydlogrwydd a'r penderfyniad y profodd yr anddifadrwydd o honynt yn anfantais iddo mewn blynyddoedd dyfodol. Cydnabyddai trwy ei oes mai gweithred blentynaidd o'i eiddo dan ddylanwad ei ewythr oedd cymeryd ei drochi; ac nid cyfnewidiad yn ei farn fel ffrwyth argyhoeddiad. Llai na blwyddyn yr arhosodd gyda'r Bedyddwyr, canys cododd rhyw gweryl rhwng ei ewythr a'r eglwys yn Ebenezer, yr hyn a derfynodd yn ei ymadawiad; ac wedi iddo ef ymadael dychwelodd Thomas Jenkyn at ei rieni, y rhai erbyn hyn oeddynt wedi myned i'r Hen Efail i addoli gyda'r blaid a aethant allan o Zoar yn achos y cweryl rhwng rhai o'r eglwys a'u gweinidog, Mr. D. Lewis, yn nghylch cyfrifon y casgliad, fel y crybwyllasom yn hanes Zoar, a Bethesda. Yn 1808, yn yr adeg yr oedd efe a'i rieni gyda'r gangen yn yr Hen Efail, dechreuodd bregethu. Nid oedd etto ond pedair-ar-ddeg oed, ond yr oedd ysbryd pregethu wedi ei lawn feddianu. Yr oedd er yn blentyn a'i fryd ar bregethu. Byddai ef a dau gyfaill iddo o gyffelyb ysbryd, yn myned allan i'r maesydd, a'r gelltydd, ac i gilfachau y bryniau i bregethu. Pregethodd ei bregeth gyntaf yn y Lodge sydd wrth y fynedfa o'r Caemawr

i Ffynon Tydfil. Ei destyn ydoedd, "Ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd." Dechreuodd gydag un o byngciau mwyaf duwinyddiaeth, ac yn y porfeydd gwelltog yma yr ymdrodd yn ei weinidogaeth trwy ei oes. Tynodd sylw yn fuan fel pregethwr. Rhwng hynodrwydd ei ddawn, ac ieuengrwydd ei olwg, yr oedd yn boblogaidd iawn yn mha le bynag yr elai. Cyd-deithiodd David Beynon—gwr ieuangc a ddechreuodd yr un pryd ag ef, ac sydd yn fyw etto yn Nantgarw, Morganwg—lawer yn nghyd trwy yr holl wlad. Dywedir fod y ddau yn myned i'r Groeswen am Sabboth, ac yn ol arfer pregethwyr ieuaingc yr oes hono, yr oeddynt yn myned ar eu traed. Wedi blino wrth gerdded eisteddasant yn flinedig ar ochr y ffordd, ond yn ddisymwyth daeth amaethwr heibio ar anifail cryf, a dau gawell un bob ochr iddo—yn dychwelyd o Ferthyr wedi bod yno yn gwerthu caws. Holodd y bechgyn pwy oeddynt, ac i ba le yr oeddynt yn myned, ac wedi deall mai dau bregethwr oeddynt yn myned i'r Groeswen erbyn dranoeth, cododd hwy fel dau oen bach un i bob cawell, ac ymaith a hwy yn llawen. Mae Thomas Jenkyn yn un o'r engreifftiau goreu a geir yn mysg ein cenedl—ac nis gellir cael yn mysg un genedl well engreifftiau nag a geir yn mysg pregethwyr Cymru—o un yn llafurio am wybodaeth ac addysg o dan anfanteision dirfawr. Ymgododd o ddinodedd hollol trwy ymroddiad a dyfalbarhad. Cyfansoddodd farwnad ar ol Mr. Thomas Davies, Cwmwysg; ac aeth ar daith trwy sir Gaerfyrddin i'w gwerthu, a bu yr elw a gafodd oddiwrth hyny yn llawer o help iddo i gael ychydig addysg, ac am ysbaid ar ol hyny bu weithiau yn yr ysgol, a phryd arall yn cadw ysgol. Bu yn Ludlow am dymor yn gwasanaethu fel cenhadwr cartrefol, ac yr oedd ei lafur yno yn fawr rhwng pregethu a bod yn yr ysgol, ond cafodd tra yn aros yno fantais fawr i ymgydnabyddu a'r iaith Saesonig, ac ymarfer ei phregethu. Gwnaeth gais at Thomas Wilson, Ysw. am dderbyniad i athrofa Hoxton, ond barnai y gwr da hwnw y buasai yn gam a dyn ieuangc o'r fath gymhwysderau, pan yr oedd y fath faes eang o'i flaen yn Ludlow, i'w garcharu am bedair blynedd mewn athrofa. Ond yr oedd ei fryd ef ar gael addysg athrofaol, a thrwy ddylanwad cyfaill i Mr. Francis, Ludlow, gyda Dr. Pye Smith, llwyddodd i gael derbyniad i athrofa Homerton, Llundain, yn haf 1817. Ond bu yn gyfyng iawn arno ar ol iddo basio ei arholiad yn llwyddianus. Nid oedd ganddo ond ychydig sylltau yn ei logell wedi talu traul ei daith o Ludlow i Lundain; a phan y gofynwyd iddo a oedd ganddo, neu a allai gael o ddeg i ddeuddeg punt y flwyddyn er dwyn y costau a ddeuai o angenrheidrwydd arno wrth fyned trwy yr athrofa; atebodd yn wylaidd, nas gallai, oblegid mai bachgen tlawd ydoedd; a phan ddeallwyd hyny, trowyd ei achos o'r neilldu yn ddiobaith. Aeth allan o wydd y pwyllgor, ac yr oedd mewn chwerwedd enaid. Gwelai ei hun mewn lle dyeithr, yn mhell oddicartref, heb arian ac heb gyfaill, a'i holl obeithion am addysg athrofaol wedi troi yn siomedig —nis gwyddai pa beth i'w wneyd na pha le i droi. Yn y cyfwng pruddaidd yma, daeth Mr. Walford, un o'r athrawon heibio, ac wrth weled ei gyfyngder, dywedodd wrtho na chai fod eisiau dim arno. Llonodd ei galon, a llanwodd ei lygaid o ddagrau llawenydd yn lle dagrau tristwch, ac aeth yn llawen at yr awdurdodau, a derbyniwyd ef yn y fan. Bu bedair blynedd yn yr athrofa, a phrofodd ei fod yn efrydydd diflino, ac ennillodd gymeradwyaeth uchaf ei athrawon. Ar derfyniad ei amser yn yr athrofa, derbyniodd alwad o'r Wem, sir Amwythig, ac urddwyd ef yno Awst 8fed, 1821. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Dr. George Lewis,

Digitized by Google

yr hwn hefyd a ofynodd yr holiadau arferol; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. Francis, Ludlow; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Dr. Winter, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. Walford, athraw clasurol athrofa Homerton.* Llafuriodd yma gydag ymroddiad a llwyddiant, ac yn ystod y blynyddoedd hyny cymerai ddyddordeb mawr yn yr holl gwestiynau oedd yn cyffroi Cymru, ac yr ydym yn cael ei enw yn aml ar dudalenau y *Dysgedydd* a *Seren Gomer* yn nglyn a'r dadleuon oedd ar y pryd yn tynu sylw.

Symudodd o Wem i Groesoswallt, lle y cafodd yr achos ar ei sefydliad yn dra gwywedig. Yr oedd wedi bod yn flodeuog yn nyddiau Dr. Edward Williams, ond dilynwyd ef gan rai heb fod o gyffelyb feddwl, y rhai a roisant i'r weinidogaeth sain anhynod; a deifiwyd holl wyrddlesni yr eglwys gan awel eu dysgeidiaeth. Teimlai Mr. Jenkyn ar ei sefydliad yno fod eisiau cyffeiriau cryfion i wrthweithio dylanwad afiachus gweinidogaeth ei flaenafiaid uniongyrchol, a dechreuodd yn ddioed trwy draddodi cyfres o ddarlithiau ar yr Iawn, a dyma y darlithiau, y rhai wedi hyny ar ol eu dwyn i ffurf addfetach, a ddaeth mor adnabyddus, ac a roddodd i'w enw y fath enwogrwydd. Bu Mr. Jenkyn yn ddefnyddiol iawn yn Nghroesoswallt am yr wyth mlynedd y bu yno; fel yr oedd golwg wahanol iawn ar yr achos ar ei ymadawiad i'r hyn ydoedd ar ei sefydliad. Yn 1834, derbyniodd alwad o Stafford, a thra yno yr ail draddododd y darlithiau ar yr Iawn a barotoasai ac a draddodasai yn Nghroesoswallt, a chyhoeddodd hwy yn un gyfrol, a pharodd ei chyhoeddiad gyffroad mawr. Cyhoeddwyd y gwaith yn Lloegr, ac yn America, ac yn Nghymru, ac aeth y gyfrol o gwbl trwy ddeunaw o argraffiadau. Tra yn aros yn Stafford, cyhoeddodd hefyd gyfrol ar waith yr Ysbryd Glan, o dan yr enw *Undeb yr Ysbryd Glan a'r eglwys yn nhroedigaeth y byd*. Yr oedd ei enw a'i glod fel duwinydd yn ymledu yn gyffredinol, a pha faint bynag oedd o wahaniaeth barn yn nghylch ei olygiadau neillduol, cydunai pawb ei fod yn ddyn o feddwl grymus, ac o ddirnadaeth eang, ac o allu nodedig i draethu ei syniadau yn eglur a diofn, ac etto yn foneddigaidd a didramgwydd. Graddiwyd ef gan un o brif ysgolion America a'r titl o Ddoctor Duwinyddiaeth, ac nis gallesid cael neb ag yr oedd yr anrhydedd yn gorphwys yn esmwythach arno. Ond yr oedd gorlafur meddyliol wedi effeithio ar ei iechyd fel y teimlai boenau dirfawr yn ei ben; ac wedi ymgynghori a Syr Benjamin Brodie, penderfynodd fyned i Germani am flwyddyn er mwyn ei iechyd. Ymryddhaodd o'i ofal gweinidogaethol gan benderfynu cymeryd gorphwysdra hollol. Adfywiodd ei iechyd yn fawr pan yn teithio y cyfandir, ond y fath oedd ei awydd am fyned rhagddo fel yr ymroddodd i ddysgu yr Ellmanaeg, a gosododd ei hun fel myfyriwr i'r perwyl yn mhrif ysgol Hale. Ffurfiodd gydnabyddiaeth a rhai o brif ddysgedigion a duwinyddion Germani, a derbyniodd oddiwrthynt lawer o addysg a hyfforddiant. Pan yn ymdeithio yn Dresden, derbyniodd wahoddiad oddiwrth ymddiriedolwyr Coward College i fod yn brif athraw yr athrofa, a derbyniodd yr apwyntiad. Dechreuodd ar ei ddyledswyddau yno yn mis Medi, 1840, a pharhaodd yn y swydd am ddeng mlynedd, hyd nes yr unwyd athrofau Coward, a Homerton, a Highbury, yn 1850, ac y corpholwyd hwy yn un sefydliad, yr hwn a adnabyddir fel y *New College, Llundain*. Wedi hyny aeth Dr. Jenkyn i Rochester i gymeryd gofal ychydig o Annibynwyr oedd

* *Evangelical Magazine*, 1821. Tu dal. 483.

yno. Cododd yno gapel hardd, a chasglwyd yno gynnulleidfa barchus; ond yr oedd treulio mwy na deuddeng mlynedd heb fod mewn cysylltiad gweinidogaethol ag unrhyw eglwys wedi ei anghymwyso yn fawr at ddyledswyddau cyffredin y weinidogaeth, fel na bu agos mor lwyddianus yn Rochester ag y bu yn yr eglwysi a fuasai yn flaenorol dan ei ofal. O herwydd rhyw amgylchiadau cododd ymryson rhwng yr aelodau ac ymranodd yr eglwys. Yn nechreu y flwyddyn 1856, penderfynodd fyned drosodd ar ymweliad ag America, yn benaf er mwyn ei iechyd, ac hefyd er gweled brodyr Mrs. Jenkyn oeddynt weinidogion yn America, a'r rhai hefyd oeddynt yn gydefrydwyr ag yntau yn Homerton. Treuliodd chwe' mis yn tramwy y wlad, ac ymwelodd a llawer o'r sefydliadau Cymreig, a phregethodd iddynt, ac yr oedd ei weinidogaeth yno yn dra derbyniol. Tra yn aros yno cyhoeddodd bregeth ar Etholedigaeth, yn yr hon y tybiai ei fod yn symud ymaith yr anhawsder sydd yn nglyn a'r athrawiaeth; ond y mae yn eglur i bob meddwl pwyllus nad yw yn ei symud *ymaith*, ond ei symud o un man i fan arall. Wedi iddo ddychwelyd i'w wlad, dechreuodd gyhoeddi adroddiad tra difyrus o'i ymweliad ag America yn y *Diwygiwr* am 1858, ond cyn iddo gwblhau y gorchwyl daliwyd ef gan angau. Yr oedd yn amlwg er's tro fod ei iechyd wedi ei anmharu, a bod ei ddydd gwaith ar ben, ac heb ond tri diwrnod o gystudd bu farw yn Rochester Mai 26ain, 1858, yn 64 oed. Claddwyd ef yn anrhydeddus, a thraddodwyd ei bregeth angladdol gan Dr. James Hamilton, Regent Square, Llundain, oddi ar y geiriau, "Gan wybod nad yw Crist yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw, yn marw mwyach."

Yr ydym eisioes wedi ymdroi yn hwy o lawer na'n bwriad wrth redeg dros brif ddigwyddiadau ei fywyd; ond byddai ein hysgrif yn anghyflawn pe gadawem un y mae ei enw mor adnabyddus yn ein gwlad heb ryw grybwylliad helaethach am deithi ei nodwedd.

Gwyr pawb a ddaeth i gyffyrddiad ag ef fod Dr. Jenkyn yn ddyn hynaws a charedig. Dyna y cymeriad a roddir iddo gan y rhai a gawsant fwyaf o fantais i gyfeillachu ag ef. Yr oedd yn ddyn hardd, o brydweddion hawddgar, o dymer lawen, a llawer o'r bardd a'r anturiaethwr i'w weled yn ei wyneb. Cadwodd ei deimlad Cymreig yn gynes trwy ei oes; ac y mae llawer gweinidog a myfyriwr tlawd o Gymru yn alluog i ddwyn tystiolaeth mor eiddigeddus ydoedd dros ei genedl yn ol y cnawd. Dichon na bu neb, gyda'r eithriad o Mr. Caleb Morris, a dreuliodd ei oes yn Lloegr i weinidogaethu i'r Saeson a allasai bregethu Cymraeg gyda'r fath rwyddineb iddo ei hun, a hyfrydwch i'w wrandawyr. Cadwodd ei gynhesrwydd Cymreig trwy ei oes, a phan y deuai yn achlysurol i Gymru ni byddai byth drafferth i gael ganddo bregethu. Yr oedd yn nodedig o ddiymhongar. Ni byddai byth yn cywilyddio cyfeirio at "y graig y naddwyd, a cheudod y ffos y cloddiwyd ef o honi." Byddai yn ymhyfrydu mewn dangos i foneddigion o Loegr a ddeuent gydag ef weithiau i ymweled a Merthyr, y pwll glo y bu pan yn fachgen yn gweithio ynddo. Unwaith pan yn myned gyda chyfaill ar hyd y ffordd o Ferthyr rhyngddo a Throedyrhiw, daeth plentyn bychan carpiog, troednoeth, i'w cyfarfod; ac meddai Dr. Jenkyn wrth ei gyfaill, "A welwch chwi y plentyn hwn? hyn fum i unwaith, a gwaeth na hyn a fuaswn heddyw oni bai gras Duw. O! ras, anfeidrol ras!" Yr oedd yn wastad yn ostyngedig ei ysbryd, ac yn barod ar bob achlysur i gydnabod ei ddyled i ras Duw. Mae y llythyr a ysgrifenodd at ei fam weddw dlawd, ar ol derbyn yr apwyntiad i fod yn brif athraw yn Coward

Digitized by Google

College, a phan yn dechreu ar ei ddyledswyddau, yn anadlu drwyddo o ysbryd crefyddol. Rhoddwn ef yma yn llawn, oblegid y mae symledd y dyn i'w weled ynddo.

*Dydd Llun cyntaf o Fedi*, 1840.

Fy anwyl fam.—Mae yn lled debyg eich bod wedi clywed, yn hir cyn hyn, fy mod wedi dychwelyd o Germany i London. Yr wyf yma er's mwy na mis. Yr wyf yn hollol iach, ac yn teimlo fy hunan mor gryf a phe bawn yn fynyddwr yn Nghymru. Nis gallaf byth fod yn ddigon diolchgar am fawr dynerwch yr Arglwydd tuag ataf yn ngwlad estroniaid. Mi aethum allan o Loegr fel dyn marw, ac yr wyf wedi dychwelyd fel un wedi adgyfodi. Rhoddwch ddiolch, fy anwyl fam, ar fy rhan i'r Arglwydd daionus, yr hwn yw awdwr haelionus pob trugaredd.

Y mae Rhagluniaeth wedi dyfod a fi adref nid yn unig yn iach, ond mewn amgylchiadau ag sydd yn galw yn fawr am ddiolchgarwch a gostyngeiddrwydd. Pan yr oeddwn yn Dresden mi a dderbyniais lythyr oddiwrth Trustees Coward College, yr hwn sydd mewn cysylltiad a'r London University, i fy ngwahodd i fod yn Broffeswr Duwinyddiaeth yno. Mi a ddychwelais tua dechreu mis Gorphenaf, ymgyfarfyddais a'r lleill o'r Trustees, a chefais fy newis yn unfrydol i'r swydd. O hyd oddiar yr amser hyny, yr wyf wedi bod mewn llawer o drafferth gyda'r seiri a'r paentwyr yn y tŷ, ac yn ymhelynt yn nghylch cael celfi. Chwi ryfeddwch fod y celfi wedi costio yn agos iawn i bedwar cant o bunau. Ond y mae y tŷ yn hardd, ac mewn sefyllfa ddymunol iawn. Mi ysgrifenais atoch o Germany, a gobeithiaf eich bod wedi cael fy llythyr yn ddyogel. Yr wyf yn hyderu eich bod yn iach, ac mor gysurus ag y gall eich sefyllfa unigol fod. Gadewch i mi wybod pa fodd yr ydych, a pha fodd y mae pob peth yn myned yn mlaen. A ydych chwi mewn anedd wrthych eich hunan, neu ynte, a ydych yn aneddu gyda rhyw deulu?

Yr wyf wedi meddwl llawer am danoch chwi y dydd heddyw—dydd cyntaf o Fedi—dydd fy ngenedigaeth. Yr wyf wedi bod yn diolch i'r Arglwydd am fy mam. Mae yn lled debyg pe buaswn i wedi fy ngadael heb eich tynerwch chwi i wylio drosof, na fuaswn ddim yn awr yn ngwaith mawr Iesu Grist. Yr wyf yn cofio yn ddiolchgar am y llawer tro y cefais amddiffynfa o dan eich aden chwi, pan oeddwn yn dyner ac etto am fyned ar ddisperod. Eich serch a'ch cynghorion chwi a fu benaf yn llaw yr Ysbryd Glan yn foddion i fy nghadw gyda chrefydd. Fe fydd yn hyfrydwch i mi i eich gweled chwi yn y nefoedd, a gobeithiaf trwy ras yr Arglwydd y byddaf finau yn hyfrydwch i chwithau, fel un ag y buoch chwi yn foddion i faethu dros Iesu Grist.

Yr wyf yn teimlo fod y dydd hwn yn bwysfawr iawn—heddyw yw y dydd y daethum gyntaf i'r byd ynddo—heddyw yr wyf wedi bod yn rhoddi fy *Lecture* gyntaf i'r *Students*. Y *Lecture* oedd ar y Salmau yn yr Hebraeg. O fy mam gweddiwch fwy nag erioed drosof, yn daerach nag erioed, i mi gael bod yn fendith i'r astudwyr, a thrwyddynt hwy yn fendith fawr a thragwyddol i eglwys Iesu Grist.

Cofiwch fi yn barchus at deulu Mrs. Evans a Mr. Charles, ac hefyd at y Parch. Mr. Owen. Y mae y wraig a'r lodes yn iach ac yn dymuno eu cofio atoch; y mae Maria yn siarad German yn gystal a chwithau Gymraeg. Y mae genym ferch grefyddol yn forwyn, y mae hi yn Gymraes, yn enedigol o Gasnewydd-ar-wysg.

Yn mhob sefyllfa ag wyf wedi bod ynddi o'r blaen, yr oeddwn yn edrych ac yn ymestyn am ryw beth oedd yn uwch; yn awr nid oes ond dau beth o flaen fy llygad—defnyddioldeb mawr tra f'wy byw, ac yna gorphwys yn y nef. "Y mae gorphwysfa ETTO yn ol."

"Cawsom ran o'r nefol drysor,
Ond mae rhagor etto'n ol."

Derbyniwch, fy anwyl fam, fy anerchion parchus a serchiadol y dydd hwn, a fy nymuniadau a'm gweddiau am i'r Arglwydd i eich nerthu a'ch cysuro.

Yr wyf, gyda phob anwyldeb a pharch,

Eich mab serchiadol,

*Medi* 1*af*, 1840. THOS. W. JENKYN.

Mae yr ysbryd rhagorol sydd yn anadlu trwy y llythyr blaenorol yn anrhydedd i'r awdwr, ac yn dangos nad oedd y dyrchafiadau a gafodd mewn un modd wedi peri iddo anghofio ei hun, nac anghofio y gofal a'r serch dyledus i'r hon a'i hymddug.

Digitized by Google

Ysgrifenodd Dr. Jenkyn lawer yn mlynyddoedd cyntaf ei oes i'r *Dysgedydd* a'r *Seren Gomer*, ac yr oedd yn ysgrifenydd Cymreig hylithr a naturiol, a pharhaodd trwy ei oes i wasanaethu ei wlad trwy y wasg. Bu am flynyddau yn ysgrifenu yn rheolaidd i rai o gyhoeddiadau Lloegr, ac yn enwedig bu yn hir yn un o brif ysgrifenwyr y *Popular Educator*. Cymerodd hoffder mawr mewn Daeareg, ac ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiad hwnw ar y wyddor hono, a chanmolir yr erthyglau a ysgrifenodd gan rai y dylai fod pwys ar eu barn. Cyfansoddodd lawer o emynau Cymreig, ac y mae amryw o honynt yn llawn tynerwch a naturioldeb. Ond i dduwinyddiaeth y cysegrodd flynyddau goreu ei oes, ac yn nglyn a'i olygiadau duwinyddol y daeth yn adnabyddus, ac y cyrhaeddodd enwogrwydd. Yr oedd yn naturiol o dueddfryd ddamcaniaethol, yn ymhyfrydu mewn dadleu materion dyrus, a chwilio hen gredoau ac opinynau, a ffurfio iddo ei hun olygiadau, ac yr oedd mesur o wylltineb yn ei feddwl, fel yr oedd gan newydd-beth lawer o swyn iddo. Dygwyd ef i fyny yn yr hen olygiadau duwinyddol yn eu ffurf gaethaf. Calfiniad uchel oedd ei fam, ac yr oedd ei dad yn ymylu ar fod yn Antinomiad, a chyfyng iawn oedd syniadau athrawiaethol y gweinidogion yr ymdroai yn eu plith yn moreu ei oes. Wedi troi allan o'i gylch cyntefig, a dyfod yn gydnabyddus a maesydd eangach llenyddiaeth a duwinyddiaeth, daeth i ddeall nad oedd etto ond newydd agor ei lygaid ar y byd, a bod ochr arall i'r gwirionedd am yr hon nad oedd ganddo o'r blaen un syniad. Darllenodd weithiau Jonathan Edwards a Dr. Edward Williams, ac eangodd y rhai hyny i fesur mawr ei syniadau am drefn yr efengyl. Dysgybl cywir i Dr. Williams ydoedd yn nechreuad ei weinidogaeth, ac am flynyddoedd lawer wedi hyny, ac yr oedd delw ysgrifeniadau ei gynathraw ar ei holl olygiadau duwinyddol, er ei fod ef mewn rhai pethau wedi myned yn mhellach na Dr. Williams. Nid yn mhellach i'r dyfnder a feddyliwn, ond yn mhellach oddiwrth yr hyn a gyfrifid yn hen athrawiaeth. Pan yn aros yn Stafford cyhoeddodd ei draethawd ar *Helaethrwydd yr Iawn*, a'r hwn y mae ei enw mewn modd neillduol wedi ei gysylltu. Ni chafodd y traethawd ar ei gyhoeddiad cyntaf yn y wlad yma lawer o sylw, ond rhyw fodd aeth y llyfr i America, ac yno tynodd sylw buan. Aeth trwy dri-ar-ddeg o argraffiadau yno mewn amser byr. Daeth y son am dano trosodd i Loegr, ac ni bu pob copi o'r argraffiad cyntaf yn hir cyn myned. Galwyd am ailargraffiad, a thrydydd argraffiad, ac er fod llawer yn ei gondemnio, etto cydnabyddai y rhai hyny alluoedd yr awdwr, a'i fedrusrwydd yn ei ymdriniaeth a'r mater dan sylw ganddo. Cyfieithwyd y traethawd i'r iaith Gymraeg, a buan yr ymledodd y son am dano trwy yr holl wlad. Nid oedd yr un llyfr ddeuddeg-ar-hugain a phymtheng-mlynedd-ar-hugain yn ol yn tynu cymaint o sylw a Jenkyn ar yr Iawn. Dyna fyddai testyn dadl pob cymdeithas, os byddai dim a fynai a duwinyddiaeth. Canmolai llawer ef fel y llyfr goreu a gyhoeddwyd mewn unrhyw iaith erioed, a thybient ei fod wedi gosod y cwestiynau hir ddadleuedig ar natur a helaethrwydd yr Iawn, ar dir nad oedd dim ymryson pellach i fod yn eu cylch. Condemniai eraill ef fel y llyfr mwyaf peryglus a gwenwynig. Gwaharddasant i ddynion ei dderbyn i'w tai, a rhybuddient bregethwyr ieuaingc, yn enwedig, i'w ochel fel pe buasai y gwahanglwyf arno. Nid oedd un enw yn rhy isel a dirmygus i'w osod arno, ac am ei awdwr rhoddid ar bawb i'w ochel fel heretic a chyfeiliornwr. Ond yr oedd yr erlid parhaus oedd arno yn codi awydd ar ryw rai o'r newydd i'w weled, a synai y rhan fwyaf o honynt ei weled yn llyfr mor

ddiniwed wedi yr holl anathemau a gyhoeddwyd arno. Nid oedd odid neb o'r rhai a'i herlidient erioed wedi ei ddarllen, ond "tybient eu bod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw" wrth ymosod yn barhaus arno. Dywedir fod un o'r rhai hyn unwaith yn pregethu mewn cymanfa yn nghapel Jewin Crescent, Llundain, ac yr oedd Dr. Jenkyn yn yr oedfa. Condemniai y pregethwr yn ddiarbed Fuller a Finney, a rhyw Shenkynyddiaeth Gymreig. Hono, yn ol ei farn ef, oedd y farn drymaf a ddaeth ar y wlad erioed, ac arswydai i feddwl fod yr un Cymro yn ddigon annuwiol i gyhoeddi y fath gyfeiliornadau damniol. Eisteddai Dr. Jenkyn yn yr oriel yn union ar gyfer y pregethwr, a gwenai yn ddifyr wrth wrando yr holl felldithion a gyhoeddid uwch ei ben. Aeth y Doctor yn mlaen yn siriol ar ddiwedd yr oedfa i ysgwyd llaw a'r gweinidogion, ac yn mysg eraill a'r pregethwr oedd wedi bod yn tywallt y fath gawodydd o gabledd arno. Pan ddeallodd hwnw, druan, pwy ydoedd, tarawyd ef a mudandod a chywilydd, a chafodd y cwmni gryn ddifyrwch wedi cael y ddau wyneb yn wyneb. Heb wystlo ein hunain i'w holl syniadau ar Berthynasau yr Iawn, ymddengys i ni fod yn rhaid i bawb a'i darlleno gydnabod fod yr awdwr yn ddyn o feddwl grymus, wedi astudio y pwngc yn ei holl arweddion, yn meddu gallu nodedig i osod allan yn eglur yr hyn y traethai arno, ac yn meddu cyflawnder o egluriadau hapus, yr hyn hwyrach sydd yn cyfrif fod y llyfr wedi cyrhaedd y fath boblogrwydd ar ei ymddangosiad. Teimlir yn gyffredin na bu mor hapus yn ei draethawd ar *Waith yr Ysbryd Glan*, a chydnebydd ei edmygwyr mwyaf selog ei fod yn syrthio yn fyr, yn mhell o ateb eu disgwyliadau, ac y mae yn eglur nad oes ynddo yr un addfedrwydd barn ag sydd yn ei draethawd ar yr Iawn. Tywyll a chymysglyd yr ymddangosai ei olygiadau ar waith yr Ysbryd Glan i ni pan ddarllenasom ef gyntaf, ac nid yw blynyddoedd lawer o adfeddwl wedi peri unrhyw gyfnewidiad yn ein barn am dano. Ar yr un pryd y mae yr ochr ymarferol i'r athrawiaeth yn cael ei gosod allan ganddo yn rymus, ac nis gall neb ei ddarllen yn ystyriol a meddylgar heb deimlo fod cyfrifoldeb dirfawr ar yr eglwys yn nglyn ag achubiaeth y byd. Mae amcan y traethawd yn gyfryw ag a'i cymeradwya ei hun i bob cydwybod dyn; ac y mae meddyliau puraidd Cristionogion yn sicr o gael eu cyffroi trwy y darlleniad o hono i deimlo fod y briodasferch yn gystal a'r Ysbryd i ddywedyd tyred, ac mai trwy gydweithrediad yr eglwys a'r Ysbryd yr ennillir y byd at Grist. Nid oedd dim yn mhellach oddiwrth feddwl yr awdwr na gwadu gwaith yr Ysbryd Glan fel yr ofer gyhuddid ef gan rai, a chyhuddid ef felly gan y rhai a fynent ei ddal ef yn gyfrifol am y casgliadau a dynant hwy oddiwrth ei osodiadau, ac y mae hyny yn wastad yn gamgymeriad i'r hwn y syrthia dynion bychain, a chyfyng eu hamgyffredion. Nid oedd yr anghysonderau a ymddangosai i eraill, yn ymddangos felly i'w feddwl ef, canys yr oedd ei ddychymyg mor fywiog a'i ddarfelydd mor gryf fel yr oedd y wedd a gymerai ef ar unrhyw athrawiaeth, yn peri iddo yn aml golli ei olwg ar arweddion eraill yr un gwirionedd. Dynion o'i nodwedd feddyliol ef yw y rhai galluocaf i osod argraff ar feddwl cynnulleidfa, ond dynion o feddyliau mwy athronyddol yw y rhai cymhwysaf i fwrw golwg dros holl ochrau gwirionedd, ac "i brophwydo yn ol cysondeb y ffydd."

Ymddengys i ni wedi y cwbl oddiwrth arddull ei ysgrifeniadau, ac oddiwrth bob peth a glywsom gan y rhai a gawsant lawer cyfle i'w wrando, mai fel pregethwr y rhagorai Dr. Jenkyn. Yr oedd ei gydnabyddiaeth helaeth a phrif wirioneddau yr efengyl, a'i gydymdeimlad trwyadl a hwy

Digitized by Google

—ei adnabyddiaeth o'r galon ddynol yn ei holl reddfau a'i thueddiadau—ei allu nodedig trwy egluriadau hapus i ddwyn yr efengyl yn amlwg i'w wrandawyr—gwresogrwydd ei ysbryd a'i ddull ennillgar a serchiadol wrth draddodi—ac yn enwedig y medrusrwydd anarferol oedd ynddo i roddi ryw arbenigrwydd a mawredd ar bob peth yr ymdrinai ag ef, yn ei wneyd mewn gwirionedd yn un o feistriaid y gynnulleidfa. Nis gallwn wneyd yn well yma na difynu tystiolaeth un a fu am dymor yn eistedd dan ei weinidogaeth, ac un nad amheua neb ei gymhwysder i roddi ei farn.*

"Yn y tymor y bum dan ei weinidogaeth, yr oedd Dr. Jenkyn yn ei ddyddiau *goreu*, ac yr wyf yn barnu ei fod y pryd hyny yn un o'r pregethwyr *goreu* a glywais erioed, a chymeryd pob peth gyda'u gilydd. Yr oedd yn fraint fawr i ŵr ieuangc, fel oeddwn ni y pryd hyny, i gael bod dan ei weinidogaeth ef. Byddai yn fynych ar foreuau y Sabbothau yn esbonio rhyw gyfran o'r Bibl, ac yn yr hwyrau yn pregethu ar ryw fater neillduol, athrawiaethol neu ymarferol; ac nid oedd odid neb mor lwyddianus ag ef mewn troi pob athrawiaeth yn ymarferol i'r gwrandawyr. Fel pregethwr, yr oedd yn ymaflyd yn ei orchwyl o ddifrif. Yr oedd ei agwedd bob amser yn ddifrifol, ei lais yn eglur, a'i eiriau yn cael eu hanfon allan o'i enau mor berffaith, fel y clywid pob sillaf gan bawb yn mhob cwr o'r addoldy. Prif ragoriaethau ei weinidogaeth y pryd hyny oeddynt treiddgarwch, llymder—fel cleddyf dau finiog—eglurdeb, a chymwysiad rhagorol o'r gwirionedd yr ymdrinid ag ef at y gynnulleidfa, ac at *bob dosbarth* o honi. Penarglwyddiaeth a chyfiawnder oedd y ddwy egwyddor a ddefnyddiai ef, fel dwy agoriad fawr, i agor pob clo wrth esbonio yr Ysgrythyrau; ac o ran ei olygiadau ar byngciau Cristionogaeth, yr oedd y pryd hyny yn lled agos i olygiadau Dr. E. Williams ac A. Fuller. Daliai athrawiaeth etholedigaeth ac athrawiaeth dylanwadau dwyfol yn gyffelyb fel eu delir gan yr enwogion uchod o ran y ffeithiau. Wrth *philosopheiddio* ar y pethau hyn, mae yn ymddangos ei fod yn niwedd ei oes, yn gwahaniaethu cryn lawer oddiwrth luaws o'i frodyr ar y pyngciau uchod, ac yn neshau at olygiadau y "New Lights" yn Scotland. Mewn ymddiddan personol rhyngof ag ef yn Nghroesoswallt, a thrachefn yn Llundain, dangosai ei fod yn anghyduno ag Edwards ar brif egwyddor y llyfr a ysgrifenodd y gwr mawr hwnw ar Bechod Gwreiddiol; ac nad oedd yn hoffi *passive power* y Dr. Williams, er nad oedd ganddo ddim neillduol i'w gynyg yn ei le. Yr oedd yn ddyn siriol, caredig dros ben, cefais amryw brofion o hyny. Drwy ei anogaeth ef yr anerchais gynnulleidfa y tro cyntaf; a gwahoddai fi i'w dŷ i gael ychydig ymddiddan ag ef bryd bynag y byddai genyf gyfleusdra; ond nid yn fynych y cydsyniais a'i gais yn hyny, rhag i mi ei ysbeilio ef o'i amser gwerthfawr. Ond y troion y bum yn ei gyfeillach, cefais ef yn ŵr gostyngedig, a pharod i roddi pob hyfforddiant i mi yn mhob peth a ofynwn iddo. Pan oedd y Doctor yn Nghroesoswallt, yr oedd yn nodedig o lafurus mewn pregethu yr efengyl yn yr holl ardaloedd oddiamgylch y dref. Ni bu yno neb cyffelyb iddo o'i flaen nac ar ei ol, yn ei ymdrechion i ddwyn yr efengyl i gyrhaedd trigolion yr holl wlad. Yr oedd ol llafur neillduol ar ei bregethau yn gyffredin, ac yr oedd pawb yn cydnabod ei fod yn astudiwr diarbed. Dilynai bechadur i bob congl, a thorai ef i lawr yn deg ar ei waethaf, a dangosai wrthuni ac anghysondeb yr uchel Galfiniad, nes y byddai arno gwilydd o hono ei hun. Yr oedd y pryd hyny hen ŵr

* Mr. R. Thomas, Bangor.

Digitized by Google

yn aelod yn yr eglwys dan ofal Dr. Jenkyn, yr hwn a fuasai gynt yn aelod yn yr un lle o dan ofal Dr. Williams. Yr oedd y gwr hwnw, fel agos holl ddysgyblion Dr. Williams, yn rhyw haner addoli ei hen athraw. Dywedai Jenkyn am dano mai efe oedd y *duwinydd goreu* yn swydd Amwythig; a dywedai yntau mai Jenkyn oedd y tebycaf i Williams o ran ei olygiadau a glywsai efe erioed. Gofynais iddo wrth gyd-deithio ag ef adref o'r addoliad, Pa un o'r ddau oedd y *pregethwr goreu* yn ol ei farn ef? A gwyddwn yn dda nad oedd neb cymhwysach yn y wlad i roddi barn ar y mater. Atebai yntau mai Jenkyn oedd yr *areithiwr* goreu o lawer, ond mai Williams oedd yr *esboniwr* goreu—fod Jenkyn yn dyweyd yn gryfach a llymach yn erbyn pechodau yr oes; ond pan fyddai Williams yn dyweyd am drueni yr annuwiol, iddo weled dagrau yn fynych yn llifo dros ei ruddiau, ac yn disgyn ar y Bibl fyddai ar yr astell o'i flaen—fod Jenkyn yn ŵr deallus *siriol* a *llon*, a bod Williams yn ŵr deallus *pruddiadd*, ond addfwyn fel oen, a gostyngedig fel Iesu Grist."

Nid oes achos i ni ychwanegu, er y buasai yn hawdd i ni wneyd hyny. Dyn nodedig yn ddiameu oedd Dr. Jenkyn. Ymwthiodd trwy anhawsderau fyrdd i safle uchel a phwysig, a hyny yn hollol yn nerth ei dalent a'i ymroddiad personol; a sicrhaodd iddo ei hun enw a choffadwriaeth anfarwol. Ni ddiangodd mwy nag eraill heb gyfarfod ag ystormydd, ac nid oedd yn berffaith mwy na'r cyffredin o blant Duw, ond daliodd ei ymddiried yn yr Arglwydd yn ddiysgog yn mhob tywydd, a'i eiriau diweddaf wrth fyned i lawr i ddyfnder yr afon oedd—"*Angau, nefoedd, gogoniant.*"

## CRAIGYFARGOD.

Cafodd y capel hwn ei adeiladu mor foreu a'r flwyddyn 1750, gan blaid o Fedyddwyr Arminaidd a ymneillduasant o Hengoed. Mr. Charles Winter oedd y gweinidog cyntaf. Cawsai ef ei addysg yn athrofa Caerfyrddin, dan ofal Mr. Perrot. Wedi gorphen ei amser yno urddwyd ef yn ei fam-eglwys yn Hengoed, a bu yma am rai blynyddau yn gydweinidog ag eraill. Yn mhen amser arweiniodd ei olygiadau Arminaidd i rwygiad yn yr eglwys, ac aeth ef a'i blaid allan. Wedi bod am dymor yn addoli mewn anedd-dai, adeiladasant gapel Craigyfargod. Bu Mr. C. Winter yn gweinidogaethu yma hyd ei farwolaeth yn mis Ebrill 1773. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth am ychydig amser gan Mr. Jacob Isaac, aelod o'r eglwys, ac ar ei symudiad ef i Loegr, urddwyd ei frawd, Mr. Daniel Isaac, yn ganlyniedydd iddo Dilynwyd yntau gan un Mr. Henry Evans, yr hwn a fu yn gweinidogaethau yma am amryw flynyddau o'r ganrif bresenol. Yr oedd yma achos cymharol gryf yn amser Mr. Winter a'r ddau Isaac, ac amryw deuluoedd cyfrifol o blwyfydd Gelligaer, Bedwellty, a Merthyr yn perthyn iddo; ond tua dechreu y ganrif hon dygwyd Ariaeth ac Undodiaeth i mewn yn lle Arminiaeth, a'r canlyniad fu i'r achos wanychu o radd i radd nes y bu raid cau y capel ryw amser cyn y flwyddyn 1830, am nas gallesid cael pobl i ddyfod iddo.

Yr oedd Lewis John Richard, amaethwr parchus o'r gymydogaeth, a'r unig un o'r ymddiriedolwyr oedd yn fyw, yn teimlo rhyw anwyldeb mawr at ei lle fel y man yr arferai ei henafiaid addoli, ac fel lle beddrod ei dadau, fel y byddai am rai blynyddau wedi i'r capel gael ei gau yn myned yno fynychaf bob boreu Sabboth i ddarllen penod neu ddwy yn yr hen Fibl

Digitized by Google

oedd ar y pulpud. Yn niwedd y flwyddyn 1832, cyfododd anghydfod yn Zoar, Llanfabon, rhwng y gweinidog, Mr. Jonathan Jones, yn nghyd a nifer o'r aelodau, a Mr. Thomas, Llechweddlydan, perchenog y capel hwnw, ac ymadawsant a'r lle. Gan fod nifer o'r aelodau a ymadawsant gyda Mr. Jones o Zoar yn byw ar odre Craigyfargod, cynaliasant eu cyfarfodydd yn aneddau y cyfryw yn achlysurol. Daeth Lewis John Richard i un o'r cyfarfodydd hyn, a dywedodd wrth y gweinidog a'r bobl fod iddynt roesaw i ddyfod i gynal eu cyfarfodydd i gapel Craigyfargod, yr hwn oedd yn segur, ac yn ei feddiant ef fel ymddiriedolwr. Derbyniasant y cynygiad yn ddiolchgar, ac ail agorwyd yr hen gapel yn y flwyddyn 1833, fel capel Annibynol. Tuag wyth neu naw oedd nifer yr aelodau a ddaethant gyda Mr. Jones o Zoar, Llanfabon i Graigyfargod, ond wedi iddynt fyned yno ymunodd Mrs. Edwards, Bedlinog, gwraig Mr. Lewis Edwards, perchenog y tir ar yr hwn y safai y capel; Lewis John Richard, a Hannah ei wraig; Mary Williams, Penymount; James Davies, Penygraig a'i wraig, yn nghyd a'i chwaer; Margaret Richard, Tylanglas, a'r eglwys fechan. Ar ol bod yn ymgynnull yno am amryw wythnosau, clywodd rhyw bersonau yn Merthyr a Sirhowy, y rhai a'u galwent eu hunain yn Fedyddwyr Arminaidd, fod yr hen addoldy yn cael ei ddefnyddio gan yr Annibynwyr, a daethant yno un boreu Sabboth i gymeryd meddiant o'r lle. Er nad oedd ganddynt un hawl gyfreithiol i'r eiddo, gan fod y les wedi ei thori trwy beidio talu yr ardreth flynyddol am fwy nag ugain mlynedd, a bod pob un o'r hen gynnulleidfa Arminaidd wedi marw neu adael y lle, ond Lewis John Richard, yr hwn yn awr oedd wedi ymuno a'r Annibynwyr, etto er mwyn tawelwch, cydsyniodd yr Annibynwyr i roddi ugain punt am feddiant o'r lle i'r rhai a broffesent eu bod yn cynrychioli enwad y Bedyddwyr cyffredinol. Yn fuan wedi hyn cafodd yr hen gapel, yr hwn oedd yn ddadfeiliedig iawn, ei wneyd oll o'r newydd ond y muriau. Parhaodd Mr. Jonathan Jones i weinidogaethu yma hyd ddiwedd y flwyddyn 1835, pryd yr ymfudodd ef a Mr. James Davies, Penygraig, a'i deulu, i'r America. Yn mis Mai, 1836, cafodd ysgrifenydd y llinellau hyn wahoddiad i ddyfod yma i gadw ysgol, ac yn fuan wedi hyny derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys fechan, yr hon nid oedd ond deuddeg o aelodau ar y pryd, i ddyfod yn weinidog iddi. Cynaliwyd cyfarfodydd ei urddiad Medi 14eg a'r 15fed, 1836. Rhoddir hanes y cyfarfodydd hyn yn y *Diwygiwr* am 1836, fel y canlyn :—Medi 14eg a'r 15fed, neillduwyd y brawd Thomas Rees, gynt o Gapel Isaac, sir Gaerfyrddin, i gyflawn waith y weinidogaeth yn gydsyniol a galwad unol yr eglwys Gynnulleidfaol yn addoldy Craigyfargod, swydd Forganwg. Yr hwyr cyntaf dechreuwyd gan Mr. W. Jones, Capel Isaac, a phregethodd y Parchedigion T. Williams, Maendy, a W. Griffiths, Llanharan, a G. Griffiths, Carmel, oddiar Ioan iii. 16; Phil. ii. 12, 13, a Luc xxiv. 24—29. Yr ail ddydd, am 10, gweddiodd y Parch. Josiah Thomas Jones, Merthyr, a thraddodwyd y gynaraeth ar natur eglwys gan y Parch. Thomas Harris, Mynyddislwyn, oddiar 1 Cor. i. 2; derbyniwyd cyffes y gweinidog gan y Parch. John Davies, Llantrisant; gweddiwyd yr urdd-weddi, gydag arddodiad dwylaw, gan y Parch. Methusalem Jones, Merthyr; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan y Parch. Evan Rowlands, Pontypool, oddiar 1 Tim. iv. 16, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan y Parch. Hugh Jones, Tredegar, oddiar Heb. xiii. 7, 17, 24. Am 3 o'r gloch, dechreuwyd gan y Parch. D. Davies, Taf-fechan, a phregethodd y Parchedigion J. Thomas, Adulam, Merthyr; W. Hughes, Treforis, a J. Jones, Penmain.

Digitized by Google

oddiar Dat. ii. 10; Joel ii. 14, a Rhuf. viii. 1. Am 6, dechreuwyd a phregethwyd gan R. Powell, ieu., Cross Inn; Jonathan Davies, myfyriwr, Drefnewydd, a J. Davies, Llantrisant, oddiar Rhuf. viii. 34; Gen. vi. 22, a Gen. vii. 1."

Bu Mr. T. Rees yn llafurio yma am bedair blynedd, a chyda chymaint o lwyddiant ag a allesid ddisgwyl wrth ystyried fod poblogaeth yr ardal yn deneu iawn, a'r Bedyddwyr wedi meddianu y wlad er's agos i ddau cant o flynyddau. Cynyddodd yr eglwys yn ystod y pedair blynedd y bu ef yma o ddeuddeg o aelodau i ddeg-ar-hugain. Gan nad oedd argoel i'r boblogaeth gynyddu am lawer o flynyddau fel ag i roddi mantais i'r achos i ddyfod yn hunan-gynaliol, derbyniodd y gweinidog alwad o Ebenezer, Aberdar, a symudodd yno yn Awst, 1840, ond parhaodd i ddyfod yn fisol yma hyd ddechreu y flwyddyn 1841; yna rhoddodd ofal y lle i fyny yn hollol. Yr un amser rhoddodd yr eglwys yn Nghraigyfargod ei hun dan ofal Mr. David Thomas mewn cysylltiad a Throedyrhiw, a than ei ofal ef y bu hyd ei farwolaeth yn mis Hydref, 1843. Yn y flwyddyn 1844, rhoddwyd galwad i Mr. James Evans, Merthyr, ac urddwyd ef yma. Parhaodd i lafurio yma ac yn Llanfabon am ugain mlynedd. Yn 1864, rhoddodd ei ofal i fyny, er mwyn cyfyngu ei lafur gyda chychwyniad yr achos newydd yn Fochriw. Yn fuan wedi ymadawiad Mr. Evans, rhoddodd yr eglwysi yn Nghraigyfargod, a'r Nelson, Llanfabon, alwad i Mr. Robert Jones, o athrofa y Bala, ac y mae efe yn parhau i lafurio yma, ac argoelion fod Duw a dynion yn cymeradwyo ei waith.

Yr unig bregethwr a godwyd yn Nghraigyfargod yw Mr. John Rees, yn awr o Rodborough, sir Gaerloew. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yma yn 1838, gan Mr. T. Rees, a dechreuodd bregethu yn 1841. Yn fuan wedi hyny symudodd ar ol ei hen weinidog i Lanelli, sir Gaerfyrddin, lle y bu dan addysg, ac urddwyd ef yn y Bryn, yn 1846.

Yr oedd capel Craigyfargod pan yr adeiladwyd ef yn sefyll mewn man canolog iawn o'r ardal, ac yn gyfleus i'r boblogaeth, ond yn awr, pan y mae y gweithiau glo yn cael eu hagor ar waelod y cymoedd o bob tu iddo, ac anedd-dai y gweithwyr yn cael eu hadeiladu yn ymyl y gweithiau, bydd yn rhaid cael addoldai yn fwy cyfleus na'r hen gapel, ac felly nid yw yn debyg y bydd yma byth achos cryf iawn. Mae hen fynwent wrth y capel, ac er nad yw ond bechan, y mae canoedd o feirw yn gorwedd ynddi.

## PONTLOTYN.

Pentref poblog ar lan yr afon Rhymni, ychydig islaw gwaith haiarn Rhymni, ac o fewn plwyf Gelligaer, yn sir Forganwg, yw Pontlotyn. Er fod yr Annibynwyr yn cynal cyfarfodydd achlysurol yma mewn anedd-dai er's degau o flynyddau, etto nid oedd yma un achos rheolaidd wedi cael ei sefydlu hyd yn ddiweddar. Yn nechreu y flwyddyn 1864, darfu i amryw o aelodau yr eglwys yn Moriah, Rhymni, ddechreu cynal cyfarfodydd wythnosol yn yr ysgoldy Brutanaidd, ac ar yr 31ain o Fawrth, yn yr un flwyddyn, corpholodd Mr. E. C. Jenkins, gweinidog Moriah, hwy yn eglwys Annibynol. Yn fuan wedi hyny, cymerwyd darn o dir er adeiladu capel arno, yr hwn a orphenwyd ac a agorwyd Gorphenaf 17eg, 1865. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri Jones, Heolgerig; Roberts, Cefn; Griffiths,



Digitized by Google

Cefn; Hughes, Tredegar; Dr. Rees, Abertawy, ac eraill. Nazareth y galwyd y capel, yr hwn sydd yn addoldy hardd a chyfleus, ac yn cynwys o bedwar i bum' cant o eisteddleoedd. Bu Mr. Jenkins, Moriah, a Mr. George Owens, Trifil, ac eraill, yn gweinidogaethu yma yn achlysurol hyd Awst, 1868, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. T. Cunllo Griffiths, gwr ieuangc o ysgol ramadegol Castellnewydd-yn-Emlyn. Cydsyniodd Mr. Griffiths a'r alwad, ac urddwyd ef yma Hydref 5ed, yn yr un flwyddyn. Gweinyddwyd yn nghyfarfod yr urddiad gan Meistri W. P. Davies, Rhymni; J. Williams, Castellnewydd; D. Price, Aberdar, ac eraill. Yn Mai, 1871, gwnaeth Mr. Griffiths ei feddwl i fyny i ymadael a'r lle, a rhoddodd rybudd i'r eglwys o'i fwriad i ymadael, ond y mae y bobl ag yntau wedi ail gydio yn eu gilydd, fel y mae wedi penderfynu aros etto, ac yr ydym yn hyderu y bydd ei lafur yn y lle yn fendith i ganoedd.

Yn mlwyddyn gyntaf gweinidogaeth Mr. Griffiths yma, dechreuodd Mr. B. Evans bregethu. Yn fuan wedi hyny ymfudodd i America, ac y mae yn awr, fel y deallwn, yn weinidog llwyddianus yn Carbondale.

Mae golwg dra gobeithiol ar yr achos yn Mhontlotyn yn awr, a chan fod yma faes helaeth i weithio, mae gobaith y bydd yma eglwys luosog ac enwog yn mhen ychydig o flynyddau.

## Y FOCHRIW.

Enw amaethdy ar fin mynydd Gelligaer, ar ben uchaf Cwmbargod, Rhymni, ac ar lechwedd gorllewinol y Cwm, yw y Fochriw. Ar lechwedd dwyreiniol yr un Cwm, gyferbyn a'r Fochriw, y mae y Brithdiruchaf, lle genedigaeth yr enwog Jenkin Lewis, D.D. Hyd o fewn wyth mlynedd yn ol nid oedd ond pedwar neu bump o anedd-dai o fewn milldir i'r lle hwn, ond yn y flwyddyn 1864, pan agorodd cwmni gweithiau haiarn Dowlais weithau glo yma, cafodd llawer o dai eu hadeiladu yn yr ardal, a daeth yma luaws o weithwyr a'u teuluoedd i gyfaneddu. Wedi codi tai newyddion, dechreuwyd cadw Ysgol Sabbothol mewn anedd-dy. Yn nhy Lewis Edwards y pregethwyd gyntaf yma gan Mr. James Evans, y pryd hwnw o Graigyfargod. Yn mhen tri mis ar ol hyny, sef Hydref 9fed, 1864, corpholwyd yma eglwys o un-ar-ddeg o aelodau. Eu henwau ydynt, Jacob Jones, Mary ei wraig, a John eu mab; Hannah Evans, Boaz Lloyd, ac Eleanor ei wraig; Thomas Thomas, William Hughes, David Rowland, a Mary ei wraig, a Mary Edwards. Yr oedd Mr. Evans, Craigyfargod; Mr. Howells, Ynysgau, a Mr. Roberts, Graig, Rhymni, yn bresenol ac yn gweinyddu ar yr achlysur. Yn nhy Thomas Jenkins y cynaliwyd y cyfarfod hwn. Yn fuan ar ol hyn cyfodwyd yma gapel o goed. Bu yr eglwys ieuangc dan ofal gweinidogaethol Mr. James Evans hyd ddiwedd haf y flwyddyn 1865, pryd y rhoddodd ei gofal i fyny. Yn Chwefror 1866, rhoddwyd galwad i Mr. W. H. Thomas, Berry Edge, gogledd Lloegr. Cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad ef yma yn mhen ychydig ar ol hyny. Gan fod y boblogaeth yn cynyddu yn gyflym aeth y capel coed yn rhy fychan fel y bu raid ei helaethu. Aeth drachefn yn dra buan yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa. Yna penderfynwyd adeiladu capel hardd a chyfleus o werth tua 900p. Agorwyd ef yn mis Gorphenaf, 1867. Bu Mr. Thomas yn llafurio yma yn ddiwyd a llwyddianus hyd ddiwedd 1869, pryd y symudodd i Gadle, gerllaw Abertawy. Yn haf y flwyddyn 1870,

Digitized by Google

rhoddwyd galwad i Mr. John Griffiths, o athrofa y Bala. Cynaliwyd cyfarfodydd ei urddiad Hydref 17eg a'r 18fed, yn yr un flwyddyn. Cymerodd y gweinidogion canlynol ran yn y gwasanaeth, J. Evans, Dowlais; R. Rowlands, Aberaman; W. J. Richards, Penywern; W. Williams, Hirwaun; D. Price, Aberdar; W. H. Thomas, Cadle; J. Mathews, Castellnedd, a J. Peter, Bala. Mae y boblogaeth yn cynyddu yn gyflym a pharhaus, a'r gweinidog a'r eglwys yn cydweithio yn rhagorol. Rhif yr aelodau yn bresenol yw chwech-ugain-a-deg, ac y mae pob sail i ddisgwyl y bydd yma eglwys gref iawn yn dra buan.

## Y DERI.

Mae y lle hwn yn Nghwm-yr-ynys-gwyn, yn Margod, Rhymni, yn agos i haner y ffordd rhwng Pont-aber-bargod a'r Fochriw, ac ychydig gyda milldir i'r gogledd-ddwyrain o Graigyfargod. Gelwir y lle, y Deri, am mai ar dir y Derinewydd y mae y prif waith glo sydd yn bresenol yn agored yn y gymydogaeth. Ychydig flynyddau yn ol nid oedd ond chwech neu saith o anedd-dai o fewn milldir i'r lle, ond yn awr y mae yma ugeiniau o dai, ac argoel y bydd yma ganoedd yn dra buan. Mae ffordd haiarn y Casnewydd ac Aberhonddu yn myned trwy y lle, a'r boblogaeth yn cynyddu yn gyflym. Dechreuwyd yr achos yma yn y flwyddyn 1866, gan H. Shankland, Jenkin Meredith, a Rees Williams, tri o aelodau y Fochriw, y rhai a ddechreuasant gadw Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddio mewn tai anedd. Ffurfiwyd yma eglwys Annibynol Awst 18fed, 1867, gan Mr. W. H. Thomas, gweinidog yr eglwys yn y Fochriw. Pedwar o aelodau oedd yma ar y pryd, sef John a David Morris, William Mathews, a Hannah Thomas, ond ar ddydd eu corpholiad derbyniwyd tri o'r byd atynt, sef Benjamin Thomas, a John a Sarah Anthony. Mr. Thomas fu y gweinidog yma o amser corpholiad yr eglwys hyd y pryd y symudodd o'r Fochriw i Cadle. O'r pryd hwnw hyd yn awr ni bu yma yr un gweinidog sefydlog. Yn fuan wedi corpholiad yr eglwys cafwyd darn cyfleus o dir at adeiladu addoldy gan Charles H. James, Ysw., Merthyr. Adeiladwyd yma ysgoldy, yr hwn a gaiff wasanaethu fel addoldy nes y byddo y gynnulleidfa mewn amgylchiadau i adeiladu addoldy eangach, harddach, a mwy cyfleus. Agorwyd yr ysgoldy fel lle at addoli Tachwedd 29ain a'r 30ain, 1868, pryd y pregethodd Meistri J. Evans, Dowlais; J. G. Davies, Penywern; F. Evans, Adulam, Merthyr; P. Howells, Ynysgau; J. H. Jones, Brynseion, Dowlais, a D. Thomas, Abercanaid. Rhif yr eglwys yn bresenol yw 34, ac y mae golwg dra gobeithiol ar yr achos.

## Y COLY.

Enw fferm yn agos i flaen Cwmbargod-Taf yw y Coly. Ychydig flynyddau yn ol agorwyd yma waith glo gan berchenogion gweithiau haiarn Dowlais, ac mewn canlyniad daeth llawer o bobl i gyfaneddu i'r ardal. Corpholwyd yma eglwys Annibynol mewn ysgoldy perthynol i gwmni Dowlais ar y Sabboth, Mawrth 25ain, 1870, gan Mr. James Evans, Gellideg, gynt o Graigyfargod. Ar y 17eg o Ebrill, yr un flwyddyn, urddwyd Mr. Daniel Davies, aelod o eglwys Ebenezer, Cefn-coed-y-cymer, yn

Digitized by Google

weinidog i'r eglwys ieuangc. Gweinyddwyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan Meistri James Evans, Gellideg; D. A. Jones, ac R. Griffiths, Cefn-coed-y-cymer; D. Thomas, Abercanaid; J. M. Bowen, Penydarran; J. Miles, Bethesda; R. Jones, Craigyfargod, ac eraill. Yn uniongyrchol ar ol ei urddiad ymgymerodd Mr. Davies a'r gorchwyl o adeiladu capel yma. Cafwyd tir cyfleus *yn rhad* gan Lewis Edwards, Ysw., Bedlinog, perchenog y Coly. Gorphenwyd y capel ac agorwyd ef Hydref 23ain a'r 24ain, 1870, pryd y pregethodd Mr. R. Griffiths, Cefn-coed-y-cymer; Mr. Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Nghwmyfelin; Mr. J. Evans, Dowlais, a Mr. J. Miles, Bethesda.

Gan fod cyfoeth dihysbydd o lô a mŵn haiarn yn y ddaear am filldiroedd o gwmpas y lle, mae yn ddiau y bydd yma weithiau a phoblogaeth luosog am oesau, ac felly y mae pob sail i ddysgwyl y bydd cynnulleidfa luosog a chref yma yn fuan.

## PONT-ABER-BARGOD.

Pentref henafol yw Pont-aber-bargod, mewn rhan yn Mynwy ac mewn rhan yn Morganwg. Yma yr ymarllwysa yr afonig Bargod, Rhymni, i'r afon Rhymni. Yr oedd pregethu bob prydnawn Sabboth yn *Long-room* William Lewis, o'r Felin, yn y pentref hwn er's agos neu lawn ddeugain mlynedd yn ol, yn benaf gan Mr. E. C. Jenkins, Salem, a phe buasid yn corpholi eglwys yma y pryd hwnw gallasai fod yma achos cryf erbyn hyn, ond trwy esgeulusdod neu anallu yr Annibynwyr i sefydlu eglwys ac adeiladu capel yn y lle, daeth y Bedyddwyr yn mlaen ac adeiladasant gapel yma yn y flwyddyn 1839. Yn fuan wedi hyny rhoddodd Mr. Jenkins i fyny bregethu yn rheolaidd yn y *Long-room*, a chafodd y Bedyddwyr feddiant hollol o'r pentref. Ond yr oedd ychydig aelodau perthynol i'r Annibynwyr yn cyfaneddu yma trwy y blynyddau, ac yn myned i Salem a Chraigyfargod i gymuno, hyd nes y dechreuwyd yr achos yn New Tredegar, yna ymunasant a'r eglwys yno. Gan fod poblogaeth y pentref yn awr yn dri chymaint ag ydoedd ddeng-mlynedd-ar-hugain yn ol, ac yn cynyddu yn gyflym, barnodd yr ychydig ffyddloniaid perthynol i'r enwad Annibynol a breswylient yma, ei bod yn bryd bellach i ddechreu achos yn y lle. Cychwynwyd yma Ysgol Sabbothol ar y 26ain o Fawrth, 1871, a phregethwyd yr un diwrnod gan Mr. John Edwards, o athrofa Aberhonddu. Sefydlwyd eglwys o dri-ar-ddeg o aelodau yma Ionawr 28ain, 1872. Gan mai aelodau o New Tredegar oeddynt, dewisasant gael eu hen weinidog Mr. D. Jones, yn awr o Gwmbwrla, i'w corpholi yn eglwys. Mae yma olwg obeithiol ar yr achos ieuangc. Yr oedd Mary Lewis, o'r Felin, yn hen aelod ffyddlon yn Salem, ac wedi hyny yn New Tredegar, ac yr ydym yn deall fod ei phriod, Thomas Lewis, yn awr yn ei henaint, wedi ymuno a'r achos. Bu eu ty am flynyddau yn lletty i'r arch, ac felly y bydd etto mae yn debygol nes yr adeiladir addoldy.

## MARKET SQUARE, MERTHYR.

Dechreuwyd yr achos yn y flwyddyn 1840, gan ychydig o Ysgotiaid a Saeson. Yr oedd rhai o honynt yn ddynion lled gysurus yn eu hamgylchiadau bydol, ac am a wyddom ni yr oeddynt yn ddynion selog iawn a ffydd-

Digitized by Google

na i'w hegwyddorion. Ni chawsant ond y peth nesaf i ddim o gefnogaeth oddiwrth eglwysi Cymreig y dref a'r gymydogaeth, ond yn hytrach gwrthwynebiad. "Ty cwrdd y Scotch," y gelwid y capel am flynyddau, ac edrychai y rhan fwyaf o weinidogion ac aelodau yr Annibynwyr yn y lle ar ymdrech cychwynwyr yr achos gyda cenni beius. Pa fodd bynag yn mhen yr aeth y gwaith. Gosodwyd careg sylfaen y capel newydd i lawr ddydd Iau, Mehefin 11eg, 1840, ac agorwyd ef dydd Mawrth, Mai 4ydd, 1841, pryd y pregethodd Meistri Charles Nice Davies, athraw duwinyddol athrofa Aberhonddu; D. Rees, Llanelli; J. C. Davey, Caerodor, a T. Davies, gweinidog y Bedyddwyr Saesnig yn Merthyr. Corpholwyd yma eglwys Annibynol ddydd Gwener, Mehefin 4ydd, 1841. Ar y 3ydd o Ebrill, 1842, dechreuodd Mr. Edward Griffith, o athrofa Highbury, ei weinidogaeth yma. Yr oedd Mr. Griffith yn ddyn ieuangc siriol, yn bregethwr da, ac yn weinidog llafurus, a bu yma fesur o lwyddiant ar ei lafur. Yn mis Medi, 1845, rhoddodd y lle i fyny ar ei ymfudiad i Awstralia, lle y mae yn bresenol. Yn Tachwedd, 1845, daeth Mr. Joseph Robinson yma dan nawdd y Gymdeithas Genhadol Gartrefol, ond gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i roddi ei swydd i fyny yn Mehefin, 1847. Wedi ei ymadawiad ef bu yr eglwys am fwy na dwy flynedd yn byw ar weinidogaeth achlysurol. Bu Mr. R. Hancock, a Mr. Joseph Morris, yn awr o Gaerodor, yn ei gwasanaethu am rai misoedd yn y tymor hwn. Gorphenaf 29ain, 1849, dechreuodd Mr. J. O. Hill, ei weinidogaeth, a pharhaodd i lafurio yma gyda chryn lwyddiant hyd Tachwedd, 1860, pryd y symudodd i Henffordd, lle y mae hyd yn awr. Dilynwyd Mr. Hill gan Mr. J. T. Davies, M.A., myfyriwr, o athrofa Spring Hill, a mab Mr. Thomas Davies, Caerdydd. Urddwyd ef yma Medi 24ain, 1861, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Dr. Alliott, o athrofa Spring Hill, a'r Meistri Caleb Morris, B. Williams, Dowlais; David Thomas, Caerodor, ac eraill. Cynyddodd y gynnulleidfa yn fawr dan weinidogaeth Mr. Davies, ond er mawr dristwch i luaws gwnaeth ei feddwl i fyny i ymfudo i Queensland, a therfynodd ei weinidogaeth yn Merthyr, Medi 17eg, 1865.

Yn Chwefror, 1866, dechreuodd Mr. F. S. Johnstone, y gweinidog presenol, ei weinidogaeth yma. Mae Mr. Johnstone yn ddyn galluog, ac yn gwneyd i bobl Merthyr deimlo fod gwr talentog ac Ymneillduwr egwyddorol yn eu mysg. Cafodd yn ddiweddar ei ethol yn aelod o Fwrdd Ysgol Merthyr, gyda mwyafrif buddugoliaethus.

Mae y capel hwn yn addoldy hardd, cyfleus, a gwasanaethgar. Cafodd ei adrefnu a'i harddu yn fawr yn 1861. Rhwng ei adeiladiad ar y cyntaf, a'r cyfnewidiadau a wnaed ynddo wedi hyny, costiodd dros dair mil o bunau, ac y mae er's amser bellach yn ddiddyled. Cangen o'r eglwys hon yw yr eglwys Saesonig a gorpholwyd yn ddiweddar yn Nhroedyrhiw, ac fe aeth rhai aelodau oddiyma i gychwyn yr achos Saesonig yn Nghapel Ivor, Dowlais.

## CARMEL, LLANGUWG.

Fel ysgoldy a lle i bregethu yn achlysurol ynddo yr adeiladwyd y capel hwn gyntaf yn y flwyddyn 1762. Y prif offeryn i gychwyn ei adeiladiad oedd Mr. Noah Jones, gwr genedigol o'r ardal hon, a'r hwn oedd y pryd hwnw yn weinidog yn Walsal, sir Stafford. Efe oedd perchenog fferm y Cwmbach, ar ran o ba un y saif Carmel. Darfu i Mr. Jones, heblaw dwyn

holl draul yr adeiladaeth, roddi dwy bunt y flwyddyn at draul addysg plant tlodion y gymydogaeth yn yr ysgol a gedwid yn yr ysgoldy, a phunt yn y flwyddyn i dalu i Mr. Josiah Rees, Gellionen, am bregethu yn yr ysgoldy ar brydnawnau y Sabbothau dros dymor yr haf. Bu farw Mr. Jones, heb wneuthur ei ewyllys, ac aeth ei eiddo i feddiant ei frawd, ond bu hwnw mor garedig a gwerthu yr ysgoldy i'r ardalwyr am ddeg gini, a rhoddi les arni am fil ond un o flynyddau am y gydnabyddiaeth o byburen yn y flwyddyn, os gofynid hi. Bu Mr. Davies, o'r Alltwen, am lawer o flynyddau yn pregethu yn achlysurol yn yr ysgoldy. Yn y flwyddyn 1821, ailadeiladwyd ef, a chafodd ei agor yn mis Ebrill, 1822. Yn niwedd yr un flwyddyn, daeth tua haner cant o aelodau o Gwmllynfell yma, a chorpholwyd hwy yn eglwys Annibynol gan Meistri R. Howells, Baran; P. Griffiths, Alltwen, a J. Rowlands, Cwmllynfell. Ionawr 12fed, 1825, y cadwyd y cyfarfod cymundeb cyntaf yma. Ar y trydydd cymundeb yn mis Mawrth, derbyniodd Mr. Griffiths un-ar-ddeg o aelodau newyddion yma. Wedi corpholiad yr eglwys bu Mr. Howells, a Mr. Griffiths yn gyd-weinidogion am dymor, ond yn dra buan syrthiodd y gofal oll ar ysgwyddau Mr. Griffiths. Bu ef yn llafurio yma gyda llwyddiant a pharch mawr hyd y flwyddyn 1845, pryd y gorfodwyd ef, ar gyfrif helaethrwydd maes ei lafur, i roddi gofal y lle hwn i fyny. Yn y flwyddyn 1829, adeiladwyd y capel y drydydd waith, ac agorwyd ef Medi 29ain a'r 30ain, yn yr un flwyddyn. Yn fuan wedi i Mr. Griffiths roddi yr eglwys i fyny, rhoddwyd galwad i Mr. John Rees, Bryn, Llanelli. Bu Mr. Rees yn gweinidogaethu yma gyda chymeradwyaeth gyffredinol yr eglwys a'r gwrandawyr hyd nes iddo symud i Ganaan, Abertawy, yn niwedd y flwyddyn 1850. Yn mhen ychydig wedi ei ymadawiad ef, rhoddwyd galwad i Mr. Evan Evans, Nant-yglo. Er fod eglwys Carmel dan ddylanwad nifer o ddynion da a chrefyddol iawn, a bod Mr. Evans yn ddyn da, ac uwchlaw y cyffredin am fanylder a chywirdeb ei wybodaeth Ysgrythyrol a chyffredinol, etto, mewn rhyw fodd methodd yr eglwys ac yntau gyd-dynu yn ddymunol, ac felly ni bu tymor ei weinidogaeth ef yma ond dros ddeunaw mis. Dilynwyd Mr. Evans yma gan Mr. Evan Lewis, aelod o eglwys Llanwrthwl, Brycheiniog, ond a urddasid yn weinidog yn Dolyddelen, sir Gaernarfon. Bu ef yma am ddeng mlynedd. Yn y flwyddyn 1864, ymfudodd i Awstralia, lle y mae yn bresenol. Yn Mai, 1865, dechreuodd Mr. John Jones, Maentwrog, y gweinidog presenol, ei lafur yma, ac y mae yn aros yn ei le hyd y dydd hwn. Mae yma gynnulleidfa gref ac eglwys o ddau cant o aelodau. Dechreuwyd yma Ysgol Sabbothol yn 1814, ac y mae yn parhau o hyd, ac yn awr yn ddwy gangen luosog a llewyrchus. Y diaconiaid a weinyddasant yma ar y cymundeb cyntaf oedd Daniel Evans, Gwrhydisaf, mab Mr. W. Evans, gynt gweinidog Cwmllynfell, a'i frawd-yn-nghyfraith, Thomas David, Cwmgors. Oddiar ffurfiad yr eglwys hyd yn bresenol mae y personau canlynol wedi gwasanaethu y swydd o ddiaconiaid yma:—Owen Jones, Cwrtybariwns; Daniel Evans, Gwrhydisaf; David Jones, Llwynhen; Hezeciah Evans, Gwrhydisaf; William Evans, Llwynrhydiau; Isaac James, Bailiglas; Daniel Jenkyn, y saer; David James, a Benjamin Evans.

Y rhai canlynol, hyd y gwyddom ni, yn unig a gyfodwyd yma i bregethu:—

Richard Jones, gynt o Dalgarth, yn awr o Britton Ferry.
Daniel Evans, Nazareth, swydd Gaerfyrddin.

Digitized by Google

Lewis Williams, Carbondale, America.
David Thomas, gwr ieuangc sydd yn awr yn fyfyriwr yn un o athrofau yr America.

*** Wedi ysgrifenu hanes Cwmllynfell, gwelsom yn hen lyfr yr eglwys hono, yr hwn sydd yn ngafael y Cofrestrydd Cyffredinol yn Llundain, mai yn 1767, y cymerodd Mr. William Evans ofal gweinidogaethol ei fam-eglwys, ac felly ni bu ond tair blynedd yn weinidog yno, canys bu farw yn 1770, ond yn ystod y tymor byr hwnw derbyniodd 132 o aelodau, a bedyddiodd 102 o blant. Gweinidog rhyfeddol o lwyddianus ydoedd yn mhob lle fu dan ei ofal.

## GWRHYD.

Mae y capel hwn wedi ei adeiladu ar ben mynydd y Gwrhyd, ac yn agos i haner y ffordd o Carmel i'r Pantteg. Fel y nodasom yn hanes Cwmllynfell, yr oedd capel bychan yn Forchegel, yn agos i'r man lle y saif capel y Gwrhyd yn bresenol, oddiar ddechreu y ddeunawfed ganrif, ac er fod yno amryw wedi eu claddu, trwy rhyw foddion anhysbys i ni, cafodd y lle ei adael i syrthio i adfeilion. Yr oedd y rhan fwyaf o drigolion yr ardal, pa fodd bynag, yn parhau yn Ymneillduwyr, ac yn myned i addoli i Gwmllynfell, y Gellionen, neu yr Alltwen, hyd nes yr adeiladwyd Carmel a'r Pantteg yn nes atynt. Gan fod Carmel a'r Pantteg yn dra anghyfleus, o herwydd noethder a gerwindeb y ffyrdd, yr oedd preswylwyr yr ardal er's blynyddau yn son am gael capel yma. Yn y flwyddyn 1856, cafodd y capel ei adeiladu, a chorpholwyd ynddo eglwys, yn benaf, os nad yn gwbl oll, o aelodau Carmel. Gollyngwyd o haner cant i bymtheg a deugain o aelodau o Carmel i ddechreu yr achos yn y lle hwn. Corpholwyd hwy yn eglwys ar y Sabboth, Mehefin 28ain, 1857, ac agorwyd y capel newydd y Mawrth a'r Mercher canlynol, pryd y pregethodd Meistri D. Evans, Nazareth; P. Griffiths, Alltwen; T. Jones, Treforis; W. Humphreys, Cadle; J. Davies, Cwmaman; G. Jones, Cefncribwr, ac eraill. Costiodd y capel, a'r mur oddiamgylch y fynwent, 350p., ond talwyd y cwbl hyd at 50p. erbyn dydd yr agoriad, ac ni buwyd fawr o amser cyn talu y gweddill. Y rhai sydd wedi gwasanaethu swydd diaconiaid yma o ffurfiad yr eglwys hyd yn awr ydynt,—Hezeciah Evans, Gwrhydisaf; William Evans, Cwmnantllugi; Llewellyn Rees, Gwrhydisaf; Thomas Griffiths, Pistyllgwyn; Thomas Rees, Ynyswen, a David Williams, Llwyncelyn. Rhif yr aelodau yn bresenol yw cant. Mae yr eglwys hon o'r dechreuad wedi bod dan yr un weinidogaeth a'r fam-eglwys yn Carmel. Nis gellir disgwyl yma lawer o gynnydd yn y gynnulleidfa heb i agoriad gweithiau glo ar lechweddi y mynyddau luosogi trigolion yr ardal. Mae agos holl drigolion y gymydogaeth yn bresenol naill ai yn aelodau neu yn wrandawyr rheolaidd yma. Mae plwyf Llanguwg er's mwy na dau cant o flynyddau wedi bod yn gartrefle Annibyniaeth. Er nad yw trigolion y plwyf oll nemawr dros ddeng mil o rif, y mae yma ddeg o gapeli Annibynol, ac eglwysi cryfion yn y rhan fwyaf o honynt, heb son am addoldai y gwahanol enwadau Ymneillduol eraill. Buasai trigolion y plwyf hwn mewn cyflwr moesol truenus oni buasai yr hyn a wnaeth Ymneillduaeth yma.

Digitized by Google

## GIBEAH, BRYNAMAN.

Mae y lle yma yn sir Gaerfyrddin, ond oblegid mai cangen o Gwmllynfell yw yr eglwys, yr ydym yn rhoddi ei hanes yn nglyn a sir Forganwg. Yr oedd yma amryw bobl grefyddol yn yr ardal er yn foreu, a chyrchai rhai o honynt i Gwmaman ac eraill i Gwmllynfell. Gydag agoriad gweithfeydd yn y Gwterfawr, codwyd yma nifer o dai, a daeth amryw ddyeithriaid i'r lle; ac yn 1842, adeiladwyd y capel cyntaf yma. Agorwyd ef Medi 20fed a'r 21ain, 1843, ac ar yr achlysur pregethodd Meistri T. Lloyd, Dinaspowys; J. Evans, Maendy; D Evans, Cwmwysg; W. Davies, Llanymddyfri; J. Evans, Capelseion; D. Rees, Llanelli; H. Evans, Penbre; W. Williams, Llandilo; D. Griffiths, Gastellnedd; E. Watkins, Canaan; T. Jenkins, Penygroes, ac H. Herbert, Newton.* Ffurfiwyd yma eglwys gan Mr. Rhys Pryse, Cwmllynfell, o 56 o aelodau, a neillduwyd Hopkin Herbert, Cwm-nant-ty-moel; Dafydd Williams, Caeglas, a Dafydd Jones, Bryn, yn ddiaconiaid, ac yr oedd y tri hyn y rhai mwyaf blaenllaw yn nghychwyniad yr achos, ac y mae y ddau flaenaf a enwyd yn aros etto yn ffyddlon gyda'r achos. Cynyddodd yr achos yn raddol, fel erbyn 1850, yr oedd rhifedi yr aelodau yn 240. Yn y flwyddyn 1856, penderfynodd yr eglwys adeiladu capel newydd eangach yn ymyl yr hen, a thrwy garedigrwydd yr ardalwyr yn cario y defnyddiau yn rhad, ni chostiodd ond 610p., er ei fod yn un o'r capeli helaethaf yn yr ardaloedd. Agorwyd ef Mai 31ain, 1857, pryd y pregethodd Meistri D. Williams, Troedrhiwdalar; D. Rees, Llanelli; J. Evans, Capelseion, a T. Davies, Llandilo, a chyn diwedd y flwyddyn 1866, yr oedd yr holl ddyled wedi ei thalu. Llafuriodd Mr. Pryse yma hyd ddiwedd ei oes, ac ar ol yr hyn a ddywedasom am dano yn nglyn a Chwmllynfell, nid oes raid i ni ychwanegu dim yma. Yn niwedd y flwyddyn 1869, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Morlais Jones, o Wrecsam, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yr ail Sabboth o'r Chwefror canlynol. Cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad Awst 2il a'r 3ydd, y flwyddyn hono; ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. B. Williams, Canaan; gofynwyd arwydd o'r undeb gan y gweinidog a'r eglwys gan Mr. J. Jones, Llanguwg; gweddiodd Mr. J. Ll. Jones, Penyclawdd; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Davies, Cwmaman, ac i'r eglwys gan Mr. W. Jenkins, Pentre;† ac y mae Mr. Jones yn parhau i lafurio yn y lle. Mae wedi derbyn dros ddau gant o aelodau yn ystod y ddwy flynedd y mae wedi bod yma, ac y mae yr eglwys yn awr yn 450 o aelodau, ac y mae yr Ysgol Sabbothol yn flodeuog a llewyrchus, ac y mae cynydd y boblogaeth yn nglyn a'r gweithiau alcam sydd yma yn gwneyd y rhagolygon yn addawus dros ben.

Cyfodwyd yma ddau bregethwr, sef Evan Williams, M.A., sydd yn awr yn athraw ysgol ramadegol yn Merthyr Tydfil, a John Jones, yr hwn sydd yn weinidog yn Rhydyceisiaid, sir Gaerfyrddin. Diaconiaid presenol yr eglwys ydyw Hopkin Herbert, Dafydd Williams, Owen Williams, a William Dafydd Thomas.

* *Diwygiwr*, 1843. Tu dal. 323. † *Tyst Cymreig*, Awst 12fed, 1870.

## RHIGOS.

Saif y lle hwn ar yr ochr ddeheuol i'r brif ffordd sydd yn arwain o Ferthyr Tydfil i Abertawy, ac oddeutu haner y ffordd rhwng Hirwaun a Glynnedd. Plwyf Ystrad-dyfodog ydyw, ond mae rhandir y Rhigos yn cael ei gwahanu oddiwrth y rhan ddeheuol o'r plwyf gan gadwyn o fynyddoedd uchel a ymestynant o gwm Aberdar i'r mor yn ymyl Castell-nedd. Wedi i eglwys Blaengwrach wyro i Arminiaeth, ac wedi hyny i Undodiaeth, ymadawodd yr aelodau oedd yn dal at yr athrawiaeth Galfinaidd i Ystradfellte a Thy'nycoed, a manau eraill. Pan gorpholwyd yr eglwys sydd yn addoli yn bresenol yn addoldy Glynnedd, bu adfywiad pwysig ar grefydd, ychwanegwyd llawer o ddynion ieuaingc yn bobl i'r Arglwydd. Aeth y diwygiad a moddion gras ar led, ar hyd y cymydogaethau. Sefydlwyd Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddi, a phregethu achlysurol yn y Rhigos. Derbyniwyd llawer o breswylwyr yr ardal hon yn aelodau yn eglwys Glynnedd. Yr oedd ganddynt oddeutu tair milldir i gerdded bob Sabboth i'r moddion cyhoeddus yn Glynnedd, a dychwelent i gadw cyfarfod gweddi mewn tŷ anedd yn y prydnawn yn y Rhigos. Ond yr oedd golygiadau crefyddol pobl y Rhigos yn dra chymysglyd; yr oedd yno rai teuluoedd yn Undodiaid, eraill yn Arminiaid, ac eraill yn Galfiniaid uchel. Mae y Rhigos o fewn dwy filldir i Glynllwydrew, lle genedigol Mr. Lewis Rees, Mynyddbach. Yr oedd eglwys Blaengwrach yn Galfinaidd o ran ei barn pan y derbyniwyd Lewis Rees yn aelod, a phan yr urddwyd ef i'r weinidogaeth. Mae Mr. W. Williams, gweinidog Nebo, Hirwaun, yn cofio yn dda am hen wraig o'r enw Mari Morgan Dafydd, yr oedd hi rhwng 80 a 90 oed pan yr oedd ef yn fachgenyn 10 oed. Derbyniwyd hi yn aelod yn eglwys Blaengwrach rhai blynyddau ar ol Lewis Rees. Cafodd hi fyw i weled y weinidogaeth wedi newid o fod yn Driundodaidd i fod yn Undodaidd, ac o fod yn Galfinaidd i fod yn Arminaidd. Ymadawodd Mari Morgan Dafydd ag eglwys Blaengwrach, lle y cafodd ei derbyn yn aelod, ac aeth i gymuno i Ty'nycoed, o herwydd fod tôn a sain y weinidogaeth wedi newid. Ymadawodd y rhan efengylaidd o'r aelodau i eglwysi eraill ag oedd yn fwy cydnaws a'u golygiadau. Dywed Mr. Williams mai yr achlysur a'i dygodd ef i gysylltiad mor neillduol a'r hen chwaer Mari Morgan Dafydd ydoedd am mai ganddi hi yn unig, yn y parth hwnw o Glynnedd, yr oedd y Bibl a elwid Bibl Peter Williams. Yn yr amser hwnw yr oedd adrodd pyngciau neu holwyddoregau yn gyffredin yn yr ardaloedd yma. Cedwid cymanfaoedd ysgolion Sabbothol yn flynyddol a haner blynyddol. Byddai pedwar, pump, a chwech ysgol yn cyfarfod a'u gilydd. Yr oedd y bechgyn ieuaingc i ddysgu penod, yn nghyd a sylwadau Peter Williams, a'r benod i'w hadrodd o flaen yr ysgol ar ddydd y gymanfa. Yr oedd yr hen chwaer yn gwrthod rhoddi benthyg y Bibl i fyned allan o'r tŷ i ddysgu y sylwadau. Yr oedd llygad yr hen wraig ar y bachgen rhag i'w ddwylaw trwsgl ef wneyd cam a dail y Bibl. Yr oedd raid dysgu y sylwadau o'r Bibl ar y bwrdd wrth ochr yr hen chwaer. Bu ef lawer gwaith gyda'r hen wraig yn dysgu y sylwadau, a than gerydd mynych am fod yn drwsgl gyda'i Bibl. Dyna yw y rheswm ei fod yn ei chofio mor dda.

John Morgan, tad John Morgan sydd yn awr yn byw yn Wrangonisaf, a gafodd y fraint o roddi lletty i arch Duw yn benaf. Yr oedd yr holl aelodau yn hynod garedig i roesawu yr ysgol a'r cyfarfodydd pan yn dyfod ar gylch. Ond yn nhy John Morgan yr oedd y pulpud, ac yno y byddid yn pregethu am flynyddau lawer. Cedwid Ysgol Sabbothol am 10 y boreu, elid i Glynnedd erbyn 3, ac yn fynych byddai pregeth neu gyfarfod gweddi yno am 6 yn yr hwyr. Yn niwedd haf 1841, corpholwyd yr ychydig aelodau oedd yn yr Rhigos yn eglwys Annibynol, yn nhy Morgan Morgan, brawd John Morgan, yn nhy yr hwn yr oedd y cyfarfodydd yn cael eu cynal er's blynyddoedd. Thomas Rowland, y gof, yr hwn oedd ddiacon yn eglwys Ystradfellte, ag oedd wedi symud yn ddiweddar i'r ardal; Morgan Morgan, Evan Williams, a'i ddau fab William a Thomas Williams; Rhys ac Evan Morgan, a John Morgan, Wrangonisaf, oeddynt yn mysg yr aelodau cyntaf. Nid oes ond dau o honynt yn fyw, sef Thomas Williams a John Morgan.

Bu yr eglwys fechan hon dan weinidogaeth Mr. Williams, Hirwaun, am 25 o flynyddau. Yn y flwyddyn 1866, rhoddodd Mr. Williams ei ofal i fyny, ac yn yr un flwyddyn rhoddasant alwad i Mr. Daniel Jones, gweinidog y Saeson yn Hirwaun, a Mr. David Thomas, Hermon, Ystradfellte, i'w gwasanaethu yn rhanol. Ni bu cysylltiad Mr. Jones a hwy ond byr, ac ar y Sabboth diweddaf yn 1871, rhoddodd Mr. Thomas hwy i fyny, o herwydd ei fod wedi symud o Hermon, Ystradfellte, i Tonpandy, Cwmystrad. Yn nhy Morgan Morgan, ar heol y Cwmtrwst, y cafwyd lle i'r arch o sefydliad yr eglwys hyd 1844, pryd yr adeiladwyd ysgoldy bychan ar y Cwmin rhwng y Clawddffin a'r heol, am na chawsid gan berchenogion tiroedd, dir i adeiladu, er cynyg ei lawn werth am dano. Dywedodd un goruchwyliwr wrth Mr. Williams, y cawsai le i godi *Gin shop* os mynai, ond na chawsai le i godi capel. Mesur yr ysgoldy tu fewn i'r muriau ydoedd 25 trodfedd 6 modfedd wrth 14 troedfedd 6 modfedd. Bu yn wasanaethgar i gadw Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddi, a phregethu, ac ysgol ddyddiol; cedwir yr olaf ynddo yn awr. Yn 1860, llwyddwyd i gael prydles gan oruchwyliwr Arglwydd Bute am 99 o flynyddoedd am ardreth o bunt yn y flwyddyn. Yr un person roddodd y tir yn awr ag a'i gwrthododd yn 1844. Mae yma gapel bychan cyfleus yn mesur tu fewn i'r muriau 31 troedfedd wrth 28 troedfedd, ac y mae wedi talu am dano.

Codwyd yma dri phregethwr :—

Thomas Williams. Dechreuodd ef bregethu oddeutu y flwyddyn 1825. Eglwys Glynnedd a'i cododd ef i bregethu, ac yno yr ystyriai efe ei hun yn aelod tra bu yn yr ardal. Symudodd o'r lle hwn i Gwmdulais, ac yn 1852, ymfudodd i America. Sefydlodd mewn lle a elwid Beech, tua chwe' milldir o Scranton, talaeth Pennsylfania. Bu farw yno Mai 1af, 1865, yn 75 oed. Yr oedd Thomas Williams yn ddiffygiol mewn dawn ymadrodd hwylus, er hyn yr oedd hynodion yn ei gymeriad fel cristion a phregethwr. Yr oedd yn ddiargyhoedd o ran ei fuchedd, yn gywir a didwyll yn ei waith a'i drafodaeth a dynion. Nid oedd yn myned oddi cartref i bregethu ond pan anfonid am dano; ac yn achlysurol y byddai yn pregethu gartref, ond byddai yn llanw bwlch yn gynorthwyol pan fyddai eisiau. Yr oedd o ran ei farn yn uchel-Galfiniad. Teimlai yn selog am i bawb, yn neillduol pregethwyr, i fod yn uniongred gyda golwg ar yr athrawiaethau Calfinaidd, yr hyn a ystyriai ef yn ffurf yr athrawiaeth iachus. Dywedodd unwaith pan yn pregethu yn y Rhigos, ei fod

ef yn adnabod pregethwr oedd yn gweddio yn Galfinaidd ac yn pregethu yn Arminaidd, a'i enw yw W. W. Gwenodd y gwrandawyr a Mr. Williams, Hirwaun, at yr hwn yr oedd yn cyfeirio. Dro arall, wedi gwrando ar Mr. Williams yn arfer amryw anogaethau a chymhellion i'r gwrandawyr gredu yn Nghrist, gofynai iddo ar y ffordd wrth fyned gartref, a oedd efe yn amheu cadwedigaeth yr etholedigion y rhai a ragordeiniwyd i fywyd tragywyddol? "Ydwyf, nes y gwelwyf hwynt wedi credu yn Nghrist, ac ufuddhau i'r efengyl," oedd atebiad Mr. Williams. Dywedai Thomas Williams drachefn, "'does achos i chwi bryderu dim, *fydd ewin o honynt yn ol.* Mae yr arfaeth yn sicr o'i gafael." Dywedodd Mr. Williams wrtho yntau, "Chwi wyddoch Thomas Williams fod Iesu Grist yn adnabod yr etholedigion, ac yn gwybod am yr arfaeth yn well na ni, ac etto yr oedd efe yn hynod bryderus yn achos Jerusalem druenus." Ar hyn dyma Barabra, gwraig T. Williams, yn cyfryngu. Dynes dal, lon, hawddgar, dduwiol, ydoedd, ac yn rhoddi cynghor i'r ddau bregethwr, "Gadewch," ebe hi, "y dirgeledigaethau yn llonydd, a chredwch a gwnewch y pethau amlwg;" a dybenwyd yn y fan. Mae Thomas Williams wedi myned o'r America i'r nefoedd, ac y mae yn deall i foddlonrwydd heddyw pa fodd y mae gras a dyledswydd yn gyson a'u gilydd.

Jonathan Jones. Dyn ieuangc a ddaeth yma o ardal Gwernogle, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn berthynas i'r diweddar Jonathan Jones, Rhydybont. Yr oedd ei dad, David Jones, yn bregethwr cynorthwyol yn Gwernogle. Dechreuodd Jonathan Jones bregethu yn 1850. Ymadawodd a'r wlad hon am America yn niwedd 1851, neu yn nechreu 1852. Clywsom iddo fyned i athrofa yn America, ond nis gwyddom beth a ddaeth o hono wedi hyny.

David Morgan. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1859. Derbyniwyd ef yn fyfyriwr i athrofa Aberhonddu yn 1863. Urddwyd ef yn Penywaun, Mynwy, Medi 5ed, 1867, ac yno y mae etto.*

## EBENEZER, ABERDAR.

Tua diwedd y ganrif ddiweddaf daeth llawer o bobl o wahanol barthau o ddeheudir Cymru i Aberdar i weithio, ac yn eu mysg yr oedd rhai aelodau eglwysig perthynol i'r Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd. Nid oeddynt ond chwech neu saith o rif ar y cyntaf. Buont am rai blynyddau yn cyd-gynal cyfarfodydd gweddio mewn anedd-dai, ac yn llwyddo yn achlysurol i gael pregethwr o'r naill enwad neu'r llall i ymweled a hwy. Tua diwedd y flwyddyn 1799, ymwahanodd y ddau enwad. Aeth y Methodistiaid i gynal eu gwasanaeth yn nhy William Pugh, yn Llwydgoed, a'r Annibynwyr yn nhy Timothy Davies, yn y pentref. Yr aelodau cyntaf gyda yr Annibynwyr oeddynt Timothy Davies a'i wraig; Lewis a Dafydd Lawrence a'u gwragedd; Dafydd Richard a'i wraig, a Morgan Rowland a'i wraig. Yn y flwyddyn 1804, cymerasant dŷ bychan ar Benypound, yn ngwaelod y pentref, yr hwn a gyfaddaswyd at fod yn addoldy. Cafodd y tŷ hwn ei drwyddedu fel addoldy yn llys Llandaf, Hydref 16eg, 1804, gan Mr. G. Hughes, Groeswen, yr hwn oedd eu gweinidog ar y pryd. Bu Mr. Hughes yn gofalu am yr achos hwn am chwech neu saith mlynedd. Wedi i Mr. Methusalem Jones ymsefydlu yn Merthyr yn 1809, cymerodd ef ofal y ddeadell fechan yn Aberdar, gan ei fod yn nes atynt

* Llythyr Mr. Williams, Hirwaun.

Digitized by Google

na Mr. Hughes. Yr oedd nifer yr eglwys wedi lluosogi ychydig erbyn i Mr. Jones gymeryd ei gofal. At y rhai a enwyd yn barod, yr oedd Dafydd Jenkyn ac Ann ei wraig; Benjamin Havard, Margaret Williams, William Williams a'i wraig; Thomas a Joseph Harrison, a rhai eraill, wedi ymuno a'r achos erbyn 1809. Yn y flwyddyn 1811, adeiladwyd capel Ebenezer, ar Heolyfelin, yr hwn le a ystyrid yn fwy canolog na'r pentref. Byddai Mr. Walter Thomas yn pregethu yma yn fynych fel cynorthwywr i Mr. Hughes a Mr. Jones; ac yr ydym yn cofio clywed yr hen aelodau bymtheg-mlynedd-ar-hugain yn ol, yn son yn barchus iawn am dano fel dyn da a nodedig o wresog yn ei ysbryd. Wedi adeiladu Ebenezer ar Heolyfelin, cynyddodd yr eglwys a'r gwrandawyr yn fawr, ac yn 1813, penderfynasant fyny gweinidog iddynt eu hunain. Rhoddasant alwad i Mr. David Jones, aelod o'r eglwys yn y Mynyddbach, ger Abertawy, ac urddwyd ef yma Gorphenaf 29ain, 1813. Ni bu ei arosiad ef yma dros o ddwy i dair blynedd. Gan fod yr eglwys yn analluog i'w gynal ef a'i deulu, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn Llanharan a'r Taihirion, a symudodd yno. Yn 1817, dewisodd yr eglwys un o'i phlant ei hun i fod yn weinidog iddi, sef Mr. Joseph Harrison, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu yma yn 1812. Rhif yr aelodau pan urddwyd Mr. Harrison, oedd 26. Nid oeddynt yn alluog i wneyd digon at ei gynal, ond gan ei fod yn ddyn sengl, ac yn cael rhan fawr o'i gynhaliaeth gan ei gâr, Dafydd Jenkyn, yn nhy yr hwn y llettyai, ni bu raid iddo ef ymadael oddi yma am yr un rheswm ag a orfododd ei ragflaenydd, Mr. Jones, i ymadael. Bu Mr. Harrison yn gwasanaethu yr eglwys hon gyda diwydrwydd diflino a mesur helaeth o lwyddiant hyd y flwyddyn 1835, pryd y darfu y cysylltiad rhyngddynt. Er fod y capel wedi cael ei adeiladu yn 1811, yr oedd dyled drwm yn aros arno yn y flwyddyn 1817, pan ddechreuodd Mr. Harrison ei weinidogaeth yma, a bu ef yn llafurus iawn, ac yn teithio yn mhell ac agos i gasglu nes llwyr symud y baich. Yn niwedd y flwyddyn 1828, torodd allan yma, fel yn y rhan amlaf o eglwysi Deheudir Cymru, ddiwygiad grymus anarferol, yr hwn a barhaodd am fwy na dwy flynedd. Yn y diwygiad hwn ychwanegwyd amryw ugeiniau at rif yr aelodau, ac aeth y capel lawer rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, fel y bu raid yn y flwyddyn 1829, ei dynu i lawr, ac adeiladu un mwy. Cynwysai y capel newydd tua chwe' chant o eisteddleoedd, ac yr oedd yn yr amser yr adeiladwyd ef yn cael ei gyfrif yn addoldy hardd iawn. Costiodd tua 700p., ac yr oedd y ddyled wedi ei dynu i lawr i 240p. erbyn terfyniad gweinidogaeth Mr. Harrison yn 1835. Yn nechreu y flwyddyn 1836, rhoddodd yr eglwys hon a'r eglwys yn Nebo, Hirwaun, alwad i Mr. John Davies, Llantrisant, i ddyfod yn weinidog iddynt. Bu Mr. Davies yn llafurio yma ac yn Nebo hyd 1840, pryd y symudodd i'r Mynyddbach. Ni chymerodd dim nodedig le yma yn nhymor gweinidogaeth Mr. Davies, amgen nag i bob peth fyned yn mlaen yn dangnefeddus, ac i ychydig gael eu hychwanegu at yr eglwys. Wedi ymadawiad Mr. Davies yn Mai, 1840, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Thomas Rees, Craigyfargod, yr hwn a fuasai am dymor yn aelod yma yn amser Mr. Harrison. Bu pobl Ebenezer mewn cryn betrusder wrth roddi yr alwad, gan nad oedd Nebo yn uno a hwy fel yn amser y gweinidogion blaenorol, rhag na fuasent yn alluog i gynal gweinidog eu hunain. Tybiai rhai eu bod yn rhyfygu wrth addaw rhyw dair punt a deg swllt yn y mis at y weinidogaeth, ond yn fuan gwasgarwyd eu holl ofnau trwy yr ysbryd haelionus a ddisgynodd ar yr eglwys a'r gwran-

dawyr, a'r ychwanegiad dirfawr a gafwyd yn fuan at rif yr aelodau. Tua chant a haner oedd rhif yr aelodau pan ddechreuodd Mr. Rees ei weinidogaeth yma, ac yn mhen ychydig gyda deuddeng mis ar ol ei sefydliad yr oedd cant a haner eraill wedi eu hychwanegu atynt. Cyn diwedd y flwyddyn 1841, yr oedd casgliadau yr eglwys yn dyfod i fyny i 12p. y mis, ond o herwydd fod amryw o'r hen aelodau am ddefnyddio yr arian a gyfrenid at y weinidogaeth at dalu dyled y capel, ac yn gwrthod rhoddi i'r gweinidog yr hyn oedd yn anhebgorol at ei gynhaliaeth, yn hytrach nag ymryson a hwy, penderfynodd dderbyn galwad o Siloa, Llanelli, a symudodd yno yn Mawrth, 1842. Wedi hyn bu yr eglwys yn Ebenezer yn byw ar weinidogaeth achlysurol hyd 1844, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. William Edwards, o athrofa Aberhonddu. Urddwyd ef Gorphenaf 1af a'r 2il, yr un flwyddyn. Ar yr achlysur, pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. B. Owen, Merthyr. Holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Williams, Hirwaun. Dyrchafwyd yr urddweddi gan Mr. D. Roberts, Dowlais. Pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E. Davies, athraw ieithyddol athrofa Aberhonddu, ac i'r eglwys gan Mr. D. Jones, Bethesda, Merthyr.* Mae Mr. Edwards wedi bod yn weithiwr difefl yma bellach er's wyth-mlynedd-ar-hugain, a'i fwa etto yn parhau yn gryf trwy ddeheulaw grymus Dduw Jacob. Heblaw gofalu am bobl neillduol ei ofal ei hun, y mae wedi gwneyd ei ran yn deg yn sefydliad yr holl eglwysi a ffurfiwyd yn y plwyf hwn yn yr wyth-mlynedd-ar-hugain diweddaf. Er fod llawer o ganghenau wedi myned allan o honi, a chapeli a chynnulleidfaoedd lluosog o'r un enwad oddi amgylch iddi yn mhob cyfeiriad, y mae yr hen fam yn Ebenezer yn awr yn gryfach ac yn fwy llewyrchus nag y bu ar unrhyw gyfnod o'i hanes. Yn 1859, cafodd y capel ei adeiladu y drydedd waith trwy draul o leiaf o 800p. Mae yn awr yn addoldy prydferth iawn, ac yn cynwys dros saith gant o eisteddleoedd. Aed yn ddiweddar hefyd i'r draul o 300p. i'w adgyweirio a'i brydferthu. Ychydig flynyddau yn ol hefyd adeiladwyd ysgoldy eang y tu arall i'r heol gyferbyn a'r capel, yr hwn a gostiodd agos saith cant o bunau. Darfu i'r eglwys weithgar hon hefyd yn y blynyddau a aethant heibio adeiladu ysgoldai yn Llwydgoed, Penywern, a Chwmdar, ac yn awr y mae eglwysi Annibynol yn cynal eu gweinidogion eu hunain mewn dau o'r tri lle hyn.

Nid ydym yn sicr na chyfodwyd rhai yma i bregethu yn yr ugain mlynedd cyntaf o'r ganrif bresenol, nad ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i'w henwau. Y rhai canlynol yw yr unig rai y gwyddom ni am danynt.

Joseph Harrison. Dechreuodd bregethu, fel y gwelsom, yn 1812, a bu yn weinidog yma o 1817 hyd 1835. Daw ei hanes ef dan sylw etto yn nglyn a'r achos yn Salem, Aberdar.

Ebenezer Pugh. Yr oedd ef yn bregethwr galluog iawn, ond bu farw yn dra ieuangc tua deugain mlynedd yn ol. Yr oedd wedi ymuno a'r Methodistiaid ychydig amser cyn ei farwolaeth.

John Jones. Bu ef am flynyddau yn yr ysgol yn Baran. Ymfudodd oddi yno i America tua phymtheng-mlynedd-ar-hugain yn ol, ac yno y mae etto yn Delawere, Ohio.

Thomas Pugh. Bu yntau am lawer o flynyddau yn America. Dychwelodd ychydig flynyddau yn ol i'r wlad hon, a bu am dymor byr yn weinidog yn Abernant, Aberdar. Dychwelodd drachefn i'r America, ac y mae yn bresenol yn weinidog yno.

* *Dysgedydd* 1844. Tudal. 251.

Digitized by Google

Richard Richard. Bu ef yn pregethu am ychydig yn niwedd tymor Mr. Harrison, ond y mae er's blynyddau lawer heb ddim a wnelo a chrefydd.

David Richard. Dechreuodd ef bregethu yn amser Mr. Davies, a bu yn bregethwr cynorthwyol am lawer o flynyddau. Y mae wedi marw er's rhai blynyddau bellach.

William Jones. Yn amser Mr. Davies y dechreuodd yntau bregethu. Yn y flwyddyn 1841, ymfudodd gyda ei rieni i America. Mae ei hanes yno yn anhysbys i ni.

William Jones, genedigol o sir Benfro. Dechreuodd bregethu yn 1841, ac ymfudodd yn fuan wedi hyny i'r America. Clywsom iddo wedi myned yno gael ei dderbyn yn fyfyriwr i brif athrofa Caerefrog Newydd. Nis gwyddom ychwaneg o'i hanes.

Miles Morgan. Dechreuodd ef bregethu yma yn nechreu 1841. Y mae yn parhau i fod yn bregethwr cynorthwyol parchus, ac yn byw yn awr yn Nhonypandy, Cwmrhondda.

Howell Llewellyn. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan Mr. Rees, yn 1840. Yn mhen tua dwy flynedd wedi hyny dechreuodd bregethu, ond bu farw cyn pen nemawr o amser ar ol hyny.

William Thomas, gweinidog yr eglwysi yn Gwynfe, a Chapel Maen, sir Gaerfyrddin. Efe oedd y cyntaf a gyfodwyd yma yn nhymor gweinidogaeth Mr. Edwards.

Edward J. Griffiths. Ymfudodd i Awstralia yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu. Bu yn fyfyriwr yn athrofa Victoria yn y wlad hono, ac er y flwyddyn 1866, y mae yn weinidog yn Landsborough, Victoria.

Evan Bryant, yr hwn sydd yn genhadwr yn Hankow, China, er y flwyddyn 1865.

Evan Powell, yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Richard Powell, yr hwn sydd yn fyfyriwr yn athrofa y Bala.*

## NEBO, HIRWAUN.

Yr oedd amryw aelodau perthynol i'r Annibynwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Bedyddwyr, yn cyfaneddu yn yr ardal hon er yn gynar yn y ganrif bresenol. Elent i gymuno i Aberdar, ond cadwent gyfarfodydd gweddio gyda'u gilydd mewn anedd-dai ar Hirwaun, yn enwedig mewn tŷ yn Heolyfelin, oedd wedi cael ei ardrethu ganddynt at gynal moddion crefyddol. I eglwys Ebenezer, Aberdar, y perthynai cynifer o Annibynwyr a breswylient yma. Yn y flwyddyn 1823, adeiladasant gapel bychan yr hwn a alwasant Nebo, neu Pennebo. Cafodd y capel bychan hwn wasanaethu hyd y flwyddyn 1830, pryd, mewn canlyniad i'r diwygiad grymus a gymerodd le yn y flwyddyn hono a'r un flaenorol, yr ychwanegwyd ugeiniau at rif yr aelodau a'r gwrandawyr cyson, fel y bu raid adeiladu addoldy helaethach. Maint yr ail gapel oedd 31 troedfedd wrth 32 tu fewn i'r muriau. Er fod yr eglwys pan yr adeiladwyd ef yn gymharol luosog, etto teimlent fod gorphen adeilad o'r maint hwn yn ormod o faich iddynt allu sefyll dano, ac felly boddlonwyd arno am lawer o flynyddau heb ei brydferthu na gosod eisteddleoedd costus ynddo. Yn y flwyddyn 1836, cafodd ei ad-drefnu a'i harddu oddi fewn, fel yr oedd yn addoldy

* Llythyrau Mr. Edwards.

Digitized by Google

hardd a chyfleus iawn. Y gweinidog yma oddiar amser corpholiad yr eglwys, ac agoriad y capel cyntaf yn 1823 hyd 1835, oedd Mr. Joseph Harrison, mewn cysylltiad ag Ebenezer, Aberdar, a phan ddarfu cysylltiad Mr. Harrison ag Ebenezer, darfu ei gysylltiad a Nebo yr un modd. Yn nechreu y flwyddyn 1836, derbyniodd Mr. John Davies, Llantrisant, alwad oddi wrth yr eglwysi yn Ebenezer a Nebo, a bu yn eu gwasanaethu hyd y flwyddyn 1840, pryd y symudodd i'r Mynyddbach, ger Abertawy. Wedi ymadawiad Mr. Davies, dewisodd yr eglwysi yn Ebenezer a Nebo weinidogion iddynt eu hunain. Rhoddodd yr eglwys yn Nebo alwad i Mr. William Williams, Tredwstan, yn mis Mawrth, 1841, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Mai canlynol, ac yma y mae hyd y dydd hwn mor lwyddianus a pharchus ag un gweinidog yn y Dywysogaeth. Erbyn y flwyddyn 1850, yr oedd y capel wedi myned lawer yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, fel y bu raid ei dynu i lawr yn mis Mai y flwyddyn hono, ac adeiladu yr addoldy prydferth presenol. Dechreuodd y gynnulleidfa addoli yn y capel newydd Mawrth 9fed, 1851. Bernir fod yr arian a roddwyd allan ar y capel hwn o bryd i bryd o'r flwyddyn 1823 hyd 1851, rhwng 1500p. a 2000p., ac y mae y cwbl wedi eu talu er's blynyddau bellach.

Mae yr eglwys hon wedi cael ei bendithio ag amryw ddiwygiadau crefyddol grymus iawn. Cafodd, fel y crybwyllasom, gyfran helaeth o'r gawod rasol a ddisgynodd ar y rhan amlaf o eglwysi Deheudir Cymru yn 1829 a 1830. Bu yma drachefn amser llewyrchus iawn yn 1840 ac 1841. Cafodd degau o ddynion da eu hychwanegu at yr eglwys, a'r rhai oedd ynddi yn barod eu hadfywio a'u gwneyd yn fwy selog a meddylgar nag y buasent erioed cyn hyny. Bu darlleniad darlithau Finney ar adfywiad yn fendith neillduol i'r gynnulleidfa hon yr amser hwn. Gadawodd yr adfywiad hwn ei ôl ar yr eglwys hyd y dydd heddyw. Dichon nad oes un eglwys yn y Dywysogaeth wedi cael ei bendithio o bryd i bryd yn y deng-mlynedd-ar-hugain diweddaf a mwy o aelodau gweithgar, haelionus, a chyhoeddus eu hysbryd. Cafwyd yma ychwanegiadau dirfawr drachefn yn 1849. Derbyniwyd yn y flwyddyn hono tua dau gant o aelodau yma. Er i lawer y pryd hwnw yma, fel mewn manau eraill, ymwthio i mewn i'r eglwys mewn dychryn, pan oedd y geri marwol yn difrodi ar y dde a'r aswy, heb ystyriaeth bwyllog, ac iddynt droi yn ol drachefn i'w hen ffyrdd pan beidiodd yr haint, etto ni ddarfu i nemawr o'r gwrandawyr cyson, ac aelodau yr Ysgol Sabbothol, a dderbyniwyd y pryd hwnw, droi eu cefnau ar yr achos. Rhif yr aelodau yn 1851, pan agorwyd y capel presenol oedd 300, a'u rhif yn 1870 oedd 313, a diau nad ydynt yn llai o rif yn awr nag oeddynt ddwy flynedd yn ol.

Mae yr eglwys hon wedi cyfodi amryw bregethwyr, a'r rhan fwyaf o honynt yn ddynion da a defnyddiol iawn.

William Thomas, gweinidog yr eglwysi yn y Rock a Bethania, Cwmafon. Derbyniwyd ef yma Mawrth 13eg, 1825, a dechreuodd bregethu yn 1826, ac y mae yn parhau yn ei nerth a'i ddefnyddioldeb hyd y dydd hwn. Gweler ychwaneg am dano ef yn hanes yr eglwysi yn Nghymerglyn-corwg, Cefncribwr, y Rock, a Bethania.

Isaac Francis. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig Tachwedd 20fed, 1825, a dechreuodd bregethu yn 1828. Bu yn derbyn addysg yn athrofa y Drefnewydd ac am ychydig yn Aberhonddu. Ar ol bod yn weinidog am ychydig amser yn Bogmines, ac wedi hyny yn y Coed-duon, Mynwy

Digitized by Google

aeth i'r Eglwys Sefydledig, ac nid oes un Ymneillduwr yn dymuno ei weled yn dychwelyd oddi yno.

Dafydd Lloyd. Yr oedd y dyn da hwn yn enedigol o ardal Henllan, sir Gaerfyrddin. Symudodd o'i ardal enedigol i ardal Ty'nycoed, Glyntawy, ac oddi yno i Hirwaun, lle y treuliodd weddill ei oes. Cymellwyd ef gan yr eglwys yn Nebo i arfer ei ddawn fel pregethwr, a bu am oddeutu deng-mlynedd-ar-hugain yn pregethu un Sabboth o bob mis yno, ac yn achlysurol mewn eglwysi cymydogaethol, ond nid elai i un man oddi cartref heb wahoddiad. Bu farw wrth weddio o flaen y bregeth yn Nebo, nos Sabboth, Medi 15fed, 1861, yn 73 oed. Yr oedd Dafydd Lloyd yn ddyn o feddwl craffus a galluog, ac yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Bu o wasanaeth nodedig i'r eglwys fel athraw yn yr Ysgol Sabbothol, a hyfforddwr a chynghorwr yn y cyfarfodydd eglwysig, yn gystal ag fel pregethwr. Yr oedd yn ŵr pwyllog ac araf o ran ei dymer, ac yn llawn iawn o synwyr cyffredin. Yr oedd ei feddwl wedi cael ei ddeffroi yn moreu ei oes yn Henllan a Glandwr i chwilio i ddyfnion bethau Duw, a pharhaodd trwy ei fywyd i ddarllen a myfyrio pob llyfr duwinyddol y gallasai ddyfod o hyd iddo. Cyfrifid ef yn dduwinydd galluog. Calfiniad cymedrol ydoedd o ran ei olygiadau athrawiaethol.

Rees Evans. Yr oedd ef yn enedigol o blwyf Myddfai, sir Gaerfyrddin. Cafodd ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Sardis yn dra ieuangc. Tua'r flwyddyn 1829, daeth i Hirwaun i weithio ei alwedigaeth fel dilledydd. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1833. Ar ol bod am rai blynyddau yn yr ysgol yn Penywern, Mynwy, ac wedi hyny yn Hanover, urddwyd ef yn 1841 yn Carmel, Tresimwn. Bu yno tua chwe' mlynedd, ond am ran fawr o'r amser hwnw yn gystuddiol. Bu raid cymeryd ymaith un o'i gluniau cyn iddo wellhau. Tua'r flwyddyn 1847, ymfudodd i'r America. Nis gwyddom ddim o'i hanes yn mhellach.

Howell Jones. Ganwyd ef yn Meidryn, sir Gaerfyrddin yn 1810. Yr oedd ei dad, Dafydd John, yn aelod a phregethwr cynorthwyol yn Nhrelech. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Ffynonbedr yn y flwyddyn 1829. Symudodd i Aberdar yn 1830, ac yn fuan wedi hyny ymsefydlodd ar Hirwaun. Ni ddarfu iddo ddechreu pregethu cyn y flwyddyn 1843. Dylasai fod wedi dechreu ddeg o flynyddau yn gynt, oblegid y mae yn ddyn o alluoedd rhagorol. Mae yn parhau i bregethu yn achlysurol yn Hirwaun, a'r eglwysi cymydogaethol, ac yn barchus iawn gan bawb sydd yn ei adnabod.

Esay Owen. Ymsefydlodd ef yma fel egwyddorwas gyda masnachydd, ac yn 1854 dechreuodd bregethu. Ar ol gorphen ei amser fel myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, urddwyd ef yn weinidog yr eglwysi yn Nghlydach a'r Glais, lle y mae etto yn barchus a defnyddiol.*

## SALEM, ABERDAR.

Fel y nodasom yn hanes Ebenezer, i gysylltiad Mr. Joseph Harrison a'r eglwys hono derfynu yn 1835, gellir ychwanegu yma fod tua phymtheg-ar-hugain o'r aelodau yn barnu fod yr eglwys yn gwneyd cam ag ef, ac felly aethant allan gydag ef i ddechreu achos newydd. Rhag i neb an-

* Llythyr Mr. Williams.

Digitized by Google

hysbys o'r amgylchiadau dynu camgasgliad, byddai yn briodol hysbysu mai nid dim yn muchedd Mr. Harrison a barodd i'r eglwys yn Ebenezer ymwrthod ag ef, ond teimlad nad oedd ei alluoedd fel pregethwr yn gyfaddas i gylch oedd erbyn y flwyddyn 1835 wedi dyfod yn un pwysig iawn. Yr hyn a gymerwyd fel achlysur i ymwrthod ag ef, oedd rhyw beth ffol oedd wedi ysgrifenu ar y pwngc o fedydd gyda bwriad i'w gyhoeddi. Yr oedd wedi darllen ei ysgrif i amryw o'r aelodau, a chan fod awydd yn mwyafrif yr eglwys er's blynyddau am gael gweinidog galluocach, daliwyd ar yr esgus hwnw i'w fwrw ef allan. Ar ei ymadawiad ef aeth pymtheg-ar-hugain o'r aelodau allan gydag ef, ac wedi bod am rai misoedd yn addoli mewn anedd-dai, gwnaethant lofft ty yn agos i dollborth godreu Hirwaun yn addoldy yn y flwyddyn 1836. Ar ol bod yno rai blynyddau yn addoli, cyfodwyd ty coed yn agos i'r man y saif y capel arno yn bresenol, ac yno y buwyd yn addoli nes i'r capel gael ei adeiladu yn 1841. Parhaodd Mr. Harrison i weinidogaethu yma hyd ei farwolaeth yn 1851. O'r pryd hwnw buwyd yn byw ar weinidogaeth achlysurol hyd 1853, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. Joshua Thomas, Aberaman. Mae Mr. Thomas wedi llafurio yma gyda mesur helaeth o lwyddiant hyd yn bresenol. Pan yr adeiladwyd y capel yr oedd allan o ganol y boblogaeth, ond yn awr y mae yn cael ei amgylchynu gan ugeiniau o anedd-dai, ac mewn man mor gyfleus ag un addoldy yn y plwyf. Ni bu yr eglwys hon ar un cyfnod o'i hanes yn lluosog iawn, ond y mae yma achos gwresog a gobeithiol.

Cyfodwyd y personau canlynol i bregethu yma:—

Jenkin Edwards. Bu ef farw yn ieuangc yn 1853.

Evan Harries. Efe a ymfudodd i America.

David T. Jones. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef yn Tanygraig, Abertawy, yn 1867. Ymfudodd i America yn 1870.

John Rees Thomas, mab Mr. Thomas y gweinidog. Derbyniwyd ef yma yn aelod eglwysig ar y Sabboth cyntaf yn Chwefror 1863, ac yn niwedd yr un flwyddyn dechreuodd bregethu. Ar ol bod am dymor yn derbyn addysg ragbarotoawl dan ofal ei frawd-yn-nghyfraeth, Mr. H. Oliver, B.A., derbyniwyd ef yn fyfyriwr i athrofa Caerfyrddin, ond wedi bod yno ddwy flynedd, bu farw o'r darfodedigaeth yn 1866. Yr oedd yn ŵr ieuangc o alluoedd rhagorol, yn bregethwr addawus iawn, ac yn debyg pe cawsai fyw o ddyfod yn un o brif ysgolheigion ei oes. Ond gwelodd yr Arglwydd yn dda ei gymeryd ato ei hun gyda bod ei alluoedd rhagorol yn dechreu ymagor. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef," ond etto, rhaid i ni gredu mai "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfaingc ef."

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

**Joseph Harrison.** Ganwyd ef yn Nghwmnedd yn y flwyddyn 1789. Ysgotiaid oedd ei henafiaid o du ei dad. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Ebenezer pan yr oedd yr addoliad yn cael ei gynal wrth Benypound, yn y pentref, tua y flwyddyn 1809. Dechreuodd bregethu yn 1812, ac urddwyd ef yn weinidog i'w fam-eglwys yn 1817. Bu yn llafurus iawn yn Ebenezer i dalu dyled y capel cyntaf, a'r rhan fwyaf o ddyled yr ail, a thrwy ei ymdrech ef yr adeiladwyd Nebo, Hirwaun, ddwy waith. Wedi i'w gysylltiad ag Ebenezer a Nebo ddarfod, adeiladodd gapel Salem.

Aberdar, a chapel y Drindod ar Hirwaun. Mae Salem yn aros etto, ac yn debyg o fod yn achos llewyrchus am oesau, ond y mae Capel y Drindod wedi ei gau er's llawer o flynyddau, a'r achos oedd ynddo wedi myned i'r dim. Ar ol bywyd o lafur cyson yn ngwinllan ei Arglwydd, bu y gwas ffyddlon hwn i Grist farw yn llawn o dangnefedd Ebrill 11eg, 1851, yn 62 mlwydd oed, a chladdwyd ef wrth gapel Salem. Gweinyddwyd yn ei angladd gan Meistri Owen, Zoar; Thomas, Aberaman; Williams, Hirwaun; Griffiths, Alltwen; Bowen, Penydarran, ac eraill. Ychydig o ddyddiau y bu yn gystuddiol, ond yr oedd wedi dyweyd wrth ei gyfeillion rai wythnosau cyn hyny, fod amser ei ymddatodiad gerllaw. Pregethodd y Sabboth olaf y bu fyw, a bu farw yn dawel yn ei gadair y dydd Gwener canlynol. Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth teimlodd cyfaill a ymwelai ag ef, ei draed, a dywedodd eu bod yn teimlo yn oerion iawn. "Pa ryfedd," atebai yntau, "canys y maent yn yr afon er's dyddiau."

Yr oedd Joseph Harrison yn ddyn rhyfeddol o ddiddrwg, yn cael ei gyfrif gan bawb o'i gydnabod yn ddyn duwiol iawn, ac am ei lafur dibaid gydag achos ei Arglwydd nid oedd neb o'i gydoeswyr yn rhagori arno. Mae ei goflyfr o fedyddiadau, yr hwn sydd yn awr yn meddiant y Cofrestrydd Cyffredinol yn Llundain, yn dangos iddo o'r 29ain o Fehefin, 1817, hyd y 30ain o Fehefin, 1837, fedyddio *mil a naw a deugain* o blant, a chan iddo gael byw agos bedair-blynedd-ar-ddeg ar ol hyn, mae yn sicr iddo fedyddio canoedd yn ychwaneg. Yn nhymor ei weinidogaeth derbyniodd lawer o ganoedd o aelodau i'w eglwysi. Yr oedd hyn braidd yn rhyfedd wrth ystyried nad oedd ei alluoedd fel pregethwr ond cyffredin iawn. Unwaith mewn cymanfa yn Morganwg, gofynid i bob un o'r gweinidogion ddyweyd ychydig am sefyllfa yr achos yn mysg pobl eu gofal; atebodd Mr. Jones, Penybont, y pregethwr goreu ar lawer o gyfrifon yn yr holl sir, mai lled isel oedd pethau yn ei eglwysi ef; ond ateb Mr. Harrison, y pregethwr gwanaf yn ddiameu o weinidog urddedig yn Nghymru ydoedd, fod yr achos yn llewyrchus iawn gydag ef, a bod llawer wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn. "Wel, wel," ebe Mr. Hughes, o'r Groeswen, "ni waeth corn cam na chorn cymwys." Mae llwyddiant anghyffredin y dyn da hwn, er gwaned ei alluoedd, yn dangos y gall duwioldeb diamheuol a diwydrwydd diatal fod o wasanaeth dirfawr i grefydd yn absenoldeb talent.

Unwaith yr ymddangosodd Mr. Harrison trwy y wasg. Cyhoeddodd holwyddoreg yn llyfryn at wasanaeth yr ysgolion Sabbothol.

## SILOA, ABERDAR.

Dechreuwyd yr achos blodeuog a llwyddianus hwn dan yr amgylchiadau canlynol:—Yn nechreu y flwyddyn 1841, darfu i Mr. T. Rees, yr hwn oedd y pryd hwnw yn weinidog yn Ebenezer, gymeryd ystafell yn mhentref Aberdar, er cychwyn Ysgol Sabbothol a phregethu yn yr iaith Saesonig. Cymerodd Rees Thomas a'i wraig, a rhai eraill o aelodau Ebenezer, ddyddordeb yn yr anturiaeth. Trodd yr Ysgol Sabbothol allan yn dra llwyddianus, a daeth amryw Saeson lled selog yn mlaen i gydweithredu. Y bwriad y pryd hwnw ydoedd cychwyn achos Annibynol Saesonig. Ar symudiad Mr. T. Rees o Ebenezer i Siloa, Llanelli, yn nechreu 1842, rhoddwyd i fyny bob meddwl am fyned a'r achos Saesonig yn mlaen, ond

Digitized by Google

parhaodd aelodau Ebenezer i gynal cyfarfodydd gweddio ac Ysgol Sabbothol yn y lle. Ar yr amser hwnw, symudodd Mr. David Price a'i deulu o Gwmnedd i Aberdar, a thaflodd holl bwys ei ddylanwad fel crefyddwr selog a phregethwr doniol, o blaid yr achos yn y pentref. Ar ol parhau am dymor yn cynal Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol yn y lle, a gweled y llwyddiant oedd ar y moddion hyny, barnodd y brodyr a'r chwiorydd o Ebenezer, a gyfaneddent yn y pentref, y dylasid ffurfio eglwys Annibynol yno. Yn nechreu y flwyddyn 1843, rhentiwyd *Long-room* hen westy y *Boot*, at gynal y moddion crefyddol. Ar ol cael y lle cymharol cyfleus hwnw, lluosogodd yr ysgol a'r gwrandawyr yn fawr. Gosodwyd cais ger bron yr eglwys yn Ebenezer am ganiatad i gael pregeth yn y *Long-room* bob nos Sabboth. Gwrthwynebodd amryw o'r hen frodyr ganiatau y cais yn dra phenderfynol. Y canlyniad fu i'r cyfeillion yn y pentref ofyn ychwaneg, sef cael llythyrau gollyngdod o Ebenezer i'r dyben o ymffurfio yn eglwys yn y *Long-room*. Ar un nos Sabboth gofynodd y brawd William Richard, yn ei enw ei hun, a'r brodyr a'r chwiorydd a gydweithredent ag ef, am eu llythyrau. Mr. Williams o Hirwaun, oedd yn pregethu yn Ebenezer y nos Sabboth hwnw. Cynghorodd Mr. Williams yr eglwys i gymeryd amser i ystyried y cais, a chyhoeddi cyfarfod eglwysig y nos Iau canlynol er penderfynu yr achos. Addawodd ef ddyfod yno er rhoddi pob cynghor a chynhorthwy ag a fedrai iddynt i ddyfod i benderfyniad heddychol. Cyfarfyddwyd nos Iau a phenderfynwyd rhoddi llythyrau gollyngdod yn ol eu cais i Morgan Thomas a'i wraig; Eleanor Colson, William Richards, Howell Richards, George Edwards, David Price a'i wraig; Mary Thomas, Margaret Hughes, Rachel Williams, Jannet Williams, Mary Lloyd a Mary Bowen. Ysgrifenwyd y llythyr gan Mr. Williams, Hirwaun, yn enw eglwys Ebenezer, a chafodd ei arwyddo gan Mr. Williams a dau o'r diaconiaid. Yr oedd wedi ei eirio fel y canlyn:—"Llythyr gollyngdod i'r brodyr a'r chwiorydd sydd a'u henwau isod, i fyned i gyfodi achos crefyddol yn mhentref Aberdar, ac i ymarfer a moddion gras er ennill eneidiau at y Gwaredwr." Ar ddiwedd y cyfarfod gweddiodd Mr. Williams am fendith, a chyn ymadael cydganwyd yn wresog—

"Ffarwel gyfeillion anwyl iawn,
Dros enyd fechan ni 'madawn;
Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd
Yn Salem lân o ddeutu'r bwrdd."

Felly ymadawyd mewn tangnefedd heddychol. Wedi iddynt gael y llythyr gollyngdod, penderfynodd y brodyr a'r chwiorydd alw gweinidogion i'w corpholi yn eglwys Annibynol. Anfonasant gais at Meistri Hughes a Roberts, Dowlais, i ddyfod trosodd i'r dyben hwnw, ac addawsant ddyfod, ond cyn i'r amser penodedig ddyfod oddi amgylch, taenwyd y gair allan fod yr ymadawiad o Ebenezer yn afreolaidd, yr hyn a barodd i weinidogion Dowlais omedd dyfod i gorpholi yr eglwys. Yn ngwyneb hyny, anfonwyd at Mr. Williams, Hirwaun, a Mr. Davies, Mynyddbach, yr hwn pan yn weinidog yn Ebenezer, a ddywedasai yn fynych y dylasai eglwys Annibynol fod yn mhentref Aberdar. Cydsyniodd y ddau frawd hyn a'r cais, a chorpholasant yr eglwys yn nechreu mis Mawrth, 1843. Traddododd Mr. Davies araeth ar natur eglwys, yna pregethodd Mr. Williams ar y pwys o undeb a chydweithrediad, ac ar ei ol pregethodd Mr. Davies oddi wrth Esaiah liv. 1. Yn y prydnawn y cymerodd hyn le. Yn yr hwyr

drachefn, pregethodd Mr. Davies a Mr. Williams. Yr ail Sabboth ar ôl corpholiad yr eglwys, gweinyddwyd y cymundeb cyntaf gan Mr. W. Watkins, Rhymni, pryd y derbyniwyd saith at y pedwar-ar-ddeg a gawsant ollyngdod o Ebenezer. Felly yr oedd yma un-ar-hugain o aelodau yn cymuno y tro cyntaf y gweinyddwyd yr ordinhad. Yn y mis Ebrill canlynol, anfonwyd cais at y cyfarfod chwarterol yn Bethania, Dowlais, am i'r eglwys ieuangc gael ei derbyn i'r undeb, ond gwrthodwyd ei derbyn am fod amryw o'r gweinidogion yn barnu mai achos i ddiflanu yn fuan ydoedd. Pa fodd bynag, cynghorwyd y brodyr i fod yn llafurus am y tri mis canlynol, er gweled pa beth fuasai agwedd pethau erbyn hyny. Yn y cyfarfod chwarterol canlynol, yr hwn a gynaliwyd yn y Taihirion, barnwyd yn briodol derbyn y chwaer fechan yn Aberdar i gyfundeb eglwysig y sir. Yr oedd yr eglwys erbyn hyn wedi rhoddi galwad i Mr. David Price, un o gychwynwyr yr achos, ac yntau wedi amlygu ei gydsyniad a'r alwad. Cynaliwyd cyfarfodydd ei urddiad Awst 16eg a'r 17eg, 1843. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y gweinidogion canlynol:—L. Powell, Caerdydd; T. Rees, Siloa, Llanelli; Joshua Thomas, B. Owen, a Daniel Jones, Merthyr; W. Williams, Hirwaun, a T. Lloyd, Watford. Gan fod y *Long-room* yn rhy fechan i gynwys y gwrandawyr, cafwyd benthyg capel y Bedyddwyr at gynal y cyfarfodydd. Cyn diwedd y flwyddyn 1843, yr oedd y *Long-room* lawer rhy fechan i'r gynnulleidfa arferol, fel y bu raid edrych allan am le i adeiladu capel. Yn Ebrill 1844, dechreuwyd adeiladu y capel, a chyn ei fod yn gwbl orphenedig, yn y mis Medi canlynol, awd iddo i gynal y gwasanaeth. Cynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad Ionawr 15fed a'r 16eg, 1845, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri E. Griffiths, Abertawy; T. Rees, Siloa, Llanelli; M. Rees, Groeswen; J. Thomas, Bwlchnewydd; L. Powell, Caerdydd; W. Williams, Hirwaun; G. Griffiths, Aberhonddu; J. Evans, Cymer; W. Griffiths, Llanharan, ac eraill. Costiodd y capel a'r muriau oddi amgylch y fynwent 600p. Galwyd ei enw Siloa, gan gychwynwyr yr achos, er cof am eu gweinidog blaenorol yn Ebenezer, yr hwn oedd yn awr wedi ymsefydlu yn Siloa, Llanelli. Yr oedd yr eglwys wedi cynyddu i driugain o aelodau erbyn iddynt fyned i'r capel newydd, a lluosogodd yn fawr yn dra buan wedi hyny, fel na bu yn hir cyn talu yr oll o'r ddyled. Llanwyd y capel newydd yn dra buan o wrandawyr cyson. Gan fod y boblogaeth yn ngwahanol ranau y plwyf yn cynhyddu yn gyflym, ymroddodd yr eglwys weithgar hon i gynorthwyo cychwyniad achosion newyddion mewn cyrau eraill o'r ardal. Cyn diwedd y flwyddyn 1845, yr oedd wedi sefydlu Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol yn Cwmbach, a ffurfiwyd yno eglwys yn 1847, a bu yr eglwys hono am ychydig amser dan ofal gweinidog Siloa. Bu eglwys a gweinidog Siloa hefyd yn cynal moddion crefyddol yn Mountain Ash, Aberaman, Cwmaman, a Chwmdar, cyn i achosion gael eu sefydlu ynddynt. Yr eglwys hon hefyd ddarfu adeiladu capel Bethesda, Abernant.

Yn y flwyddyn 1855, ail adeiladwyd Siloa, a chostiodd y capel, yr ysgoldy, a'r muriau oddiamgylch iddynt, 1300p. Talwyd y cwbl yn gynar yn y flwyddyn 1860. Mae yr eglwys hon wedi bod oddiar ei chychwyniad yn rhyfeddol o dangnefeddus, gweithgar a llwyddianus. Heblaw cynydd graddol a chyson, cafodd ei bendithio ag adfywiadau nodedig o rymus yn y flwyddyn 1849, pryd yr ychwanegwyd canoedd at rif yr aelodau, a thrachefn yn 1859 a 1860, bu yma ychwanegiadau dirfawr. Mae yr

Digitized by Google

eglwys hon er's amryw flynyddau bellach yn rhifo dros chwe' chant o aelodau, ac wedi bod dan ofal yr un gweinidog o'i chychwyniad hyd yn bresenol, ac yn ol yr arwyddion presenol y mae y bugail a'r praidd yn debyg o gydfyw nes y del angau i'w hysgaru.

Nis gwyddom am un eglwys o'i hoed sydd wedi cyfodi mwy o bregethwyr na'r eglwys hon, fel y dengys y rhestr ganlynol :—

Morris Phillips. Yr hwn sydd yn genhadwr gweithgar yn Tripatore, India.

William Jansen Davies, gweinidog y Tabernacl, Casnewydd.

David Lewis, gweinidog yr eglwys ar y Docks, Llanelli.

W. E. Evans, gweinidog yr eglwysi yn Nghapel Seion a Phontyberan, sir Gaerfyrddin.

William Gibbon, gweinidog yr eglwysi yn Nghapel Isaac a Llanarthne, sir Gaerfyrddin.

Enoch Jones. Yr hwn a addysgwyd yn athrofa Caerfyrddin, ac a urddwyd yn ddiweddar yn Ohio, America.

W. Perkins, gweinidog yr eglwysi yn Pennal ac Aberdyfi, Meirion.

J. L. Phillips, gweinidog yr eglwys Saesonig yn Nghastellnedd.

David Davies, yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Yr oedd y brodyr ieuaingc William Jones, John Harris, a David Rees, wedi dechreu pregethu, ond gwelodd eu Tad nefol yn ddoeth eu cymeryd ato ei hun yn mlodau eu dyddiau. Yr oedd David Rees wedi cael ei dderbyn i athrofa Caerfyrddin, ond bu farw cyn gorphen ei amser yno.

Bu galwad i'r eglwys hon chwech o weithiau ddewis diaconiaid, ond llwyddodd bob tro i wneyd hyny yn hollol dangnefeddus trwy bleidleisiau dirgel *(Ballot)*.

Nid oes yma ddim dyled er's deuddeng mlynedd, ond y mae yma fwriad yn fuan i osod allan rai canoedd o bunau i adeiladu ysgoldy newydd.*

## Y TABERNACL, ABERDAR.

Yn ngwyneb fod poblogaeth Aberdar yn cynyddu yn gyflym, a bod llawer iawn o Saeson yn mysg y trigolion, darfu i weinidogion yr eglwysi Cymreig, yn nghyd a rhai o aelodau mwyaf selog eu heglwysi, benderfynu cychwyn achos Saesonig yn y lle. Ymddangosodd yr hanes canlynol am gychwyniad y mudiad hwn yn y *Diwygiwr* am 1856, tu dal. 156:— "Gosodwyd careg sylfaen yr addoldy hwn ddydd Llun, Mawrth 7fed, gan yr anrhydeddus Mrs. Thompson, a Thomas Thompson, Ysw., Piercefield Park, Chepstow. Cyfarfu ein hysgolion Sabbothol a'u gilydd o Hirwaun i Aberaman, o cherddasant yn orymdaith reolaidd trwy y dref, at orsaf cledrffordd Glynnedd, gan ganu yn soniarus. Gorphwyswyd enyd yno, i aros y gerbydres ddyfod i mewn. Yna derbyniwyd Mr. Thompson a'i foneddiges gyda croesawiad serchog gan yr holl ysgolion, ac arweiniwyd hwy gan adeiladwyr yr addoldy newydd at y lle. Cerddai yr ysgolion ar eu hol dan ganu. Yna aeth Mr. Thompson a'i foneddiges i'r esgynlawr parotoedig ar gyfer yr achlysur, a thraddododd anerchiad byr ac effeithiol i'r ysgolion a'r dorf yn gyffredinol. Wedi hyny gweddiodd Mrs. Thompson

* Llythyr Mr. Price.

Digitized by Google

yn briodol a sylweddol iawn. Anerchwyd y cyfarfod yn mhellach gan Meistri Rees, Cendl; Rees, Chepstow; Oliver, Pontypridd; Edwards, Ebenezer, a Price, Siloa. Rhanodd y foneddiges lawer o lyfrau bychain rhwng plant yr ysgolion, ac yna terfynwyd y cyfarfod. Rhoddodd Mrs. Thompson danysgrifiad o ugain gini at yr addoldy newydd. Gweinidogion ac eglwysi Cymreig Aberdar sydd yn myned yn gyfrifol am yr holl draul. Mae aelodau ein heglwysi yn y plwyf yn ymrwymo casglu cant a haner o bunau at y draul, ar yr amod ein bod ninau fel gweinidogion i gasglu yr un faint y tu allan i'r plwyf. Penodwyd swydd Benfro i Mr. J. T. Jones, i gasglu ynddi; Abertawy, Cwmtawy, a'r cylchoedd i Mr. Edwards, Ebenezer, a Mr. Thomas, Salem; Dowlais, Merthyr, a Phontypridd i Mr. Price, Siloa, a Mr. Williams, Hirwaun; Castellnedd, Cwmafan, y Llwyni, Caerdydd, &c. i Mr. Davies, Aberaman, a Mr. Morgans, Cwmbach; swydd Fynwy a rhanau o Frycheiniog i Mr. Owen, Zoar. Mae sir Gaerfyrddin hefyd wedi ei hymddiried i rywun arall, neu i rai o'r personau a enwyd." Bu y brodyr rhag-grybwylledig allan yn casglu, a chasglasant lawer mwy na chant a haner o bunau. Gorphenwyd y capel erbyn dechreu y flwyddyn 1857, ac agorwyd ef Chwefror 13eg, y flwyddyn hono, pryd y pregethodd Mr. Thomas Jones, Treforis. Traul yr adeiladaeth oedd 900p. Corpholwyd yma eglwys, a dewiswyd Meistri Henry Lewis, J. Johns, a J. Henderson, yn ddiaconiaid. Heblaw y gweinidogion y rhai a gymerasant ran mor weithgar yn adeiladaeth y capel. Mae enwau Mr. Thomas Williams, Mr. D. E. Williams, Mr. John Williams, Mr. W. Parker, ac amryw eraill, yn deilwng o'u coffau ar gyfrif eu hymdrechion diflino a'u cyfraniadau haelionus at yr achos. Yn mis Tachwedd, 1857, rhoddwyd galwad i Mr. John Cunnick, Pembroke Dock, i ddyfod yma yn weinidog. Yn nechreu Chwefror, 1859, penderfynwyd helaethu y capel ac adeiladu ysgoldy yn ei ymyl, yr hyn a wnaed trwy draul o 800p. Yn nechreu y flwyddyn 1861, derbyniodd Mr. Cunnick alwad oddi wrth eglwys yr Arglwyddes Huntingdon, yn Nghaerloew, a symudodd yno. Yn Medi, yr un flwyddyn, rhoddwyd galwad i Mr. H. G. Parish, B.A. Bu ef yma hyd y flwyddyn 1865, pryd y symudodd i sir Gaerefrog. Yn Awst, yr un flwyddyn, dilynwyd ef yma gan Mr. D. M. Jenkins, gweinidog yr eglwys Saesonig yn Dowlais. Bu Mr. Jenkins yma yn llafurus, ac i raddau yn llwyddianus, hyd y flwyddyn 1871, pryd y derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys yn Mile End Road, Llundain, ac y symudodd yno. Mae yr eglwys oddiar ei ymadawiad ef hyd yn bresenol heb weinidog sefydlog, ond yn edrych allan am un.

Mae yr achos hwn oddiar ei gychwyniad wedi bod yn gymharol lewyrchus, ac y mae pob sail i ddisgwyl, gyda bendith yr Arglwydd, y daw yma achos cryf. Mae y capel agos, os nad yn hollol, ddiddyled, er iddo gostio tua 1700p. Pe gellid cael yma Gymro dysgedig a gweithgar yn weinidog gallai gasglu cynnulleidfa gref iawn.

## SARON, ABERAMAN.

Yn y flwyddyn 1843, dechreuwyd agoryd gweithiau glo a darparu at adeiladu gweithiau haiarn yn y lle hwn, yr hyn yn raddol a dynodd lawer o drigolion i'r ardal; yn yr hon cyn hyny nid oedd dros dri neu bedwar o anedd-dai. Yr oedd ychydig o aelodau eglwysig yn mysg y bobl

a ddaethant yma i gyfaneddu ar gychwyniad y gweithiau, a byddai y rhai hyny yn myned ar y Sabbothau i Siloa, Salem, ac Ebenezer, Aberdar. Byddai y cyfeillion o Aberdar yn dyfod yn achlysurol i gynal cyfarfodydd gweddio yn ardal Aberaman, ond ni chafodd un gwasanaeth crefyddol rheolaidd ei osod i fyny yma hyd y flwyddyn 1846. Yn y flwyddyn hono daeth Mr. Thomas Jones, gweinidog Adulam, Merthyr, i'r ardal i gyfaneddu ac i gadw ysgol. Agorodd ef ei dŷ fel addoldy. Y tŷ hwnw oedd rhif 242, Cardiff Road, Aberaman. Ar y 6ed o Dachwedd, 1846, corpholwyd eglwys Annibynol yn rhŷ Mr. Jones, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mr. Jones, Mr. Harrison, Aberdar, a Mr. Owen, Zoar, Merthyr. Rhif yr aelodau ar eu corpholiad yn eglwys oedd naw, yn mysg y rhai yr oedd dau o Adulam, Merthyr; un o Bethesda, Merthyr; un o Salem, Aberdar, ac un o Beulah, Brycheiniog. Yr oedd y boblogaeth yma y pryd hwn yn ansefydlog iawn, a'r gweithwyr yn myned ac yn dyfod beunydd i'r lle, fel nas gellid ymddibynu nemawr ar arosiad neb yma. Pa fodd bynag, cynyddodd yr eglwys fechan yn raddol nes i dŷ Mr. Jones fyned yn rhy fychan i'w chynwys. Yn ngwyneb hyny bu raid symud i ran o dŷ anorphenedig o eiddo Mr. Thomas Howells, *Lamb and Flag*. Llanwyd y lle hwnw yn fuan drachefn, ond o herwydd ei gysylltiad a'r tafarndy yr oedd yn anghyfaddas iawn at gynal moddion crefyddol, a bu yn achlysur o gryn anghydwelediad yn mysg y brodyr, yr hyn a barodd i amryw o honynt gyfodi eu llythyrau i fyned i eglwysi ereill. Mewn canlyniad i'r ymraniad hwn, aeth y gweddill a adawyd yn ystafell y tafarndy yn ol i dŷ Mr. Jones i gynal y gwasanaeth. Wedi marwolaeth Mr. Jones yn Ionawr, 1848, ac i'w weddw symud o'r ardal, bu yr eglwys fechan am dymor yn addoli o dŷ i dŷ. Rhwng yr anghyfleusdra o ddiffyg addoldy, a gradd o anghydfod yn mysg y frawdoliaeth, bu yr achos yma am dymor yn hynod o wywlyd a diobaith. Wedi adferu heddwch yn eu mysg, rhoddasant eu hunain dan ofal Mr. Price, Siloa. Pan oedd y lle dan ofal Mr. Price cafwyd dau anedd-dy o eiddo Mr. Edwards, Ebenezer, heb raniadau rhyngddynt, at gynal y gwasanaeth. Wedi cyfaddasu y lle hwn at addoli ynddo, agorwyd ef fel capel yn y flwyddyn 1848, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri J. Evans, Craigyfargod; J. Thomas, Glynnedd; G. Jones, Pontypridd; D. Roberts, Dowlais; T. Jones, Cwmbach, a W. Edwards, a D. Price, Aberdar. Wedi cael lle cymharol gyfleus at addoli, ychwanegwyd yn fawr at rif yr eglwys a'r gwrandawyr. Yn Mehefin, 1849, rhoddwyd galwad i Mr. Joshua Thomas, Bethlehem, Llangadog, i ddyfod yma yn weinidog sefydlog, a chydsyniodd i ddyfod, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Hydref, yn y flwyddyn hono. Blwyddyn fythgofus y *Cholera* oedd y flwyddyn hono, a chafodd miloedd lawer eu hychwanegu at yr eglwysi yn mhob rhan o Forganwg a Mynwy yn neillduol, ac yn mhlith ereill, ychwanegwyd tua chant ac ugain at rif yr eglwys yn Aberaman. Erbyn hyn yr oedd y ddau anedd-dy, er gosod oriel ynddynt, lawer yn rhy fychan i gynwys y gynnulleidfa, fel y bu raid edrych allan am le i adeiladu capel. Cafwyd tir, ac wedi llawer o helbul, o herwydd i'r hwn a ddechreuodd ei adeiladu fethu, gosodwyd ef o dan dô, ac er ei fod yn anorphenedig, dechreuodd y gynnulleidfa gynal moddion crefyddol ynddo Mawrth 31ain, 1850. Agorwyd yr addoldy yn y Mehefin canlynol. Traul yr adeiladaeth oedd 650p. Yr oedd rhif yr aelodau erbyn hyn yn 218. Ond ni pharhaodd pethau yn ddymunol yma yn hir. Wedi i'r haint fyned heibio, darfu i lawer o'r rhai a ddaethant at grefydd yn eu

Digitized by Google

dychryn droi yn ol i'w hen ffyrdd drygionus, a chyfododd ymryson rhwng rhai o'r aelodau a'u gilydd. Yn mis Tachwedd, 1851, ymadawodd 44 o'r aelodau i eglwysi eraill. Canlyniad yr anghydfod fu i'r eglwys leihau yn fawr yn ei rhif, ac i'r gwrandawyr gilio. Yn Mehefin, 1852, amlygodd Mr. Thomas ei fwriad i roddi y weinidogaeth i fyny, a chynaliwyd cyfarfod ymadawol iddo ar y 7fed o Awst. Wedi ymadawiad Mr. Thomas bu yr eglwys am ychydig dan ofal Mr. Edwards, Ebenezer. Lled helbulus y bu pethau yma hyd Mehefin, 1854, pryd y cydunwyd yn unfrydol i roddi galwad i Mr. John Davies, Llanelli, Brycheiniog. Bu Mr. Davies amryw fisoedd cyn gwneyd ei feddwl i fyny i ateb yr alwad yn gadarnhaol, ond er mawr lawenydd i'r eglwys, ac i drigolion Aberdar yn gyffredinol, atebodd hi, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Tachwedd, 1854. Bu sefydliad Mr. Davies yn y lle yn adfywiad ar unwaith i'r achos. Cynyddodd y gynnulleidfa a lluosogodd yr eglwys yn ddirfawr, a chafodd yr holl blwyf deimlo fod dyn galluog a gweithgar wedi dyfod i'r lle. Yn mhen llai na dwy flynedd wedi iddo ymsefydlu yma, adeiladodd gapel a chorpholodd gangen o eglwys Saron yn Nghwmaman; ond er gollwng 29 o aelodau, a llawer o wrandawyr, i Gwmaman, yr oedd capel Saron etto lawer yn rhy fychan i gynwys y gwrandawyr. Penderfynwyd ei helaethu yn 1856, ac er cael lle i wneyd hyny bu raid prynu dau dŷ cyfagos am 220p. Yr oedd traul yr helaethiad a phryniad y tai yn 953p., ac at hyny yr oedd 250p. o ddyled y capel cyntaf yn aros, fel yr oedd y ddyled yn awr yn ddeuddeg cant o bunau, ond trwy fod yr eglwys yn unol, a than arweiniad blaenor o'r fath ragoraf, lleihawyd y ddyled yn gyflym. Yn mhen ychydig wedi helaethu y capel, adeiladwyd ysgoldy, neu neuadd eang, y tu cefn iddo, yr hyn a gostiodd 300p. Darfu i'r gynnulleidfa hon yn yr ugain mlynedd cyntaf o'i hanes, osod allan tua dwy fil o bunau ar y capel a'r ysgoldy, ac erbyn y flwyddyn 1865, yr oedd y cwbl wedi ei dalu hyd at 289p. Bu yma, fel mewn llawer o fanau eraill, ddiwygiad grymus iawn yn y blynyddoedd 1859 ac 1860. Buwyd am amryw fisoedd yn derbyn tua haner cant o aelodau newyddion bob mis. Yn Mehefin, 1863, derbyniodd Mr. Davies alwad o Mount Stuart Square, Caerdydd, a symudodd yno, er mawr golled i Aberaman ac Aberdar, ond er ennill dirfawr i Gaerdydd. Yn nechreu y flwyddyn 1864, rhoddodd yr eglwys yn Saron alwad i Mr. R. Rowlands, myfyriwr yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yma yn Mehefin, yr un flwyddyn, pryd y pregethodd Mr. W. Roberts, Liverpool, ar natur eglwys; Mr. M. D. Jones, Bala, ar ddyledswydd y gweinidog, a Mr. J. Davies, Caerdydd, ar ddyledswydd yr eglwys. Bu yma amser bywiog iawn ar grefydd am y ddwy flynedd gyntaf wedi urddiad Mr. Rowlands, ond o herwydd y dyryswch yn y gweithiau yma am y chwe' blynedd diweddaf, y mae yr achos yn Saron, fel yn mhob addoldy arall yn y lle, wedi dyoddef yn dost. Pa fodd bynag, y mae pethau wedi dechreu adfywio yma etto yn dymhorol ac ysbrydol, ac y mae Mr. Rowlands a'r eglwys yn cydweithio yn dda, ac agwedd lewyrchus ar yr achos. Mae Ysgol Sabbothol nodedig o flodeuog wedi cael ei chadw gan yr eglwys hon oddiar ddechreuad yr achos, ac y mae yma hefyd ysgol gân ragorol iawn.

Codwyd y rhai canlynol i bregethu yma:—

Thomas George, yn awr gweinidog yr eglwys yn y Dinas, yn Nghwmrhondda. Cafodd ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin.

John G. Thomas, gweinidog yr eglwys yn y Wern, Aberafan. Yn athrofa Caerfyrddin yr addysgwyd yntau.

Digitized by Google

William Edwards, gweinidog yr eglwys Saesonig yn Mhenycae, Mynwy. Addysgwyd ef yn Aberhonddu.

Llewellyn Thomas.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS JONES. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanwenog, sir Aberteifi. Nid yw amser ei enedigaeth yn hysbys i ni. Derbyniodd ei addysg yn athrofa y Neuaddlwyd, ac yn y flwyddyn 1840, urddwyd ef yn weinidog yr eglwysi bychain yn y Rhiw, Nantglyn, a Llansanan, sir Ddinbych. Yn niwedd y flwyddyn 1848, symudodd i Merthyr Tydfil, a sefydlwyd ef yn weinidog yn Adulam, lle y bu hyd y flwyddyn 1846, pryd y symudodd i Aberaman i gadw ysgol, ac yno, fel y gwelsom, efe a fu yn foddion i ddechreu yr achos sydd yn awr yn Saron. Bu farw Ionawr 8fed, 1848, a chladdwyd ef wrth gapel Siloa, Aberdar. Gweinyddwyd ar ei gladdedigaeth gan Meistri Owen, Zoar; Hughes, Dowlais, a Price, Aberdar.

Dyn gwan iawn o gorph oedd Thomas Jones. Ni chafodd fawr o fwynhad o iechyd am yr un-mlynedd-ar-hugain olaf o'i fywyd. Yr oedd yn bregethwr buddiol a derbyniol, ond fod eiddilwch ei gorph yn ei analluogi i fod yn llefarwr grymus. Cyfrifid ef gan ei gydnabod yn ddyn da a duwiol iawn. Bu farw mewn mwynhad o gysuron crefydd. Y geiriau, "A'r Arglwydd a glybu" oedd ffynonell ei gysur yn ei oriau diweddaf. Gadawodd ar ei ol weddw a phedwar o blant amddifaid.

## CWMBACH, ABERDAR.

Un o faesdrefi Aberdar ydyw y Cwmbach. Saif ryw filldir a haner islaw y pentref, fel ei gelwir, ar yr ochr ogleddol i'r afon Cynon. Ychydig flynyddoedd yn ol nid oedd o gylch y lle yma ond dau neu dri o amaethdai; ac yr oedd ychydig hen breswylwyr Cefnpenar o ran eu crefydd yn gogwyddo at Undodiaeth. Wedi agor y gweithfeydd glo yma, adeiladwyd nifer o dai newyddion yn y lle, a symudodd, yn mysg eraill, rai dynion crefyddol i fyw iddynt. Meddyliodd Mr. Price, a'r eglwys yn Siloa, am gychwyn Ysgol Sabbothol yn y lle, a chynhelid hi o dŷ i dŷ, ond fynychaf yn nhŷ John Richards, yr hwn gyda'i wraig a fu yn ffyddlon gyda'r achos bychan. Yn y flwyddyn 1846, codwyd yma gapel bychan, yr hwn a wnaed o briddfeini, a'r Capel Bricks y gelwid ef, mesurai 24 troedfedd wrth 19 troedfedd y tu fewn i'r muriau. Costiodd 66p., ac aethai y draul yn llawer mwy oni buasai ffyddlondeb yr aelodau yn cludo y defnyddiau. Mynych y soniai John Richards am ei ymdrechion ef ac eraill yn cario y priddfeini oddiwrth y Gamlas at y capel newydd—Brynseion, fel yr enwyd ef. Nid oeddynt ond tua phymtheg mewn nifer pan anturiwyd ar godi y capel, ac yn aelodau gan mwyaf yn Siloa, a Mr. Price fu yn benaf yn gofalu am danynt wedi eu ffurfio yn eglwys, hyd ddiwedd y flwyddyn 1846, pan y rhoddasant alwad i Mr. Thomas Jones, yr hwn a urddasid yn Merthyrcynog, ond a fuasai am dymor yn weinidog yn Adulam, Tredegar. Llafuriodd Thomas Jones yma yn ddiwyd hyd 1849. Y flwyddyn ganlynol



Digitized by Google

rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Lloyd, myfyriwr o athrofa Aberhonddu; ond ni bu ei dymor ond byr, gwaelodd ei iechyd fel y bu raid iddo er galar i'r eglwys roddi ei waith i fyny yn mhen ychydig gyda blwyddyn, a bu farw yn nechreu Ionawr, 1852. Yn y flwyddyn hono rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Henry Lewis, aelod o Gapel Isaac, sir Gaerfyrddin, ond a fuasai dros ychydig mewn ysgol yn Nghaerfyrddin; ac urddwyd ef Mehefin 6ed a'r 7fed, 1852. Codwyd capel newydd hefyd y flwyddyn hono, yn mesur 36 troedfedd wrth 26 troedfedd; a chostiodd 329p. 16s. 5c. Yr oedd Mr. Lewis yn boblogaidd fel pregethwr, ond yn dra diffygiol mewn callineb. Ymadawodd oddiyma yn Ebrill, 1854, a bu yn gweinidogaethu ar ol hyny mewn amryw fanau, ac y mae yn awr fel y deallwn gyda'r Bedyddwyr. Yn nechreu y flwyddyn 1856, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Jonah Morgan, Saron, Llangeler, a dechreuodd ei weinidogaeth yma y Sabboth cyntaf yn Mawrth, y flwyddyn hono; ac y mae yn parhau yma yn barchus a defnyddiol etto. Nid oedd nifer yr aelodau pan y dechreuodd Mr. Morgan ei weinidogaeth yma ond 70, a'r Ysgol Sabbothol o gylch yr un nifer; ond y mae yma yn awr agos i 300 o aelodau, a mwy na 250 yn yr Ysgol Sabbothol. Aeth yr ail gapel, yn fuan wedi sefydliad Mr. Morgan yma, yn rhy gyfyng, fel y penderfynwyd codi capel helaethach ar safle newydd yr ochr uchaf i'r heol. Gwerthwyd yr hen gapel i'r Trefnyddion Cyntefig, a chafwyd prydles o fil o flynyddoedd ond un ar dir y capel newydd. Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1858, ac y mae yn mesur 54 troedfedd wrth 40 troedfedd y tu fewn i'r muriau. Costiodd fil o bunau, ond llai na 200p. sydd yn aros. Pregethwyd ynddo y waith gyntaf gan Mr. Morgan ei hun, ar y Sabboth, Mai 8fed, 1858, oddi wrth y geiriau, "Bydd mwy gogoniant y tŷ diweddaf hwn na'r cyntaf." Cynhaliwyd cyfarfod ei agoriad y Llun a'r Mawrth canlynol, yr hwn hefyd oedd yn gyfarfod urddiad Mr. Thomas Thomas, myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, i fyned yn genhadwr i Affrica. Gweinyddwyd yn y gwahanol gyfarfodydd gan Meistri T. Rees, Cendl; R. Price, Cenhadwr i Affrica; B. Owen, Merthyr; D. Stephens, Glantaf; J. Evans, Craigyfargod; W. Roberts, athraw clasurol Aberhonddu; N. Stephens, Sirhowy; J. Davies, Aberaman; W. Griffiths, Llanharan; W. Jenkins, Brynmawr; J. Davies, Taihirion; J. Evans, Maendy, ac H. Oliver, B.A., Pontypridd.

Yn mysg llawer eraill fu yma yn ffyddlawn gyda'r achos, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf, heblaw John Richards a'i wraig, a enwyd eisoes, crybwyllir enwau Francis Phillips, John Rees, John James, Evan Williams, John Selby, John Morris, Jonah Davies, John Jenkins, John Evans, David Griffiths, William Davies, David Jones, a'i fab Evan Jones, yn awr gweinidog Llwyncelyn, sir Aberteifi. Bu Mr. Rowland Rowlands, Llansamlet, hefyd yma pan yn ieuangc, a phregethodd lawer yn nghyfarfodydd y gwyr ieuaingc yn y lle. Mae yr eglwys hon, fel y rhan fwyaf o eglwysydd y gweithfeydd, wedi dyoddef llawer oddiwrth fynych symudiadau i eglwysi eraill, ac i America; ond y mae trwy y blynyddoedd wedi ei bendithio a heddwch mawr, ac nid yw wedi bod yn segur na diffrwyth yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Aelodau o'r eglwys hon oedd a'r llaw flaenaf yn nechreuad yr achos yn Mountain Ash, lle erbyn hyn y mae eglwys flodeuog.

Nid ydym yn cael i fwy nag un pregethwr godi yn uniongyrchol o'r eglwys hon, sef T. C. Edwards, yr hwn a fu yn athrofa Caerfyrddin, ac a aeth oddiyno i Mineral Ridge, America.

Digitized by Google

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Thomas Jones. Ganwyd ef yn sir Frycheiniog yn y flwyddyn 1794. Dygwyd ef i fyny gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a bu am lawer o flynyddau yn pregethu gyda hwy. Adnabyddid ef fel Thomas Jones, Glanygors. Cyfarfu a rhyw ddyryswch yn ei amgylchiadau bydol, yr hyn a barodd anghydwelediad rhyngddo a'i hen frodyr, ac ymunodd a'r Annibynwyr, a derbyniodd alwad o Merthyrcynog, ac urddwyd ef yno Chwefror 24ain a'r 25ain, 1841. Wedi bod yno tua dwy flynedd symudodd i Dredegar i gymeryd gofal yr eglwys sydd yn awr yn Adulam, a bu yno hyd y flwyddyn 1845, pan y derbyniwyd yr eglwys i undeb y sir, ac yna darfu ei berthynas a'r eglwys. Cyn hir derbyniodd alwad o Brynseion, Cwmbach, a bu yno yn dderbyniol nes y bu farw Gorphenaf 20fed, 1849, yn 55 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Siloa. Yr oedd Thomas Jones yn bregethwr rhwydd ac ymadroddus, a thraddodai yn wresog a difrifol; ond nid oedd ei feddwl wedi ei ddiwyllio yn foreu, ac oblegid hyny teimlai mai baich trwm oedd pregethu i'r un bobl bob Sabboth.

John Lloyd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1819. Derbyniwyd ef yn aelod yn Cefn-coed-y-cymer, lle yr oedd ei rieni yn aelodau, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu am ysbaid yn aelod yn Bethania, Dowlais, ac ennillodd barch yr eglwys tra y bu yno. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Aberhonddu, ac yr oedd iddo air da yno gan ei athrawon a'i gydefrydwyr. Nid oedd ei dalentau yn ddysglaer, na'i gyrhaeddiadau yn uchel, ond yr oedd ei dduwioldeb yn ddiamheuol. Derbyniodd alwad o Brynseion, Cwmbach, ac urddwyd ef yno yn 1850; ond gwaelodd ei iechyd yn fuan, a dychwelodd i dy ei rieni, lle y bu farw Ionawr 5ed, 1852, yn 33 oed. Claddwyd ef yn mynwent Tabor, Cefn-coed-y-cymer, ac y mae maen ar ei fedd er coffadwriaeth am dano, ac y mae ei enw yn barchus gan bawb sydd yn ei gofio.

## MOUNTAIN ASH.

Mae y lle hwn yn ngwaelod plwyf Aberdar, nid oedd yma flynyddau yn ol ond ychydig dai, ond erbyn hyn y mae yn lle mawr a phoblogaidd, a gweithfeydd yn ymagor ar bob llaw. Gwnaed cynyg ar sefydlu achos yma, a chorpholwyd nifer o bersonau a ymadawsant a'r Bedyddwyr yn eglwys yn y lle tua'r flwyddyn 1844; ond ymddengys mai o ddynion yr oedd y cwbl, a diflanodd yr achos yn fuan. Yn y flwyddyn 1850, pan y dechreuwyd agor gwaith glo ac adeiladu tai yma, yr oedd yn mysg y dyfodiaid rai dynion crefyddol, y rhai a deimlent yn awyddus am gael moddion gras yn y lle. Dechreuasant gynal Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddi o dŷ i dŷ, ac yn y flwyddyn 1851, cymerasant weithdy cryddion a ddigwyddodd fod yn wag, ac erbyn hyn yr oeddynt yn cael ambell i bregethwr yn achlysurol o Aberdar, Cwmbach, a Throedyrhiw. Yr oedd Mr. John Jones, Rhydybont—ond a adnabyddir yn well fel "Jones, Llangollen"—erbyn hyn wedi symud i Ferthyr i fyw, a gwahoddwyd ef gan yr ychydig enwau oedd yma i bregethu iddynt; a chyda'i addewidion teg yr adeiladai gapel iddynt, llwyddodd i gael ganddynt roddi galwad iddo yn weinidog—ond deallasent yn fuan nad oedd pob peth yn amgylchiadau Mr. Jones yn foddhaol, a pharodd hyny rwyg blin yn yr eglwys fechan. Aeth tua deuddeg a honynt

i Cwmbach, a llai na hyny oedd ar ol gyda Mr. Jones, heblaw ei deulu ei hun, ond parhai i bregethu i'r ychydig a ddeuai i'r gweithdy ato, a dechreuodd adeiladu capel newydd. Arferai Mr. Henry Lewis, Cwmbach, ddyfod i lawr i bregethu i'r rhai oedd yn aelodau gydag ef, y rhai a gyfarfyddent i addoli yn nhy gwraig weddw o'r enw Mari Richard. Parhaodd pethau fel hyn dros dymor; ond yn y flwyddyn 1853, gadawodd Mr. Jones y wlad yn ddirgelaidd am America, gan adael y capel ar ei haner, a'r hyn a wnaed arno heb dalu am dano. Bu y capel am naw mis yn sefyll fel yr ydoedd, a pherchen y tir yn dal ei hawl ynddo nes y digolledid ef am y defnyddiau a roddasai ato. Llwyddodd Meistri W. Edwards a D. Price, Aberdar, i gael gan y ddwy gangen i fyned at eu gilydd, ac ymgymeryd a chwblhau y capel a myned i mewn iddo; a Mr. Edwards, Aberdar, yn benaf fu yn bwrw golwg dros yr achos yn yr adeg helbulus yma. Agorwyd y capel, yr hwn a alwyd yn Bethania, Ionawr 30ain a'r 31ain, 1855, ac yr oedd holl draul ei adeiladiad yn 320p., a chasglwyd 60p. o'r swm hwnw ar ddydd yr agoriad. Yn mysg y rhai oedd fwyaf gweithgar gyda'r achos yn ei gychwyniad, yr oedd Daniel Rowlands, o Glynnedd; Morgan Morgan, o Libanus; John Thomas, o Benybont-ar-ogwy; David Davies, o'r Cymer, a David Williams, o Lanfabon. Ar ol hyny, tuag amser adeiladu ac agor y capel, daeth y personau canlynol yn mysg eraill yma, y rhai oedd flaenllaw gyda phob peth:—Ebenezer Jones, o'r Cwmbach; John Griffith a William Morgan, o Fynyddislwyn; Thomas Fisher, David Rees, a Leonard Thomas, o Maesteg; Rees Thomas, o Aberdar, a Thomas Williams, o Lanybri; ac yr oedd gwragedd gan rai o honynt, y rhai a gymerasant lawer o boen er mwyn yr achos. Daeth John Griffith yma hefyd, yr hwn sydd wedi bod bellach am dymor hir o wasanaeth mawr i'r achos yn y lle, fel aelod defnyddiol, ac fel pregethwr cymeradwy.

Cyn hir wedi agor y capel, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Llewelyn, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Awst 2il, 1855. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Davies, Aberaman; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. Price, Aberdar; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Thomas, Salem, Aberdar; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. D. Williams, Caerdydd, ac i'r eglwys gan Mr. W. Edwards, Aberdar.* Nid oedd yma ond 50 o aelodau pan urddwyd Mr. Llewelyn, ond y mae yr eglwys yn awr yn rhifo 360, a'r Ysgol Sabbothol o'r un nifer agos. Aeth y capel cyntaf yn rhy fychan, fel y bu raid adeiladu un arall yn mesur 50 troedfedd wrth 40 troedfedd; ac yr oedd y draul yn 950p., ac aed drachefn i 200p. o draul i adeiladu ysgoldy; ond y mae yr holl ddyled erbyn hyn wedi ei thynu o dan 250p.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Herbert, ac y mae yn awr yn bregethwr cynorthwyol yn Zoar, Castellnedd.

Bendithiwyd yr eglwys yma ag adfywiadau grymus. Derbyniwyd yma 105 yr un nos Sabboth yn 1866, a thua 100 arall mewn ychydig fisoedd. Yn 1869 drachefn derbyniwyd o 80 i 100, ac y mae llawer o honynt yn aros etto. Mae y rhai sydd yn cofio y lle ugain mlynedd yn ol yn synu fod gwaith mor fawr wedi ei wneyd mewn tymor cymharol fyr. "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."

* *Diwygiwr*, 1855. Tu dal. 313.

Digitized by Google

## HOREB, LLWYDGOED.

Cangen o eglwys Ebenezer, Aberdar, yw yr eglwys hon. Yr oedd cyfarfodydd gweddio yn cael eu cynal o dy i dy yn ardal Llwydgoed gan aelodau Ebenezer a gyfaneddent yn yr ardal er's mwy na haner can' mlynedd. Yn mysg yr aelodau ffyddlawn a breswylient yma flynyddau yn ol yr oedd Thomas Thomas, neu "Thomas Philip o'r Forch," fel yr adnabyddid ef yn gyffredin, a Margaret ei wraig, yn nodedig o ddefnyddiol ac adnabyddus. Yn ei flynyddau diweddaf yr oedd Thomas wedi myned yn dra byddar, fel yr oedd yn gorfod cadw corn wrth ei glust er ei gynorthwyo i glywed. Yr oedd ef a'i wraig yn fywyd i bob cyfarfod. Byddai eu dagrau, eu hamenau, a'u diolchiadau, yn gosod tân yn nheimladau y rhai mwyaf marwaidd; a'r hyn a osodai werth ac effaith yn eu hwyliau oedd purdeb difrycheulyd eu cymeriadau. Bu Thomas Thomas farw ychydig flynyddau yn ol. Y boreu y daeth y newydd am ei farwolaeth allan, aeth un a'r newydd i foneddwr cyfoethog iawn, fod y dyn cyfoethocaf yn mhlwyf Aberdar wedi marw y boreu hwnw. Synodd y boneddwr, a gofynodd am ddau neu dri o'r rhai a farnai ef y mwyaf cyfoethog yn y plwyf, a oeddynt wedi marw, a phan ddywedid wrtho nad un o honynt hwy ydoedd, "Wel," atebai, "nis gwn i am neb mor gyfoethog a hwy yn y plwyf hwn." "Ydyw," meddai ei hysbysydd, "mae y gwr a fu farw y boreu hwn lawer yn gyfoethocach nag un o honynt; Thomas Philip o'r Forch ydyw, ac y mae pawb yn barnu ei fod ef yn etifedd teyrnas nefoedd."

Yr oedd ysgoldy wedi cael ei adeiladu yma er's mwy nag ugain mlynedd yn ol gan eglwys Ebenezer, yn yr hwn y cynhelid Ysgol Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, a phregethu achlysurol. Ar anogaeth Mr. Edwards, a diaconiaid Ebenezer, ymgymerodd cangen Llwydgoed a'r anturiaeth o adeiladu capel yn y flwyddyn 1859. Rhoddodd gweinidog ac eglwys Ebenezer bob cefnogaeth a chymorth iddynt. Rhoddwyd llythyrau gollyngdod i haner cant neu driugain o aelodau o Ebenezer, a ffurfiwyd hwy yn eglwys Annibynol. Ar ffurfiad yr eglwys, dewiswyd Thomas Harris, Ezer Jenkins, a Richard Morris, yn ddiaconiaid. Mae y blaenaf wedi gorphen ei yrfa er's rhai blynyddau, ond y mae y ddau olaf yn aros yn ffyddlon hyd y dydd hwn. Costiodd y capel dros wyth gant o bunau. Mewn trefn i gyffroi yr eglwys ieuangc i haelfrydedd, addawodd Mr. Thomas Williams, yn awr o'r Goetre, Merthyr, yr hwn oedd y pryd hwnw yn ddiacon yn Ebenezer, ugain punt at y capel ar ddydd ei agoriad, ar yr amod i'r gynnulleidfa gasglu pedwar ugain atynt, yr hyn a wnaed. Yn yr un flwyddyn ag yr agorwyd y capel, sef 1859, rhoddwyd galwad i Mr. Abraham Mathews, o athrofa y Bala, i ddyfod yma yn weinidog, mewn cysylltiad a'r gangen yn Nghwmdar. Yn Ebenezer y cynaliwyd cyfarfod ei urddiad, fel lle canolog rhwng Llwydgoed a Chwmdar. Bu Mr. Mathews yn llafurio yma, mewn cysylltiad a lleoedd eraill, gyda mesur helaeth o lwyddiant a pharch hyd wanwyn y flwyddyn 1865, pryd y gwnaeth ei feddwl i fyny i ymfudo i Patagonia, lle y mae hyd yn bresenol. Wedi ymadawiad Mr. Mathews, rhoddodd yr eglwys yn Llwydgoed ei hun dan ofal Mr. Thomas, Abercanaid. Bu ef yma yn dra gweithgar a llwyddianus nes iddo dderbyn galwad o'r Gwernllwyn, Dowlais; yna rhoddodd Abercanaid a Llwydgoed i fyny. Yn Mehefin, 1871, rhoddodd yr eglwys yn Llwydgoed alwad i Mr. W. S. Davies, o athrofa y Bala, ac urddwyd ef

Digitized by Google

yma Awst 7fed a'r 8fed, yn yr un flwyddyn. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Thomas, Gwernllwyn, Dowlais; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. W. Edwards, Aberdar; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Thomas, Aberdar; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. J. Peter, un o athrawon athrofa y Bala, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. E. Evans, Skiwen. Mae pob peth yn myned yn mlaen yn gysurus a gobeithiol yma hyd yn bresenol, ac yr ydym yn credu fod dyfodol llwyddianus iawn o flaen Mr. Davies a'r eglwys.

Yma y dechreuodd Mr. W. Thomas, yn awr o Gwynfe, ei yrfa fel pregethwr, ond gan fod cangen Llwydgoed heb ymneillduo o Ebenezer y pryd hwnw, rhoddasom enw Mr. Thomas yn mysg y rhai a gyfodwyd i bregethu yn Ebenezer. Yma hefyd y cyfodwyd Mr. W. Nicholson, Treflys, Bethesda, Arfon, yr hwn sydd yn awr ar symud i'r Groeswen, Morganwg.

## BETHEL, ABERDAR.

Diwygwyr Wesleyaidd oedd yr eglwys hon ar y cyntaf. Yr oedd y aelodau tua deugain o rifedi pan yr ymadawsant a chorph y Wesleyaid. Yn hen gapel y Trefnyddion Calfinaidd ar Heol y Felin yr oeddynt y addoli y pryd hwnw. Yn y flwyddyn 1859, rhoddodd yr eglwys alwad Mr. Hugh Hughes (Tegai,) i ddyfod yn weinidog iddynt, ac addawodd gydsynio ar yr amod iddynt yn ddioed adeiladu capel helaeth mewn man mwy cyfleus na'r man yr oeddynt yn addoli ynddo; ac felly y bu. Adeiladwyd Bethel yn y flwyddyn 1860, ac agorwyd ef yr un flwyddyn. Yr oedd yr eglwys tua haner cant o rif pan y symudasant o'r hen gapel i'r un newydd, ac y mae rhif yr aelodau yn bresenol yn agos i 300. Y gweinidogion a weinyddasant yn nghyfarfodydd agoriad y capel oeddynt Meistri W. C. Williams, Groeswen; J. Mathews, Castellnedd; Edward Mathews, gweinidog y Trefnyddion Calfinaidd, a Griffith Roberts, Cefn.

Bu Tegai yn gweinidogaethu yma o'r flwyddyn 1859 hyd ei farwolaeth yn Rhagfyr, 1864. Yn y flwyddyn 1865, rhoddwyd galwad i Mr. Robert Evans, Llanfaircaereinion, y gweinidog presenol. Dechreuodd ei weinidogaeth yma Tachwedd 5ed, 1865, a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad y Chwefror, 1866, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri W. Parry, Colwyn; R. Hughes, Cendl; D. Jones, B.A., Merthyr; D. M. Davies, Llanfyllin, a W. Edwards, D. Price, a J. Thomas, Aberdar.

Mae yr achos hwn wedi myned rhagddo yn llewyrchus iawn er dechreuad tymor gweinidogaeth Mr. Evans hyd yn bresenol; yr eglwys a'r gwrandawyr wedi lluosogi yn fawr, a dyled y capel yn cael ei lehiau o flwyddyn i flwyddyn. Yn mysg y brodyr mwyaf blaenllaw gyda'r achos yn y lle hwn, er pan y derbyniwyd yr eglwys i gyfundeb yr Annibynwyr yn y flwyddyn 1858, gellir enwi Lewis Jones, pregethwr cynorthwyol parchus; W. James, James Evans, D. Jones, Samuel Lewis, Joshua Thomas ac eraill.

Cafodd y rhai canlynol eu cyfodi yma i bregethu:—

William Harrison, yr hwn a addysgwyd yn athrofa y Bala, ac sydd yn awr yn weinidog yr eglwys Gymreig yn Spring Green, Wisconsin, America.

R. L. Thomas, yr hwn sydd yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Yma hefyd yr oedd Meistri Evan Evans, Penderyn, a Luke Lake, Llangenech, yn aelodau hyd amser eu hurddiad, ond nid ydym yn meddwl mai yma y dechreuasant hwy bregethu.

Digitized by Google

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Hugh Hughes (Tegai). Ganwyd ef yn y flwyddyn 1805, yn mhentref bychan Cilgeraint, yn mhlwyf Llandegai, sir Gaernarfon. Symudodd ei rieni yn fuan i Dre'rgarth, ac yno y dygwyd ef i fyny. Yr oedd ei dad a'i fam yn aelodau yn Nghaerorion, ac yno yr arferai Hugh Hughes gyrchu i'r Ysgol Sabbothol pan yn fachgen; ond oblegid i'r Annibynwyr golli yr hen gapel oedd ganddynt, aeth er mwyn cyfleusdra i gapel y Wesleyaid, yr hwn oedd gerllaw, ac yn eu plith hwy y cychwynodd ei yrfa grefyddol, ac y dechreuodd bregethu. Er na chafodd ddim ysgol ddyddiol, etto trwy ymroddiad a hunanddiwylliant daeth yn mlaen mewn gwybodaeth, a dangosodd pan yn ieuangc ogwyddiad cryf at lenyddiaeth a barddoniaeth, a chafodd Gutyn Peris yn athraw caredig i ddysgu iddo ramadeg yr iaith Gymraeg a rheolau barddoniaeth. Yr oedd gwedd lenorol ar ei bregethau, yn enwedig yn ei flynyddau cyntaf; ac ymdrinai lawer a phyngciau dadleugar, a hyny mewn dull dadleugar, fel nad oedd y pryd hwnw ond ychydig o ireiddiwch yn ei bregethau. Gyda'r Wesleyaid Cymanfaol y bu y rhan fwyaf o'r tymor y bu gyda'r Wesleyaid, a phan o gylch y flwyddyn 1840, yr unodd y cynnulleidfaoedd hyny yn sir Gaernarfon ar hen gyfundeb, dewisodd Huw Tegai ymuno a'r Annibynwyr, a chyda hwy y treuliodd weddill ei oes. Wedi bod yn pregethu yn gynorthwyol dros ysbaid, urddwyd ef yn weinidog yn Rhoslan, Tabor, a Llanystumdwy; ac wedi bod yno am rai blynyddoedd symudodd i Great Jackson Street, Manchester, at yr eglwys sydd yn awr yn Booth Street. Dychwelodd oddi yno i'w fferm ei hun yn Llanrug, sir Gaernarfon; a chyn hir cymerodd ofal eglwysi Capel Helyg, Chwilog, ac Abererch, heb fod yn nepell o'r lle yr urddasid ef. Ar ol llafurio yno am rai blynyddoedd, prynodd swyddfa argraffu yn Mhwllheli, a symudodd yno i fyw, a chychwynodd newyddiadur wythnosol yno, gyda chyhoeddi llyfrau. Pa faint bynag o les a wnaeth i eraill trwy hyny, ar ei golled y bu ef yn arianol trwy yr anturiaeth, a cholledus a fu fynychaf yn yr holl anturiaethau bydol a wnaeth. Cafodd ar adegau gryn dipyn o dda y byd hwn, ond gan fod ei deulu yn lluosog, ac yntau o duedd anturiaethus i ddwyn llyfrau allan, ac heb fod yn un o'r rhai mwyaf medrus i wneyd iddynt dalu, aeth trwy y cwbl o'i eiddo. Yn y flwyddyn 1859, derbyniodd alwad gan eglwys Bethel, Aberdar, ac yno y llafuriodd hyd ddiwedd ei oes. Cafodd yr achos yn wan, ond gwelodd ef cyn ei farw yn gryf a blodeuog, ac ymddengys mai yn ei berthynas a'r achos yn Bethel yr ymroddodd lwyraf i'r weinidogaeth. Yn Hydref, 1863, pan yn myned i Gwmaman i gyfarfod te, cafodd ergyd o'r parlys, yr hyn a effeithiodd ar ei lais, ac ar un ochr iddo. Gwellhaodd yn raddol, er nad i'w nerth blaenorol; ac ar nos Sabboth Rhagfyr 4ydd, 1864, pan oedd yn pregethu oddiar y geiriau "Gwyn eu byd y meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd," a phan yn ngwres ei bregeth ymataliodd yn ddioed, a dywedodd, "*Cofiwch fy nhestyn, nis gallaf fyned yn mlaen yn mhellach,*" a cymollyngodd i freichiau un o'i ddiaconiaid, ac ni ddywedodd air mwyach. Bu farw y dydd Iau canlynol, a dydd Llun Rhagfyr 11eg, claddwyd ef yn nghladdfa gyhoeddus Aberdar, pryd y pregethodd ei hen gyfaill Mr. W. Caledfryn Williams, Groeswen, ac yr oedd yr orymdaith fawr a ddilynodd ei weddillion marwol i "dŷ ei hir gartref" yn brawf o'r parch cyffredinol oedd iddo. Ennillodd Tegai iddo ei hun radd dda fel bardd a llenor. Dichon

na chyfrifid ef yn nosbarth prif-feirdd Cymru, ond fel ysgrifenydd Cymreig yr oedd yn un o'r rhai goreu yn ei oes. Yr oedd ei ieithwedd yn Gymreigaidd hollol, ac yr oedd rhyw elfen o natur dda yn rhedeg trwy y cwbl, y fath ag a wnai bob peth a ddeuai odditan ei law yn hawdd ei ddarllen. Nis gallwn yma grybwyll yr holl lyfrau a'r traethodau a ysgrifenodd, llawer llai y gallwn gyfeirio at ei ohebiaethau i gyfnodolion y genedl, a'i feirniadaethau mewn cyfarfodydd cystadleuol ac eisteddfodau, ond y mae eu nifer yn lleng mewn rhyddiaith a barddoniaeth, ac ar destynau ieithyddol, bywgraphyddol, a duwinyddol. O ran ei olygiadau duwinyddol yr oedd yn Arminaidd, ond nid i'r eithafion o wadu graslonrwydd yr iachawdwriaeth. Cyhoeddodd *Adolygiad ar draethawd Eliseus Cole ar Benarglwyddiaeth Duw*, o gylch yr amser yr ymadawodd a'r Wesleyaid, ac wrth y golygiadau hyny y glynodd trwy ei oes. Ond er iddo lynu wrth egwyddorion athrawiaethol y Wesleyaid, ciliodd i'r eithafion oddi wrthynt yn ei olygiadau ar ffurflywodraeth eglwysig. Yr oedd yn gynnulleidfawr trwyadl ac yn cario yr egwyddor allan i'w therfyn eithaf, mor bell yn wir, fel y tybiai rhai, nes bod yn beryglus i drefn a llywodraeth. Mae hyn yn ddigon naturiol, ac yn digwydd bron bob amser gyda dynion sydd wedi eu gwaredu oddi wrth yr hyn a dybient hwy yn rhwymau a charcharau.

Yn ei weinidogaeth yr oedd mwy o'r athraw nac o'r areithiwr ynddo. Cyfranu addysg oedd ei bwngc, ac â dealldwriaethau ei wrandawyr yr ymwnai yn benaf, ond dywedir fod yn ei bregethau yn ei flynyddau diweddaf lawer o ystwythder ac ireiddiwch. Yr oedd yn anwyl a pharchus gan bobl ei ofal, ac yr oedd iddo yn mysg ei gydgenedl lu mawr o edmygwyr, ac yr oeddynt yn parotoi i wneyd Tysteb iddo, ond cyn i'r amcan gael ei gwblhau galwyd ef i fyd nad yw anrhegion a thystebau y byd yma yn pasio yno, ond lle y derbynia pob un "ei briod wobr ei hun yn ol ei lafur ei hun."

## BETHLEHEM, ABERCWMBOY.

Trwy lafur Mr. John Davies, Caerdydd, pan yn weinidog yn Aberaman, y dechreuwyd yr achos yn y lle hwn. Wedi agoryd gwaith glo yma, ac i lawer o drigolion ddyfod i gyfaneddu i'r lle, teimlai y cyfryw o honynt oedd yn aelodau yn Saron, Aberaman, ei bod yn dra anghyfleus iddynt i gerdded yno dair gwaith bob Sabboth, ac felly, darfu i Mr. Davies a hwythau, ardrethu tŷ anedd gan un Thomas Lewis, at gynal Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol, yn y flwyddyn 1858. Yn y cyfarfod chwarterol a gynaliwyd yn Zoar, Merthyr, yn Medi, y flwyddyn hono, penderfynwyd rhoddi pob cefnogaeth i Mr. Davies a'i bobl i ddechreu achos yma. Corpholwyd yma eglwys Hydref 10fed, 1858, ac yn fuan wedi hyny rhoddwyd galwad i Mr. William Williams, Bethesda, Brynmawr, i ymsefydlu yn weinidog arni. Nifer yr aelodau y pryd hwnw oedd tri-ar-hugain. Cynyddodd y gynnulleidfa yn fuan, fel y bu raid edrych am dir i adeiladu capel. Gosodwyd careg sylfaen y capel newydd Mai 23ain, 1859, gan David Davies, Ysw., Maesyffynon. Anerchwyd y gwrandawyr ar yr achlysur gan Meistri J. Rees, Cwmaman; T. Llewelyn, Mountain Ash; W. Edwards, D. Price, ac S. Davies, Aberdar. Y diaconiaid cyntaf yma oeddynt John Everett, David Morgan Davies, a Thomas Davies. Bu

Digitized by Google

Mr. Williams yn llafurus ac yn dra llwyddianus yma am fwy na deng mlynedd. Yn Hydref, 1870, rhoddodd ofal yr eglwys i fyny. Yn mhen mis wedi hyny rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. David Rhys Davies, Waunfawr, sir Gaernarfon, ac efe yw y gweinidog yma yn bresenol. Mae yma gapel tlws ac achos gobeithiol, ond darfu i'r sefyll allan yn y gweithiau glo yn y flwyddyn ddiweddaf effeithio agos yn ddinystriol ar yr achos hwn, fel pob achos crefyddol arall yn y gymydogaeth am rai misoedd.

Yr unig bregethwr, hyd y gwyddom ni, a gyfodwyd yma yw Mr. W. Morris, yr hwn a addysgwyd yn athrofa Aberhonddu, ac sydd yn awr yn weinidog yn Brynmenyn.

## CYMAR, LLANTRISANT.

Mae yn lled sicr fod rhai Ymneillduwyr yn Nghwmrhondda er dyddiau yr Anghydffurfwyr, os nad cyn hyny, ond nid oes genym unrhyw gofnodiad am eu henwau na'u rhifedi. Cafodd yr achos yn y Cymar ei ddechreu trwy lafur Mr. Henry Davies, gweinidog yr eglwys Ymneillduol yn Mlaengwrach, Glynnedd. Nis gwyddom pa flwyddyn yn gywir y ffurfiwyd eglwys yma. Yr oedd Mr. Davies yn gweinidogaethu yn Mlaengwrach er y flwyddyn 1718, ac yr oedd ganddo eglwys fechan dan ei ofal yn mhlwyf Llanharan yn y flwyddyn 1734. Mae yn sicr y byddai ef yn pregethu yn fynych mewn anedd-dai yn mhlwyfydd Ystradhafodog, Llanwnno, a Llantrisant, oddiar ei sefydliad yn Mlaengwrach. Yr ydym yn cael ein tueddu i farnu mai tua y flwyddyn 1738 y ffurfiwyd yma eglwys. Mewn llythyr at Mr. Howell Harries, dyddiedig Medi 21ain, 1738, dywed Mr. Davies fod o ddeugain i haner cant o bersonau yn mhlwyf yr Ystrad yn ymgynnull i ddarllen, gweddio, a chanu Salmau, a bod niferi hefyd yn gwneyd yr un modd yn mhlwyf Llantrisant; ac mewn llythyr arall at Mr. Harries, dyddiedig Mawrth 27ain, 1741, dywed fod y gwaith da yn myned rhagddo yn rhagorol yn Nglynogwy. Mae yn ddiameu mai y bobl y cyfeiria y llythyrau hyn atynt oedd y rhai a gorpholwyd yn eglwys yn y Cymar. Adeiladwyd capel y Cymar ar derfyn gogleddol plwyf Llantrisant, ac mewn lle cyfleus i breswylwyr plwyfydd yr Ystrad a Llanwnno i ddyfod iddo, tua y flwyddyn 1740. Wedi cael y capel hwn yn barod, a chynnulleidfa luosog i gyrchu iddo, rhoddodd Mr. Davies ofal yr eglwys yn Mlaengwrach i fyny, a chyfyngodd ei lafur i'r Cymar. Wedi bod yma yn llafurio am ddeuddeg neu bedair-blynedd-ar-ddeg, tua y flwyddyn 1752, cafodd Mr. William Morgan, un o aelodau yr eglwys, ei urddo yn gynorthwywr iddo. Parhaodd Mr. Davies yma yn llafurus a llwyddianus hyd derfyn ei oes, yn Gorphenaf 1766. Wedi ei farwolaeth ef, Mr. Morgan fu yr unig weinidog yma hyd ei farwolaeth yn 1787. Dilynwyd Mr. Morgan gan Mr. Morgan Jones, gwr genedigol o Lanwrtyd, a bu yma yn barchus a dylanwadol iawn hyd derfyn ei oes yn y flwyddyn 1817. Yn fuan wedi marwolaeth Mr. Jones, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Davies, Bethania, Llanon, sir Gaerfyrddin. Bu yntau yma hyd ei farwolaeth yn Ionawr, 1825. Ar y 29ain o Fedi, yn yr un flwyddyn, urddwyd Mr. Joshua Evans yma, ac yma y bu yn rhyfeddol o barchus ac anarferol o lwyddianus hyd derfyn ei yrfa ddaearol yn 1855.



Digitized by Google

O ddiffyg defnyddiau nid oes genym fodd i roddi unrhyw hanes am amgylchiadau yr achos o'i ddechreuad, tua 1738, hyd farwolaeth Mr. Thomas Davies yn 1825. Y cwbl a wyddom ydyw, fod y gynnulleidfa yn lluosog a bod llawer o'r teuluoedd mwyaf cyfrifol yn mhlwyfydd Llantrisant, Llanwnno, ac Ystradhafodog yn perthyn iddi. Byddai rhai hefyd yn dyfod yma o gyrau plwyfydd Eglwysilan, Llanilltyd-y-fardre, Merthyr Tydfil, Aberdar, a Glynogwy. Yr oedd gan y bobl gynt ryw serch nodedig at y lle yn yr hwn y buasai eu henafiaid wedi arfer bod yn addoli ynddo, ac er symud o'r ardal, parhaent i gyrchu yn fisol neu fynychach i'r hen le a ystyrid mor gysegredig ganddynt.

Bu diwygiad grymus iawn yn y Cymar yn y flwyddyn 1830, a diwedd y flwyddyn flaenorol, pryd y cafodd rhai ugeiniau, os nad canoedd, eu hychwanegu at yr eglwys. Mewn canlyniad i'r ychwanegiad hwn bu raid tynu yr hen gapel i lawr, ac adeiladu un helaethach, yr hwn a agorwyd Tachwedd 5ed a'r 6ed, 1834, pryd y pregethwyd gan Meistri Griffiths, Abertawy; Rowlands, Pontypool; Davies, New Inn; Hughes, Dowlais; Griffiths, Llanharan; Stephenson, Nantyglo; Morgans, Blaenafon, ac eraill. Effaith y diwygiad grymus hwn hefyd fu sefydliad canghenau o'r fam-eglwys yn y Cymar yn Mhontypridd a'r Castellau. Yn y flwyddyn 1856, rhoddwyd galwad i Mr. Henry Puntan, myfyriwr yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Awst 4ydd a'r 5ed, yn yr un flwyddyn. Y gweinidogion a gymerasant ran yn y gwasanaeth oeddynt Meistri D. Stephens, Glantaf; H. Oliver, B.A., Pontypridd; W. Edwards, Aberdar; Joshua Thomas, Aberdar; D. Jones, Gwynfe; W. Griffiths, Llanharan; J. Davies, Taihirion, a J. B. Jones, B.A., Hermon. Parhaodd Mr. Puntan i fyned i mewn ac allan o flaen y bobl yma hyd 1870, pryd y rhoddodd ofal yr eglwys i fyny. Dichon y buasai yn fanteisiol iddo ef a'r bobl pe buasai yn gwneyd ei hun ychydig yn fwy cyhoeddus ac yn ymgyfeillachu mwy a'i frodyr yn y weinidogaeth. Pa fodd bynag, yr oedd yr eglwys pan y rhoddwyd ei gofal i fyny gan Mr. Puntan yn gref ac yn lluosog iawn. Gan fod poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn gyflym, penderfynwyd adeiladu capel helaethach yn 1870, ac y mae er's amser bellach wedi ei orphen a'i agor, ac yn un o'r addoldai prydferthaf yn y sir. Mr. Thomas, Glandwr oedd ei gynllunydd.

Mae yr eglwys yn awr wedi rhoddi galwad i Mr. David Evans, Abermaw, sir Feirionydd, a bwriada ddechreu ei weinidogaeth yma ddechreu yr haf hwn (1872).

Mae yn dra thebyg fod amryw o aelodau yr eglwys hon wedi cael eu cyfodi i bregethu yn y ganrif ddiweddaf nad ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i'w henwau. Y rhai canlynol yw yr unig rai a gyfodwyd yma cyn belled ag y gwyddom ni.

William Morgan. Gweler ei hanes ef yn mysg y gweinidogion.

Daniel Thomas, Pontypridd. Bu ef am tua haner can mlynedd yn bregethwr cynorthwyol derbyniol iawn yn ei fam-eglwys. Nid oedd yn adnabyddus fel pregethwr ond mewn pump neu chwech o'r eglwysi cymydogaethol. Yr oedd ei alwedigaeth fydol yn ei orfodi i fod yn wastadol gartref, ac felly ni ddarfu iddo deithio dim fel pregethwr trwy ei holl oes. Mae yr hen gristion da hwn wedi myned oddiwrth ei waith at ei wobr er's tuag ugain mlynedd bellach.

Joseph Williams, yr hwn fu am flynyddau yn weinidog yn Bethlehem, St. Clears. Y mae yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig yn awr.

Digitized by Google

William Williams, yr hwn a addysgwyd yn athrofa Aberhonddu, a fu am flynyddau yn weinidog yn Adulam, Tredegar, ac sydd yn awr yn Abercarn, Mynwy.

William Morgan, gweinidog yr eglwys yn Saron, Troedyrhiw, Merthyr.

William Davies. Yr hwn fu am flynyddau yn bregethwr cynorthwyol yma, ac mewn lleoedd eraill, ac a urddwyd yn ddiweddar yn Nantmoel, Glynogwy.

Benjamin Davies, yr hwn sydd yn weinidog yn Glandwr, Glyntaf.

John Rees. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef ychydig amser yn ol yn Nghwmbran, Mynwy.

Gwelwn fod chwech o weinidogion wedi bod yn yr eglwys hon o 1738 hyd 1870. Bu y pump cyntaf yma hyd eu marwolaeth, ac y maent oll yn gorphwys yn y fynwent wrth y capel. Mr. Puntan oedd y cyntaf a ymadawodd oddi yma cyn i angau ei symud.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

**Henry Davies.** Cafodd ef ei eni yn sir Gaerfyrddin, ond nid ydym yn gwybod yn mha ran o'r sir. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin, yn amser Mr. William Evans. Tua y flwyddyn 1718, cafodd ei urddo yn weinidog yr eglwys yn Mlaengwrach, Glynnedd. Bu yno yn llafurus iawn nes iddo symud i'r Cymar tua y flwyddyn 1740. Yr oedd yr eglwys yn Llanharan dan ei ofal mewn cysylltiad a Blaengwrach yn 1734, ac y mae yn dra thebyg iddi fod dan ei ofal drachefn am flynyddau wedi iddo ymsefydlu yn y Cymar. Ar ol llafurio yn y weinidogaeth gyda diwydrwydd a llwyddiant mawr am wyth-a-deugain o flynyddau, daeth bywyd y dyn da hwn i derfyniad disymwth iawn. Ar un boreu Sabboth yn Gorphenaf, 1766, wedi bod yn pregethu yn y Groeswen, wrth ddychwelyd adref syrthiodd oddiar ei anifail i'r afon Rhondda, a boddodd. Nofiodd y ceffyl i fyny, ond cludwyd ei gorph ef gan y llif i lawr yn mhell islaw Pontypridd. Yn mhen amryw ddiwrnodau y deuwyd o hyd iddo, a dywedir mai trwy i ddynes o'r gymydogaeth weled y fan lle yr oedd, mewn breuddwyd, y cafwyd ef. Yr oedd yn 70 mlwydd oed pan y bu farw. Claddwyd ef yn mynwent y Cymar, lle y mae ei gareg fedd i'w gweled etto. Mae disgynyddion Mr. Davies wedi bod yn feddygon enwog am genhedlaethau yn Nghwmrhondda, ac y maent yn parhau felly hyd y dydd hwn, ond nid ymddengys fod nemawr o honynt wedi glynu wrth olygiadau crefyddol eu henafiad enwog.

Yr oedd Henry Davies yn ysgolhaig rhagorol, ac yn ddyn nodedig o dduwiol a llafurus yn y weinidogaeth. Yr oedd ef yn un o'r gweinidogion mwyaf selog a chynorthwyol i Howell Harries ar ei ymddangosiad cyntaf fel diwygiwr crefyddol, a pharhaodd i'w gefnogi yn hir ar ol i'r rhan fwyaf o'r gweinidogion Ymneillduol, a'u cefnogent ar y cyntaf, ddechreu oeri tuag ato o herwydd ei ymlyniad rhagfarnllyd wrth yr Eglwys Wladol. Mae amryw o lythyrau serchiadol a duwiol Mr. Davies at Mr. Harries, yn y rhai y mae yn ei galonogi a'i anog i ymweled ag amryw leoedd yn Morganwg, ar gael etto. Yr oedd Mr. Davies yn bresenol yn y gymdeithasfa gyntaf fu gan y Methodistiaid yn Nghymru, yr hon a gynaliwyd yn Watford, Morganwg, yn 1742, a chydnabyddid ef fel aelod o'r gymdeithasfa. Ond pan yr aeth y gymdeithasfa i wisgo ffurf fwy

Digitized by Google

enwadol nag a broffesai ar y cychwyniad, ymadawodd ef ac agos bob Ymneillduwr arall, â hi. Mae Mr. Phillip Dafydd, Penmain, yn ei ddydd-lyfr, yn son yn fynych am Henry Davies, ond nid yw yn crybwyll dim yn gymeradwyol, ond i'r gwrthwyneb, am ei alluoedd fel pregethwr. Yr oedd Henry Davies lawer yn rhy Fethodistaidd yn ei ddull o bregethu i ennill cymeradwyaeth Phillip Dafydd. Mae yn ymddangos ei fod yn bregethwr gwresog iawn, er nad oedd dim yn nodedig o ragorol yn ei alluoedd. Dywed Edmund Jones, Pontypool, fod Henry Davies yn nodedig am ei dduwiolfrydedd a'i sirioldeb crefyddol.

WILLIAM MORGAN. Yr oedd ef yn byw yn Nhroedrhiwtrwyn, yn agos i'r Cymar, ac y mae yn dra thebyg mai efe oedd perchenog y lle hwnw. Mae yn ymddangos mai aelod gwreiddiol o'r eglwys hon ydoedd. Yr oedd yn ddyn dysgedig, ond nis gwyddom yn mha le y derbyniodd ei addysg. Cafodd ei ddewis gan eglwys y Cymar yn gydweinidog a Mr. Henry Davies oddeutu y flwyddyn 1752. Parhaodd i weinidogaethu yma hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ebrill 19eg, 1787. Claddwyd ef yn mynwent y Cymar. Mae yn ymddangos ei fod yn ddyn cyfrifol iawn yn ei amgylchiadau bydol, a chan ei fod yn ddiblant gadawodd ei eiddo i hiliogaeth ei frawd neu ei frodyr. Mae Mr. Phillip Dafydd yn son yn fynych am dano ef, ac yn ei ganmol fel pregethwr rhagorol iawn. Dichon ei fod yn fwy talentog fel pregethwr na'i ragflaenor, Mr. Davies, ond nid ymddengys ei fod mor ddoniol a defnyddiol ag ef. Nid oes genym ddim ychwaneg o'i hanes i'w roddi.

MORGAN JONES. Ganwyd ef yn yr Esgairlas, yn mhlwyf Llanfihangel, Abergwesyn, Brycheiniog, yn y flwyddyn 1758. Ymunodd yn dra ieuangc a'r eglwys Annibynol yn Llanwrtyd, a dechreuodd bregethu yn dra buan wedi hyny. Yr oedd, fel y rhan fwyaf o aelodau yr eglwys hono, yn llawn o wres crefyddol. Ni chafodd addysg athrofaol, ond cafodd gymaint o fanteision addysg yn moreu ei oes fel yr oedd yn medru darllen, ysgrifenu, a deall y Gymraeg a'r Saesoneg yn dda. Tua diwedd y flwyddyn 1787, ar gymeradwyaeth ei gyfaill Mr. Samuel Price, Penybont-ar-ogwy, rhoddodd eglwys y Cymar alwad iddo, ac urddwyd ef yno. Bu am ddeng mlynedd-ar-hugain yn weinidog parchus a defnyddiol yn y lle, ac y mae ei enw yn perarogli yn yr ardal hyd y dydd hwn. Bu farw Hydref 2il, 1817, yn 59 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent y Cymar. Mae amryw o'i hiliogaeth yn glynu yn ffyddlon gyda'r achos goreu. Dywed y rhai a'i hadwaenai fod Morgan Jones yn ddyn o alluoedd cryfion a threiddgar iawn, yn fyfyriwr diwyd, yn bregethwr hyawdl, ac yn wr boneddigaidd a moesgar dros ben. Cyfrifid ef gan rai o uchel-Galfiniaid ei oes yn afiachus yn y ffydd o herwydd ei fod yn cymeradwyo golygiadau Dr. Edward Williams ac Andrew Fuller.

THOMAS DAVIES. Yn anffodus nid oes genym ond y peth nesaf i ddim o'i hanes ef. Yr oedd yn nai i'r enwog John Davies, Alltwen; a dichon mai yn un o eglwysi ei ewythr y dechreuodd bregethu. Cafodd ei urddo yn Bethania, Llanon, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1810. Yr ydym yn casglu, gan fod Mr. Peter, Caerfyrddin, a Mr. Davies, Llanybri, yn pregethu yn ei urddiad, ei fod wedi cael ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin. Yn y flwyddyn 1819, symudodd o Bethania i'r Cymar, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ionawr 26ain, 1825, pryd yr oedd yn 42 mlwydd oed. Cyfrifid ef yn ddyn da, ac yn bregethwr derbyniol, ond nid ymddengys ei fod yn boblogaidd ei ddoniau.

Digitized by Google

JOSHUA EVANS. Ganwyd ef yn ardal Godrerhos, Morganwg, Rhagfyr 28ain, 1797. Yr oedd ei rieni, y rhai oeddynt amaethwyr parchus, yn aelodau yn Ngodrerhos. Gwrandaw Mr. P. Griffiths, Alltwen, pan oedd yn ŵr ieuangc newydd ddechreu pregethu, yn traddodi pregeth mewn angladd yn Ngodrerhos, a effeithiodd ar ei feddwl i'w dueddu i wneyd proffes gyhoeddus o grefydd. Ymunodd a'r eglwys lle yr oedd ei rieni yn aelodau; ac wrth ganfod ei sel a gwresogrwydd ei ysbryd, cafodd ei anog yn fuan gan y frawdoliaeth i arfer ei ddoniau fel pregethwr. Wedi dechreu pregethu aeth i'r ysgol i Abertawy, lle y bu am gryn amser. Yno yr oedd pan y derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn y Cymar, lle yr urddwyd ef Medi 29ain, 1825. Wedi ymsefydlu yno, ymroddodd i fod yn weinidog da i Iesu Grist, a choronwyd ei lafur a llwyddiant anghyffredin. Derbyniodd ganoedd lawer o aelodau yn ysbaid y deng-mlynedd-ar-hugain y bu yn y weinidogaeth. Ail adeiladodd gapel y Cymar, a chorpholodd eglwysi ac adeiladodd gapeli yn Mhontypridd a'r Castellau. Bu farw ar ol amryw fisoedd o gystudd ar y dydd Sabboth, Mawrth 18fed, 1855, a chladdwyd ef yn mynwent y Cymar, lle yr oedd pedwar o'i ragflaenoriaid yn y weinidogaeth yn gorphwys yn barod. Dyn cymharol eiddil o ran corph oedd Joshua Evans, ond mwynhaodd iechyd lled dda hyd at y flwyddyn olaf o'i fywyd. Yr oedd yn ddyn nodedig o siriol a chyfeillgar, ac yn llawn o synwyr cyffredin. Yr oedd ei holl gydnabod yn ei anwylo, ac y mae ei goffadwriaeth yn yr ardal y bu yn llafurio ynddi yn perarogli. Fel pregethwr yr oedd yn wastad yn felus, eglur, ac agos at ei wrandawyr. Er nad oedd ei bregethau yn cael eu nodweddu gan unrhyw fawredd meddyliol, etto yr oeddynt bob amser yn efengylaidd, ac felly yn dderbyniol gan bob math o wrandawyr, ac o duedd i wneyd daioni i eneidiau. Ni bu ef ar un adeg o'i fywyd yn ddyn cyhoeddus iawn, ac nid oedd nemawr o eglwysi yr enwad yn ei adnabod y tu allan i derfynau Morganwg a Mynwy, ond o fewn cylch ei adnabyddiaeth nid oedd un gweinidog mwy cymeradwy nag ef gan fyd ac eglwys. Dangosodd yr ardalwyr eu parch iddo trwy i fwy na dwy fil o honynt ddyfod yn nghyd i hebrwng ei gorph i'w wely pridd.

## BETHEL, TREHAFOD.

Saif y capel hwn tua dwy filldir i'r gorllewin o Pontypridd. Yr oedd llawer o aelodau y Cymar yn byw rhwng y Cymar a Phontypridd, a buont yn cyfarfod a'u gilydd i addoli mewn ysgoldy bychan ar Waunyreirw am flynyddau lawer. Yn y flwyddyn 1863, penderfynwyd ar adeiladu capel ar ddarn o dir perthynol i stad yr Hafod, yn mhlwyf Llanwnno. Cafwyd prydles o 99 mlynedd wedi ei chofrestru, a thalwyd am dani ddeg gini. Enwau yr ymddiriedolwyr ydyw Phillip Williams, William Evans, John Griffiths, Edmund Thomas, William Jones, Robert Bowen, Joseph Harries, David Lawrence, Phillip Morgan, Thomas Owen, John Jenkins, Morgan Davies, a Thomas Williams. Mesura y capel y tu fewn i'r muriau 36 troedfedd wrth 32 troedfedd, a chostiodd 565p. Mae enw yr hen frawd William Evans yn deilwng o goffad yn nglyn ag adeiladiad y capel hwn am ei weithgarwch a'i ffyddlondeb. Sicrhaodd y tir, torodd lawer o'r sylfaen ei hun, aeth yma a thraw i ymofyn defnyddiau, a chael arian ar lôg i ddwyn y gwaith yn mlaen. Gweithiodd yn ddyfal nes gorphen yr adeilad,

Digitized by Google

a'r cwbl heb dderbyn un ddimai o dâl am ei waith. Yr oedd y pryd hwnw yn 60 oed, ac y mae yr hen frawd yn dal ati yn ffyddlon hyd yma i wneyd pob peth amgylchiadol yr eglwys; taled yr Arglwydd iddo yn helaeth. Dechreuwyd pregethu yn y capel Awst 30ain, 1863, gan Mr. Henry Puntan, eu gweinidog. Cynaliwyd y cyfarfodydd agoriadol ar y 27ain a'r 28ain o Fedi yr un flwyddyn, pryd y gweinyddwyd gan Meistri R. Gwesyn Jones, Bethesda, Merthyr; D. Price, Aberdar; H. Oliver, B.A., Pontypridd; J. Thomas, Tresimwn; M. Morgans, Bethesda-y-fro; W. Williams, Abercarn, Mynwy; W. Griffiths, Llanharan, ac M. Ellis, Mynyddislwyn. Casglwyd yn y cyfarfodydd 29p. Hydref 9fed, 1863, corpholwyd yma eglwys gan Mr. H. Puntan, Cymar, a neillduwyd tri o ddiaconiaid, sef William Evans, Phillip Williams, a Jenkin Pugh. Nifer yr aelodau a ymadawodd o'r fam-eglwys oedd 29; ac er fod eglwys y Cymar yn llawenhau yn ymeangiad y deyrnas trwy ffurfio eglwys arall, etto yr oedd yno deimladau dwys wrth golli eu cwmni. Gan fod eglwys y Cymar yn gofyn holl lafur Mr. Puntan, gorfodwyd ef i roddi gofal yr eglwys ieuangc hon i fyny yn mhen ychydig fisoedd wedi ei chorpholi, o ganlyniad, penderfynwyd rhoddi galwad i Mr. John Griffiths, Glantaf, i gymeryd eu gofal, a'i gwasanaethu yn rhanol gydag Ebenezer, Glantaf, cydsyniodd yntau a'u cais, a chynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Mai 11eg a'r 12fed, 1864. Bu Mr. Griffiths yn llafurio yma mewn cysylltiad a Glantaf hyd Chwefror, 1869, pan y rhoddodd ei gofal i fyny. Yn Medi, yr un flwyddyn, penderfynwyd yn unfrydol i roddi galwad i Mr. Methuselah Jones—mab Mr. Jones, Pentyrch—ar ei ddyfodiad o ysgol barotoawl Milford Haven. Cydsyniodd a'r cais, a chynaliwyd cyfarfod ei urddiad ar y 6ed o Ragfyr, 1869. Ar yr achlysur pregethodd Mr. D. Richards, Caerphili, ar natur eglwys; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Davies, Taihirion; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Jones, Pentyrch; pregethwyd siars i'r gweinidog gan Dr. Rees, Abertawy, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Caerdydd. Mae golwg addawol iawn ar yr eglwys hon yn bresenol, a'r gweinidog a'i bobl yn cydymdrech gyda ffydd yr efengyl. Mae yr eglwys hon er nad yw ond ieuangc wedi cael colledion lawer o bryd i bryd; ac yn enwedig teimlodd yn ddwys yn marwolaeth Phillip Williams, un o ddiaconiaid cyntaf yr eglwys, ac un o'i chedrwydd cryfaf. Bu yn grefyddwr cyson am ddeugain mlynedd, a bu ei ddiwedd yn dangnefedd.

## DINAS, CWMRHONDDA.

Mae y Dinas yn nghwr uchaf plwyf Llantrisant. Yr oedd amryw o aelodau y Cymar yn cyfaneddu yn yr ardal hon, ac yn cynal cyfarfodydd gweddi a phregethu yn achlysurol am flynyddoedd cyn ffurfiad yr eglwys. Bu y duwiol Benjamin Davies, o'r Graigddu, yn ffyddlon gyda'r achos am amser hir, ac yr oedd ei ddymuniad yn fawr am weled capel wedi ei godi yn yr ardal; cafodd fyw i weled hyny, ond galwyd ef adref cyn cael yr hyfrydwch o addoli ynddo. Evan Foster hefyd a fu yn ffyddlon am flynyddau, ond dirwynodd ei yrfa i'r terfyn cyn iddo weled y capel. Yn y flwyddyn 1869, adeiladwyd yma gapel, yr hwn a alwyd yn Bethania, ar dir Graigddu, ar brydles o 999 o flynyddoedd, am swllt y flwyddyn o ardreth. Agorwyd y capel Tachwedd 14eg a'r 15fed, 1869. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Hughes, B.A., Tredegar; W. Williams,

Digitized by Google

Abercarn; J. Thomas, Tresimwn; W. I. Morris, Pontypridd; D. A. Jones, Cefn-coed-y-cymer; L. Probert, Bodringallt; T. G. Jones, Treorci, a J. W. Morris, Llanharan. Costiodd y capel 407p. 10s. 7½c. Bu y lle o'r dechreuad dan ofal Mr. H. Puntan, Cymar, hyd ddiwedd y flwyddyn 1870, pryd yr aeth i fyw i Abertawy.

Cyn diwedd y flwyddyn 1871, rhoddwyd galwad i Mr. T. George, Llaneirwg, a chynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Ionawr 24ain 25ain, 1872, ac y mae golwg siriol a llewyrchus ar yr achos ieuangc yn y lle. Cafodd yr ardal gam dirfawr na buasai achos wedi ei sefydlu yma flynyddoedd yn gynt.

## BODRINGALLT.

Dechreuwyd yr achos hwn yn y flwyddyn 1855, mewn ty coed perthynol i waith Gelligaled, yr hwn a fenthyciwyd i'r perwyl trwy garedigrwydd C. Bailey, Ysw. Cyn hyn nid oedd gan yr Annibynwyr un achos yn Nghwmyrhondda o'r Cymar i fyny. Rhyw ddau achos Ymneillduol fu yn y Cwm hwn am ugeiniau o flynyddau—eglwys y Cymar yn y rhan isaf o hono, ag eglwys y Bedyddwyr yn Ynysfach, yn y rhan uchaf, felly yr oedd godreu y Cwm yn Annibynwyr, a'r rhan uchaf yn Fedyddwyr. Ond pan agorwyd gwaith glo Gelligaled, yn y parth uchaf o'r Cwm, daeth yno rai Annibynwyr i weithio, a phenderfynasant yn fuan gychwyn achos Annibynol yn yr ardal. Y mwyaf blaenllaw yn nghychwyniad yr achos hwn oedd un John Morgan, yr hwn a ddaeth yma o'r Efailisaf. Nid oedd y dyn hwn wedi cael manteision boreuol, ond er hyny yr oedd trwy ei ymdrech a'i ddyfalbarhad wedi dyfod yn ysgolhaig da, ac yn feddianol ar wybodaeth eang. Yr oedd yn ddyn o gymeriad pur ac yn meddu penderfyniad diysgog. Ei orchwyl yma oedd pwyso glo wrth waith Gelligaled, a thrwy ei offerynoliaeth ef yn benaf y cafwyd yr adeilad i gychwyn yr achos ynddo. Un o'r gweinidogion cyntaf a bregethodd yma oedd Mr. J. Davies, Taihirion. Corpholwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1856 gan Meistri D. Stephens, Glantaf, ac H. Oliver, B.A., Pontypridd. Wedi bod am dymor yn yr adeilad coed, symudwyd i dŷ anedd o eiddo Mr. T. Lloyd, Maesteg, yr hwn oedd ar ddyfod trosodd i'r ardal hon i fyw. Wrth weled fod y gweithfeydd yn dechreu ymagor a dyeithriaid lawer yn debyg o ddyfod i'r lle, penderfynwyd adeiladu capel Bodringallt. Gosodwyd y gareg sylfaen i lawr yn y flwyddyn 1861; ond yn fuan ar ol hyn safodd y gwaith am wyth mis. Ond er fod yr ardal wedi ei gwaghau bron yn llwyr o'i thrigolion, glynodd yr eglwys fechan wrth ei hanturiaeth, ac agorwyd y capel, yr hwn a eistedda 450, yn mis Mai, 1862. Pregethwyd yn yr agoriad gan Meistri H. Oliver, B.A., Pontypridd; H. Puntan, Cymer, a D. A. Jones, Treherbert.

Bychan oedd yr eglwys am dymor ar ol yr agoriad, ond gweithiodd yn galed i dalu y ddyled, a chliriwyd y 620p a gostiodd yr adeilad mewn pum' mlynedd. Yr oeddynt yn benderfynol o fyny gorphen talu am y capel cyn y buasai gweinidog yn dyfod i gymeryd eu gofal, a thrwy ymdrech Meistri Elias James, J. Rees, ac eraill, cawsant yr hyfrydwch o allu cynal eu jubili, yn nglyn ag urddiad Mr. Lewis Probert, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, yn Gorphenaf, 1867. Cymerodd amryw weinidogion ran yn y cyfarfodydd hyn, ond dygwyd yn mlaen y gwaith neillduol

Digitized by Google

o urddo trwy i Proff. Roberts, Aberhonddu, draddodi pregeth ar natur eglwys; Mr. E. Watkins, Llangatwg, i ofyn y gofyniadau; Mr. D. Richards, Caerphili, i offrymu yr urdd-weddi; Mr. J. Davies, Caerdydd, i gynghori y gweinidog, a Mr. H. Oliver, B.A., Casnewydd, i roddi siars i'r eglwys. Bu yr eglwys hon a Siloh, Pentre, o dan ofal Mr. Probert, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. T. Lloyd, hyd y flwyddyn 1872. Ond ar farwolaeth Mr. Lloyd yn niwedd y flwyddyn 1871, teimlai nad allai wneyd cyfiawnder wrth gadw y ddau achos mewn ardal newydd, lle yr oedd y gwahanol enwadau ar ei heithaf i ennill tir, ac felly rhoddodd i fyny ofal Bodringallt, gan gymeryd at Siloh, Pentre.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS LLOYD. Er nad oedd Mr. Lloyd yn weinidog yn Bodringallt, etto gan mai yma yr oedd yn aelod ar adeg ei farwolaeth, dyma y lle mwyaf priodol i ni wneyd byr grybwylliad am dano, yn enwedig gan ein bod eisoes wedi cofnodi hanes yr eglwys fu yn uniongyrchol o dan ei ofal. Yr oedd Mr. Lloyd yn enedigol o sir Aberteifi, ond symudodd pan yn ieuangc i Nantyglo, a bu am flynyddau mewn masnachdy yno, ac yn aelod yn Rheoboth, ac yno y dechreuodd bregethu. Wedi pregethu yn gynorthwyol am rai blynyddoedd, derbyniodd alwad i Zoar, Maesteg, ac urddwyd ef yno Medi 28ain, 1843. Llai na thair blynedd y bu yr eglwys dan ei ofal, ond yn yr ysbaid byr hwnw bu yn dra defnyddiol. Nid oedd ond dyn o gyfansoddiad eiddil, ac yn agored i fynych wendid; a chan fod dyled drom ar y capel, a'r llafur yn ormod i'w nerth, rhoddodd y weinidogaeth i fyny, ac agorodd fasnachdy yn Maesteg er ei gynhaliaeth ef a'i deulu, ond parhâi i bregethu hyd y daliai ei iechyd, a bu o gynorthwy mawr i'r eglwys yn Zoar, Maesteg, ac i'r eglwysi cymydogaethol. Gydag agoriad y gweithfaoedd yn Nghwmrhondda, symudodd yno i fyw, a bu o help mawr i'r achos yn Bodringallt o'i gychwyniad, ac er nad oedd y gofal gweinidogaethol arno, etto yr oedd yn gwir ofalu am yr achos. Yr oedd yn ddyn o dymer fwyn a llednais, ac yn hynod o ofalus rhag gwneyd archoll i deimlad neb. Cafodd Mr. Probert ef yn gynorthwywr caredig yn nghylch ei weinidogaeth; ac yr oedd yn wastad yn dra chymeradwy gan yr holl eglwysi. Nid oedd ei weinidogaeth yn gynhyrfus, ond yr oedd yn synwyrol, yn dyner, ac yn ennillgar; a theimlai y dynion mwyaf synwyrol nad oeddynt byth yn gwrando arno heb gael rhyw addysg ganddo. Ni bu erioed yn llawer o deithiwr, ac oblegid hyny nid oedd yn adnabyddus ond i ychydig y tu allan i derfynau y ddau gwm lle y bu yn llafurio am y deng-mlynedd-ar-hugain olaf o'i oes; ond yr oedd yn barchus ac anwyl gan bawb oedd yn ei adnabod, ac yn cael ei garu fwyaf gan y rhai oedd yn ei adnabod oreu. Yr oedd yn ddyn pwyllog a chraffus, yn nodedig o ddeallgar yn mhob peth, a'i holl fywyd yn wastad a dibrofedigaeth. Dadfeiliodd ei iechyd yn raddol, a bu farw mewn tangnefedd Rhagfyr 23ain, 1871, yn 65 oed. Claddwyd ef yn mynwent Llangynwyd, lle yr oedd rhai o'i anwyliaid wedi eu rhoddi i orwedd o'i flaen; a dilynwyd ei elor i'r bedd gan luaws mawr o gymydogion yn Nghwmrhondda, ac o'i hen gyfeillion yn hen gylch ei weinidogaeth yn y Maesteg. Bu farw fel y bu byw, yn dawel a didwrw, a'i ddiwedd fu tangnefedd.

## SILOH, YSTRAD

Cychwynwyd yr achos yn y lle hwn yn y flwyddyn 1867, gan Mr. L. Probert, Bodringallt. Achlysur cychwyniad yr eglwys hon oedd y cynydd cyflym a gymerasai le yn mhoblogaeth yr ardal. Yr oedd gormod o ffordd rhwng Bodringallt a Threorci, i ddisgwyl i drigolion y gymydogaeth hon i fyned i'r naill na'r llall o'r lleoedd hyny; felly, gan fod amryw o'i haelodau yn byw yma, penderfynodd eglwys Bodringallt i ddechreu Ysgol Sabbothol yn y lle. Mae eglwys Bodringallt i'w chanmol yn fawr am yr ymdrech a ddangosodd i blanu achosion, fel yr oedd y boblogaeth yn cynyddu, yn Nghwmyrhondda. Hi oedd a'r llaw flaenaf yn sefydliad yr eglwysi yn Treorci a Thonypandy, a gwnaed hyny yn y lle olaf yn ngwyneb gwrthwynebiad cryf; ond cafwyd cefnogaeth y cyfarfod chwarterol i ddechreu eglwys Tonypandy, ac erbyn hyn y mae yno achos blodeuog. Ni chyfarfyddodd eglwys Bodringallt a mwy o anhawsderau wrth ddechreu eglwys Siloh nag a allesid yn naturiol eu cyfarfod wrth gychwyn achos mewn ardal lle yr oedd yr holl drigolion newydd symud, ac yn symud o wahanol barthau yno. Y prif anhawsder a deimlid oedd cael adeilad y gallesid cynal cyfarfodydd ynddo, ond symudwyd hwn ar unwaith trwy i D. Treherne, Ysw., roddi yn garedig fenthyg ysgubor yn ddidal i'r perwyl, yn nghyd a llwyddo i gael digon o lyfrau at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol yn rhad, oddiwrth Mrs. G. Llewellyn, Baglan Hall. Yn mis Gorphenaf, o'r flwyddyn a nodwyd, dechreuwyd cynal yr Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd wythnosol yn yr ysgubor, a dechreuodd Mr. Probert bregethu yma yn mis Medi, yr un flwyddyn. Pregethid yma bob nos Sabboth o'r amser hwn hyd ddechreu Awst, 1868, pan gorpholwyd yr aelodau a breswylient yn y lle yn eglwys. Ar yr achlysur o gorphori yr eglwys, pregethodd Mr. W. I. Morris, Pontypridd, a Mr. E. Gurnos Jones, Treorci, a darllenwyd yr enwau, a gweinyddwyd y cymundeb iddynt gan Mr. Probert, yr hwn a gymerodd eu gofal. Cyn gynted ag y corpholwyd yr eglwys penderfynwyd adeiladu capel ar dyddyn y Pentre, a chafwyd tir at ei adeiladu yn rhad gan y perchenog G. Llewellyn, Ysw., Baglan Hall. Agorwyd y capel, yn yr hwn yr eistedda chwe' chant, yn Gorphenaf, 1869, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Davies, Caerdydd; R. Morgan, Glynnedd; W. Rees, Maesteg; J. Davies, Taihirion, a J. Morgan, Cwmbach. Yn ystod y tair blynedd ag y mae yr eglwys wedi bod yn y capel newydd, y maent wedi cydweithio yn ardderchog, fel y mae haner y ddyled wedi ei thalu, a'r achos yn mhob ystyr wedi llwyddo tuhwnt i ddisgwyliadau y rhai mwyaf brwdfrydig o'i gychwynwyr. Cynorthwyid y gweinidog i bregethu yn y capel hwn o'r dechreu hyd y flwyddyn 1872, gan Mr. T. Lloyd, Bodringallt—yr adeg hon teimlai yr eglwys ei bod yn ddigon cryf i gynal gweinidog ei hunan, a rhoddodd Mr. Probert ofal Bodringallt i fyny, gan gyfyngu ei lafur gweinidogaethol i'r Pentre yn unig. Mae yr eglwys mewn sefyllfa mor lewyrchus yn bresenol, fel y gellir dywedyd, "fod y gwaith yn myned rhagddo ar frys, a'i fod yn llwyddo yn eu dwylaw hwynt."



Digitized by Google

## EGLWYS SEISNIG YR YSTRAD.

Dechreuwyd yr achos hwn yn y flwyddyn 1869, gan Mr. L. Probert. Teimlid fod gwir angen am achos Seisnig yn rhywle yn y cwm hwn yn hir cyn i amgylchiadau ddyfod yn ffafriol i'w gychwyn. Nid oedd gan yr Annibynwyr gapel Seisnig o Gaerdydd i fyny i Dreherbert, er fod yn yr ardaloedd hyn o ddeg i bymtheng mil ar hugain o drigolion, a miloedd o'r trigolion hyn yn gwbl analluog i ddeall a mwynhau gwasanaeth crefyddol Cymreig. Nid oedd y Saesonaeg wedi cynyddu yn y cwm hwn am fod y Cymry yn troi yn Saeson, fel y digwydda yn aml mewn hen ardaloedd ar gyffiniau Lloegr, ond am fod lluoedd o Saeson wedi mudo yma pan agorid y gweithfeydd glo gyda chyflymdra anarferol yn y cwm. Yn adeg agoriad y gweithfeydd hyn yr oedd masnach yn farwaidd iawn trwy y deyrnas yn gyffredinol, a chyflogau gweithwyr yn isel anghyffredin; ond er mwyn cael digon o weithwyr i'r ardaloedd newyddion hyn, cynygid uwch cyflogau yma nag a geid mewn manau eraill, a bu y gwahaniaeth hwn yn y cyflogau yn foddion i dynu llawer o Saeson drosodd o orllewinbarth Lloegr. Yn yr un amser hefyd yr oedd gwythieni uchaf gweithfeydd glo Mynwy yn darfod yn gyflym iawn, a'r rhai isaf yn rhy ddwfn yn y ddaear i'r meistri allu eu gweithio a chystadlu yn y farchnad a pherchenogion gweithfeydd glo y cwm hwn. Felly taflwyd lluoedd allan o waith yn Mynwy yr adeg hono, y rhai a ddeuent drosodd gan mwyaf yma, a Saesonaeg siaradir gan y rhan luosocaf a godwyd yn ngweithfeydd glo Mynwy yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. O herwydd y ddau achos a nodwyd, gellir cyfrif fod yn bresenol o leiaf un rhan o bedair o boblogaeth yr ardaloedd hyn yn Saeson trwyadl. Nid oes genym ni fel enwad, ar gyfer y miloedd hyn, ond capel Seisnig yr Ystrad yn unig wedi ei ddarparu, tra y mae gan y Wesleyaid Seisnig ryw ddeg o achosion. Diameu mai yr anhawsder a deimlir yn mhob ardal i gychwyn achos Seisnig ydyw cael *nucleus*. Symudwyd yr anhawsder hwn yn yr Ystrad trwy i dri-ar-ddeg o aelodau ymadawedig oddiwrth y Wesleyaid Seisnig a addolent mewn tŷ anedd, gynyg eu hunain i Mr. Probert yn gnewullyn eglwys Annibynol, yr hwn, wedi ymgynghori a brodyr yn y weinidogaeth, a benderfynodd eu derbyn. Corpholwyd hwynt yn eglwys gan Meistri J. Davies, Caerdydd, a W. I. Morris, Pontypridd. Dechreuwyd adeiladu capel iddynt ar unwaith, yr hwn a gostiodd 420p., ac a eistedda 300 o bobl. Cyfranwyd y swm ardderchog o 150p. ato gan S. Morley, Ysw., A.S., ac 20p. gan C. Jupe, Ysw., Mere Wilts. Cymerodd agoriad y capel le yn mis Gorphenaf, 1870, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Proff. Morris, Aberhonddu; Mr. J. Davies, Caerdydd, a Mr. J. Waite, Caerdydd. Cynorthwywyd Mr. Probert i adeiladu y capel ac i gychwyn yr achos gan Mr. T. Thomas, Foundry, a Mr. Elias James, dau o aelodau yr eglwysi Cymreig yn y lle. Mae y cyntaf yn aelod yn Bodringallt, ac yn ddyn gweithgar iawn. Bu yn ymdrechgar i sefydlu yr achos Seisnig yn Blaenafon cyn dyfod yma, a gweithiodd yn dda i gychwyn yr achos hwn. Mae yn parhau yn drysorydd y *Building Fund*. Yn Siloh, Pentre, mae yr olaf yn aelod yn bresenol, ac yn ddyn gweithgar a medrus iawn. Bu o wasanaeth mawr i grefydd yn yr ardaloedd o gylch Abertawy cyn ei ddyfodiad i'r cwm hwn. Ymdrechodd lawer i dalu dyled Bodringallt, ac y mae wedi gwneuthur ei ran yn dda gyda'r achos Seisnig hefyd. Efe a gynlluniodd

Digitized by Google

y capel, efe yw ysgrifenydd y pwyllgor adeiladu, ac y mae wedi pregethu amryw droion pan oedd yr eglwys fechan yn rhy wan i dalu i bregethwr am ddyfod i'w gwasanaethu. Mantais fawr i'r eglwys hon yw fod Mr. Ezekiel Rogers yn aelod o honi. Arno ef yn benaf y bu y gwaith o lanw yr areithfa hyd nes iddynt gael gweinidog. Mae yn un o'r siaradwyr goreu a glywsom erioed, ac yn bregethwr da yn mhob ystyr; ond gan fod y bobl yn gynefin ag ef, ac yntau wedi bod mor anffodus a chael ei eni heb yr un fraich ganddo, nid oedd un gobaith y gallasai wneyd y tro yn weinidog i'r eglwys. Felly rhoddwyd galwad i Mr. D. Morgan, Penywaun, a chynaliwyd cyfarfod i'w longyfarch ef fel gweinidog yr eglwys, Ebrill 1af, 1872. Nid yw yr eglwys yn bresenol yn alluog i'w gynal yn ddi-gynorthwy. Hyderir y ca ychydig o gymdeithasau a gyfranant at achosion gweiniaid, ac y bydd yntau yn offerynol i blanu eglwysi yn y cwm yn gystal a chynyddu yr hon sydd wedi ei dechreu.

## EBENEZER, TONYPANDY.

Saif Tonypandy tua haner y ffordd o Pontypridd i Dreherbert. Yn niwedd y flwyddyn 1865, meddyliodd yr ychydig enwau perthynol i'r Annibynwyr, a breswylient yn y lle hwn, am adeiladu tŷ i'r Arglwydd. Ymgymerodd y brodyr ffyddlon Charles Jenkins, William Jones, a David Thomas a'r gorchwyl, ac ni orphwysasant nes cael capel yn y lle. Ionawr 8fed, 1866, aethant i'r cyfarfod chwarterol i ofyn cymeradwyaeth i ddechreu yr achos, yr hyn a ganiatawyd gyda llawenydd mawr. Codwyd y capel cyntaf yn Trealaw, a phregethwyd ynddo y waith gyntaf Mai 1af, 1866, gan Mr. J. Morgan, Cwmbach. Ar ddiwedd yr oedfa corpholwyd yr ychydig braidd yn eglwys Annibynol. Rhif yr enwau y dydd hwnw oedd 36. Yr oedd Meistri J. Griffiths, Glantaf, a T. Lloyd, Bodringallt yn cynorthwyo ar y cymundeb. Rhoddodd yr eglwys alwad rheolaidd i Mr. Jonah Morgan, Cwmbach, i ddyfod yma bob mis i weinyddu yr ordinhad. Bu Mr. Morgan yn ffyddlon iawn hyd nes y gwelodd fod y lle yn galw am weinidogaeth gyson. Nid oedd y capel cyntaf ond dau dŷ anedd wedi eu cyfaddasu at gynal addoliad, ond yn y flwyddyn 1867, penderfynwyd codi capel newydd, gan fod yr hen dŷ yn rhy gyfyng i gynwys y gynnulleidfa, a gosodwyd y gareg sylfaen i lawr gan William Jones, y diacon hynaf yn y lle. Adeiladwyd y capel newydd yr ochr arall i'r afon, yn Tonypandy, yn nghanol y boblogaeth, ar dir Lord of Dare. Dydd Sul y Pasg, 1868, y pregethwyd gyntaf yn y capel newydd, gan Mr. J. Morgan, Cwmbach, ac y gweinyddwyd swper yr Arglwydd. Cynaliwyd cyfarfod agoriad y capel Sul a Llun, Mehefin 21ain a'r 22ain, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri W. I. Morris, Pontypridd; L. Probert, Bodringallt; B. Davies, Glandwr; J. Davies, Caerdydd; D. Price, Aberdar; J. Morgan, Cwmbach; J. Jones, Pentyrch; Job Miles, Merthyr, ac R. Evans, Bethel, Aberdar. Mesura y capel 52 troedfedd wrth 40. Costiodd rhwng y muriau o gylch iddo tua 1,100p. Pan symudwyd yr arch i'r capel newydd yr oedd yr eglwys yn rhifo tua 100 o aelodau.

Medi 28ain, 1869, rhoddodd yr eglwys alwad unfrydol i Mr. David Thomas, Ystradyfellte. Atebodd yr alwad, a dechreuodd ei weinidogaeth Tachwedd 21ain. Bu cyfarfod ei sefydliad Chwefror 7fed a'r 8fed, 1870. Mae golwg hynod o lewyrchus ar yr achos yn y lle. Yr eglwys a'r

Digitized by Google

gweinidog yn mynwesu eu gilydd; ac amryw yn cael eu hychwanegu beunydd at yr eglwys. Enwau y diaconiaid ydyw William Jones, David Thomas, James Morgan, David Jones, a Miles Morgan.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Williams. Dechreuodd bregethu yn 1869, ac y mae yn awr yn athrofa Aberhonddu.

## GILFACH GOCH.

Mae y lle uchod ar waelod Cwmdwfngil, tua thair milldir i'r de o Gwmrhondda, ar gyfer Tonypandy. Yma mae tri phlwyf yn ymgyfarfod a'u gilydd fel tri hwrdd corniog, sef Ystradhafodog, Glynogwr a Llantrisant. Mae gweithiau glo y lle yn agor yn gyflym, a chanoedd o drigolion yma yn preswylio eisoes. Mae yma Eglwys Sefydledig, capel gan y Bedyddwyr, a chapel gan y Methodistiaid. Yr oedd yr Annibynwyr a symudent yma yn ymuno a'r Methodistiaid, a chawsant bob sirioldeb gan y brodyr; ond wrth weled y lle yn cynyddu, a llawer o aelodau a gwrandawyr perthynol i'r Annibynwyr yn dyfod yma i fyw, penderfynasant fyned allan ac ymffurfio yn eglwys Annibynol. Wedi ymgynghori a brodyr yn y weinidogaeth, ac a'r eglwys, aethant allan Sabboth, Mawrth 3ydd, 1872, i ystafell gyfleus yn ymyl gwesty y Gilfach. Am 10 a 6 pregethodd Mr. M. Morgan, pregethwr cynorthwyol yn Tonypandy; am 2 pregethodd Meistri T. George, Dinas, a D. Thomas, Tonypandy, a chyfranogwyd o'r swper sanctaidd. Gwasanaethwyd gan William Jones a David Thomas, diaconiaid Tonypandy, ar y cymundeb. Neillduwyd David Lewis, David Edmunds, a John Daniel, yn ddiaconiaid i'r eglwys ieuangc. Rhif yr aelodau yn y cymundeb cyntaf oedd 22. Daeth 2 i'r gyfeillach o'r newydd, ac fe hyderwn fod amryw erbyn hyn wedi eu derbyn. Rhif yr ysgol y Sabboth cyntaf oedd 48. Mae yr eglwys wedi cael darn o dir mewn man cyfleus, ac yn dechreu o ddifrif i adeiladu capel arno.

## CARMEL, TREHERBERT.

Arferai yr Annibynwyr bregethu yn achlysurol yn nghapel y Bedyddwyr, yn Nghwm-saer-bren, ac yr oedd cyflawn roesaw iddynt pa bryd bynag y deuent heibio. Pregethodd Mr. J. Evans, Cymar, a Mr. J. Harrison, Aberdar, lawer yma. Gydag agoriad y glofeydd yn y cwm, a dyfodiad dyeithriaid i'r ardal, ac yn eu plith rai Annibynwyr, meddyliwyd am gychwyn achos Annibynol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf, o'r hwn y mae eglwys Carmel yn dyddio ei dechreuad, Mai 24ain, 1857, yn nhy Ebenezer Morris, gerllaw y fan lle y mae gwaith presenol Ynysfais. Yr oedd wyth o aelodau crefyddol yn bresenol yn y cyfarfod hwnw, sef Ebenezer Morris a'i wraig; Zephaniah Thomas a'i wraig; Thomas H. Jenkins a'i ferch; Dafydd Day, a Thomas Lewis; oll yn aelodau yn Mynyddislwyn. Pregethwyd gan Rhys Powell, Pontypridd. Parhawyd i gynal moddion yn nhy Ebenezer Morris am dri mis—yr un ysbaid ag y bu yr arch yn nhy Obededom—a theimlai yntau ei fod wedi ei fendithio ar gyfer y ddau fyd er mwyn arch Duw. Mae yn aros yn ddiacon ffyddlon yn yr eglwys, a'i holl dy yn gwasanaethu Duw. Yn mhen tri mis yr oedd ty E. Morris yn llawer rhy gyfyng, a chymerwyd *Long-room* perthynol i'r *Bute*, ac yno y

Digitized by Google

corpholwyd yr eglwys yn rheolaidd Hydref 8fed, 1857. Cynhaliwyd cyfarfod yma ar y pryd, yn yr hwn y gweinyddodd Meistri D. Jones, Efailfach; W. Williams, Hirwaun, ac E. Lewis, pregethwr cynorthwyol o Bontypridd. Nifer yr eglwys ar ei chorpholiad oedd 28, sef 19 trwy lythyrau o eglwysi eraill, 6 oddiar dir gwrthgiliad, a 3 o newydd. Aeth yr achos rhagddo yn gyflym, ac adeiladwyd capel eang yn y flwyddyn ganlynol, yr hwn a gostiodd 850p. Agorwyd ef Mawrth 20fed a'r 21ain, 1859. Yn fuan wedi cael capel meddyliwyd am gael gweinidog, a rhoddwyd galwad i Mr. David Abel Jones, yr hwn a fuasai yn fyfyriwr yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef Mawrth 13eg a'r 14eg, 1860. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri J. Davies, Aberaman; W. Williams, Hirwaun; J. Ll. James, Eglwysnewydd; T. Davies, Llandilo; D. Price, S. Davies, a J. Thomas, Aberdar; J. Rees, Moriah-Aman, a D. Williams, Gl nnedd. Bu Mr. Jones yma hyd Medi, 1862, pryd y symudodd i Pentre-estyll, gerllaw Abertawy. Am ran o'r flwyddyn ganlynol cymerodd Mr. Rees, Moriah-Aman, ofal yr eglwys heb roddi i fyny ei gysylltiad a Moriah-Aman, ond rhoddodd hi i fyny yn fuan wrth weled yr eglwys yn dyfod yn alluog i gynal gweinidog iddi ei hun. Rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. R. Whittington, yr hwn a fuasai yn weinidog gyda'r Wesleyaid, a bu yma o Hydref, 1863, hyd Gorphenaf, 1865. Ychydig a ennillodd yr eglwys trwy ei chysylltiad ag ef, ac yn fuan wedi ei ymadawiad oddi yma ymunodd a rhyw gangen o'r Wesleyaid. Yn mis Mai, 1866, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. John Rees, Moriah-Aman, a chydsyniodd yntau a'r gwahoddiad, a chynhaliwyd cyfarfod ei sefydliad yr 8fed a'r 9fed o'r Gorphenaf canlynol. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri I. Williams, Trelech; S. Davies, Aberdar; J. Morgan, Cwmbach; R. Rowlands, Aberaman; W. Edwards, Aberdar; D. Thomas, Abercanaid; R. G. Jones, Merthyr; T. T. Davies, gweinidog i'r Bedyddwyr yn Nghwmaman, a Thomas Rees, brawd Mr. Rees, a gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd yn Aberaman. Bu yma ddiwygiad grymus ar ddyfodiad Mr. Rees i'r lle, pryd yr ychwanegwyd ugeiniau at yr eglwys. Aeth y capel yn rhy gyfyng, fel y bu raid ei ailadeiladu trwy draul o fwy na mil o bunau, ac agorwyd ef Ebrill 26ain a'r 27ain, 1868. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri L. Probert, Ystrad; J. Rogers, Pantteg; O. Evans, Llanbrynmair; B. Davies, Glandwr; J. Davies, Caerdydd, ac H. Oliver, B.A., Pontypridd. Mae yr achos wedi parhau i fyned rhagddo yn nhymor gweinidogaeth Mr. Rees; ac y mae yr eglwys yn nechreu y flwyddyn hon, (1872,) wedi profi mesur helaeth o adfywiad crefyddol, ac y mae dros driugain wedi eu derbyn o newydd i gymundeb yn ystod ychydig fisoedd.*

Mae yr eglwys hon wedi bod a llaw yn nechreuad yr achosion sydd yn Nhreorci a'r Tynewydd, lle y mae erbyn hyn gapeli hardd, ac eglwysi blodeuog.

Codwyd yma ddau bregethwr, sef William H. Thomas, sydd yn awr yn weinidog yn Cadle, ger Abertawy, a James Rees, brawd Mr. Rees, y gweinidog, yr hwn sydd yn pregethu yn awr er's pedair blynedd. Bu William Davies, yr hwn a urddwyd yn ddiweddar yn Nantmoel, yn aelod yma am flynyddau, ond yr oedd wedi dechreu pregethu cyn dyfod yma. Heblaw y personau a grybwyllwyd, bu yma amryw eraill nodedig o ffyddlon, ac y mae yn briodol i ni wneyd cyfeiriad parchus at Mr. R. Evans,

* Llythyr Mr. Rees.

Digitized by Google

tad-yn-nghyfraeth Mr. Rees, yr hwn a fu yn aelod defnyddiol yn Abersychan a Maesteg, pan yn arolygydd gweithfeydd haiarn yn y lleoedd hyny, ac wedi hyny yn Aberaman, ac yn yr eglwys yma yn ddiweddarach.

## TYNEWYDD, YSTRADRHONDDA.

Saif y capel hwn yn mlaen Cwmrhonddafawr, wrth droed y mynydd a elwir Penpych. Gychwynwyd yr achos yn Tynewydd fel cangen o eglwys Carmel, Treherbert, trwy i dri o'r brodyr, sef Richard Richards, William Rees, a John Jones, gael eu hanfon gan eglwys Carmel i gynorthwyo ychydig frodyr a chwiorydd o Flaenycwm a'r Tynewydd, i gynal Ysgol Sabbothol ar hyd y tai. Dechreuwyd yr ysgol yn Mehefin 28ain, 1868, yn nhy un Morgan Jones, oedd yn byw yn y lle, ac yn aelod ffyddlawn yn Carmel, a chynaliwyd hi yn nhai Lewis Williams a David Rees yn achlysurol. Rhif yr ysgol y Sabboth cyntaf oedd 52—15 o ddynion mewn oed a 37 o blant. Yn fuan ar ol hyn penderfynwyd ar gael lle cyfleus i gynal Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd gweddi, a phregethu, ac adeiladwyd dau dŷ anedd gwerth 200p., a chyfaddaswyd hwy i fod yn lle cyfleus i bregethu. Pregethwyd gyntaf yn y ty hwn Ionawr 31ain, 1869, gan William Davies, pregethwr cynorthwyol yn Carmel. Agorwyd y tŷ Chwefror 7fed, 1869, pryd y pregethwyd gan Meistri J. Jones, Bristol; J. W. Morris, Llanharan, ac eraill. Yn yr un flwyddyn corpholwyd yma eglwys yn 48 mewn nifer. Gweinyddwyd yr ordinhad o swper yr Arglwydd, gan Mr. John Rees, Carmel, Treherbert, a phregethwyd gan Meistri Lewis Probert, Bodringallt, ac E. G. Jones, Treorci. Pregethwyd yn fisol yma gan Mr. Lot Lake, Blaenllechau, a Mr. E. G. Jones, Treorci, ac eraill, hyd nes i'r eglwys roddi galwad i Mr. M. Jones, Trehafod, i gymeryd ei gofal, yn Awst, 1870. Cydsyniodd a'u cais i'w gwasanaethu ddau Sabboth yn y mis. Cynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad ar y 4ydd a'r 5ed o Ragfyr, 1870. Mae yr ardal yn un gynyddol, ac yn debyg o fod felly am flynyddau yn y dyfodol; felly i gyfarfod a chynydd y boblogaeth, penderfynwyd ar adeiladu capel eang a chyfleus, gan fod yr hen gapel yn rhy fach yn barod. Cafwyd tir ar lecyn dewisol gan yr eglwys i adeiladu arno, ar ystad Iarll Dunraven, am ddau gini y flwyddyn, ar brydles o 99 mlynedd. Dechreuwyd adeiladu yn Mai, 1871. Mae ynddo tua 600 o eisteddleoedd, a chostiodd 1000p. Mae dyfodol yr eglwys hon yn addawol iawn. Bydd ardal y Tynewydd yn boblog iawn, gan fod yma y fath gyflawnder o lô ugerdd, heb ond newydd ddechreu cael ei weithio.

## TREORCI.

Mae y lle hwn yn sefyll rhwng Bodringallt a Threherbert yn Nghwmrhondda. Cynhelid moddion crefyddol mewn ystafell perthynol i dafarndy yn y lle, gan nifer o aelodau perthynol i Dreherbert a Bodringallt oedd yn byw yma. Yn Awst yn y flwyddyn 1865, ffurfiwyd yma eglwys fechan, o aelodau Bodringallt yn benaf. Gweinyddwyd ar achlysur ffurfiad yr eglwys gan Mr. D. Richards, Caerphili, a Mr. T. Lloyd, Bodringallt. Codwyd

yma gapel eang a chyfleus, yr hwn a alwyd y Tabernacl. Yn gynar yn y flwyddyn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. E. Gurnos Jones, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef Mehefin 18fed a'r 19eg. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Morgan, Caerfyrddin; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Davies, Taihirion; dyrchafwyd yr urddweddi gan Mr. W. Williams, Hirwaun; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. B. Thomas, Gurnos, ac i'r eglwys gan Mr. D. Price, Aberdar. Mae Mr. Jones yn parhau i weinidogaethu yma, ac y mae yn y lle erbyn hyn gynnulleidfa gref a lluosog; a chan ei fod yn lle canolbarthol yn y cwm y mae yma argoelion ffafriol gyda golwg ar y dyfodol.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Howells, sydd yn awr dan addysg, yn parotoi i fyned i'r athrofa.

## BLAENLLECHAU.

Nid oedd yn y cwm yma ddeng mlynedd yn ol ond congl anghysbell lle y trigai ryw ddeugain o gynfrodorion yr ardal, yn ddyeithr i'r byd, ac heb wybod ond ychydig am y byd mawr y tu allan. Pan y dechreuwyd agor am lo yma, ac i nifer o grefyddwyr ddyfod i'r ardal, ymunasant a'u gilydd i gynal moddion crefyddol, a chan mai Wesleyaid oeddynt gan mwyaf, yn ol ffurf yr enwad hwnw y dygid y gwasanaeth yn mlaen. Dechreuwyd cynal moddion Sabbothol yn niwedd 1862, yn nhy Morgan Hopkin, arolygwr y gwaith; ond yn Ionawr, 1863, cymerwyd ystafell perthynol i Glynrhedynog Inn, ac yno y buwyd hyd fis Medi, pryd y rhoddwyd ystafell eang perthynol i swyddfa y gwaith at eu gwasanaeth gan D. Davies, Ysw., Blaengwawr. Buwyd yma am ddeuddeg mis yn cynal gwasanaeth Sabbothol ac wythnosol, a'r achos yn myned rhagddo yn obeithiol. Dechreuwyd adeiladu capel yn Ebrill, 1864, yr hwn a elwid y Capel bach, ac o gylch yr adeg yma, oblegid rhyw dramgwydd, ymadawodd y rhan fwyaf o'r Wesleyaid, ac ar y 15fed o Fai, corpholwyd yr eglwys yn ol y drefn Annibynol, gan Mr. D. Price, Siloa, Aberdar. Agorwyd y capel Medi 1af. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri D. Price, H. Hughes (Tegai), W. Edwards, S. Davies, Aberdar; R. Rowlands, Aberaman, a J. Morgan, Cwmbach. Nid oedd rhif yr aelodau ond 20 pan yr aethant i'r capel newydd. Rhoddwyd galwad i Mr. Lot Lake, ac urddwyd ef Gorphenaf 30ain, 1866, pryd y gweinyddwyd gan Meistri J. Davies, Cwmaman, a D. Jones, Hermon; a chyn diwedd y flwyddyn hono yr oedd rhif yr aelodau yn 72. Wrth weled yr achos yn myned rhagddo, meddyliwyd am gael gwell capel, ac mewn gwell lle; ac yn mis Gorphenaf 1867, gosodwyd i lawr sylfaen y capel presenol, a elwir Capel Trerhondda, ac agorwyd ef Mai 3ydd a'r 4ydd, 1868. Rhoddwyd 100p. at y capel newydd gan D. Davies, Ysw., un o berchenogion y gwaith, a bu Mr. Lake yn egniol yn casglu trwy y sir, a gweithiodd yr eglwys yn rhagorol gartref. Bu Mr. Lake yma hyd fis Mawrth, 1870, pryd y derbyniodd alwad o Langenech, sir Gaerfyrddin, ac y symudodd yno; ac er hyny, y mae yr eglwys yma heb weinidog. Dyoddefodd yr achos yma yn fawr, fel lle newydd, oddi wrth arafwch masnach y blynyddoedd a aeth heibio; a gwnaed rhwyg mawr yn y lle gan y ddamwain alaethus a gymerodd le yma; ond y mae yma olwg siriol, er y cwbl, ar yr achos, a hyderwn fod dyfodol llwyddianus yn ei aros.

Digitized by Google

## SARDIS, PONTYPRIDD.

Mewn ffermdy o'r enw Gwaunygerwyn, yr hwn a saif oddeutu milldir o Bontypridd, yn nghyfeiriad y Groeswen, y dechreuodd yr Annibynwyr gynal cyfarfodydd cyson a rheolaidd yn y gymydogaeth hon, a hyny yn nechreu y ganrif bresenol. Aelodau o'r Cymar a'r Groeswen fyddai yn cyfarfod yma yn benaf. Byddai Mr. G. Hughes, o'r Groeswen, ac un Daniel Thomas, pregethwr cynorthwyol yn eglwys y Cymar, yn pregethu iddynt yn bur aml. Oddeutu diwedd y flwyddyn 1809, symudwyd y cyfarfodydd o'r ffermdy i oruwchystafell y *White Horse*, (yn awr *Maltster's Arms,)* yn Mhontypridd. Yr oedd yr ystafell hon yn meddiant ardrethol y cyfeillion y Bedyddwyr yn flaenorol, ac hyd ddiwedd y flwyddyn ganlynol bu y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Methodistiaid Calfinaidd yn cydaddoli ynddi; yna ymadawodd y Bedyddwyr ac ymsefydlasant yn eglwys reolaidd wrthynt eu hunain. Bu yr Annibynwyr a'r Methodistiaid yn cydaddoli yn yr ystafell a nodwyd am rai blynyddau ar ol hyny. Pregethid iddynt gan weinidogion a phregethwyr y ddau enwad. Byddai Mr. Hughes, o'r Groeswen, a Mr. Shadrach Davies, o'r Maendy, yn talu ymweliadau mynych a'r lle, ac yn pregethu gydag arddeliad mawr. Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog ac yn hwyliog iawn. Rhoddodd llawr yr ystafell ffordd unwaith pan oedd Mr. Hughes yn pregethu, yr hyn a gynyrchodd ofn, dychryn, ac anrhefn mawr. Pregethodd Daniel Thomas, yr hwn y cyfeiriwyd ato eisoes, gryn lawer yr amser yma, yn ei ffordd daranllyd a gwreiddiol ei hun. Yr oedd yn gymeriad pur hynod, heb fod yn debyg i neb ond iddo ei hun, ac yr oedd dilysrwydd ei gymeriad crefyddol wedi ennill iddo barch a dylanwad mawr yn mysg ei gydnabyddion, ac yr oedd i Gwenllian ei wraig hefyd gymeriad crefyddol pur ddysglaer. Heblaw y ddau uchod, yr oedd y rhai canlynol yn mysg y rhai oedd yn addoli yn yr ystafell a nodwyd :—Shon a Sian Jacob, Hopkin Smith, ac Evan Morgan—aelodau o'r Groeswen—ac un Ann James, gwraig grefyddol iawn oedd yn byw yn ffermdy Pwllgwaun.

Cawn yr Annibynwyr yn nesaf yn addoli ar eu penau eu hunain mewn ty ardrethol yn agos gyferbyn a'r man lle y mae yr addoldy presenol. Arosasant yma am flynyddoedd, a chynalient gyfarfodydd bob prydnawn Sabboth am dri o'r gloch. Byddai Mr. Hughes, o'r Groeswen, a Mr. Evans, o'r Cymar, yn dyfod i ymweled a hwy yn eu tro. Cafwyd yma gyfarfodydd pregethu, a gweddio, sydd yn fyw yn nghof llawer un hyd heddyw. Pan ddechreuodd y lle ymagor, ac i adnoddau mwnawl y gymydogaeth gael eu gweithio, daeth yma ddylifiad pobloedd, fel yr aeth y ty ardrethol yn rhy fychan i gynal y cyfarfodydd, ac yn y flwyddyn 1834, adeiladwyd y capel cyntaf, yr hwn a alwyd yn Sardis; a dyma y pryd yr ymsefydlodd yr Annibynwyr yn eglwys ymgorphoredig reolaidd o dan ofal Mr. Josua Evans, Cymar. Er ei bod yn cael ei chyfrif fel cangen o'r Cymar, etto yr oedd yn ei chyfansoddi, aelodau o'r Groeswen, ac o Llantrisant. Aelodau o'r Groeswen oedd Dafydd Jones a'i wraig; ac aelodau o Llantrisant oedd William Dafydd a'i wraig; ond o'r Cymar yr oedd Evan Morgan, Penrhiw, a'i wraig; John Lewis a'i wraig; Daniel Thomas a'i wraig, a rhai eraill. Wedi bod am ychydig flynyddoedd yn y capel newydd, aeth rhai o'r aelodau yn bur awyddus am gael ychwaneg o fanteision gweinidogaethol nag oedd yn ngallu Mr. Evans, o herwydd

Digitized by Google

eangder maes ei lafur, ei roddi iddynt; a chyflwynodd ei gofal i fyny, fel y gallasent edrych am weinidog iddynt eu hunain. Rhoddasant alwad i Mr. Griffith Jones, Victoria, Mynwy, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yma yn niwedd Hydref, 1843. Bu yma yn ddefnyddiol dros rai blynyddoedd, ond tua'r flwyddyn 1849, yn anffodus cododd ryw anghydwelediad yn eu plith, yr hyn a derfynodd yn ymadawiad Mr. Jones, a nifer o'i gefnogwyr gydag ef, i gynal gwasanaeth mewn ystafell ardrethol yn y dref. Yn nechreu y flwyddyn 1850, cymerodd Mr. Jones ofal yr eglwys yn Nghefncribwr, ond parhaodd i weinyddu yn achlysurol i'r gangen yn Mhontypridd hyd y flwyddyn 1852, pryd y dychwelodd y rhan fwyaf o honynt yn ol i Sardis. Cyn diwedd y flwyddyn 1850, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Henry Oliver, B.A., myfyriwr o athrofa Caerfyrddin; ond gan ei fod heb orphen ei amser yn yr athrofa, ni ddaeth yma hyd ganol y flwyddyn ganlynol. Urddwyd ef Gorphenaf 17eg a'r 18fed, 1851. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Morgan, Caerfyrddin; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. Roberts, Dowlais; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Hughes, Dowlais; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Davies, Pantteg, ac i'r eglwys gan Mr. H. Jones, Caerfyrddin.* Bu sefydliad Mr. Oliver yma yn fendith fawr i'r lle. Aeth yr hen gapel yn rhy gyfyng yn fuan, ac yn y flwyddyn 1852, adeiladwyd yr addoldy helaeth presenol, ac agorwyd ef Tachwedd 14eg a'r 15fed, 1852. Llafuriodd Mr. Oliver yma gyda chymeradwyaeth mawr am bymtheng mlynedd, ond yn nechreu 1866, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Saesonaeg Victoria Road, Casnewydd, a symudodd yno. Wedi bod am dymor heb weinidog, yn Rhagfyr 1867, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. William Isaac Morris, Llanelli, Brycheiniog; a dechreuodd Mr. Morris ei weinidogaeth yma yn mis Mai, 1868, ac y mae yn parhau i lafurio yn y lle gyda derbyniad a chymeradwyaeth.

Ni chyfodwyd yma ond un pregethwr, sef Thomas R. Davies, yr hwn sydd yn weinidog yn Poulton, swydd Lancaster. Bu Evan Lewis yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys hon am flynyddau, ac yma yr urddwyd ef ar ei fynediad allan i Awstralia; ond yr oedd wedi dechreu pregethu cyn dyfod yma. Bu Rhys Powell yn aelod ffyddlon, ac yn bregethwr gwresog a derbyniol yn yr eglwys hon am flynyddoedd, ond yr oedd yntau wedi dechreu pregethu flynyddoedd cyn dyfod yma. Dechreuodd ef bregethu yn y Brychgoed, ond symudodd i Forganwg. Bu flynyddau yn Maesteg, ac wedi hyny yn Mhontypridd. Yr oedd yn ddyn synwyrol a deallgar, yn eangach ei olygiadau na llawer o'i gydoeswyr, ac yn dra hoff o byngcio a dadleu. Cafodd fyw i oedran teg, a bu farw mewn tangnefedd.

## ZION, PONTYPRIDD.

Yn nechreu 1870, rhoddodd yr eglwys yn Sardis ollyngiad rheolaidd i 38 o'i haelodau, gyda'r amcan iddynt ymsefydlu yn eglwys, yn y rhan hono o'r ardal a elwir Coedpenmaen, lle y buwyd yn cynal Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd wythnosol am rai blynyddoedd. Yr amser yma yr oedd capel y Trefnyddion Cyntefig ar werth, yr hwn a safai ar lan yr afon rhwng y dref a'r gymydogaeth uchod; prynasant hwnw, ac yno yr ym-

* *Diwygiwr*, 1851. Tu dal. 283.

sefydlasant. Mae yn dra thebyg y buasai yn fwy manteisiol i'r eglwys ieuangc a'r gymydogaeth, pe buasent yn adeiladu addoldy newydd yn Nghoedpenmaen. Mae y capel yn myned o dan gyfnewidiad ar hyn o bryd; helaethir ef, a gosodir i fyny oriel newydd ynddo. Nid yw yr eglwys wedi bod o dan weinidogaeth sefydlog hyd yn hyn.

## TAIHIRION.

Nid ydym yn gwybod y flwyddyn yn gywir y dechreuwyd yr achos yn y lle hwn, na chan bwy y dechreuwyd ef. Mae yn sicr fod yma eglwys fechan mor foreu a'r flwyddyn 1760, os nad yn foreuach. Ty anedd wedi ei gyfaddasu i fod yn addoldy oedd yma ar y cyntaf. Yr oedd Samuel Price, Ysw., mab Mr. Rees Price, gweinidog yr eglwys Ymneillduol yn Mhenybont-ar-ogwy, yn aelod yma, ac yn brif noddwr yr achos er pan y daeth i fyw i'r Park, gerllaw y lle hwn, a pharhaodd felly hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Gorphenaf 18fed, 1777. Yr oedd Mr. Price wedi gwneyd ewyllys tua phedair blynedd cyn ei farwolaeth, yn yr hon y gorchymynai i'w weddw, a'i fab John, dalu llog dau cant o bunau at gynal gweinidogaeth Ymneillduol yn y Taihirion, cyhyd ag y gallesid cael gweinidog i bregethu yno. Cafodd yr arian hyn eu talu yn ol yr ewyllys hyd o fewn deugain mlynedd yn ol, pryd y darfu i'r etifeddion wrthod eu talu yn hwy am nad oedd Mr. Price wedi nodi yn ei ewyllys oddiwrth ba ran o'i etifeddiaeth yr oedd yr arian i ddyfod. Ymddygiad gwael o eiddo dynion a ymdroent yn nghanol peth dirfawr o gyfoeth oedd hyn. Nid yn unig amlygent eu gelyniaeth at yr achos, ond hefyd dangosent yr anmharch mwyaf i'w hynafiad, yr hwn yr oeddynt yn ddyledus iddo am eu cyfoeth. Dan yr un weinidogaeth a Llanharan y bu yr eglwys hon hyd tua 1829, pryd y rhoddodd Mr. David Jones ofal Llanharan i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i'r Taihirion, a'r achosion newyddion a ddechreuasid ganddo yn Mhentyrch. Gwan iawn oedd yr achos yma hyd ddechreuad tymor gweinidogaeth Mr. D. Jones. Tua deuddeg oedd rhif yr aelodau pan ddechreuodd ef ei lafur yma, ond ychwanegwyd llawer at yr aelodau a'r gwrandawyr yn dra buan fel y bu raid adeiladu capel yma yn lle yr hen anedd-dy. Gan nad oedd poblogaeth yr ardal ond ychydig nid oedd angen am gapel mawr yma, ac yn neillduol wedi adeiladu Bethlehem wrth waith Pentyrch. Pan adeiladwyd y capel cafwyd lês ar y tir y saif arno am 999 o flynyddoedd, am yr ardreth o swllt yn y flwyddyn, gan Wyndham Lewis Ysw., A.S., ŵyr y rhag-grybwylledig, Samuel Price, Ysw. Agorwyd y capel newydd Mehefin 19eg a'r 20fed, 1822. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri G. Hughes, Groeswen; R. Morris, Tredegar; B. Moses, New Inn; Thomas Davies, Cymar; W. Jones, Penybont, ac eraill. Tua y flwyddyn 1831, adeiladwyd capel bychan wrth waith Pentyrch, yr hwn a alwyd Bethlehem, a chafodd nifer o aelodau y Taihirion lythyrau gollyngdod i fyned yno i ddechreu achos. Tua yr un amser adeiladwyd ty bychan ar ochr Mynyddygarth, a alwyd Zoar, at gadw Ysgol Sabbothol a phregethu achlysurol; ond ni ffurfiwyd eglwys yno. Yn y flwyddyn 1833, rhoddodd Mr. D. Jones ofal yr eglwysi yn Taihirion a Bethlehem, Pentyrch, i fyny. Yn mhen ychydig ar ol hyny, teimlai rhai o aelodau y Taihirion awydd rhoddi galwad i un Benjamin Morgan, ond gan nad oedd mwyafrif yr eglwys drosto, methwyd cyduno, a'r canlyniad fu i bleidwyr

Digitized by Google

B. Morgan ymneillduo ac adeiladu capel yn Llansantffraid-ar-lai. Yn 1834, rhoddodd yr eglwysi yn y Taihirion a Bethlehem alwad i Mr. John Lewis, yr hwn oedd ar y pryd yn genhadwr cartrefol yn Mro Morganwg. Bu ef yma am oddeutu tair blynedd, yna symudodd at y Cymry i Gaerodor. Yn y flwyddyn 1837, rhoddwyd galwad i Mr. David Davies, o athrofa y Neuaddlwyd, ac urddwyd ef Tachwedd 22ain a'r 23ain, yn yr un flwyddyn. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. Isaac Harris, Mynyddbach; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. W. Griffiths, Llanharan; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. L. Powell, Caerdydd; rhoddwyd y siars i'r gweindiog gan Mr. S. Griffiths, Horeb, ac i'r eglwys gan Mr. T. Davies, Abertawy. Yn mhen ychydig fisoedd wedi ei urddiad daeth amgylchiad i gyfarfod Mr. Davies a barodd i'r eglwys dori ei chysylltiad ag ef; ond gan y barnai rhai o'r aelodau ei fod yn cael ei drin yn rhy lym, aethant allan gydag ef i ddechreu achos mewn amaethdy o'r enw y Radyr uchaf, ychydig gyda milldir o'r Taihirion. Yn nechreu y flwyddyn 1840, rhoddwyd galwad i Mr. Lemuel Smith, ac urddwyd ef Chwefror, 20fed, yn yr un flwyddyn. Traddodwyd y gynaraeth gan Mr. W. Jones, Penybont; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. L. Powell, Caerdydd; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. Jones, Clydach, cyn-weinidog y lle; pregethwyd siars y gweinidog gan Mr. J. Hughes, Dowlais, a siars yr eglwys gan Mr. H. Jones, Tredegar. Bu Mr. Smith yn barchus a llwyddianus iawn yn y Taihirion a Bethlehem dros dymor byr ei lafur. Bu farw yn Mawrth, 1842. Yn fuan wedi marwolaeth Mr. Smith, derbyniwyd yr hen weinidog, Mr. D. Davies, yn ol, a dychwelodd yr aelodau a aethant allan ar ei ymadawiad yn ol gydag ef. Bu Mr. Davies yn llafurio yn y Taihirion, mewn cysylltiad a Llansantffraid-ar-lai, hyd y flwyddyn 1848, pryd y cymerodd ofal yr achos Cymreig yn Nghaerodor. Ar ol ymadawiad Mr. D. Davies, buwyd yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1851, pryd y rhoddwyd galwad unfrydol gan yr eglwysi yn y Taihirion a'r Efailisaf i Mr. John Davies, Horeb, Treforis. Urddwyd ef yma Medi 30ain, a Hydref 1af, yn yr un flwyddyn. Yr oedd trefn gwasanaeth yr urddiad fel y canlyn:—Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. E. Jacob, Abertawy; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. M. Rees, Groeswen; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. E. Griffiths, Abertawy, a phregethwyd ar y weinidogaeth gan Mr. D. Rees, Llanelli. Yn yr Efailisaf y cynhaliwyd y gwasanaeth hwn. Dranoeth, yn y Taihirion, pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. G. Griffiths, Casnewydd; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Griffiths, Llanharan; pregethwyd siars i'r gweinidog gan ei frawd, Mr. T. Davies, Horeb, Treforis, ac i'r eglwys gan Mr. J. Evans, Cymar. Mae Mr. Davies wedi llafurio yn y maes hwn bellach er's yn agos un-mlynedd-ar-hugain, ac wedi cael y fraint o fod yn offerynol i wneyd daioni dirfawr yma. Yn y flwyddyn 1858, rhoddodd ollyngdod i un-ar-ddeg o'r aelodau o'r Taihirion, er eu corpholi yn eglwys yn y Bronllwyn, ac y mae y ferch yno er's blynyddau bellach wedi myned lawer yn lluosocach na'r fam.

Ni bu eglwys y Taihirion yn lluosog iawn ar un cyfnod o'i hanes, ond nid oes nemawr o eglwys yn Nghymru, os oes un o'i maint hi, wedi gwneyd gymaint er lledaenu terfynau yr achos yn yr ardaloedd o'i hamgylch. Fel y gwelsom, hi yw mam yr eglwysi yn Bethlehem, Llansantffraid-ar-lai, a'r Bronllwyn, a'r Efailisaf hefyd mewn rhan.

Yn nhymor gweinidogaeth Mr. David Jones, a chyn adeiladu capel Bethlehem, y bu yr achos gryfaf yn y Taihirion. Yr oedd yma yr amser

Digitized by Google

hwnw gryn lawer o aelodau, ac yn eu plith rai personau nodedig am eu doniau a'u gwresogrwydd crefyddol. Yn mysg y rhai hyny, dichon mai y mwyaf nodedig, ar lawer o gyfrifon, oedd James Edmunds, neu "Jim o'r Engine," fel yr adwaenid ef yn gyffredin. Gelwid ef felly am mai peirianydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd y dyn hwn yn moreu ei oes, ac yn mhell yn mlaen i ganol ei ddyddiau, wedi bod yn ddyn rhyfeddol o wyllt ac annuwiol. Yr oedd yn nodedig fel ymladdwr. Byddai yn myned weithiau cyn belled a Chaerodor a'r Bath i ymladd a rhai o brif ymladdwyr Lloegr. Ond er annuwioled y treuliodd ran fawr o'i oes, cafodd ei ragflaenu gan ras Duw cyn iddo fyned i ddistryw. Un prydnawn Sabboth aeth i wrandaw Mr. David Jones, yr hwn oedd yn pregethu yn Radyruchaf. Er nad oedd dim ond rhyw gywreinrwydd anystyriol yn ei gymhell i fyned yno, cafodd achos i glodfori yr Arglwydd byth am yr oedfa hono. Gafaelodd gair ac Ysbryd Duw yn achubol yn ei feddwl. Gan ei fod wedi bod yn ddyn mor annuwiol, a bod ei dymerau yn naturiol gyffrous, cafodd dywydd ofnadwy yn "mwlch yr argyhoeddiad." Bu am dymor yn dyoddef ingoedd angerddol, ac yn fynych yn cael ei demtio gan y gelyn i osod terfyn ar ei einioes. Aeth i'r gyfeillach grefyddol yn lled fuan, ond tra isel y bu ei brofiad am dymor. Un noson wrth fyned tua'r gyfeillach i'r Taihirion, adroddai brofiad wrth y cyfeillion a gydgerddent ag ef, oedd yn ymylu ar anobaith. Yn ddisymwth, ar ganol eu hymddiddan, trodd oddi wrthynt i gae yn ymyl y ffordd, ac aethant hwythau rhag eu blaen yn araf tua'r capel. Pan na welent ef yn dyfod i mewn ar eu hol, ofnai rhai o honynt fod rhyw ddrwg wedi digwydd iddo, neu ei fod wedi cymeryd ei demtio gan y gelyn i droi ei gefn ar grefydd. Ond cyn pen haner awr wedi iddynt eistedd yn eu lleoedd yn y capel, wele Jim yn dyfod i mewn dan ddiolch a gorfoleddu. Dywedai ei fod yn teimlo *pelen o dân* yn ei fynwes yr holl ffordd o'i dŷ nes iddo droi oddi wrth y cyfeillion i'r cae; ond yno dan y berth wrth dywallt teimladau ei galon drom ger bron yr Arglwydd, "Teimlais," meddai, "waed y groes yn diffoddi y belen dân o'm mewn, ac y mae yma dawelwch yn awr. O diolch." Ar hyny aeth yr holl gyfeillach i ddiolch gydag ef. Yn mhen ychydig flynyddau symudodd i ardal Mynyddislwyn, lle y bu yn aelod ffyddlon a llawn o dân, nes iddo yn ei henaint symud at ei ferch i Canton, Caerdydd, lle y bu farw er's dros ugain mlynedd yn ol. Parhaodd yn angerdd ei wres crefyddol o ddechreuad ei grefydd hyd derfyn ei oes. Aeth Mr. Powell, Caerdydd, i ymweled ag ef ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, ond er eu bod yn hen gyfeillion, methodd y claf a'i adnabod. Yr oedd ei feddwl wedi anmharu gan henaint a chystudd. Cyn ymadael dywedodd Mr. Powell wrtho, "Wel, os nad ydych yn adnabod Lewis Powell, caniatewch i mi ofyn i chwi, a ydych yn adnabod Iesu Grist?" Deffrowyd ei feddwl a'i deimladau ar unwaith gyda swn y geiriau "Iesu Grist," ac atebodd, "Bendigedig fyddo Duw, ydwyf yn ei adnabod Ef, ac y mae yntau yn fy adnabod inau, ac yn glynu wrthyf hyd y diwedd." Fel hyn yr ymadawodd y pentewyn hwn a achubwyd o'r tân.

Cafodd y rhai canlynol eu cyfodi i bregethu yn yr eglwys hon:—

**Simon Simon.** Yr hwn oedd yn ddyn gwir dda, ac a fu am lawer o flynyddau yn bregethwr cynorthwyol defnyddiol a derbyniol iawn. Bu farw Mawrth 5ed, 1870, yn 69 mlwydd oed.

**Evan Morgan.** Bu ef am ychydig flynyddau yn weinidog yn Mhongdarran, Merthyr. Gweler ei hanes yn nglyn a'r eglwys hono.

Digitized by Google

John Morgan, Caerdydd. Y mae ef yn aelod parchus a ffyddlon yn Mount Stuart, Caerdydd, er dechreuad yr achos yno.

Yma hefyd y derbyniwyd Mr. W. Russell, diweddar weinidog yr Eglwysnewydd, a Mr. Job Miles, Bethesda, Merthyr. Hefyd y mae un Thomas Griffiths, yn awr yn bregethwr yn America, a dderbyniwyd yma yr un Sabboth a Mr. Miles.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

LEMUEL SMITH. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1815. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys yn Rehoboth, Brynmawr, gan Mr. D. Stephenson, pan yr oedd yn dra ieuangc. Yno hefyd y dechreuodd bregethu. Yn mhen ychydig wedi iddo ddechreu pregethu, symudodd i Dowlais ac ymaelododd yn Bethania. Yno yr oedd yn aelod pan y derbyniodd alwad o'r Taihirion. Urddwyd ef, fel y nodasom, Chwefror 20fed, 1840. Ymroddodd a'i holl egni i fod yn weinidog da i Iesu Grist, ac ennillodd serch yr aelodau a'r gwrandawyr yn y Taihirion a Bethlehem; ond gwelodd yr Arglwydd yn dda beri i'w haul fachludo a hi etto yn ddydd. Gwaelodd ei iechyd, ac ar ol ychydig gystudd bu farw Mawrth 6fed, 1842, yn 27 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent y Groeswen. Gosododd pobl ei ofal golofn hardd ar ei fedd, ac y mae y penill canlynol yn gerfiedig arni:—

"Na wylwch ddim, na fyddwch drist,
Am neb sydd wedi huno'n Nghrist;
'Does yma ond y corph o glai,
Mae'r enaid fry yn llawenhau."

Dyn bychan a gwanaidd o gorph oedd Lemuel Smith. Yr oedd yn bregethwr rhyfeddol o ddoniol, ac y mae yn dra thebyg y buasai yn boblogaidd a defnyddiol pe cawsai estyniad oes. Ond gan mai ewyllys yr Arglwydd oedd ei alw ato ei hun yn mlodeu ei ddyddiau, ein lle ni yw myned yn fud a pheidio agoryd ein genau.

## EFAILISAF.

Bu y diweddar Mr. Walter Thomas, am yr hwn y crybwyllasom eisioes fwy nag unwaith, yn byw yn yr ardal hon, a phregethai yn aml yn ei dŷ ei hun; lle hefyd y pregethwyd gan Meistri G. Hughes, Groeswen; D. Jones, Taihirion, ac eraill; ond ni wnaed un cynyg am sefydlu achos yma cyn 1841. Yn y flwyddyn hono y symudodd Phillip Williams a'i deulu, o Bontypridd i'r ardal hon; ac yr oedd William Lewis, yr hwn oedd yn ddiacon yn Taihirion, yn byw eisioes yn yr ardal, ac yn awyddus iawn am gychwyn achos yn y lle. Ymgynghorodd Phillip Williams ac yntau a'u gilydd, a rhoddasant y peth ger bron yr eglwysi yn Taihirion a Phentyrch, a cher bron Mr. Lemuel Smith, y gweinidog ar y pryd, a chafwyd cefnogaeth i fyned yn mlaen. Dechreuwyd mewn ystafell yn Awst, 1841, a buan y gwelwyd fod yn rhaid cael capel. Cafwyd darn o dir gan Thomas Phillips, Ysw., Ysguborfawr, St. Ffagan, ar brydles o 999 o flynyddau, am yr ardreth o ddeg swllt y flwyddyn, ac y mae yn cynwys lle at fynwent fechan. Dechreuwyd adeiladu yn 1842, ond cyn cwblhau yr adeilad bu farw Mr.

Digitized by Google

L. Smith, yr hyn oedd yn golled fawr i'r achos yn ei wendid. Agorwyd y capel yn 1843, a galwyd ef yn Tabernacl. Ychydig cyn agor y capel, cymerwyd gofal yr eglwys ieuangc gan Mr. L. Lawrence, Llantrisant, a pharhaodd i lafurio yma gyda gradd o lwyddiant hyd ei symudiad i Adulam, Merthyr. Daeth un Griffith Lewis, yma o'r Groeswen, yr hwn o herwydd ei wres a thanbeidrwydd ei ysbryd a fu o gynorthwy mawr i'r achos. Un o'r rhai cyntaf a dderbyniwyd yma oedd William Evans—diacon yn bresenol yn Trehafod, a'i wraig; ac nid oes yn aros ond hwy ill dau o'r rhai fu a llaw yn nghychwyniad yr achos. Symudodd Phillip Williams a'i deulu i'r Cymar, a symudodd drachefn i Drehafod a'r gychwyniad yr achos yno, a bu yn ddiacon ffyddlon yn y lle hyd ei farwolaeth. Claddwyd ef wrth gapel yr Efailisaf, Rhagfyr 21ain, 1868; ac yn mhen y mis i'r un diwrnod ar ei ol ef, claddwyd William Lewis yn yr un lle. Teithiasant lawer yn nghyd i dŷ yr Arglwydd, a gweithiasant lawer yn nghyd gyda'r achos, ac y maent yn gorphwys yn nghyd yn y pentwr. Yr oedd William Lewis yn ddiacon yma er ffurfiad yr eglwys. Meddai ar synwyr cryf—parabl rhwydd—cof da—ysbryd bywiog—a thymer heddychlon. Bu ei dŷ yn agored i lettya pregethwyr am flynyddoedd a hyny yn rhad. Magodd wyth o blant, ac y mae amryw o honynt yn aelodau yn y lle.* Yn mhen deng mlynedd wedi ei agoriad, ad-drefnwyd y capel oddifewn, a rhoddwyd seddau ynddo, a chynaliwyd cyfarfodydd ei ail agoriad Ebrill 12fed a'r 13eg, 1854. Yn 1851, rhoddodd yr eglwys hon, mewn cysylltiad a'r eglwys yn Taihirion, alwad i Mr. John Davies, a chynaliwyd cyfarfodydd ei urddiad yn y ddau le y dyddiau cyntaf o Hydref y flwyddyn hono, ac y mae Mr. Davies wedi parhau i lafurio yma bellach am fwy nag ugain mlynedd. Nid oedd nifer yr aelodau yma ar sefydliad Mr. Davies ond 25, ond cynyddasant yn raddol, ac aeth y gynnulleidfa yn ormod i'r hen gapel, ac yn niwedd 1869 a dechreu 1870, adeiladwyd yr addoldy helaeth a hardd presenol. Agorwyd ef Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd, 1870, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. Williams, Troedrhiwdalar; T. Davies, Treforis; J. M. Evans, a J. Davies, Caerdydd; J. Mathews, Castellnedd; W. E. Jones, Treforis; J. Evans, Maendy; T. Rees, D.D., Abertawy; E. James, Llanaelhaiarn, a J. Thomas, Liverpool. Cynlluniwyd y capel gan Mr. T. Thomas, Glandwr, a chostiodd 830p., heb gyfrif y cludiad; ac nid oes ond 470p. o'r ddyled yn aros. Mae golwg galonog ar yr achos yn y lle—yr Ysgol Sabbothol yn lluosog, a'r eglwys yn haelionus a gweithgar.

## BRONLLWYN.

Mae y capel yma yn ymyl pentref Pentyrch. Sefydlwyd yr achos yn benaf trwy offerynoliaeth Mr. Davies, Taihirion. Er ei sefydliad yn yr ardal yr oedd ei lygaid ar gychwyn achos yma. Pregethid, a chynhelid cyfarfodydd gweddio, a chyfeillachau yn achlysurol ar gylch yn nhai yr aelodau oedd yn perthyn i'r gwahanol eglwysi yn yr amgylchoedd, a chafwyd digon o brofion yn fuan y dylesid codi capel yn y lle. Sicrhawyd tir at gapel a lle claddu gan y diweddar Arglwydd Dynefor. Ar y Sabboth olaf yn mis Medi, 1858, aed i'r capel am y waith gyntaf. Pregeth-

* Llythyr Mr. Davies, Taihirion.

Digitized by Google

wyd gan Meistri J. Evans, Maendy, a J. Davies, Taihirion, ac eisteddwyd wrth fwrdd yr Arglwydd i gofio angau Crist. Gofynwyd am enwau y rhai oeddynt yn bwriadu uno a'r achos yn y lle, a chafwyd ugain o aelodau cyflawn, a derbyniwyd tri hefyd oedd yn y gyfeillach yn Taihirion ond heb eu derbyn yn gyflawn aelodau. Yr oedd dau o'r ugain o Lansantffraid, dau o Bethlehem, Pentyrch, pedwar o'r Efailisaf, a deuddeg o'r Taihirion. Cynhaliwyd cyfarfodydd yr agoriad yr ail wythnos yn Hydref, 1858, ac yn mhen yr wyth mlynedd cadwyd jubili i lawenhau fod y ddyled wedi ei thalu. Ond yn anffodus gwelwyd erbyn hyny fod y *dry rot* yn bwyta llawr y capel i fyny, fel yr oedd yn rhaid ail ymafael o ddifrif er cael arian i'w ail wneyd; ac yr oedd hyny yn gryn anturiaeth gan fod masnach yr ardal wedi gwaethygu yn fawr; a'r eglwys trwy ymadawiadau wedi lleihau yn fawr yn ei nifer. Ond ymwrolwyd at y gwaith. Gwelwyd y byddai y draul yn fwy na phum' cant o bunau; ond cymerodd Mr. Davies, y gweinidog, gyfrifoldeb yr haner, fel y rhoddodd hyny galon yn yr eglwys i ymgymeryd a'r haner arall. Agorwyd y capel y dyddiau cyntaf yn Mai, 1871. Nid oes ond saith yn aros o'r rhai oedd yma yn cychwyn yr achos. Bu farw chwech, symudodd pedwar o'r ardal, a gwrthgiliodd tri. O'r rhai a fuont feirw yr oedd dau yn nodedig am eu ffyddlondeb, eu gweithgarwch, a phurdeb eu cymeriad, sef Lewis Lewis, Pentyrch, a William Thomas, un genedigol o sir Benfro. Cyfodwyd yma un pregethwr, sef Job Miles, yr hwn a addysgwyd yn athrofa Aberhonddu, ac sydd yn awr yn weinidog yn Bethesda, Merthyr.

## LLANSANTFFRAID-AR-LAI.

Yr hyn a achlysurodd ddechreuad yr achos hwn, fel y nodasom yn hanes Taihirion, oedd i'r eglwys yn y lle hwnw wrthod rhoddi galwad i Benjamin Morgan. Penderfynodd tua phedwar-ar-ddeg o'r aelodau er hyny gael B. Morgan yn weinidog iddynt, ac i'r dyben hwnw adeiladasant gapel bychan yn mhentref Llansantffraid. Agorwyd y capel ar y dydd cyntaf o Fai, 1834, ac ar yr un dydd urddwyd B. Morgan yn weinidog y lle. Nid oedd un gweinidog yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth ond Mr. W. James, Caerdydd, a Mr. David Thomas, Llanfaches. Cafwyd arian at adeiladu y capel gan Mr. Edward Llewellyn, Tynewydd, yr hwn oedd yn aelod yn y Taihirion. Yn y flwyddyn 1838, rhoddwyd yr eglwys yn rhydd o'r ddyled gan Mr. E. Turberville Llewellyn, ac felly, cafodd y frawdoliaeth fechan ei chapel yn ddiddyled yn dra buan. Er siomedigaeth i'w bleidwyr aeth B. Morgan yn rhy anheilwng ei fuchedd yn mhen tua blwyddyn a haner ar ol ei urddiad i gael ei oddef yn weinidog nac yn aelod eglwysig. Wedi ei ddiarddeliad ef, rhoddodd yr eglwys ei hun o dan ofal Mr. John Lewis, Taihirion, a bu dan ei ofal ef a Mr. Daniel Jones, Tresimwn, hyd y flwyddyn 1838, pryd y cymerwyd ei gofal gan Mr. David Davies, Taihirion. Bu Mr. Davies yn weinidog yma hyd 1848, pan y rhoddodd ei ofal i fyny wrth ymgymeryd a gofal yr eglwys Gymreig yn Nghaerodor. Yn y flwyddyn 1850, rhoddwyd galwad i Mr. Benjamin Lewis, mewn cysylltiad a Zoar, Llanfabon. Bu y lle dan ei ofal ef nes iddo ymfudo i'r America yn 1852. Wedi hyny buwyd yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol hyd 1854, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. William Russell, mewn cysylltiad a'r Eglwysnewydd. Bu Mr. Russell yn llafurio

Digitized by Google

yma gyda chymeradwyaeth nodedig hyd fis Medi, 1857, pan yr analluogwyd ef gan gystudd. Yn y cystudd hwnw collodd ei lafar, ac y mae o'r pryd hwnw hyd yn awr yn fud. Dilynwyd Mr. Russell yma, ac yn yr Eglwysnewydd, gan Mr. John Lloyd James, o athrofa Caerfyrddin. Urddwyd Mr. James yn Chwefror, 1860, a bu yn llafurio yn ddiwyd yn y cylch hwn hyd 1869, pryd y symudodd i Dowlais i gymeryd gofal yr eglwys Saesonig yno. Nid oes un gweinidog sefydlog wedi bod yma er pan yr ymadawodd Mr. James. Eglwys a chynnulleidfa fechan o angenrheidrwydd sydd ymagan nad yw poblogaeth yr ardal ond teneu. Yn ddiweddar prynwyd darn o dir yn ymyl y capel at gladdu y meirw. Costiodd 65p., ac y mae y cyfeillion yn awr yn ymegnio i dalu y ddyled hon.

## BETHLEHEM, PENTYRCH.

Yr oedd amryw o aelodau yr eglwys yn y Taihirion yn byw yn ymyl gwaith haiarn Pentyrch, ac yn cadw cyfarfodydd gweddio, Ysgol Sabbothol, cyfeillachau crefyddol, a phregethu achlysurol, mewn anedd-dai er y flwyddyn 1820, os nad cyn hyny; ond gan nad oeddynt dros o ddeuddeg i bymtheg o rif, ni buont yn ddigon anturiaethus i adeiladu capel hyd tua y flwyddyn 1831 neu 1832. Y pryd hwnw adeiladwyd capel bychan, yr hwn a alwyd Bethlehem, a chafodd pedwar-ar-ddeg o aelodau ollyngdod o'r Taihirion i ddyfod yma i ymffurfio yn eglwys. Darfu i rai o aelodau y Groeswen, a gyfaneddent yn yr ardal, ymuno a hwy. Mr. David Jones oedd y gweinidog yma, mewn cysylltiad a'r Taihirion, ond yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi agoriad y capel, darfu ei gysylltiad ef a'r ddau le, a symudodd i ardal Abertawy, ac yn fuan wedi hyny cymerodd ofal yr eglwys yn Nghlydach. Dilynwyd ef yn y Taihirion a Bethlehem gan Mr. John Lewis, yn nechreu y flwyddyn 1834, a bu yma hyd ddechreu 1837. Yn niwedd yr un flwyddyn, urddwyd Mr. David Davies, i fod yn weinidog yn y Taihirion ac yma, ond darfu ei gysylltiad ef a'r ddau le yn gynar yn y flwyddyn 1838. Wedi hyny buwyd yn agos ddwy flynedd yn byw ar weinidogaeth achlysurol. Yn nechreu 1840, urddwyd Mr. Lemuel Smith i weinidogaethu yn y Taihirion a Bethlehem. Wedi dwy flynedd o lafur llwyddianus bu farw y gweinidog ieuangc a gobeithiol hwn. Wedi marwolaeth Mr. Smith, rhoddodd eglwys Bethlehem ei hun dan ofal Mr. John Jones, mewn cysylltiad a'r Rhydri, a than ei ofal ef y mae wedi bod er's deng-mlynedd-ar-hugain bellach, a'r achos wedi ychwanegu nerth mawr yn nhymor ei weinidogaeth. Cafodd y capel ei helaethu ddwywaith yn y tymor hwn, ac y mae yma fwriad yn bresenol i adeiladu capel newydd helaethach a phrydferthach. Mae yma yn awr eglwys gymharol luosog a chref iawn, wrth ystyried fod eglwysi o'r un enwad yn agos iddi yn mhob cyfeiriad. Nid ydym yn gwybod am ddim nodedig a gymerodd le yn hanes yr eglwys hon amgen nag iddi gael ei bendithio a mesur helaeth o'r adfywiad grymus a deimlwyd yn y rhan fwyaf o eglwysi Cymru yn 1859, a'r flwyddyn ganlynol.

Cafodd y personau canlynol eu cyfodi i bregethu yma:—

Daniel John Rees. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1834, ac yn fuan wedi hyny ymfudodd i America. Nid ydym yn gwybod ychwaneg o'i hanes.

Digitized by Google

William Russell. Dechreuodd yntau bregethu yn 1834. Urddwyd ef yn yr Eglwysnewydd a Llansantffraid-ar-lai.

William Rees. Dechreuodd bregethu yn 1853, ac yn fuan wedi hyny ymfudodd i'r America.

Joseph Millward a ddechreuodd bregethu yn 1858, ac y mae yma etto yn bregethwr cynorthwyol defnyddiol a chymeradwy.

David Jones, mab Mr. Jones, y gweinidog. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac y mae yn awr yn weinidog yn Nghwmrhos a Thretwr, Brycheiniog.

John Evans a ddechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1866. Bu am ychydig amser ar ei draul ei hun yn athrofa y Bala, ac ymfudodd oddi yno i'r America.

## BETHESDA, TONGWYNLAS.

Cangen yw yr eglwys hon o Bethlehem, Pentyrch, a than yr un weinidogaeth a'r fam-eglwys y mae wedi bod o ddechreuad yr achos hyd yn bresenol. Yr oedd amryw o aelodau Bethlehem yn cyfaneddu yn mhentref Tongwynlas, ac mewn canlyniad i'r adfywiad yn 1859, lluosogodd eu rhif i gymaint o raddau fel y teimlasant awydd am ddechreu achos yma. Cymerasant ystafell gyfleus at gynal moddion crefyddol yn 1859. Buont yn addoli yno hyd Mehefin, 1861, pryd yr agorwyd y capel. Mae y capel yn un helaeth, hardd, a chyfleus. Yr oedd golwg ryfeddol o obeithiol yma y pryd hwnw, ond yn fuan wedi hyny aeth masnach yr ardal yn farwaidd, fel y gwasgarwyd llawer o'r aelodau o'r gymydogaeth. Lled wan yw yr eglwys yn bresenol, ac nid yw y gwrandawyr ond ychydig mewn cymhariaeth. Mae yn sicr pe cedwid y gwasanaeth yn unig yn yr iaith Saesonig y byddai y gynnulleidfa yn llawer lluosocach, gan fod y rhan fwyaf o ieuengctyd yr ardal yn hoffach o'r iaith Saesonig nag o'r Gymraeg.

Y pregethwyr a gyfodwyd yma ydynt, Methusalem Jones, mab Mr. Jones, y gweinidog, yr hwn sydd yn awr yn weinidog yr eglwysi yn Nhrehafod, a'r Tynewydd, Cwmrhondda, a T. R. Jenkins, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn 1871, ac sydd yn awr dan ofal Dr. Pan Jones, Mostyn, yn parotoi gyferbyn a myned i athrofa.

## SOAR, ABERDAR.

Nifer o bobl a ymneillduasant o eglwys y Wesleyaid Cymreig a ddechreuasant yr achos hwn yn y flwyddyn 1852. Prif gynorthwywr yr eglwys hon oddiar ei ffurfiad cyntaf hyd yn bresenol, yw David Davies, Ysw., Maesyffynon. Y gweinidog cyntaf yma oedd Mr. William Jones, yn awr o Elim, Tredegar. Bu Mr. Jones yn gofalu am yr arch yma tra y bu yn trigo mewn pabell, ond wedi adeiladu y capel yn 1858, gan nas gallasai wasanaethu y lle hwn a Thredegar yn effeithiol, rhoddwyd galwad i Mr. Stephen Davies, myfyriwr yn athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef yma yn 1858. Parhaodd Mr. Davies yn ei gysylltiad bugeiliol a'r eglwys hon nes iddo yn ngwanwyn y flwyddyn 1866, dderbyn galwad o Peniel, sir Gaerfyrddin, a symud yno. Ar ol ei ymadawiad ef bu yr eglwys am yn

agos i flwyddyn yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol. Yn nechreu y flwyddyn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. John Davies, Pontygof, Mynwy, a'r hon y cydsyniodd, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Mawrth, y flwyddyn hono. Mae Mr. Davies yn parhau i lenwi ei gylch yn effeithiol yma, ac yr ydym yn hyderu fod blynyddoedd lawer o ddefnyddioldeb yn ei aros yn y lle hwn.

Nid yw yr eglwys hon yn lluosog iawn, ond y mae yn un ragorol o weithgar yn ol ei rhif. Mae y capel yn adeilad hardd, yn cynwys tua chwe' chant o eisteddleoedd, ac agos yn rhydd o ddyled.

Yr unig un, cyn belled ag y gwyddom ni, a gyfodwyd yma i bregethu, ydyw Mr. Evan Evans, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Mhenderyn, Brycheiniog.

## MORIAH-AMMAN, ABERDAR.

Trwy lafur Mr. J. Davies, Caerdydd, pan yr oedd yn weinidog yn Aberaman, y dechreuwyd yr achos yn y lle hwn. Dechreuwyd adeiladu y capel yn 1855, ac agorwyd ef Hydref 2il, y flwyddyn hono. Cafodd tua saith-ar-hugain o aelodau ollyngdod o Aberaman i ddyfod yma i ddechreu achos, a derbyniwyd amryw o newydd, fel yr oedd yma 33 ar ffurfiad yr eglwys. Bu Mr. Davies yn weinidog iddynt hyd ddiwedd y flwyddyn 1858, pryd y cydunodd ef a hwythau i roddi galwad i Mr. John Rees, o athrofa y Bala, ac urddwyd ef yma Ionawr 5ed a'r 6ed, 1859. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Edwards, Aberdar; holwyd y gofyniadau gan Mr. T. Llewellyn, Mountain Ash; dyrchafwyd yr urddweddi gan Mr. T. Rees, Cendl; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. B. Williams, Gwernllwyn, Dowlais, ac i'r eglwys gan Mr. D. Stephens, Glantaf.* Bu Mr. Rees yn llafurus a llwyddianus iawn yma hyd y flwyddyn 1866, pryd y symudodd i Dreherbert. Derbyniodd amryw ugeiniau o aelodau yn nhymor ei weinidogaeth; helaethwyd y capel, a thalwyd llawer o'r ddyled. Mae yma gapel helaeth a chyfleus. Yn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. John Evans, o athrofa Caerfyrddin, ac urddwyd ef yma Awst 28ain, yn y flwyddyn hono. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri J. Davies, Cwmaman; W. Morgan, Caerfyrddin; E. A. Jones, Llangadog; W. E. Evans, Capel Seion, a'r rhan fwyaf o weinidogion Aberdar. Mae Mr. Evans yn parhau i lafurio yma hyd yn bresenol, ac yr ydym yn hyderu y bydd yma yn llwyddianus am flynyddau etto.

Nid ydym yn gwybod am neb a gyfodwyd yma i bregethu ond Mr. W. Meurig Rees, yr hwn sydd yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

## HIRWAUN, (SAESONIG).

Yn y flwyddyn 1864, darfu i D. E. Williams, Ysw.; Mr. W. Williams, ac eraill o aelodau yr eglwys yn Nebo, gyda chydsyniad siriolaf eu gweinidog, Mr. W. Williams, gymeryd ystafell at gynal gwasanaeth crefyddol yn yr iaith Saesonig, a ffurfiwyd hwy yn eglwys Annibynol Chwefror 21ain, yn y flwyddyn rag-grybwylledig. Wedi bod am rai misoedd yn addoli yn yr ystafell hon, bu raid iddynt ei rhoddi i fyny gan fod galwad

*Diwygiwr, 1859. Tu dal. 61.

Digitized by Google

am dani at wasanaeth arall. Yna cymerasant ystafell arall yn agos i'r London Warehouse. Yr oedd rhif yr aelodau erbyn hyn yn ddeuddeg. Gan fod rhai o honynt yn ddynion cyfoethog, a phob un o honynt yn weithgar a haelionus yn ol ei allu, dygent dreuliau yr achos yn ddidrafferth, a pharhausant hefyd, mewn ychwanegiad at hyny, i gyfranu at gynal y weinidogaeth yn Nebo nes iddynt gael gweinidog iddynt eu hunain. Aeth yr ystafell yn ymyl y London Warehouse yn rhy fechan i gynwys y gwrandawyr ar ol iddynt fod yno tua deuddeg mis. Wedi hyny cawsant y *British School-room* at eu gwasanaeth, ac yno y buont yn addoli nes cael y capel yn barod. Yn 1866, rhoddwyd galwad i Mr. Daniel Jones, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 28ain. Gweinyddwyd yn nghyfarfodydd yr urddiad gan y Proffeswr Morris, o athrofa Aberhonddu; Dr. Rees, Abertawy; Mr. J. Davies, Caerdydd, a Mr. D. Jones, B.A., Merthyr. Gan nad oedd y capel newydd yn barod, cynaliwyd y cyfarfodydd yn Nebo. Rhagfyr 16eg, yn yr un flwyddyn, agorwyd y capel newydd, pryd y pregethodd Dr. Rees, Abertawy, a Mr. Ll. D. Bevan, LL.B., Llundain. Cynaliwyd rhes o gyfarfodydd agoriadol ar ol hyn, yn y diweddaf o ba rai y pregethodd Proffeswr Morris, a Mr. D. Jones, B.A. Mae y capel a'r ysgoldy cysylltiedig ag ef yn adeiladau ardderchog, o gynlluniad Mr. Thomas, Glandwr. Cynwysa y capel dri chant o eisteddleoedd. Traul yr adeiladaeth oedd 1200p. Casglwyd 573p. o'r swm hwn erbyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad. Rhoddodd Mr. Daniel Jones ei ofal gweinidogaethol i fyny yma Hydref 10fed, 1868. Er y pryd hwnw nid oes yma un gweinidog sefydlog wedi bod, ond yr ydym yn deall fod Mr. Joseph Joseph, o athrofa Aberhonddu, yn debyg o ymsefydlu yma yn mheu ychydig fisoedd. Mae yma olwg obeithiol iawn ar yr achos; yr aelodau tua deugain o rif, a'r gwrandawyr yn lluosog.

Yn 1870, gan fod 630p. o ddyled yn aros ar y capel, penderfynodd y frawdoliaeth wneyd un ymdrech egniol i dalu y cwbl ar un waith. Mr. D. E. Williams, yn gydweddol a'i haelioni arferol, a addawodd 300p. at y 150p. oedd wedi gyfranu o'r blaen, ac addawodd Mr. W. Williams 200p. at yr 50p. oedd yntau wedi ei gyfranu yn flaenorol. Ymrwymodd pump o frodyr eraill, sef Meistri E. J. Evans, D. J. Davies, J. E. George, E. Watkins, ac S. Picton, i gasglu y 150p. gweddill, ac felly talwyd y cwbl, fel y mae y lle yn awr yn ddiddyled. Mae yr eglwys ieuangc hon mor rhagorol am ei gweithgarwch a'i haelioni ag un eglwys yn y Dywysogaeth. Yr ydym yn gweled yn hanes yr achos hwn y fath fraint yw cael ychydig bersonau gweithgar, eang eu meddyliau, a llawn o sel dros achos yr Arglwydd, i gymeryd rhan flaenllaw gyda yr achos. Os ca Mr. Joseph ar ei feddwl i ymsefydlu yma, yr ydym yn dra hyderus y bydd ef yn fendith i'r lle, a'r bobl yn gysur mawr iddo yntau. Mae pob tebygolrwydd y bydd i'r boblogaeth gynyddu yma yn fuan, ac y bydd y lle yn un nodedig o bwysig.

## PORTHYCAWL.

Gan fod masnach fawr a chynyddol yn cael ei dwyn yn mlaen yn y lle hwn, ac argoelion y bydd yma lawer o filoedd o drigolion yn mhen ychydig flynyddau, a bod llawer o'r trigolion presenol, yn enwedig yr ieuengctyd, yn fwy hoff o'r Saesoneg nag o'r Gymraeg, barnodd Mr. Davies, Caerdydd, ar ol ymgynghori a Mr. Isaac Jones, gweinidog yr eglwys yn y Dref-

Digitized by Google

newydd, fod y lle yn un cyfaddas iawn i ddechreu achos Annibynol Saesonig ynddo, a chymeradwyodd yr ardal i sylw S. Morley, Ysw., A.S., fel lle addas iddo ef osod allan ran o'r pum' mil punau a addawsai at adeiladu capeli Saesonig yn Neheudir Cymru. Dechreuwyd adeiladu y capel yn Mehefin 1870, ond ni chafodd ei lwyr orphen cyn diwedd y flwyddyn 1871. Ar y Sul, Chwefror 18fed, 1872, y cynaliwyd y gwasanaeth crefyddol cyntaf yn yr adeilad newydd, pryd y pregethodd Mr. W. Jones, Heolycastell, Abertawy, y boreu a'r hwyr i gynnulleidfaoedd lluosog. Y ddau Sabboth canlynol pregethodd Mr. J. L. Phillips, Castellnedd, a Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont. Mawrth 18fed, 1872, corpholwyd yma eglwys o ddeg o aelodau. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri I. Jones, Drefnewydd, a J. B. Jones, B.A., Penybont. Yr ydym yn deall yn awr fod pump eraill wedi eu hychwanegu at yr eglwys fechan fel y mae rhif yr aelodau yn bresenol yn bymtheg. Ar ffurfiad yr eglwys rhoddwyd galwad i Mr. Watkin Joseph, gweinidog ieuangc parchus yn nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd, a dechreuodd ei lafur yma fel gweinidog Annibynol Ebrill 7fed, 1872, ac ar yr 16eg o'r un mis cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad. Pregethodd Meistri J. B. Jones, B.A., ar natur eglwys; T. Rees, D.D., Abertawy, ar ddyledswydd y gweinidog, a B. Williams, Canaan, ar ddyledswydd yr eglwys; pregethwyd hefyd yn ystod y dydd gan Mr. Thomas, Glandwr, a Mr. Davies, Maesteg. Mae yma arwyddion tra gobeithiol am achos cryf a llwyddianus gydag amser. Mae y capel yn sefyll mewn man cyfleus iawn, ac yn adeilad prydferth dros ben, o gynlluniad Mr. Thomas, Glandwr. Traul yr adeiladaeth oedd 500p., ac y mae tua 200p. o'r swm yma wedi eu talu yn barod, a diau nad erys y gweddill yn hir i fod yn faich ar neb.

## Y GROESWEN.

Yr oedd plwyf Eglwysilan wedi bod yn artrefle Ymneillduaeth am genhedlaethau cyn dechreu yr achos yn y Groeswen. Yn 1669, yr oedd gwasanaeth crefyddol yn cael ei gadw yn anedd-dai Watkin John Thomas, Jenkin Thomas, a William Rees, saermaen, a'r Meistri Thomas Quarrell, a John Powell yn pregethu ynddynt; ac yn 1672, ar y 10fed o Awst, cyfododd William John, o blwyf Eglwysilan, a William Rowland, o blwyf Llanfabon, drwyddedau ar eu tai at bregethu ynddynt gan weinidogion yr Annibynwyr.* Y mae yn ymddangos mai parhad o'r achos yn yr anedd-dai hyn oedd yr eglwys Ymneillduol yn y Watford, ac y mae yn sicr fod llawer o Ymneillduwyr yn wasgaredig ar hyd plwyf Eglwysilan, a'r plwyfydd cymydogaethol, dan ofal gweinidogaethol Mr. David Williams, Pwllypant, yn y flwyddyn 1734, os nad cyn hyny. Yn 1738, a'r flwyddyn ganlynol, ysgrifenodd Mr. Williams amryw lythyrau at Mr. Howell Harries, Trefecca, yr hwn oedd yn awr yn dechreu ymgodi i sylw fel diwygiwr crefyddol, i'w wahodd i'w ardal ef i bregethu. Cydsyniodd Mr. Harries a'r cais; talodd ymweliadau mynych a'r ardal, a bu yn foddion i ennill llawer o eneidiau yma, ac i adfywio y rhai oeddynt yn proffesu crefydd cyn ei ymweliad a'r lle. Ond ni bu ei ymweliadau yn ddaioni hollol ddigymysg. Trwy ei ddylanwad ef, a'r offeiriaid Methodistaidd,

* *The Lambeth MSS. and the State papers for the year* 1672.

lefeiniwyd amryw o'r Ymneillduwyr a'r elfen Fethodistaidd ac Eglwysig, ac yn raddol trodd Mr. Williams a'r Ymneillduwyr mwyaf selog yn wrthwynebol iddynt, ac o ychydig i ychydig aethant yn ddwy blaid hollol wahanedig. Yn 1742, adeiladwyd capel bychan ar ben y Groeswen, ar gŵr cae a elwid y Waenfach, fel cangen o'r Watford, mae yn dra thebyg. Ond yn mhen ychydig amser aeth y bobl a gynnullent yno yn rhy Fethodistaidd i bobl y Watford a'u gweinidog allu cyd-dynu a hwy, ac felly buont am rai blynyddau yn ymgyfeillachu mwy a'r Methodistiaid nag a'r Annibynwyr, ond ni buont ar un adeg o'u hanes yn Fethodistiaid hollol, a chamgymeriad yw yr haeriad mai gan y Methodistiaid yr adeiladwyd capel y Groeswen, oblegid yr oedd wedi cael ei adeiladu cyn i'r Methodistiaid ymffurfio yn Gorph. Amseriad gweithred y capel yw Mehefin 2il, 1742, ac enwau yr ymddiriedolwyr yw Thomas Price, (yr ynad Price o'r Watford mae yn debyg); William Morgan, ac Evan Thomas. Yn y weithred hon sierheir y tir i'r gynnulleidfa am 999 o flynyddau, am un bybyren yn y flwyddyn, i'w thalu bob gwyl Fihangel. Y mae yn ymddangos fod yma gynnulleidfa dra lluosog a nodedig o wresog o'r dechreuad. Ffurfiwyd yma gymdeithas eglwysig yn ol cynllun Mr. Howell Harries, a bu am dymor yn cael ei hystyried fel cymdeithas o Fethodistiaid, yn ol yr ystyr a roddid i'r gair Methodistiaid y pryd hwnw. Nid oedd cymdeithasau Howell Harries ar y cyntaf yn cael eu hystyried yn perthyn i un enwad mwy na'r llall, ond gwnelid hwy i fyny o bersonau o bob enwad yn ddiwahaniaeth a broffesent ymlyniad wrth olygiadau efengylaidd. Yr ydym yn cael fod Edmund Jones, Pontypool; Henry Davies, Blaengwrach; David Williams, Pwllypant, a gweinidogion Ymneillduol eraill, yn talu ymweliadau gweinidogaethol a'r cymdeithasau hyn mewn gwahanol gymydogaethau, er addysgu a chadarnhau y dysgyblion ieuaingc yn y ffydd; ond yn lled fuan wedi i Rowlands, Llangeitho, ac offeiriaid eraill, ymuno a Harries, aeth y diwygiad crefyddol a flaenorid ganddo ef i wisgo gwedd fwy enwadol. Amcenid gwneyd y cymdeithasau crefyddol yn ganghenau o'r Eglwys Sefydledig, ac argymellid yr aelodau oll i fyned i'r Eglwys Plwyfol i gymuno. Llwyddwyd i gael amryw o honynt i wneyd hyny, ond gwrthododd eraill, ac yn eu mysg y rhan fwyaf o aelodau y Groeswen. Ar ol bod yn cynal moddion crefyddol yn eu capel newydd am ychydig dros ddwy flynedd teimlai y frawdoliaeth awydd am gael gweinidogion urddedig i weinyddu yr ordinhadau iddynt. Yr oedd yn eu plith bump o bregethwyr, sef Thomas Price, yr ynad; William Edwards, Thomas Williams, John Belcher, ac Evan Thomas. Anfonodd y brodyr hyn y llythyr canlynol at Gymdeithasfa y Methodistiaid yn Nghaio, sir Gaerfyrddin:—

*At yr anwyl frodyr yn gyffredinol, a'r gweinidogion yn neillduol, cynnulledig yn Nghaio, anfon anerch.*

Gras fyddo gyda chwi oll, Amen. Yr ydym yn credu am danoch mai rhai ydych sydd anwyl gan Dduw, a bod Duw yn anwyl genych chwithau, a'ch bod mewn modd neillduol wedi cael eich galw gan Dduw i waith y weinidogaeth, a bod achos Duw yn agos atoch, ac yn pwyso ar eich ysbrydoedd; a'ch bod wedi cael adnabyddiaeth helaeth o'i ewyllys, ac o herwydd hyny angenrhaid a osodwyd arnom i ddanfon atoch fel y rhai a dderbyniodd y gras o gydymdeimlad a ni, ac amryw eraill sydd yr amser hwn mewn llawer o gaethiwed, o herwydd yr annhrefn sydd yn ein plith. Mae ein cydwybodau wedi eu rhwymo gan air Duw, fel nas gallwn

Digitized by Google

barhau fel hyn allan o drefn Duw. Canys gweled yr ydym fod Duw wedi gosod trefn yn ei eglwys, er y dechreuad, yr hon sydd i barhau hyd y diwedd. Ni a dybygem mai eich dyledswydd chwi yw cydymdeimlo a ni yn yr achos mawr hwn; canys chwi a fuoch yn anogaeth i ni i fyned dros Dduw allan o drefn; ac er dim a wyddom ni fe'n llwyddodd Duw ni mewn mesur; ac a fydd i chwi, fel goruchwylwyr da yn nhy Dduw, ymegnio i ddwyn y gwaith mawr hwn yn y blaen i drefn? Mae yn anhebygol iawn i un corph o bobl erioed barhau fel hyn dros ei holl amser. Yr ym ni yn disgwyl am gael eich meddyliau chwi yn yr achos hwn, yn agos er ys dwy flynedd, ac nid ym ni yn gweled dim argoel eich bod wedi pwyso y mater hwn fel y dylasai gael; ond yr ym yn ofni fod gormod o ragfarnau yn eich dygiad i fyny yn nglyn wrthych. Ein meddwl yw eich bod yn ormod yn nglyn wrth yr Eglwys Sefydledig. Yr ydym yn gweled pe bai chwi yn cael eich ordeinio yn Eglwys Loegr, fel ag yr ydych yn disgwyl, na byddai hyny ddim yn ddigon i wneuthur yn esmwyth amrywiol o frodyr a chwiorydd yn y wlad; canys eisiau sydd arnynt gael rhai i weinidogaethu y gair a'r ordinhadau iddynt yn ei bryd; ac i edrych drostynt fel bugail dros y praidd, ac y byddai raid i ni gael ein hatal, neu fod fel ag yr ydym, yr hyn beth nis gallwn feddwl ar ei wneuthur. Yr ydym wedi rhoddi ein hachos yn llaw Duw, gan obeithio, os na fydd i chwi dosturio wrthym, y bydd i Dduw agor ffordd i ni gael gwell trefn. O frodyr, y mae yn dost genym glywed nad oes genych ddim rhyddid i ni gynghori o herwydd nad ydym wedi ein hordeinio, ac nad ydych gan belled ag y gallwn ni weled, yn gofalu pa un a gaffom ni ein hordeinio ai peidio. Os na fydd i chwi gydymdeimlo a ni yr ydym yn gweled fod galwad i ni droi ein golygon ryw ffordd arall; a Duw fyddo yn gyfarwyddwr i ni. Yr ydym yn cyfaddef mai eich llafur chwi ydym, ac y mae yn dost genym orfod ymadael a chwi, a rhoi lle i eraill, ddyfod i mewn i'ch llafur chwi; etto yr ydym yn rhwym i dori trwy bob anhawsdra, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu a chydwybod dda. Ac nid ydym yn gwneuthur hyn mewn byrbwylldra, ond gan ei ystyried yn ddwys ac yn ddifrifol;—ac fel y mae yn cael ei ystyried, y mae yn dyfod yn nes attom, fel ag y mae yn anhawdd ei ddyoddef. Un achos pa ham y mae ein cydwybodau mor gaethiwus yw, o herwydd fod trefn o arddodiad dwylaw yn cael ei arfer yr amser gynt (sef amser yr apostolion) ar bob math ag oedd yn gweinidogaethu y gair: nid yn unig yr esgobion, a'r henuriaid, ond hefyd y diaconiaid, fel y gellwch weled yn Act. vi. 6.—"Y rhai a osodasant hwy ger bron yr apostolion, ac wedi iddynt weddio, hwy a ddodasant eu dwylaw arnynt hwy." Wedi hyn yr ydym yn cael hanes am y fath effaith ragorol a ganlynodd, fel y gellwch weled yn y wers ganlynol. Mae yn debygol fod y rhai hyn, fel ninau, wedi bod lawer gwaith yn llefaru, a bod Duw yn eu llwyddo; etto fe allai nad oedd gan yr esgobion a'r henuriaid hollol ryddid iddynt, mwy nag sydd genych chwi yr offeiriaid atom ni yn bresenol; am hyny ni a ddymunem arnoch wneuthur o honoch yr un peth; ac wrth wneuthur felly, ni ellwch dramgwyddo neb dynion a gymero air Duw fel rheol benaf i rodio wrthi; ac ni a allwn ddisgwyl yr un effeithiau, sef chwanegu at eu rhifedi, a bod yn gadernid i'r sawl sydd eisioes wedi eu galw. Ni a ddymunem na bo i'r brodyr ddim edrych arnom fel pobl wedi cwympo i glaearwch, o herwydd ein bod fel hyn yn danfon ein meddyliau atoch, na'n bod yn disgwyl am gael enwau mawrion yma; nage, canys os rhoddwch chwi le yn eich rheswm, nid ydym yn *actio* yn y cyfryw fodd. O herwydd hyn, ni allasem fyned ymaith yn ddistaw, ac felly cael ein hordeinio, a chymeryd cynnulleidfaoedd dan ein golygiad. Nage, frodyr; yr ydym yn foddlawn i gydlafurio gyda chwi, fel yr ydym hyd etto, ac i gymeryd ein llywodraethu genych chwi fel o'r blaen, "etto yn yr Arglwydd," ac yn ol ei air. Yr ydym wedi bod yn ceisio dodi ein hachosion o'ch blaen chwi er ys talm o amser, ond ni chawsom ryddid i wneuthur felly. Duw a dosturio wrthym, mewn amser o gyfyngdra, pan y mae ein tadau yn Nghrist, a'n brodyr yn yr Arglwydd, yn ein gadael yn ymddifaid.

**Hyn yn bresenol oddiwrth eich carediccaf frodyr,**

THOMAS PRICE.
WILLIAM EDWARD.
THOMAS WILLIAM.
JOHN BELCHER.
EVAN THOMAS.

EGLWYSILAN, *Mawrth* 30*ain*, 1745,

Gwelir oddiwrth y llythyr uchod fod y brodyr, tra yn teimlo awydd am fod mewn rhyw fath o gysylltiad a'r Methodistiaid, yn benderfynol o gael gweinidogion urddedig yn eu plith eu hunain, ac nad oeddynt yn foddlon cydsynio a chynghor Harries a'r offeiriaid i fyned i'r llanau i gymuno. Gan na chaniatawyd eu cais iddynt gan y gymdeithasfa aethant yn mlaen yn eu ffordd eu hunain, ac urddasant weinidogion iddynt eu hunain. Y mae genym sicrwydd i ddau o'r pump uchod, a arwyddasant y llythyr i'r gymdeithasfa, gael eu hurddo, ac iddynt fod yn weinidogion sefydlog yn y Groeswen am lawer o flynyddau. Dichon i bob un o'r pump gael ei urddo yr un amser, ond nid ydym yn sicr o hyny; nid ydym ychwaith yn gwybod pa flwyddyn y cymerodd yr urddiad le, ond yr ydym yn dra sicr fod gweinidogion Ymneillduol wedi cymeryd rhan yn ngwasanaeth yr urddiad, oblegid yr oedd Thomas Williams a William Edwards yn cael eu cydnabod gan yr Ymneillduwyr fel gweinidogion urddedig, yr hyn ni chawsant pe gan y bobl yr urddesid hwy, fel yr urddwyd Morgan John Lewis yn y New Inn. Yr oedd rhif yr aelodau yn nghymdeithas y Groeswen yn 63 tua y flwyddyn 1743, ac y mae yn debyg iddynt luosogi yn fawr yn dra buan wedi hyny. Yr ydym yn barnu mai yn 1745, y darfu iddynt urddo eu gweinidogion, ond parhaodd y pregethwyr Methodistaidd i ymweled a'r lle yn lled gyson trwy holl dymor gweinidogaeth pob un o'r gweinidogion cyntaf, ac hyd ddechreuad tymor gweinidogaeth Mr. Hughes, er fod yr eglwys yn cael ei hystyried yn Ymneillduol ac Annibynol. Yr ydym yn cael ein gogwyddo i dybied i bob un o'r pump pregethwr a arwyddasant y llythyr at gymdeithasfa Caio gael eu hurddo yn weinidogion yma pan omeddodd y gymdeithasfa ganiatau eu cais iddynt, ond ymddengys i dri o honynt, sef John Belcher, Evan Thomas, a Thomas Price, naill a'i marw neu symud oddi yma yn lled fuan ar ol eu hurddiad. Bu Thomas Williams a William Edwards yn gweinidogaethu yma am flynyddau lawer. Parhaodd cysylltiad Mr. Edwards a'r eglwys, fel ei gweinidog, hyd ei farwolaeth yn 1789.

Mae yn ymddangos fod yn yr eglwys hon er dechreuad yr achos ddynion nodedig am eu sel grefyddol, eu llafur, ac yn enwedig am eu doniau mewn gweddi. Gwahoddid hwy i fanau agos a phell i gynal cyfarfodydd gweddio, a byddai rhyw ddylanwadau rhyfeddol yn cael eu teimlo yn y cyfarfodydd hyny braidd yn ddieithriad. Rhydd y llythyr canlynol, a ysgrifenwyd gan Mr. Edmund Jones, Pontypool, at Mr. Howell Harries, ryw ddrychfeddwl i'r darllenydd am ragoriaethau y brodyr o'r Groeswen fel gweddiwyr:—

"Tachwedd 19eg, 1772.

Anwyl Syr,

Mae genyf yr hyfrydwch o'ch hysbysu, i mi, ar ol i mi glywed am wyr cedyrn mewn gweddi perthynol i'r Groeswen, eu gwahodd i ddyfod i'n tŷ cyfarfod ni i gynal cyfarfod gweddio; ac yn ol fy nymuniad buont yma y Sabboth bythefnos i'r diweddaf. Yr oeddynt yn wyth o rifedi, a bu chwech o honynt yn gweddio yn gyhoeddus. Ar ol i ddau weddio cenid penill cyn galw y ddau nesaf, ac felly y gwnaed hyd derfyn y cyfarfod. Yr oedd eu gweddiau yn cael eu nodweddu gan ostyngeiddrwydd, callineb, o thôn ysbrydol a nefolaidd. Yr oedd y trydydd a'r pumed gweddiwr yn anarferol o rymus a dylanwadol. Yr oeddwn i, a llawer eraill, yn teimlo yn ddwys, a gallaf dystio na ddarfu i mi weled a chlywed y fath beth mewn un lle erioed o'r blaen. Synais yn fawr wrth glywed un llangc ieuangc prydferth ei ymddangosiad, yr hwn sydd yn was gyda Mr. W. Edwards. Mor rymus, doeth, gwybodus, ac ysbrydol ei deimlad ydoedd. Cafodd yr holl gynull-

eidfa, yr hon oedd yn lluosog iawn, ei thoddi wrth eu clywed. Ein pobl ni oedd yn canu rhwng y gweddïau, ond canodd y gweddiwyr amryw o'u tonau eu hunain ar y diwedd gydag effaith anarferol. Yr oedd yr olwg arnynt, un ar ol y llall, yn penlinio ar y grisiau dan yr areithfa yn effeithiol iawn. Nid oeddynt yn arfer un gair afreidiol yn eu gweddïau, nac yn dyrchafu eu lleisiau yn annaturiol ac anweddus, ac nid oedd un ymadrodd isel ac anmhriodol yn cael ei arfer ganddynt. Yr ydym yn eu disgwyl yma y Sabboth bythefnos i'r nesaf etto, a bydded i'r Arglwydd ddyfod gyda hwynt, oblegid wrtho Ef, ac nid wrthynt hwy, y mae ein disgwyliad. Yr wyf yn clywed fod yn y Groeswen tuag ugain o weddiwyr o fath y rhai hyn, ac y maent agos bob nos yn rhywle neu gilydd yn cynal cyfarfodydd, ac effeithiau bendigedig yn eu dilyn. Maent weithiau yn myned i ardaloedd pellenig iawn i gadw cyfarfodydd, ac y mae rhai eneidiau yn cael eu dychwelyd at yr Arglwydd agos yn mhob lle yr ymwelant ag ef; ac nid wyf fi yn rhyfeddu am hyny, canys y mae yn amlwg fod yr Arglwydd gyda hwy pa le bynag yr elont. Dechreuwyd y cyfarfod gyda ni ychydig cyn deg o'r gloch yn y boreu, a diweddodd am un o'r gloch. Traddodais i anerchiad byr am Grist a'i groes yn y cyfarfod. Yr wyf yn disgwyl pan y deuant yma y tro nesaf na fydd digon o le i'r gwrandawyr yn ein tŷ cyfarfod, oddieithr i'r tywydd fod yn anffafriol. Yr oeddwn yn teimlo mai fy nyledswydd oedd eich hysbysu chwi o'r pethau hyn gan fod cysylltiad agos rhwng y daioni a wna y bobl hyn a'ch llafur chwi flynyddau yn ol.

Ydwyf, anwyl syr,

Yr eiddoch yn barchus a diolchgar yn Nghrist Iesu,

EDMUND JONES."

Un tro cyfarfu rhai o frodyr y Groeswen a siopwraig grefyddol o Ystradfellte mewn cymanfa yn Merthyr, a chymhellodd hwynt i ddyfod i'w thy hi i gadw cyfarfod gweddio. Addawsant fyned, a phenodwyd y diwrnod. Ar foreu y dydd penodedig cychwynodd y brodyr yn foreu iawn i'w taith bell trwy Aberdar a Phenderyn; ond erbyn eu bod yn Ystradfellte cawsant fod y siopwraig wedi anghofio y cwbl, ac wedi myned i Gaerodor i brynu nwyddau. Gwnaeth y brodyr dyeithr eu neges yn hysbys i rai o breswylwyr y pentref, ac yn fuan casglwyd yno nifer fawr o bobl. Disgynodd y dylanwadau dwyfol yn helaeth ar y cyfarfod fel yr aeth yn folianu a neidio yno cyn gorphen; a chymaint oedd angerdd y teimladau nes yr anghofiodd rhai gymaint o bob pethau allanol fel y neidient ar yr heol wedi myned allan nes i rai o honynt neidio i'r afon. Chwech o frodyr o'r Groeswen oedd yn y cyfarfod hwn, ac yr ydym wedi cael enwau pedwar o'r chwech, sef Morgan Robert, Groeswen; William Davies, Maesmawr; Harri Smith, Pryntail, ac Edmund Williams, Rhydllech, Llanilltyd-y-fardre.

Tua y flwyddyn 1766 bu raid helaethu y capel am fod y gynulleidfa wedi cynyddu yn ddirfawr. Nid ydym yn gwybod pa bryd y terfynodd tymor llafur Mr. Thomas Williams yma, fel un o weinidogion yr eglwys. Yr oedd yn fyw ac yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth mewn cyfarfod gweinidogion yn Rhydymardy, gerllaw Caslwchwr, yn Mehefin, 1761. Mae yn dra thebyg iddo farw yn mhen ychydig amser ar ol hyny, oblegid nid ydym yn cyfarfod a'i enw mewn unrhyw gofnodiad diweddarach. Wedi marwolaeth Mr. Thomas Williams mae yn ymddangos mai Mr. William Edwards oedd yr unig weinidog yma hyd derfyn ei oes yn 1789. Dywedir fod Mr. Edwards yn bregethwr efengylaidd ac effeithiol iawn, a'i fod yn llym iawn yn erbyn pob arferiad pechadurus. Yr oedd yn weinidog da a dylanwadol. Yr oedd yr eglwys yn dra lluosog lawer o flynyddau cyn terfyniad ei weinidogaeth ef, ac o bosibl yr eglwys gyfoethocaf o ddoniau a mwyaf enwog am wresogrwydd ei haddoliadau o un

Digitized by Google

eglwys yn y Dywysogaeth, ac nid ydym i ryfeddu am hyny gan ei bod yn cael ei breintio ag ymweliadau mynych y pregethwyr galluocaf yn mysg yr Annibynwyr a'r Methodistiaid.

Wedi marwolaeth Mr. Edwards bu yr eglwys heb un gweinidog sefydlog am wyth mlynedd. Mr. Thomas Waters, Mynyddislwyn, yn benaf fu yn llanw lle gweinidog iddi am y tymor hwnw. Buwyd yn son am roddi galwad iddo ef, ac hefyd i Mr. Abraham Tibbott, ond methwyd cyduno ar y naill na'r llall. Yn y flwyddyn 1797, daeth Mr. Griffith Hughes, gwr ieuangc doniol iawn, yr hwn oedd yn aelod yn Nghrugybar, sir Gaerfyrddin, heibio ar ei daith. Ennillodd ei ddoniau poblogaidd ef sylw cyffredinol, a rhoddwyd iddo alwad wresog, heb neb ond ychydig bersonau o dueddiadau Methodistaidd yn groes iddo. Ymadawodd y cyfryw ac adeiladasant gapel bychan a alwyd Capel Ed, yn mhlwyf Bedwas, ond ni fu fawr llewyrch arno, tra yr aeth y Groeswen dan weinidogaeth danllyd a galluog Mr. Hughes, yn lluosoeach ac enwocach nag y buasai ar un cyfnod o'i hanes. Bu yma bedwar o ddiwygiadau nerthol iawn yn nhymor gweinidogaeth Mr. Hughes, yn y blynyddoedd 1800, 1817, 1826, ac 1829. Ychwanegwyd amryw ugeiniau at yr eglwys yn mhob un o'r tri chyntaf, ac yn y diweddaf ychwanegwyd canoedd ati. O herwydd lluosogiad dirfawr yr eglwys yn 1829, bu raid tynu yr hen gapel i lawr ac adeiladu yr addoldy hardd a helaeth sydd yma yn bresenol. Cafodd hwn ei adeiladu yn 1830. Yr oedd y Groeswen yn mlynyddoedd cyntaf gweinidogaeth Mr. Hughes yn gyrchfan pobloedd o tua phymtheg o wahanol blwyfydd. Yr oedd yma dorfeydd dirfawr yn ymgynnull bob bore Sabboth, yn enwedig y Suliau cymundeb. Ar brydnawnau a hwyrau y Sabbothau byddai y gweinidog yn myned ar gylch i bregethu mewn gwahanol gyrau o'r ardal mewn anedddai, megis y Rhydru, Llanfabon, Bedwas, yr Eglwysnewydd, Glyntaf, &c. Gellir dweyd yn briodol mai y Groeswen yw mam y rhan fwyaf o'r eglwysi Annibynol a Methodistaidd o Lantrisant yn Morganwg i Fachen yn Mynwy, ac o'r Eglwysnewydd, gerllaw Caerdydd, hyd Fynwent y Crynwyr. Parhaodd Mr. Hughes i lafurio yn y cylch eang hwn, o'r flwyddyn 1797 hyd ei farwolaeth, yn 1839, gyda pharch a phoblogrwydd digyffelyb. Yr oedd ei boblogrwydd yn gwefreiddio yr holl wlad ar ddechreuad ei weinidogaeth, ac yr oedd hyd ddydd ei farwolaeth mor boblogaidd ag ar unrhyw adeg o'i fywyd cyhoeddus.

Wedi marwolaeth Mr. Hughes bu yr eglwys am oddeutu blwyddyn a haner yn byw ar weinidogaeth achlysurol. Yn nechreu y flwyddyn 1841 rhoddwyd galwad i Mr. Moses Rees, Pencadair, sir Gaerfyrddin. Bu Mr. Rees yn llafurio yma gyda mesur helaeth o lwyddiant am un-mlynedd-arbymtheg. Derbyniodd yn nhymor ei weinidogaeth amryw benau teuluoedd cyfrifol, ac ennillodd lawer o ieuengctyd yr ardal at y Gwaredwr. Yn ei amser ef yr adeiladwyd y capeli yn Glantaf, Cwmyraber, a Chaerphili. Er ei fod yn ddyn da, difrifol, ac awyddus am wneuthur daioni, cafodd gryn ofid oddiwrth rai personau anhywaeth, a dywedir na fu nemawr lewyrch ar ei wrthwynebwyr o'r pryd y cyfodasant yn ei erbyn hyd derfyn eu hoes. Y mae ef a hwythau er's blynyddau bellach wedi ymddangos ger bron gorsedd lle nad oes derbyn wyneb na gwyro barn. Mae coffadwriaeth Mr. Rees yn barchus yn yr ardal hyd y dydd hwn. Bu farw yn Awst, 1856.

Buwyd am flwyddyn ar ol ei farwolaeth ef cyn dewis canlyniedydd iddo. Yn haf y flwyddyn 1857 daeth Mr. William Caledfryn Williams ar ei daith heibio, a rhoddwyd galwad unfrydol iddo. Yr oedd ef wedi cael galwad yma o'r blaen yn 1840, ond gwrthododd gydsynio a hi y pryd hwnw; pa fodd bynag, atebodd yr alwad yn gadarnhaol y tro hwn. Dechreuodd ei weinidogaeth yn Ionawr, 1858. Yr amser hwn, o herwydd yspaid maith o farweidd-dra crefyddol, ac hefyd am fod y ddwy gangen yn Ebenezer, Glantaf, a Chaerphili wedi cael eu ffurfio yn eglwysi Annibynol, yr oedd nifer yr aelodau wedi myned yn fychan, a rhif y gwrandawyr yn ychydig. Tybiai llaweroedd fod yr hen eglwys, yr hon a welwyd yn ogoniant yr ardaloedd ac yn gyrchfan y llwythau, megis yn eistedd ei hunan, ac yn flin arni, ac yn wir gellid dyweyd am dani, "Yr oedd hi yn wylo yn hidl liw nos a'i dagrau ar ei gruddiau." Wedi dyfodiad Mr. Williams yma daeth gwedd newydd ar bethau, rhoddodd yr Arglwydd brawf amlwg o'i foddlonrwydd i'w ddyfodiad i'r lle. Gwelwyd afradloniaid yn dychwelyd yn ol i dŷ eu Tad, a gwiriwyd y geiriau hyny, "Pe gyrrid rhai o honoch hyd eithaf y nefoedd, eto mi a'u casglaf hwynt oddiyno, ac a'u dygaf i'r lle a etholais i drigo o'm henw ynddo." Darfu i weinidogaeth danllyd Mr. Williams gyda dylanwad grasol yr Ysbryd Glan, beri fod gwedd newydd ar yr achos yn fuan. Cynyddodd rhif y gwrandawyr yn fawr, ac adferwyd hen deimladau gwresog yr eglwys nes y daeth fel aelwyd o dân yn y coed. Tua diwedd y flwyddyn 1858, ymwelodd yr Arglwydd mewn modd neillduol a'i bobl, a gwelwyd amryw yn ymofyn y ffordd tua Sion a'u hwynebau tuag yno. Ac o ddechreu y flwyddyn 1859 hyd ddiwedd 1861, derbyniwyd dros ddau cant o aelodau newyddion. Blwyddyn a hir gofir yw 1859. Yr un Sabboth, sef Hydref 16eg, cafodd un-a-deugain eu derbyn i gymundeb eglwysig. Nid anghofia ugeiniau oedd yno y Sabboth hwnw byth. Wrth edrych dros restr y rhai a dderbyniwyd yr ydym er ein galar yn canfod enwau amryw sydd wedi blino ar y ffordd, amryw eraill sydd wedi symud o'r ardal, ond yr ydym yn hyderu eu bod yn dal eu ffordd; ac y mae nifer hefyd wedi eu symud i wlad well, a da genym sylwi ar enwau rhai sydd yn dal yn ffyddlon hyd yn awr, a'u cynydd yn amlwg i bawb. Yn ystod gweinidogaeth Mr. Williams yr ail adeiladwyd capel y Nantgarw, yr helaethwyd capel Cwm-yr-aber, y cyfodwyd ysgoldy Brytanaidd wrth y Groeswen, yr helaethwyd y fynwent, ac y prynwyd yr oll o'r fynwent yn nghyd a'r tir sydd dan y capel a'r ysgoldy, fel y mae y cwbl yn eiddo i'r gynnulleidfa am byth. Gwnaethpwyd esgynlawr newydd yn lle y pulpud, a sonir yn bresenol (1872) am gyfnewid y tufewn i'r capel fel ag i ateb arddull mwy destlus yr oes bresenol. Gweithiodd Mr. Williams yn ffyddlon tra fu yma. Meithrinodd ysbryd ymchwiliad yn yr ieuengctyd—gweithiodd ynddynt awydd am ddarllen, dysgodd y bobl i gyfranu at achosion crefyddol, gosododd fri ar yr eglwys, a chydnabyddid ei ddylanwad gan bawb, tlawd a chyfoethog, a phan y bu farw, (Mawrth 23ain, 1869) yr oedd galar cyffredinol ar ei ol, a thystiolaeth pawb ydoedd, fod tywysog a gwr mawr yn Israel wedi syrthio."*

Mae yr eglwys oddiar farwolaeth Mr. Williams hyd yn bresenol (Mai, 1872,) heb un gweinidog sefydlog, ond yr ydym yn deall eu bod yn awr wedi rhoddi galwad i Mr. W. Nicholson, Treflys, Bethesda, sir Gaernarfon,

* Llythyr Mr. Thomas, Ty'nywern, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o ddefnyddiau yr hanes hwn.

ac y dechreua ei weinidogaeth yn fuan. Hyderwn fod oes hir a llwyddianus o'i flaen yma, ac y bydd yn mhob peth yn deilwng o'i ragflaenoriaid enwog.

Wrth ystyried lluosogrwydd yr eglwys hon a'i hynodrwydd am wresogrwydd a doniau ei haelodau, mae braidd yn rhyfedd na buasai wedi cyfodi mwy o bregethwyr, ac anfon allan i'r weinidogaeth rai o gewri y pulpud Cymreig. Heblaw y pump a gyfodwyd yma ar gychwyniad cyntaf yr achos, sef yr ynad Thomas Price, Thomas Williams, William Edwards, Evan Thomas, a John Belcher, nid ydym yn gwybod am neb ond y rhai canlynol a gyfodwyd yma:—

Walter Thomas. Bu yn weinidog yn Llanfaches, Llangynwyd, a rhai manau eraill. Gweler hanes y lleoedd hyny.

John Thomas, Nantgarw. Er mai yn Mhenybont y dechreuodd ef bregethu, etto gan mai yma y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes mae yn briodol ei grybwyll yn nglyn a hanes yr eglwys hon. Yr oedd John Thomas yn ddyn cryf o gorph a meddwl, ac yn bregethwr derbyniol iawn. Bu yn bregethwr cynorthwyol parchus a dylanwadol am ugeiniau o flynyddau. Cafodd ergyd o'r parlys yn y flwyddyn 1859, yr hyn a'i hanalluogodd i bregethu mwyach. Bu farw Mawrth 14eg, 1866, yn 77 mlwydd oed.

W. Waters, Caerphili. Yr oedd ef yn ddyn mwyn a boneddigaidd iawn ei ymddangosiad a'i ymddygiad. Tra byr oedd ei ddoniau fel pregethwr. Y mae wedi cael ei gasglu at ei dadau er's dros ddeng-mlynedd-ar-hugain.

John Robert. Yr oedd ef yn bregethwr lled gymeradwy. Ymunodd a'r Bedyddwyr yn niwedd ei oes.

John Thomas, Caerphili. Yr oedd yn ddyn addfwyn a dirodres iawn, ac yn bregethwr derbyniol rhyfeddol. Ymddyrysodd ei feddwl rai blynyddau cyn terfynu ei oes.

John Millward. Ni chafodd y gwr ieuangc hwn ond prin ddechreu pregethu cyn cael ei gymeryd yn gystuddiol o'r cystudd a fu yn angau iddo. Yr oedd pob argoel y buasai yn bregethwr melus a derbyniol iawn.

Richard Millward. Cafodd yntau ei dori i lawr yn mlodau ei ddyddiau. Yr oedd yn un hynod selog gydag achos ei Arglwydd.

William Edwards. Un o blant diwygiad 1859 yw ef. Dechreuodd bregethu yn 1861. Wedi gorphen ei amser yn athrofa Aberhonddu, urddwyd ef yn weinidog yr hen eglwys yn Heolyfelin, Casnewydd, lle y mae yn llafurus a llwyddianus.

Evan Jenkins. Gwr ieuangc sydd newydd ddechreu pregethu. Dywedir ei fod yn ddyn ieuangc gobeithiol iawn.

Bu John Jenkins o'r Ddraenen, yn bregethwr yma am flynyddau lawer. Tua phedair-blynedd-ar-ddeg yn ol ymunodd a nifer o bobl a ymrwygasant o Tabor, Maesycwmwr, a chan nad oeddynt yn perthyn i un enwad crefyddol urddasant John Jenkins eu hunain yn weinidog arnynt. Bu ef yn pregethu iddynt nes iddynt roddi eu hunain i fyny i gorph y Methodistiaid ychydig amser yn ol.

Bu yn yr eglwys hon o oes i oes lawer o wyr a gwragedd enwog iawn am eu sel, eu gwresogrwydd, a'u rhagoriaethau crefyddol. Mae Williams, Pantycelyn, yn ei farwnad i Mrs. Grace Price, o'r Watford, wedi anfarwoli ei henw hi. Yn mysg y rhai a wasanaethasant swydd diaconiaid yn dda yma, gellir enwi Edward Dafydd, John Williams, o'r Ddraenen; John Williams, Dyffrynisaf; William Richard, Caerphili; William Lewis, Pontygwindy; Hopkin Smith, Cwrtycelyn; Evan Morgan, Glantaf; William

Digitized by Google

Williams, Groeswen; William Thomas, Aberfawr, ac Isaac Williams, Badachaf—dynion ag y mae eu coffadwriaeth yn fendigedig gan ganoedd hyd y dydd hwn.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Gwelsom yn barod fod yma bump o bregethwyr yn y flwyddyn 1745. Nid ydym yn sicr na chafodd y pump eu hurddo yma yn gydweinidogion, ond yr ydym yn gwybod i sicrwydd i ddau o honynt gael eu hurddo, sef Thomas Williams a William Edwards. Gan nad ydym yn sicr am urddiad y tri eraill, nis gallem, gyda phriodoldeb, osod eu bywgraphiadau yn mysg y gweinidogion, pe byddai genym ryw hanes i'w roddi am danynt, ond nid oes genym ond y peth nesaf i ddim. Y cwbl a wyddom am Evan Thomas ydyw, ei fod yn bregethwr, a bod ei enw fel ymddiriedolwr yn ngweithred y capel. Yr oedd Thomas Price yn foneddwr, yn ustus yr heddwch, ac yn berchenog plasdy y Watford. Ar ran o'i dir ef yr adeiladwyd capel y Watford. Y mae yn debyg mai gwraig i'w fab ef oedd y Grace Price, yr hon y canodd Williams, Pantycelyn, farwnad iddi. Yr oedd John Belcher yn ysgolfeistr, ac yn bregethwr tra galluog a phoblogaidd. Nis gwyddom pa le na pha bryd y bu farw.

Thomas Williams. Ychydig o'i hanes ef fydd genym. Mae lle ac amser ei enedigaeth a'i farwolaeth yn anhysbys i ni. Yr oedd yn bregethwr yn 1742. Yn y flwyddyn hono gosodwyd ef yn arolygydd y cymdeithasau crefyddol a ffurfiesid yn ol cynllun Mr. Howell Harries, yn y rhan ddwyreiniol o Forganwg. Mae yn ymddangos wrth hyn ei fod yn cael ei ystyried yn fwy galluog na'r cynghorwyr yn gyffredin, gan fod rhai o honynt i'w cael agos yn mhob cymdeithas, ac yntau wedi cael ei osod yn arolygydd drostynt oll. Mewn cymdeithasfa a gynaliwyd yn y Watford, Medi 27ain, 1744, dygwyd y cyhuddiad yn erbyn Thomas Williams o ddyweyd rhywbeth yn anmharchus am y gwisgoedd offeiriadol. Bernid fod y pechod yn un erchyll iawn, a bod y cyhuddedig yn haeddu cerydd pwysig. Erbyn gwneyd ymchwiliad i'r achos, cafwyd allan mai dyweyd yn erbyn rhoddi parch *eilunaddolgar* i'r gwisgoedd hyny oedd yr holl drosedd, ac felly gollyngwyd y troseddwr yn ddigosp.* Mae genym le i gasglu oddiwrth ryw gyfeiriadau ato yn llawysgrifau Thomas Morgan, o Henllan, fod Thomas Williams yn Ymneillduwr egwyddorol er iddo gymeryd rhan gyhoeddus gyda'r achos Methodistaidd ar ei gychwyniad. Ar wrthodiad cymdeithasfa y Methodistiaid i urddo rhai o'r pregethwyr, cafodd ef a William Edwards eu hurddo yn ol y drefn Ymneillduol yn gydweinidogion i'r eglwys yn y Groeswen. Dichon i'w hurddiad gymeryd lle tua haf y flwyddyn 1745. Buont ill dau yn cydlafurio yma am flynyddau. Yr ydym yn barnu i Thomas Williams farw neu symud oddiyma yn fuan ar ol y flwyddyn 1761. Nid oes genym unrhyw hanes pellach i'w roddi am dano.

William Edwards. Ganwyd ef yn y Tycanol, yn agos i'r Groeswen, yn y flwyddyn 1719. Bu farw ei dad pryd nad oedd ef ond dwy flwydd oed. Efe oedd yr ieuengaf o dri mab, y rhai, yn nghyd a'i chwaer, a fuont byw gyda eu mam nes iddynt gyrhaedd eu cyflawn faintioli. Yr oedd archwaeth neillduol gan William Edwards er yn blentyn at adeiladu muriau

* *Methodistiaeth Cymru.* Cyf I. Tu dal. 180.

cerrig, ac er na chafodd ei addysgu i'r gelfyddyd, daeth trwy ei athrylith ei hun, cyn ei fod yn ugain oed, yn saer-maen o'r radd uwchaf. Wedi adeiladu amryw dai, ysguboriau, melinau, &c., yn ei blwyf ei hun, a phlwyfydd cymydogaethol, rhoddodd ei bris i mewn am adeiladu pont dros yr afon Taf wrth Bontypridd, a rhoddwyd y gorchwyl iddo. Dechreuodd y gwaith yn y flwyddyn 1746. Gorphenodd y bont yn y fath fodd ag a roddodd foddlonrwydd cyffredinol. Cymerwyd y bont hono ymaith gan orlifiad anghyffredin yr afon. Gwnaed ail gynygiad ganddo i adeiladu pont o un bwa yno, a phan yr oedd ar ei gorphen syrthiodd o herwydd i bwysau anferthol y pentanau wthio y garreg glo o'i lle. Cymerodd yr anffawd hwn le yn 1751. Ond y fath oedd ei benderfyniad fel y gwnaeth drydydd cynygiad, yn yr hwn y llwyddodd. Gorphenodd y gwaith yn 1755, ac y mae y bont rhyfeddol hon yn sefyll hyd y dydd hwn, ac yn debyg o sefyll am ganrifoedd etto. Maint ei bwa yw 175 o droedfeddi, ac y mae y rhan uwchaf o hono yn 35 troedfedd uwchlaw y dwfr. Hon, y pryd hwnw, oedd y bont fwyaf ei bwa yn yr holl fyd. Gwnaeth yr adeiladydd enw anfarwol iddo ei hun. Deuai y dynion mwyaf urddasol o bob parth o'r deyrnas i weled y gorchestwaith rhyfedd, a chyfrifent yn anrhydedd i gael ysgwyd llaw ac ymddiddan a'r adeiladydd diail. Mewn canlyniad i'w lwyddiant yn y gorchwyl hwn, cafodd fwy na digon o waith i adeiladu pontydd, ac adeiladau eraill, yn mhell ac agos. Adeiladodd dair pont dros yr afon Tawy, un dros yr Afan, Morganwg, un dros yr Aman, un dros y Tywy, yn sir Gaerfyrddin, un dros yr Wy, ac un dros yr Wysg. Ond nid fel "pen saer celfydd" y mae a fynom ni ag ef, ond fel cristion a gweinidog i eglwys Crist. Mae yn ymddangos iddo er yn blentyn gael ei ddwyn i fyny mewn gwybodaeth grefyddol, ond nid ymddengys iddo wneyd proffes gyhoeddus o grefydd cyn tua y flwyddyn 1738. Y pryd hwnw yr ymwelodd Mr. Howell Harries y waith gyntaf a phlwyf Eglwysilan, ac y mae yn ymddangos fod William Edwards yn un o'r llawer yr effeithiodd ei weinidogaeth danllyd ef yn achubol arnynt. Yr ydym yn barnu i Mr. Edwards, fel amryw eraill o ddychweledigion Harries, ymuno a'r eglwys yn y Watford. Wedi adeiladu capel y Groeswen yn 1742, gwnaeth ef ei gartref yn benaf yno. Dichon mai tua yr amser hwn y dechreuodd arfer ei ddawn fel pregethwr. Fel y nodasom eisioes, cafodd ef a Thomas Williams eu hurddo yn weinidogion i'r eglwys yn y Groeswen tua y flwyddyn 1745. Yr oedd Mr. Edmund Jones, Pontypool, a rhai gweinidogion Ymneillduol eraill yn cymeryd rhan yn ngwasanaeth yr urddiad. Parhaodd Mr. Edwards i weinidogaethu yma gyda pharch a llwyddiant mawr hyd derfyn ei oes. Bu farw Awst 7fed, 1789, yn 70 oed. Gan nad oedd mynwent y pryd hwnw wrth gapel y Groeswen, yn mynwent plwyf Eglwysilan y claddwyd ef. Mae yr ysgrifen ganlynol yno ar ei garreg fedd:—"In memory of the Reverend William Edwards, of this parish, who departed this life August 7, 1789, aged 70 years.

One loved of Christ that lieth here,
The cross of Christ his heart did cheer,
The cause of Christ he did maintain,
To live was loss, to die was gain."

Mae William Edwards yn un o'r engreifftiau hynotaf ar faes hanesyddiaeth, o ddyn ieuangc heb gael dim manteision addysg, yn ymddyrchafu trwy rym ei athrylith i enwogrwydd anfarwol. Dysgodd ei gelfyddyd fel

Digitized by Google

saer-maen yn gwbl o hono ei hun heb fod yn egwyddorwas gyda neb. Yr oedd yn un-ar-hugain oed cyn iddo ddysgu darllen Saesonaeg. Dywedir mai dyn dall, yn nhy yr hwn y llettyai yn Nghaerdydd, pan yr oedd yno yn adeiladu tŷ, a'i dysgodd i ddarllen yr iaith hono. Dysgodd rifyddiaeth trwy ei lafur ei hun, a daeth yn fuan yn ddigon hyddysg yn yr iaith Saesonig i wneyd defnydd o awdwyr ac i ymgyfeillachu a'r rhai a siaradent yr iaith hono. Tynodd ei enwogrwydd fel adeiladydd ef i gymaint o sylw fel y bu amryw o brif bendefigion y deyrnas, heb son am fan foneddigion Cymru, yn dal cyfeillach ag ef; ond yr oedd ei synwyr a'i dduwioldeb y fath fel na ddarfu i'r parch a ddangosid iddo gan wyr mawr effeithio dim er niwed iddo, ond yn hytrach er mantais neillduol i achos crefydd. Pan yn cael ei alw yn mhell o'i gartref i adeiladu pontydd, byddai yn mhob lle yr elai iddo yn gwneyd ei hun yn wasanaethgar i achos crefydd. Fel y gwelsom yn hanes Treforis, adeiladodd gapel yno pan yn adeiladu Pont-y-fforest, a chasglodd ddigon o arian at ei adeiladu yn mysg y boneddigion yr oedd yn ymdrafod a hwy, fel y gallodd ei roddi yn anrheg i'r gynnulleidfa. Mae yn dra thebyg iddo wneyd pethau cyffelyb mewn ardaloedd eraill.

Er fod llawer o'i amser a'i feddwl o angenrheidrwydd yn cael eu cymeryd i fyny gan ei gelfyddyd fel adeiladydd, gwnaeth fwy na llawer yn ei oes gyda gwaith y weinidogaeth. Yr oedd yn bregethwr efengylaidd a blasus. Gwelsom rai degau o'i bregethau yn llawysgrifen un o'i wrandawyr, ac y maent yn profi ei fod yn bregethwr gwir alluog. Er ei fod trwy ei alwedigaeth fel adeiladydd wedi ei gyfodi uwchlaw bod yn ymddibynol ar gyfraniadau pobl ei ofal am ei gynaliaeth, etto derbyniai yr hyn a gyfranent at y weinidogaeth, ond rhanai yr oll a dderbyniai, ac ychwaneg, yn elusenau rhwng y tlodion. Derbyniai ei gyflog gan yr eglwys er mwyn eu dysgu i gyfranu, rhag y buasai ei ganlyniedydd yn gorfod bod yn ymddibynol ar gyfraniadau y bobl. Nid yw pob un o weinidogion cyfoethog Cymru wedi ymddwyn mor ddoeth a hyn; ie, bu rhai o honynt mor ffol ag ymffrostio eu bod hwy yn pregethu yn rhad, gan awgrymu mai dyledswydd pawb eraill oedd gwneyd yr un modd, pa beth bynag fuasai eu hamgylchiadau. Cafodd eglwys y Groeswen, Morganwg, a Deheudir Cymru, golled fawr yn marwolaeth Mr. Edwards, gan ei fod yn ddyn mor ryfeddol o dduwiol, defnyddiol, a dylanwadol yn mysg y werin a'r boneddigion. Dilynwyd ei gorph i'w fedd gan dyrfa ddirfawr. Pregethwyd ar yr achlysur gan Mr. Thomas Waters, yr hynaf, o Fynyddislwyn, oddiwrth Preg. vii. 1. Canwyd tonau galarus bob cam o anedd y trancedig i fynwent Eglwysilan. Mae amryw o hiliogaeth Mr. Edwards wedi bod o oes i oes yn enwog fel crefyddwyr. Yr oedd ei fab, David Edwards, yn un o enwogion y Groeswen. Yr oedd tua phedwar ugain oed pan y bu farw. Wyr i'r hen weinidog yw Dr. Daniel Edwards, gynt o Lundain, ac yn awr Uckfield, un o'r dynion mwyaf talentog a duwiol y cawsom erioed y fraint o gyfeillachu ag ef, ac or-wyr iddo yw Dr. W. T. Edwards, Caerdydd, yr hwn sydd yn glynu yn ffyddlon wrth yr egwyddorion a broffesid gan ei henafiaid.

Griffith Hughes. Ganwyd ef yn Mhenywaun, yn agos i'r Caledfwlch, yn mhlwyf Llandilo, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1775. Bu farw ei dad pan yr oedd ef yn ieuangc iawn, a disgynodd y gofal o'i ddwyn i fyny ar ei fam, yr hon yn awr oedd yn weddw dlawd. Cafodd y llangc ddigon o ysgol pan yn blentyn i'w alluogi i ddysgu darllen ei Fibl Cymraeg, a

dyna yr oll a gafodd o fanteision addysg. Pan yr oedd tua phedair-ar-ddeg oed gosodwyd ef yn egwyddorwas gydag Evan Rhydderch, o blwyf Llansadwrn, i ddysgu y gelfyddyd o gylchwr (*cooper*). Yr oedd Evan Rhydderch yn ddyn nodedig o dduwiol, ac yn aelod ffyddlon ac enwog yn Nghrugybar. Efe oedd tad yr enwog Anne Jones, Godre'rmynydd, neu "Nani Crugybar," fel yr adwaenid hi yn gyffredin yn mysg yr hen weinidogion. Tro rhagluniaethol iawn oedd i'r bachgen tlawd fyned i gysylltiad a'r teulu rhagorol hwn. Er fod Evan Rhydderch yn grefyddwr enwog iawn, yr oedd fel llawer o hen grefyddwyr yr oes hono heb ddysgu darllen. Wedi i Griffith Hughes fyned i'w deulu, gan ei fod yn ddarllenwr da, gosodai ei feistr ef i ddarllen penod hwyr a boreu o flaen y weddi deuluaidd. Byddai yn myned bob Sabboth gyda ei feistr i Grugybar. Y seraphaidd Isaac Price, Llanwrtyd, oedd y gweinidog yn Nghrugybar yr amser hwnw. Un nos Sabboth wrth wrandaw Mr. Price yn pregethu mewn ty anedd, gafaelodd y gwirionedd yn achubol yn meddwl ieuengaidd Griffith Hughes. Mewn canlyniad i hyny penderfynodd ymwasgu a'r dysgyblion. Yr oedd aelodau Crugybar, a breswylient yn mlaenau plwyfydd Llansadwrn a Llanwrda, yn cynal cyfeillachau crefyddol o dŷ i dŷ, ac ar y noson yr oedd y gyfeillach i gael ei chynal yn Ngodre'rmynydd, yn nhy Anne Jones, merch ei feistr, gwnaeth Griffith Hughes ei feddwl i fyny i fyned yno. Erbyn ei fod wrth y drws yr oedd y cyfarfod wedi dechreu, ond teimlai ef ormod o wendid i agoryd y drws a myned i mewn. Wedi iddo aros yno am ychydig amser, daeth gwraig y tŷ allan a chafodd ef yn sefyll yn grynedig yno. Gofynodd iddo, "Beth wyt ti yn wneyd yma, a wyt ti am fyned i mewn i'r gyfeillach?" Atebodd yntau yn wylaidd ei fod. Yna hi a ymaflodd yn ei fraich gan ei arwain i mewn, a dywedodd wrth y brodyr, "Gofynwch i'r bachgen bach beth y mae yn ei geisio." Er ei fod y pryd hwnw yn bymtheng mlwydd oed, gan ei fod mor fychan o gorpholaeth, yr oedd yr olwg arno yn blentynaidd iawn. Gwnaeth ei artref o'r noson hono allan yn mysg pobl yr Arglwydd. Yr oedd o'r blaen yn hoff iawn o ddarllen, ond o hyn allan aeth yn fwy hoff nag erioed o'i Fibl, a llyfrau crefyddol eraill. Darllenai lawer wrth oleu y tân nes niweidio ei lygaid. Un tro sylwodd Mr. Price, ei weinidog, fod ei lygaid yn anarferol o gochion, a gofynodd iddo beth oedd yr achos o hyny; atebodd yntau nas gwyddai os nad o herwydd ei fod yn darllen cymaint wrth oleu y tân am nas gallasai fforddio i brynu canwyllau. Wedi iddo gael ei dderbyn yn aelod canfyddwyd yn fuan wrth ei ddoniau mewn gweddi, a'i gynydd anarferol mewn gwybodaeth, fod ynddo gymhwysder i fod yn ddyn cyhoeddus. Hysbysodd rhai o'r brodyr eu barn am dano wrth yr hen weinidog, Mr. Price. Yntau, yn unol a charedigrwydd digyffelyb ei natur, a gymerodd y llangc gydag ef i Lanwrtyd am fis fel y gallasai gael mantais i ddeall ei gymeriad a phrofi ei alluoedd. Cafodd y fath foddlonrwydd ynddo fel yr aeth ag ef yn ei ol i Grugybar yn mhen y mis, ac yr anogodd ef i ddechreu pregethu ar unwaith. Prydnawn y Sabboth hwnw yr oedd Mr. Price wedi cael ei gyhoeddi i bregethu yn nhy Mr. Lloyd, Pistyllgwyn. Cyn dechreu yr oedfa dywedodd wrth Mr. Lloyd ei fod am i Griffith Hughes gael pregethu ychydig o'i flaen ef y prydnawn hwnw. Petrusai Mr. Lloyd ac ofnai nad oedd y llangc, yr hwn er ei fod yn awr yn agos i bedair-ar-bymtheg oed, oedd etto yn blentynaidd iawn yr olwg arno, yn alluog i bregethu gyda gweddusrwydd yn ngwydd y fath dorf ag a ddisgwylid yno. Ond wrth weled Mr. Price mor benderfynol cydsyniodd Mr. Lloyd rhwng bodd ac anfodd,

Digitized by Google

a cheisiwyd gan y bachgen ddechreu yr oedfa a phregethu. Cymerodd ei destyn yn Exodus xvi. 15, "Manna yw." Wedi rhoddi darluniad o'r Manna, arweiniodd ei wrandawyr at Grist, bara y bywyd, a phregethodd mor effeithiol a gwresog fel na phetrusodd neb o hyny allan yn nghylch ei gymhwysder i fod yn bregethwr. Yn haf y flwyddyn 1794, aeth gyda rhai cyfeillion o Grugybar i gymanfa y Neuaddlwyd. Anogodd y gweinidogion ef yno i ymweled a'u heglwysi hwy, yr hyn a wnaeth, ac yr oedd ei ddoniau llithrig a tharawiadol yn ei wneyd yn rhyfeddol o dderbyniol pa le bynag yr elai. Yn y flwyddyn 1796, aeth yr hynod Rhys Davies, Saron, ar daith trwy Forganwg. Pan yn y Groeswen, dywedodd wrth rai o'r hen bobl yno fod gwr ieuangc newydd ddechreu pregethu yn Nghrugybar, sir Gaerfyrddin, yr hwn oedd yn dalp byw o ddawn, yn fachgen rhyfeddol o obeithiol, ac y buasai yn eu hateb hwy i'r dim. Ar y gymeradwyaeth hono anfonwyd cais o'r Groeswen at y gwr ieuangc i geisio ganddo dalu ymweliad a hwy. Cydsyniodd yntau a'u cais, ac wedi i'r bobl ei wrandaw ychydig o weithiau aeth yn gynhwrf byw trwy yr holl ardal am roddi galwad iddo. Cydsyniodd yr holl aelodau i roddi yr alwad, ond ychydig, y rhai oeddynt o dueddiadau Methodistaidd. Ymadawodd y rhai hyny, a chafodd Hughes ieuangc eglwys wresog ac unfrydol i'w dderbyn i'w mynwes. Cynaliwyd cyfarfod ei urddiad yn Chwefror, 1797. Nid ydym wedi gallu dyfod o hyd i enwau neb o'r rhai fuont yn pregethu yno ar yr achlysur hwn ond Isaac Price, Llanwrtyd. Efe oedd yn pregethu ar ddyledswydd y gweinidog, a chlywsom Mr. Hughes ragor nag unwaith yn adrodd un sylw o'i eiddo yn y bregeth hono; sef ei bod o fwy pwys i weinidog, fel gweinidog, feddu callineb, neu synwyr cyffredin, na gras, ond fod gras o fwy pwys iddo fel pechadur. Adroddai Mr. Hughes y sylw hwn wrth agos pob pregethwr ieuangc y deuai i gyffyrddiad ag ef, ac ychwanegai, fod diffyg y synwyr cyffredin mewn gweinidogion wedi gwneyd mwy i rwygo eglwysi na phob drwg arall yn nghyd. Aeth amryw o gyfeillion gwresog Crugybar a Llanwrtyd i urddiad eu cyfaill ieuangc Hughes, a chawsant yno le rhyfeddol o nefolaidd. Dywedir fod Nancy Jones, Godre'rmynydd, yn bloeddio allan, "O diolch, os ydym wedi cyfarfod a llawer o groesau duon, mae yn Groeswen i gyd yma heddyw." Wrth ymddiddan a Mr. Hughes yn Chwefror, 1837, dywedai wrthym, "Deugain mlynedd i'r mis hwn yr urddwyd fi yma. Nid oeddwn ond bachgen bach *raw*, dibrofiad, a diddysg o sir Gaerfyrddin, ac yr oeddwn yn teimlo yn lled sicr os goddefasai y bobl fi yma o fis Chwefror hyd y mis Mai canlynol mai dyna fuasai yr eithaf, ond yma yr wyf etto ar ben y deugain mlynedd trwy ryfedd ras Duw a thiriondeb dynion." Dywedodd wrthym unwaith, pan y gofynem ei gyngor am y modd goreu i ddysgu yr iaith Saesonaeg, "Peidiwch a gwneyd fel y gwnes i, os nad ydych am wastraffu eich galluoedd mewn llafur ofer. Pan y daethum i yma yr oedd yma tua thri chant o gyfrolau o awdwyr Saesonig wedi cael eu gadael gan Mr. Edwards, yr hen weinidog, at wasanaeth ei ganlyniedyddion yn y weinidogaeth. Gan nad oedd yn fy meddiant i ond nifer fechan iawn o lyfrau Cymreig, ac nad oeddwn yn deall ond ychydig eiriau o Saesoneg, mi a benderfynais y mynaswn ddyfod i ddeall y llyfrau oedd wedi cael eu gadael yma at fy ngwasanaeth, pa faint bynag a gostiai hyny i mi, ac felly, heb ymgynghori a neb, mi a gymerais Eiriadur Saesonaeg a Chymreig Dr. W. Richards, ac a'i dysgais bob gair o'i ddechreu i'w ddiwedd ar fy nhafod, fel y gallaswn ei adrodd fel adrodd penod mewn oedfa. Ond, welwch

chwi, mi a ddysgais filoedd o eiriau na buont o un gwasanaeth i mi byth. Ceisiwch chwi ryw ffordd ratach i feistroli y Saesonaeg." Cyn gynted ag yr ymsefydlodd yn y Groeswen, ymroddodd gydag egni a phenderfyniad didroi i wneyd i fyny am ei ddiffyg o fanteision addysg yn moreu ei oes. Meistrolodd yr iaith Saesoneg mewn ychydig amser, ond mewn dull, fel y gwelwn, na buasai gan un dyn o filiwn ddigon o benderfyniad i'w ddilyn; daeth hefyd yn dra chydnabyddus a'r ieithoedd Hebraeg a Groeg. Dywedai yr enwog Dr. Jenkin Lewis, o'r Casnewydd, ei fod yn deall Hebraeg yn llawn cystal ag y deallai efe ef, ond dichon fod tipyn o ormodiaeth yn y dywediad hwnw. Pa fodd bynag, yr oedd yn dra chyfarwydd yn ieithoedd gwreiddiol yr ysgrythyrau; ac yr oedd ganddo for dihysbydd o wybodaeth dduwinyddol. Cyfododd ar ddechreuad ei weinidogaeth i enwogrwydd diail fel pregethwr, a pharhaodd ei boblogrwydd hyd derfyn ei oes. Bu yn llwyddianus iawn fel gweinidog yn y Groeswen a'r holl wlad oddiamgylch. Trwy ei lafur ef yn benaf yr adeiladwyd y capeli yn Llantrisant a'r Rhydri, ac yr oedd Libanus, Llanfabon, a chapel y Nantgarw, wedi cael eu hadeiladu rai blynyddau cyn ei farwolaeth ef. Ond cadw y Groeswen i fyny fel Jerusalem fawr oedd y prif beth mewn golwg ganddo ef a'r bobl yn hytrach na phlanu eglwysi mewn ardaloedd cylchynol, a thrwy hyny wanychu yr hen fam.

Wedi llafurio yn y maes helaeth hwn am fwy na dwy-flynedd-a-deugain, terfynodd y dyn mawr hwn ei yrfa Gorphenaf 30ain, 1839, yn y bedwarfedd-flwyddyn-a-thri-ugain o'i oed. Ar ddydd ei angladd pregethodd Mr. Davies, New Inn, wrth y ty cyn cychwyn, ac yn y Groeswen pregethodd Mr. Isaac Harries, o'r Morfa, oddiar 1 Tim. i. 15. Yr oedd y marw yn ei gystudd wedi dewis y pregethwr a'r testyn. Bu Mr. Hughes yn ddyn sengl am y rhan fwyaf o'i oes, ond ychydig flynyddau cyn ei farwolaeth ymunodd mewn priodas a gwraig weddw o Ferthyr, yr hon fu yn famaeth dyner iddo yn mlynyddoedd ei fethiant.

Yr ydym yn teimlo mai nid gorchwyl hawdd yw rhoddi darluniad byw, cywir, a theg o Mr. Hughes, fel ag i alluogi y rhai nas gwelsant ac nas clywsant ef erioed i ffurfio barn gywir am dano. Nid oes genym ond ymgynyg at y gorchwyl a'i gyflawni yn y modd goreu ag y medrom. O ran ei gorph yr oedd yn dra byr, tua thair neu bedair modfedd dros bum troedfedd o daldra ydoedd. Yr oedd ei gnawd o liw goleu, ei wynebpryd yn hardd a siriol, ei dalcen yn llawn ac yn dangos cyflawnder o alluoedd meddyliol, ei edrychiad yn dreiddiol, ond yn llawn mwyneidd-dra. Yr oedd cyn i ni gael adnabyddiaeth o hono wedi myned yn afluniaidd o dew, fel yr oedd ei fochau yn disgyn i lawr dros ranau o goler ei hugan, a'i ên yn hollol guddio ei wddf. Ond er y tewder anferth hwn yr oedd llawer o'r prydferthwch a'i nodweddai yn nyddiau ei ieuengctyd yn aros hyd y diwedd. Darfu i'w ddewder a'r gymalwst, yr hwn a'i poenai yn ddirfawr, ei analluogi i wneyd nemawr mwy na thraddodi pregeth yn awr a phryd arall ar foreuau y Sabbothau yn y Groeswen, am y saith neu yr wyth mlynedd olaf o'i fywyd. Ond y fath oedd cariad y bobl ato, a'r gwerth a osodent ar ei gyflawniadau, fel y buasent yn gwbl foddlon os gallasai draddodi pregeth neu ddwy yn y mis iddynt.

O ran ei dymer yr oedd yn un o'r dynion mwyaf hynaws a charedig a sangodd y ddaear erioed. Yr oedd sarugrwydd yn beth hollol anghydweddol a'i natur, a buasai rhoddi dolur i deimlad unrhyw ddyn yn beth yr aethai

i unrhyw anfantais er gochelyd ei wneyd. Yr oedd yn ddyn mor ddiddrwg a charedig fel y buasai yn ofynol cael dyn mwy cythreulig na'r cyffredin o'r diffeithwyr i ddyweyd dim yn angharedig wrtho, nac ymddwyn yn angharedig tuag ato. Yr oedd ganddo ryw fedrusrwydd rhyfeddol i heddychu pleidiau anghydfyddus. Yr oedd ei agwedd angylaidd, mwyneidddra ei eiriau, a'i dymer siriol a charedig, yn lladd pob tymer gas yn y rhai a ddeuent i gyffyrddiad ag ef. Yn y flwyddyn 1809, digwyddodd i Mr. Hughes, a dau neu dri o'r diaconiaid, roddi caniatad i gladdu gwraig yn y capel heb alw cyfarfod eglwysig er cael cydsyniad yr holl eglwys a'r peth. Ffromodd rhai yn aruthr o herwydd hyny. Y Sabboth canlynol, penderfynodd y brodyr tramgwyddedig yr elent i'r Tyllwyd, amaethdy cyfagos, i gynal cyfarfod gweddio ar amser y gwasanaeth boreuol yn y capel. Pan ddaeth Mr. Hughes yno, gwelai y bobl yn dyrau yma ac acw yn siarad a'u gilydd o gylch drws y capel, ac wedi iddo holi, hysbyswyd ef fod nifer o'r aelodau yn dramgwyddedig wedi myned i Tyllwyd i gynal cyfarfod gweddi. Ystyriodd y peth am fynyd neu ddwy, yna dywedodd wrth y cyfeillion am fyned i mewn i'r capel a dechreu y gwasanaeth. "A minau," meddai, "a âf i'r Tyllwyd i edrych pa beth a ellir wneyd yno." Amheuai rhai ddoethineb ei gynllun, ond heb roddi amser i neb i gyfodi gwrthddadleuon, i ffwrdd ag ef tua'r Tyllwyd. Erbyn ei fod yno yr oedd yr ail weddiwr ar weddi. Pan orphenodd hwnw, galwyd y trydydd, a chyda bod hwnw yn cael ei enwi, "Ie, frawd bach," ebe Mr. Hughes, "gweddiwch chwi, a minau a weddiaf ar eich ol." Erbyn ei fod ef wedi cyfodi oddiar ei liniau yr oedd pawb yno wedi anghofio y tramgwydd, ac yn barod i fyned gydag ef i'r capel dan gerdded ac wylo. Er ei fod yn un o'r dynion cryfaf ei alluoedd, helaethaf ei wybodaeth, a mwyaf ei athrylith a'i hyawdledd fel pregethwr yn Nghymru yn ei oes, yr oedd mor ostyngedig a diymhongar a'r iselaf yn mysg ei frodyr, ac yr oedd ei dynerwch tuag at bawb, yn enwedig pregethwyr ieuaingc gwylaidd, yn peri i bawb ei anwylo. Ymddygai yn mhob man fel pe buasai yn hollol anymwybodol o'i fawredd, a thrwy hyny, gorfodai bawb i deimlo yn garedig tuag ato, ac i siarad yn barchus am dano.

Yr oedd o ran ei alluoedd meddyliol, yn enwedig ei gôf, yn un o'r dynion galluocaf mewn unrhyw oes a gwlad. Fel y nodasom yn barod, dysgodd eiriadur cyfan mewn ychydig fisoedd, fel y gallasai adrodd pob gair Saesoneg a Chymreig ynddo o'r A i'r Z. Pan y darllenai unrhyw lyfr o bwys, ysgrifenai dalfyriad o hono, ac felly trysorai ei holl gynwysiad yn ei gôf. Gyda ei fod yn gofus, yr oedd ganddo feddwl nodedig o dreiddgar a chraffus, fel y gallasai ddilyn yr ymresymiadau mwyaf dyrus, a gosod allan feddylddrychau yr awdwyr gorddyfnaf gydag eglurdeb yn ei eiriau ei hun. Nid oedd un ymresymiad yn Edwards ar yr Ewyllys, Wollaston ar Grefydd Natur, Cafatebiad Butler, a thraethawd Dr. Williams ar Benarglwyddiaeth, nad oedd efe wedi ei hollol feistroli. Ac am ysgrifeniadau yr hen dduwinyddion, yn enwedig Owen, Charnock, Howe, a'u cyffelyb, yr oedd eu cynwysiad ganddo, fel y dywedir, wrth benau ei fysedd. Yr oedd yn ddarllenwr diail, ac yn troi y cwbl a ddarllenai yn ymborth i'w feddwl, fel yr oedd ganddo ystor ddihysbydd o feddyliau y dynion mwyaf ar bob cangen o dduwinyddiaeth athrawiaethol, ymarferol a phrofiadol, yn barod yn ei gôf cynwysfawr i'w troi i wasanaeth ymarferol pa bryd bynag y buasai galwad am danynt.

Er fod cewri yn y pulpud Cymreig yn ei ddyddiau ef, nis gallwn gredu

Digitized by Google

fod cymaint ag un o honynt yn rhagori arno ef a chymeryd pob peth i ystyriaeth. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, ei lais yn llawn ystwythder, perseiniol, a nodedig o effeithiol, er na byddai un amser yn cynyg canu ei bregethau; ei feddwl yn cynwys ystor ddihysbydd o wybodaeth dduwinyddol, a'i allu darluniadol yn ddiail. Medrai feistroli cynnulleidfa fel y mynai. Bwriai allan ryw ymadrodd ffraethlym nes cyffroi gwen trwy yr holl dorf, ac ar y foment nesaf gosodai hwynt yn foddfa o ddagrau. Yr oedd ganddo y fath lywodraeth ar ei lais a gwedd ei wynebpryd fel y gallai gyfaddasu y naill a'r llall ar darawiad amrant i'r hyn fyddai ganddo dan sylw. Pan yn dyweyd rhyw beth bygythiol byddai dychryn yn weledig yn ei wyneb ac yn glywedig yn seiniau ei lais, ac wrth droi at ryw addewid felus newidiai ei wedd a'i swn mewn moment. Yr oedd ei allu darluniadol y fath fel y gosodai y gwrthddrychau y soniai am danynt yn fyw ger bron ei wrandawyr. Clywsom y diweddar Rees Powell, o'r Brychgoed, yn adrodd rhan o bregeth ar y ddeddf a draddodasai mewn cymanfa. Darluniai y pechadur yn dal tyddyn dan y ddeddf ar lechwedd mynydd, ac wedi iddo fod am flynyddau yno heb dalu un geiniog o rent, ac heb dalu unrhyw sylw i'r rhybuddion mynych a anfonasid iddo, y mae ei feistres ar un boreu yn dyfod at ei dŷ a'i swyddogion gyda hi. Heria y tenant hi gan folltio y drws yn ei herbyn a llechu ei hun yn y ty. Gwthia y swyddogion cedyrn y drws yn agored er cadarned y byllt a'r cloïon rhydlyd. Wedi myned i mewn, y mae cyfiawnder, y prif swyddog, yn ymaflyd yn y dyledwr gan ei lindagu a'i lusgo allan i fyned ag ef i garchar. Yntau, ar ol dechreu teimlo gafaelion ofnadwy y swyddog, a waedda allan mewn llefau torcalonus am gymorth a thrugaredd. Addefa yn awr ei holl ddyled, ond cwyna nad oes ganddo ddim i'w dalu. Pan ar y ffordd i'r carchar y mae ei lefau truenus yn tynu sylw ac yn cyffroi tosturi boneddwr hardd yr olwg arno, yr hwn sydd yn troi at feistres y tenant tlawd gan ofyn iddi pa faint yw swm y ddyled; wedi cael ateb y mae yn talu y swm i lawr drosto mewn aur pur. Yna gwaedda y foneddiges ar ei swyddog, "Gollwng ef, myfi a gefais iawn." Gyda bod y methdalwr yn teimlo gafaelion y swyddog yn gollwng, rheda at ei gymwynaswr gan ymaflyd yn ei draed, syrthio ger ei fron mewn pangfeydd o ddiolchgarwch, a gwaeddi allan, "Arglwydd, pa beth a fyni di i mi ei wneuthur?" Mor berffaith y tynai meistr y gynnulleidfa yr holl ddarlun fel yr oedd y gwrandawyr yn llygaid ac yn glustiau, oll a braidd yn methu cael amser i dynu eu hanadl na llyncu eu poeryn gan eu hawydd i ddal ar bob gair a leferid. Ymddangosai y tyddyndy llwyd ar lechwedd y mynydd, y foneddiges a'i swyddogion yn myned at y drws ac yn ei wthio yn agored, y dyledwr yn cael ei lusgo allan, yr orymdaith o'r ty tua'r carchar, y boneddwr hynaws yn talu gofynion y foneddiges, a'r methdalwr wedi ei ollwng yn rhedeg at draed ei gymwynaswr, oll yn olygfeydd byw o flaen y gwrandawyr; a chyda bod y pregethwr yn gwneyd cymhwysiad o'r darlun a dynesid mor gelfydd ganddo, mae yr holl dorf yn tori allan yn un fonllef o orfoledd; rhai yn canu, eraill yn wylo, ac eraill yn syrthio i lewygfeydd gan angerdd eu teimlad. Yr oedd galluoedd darluniadol Griffith Hughes yn llawn cyn berffeithiad a'r eiddo Christmas Evans, a phrydferthwch ei berson, nerth, pereidd-dra, ac ystwythder ei lais, ac eangder cylch ei wybodaeth, yn rhoddi iddo fantais ddirfawr ar Evans. Pe buasai Hughes yn gwrteithio ei alluoedd, ac yn gwneyd ei hun mor gyhoeddus ag Evans, mae yn sicr y buasai wedi esgyn lawer yn uwch nag ef i binacl enwogrwydd, ond gan iddo lechu am y rhan fwyaf o'i

Digitized by Google

oes yn ei nyth cynes yn y Groeswen, ni chafodd ei alluoedd ardderchog fawr o gyfleusdra i'w dangos eu hunain yn eu prydferthwch a'u nerth.

Yr oedd y Groeswen yn lle nodedig ac enwog dros ben tra y parhaodd Hughes i allu pregethu yn gyson yno. Byddai yno olygfa brydferth ar foreu Sabboth, yn enwedig y Sabboth cymundeb, yn yr haf. Gwelid y torfeydd yn tyru yno o bob cyfeiriad; rhai ar eu traed, rhai ar feirch, ac eraill mewn cerbydau, ac erbyn eu bod yno oll, byddai y dorf o saith i wyth cant o rif, ac yn eu mysg lawer o'r gwrandawyr mwyaf toddedig a gwresog y tu yma i'r nefoedd. Wedi i bawb gymeryd eu heisteddleoedd ac ymlonyddu, gosodid un o'r pregethwyr cynorthwyol, neu ryw aelod doniol i ddechreu yr oedfa trwy weddi, a chyda y weddi byddai ugeiniau o amenau toddedig i'w clywed yn mhob congl o'r adeilad. Yna esgyna y gweinidog, pwt o ddyn byr, tew, a nodedig o hardd yr olwg arno, i'r areithfa. Wedi canu pennill, darllenai ei destyn mewn llais eglur, llawn, a pherseiniol. Am y chwarter awr cyntaf o'i bregeth rhyw sylwadau esboniadol, gydag ambell sylw ffraethlym, i dynu sylw yn fwy nag i doddi y teimladau, fyddai ganddo. Ond wedi myned ychydig yn mlaen yn ei bregeth, dechreuai fwrw allan feddyliau mawreddog mewn ffrydlif o hyawdledd tanllyd, nes y buasai yr holl dorf yn sefyll ar eu traed yn anymwybodol iddynt eu hunain, a chyn diweddu taflai allan ryw ddau neu dri o sylwadau toddedig fel peleni o dân i ganol y dorf nes y byddai yr holl le yn gynwrf drwyddo. Wedi canu penill saith neu wyth o weithiau drosodd, gweinyddai Swper yr Arglwydd, a pheth hynod fyddai gweled un llygad sych yn mysg y cymunwyr. Yna ymadawai pawb yn foddhaol gan deimlo eu bod wedi cael tal cyflawn am eu trafferth yn cerdded milldiroedd er dyfod yno. Y fath oedd GRIFFITH HUGHES, a'r Groeswen, yn ei amser ef.

MOSES REES. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Llanarth, yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1796. Gogwyddwyd ei feddwl at grefydd, a dechreuodd bregethu pan oedd yn ieuangc. Bu dan addysg yn athrofa y Neuaddlwyd, ac wedi bod yno dros rai blynyddoedd, urddwyd ef yn Nhalybont, sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1822. Ni bu yno ond ychydig fisoedd wedi ei urddo; priododd ferch ei hen athraw, Dr. Phillips, ac aeth i'r ardal hono i fyw, lle yr arhosodd ddwy flynedd. Ar un adeg bu yn cynorthwyo ei dad-yn-nghyfraith gyda'r ysgol, ond yn niwedd y flwyddyn 1824, cafodd alwad gan hen eglwys Pencader, a chynaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Chwefror 10fed, 1825. Bu yno yn dra llafurus am un-mlynedd-ar-bymtheg, ac ar y cyfan yn lled lwyddianus. Cynyddodd yr eglwys a'r gynnulleidfa yn fawr, ac yn 1827, adeiladwyd yno addoldy helaeth. Aeth pethau yn ddiflas rhyngddo a rhai personau yn Mhencader yn agos i derfyn ei weinidogaeth yno, yr hyn fu ar fin gyru yr eglwys i benbleth, ond rhagflaenwyd y cwbl trwy i Mr. Rees yn nechreu y flwyddyn 1841, dderbyn galwad o'r Groeswen, a symudodd yno, lle y llafuriodd hyd ddiwedd ei oes. Bu farw Awst 31ain, 1856, yn 60 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y Groeswen.

Yr oedd Mr. Rees yn ddyn tâl, llawn, a chorphol, a rhywbeth yn urddasol yn yr olwg arno, ei holl ysgogiadau yn hoyw a gwisgi; a holl brydweddion ei wynebpryd yn hawddgar a serchog. Cyfrifid ef gan y rhai a'i hadwaenai oreu yn ffyddlon a chywir fel cyfaill, ac yn ei berthynas a'i frodyr yn y weinidogaeth yr oedd yn ddidwyll a dihoced. Dichon i'w sel dros yr urdd weinidogaethol beri i ryw rai dybied ei fod weithiau yn sathru ar hawliau teg yr eglwysi; ond yr oedd y gofid a gafodd oddiwrth ddynion anesmwyth yn ddigon o reswm paham y teimlai felly. Yr oedd o flaen y

Digitized by Google

rhan fwyaf o'i oes mewn dysg a gwybodaeth, ac yr oedd wedi talu sylw helaeth i gwestiynau duwinyddol. Tra yn Mheucader yr oedd yn eang ei olygiadau ar drefn yr efengyl, a'r wedd ymarferol iddi a ddygid ger bron ganddo agos bob amser; ond wedi symud i'r Groeswen newidiodd ei dôn i fesur, fel yr aeth i roddi arbenigrwydd mawr i'r ochr ddwyfol i'r drefn yn ei bregethau. Awgrymai rhai ei fod yn gwneyd felly oblegid fod y syniadau hyny yn fwy cydweddol ag eiddo pobl y Groeswen, ond y mae yn bosibl hefyd fod oedran a phrofiad wedi ei ddysgu ei fod wedi cario yr ochr ddyledswyddol yn rhy bell, a'i fod o bwys i roddi ymborth iachus i ddynion yn gystal a'u galw at waith. Pa fodd bynag, yr oedd pregethu dyledswyddol ac ymarferol yn fwy cydnaws a'i ddawn ef, heblaw mai dyna y wedd a gymerodd yn ei weinidogaeth yn moreu a chanolddydd ei oes. Yr oedd yn amddifad o'r gwres a'r angerddoldeb hwnw yn ei bregethau oedd mor arbenig yn perthyn i'r Groeswen, a'r hyn oedd wedi gosod argraff mor amlwg ar grefydd y lle. Nid oedd mewn un modd yn sych a diddawn, ac ar droion byddai yn cael oedfaon tra effeithiol; ond yn ei bregethau cyffredin nid oedd yn dyfod i fyny a'r hyn yr oedd eglwys y Groeswen wedi ei fwynhau yn flaenorol. Nid oedd yn gallu eu toddi a'i dynerwch, na'u gorchfygu a'i hyawdledd, ac oblegid hyny, yr oedd dynion merwinllyd eu clustiau, ac arwynebol eu teimladau yn cwyno yn erbyn ei weinidogaeth; a'r hyn a'i gwnai yn fwy annyoddefol byth i'r cyfryw oedd ei fod yn aml yn brathu eu cydwybodau, ac yn codi gwrid i'w gwynebau, trwy ddwyn eu pechodau ger bron eu llygaid. Ystyrid ef gan y dynion goreu yn bregethwr pur a sylweddol, ac yn meddu digon o ddawn i borthi pob teimlad iachus gyda chrefydd. Megis y crybwyllasom eisioes, cafodd ofid oddiwrth rai personau aflonydd, ond diehon yr arbedasid iddo lawer o hyny pe buasai yn fwy gofalus i gadw allan o fan ymrysonau, a phe na buasai mor benderfynol o blaid ei gynlluniau. Yr oedd yn gaeth i reol, ac wedi cytuno arni mewn eglwys neu mewn cyfundeb mynai sefyll ati. Nid rhyw lawer o wrthwynebiad sydd gan eglwysi na chyfundebau i ffurfio deddfau, sefyll drostynt sydd yn dwyn magl; ond yr oedd Mr. Rees yn un o'r rhai ffyddlonaf i'r ddeddf wedi cytuno arni. Nid llawer a ysgrifenodd i'r wasg, ond ymddangosodd traethodau o'i eiddo rai troion yn y *Diwygiwr* a'r *Drysorfa Gynnulleidfaol*, a chyhoeddodd gofiant i Dr. Phillips, Neuaddlwyd, ac yr oedd yn fedrus mewn ysgrifenu a chyfansoddi yn Gymraeg. Bu eglwys y Groeswen yn dra charedig iddo yn ei gystudd diweddaf, yr hwn a barhaodd am lawer o fisoedd; ac y mae ei enw yn barchus yn y wlad hyd heddyw, a bydd felly etto dros lawer o flynyddoedd.

WILLIAM WILLIAMS, (Caledfryn). Ganwyd ef yn Ninbych, Chwefror 6ed, 1801. Yr oedd ei rieni mewn amgylchiadau bydol lled gysurus pan oedd ef yn blentyn, ond cyn ei fod yn ddeg oed dechreuodd pethau gymylu; ac felly ymddifadwyd ef o'r manteision a fwriadai ei rieni roddi iddo. Bu yn yr ysgol gyda Mr. Thomas Jones, Moelfre, ac os nad ydym wedi ein camhysbysu, bu dan addysg Mr. Arthur Jones, wedi hyny o Fangor. Dygwyd ef i fyny yn yr alwedigaeth o wehydd, ac ynddi yr arhosodd dros rai blynyddoedd. Yr oedd ei rieni yn dal cysylltiad a'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yn nglyn a'r enwad hwnw y cychwynodd yntau ei fywyd crefyddol, ac yr oedd ganddo hyd ddiwedd ei oes lawer o adgofion am yr hen bregethwyr perthynol iddynt a arferai wrando yn nyddiau ei ieuengctyd. Dangosodd yn ieuangc dueddfryd cryf at farddoniaeth, a thalodd sylw mawr i reolau barddoniaeth a Gramadeg Cymraeg.

Digitized by Google

Dechreuodd ohebu i'r *Seren Gomer*, dan yr enw *Gwilym Caledfryn*, cyn ei fod yn ugain oed, ac y mae englynion o'i eiddo ar glawr y rhifyn cyntaf o'r *Dysgedydd*, a gyhoeddwyd yn Tachwedd, 1821. Nid ydym yn gwybod yr amgylchiadau dan ba rai yr ymadawodd a'r Methodistiaid, na pha bryd yn gywir yr ymunodd a'r Annibynwyr, ond ymddengys mai wedi sefydliad Mr. Roberts yn Ninbych, y bu hyny. Yr oedd Mr. Thomas Pierce, o Liverpool, wedi hyny, ac yntau agos yn gyfoed, ac yn gyfeillion mawr. Cydchwareuent pan yn blant, ac wedi tyfu i fyny yn llangciau ymneillduent oddiwrth luaws ieuengctyd y dref i ymddiddan am lenyddiaeth a barddoniaeth, ac i adrodd a beirniadu y pregethau a wrandawent, ac i ddadleu ar y pyngciau duwinyddol a gynhyrfent y wlad yn y dyddiau hyny. Tua diwedd y flwyddyn 1826, anogwyd Mr. Williams gan Mr. Roberts a'r eglwys i ddechreu pregethu. Gwnaeth ef a'i gyfaill, Mr. Thomas Pierce, eu cynyg cyntaf yn gyhoeddus yr un noson; ac yn ngwanwyn y flwyddyn aeth y ddau gyda'u gilydd am daith fer i sir Gaernarfon a sir Fon. Aeth Mr. Williams ar ol hyny i athrofa Rotherham, ond ni bu ei arosiad yno ond byr. Dychwelodd i Gymru, a chyn hir derbyniodd alwad o Lanerchymedd a Mynaddfwyn, Mon, ac urddwyd ef yno Mehefin 2il, 1829. Dechreuodd dynu sylw fel pregethwr ar gyfrif ei ffraethder a'i gyfanrwydd, er nad ymddangosai ynddo y pryd hwnw elfenau y poblogrwydd a gyrhaeddodd wedi hyny. Ychydig gyda dwy flynedd yr arosodd yno, canys derbyniodd alwad o hen eglwys barchus Pendref, Caernarfon, a symudodd yno. Tynodd yno sylw mawr yn fuan, a chyrchai llawer i wrando arno, ond oblegid llymder ei weinidogaeth, a'i ddynoethiad parhaus o ddrygedd a drwgduedd crefydd sefydledig, tynodd ŵg ac anfoddlonrwydd llawer. Talai sylw mawr yn y blynyddoedd hyny i lenyddiaeth a barddoniaeth, a bu a fynai a golygu amryw bapurau a misolion, y rhai tra yr oeddynt yn tueddu i gynyddu ei boblogrwydd gydag un dosbarth, a barai i eraill ei feio am ymyryd a phethau nad oeddynt, yn ol eu tyb hwy, yn gydweddol ag urddas yr efengyl. Yr oedd y Methodistiaid Calfinaidd yn llawer mwy ceidwadol yn eu golygiadau politicaidd yn y cyfnod hwnw nag ydynt yn awr, a gogwyddai llawer o honynt yn gryf at yr Eglwys Sefydledig, fel y dyoddefodd efe lawer o sarhad oddi wrthynt, fel y tybiai, yn ysbaid blynyddoedd cyntaf ei arosiad yn Nghaernarfon, yr hyn, fel yr oedd yn ddigon naturiol, a chwerwodd ei ysbryd yntau tuag atynt, ac a barodd iddo ddywedyd geiriau caledion wrthynt ac am danynt. Parodd hefyd ei waith yn cymeryd yr ochr wrthwynebol i lwyrymataliad ar doriad y diwygiad dirwestol allan yn Ngogledd Cymru, i'r drwg-deimlad gryfhau rhyngddo a'r Methodistiaid, er i hyny beri i lawer o'r rhai oedd yn cydsynio ag ef, ac yn cydymdeimlo a'i olygiadau nesau ato. Ond trwy y cwbl yr oedd ei barch a'i boblogrwydd yn Nghaernarfon yn cynyddu, ac aeth yr hen gapel yn rhy gyfyng fel y bu raid adeiladu un llawer helaethach. Ni ddiangodd heb gyfarfod a chroesau oddiwrth ei bobl ei hun, a chyfododd y drwg-deimlad mor uchel o'r diwedd fel yr aeth nifer o'r aelodau allan, a chychwynasant achos arall mewn cwr arall i'r dref. Tymor cythryblus ar Annibyniaeth yn sir Gaernarfon oedd y tymor yma, ac er fod y rhan fwyaf o lawer o'r gweinidogion yn cefnogi Mr. Williams a'r eglwys yn Mhendref, etto yr oedd amryw yn cymeryd plaid y rhai a aeth allan, ac yn pregethu iddynt, yr hyn a barodd lawer o ymbleidio a chwerwder ysbryd, fel y cymerodd lawer o flynyddoedd i lwyr iachau y teimladau. Nid ydym yn cymeryd arnom ddywedyd ar bwy yr

oedd mwyaf o fai, ond yn unig mynegu y peth fel y bu; ond y mae yn bur debyg fod llawer o fai o bob tu, ac y gallesid gydag ychydig o fwyneidd-dra a doethineb ragflaenu y cwbl. Yn y flwyddyn 1848, derbyniodd Mr. Williams alwad gan yr eglwys fechan yn Aldersgate-Street, Llundain, a phenderfynodd fyned yno. Ar ei ymadawiad gwnaed tysteb iddo gan ei gyfeillion yn Nghaernarfon, ac eraill, fel arwydd o'u parch iddo, a chyfranwyd ati gan luaws mawr o bersonau a wahaniaethent yn fawr oddiwrtho ar lawer o bethau, oblegid credent ei fod yn unplyg a dihoced yn y cwbl. Teimlid chwithdod mawr wrth feddwl ei golli o Gaernarfon, lle yr oedd wedi bod cyhyd, a lle yr edrychid arno wedi gwneyd ei gartref am ei oes. Ni bu ei arosiad yn Llundain ond byr, ac nid oedd y lle yn ei ateb mewn un modd. Yr oedd trwy ei oes wedi arfer ag awyr iach y mynyddoedd, ac yfed yr awelon balmaidd, a chael cynnulleidfaoedd cyffrous i wrando arno, fel yr oedd yn hollol allan o'i elfen yn nghanol tarth afiach y ddinas fawr yn pregethu i gynnulleidfa fechan o Gymry mewn gwlad estronol. Nid oedd y lle ychwaith yn cytuno ag iechyd Mrs. Williams; ac oblegid hyny, cyn diwedd y flwyddyn 1850, derbyniodd alwad o Lanrwst, a symudodd yno. Bu yma yn ddedwydd a defnyddiol dros amryw flynyddoedd, nes iddo gladdu ei anwyl wraig, ac ni bu yn esmwyth yn y lle yn hir wedi hyny. Ailbriododd, ac aeth i fyw dros ychydig i Fangor, ac wedi rhoddi yr eglwys yn Llanrwst i fyny, cymerodd ofal yr eglwys fechan yn Beulah, gerllaw Bangor, dros dymor. Yn y flwyddyn 1857, derbyniodd alwad o hen eglwys gyfrifol y Groeswen, a symudodd yno, ac yno y treuliodd weddill ei oes. Derbyniodd alwad o'r un lle yn y flwyddyn 1840, ond dewisodd aros yn Nghaernarfon y pryd hwnw; ac y mae yn debyg ei fod yn gymhwysach i'r Groeswen pan yr aeth yno na phe yr aethai yno ugain mlynedd yn gynt. Claddodd ei ail wraig cyn hir wedi iddo sefydlu yn y Groeswen, ac yn mhen amser priododd drachefn a chafodd ymgeledd gymhwys. Bu o gysur mawr iddo yn mhrydnhawn ei fywyd, a gadawodd hi yn weddw ar ei ol. Dichon na bu ar un cyfnod yn ei fywyd gweinidogaethol yn ddedwyddach, nac mor ddedwydd, ag y bu yn y Groeswen. Yr oedd ef a hwythau fel wedi eu gwneyd ar gyfer eu gilydd. Yr oedd y gwresogrwydd oedd yn yr eglwys yn hollol gydnaws a bywiogrwydd ei dymer fel pregethwr; ac yr oedd yr amgylchiadau a'i cyfarfu wedi rhywiogi a llareiddio llawer ar ei ysbryd rhagor yr hyn ydoedd yn nyddiau ei nerth; heblaw ei fod wedi disgyn i fysg pobl grefyddol, y rhai a fedrent werthfawrogi ei gymhwysderau gweinidogaethol a gwneyd aberthau i dangnefedd a chydweithrediad.

Er fod ei iechyd er's rhai misoedd i'w weled yn dadfeilio, etto daliodd i wneyd ei waith hyd y Sabboth olaf y bu byw. Boreu Sabboth, Mawrth 21ain, 1869, er ei fod yn llesg a gwan aeth i'r capel a phregethodd yn dra effeithiol ar ymostyngiad a dychweliad Manasseh, ac wedi gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd aeth i'w dŷ, ac heb fawr o gyfnewidiad ynddo i'r olwg allanol bu farw mewn tangnefedd am naw o'r gloch y nos Fawrth canlynol. Yn mhen yr wythnos ymgasglodd nifer mawr o wyr bucheddol i'w osod yn ei fedd yn mynwent y Groeswen. Ar ei arch yr oedd yn gerfiedig—"REVEREND W. WILLIAMS (CALEDFRYN), DIED 23RD. MARCH, 1869, AGED 69." Ac wedi i wasanaeth difrifol y claddedigaeth fyned heibio, gadawyd y prif fardd athrylithgar, a'r beirniad craff, a'r pregethwr hyawdl, i gysgu gyda'r lluaws sydd yn gwneyd mynwent y Groeswen yn llanerch gysegredig.

Digitized by Google

Wrth chwilio i elfenau cymeriad, a theithi meddyliol, a neillduelion nodwedd Mr. Williams, yr ydym yn teimlo ein bod yn ymafael mewn gorchwyl anhawdd. Mae yn hawdd dyweyd ei fod yn ddoniol, yn dalentog, ac yn athrylithgar, ond cael allan yr elfenau oedd yn ei wneyd felly, yw yr anhawsder.

Yn ei gymeriad fel bardd a llenor, hwyrach, y daeth yn fwyaf adnabyddus. Rhoddwn yma ddifyniad o ysgrif ar ei nodwedd a ymddangosodd yn y *Dysgedydd* am Mehefin, 1869, gan un hollol gymhwys i draethu ei farn arno fel llenor, bardd, a beirniad.* Yr ydym yn ddyledus i'r ysgrif hono, ac i ysgrifau eraill ar ei nodwedd a geir yn y *Tyst Cymreig*, am lawer o'r sylwadau a geir yn y cofnodion hyn.

"Cydnabyddir yn gyffredinol fod Caledfryn yn sefyll yn uchel iawn fel bardd, llenor, a beirniad. Bydd ei enw ef yn air teuluaidd ar aelwydydd oesoedd o Gymry sydd i boblogi Gwyllt Walia yn y dyfodol. Ni fydd enwau Dafydd ap Gwilym, Dafydd ap Edmwnd, Tudur Aled, William Lleyn, a Goronwy Owain, yn fwy hysbys i feirdd a llenorion yr oesoedd a ddeuant, nag a fydd enwau Dafydd Ionawr, Gwallter Mechain, Dewi Wyn, Robert ap Gwilym Ddu, Eben Fardd, Ieuan Glan Geirionydd, a Chaledfryn. Yn mysg eraill o'i gydwladwyr, cerfiodd Caledfryn ei enw yn annileadwy yn nghalon y genedl; ac yno y bydd, er gwaethaf pobpeth, tra byddo Cymro yn llefaru iaith ei dadau, a llenyddiaeth Gymreig yn bodoli. Am ddechreuad ei yrfa lenyddol, caiff ef ei hun ddywedyd, yn ei ddull cyffredin o lefaru am dano ei hunan, yn y trydydd person unigol:—'Y farddoniaeth gyntaf a dynodd ei sylw oedd Watts' Divine Songs, Emynau Williams, Pantycelyn, Emynau Edward Jones, Maes-y-plwm, a Salmau Edmund Prys. Byddai yn hoff iawn o ddarllen y llinellau barddonol o ddifyniad Mr. Charles, yn y Geiriadur hefyd. Yr oedd efe tuag unarbymtheg oed cyn anturio gwneyd dim ar lun pennill. Pan y torodd allan gyntaf, ni chafodd ddim cefnogaeth gan nemawr, ond yn hytrach teflid pob rhwystr ar ei ffordd gan rai a dybient eu hunain yn feirdd; ac yn enwedig, gan amryw o bobl y capel; canys ystyrid prydyddu pob peth, agos, ond emynau, yn bechod y pryd hwnw, gan laweroedd.

"'Yr Eisteddfod gyntaf o bwys y bu yr awdwr ynddi oedd Eisteddfod Gwrecsam, Medi, 1820. Aeth hefyd i Eisteddfod Caernarfon, Medi, 1821, lle y gwnaethpwyd ef yn "Fardd wrth fraint a defod beirdd ynys Prydain." Yr oedd yr awdwr yn ymgeisydd, ar ol yr Eisteddfod hono, ar y testun, "Ymweliad Sior IV. âg ynys Fon." Ystyriai Dafydd Ddu bedwar cyfansoddiad yn gyfartal ar y testun, ac yr oedd yr awdwr yn un o'r pedwar.' 'Yn Eisteddfod Gwent, Medi, 1822, ennillodd ei englyn ar yr Enfys, yr hyn a'i calonogodd yn fawr i fyned rhagddo. Byth ar ol hyny, y mae rhywbeth wedi bod a wnelai ef â barddoniaeth. Ennillodd amryw fân wobrwyon cyn cyhoeddi y Grawn Awen yn 1826.'

"Yr ydym yn ddiolchgar i Caledfryn am y paragraph canlynol:—'Nid ydyw yr awdwr wedi anghofio yr hyfforddiadau a gafodd yn nghychwyniad ei yrfa, gan Mr. R. Owen, Dinbych. Gohebodd lawer, ar ol hyny, â Gutyn Peris, a chyfeillachodd âg Ieuan Glan Geirionydd, Erfyl, Caerlleon, a Mr. John Jones, Argraffydd y llyfr hwn (y Caniadau), i'r rhai y mae yn ddyledus am lawer o awgrymiadau buddiol. Daeth yr awdwr i gydnabyddiaeth â Gutyn Peris drwy offerynoliaeth Mr. Evan Richardson, Conwy.'

* Mr. R. Thomas, Bangor.

Digitized by Google

Dyna gydnabyddiaeth o rwymedigaeth i eraill deilwng o lenor, a gwr boneddig. Bu Caledfryn yn ymgeisydd aflwyddiannus ar ddau destun yn Eisteddfod Trallwm, Medi, 1824. Un oedd testun y gadair, sef "Dinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid," a'r llall, "Goresgyniad ynys Mon gan Suetonius Paulinus." Ennillwyd y blaenaf gan Eben Fardd, a'r olaf gan Cawrdaf. Gorchfygwyd ef drachefn gan Pedr Fardd, ar "Roddiad y Ddeddf ar fynydd Sinai," yn Eisteddfod Aberhonddu, 1826. Yn Eisteddfod Beaumaris, yn 1832, ennillodd Caledfryn ar y prif destun, "Drylliad yr agerlong Rothsay Castle," a derbyniodd wobr o 20p. a'r tlws cadeiriol; ac yn ychwanegol at hyny, dlws cydroddedig gan ei Huchelder Brenhinol, y Duches of Kent, a'r Princess Victoria y pryd hyny, ond yn bresenol, brenhines Prydain Fawr. Ni chafodd un bardd Cymreig, hyd y gwyddom ni, y fath anrhydedd ag a gafodd Caledfryn y pryd hwnw, drwy gydgyfarfyddiad gwahanol amgylchiadau, a'i athrylith gyfoethog yntau yn ennill y dorch oddiar rif luosog o gydymgeiswyr doniol. Yn y flwyddyn 1838, ennillodd y gadair yn y Fenni, am ei "Awdl er coffadwriaeth am y Parch. Joseph Harris, ac am ei fab, Ieuan Ddu o Lantawy." Yn Rhuddlan, ennillodd ei awdl ar yr "Adgyfodiad," yr ail wobr; a buddugoliaethodd ar "Gwallter Mechain," sef awdl er coffadwriaeth am y bardd a'r hynafiaethydd rhagorol hwnw, yn yr un Eisteddfod. Bu yn aflwyddiannus wedi hyny yn Llundain. Ennillodd Emrys y blaen arno y tro hwnw. Dyna rai o helyntion barddonol ein hybarch frawd o'r Groeswen. Addefir gan bawb, ond rhywrai hynod o anwybodus a rhagfarnllyd, ei fod ef yn gyfansoddwr rhagorol ar y mesurau caethion. Mae ei waith yn oleu, llithrig, a naturiol; ac yn bur agos i fod yn berffaith o ran deddfau y cynghaneddion. Nid ydym yn gweled ei fod mor lwyddiannus pan yn cyfansoddi ar y mesurau rhyddion ag ydyw yn ei gyfansoddiadau ar y mesurau Cymreig. Gellir dywedyd yr un peth am lawer o'n prif-feirdd. Gwyr yr holl wlad fod Caledfryn wedi astudio yr iaith Gymraeg yn fanwl a thrwyadl, ac yn gyfansoddwr campus mewn rhyddiaith, fel yr ydoedd mewn barddoniaeth. Gwyddai pa fodd i wneyd defnydd priodol o bob math o droellymadroddion, a pha bryd i'w gadael yn llonydd. Ysgrifenodd lawer yn ei ddydd, yn ddoniol hefyd, i bapyrau newyddion, a chyhoeddiadau cyfnodol eraill. Y mae englynion o'i waith ef yn y *Dysgedydd* am Chwefror, 1822; a llythyrau o'r eiddo, mewn ymddiffyniad i'w englyn i'r "Enfys," yn *Seren Gomer* am 1823. Felly, dechreuodd ohebu yn gynnar, a pharhaodd i wneyd hyny hyd hwyrddydd ei fywyd. Gwyddys yn dda hefyd ei fod ef fel beirniad ar farddoniaeth yn y mesurau caethion, yn un o brif ddynion y genedl, os nad y penaf oll, wedi dydd Gwallter Mechain. Addefir, hyd yn nod gan y rhai fuont dan ergydion trymaf ei yrdd ef, ei fod yn deall cyfreithiau ymerodraeth yr awen yn drwyadl. Yr oedd yn graff, manwl, a phenderfynol yn ei farn, ac yn dra chydwybodol yn ei ddedfrydau. Wrth ddywedyd hyn, nid ydym yn golygu ei fod ef yn fwy cydwybodol na lluaws o'n beirniaid llenyddol, ac nid oes genym y cydymdeimlad lleiaf â'r bobl sydd yn barod i gyhuddo beirniaid o anhegwch yn wastadol. Mesur a phwyso eraill wrthynt eu hunain y mae y cydwybodolion hyn. Hwy eu hunain sydd yn dyfod i'r golwg trwy y cyfan o'u hawgrymiadau am bobl eraill. Yr ydym ni wedi bod dan yr ordd gan Caledfryn fwy nag unwaith; ond nid yw ein syniad uchel am dano, fel beirniad craff a deallus, fymryn llai oblegid hyny. Yr unig beth



Digitized by Google

fyddai yn ein hanfoddloni yn ei feirniadaethau ef oedd, y llymder a'r toster diangenrhaid, yn ein bryd ni, oedd weithiau yn rhedeg drwyddynt. Gwnaethai ei sylwadau beirniadol fwy o wir les pe buasai *mwyneidd-dra* doethineb yn amlycach ynddynt. Yr oedd Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd, ac Eben Fardd, yn *fwynach* nag ef fel beirniaid, ac felly yr oedd ganddynt well mantais i ddysgu yr anghyfarwydd nag oedd gan Caledfryn. Y mae yn llawer hawddach cyhoeddi dedfryd y gyfraith o orsedd barn, na chyflawni y gyfraith fel ymgeisydd am y gamp. Gallesid profi hyny trwy gyfansoddiadau y beirniad enwog hwn ei hunan, pe buasai achos am hyny. Dylai beirniaid gofio yn wastadol, nad yw bod yn fwyn a boneddigaidd yn eu nodiadau, rwystr yn y byd iddynt fod yn fanwl, gonest, a chydwybodol yn eu dedfrydau. Er y pethau hyn, a phethau ereill a allesid grybwyll, o ran gwybodaeth, craffder, purdeb chwaeth, a diysgogrwydd penderfyniad, nid oedd Gwilym Caledfryn yn *ail* i un beirniad yn ei oes. Odid nad â blynyddoedd lawer heibio cyn y caiff yr orsedd farnol yn Nghymru wr o gymhwysderau cyfartal i'r eiddo ef i eistedd arni, ac â llawer yn ychwaneg a flwyddi ymaith cyn y ceir beirniad yn *rhagori* arno ef i'w haddurno."

Bu rhywbeth a fynai a llenyddiaeth agos trwy ei oes. Pan yn weinidog yn Llanerchymedd bu yn golygu y *Sylwedydd*. Pan y sefydlodd yn Nghaernarfon cymerodd olygiaeth *Tywysog Cymru*, misolyn a gychwynwyd gan Mr. T. P. Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Mangor. Bu yn golygu y *Seren Ogleddol*, yr hon a gyhoeddid gan Mr. J. T. Jones yn Nghaernarfon. Mewn cysylltiad a Mr. H. Hughes (Cristion), cychwynodd newyddiadur o dan yr enw *Papur Newydd Cymraeg*. Cychwynodd newyddiadur eilwaith dan yr enw *Baner Gwynedd*. Efe oedd golygydd yr *Adolygydd*, papuryn o nodwedd lled ddifriol, yn enwedig ar lwyrymataliad a llwyrymatalwyr. Bu wedi hyny yn golygu misolyn amaethyddol a gyhoeddid gan Mr. James Rees, Caernarfon. Bu yn rhanol yn ngolygiaeth y *Gwron*, y *Gwladgarwr*, a'r *Dysgedydd*. Cyhoeddodd hefyd amryw lyfrau bychain a mawrion, mewn rhyddiaeth a barddoniaeth. Yn y flwyddyn 1826, cyhoeddodd gyfrol fechan o'i farddoniaeth dan yr enw *Grawn Awen*. Pan yn Llanerchymedd cyhoeddodd draethawd bychan ar yr *Iaith Gymraeg*. Yn y flwyddyn 1839, daeth y *Drych Barddonol* allan. Cyhoeddodd *Ramadeg* wedi hyny; *Palestina*, *Deddfau yr yd*, *Cribddeiliaeth*, *Cymedroldeb*, dau draethawd yn erbyn llwyrymataliad, i'r rhai y cyhoeddwyd amryw atebion; *Annibyniaeth*, *Darlith ar Draddodiadau yr Henafiaid*, *Pregeth Angladdol Mr. Williams, o'r Wern*, *Cyfrol o'i Ganiadau*, yn 1856, *Awdl yr Adgyfodiad*, a rhai ereill nas gallwn yn awr fod yn sicr o honynt; heblaw amryw ysgrifau meithion o'i eiddo a ymddangosodd yn y *Traethodydd*, yr *Adolygydd*, a'r *Beirniad*. Nis gwyddom pa faint o les a wnaeth i'w wlad trwy y llyfrau a gyhoeddodd, ond gwyddom na wnaeth ond ychydig elw iddo ei hun, ac mai colledwr a fu yn y rhan fwyaf o honynt. Nid yw y pethau a ysgrifenodd yn arddangos dirnadaeth eang, na chydnabyddiaeth helaeth a llenyddiaeth yn gyffredinol; ond y mae symledd, eglurder ac ystwythder mawr yn nodweddu y cwbl. Yr oedd yn fwy o erthyglwr nag o awdwr, ac yr oedd mwy o ddelw y newyddiadur na'r gwyddionadur ar ei ysgrifeniadau. Yr oedd hyny yn fantais i'w ddarllenwyr ar y pryd, ond yn anfantais i'w goffadwriaeth ef, gan ei fod wedi treulio ei nerth ar bethau y bydd yn anhawdd gweled eu heffaith wedi llawer o ddyddiau. Bu am gyfnod

Digitized by Google

maith yn ddyn amlwg yn mysg ei enwad a'i genedl gyda phob peth cyhoeddus. Yr oedd yn weithiwr diflino. Ni wyddai am segurdod na diogi, ac yr oedd ganddo ei amser a'i gynllun i bob peth. Dadleuodd yn wrol a diorphwys yn erbyn gormes a gorthrymder—dynoethodd dwyllfasnachaeth a chribddeiliaeth—amddiffynodd bob mesur a dueddai i esmwythau beichiau y wlad—a dychrynodd Doriaid ac uchel-eglwyswyr a'i ysgrifell lem a miniog, yn gystal ag a'i areithiau hyawdl a chynyrfus. Edrychid arno gan lawer yn eithafol yn ei olygiadau politicaidd, er nad oedd yn myned yn ddim pellach nag yr â y lluaws yn y dyddiau hyn; ond dichon ar yr un pryd y gallasai draethu ei syniadau gyda mwy o fwyneidd-dra a thynerwch, a chyda llai o gyfeiriadau a dybid yn sarhaus a phersonol. Parodd ei waith yn cymeryd yr ochr wrthwynebol i lwyrymataliaeth ar doriad y diwygiad dirwestol allan yn Nghymru, i ragfarnau llawer gryfhau tuag ato, ac i eiriau caledion gael eu llefaru am dano, y rhai nis gallesid ddisgwyl i ddyn o'i dymer a'i ysbryd ef eu goddef yn ddisylw. Yr oedd wedi bod drwy ei oes yn nodedig o ofalus yn ei holl arferion, fel yr oedd yn anhawdd iddo wrando ar ddynion oedd newydd gael eu codi o ffos meddwdod, ac eraill yr oedd eu cymeriadau wedi bod yn wastad dan anmheuaeth, yn cablu dynion mwy dichlynaidd na hwy eu hunain. Yr oedd glynu yn ddiollwng wrth y golygiad cyntaf a gymerai ar unrhyw beth yn brofedigaeth iddo, ac yr oedd ei fod yn ffurfio ei farn gyda chryn brysurdeb yn anfantais iddo allu cymeryd golwg ar unrhyw gwestiwn yn ei holl arweddion. Bu ar un adeg yn cario ei syniadau ar berthynas gweinidogion ac eglwysi a'u gilydd i gryn eithafion, a pharodd hyny lawer o anghydwelediad ac anghydfod yn y frawdoliaeth weinidogaethol yn sir Gaernarfon; yr hyn hefyd a effeithiodd yn annymunol ar rai o'r eglwysi. Cariai bethau yn mlaen gyda llaw uchel a braich gref, ac yr oedd ei boblogrwydd fel pregethwr, a'i safiad uchel yn mysg ei frodyr yn peri fod y rhai ni chydwelent ag ef yn cael eu taflu i anfantais. Yr oedd ei olygiadau ar y pethau hyn wedi eu cymedroli yn fawr yn ei flynyddoedd diweddaf, heblaw fod ei ysbryd yn llawer mwy tringar a rhywiogaidd; ac yr ydym yn credu ei fod wedi gweled nad y llwybr a gymerai gynt oedd y goreu i gyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Ond yn y pethau hyn oll yr oedd yn hollol agored a dihoced. Beth bynag a broffesai fod, dyna ydoedd; ac ni ddaeth i'w galon erioed i feddwl rhagrithio na gwenieithio i neb. Yr oedd yn nodedig yn ei ffyddlondeb i'r rhai y cymerai atynt, ac i'r rhai a eisteddent fel dysgyblion wrth ei draed yr oedd yn noddwr tyner ac amddiffynol. Yn ei dŷ ei hun y gwelid ei garedigrwydd yn llawn. Gwnai ei oreu er gwneyd pawb a ymwelai ag ef yn gysurus o dan ei gronglwyd. Yr oedd ei edmygedd yn ddiderfyn o'r lle y preswyliai ei hun, ac ni fynai fod pobl gyffelyb i'r rhai oedd dan ei ofal ef. Teimlai felly yn Llanerchymedd, a Chaernarfon, a Llanrwst, ac yn enwedig felly y teimlai at y Groeswen, lle yn ddiameu y bu yn fwyaf diofid, ac y gwnaeth fwyaf o ddaioni.

Am Mr. Williams fel pregethwr, yr oedd llawer o elfenau wedi cydgyfarfod ynddo i'w wneyd yn bregethwr poblogaidd. Cynysgaeddwyd ef gan natur a chorph hardd a lluniaidd, ac yn nyddiau ei ieuengctyd yr oedd ei wallt teneu melynwawr, ei wyneb crwn llawn, a'i lygaid mawr gleision, yn peri i bob cynnulleidfa deimlo yn hapus wrth wrando arno. Yr oedd yn un o'r siaradwyr mwyaf medrus a meistrolaidd a feddai ein cenedl. Yr oedd peirianau llafar o'r fath berffeithiaf ganddo. Parablai

Digitized by Google

mor esmwyth, a naturiol, a chroyw, a neb a wrandawsom erioed; ac yr oedd ei aceniad a'i bwysleisiad yn swynol, a'r cwbl yn hollol rydd oddi wrth rodres a choegedd. Yr oedd ei wefusau, ai dafod, a ffurfiad ei enau —y cwbl wedi eu gwneyd i siarad. Yr oedd ei iaith yn dryloyw fel y grisial pur, ac yn gywir yn ol deddfau caethaf gramadeg a chwaeth. Safai yn unionsyth yn y pulpud, a golwg ddiarswyd arno, ac yn aml taflai y fath edrychiad a'i lygaid craffus fel y teimlai pawb ar unwaith mai meistr y gynnulleidfa ydoedd. Yr oedd ei lais yn hyglyw a soniarus, ac yn beraidd a swynol tra y parhai i lefaru yn y cywair oedd yn naturiol iddo. Pan godai i gywair uwch, yn y rhan olaf o'i bregeth, yr oedd yn fwy cras a garw, er mai dyna pryd y cariai fwyaf o ddylanwad ar luaws ei wrandawyr; ond yn y rhan gyntaf o'i bregeth y rhoddai i'r dosbarth goleuedig o'i wrandawyr fwyaf o foddhad. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, ac yn mlaen hyd ganol ei oes, siarad yn ffraeth a chyfan y byddai agos yr holl amser; ond pan oedd tua deugain oed newidiodd ei ddull, a daeth yn fwy gwresog a chyffrous yn ei draddodiad. Barnai rhai mai cyfnewidiad er gwaeth a ddaeth drosto, a'i fod trwy y newidiad wedi colli llawer o'i ragoriaethau fel areithiwr coeth a hyawdl. Nid amcanwn yma roddi barn ar hyny, ond y mae un peth yn ffaith, mai wedi y cyfnewidiad y daeth i gael ei deimlo yn ei effeithiolaeth ar gynnulleidfaoedd fel pregethwr poblogaidd. Nid ymyrodd ond ychydig erioed ag athrawiaethau yr efengyl. Nid mewn egluro gwirioneddau mawrion y Bibl, a "phrophwydo yn ol cysondeb y ffydd," yr oedd ei ragoriaeth. O ran ei olygiadau duwinyddol yr oedd yr hyn a elwir yn Galfiniad cymedrol, ac ni chiliodd oddiwrth hyny mewn cyfnod yr oedd syniadau mwy eithafol yn bur boblogaidd. Cerddai ganol y ffordd heb wyro ar y llaw ddeheu nac ar y llaw aswy. Teimlai mai i bregethu y gwirionedd ac nid i'w gysoni yr anfonwyd ef. Ymarferol oedd nodwedd ei bregethau fynychaf, er fod ganddo rai pregethau oeddynt yn nodedig ar gyfrif eu tlysni a'u prydferthwch barddonol; ond mewn dynoethi drygau ysgeler, a thrin cymeriadau rhagrithiol yr oedd ei fawr gryfder. Nid oedd neb yn ei oes a wawdiai ofergoeledd ac arferion llygredig ei wlad yn fwy effeithiol. Taflai ei law yn ol, yr hyn gyda thremiad dynodiadol ei lygaid, a disgyniad ei eiriau y rhai oedd fel olew berwedig, a wnai y cymeriadau a ddysgrifiai yn ddirmygus yn ngolwg pawb a'i gwrandawai. Yr oedd cynhesrwydd a gwres ei weinidogaeth, a'r dull y dygai "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio" i mewn i'w holl bregethau, ac yn enwedig ei fedr neillduol i daflu ei ysbryd cyffrous i'r oll a lefarai, yn ei wneyd yn gyfryw un ag a gariai ddylanwad grymus ar ei holl wrandawyr. Yr oedd wedi cyfranogi i fesur helaeth iawn o fywiogrwydd hen bregethwyr yr oes o'r blaen. Unai ynddo ei hun lawer iawn o wresogrwydd yr hen oes, a choethder a destlusrwydd yr oes hon. Yr oedd ei iaith yn bur a choeth, ei barabliad yn groyw a pherseiniol, ei ymadroddiad yn esmwyth a llifeiriol, ei lais yn glochaidd ac effeithiol, a'i ysbryd yn gynes a thanllyd. Gallai dynu darluniadau byw yn ei bregethau, a'u prydferthu a swynion y darfelydd medrus; a chofir gyda hiraeth am dano, yn pregethu gyda hyawdledd ar esgynloriau cymanfaoedd Cymru hyd onid êl y genhedlaeth hon heibio. Yn mysg lluaws o ser Cymru sydd wedi cilio o'r golwg yn ddiweddar, erys coffadwriaeth y cyfaill siriol, y cristion cywir, y llenor campus, y prif fardd athrylithfawr, y beirniad craff, y pregethwr doniol, a'r gweinidog ffyddlawn—Gwilym Caledfryn.

Digitized by Google

# EBENEZER, RHYDRI.

Tua y flwyddyn 1766, dechreuodd adfywiad grymus ar grefydd gymeryd lle ar lanau yr afon Rhymni, o Fachen i fyny hyd Bont-yr-ystrad, dan weinidogaeth danllyd Mr. Roger Rogers, gweinidog Heolyfelin, Casnewydd, a Mr. William Edwards, Groeswen. Parhaodd y llwyddiant yma am flynyddau. Yn 1772, dywedai Mr. Edmund Jones, Pontypool, mewn llythyr at Mr. Howell Harries, Trefecca, fod yr holl wlad o Forge, Machen, hyd Bont-yr-ystrad, ac oddiamgylch Caerphili, fel tir Beulah. Yn rhyw fodd neu gilydd gwywodd yr achos yma drachefn tua diwedd y ganrif ddiweddaf, fel nad oedd ond nifer fechan o broffeswyr crefydd i'w cael yn yr holl fro yn nechreuad y ganrif bresenol. Yn amser y llwyddiant yr oedd cangen flodeuog o eglwys Heolyfelin yn cynal moddion cyson yn yr Ysguborfach, yn mhlwyf Machen. Byddai Morgan Evans, o'r Llwyngwyn, yn mhlwyf y Rhydri, yn arfer mynychu y cyfarfodydd a gynelid yn yr Ysguborfach, a byddai yn fynych yn cael pregethwyr i ddyfod i bregethu i'w dŷ ef. Tua 1794, darfu i'r hen gristion ffyddlon Dafydd William Dafydd, yn nghyda dwy chwaer seraphaidd o'r enwau Margaret Edmunds a Margaret Gibbon, gymeryd anedd-dy yn mhlwyf y Rhydri, yn agos i'r fan y saif y capel yn bresenol, at gynal moddion crefyddol yn rheolaidd yno. Aelodau yn y Groeswen oedd D. W. Dafydd a Margaret Edmunds, ac aelod yn Heolyfelin oedd Margaret Gibbon. Wedi i Mr. G. Hughes ymsefydlu yn y Groeswen yn 1797, llwyddodd y ffyddloniaid hyn i gael ganddo ddyfod i roddi un bregeth yn y mis yn y Rhydri. Byddent hefyd yn cael pregethwyr eraill i ymweled a hwynt yn achlysurol. Er nad oeddynt ond tri o rif cadwent gyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol yn rheolaidd bob wythnos. Buont am fwy nag ugain mlynedd yn cynal moddion yn rheolaidd heb gael dim ychwanegiad at eu rhif. Gwnelent gasgliad unwaith yn y flwyddyn at dalu rhent y ty, a byddai y gwrandawyr yn siriol yn eu cynorthwyo. Pan na byddai ganddynt bregethwr, gweddiai yr hen frawd D. W. Dafydd dair gwaith yn ystod y cyfarfod a chenid penillion rhwng y gweddiau gan y ddwy hen chwaer ac yntau. Wrth weled nad oedd dim llwyddiant ar eu llafur, anogai William Lewis, Pontygwindy, ac eraill o brif ddynion y Groeswen, hwynt i roddi y lle i fyny, ond ni fynent wneyd hyny ar un cyfrif. Yr oedd ganddynt ffydd ddiysgog y buasai yr Arglwydd yn ymweled a hwynt yn ei amser da ei hun, ac ni siomwyd eu disgwyliadau. Ar ol yr hirnos faith torodd y wawr. Daeth pump o'r newydd i'r gyfeillach, sef Dafydd Morgan, George Lewis, James Jones, Rowland Jones, a Thomas Harri Jenkin. Ar ol eu holi, eu haddysgu, a'u profi am rai wythnosau, aed a hwy un boreu Sabboth cymundeb i'r Groeswen i gael eu derbyn yn aelodau cyflawn. Yr oedd golwg dywysogaidd a dedwydd y boreu hwnw ar yr hen bererin Dafydd William Dafydd yn arwain y pump dysgybl ieuangc tua'r Groeswen, ac yr oedd yno deimladau nefolaidd yn mhawb wrth ganfod fod gwaith ffydd a llafur cariad yr hen frawd a'r ddwy hen chwaer o'r Rhydri wedi dechreu dwyn ffrwyth toreithiog. Dafydd Morgan yw yr unig un o'r pump hyn sydd yn fyw yn bresenol, ac y mae yn gryf a heinyf er ei fod dros bedwar ugain oed. Yn mhen ychydig amser ar ol hyn lluosogodd y gynnulleidfa, fel y daeth galwad am adeiladu capel. Cafwyd darn cyfleus o dir, ac adeiladwyd arno addoldy tlws a chyfaddas. Agorwyd y capel newydd Gorphenaf 30ain a'r 31ain, 1821. Trefn y

moddion oedd fel y canlyn:—Prydnawn dydd Llun dechreuwyd y gwasanaeth trwy weddi gan Mr. D. Jones, Llanharan, a pregethodd Meistri T. Davies, Abertawy, ac R. Morris, Tredegar, oddiwrth Gen. xxviii. 17, a Zech. viii. 23. Boreu dydd Mawrth, gweddiodd Mr. W. Beynon, Llangynwyd, a phregethodd Meistri D. Lewis, Aber; Jenkin Lewis, Casnewydd, ac E. Jones, Pontypool, oddiwrth Esaiah lvii. 15; Ioan xviii. 38, ac Exod. xx. 24. Yn y prydnawn, gweddiodd Mr. T. Davies, Cymar, a phregethodd Meistri James Williams, Ty'nycoed, a W. Jones, Penybont, oddiwrth Salm. cxliv. 3, ac Esaiah liv. 10. Yn yr hwyr, gweddiodd Mr. Joseph Harrison, Aberdar, a phregethodd Meistri D. Jones, Llanharan, a D. Evans, Mynyddbach, oddiwrth Luc xix. 41, 42, a Gen. xix. 17. Casglwyd dros haner traul yr adeiladaeth cyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad. Pan gafwyd y ty newydd yn barod daeth yno gynnulleidfa luosog, ac ychwanegwyd niferi at yr eglwys fechan, er llawenydd mawr i holl gyfeillion y Gwaredwr, ond yn neillduol i'r tri phererin ffyddlon a fuasent yma am gynifer o flynyddau yn cadw y ty yn y nos. Unwaith y bu Dafydd William Dafydd mewn cymundeb yn y capel newydd cyn ei symud i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig. Bu yr eglwys hon dan ofal gweinidogaethol Mr. Hughes, Groeswen, cyhyd ag y gallodd ddyfod yma. Wedi iddo fyned yn fethedig, anogodd bobl y Rhydri i edrych allan am weinidog iddynt eu hunain. Yn y flwyddyn 1838, rhoddasant alwad unfrydol i Mr. John Jones, mab Mr. Methusalem Jones, Merthyr, ac urddwyd ef yma yn Ebrill y flwyddyn hono. Parhaodd Mr. Jones i lafurio yma gyda mesur helaeth o lwyddiant a pharch cyffredinol hyd y flwyddyn 1867, pryd y rhoddodd ei ofal i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur i Bethlehem, Pentyrch, a Thongwynlas—lleoedd a fuasent dan ei ofal am lawer o flynyddau mewn cysylltiad a'r Rhydri. Dilynwyd Mr. Jones yn y Rhydri gan Mr. T. L. Jones, Machen, ac efe yw y gweinidog yma yn bresenol. Ni bu yr eglwys hon yn lluosog iawn ar un cyfnod o'i hanes, ac nis gall fod, gan nad yw poblogaeth yr ardal ond cymharol deneu, ond y mae bob amser wedi bod yn nodedig am ei gwresogrwydd a'i hundeb. Cafodd ei bendithio amryw weithiau a diwygiadau tanllyd iawn. Dafydd Morgan, a grybwyllwyd yn barod, yw yr unig bregethwr a gyfodwyd yma. Bu ef am flynyddau lawer yn ddefnyddiol fel pregethwr cynorthwyol.

## NELSON, LLANCAIACH.

Dywedir fod William Evans, o Lancaiachfawr wedi myned i wrando i Benmain a'r ddydd urddiad Mr. David Thomas, yn y flwyddyn 1787, ac iddo dan weinidogaeth Mr. Griffith, o'r Fenni, a Mr. Gibbon, o Gapel Isaac, deimlo mor ddwfn, nes penderfynu ceisio yr Arglwydd. Derbyniwyd ef yn aelod yn Mhenmain, ac wedi proffesu crefydd am 60 mlynedd bu farw Ionawr 6ed, 1848, yn 84 oed. Bu Mr. Thomas, Penmain yn cyrchu yn fisol i Lancaiach am flynyddau, a deuai Mr. Hughes, Groeswen, yma yn aml, ac eraill o weinidogion yr Annibynwyr. Yr oedd dwy chwaer grefyddol yn byw yn y Basin, cwr arall o'r ardal, y rhai oeddynt yn aelodau yn y Groeswen, sef Mary, gwraig Lewis Thomas, Abertaf a Chynon, a Catherine, gwraig William Lewis, ac yr oedd pregethu achlysurol yn nhai y chwiorydd hyn. O'r diwedd, ymgasglodd ychydig frodyr yn nghyd a phenderfynasant ardrethu ystafell yn ymyl ty fferm yn yr ardal o'r enw

Digitized by Google

Ynys Feurig. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1820, ac yno y buont am ysbaid pum' mlynedd heb nemawr lewyrch arnynt, a'r diwedd fu, rhoddwyd y lle i fyny. O gylch yr amser yma ymwelwyd a'r ardal gan ystorom ddychrynllyd o fellt a tharanau; a tharawodd mellten yn erbyn amaethdy yn yr ardal o'r enw Llechweddlydan, fel y lladdwyd rhai o'r anifeiliaid, ond arbedwyd y dynion oll. Yr oedd Mr. Thomas Thomas, gwr y ty, er yn gyfrifol ei sefyllfa fydol, yn anystyriol ac annuwiol iawn, ond effeithiodd y digwyddiad arno er ei arafu a'i ddifrifoli, ac aeth i wrando i'r Groeswen, ac yn fuan derbyniwyd ef yn aelod yno. Agorodd ei dŷ i dderbyn yr efengyl, a dechreuwyd cynal yno gyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol, ac yn mysg eraill a gyrchent yno yr oedd Meistri Daniel Griffiths, Castellnedd, a Phillip Griffiths, Alltwen, yn tynu sylw mawr. Coffeir hyd y dydd hwn am ryw oedfa effeithiol a gafodd Mr. Griffiths, Alltwen, yno yn 1828, ar ei ffordd i gymanfa y Groeswen. Cyn hir cododd ryw anghydfod rhwng Mr. Thomas, Llechwedd, ag eglwys y Groeswen, ac aeth oddiyno ac aelododd ei hun yn Zoar, Castellnedd gyda Mr. Daniel Griffiths, yr hwn oedd yn briod a nith iddo. Er fod gan Mr. Thomas lawer o dda y byd hwn, nid oedd ganddo ond ychydig o lywodraeth ar ei ysbryd, ac yr oedd ei sel yn llawer mwy na'i wybodaeth, a'i synied yn llawer uwch am fwynhad crefyddol nag am fywyd crefyddol. Wedi bod am dymor yn cyrchu i Gastellnedd, penderfynodd Mr. Thomas fyny eglwys yn ei dŷ, ac ar nos Lun y Pasg, 1830, daeth Mr. R. Howells, Baran, yno i ffurfio yr eglwys ac i weinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Dranoeth rhoddwyd i lawr gareg sylfaen capel newydd, yr hwn a alwyd yn Zoar. Gwnaed ef yn dŷ eang, a Zoar fawr y gelwid ef, ond ni chwblhawyd byth mo hono, ac nid oedd y gynnulleidfa ynddo ond dyrnaid fechan. Agorwyd ef Sabboth y Pasg, 1831, pryd y pregethodd Mr. D. Griffiths, Castellnedd, ac yn mis Mehefin, ar ol hyny, cynhaliwyd cyfarfod agoriadol mwy cyhoeddus. Yn fuan ar ol hyn, rhoddwyd galwad i Mr. Jonathan Jones, ac urddwyd ef y gauaf canlynol. Yn haf, 1832, aeth Mr. Jones, y gweinidog, a rhai o'r aelodau, yn anesmwyth o eisiau bod Mr. Thomas yn cyflwyno y capel drosodd i ymddiriedolwyr, i fod yn feddiant i'r enwad, ac oblegid ei fod yn gwrthod gwneyd hyny, ymadawodd Mr. Jones, a nifer o'r aelodau gydag ef, a chyn hir aethant i hen gapel Craigyfargod, fel y crybwyllasom yn hanes yr eglwys hono. Glynodd ryw ychydig gyda Mr. Thomas yn Zoar, a daeth Mr. Joseph Harrison, Aberdar, i bregethu iddynt; ac wedi bod dros dymor yn eu cynorthwyo rhoddodd hwy i fyny. Rhoddwyd galwad i Mr. Benjamin Lewis, mab Morgan Lewis, Cwmnedd, ac urddwyd ef Rhagfyr 22ain a'r 23ain, 1841. Ni bu yma ond dros ryw ddwy flynedd. Ar ei ol ef rhoddwyd galwad i Mr. James Evans, ac urddwyd ef yn weinidog yma ac yn Nghraigyfargod. Bu yma hyd y flwyddyn 1857. Wedi marw Mr. Thomas, Llechwedd, cododd ryw anghytundeb rhwng yr eglwys a'i etifedd, ac oblegid nad oedd y lle wedi ei drosglwyddo i ymddiriedolwyr, a'r pris a ofynid am dano yn fwy na'r hyn a dybiai yr eglwys oedd ei werth, ymadawsant o hono, a chymerasant ystafell dan ardreth yn mhentref Nelson, i aros lle gwell. Cymerasant cyn hir ddarn o dir yn y lle, ac adeiladwyd capel arno, yr hwn a alwyd Penuel, ac agorwyd ef Mai 3ydd a'r 4ydd, 1858. Bu gofal y lle ar Mr. James Evans hyd y flwyddyn 1864, ac wedi ei ymadawiad, rhoddodd yr eglwys yma, a'r eglwys yn Nghraigyfargod, alwad i Mr. R. Jones, myfyriwr o athrofa y Bala, ac y mae yn parhau i lafurio yma. Ni bu yr achos erioed yn gryf,

Digitized by Google

ond y mae yma nifer o frodyr ffyddlon ac ymdrechgar, ac ynddynt fawr ofal calon am achos yr Arglwydd.

## LIBANUS, LLANFABON.

Wedi yr anghydfod rhwng Mr. Thomas, Llechwedd, ag eglwys y Groeswen, ymadawodd yr ychydig aelodau perthynol i'r Groeswen oedd yn yr ardal, a chymerasant ystafell mewn rhan o anedd-dy yn Tairheol. Buont yno hyd Nadolig, 1829, yn cynal cyfarfodydd gweddi, a chyfeillachau, ac ambell bregeth yn achlysurol yn yr wythnos, ac yn myned i'r Groeswen y Sabboth. Ar foreu y Nadolig crybwylledig, yn y plygain, bu rhyw gyffroad anghyffredin, a thrachefn yn yr hwyr; ond y Sabboth canlynol y torodd allan pan oedd John Thomas, Caerphili, yn pregethu yn nhy Thomas Moses. Torodd un dyn ieuangc o'r enw Thomas Meyrick, allan yn gyhoeddus i waeddi a molianu, a meddianwyd eraill gan gyffelyb deimladau. Aeth yr ystafell yn rhy gyfyng ar unwaith. Cafwyd derbyniad at y Methodistiaid i gapel Mafon, ac yno y buwyd nes i'r brydles redeg i'r terfyn, ac i'r Methodistiaid a hwythau gael eu cau allan. Wedi bod am ychydig yn mragdy Melingaiach, ac yn Zoar fach, capel y Wesleyaid ar Graigberthlwyd, meddyliodd yr ychydig frodyr yn y lle am adeiladu capel at eu gwasanaeth eu hunain. Cafwyd darn o dir ar Graigberthlwyd gan John Lewis, Drefechan, a chodwyd arno gapel yn mesur 33 troedfedd wrth 19 troedfedd, a galwyd ef Libanus. Pregethwyd ynddo gyntaf ar y Sabboth olaf yn Gorphenaf, 1833, gan Mr. E. C. Jenkins, Salem, oddiar y geiriau, "Libanus, agor dy ddorau, fel yr yso y tân dy gedrwydd;" ac ar yr Iau a'r Gwener canlynol bu cyfarfod yr agoriad. Y Sabboth cyntaf wedi yr agoriad, gweinyddwyd y cymundeb cyntaf yn y lle i 45 o aelodau. Cydwasanaethai Mr. Hughes, Groeswen, a Mr. William Davies, yr hwn a fuasai yn genhadwr gyda'r Wesleyaid yn Affrica. Y cyntaf a dderbyniwyd i gymundeb yn Libanus oedd un William Parry. Teimlodd yn ddwys o dan bregeth Mr. John Mathews, y pryd hwnw o Mynyddislwyn, yn awr o Gastellnedd, oddiar y geiriau, "A chwithau a fywhaodd efe pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau." Dysgodd ddarllen yn ei hen ddyddiau, a bu fyw nes bod yn 100 oed. Bu Mr. Jenkins, Salem, yn dyfod yma bob mis am flynyddau i gadw cymundeb; ond yn nechreu haf 1840, rhoddwyd galwad i Mr. Evan Davies, a fuasai yn weinidog yn yr Aber, sir Frycheiniog. Tynodd gweinidogaeth Mr. Davies sylw yr ardalwyr, cynyddodd y gynnulleidfa, ac ychwanegwyd llawer at rifedi yr eglwys, fel y gwelwyd yn angenrheidiol ad-drefnu y capel a rhoddi oriel ynddo, a chynaliwyd cyfarfod ar yr achlysur o'i ailagoriad yn Mai, 1842. Bu Mr. Davies yma yn barchus hyd ddiwedd y flwyddyn 1848, pryd y symudodd i Gollwyn. Wedi i Mr. Davies ymadael, rhoddwyd galwad i Mr. Joshua Thomas, Bethlehem, Llangadog, sir Gaerfyrddin, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Gorphenaf, 1849, ac y mae Mr. Thomas yn parhau i lafurio yma hyd y dydd hwn. Yn y flwyddyn gyntaf wedi sefydliad Mr. Thomas, a'r flwyddyn ganlynol, bu yma ddiwygiad grymus; ac wedi hyny cafwyd ymweliad grasol yn y flwyddyn 1858, fel y barnwyd yn angenrheidiol cael capel newydd helaethach. Adeiladwyd y capel newydd ar le amlwg ychydig uwchlaw yr hen gapel. Mae yn mesur 37 troedfedd wrth 33 troedfedd. Pregethwyd ynddo gyntaf gan Mr. Thomas, y gweinidog, ar y

Digitized by Google

Sabboth, Mai 8fed, 1859, oddiar y geiriau, "A mi a anrhydeddaf dŷ fy ngogoniant;" a chynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad y Llun a'r Mawrth canlynol. Y cyntaf a dderbyniwyd yn Libanus newydd oedd John Brown, hen ŵr 70 oed. Bu llawer o hen ffyddloniaid yn nglyn a'r achos yma o'r dechreuad, ac yr oedd yr eglwys yn llawn o'r brwdfrydedd, am yr hwn yr oedd y Groeswen mor nodedig. Bu Mr. Hopkin Smith, Cwmyreelyn, yr hwn oedd yn ddiacon yn y Groeswen, yn teithio yma am flynyddoedd, er fod ganddo chwe' milldir o ffordd arw. Deuai atynt pan oeddynt yn cyd-addoli a'r Methodistiaid yn nghapel Mafon, ac wedi hyny ar ol iddynt adeiladu Libanus, ac y mae coffa parchus am ei lafurus gariad gan yr ychydig o'r hen ffyddloniaid sydd yn aros.* Mae yr achos yn Libanus yn parhau i fyned rhagddo, a Mr. Thomas a'r eglwys mewn anwyldeb a'u gilydd. Ni chodwyd yma neb i bregethu y byddai crybwyll ei enw o un anrhydedd i Ymneillduaeth nac i grefydd.†

## MOUNTAIN ASH, (Saesonig).

Teimlai amryw gyfeillion yn y lle hwn anghyfleustra o ddiffyg moddion gras yn yr iaith Saesonaeg. Wedi dyfodiad Mr. Daniel Jones, yr hwn a fuasai yn weinidog Saesonig ar Hirwaun, i'r lle i agor masnach, ymgynghorwyd ag ef; ac wedi cael benthyg y *Long-room* yn ddidal gan Mr. D. Davies, Miskin, cynhaliwyd y gwasanaeth crefyddol yma gyntaf Mawrth 21ain, 1869. Yr oedd tua 60 yn bresenol. Ffurfiwyd yma eglwys Ebrill 4ydd, cynwysedig o un-ar-ddeg o aelodau, a chymerodd Mr. D. Jones eu gofal, ac yn fuan ychwanegwyd eraill atynt. Cyn pen mis cymerwyd y *Workmen's Hall*, ac ar y 30ain o Fai cynhaliwyd cyfarfod yn nglyn ag agoriad y lle, a dyna y tro cyntaf i'r ordinhad o Swper yr Arglwydd gael ei gweinyddu yn y lle. Cymerodd Mr. John Griffiths, yr hwn oedd yn bregethwr cynorthwyol parchus yn yr eglwys Gymraeg yn y lle, ran flaenllaw gyda'r achos o'i gychwyniad, ac y mae wedi bod o help mawr iddo. Sicrhawyd darn o dir at godi capel newydd, a rhoddwyd y sylfaen i lawr gan S. Morley, Ysw., A.S , Medi 17eg, 1869, ac areithiwyd ar yr achlysur gan H. Richard, Ysw., A.S., ac eraill. Costiodd yr adeilad 850p. Agorwyd y capel Awst 8fed a'r 9fed, 1870. Yn Ebrill y flwyddyn ganlynol, rhoddodd Mr. Jones ei weinidogaeth i fyny, ac ymunodd a'r Eglwys Sefydledig, ond bu farw yn fuan. Yn nechreu y flwyddyn 1872, rhoddwyd galwad i Mr. L. T. C. Machaine, ac y mae yn parhau i weinidogaethu yma. Rhif yr aelodau ydyw 38, ac y mae y ddyled wedi ei thynu i lawr i 450p.

## BETHESDA, ABERNANT.

Saif y capel hwn ar lechwedd y mynydd rhwng Merthyr ac Aberdar, ac o fewn milldir i'r lle diweddaf. Adeiladwyd yma gapel bychan, neu ysgoldy, yn y flwyddyn 1860. Maint y ty yw 40 troedfedd o hyd wrth 30

* *Y Drysorfa Gynnulleidfaol*, Ionawr, 1851.

† Yr ydym yn ddyledus am ddefnyddiau y rhan fwyaf o hanes Nelson a Libanus i ysgrif ar Ymneillduaeth yn Llanfabon, a ymddangosodd yn y *Diwygiwr*, 1862, tu dal. 168, gan D. Hughes, Craigyberthlwyd.



Digitized by Google

o led. Cynwysa 250 o eisteddleoedd, a'r draul a aeth i'w adeiladu oedd 260p. Agorwyd ef yn y flwyddyn 1861. Yn fuan wedi hyny corpholwyd yma eglwys Annibynol. Rhif yr aelodau pryd y corpholwyd hwy yn eglwys oedd 48, o ba rai yr oedd 36 wedi cael gollyngdod o Siloa, Aberdar, a'r gweddill o eglwysi eraill yn y gymydogaeth. Yn mhen ychydig amser wedi eu corpholiad, rhoddasant alwad i Mr. Thomas Pugh, gwr genedigol o Aberdar, ond a fuasai yn weinidog am un-mlynedd-ar-bymtheg yn America. Wedi iddo ef fod yn gweinidogaethu yma am oddeutu blwyddyn, gwnaeth ei feddwl i fyny i ddychwelyd i'r America. Oddiar ei ymadawiad ef hyd yn bresenol Mr. Price, Siloa, sydd yn gofalu yn benaf am y lle fel gweinidog. Y mae efe yn dyfod yma yn fisol i dori bara, ac ar y Sabbothau eraill ymddibynir ar bregethwyr cynorthwyol yr ardal. Mae yma bob math o foddion crefyddol yn cael eu cynal yn rheolaidd, a'r Ysgol Sabbothol yn dra llewyrchus. Defnyddir y capel ar ddyddiau gwaith fel ysgoldy Brutanaidd, ond cyn gynted ag yr adeiladir ysgoldy gan y Bwrdd Ysgol yn yr ardal, ca y capel ei adgyweirio a'i wneyd yn fwy cyfaddas fel ty addoliad. Enwau y diaconiaid presenol ydynt Daniel Thomas, William Williams, a William Moses, mab y diweddar Mr. Moses, Cefn-coed-y-cymar. Maent yn ddynion llafurus ac yn llenwi eu swydd yn deilwng.

## ELIM, CWMDAR.

Yr oedd amryw o aelodau Ebenezer, megis Evan Giles, Dafydd William Dafydd, ac eraill, yn cyfaneddu yn Nghwmdar ddegau o flynyddau yn ol, a chyfarfodydd gweddio yn cael eu cynal yn gyson o dŷ i dŷ yma. Ond nid oedd trigolion y Cwm yn ddigon lluosog i neb feddwl am sefydlu achos yma cyn i'r gweithiau glo gael eu hagoryd. Trwy ymdrech Mr. Edwards, ac eglwys Ebenezer, adeiladwyd yma gapel yn y flwyddyn 1859, ac yn uniongyrchol ar ol ei agoriad, rhoddwyd llythyrau gollyngdod i tua 50 o aelodau Ebenezer, a chawsant eu ffurfio yn eglwys Annibynol. Yn fuan wedi hyny, rhoddwyd galwad i Mr. Abraham Mathews, o athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn weinidog i'r eglwys hon, mewn cysylltiad a'r eglwys ieuangc yn Llwydcoed. Yn Ebenezer, fel man canolog rhwng Cwmdar a Llwydcoed, y cynaliwyd cyfarfod ei urddiad. Yn y flwyddyn ganlynol i'w urddiad, sef 1860, rhoddodd Mr. Mathews ofal Cwmdar i fyny, a chyfyngodd ei lafur yn unig i Llwydcoed. Y diaconiaid cyntaf yma oeddynt R. Richards, Thomas Davies, a John Lewis. Wedi ymadawiad Mr. Mathews, bu yr eglwys am tua dwy flynedd dan ofal Mr. H. Hughes (Tegai), yr hwn a bregethai yma un Sul o bob mis, ac a ddeuai i'r cyfarfodydd wythnosol. Gwanychodd yr achos yn fawr yn y tymor hwn. Wedi i Mr. Hughes roddi y lle i fyny, barnodd yr ychydig aelodau oedd yma mai y peth goreu a allasent wneyd oedd taflu eu hunain drachefn i fynwes y fam-eglwys yn Ebenezer. Cydsyniodd yr eglwys a'u cais, a chymerodd Mr. Edwards ofal y gangen wan. Bu ef a diaconiaid Ebenezer yn ei chynorthwyo hyd 1868. Erbyn hyn yr oedd yr achos wedi adfywio a chryfhau yn fawr, fel y daeth galwad am helaethu y capel i'w faint presenol. Gwelid eu bod bellach yn alluog i gael gweinidog iddynt eu hunain, ac felly yn ol cynghor y fam-eglwys rhoddasant alwad i Mr. D. Griffiths, o athrofa Aberhonddu, yr hwn a urddwyd yma yn 1869. Y mae efe yn parhau yn weinidog yn y lle, ac arwyddion fod yr Arglwydd yn bendithio ei lafur. Y diaconiaid yn bresenol

Digitized by Google

ydynt R. Richards, James Phillips, William Davies, George Edwards, a David Evans. Costiodd y capel y waith gyntaf 500p., a'i helaethiad yn 1868, 450p.

Ffrwyth y diwygiad mawr yn 1859, yw yr achos hwn, yr un fath ag amryw achosion eraill yn y plwyf hwn, a rhanau eraill o'r sir gynyddfawr hon. Mae eglwys Ebenezer wedi bod yn fam dyner i'r achos hwn. Heblaw cynorthwyo y gynnulleidfa i dalu dyled y capel, bu am dymor yn amser Mr. Mathews yn cyfranu dwy bunt y mis at y weinidogaeth. Mae Ysgol Sabbothol lewyrchus a chôr canu rhagorol yma, a phlant y gynnulleidfa wedi eu ffurfio yn obeithlu *(Band of Hope)*.

Cyfodwyd y rhai canlynol i bregethu yn yr eglwys hon :—

Richard Jenkin, yr hwn sydd yn awr yn yr America.

W. Jones.

D. G. Evans, yr hwn sydd fyfyriwr yn y Bala.

D. Gwilym, yr hwn sydd yn awr yn ysgol ramadegol Caerfyrddin.

Bu y diweddar David Richards, o Ebenezer, ac Elias Maurice, o Bethesda, Merthyr, yn pregethu yn fisol yma am rai blynyddau, ac yn dra chynorthwyol i'r achos.

## EBENEZER, GLANTAF.

Mae y capel hwn yn nyffryn Taf, tua milldir i'r de o Bontypridd, ac agos dair milldir i'r gogledd-orllewin o'r Groeswen. Mae yn debyg fod pregethu achlysurol yn yr ardal hon gan yr Annibynwyr oddiar amser dechreuad yr achosion yn y Groeswen a'r Cymar. Yn fuan wedi sefydliad Mr. Hughes yn y Groeswen, byddai ef a Mr. M. Jones, o'r Cymar, yn dyfod yn fisol i bregethu i Wernygerwyn. Yn y diwygiadau grymus a pha rai y bendithiwyd eglwys y Groeswen yn y blynyddoedd 1800 ac 1817, cafodd amryw o breswylwyr Glantaf eu derbyn i gymundeb eglwysig. Mewn canlyniad i'r diweddaf o'r diwygiadau hyn, ffurfiwyd cangen o eglwys y Groeswen yn yr ardal hon, yr hon a elwid "Cangen Glantaf." Byddai y gangen hon yn cynal gwasanaeth crefyddol rheolaidd bob prydnawn a hwyr Sabboth yn nhy Evan Morgan, Ynysrhydfelen. Ysgol Sabbothol a gedwid bob prydnawn Sabboth, a phregeth neu gyfarfod gweddi yn yr hwyr. Cedwid hefyd gyfarfod gweddi neu gyfeillach grefyddol bob nos Iau. Elid bob boreu Sabboth i'r Groeswen. Yr oedd Evan Morgan a'i wraig yn bobl ragorol am eu duwioldeb, a'u caredigrwydd. Bu eu ty yn gartref i'r arch nes i'r olaf o honynt gael ei symud i'r ty nid o waith llaw. Mae crefydd etto yn aros yn eu teulu. Mae un o'u meibion yn ddiacon defnyddiol yn Glantaf, ac un arall yn yr un swydd yn yr Efailisaf. Ar ol bod am lawer o flynyddau yn cynal y cyfarfodydd yn nhy Evan Morgan, penderfynwyd eu cynal ar gylch bob nos Sabboth yn nhai yr aelodau eraill fuasent yn gofyn am danynt, ond parhawyd i gynal yr Ysgol Sabbothol a'r cyfeillachau crefyddol yn nhy Evan Morgan tra y bu ef a'i briod fyw. Bu ef farw yn 1837, a hithau yn 1842. Y pryd hwnw cymerwyd ty anedd yn y gymydogaeth ar rent, at gynal y moddion crefyddol ynddo, ac yno y buwyd am bedair blynedd. Gydag agoriad gweithiau alcam Trefforest, cynyddodd poblogaeth yr ardal yn fawr, fel y barnwyd yn angenrheidiol adeiladu capel. Yr hyn a wnaed yn 1846. Capel cymharol fychan heb un oriel ynddo ydoedd. Ynnglyn a'r Groeswen yr oedd yr achos hwn o'r dechreuad, a than ofal Mr. Rees, Groeswen, yr oedd y lle hyd y flwyddyn

Digitized by Google

1848, pryd y penderfynodd yr eglwys ymryddhau oddiwrth y fam-eglwys a dewis gweinidog iddi ei hun. Syrthiodd ei dewisiad ar Mr. David Davies, gynt o'r Taihirion, yr hwn oedd ar y pryd yn weinidog yr eglwys Gymreig yn Nghaerodor. Ni bu tymor llafur Mr. Davies yma ond byr iawn. Bu farw yn mhen tair blynedd ar ol ei sefydliad, a bu agos i ddwy o'r tair blynedd hyny yn nychu mewn cystudd. Ni bu yma ddim neillduol mewn ffordd o gynydd na lleihad yn nhymor ei weinidogaeth ef. Ymddygodd yr eglwys yn garedig iawn tuag ato yn ei gystudd hirfaith, ac yn enwedig y gristionoges anwyl hono Mrs. Thomas, Ynysgau, yr hon fu yn famaeth dirion i genhadau Crist am tua haner cant o flynyddau. Yn y flwyddyn 1852, rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. David Stephens, Llanfaircludogau, yr hwn a'i hatebodd yn gadarnhaol. Dechreuodd ei weinidogaeth yma yn Hydref y flwyddyn hono. Bu llwyddiant mawr ar ei lafur ef yma. Helaethwyd y capel i fwy na chymaint arall na'i faint cyntefig, a gosodwyd oriel hardd ynddo. Ychwanegwyd amryw ugeiniau at yr eglwys, yn enwedig yn y diwygiad yn 1859 ac 1860, fel yr oedd yr aelodau tua 170 cyn ei farwolaeth ef. Yn nechreu y flwyddyn 1861, dechreuodd iechyd Mr. Stephens roddi ffordd, ac er mawr alar a cholled i bobl ei ofal, a'r wlad yn gyffredinol, bu farw yn Mai, 1861, a chladdwyd ef yn ymyl ei ragflaenor, Mr. Davies, wrth gapel Glantaf. Tuag amser marwolaeth Mr. Stephens, safodd gwaith Mr. Crawshay, yr hyn a orfododd ugeiniau o bobl i ymadael o'r ardal, ac yn eu mysg lawer o aelodau yr eglwys hon, yr hyn a wanychodd yr achos yn fawr. Yn Gorphenaf 1863, rhoddwyd galwad i Mr. John Griffiths, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma ar y 25ain o Awst, yn yr un flwyddyn. Mae Mr. Griffiths wedi bod yn llafurio yn y maes hwn bellach am agos naw mlynedd, ac arwyddion amlwg fod Duw a dynion yn cymeradwyo ei lafur. Y mae yntau yn nhymor ei weinidogaeth wedi cael yr hyfrydwch o roddi deheulaw cymdeithas i rai ugeiniau yma. Rhif yr eglwys yn bresenol yw tua 135. Nid ydym yn gwybod am neb a gyfodwyd i bregethu yn yr eglwys hon ond Mr. Henry Jones, yn awr o Ffaldybrenhin, sir Gaerfyrddin.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

David Davies. Ganwyd ef yn ardal Horeb, sir Aberteifi, yn 1811, ac yno y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig pan yn dra ieuangc. Yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol ei dderbyn symudodd i Rhymni, ac ymaelododd yn yr eglwys sydd yn awr yn Seion, ond a addolai y pryd hwnw mewn *Long-room* perthynol i Inn Rhymni. Yno y dechreuodd bregethu. Wedi dechreu pregethu dychwelodd i'w ardal enedigol, a bu am dymor yn yr ysgol gyda'i weinidog, Mr. Griffiths, Horeb. Bu wedi hyny am dymor yn athrofa y Neuaddlwyd. Yn y flwyddyn 1837, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn y Taihirion, a Bethlehem, Pentyrch. Ni bu ei arosiad yno ar y cyntaf ond byr. Ar ol ei ymadawiad a'r Taihirion, cafodd alwad i Lansantffraid-ar-lai, ac yn mhen ychydig amser cafodd alwad i ddychwelyd i'r Taihirion. Rhoddodd wedi hyny ei ofal i fyny yn Llansantffraid a'r Taihirion, pan yr ymgymerodd a gofal yr eglwys Gymreig yn Nghaerodor. Rhoddodd y lle hwnw drachefn i fyny yn 1848, pan y derbyniodd alwad o Glantaf. Dyoddefodd gystudd trwm a phoenus am y ddwy flynedd olaf o'i fywyd. Bu farw Gorphenaf 14eg, 1851. Gadawodd weddw

(merch Mr. Griffiths, Horeb), a saith o blant yn ddiymgeledd, ond bu barnwr y gweddwon, a thad yr amddifaid, yn dirion o honynt.

Yr oedd David Davies yn ddyn siriol, yn gyfaill caredig, ac yn bregethwr blasus iawn. Nid oedd unrhyw ragoriaeth yn ei alluoedd meddyliol, etto, gan ei fod yn ymadroddwr rhwydd, yn lled goethedig ei archwaeth, a'i lais yn berseiniol iawn, yr oedd yn fwy derbyniol fel pregethwr na llawer o gryfach cyneddfau.

DAVID STEPHENS. Ganwyd ef yn y Gurnos, yn mhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, yn mis Mawrth, 1819. Yr oedd yn un o deulu lluosog o blant, a chyfodwyd dau eraill o honynt i'r weinidogaeth, sef Mr. John Stephens, o'r Brychgoed, yr hwn hefyd sydd newydd orphen ei yrfa, a Mr. Noah Stephens, o Liverpool. Gan ei fod o deulu crefyddol, a'i hynafiaid yn arfer addoli Duw yn hen eglwys Capel Isaac, cafodd yntau fanteision crefyddol helaeth yn moreu ei oes. Yr oedd David er yn blentyn yn nodedig am ei ffraethder a pharodrwydd ei atebion, yr hyn yn nghyd a serchawgrwydd ei dymer, a'i ysbryd heddychol a chydoddefol, a'i gwnai yn gydymaith derbyniol gan bawb. Ofnid unwaith y buasai ei dymer lawen a chymdeithasgar yn ei arwain ar gyfeiliorn, ac y maglesid ef gan ddifyrwch mebyd ac ieuengctyd; ond rhagflaenwyd yr holl ofnau hyn trwy ymweliad grasol Duw a'i enaid, ac yn mis Hydref, 1838, cyn ei fod yn bedair-ar-bymtheg oed, derbyniwyd ef yn aelod yn Nghapel Isaac. Yr oedd cymhwysderau dyn defnyddiol ynddo yn flaenorol, y cwbl oedd yn eisiau, fel y dywedai ef ei hun am rywun arall, oedd ei fachu wrth y cerbyd. "Ni wna y ceffyl goreu," meddai unwaith, "a'r offer goreu am dano, ddim help i gael y llwyth i ben y rhiw, heb ei fachu wrth y *cart.*" Felly yr oedd yntau yn flaenorol yn meddu y cymhwysderau, ond bellach y mae wedi ei fachu at waith. Profodd ei fedrusrwydd fel athraw yn yr Ysgol Sabbothol, a'i ddawn mewn gweddi ei fod wedi ei fwriadu i gylch eangach, ac anogwyd ef gan yr eglwys a'r gweinidog i ddechreu pregethu. Dechreuodd bregethu tua diwedd y flwyddyn 1840, ac yr oedd tri eraill yn cyd-ddechreu ag ef, o ba rai yr oedd ei frawd ieuengaf yn un. Bu yn yr ysgol am dymor yn Ffrwdyfal, dan ofal Dr. W. Davies, ac wedi hyny yn Rhydybont, dan ofal Mr. John Jones, yr hwn a adnabyddid yn well wrth yr enw "Jones, Llangollen." Bu dyfod i gyffyrddiad a "Jones, Llangollen" yn help mawr i gyffroi a dadblygu ei feddwl. Beth bynag a ddywedir am ddiffygion y dyn rhyfedd hwnw, yr oedd ganddo fedr arbenig i ddihuno meddyliau dynion, a'u taflu o'u hen safleoedd, ac i ymofyn i seiliau eu crediniaeth. Yr oedd yn llawer gwell i siglo hyder dyn yn y gredo oedd ganddo nac i roddi ei rhagorach iddo yn ei lle. Mewn tynu i lawr yr oedd ei allu ef yn benaf, ac nid mewn adeiladu; ac yr oedd yn fantais i ddyn o feddwl cryf a sefydlog fel Mr. Stephens, yr hwn nad oedd perygl ei "siglo yn fuan oddiwrth y ffydd," i ddyfod i gyffyrddiad ag ef. Hyd hyny nid oedd gan Mr. Stephens lawer o hyder ynddo ei hun, ac ofnai ddyweyd dim os na chlywsai rywun a fuasai yn awdurdod uwch yn ei ddyweyd o'i flaen. Clywsom ef yn dyweyd mai wrth deithio gyda "Jones, Llangollen," a chlywed hwnw yn dyweyd yn y pulpud rai o'r pethau a awgrymasai efe mewn ymddiddan personol rhyngddynt, y daeth gyntaf i feddu hyder ynddo ei hun, ac i gredu y gallasai wneyd rhywbeth heblaw ailadrodd yr hyn a glywsai gan eraill; a gwyr pawb a'i clywodd yn mlynyddoedd addfetach ei oes, fod agos yn anmhosibl cael pregethwr a mwy o wreiddiolder yn mhob peth a wnai. Cyn diwedd y flwyddyn 1843, der-

Digitized by Google

byniodd alwad o Ebenezer a Llanfair, gerllaw Llanbedr, sir Aberteifi, ac urddwyd ef yno Chwefror 21ain a'r 22ain, 1844. Cyn hir wedi ei sefydlu yno, cymerodd hefyd ofal yr eglwys yn Cellan, a llafuriodd yn y tair eglwys gyda derbyniad mawr am fwy nag wyth mlynedd. Yr oedd cymhwysder arbenig ynddo i faes cyntaf ei lafur. Yr oedd dwy elfen hollol anghydnaws yno yn dyfod beunydd i wrthdarawiad. Yr oedd yr eglwysi dan ei ofal yn Galfiniaid, a rhai o honynt yn lled uchel eu golygiadau; ond yr oedd cryn nifer o Undodiaid yn y wlad, a dylanwad eu hysbryd yn cyrhaedd yn llawer pellach na'u credo; ac yr oedd Mr. Stephens yn ddyn cymwys iawn i fyned rhwng y pleidiau hyn. Yr oedd serchawgrwydd ei dymer, ei gallineb dihafal, a'r symledd didramgwydd gyda pha un y traethai ei olygiadau, yn diarfogi yr Undodiaid o'u gwrthwynebiad iddo, tra o'r ochr arall, yr oedd iachusrwydd ei athrawiaeth yn ei wneyd yn nodedig o gymeradwy gan ei bobl ei hun. Yn agos i derfyn ei arosiad yn sir Aberteifi, priododd ferch i'r hybarch S. Griffiths, Horeb, a disgwylid ar ol hyny mai yn y wlad hono y treuliai ei oes; ond yr oedd cysylltiadau teuluol a chyfeillgarol yn ei ddwyn yn aml i Forganwg a Mynwy, a themtiwyd ef i symud gan fwy nag un eglwys, ond ni orchfygwyd mo hono hyd yn haf y flwyddyn 1852, pryd y derbyniodd alwad gan eglwys gynes Glantaf, gerllaw Pontypridd, a symudodd yno yn mis Medi y flwyddyn hono. Cymerodd cyn hir ofal yr eglwys fechan yn Castellau hefyd, a llafuriodd yn y ddwy hyd ei farwolaeth. Adfywiodd yr achos yn fawr yn Glantaf wedi ei symudiad yno, a bu raid helaethu y capel, a chyn diwedd ei dymor codwyd capel yn Glandwr fel cangen o Glantaf. Ymroddodd yn ddiwyd i wneyd gwaith efengylwr, ac ni bu ei lafur yn ofer yn yr Arglwydd. Daeth angau i'w deulu fwy nag unwaith, a gwelodd ei anwyliaid yn gwywo o flaen ei lygaid. Cof genym ei glywed yn dyweyd ar ol i rai o weithfeydd yr ardal sefyll, ac i lawer o bobl orfod symud, iddo yntau feddwl y buasai raid iddo ymadael, oblegid y buasai ei gynal ef a'i deulu cynyddol yn ormod baich i'r eglwys. Derbyniodd alwad ar y pryd oddiwrth eglwys a allasai roddi iddo fwy at ei gynaliaeth, a theimlai ogwyddiad i gydsynio, ond ar y pryd bu rhai o'i blant farw; ac wrth adrodd ei deimlad, dywedai ei fod trwy hyny fel yn clywed llais Duw yn dyweyd wrtho, "Wel os dy deulu lluosog sydd yn peri i ti feddwl am symud, mi wna i dy deulu yn ddigon bychan fel na bydd hyny yn brofedigaeth i ti." Adroddai hyny wrth deulu galarus oedd mewn profedigaeth gyffelyb, er ceisio eu cysuro, ac nid yn fuan yr anghofiwn effeithiau ei ymadroddion. Yr oedd ganddo allu nodedig i ddyweyd gair yn ei bryd wrth y trallodedig a'r galarus, a gwnai hyny yn wastad heb unrhyw ymhoniad i dduwioldeb mwy nac eraill. Nid oedd dim ffug na rhodres yn agos ato, ac yr oedd y wên siriol a welid ar ei wyneb, a'r llonder byw oedd yn ei lygaid yn ddangoseg o'r hyn ydoedd mewn gwirionedd. Am ei ffraeth ymadroddion nid oedd terfyn arnynt, ac ofer hollol fuasai i neb ymgystadlu ag ef yn hyny. Maent yn fyw ar gof ei gyfeillion hyd y dydd heddyw, ac yn cael eu hadrodd yn fynych ganddynt. Yr oedd ganddo allu nodedig, a hyny heb dwrf na chyffroad, i dynu y chwydd o ambell un a ddigwyddai fod yn lled fostfawr a siaradus, a golwg adeiladol a fyddai ar wyneb syrthiedig yr hwn a drinid felly ganddo. Ond yr oedd un peth nodedig ynddo, yn wahanol i'r dynion ffraeth yma fynychaf, nid oedd byth golyn brathedig yn ei ffraethineb yn gadael gwenwyn ar ol, ac oblegid hyny nid oedd byth yn gwneyd gelynion o'r rhai a bigid felly ganddo. A phan y byddai dadl boeth yn cymeryd

Digitized by Google

lle mewn cwmni, neu mewn cynadledd, neu mewn eglwys, a rhai yn dechreu cyffroi, medrai ddyweyd gair mor llawn o natur dda nes taflu y rhai poethaf yn hollol oddiar eu hechel, a pheri iddynt gywilyddio o honynt eu hunain eu bod wedi cyffroi mor fawr ar fater mor ddibwys. Ei ymgais yn wastad fyddai diffodd y tân, ac nid taflu olew arno. Digwyddodd ei fod unwaith mewn cynadledd cymanfa pan yr oedd achos oedd wedi cynhyrfu y sir am dymor hir yn cael ei siarad, a phethau yn argoeli yn lled ystormus. Eisteddai ef yn nghanol y capel, ac yn ei ymyl eisteddai hen ddiacon yn bur anesmwyth, a deallodd Mr. Stephens arno ei fod yn bwriadu codi i siarad, a gwyddai yn dda oddiar ei adnabyddiaeth o hono, os codi a wnai, na wnai hyny ddim ond gyru y drwg yn waeth. Cododd Mr. Stephens i fyned allan a galwodd yn ddistaw ar yr hen ddiacon i fyned gydag ef. Wedi myned y tu allan i'r drws, gofynai, "A ydych chwi Mr. —— yn meddwl dyweyd rhywbeth yn y *conference* heddyw?" "Ydw'," ebe yr hen ddiacon. "Gwell i chwi beidio—gwell i chwi fod yn ddistaw. A ydych chwi yn cofio yr olwg welais i arnoch chwi wrth bont ——, y pryd a'r pryd? Yn awr, os dywedwch chwi yr un gair yma heddyw, mi ddywedaf finau hyny." Dychrynodd yr hen ddiacon trwy ei galon, a dywedodd, "O'r goreu, Dafydd Stephens, 'weda i 'run gair." Aeth y ddau yn ol, a bu yr hen ddiacon mor ddistaw a phlentyn drwg yn ngolwg y wialen, o hyny i'r diwedd. Gwir fab tangnefedd ydoedd. Yr oedd yn ddyn o ddeall clir a chyflym. Nid oedd wedi darllen llawer, ond medrai gipio i fyny yr hyn a glywai mewn munyd. Wrth wrando ac ymddiddan y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r wybodaeth oedd ganddo. Nid oedd gan olygiadau gwyllt a newyddion ddim dylanwad arno, ac nid oedd dim a gasâi yn fwy na chlywed pethau heb fod yn hollol gywir yn cael eu traethu yn y pulpud. Ni dderbyniai ddim ond gwirionedd hyd yn nod mewn barddoniaeth, ac isel iawn y prisiai ddychmygion disail yn y weinidogaeth. Yr oedd golwg hawddgar arno yn y pulpud. Yr oedd o daldra uwch na'r cyffredin, mewn gwedd dda, er nad yn gorphol, a'i safiad yn wastad yn syth ác uniawn. Dywedai y gair cyntaf yn hyglyw i unrhyw gynnulleidfa o faintioli cyffredin, a pharhai i lefaru yn gryf a chroyw hyd y diwedd. Nid oedd dim nodedig yn ei lais, ac nid oedd neb wrth ei wrandaw yn meddwl am ei lais, canys ei bethau oedd yn tynu sylw. Yr oedd wedi meddwl llawer mwy pa beth i'w ddyweyd, na pha fodd i ddyweyd; er ei fod fynychaf yn gwresogi yn ei fater nes bod yn dra effeithiol a dylanwadol ar ei wrandawyr. Egluro yr ysgrythyrau oedd baich ei bregethau, ac anaml y gallesid gwrando neb oedd wedi deall amcan pregethu yn well, a phob amser yn cyfeirio ato. Ond yr oedd y cyflawnder o eglurhadau hapus oedd ganddo at ei law, a'r ffraetheiriau byw oedd mor naturiol iddo yn rhoddi gwedd mwy poblogaidd ar ei bregethau nac a geir yn gyffredin ar bregethau esboniadol. Wrth bregethu unwaith ar Ragluniaeth, dangosai fel y mae gan ddynion eu cynlluniau eu hunain, ac na fynant eu rhoddi i fyny. Fod llawer goruchwyliaeth yn cael ei defnyddio gan yr Arglwydd i geisio cael gan ddynion roddi i fyny, ond nid oes dim yn tycio, ac o'r diwedd fod rhagluniseth yn dyfod yn ei ffordd ei hun ac yn dymchwel yr holl gynlluniau gan eu gorfodi i roddi i fyny. Yna darluniai olygfa a welsai yn ffair Llandilo pan yn fachgen, ryw hen wraig hyfach na'r cyffredin yn gwthio ei bwrdd yn mlaen yn mhellach i'r heol na'r terfyn. Ceisiai y rhai oedd o'i chylch ganddi beidio ymwthio yn mhellach na'r terfyn gan fod hyny yn eu taflu hwy i anfantais. Yn mhen ychydig daeth

Digitized by Google

yr heddgeidwad heibio gan geisio ganddi gilio yn ol, ond ni fynai symud, yn mlaen y mynai yr hen wraig fod. Hen wraig o Gaerfyrddin oedd hi—meddai mewn dull mor awgrymiadol, fel pe buasai hyny yn ddigon i gyfrif am ei hyfdra a'i chyndynrwydd. Ond o'r diwedd dyma y *coach* mawr yn d'od a'i olwyn ar draws *standing* yr hen wraig, nes dymchwel ei bwrdd, a chwalu pob peth oedd arno. Os na wrandawodd ar neb bu raid iddi ddyoddef gan iddi fyned i ffordd *Mail Coach* y llywodraeth. Yr oedd y gydmariaeth mor eglur, a'r cymhwysiad mor hapus fel y teimlai y rhai gwanaf eu hamgyffredion ei bod yn help iddynt ddeall y gwirionedd. Wrth gyfeirio at weddi Agur, na roddid iddo dlodi na chyfoeth rhag i'r naill na'r llall fod yn brofedigaeth iddo, dywedai, "Mai gweddi crefyddwr bach gwan oedd hono. Y buasai yn gywilydd gan Paul weddio gweddi felly, oblegid fod ganddo ef grefydd fawr, gref, uwchlaw dylanwad yr amgylchiadau. Mai dynion gwan sydd yn teimlo gyntaf oddiwrth newidiad y tywydd; ac am y dynion y mae eu cyfansoddiadau yn *sound*, y maent yn gallu dal pob tywydd, a phob hinsawdd." Wrth bregethu mewn cymanfa yn Aberafan, oddiar y geiriau, "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu," mae yn gof genym ei fod wedi cael yr holl gynulleidfa i'w law cyn diwedd yr oedfa, ac yr oedd efe ei hun mewn teimladau cynes yn gwaeddi "Diolch." "Diolch, am beth yr 'ych chwi yn diolch?" gofynai, "am ddim. Diolch am *ddim*! Ie, ond *dim* damnedigaeth." Dywedai hyny yn y fath fodd fel nad yw yn bosibl trosglwyddo i bapur y *dull* y dywedai, a'r argraff a adawai hyny ar y gwrandawyr. Mae canoedd o'i ddywediadau ffraeth, ac arabol ar gof ei gyfeillion, y rhai a ddywedwyd ganddo yn y pulpud ac mewn cyfeillachau, a phe gellid eu casglu yn nghyd gwnelent gyfrol anmhrisiadwy. Coffeir gan lawer hyd heddyw am ei bregeth nodedig ar "grefydd yn rhanu teuluoedd," yn nghymanfa Gwalchmai yn Mon, yn y flwyddyn 1858. Cariodd effeithiau grymus ar y gynnulleidfa fawr.

Bu dros amryw fisoedd yn gwaelu, ac er na bu neb erioed yn mhellach oddiwrth ffug ac ymddangosiad, etto yr oedd yn amlwg arno yn ystod ei gystudd ei fod yn addfedu i'r nefoedd. Dywedai wrth un o'i gyfeillion a ymwelai ag ef yn ei gystudd, ei fod wrth edrych yn ol ar ei yrfa yn gweled llawer o anmherffeithrwydd, ac y dylasai fod wedi gwneyd llawer mwy dros ei Arglwydd; "ond," ychwanegai, "mae fy meistr wedi dyweyd y settla fe a mi heb fesur y gwaith." Bu farw fel y bu fyw, heb dwrf na chyffroad, ac ar foreu Sadwrn, Mai 4ydd, 1861, ehedodd ei ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef, yn 42 oed. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent Ebenezer, Glantaf, ac yr oedd mwy na dougain o weinidogion yn bresenol; a phregethodd ei gyfeillion hoff Mr. Davies, Caerdydd, a Dr. Rees, Abertawy. "A gwyr bucheddol a ddygasant Stephen i'w gladdu, ac a wnaethant alar mawr am dano ef."

## GLANDWR, FFYNONTAF.

Cangen o Ebenezer, Glantaf, yw yr eglwys hon. Yr oedd nifer o aelodau Glantaf yn cyfaneddu yn y Nantgarw a'r cylchoedd, a chan ei bod yn bell iddynt fyned i Glantaf, a bod yr ardal y cyfaneddent ynddi yn cynyddu yn gyflym yn ei phoblogaeth, penderfynasant, trwy gydsyniad Mr. Stephens a'r eglwys yn Glantaf, adeiladu capel ac ymffurfio yn eglwys Annibynol.

Digitized by Google

Buont am ryw gymaint o amser cyn adeiladu y capel, yn cynal moddion crefyddol ar nosweithiau o'r wythnos yn nhy John Jenkins. Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1859. Costiodd tua 300p. Mae yn addoldy hardd ac oriel ynddo, a mynwent brydferth y tu allan iddo. Ar ei agoriad pregethwyd gan Meistri J. Stephens, Brychgoed; T. Rees, Cendl; J. Davies, Aberaman; H. Oliver, B.A., Pontypridd, ac eraill. Yn mhen ychydig amser wedi agoriad y capel dechreuodd iechyd Mr. Stephens waelu, ac felly ni chafodd yr eglwys ieuangc hon ond prin flwyddyn o'i wasanaeth ef fel gweinidog. Wedi marwolaeth Mr. Stephens, penderfynodd yr eglwys hon fyny gweinidog iddi ei hun, ar wahan oddiwrth Glantaf, ac felly yn 1862, rhoddodd alwad i Mr. Evan Pritchard, Tretwr, Brycheiniog. Bu Mr. Pritchard yma hyd ddiwedd y flwyddyn 1866, pryd y rhoddodd ofal y lle i fyny. Ebrill 29ain a'r 30ain, 1867, urddwyd Mr. B. Davies, o athrofa y Bala yma, ac efe yw y gweinidog yn bresenol. Yr ydym yn hyderu y parhâ i lafurio yn y maes addawol hwn am flynyddau lawer etto. Mae yma eglwys a chynnulleidfa siriol a gwresog iawn. Yma y claddwyd y dduwiol a'r ffyddlon Mrs. Thomas, Ynysgau, yr hon a fuasai yn haelionus iawn yn ei chyfraniadau at adeiladu y capel a chychwyn yr achos. Gan fod ei phriod, y diweddar Mr. Morgan Thomas, yr hwn er ei fod yn ddyn hollol ddigrefydd, yn teimlo parch mawr i goffadwriaeth ei wraig, rhoddodd y swm o ddeg-punt-ar-hugain yn y flwyddyn at gynal y weinidogaeth yn Nglandwr, ar yr amod i'r gweinidog a'r eglwys ofalu am gadw y bedd yn lân a'i baentio bob blwyddyn.

## EGLWYSNEWYDD.

Saif pentref yr Eglwysnewydd, neu Whitchurch, o fewn tair milldir i Gaerdydd, ar y ffordd fawr i Merthyr Tydfil. Gelwir ef yn Eglwysnewydd oddiwrth y plwyf. Mae mewn gwlad isel, ffrwythlon, a phrydferth, ar lan y Taf. Yr ochr arall i'r afon, ac yn y golwg, y mae dinas ac Eglwys Gadeiriol Llandaf. Cyn sefydlu achos Annibynol yn yr ardal, elai yr Annibynwyr i addoli i Gaerdydd, Groeswen, Taihirion, Rhydri, Watford, Llansantffraid-ar-lai, ac i Bethlehem, Pentyrch. Sefydlwyd achos Annibynol, nid pell oddi yma, mewn amaethdy o'r enw Radyr, gan y diweddar Mr. D. Davies, Llansantffraid-ar-lai, ond rhoddwyd hwnw i fyny flynyddoedd yn ol, fel y crybwyllasom yn hanes Taihirion. Pregethai yr enwog G. Hughes, Groeswen, yn aml mewn amaethdai yn yr ardal. Yn un o'i ysgrif-lyfrau, cawn ei fod yn pregethu mewn amaethdy o'r enw Rhiwlynau, yn y flwyddyn 1812, oddiwrth Ephes. i. 13; etto yn Awst, 1815. Clywsom ei fod hefyd yn pregethu yn achlysurol yn y Briwnant, ac mewn lleoedd eraill yn yr ardal. Diameu iddo fod yn pregethu yn Tanyrywen, canys yr oedd Mr. Lewis, tad Mrs. George, yn aelod selog yn y Groeswen. Pregethid yn fynych ar brydnawnau Sabbothau yn Tanyrywen. Ymunodd Mrs. George wedi hyny a'r Bedyddwyr yn Wauntreodau. Cynyddai rhif yr Annibynwyr yn yr ardal, a theimlent yn fawr angen lle i addoli, canys o ddiffyg man cyfleus ymunodd rhai a'r Methodistiaid. Symudodd teulu i'r ardal o gymydogaeth Pontypool, sef Edward a Mary Daniel, yn nghyd a'u plant, ac ymaelodasant yn Ebenezer, Caerdydd. Yr oeddynt yn amaethwyr, ac yn deulu cyfrifol. Derbyniasid Edward Daniel

yn aelod yn Mhenywaun, Mynwy, gan Mr. D. Davies, Mawrth 20fed, 1820. Symudodd oddiyno i'r New Inn, Medi 5ed, 1823; oddiyno i'r Rhydri, ac oddiyno i Gaerdydd. Derbyniasid Mrs. Daniel, ei wraig, yn aelod yn Heolyfelin, Casnewydd-ar-Wysg, yn y flwyddyn 1805, gan Mr. R. Davies. Yr oedd Mr. Roger Roger, fu yn gweinidogaethu yn Heolyfelin, Casnewydd, yn frawd i'w nain, Joan Richards. Buont fyw gyntaf yn yr ardal hon mewn fferm a elwid y Mynydd, wedi hyny yn Wauntreodau ferm, ac wedi hyny yn Tirhwnt, plwyf Llanishen—lle y mae eu merch hynaf, Mary, a'i gwr, Thomas John, yn byw yn bresenol. Bu y teulu hwn yn flaenllaw yn sefydliad achos Annibynol yr Eglwysnewydd, ac y mae eu merch hynaf a'i gwr yn aelodau ffyddlon yno yn bresenol.

Wedi hir ymchwil am le i gynal addoliad, llwyddwyd yn Hydref, 1848, i gael ty bychan, yr hwn cyn hyny oedd yn efail gof, ar gongl tair ffordd, ychydig o'r pentref, am yr ardreth o 4p. 10s. yn y flwyddyn. Enw y fan yw Nantywathle, neu fel y gelwir ef fynychaf, Rhydywathle. Gelwir ef gan rai yn Nantrhydywathle. Dichon mai llygriad yw yr enw o Gwaedle. Os felly, yr ystyr yw Nantygwaedle, Rhydygwadle, a Nantrhydygwaedle. Gelwir y fan felly mewn canlyniad i frwydr a ymladdwyd ar yr ysmotyn tir hwn, rhwng adran o fyddin Cromwel a byddin Siarl y cyntaf. Deuai y flaenaf o Gaerdydd a'r olaf o gyfeiriad Caerphili, yn groes i'r mynyddoedd, yma y cyfarfu y gâd. Cafodd Mr. J. Ll. James, pan yn yr ardal, hen badell ffrio fawr, yn ddwfn yn y ddaear, gerllaw y fan, yr hon ddygai arwyddion o henaint dirfawr. Tebyg ei bod yno er yr adeg hono. Hawdd y gallasai suddo yn ddwfn, canys yr oedd y fan yn fath o gors yn yr amser cyntefig. Yn y *Trustdeed* gelwir y lle yn Nant-rhyd-Walter. Ymunodd yr ychydig Annibynwyr yn yr ardal i gychwyn yr achos Nantrhydwathle, yn y ty bychan, fu gynt yn efail gof, ger y nant fechan risialaidd a lifa heibio. Cynhaliwyd yma gyfarfodydd gweddi yn gyson ar brydnawnau y Sabboth, ac ar ryw noson o'r wythnos; ac ar brydnawn dydd Nadolig, 1848, y traddodwyd y bregeth gyntaf yma, gan Mr. Jones, Rhydri. Dydd Mawrth y Sulgwyn, 1849, cafwyd yma *Tea Party*, a chyfarfod cyhoeddus yn yr hwyr; ac oddiwrth yr elw a gaed y gwnaed y pulpud a meinciau yn yr hen dy, a chafwyd help i dalu yr ardreth. Ffurfiwyd eglwys yma, cyn belled ag y dichon yr aelodau ydynt yn awr yn fyw gofio, tua blwyddyn cyn adeiladu y capel. Yr aelodau ymunasant a'u gilydd oeddynt:—Edward a Mary Daniel, o Ebenezer, Caerdydd; William ac Ann Brown, o Bethlehem, Pentyrch; Mary Roberts a'i phlant, sef Mary a William Roberts, o Bethlehem, Pentyrch, ac Edward Roberts, o'r Watford. Yn fuan wedi cychwyn ymunodd William Dafydd, a Martha ei wraig, aelodau gwreiddiol o Lansantffraid-ar-lai, yn nghyd ag amryw eraill. Ychwanegodd rhifedi y ddeadell fechan. Pregethid am ddau o'r gloch, ac am chwech o'r gloch y Sabboth. Os na cheid pregethwr, cynelid cyfarfod gweddi. Cychwynwyd Ysgol Sabbothol foreu Sabboth; ac yn y drefn yna y cynaliwyd y moddion crefyddol am flynyddoedd. Dewiswyd William Brown a William Dafydd yn ddiaconiaid. Pregethid yma yn aml ar y cyntaf gan Mr. J. Jones, Rhydri, ac eraill o'r cylchoedd. Cymerwyd y gofal gweinidogaethol gan Mr. Jones, Rhydri, yr hwn hefyd oedd gweinidog Bethlehem. Cafwyd lle i adeiladu capel yn ymyl y ty yr addolid ynddo, yn nghyda lle mynwent fechan, gan dirfeddianwr bychan, o'r enw William Howell, ar brydles o 999 o flynyddau, am yr ardreth blynyddol o ugain swllt. Gwnaed apeliad

Digitized by Google

am danysgrifiadau Mawrth 26ain, 1851, wedi ei lawnodi gan J. Jones, y gweinidog; Edward Daniel a William Russell, diaconiaid. Yr oll a gasglwyd oedd 38p. Costiodd y capel tua 138p. Dyddiad y brydles yw Tachwedd 15fed, 1850. Agorwyd y capel yn gyhoeddus ddydd Mawrth y Sulgwyn, 1851. Yn mhen amser, rhoddodd Mr. Jones y gofal gweinidogaethol i fyny, a dilynwyd ef gan Mr. William Russell, yr hwn a urddasid yn Machen. A bu yma mewn cysylltiad a Llansantffraid hyd nes y cafodd ergyd o'r parlys Awst 9fed, 1857, yr hyn a'i hanalluogodd mwy i gyflawni ei weinidogaeth. Yn Hydref, 1859, dechreuodd diwygiad crefyddol yn yr ardal. Yr oedd yn nerthol iawn mewn rhai manau yn Morganwg, ac er na fu mor nerthol yn yr Eglwysnewydd, etto effeithiodd i raddau ar yr holl eglwysi. Yr adeg hon daeth Mr. John Lloyd James, o athrofa Caerfyrddin, i'r ardal, ac wedi prawf arno rhoddwyd galwad iddo. Urddwyd ef Chwefror 2il, 1860. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. D. Jones, B.A., Caerdydd; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Griffiths, Llanharan; offrymwyd yr urddweddi gan Mr. J. Jones, Pentyrch; pregethwyd i'r gweinidog gan Proff. Morgan, Caerfyrddin, ac i'r eglwys gan Mr. J. Davies, Aberamam.* Pan ddechreuodd Mr. James ei weinidogaeth, yr oedd 50 o gymunwyr yn yr Eglwysnewydd. Yr oedd cynnulleidfa dda o ieuengctyd, ac Ysgol Sabbothol flodeuog yma. Penderfynwyd helaethu, adnewyddu, a harddu y capel. Medi 4ydd, 1860, derbyniwyd *estimate* Mr. John Emmanuel, Llanishen, am y swm o 210p. Gorphenwyd y capel, a phregethodd Mr. James ynddo am y waith gyntaf Mawrth 3ydd, 1861. Agorwyd ef yn gyhoeddus Ebrill 28ain. O herwydd lluosogrwydd y boblogaeth tuag ardal gwaith y College, a'r pellder i Beulah, penderfynwyd cychwyn achos yn Yard Llandaf. Ardrethwyd llofft ar fin y *canal* o Merthyr i Gaerdydd, ger y *Cow and Snuffers*. Cychwynwyd Ysgol Sabbothol yno a phregethu Cymraeg a Saesonaeg; ond oblegid i'r prif waith, ar yr hwn yr ymddibyna y bobl, sefyll, rhoddwyd yr anturiaeth i fyny. Bu symudiad Mr. John Phillips i'r ardal yn gaffaeliad mawr i'r eglwys, ac y mae yn ddiacon defnyddiol yn y lle. Yn Hydref y flwyddyn 1869, penderfynodd Mr. J. Ll. James ymadael i gymeryd gofal yr eglwys Saesonaeg yn Nghapel Ivor, Dowlais. Pregethodd y waith olaf yn yr Eglwysnewydd nos Sabboth, Hydref 10fed. Gydag ymadawiad Mr. J. Ll. James, ailgychwynodd gwaith y College. Y mae yno Ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn, a chan y gellir cael tir mewn man cyfleus, diameu y bydd yno achos yn fuan. Pan ymadawodd Mr. James, yr oedd mwy na 151p. o ddyled ar y capel, ond y mae yr oll erbyn hyn wedi ei thalu, heblaw adgyweirio llawer arno. Mae yr eglwys wedi rhoddi galwad i Mr. William Meurig Rees, un o fyfyrwyr Aberhonddu, a bwriedir cynal cyfarfodydd ei urddiad Gorphenaf 4ydd, y flwyddyn hon (1872). Rhifa yr eglwys 56 o aelodau, y gynnulleidfa tua 150, a'r ddwy ysgol yn 110. Mae rhagolygon addawus o flaen Mr. Rees ar ddechreuad ei weinidogaeth yma.

## BETHEL, CAERPHILI.

Yr oedd cyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol yn cael eu cynal gan aelodau y Groeswen yn y dref hon ddegau o flynyddau cyn adeiladu

* *Diwygiwr*, Mawrth, 1860. Tu dal. 90.

Digitized by Google

capel a ffurfio eglwys yma. Mewn ty bychan yn agos i furiau y castell, yr hwn a breswylid gan Lewis Edwards, hen ŵr duwiol a selog iawn, y cedwid y cyfarfodydd am flynyddau. Wedi hyny buwyd yn addoli am dymor mewn ystafell ar lofft y *Black Lion*, a phan y byddai pregeth yma mewn ystafell ar lawr yr un ty y cynelid y gwasanaeth. Y Neuaddfawr y gelwid hono. Yr oedd yn ystafell lled eang ond yn isel a thywyll iawn. Wedi i un Thomas Morgan gymeryd les ar y *Black Lion*, tynodd yr hen dŷ i lawr ac adeiladodd dŷ newydd ar ei safle, yr hwn a elwir yn awr y *Clives Arms*. Wedi cael y ty newydd yn barod, darfu i Meistri William Richards, a William Lewis, dau o ddiaconiaid mwyaf dylanwadol y Groeswen, rentu ystafell ynddo gan Thomas Morgan, am bum' punt y flwyddyn, at gynal moddion crefyddol. Yr oedd hyn yn groes iawn i feddyliau y cyfeillion crefyddol yn y dref a'r gymydogaeth, gan eu bod am adeiladu capel. Ond gan fod dylanwad y ddau hen ddiacon mor fawr, a'u bod yn groes i adeiladu capel yn Nghaerphili, rhag i hyny ddrygu y Groeswen, goddefwyd iddynt gael eu ffordd. Agorwyd llofft y *Clives Arms*, fel lle addoliad, yn niwedd Mai, 1832, ac yno y buwyd yn addoli hyd ddiwedd Medi, 1848, pryd yr agorwyd capel Bethel. 45 oedd rhif yr aelodau pan yr awd i'r llofft yn y *Clives Arms*, yn 1832, a 70 oedd eu rhif pan yr awd i'r capel yn 1848. Yr oedd pobl y Groeswen yn dra gwrthwynebol i'r capel gael ei adeiladu, ac yn neillduol i'r bobl gael eu corpholi yn eglwys Annibynol, ond gwnaeth Mr. M. Rees, y gweinidog, ei oreu gyda'r achos tra y bu byw. Buwyd am amser wedi adeiladu y capel yn myned i'r Groeswen bob boreu Sabboth, ac yn cadw Ysgol Sabbothol a phregeth yn yr hwyr yn Bethel, Caerphili. O'r diwedd, caniataodd y fam-eglwys yn y Groeswen, rhwng bodd ac anfodd, i bobl Caerphili gael myned yn gwbl ar eu penau eu hunain. Yna cadwasant foddion cyflawn yn Bethel bob rhan o'r Sabboth. Wedi marwolaeth Mr. Rees, Groeswen, bu yr eglwys yn Nghaerphili yn byw ar weinidogaeth achlysurol hyd nes iddynt roddi galwad unfrydol i Mr. David Richards, Llanelli, Brycheiniog, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma Mehefin 29ain, 1862. Cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad 15fed a'r 16eg o Fedi, yn yr un flwyddyn, pryd y cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri E. Watkins, Llangatwg; W. C. Williams, Groeswen; E. Pritchard, Glandwr; W. Griffiths, Llanharan; D. Williams, Berea, ac eraill. Y mae Mr. Richards yma hyd yn bresenol, ac yn barchus a llwyddianus iawn. Hyderwn fod blynyddau o ddefnyddioldeb o'i flaen yma etto. Ailadeiladwyd y capel yn 1866. Y mae yn awr yn addoldy helaeth, hardd, a chyfleus. Dyoddefodd yr achos Annibynol yn fawr am na buasai yma gapel ac eglwys ddeng-mlynedd-ar-hugain yn gynt. Ond er pob anfantais y mae argoel y bydd yr eglwys Annibynol yn Nghaerphili yn un o'r rhai cryfaf yn y sir yn mhen ychydig flynyddau.

Y diaconiaid yma ydynt, John Rowlands, Thomas Anthony, Henry Anthony, ac Edmund Jones.

## WATFORD.

Mae y capel hwn ar lechwedd mynydd Caerphili, yn mhlwyf Eglwysilan, o fewn milldir i Gaerphili, ar fin y ffordd sydd yn arwain o'r dref hono i Gaerdydd. Y Watfordfawr yw enw y fferm, ar ran o ba un y mae y capel wedi ei adeiladu. Y Fetfford yr ysgrifenir yr enw mewn rhai hen law-

Digitized by Google

ysgrifau, a thra thebyg mai ystyr y gair yw *Bodfordd*. Fel y nodasom yn hanes y Groeswen, yr oedd addoliad Ymneillduol yn cael ei gadw yn rheolaidd yn mhlwyf Eglwysilan, a'r plwyfydd cymydogaethol, er dyddiau yr Anghydffurfwyr, ond mewn anedd-dai y cedwid y cyfarfodydd o oes i oes nes adeiladu capel y Watford. Yn y flwyddyn 1739, yr adeiladwyd y capel cyntaf yma. Rhoddwyd lês ar y tir at ei adeiladu i Mr. David Williams, Pwllypant, y gweinidog, gan Thomas Price, Ysw., o'r Watfordfawr, un o aelodau yr eglwys, am fil o flynyddau, am yr ardreth flynyddol o bymtheg swllt. Yn y flwyddyn 1740, rhoddodd Mr. D. Williams y lle i fyny i'w frawd Thomas Williams, ac eraill, fel ymddiriedolwyr. Yn 1797, wedi i William Price, mab Thomas Price, perchenog y tir, fyned yn fethdalwr, prynodd yr ymddiriedolwyr eu hawl yn y capel a'r fynwent, a'r tai perthynol i'r capel, am y swm o ugain punt, ac er hyny y mae y lle yn rhyddfeddiant y gynnulleidfa.

Nid ydym wedi gallu cael allan yn mha le, neu leoedd, yr oedd y gynnulleidfa yn addoli cyn adeiladu y capel, ond dan yr un weinidogaeth a Chaerdydd yr oedd, o leiaf oddiar ddechreuad tymor gweinidogaeth Mr. Rice Protheroe, a than yr un weinidogaeth y parhaodd hyd 1826, pan y cyfyngodd Mr. W. James ei lafur i Gaerdydd yn unig. Yr oedd yma gynnulleidfa gref a chyfoethog cyn adeiladu y Groeswen, a gwyrad Mr. D. Williams at Arminiaeth, ond o hyny allan ni bu un llewyrch neillduol yma hyd y dydd hwn. Pan yr adeiladwyd y capel, mae yn debyg fod amryw o'r gynnulleidfa yn byw ar y tu deheuol i'r mynydd, a bod yr addoldy wedi cael ei fwriadu at wasanaeth preswylwyr y rhanau uchaf o blwyfydd Llanedern, yr Eglwysnewydd, &c., yn gystal a thrigolion ardal Caerphili, ac felly adeiladwyd ef mewn man canolog, ond yn awr, pan y mae addoldai wedi cael eu hadeiladu yn mhob cyfeiriad o'i amgylch, yn fwy cyfleus i'r bobl, y mae yr hen le hwn wedi ei adael i raddau mawr yn anghyfanedd. Nid yw yn debyg y ceir yma gynnulleidfa luosog byth gan nad oes ond ychydig o bobl yn preswylio yn agos i'r capel. Mae o ugain i bum'-punt-ar-hugain yn y flwyddyn o waddol wedi cael ei adael at yr achos yma. Yn y flwyddyn 1837, gadawodd Mary Williams, merch yr hen weinidog, Mr. David Williams, 300p., llog pa rai sydd at gynal y weinidogaeth yma.

Wedi i Mr. James roddi y lle hwn i fyny, bu Mr. Daniel Davies, gynt o'r Ynysgau, yn pregethu yma am rai blynyddau, ond ar ei symudiad i Bontypridd, rhoddodd y lle i fyny. Tua y flwyddyn 1831, neu 1832, rhoddwyd galwad i Mr. Lewis Roberts, o athrofa y Neuaddlwyd, ac urddwyd ef yma. Wedi iddo fod yma am chwech neu saith mlynedd yn lled gymeradwy, ymddyrysodd yn ei amgylchiadau, ac ymollyngodd i ddiotta, fel y bu raid iddo adael y lle. Wedi hyny bu yr achos dan ofal Meistri E. C. Jenkins, Salem; Thomas Lloyd, a J. Jones, Rhydri, yn olynol. Bu Mr. Thomas Jones yn weinidog yma o 1852 hyd 1870, pryd y rhoddodd ei ofal i fyny ac y symudodd o'r ardal. Dilynwyd Mr. Jones gan Mr. B. Davies, mewn cysylltiad a Glandwr, Glyntaf, ac efe yw y gweinidog yma yn bresenol.

Fel y nodwyd, bu yr eglwys hon yn fywiog, llewyrchus, ac y mae yn debyg yn dra lluosog am y deng mlynedd cyntaf o dymor gweinidogaeth Mr. David Williams, ac o bosibl yn amser ei ragflaenydd, Mr. Protheroe. Mae yn ddigon tebyg i amryw o'r aelodau gael eu cyfodi i bregethu yn y tymor hwnw, ond nid ydym ni wedi gallu dyfod o hyd i enwau neb o honynt ond y tri canlynol, a'r rhai a grybwyllwyd yn hanes y Groeswen.

Digitized by Google

Thomas Morgan. Rhoddir ei hanes ef yn nglyn a Henllau, sir Gaerfyrddin, lle y bu yn gweinidogaethu.

Jenkin Morgan, Rhosymeirch, Mon. Yn nglyn a hanes yr eglwys hono y rhoddir ei fywgraphiad ef.

David Williams. Yr oedd ef yn ei ddydd yn un o'r llenorion mwyaf adnabyddus yn Ewrop, ac y mae ei enw ac ychydig o'i hanes yn mhob Geiriadur Bywgraphyddol o nôd yn yr iaith Saesoneg, a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, ond yn rhyw fodd, dywedir yn mhob un o honynt, mai mewn pentref yn agos i Aberteifi y ganwyd ef, yr hyn nid yw gywir. Cafodd ei eni a'i fagu yn agos i Gaerphili, ac y mae amryw o hiliogaeth chwaer iddo yn yr ardal hono yn awr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1738. Derbyniodd ei addysg ragbarotoawl yn ysgol Mr. David Williams, gweinidog ei rieni, ac ar ei anogaeth a'i gymeradwyaeth ef, pan ddaeth i oed cyfaddas, derbyniwyd ef fel myfyriwr i athrofa Caerfyrddin. Yno, os nad cyn myned yno, llyngcodd olygiadau Ariaidd. Ar orpheniad ei amser yn yr athrofa, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys o Ymneillduwyr Ariaidd yn Frome. Wedi bod yno am tua dwy flynedd, symudodd i Exeter, lle y bu yn weinidog am oddeutu dwy flynedd drachefn. Oddiyno aeth yn weinidog i gynnulleidfa o Ariaid neu Undodiaid yn Highgate, gerllaw Llundain. Yn mhen ychydig wedi hyny ymwrthododd yn hollol a Christionogaeth, a gwnaeth gynygiad i gasglu cynnulleidfa ar egwyddorion Deistiaidd, neu grefydd natur, yn Margaret-street, Cavendish-square, Llundain. Traddododd yno lawer o ddarlithiau neu bregethau ar destynau moesol, y rhai a gyhoeddodd yn bedair neu bump o gyfrolau. Cyhoeddodd hefyd amryw gyfrolau ar addysg, a materion hanesyddol, athronyddol, a gwladyddol. Ei *History of Monmouthshire*, mewn dwy gyfrol pedwar plyg, yw y mwyaf adnabyddus yn awr o'r holl lyfrau a ysgrifenodd. Gwnaeth wasanaeth da, ac anfarwolodd ei enw, trwy arfer ei ddylanwad i sefydlu y *Literary Fund* yn y flwyddyn 1790. Dyben y sefydliad hwn yw rhoddi cymorth arianol i awdwyr hen a methedig fyddont mewn amgylchiadau isel. Mae yn parhau yn llewyrchus hyd y dydd hwn, a than nawdd amryw o brif bendefigion y deyrnas. Bu yn dda i'r sylfaenydd ei hun cyn ei farwolaeth, gael cymorth o'r *Fund* hon. Efe a fu farw Mehefin 29ain, 1816, yn 78 oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Anne, Soho, Llundain. Gadawodd ei lyfrau, a rhyw bethau eraill, yn ei ewyllys i'w chwaer, yr hon oedd yn wraig i Mr. Walter Thomas, yr hwn yr ydym wedi crybwyll ei enw amryw weithiau yn nglyn a Llanfaches, Llangynwyd, a manau eraill y bu yn gweinidogaethu ynddynt. Yr oedd David Williams yn ddyn o gymeriad moesol pur, ac yn cael edrych i fyny ato gan brif ddysgedigion Ewrop. Buasai ei enw lawer yn anwylach a mwy adnabyddus yn mysg y Cymry pe buasai yn glynu wrth grefydd ei henafiaid.

## CAPEL Y DRINDOD, CAERDYDD.

Hwn ydyw yr addoldy Ymneillduol henaf yn y dref. Womanby-street y gelwir yr heol lle y saif. Homanby oedd yr hen enw cyntefig arni. Yr oedd Ymneillduwyr yn y dref hon er yn foreu iawn. Mae yn hysbys fod William Erbery, ficer Eglwys Fair, yn Ymneillduwr selog, ac iddo ef a'i gurad, Walter Cradock, fod yn ddyoddefwyr o herwydd eu hanghydffurfiad mor foreu a'r flwyddyn 1633. Tua y flwyddyn 1640, neu ddiwedd y flwyddyn flaenorol, ffurfiodd Mr. Erbery ei ddysgyblion yn eglwys Anni-

Digitized by Google

bynol, ond yn amser y rhyfeloedd cartrefol cafodd yr eglwys hon, fel pob eglwys Ymneillduol arall yn y wlad, ei gwasgaru a'i thaflu i anhrefn. Wedi adferiad Siarl II., a diswyddiad y ddwy fil, daeth Mr. John French, yr hwn oedd yn enedigol o'r dref hon, wedi ei droad allan o eglwys blwyfol Wenfo, i fyw yma ac i ddilyn ei alwedigaeth fel meddyg. Byddai hefyd yn pregethu yn ei dŷ ei hun cyn fynyched ag y goddefai enbydrwydd yr amseroedd iddo wneyd. Yn Mai, 1672, cymerodd Mr. French drwydded ar ei dŷ at bregethu ynddo. Dichon fod rhai o hen aelodau yr eglwys a ffurfiesid gan Mr. Erbery yn 1640 yn fyw ac yn cyfaneddu yn Nghaerdydd yn 1662, pan y daeth Mr. French yma, a bod y cyfryw yn rhan o'r gymdeithas a ffurfiwyd yma tua yr amser hwnw. Mae yn ymddangos mai Mr. French fu y gweinidog yma hyd derfyn ei oes yn 1691, ac mai yn ei dŷ ef y cynelid y gwasanaeth trwy yr holl flynyddoedd o 1662 hyd 1691. Yn 1696, yr adeiladwyd y capel cyntaf yma. Cafwyd y tir i'w adeiladu gan Syr John Thomas, Barwnig, o'r Wenfo, am y swm o bum' swllt a cheiniog yn y flwyddyn, os deuid i'w gofyn. Hyd y lês yw 999 o flynyddau. I John Archer, Ysw., *Alderman of Cardiff*, y rhoddwyd y tir gan Syr John Thomas. Yr ydym yn barnu fod Mr. Archer yn bregethwr, os nad efe oedd y gweinidog a ganlynodd Mr. French. Yn 1712, rhoddwyd galwad i Mr. Rice Protheroe, Llanfyllin, yr hwn a fu yn gweinidogaethu yma hyd ei farwolaeth yn 1733 neu 1734. Yn 1718, rhoddodd Mr. Archer y capel a thy anedd yn Angel Street, yn nghyd a'r swm o bedwar cant o bunau, mewn gweithred dros 970 o flynyddau, i Rice Protheroe, ac eraill. Yn y weithred hono darbodir fod rhent y ty a llog y pedwar cant punau i fyned at gynaliaeth y gweinidog, ond fod un ran o bedair o log yr arian i'w rhanu rhwng tlodion y gynnulleidfa. Mae yr arian yn bresenol yn 430p. 5s. 6c., ac wedi eu gosod yn *three per cent consols* yn enwau ymddiriedolwyr y capel. Darbodir hefyd yn y weithred hono fod yr ymddiriedolwyr pan y byddent wedi marw hyd at dri, i ddewis chwech atynt. Yn gydweddol a'r ddarbodaeth yma, dewiswyd Meistri James Davies, Merthyr; Phillip Dafydd, Penmain, a David Williams, Pwllypant, yn gydymddiriedolwyr a Rees Protheroe ychydig cyn ei farwolaeth ef. Yn Ionawr, 1750, dewiswyd Meistri Samuel Davies, Merthyr, a Thomas Williams, Pwllypant, yn ymddiriedolwyr. Yn ol y weithred a wnaed yn 1718, nid oedd neb yn gymhwys i fod yn ymddiriedolwr heb ei fod yn Ymneillduwr proffesedig ar amser ei ddewisiad. Wedi marwolaeth Mr. Rice Protheroe, dewiswyd Mr. David Williams, Pwllypant, gerllaw Caerphili, yn weinidog yma. Urddwyd ef yn y flwyddyn 1734, ac yma y bu hyd ei farwolaeth yn 1784. Dilynwyd ef yn 1785, gan ei fab Thomas Williams, yr hwn ar ol bod yma am dair blynedd a aeth yn offeiriad yn yr Eglwys Wladol. Tua diwedd y flwyddyn 1788, neu ddechreu y flwyddyn ganlynol, cafodd Mr. William James ei urddo yma. Parhaodd ei weinidogaeth ef dros y tymor hirfaith o un-mlynedd-ar-bymtheg-a-deugain. Bu farw yn Chwefror, 1845.

Mae yn ymddangos mai achos Saesonig oedd hwn o'r dechreuad, ac na fu yma gynnulleidfa luosog ar un cyfnod o'i hanes. Yr oedd y gweinidogion yn ddynion parchus a dysgedig, ond nid ymddengys fod yma unrhyw fywiogrwydd crefyddol neillduol wedi bod oddieithr am ychydig yn nechreuad tymor gweinidogaeth Mr. David Williams. Yr oedd ef am y saith neu yr wyth mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth, yn neillduol selog a llawn o ysbryd diwygiad, ac y mae yn dra thebyg i bobl ei ofal gael teimlo ychydig o'r gwres a lanwai ysbryd eu gweinidog. Ond yn anffodus oerodd Mr.

Williams yn ei ysbryd wedi hyny, ac mae yn ymddangos i'r achos yma ac yn y Watford ddirywio yn fawr yn ei flynyddoedd diweddaf ef; ac na wellhaodd pethau ddim yma yn y tair blynedd y bu ei fab Thomas Williams yn gweinidogaethu yn y lle. Er fod Mr. James yn pregethu athrawiaeth iachus, a'i fod yn ddyn hawddgar a duwiol iawn, etto nid oedd ei weinidogaeth yntau yn un wedd yn gyfaddas i ddenu pobl i'w wrando. Marwaidd ar y cyfan oedd ei ddoniau, ac nid oedd dim yn neillduol i gyffroi sylw yn ei faterion, ac yr oedd meithder ei bregethau yn anoddefol. Peth cyffredin fuasai iddo bregethu am ddwy awr yn ddiatal. Felly ni ddarfu iddo trwy ei oes hirfaith gasglu nemawr o bobl i'w wrandaw, ond parhaodd ychydig o bersonau a theuluoedd parchus i lynu wrth yr achos tra y bu ef byw. Ychydig cyn ei farwolaeth ef adeiladwyd yma gapel newydd. Un bychan iawn oedd yr hen gapel, ac nid yw yr un presenol yn fawr ychwaith. Mae yr heol lle y saif hefyd yn bob peth ond yr hyn sydd ddymunol fel safle ty addoli.

Yn Gorphenaf, 1842, rhoddwyd galwad i Mr. Abraham C. Simpson, LL.D., fel cynorthwywr i Mr. James. Dwy flynedd a haner y bu Dr. Simpson yma. Ymadawodd yn Mawrth 1844. Yn y flwyddyn 1845, ar ol marwolaeth Mr. James, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Carver, ac urddwyd ef yma; ond yn mhen ychydig gyda blwyddyn cafwyd allan ei fod yn dilyn bywyd anfoesol, ac felly ymwrthodwyd ag ef. Yn Chwefror, 1849, rhoddwyd galwad i Mr James James (Iago Emlyn), a bu yma hyd Mawrth, 1852, pryd y rhoddodd ei ofal i fyny ac y symudodd i Gaerodor. Dilynwyd Mr. James gan Mr. Thomas Davies, mab Mr. W. Davies, Rhosycaerau. Dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn Mai, 1853, a symudodd i Putney, gerllaw Llundain yn Mehefin, 1857. Yn Ionawr, 1858, rhoddwyd galwad i Mr. Norman Glass, a symudodd oddiyma i Lundain yn Gorphenaf, 1860. Yn Tachwedd, yr un flwyddyn, rhoddwyd galwad i Mr. Henry Chester, ac y mae efe yn parhau i ddal y swydd o weinidog yma hyd yn bresenol. Rhyfeddol o wan a dilewyrch y mae yr achos wedi bod oddiar farwolaeth Mr. W. James hyd yn bresenol, ond trwy fod yma waddol o tua thriugain punt yn y flwyddyn y mae y drws yn cael ei gadw yn agored o flwyddyn i flwyddyn. Dywed Mr. Chester, mewn llythyr wrthym, fod pethau yn dechreu adfywio ychydig yma yn awr, a bod y gwrandawyr yn lluosogi yn raddol.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

William Erbery, B.A. Os na ellir yn briodol ei ystyried ef fel gweinidog cyntaf yr eglwys yma, y mae yn deilwng o sylw yn hanes Annibyniaeth yn y dref hon, gan mai efe, wrth bob tebygolrwydd, oedd yr Anghydffurfiwr cyntaf fu yn pregethu yma. Ganwyd Mr. Erbery yn mhlwyf y Roath, yn agos i'r dref hon, yn y flwyddyn 1604. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Brazenose, Rhydychain. Wedi gorphen ei amser yn y brif athrofa, derbyniodd urddau esgobol, a dechreuodd ei weinidogaeth yn y Casnewydd, Mynwy. Symudodd oddiyno i Gaerdydd, a gwnaed ef yn ficer Eglwys Fair. Tua y flwyddyn 1633, dechreuodd yr awdurdodau eglwysig ei erlid o herwydd ei Buritaniaeth, ac yn y flwyddyn 1638, cafodd ei droi allan o'i fywioliaeth fel ficer Eglwys Fair, am wrthod darllen y Llyfr Chwareuyddiaethau, ac arferion anghydffurfiol eraill. Dywed Esgob Llandaf, mewn llythyr at yr Archesgob Laud, iddo ar ol cael ei droi

Digitized by Google

allan o'r eglwys ymadael yn heddychol o'r esgobaeth. Mae yn dra thebyl iddo o 1638 hyd ddiwedd 1639, fod yn pregethu yn ddirgel mewn gwahanol fanau yn Nghymru a Lloegr. Tua dechreu 1640, neu ddiwedd y flwyddyn flaenorol, dychwelodd i Gaerdydd, a chorpholodd y bobl a werthfawrogent ei weinidogaeth yn eglwys Annibynol yno. Yn 1642, cafodd ei ysbeilio o'i eiddo a'i drin yn greulon iawn gan filwyr y brenhin; mewn canlyniad i hyny, bu raid iddo ffoi am ddyogelwch i Loegr. Wedi iddo fyned yno, cafodd ei wneyd yn gaplan i un o fyddinoedd y senedd. Nid ymddengys iddo ar ol hyn wneyd ei gartref yn Nghymru, ond deuai i lawr ar ymweliadau achlysurol. Bu farw yn 1654. Yn mlynyddau diweddaf ei fywyd mae yn ymddangos fod ei feddwl wedi dyrysu, ac iddo dan ddylanwad y dyryswch hwnw gymeryd rhyw opiniynau hynod i'w ben. Cyhoeddodd rhwng 1646 a'r flwyddyn y bu farw, o bymtheg i ugain o fan lyfrau, y rhai a gasglwyd ac a gyhoeddwyd yn un gyfrol ar ol ei farwolaeth, gan y rhai a barchent ei goffadwriaeth. Mae yn amlwg i'r neb a ddarlleno ei ysgrifeniadau ei fod i raddau pell yn wallgofus, er fod llawer sylw gwerthfawr i'w gael yma ac acw yn ei waith. Cyn belled ag y gellir deall pa beth oedd ei farn, mae yn ymddangos ei fod yn mlynyddau olaf ei fywyd yn cydolygu mwy a'r Crynwyr nag ag un enwad crefyddol arall. Yr oedd yn ddyn galluog, dysgedig, duwiol, a defnyddiol iawn cyn i'w feddwl ddyrysu, ac wedi iddo ddyrysu, pethau crefyddol ac ysbrydol yn unig oedd yn destynau ei fyfyrdodau.

John French. Yr oedd ef yn enedigol o Gaerdydd. Mae yn ymddangos iddo gael ei ddwyn i fyny i fod yn feddyg, ond yn amser y werin-lywodraeth, aeth, fel llawer eraill, yn bregethwr, a chafodd ei osod yn weinidog plwyf Wenfo, gerllaw Caerdydd. Pan drowyd ef allan oddiyno gan Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662, ymsefydlodd yn Nghaerdydd fel meddyg. Byddai yn pregethu yn ei dŷ ei hun i bawb a ddeuent yno i'w wrandaw, a phan y cafwyd ychydig o ryddid yn 1672, cymerodd drwydded ar ei dŷ fel gweinidog Annibynol. Bu farw Chwefror 28ain, 1691. Dywedir ei fod yn ysgolhaig rhagorol, ac yn bregethwr sylweddol, ond ei fod yn lled afrwydd ei lafar. Byddai bob boreu Sabboth yn myned i addoli i Eglwys y plwyf, er mwyn dofi ychydig ar ffyrnigrwydd ei elynion, ac yn yr hwyr yn pregethu yn ei dŷ ei hun.

John Archer. Fel lleygwr ac *Alderman* y desgrifir ef yn hen weithred y capel, ond y mae genym bob sail i farnu ei fod hefyd yn weinidog, oblegid y mae ei enw yn nghofnodion y Bwrdd Henadurol yn Llundain, fel gweinidog yr eglwys Ymneillduol yn Nghaerdydd, ac yr oedd yn derbyn arian oddiwrth y Bwrdd fel y cyfryw. Mae yn ymddangos iddo roddi ei swydd fel gweinidog i fyny yn 1712, pan y rhoddwyd galwad i Mr. Rice Protheroe, ond yr oedd yn fyw yn 1718, canys yn y flwyddyn hono y darfu iddo drosglwyddo y capel a'r eiddo perthynol iddo i ymddiriedolwyr. Nid ydym wedi gallu dyfod o hyd i ychwaneg o'i hanes.

Rice Protheroe. Yr oedd ef yn enedigol o Lanymddyfri, neu y gymydogaeth, ac yr ydym yn barnu mai nai fab brawd, neu ryw berthynas i Mr. Rees Prytherch, Ystrad Walter, ydoedd. Derbyniodd ran o'i addysg yn yr athrofa a gedwid gan Mr. Roger Griffiths, yn Abergavenny. Mae yn ymddangos, oddiwrth ddau lythyr a ysgrifenodd at Mr. C. Blackmore, gweinidog yr Ymneillduwyr yn Worcester, ei fod yn lled isel ei amgylchiadau wedi iddo orphen ei amser yn yr athrofa. Yn Rhagfyr, 1698, yr



Digitized by Google

oedd yn athraw ysgol rad y Ficer Pritchard yn Llanymddyfri, ond achwyna, yn un o'i lythyrau at Mr. Blackmore, nad oedd yn disgwyl fawr o dâl am gadw yr ysgol hon, oblegid fod Mr. Roger Mainwaring, etifedd y Ficer, yn elyn mawr i'r Ymneillduwyr, ac er ei fod yn ddyn moesol ei fuchedd, nid oedd ond addawr teg, a chyflawnwr gwael. Nis gwyddom pa cyhyd y bu Mr. Protheroe yn cadw yr ysgol hon. Mehefin 16eg, 1702, cafodd ef, a saith eraill, eu hurddo yn Warrington, i fod yn weinidogion mewn gwahanol fanau. Mathew Henry, yr esboniwr; Dr. Charles Owen, David Jones, o'r Amwythig, ac eraill oedd yn gweinyddu ar yr achlysur. I fod yn weinidog yn Braggington, Maldwyn, yr urddwyd Mr. Protheroe. Bernir mai Llanfyllin a'r cylchoedd a olygid wrth Braggington. Bu Mr. Protheroe yn llafurio yn sir Drefaldwyn am ddeng mlynedd. Yn 1712, symudodd i Gaerdydd, ac yno y bu, fel yr ymddengys, hyd derfyn ei oes. Nid ydym yn sicr o amser ei farwolaeth. Yn 1733, y cawn y cyfeiriad diweddaf at ei enw mewn llawysgrifau, ac yn y flwyddyn ganlynol, yr ydym yn cael Mr. David Williams, yn cael cyfeirio ato fel gweinidog yr eglwys yn Nghaerdydd. Mae yn debyg gan hyny i Mr. Protheroe farw yn 1733. Nid oes genym unrhyw wybodaeth am ei nodwedd fel dyn a phregethwr, ond gwelsom ragor nag un cyfeiriad at ei ragoriaeth fel ysgolhaig. Yr oedd ef yn un o'r rhai a arwyddasant y cytundeb o heddwch a wnaed rhwng y Taenellwyr a'r Trochwyr ar ol dadl boeth ar fedydd yn sir Fynwy yn 1728. *Rees Prytherch* yw ei enw yn y papur hwnw, ond Rice Pruthero a Protheroe yr ysgrifenid ef yn mhob man arall y cyfarfuasom a'i enw.

DAVID WILLIAMS. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1709, yn Mhwll-y-pant, gerllaw Caerphili. Mae yn ymddangos fod ei rieni yn bobl gyfrifol, ac mai hwy oedd perchenogion Pwll-y-pant, a rhai ffermydd eraill yn y gymydogaeth. Ail fab iddynt oedd David. Thomas oedd yr henaf a'r etifedd. Yr oedd yntau yn ddyn crefyddol ac yn Ymneillduwr selog. Wyr iddo ef oedd William Evans Williams, Pwll-y-pant, yr hwn a fu farw tua dwy flynedd yn ol, ac a wnaeth y weithred wallgofus o adael ei ystad, gwerth tua deugain mil o bunau, yn ei ewyllys i Ardalydd Bute, gan adael ei chwaer, a'i holl berthynasau heb ddim!

Ond i ddychwelyd at David Williams, y gweinidog. Efe a ymunodd a chrefydd yn ieuangc. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn Nghaerfyrddin, dan ofal Mr. Thomas Perrot. Yn y flwyddyn 1734, urddwyd ef yn ganlyniedydd i Mr. Rice Protheroe, yn Nghaerdydd. Yn nechreuad ei fywyd gweinidogaethol yr oedd yn fywiog, efengylaidd, a llafurus iawn fel gweinidog. Pan ddechreuodd Mr. Howell Harries gynhyrfu y wlad fel diwygiwr crefyddol, yr oedd David Williams yn un o'i bleidwyr mwyaf selog. Gwahoddodd ef i'w ardal i bregethu, a chydweithredai ag ef yn ei lafur yn y modd mwyaf calonog. Mae yn ein meddiant saith neu wyth o'r llythyrau a ysgrifenodd at Harries yn y blynyddoedd 1738 a 1740. Rhoddodd ei gapel yn y Watford i'r Methodistiaid at gynal y gymdeithasfa gyntaf fu ganddynt yn Nghymru, a bu am rai blynyddau yn un o'r gweinidogion Ymneillduol mwyaf defnyddiol a llafurus yn ei oes. Ond trwy ryw foddion, dichon mai o herwydd i'r Methodistiaid fod yn achlysur i derfysgu a rhwygo ei eglwys, oerodd yn ei ysbryd, ac yn raddol ymwrthododd a'r athrawiaeth efengylaidd a bregethai unwaith, gan gofleidio Pelogiaeth, Ariaeth, os nad Sosiniaeth hefyd, cyn diwedd ei oes. Ond er i'w gyhoeddusrwydd a'i ddefnyddioldeb fel gweinidog gael eu hanafu trwy gyfnewidiad

Digitized by Google

ei farn, parhaodd trwy ei oes i fod yn ddyn pur ei ymarweddiad a pharchus gan bawb o'i gydnabod. Er ei fod mewn amgylchiadau cysurus iawn, bu, fel y rhan fwyaf o weinidogion yr oes hono, yn cadw ysgol, ac fel ysgolfeistr bu o wasanaeth dirfawr yn ei gymydogaeth. Bu farw Ebrill 5ed, 1784, yn 75 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent capel Watford, lle y mae ei gareg fedd i'w gweled etto. Cawn y nodiad canlynol gyda golwg ar ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, yn nyddlyfr Mr. Phillip Dafydd, Penmain:—"Ebrill 8fed, 1784. Heddyw, bum yn hebrwng gweddillion marwol y Parch. Mr. David Williams, o'r Watford, i'r bedd. Bu yn gyfaill anwyl a mynwesol i mi am lawer o flynyddau; ond er ys llawer o amser bellach yr oedd wedi myned yn oer a disylw iawn o honof fi, ac eraill o'i gymydogion agosaf, tra yr oedd yn hoff iawn o weinidogion sir Gaerfyrddin, y rhai fel yr ymddengys, a darawent ei archwaeth yn well; etto yr wyf fi yn credu nad ennillodd ef ddim wrth gyfeillachu a hwy. Yr wyf fi yn gobeithio ei fod yn ddyn da o'i ieuengctyd, a defnyddiol iawn yn ei genedlaeth, fel ysgolfeistr a gweinidog yr efengyl, am yr ysbaid maith o 55 neu 56 o flynyddau. Rhagorai ar lawer yn ei ddoniau a'i ras, ond yr oedd yn tueddu yn fawr at Ariaeth a Sosiniaeth yn ei ddyddiau diweddaf, fel yr wyf yn ofni, yn ol yr hyn a glywaf gan eraill am dano, ac fel yr wyf fi fy hun yn casglu oddiwrth gymeriad y rhai a ddewisid ganddo fel ei gyfeillion. Mr. William Morgan, o'r Cymar, a draddododd ei bregeth angladdol oddiwrth Act. xiii. 36. Pregeth dda ydoedd, ac efe a roddodd iddo gymeriad da gyda golwg ar ei ymarweddiad, yr hyn a haeddasai; ond am ei athrawiaeth a'i egwyddorion bu y pregethwr yn ddistaw. Yr oedd ef yn 75 mlwydd oed, sef tri mis yn hŷn na mi. Yr Arglwydd a'm gwnelo inau yn barod erbyn fy nghyfnewidiad." Mae Edmund Jones, Pontypool, yn ei lawysgrifau, yn cyfeirio yn fynych at David Williams, ac yn ei drin yn ddiarbed fel un o'r cyfeiliornwyr.

Thomas Williams. Mab Mr. David Williams oedd ef. Cafodd ei addysgu yn athrofa Caerfyrddin. Ar orpheniad ei amser yno ymsefydlodd yn weinidog yn yr Ynysgau, Merthyr, lle y bu am dair blynedd. Ar farwolaeth ei dad yn 1784, symudodd o Ferthyr i gymeryd gofal yr eglwysi yn Nghaerdydd a Watford, fel canlyniedydd ei dad. Nid ymddengys fod ei weinidogaeth ef mor dderbyniol gan y bobl a'r eiddo ei dad, a phan welodd nad oedd derbyniad iddo, ymofynodd am urddau yn yr Eglwys Sefydledig, yr hyn a gafodd. Rhoddodd ei le i fyny fel gweinidog Ymneillduol yn 1788. Treuliodd weddill ei oes fel offeiriad yn Hamptshire. Bu farw tua deugain mlynedd yn ol mewn gwth o oedran.

William James. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanllwni, sir Gaerfyrddin, "dydd Sul y blodau," yn y flwyddyn 1761. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn ieuangc iawn, naill a'i yn Mhencadair neu Rhydybont, a dechreuodd bregethu pan yr oedd yn un-ar-bymtheg oed. Yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu aeth i gadw ysgol i Glyntawy, dan nawdd ei gyfaill a'i gydnabod Mr. Morris Williams, gweinidog Ty'nycoed, yr hwn hefyd oedd yn enedigol o Lanllwni. Wedi bod yno am ryw ysbaid o amser yn cadw ysgol, derbyniwyd ef i athrofa Caerfyrddin. Yr oedd ef yn un o'r myfyrwyr pan y symudodd yr athrofa o Gaerfyrddin i Abertawy yn 1784. Wedi gorphen ei amser yn yr athrofa bu am ychydig amser yn cadw ysgol yn ardal Penmain, Mynwy. Yn niwedd 1788, neu ddechreu y flwyddyn ganlynol, urddwyd ef yn weinidog i'r eglwysi yn Nghaerdydd a Watford. Tua y flwyddyn 1826, rhoddodd ofal y Watford i fyny, a chyfyngodd ei

Digitized by Google

lafur i Gaerdydd yn unig, lle y bu hyd derfyn ei oes. Bu farw Chwefror 26ain, 1845, yn 84 oed, a chladdwyd ef yn mynwent y Watford.

Yr oedd William James yn ddyn da a pharchus iawn. Treuliodd tua 56 o flynyddau yn weinidog yn yr un lle, ac ni chafodd neb frycheuyn ar ei gymeriad trwy yr holl amser. Yr oedd ei hawddgarwch a'i foneddigeiddrwydd y fath fel y cerid ef gan bawb a'i hadwaenai. Pregethai yn y Gymraeg a'r Saesoneg gyda rhwyddineb a chywirdeb diwall. Yr oedd yn ddyn o synwyr cyffredin rhagorol, ac yn helaethach yn ei wybodaeth gyffredinol na nemawr o weinidogion ei oes, a'r athrawiaeth a bregethai yn hollol efengylaidd. Ond er pob peth ni bu ond y peth nesaf i ddim llwyddiant ar ei weinidogaeth trwy ei oes hirfaith. Yr ydym yn priodoli ei aflwyddiant i feithder ei bregethau. Dywedai bethau da mewn iaith eglur a dull hollol ddifai o ran iaith, llais, ac agwedd gorphorol, ond yr oedd *hyd* ei bregethau yn anoddefol. Clywsom ef amryw weithiau yn pregethu yn ddiatal am o awr a haner i ddwy awr, a dywedir y byddai weithiau yn pregethu am ddwy awr a haner neu ychwaneg. Yr oedd hyn, er ei holl ragoriaethau fel dyn, ysgolhaig, a christion, yn ddigon i anafu ei ddefnyddioldeb. Achwynwyd wrtho ddegau o weithiau am feithder ei bregethau, ond nid oedd dim yn tycio. Dywedai Whitefield, fod y dyn a bregethai am awr yn cymeryd y chwarter olaf i ddinystrio y daioni a wnaed ganddo yn y tri chwarter cyntaf. Yr oedd Mr. James yn brydydd rhagorol iawn. Cyfansoddodd luaws o benillion yn y Gymraeg a'r Saesoneg. Yr oedd pob peth a wnelai yn dlws a diwall, a phan y cawsid ganddo bregethu yn gymhedrol o fyr, yr oedd yn dra derbyniol ac effeithiol.

## EBENEZER, CAERDYDD.

Ymddangosodd ysgrif alluog ar "Annibyniaeth yn Nghaerdydd," yn y *Diwygiwr* am Hydref, 1863, gan Mr. D. Jones, B.A., gweinidog yr eglwys ar y pryd, a chan ei bod yn cynwys yr hanes cyflawnaf a chywiraf a allwn gael am yr achos o'i ddechreuad hyd yn agos i derfyn gweinidogaeth Mr. Jones, rhoddwn ef yma yn gyflawn.

"Arweiniwyd ein meddwl i wneyd ychydig o ymchwiliad i hanes Annibyniaeth yn Nghaerdydd gan gyfarfod jubili yr ail Ebenezer, yr hwn a gynaliwyd ychydig wythnosau yn ol. Nid oes rhaid i ni fyned yn mhellach yn ol na'r flwyddyn 1826, cyn cael Caerdydd heb un capel Annibynol o'i mewn. Er nad oedd eglwys Annibynol yn y dref, yr oedd yma amryw eglwysi Ymneillduol cryfion, a'r enwog Christmas Evans yn weinidog i'r Bedyddwyr Cymreig. Yr oedd yma hefyd eglwys Henaduriaethol, i'r hon yr oedd y Parch. T. James yn weinidog, ac o'r hon y tarddodd yr eglwys Annibynol gyntaf. O'r ychydig Annibynwyr oedd yn byw yn y dref y pryd hwnw, yr oedd rhai yn aelodau yn y Groeswen, ac eraill yn y Trinity. Penderfynodd yr ychydig ffyddloniaid hyny i uno a'u gilydd, ac i gychwyn eglwys Annibynol. Wedi penderfynu uno a'u gilydd i ddechreu achos Annibynol, y peth cyntaf i'w wneyd oedd cael lle cyfleus i addoli. Llwyddwyd i gael hen gerbyd-dy (*coach-house*) ar ardreth o ddau swllt yr wythnos. Saif yr hen gerbyd-dy hwnw ar lan yr hen angorfa. Yn mis Mawrth, 1826, corpholwyd yno eglwys. Y cyntaf a bregethodd yn y cerbyd-dy oedd y Parch. Shadrach Davies o'r Maendy. Bu Griffiths, Castellnedd; Davies, Taihirion; Hughes, Groeswen, ac eraill, yn garedig iawn

Digitized by Google

i'r achos gwan, trwy ddyfod atynt i bregethu yn achlysurol; ond er pob cymhorth a charedigrwydd gweinidogion y cylch, egwan ac eiddil oedd yr achos yn parhau. Yr oedd diffyg lle cyfleus a chysurus i addoli, a diffyg gweinidog sefydlog, yn ei gwneyd yn anhawdd iawn i'r eglwys fechan i weithio ei ffordd yn llwyddianus, gan fod dylanwad y Bedyddwyr, y Methodistiaid, ac eraill, eisioes yn gryf yn y dref. Mewn cysylltiad a'r cerbyd-dy digwyddodd un amgylchiad nas gallwn ei basio yn ddisylw. Wedi ei ddodrefnu cafwyd fod y ddyled yn 15p., yr hyn oedd swm fawr i'r ychydig hyny. Er calonogi a chynorthwyo y praidd gwan cymerodd Mr. D. Richards (diacon) 7p. 10s. arno ei hun, gan adael y gweddill i'r lleill. Pan ddaeth amser y talu, yr oedd 7p. 10s. gan Mr. Richards, ond nid oedd ychwaneg na 5p. gan y lleill, yn gadael diffyg o 2p. 10s. Yr oedd yn rhaid cael y 2p. 10s., a mynai Mr. Richards eu cael yn fuan hefyd, am fod gofyn am yr arian i mewn. Mewn prudd-der un prydnawn cychwynodd tua Canton, i ymweled a Mr. Williams, Factory; ar y ffordd trodd i mewn i edrych am chwaer Mr. Williams, yr hon oedd yn byw yn ymyl y ffordd. Yr oedd yn gomedd eistedd, am ei fod mewn brys mawr i gael gweled Mr. Williams. Yr oedd y 2p. 10s. yn gwasgu yn drwm ar ei feddwl. Ar hyn, penderfynodd Mrs. Williams, os mai y 2p. 10s. oedd yn aflonyddu cymaint ar y brawd, na chai hyny ei flino yn hwy; ac yna dywedodd wrtho, 'Rhaid i chwi aros i dê Mr. Richards, eisteddwch i lawr, na flinwch am y 2p. 10s., cewch hwynt genyf fi cyn ymadael.' Teimlodd yr hen frawd y geiriau fel 'dyfroedd oerion i enaid sychedig.' Dyma'r baich cyntaf ar yr achos Annibynol yn Nghaerdydd wedi ei symud; a diau genym fod llawenydd Mr. Richards y prydnawn hwnw, pan ddaeth yr achos yn rhydd o'r 15p. dyled, yn fwy nag oedd y dydd o'r blaen, pan welodd jubili yr ail gapel.

"Er cael cerbyd-dy, a hwnw wedi ei ddodrefnu a dodrefn rhydd o ddyled, ac er cael gweinidogaeth goreuon y wlad yn achlysurol, yr oedd yn dyfod yn fwy amlwg yn barhaus fod yn rhaid cael lle mwy cyfleus, a gweinidogaeth sefydlog, cyn y gellid disgwyl llawer o lwyddiant. Ni ellid cael dynion i gerbyd-dy i gyfarfodydd gweddio ac i wrando pregeth yn achlysurol, tra yr oedd capelau cyfleus a phrydferth yn y dref gan enwadau eraill, a gweinidogaeth sefydlog a grymus ynddynt. Yn haf 1827, awd i chwilio am le cyfleus i adeiladu capel, ac am weinidog cymhwys i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Cafwyd lle i adeiladu o'r tu allan i'r dref, lle y saif y capel presenol, Ebenezer, er ei fod yn awr yn nghanol y dref; a chyfeiriwyd eu meddwl at y Parch. L. Powell, Mynyddbach, i fod yn weinidog iddynt. Pan ymwelodd Mr. Powell a hwynt, dangoswyd iddo y lle gafwyd i adeiladu arno, ond cynghorodd hwynt i beidio myned i'r draul y pryd hwnw beth bynag. Medi 5ed, 1827, anfonwyd galwad i Mr. Powell, wedi ei harwyddo gan William Richards, Daniel Richards, James Jacob, Samuel Rees, Evan Thomas, a chwech-ar-hugain eraill. Cydsyniodd Mr. Powell a'u cais, symudodd tua diwedd y mis; a phan cyrhaeddodd Caerdydd, cafodd fod y capel newydd wedi ei ddechreu. Cymaint oedd awydd yr eglwys fechan am gael ty cyfleus, a phob peth yn fanteisiol a ffafriol i'r gweinidog, fel nas gallent oedi diwrnod. Nid oes yn awr yn fyw ond tri neu bedwar sydd yn gwybod am y trafferthion dirfawr gafwyd i adeiladu y capel hwnw; ond trwy ymdrech, a dyfalbarhad, a bendith yr Arglwydd, gorphenwyd ef, gan ei alw yn Ebenezer, yr enw mwyaf cymhwys i osod allan deimlad y praidd bychan—'hyd yma y cynaliodd yr Arglwydd nyni.' Rhagfyr

Digitized by Google

3ydd a'r 4ydd, 1828, cynaliwyd y cyfarfod agoriadol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchn. D. Jones, Llanharan; H. Owens, Aberafan; J. Lewis, Casnewydd; J. Morris, Penybont; James, Bryste; J. Hughes, Maendy; Walters, (B.) Caerphili; M. Jones, Varteg; Christmas Evans, (B.) Caerdydd; D. Davies, New Inn; M. Jones, Merthyr; W. Jones, (B.) Caerdydd; J. Evans, Cymar; T. Thomas, Caerlleon; R. Humphreys, (W.) Caerdydd; Hughes, Casnewydd; T. Harries, Mynyddislwyn, ac H. Morgan, Sammah. Costiodd y capel 840p. Os oedd y 15p. ar y cerbyd-dy yn fawr, beth am yr 840p. Ond yn fugail a phraidd ymwrolasant fel rhai yn gweled yr Anweledig.

"Y mae Cymru oll, yn neillduol y Deheubarth a rhanau helaeth o Loegr, yn gwybod am ddoniau casglyddol Mr. Powell, Caerdydd; yn yr ystyr yma yr oedd fel *y dyn* oedd wedi ei gymhwyso i gymeryd gofal eglwys fechan o dan y fath faich o ddyled. Fel goruchwyliwr ffyddlawn aeth a'i dalent i'r farchnad, ac nid esgeulusodd y dawn oedd ynddo. Y cof cyntaf sydd genym am Mr. Powell, ydyw ei glywed ar ddiwedd oedfa mewn capel mawr yn sir Forganwg, yn gosod achos Ebenezer, Caerdydd, o flaen y gynnulleidfa yn ei ffordd nodweddiadol ei hun. Nis gallwn anghofio ei araeth gasglyddol y tro hwnw. Meddai, 'Y mae genyf rywbeth i'w ddywedyd wrthych fydd yn well genych ei glywed na phe caech gos cyw i swper heno; a thyma fe, y mae Mr. Iesu Grist yn y jail yn Nghaerdydd, ac yr wyf fi wedi d'od yma i ofyn os gwelwch chi yn dda roi help i ga'l ê ma's.' Wrth hyny golygai fod ei achos yn ngharchar dyled fawr. Ni fu yr araeth hono mwy na chanoedd o areithiau cyffelyb o'i eiddo yn ofer. Yn mis Mawrth, 1830, aeth i Lundain y waith gyntaf i gasglu, lle y cafodd lawer iawn o sirioldeb a chydymdeimlad. Dychwelodd yn llawn ei logell a llawen ei ysbryd. Gan ei fod ef ei hun wedi ac yn ysgrifenu hanes helyntion ei deithiau casglyddol yn Hanes ei Fywyd, afreidiol i ni fyned drostynt yn awr. Digon yw dyweyd fan yma, drwy ymdrechion yr eglwys gartref, ac ymdrechion Mr. Powell oddicartref, llwyddwyd i dalu y ddyled, ac ar ol hyny i brynu y tir ar yr hwn y safai.

"Ar y 25ain a'r 26ain o Ebrill, 1830, cynaliwyd y gymanfa gyntaf gan yr Annibynwyr yn Nghaerdydd. Drwg genym nas gallwn ddyweyd wrth y darllenydd pwy oedd y gweinidogion fu yn pregethu ar y pryd. Effeithiodd y gymanfa hono yn ddaionus mewn llawer modd. Lladdodd gryn lawer o'r rhagfarn oedd yn y dref yn erbyn yr Annibynwyr, cododd yr enwad i sylw parchus, taflodd ysbryd ac yni ychwanegol i'r eglwys, ac ni hyderwn iddi fod yn foddion i achub llawer o eneidiau. Yn y flwyddyn 1839, cynaliwyd yma gyfarfod chwarterol tra llewyrchus; ac ar y 13eg a'r 14eg o Hydref, 1841, cynaliwyd y cyfarfod cenhadol cyntaf yn y dref gan yr Annibynwyr, pryd yr oedd yn bresenol fel cynrychiolydd y gymdeithas, y Parch. N. M. Harry, Llundain. Wrth hyn, canfyddwn fod Annibyniaeth yn cryfhau, y fechan yn myned yn fil, a'r wael yn genedl gref. Aeth pob peth yn mlaen yn llwyddianus a dymunol hyd y flwyddyn 1851. Pryd hyn cafodd Mr. Powell rybuddion gan ei gorph a'i feddwl fod tymhor ei weinidogaeth sefydlog ef wedi dyfod i ben; a bod iddo, fel gwas ffyddlon, gymeryd seibiant ar ddiwedd ei ddydd. Rhoddodd ofal swyddogol yr eglwys i fyny; ond penderfynodd yr eglwys na chai efe fod yn ddiofal am dano, drwy sicrhau iddo 12p. y flwyddyn hyd ei fedd, a 2p. ychwanegol am ei wasanaeth achlysurol; ac er nad oes ysgrif gyfreithiol i rwymo yr eglwys i gario allan y penderfyniad hwnw, y mae wedi parhau yn ffydd-

Digitized by Google

lawn i'w haddewid; ac y mae Mr. Powell yn gorphwys yn dawel mewn llawn hyder ffydd yn ei ffyddlondeb hyd y diwedd.

"Yn awr, trodd yr eglwys i edrych am fugail newydd. Syrthiodd y goelbren ar y Parch. J. D. Williams, Penybont-ar-ogwy. Cydsyniodd Mr. Williams a'u cais, a chymerodd ofal yr eglwys tua Mehefin, 1852. Erbyn hyn yr oedd yr hen gapel wedi myned yn rhy fychan, ac yn rhy aflerw i gyfateb i ofynion y dref, fel y penderfynwyd ei dynu i lawr ac adeiladu un mwy. Tua diwedd y flwyddyn, gosodwyd y penderfyniad i weithrediad; ymneillduodd yr eglwys a'r gynnulleidfa i Neuadd y Dref (*Town Hall*), lle y buont am flwyddyn—hyd orpheniad y capel newydd, yr hwn a gostiodd 1,100p. Amser annymunol i eglwys, a pheryglus hefyd, yw amser ei hymdeithiad mewn lle dyeithr, hyd oni ddychwelo gartref. Ond er pob anhawsderau, yr oedd gallu meddyliol a dawn pregethwrol Mr. Williams y fath, fel y llwyddodd, dan fendith Duw, nid yn unig i gadw y gynnulleidfa fel yr oedd, ond i'w chynyddu; fel yr oedd yn fwy yn dychwelyd i'r capel newydd na phan yn myned allan o'r hen. Yn niwedd y flwyddyn 1853, agorwyd y capel newydd gyda chryn dipyn o rwysg; pregethodd pump o weinidogion y prydnawn cyntaf yn yr un oedfa. Y mae oes trioedd yn yr un oedfa wedi parhau yn hir, ond gwell genym dri na phump; gwareder ni rhag i hyn ddyfod yn arferiad gyffredin mewn cyfarfodydd mawrion.

"Mehefin 25ain a'r 26ain, 1856, cynaliwyd y gymanfa bedair sirol yma; ac ni anghofir hi gan yr oes hon o Gymry Caerdydd. Yn ol pob tystiolaeth, yr oedd yn un o'r cymanfaoedd goreu gynaliwyd yn Nghymru erioed gan unrhyw enwad. Cafodd Mr. Williams yr hyfrydwch o weled ewyllys yr Arglwydd yn llwyddo yn helaeth yn ei law; ac wrth bob argoelion cyhoeddus, gellid meddwl ei fod wedi ei fwriadu gan Dduw i fod yn un o gewri Cymru. Ond ar ganolddydd bywyd, pan nad oedd efe etto yn 32 mlwydd oed, cafwyd prawf ychwanegol o wirionedd geiriau y Salmydd, 'Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef.' Ymaflodd angau fel cawr yn ei gyfansoddiad; a gorphenodd ei orchwyl ar brydnawn Sabboth, Hydref 26ain. Ar hyn, siomwyd y wlad yn ei disgwyliadau, amddifadwyd yr eglwys o weinidog galluog, a'r dref o'r pregethwr nad oedd ganddi arall cyffelyb iddo. Yr wythnos ganlynol, claddwyd ef yn mynwent y Groeswen; a phregethwyd ei bregeth angladdol gan y Parch. J. Davies, (Aberaman, gynt,) Mount-stuart, Caerdydd. Y tro diweddaf y gwelsom ef oedd ar brydnawn claddedigaeth y diweddar Rees, Groeswen; ond ychydig feddyliodd ef na ninau mai efe fuasai y nesaf o'r brodyr i fyned yno i orwedd, a hyny o fewn chwech wythnos o amser. Hyderwn nad yw yr amser yn mhell pan y ceir gweled bedd-gist teilwng o hono ef ac o'i gyfeillion ar ei fedd.

"Yn ol yr arfer gyffredin, pan yn amddifad o weinidog, bu Ebenezer am gryn amser yn byw ar garedigrwydd gweinidogion pell ac agos. Yn yr adeg hon teimlodd amryw o'r cyfeillion fod eisiau helaethu lled y babell, estyn cortynau y preswylfeydd, a thori allan ar y ddeheu ac ar yr aswy. Yna ymosodasant yn egniol ar y gorchwyl o adeiladu capel yn Mount-stuart-square, gerllaw glan y mor. Yn mis Mai, 1858, daeth y capel yn barod, ac ymneillduodd yn wirfoddol bawb a ewyllysient adael Ebenezer i ddechreu yr achos newydd. Ymadawyd yn heddychol. Gan fod hanes Mount-stuart wedi ymddangos yn y *Diwygiwr* y mis o'r blaen, afreidiol i ni yn awr yw treulio amser a gofod i ailadrodd, ond caniatewch i ni ddat-

Digitized by Google

gan ein llawenydd yn sefydliad ein hanwyl gyfaill Mr. Davies fel gweinidog yn Mount-stuart. Gan fod yr eglwys wedi gweithio mor ragorol cyn cael gweinidog, diau genym y gwneir pethau mawrion yn awr wedi cael un, yn neillduol wedi cael yr un a gawsant. Gadewch i ni yn awr ddychwelyd at yr hen eglwys yn Ebenezer. Gadawsom hi yn amddifad o fugail. Yn olynydd i Mr. Williams, gwahoddwyd y Parch. D. Jones, B.A., Bethesda, Caernarfon, a chydsyniodd Mr. Jones i fod yn olynydd i'r hwn y bu cyn hyny yn ddysgybl iddo; a chychwynodd ei lafur gweinidogaethol yn Gorphenaf, 1858. Yn herwydd ymadawiad diweddar y cyfeillion i Mount-stuart, lleihaodd nifer y gynnulleidfa, o angenrheidrwydd, a syrthiodd nifer yr eglwys i 180. Ar hyn cymerodd cyfnewidiad pwysig le yn masnach y dref, yn neillduol yn yr adeiladu. Dibenodd yr adeiladu gwyllt megis ar un waith, ac felly gorfodwyd canoedd o seiri meini, seiri coed, &c., i ymadael a'r dref; a chafodd Ebenezer deimlo oddiwrth hyny yn gystal ag eglwysi eraill. Ond yn raddol cynyddodd y gynnulleidfa, a lluosogodd yr eglwys, fel y mae yn awr tua 350, a thalwyd 300p. o ddyled oedd ar y capel, heblaw tua 60p. eraill at ei adgyweirio, &c. Mewn trefn i'r darllenydd gael rhyw ddychymyg egwan o ansefydlogrwydd y boblogaeth Gymreig yn Nghaerdydd, nodwn un ffaith. Yn ystod y pum' mlynedd diweddaf y mae Mr. Jones wedi derbyn tua 400 o aelodau i Ebenezer, o hyny y mae yn agos i 250 wedi ymadael, ac o hyny y mae 27 wedi meirw. Er hyny y mae y gynnulleidfa yn fwy, a'r eglwys yn lluosocach nag y bu erioed, ac Annibyniaeth yn siriolach, a chryfach, a mwy gobeithiol fel y mae yn heneiddio."

Bu Mr. Jones yma hyd y flwyddyn 1865, pryd y derbyniodd alwad o Zoar, Merthyr, a symudodd yno. Wedi bod am dymor heb weinidog, rhoddodd yr eglwys wahoddiad i Mr. John Morgan Evans, Trefgarn, sir Benfro, a dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn nechreu y flwyddyn 1867. Cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad y Sabboth cyntaf yn Mawrth y flwyddyn hono. Ymaflodd Mr. Evans yn ei waith yma o ddifrif, ac yn ddioed dechreuwyd ar y gorchwyl o adnewyddu ac ad-drefnu y capel, a gwnaed ef yn un llawer mwy hardd a chyfleus yn mhob ystyr. Costiodd yr adffurfiad 800p. Yn gynar yn y flwyddyn hono hefyd, aeth nifer o'r aelodau allan, a ffurfiwyd hwy gan eu gweinidog yn eglwys rheolaidd yn Canton; ac fel y crybwyllasom, yr oedd cangen arall wedi myned allan i gychwyn achos ar y *Docks* yn mhell cyn hyny. Mae Mr. Evans yn parhau i lafurio yma, a'r achos yn mhob ystyr yn myned yn mlaen yn gysurus, a'r holl aelodau yn "dangnefeddus yn eu plith eu hunain." Nid ydym yn gwybod am unrhyw bersonau amlwg a fu yn yr eglwys yma, heblaw y rhai a grybwyllwyd yn flaenorol; ond y mae llafurus gariad llawer o gyfeillion ffyddlon fu yma mewn coffadwriaeth ger bron Duw, ac nid yw eu henwau wedi myned yn anghof yn yr eglwys, ac y mae yma etto rai yn dilyn eu ffydd, ac yn ystyried diwedd eu hymarweddiad hwy.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Lewis Powell. Ganwyd ef yn Defynog, yn sir Frycheiniog, Rhagfyr 27ain, 1788. Dysgwyd ef o'i febyd i barchu y Bibl, i gadw y Sabboth, ac i ymhyfrydu yn nhy yr Arglwydd. Derbyniwyd ef pan yn ieuangc i gymdeithas y saint yn y Brychgoed; ac er fod y prawf oedd ganddo i fyned

Digitized by Google

trwydde yn un caled, ac er fod gwarcheidwaid y drws yn rhai llym a manwl, etto barnasant ef yn deilwng i'w ollwng i mewn. Yr oedd ar y pryd hwnw yn hollol fel efe ei hun, a'i wreiddiolder mor amlwg ar ei feddwl ag ydoedd ar ei gorph. Anogwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu, ac yr oedd ei bregeth gyntaf yn hollol briodol iddo ef ei hun; ac aeth y son am dano allan fel y gwahoddwyd ef yn fuan i eglwysi eraill, ac yr oedd nid yn unig yn dderbyniol ond yn boblogaidd yn mhob man. Derbyniodd alwad o Capel Isaac, sir Gaerfyrddin, ac urddwyd ef yno yn mis Mai, 1818, a llafuriodd yno gyda chymeradwyaeth a llwyddiant am bedair-blynedd-ar-ddeg. Am ran o'r amser y bu yn Nghapel Isaac bu yn gofalu am yr eglwys yn Llanymddyfri, ond nid oedd yr hyn a dderbyniai am ei lafur ond prin iawn ar gyfer cynaliaeth teulu cynyddol. Derbyniodd alwad gan yr eglwys ieuangc oedd wedi ei sefydlu yn Nghaerdydd, a phenderfynodd ar unwaith i symud. Gwnaeth ei feddwl i fyny i gydsynio cyn gynted ag y rhoddwyd y cynyg iddo. Beiai llawer ef am adael hen eglwys mewn gwlad dawel i fyned at achos newydd, heb un capel, mewn tref ddyeithr iddo, ond teimlai yn rhwym yn yr ysbryd i fyned yno, ac yr oedd yn eglur ei fod y dyn cymhwysaf i wneyd y gwaith oedd raid ei wneyd yno ar y pryd. Cododd yno gapel, ac ymroddodd i gasglu er talu am dano, ac fel casglwr yr oedd yn ddigymar yn ei ddyddiau. Nid oedd swm y ddyled oedd ar y capel pan godwyd ef ond bychan, mewn cydmariaeth i'r dyledion sydd ar gapeli yn y dyddiau hyn, ond yn yr adeg hono edrychid ar y baich yn anferth, ac yr oedd felly i gynnulleidfa fechan yn cychwyn achos; ond teithiodd Mr. Powell Gymru a Lloegr i gasglu ato, a thynodd arian oddiwrth bersonau na chyfranasant geiniog at gapel erioed cyn hyny. Parhaodd Mr. Powell i lafurio yn Nghaerdydd hyd y flwyddyn 1852, pryd y barnodd yn briodol i roddi y weinidogaeth i fyny, am ei fod yn teimlo ei gof yn dechreu anmharu, ond arosodd yn Nghaerdydd hyd derfyn ei oes, a bu yr eglwys yn dra charedig iddo, ac yntau yn nodedig o ddiymyraeth a'i olynwyr yn y weinidogaeth yn Ebenezer. Ymwelai a'r eglwysi ar ol rhoddi ei ofal gweinidogaethol i fyny, ac i ba le bynag yr elai yr oedd yn hoff gan bawb ei weled. Ni roddai unrhyw drafferth i'r teuluoedd lle yr elai, oddieithr y drafferth a roddai trwy ei fod bob amser yn codi mor foreu, ac yn cychwyn cyn yr amser i bob man. Byddai yn ngorsaf y Rheilffordd yn aml awr cyn amser cychwyn, ac ofer hollol fuasai ceisio ei berswadio i ymdroi. Ni bu erioed ddyn mwy diymyraeth, ac yr oedd yn or-ochelgar i gadw ei hun allan o bob cweryl. Ei neillduolrwydd mawr oedd ei wreiddioldeb. Nid oedd fel neb, ac nid oedd neb fel yntau. Nid efelychodd neb erioed, ac nid oedd yn efelychadwy. Tynasai ei gorph, ei wynebpryd, ei lygaid, a'i wisg sylw mewn cynnulleidfa o ddeng mil, a phan yr agorasai ei enau i lefaru, yr oedd ei dôn, ei oslef, ei aceniad, a'i ymadroddiad yn wahanol i bawb. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf annarluniadwy, ac anhawddaf cyfleu i'r rhai na chlywsant ef y synied pa fath un ydoedd. Yr oedd ffraeth-atebion ac arabedd yn berwi ynddo, a'r cwbl yn dyfod glwyfau ac archollion. Ni ddywedodd neb yn ei oes bethau mwy miniog, allan heb un ymgais o'i eiddo. Un o'r rhai mwyaf peryglus i fyned i'w afaelion ydoedd, ac os unwaith yr elid, gallesid bod yn sicr na ddeuid allan heb ac etto nid oedd yn cymeryd arno ei fod wedi dyweyd dim yn neillduol. Mae ei ddywediadau yn fyw trwy y wlad, er fod llawer hefyd o bethau nad oeddynt ei eiddo yn cael eu priodoli iddo. Nid awn yma i ddechreu difynu ei ddywediadau miniog, oblegid os unwaith y dechreuwn, nis



Digitized by Google

gwyddom pa le y diweddwn. Parhaodd i bregethu bob Sabboth tra y bu byw, a dydd Sadwrn, Medi 18fed, 1869, gadawodd Gaerdydd, yn ei iechyd arferol, i fyned i Carmel, Tresimwn, at y Sabboth. Pregethodd boreu Sabboth gyda'i egni arferol. Ar ol ciniaw aeth i'r ysgol y prydnhawn, ac wrth ddychwelyd yn nghwmni nifer o enethod bychain, safodd yn sydyn a rhoddodd geiniog i bob un am ddyfod i'r ysgol, a dywedodd ei fod ef wedi hyny yn gyfoethocach nag un o honynt hwy; nad oedd ganddynt hwy ond ceiniog bob un, ond fod ganddo ef ddwy, a Thad yn y nefoedd i gyflawni ei holl anghenion. Gyda'i fod yn dyweyd y geiriau olaf, syrthiodd, a bu farw yn y fan. Dygwyd ef i Gaerdydd, a rhoddwyd ei gorph i orwedd yn nghladdfa Ebenezer, ac yr oedd tyrfa fawr o edrychwyr prudd yn gweled ei gorph yn cael ei osod yn y bedd, ac yr oedd yno haner cant o weinidogion o wahanol enwadau wedi ei ddilyn i dŷ ei hir gartref.

John David Williams. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanddeusant, yn sir Gaerfyrddin, yn mis Mawrth, 1823. Pan nad oedd ond ieuangc symudodd i ardal Defynog, i wasanaeth amaethwr yno, a threuliodd rai blynyddoedd yn y gymydogaeth hono. Derbyniwyd ef yn aelod yn y Brychgoed, ac ar gychwyniad ei yrfa grefyddol yr oedd mewn teimladau cynes, ac yn nodedig ar gyfrif tynerwch ac effeithiolaeth ei ddawn mewn gweddi. Cymhellwyd ef cyn hir i ddechreu pregethu, ac yr oedd ef a Mr. Davies, yn awr o Gaerdydd, yn cydgychwyn eu gyrfa fel pregethwyr. Yr oedd yn John Williams gryn lawer o ysbryd myned yn mlaen, mwy nag a dybiai hen bobl dda y Brychgoed oedd yn briodol i fachgen ieuangc, ond cafodd bob cefnogaeth a chalondid gan ei weinidog, Mr. Stephens. Symudodd i Ystradgynlais, ac oddiyno aeth i'r ysgol i Hanover, lle yr oedd nifer o wyr ieuaingc ar y pryd dan addysg Mr. Llewellyn Powell. Nid oedd ganddo ond y nesaf peth i ddim o arian yn ei logell pan gyrhaeddodd Hanover, ond y fath oedd ei awydd am gael addysg fel yr anturiodd i'r ysgol gan obeithio yr agorai rhagluniaeth ryw ddrws iddo i gael cynorthwy. Yr oedd yn un serchog ac ennillgar ei dymer, fel y cafodd lawer yn garedig iddo. Dichon iddo fod yn rhy anturus, ac i hyny fod yn brofedigaeth iddo fenthyca gan gyfeillion pan nad oedd fawr gobaith y gallasai ad-dalu, ond nid ydoedd yn gweled fod yn bosibl iddo gael tipyn o addysg heb hyny. Ond taflwyd ef i anfantais trwy hyny, oblegid bu am flynyddoedd yn gorfod talu yn ol yr arian a gawsai. Gwnaeth gais am gael derbyniad i athrofa Homerton, Llundain, ac er iddo gyfarfod a llawer o wrthwynebiadau, etto ymwthiodd drwyddynt oll, a llwyddodd i fyned i mewn. Cafodd Dr. Jenkyn, yr hwn y pryd hwnw oedd yn brif athraw athrofa Coward, yn noddwr tyner, a thrwy ei ddylanwad ef yn benaf, y cafodd dderbyniad. Ennillodd serch ei athraw, Dr. Pye Smith, yn fawr, a chafodd ganddo lawer o help yn arianol. Yr oedd yn nodedig am ei lanweithdra a'i daclusrwydd yn ei wisg ac yn ei berson, ac yr oedd yr elfen hono ynddo yn hynod gymeradwy gan Dr. Pye Smith. Anaml y gwelsom neb erioed a ysgrifenai lythyr yn well o ran llawysgrif a chyfansoddiad, a phob peth o'i gwmpas. Buasai unrhyw foneddwr yn falch o hono fel ysgrifenydd personol iddo, mor belled ag yr oedd hyny yn myned. Yr oedd, tra yn Llundain, yn llawn o ysbryd pregethu, a'i fryd ar ddyfod yn ol i Gymru, lle y cawsai yr ysbryd hwnw fwy o foethusrwydd nag a gawsai yn Lloegr. Cariai yr hyfrydwch a ga'i wrth bregethu ddylanwad llawer cryfach arno y pryd hwnw na'r gydnabyddiaeth a ga'i am hyny. Buasai yn well ganddo dalu am bregethu na bod heb bregethu. Dyna oedd ei uchelgais, a pharhaodd yr ysbryd hwnw

ynddo hyd y diwedd. Yn nechreu y flwyddyn 1848, derbyniodd alwad o Benybont-ar-ogwy a'r Coity, ac urddwyd ef yno yn mis Chwefror. Ymollyngodd ar unwaith i'w waith, a phenderfynodd gael capel newydd yn Mhenybont, ac er iddo yn nglyn a hwnw gael llawer o wrthwynebiad, a dwyn ei hun ac eraill i flinder, etto yr oedd wedi rhoddi ei fryd ar ei gael, ac ni fynai ei droi yn ol. Yr oedd ei ragflaenydd, Mr. Jones, Penybont, yn dra goddefol a cheidwadol ei ysbryd, fel y teimlodd amryw o'r hen bobl yn lled anfoddlawn i weled dyn ieuangc oedd newydd sefydlu yn eu plith am wneyd pob peth o newydd. Ond gwyr pawb sydd yn gydnabyddus a Phenybont fod yr hen gapel yn anheilwng o'r lle, er o bosibl y gallasai Mr. Williams, gydag ychydig o bwyll, wneyd y gwaith yn esmwythach i deimladau pawb, ac yn fwy dibrofedigaeth iddo ei hun. Bu yn Mhenybont am bedair blynedd, ac yna symudodd i Ebenezer, Caerdydd, lle y llafuriodd hyd ei farwolaeth. Yn ddioed wedi ei sefydliad yno meddyliodd am gael capel newydd yn lle yr hen, ond yr oedd yr eglwys yno yn cyduno ag ef yn galonog i hyny. Yr oedd ynddo gymhwysderau neillduol at holl waith yr eglwys, ac at ddyledswyddau cyhoeddus gweinidog mewn tref boblog fel Caerdydd. Gallasai gymeryd ei le yn anrhydeddus ar yr esgynlawr ar unrhyw achlysur; ac yn y Gymraeg neu Saesoneg yr oedd yn siaradwr hyawdl a chynhyrfus. Ond fel pregethwr y rhagorai yn benaf, ac yn hyny yr oedd ei brif hyfrydwch, a gresyn na chyfyngasai ei hun yn hollol at hyny. Nid oedd yn nodedig fel meddyliwr gwreiddiol, ac nid oedd yn meddu athrylith o radd uchel, ond yr oedd ei amgyffrediad yn eang a chwmpasog, ac yr oedd ganddo allu anghyffredin i ddadansoddi a dosbarthu y gwirionedd, a'i osod mewn gwedd gyfundrefnol, a thrwy ei esboniadau a'i egluriadau, gwnai ef nid yn unig yn ddealledig, ond hefyd yn ddyddorol i'w wrandawyr. Yr oedd edmygedd o bregethwyr doniol a phoblogaidd yn gryf iawn yn ei natur, mor gryf yn wir, fel yr oedd yn brofedigaeth iddo efelychu rhai o honynt; ac yr ydym yn credu y buasai yn llawer mwy dylanwadol fel pregethwr pe buasai wedi diwyllio mwy ar y ddawn oedd yn naturiol ynddo; ond fel yr ydoedd cyrhaeddodd boblogrwydd a dylanwad mawr fel pregethwr. Nid oedd heb ei ddiffygion, a dichon iddo gael ei adael i grwydro yn mhell; ond codai y cwbl oddiar y gorbrysurdeb oedd yn ei fywyd, a'r ysbryd anturiaethus yr hwn oedd ynddo o'r dechreuad; ond coleddid meddyliau tyner am dano gan y rhai a'i hadwaenai oreu o gychwyniad ei yrfa grefyddol hyd ddydd ei farwolaeth. Dygai arwyddion nychdod a gwendid rai misoedd cyn ei farwolaeth, a gwaelodd yn raddol nes y terfynodd ei yrfa Hydref 26ain, 1856, yn 33 oed. Claddwyd ef yn y Groeswen, lle yr erys gyda lluaws o'i frodyr hyd foreu yr adgyfodiad gwell.*

* Wedi cysodi hanes Ebenezer, Caerdydd, derbyniasom y crybwyllion canlynol, y rhai y buasai yn dda genym eu cael yn gynt er mwyn eu rhoddi yn eu lle priodol:— Cyfodwyd John Davies, M.A., yn awr o New Zealand, i bregethu yn 1855, ac yn 1867 aeth Richard Howells oddiyma i athrofa Aberhonddu, mae yn awr yn nghapel y Burrows, Abertawy. Mae Daniel Evans yn bregethwr cynorthwyol parchus yn yr eglwys hon er's blynyddau, ac y mae John Williams, mab Mr. R. R. Williams, Morfa, Mynwy, wedi dechreu pregethu yma yn ddiweddar. Coffeir gyda pharch am enwau Daniel Richards, Samuel a Walter Rees, ac Evan Griffiths, Wauntrodau, yr hwn a adawodd 500p. yn ei ewyllys at wahanol gymdeithasau crefyddol, a chyfrifid y blaenaf fel tad yr achos. Mae y 900p. o ddyled yr aed iddi wrth adnewyddu y capel wedi ei thalu gan mwyaf, ac yn ol yr arwyddion presenol ni raid aros yn hir nes gweled y geiniog olaf wedi ei thalu. Diaconiaid presenol yr eglwys ydynt Asa Morgan, Daniel Evans, William Rees, Evan Walters, John Price, a David Howells. Hynodir yr eglwys gan ei haelioni a'i hysbryd heddychol, ac y mae yma ar hyn o bryd ymroddiad mawr gyda'r Ysgol Sabbothol a chyda'r canu.

Digitized by Google

## MOUNT-STUART, CAERDYDD.

Yr oedd amryw gyfeillion er's blynyddau yn teimlo fod angen capel Cymraeg yn rhywle yn agos i'r *Docks*, ond oblegid fod dyled yn aros ar Ebenezer oedid myned yn ei gylch. Yn y flwyddyn 1856, ymgymerodd tri o aelodau Ebenezer a'r gorchwyl, sef Meistri T. B. Evans, D. Jones, a T. Davies, a chafwyd darn o dir gan oruchwyliwr Ardalydd Bute, yn Mount-stuart-square, y fan lle y saif y capel presenol. Dechreuwyd adeiladu yn Hydref, 1857. Mesurai y capel 52 troedfedd wrth 40 troedfedd, ond nid oedd oriel ynddo. Costiodd 1,100p. Agorwyd ef Mai 23ain a'r 24ain, pryd y gweinyddwyd gan Meistri D. Rees, Llanelli, ac H. Jones, Caerfyrddin. Y Sabboth cyn yr agoriad, daeth Mr. Lewis Powell ac eglwys Ebenezer yma, ac wedi i Mr. Powell bregethu, gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Cadwyd y gwasanaeth yn yr ysgoldy o dan y capel. Gollyngwyd 38 o aelodau trwy lythyrau o Ebenezer, ac ar y 30ain o Fai, corpholwyd hwy yn eglwys yn y capel newydd gan Mr. Moses Ellis, Mynyddislwyn. Bu yr ychydig aelodau yma yn ffyddlawn a haelionus, fel yr oedd raid iddynt fod gan fod y baich yn drwm. Cyfranai mwy nag un o honynt bunt y mis, bob mis am flynyddau at y weinidogaeth, a gwnai eraill yn gyffelyb yn ol eu hamgylchiadau. Ymddibynai yr eglwys am y blynyddoedd cyntaf ar weinidogaeth achlysurol, ond sicrheid gwasanaeth y pregethwyr goreu a ellid gael. Ond yn gynar yn y flwyddyn 1863, rhoddwyd galwad i Mr. John Davies, Aberaman, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn mis Mehefin. Nid oedd nifer yr aelodau pan sefydlodd Mr. Davies yma ond tua 70, ac yr oedd tua 550p. o ddyled yn aros. Siriolodd yr achos yn fawr wedi dyfodiad Mr. Davies yma, a chynyddodd yr aelodau a'r gwrandawyr. Penderfynwyd codi y capel yn uwch, a rhoddi oriel ynddo, a gwnaed ef yn hardd iawn, a chostiodd y cyfnewidiad 621p., ond talwyd y cwbl erbyn diwedd cyfarfodydd yr agoriad, y rhai a gynaliwyd yn Hydref, 1864. Yn nechreu y flwyddyn 1866, meddyliwyd am dalu y 550p. oedd yn aros ar y capel cyn gosod oriel ynddo a'i ad-drefnu, a'r bwriad oedd rhoddi blwyddyn at y gorchwyl, ond trwy gael eu calonogi gan Mr. Samuel Morley ag addewid o 100p., yr hon a roddwyd i Mr. Davies ar ei ymweliad a Llundain, os gwneid y gwaith mewn tri mis, ymroddodd Mr. Davies a'r eglwys ati o ddifrif, a gwnaed y gorchwyl yn yr amser byr hwnw, ac felly cliriwyd yr holl ddyled. Yn haf 1868, trwy gefnogiad Mr. Davies, aeth ychydig nifer o'r aelodau yma i ddechreu achos ar y Morfa, mewn lle a elwir y Grange, ac yn fuan wedi hyny rhoddodd Mr. Davies ofal yr eglwys hon i fyny, gan gymeryd yn gwbl at yr achos Saesonig yn Hannah-street, yr hwn a sefydlasid ganddo. Aeth amryw deuluoedd cyfrifol at y Saeson ar ymadawiad Mr. Davies, yr hyn a effeithiodd i fesur ar yr eglwys. Wedi dybynu dros dymor ar help gweinidogion dyeithr, yn niwedd y flwyddyn 1869, rhoddwyd galwad i Mr. Joseph Farr, Croesoswallt, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma y mis Mawrth canlynol. Bu Mr. Farr yma yn dderbyniol a chymeradwy hyd ddechreu yr haf hwn, (1872), ond y mae yn awr wedi derbyn galwad o'r Tabernacle, Aberdar, ac y mae ar symud yno. Anaml y ceir eglwys o'i nifer wedi casglu yn gyffelyb i'r hyn a gasglodd yr eglwys hon o'i sefydliad. O ddechreu 1858 hyd 1872, casglodd at bob achos 4,491p. 7s. 7c., ac ni bu ei rhifedi ar unrhyw adeg yn ei hanes uwchlaw 130. Heblaw y

rhai a grybwyllwyd yn nglyn a chychwyniad yr achos, bu Cadben J. Rowlands o wasanaeth mawr fel diacon ac ysgrifenydd yr eglwys, ac y mae gwasanaeth J. Morgan fel diacon a blaenor y gân yn haeddu ei goffau. Er fod agos yr holl rai a fu a'r llaw flaenaf yn ei gychwyniad, ac a fu yn brif gefnogwyr iddo wedi symud i leoedd eraill, y mae yr achos yn parhau i ddal ei dir, a hwyrach fod cystal gobaith o'i flaen am y dyfodol ag a fu mewn un cyfnod blaenorol yn ei hanes. Nis gellir disgwyl yma gynnulleidfa fawr, oblegid y mae yr iaith Seisnig wedi dyfod yn genllif dros y dref, ac yn yr iaith hono y gellir disgwyl gwneyd y daioni mwyaf i luaws y boblogaeth.

## CHARLES-STREET, CAERDYDD.

Yr oedd rhai o aelodau yr hen gapel yn Womanby-street yn teimlo er's blynyddau nad oedd un gobaith am gyfodi achos Annibynol effeithiol a theilwng o dref fawr a chynyddol Caerdydd yn y capel hwnw, o herwydd anghyfleusdra y lle, ac amrywiol achosion eraill, gan hyny penderfynodd nifer o honynt yn y flwyddyn 1853, ymadael yn heddychol a'r hen le, a dechreu achos newydd mewn lle arall. Cymerasant hen addoldy y Wesleyaid yn Old Church-street. Buont yno am ddwy flynedd, ac yna symudasant i Neuadd y dref yn 1855, ac yno y buont nes gorphen adeiladu y capel yn Charles-street. Dechreuwyd adeiladu y capel yn Tachwedd, 1854, ac agorwyd ef Gorphenaf 5ed, 1855. Traddodwyd pregethau ar yr achlysur gan Dr. Vaughan, y pryd hwnw o athrofa Lancashire, a Mr. D. Thomas, B.A., Caerodor. Maint y capel yw 75 troedfedd wrth 38 oddifewn i'r muriau. Y mae ysgoldy helaeth odditano, ac amrywiol ystafelloedd cyfleus yn perthyn iddo. Costiodd 2,900p., a gorphenwyd talu y ddyled yn 1866. Yn 1862, gosodwyd oriel yn y capel, yr hyn a gostiodd 212p., ac felly costiodd yr addoldy hwn rhwng pob peth dros dair mil a chan' punt. Y gweinidog cyntaf yma oedd Mr. R. T. Verrall, B.A., o New College, Llundain. Dechreuodd ef ei weinidogaeth yma Medi 18fed, 1853, a symudodd oddiyma yn 1861. Dilynwyd Mr. Verrall gan Mr. Joseph Waite, B.A., o East Cowes. Dechreuodd ei weinidogaeth yma y Sabboth cyntaf yn Mai, 1862, ac y mae yn parhau i lenwi ei le yma gyda pharch a dylanwad mawr.

Mae yr eglwys hon yn awr yn cynwys 200 o aelodau, ac yn eu mysg amryw o'r dynion mwyaf parchus a dylanwadol yn Nghaerdydd. Mae hwn wedi bod yn achos llwyddianus iawn oddiar ei gychwyniad hyd yn bresenol. Heblaw amryw o'r aelodau sydd yn arfer eu doniau fel pregethwyr achlysurol, y mae y tri canlynol o'r aelodau yn darparu ar gyfer y weinidogaeth:—

W. J. Jupp. Yr hwn sydd yn fyfyriwr yn yr Athrofa Orllewinol yn Plymouth.

William Lloyd. Myfyriwr yn yr athrofa yn Nghaerodor.

B. N. Freme. Myfyriwr yn athrofa Springhill, Birmingham.

## HANNAH-STREET, CAERDYDD.

Cafodd yr eglwys a gyferfydd yn y capel hwn ei dechreuad dan yr amgylchiadau canlynol:—Mr. John Davies, y pryd hwnw, gweinidog yr eglwys Gymreig yn Mount Stuart Square, yn teimlo fod angen dirfawr am

Digitized by Google

ychwaneg o achosion Saesonig i'r Annibynwyr yn nhref gynyddol Caerdydd, lle y mae o leiaf bedwar o bob pump o'r trigolion yn siarad yr iaith Saesonig, a rentiodd ystafell yn Patrick-street am ugain punt y flwyddyn o rent, ac a ddechreuodd bregethu yno yn nechreu y flwyddyn 1866. Sefydlwyd yno Ysgol Sabbothol, a phob math arall o foddion crefyddol dan arolygiaeth Mr. Davies, ac yn lled fuan ffurfiwyd yno eglwys o bedwar-ar-ddeg o aelodau, at yr hon y mae ychwanegiadau cyson wedi bod hyd yn bresenol. Wedi llawer o drafferth cafwyd darn cyfleus o dir at adeiladu capel yn Hannah-street, gan Ardalydd Bute, ar lês o 99 o flynyddau, am yr ardreth blynyddol o chwe' phunt a deg swllt. Mehefin 11eg, 1867, cynaliwyd cyfarfod er gosod i lawr garreg sylfaen yr addoldy newydd. Y diweddar H. O. Wills, Ysw., o Gaerodor, a neillduwyd i gyflawni y ddefod o osod y garreg. Cyn iddo fyned trwy y ddefod, cyflwynodd Mrs. Davies, gwraig y gweinidog, lwy arian *(trowel)* iddo. Yr oedd Mr. Samuel Morley, Mr. Henry Richard, Mr. J. C. Gallaway, M.A., Llundain; Dr. Rees, Abertawy, a llawer o weinidogion yn wyddfodol, ac yn anerch y gwyddfodolion lluosog ar yr achlysur. Yn hwyr, yr un dydd, cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn nghapel Charles-street, dan lywyddiaeth Mr. Morley, pryd y cafwyd addewidion am lawer o symiau anrhydeddus at y capel newydd. Mehefin 10fed, 1868, agorwyd y deml brydferth, pryd y traddodwyd pregethau gan Meistri Thomas Jones, yn awr o Abertawy, a Ll. D. Bevan, LL.B., Llundain. Mae ysgoldy eang odditan y capel, a chwech o wahanol ystafelloedd, yn nghyd a *Vestries*, a phob cyfleusderau eraill. Costiodd y cwbl 4,150p., a bwriedir tynu y ddyled i lawr erbyn diwedd y flwyddyn hon i 800p., ac felly bydd y gweinidog llafurus a'r gynnulleidfa ieuangc hon mewn pedair blynedd wedi casglu y swm mawr o 3,350p. at eu haddoldy. Er fod yr achos dan ofal Mr. Davies o'i ddechreuad, anfynych yr oedd ef yn gallu pregethu i'r gynnulleidfa tra y bu yn weinidog i'r eglwys yn Mount Stuart Square. Wedi agoryd y capel newydd gwnaeth ef ei feddwl i fyny i roddi gofal yr eglwys Gymreig i fyny a chyfyngu ei lafur i'r achos Saesonig, ac felly dechreuodd ei weinidogaeth rheolaidd yma yn Gorphenaf, 1868.

Mae y capel wedi ei osod dan ofal pymtheg o ymddiriedolwyr, y rhai a wneir i fyny o dri o weinidogion a deuddeg o leygwyr. Cydnabydda Mr. Davies gyda diolchgarwch y cymorth a'r gefnogaeth a gafodd yn ei anturiaeth bwysig gydag adeiladaeth y capel a chychwyniad yr achos, gan Meistri Billups, Dr. Edwards, Captain Rowlands, John Evans, G. F. Atkins, J. O. Jones, T. Davies, James Marychurch, ac eraill. Y diaconiaid yma ydynt Meistri W. Manning, G. Down, J. Rowlands, a T. Davies. A blaenor y gân a chwareuwr yr organ yw Mr. W. Marychurch. Mae yr aelodau yn awr yn 84 o rif, y gynnulleidfa tua 400, yr Ysgol Sabbothol, yn 250, a'r capel yn un o'r addoldai harddaf a mwyaf cyfleus yn y dref, ac yn cynwys tua saith gant o eisteddleoedd. Mae pob peth yma yn awr mor llewyrchus a dymunol ag y gellid disgwyl, ond yn unig fod iechyd y gweinidog defnyddiol ac anwyl mor wanaidd nes ei analluogi i gyflawni ei waith fel yr arferai wneyd. Mae gweddiau beunyddiol ei bobl a'r eglwysi yn gyffredinol am ei adferiad etto i'w iechyd arferol, ac yr ydym yn hyderu yr atebir hwynt yn estyniad ei oes a'i ddefnyddioldeb. Pa fodd bynag y gwel yr Arglwydd yn dda wneyd gyda golwg ar ei was ffyddlon yn y dyfodol, y mae genym achos diolch yn wresog am iddo ei nerthu a'i lwyddo mor anghyffredin hyd yn bresenol.

Digitized by Google

## CANTON, CAERDYDD.

Mae Canton tua milldir i'r gorllewin o dref Caerdydd, ac yn awr yn dref lled fawr ei hun. Yr oedd amryw o aelodau Ebenezer yn cyfaneddu yma ac yn cynal Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddio, a phregethu achlysurol yn y lle flynyddau cyn ffurfio eglwys yma. Byddai gweinidogion Ebenezer, Mr. A. W. Jarvis, ac eraill, yn pregethu yma yn fynych mewn gwahanol anedd-dai. Yn 1867, ar anogaeth Meistri J. Davies, a J. M. Evans, yr hwn oedd newydd ymsefydlu yn Ebenezer fel gweinidog, cafodd cynifer o aelodau eglwysig ag a gyfaneddent yn y lle hwn, ac a foddlonent ymadael a'r fam-eglwys, eu corpholi yn eglwys Annibynol. Rhoddasant alwad i Mr. T. C. Williams, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 18fed a'r 19eg, 1867. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Roberts, un o athrawon yr athrofa yn Aberhonddu; holwyd y gcfyniadau gan Mr. J. Griffiths, Llanwrtyd; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Jones, Pentyrch; traddodwyd y siars i'r gweinidog gan Mr. J. Davies, Caerdydd, ac i'r eglwys gan Mr. J. M. Evans, Caerdydd. Pregethwyd yma hefyd gan Meistri W. Edwards, Aberdar; Gwesyn Davies, Penywern; H. Oliver, B.A., ac eraill. Yn fuan wedi urddiad y gweinidog, llwyddwyd i gael tir at adeiladu capel, yr hwn a orphenwyd ac a agorwyd yn 1868. Mae yn gapel hardd a chyfleus iawn, mewn lle hynod fanteisiol. Costiodd rhwng pob peth bymtheg cant o bunau. Wedi cael y capel yn barod, cyfododd yma anhawsder gyda golwg ar yr iaith yn mha un y buasai yn oreu dwyn y gwasanaeth yn mlaen. Gan fod rhai yn yr eglwys nad oeddynt yn deall y Gymraeg o gwbl nis gallasai gwasanaeth yn yr iaith hono fod o un budd iddynt hwy, a chan nad oedd y Cymry yn foddlon i wasanaeth Saesonig, a bod nifer dirfawr o drigolion y lle yn Saeson, barnodd Mr. Williams a'r rhai a ystyrient fod angen am sefydlu achos Saesonig yn y lle, mai eu dyledswydd oedd cymeryd lle arall yn y gymydogaeth at gynal gwasanaeth Saesonig, ac felly gadawyd y capel i'r Cymry. O'r pryd yr ymadawodd Mr. Williams yn 1870, hyd Mai, 1872, bu yr eglwys Gymreig yn y capel yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol. Yn awr y mae Mr. J. W. Morris, Llanharan, wedi derbyn galwad ac wedi dechreu ei weinidogaeth yma.

## CANTON, (Saesonig).

Fel y nodwyd yn yr hanes blaenorol, darfu i Mr. T. C. Williams, a'r rhan o'r eglwys yn Canton oeddynt dros wasanaeth Saesonig, adael y capel i'r Cymry yn 1870, a myned allan i ddechreu achos Saesonig. Rhentiwyd capel perthynol i'r Wesleyaid ac yno y mae y gwasanaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen hyd yn bresenol. Cafodd yr eglwys ieuangc hon yn fuan ar ol ei ffurfiad ei cholledu yn fawr trwy symudiad rhai o'r aelodau mwyaf dylanwadol a defnyddiol i ardaloedd eraill. Colled fawr iddynt oedd symudiad Mr. Thomas Lloyd Davies i Abertawy, ac eraill i fanau eraill. Pa fodd bynag, y mae yr achos yn myned rhag ei flaen, ac yn ennill tir yn raddol er pob anfantais. Ar gychwyniad yr achos penderfynodd y gweinidog a'r eglwys i wneyd eu goreu i gasglu y crwydriaid i dŷ, a lledaenu dylanwad yr achos trwy ymdrechion i wneyd daioni y tu allan i'r capel yn gystal ag ynddo. Y mae yma Ysgol Sabbothol flodeuog, a llyfrgell ragorol wedi ei

Digitized by Google

hagor mewn cysylltiad a hi er mwyn yr ieuengctyd. Y mae cerddoriaeth gysegredig hefyd yn cael sylw neillduol yma. Y mae aelodau y gynnulleidfa yn rhanu bob wythnos tua phum' cant o draethodau crefyddol o dŷ i dŷ yn yr ardal, ac felly mae ugeiniau o deuluoedd nad ydynt yn mynychu unrhyw le o addoliad yn cael cyfle i wybod ffordd iachawdwriaeth. Trwy y moddion hyn y mae rhai o wythnos i wythnos yn cael eu tueddu i ddyfod i wrandaw yr efengyl. Mae yma arwyddion gobeithiol am achos llewyrchus gydag amser, ond bydd raid i'r cyfeillion weithio eu ffordd trwy lawer o anfanteision am dymor.

## GRANGE TOWN, CAERDYDD.

Achos Saesonig yw hwn. Dechreuwyd ef yn 1867, gan Mr. John Davies, gweinidog Hannah-street. Cymerodd Mr. Davies ystafell yma at gynal Ysgol Sabbothol, a moddion crefyddol eraill, y rhai a gynelid yn rheolaidd ar y Sabboth a nosweithiau o'r wythnos. Yn fuan wedi dechreu cynal moddion rheolaidd yma, cafodd eglwys fechan ei ffurfio. Wedi ffurfiad yr eglwys, yn unol a chynghor Mr. Davies, rhoddwyd galwad i Mr. T. George, Llaneurwg, i ymsefydlu yma fel gweinidog. Bu Mr. George yn llafurio yn y lle gyda derbyniad a pharch hyd ddiwedd y flwyddyn 1871, pryd y derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn y Dinas, Cwmrhondda, ac y symudodd yno. Mae yma Ysgol Sabbothol lewyrchus, a chystal cynnulleidfa ag a ellid ddisgwyl wrth ystyried mai mewn ystafell anghyfleus y cynelir y gwasanaeth. Mae yr achos ieuangc hwn wedi dyoddef yn fawr o eisiau capel, ac ofnir y bydd raid aros am flynyddau etto cyn cael un, am mai gwr ieuangc dan ei oed yw perchenog y tir, ac nas gellir cael lês nes y delo i'w oed. Mae y gymydogaeth yn cynwys tua dwy fil o drigolion, a'r boblogaeth yn cynyddu yn gyflym. Os llwyddir i gael capel, y mae gobaith am achos llwyddianus yma.

## WOOD-STREET, CAERDYDD.

Dechreuwyd yr achos hwn yn y flwyddyn 1868, dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd Mr. W. Watkiss yn weinidog cynnulleidfa o Ddiwygwyr Wesleyaidd, yn Charles-street. Ar un Sabboth hysbysodd y gynnulleidfa ei fod yn rhoddi ei weinidogaeth i fyny yno am nad oedd yn gallu cydweithredu yn ddymunol a rhai personau o ddylanwad yn y gynnulleidfa. Gan fod mwyafrif dirfawr yr aelodau a'r gwrandawyr yn selog iawn drosto ef, ac yn anfoddlon iddo ymadael a Chaerdydd, cymhellasant ef i bregethu y Sabboth canlynol yn y *Music Hall*, yn Wood-street, a'r hyn y cydsyniodd. Daeth yno dorf ddirfawr o'r dosbarth gweithiol i'w wrandaw, a phenderfynwyd o hyny allan i gynal gwasanaeth rheolaidd yno. Rhentiwyd y *Music Hall* fel lle addoliad. Ffurfiwyd yno eglwys, ac aeth pob peth yn mlaen yn anghyffredin o lwyddianus, ac yn mhell tuhwnt i ddisgwyliadau y gweinidog a'r bobl. Yn y flwyddyn 1869, wedi ymgynghori a Mr. Davies, Hannah-street, a Mr. Waite, Charles-street, penderfynasant uno a'r enwad Annibynol. Prynwyd y *Music Hall*, a chyfaddaswyd ef i fod yn dŷ addoli. Rhoddwyd tair mil o bunau am dano, ac yr ydym yn deall fod haner y ddyled wedi ei thalu. Tuag at hyny cafwyd swm da

Digitized by Google

o'r pum' mil a addawsai Mr. S. Morley at adeiladu capeli Seisonig yn Nghymru. Mae yr addoldy hwn yn cynwys dros bymtheg cant o eisteddleoedd, ac y mae yn cael ei lenwi bob Sabboth. Mae yma argoel am achos anghyffredin o lewyrchus.

## SPLOTLANDS, ROATH, CAERDYDD.

Achos Saesonig yw hwn hefyd. Dechreuwyd ef trwy gydweithrediad gweinidogion ac eglwysi Ebenezer, Charles-street, a Hannah-street. Teimlid er's blynyddau fod angen am achos crefyddol yma gan fod yr ardal yn boblog iawn ac ar gynydd yn barhaus. Sefydlwyd yma Ysgol Sabbothol fel cangen o ysgol Charles-street, yn yr ysgoldy Brutanaidd yn Comet-street, rai blynyddau yn ol, dan arolygiad Mr. Thomas Evans, un o ddiaconiaid Charles-street. Trwy ei lafur a'i ffyddlondeb ef, ac eraill a gydweithredent ag ef, aeth yr ysgoldy gydag amser yn rhy fychan i gynwys yr Ysgol Sabbothol. Er cynllunio a darparu effeithiolach moddion addysg a chyfleusderau crefyddol i'r ardalwyr, cyfarfyddodd amryw gyfeillion yn yr ysgoldy ar yr ail ddydd o Fai, 1870, pryd y nodwyd y personau canlynol i fod yn bwyllgor adeiladu:—sef Meistri J. Waite, B.A., Charles-street; J. M. Evans, Ebenezer; J. Davies, Hannah-street; Thomas Evans, R. Meyrick, Rees Enoch, John Price, Andrew Fulton, Thomas Wibber, J. E. Billups, ac eraill. Cymerwyd tir yn uniongyrchol ar ystad Arglwydd Tredegar at adeiladu. Ar y 27ain o Fedi, 1870, gosodwyd y garreg sylfaen i lawr gan y diweddar H. O. Wills, Ysw., Caerodor. Anerchwyd y gynnulleidfa ar yr achlysur gan wahanol weinidogion y dref. Adeiladwyd yma gapel hardd a chyfleus, yn cynwys tua phum' cant o eisteddleoedd. Traul yr adeiladaeth oedd 1,740p. Cynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad Ebrill 28ain, 1871, pryd y gweinyddwyd gan Meistri J. Baldwin Brown, B.A., Llundain; J. Waite, B.A., J. Davies, a W. Watkiss, Caerdydd, a'r Proffeswyr Morris, Aberhonddu, a Hartland, Caerodor. Llwyddodd y pwyllgor i gasglu chwe' chant o bunau at draul yr adeiladaeth erbyn dydd yr agoriad. Ar y 24ain o Awst, 1871, ffurfiwyd yma eglwys, pryd yr ymunodd dauar-bymtheg o aelodau yr eglwysi cymydogaethol yn eglwys Annibynol yn y lle newydd hwn. Yn mis Tachwedd, yn yr un flwyddyn, rhoddwyd galwad unfrydol i Mr. D. L. Jenkins, Trefgarn, a'r hon y cydsyniodd, ac y mae wedi dechreu ei weinidogaeth yma er yr ail Sabboth o Ionawr, 1872. Ar y seithfed-ar-hugain o Fawrth, cynaliwyd cyfarfod ei sefydliad, pryd y gweinyddwyd gan weinidogion yr eglwysi Annibynol yn Nghaerdydd, a Mr. H. Oliver, B.A., Casnewydd. Erbyn hyn y mae nifer yr Ysgol Sabbothol wedi dyblu, yr aelodau a'r gwrandawyr yn lluosogi yn gyflym, a golwg ryfeddol o obeithiol ar yr achos.

Mae yr enwad Annibynol yn nhref Caerdydd, a'i Maesdrefi, yn y saith mlynedd diweddaf, wedi gosod allan agos dair-mil-ar-ddeg o bunau ar gapeli ac ysgoldai, yn y drefn ganlynol:—helaethiad Mount-stuart, 650p.; adgyweiriad Ebenezer, 900p.; adeiladu Hannah-street, 4,150p ; prynu y Music-hall, yn Wood-street, a'i droi yn addoldy, 3000p ; capel Canton, 1,500p. ; capel Roath, 1,740p., ac ysgoldai Charles-street, 1,100p. Os yw sel ac ysbryd Ir ... ydd yr eglwysi hyn yn gyfatebol i'w gweithgarwch a'u haelioni gyda phethau allanol crefydd, ac yr ydym yn credu ei fod, mae



Digitized by Google

llwyddiant dirfawr yn sicr o ddilyn eu hymdrechion, a miloedd o eneidiau i gael eu hennill at y Gwaredwr yn y lleoedd hyn.

## CAPEL Y BURROWS, ABERTAWY.

Yn y flwyddyn 1780, neu rai blynyddau cyn hyny, gan nad oedd ond un capel Ymneillduol yn y dref hon, (heblaw capel y Bedyddwyr Cymreig), a bod sain anhynod gan udgorn y weinidogaeth yn y capel hwnw, darfu i'r ychydig broffeswyr nad oeddynt yn deall y Gymraeg, ac nad ystyrient weinidogaeth Mr. Solomon Harries yn ddigon efengylaidd, rentu ystafell yn Heol-y-castell at gynal moddion crefyddol. Yr oedd yr addolwyr yn yr ystafell hon yn gynwysedig o Annibynwyr, a Methodistiaid Calfinaidd, a Wesleyaid, ond ymddengys mai Wesleyaid oedd y mwyafrif. Wedi iddynt hwy adeiladu capel iddynt eu hunain, teimlai yr ychydig Annibynwyr a Methodistiaid Calfinaidd a adewsid yn yr ystafell, fod talu traul gweinidogaeth grefyddol, a thair punt y flwyddyn o rent ar yr ystafell, yn faich rhy drwm iddynt allu sefyll dano, gan nad oeddynt oll ond ychydig weithwyr tlodion. Ac i wneyd y trallod yn fwy, cawsant rybudd oddiwrth y wraig a berchenogai yr ystafell fod cymaint o'r rhent ag oedd yn ddyledus i gael ei dalu yn mhen wythnos, neu fod yn rhaid rhoddi y lle i fyny iddi hi. Y gwr mwyaf ei deimlad dros yr achos gwan yn yr ystafell yn awr oedd weithiwr tlawd o'r enw Benjamin Tucker, yr hwn oedd yn ddyn selog a duwiol iawn. Wedi cael rhybudd am y rhent, gan nad oedd yr arian ganddo i'w talu, nac un dyn ganddo i droi ato am danynt, aeth allan un prydnawn i'r traeth a'i feddwl yn gythryblus iawn. Wedi dwys fyfyrio am ryw gymaint o amser, syrthiodd ar ei ddeulin ar y tywod gan osod ei ofid mewn gweddi daer ger bron yr Arglwydd. Wrth weddio daeth enw yr Arglwyddes Huntingdon i'w feddwl yn ddisymwth iawn, fel un a arferai gynorthwyo achos yr Arglwydd. Barnodd mai mewn atebiad i'w weddi yr arweiniwyd ei feddwl ati. Yr oedd yr Arglwyddes y pryd hwn yn treulio ychydig ddyddiau yn Briton Ferry. Penderfynodd B. Tucker anfon adroddiad o'r achos ati mewn llythyr, yr hwn a ysgrifenwyd drosto, ac yn ei enw, gan amaethwr adnabyddus iddo. Wedi aros am ychydig ddyddiau am atebiad, ac heb ei gael, penderfynodd fyned ei hun at ei Harglwyddiaeth i osod yr achos ger ei bron. Derbyniwyd ef yn garedig, a chafodd y cymorth gofynol. Addawodd ei Harglwyddiaeth hefyd anfon un o'i myfyrwyr bob Sabboth o Drefecca i bregethu yn yr ystafell. Wedi i'r myfyrwyr fod yn pregethu yno am flwyddyn, ymhyfhaodd Tucker i ofyn i'w Harglwyddiaeth am ei chynorthwy i adeiladu capel. Ar ol gwneyd ymchwiliad i'r achos, penderfynodd ymgymeryd a'r gorchwyl o adeiladu capel. Llwyddodd i gael darn o dir gan awdurdodau y Fwrdeisdref, am dair punt a phedwar-swllt-ar-ddeg yn y flwyddyn ar lês o ddeugain mlynedd. Estynwyd y lês hono drachefn, fel y mae dros ddeugain mlynedd etto o honi heb redeg allan. Gosodwyd carreg sylfaen y capel i lawr yn y flwyddyn 1787, ac ar y 5ed o Ebrill, 1789, agorwyd ef, pryd y pregethodd Mr. Rowlands, (Mr. Nathaniel Rowlands, feddyliwn), a Mr. D. Jones, Llangan. O'r pryd yr agorwyd y capel hyd y flwyddyn 1796, bu amryw o weinidogion, yn benaf offeiriaid, a Methodistiaid Calfinaidd, yn pregethu ynddo, ond yn y flwyddyn hono, rhoddwyd galwad i Mr. William Kemp, a bu ef yma yn gweinidogaethu gyda pharch a llwyddiant

Digitized by Google

mawr, hyd nes iddo gael ei alw yn 1821 i fyned yn athraw i athrofa ei Harglwyddiaeth yn Cheshunt. Dilynwyd ef gan un David Jones, yr hwn a fu farw yn niwedd y flwyddyn 1825. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. Richard Norman, M.A. Bu ef yma o 1825 hyd 1828. Dilynwyd ef gan Mr. James Dunent, yr hwn a fu yma o 1828 hyd 1833. Y nesaf oedd Mr. William Woodhouse, bu yntau yma o 1833 hyd 1838. Yn yr un flwyddyn dilynwyd ef gan Mr. Thomas Dodd, yr hwn fu yn llafurus a llwyddianus iawn yma hyd nes iddo symud yn 1853 i Worcester, lle y mae yn bresenol. Yn yr un flwyddyn ag yr ymadawodd Mr. Dodd, rhoddwyd galwad i Mr. John Whitby, Ipswich, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Awst y flwyddyn hono, ac a fu yn llafurus yma hyd ddechreu y flwyddyn 1871, pryd y rhoddodd y weinidogaeth sefydlog i fyny o herwydd gwendid a methiant. Yn fuan wedi ymadawiad Mr. Whitby, rhoddwyd galwad i Mr. Richard Thomas Howells, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Awst 31ain, 1871. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y boreu am un-ar-ddeg o'r gloch gan Mr. E. Griffiths, Abertawy; pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. T. Rees, D.D., Abertawy; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. D. Jones, B.A., Merthyr; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Jones, Heol-y-castell, Abertawy; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan ei athraw, y Proffeswr Morris, o athrofa Aberhonddu. Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. B. Williams, Canaan, a thraddodwyd siars i'r eglwys gan Mr. Thomas Jones, Abertawy. Cymerwyd hefyd ran yn y gwasanaeth gan Mr. Griffith John, y Cenhadwr o China, ac eraill.

Bu yr achos hwn yn gryf a llewyrchus iawn o'r amser yr agorwyd y capel yn 1789, hyd o fewn ugain mlynedd yn ol. Yr oedd amryw o brif deuluoedd y dref o ran dylanwad cymdeithasol a chyfoeth yn perthyn iddo. O herwydd amrywiol amgylchiadau anffafriol, y mae yn yr ugain mlynedd diweddaf wedi myned wanach wanach o flwyddyn i flwyddyn. Nid oedd yma ond pump a deugain o aelodau pan ddechreuodd Mr. Howells ei weinidogaeth yn Gorphenaf, 1871, ond y mae pethau yn gwella. Erbyn hyn, (Mehefin, 1872), y mae yr aelodau yn 70 o rifedi, ac arwyddion gobeithiol am lwyddiant ychwanegol. Yr anfantais fawr yn awr yw lleoliad y capel. Flynyddau yn ol yr oedd yn cael ei gylchynu gan yr anedd-dai goreu yn y dref, ond yn awr y mae y tai prydferth hyny wedi cael eu troi gan mwyaf oll yn ystordai at gyfleusdra y *Docks* a wnaed ychydig flynyddau yn ol yn agos i'r lle. Bydd y rhan hon o'r dref yn fuan wedi ei chymeryd i fyny yn gwbl at ddybenion y fasnach gyflym-gynyddol, a chyn y gellir cael yma gynnulleidfa o'r fath ag a welwyd gynt, bydd yn rhaid symud y capel tua haner milldir yn uwch i fyny i'r dref.

Gan fod y rhan fwyaf o'r gweinidogion cyntaf a fu yma naill a'i yn Eglwyswyr, Methodistiaid Calfinaidd, neu aelodau o gyfundeb Arglwyddes Huntingdon, ac heb gyfrif eu hunain yn Annibynwyr, nid yw yn angenrheidiol i ni roddi eu bywgraphiadau yn HANES EGLWYSI ANNIBYNOL CYMRU. Mr. Whitby a Mr. Howells, y gweinidog presenol, yw yr unig Annibynwyr proffesedig sydd wedi bod yn weinidogion yma.

## PENYCLAWDD.

Mae y capel hwn yn un o'r amryw gapeli a adeiladwyd gan yr anrhydeddus Arglwyddes Barham yn Mrowyr. Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1818.

Digitized by Google

Nid oedd ei Harglwyddiaeth ar y cyntaf yn gofalu pregethwyr o ba enwad a alwai i bregethu yn ei chapeli, ond iddi gael dynion pur eu hymarweddiad ac efengylaidd eu golygiadau, gan hyny derbyniai bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd a'r Annibynwyr yn ddiwahaniaeth i'w gwasanaeth. Mr. Rees Jones, genedigol o Fon, un o bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd, oedd y gweinidog cyntaf yma. Bu ef yn weinidog yma hyd ei farwolaeth yn Chwefror, 1829. Wedi ei farwolaeth ef, penodwyd gweinidog Annibynol yma gan ymddiriedolwyr yr Arglwyddes Barham. Yn amser Mr. Jones, yr oedd llawer, os nad y rhan fwyaf, o'r eglwys yn Fethodistiaid. Ar benodiad Annibynwr yn ganlyniedydd iddo ef, ymadawsant hwy a'r lle, ac adeiladasant gapel iddynt eu hunain yn ngwaelod y pentref. Y gweinidog a ddilynodd Mr. Jones yma oedd Mr. Peter Griffiths, Llanrwst. Gwan a lled ddilewyrch oedd yr achos yma yn ei amser ef, o herwydd dau beth —ymadawiad y Methodistiaid a'r capel, a'r ffaith fod y rhan fwyaf o Annibynwyr yr ardal yn aelodau a gwrandawyr yn y Crwys. Ychydig gyda blwyddyn y bu Mr. Griffiths yma. Dilynwyd ef gan Mr. W. Lewis, o athrofa Caerfyrddin, yr hwn fu yma am rai blynyddau yn pregethu i gynnulleidfa ddigalon o fechan. Wedi ei ymadawiad ef, yn mhen rhai blynyddau, cymerwyd gofal y lle gan Mr. John Evans, o'r Crwys. Gan fod llawer o aelodau y Crwys yn byw yn y pentref a'r ardal, darfu i'r rhan fwyaf o honynt uno a'r ddiadell fechan yn Mhenyclawdd, wedi i'w gweinidog eu hunain gymeryd at y lle, a daeth yma gynnulleidfa gymharol gref a lluosog yn dra buan. O herwydd lluosogiad y gynnulleidfa, bu raid gosod oriel ac eisteddleoedd newyddion yn y capel. Gwnaed hyn tua y flwyddyn 1848. Llafuriodd Mr. Evans yma, mewn cysylltiad a'r Crwys, gyda mesur helaeth o lwyddiant hyd derfyn ei oes yn 1856. Yn nechreu y flwyddyn 1858, dechreuodd Mr. John Lloyd Jones ei weinidogaeth yn y Crwys ac yma, fel canlyniedydd Mr. Evans, ac yma y mae hyd y dydd hwn yn barchus a llwyddianus iawn. Yn y flwyddyn 1870, cafodd y capel ei adgyweirio ac agos ei wneyd oll o newydd. Y mae yn awr yn un o'r capeli harddaf yn yr holl sir. Traul yr adgyweiriad oedd 500p. Mae yr eglwys yn bresenol yn 123 o aelodau, a'r gwrandawyr tua yr un nifer. Yn yr iaith Saesonig yn benaf y dygir y gwasanaeth crefyddol yn mlaen yma yn awr.

Nid ydym yn gwybod fod yma neb wedi cael ei gyfodi i bregethu o ddechreuad yr achos hyd yn bresenol.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

PETER GRIFFITHS. Er i Mr. Griffiths gael byw tua deunaw mlynedd wedi iddo ymadael a Phenyclawdd, etto gan na fu un eglwys neillduol dan ei ofal wedi hyny, yma y mae yn briodol rhoddi ei fywgraphiad. Ganwyd ef yn Gwenddwr, sir Frycheiniog, yn y flwyddyn 1784. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn y Bailihalog, gan Mr. David Williams, Llanfairmuallt. Yn mhen tua thair blynedd wedi hyny, anogwyd ef gan ei weinidog a'r eglwys i ddechreu pregethu. Wedi iddo orphen ei amser yn athrofa Gwrecsam, ymsefydlodd fel gweinidog i'r eglwysi bychain yn Llanrwst, Trefriw, a Nantyrhiw. Urddwyd ef yn Tachwedd, 1814. Bu yn llafurus iawn yn y cylch hwn am wyth mlynedd. Casglodd yn y tymor hwnw bedwar cant o bunau at dalu dyledion y capeli. Teithiai lawer o

fan i fan i bregethu, ac etto cadwai ysgol ddyddiol, ar yr hon yn benaf yr ymddibynai am ei gynaliaeth, gan nad oedd ei gyflog oddiwrth y weinidogaeth ond ychydig iawn. Yn 1816, priododd a Miss Roberts, o Felinycoed, gyda yr hon y cafodd ychydig gyfoeth. Yn 1822, rhoddodd ofal ei eglwysi i fyny, ond parhaodd i bregethu gyda diwydrwydd. Yn 1829, ymsefydlodd yn Mhenyclawdd, ond yn mhen ychydig gyda blwyddyn symudodd yn ol i Lanrwst am nad oedd ei wraig yn cael iechyd yn Mhenyclawdd. O hyny hyd derfyn ei oes ni bu un eglwys neillduol dan ei ofal. Ond bu yn dra gwasanaethgar fel pregethwr cynorthwyol cyhyd ag y parhaodd ei nerth. Bu farw Mai 16eg, 1858, yn 74 oed.

Yr oedd Peter Griffiths yn ddyn duwiol iawn, ac yn dra galluog fel duwinydd, ond dichon nad oedd bob amser yn ddigon pwyllog a doeth. Er fod ei olygiadau duwinyddol, i'n tyb ni, yn iachus ac ysgrythyrol, etto wrth wthio ei dybiau neillduol fel is-Galfiniad i sylw cynnulleidfaoedd uchel-Galfinaidd mewn dull mwy cyfaddas i ddigio nag i argyhoeddi dynion, achlysurodd gryn ddadleuon a theimladau anhyfryd mewn amryw gynnulleidfaoedd tua deugain mlynedd yn ol. Cyhoeddodd rai pregethau a thraethodau da.

## NEWTON.

Pentref bychan yn mhlwyf Oystermouth yw y lle hwn. Pan ddaeth yr Arglwyddes Barham i Frowyr, a gweled amddifadrwydd y trigolion o'r efengyl, penderfynodd ddyfod i fyw i'w plith, a gwahodd cynifer ag a allasai gael o weinidogion yr Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd i bregethu yma. Yr oedd Newton yn un o'r manau cyntaf y gosododd i fyny bregethu sefydlog ynddo. Yr oedd William Hammerton, un o weision ei Harglwyddiaeth, yn ddyn ieuangc duwiol ac awyddus am wneyd daioni. Pan na byddai neb arall a fernid yn gymwysach i bregethu o hyd cyrhaedd, pregethai ef goreu y medrai i'r trigolion o gylch anedd ei Harglwyddiaeth. Daeth yn raddol i fod yn bregethwr galluog, defnyddiol, a phoblogaidd. Pan welodd yr Arglwyddes fod ei wasanaeth mor dderbyniol, hi a adeiladodd gapel bychan tlws iddo yn mhentref Newton, yn y flwyddyn 1818; urddwyd ef yn weinidog yno, ac yno y bu yn rhyfeddol o ddefnyddiol a pharchus hyd ei farwolaeth yn 1834. Dilynwyd Mr. Hammerton yn y weinidogaeth yma gan Mr. Thomas Seaville, yr hwn a symudodd i Loegr yn 1840. Mae yn bresenol yn Swanage, yn swydd Dorset, ond heb ofal gweinidogaethol. Y gweinidog nesaf yn Newton oedd Mr. John Stedman. Urddwyd ef yn 1840, a bu yma hyd 1848. Yn mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth yr oedd yn rhyfeddol o boblogaidd, ond tua blwyddyn neu ychwaneg cyn ei ymadawiad, cyfododd rhyw gamddealldwriaeth rhyngddo a'r bobl, fel yr aeth pethau yn annymunol iawn rhyngddynt. Dilynwyd Mr. Stedman yma gan Mr. John Marks Evans, yr hwn fu yma yn heddychol a pharchus am ugain mlynedd. Yn 1868, bu raid iddo roddi y weinidogaeth i fyny. Mae oddiar hyny yn byw yn Abertawy, ond yn gwbl analluog at unrhyw wasanaeth cyhoeddus. Yn amser ymadawiad Mr. Evans, rhoddwyd galwad i Mr. John Carfan Davies, Capel Seion, Abertawy. Dechreuodd ef ei weinidogaeth yma yn Awst, 1868, ac yma y mae etto yn dra llwyddianus.

Mae yma gapel bychan cyfleus, ond digon mawr i drigolion y pentref, er mai efe yw yr unig addoldy yn y lle, a thy hardd i'r gweinidog yn ei

Digitized by Google

ymyl. Mae y gynnulleidfa yn llenwi y capel, ac yn bobl wresog iawn. Saesoneg yw iaith y gwasanaeth, gan mai Saeson uniaith yw holl breswylwyr yr ardal.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

WILLIAM HAMMERTON. Ganwyd ef Awst 17eg, 1791, yn Aldersham, yn swydd Hertford. Amaethwr bychan oedd ei dad. Cafodd ef fanteision addysg ragorol yn ei febyd, a phan oedd yn ugain mlwydd oed aeth i wasanaeth yr Arglwyddes Barham, yr hon fu yn foddion i'w ddwyn i adnabyddiaeth o'r Arglwydd, a than ei nawdd hi, fel y gwelsom, y cyfodwyd ef i'r weinidogaeth. Urddwyd ef yn Newton yn 1818, ac yno y bu hyd derfyn ei oes. Bu farw, wedi naw diwrnod o gystudd, Ebrill 14eg, 1834, yn dair-a-deugain oed, a chladdwyd ef mewn daeargell dan y pulpud yn nghapel Newton. Yr oedd William Hammerton yn ddyn addfwyn, boneddigaidd, a chrefyddol iawn. Cerid a pherchid ef gan bawb o'i gydnabod. Yr oedd yn bregethwr efengylaidd a defnyddiol. Er nad oedd wedi derbyn addysg golegawl, yr oedd yn gymeradwy fel pregethwr pa le bynag yr elai. Byddai yn myned yn flynyddol am fis i Lundain i bregethu yn y Tabernacl a chapel Tottenham Court Road. Yr oedd hefyd yn myned yn aml i gymanfaoedd y Cymry, ac efe fynychaf fyddai y pregethwr Saesonig yn y cyfryw gymanfaoedd. Yr oedd wedi dysgu yr emyn Cymreig,

"Mae'r iachawdwriaeth fel y mor," &c.,

ac yn wastad yn ei rhoddi allan cyn darllen ei destyn pan fuasai yn pregethu mewn cymanfa Gymreig. Yr oedd galar dwfn a didwyll yn Newton a'r gymydogaeth ar ei farwolaeth, a phawb yn teimlo fod yr ardal wedi cael colled drom.

## PILTON GREEN.

Mae y capel hwn yn ngwaelod Browyr, un-filldir-ar-bymtheg islaw Abertawy. Adeiladwyd ef gan yr Arglwyddes Barham yn y flwyddyn 1821. Y gweinidog sefydlog cyntaf yma oedd Mr. Evan Griffiths, yn awr o Abertawy. Yr oedd ef yn ddyn ieuangc yn yr ysgol gyda Dr. Jenkin Lewis, Casnewydd. Aeth y Doctor, ar wahoddiad yr Arglwyddes Barham, am daith trwy Frowyr i bregethu yn ei chapeli hi yno, a'r pryd hwnw, cymeradwyodd ei ysgolhaig, Mr. Griffiths, i sylw ei Harglwyddiaeth, fel gwr ieuangc duwiol a gobeithiol iawn, ac un tebygol o wneyd daioni yn Pilton Green a Park Mill. Ar y gymeradwyaeth hono anfonwyd am Mr. Griffiths, ac wedi iddo fod yn pregethu yma am rai misoedd gyda chymeradwyaeth neillduol, rhoddwyd galwad iddo, ac urddwyd ef yn Pilton Green a Park Mill, Gorphenaf 21ain, 1824. Dechreuwyd y gwasanaeth trwy ddarllen gan Mr. W. Hammerton, a thrwy weddi gan Mr. Daniel Davies, Burry Green; traddodwyd y gynaraeth gan Mr. T. Edwards, Castellnedd; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. J. Evans, Crwys; gweddiwyd yr urddweddi a thraddodwyd y siars i'r gweinidog gan Mr. D. Peter, Caerfyrddin; traddodwyd y siars i'r eglwysi gan Mr. Allen, Abertawy, a diweddwyd trwy weddi gan Mr. Rees Jones, Penyclawdd. Bu Mr. Griffiths yn llafurus a llwyddianus iawn yn Pilton Green, Park Mill, a Providence am rai blynyddau. Pan yr ymgymerodd a chyfieithu Esboniad Mathew Henry, symudodd o Frowyr i Abertawy, a rhoddodd ofal yr eglwysi i fyny. Yn 1829, dilynwyd Mr. Griffiths yma gan Mr. T. C. Dymock, yr hwn fu yn

Digitized by Google

llafurio yma am ddeng mlynedd. Y mae yn awr yn Evington, yn swydd Leicester. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. W. J. Ford. Urddwyd ef yn 1839, a phharhaodd i weinidogaethu yma mewn parch cyffredinol gan fyd ac eglwys, hyd nes iddo golli ei olygon. Gan fod wyth milldir rhwng y naill gapel a'r llall, yr oedd yn anmhosibl i ddyn dall wneyd ei waith fel gweinidog yn y fath le. Gan hyny bu raid i Mr. Ford, yn 1869, roddi ei weinidogaeth i fyny. Dilynwyd ef yn mhen ychydig fisoedd gan Mr. David Edwards, Coed-duon, Mynwy, y gweinidog presenol. Mae Mr. Edwards wedi bod yn nodedig o lwyddianus yma. Y mae yn ystod y tair blynedd y mae wedi bod yn y lle, wedi derbyn rhai ugeiniau o aelodau newyddion, a'r gwrandawyr wedi treblu yn eu rhif. Bwriedir yn ddioed adgyweirio y ddau gapel, y rhai ydynt wedi myned yn lled adfeiliedig. Os parha pethau i fyned yn mlaen mor lwyddianus ag y maent yn bresenol, bydd dau achos cryf iawn yn Pilton Green a Park Mill.

## PARK MILL.

Mae y capel hwn, yr hwn hefyd a adeiladwyd gan yr Arglwyddes Barham, o fewn wyth milldir i Pilton Green, a'r un pellder o Abertawy. Dechreuwyd ei adeiladu yn y flwyddyn 1821, ac agorwyd ef Ebrill 25ain, 1822. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y boreu gan Mr. Warlow, Milford, a phregethodd Dr. Jenkin Lewis, Casnewydd, a Mr. W. Thorp, Caerodor. Yn y prydnawn, dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. Daniel, King'swood, a phregethodd Mr. Peter, Caerfyrddin, a Mr. Davies, Bath.

Hwn oedd y chweched capel a adeiladwyd yn Mrowyr gan yr Arglwyddes Barham. Y mae y chwech yn cael eu defnyddio fel lleoedd addoliad i'r dydd hwn—pedwar gan yr Annibynwyr a dau gan y Methodistiaid Calfinaidd. Y wir anrhydeddus Diana, Arglwyddes Barham, o Lys Barham, yn swydd Kent, oedd unig ferch ac etifeddes Arglwydd Barham. Yr oedd er yn blentyn o dueddiadau crefyddol iawn. Priododd a Syr Gerard Noel, o'r hwn y cafodd deulu lluosog o blant, yn mysg y rhai mae yr Iarll Gainsborough, yr anrhydeddus a'r Parchedig Baptist Noel, y diweddar anrhydeddus Mrs. Thompson, Poundsford Park, &c. Treuliodd yr Arglwyddes Barham ei hoes i fyned oddiamgylch i wneuthur daioni. Arweiniwyd hi gan ragluniaeth i Frowyr, lle y gwnaeth ddaioni dirfawr trwy sefydlu yno achosion crefyddol sydd wedi bod yn fendith i filoedd, ac yn parhau felly. Bu farw yr "etholedig arglwyddes" hon mewn oedran teg yn Fairy Hill, Browyr, Ebrill 12fed, 1823. Awd a'i chorph i'w gladdu yn y beddrod teuluol yn Lloegr. Bydd coffadwriaeth y bendefiges ragorol hon yn fendigedig gan bobl Browyr tra y byddo ganddynt barch i'r efengyl.

Gan mai dan yr un weinidogaeth y mae y lle hwn a Pilton Green wedi bod o'r dechreuad, nid oes genym ddim i ychwanegu at yr hanes a roddasom am y lle hwnw.

## Y TABERNACL, MUMBLES.

Adeiladwyd capel bychan yn y Mumbles gan Mr. W. Hammerton yn y flwyddyn 1831. Am dri o'r gloch prydnawn y Sabboth y pregethai ef, a'i ganlyniedyddion yn Newton, ac nid amcenid i eglwys gael ei ffurfio yn y lle. Pan ymsefydlodd Mr. Davies, y gweinidog presenol, yn Newton, penderfynodd arfer ei holl ddylanwad i gyfodi achos yn y Mumbles, yr

Digitized by Google

hwn le sydd yn bresenol wedi cynyddu nes y mae yn dref yn cynwys tua thair mil o drigolion, ac yn debyg o gynyddu yn ddirfawr etto. Yr oedd yr hen gapel mor fychan a gwael yr olwg arno fel nas gallesid disgwyl cynnulleidfa iddo. Yn 1870, cymerodd Mr. Davies ddarn o dir cyfleus ar les am 99 o flynyddau, gyda darbodaeth fod hawl gan ymddiriedolwyr y capel i'w brynu pryd y byddo yn gyfleus iddynt am bedwar cant o bunau. Adeiladwyd yma gapel ardderchog, yn weith deuddeg cant o bunau, ac ysgoldy cyfleus y tu cefn iddo. Agorwyd ef yn nechreu y flwyddyn 1871, pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri Thomas Jones, W. Jones, J. Owen, a Dr. Rees, Abertawy, ac eraill. Mae Mr. Davies trwy ei ymdrechion diflino wedi talu o saith i wyth cant o bunau o'r ddyled. Mae yma eglwys wedi ei ffurfio, a thyrfa fawr yn gwrandaw yr efengyl bob Sabboth. Yn ol pob argoelion bydd yma achos cryf a llewyrchus yn fuan.

## CAPEL RHAGLUNIAETH.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Bishopston, yn Mrowyr. Dan yr amgylchiadau canlynol y dechreuwyd yr achos yma:—Darfu i Rees Jenkins, aelod ffyddlon a selog yn yr Ysgetty, rentu fferm yn y gymydogaeth hon. Gan nad oedd unrhyw wasanaeth crefyddol yn cael ei gynal yn yr ardal, ond yn Eglwys y Plwyf, ac nad oedd yno ddim i daro archwaeth dyn oedd wedi eistedd blynyddau dan weinidogaeth efengylaidd Lewis Rees a David Davies, Abertawy, darfu i Mr. Jenkins gymell ei weinidog, Mr. Davies, Abertawy, i ddyfod i bregethu yn awr ac eilwaith i'w dŷ ef. Saeson uniaith oedd ac ydyw trigolion yr ardal hon, ond yr oedd doniau toddedig Davies, Abertawy, hyd yn oed pan lyffetheirid hwy gan yr iaith Saesoneg, yn eu tynu yn lluoedd i'w wrandaw. Wrth weled y bobl mor awyddus i wrandaw, barnodd Mr. Davies a Mr. Jenkins fod yr ardal yn galw am sefydlu achos crefyddol ynddi, ac felly ymgymerasant ag adeiladu capel yma yn y flwyddyn 1805. Yn fuan wedi hyny ffurfiwyd yma eglwys, a neillduwyd Rees Jenkins i'r swydd o ddiacon, yr hon a lanwodd yn effeithiol hyd derfyn ei oes. Wedi agor y capel bu Mr. Evan Harries, Llanymddyfri, yn pregethu yma am ychydig amser. Dilynwyd ef gan Mr. David Morgan, aelod o Gwmllynfell. Yma yr urddwyd ef, ond nis gwyddom pa flwyddyn. Symudodd oddiyma i rywle yn Lloegr. Nid ydym yn gwybod dim yn ychwaneg o'i hanes. Tua y flwyddyn 1814, rhoddwyd galwad i Mr. William Saunders Davids, o athrofa Caerfyrddin. Er ei fod ef yn wr ieuangc gobeithiol iawn, ac yn debyg o fod yn fendith i'r ardal, etto gwelodd y Llywydd mawr yn dda ei alw ato ei hun gyda ei fod yn dechreu ei waith. Bu farw yn niwedd y flwyddyn 1816. Wedi marwolaeth Mr. Davids bu yr eglwys fechan hon heb yr un gweinidog sefydlog am fwy nag ugain mlynedd. Gweinidogion Newton a Park Mill, a phregethwyr cynorthwyol o Abertawy a'r gymydogaeth, fu yn ei chynorthwyo yn y blynyddau hyny. Yn nechreu y flwyddyn 1842, urddwyd Mr. John Williams. Cymerwyd rhan yn ngwaith yr urddiad gan Meistri D. Rees, Llanelli; J. Evans, Crwys; T. Rees, Siloa; W. Morris, Glandwr; W. Jones, Abertawy, ac eraill. Bu Mr. Williams yn ffyddlon iawn i ddyfod yma agos bob Sabboth am fwy na dwy-flynedd-ar-hugain, er ei fod yn byw tua deng milldir o'r ardal. Pan deimlodd fod llesgedd a henaint yn ei analluogi i ddyfod yma mor reolaidd ag yr arferai, rhoddodd ofal y lle i fyny, a dewiswyd Mr. T. Gammon yn ganlyniedydd iddo. Urddwyd Mr. Gammon yma

Digitized by Google

yn haf y flwyddyn 1865, pryd y gweinyddwyd gan Meistri W. Jones, R. Griffiths, a Dr. Rees, Abertawy; J. M. Evans, Newton, a W. J. Ford, Pilton Green. Lluosogodd y gynnulleidfa yn fawr wedi i Mr. Gammon ymsefydlu yma, ac adgyweiriwyd y capel.

Achos bychan a gwan yw hwn wedi bod o'r dechreuad, ac y mae wedi dyoddef yn fawr, ac etto yn parhau i ddyoddef, oddiwrth ragfarn yr Eglwyswyr. Ond er yn wan ac erlidiedig, y mae wedi byw o flwyddyn i flwyddyn, a chymaint o argoel byw arno yn awr ag erioed.

Yr unig bregethwr a godwyd yma er dechreuad yr achos, cyn belled ag y gwyddom ni, yw John Davies, yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Caerfyrddin.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

William Saunders Davids. Ganwyd ef yn ardal Ffaldybrenin, sir Gaerfyrddin, a derbyniwyd ef yn ieuangc iawn i'r eglwys yn Ffaldybrenin. Wedi gorphen ei amser yn athrofa Caerfyrddin, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Nghapel Rhagluniaeth, Browyr, lle yr urddwyd ef tua y flwyddyn 1814. Bêr iawn fu ei yrfa. Bu farw Rhagfyr 6ed, 1816, yn dair-ar-hugain oed, a chladdwyd ef wrth gapel Ebenezer, Abertawy. Yn awr, wedi helaethu y capel, y mae ei fedd ef, fel amryw feddau eraill, y tu fewn i'r muriau. Yn ddiweddar gosodwyd careg ar y mur a'r geiriau canlynol yn gerfiedig arni:—"Near this spot are burried the Rev. William Saunders Davids, of Providence Chapel, Gower, who died December 6th, 1816, aged 23 years. Also, Bridget, his wife, who died February 13th, 1831, aged 38 years. This stone was erected by their only child, the Rev. Thomas William Davids, of Colchester."

Dywedir fod W. S. Davids yn un o'r gwyr ieuangc prydferthaf o gorph a allesid weled. Yr oedd hefyd yn wr ieuangc rhyfeddol o allnog ei feddwl, ac yn ysgolhaig rhagorol. Bwriadai osod i fyny athrofa yn Abertawy at addysgu pregethwyr ieuaingc, a chyfeirir gyda chymeradwyaeth at y bwriad hwnw yn llythyr cymanfa y Mynyddbach yn 1815. Ond darfu i'w farwolaeth annisgwyliadwy ddyrysu ei holl amcanion ef a siomi disgwyliadau ei gyfeillion.

## ONLLWYN.

Mae y lle hwn ar ganol y mynydd yn agos i haner y ffordd rhwng Glyntawy a Glynnedd. Cyn cychwyn y gweithiau glo a haiarn yma nid oedd dros bump neu chwech o anedd-dai o fewn milldir i'r lle. Tua'r flwyddyn 1842, cymerodd Mr. John Williams, o'r Farteg, Mynwy, lês ar ddarn helaeth o'r mynydd, er mwyn gosod i fyny weithiau haiarn yma. Adeiladwyd amryw dai gweithwyr, a daeth llawer o bobl i fyw i'r lle. Gan fod Mr Williams, perchenog y gwaith, yn ddyn selog a rhagorol iawn fel crefyddwr, mynodd gychwyn achos crefyddol yma gyda chychwyniad y gwaith. Buwyd am ychydig amser yn addoli mewn ystafell eang uwchben marchdy Mr. Williams, ac yn 1846, adeiladwyd yma gapel helaeth, ac aeth pethau yn mlaen yn hyfryd nes y safodd y gwaith, ac y gwasgarwyd y bobl. Ailgychwynwyd y gwaith drachefn, a daeth ychydig o bobl yn ol i'r lle, ond ni fu dim llewyrch yma mwyach cyffelyb i'r hyn oedd tra yr

oedd y gwaith yn meddiant Mr. Williams. Mr. Evan Davies, o Libanus, Llanfabon, oedd y gweinidog sefydlog cyntaf yma. Bu ef yma o 1848 hyd 1855, pryd yr ymfudodd i'r America, lle y mae etto. Dilynwyd ef gan Mr. R. Lewis, mewn cysylltiad a Thy'nycoed a Bethlehem. Mr. Lewis fu y gweinidog yma o 1855 hyd ei farwolaeth yn 1866. Yn 1869, urddwyd Mr. D. Davies yma, yr hwn fuasai am flynyddau yn ysgolfeistr a phregethwr cynorthwyol yn yr ardal, ond aflwyddianus iawn y bu ef yma. Cyfododd anghydfod rhyngddo a'r bobl, yr hyn a derfynodd yn ei ymadawiad. Yn Ebrill, 1872, urddwyd Mr. David Morgan, o Brynaman, yn Hermon, Ystradfellte, i fod yn weinidog i'r eglwys hono ac i'r eglwys yn Onllwyn. Yr ydym yn hyderu y bydd llafur Mr. Morgan yn llwyddianus yma. Anrhefn a dyryswch y gwaith sydd wedi bod yn anfantais i'r achos yn y lle hwn. Os â y gwaith yn mlaen yn llewyrchus mae pob sail i obeithio y bydd yma achos crefyddol blodeuog.

## TROEDYRHIW, (Saesonig).

Yr oedd rhai o aelodau yr eglwys yn Market Square, Merthyr, yn son er's blynyddau am gael achos Saesonig yn y lle poblog a chynyddol hwn. Pan gynygiodd Mr. S. Morley, A.S., bum' mil o bunau at adeiladu capeli Saesonig yn Neheudir Cymru, darfu i Mr. W. Sharp, ac eraill, yn y lle hwn, anfon cais at Mr. Davies, Caerdydd, am gael cyfran o rodd Mr. Morley at adeiladu addoldy Saesonig yma, a chaniatawyd eu cais iddynt. Cafwyd tir mewn man nodedig o gyfleus, ac adeiladwyd yma gapel hynod o dlws, yr hwn a agorwyd yn Ebrill, 1871. Y mae yma eglwys wedi ei ffurfio, ac Ysgol Sabbothol neillduol o effeithiol. Oddiar agoriad y capel hyd fis Mai, 1872, buwyd yn ymddibynu ar weinidogaeth achlysurol. Yn awr y mae galwad wedi cael ei rhoddi i Mr. G. Drayton Bird, myfyriwr yn yr athrofa yn Nghaerodor, ac yntau wedi dechreu ei weinidogaeth yma dan amgylchiadau addawus iawn. Er nad yw yr eglwys ond ieuangc, a chymharol fechan o rif, y mae yn unol ac yn weithgar a'r gwrandawyr yn lluosog.

## SOAR, PENDERYN.

Mae plwyf Penderyn yn swydd Brycheiniog, ac yn cyffinio a rhan ogleddol o blwyf Aberdar, yn Hirwaun. Ffermwyr gan mwyaf yw y preswylwyr, ac y mae eu *stock* yn gynwysedig yn benaf mewn defaid, y rhai a borant yr haf ar y mynyddoedd o gylch, ond yn y gauaf a dynir i lawr i'r iseldir. Plwyf creigiog a mynyddog ydyw. Mae yn ymyl pentref Penderyn greigiau calch a llawer o weithio arnynt, a lluaws o weithwyr yn cael eu cynaliaeth oddiwrthynt. Mae yma ddau bentref bychan mewn rhyw chwarter milldir y naill i'r llall, a'r ddau yn ochr y ffordd sydd yn arwain o Hirwaun i Aberhonddu. Gelwir yr un nesaf i Hirwaun yn Pontbrendu, a'r llall wrth enw y plwyf. Mae gan y Bedyddwyr gapel yn y Pontbren er's blynyddau lawer. Yr Annibynwyr fu yn digaregu y ffordd iddynt. Bu llawer o bregethu gan yr Annibynwyr yma yn niwedd y ganrif o'r blaen a dechreu hon, ac yr oedd ganddynt luaws o aelodau ar hyd y plwyf. Yr oedd Howel, Pantycynfarth; William, Caerhowell; Richard, Bryncil; John Rees, Gellyffynon, a Jenkin Evan William, Hepste, yn aelodau yn Hermon, Ystradfellte.

Digitized by Google

Mae un yn fyw yn bresenol o aelodau Hermon a fu yn teithio o Pantycynfarth i Hermon, Ystradfellte, am lawer o amser. Enw y wraig dda hon yw Gwenllian Evans, Porth, Ystradfellte. Derbyniwyd hi yn aelod yn Hermon er's tua thriugain-a-phedair neu chwech o flynyddau yn ol. Yn Hermon y tybiai yr hen bobl dda hyny yr oedd y man lle "yr oedd yn rhaid addoli." Teithiasant lawer er hyny i gyfarfodydd gweddi a phregethu i wahanol ranau y plwyfydd cyfagos, a phrofasant o les mawr i achos y Gwaredwr yn y cylchoedd hyn pan yr oedd cyfleusderau a breintiau yn llai aml nag yn bresenol.

Medi, 1859, ffurfiwyd eglwys ar y Darenfoel, lle cyfagos i bentref uchaf Penderyn, mewn ty anedd, yr hwn a roddid yn rhad at wasanaeth yr achos. Cangen ydoedd o Hirwaun, ac aelodau o Nebo oedd yn dechreu yr achos. Cychwynwyd yr eglwys gan Mr. D. Thomas, Hermon, mewn cysylltiad a Mr. W. Williams, Hirwaun. Bu eglwys Nebo o gymorth mawr i'r eglwys fechan mewn mwy nag un ystyr, byddai rhai yn dyfod o Hirwaun i gynorthwyo mewn cyrddau gweddi a chyfeillachau crefyddol, a chymerodd yr eglwys swm o'r ddyled i ffwrdd pan adeiladwyd y capel. Enwau y rhai oeddynt yn cychwyn yr achos yn benaf yw y rhai hyn:—John Jenkins, Coedcaedu, ond yn bresenol Trebanog; efe oedd yn gweinyddu fel diacon; John, Simon, a William Richard, tri brawd o ardal Penygroes, Penfro. Bu y tri farw yn ieuangc o'r darfodedigaeth yn fuan ar ol dechreu yr achos. Edrychid arnynt fel bechgyn da a chrefyddol, a chafwyd colled fawr ar eu hol. Daeth Rees Williams, John Davies a'i briod; Evan Edwards, Darenfoel, fel yr adnabyddid ef, a Thomas Jenkins i roddi eu hysgwyddau o dan yr arch. Y pedwar diweddaf a dderbyniwyd yn aelodau yn y lle. Yn fuan ar ol dechreu daeth amryw chwiorydd yma hefyd megis Ann Edward, priod Evan Edward, a Mrs. Jenkins, priod John Jenkins, a Gwenllian James. Yr oedd y rhai hyn yn aelodau gweithgar a selog, ac y maent yn parhau felly hyd y dydd heddyw. Ar ol bod am amryw fisoedd ar y Darenfoel a golwg obeithiol ar yr achos, a chymeryd i ystyriaeth faint y lle a bychandra y boblogaeth; dechreuwyd siarad am gael capel. Ar ol tipyn o ymgynghori a phetruso, deuwyd o'r diwedd i'r penderfyniad mai gwell fyddai i adeiladu capel bychan at eu gwasanaeth. Cafwyd tir gan Mr. Morgans, Bodwigaid, am goron y flwyddyn a hono yn cael ei dychwelyd, yn ymyl y ffordd sydd yn arwain o Hirwaun i Aberhonddu, a thua dwy filldir o bellder o'r blaenaf. Gosodwyd y gareg sylfaen i lawr tua dechreu 1860, gan Mr. Allen, yr hwn a fu yn garedig ar lawer achlysur tuag at yr achos. Medi, 1860, agorwyd y capel, yr hwn a fesurai 30 troedfedd wrth 20 troedfedd. Costiodd rhwng pob peth 270p., ond y mae hyn yn cynwys ty anedd sydd mewn cysylltiad ag ef. Mae yn cynwys 180 o eisteddleoedd. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol yn yr agoriad:—Meistri J. Morgans, Cwmbach; D. Price, Siloah, Aberdar; W. Edwards, Aberdar; W. Williams, Hirwaun; J. Rees, Cwmaman; D. A. Jones, Treherbert; J. Mathews, Castellnedd; J. Stephens, Brychgoed, a D. Thomas, Hermon. Ar ol i Mr. D. Thomas, Hermon, ymadael i Abercanaid, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Evan M. Evans, Bethel, Aberdar, yr hwn a urddwyd Ionawr, 1866. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri W. Edwards, Aberdar; J. Morgans, Cwmbach; D. Price, Siloah, a S. Davies, Soar, Aberdar; W. Williams, Abercwmboy, a W. Williams, Hirwaun. Y mae Mr. Evans yn parhau i lafurio yma a'r achos yn myned rhagddo, er nas gellir disgwyl fod yr eglwys na'r gynnulleidfa yma yn lluosog.

Digitized by Google

Byddai cymeryd golwg helaeth a manwl ar gyfoeth ac adnoddau mwnawl y sir hon yn anghydweddol a'n hamcan, onide y mae yma faes toreithiog i olrhain iddo yn yr ystyr hono. Mae yma gyfoeth dihysbydd o haiarn a glo, ac nid oes ond ychydig wedi ei ddwyn allan mewn cydmariaeth i'r cyflawnder sydd ar ol. Mae dadblygiad anarferol wedi ei wneyd o adnoddau cymoedd a mynyddoedd y wlad hon, a hyny yn nghof y genhedlaeth bresenol. Ni thorid ar ddistawrwydd llawer cwm tawel yma ddengmlynedd-ar-hugain yn ol gan ddim ond brefiadau y defaid, ac udiadau cwn y bugeiliaid; ac yr oedd cyn-frodorion y sir yn ddigon hawdd i'w hadnabod yn mysg lluaws tref ar ddiwrnod marchnad wrth eu gwynebau llawn ac agored, a'r olwg wridcoch, iachus oedd arnynt, yn gystal ag oddiwrth y gwisgoedd gwlanog yn y rhai yr ymddilladent. Ond erbyn hyn y mae pob peth wedi newid. Ymwthia y glowyr a'r mwnwyr i galon y mynyddoedd, gan estyn eu llaw at y gallestr, a'u dymchwelyd o'r gwraidd; ac y mae trwst y melinau i'w clywed yn mhob cwm a cheunant, a fflamau y ffwrneisiau yn goleuo eu hawyr y nos; ac am y cyn-breswylwyr, y maent wedi colli eu neillduolrwydd cynenid yn llwyr, gan ymgymysgu a'r dyeithriaid o bob cenedl sydd wedi dyfod i'w plith i droi eu mynyddoedd llymion a'u cymoedd culion yn ffynonellau cyfoeth dirfawr. Mae dylifiad pobloedd wedi bod o holl siroedd Cymru i sir Forganwg am y can' mlynedd diweddaf, ac yn enwedig am yr haner can' mlynedd diweddaf, y mae y tywalltiad iddi wedi bod yn ddiatal, fel y dengys y cynydd dirfawr yn nifer y boblogaeth. O'r tair sir orllewinol Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin y mae ffrwd gryfaf yr ymfudiaeth wedi llifo yno, ac y mae hyny yn cyfrif am gynydd cyflym Annibyniaeth yn y sir, oblegid y mae yr Annibynwyr yn lluosog yn y siroedd hyny; heblaw fod y ffurflywodraeth gynnulleidfaol yn fwy cydnaws a syniadau gwerinol y dosbarth gweithiol.

Wrth adolygu hanes eglwysi y sir hon, gwelir fod Ymneillduaeth wedi cael gafael foreu yma, a bod yma nifer o eglwysi wedi eu ffurfio cyn diwedd yr haner gyntaf o'r unfed-ganrif-ar-bymtheg, ac yn yr haner olaf o'r ganrif hono ychwanegwyd llawer at eu nifer. Yr oedd pump-ar-hugain o'r Anghydffurfwyr, y rhai a fwriwyd allan o'u bywioliaethau yn 1662 gan Ddeddf Unffurfiaeth, yn y sir hon, y nifer fwyaf o lawer o ba rai oeddynt Annibynwyr, ac a weinyddasant, wedi eu bwrw allan, i'r eglwysi oedd eisioes wedi eu ffurfio, ac a ymroddasant hefyd, er holl gynddaredd yr erledigaeth, i sefydlu eglwysi newyddion. Gan ein bod eisioes wedi cyfeirio at "lafurus gariad" y gwyr enwog hyn yn nglyn ag eglwysi neillduol, nid oes achos ail grybwyll am danynt yma. Ychydig mewn cydmariaeth o eglwysi a ffurfiwyd yn y sir yma yn y ddeunawfed ganrif. Er mai yn wir mai yn y ganrif ddiweddaf y corpholwyd rhai o'r eglwysi mwyaf blodeuog a llewyrchus yn y sir, etto nid ydynt ond ychydig; ac oblegid hyny y mae genym le cryf i

gasglu fod llawer o ddifrawder a chysgadrwydd wedi dyfod i mewn yn y ganrif ddiweddaf, a chiliodd rhai eglwysi "oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist" at "athrawiaethau amryw a dyeithr," ond cadwyd y mwyafrif o honynt ar ganol llwybr barn. Yn y ganrif bresenol y mae y cynydd mwyaf o lawer wedi bod. Mae nifer yr eglwysi yma wedi dyblu yn y pum'-mlynedd-ar-hugain diweddaf. Yn ol "Ystadegaeth yr Enwad" a gyhoeddwyd yn 1871, yr oedd yn y sir yma 206 o gapeli, 182 o eglwysi, 131 o weinidogion, 72 o bregethwyr cynorthwyol, 26,159 o aelodau, 59,439 o wrandawyr yn cynwys yr aelodau, 26,766 yn nglyn a'r ysgolion Sabbothol; a chyfrifir gwerth eiddo yr enwad yn y sir mewn capeli, ysgoldai, a thai capeli yn 151,650p., ac yr oedd y ddyled oedd yn aros ar yr eiddo yn Awst, 1871 yn 29,442p. Mae ychydig gyfnewidiadau er hyny, rhai eglwysi newyddion wedi eu ffurfio, a chapeli wedi eu codi, ac y mae rhai brodyr anwyl a rifid yn mysg y gweinidogion y pryd hyny wedi eu casglu at eu tadau erbyn hyn, ond y mae eraill wedi eu hurddo, fel ar y cyfan y mae agwedd pethau yn well eleni na'r llynedd.

Y mae anhawsder mawr i gael allan neillduolion crefydd gymdeithasol yn Morganwg, oblegid y mae yn yr holl eglwysi y fath gymysgiad o ddyeithriaid a dyfodiaid o holl siroedd y Dywysogaeth. Yn yr eglwysi hyny lle y mae yr elfen frodorol yn gref iawn, y mae gwresawgrwydd yn nodwedd arbenig yn eu crefydd. Y mae pobl Morganwg yn gyffredinol o deimladau cynes, ac o ysbryd bywiog, ac felly yn hawdd eu cyffroi, ac y mae yr elfen hono yn amlwg ynddynt wrth addoli. Yr oedd chwareuon a llawenydd yn eu hynodi cyn eu darostyngiad gan yr efengyl, ac yr oedd moethusrwydd yn brofedigaeth iddynt, ac y mae yr un elfenau yn amlwg ynddynt wedi eu dychweliad. Nis gallesid disgwyl i'r bobl oedd yn llawn bywiogrwydd gyda'u chwareuon, addoli yn ddistaw, a chan eu bod wedi arfer rhoddi y fath foddineb i'w nwydau a'u teimladau, nis gallesid disgwyl i grefydd stoicaidd ddiwallu eu dymuniadau. Nid oes neb sydd yn gydnabyddus a'r rhanau hyny o Forganwg lle y mae yr elfen frodorol yn gref, na tharawyd ef yn rymus gan yr olwg hapus a welodd arnynt mewn cyfarfodydd hwylus, yn gwledda ar flasusfwyd o'r fath a garant, yn cael ei arlwyo iddynt gan un o'u hoff bregethwyr, y byddai ganddynt lawn ymddiried ynddo na roddai iddynt ddim ond a fyddai yn cytuno yn berffaith "ag iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb." Medrant fwynhau yr efengyl yn ardderchog, a gwledd i feddwl diragfarn oedd eu gweled mewn dagrau gorfoledd yn gwledda ar frasder gwirioneddau dwyfol. Nid ydym yn dyweyd mai crefydd oedd yr holl deimladau a amlygid, ond yr oedd miloedd o honynt yn gwir fwynhau diddanwch yr efengyl. Mae y bywiogrwydd yma yn lled gyffredinol trwy eglwysi Morganwg, ac y mae y rhai sydd yn dyfod o'r siroedd mwyaf tawel, ac o'r eglwysi mwyaf digynwrf yn cyfranogi i fesur o'r un ysbryd wedi

Digitized by Google

symud yma. Dichon fod gan y galwedigaethau beunyddiol a ddilynant rywbeth i'w wneyd a bywiogrwydd eu haddoliadau. Nis gellir disgwyl i ddynion sydd yn dilyn gorchwylion cyffrous trwy yr wythnos fod yn hollol ddigynwrf wrth addoli Duw yn ei dŷ, a phan y mae dynion yn arfer rhoddi gollyngiad i'w teimladau yn eu harferion cymdeithasol, nis gellir disgwyl iddynt gadw eu holl deimladau dan reolaeth hollol yn y gynnulleidfa. Profiad llawer un o honynt ydyw, "Canys ni allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom." Bu y gwresawgrwydd yma yn eu haddoliadau yn foddion i ddadblygu eu doniau. Yr ydym wedi cael achlysur i sylwi yn nglyn a mwy nag un o'r eglwysi mor nodedig oedd llawer a honynt mewn gweddi, ac un peth y mae yn sicr genym a fu yn gynorthwy i feithrin y cyfryw ddawn oedd gwres yr addoliadau. Tueddir ni i feddwl hefyd mai dyma sydd yn cyfrif, o leiaf dyma un peth sydd yn cyfrif am y ffaith fod cynifer o bregethwyr wedi codi yn eglwysi Morganwg. Nis gall hyny lai na bod wedi tynu sylw ein darllenwyr. Eglwysi gwresog bob amser yw y rhai sydd wedi bod yn fwyaf llwyddianus i feithrin doniau gweddi, ac i ddadblygu doniau pregethwrol dynion ieuaingc. Dichon fod y brwdfrydedd yma wedi ei orweithio mewn rhai amgylchiadau, a'i gario i'r fath eithafion sydd yn anghydweddol a defosiwn yr addoliad. Mae yn bosibl i'r wên siriol, a'r ysbryd llawen, a'r amen gynes, a'r diolch uchel gael eu cario mor bell nes colli y "gwylder a'r parchedig ofn" sydd yn gweddu i dŷ a gwaith yr Arglwydd. Ond tra yr ydym yn son fel hyn am deimladau cynes, yr ydym yn mhell o awgrymu mai mewn teimladau gwresog yn unig y mae eglwysi Morganwg yn nodedig. Ceir yma luaws mawr o'r dynion mwyaf gwybodus a deallgar a fedd ein cenedl. Maent yn ddarllenwyr manwl, ac wedi myfyrio yn helaeth holl ganghenau yr "athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb." Fel rheol, y dosbarth mwyaf meddylgar yn eglwysi amaethyddol ein gwlad sydd yn troi allan i weled y byd, ac y mae nifer luosog o'r rhai hyn yn Morganwg. Mae ganddynt lawer o gyfleusderau i ymddiddan a dadleu a'u gilydd ar wahanol byngciau, ac y mae hyny yn rhoddi symbyliad iddynt i ddarllen a myfyrio, ac wrth fod "llawer yn cyniweirio y mae gwybodaeth yn amlhau."

Mae yn ddrwg genym fod cynifer o'r eglwysi o bryd i bryd wedi eu blino gan ymrysonau ac ymbleidio, a bod hyd yn nod rai eglwysi wedi eu ffurfio mewn cynen a chenfigen. Nis gellir rhagflaenu blinderau fel hyn bob amser, ond y mae yn dda genym weled fod yr eglwysi yn graddol ymburo oddiwrth y pethau hyn. Bu llai o lawer o gynhenau yn yr ugain mlynedd diweddaf nag a arferai fod, ac am agos yr holl eglwysi a ffurfiwyd yn yr ysbaid yna y maent wedi eu ffurfio yn y teimladau goreu. Y mae yn arwydd er daioni fod cristionogion "yn dysgu goddef eu gilydd mewn cariad." Dichon fod y rhai oedd mewn awdurdod mewn blynyddau a aeth heibio yn cadw y llywodraeth yn rhy dỳn, ac yn glynu yn rhy gaeth wrth

reolau dynol, a chyfundebau yn ymyraeth yn ormodol ag achosion eglwysi a phersonau neillduol, ac yn sicr yr oedd yn yr eglwysi ddosbarth o ddynion afreolus, yn diystyru llywodraeth, a syniadau eithafol ganddynt am eu rhyddid a'u hawliau, ac yr oedd y dynion yma yn aml yn dyfod i wrthdarawiad anhapus, ac yn peri blinder i'r eglwysi, ond ychydig yn wir sydd o achos cwyno am y fath bethau yn awr, ac y mae eglwysi Morganwg mor ddibrofedigaeth yn hyn ac eglwysi unrhyw sir yn Nghymru. Ond nid yw ond ofer i ni geisio celu, gwelwyd agwedd wahanol ar bethau. Edrychai y gweinidogion yn ddrwgdybus ar y bobl, ac nid oedd gan y bobl yr ymddiried a ddylasai fod yn eu harweinwyr. Llenwid yr eglwysi gan ddyeithriaid a dyfodiaid, ac yr oedd pob un yn selog dros y trefniadau a welodd yn yr eglwys o'r lle y daeth, ac ni fynant roddi i fyny y naill i'r llall. Yr oedd cyffroadau gwladol yn llenwi y wlad, a'r ysbryd gwerinol hwnw nad arswydai gablu urddas wedi ymlusgo i'r eglwysi; ac yn aml byddai aelodau gwreiddiol yr eglwys a'r dyfodiaid o leoedd eraill yn methu asio a'u gilydd, fel y blinwyd amryw eglwysi gan gynhenau, ac mewn rhai o honynt torodd y drwgdeimlad allan yn rhwyg gweithredol. Ond nid oedd y drwgysbryd yn aros yn hir. Yr oedd cyflwr symudol y boblogaeth, a'r gwaed newydd a ddygid i mewn, a chynydd cyflym yr ardaloedd, fel yr oedd gwir angen am yr holl achosion newyddion a ffurfid, yn gwneyd fod y teimladau dolurus a gynyrchwyd ar y pryd yn iachau yn fuan, a phob eiddigedd yn cael ei anghofio. Yr oedd rhyw rai yn nyddiau Paul yn "pregethu Crist trwy genfigen, ac ymryson, gan feddwl dwyn mwy o flinder i'w rwymau" ef, ond yr oedd ef yn llawen fod Crist yn cael ei bregethu gan adael rhyngddynt hwy a'r dybenion oddiar ba rai yr oeddynt yn gwneyd hyny. Felly etto, y mae eglwysi wedi ei ffurfio mewn cenfigen, ac ymryson, ond y mae yr Arglwydd wedi goruwchreoli hyny i gyrhaedd ei amcanion goruchel ei hun, ac i helaethu terfynau ei deyrnas ar y ddaear.

Mae eglwysi sir Forganwg wedi bod yn flaenllaw, yn y blynyddoedd diweddaf yn enwedig, mewn haelioni a gweithgarwch gydag achosion cyhoeddus yr enwad, fel y gwelir oddiwrth adroddiadau ein hathrofau a'n cymdeithasau; ac y mae y lluaws mawr o gapeli ardderchog sydd trwy y sir, a'r weinidogaeth gref a gynhelir ynddynt yn profi nad ydynt yn esgeuluso gweithio gartref wrth ofalu am achosion cyffredinol.

Mae cynydd cyflym yr iaith Saesonig yn mhob cwr o'r sir yn gwneyd fod darparu cyfleusderau crefyddol yn yr iaith hono yn rhan arbenig o waith yr eglwysi. Yn nhrefi mwyaf y sir y mae y plant a fegir yn cael eu dwyn i fyny yn Saeson agos yn hollol, ac am yr holl wlad o Abertawy i Gaerdydd y mae y Saesoneg yn llawer mwy naturiol i'r plant na'r Gymraeg. Yn nghymoedd Taf a Dar a Rhondda y mae y boblogaeth Seisnig yn dra lluosog, fel mai ofer hollol ydyw disgwyl crefyddoli yr ardaloedd poblog hyn heb ddarparu moddion gras iddynt yn yr iaith a ddeallant, ac nid

Digitized by Google

gweinidogaeth wan ddiysbryd a wna y tro iddynt ychwaith, ond rhaid cael dynion a'u cydymdeimlad yn drwyadl a'r bobl yn mysg y rhai y maent yn llafurio, a chredwn na wna neb gystal a Chymry i weinidogaethu i'r Saeson yn Nghymru. Yn y sefyllfa drawsnewidiol y mae ein gwlad ynddi rhaid cael dynion o deimladau Cymreig i bregethu Seisnig, felly yr asir y ddwy genedl, ac y dygir hwy i deimlo mai un ydynt. Pa mor gryf bynag y gall ein teimlad Cymreig fod, a'n sel dros barhad a chadwraeth yr iaith Gymraeg, nid yw ond gwaith ofer i ni geisio sefyll o flaen llanw iaith ac arferion Seisnig sydd yn gorlifo dros ein gwlad, a'n doethineb ydyw gofalu am foddion crefyddol yn iaith y bobl rhag colli rhywbeth sydd yn bwysicach nag hyd yn nod iaith a chenedlgarwch, pa mor gysegredig bynag y gall hyny fod gan ein teimladau.

Gwyddom fod y dynion goreu perthynol i'n henwad yn teimlo, er yr holl haelioni a'r gweithgarwch sydd gyda chrefydd, a'r egni anarferol a ddangosir gan lawer o blaid rhinwedd a sancteiddrwydd, y byddai yn dda pe byddai safon moesoldeb yn uwch yn yr eglwysi, a phe byddai y llinell wahaniaethol rhwng y crefyddol a'r digrefydd yn llawer amlycach. Nid ydym yn amheu dim na ddeil ein haelodau gydmariaeth deg ag eiddo unrhyw enwad arall mewn uniondeb a gonestrwydd masnachol—mewn purdeb a sancteiddrwydd bywyd—ac mewn parch i dŷ Dduw a'i ordinhadau, ond nid wrthym ein hunain, nac wrth eraill, yr ydym i fesur ein hunain, ond wrth fywyd pur a didoledig yr Arglwydd Iesu Grist fel ei portreiadir ger ein bron gan y Pedwar Efengylwr, a'r "hwn sydd yn aros ynddo ef, dylai yntau felly rodio megis ag y rhodiodd efe."

Mae cawri mewn crefydd wedi bod yn Morganwg am fwy na dau can' mlynedd. Cyneuwyd y lamp ganddynt yn nhywyllwch nos anwybodaeth ac ofergoeledd, a methodd holl gorwyntoedd erledigaethau a'i diffodd, ac y mae yn dal ac yn gwasgar ei goleuni hyd ein dyddiau ni, a'n dyled ninau yw ei throsglwyddo yn mlaen i'r rhai a ddel ar ol. "Meddyliwch am eich blaenoriaid y rhai a draethasant i chwi air Duw, ffydd y rhai dilynwch gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwy;" a phan y mae ein meddyliau ar ysigo wrth weled y cedyrn yn cwympo, y mae un gwirionedd yn aros yn ffynon ddihysbydd o ddiddanwch—"Iesu Grist, ddoe, a heddyw, yr un, ac yn dragywydd."

Digitized by Google

# SIR FON.

Ynys yw y sir hon yn cael ei hamgylchynu gan y mor, ond nid yw culfor Menai, sydd yn ei rhanu ar y de oddiwrth sir Gaernarfon, mewn rhai manau, nemawr yn lletach na rhai o afonydd mwyaf Cymru. Mae ynys Mon yn 193,453 erw o arwynebedd, a llawer o'r tir yn ddaear nodedig o ffrwythlon. Y mae yma hefyd lawer o dir diffrwyth iawn. Mae cerrig calch a glo yn y ddaear yn ochr ddeheuol yr ynys, a mŵn copr, ac o bosibl fwnoedd eraill, yn y rhan ogleddol. Ar amaethyddiaeth a morwriaeth yn benaf yr ymddibyna y trigolion. Mae y boblogaeth yma wedi lleihau yn yr ugain mlynedd diweddaf. Yn 1851, yr oedd y nifer yn 57,327, yn 1861, yr oedd wedi dyfod i lawr i 54,609, ac yn 1871, nid oedd ond 50,919. Dichon mai y prif achos o leihad y boblogaeth ydyw, fod llai o ŷd yn cael ei gynyrchu yma yn awr nag ydoedd flynyddau yn ol, am fod magu anifeiliaid a diwallu marchnadoedd Liverpool a'r rhanau gweithfaol o sir Gaernarfon â chig ac ymenyn yn talu yn well i'r amaethwyr na chodi ŷd. Felly mae yma lawer llai o waith i weithwyr na phan yr oedd y tir yn cael ei drin yn fwy cyffredinol at ŷd.

Sir Fon oedd yr unig sir yn Nghymru yn yr hon ni chafwyd cymaint ag un gweinidog annghydffurfiol ar droad allan "y ddwy fil" yn 1662. Nid ydym yn sicr pa bryd y dechreuodd yr Ymneillduwyr bregethu yn yr ynys. Yn llawysgrifau Dr. John Evans, dywedir fod rhai o aelodau yr eglwys Ymneillduol yn sir Gaernarfon yn trigianu yn Mon yn 1715. Dichon mai meibion Thomas Pritchard, o'r Tygwyn yn agos i Langefni, y rhai a grybwyllir yn hanes Methodistiaeth, oeddynt. Nid ymddengys fod gwasanaeth crefyddol rheolaidd yn cael ei gynal gan un enwad o Ymneillduwyr yn yr ynys, nes i William Pritchard ddyfod yma tua'r flwyddyn 1742. O hyny allan, fel y dangosir yn hanes yr eglwysi, ni bu Mon heb bregethwyr a phregethu cyson hyd y dydd hwn. Yn awr nid oes un sir yn Nghymru yn fwy Ymneillduol, a dichon fod yma fwy o Ymneillduwyr o bob enwad mewn cyfartaledd i'r boblogaeth nag sydd mewn un sir Gymreig arall. Yr Annibynwyr yw yr enwad hynaf yn Mon, ond y Methodistiaid Calfinaidd yw yr enwad lluosocaf o lawer. Yr Annibynwyr yw yr ail enwad mewn lluosogrwydd; y Wesleyaid yw y trydydd, a'r Bedyddwyr yw y pedwerydd. Nifer y capeli Annibynol yn y sir hon yw 39. Nid yw Eglwyswyr Mon mewn cyferbyniad i'r Ymneillduwyr ond prin un o bob deg.



Digitized by Google

## RHOSYMEIRCH.

Dyma flaenffrwyth ynys Mon mewn crefydd. Yma dros dymor yr ymgasglai Ymneillduwyr Mon o bob enwad crefyddol, a hon yw mam holl eglwysi yr ynys. Yr oedd Ymneillduaeth wedi cychwyn yn holl siroedd Cymru flynyddoedd lawer cyn i Fon agor ei drws i grefydd efengylaidd, ac yn erbyn ystormydd cryfion o erledigaethau y llwyddwyd yn y diwedd i osod achos yr Arglwydd i fyny yn y wlad. Wrth ddarlunio sefyllfa Mon yn y flwyddyn 1730, dywed John Evans, o'r Bala :—"Yr oedd holl wlad Mon o un grefydd, nid oedd yno ddim pleidiau ond pawb yn cyrchu i Eglwys ei blwyf yn o ddyfal, ac yr oeddynt yn rhagori yn hyn ar drigolion llawer o barthau Cymru. Ond yr oeddynt yn gyffredin trwy y wlad yn dra thywyll, anystyriol, ac ofergoelus, a swn mawr yn eu plith am y tylwyth teg. Byddai son mawr am bregeth yn y Llan *os digwyddai hyny fod*, gan mor anaml y byddai yr offeiriaid yn pregethu."*

Mae yn ymddangos ddarfod rywbryd cyn y flwyddyn hono, i dri brawd, Howel, Harri, a Thomas, meibion Thomas Pritchard, o'r Tygwyn, yn agos i Langefni, trwy ryw foddion i gael eu dwyn i anesmwythder mawr am eu cyflwr ysbrydol, ac yr oedd ganddynt chwaer yr hon a ddeffrowyd fel hwythau am ei mater tragywyddol. Nid trwy bregethiad yr efengyl yr effeithiwyd y dwysder yma ar eu meddyliau, ond trwy ddarlleniad yr ysgrythyrau, a rhyw lyfrau crefyddol eraill y digwyddodd iddynt gael gafael arnynt. Nid oeddynt yn nodedig am eu doniau na'u gwybodaeth, ond trwy gywirdeb eu hamcan, a gweddusder eu rhodiad, a chrefyddolder eu hymddiddanion, ennillasant barch eu cydnabyddion, a bu eu difrifwch hwy yn foddion i ddwyn eraill i ystyried eu diwedd. Bu Howel Thomas fyw ar ei dir ei hun, Trefolwyn, a bu Harri Thomas byw yn Bwlchyferi, a Thomas Thomas yn Mhenyrallt, Heneglwys.† Nid yw yn ymddangos i'r brodyr da hyn wneyd un cynyg i gychwyn achos Ymneillduol yn Mon, ac aeth amryw flynyddoedd heibio wedi yr anesmwythder yma ar eu meddyliau hwy cyn i un ymosodiad cyhoeddus gael ei wneyd ar anghrefyddolder y wlad. Dywedir ddarfod i'r ddau flaenaf yn mhen blynyddoedd ar ol hyn gofrestru eu tai at bregethu, ac y mae hiliogaeth rhai o honynt yn glynu wrth yr Arglwydd yn Mon hyd y dydd heddyw. Dyfodiad William Pritchard i Fon a fu yr achlysur o gychwyniad Ymneillduaeth yn y wlad, a chan fod cysylltiad uniongyrchol rhyngddo ef a dygiad crefydd efengylaidd i'r ynys, yn gystal ag â dechreuad yr achos yn Rhosymeirch, nis gallwn wneyd dim yn well na dwyn ei hanes ef i mewn yma. Ganwyd William Pritchard yn Brynrhydd, yn mhlwyf Llanarmon, sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1702. Cafodd well addysg na'r rhan fwyaf o'i gydoeswyr, fel yr oedd yn medru Cymraeg a Saesneg, ac ychydig Lladin, ond treuliodd flynyddoedd boreu ei oes yn hollol anwybodus am ffordd iachawdwriaeth. Wedi priodi aeth i fyw i Glasfrynfawr, yn mhlwyf Llangybi. Yn ol arfer y wlad cyrchai i Eglwys y Plwyf y Sabboth, ac oddiyno i'r dafarn i dreulio gweddill y dydd mewn coegddigrifwch. Wedi bod felly un nos Sabboth yn hwy nag arferol yn y dafarn, cychwynodd tuag adref, ond yn fuan dyrysodd a chollodd y ffordd. Wedi edrych o'i gwmpas

* *Trysorfa.* Cyf. II. Tu dal. 438. † *Methodistiaeth Cymru.* Cyf I. Tu dal. 105.

canfu oleuni, a chyfeiriai ato, ac wedi myned yno, deallodd mai Pencaenewydd ydoedd, lle y preswyliai un Francis Evans. Hwyliodd yn ddioed i gychwyn tuag adref, ond cyn ei fod nepell oddiwrth y lle, dyrysodd eilwaith, ac wedi edrych o'i gwmpas a chanfod goleuni, a chyfeirio ato, cafodd mai wrth Pencaenewydd yr ydoedd drachefn. Gwnaeth y trydydd cynyg i fyned tuag adref, oblegid yr oedd y ffordd yn hollol gyfarwydd iddo, ond buan y gwelodd ei fod wedi dyrysu drachefn, ac nid oedd dim i'w wneyd ond edrych o'i gwmpas am oleuni, a chyfeirio ato, a gwelodd mai yn yr un man yr ydoedd y drydydd waith, ac yr oedd erbyn hyn yn dechreu dod i feddwl beth a allai hyn fod. Aeth at y ffenestr a gwelai Francis Evans a'r Bibl ar y bwrdd o'i flaen, a'i deulu o'i gylch, ac wedi clustymwrando, clywodd ef yn darllen y bumed-benod-ar-hugain yn Mathew, ac ar ol darllen, plygai ef a'i holl deulu ar eu gliniau i weddio. Arosodd William Pritchard i wrando y weddi, a synai glywed y gwr yn gweddio dros ei deulu a thros ei gymydogion annuwiol ar i'r Arglwydd eu dychwelyd o'u ffyrdd drygionus. Cychwynodd tuag adref, a chafodd ei lwybr yn glir o'i flaen, ond yr oedd yr amgylchiad wedi myned yn ddwfn at ei galon. Teimlai euogrwydd a chywilydd fod ganddo yntau deulu, ond nad oedd erioed wedi gweddio gyda hwy. Bu mewn ingoedd mawrion yn achos ei gyflwr dros ysbaid dwy flynedd, ac o'r diwedd cafodd "orphwysdra i'w enaid blinderog a llwythog," ac ymunodd ar eglwys Ymneillduol yn Mhwllheli. Gan fod William Pritchard yn ddyn mwy deallgar a gwybodus na'r rhan fwyaf o'i gymydogion, daeth yn lled fuan yn gyhoeddus fel crefyddwr, ac ni bu llygaid ellyllaidd yr erlidwyr yn hir cyn ei farcio allan fel nod i'w cynddaredd. Agorodd ei dŷ i dderbyn yr efengyl, ac yr oedd Glasfrynfawr yn "lletty fforddolion" i'r pregethwyr a ddeuai heibio. Daeth Lewis Rees, o Llanbrynmair, heibio, yr hwn a ddywedai am Howell Harries, yr hwn erbyn hyn oedd wedi dyfod allan "yn llawn gwreichion goleu, tanllyd, o Drefecca fach," a phan y daeth Howell Harries heibio, dywedodd wrth William Pritchard am Jenkyn Morgan, yr hwn oedd yn bregethwr tanllyd, ac yn cadw un o ysgolion cylchredol Madam Bevan. Llwyddwyd i gael Jenkyn Morgan i Lasfrynfawr i gadw ysgol, ac erbyn hyn dechreuwyd llunio chwedlau celwyddog ar William Pritchard a'r ysgolfeistr, gan haeru eu bod yn dysgu egwyddorion cyfeiliornus i'r plant, a bod llong o'r gwledydd tramor yn dyfod i ryw borthladd cyfagos, a'u bod yn bwriadu gwerthu y plant yn gaethweision fel nas gwelai eu rhieni mo honynt byth mwy. Taenai eraill eu bod am ddenu dynion o'u plaid i godi gwrthryfel yn y wlad, a haerai eraill mai ymgasglu yr oeddynt i fyw mewn annuwioldeb a thrythyllwch, a llawer o chwedlau celwyddog eraill.

Yr oedd William Pritchard wedi clywed am un Mr. John Owens, yr hwn oedd yn Ficer Llanor a Dyneio, ac yn ganghellwr Bangor, ei fod yn ddyn o ddoniau mwy na chyffredin, ond ei fod yn ymosodwr diarhed ar y "Pengryniaid," fel y gelwid yr Ymneillduwyr mewn ffordd o wawd, ac ar un Sabboth aeth i'w wrando yn Llanor. Pan ddaeth o'r Llan gofynwyd iddo gan ryw un beth oedd ei farn am y bregeth, ac atebodd yntau ei fod yn ei hystyried yn gyfeiliornus, ac yn wrthwyneb i air Duw. Gwysiwyd ef am hyn i ateb yn y llys eglwysig yn Mangor, a bu yr achos yn hongian am yn agos i dair blynedd, ac yntau yn methu cael neb i gymeryd ei blaid, ond o'r diwedd codwyd yr achos o'r llys eglwysig i Frawdlys y wlad, a chymerodd y Dadleuwr Williams, Tyfry, Mon, at ei amddiffyn, a phrof-

Digitized by Google

wyd trwy dystion credadwy, fod yr hyn a ddywedai William Pritchard am gyfeiliornadau y Canghellwr yn gywir, ac felly ennillodd y prawf. Dywedai y Dadleuwr Williams wrth William Pritchard y gallasai ddiswyddo y cang-hellydd, os ewyllysiai fyned yn mlaen a'r achos, ond nid oedd yn ei ysbryd i ddial ar ei wrthwynebwr; ond yr oedd yn nghalon ei wrthwynebwr i ddial arno ef, ac ni orphwysodd nes y llwyddodd trwy chwedlau celwyddog i'w droi allan o'i dyddyn, ac yn y flwyddyn 1742, bu raid i William Pritchard adael Glasfrynfawr. Symudodd i Blas Penmynydd, yn Mon, ac ennill mawr i'r Monwysiaid fu ei ymsefydliad yn eu plith, canys o'i symudiad ef yno y gellir dyddio cychwyniad Ymneillduaeth yn yr ynys. Yr oedd yr holl ardaloedd cylchynol wedi clywed son am dano cyn ei ddyfod, ei fod yn ddyn o ryw grefydd ryfedd, ac y byddai i bawb a wnai gyfeillach ag ef neu a'i deulu yn sicr o fyned allan o'u synwyrau. Edrychid arnynt fel pla yn y wlad, ac ymgadwai pawb oddiwrthynt fel pe buasai y gwahanglwyf arnynt, ac yn enwedig yr oedd urddasolion yr Eglwys Sefydledig yn pentyru arnynt bob dirmyg. Yr oedd yn y gymydogaeth ŵr yn byw, yr hwn oedd yn arfer masnachu llawer mewn defaid, ac anfonai ddeadelloedd o honynt i ŷd a gwair William Pritchard, ac ni feiddiai ef na'i weision eu troi allan. Dyoddefodd ef a'i deulu sarhad a cholled ddirfawr er mwyn enw yr Arglwydd Iesu. Yn nechreu y flwyddyn 1743, daeth Mr. Lewis Rees, o Lanbrynmair, i Blas Penmynydd, a phregethodd gerllaw yno, ac oedfa i'w chofio oedd yr oedfa hono. Ceir yr hanes canlynol am dani yn y *Crynodeb o hanes, dechreuad, a chynydd yr eglwysi Annibynol yn Mon, gan y Parch. W. Williams*, yr hwn a gyhoeddwyd gan gyfarfod chwarterol Mon, yn y flwyddyn 1863. Derbyniodd Mr. Williams yr hanes oddiwrth Mr. D. J. Beynon, Nantgarw, yr hwn a fu unwaith yn weinidog yn sir Fon. Yr oedd y ffaith yn adnabyddus o'r blaen, ond y mae y manylion a ganlyn yn gaffaeliad ychwanegol.

"Yn y flwyddyn 1814, pan oedd y diweddar Dr. Arthur Jones, Bangor, ar daith yn Mon, pregethodd ar ganol dydd mewn ty a elwir Hafod, yn mhlwyf Llangwyllog. Aeth Mr. Beynon yno i'w gyfarfod. Yr oedd hen ŵr yr Hafod yn gristion cywir, ac ar y pryd yn bur oedranus, ac yn hollol ddall. Yn ei ymddiddan a Mr. Jones, adroddodd mewn dull effeithiol iawn hanes ei droedigaeth. Cymerodd hyny le, meddai, o dan bregeth Lewis Rees, y waith gyntaf yr ymwelodd a Mon, yn ymyl y Minffordd, yn mhlwyf Penmynydd. Yna aeth yn mlaen a'r hanes fel y canlyn:—'Ni bu Saul o Tarsus erioed yn fwy penderfynol i garcharu dysgyblion Iesu nag oeddwn i a'r fintai erledigaethus oedd wedi ymgasglu gyda phastynau i gyfarfod y pengrwn oedd i ddyfod i bregethu yn Mhenmynydd. Yr oeddym oll wedi cytuno, os efe a bregethai y gwnaem ben am dano rhag blaen. Ac wedi iddo ddyfod yno, dechreuasom wasgu yn mlaen tuag ato, a phan aeth i ben hen gareg fawr yn ymyl yr hen dŷ hwnw, (Minffordd,) trodd ei wyneb tuag Arfon, a rhoddodd y penill hwnw i'w ganu gan ryw nifer fechan oedd yn ei ganlyn :—

'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
Lle daw i'm help 'wyllysgar,' &c.

Ninau yn tybied mai disgwyl gwyr arfog o fynyddoedd Arfon yr oedd ef, a giliasom ryw ychydig oddiwrtho. Ac wedi ymgynghori, penderfynodd rhai o honom gael clywed beth oedd gan y pengrwn i'w ddyweyd, ac felly, ni aethom dros y clawdd yr ochr isaf i'r ffordd, a cherddasom yn araf a distaw

Digitized by Google

yn nghysgod y clawdd, hyd nes y daethom ar gyfer y man lle y safai. Nid oedd ef yn gallu ein gweled ni, ac nid oeddym ninau am ei weled yntau, ond yr oeddym yn clywed pob gair a ddywedai mor eglur a phe buasem yn ei ymyl. O dan y bregeth hono, ar y diwrnod rhyfeddaf yn fy oes, y daethum i adnabod fy hun fel pechadur colledig, yn mhob man, ac ar pob dim, oddi allan i Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Diolch iddo byth am fy nghipio fel pentewyn o'r tân.' "

Yn ddioed ar ol hyn cofrestrodd William Pritchard y ty bychan a elwid Minffordd at bregethu, ac yn mis Ebrill, 1743, daeth un Benjamin Thomas, o'r Deheudir yma, gyda'r bwriad o bregethu, ond ymgasglodd torf o erlidwyr yno, a ffyn mawrion yn eu dwylaw, i aflonyddu y cyfarfod, ac yr oedd gan un o honynt ffon a phen haiarn iddi, wedi ei darparu yn bwrpasol gyda'r hon y bwriadai roddi ergyd marwol i'r pregethwr. Gyda fod Benjamin Thomas yn dechreu pregethu, taflodd un o'r dihirogod lestriaid mawr o ddwfr am ei ben, a dechreuasant ei guro a'u holl egni, ond gan ei fod yn ddyn cryf a bywiog, diangodd yn ddiogel o'u gafael heb gael nemawr niwed. Howel Thomas, un o'r tri brawd, at y rhai y cyfeiriasom, a gafodd yr ergyd a'r ffon a'r pen haiarn, a tharawyd ef mor egniol nes yr oedd ei waed yn llifo, a'r pen haiarn gan nerth yr ergyd a dorodd, ac a aeth dros y clawdd i'r cae. Dilynodd yr erlidwyr y trueiniaid diniwed ar hyd y ffordd, gan eu curo yn greulawn a'u ffyn mawrion, nes y dywedir fod eu gwaed yn ffrydio ar hyd y ffordd am bellder o fwy na chwarter milldir. Ond William Pritchard oedd prif nod eu cynddaredd. Ar un boreu Sabboth daeth yn agos i ddau-cant-a-haner at Blas Penmynydd, gan dybied fod pregethwr wedi dyfod yno er nos Sadwrn, ond fel y digwyddodd nid oedd yno yr un, ac yr oedd gwr y ty oddicartref. Nid oedd ond y wraig a'r forwyn gartref, ac yr oedd baban bychan deufis oed yn mreichiau y wraig, ac y mae yn hawdd dychmygu ei theimladau cyffrous wrth weled yr haid erlidgar fel gwaedgwn o gylch y ty, ac yn bytheirio y llwon mwyaf arswydus, ac yn dyweyd, "Yr ydym ni wedi dyfod yma i ladd dy bengrwn di a'i bregethwr." Ond yn eu cynddaredd wedi gweled eu bod wedi eu siomi, drylliasant yr holl ffenestri, a distrywiasant bresebau yr anifeiliaid, ac aethant i'r ysgubor gan gymysgu y ceirch a'r haidd yn nghyd, a thyngu y lladdent bwy bynag a'i gwrthwynebent. Ychydig cyn hyny, yr oedd un o'r gweision yn yr ysgubor, ddechreunos yn trwsio aradr, a bachgen yn dal y ganwyll iddo gael goleu, saethodd rhywun ergyd atynt, ond yn rhagluniaethol aeth rhyngddynt i'r pared, heb i un o honynt gael dim niwed. Teimlodd William Pritchard o'r diwedd fod y triniaethau creulawn hyn yn ormod i'w dyoddef, ac wedi cael cyfarwyddyd cyfreithiwr, yr hwn oedd yn ewyllysiwr da i grefydd, gwysiwyd yr erlidwyr i ymddangos o flaen y Brawdlys yn yr Amwythig, a bu raid i rai o honynt dalu yn llawn am y golled a wnaethant, a diangodd eraill rhag ofn carchar a chrogbren. Effeithiodd hyn i fesur i ostegu yr erlidiau cyhoeddus, ond yr oedd yr elyniaeth yn aros yr un, a llwyddasant i gael gan ei feistr tir ei droi allan o Blas Penmynydd. Yn y flwyddyn 1745, symudodd i Fodlewfawr, yn mhlwyf Llanddaniel, ond nid oedd pobl Llanddaniel yn ddim boneddigeiddiach na phobl Penmynydd; ac yn enwedig wrth fyned i a dychwelyd o farchnadoedd Caernarfon, ymosodid arno gan wyr eglwysig a'u cynffonwyr, fel un oedd yn hau heresiau ac ymbleidiau yn y wlad. Un tro fel yr oedd yn dyfod dros Fol-y-don, digwyddodd fod un o brif erlidwyr y wlad gydag ef, sef Mr. Morris, o ardal Paradwys. Dechreuodd

Digitized by Google

hwnw ffonodio ei geffyl ac yntau yn dra mileinig, gan dyngu a rhegu yn ysgeler, ac wedi dyfod i'r lan parhau i guro yr oedd Mr. Morris yn ddiarbed. Gofynodd William Pritchard iddo, "Paham yr ydych yn fy nghuro heb un achos?" Atebodd yntau, a'r ysbryd drwg lonaid ei safn, "Y mae hyny yn ormod o barch i ti." A chan nad oedd un tebygolrwydd i gael heddwch, rhuthrodd William Pritchard iddo, a thaflodd ef i lawr ar ei gefn, a llusgodd ef gerfydd ei draed ar hyd y gro, nes torchi ei ddillad a pheth o'i groen hefyd. Erbyn hyn yr oedd y gwr wedi newid ei dôn, ac yn gwaeddi yn groch am ei fywyd. Ond ni ddaeth neb i'w helpu, a deallwyd ar ol hyny nad gwr a oddefai bob sarhad ac anmharch oedd William Pritchard. Prynodd dyn yn Niwbwrch gyllell fawr gyda bwriad i'w ladd, a daeth i Fodlew i'r perwyl, ond erbyn iddo gyrhaedd yno cafodd William Pritchard yn cadw dyledswydd gyda'i deulu, fel yr arferai wneyd hwyr a boreu. Pan welodd y dyn hyny, dywedodd yn synedig, "Yn enw'r mawredd, os peth fel hyn sydd ganddo, ni wnaf fi ddim iddo." Wedi gweled nad oedd ei erlid a'i bastynu yn tycio, nid oedd dim i'w wneyd ond defnyddio yr un tric ag a ddefnyddiwyd o'r blaen i'w godi o Glasfrynfawr, ac o Blas Penmynydd, a llwyddodd yr un ystrywiau i'w godi o Fodlewfawr. Bu yn edrych yn gymylog arno am le i fyned iddo yn yr adeg yma, oblegid yr oedd tirfeistri erlidgar yn cyngreirio yn ei erbyn, ond "cyfododd goleuni i'r uniawn yn y tywyllwch." Clywodd fod lle yn rhydd gan William Bulkeley, Ysw., Bryndu, ac aeth ato i ymofyn y lle. Gofynodd y boneddwr iddo, "Pa beth yw yr achos dy fod yn colli dy le? A'i methu talu yr oeddit?" "Nage, nage," meddai yntau, "ond o achos fy marn am bethau crefyddol, ac am fy mod yn Ymneillduwr oddiwrth Eglwys Loegr." "Os nad oes rywbeth heblaw hyny yn dy erbyn, ti gei ddigon o dir genyf fi," ac felly fu. Rhoddodd brydles iddo ar Clwchdernog, yn mhlwyf Llanddeusant, ac yno bu weddill ei oes. Mae yn debyg iddo symud i Clwchdernog rywbryd yn 1749, oblegid yr ydym yn cael yn nydd-lyfr John Wesley, iddo fod yn pregethu yn nhy William Pritchard yn agos i Lanerchymedd, yn mis Mawrth, 1750, a thrachefn yn Ebrill yr un flwyddyn. Bu William Pritchard yn ffyddlon gyda chrefydd hyd derfyn ei yrfa. Ystyriai ei hun yn aelod hyd ei ddiwedd yn Mhwllheli, a chyrchai yno bob mis i gymundeb, er fod ganddo agos i bedwar ugain milldir rhwng myned a dychwelyd, ac ar y Sabbothau eraill elai i Rosymeirch, ac yr oedd ganddo dŷ bychan ar dir Clwchdernog, lle y cynelid gwasanaeth crefyddol, fel y cawn weled pan ddeuwn at hanes Llanddeusant. Er fod William Pritchard yn Annibynwr egwyddorol, etto yr oedd yn nodedig o ddiragfarn at enwadau eraill, ac yr oedd wedi cymdeithasu llawer, yn enwedig a phregethwyr y Methodistiaid, ac yr oedd ei dŷ yn agored i'w croesawu. Yn nechreu mis Ebrill, 1773, daliwyd ef gan glefyd trwm, ond dyoddefodd y cwbl yn dawel ac amyneddgar, ac un o'i ymadroddion diweddaf oedd— "Siglwch fy sail, siglwch fy sail os gellwch. Y mae cadarn sail Duw yn sefyll." Bu farw Mai 9fed, 1773, a rhoddwyd ei weddillion marwol i orwedd yn mynwent Rhosymeirch.

Yr ydym trwy y cofnodiad blaenorol o fywyd William Pritchard wedi parotoi y ffordd i roddi hanes yr achos yn Rhosymeirch. Er i'r ty bychan, Minffordd, yn Mhenmynydd, gael ei gofrestru at bregethu, nid yw yn debyg i eglwys gael ei ffurfio yno, ac nid oes genym sicrwydd am ddyddiad na lle ffurfiad yr eglwys. Yn *Hanes Eglwysi Mon*, dywedir mai mewn lle a elwir Caeaumon, yn nghanolbarth yr ynys, yn nhy un John Owen, y

Digitized by Google

ffurfiwyd yr eglwys, a hyny yn y flwyddyn 1744. Nis gallwn gael allan i sicrwydd a oedd Jenkyn Morgan gyda hwy ar gychwyniad yr achos. Dywedir iddo fod yma ugain mlynedd, os felly rhaid iddo ddyfod yma yr un adeg a William Pritchard, yn 1742, oblegid 1762 yw y dyddiad diweddaf yr ydym yn ei gael yma. Yn y flwyddyn 1746 yr urddwyd ef yn Watford, gerllaw Caerdydd, lle yr oedd yn aelod; ond gyda bwriad iddo weinidogaethu yn Mon yr urddwyd ef. Tebyg mai prinder gweinidogion yn y Gogledd a barodd i'r urddiad gymeryd lle yn Watford; ac am yr un rheswm yr urddwyd Lewis Rees yn Blaengwrach, i fod yn weinidog yn Llanbrynmair. Yr oedd Jenkyn Morgan yn derbyn cynorthwy o'r Trysorfwrdd Presbyteraidd, fel gweinidog Rhosymeirch, o'r flwyddyn 1747 hyd y flwyddyn 1762. Y mae yn sicr ei fod yma pan adeiladwyd y capel yn 1748, oblegid efe a brynodd dyddyn bychan, Ty'nyreithnen, lle yr adeiladwyd y capel. Y personau mwyaf blaenllaw gyda'r achos yn adeg codiad y capel oeddynt, John Hughes, Rhydyspardyn; John Roberts, Dafarn-newydd; William Pritchard, Bodlewfawr, a John Owen, Caeaumon. Bu Jenkyn Morgan ar daith trwy y Deheudir yn casglu at y capel, oblegid yr ydym yn cael yn llyfr eglwys Brynteg ei fod yno Ebrill 22ain, 1759, yn casglu at gapel yn ynys Mon, ac iddo gasglu 3p. 12s. 6c. Ac y mae yr ysgrifenydd wedi cofnodi fod y Sabboth hwnw yn Sabboth cymundeb. Nid ydym yn sicr a'i yma y bu farw, a'i ynte a ddychwelodd i'r De, ond y mae yn eglur i'w gysylltiad gweinidogaethol a'r lle derfynu tua'r flwyddyn 1762. Nis gallwn gael allan pwy a'i dilynodd yma yn uniongyrchol. Yr oedd yma un David Williams yn y flwyddyn 1766. Nis gwyddom ragor yn ei gylch na'i fod y flwyddyn hono wedi derbyn help o'r Trysorfwrdd Presbyteraidd, oblegid ei gysylltiad a Rhosymeirch. Yr oedd yma un Samuel Phillips yn y blynyddoedd o 1769 hyd 1771, ond nid oedd yn weinidog yma. Nid oedd yr un gweinidog yma yn y flwyddyn 1770, canys yr ydym yn cael llythyr oddiwrth yr eglwys at reolwyr y Bwrdd Cynnulleidfaol, wedi ei arwyddo gan John Owen a William Parry, diaconiaid, a William Thomas a John Hughes, henuriaid, yn erfyn am i Thomas Roberts, aelod o'r eglwys, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu, gael ei dderbyn i'r athrofa yn Abergavenny. Mae y llythyr wedi ei ddyddio Mawrth 8fed, 1770, ac y mae yn dyweyd yn bendant eu bod heb weinidog sefydlog. Bu un Evan Evans yma yn 1773. Yr oedd Abraham Tibbott yma yn 1775, a bu yma dros rai blynyddoedd ar ol hyny. Yn y flwyddyn 1784, daeth Mr. Benjamin Jones yma, yr hwn a fuasai am ychydig yn weinidog yn Mhencader. Cynyddodd yr achos yn fawr yn nhymor gweinidogaeth Mr. Jones, a bu yn dra ymdrechgar i sefydlu achosion mewn rhanau eraill o'r wlad. Bu dadl fawr yn yr eglwys yn yr adeg yma yn nghylch "Personau y Drindod," ac ysgrifenodd Mr. Jones lyfr bychan ar y pwngc, yr hwn a dynodd y ddadl i derfyniad buan. Cyfododd dadl arall cyn hir, ar gwestiwn mwy athronyddol, sef fod dyn yn gynwysedig o dair rhan, corph, ac enaid, ac ysbryd. Terfynwyd hono hefyd trwy fwyneidd-dra a chraffder Mr. Jones. Bu yma yn ddefnyddiol hyd y flwyddyn 1791, pryd y symudodd i Bwllheli, lle y treuliodd weddill ei oes. Yn *Hanes Eglwysi Mon*, dywedir fod yr eglwys wedi bod dan fugeiliaeth Mr. Zeccheus Davies a Mr. William Jones, a rhoddir ar ddeall iddynt fod yma o flaen Mr. B. Jones, ond nis gallwn weled pa fodd y gall hyny fod. Yr oedd Mr. B. Jones yn weinidog yma yr holl amser y bu Mr. William Jones yn Mon, oblegid yr ydym yn ei gael yn Machynlleth ar ol ei ddychweliad o Fon tua'r flwyddyn

Digitized by Google

1788. Dichon iddo fod yma yn cadw ysgol, ac yn cynorthwyo Mr. Jones gyda'r achos newydd a gychwynwyd ganddo yn Beaumaris. Am Mr. Z. Davies, tua'r flwyddyn 1793, yn mhen dwy flynedd wedi ymadawiad Mr. B. Jones i Bwllheli y daeth ef i Landdeusant i bregethu a chadw ysgol, ac yr oedd yno yn 1795, pan adeiladwyd y capel; ac yr ydym yn tueddu i feddwl na bu yr eglwys hon o gwbl dan ofal y naill na'r llall o honynt. Mae yn hawdd iawn cymysgu lleoedd, a phersonau, a dyddiadau wrth ymddibynu ar draddodiad. Mae yn ymddangos i Mr. Abraham Tibbott ddychwelyd yma o Lanuwchllyn wedi ymadawiad Mr. B. Jones, ond ni bu yma yn hir, canys mewn llythyr a ysgrifenodd at reolwyr y Trysorfwrdd Cynnulleidfaol Medi 30ain, 1795, dywed ei fod wedi rhoddi rhybudd i'r eglwys o'i fwriad i ymadael, a bod yn ei fryd weithiau i ymfudo o'i wlad. Yn y flwyddyn 1798, rhoddwyd galwad i Mr. Jonathan Powell, o Rhiadrwy, a bu ef yma yn llafurio am 23 mlynedd. Daliwyd ef gan afiechyd cyn diwedd ei oes fel y gorfodwyd ef i roddi ei weinidogaeth i fyny yn Hydref, 1821, a bu farw yn mis Gorphenaf, 1823.

Yn mhen blwyddyn wedi i Mr. Powell roddi y weinidogaeth i fyny, rhoddwyd galwad i Mr. David James, myfyriwr o athrofa Neuaddlwyd, ac urddwyd ef Ebrill 24ain, 1823. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Jones, Caernarfon; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Evans, Amlwch; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. O. Thomas, Llanfechell; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Roberts, Pentir, ac i'r eglwys gan Mr. T. Lewis, Pwllheli.* Llafuriodd Mr. James yma hyd oni orfodwyd ef gan nychdod a gwendid i roddi y weinidogaeth i fyny, ac er ei fod yn aros hyd yr awr hon, y mae wedi ei gwbl analluogi i gyflawni ei ddyledswyddau. Derbyniwyd ef ar Drysorfa yr Hen Weinidogion, ac y mae er's blynyddoedd wedi cyflwyno i fyny ei ofal eglwysig. Cyn diwedd y flwyddyn 1868, rhoddodd yr eglwys hon mewn cysylltiad a'r eglwys yn Sardis, Bodffordd, alwad i Mr. John R. Davies, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Ionawr 13eg, 1869. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. R. E. Williams, Beaumaris; holwyd y gweinidog gan Mr. W. Jones, Amlwch; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Griffith, Caergybi; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. M. D. Jones, Bala, ac i'r eglwysi gan Mr. E. Evans, Sciwen.† Yn ddioed wedi sefydliad Mr. Davies, adeiladwyd yma gapel newydd yn lle yr hen gapel a fu yn gyrchfan i'r llwythau dros gynifer o flynyddau, ac agorwyd ef yn nechreu y flwyddyn 1870. Er na bu yr eglwys yn Rhosymeirch erioed yn gryf a lluosog, etto gan mai dyma yw yr achos hynaf yn y sir, a bod llawer o rai rhagorol y ddaear wedi eu claddu yn y fynwent gerllaw, teimlir ymlyniad cryf gan lawer trwy y wlad at yr achos henafol hwn. Heblaw y rhai y crybwyllwyd eu henwau yn barod, bu yma lawer o wyr rhagorol, er nad oeddynt yn llenwi cylchoedd amlwg a chyhoeddus iawn gyda chrefydd. Yn mysg lluaws o gymeriadau nodedig a fu yn perthyn i'r eglwys yn Rhosymeirch, yr oedd William Thomas, Meillionen. Argyhoeddwyd ef mewn modd tra nodedig. Yr oedd merch iddo wedi priodi â Richard Jones, Maesmawr, Llanfechell, mab i John Owen, Caeaumon; ac ar un Sabboth gwresog yn yr haf aeth William Thomas i edrych am ei ferch yn y Maesmawr, ac wedi bod yn yr eglwys, fel y mae yn debyg, unodd a'r cwmni oedd ar y fynwent yn chwareu pel ar ol y gwasanaeth. Gan ei fod wedi chwysu wrth chwareu

* *Dysgedydd*, 1823. Tu dal. 187. † *Dysgedydd*, 1869. Tu dal. 63.

Digitized by Google

tynodd y cadach sidan coch oedd am ei wddf, a rhoddodd ef ar fedd-faen yno, ac wedi darfod y chwareu aeth gyda'r lleill i'r dafarn, ac wedi bod yno dros ychydig, cofiodd William Thomas am ei gadach sidan a adawsai ar gareg fedd yn y fynwent, ac wedi myned yno, cafodd hi fel y gadawsai hi, ond y foment y cydiodd ynddi, aeth yn lludw yn ei law. Aeth y peth fel saeth i'w feddwl, a dywedodd, "Fi haeddodd gael fy ysu, ac nid yr hen ffunan," ac o hyny allan dechreuodd ddilyn bywyd newydd, a bu yn aelod ffyddlon yn Rhosymeirch hyd ddydd ei farwolaeth. Arferai godi yn foreu iawn, yn enwedig ar y Sabbothau, i ddarllen a myfyrio; ac un boreu Sabboth, pan y cyfododd y teulu, cawsant ef ar ei luniau wrth hen faingc, a Bibl Peter Williams yn agored o'i flaen, *ac wedi marw!!* Mae yr hen Fibl hwnw ar gael yn awr, ac yn eiddo Mr. Owen Thomas, Neuadd, Cemaes.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Thomas Roberts. Ganwyd ef yn Ty'nllwyn, Trefdraeth. Aeth i athrofa Abergavenny yn 1770. Urddwyd ef yn Lloegr, lle y bu yn llafurio am lawer o flynyddau.

Lewis Powell. Mab y gweinidog, Mr. Jonathan Powell. Addysgwyd ef yn athrofa Wrecsam, ac urddwyd ef yn Llanrwst, ond aeth i'r Eglwys Sefydledig, a bu farw yn Llanon, sir Gaerfyrddin.

Benjamin Powell. Mab arall i'r gweinidog. Urddwyd ef yn y Wyddgrug. Aeth drosodd i'r America, ond bu farw yn ieuangc.

Hugh Thomas, Treforllwyn. Derbyniodd addysg dda yn moreu ei oes, a bwriadwyd ef i fod yn feddyg, ond dychwelodd adref a gweinyddodd fel goruchwyliwr tirol, ac fel meddyg yn achlysurol. Dywedir ei fod yn gristion cywir, ac yn rymus fel pregethwr. Bu yn pregethu am bymtheng mlynedd, a bu farw yn 1800, yn 42 oed.

Robert Hughes. Urddwyd ef i gynorthwyo yn y weinidogaeth yn y sir. Derbyniodd alwad o Saron a'r Bontnewydd, lle y bu dros rai blynyddoedd, ond y mae yn awr yn ei gymydogaeth enedigol, ac yn pregethu yn gynorthwyol lle y byddo angen ei wasanaeth.

Hugh Parry. Urddwyd ef yn Bagillt, ond y mae er's blynyddau wedi ymuno a'r Bedyddwyr.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Jenkyn Morgan. Nid oes genym un sicrwydd hollol am amser a lle genedigaeth y gweinidog rhagorol hwn; ond yr ydym yn barnu ar seiliau lled gedyrn mai yn ardal Caerphili, Morganwg, y ganwyd ac y magwyd ef, ac mai yn ysgol Mr. David Williams, Pwllypant, gweinidog yr eglwys yn y Watford, y derbyniodd ei addysg. Yr ydym hefyd yn barnu mai yn y Watford y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig, ac mai yno y dechreuodd bregethu. Tua y flwyddyn 1740, os nad yn gynt, anfonwyd ef i'r Gogledd i gadw un o ysgolion rhad Mr. Griffith Jones, Llanddowror. Agorodd ysgol yn agos i'r Bala, a bu yno am ryw faint o amser yn ddefnyddiol iawn fel ysgolfeistr a phregethwr. Darfu i Mr. Lewis Rees, ar un o'i ymweliadau a Phwllheli, grybwyll ei enw fel dyn rhagorol yn y cymeriad o ysgolfeistr a phregethwr. Cynhyrfodd hyny awydd yn y bobl yno am sicrhau ei wasanaeth yn Lleyn. Aeth hen ŵr duwiol o'r enw Francis Evans yn ei unswydd i ardal y Bala i ddeisyf arno fyned gydag ef i sir Gaernarfon, a llwyddodd i gael ganddo addaw myned. Yr oedd William



Digitized by Google

Pritchard, o Lasfrynfawr, er ei fod wedi cael ei ddychwelyd at yr Arglwydd, hyd yn hyn heb uno yn weithredol a'r Ymneillduwyr, ond yn cwbl gydymdeimlo a hwy yn eu holl weithrediadau. Barnodd Francis Evans, gan fod Jenkyn Morgan yn cadw ysgol dan Mr. G. Jones, person, Llanddowror, y gallesid llwyddo i gael eglwys y plwyf iddo at gadw yr ysgol yn Lleyn, ond anfon William Pritchard at y person i'w gofyn. Aeth W. Pritchard ato, ond gomeddodd ei gais iddo am y drwgdybiai fod yr ysgolfeistr yn un o'r crefyddwyr. "Wel," ebai Pritchard wrth y person, "os oes genych chwi awdurdod ar eich eglwys, y mae genyf finau awdurdod ar fy nghegin; efe a gaiff gadw yr ysgol yno," ac felly y bu. Daeth lluaws i'r ysgol o blant a dynion mewn oed, a bu yr ysgolfeistr yn ddiwyd iawn yn eu dysgu a'u hegwyddori; a byddai hefyd yn fynych yn pregethu yno. Un tro daeth yno ddyn o'r enw Richard Dafydd i'r cyfarfod, a cherrig yn ei logell, gyda bwriad i daro y pregethwr, ond tarawyd ef yn effeithiol gan Ysbryd Duw. Ymunodd yn fuan a'r crefyddwyr erlidiedig, a bu am flynyddau cyn ei farwolaeth yn bregethwr defnyddiol. Yn mhen rhyw faint o amser wedi iddo ymsefydlu yn Lleyn, priododd Jenkyn Morgan un o ferched y Tyddynmawr. Wedi i'w noddwr, William Pritchard, gael ei ymlid gan erledigaeth o sir Gaernarfon i Fon, aeth yntau ar ei ol yno; ac wedi llwyddo i gasglu eglwys fechan, urddwyd ef yn weinidog iddi. Yn y Watford, Morganwg, ei fam-eglwys, yr urddwyd ef. Cymerodd yr urddiad le yn mis Mehefin, 1746, pryd y gweinyddwyd gan Meistri Lewis Rees, Edmund Jones, ac eraill.* Wedi ei urddiad dychwelodd i Fon, ac yn y flwyddyn 1748, fel y gwelsom, adeiladodd gapel Rhosymeirch. Bu yn gweinidogaethu yno, yn Amlwch, a manau eraill yn Mon, hyd derfyn ei oes. Bu farw naill ai yn niwedd y flwyddyn 1762, neu yn gynar yn y flwyddyn ganlynol. Yr ydym wedi methu cael allan pa le y claddwyd ef. Mae yn debyg ei fod o bump i saith-a-deugain oed pan y bu farw. Dyoddefodd lawer o erledigaeth trwy holl ystod ei fywyd gweinidogaethol. Bu yn cael ei erlyn amryw weithiau yn Llys Esgobol Bangor.† Yr oedd Jenkyn Morgan yn bregethwr rhyfeddol o effeithiol ac arddeledig. Cafodd oedfaon nodedig a bythgofus. Adroddai yr hybarch John Evans o'r Bala, hanes un o honynt, a chyhoeddodd Mr. Charles o'r Bala, ei adroddiad yn yr hen *Drysorfa*, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Yr oedd, fel y byddai yn fynych yn y wlad y pryd hwnw, 'noswaith ganu' gan ieuengctyd y gymydogaeth, yn ysgubor Ty'nynant, gerllaw y Bala, yn cael ei chynal bob nos Sadwrn. Yr oedd yr ysgubor dan yr un tô a'r ty. Cafodd hen wr, un o'r Ymneillduwyr, yn ddwys ar ei feddwl roi cais am genad i Jenkyn Morgan ddyfod i'r ty, yn ymyl yr ysgubor, i bregethu; a hyny ar un o'r nosweithiau, ac ar yr un pryd ag y byddai y bobl ieuaingc yn yr ysgubor wrth eu dawns. Yn rhyw fodd cenad a gafwyd; a myned a wnaeth Jenkyn Morgan, a'r hen Ymneillduwr gydag ef, at y ty. Daethant yno erbyn bod y bobl ieuaingc wedi dyfod yn nghyd. Aeth Jenkyn i'r ty, a Duw Goruchaf gydag ef, ac a ddechreuodd ar ei orchwyl. Aethant hwythau, a'u telynwr, a'u plaid yn nghyd (Satan a feddylir), at eu gorchwyl hwythau i'r ysgubor. Gan fod y ty a'r ysgubor mor gyfagos, yr oedd swn y naill blaid yn cyrhaedd y llall. Dechreuodd y bobl ieuaingc gyda mawrawch ac egni ar eu dawns, gan feddwl boddi y sain, a llwyr orchfygu y gwaith oedd yn y ty; ond llaw yr Arglwydd a fu arnynt mewn ffordd

* Llawysgrifau Thomas Morgan, Henllan. † *Thompson's MSS.*

Digitized by Google

ddirgelaidd, fel na chawsant na hwyl na thymer ar eu dawns, er eu holl ymgais a'u hymegniad. Yr oedd Jenkyn erbyn hyn er's tro wedi ymaflyd yn ei waith, ac yn cael ei gynorthwyo ynddo. Un o'r dawnswyr a giliodd oddiwrth ei gymdeithion at ddrws y ty i glust-ymwrandaw; ac wrth wrando, glynodd y gair ynddo, fel y bu raid iddo dynu yn mlaen i'r ty. Yn y man, un arall a'i canlynodd, a thrydydd, a phedwerydd, a phumed, nes y daethant o'r diwedd oll i'r ty, a'r hen delynwr hefyd; a gorfu arnynt ymlonyddu i wrandaw. Tra yr oeddynt yn gwrando, syrthiodd y fath ysbryd grymus o argyhoeddiad arnynt oll, y telynwr a chwbl, nes y llefasant allan, fel y tair mil yn Jerusalem gynt, (Act. ii. 37), os nid yn yr un geiriau, etto mewn geiriau ag oedd yn arwyddo yr un dychryn ac ofn yn achos eu heneidiau. Wedi yr oedfa aethant allan dan lefain felly, ar hyd y ffyrdd a'r caeau, tua'u cartrefydd. Myfi a adwaenwn bump o'r bobl hyn, a gawsant eu galw yn yr oedfa hon, y rhai a barhausant yn syml a sylweddol yn eu proffes grefyddol hyd ddydd eu marwolaeth." Nid oedd yr oedfa hon ond un o lawer o rai cyffelyb a gawsai y dyn da hwn yn ystod ei oes. Yr ydym wedi taro wrth lawer o grybwylliadau parchus am enw Jenkyn Morgan, mewn hen lawysgrifau, ond yn anffodus nid oes genym ddim ychwaneg o ddefnyddiau i roddi hanes helaethach o'i fywyd, ei ddyoddefiadau, a'i lwyddiant. Ymneillduwr oedd ef o'r dechreuad, ond iddo fod am dymor, fel llawer o wyr ieuaingc eraill o'r cynnulleidfaoedd Ymneillduol, yn cadw ysgol dan Mr. G. Jones, Llanddowror.

Abraham Tibbott. Ganwyd ef yn Llanbrynmair yn y flwyddyn 1752, a derbyniwyd ef pan yn ieuangc yn aelod o'r eglwys oedd dan ofal ei ewythr Mr. Richard Tibbott. Cafodd addysg dda, a gwnaeth y defnydd goreu o'i fanteision, a chyfrifid ef yn ysgolhaig rhagorol. Bu yn gweinidogaethu yn olynol yn Rhosymeirch, yn Llanuwchllyn, ac wedi hyny yn Rhosymeirch, ac yn y Cymer a Llangynwyd, Morganwg, a dychwelodd drachefn i Fon yn niwedd ei oes, er nad ydym yn sicr fod unrhyw eglwys dan ei ofal yn ei flynyddoedd diweddaf. Yr oedd yn "ŵr cadarn nerthol," a gosodai ei arswyd ar bob erlidiwr a fynai ymosod arno. Pan oedd ef, ac eraill, yn dyfod o gapel Llanfyllin unwaith, safai yr erlidwyr yn un rhes ar y ffordd i'w hatal yn mlaen. Ofnai ei gyfeillion, a safent yn ol; "Dewch, dewch yn mlaen," ebe Mr. Tibbott, a chyda hyny ymaflai yn ngyddfau y ddau agosaf atto o'r erlidwyr gan eu dymchwel ar unwaith un i bob ffos oedd o bob tu yr heol, a gwnaeth ffordd rydd i'w gyfeillion fyned trwodd yn ddiangol. Dro arall pan y pregethai yn Nghaernarfon, ceisiai dyn ymwthio yn mlaen trwy y dyrfa i ddyfod i'w anmharchu. "Gadewch le iddo ddyfod yn mlaen, os oes arno eisiau rhywbeth genyf fi." Ar hyny ciliodd y bobl o'r ffordd i wneyd lle iddo, ond llwfrhaodd calon y dyn fel nad oedd nerth ynddo mwyach i ymosod, ac aeth ymaith yn llechwraidd; a chyda hyny dywedai Mr. Tibbott, "un nôd oedd ar ei dalcen yn dyfod yma, ond pe daethai yn mlaen cawsai ddau i fyned gydag ef adref." Digon helbulus fu ei yrfa weinidogaethol, ac er ei holl nerth a'i gryfder corphorol, bu y ddiod gadarn yn fagl iddo, ac ymgymysgai yn ormodol mewn cyfeillachau oedd yn anghydweddol ag urddas ei swydd; ond er ei holl golliadau, cyfrifid ef yn ddyn gonest a diniwed, ac yr oedd y rhai a'i hadwaenai oreu yn coleddu syniadau tyner iawn am dano. Yr oedd yn efengylaidd ei olygiadau ar byngciau mawrion crefydd, ac yn ddisigl yn ei ymlyniad wrth yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Bu farw yn ddisymwth ar foreu Sabboth wrth fyned at ei gyhoeddiad i Landdeusant, a chladdwyd ef y tu

fewn i furiau yr hen gapel yn Rhosymeirch; ac yr oedd wedi ei gerfio ar *plate* o dan yr awrlais yno—"Tu fewn i'r capel hwn y gorwedd gweddillion y Parch. Abraham Tibbott, yr hwn a fu farw ar y 19eg o Fehefin, 1808. yn 56 oed.

JONATHAN POWELL. Ganwyd ef yn Defynog, sir Frycheiniog, yn y flwyddyn 1764. Symudodd oddiyno i Godrerhos, ac wedi bod yn pregethu am dymor cafodd alwad o Rhiadrwy, ac urddwyd ef yno yn y flwyddyn 1790. Llafuriodd yno yn galed am saith mlynedd, gan ymladd a thlodi ac angen. Cyfododd dadl dduwinyddol yn yr eglwys, ac yr oedd yno rai personau o olygiadau Sebelaidd, y rhai y mynai Mr. Powell eu diarddel, ond oblegid fod mwyafrif yr eglwys yn wrthwynebol i hyny, aeth pethau yn anghysurus, yr hyn a derfynodd yn ei ymadawiad. Daeth i sir Fon yn y flwyddyn 1798 i weinidogaethu yn Rhosymeirch a'r eglwysi cysylltiedig, nes y bu raid iddo gan wendid a llesgedd roddi y weinidogaeth i fyny. Yr oedd Mr. Powell yn ddyn o fywyd diargyhoedd, o olygiadau efengylaidd, ac o alluoedd cryfion; ond yr oedd ei dymer yn sarug ac afrywiog, yr hyn a filwriai i fesur mawr yn erbyn ei lwyddiant fel gweinidog. Nid oedd terfyn ar ei ffraethineb, ac yn aml dywedai eiriau fel brath cleddyf. Cymerer yr hyn a ganlyn fel engreifftiau o'r hyn ydoedd. Wrth bregethu ar ddyledswydd yr eglwys yn urddiad Mr. D. Beynon, dywedai am iddynt ofalu am ei gynaliaeth, a chan droi at y gweinidog, dywedai "ie, frawd ieuangc, beth bynag fydd ar ol i chwi, chwi gewch ddigon o waith i'ch tafod, *ond wn i beth am eich danedd.*" Un boreu Sabboth pan yr oedd yn myned at ei gyhoeddiad yn Rhosymeirch, digwyddodd fod Mr. Christmas Evans yn bedyddio yn afon y Pandy, gerllaw Llangefni; ac ymddengys fod Mr. Evans mewn hwyl anghyffredin yn gwaeddi "Yn mlaen yr elo yr ail fedydd." Wedi myned i'r capel cyfeiriodd at y peth glywodd ar ei ffordd, ac am y pregethwr yn yr afon yn gwaeddi "yn mlaen yr elo yr ail fedydd." "Dywedaf finau," meddai, "*yn mlaen yr elo yr ail eni.*" Unwaith mewn cymdeithasfa yn Llangefni, diolchai Robert Roberts o Glynog, "fod gwyneb y wlad arnynt hwy yr hen Fethodistiaid." Y Sabboth canlynol, cyfeiriai Mr. Powell at hyny, a dywedai, "Bobl anwyl, beth wnewch chwi a gwyneb gwlad heb wyneb Duw." Ond o dan yr holl erwinder a'r sarugrwydd oedd ar y wyneb, yr oedd ysbryd tyner a charedig, a theimlad crefyddol dwys. Yn ei gystudd diweddaf yr oedd ei ymddiried yn yr Arglwydd yn dal yn ddiysgog. Pan y gofynodd ei wraig iddo, a oedd arno ofn marw; dywedodd, "Mae arnaf ofn i'r gelyn gael ei oddef i wneyd y porth yn dywyll; ond yr wyf wedi rhoddi fy enaid i'w gadw i'r Hwn sydd abl i gadw yr hyn a roddir ato erbyn y dydd hwnw. Nid pridd gwlyb na chlai tomlyd sydd genyf o dan fy nhraed, ond craig yr oesoedd."* Bu farw Gorphenaf 6ed, 1823, yn 59 oed, a rhoddwyd ef i orwedd yn mynwent Rhosymeirch; ac yr oedd amryw o weinidogion Mon ac Arfon yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth angladdol.

## CAPEL MAWR.

Mae y Capel Mawr yn mhlwyf Llangristiolus, ac adnabyddir ef yn aml wrth yr enw Capel Paradwys. Bu cyfarfodydd crefyddol yn cael eu cynal

* *Dysgedydd*, 1823. Tu dal. 258.

Digitized by Google

yn yr ardal hon yn Ceryg-gwyddel, yn mhlwyf Cerygceinwen, ac yn y Tygwyn, yn mhlwyf Llangadwaladr, a dywedir fod y lleoedd hyny wedi eu cofrestru at bregethu. Yn ol cofnodion Llys Bangor, cawn fod lle o'r enw Bleddyncynog, yn mhlwyf Llangristiolus, wedi ei gofrestru gan un Henry Maurice, Chwefror 17eg, 1774. Henry Maurice oedd perchenog y lle, ac yr oedd yn byw yn y fferm a elwir Paradwys. Ffurfiwyd eglwys yma, yn un o'r manau uchod, o gylch y flwyddyn 1763, ac yr oedd y personau canlynol yn mysg y rhai a gychwynasant yr achos:—William Parry, Tygwyn; Hugh Williams, College, Llangadwaladr; Owen Jones, Ceryg-gwyddel, a'i wraig; Dafydd Abraham, y Llog; Owen Roberts, Ty'nypwll; William Jones, Tyrhyswyn; Thomas Parry, Tanylan, (Ceryg-engan, wedi hyny); John Jones, Tyddyndomas, a Mrs. Thomas, Tanylan. Cyn hir ymunodd amryw eraill a'r eglwys fechan, ac yn eu plith Mrs. Hughes, Plascoch, yr hon a ystyrid yn wraig gyfrifol a rhinweddol. Yr oedd hi yn ferch i William Pritchard, Clwchdernog, a hi oedd yr unig un o'i ferched a ymunodd a'r Annibynwyr. Unodd y lleill a'r Methodistiaid Calfinaidd. Ar yr achlysur o'i marwolaeth, pregethodd Mr. Jonathan Powell oddiar y geiriau, "Llawer merch a weithiodd yn rymus, ond tydi a ragoraist arnynt oll." Awgrymai fod ei chwiorydd wedi gwneyd yn dda, ond ei bod hi wedi rhagori arnynt oll. Bu pregethu yn Tygwyn a Ceryg-gwyddel am ysbaid deng mlynedd cyn codi y capel. Yr oedd William Parry, Tygwyn, yn pregethu yn achlysurol, ac efe a John Owen, Caeaumon, ac Owen Jones, Ceryg-gwyddel, a Thomas Parry, Tanylan, oedd a'r llaw flaenaf yn adeiladu y capel. Yr oedd Mr. John Thomas, Tanylan, er nad oedd yn aelod eglwysig, yn garedig iawn i'r achos, ac efe oedd arolygydd adeiladiad y capel. Yr oedd mewn amgylchiadau bydol cysurus, a'i wraig yn nodedig am ei duwioldeb. Bu hi farw Ebrill 24ain, 1783, yn 47 oed. Yr oedd John Thomas, Tanylan, yn un o 54 o bersonau a foddodd wrth ddychwelyd dros yr afon Menai o Gaernarfon, Rhagfyr 5ed, 1785. Ni achubwyd ond un allan o 55 o bersonau. Gadawodd William Jones, Tyrhyswyn, a enwyd, 80p. i'w defnyddio yn y modd goreu at wasanaeth yr achos yn y lle, a chodwyd 100p. atynt a phrynwyd Tyrhyswyn, ac y mae y tyddyn yn eiddo yr eglwys; ond y mae y 100p. a godwyd yn aros byth heb ei dalu. Nid oes genym ddim neillduol i'w gofnodi am hanes crefydd yn y Capel Mawr, o adeg ei adeiladiad tua'r flwyddyn 1773 hyd 1812, pan yr adgyweiriwyd ef, ac wedi hyny yn 1834, adeiladwyd ef yn dŷ llawer helaethach. Bu y lle hwn mewn cysylltiad gweinidogaethol a Rhosymeirch hyd derfyn gweinidogaeth Mr. James yn y flwyddyn 1866. Yn y flwyddyn 1869, unodd yr eglwys hon a'r eglwys yn Hermon, Llangadwaladr, i roddi galwad i Mr. David C. Rees, Talybont, sir Aberteifi, a derbyniodd y gwahoddiad, a dechreuodd ei weinidogaeth yma Awst 15fed, y flwyddyn hono, ac y mae yn parhau i lafurio yma. Yn ddioed wedi ei sefydliad yma, penderfynwyd cael capel newydd yma, ac wedi penderfynu ei gael nid oedwyd dim cyn dechreu arno. Cafwyd cynllun gan Mr. Richard G. Thomas, Menai Bridge, yr hwn a fawr gymeradwywyd, ac yn Ebrill, 1870, tynwyd yr hen gapel i lawr, ac agorwyd y capel newydd Hydref 24ain a'r 25ain, 1871. Costiodd, a chyfrif y cludiad, 1,300p., ac nid oes yn aros o ddyled ond 600p., a chyfrif y 100p. sydd ar Tyrhyswyn, ac y mae y tyddyn yn werth agos y swm sydd arno ef a'r capel. Ni bydd y ddyled yn hir cyn cael ei llwyr dalu, canys y mae gan y bobl galon i weithio.

Digitized by Google

## BODFFORDD.

Cychwynwyd yr achos yma gan ychydig o aelodau Rhosymeirch tua'r flwyddyn 1810, mewn lle a elwir Hendy, a buwyd yn addoli yn y bwthyn llwyd hwnw am bedair blynedd. Yr oedd Mr. Owen Thomas, Carrog, yn enedigol o'r ardal yma, ac yn aelod yn Rhosymeirch, ac efe yn benaf a ofalai am yr achos bychan yma hyd 1822, pryd y cymerodd Mr. David James ofal y lle mewn cysylltiad a Rhosymeirch a'r Capel Mawr. Adeiladwyd yma gapel yn y flwyddyn 1814, yr hwn a alwyd Sardis, a chofrestrwyd Sardis, yn mhlwyf Heneglwys, gan Mr. Jonathan Powell, Rhagfyr 1af, 1814, fel y dengys Cofnodion Llys Bangor. Y rhai oedd yn blaenori yn adeiladaeth y capel oedd—Daniel Jones, Rhydyspardyn; Robert Jones, Cerygduon, a William Evans, Ty'nyrallt. Bu y gwyr hyn a'u teuluoedd yn llawer o swcwr i'r achos bychan yn y lle. Yn y flwyddyn 1824, helaethwyd y capel, ac wedi hyny yn y flwyddyn 1846, a thrachefn yn y flwyddyn 1865. Bu y lle mewn cysylltiad a Rhosymeirch hyd derfyn gweinidogaeth Mr. James, ac felly y mae yn parhau etto dan ofal Mr. J. R. Davies.

Cyfodwyd yma ddau bregethwr :—

John Jones, Rhydyspardyn. Bu yn pregethu am lawer o flynyddoedd, ond rhoddodd i fyny rai blynyddoedd cyn ei farwolaeth. Bu farw Ebrill 22ain, 1861.

Robert Evans, (Trogwy). Addysgwyd ef yn athrofa y Bala. Bu yn weinidog yn Manchester, ac yn y Maesglas, Treffynon. Mae yn awr yn Remsen, America.

## BEAUMARIS.

Dechreuwyd pregethu yn y dref hon gan Mr. Benjamin Jones, pan yn weinidog yn Rhosymeirch. Prif noddwr yr achos yma yn ei gychwyniad oedd un John Parry, bragwr, ac ar ei gais ef y daeth Mr. Jones yma. Arferai Mr. Jones bregethu ar yr heol gyferbyn a'r hen garchardy, a dywedir mai ar ddymuniad y carcharorion y dewisodd y lle hwnw, y rhai a dynent i'r ffenestri i wrando arno. Mawrth 3ydd, 1784, cofrestrodd John Parry yn Llys Bangor, le a elwid yn *Warehouse* at addoli. Yn *Hanes Eglwysi Mon*, gan Mr. W. Williams, dywedir eu bod yn cyfarfod mewn ty anedd bychan o'r enw Ty'nyrardd, yr hwn a safai yn nghwr uchaf Wrexham-street, ond tynwyd ef i lawr yn fuan ar ol symudiad yr achos oddi yno. Nis gwyddom ai yr un ydoedd hwn a'r lle a elwid yn *Warehouse*, ai ynte dau le gwahanol oeddynt. Yn Ty'nyrardd y ffurfiwyd yr eglwys gan Mr. B. Jones, Chwefror 27ain, 1785. Yr aelodau cyntaf a dderbyniwyd yma oeddynt—John Parry, Richard Williams, Owen Jones, William Parry, William Owen, Hugh Jones, David Davies, a William Jones. Y cymundeb canlynol, derbyniwyd John Roberts, a'i wraig; Elizabeth Parry, a David Owen. Aeth y ty anedd yn fuan yn rhy gyfyng, a symudwyd i ystafell eang yn agos i'r man lle y saif yr addoldy presenol. Yr oedd grisiau i fyned iddi o'r heol. Dichon mai dyma y lle a alwyd yn *Warehouse* wrth ei drwyddedu, os felly, fe ffurfiwyd yr eglwys cyn 1785, oblegid y mae yn sicr fod y *Warehouse* wedi ei chofrestru at bregethu Mawrth 3ydd, 1784. Gwnaed yr ystafell hon yn gyfleus at addoli ynddi, a deuai

Digitized by Google

Mr. B. Jones, ac eraill, yma i bregethu, a bu Mr. William Jones, yr hwn a aeth wedi hyny i Fachynlleth, yma yn ei gynorthwyo, a gwelwyd graddau o lwyddiant ar eu llafur. Ond gwelsant amserau blin a thrallodus. Deuai terfysgwyr dan ddylanwad diod gadarn i mewn i aflonyddu yr addoliad, a goddefodd llawer gwraig grefyddol anmharch mawr oddiwrth ei gwr annuwiol, oblegid cyrchu i gynnulleidfa y saint. Teimlent erbyn hyn angen am gael capel, ac anogid hwy gan y gweinidogion a ymwelent a'r dref i edrych allan am le i adeiladu. Ond yr anhawsder mawr oedd cael tir, oblegid y rhagfarn cryf oedd gan holl berchenogion tiroedd yn erbyn yr Ymneillduwyr. Prynodd Mr. John Parry res o dai bychain heb gymeryd arno beth a fwriadai wneyd a hwy; ac wedi gwneyd pob peth yn sicr, dechreuwyd chwalu un o'r tai er mwyn codi capel yn y lle. Cyn gynted ag y deallwyd hyny, cyffrodd cynddaredd gelynion crefydd, a gwnaethant eu goreu i atal y gwaith yn mlaen. Bygythiai un gwr, yr hwn oedd yn byw yn ymyl, a'i ardd yn terfynu ar y capel, os codid yno gapel y codai yntau dy i'w gŵn wrth ei dalcen. Galwyd Mr. John Parry i ymddangos ger bron Arglwydd Bulkeley, a phan yr aeth o'i flaen dywedodd, "Yr ydwyf wedi clywed, John Parry, eich bod yn adeiladu ty drwg iawn i gynal cyfarfodydd dirgelaidd o natur amheus, ac y mae yn debyg o fod yn rhwystr i fy nhenantiaid yn y gymydogaeth." Sicrhaodd Mr. Parry "mai ty i addoli Duw oedd y ty i fod, ac nad oedd amcan gan neb i'w ddefnyddio i ddim arall;" a llwyddodd trwy eiriau teg i dawelu holl ofnau yr hen bendefig, a chyn diwedd y flwyddyn 1788, yr oedd y capel wedi ei orphen. Bu rai blynyddau ar ol hyny cyn ei gyflwyno drosodd i ymddiriedolwyr. Gwnaed y weithred yn y flwyddyn 1792, a'r ymddiriedolwyr oeddynt Meistri Benjamin Jones, Pwllheli; Daniel Lloyd, Dinbych; Abraham Tibbott, Llanuwchllyn; William Thomas, Bala; George Lewis, Caernarfon, a William Hughes, Bangor. Gwerthwyd y ty a'r tai ar y lle iddynt gan John Parry, am y swm o 115p. Ymadawodd Mr. B. Jones o Rosymeirch i Bwllheli cyn canol haf 1790, ac felly collodd yr eglwys ieuangc yma ei nodded. Bu un Mr. Evan Jones yma yn gwasanaethu dros ychydig, a bwriadai ddyfod yma i aros, ond arosodd yn Amlwch ar ei ffordd yma. Daeth Mr. William Jones yma ar ol hyn, a bu yma am ddwy flynedd, ac yn 1792, symudodd i Penstryd, Trawsfynydd, lle y bu weddill ei oes, a cheir ei hanes yn nglyn a'r eglwys hono. Yr oedd un Jonathan Jones mewn cysylltiad a'r eglwys hon o'r flwyddyn 1794 hyd y flwyddyn 1796, canys yr ydym yn ei gael yn derbyn help o'r Trysorfwrdd Presbyteraidd am y blynyddoedd hyny. Dywedir i Mr. John Jones, mab Mr. Jonathan Jones, Rhydybont, fod yma am ysbaid. Nid ydym yn cael ei enw ef yn nglyn a bedyddiadau yr eglwys, nac yn rhestr y rhai a dderbynient help gan y Trysorfwrdd Presbyteraidd. Ai nid rhyw gamgymeriad yn yr enw tybed ydyw Jonathan Jones, ac mai John Jones a feddylir? Os felly, ar ol Mr. W. Jones y bu ef yma. Yn y flwyddyn 1797, daeth Mr. Thomas Jones yma—un o gymydogaeth Glynarthen, yn sir Aberteifi ydoedd. Cawn iddo weinyddu yr ordinhad o fedydd yma gyntaf Tachwedd 6ed, 1797, a'r olaf a weinyddwyd ganddo oedd Chwefror 7fed, 1806, felly bu yma yn agos i naw mlynedd. Symudodd, fel yr ymddengys yn y flwyddyn hono, i Glynarthen, canys yr ydym yn ei gael wedi arwyddo tri bedydd a weinyddwyd ganddo yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fel Thomas Jones, Glynarthen. Y gweinidogion a weinyddai yma amlaf yn y blynyddau dyfodol, fel y gallwn farnu oddiwrth restr y bedyddiadau, oeddynt Daniel Evans,

Digitized by Google

Bangor; Abraham Tibbott, a Jonathan Powell. Yn y flwyddyn 1809, rhoddwyd galwad i Mr. John Evans, ac urddwyd ef cyn diwedd y flwyddyn hono, canys yr ydym yn cael y bedydd cyntaf yn cael ei weinyddu ganddo Ionawr 21ain, 1810.* Bu Mr. Evans yma yn barchus a chyfrifol am ddeuddeng-mlynedd-ar-hugain, ac yn ei amser ef y codwyd y capel presenol, yr hwn a gostiodd 450p. O herwydd fod maes llafur Mr. Evans yn eang, ac yn cynwys Pentraeth a Phenmynydd, mewn cysylltiad a Beaumaris, yn y flwyddyn 1822, rhoddwyd galwad i Mr. John Griffith, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, i fod yn gydweinidog ag ef, ac urddwyd ef Medi 24ain, y flwyddyn hono. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Breese, Liverpool; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Evans, Amlwch; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Evans, Beaumaris; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. Morgan, Machynlleth, ac i'r eglwys gan Mr. D. Jones, Treffynon.† Ni bu arosiad Mr. Griffith yma yn hir, oblegid symudodd i Manchester, ac ar ei ymadawiad ef torwyd y cysylltiad rhwng y dref a'r eglwysi yn y wlad, a disgynodd y gofal yma yn gwbl ar Mr. Evans, fel o'r blaen. Yn y flwyddyn 1842, trwy gysylltiadau priodasol, symudodd Mr. Evans i Gorwen; ac oblegid fod Mr. William Thomas, Dwygyfylchi, wedi priodi merch Mr. Evans, ac wedi symud i'r dref ati i fyw, rhoddodd yr eglwys yma alwad iddo i fod yn olynydd i'w dad-ynnghyfraith; a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Awst, 1844, a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad yr 16eg o'r Medi canlynol. Dyma fel y dywed awdwr *Hanes Eglwysi Mon* am dano, "Cynyddodd yr eglwys a'r gynnulleidfa yn fuan o dan ei weinidogaeth, a chyfranwyd bywyd adnewyddol i'r achos yn ei holl ranau. Profwyd rhai tymorau ireiddiol ac adfywiol yn yr eglwys." Derbyniwyd nifer luosog i'r eglwys yn ysbaid y blynyddoedd y bu yma yn llafurio, a mwynhaodd yr eglwys heddwch a chysur mawr. Ond gwaelodd iechyd Mr. Thomas yn fawr, a bu am fisoedd yn dihoeni, ac ar y 15fed o Ebrill, 1866, gorphenodd ei yrfa, yn 55 oed, ac wedi llafurio yma yn y weinidogaeth am 22 mlynedd.

Wedi ei farwolaeth ef bu yr eglwys am flynyddau heb weinidog sefydlog, ond yn nechreu y flwyddyn hon (1872) rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Joseph Rowlands, Rhosllanerchrugog, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yma yr ail Sabboth yn Ebrill, ac y mae pob peth yn myned yn mlaen yn gysurus, ac argoelion ffafriol am y dyfodol.

Coffeir am enwau llawer o ffyddloniaid a fu yn yr eglwys hon, heblaw y rhai y crybwyllwyd eu henwau eisioes yn nglyn a chychwyniad yr achos yma. Hugh George, yr hwn a wasanaethodd swydd diacon yn dda am lawer o flynyddoedd. Bu ef a'i wraig yn aelodau ffyddlon. John George a Richard Evans a'u gwragedd, a fuont ffyddlon i'r achos. Margaret Parry, yr hon am flynyddau a fu yn llettya pregethwyr. Mary Pritchard, Llandegfan, a fu yn proffesu crefydd am 60 mlynedd, ac a fu farw yn 104 oed.

* Mae yma anghysondeb nas gallwn ei gysoni. Mewn llythyr sydd yn awr o'n blaen, yr hwn a ysgrifenwyd gan Mr. Evans ei hun, at Mr. Morgan, Llanfyllin, dywed mai Mehefin 1leg, 1811, yr urddwyd ef, a bod Meistri B. Jones, Pwllheli; J. Griffith, Caernarfon; J. Powell, Rhosymeirch; J. Lewis, Bala; W. Jones, Salem; A. Jones, Bangor, a D. Roberts, Llanfyllin, yn bresenol. Ond y mae cofrestr y bedyddiadau yn dangos iddo weinyddu y bedydd cyntaf yma Ionawr 21ain, 1810, ac felly bu yn agos i ddwy flynedd yma cyn cael ei urddo. Tueddir ni yn awr i feddwl mai J. Evans, Amlwch, a weinyddodd y bedydd a gofnodir Ionawr 21ain, 1810. Os cawn eglurhad ychwanegol ar hyn, rhoddwn ef yn yr Attodiad.

† *Dysgedydd*, 1823. Tu dal. 87.

Digitized by Google

Pregethodd Mr. Thomas ar achlysur ei marwolaeth ar y geiriau priodol—"Hen ddysgybl." William Jones a John Lewis a fuont yn ddiaconiaid ffyddlon; a chyfrifid Mary Williams, Rhosisaf; Catherine Tyrer, Catherine Williams, Wrexham-street; Elizabeth Jones, Pendre; Mary Jones, ac Ann Edwards, Brynteg, yn rhagorol yn mysg gwragedd yr eglwys. Mrs. Evans, gwraig Mr. Evans, y gweinidog, a'i mam, a fu yn nodded mawr i'r achos am dymor hir; ac nid oes achos crybwyll wrth y genhedlaeth bresenol am garedigrwydd ei merch, Mrs. Thomas. Richard Williams a John Tyrer oeddynt yn nodedig am eu ffyddlondeb fel diaconiaid, a chafodd yr eglwys golled fawr yn eu marwolaeth. Diameu genym fod llawer eraill wedi bod yn llawn mor ffyddlon, ond gan na chawsom eu henwau, nis gallwn eu crybwyll; ac y mae yn dda genym ddeall fod yma lawer o ffyddloniaid yn aros.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

William Williams. Mae yn gweinyddu fel diacon yn yr eglwys yn awr, ac yn pregethu yn achlysurol.

Thomas Williams. Bu am dymor yn athrofa y Bala.

Zechariah Mathers. Addysgwyd ef yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn Ffestiniog, lle y mae etto.

Mae Mr. W. Williams (Cromwel,) yn aelod o'r eglwys hon yn wreiddiol, ac wedi dychwelyd yma er's blynyddau i drigianu; ac er nad oes gofal eglwysig arno yn awr, y mae yn pregethu yn gyson bob Sabboth yn rhywle, a bu ei wasanaeth o help mawr i'r eglwys hon yn enwedig yn yr adeg y bu yn amddifad o weinidog.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

JOHN EVANS. Ganwyd ef yn Nghapelgarmon, yn sir Ddinbych, yn y flwyddyn 1779. Teimlodd argraffiadau crefyddol dwys ar ei feddwl pan oedd o gylch ugain oed, ac yn mhen amser ymunodd a'r eglwys fechan a gyfarfyddai mewn ysgubor yn ei ardal enedigol dan ofal Dr. Lewis, a Mr. Azariah Shadrach, a chyn hir efe a ddechreuodd bregethu, ac aeth i ardal Dwygyfylchi i gadw ysgol ac i bregethu yn achlysurol. Cafodd dipyn o wrthwynebiad oddiwrth ei deulu ei hun pan ddechreuodd grefydda, ond ni thyciodd hyny mewn un modd i beri iddo lesgau. Derbyniodd alwad o Beaumaris, yn 1809, a llafuriodd yno gyda chymeradwyaeth mawr hyd y flwyddyn 1842, pryd y symudodd i Gorwen. Arosodd yno o gylch saith mlynedd, ac yna dychwelodd i Beaumaris, lle y treuliodd weddill ei oes. Am y deuddeng mlynedd olaf o'i oes dyoddefodd lawer gan ddiffyg anadl, yr hyn a'i hanalluogodd i bregethu, ond yn achlysurol pan fyddai ei iechyd yn caniatau. Bu farw Gorphenaf 28ain, 1862, yn 82 oed, ac wedi bod yn pregethu am y tymor maith o 60 mlynedd. Yr oedd Mr. Evans yn ddyn da, a'i gymeriad cyhoeddus yn hollol ddifwlch. Dyn tal, cryf, hardd, yr olwg arno ydoedd pan yn anterth ei ddydd. Nid oedd dim yn swynol na pheroriaethus yn ei lais, ond yr oedd ei bregethau oll yn bur a sylweddol. Yr oedd yn hollol yn ol delw y tô o weinidogion oedd yn Nghymru yn ei ddyddiau ef. Yr oedd yn un o gychwynwyr cyntaf y *Dysgedydd*, ac er nad arferai ysgrifenu llawer iddo, yr oedd yn selog drosto. Bu mewn masnach y rhan fwyaf o'i dymor yn Beaumaris, ac yr oedd mewn



Digitized by Google

amgylchiadau bydol gwell na'r rhan fwyaf o weinidogion ei oes, yr hyn roddai ddylanwad iddo yn mysg ei gyd-drefwyr. Yr oedd o ran ei olygiadau duwinyddol yn ddysgybl i Dr. Williams ac Andrew Fuller, ond yr oedd yn wastad yn dra chymedrol yn y cwbl a draethai. Cymerodd ran amlwg gydag achosion yr enwad yn sir Fon am dymor hir, ac yn mhob egni a wneid gyda phethau cyhoeddus, yr oedd bob amser yn barod ac ewyllysgar. Cafodd fyw i oedran teg, a phan y dirwynodd ei einioes i ben rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn mynwent Eglwys Fair, Beaumaris.

William Thomas. Ganwyd ef yn y Bala, Hydref 25ain, 1811. Derbyniodd ychydig o addysg ddyddiol, y fath ag a roddid yn gyffredin i blant gweithwyr yn y dyddiau hyny. Cyrchai er yn ieuangc i gapel yr Annibynwyr yn y Bala, a hoffodd y lle i wneyd ei gartref ynddo; a byddai gyda'r Ysgol Sabbothol yn dysgu ac yn adrodd pyngciau, yn yr hyn y cefnogid ef yn wresog gan y gweinidog, Mr. J. Ridge. Dygwyd ef i fyny yn nghelfyddyd ei dad, sef crydd; ac wedi tyfu i fyny yn llangc trodd allan i'r byd. Aeth cyn belled a Phentrefoelas, a deallodd fod yno un o'r enw Owen Williams, o'r un alwedigaeth ag ef yn byw yn y pentref, a gobeithiai y cai waith yno. Aeth i'r ty yn wylaidd, a gofynai am waith, ond nid oedd dim arwydd fod gwaith i'w gael yno, ond cynygiwyd bwyd iddo i'w alluogi i fyned rhagddo ar ei daith. Ar y pryd yr oedd Mr. John Roberts, Capelgarmon, yn eistedd yn nhy Owen Williams, wrth y tân, a chyn hir anturiodd ofyn, "Pa bryd y dowch chi i'r Bala etto i bregethu, Mr. Roberts?" "Ni wn i ddim yn siwr," meddai Mr. Roberts. "Ai un o'r Bala wyt ti?" "Ie syr." Yna dechreuodd Owen Williams ofyn iddo, "A glywaist ti Mr. Roberts yn y Bala ryw dro?" "Do." "I gapel yr Annibynwyr y byddi di yn myn'd?" "Ie." "Wyt ti yn aelod yno?" "Ddim yn gyflawn, ond byddaf yn aros yn y seiat nos Sabboth." Twymodd calon Owen Williams erbyn hyny, a dywedodd, "Wel y mae yn rhaid i mi ffeindio rywbeth i ti i'w wneyd, gan dy fod yn Annibynwr." Bu yno ddwy flynedd, a thra yno y derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yn Bethel, Pentrefoelas. Dychwelodd i'r Bala, ac yn mhen amser aeth i Harwood, (Brymbo yn awr), a thra yn aros yno y dechreuodd bregethu, a phregethodd lawer trwy yr holl wlad oddiamgylch, ac yr oedd yn dra derbyniol fel pregethwr yn mhob man lle yr elai. Trwy annogaeth a chynorthwy Mr. Williams o'r Wern, a gweinidogion eraill, aeth i'r ysgol i Marton dan ofal Mr. John Jones, lle yr arhosodd ddwy flynedd, a gwnaeth gymaint o gynydd mewn dysgeidiaeth ag a allesid ddisgwyl i un o'i oed a'i fanteision blaenorol, yn ysbaid hyny o amser. Daeth i gyhoeddusrwydd a phoblogrwydd fel pregethwr ac areithiwr ar ddirwest, ac yr oedd galwadau mynych arno i weinyddu mewn cyfarfodydd ac uchelwyliau. Yn nechreu y flwyddyn 1839, derbyniodd alwad o Horeb, Dwygyfylchi, ac urddwyd ef yno Awst 6ed, 1839. Yr oedd yr adeg hono yn llawn sel ac angerddoldeb, ac yr oedd effeithiau grymus yn dilyn ei bregethau i ba le bynag yr elai. Gan fod y tymor hwnw yn dymor o ddiwygiad grymus, ac yntau o dueddfryd naturiol wresog, rhoddodd y diwygiad hwnw gyfleusdra nodedig i ddadblygiad ei ddoniau. Ni bu gweinidog ieuangc erioed yn llawnach o ysbryd ei waith nag yr oedd ef yn nghychwyniad ei weinidogaeth, a gweithiai yn llawer iawn caletach nag y goddefai y corph gwan oedd ganddo. Yr oedd y pryd hwnw yn deneu a gwywedig yr olwg arno, a phregethai gyda'r fath ymroddiad nes y byddai ei natur yn ymollwng dan bwys ei lafur, ond yr oedd mor lawn o ysbryd y gwaith fel na allai ymatal. Cyn

diwedd y flwyddyn 1842, priododd a Miss Ann Evans, merch Mr. Evans, gweinidog yr Annibynwyr yn Beaumaris, a symudodd yno ati i fyw yn nechreu y flwyddyn ganlynol, ond parhaodd am flwyddyn a haner i deithio ar bob tywydd i Dwygyfylchi at bobl ei ofal, y rhai a gerid ganddo fel ei enaid ei hun, ac yr oedd yntau yn anwyl gan yr holl eglwys. Yn Awst, 1844, cymerodd ofal yr eglwys yn Beaumaris, ac yno llafuriodd gyda chymeradwyaeth mawr dros weddill ei oes. Yr oedd wedi tewhau yn ddirfawr yn y deunaw mlynedd olaf o'i fywyd, ond er hyny nid oedd mewn un modd wedi cryfhau, ac yr oedd yn agored i grygu yn fuan, yr hyn a'i digalonai yn fawr. Treuliodd dymor hapus yn Beaumaris yn ei berthynas a'r eglwys, ac yn ei berthynas a'i deulu a'i amgylchiadau, ond am y pedair blynedd olaf o'i oes, cafodd lawer o ystormydd oddiwrth gystuddiau ac angau. Bu farw ei dad a'i fam, a'i dad-yn-nghyfraith, a gwaelodd ei iechyd ei hun ac iechyd ei wraig, a bu hi farw Ebrill 23ain, 1865, ac ni bu y byd yr un peth iddo yntau byth wedi hyny. Ni bu fyw flwyddyn gyfan ar ei hol. Gwaelodd yn raddol, a bu farw mewn tawelwch a thangnefedd Ebrill 15fed, 1866, yn 55 oed, a chyd-dystia pawb a'i hadwaenai na roddwyd cywirach dyn erioed i orwedd yn naear Mon. Heddwch i'w lwch.

Ysgrifenodd ei frawd, Mr. H. E. Thomas, gynt o Birkenhead, yn awr o Pittsburgh, America, gofiant cyflawn iddo, gyda nifer o'i bregethau, a therfynwn ein cofnodiad am Mr. Thomas gyda'r difyniadau canlynol o'r cofiant hwnw, gan eu bod yn ddarluniad cywir o'i nodwedd.

"Yr oedd yn ddyn o deimlad dwfn, dwys, a thyner iawn. Ni fynai, ac nis gallai guddio ei deimlad. Gellid gweled gwir agwedd ei galon yn ei wyneb. Y mae ambell i un a fedr guddio ei deimlad. Edrychwch ar ei wyneb ffordd y mynoch, nis gellwch wybod pa un ai dig ai boddus ydyw. O'm rhan i, nid wyf yn meddwl y gall dyn felly feddu iechyd ysbryd, ac ni fedrwn byth wneyd cyfaill o hono. Nid un felly oedd William. Dyma ddywed Mr. Pugh, Mostyn, am dano:—'Tymer siriol, teimlad caredig, a gonestrwydd anhyblyg, a berthynai iddo. Nid oedd "dichell yn ei ysbryd," ac ni arferai eiriau mwynaidd pan y gelwid am rai geirwon.'

"Ei brif nodwedd fel pregethwr oedd symlder, difrifoldeb, a thuedd ymarferol. 'Yr oedd bob amser,' meddai Dr. W. Rees, noson ei gladdedigaeth, 'yn amcanu at y gydwybod, ac yr oedd yn bur siwr o'i nod. Nid yn aml y clywais neb mwy miniog ei weinidogaeth.' Pregethai bob amser a'i holl egni, a chwysai nes yr ymddangosai fel pe y tywalltesid dwfr ar ei ben. Buasai yn well o lawer pe y gallasai arbed mwy arno ei hun. Ond yr oedd wedi dechreu ei weinidogaeth ar dymor cynes iawn ar grefydd, ac ni chollodd ef byth mor gwres ysbryd a feddai y pryd hyny, er fod y cynnulleidfaoedd wedi oeri llawer. Yr oedd ei fod mor *nervous* yn ei yru yn ei flaen yn fwy cyflym a chynhyrfus nag a fuasai yn hoffi lawer pryd. Llafuriai yn galed iawn i wneyd pregethau. Nid peth bach oedd gwneyd dwy bregeth yr wythnos, tra yr oedd ganddo ofalon eraill. Cwynai yn fynych mai anhawdd iawn oedd gwneyd pregethau a thrin y byd. Yr oedd rhyw rai yn galw beunydd ac yn lladratta ei amser. Ni waeth dwyn llyfrau, neu ddwyn arian gweinidog sefydlog, na dwyn ei amser. Rhaid oedd iddo agos bob wythnos gymeryd oddiar oriau cwsg, yr oriau a gollodd yn y dydd. Cafodd rai degau o oedfaon bendigedig gartref ac oddicartref. Bu yn offeryn yn llaw Duw i argyhoeddi ugeiniau lawer o bechaduriaid. Pan yr oedd ei lais yn dda, yr oedd ganddo floedd hynod

Digitized by Google

o dreiddiol, tebyg iawn i un y Parch. John Elias. Ond digalonodd yn fawr pan ygafaelodd y *bronchitis* yn ei wddf. Yr oedd gwynt y dwyrain, yr hwn oedd yn taro yn gryf iawn ar Beaumaris, yn ei lethu yn hollol."

Buasai yn hawdd i ni ychwanegu, ac i'r neb a ewyllysio wybod rhagor am dano, nid oes genym ond eu cyfeirio at y cofiant, lle y gwelir y dyn yn gyflawn.

## PENTRAETH.

Nid oes genym sicrwydd am ddyddiad dechreuad yr achos yma. Dywedir fod y lle wedi bod dan ofal Mr. William Jones pan ydoedd yn Beaumaris, os felly, rhaid ei fod wedi ei gychwyn rywbryd cyn y flwyddyn 1792, canys dyna y flwyddyn y symudodd Mr. William Jones i Benystryd. Gweinidogion Bangor a Beaumaris a olygent yn benaf dros yr achos yma yn ei flynyddoedd cyntaf. Dechreuwyd pregethu mewn ty anedd o'r enw Ty'nylon, lle y preswyliai un John Roberts, a dygai y gwr hwn holl draul yr achos ar ei gychwyniad, ac er nad oedd hyny yn fawr, etto yr oedd yn llawer iddo ef. Pregethid yn achlysurol ar ol hyn yn Penylon a Thycroes, a daeth William Rowlands, Bodwgan; James Pritchard, Tycroes; Robert Jones, Melin, Pentraeth, a Thomas Hughes, Penylon, i gynorthwyo John Roberts yn nghynaliad yr achos. Yr oedd Thomas Hughes, Penylon, yn arddwr yn ngwasanaeth boneddwr yn yr ardal, yr hwn ar un dydd Sadwrn a ddaeth ato i geisio ganddo fyned i neges drosto dranoeth, pryd yr atebwyd ef yn benderfynol gan Thomas, "Yr ydwyf yn ewyllysgar, syr, i wneyd pob peth a allaf i'ch boddloni, ond nis meiddiaf dori y Sabboth." Daeth y garddwr i fwy o barch nag erioed ar gyfrif ei onestrwydd a'i gywirdeb, ac ni feiddiodd neb geisio ganddo mwyach i negeseua ar y Sabboth. Crybwyllir hefyd am enwau Catherine Parry, Clai; Ellen Jones, Tanygraig; Ellen Jones, Lonlwyd, ac Ellen Jones, Ty'nyllan, fel gwragedd rhagorol oedd yma ar gychwyniad yr achos. Yn mhen amser symudwyd o Ty'nylon i dŷ gwag yn mhentref Pentraeth. Ty bychan, a thô gwellt, a llawr o bridd iddo ydoedd, a disgynai y gwlaw trwy y tô ar ben yr addolwyr, ond cafwyd yn y ty bychan, tlodaidd hwnw, oedfaon i'w cofio, a lluosogodd y gynnulleidfa, fel y daeth angen lle helaethach. Prynwyd darn o dir gan Mr. Owen Jones, Hensiop, am 40p., ac yn y flwyddyn 1803, adeiladwyd capel arno. Nid oedd ond ty cyffredin, heb ynddo ond pulpud ac ychydig feingciau. Pan ddaeth Mr. J. Evans i Beaumaris, yn 1809, cymerodd ef ofal yr achos yma, a rhoddwyd oriel ac eisteddleoedd yn y capel, ac yn 1822, urddwyd Mr. Griffith yn gydweinidog ag ef, a bu y lle mewn cysylltiad a Beaumaris hyd y flwyddyn 1825, pryd yr ymadawodd Mr. Griffith i Manchester. Yn ystod y flwyddyn hono, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Thomas Davies, a ddaethai yma o Gwmwysg, Brycheiniog, ac urddwyd ef yma yn 1825.

Bu Mr. Davies yn dra derbyniol a defnyddiol yma am ysbaid chwe' blynedd, nes y symudodd i Bethania, Ffestiniog. Cyn diwedd y flwyddyn 1832, rhoddwyd galwad i Mr. Henry Rees, yr hwn er's llai na dwy flynedd cyn hyny a urddesid yn Mhorthmadog, a bu Mr. Rees yma yn llafurio yn ddiwyd dros lawer o flynyddoedd. O gylch y flwyddyn 1851, ymadawodd oddiyma, a bu yr eglwys dros rai blynyddau ar ol hyny heb weinidog sefydlog, hyd y flwyddyn 1855, pryd y rhoddasant alwad i Mr. David

Williams, Bangor. Bu Mr. Williams yn gofalu am y lle am yn agos i naw mlynedd, ac nid oedd pellder ffordd na gerwinder hin yn ddigon i'w atal i gyrchu yma yn rheolaidd. Yn nhymor ei weinidogaeth ef yr ailadeiladwyd y capel, yr hwn a gostiodd 300p., a llwyddwyd trwy gydweithrediad y gynnulleidfa i dalu yr holl ddyled yn mhen y tair blynedd. Ond teimlodd Mr. Williams, o'r diwedd, fod y daith yn rhy bell, a'r llafur yn rhy galed iddo, a rhoddodd y gofal yma i fyny, gan gymeryd at fugeiliaeth yr eglwys yn Beulah, gerllaw Bangor, lle y llafuria etto gyda derbyniad mawr. Yn y flwyddyn 1866, rhoddwyd galwad i Mr. David M. Lewis, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Hydref 17eg, 1866. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Williams, Beaumaris; holwyd y gofyniadau gan Mr. R. E. Williams, Beaumaris; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. M. D. Jones, Bala, yr hwn hefyd a bregethodd ar ddyledswydd y gweinidog, a phregethodd Mr. D. Williams, Beulah, y cyn-weinidog, ar ddyledswydd yr eglwys. Rhyw bedair blynedd y bu Mr. Lewis yma, yna ymadawodd. Yn mhen dwy flynedd, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Benjamin M. Hughes, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Mai 21ain, 1872. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. M. D. Jones, Bala; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Parry, Colwyn; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Griffith, Caergybi; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Dowlais, ac i'r eglwys gan Mr. D. C. Rees, Capel mawr.

Mae yma un pregethwr cynorthwyol yn perthyn i'r eglwys, sef Owen Jones, Traethcoch, ac nid ydym yn cael i neb arall ddechreu pregethu yn yr eglwys hon.

## TALWRN.

Mae y lle yma wedi bod o'r dechreuad mewn cysylltiad a Phentraeth, ac o dan yr un weinidogaeth. Nid yw yn nepell oddiwrth y lle y pregethwyd y bregeth gyntaf gan yr Ymneillduwyr yn y wlad hon, ac yr oedd dau neu dri o'r ardal hon yn aelodau yn Rhosymeirch, mor foreu, beth bynag, a dyddiau gweinidogaeth Mr. Benjamin Jones, ac arferai ef ddyfod yma yn achlysurol i bregethu iddynt, ond ni wnaed un cynyg ar sefydlu achos yma hyd y flwyddyn 1840. Adeiladwyd yma gapel y flwyddyn ganlynol. Nid yw ond bychan iawn, 90p. oedd holl draul ei adeiladiad, ond bu ei ddyled yn faich trwm yn hir yn llethu ar ysgwyddau gweiniaid. Mr. H. Rees oedd y gweinidog yma pan y codwyd y capel, ond yn mhen blynyddau wedi ei ymadawiad ef y talwyd y ddyled. Nid yw yr achos yma ond bychan, ac nid oes dim neillduol perthynol iddo i'w gofnodi.

Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef Richard W. Roberts, sydd yn awr yn weinidog yn Ystradgynlais.

## PENMYNYDD.

Dyma y plwyf yn yr hwn y pregethodd Mr. Lewis Rees ei bregeth gyntaf yn Mon, ac yn y plwyf hwn y mae y ty cyntaf yn y sir a drwyddedwyd at bregethu, ond er hyny, aeth mwy na thri-ugain-mlynedd heibio ar ol hyny cyn i un cynyg gael ei wneyd i sefydlu achos Ymneillduol yn y plwyf. Cafodd yr ardal golled fawr yn ymadawiad William Pritchard a'r wlad, oblegid ni adawodd neb o gyffelyb feddwl ar ei ol, a dichon fod

Digitized by Google

yr ysbryd erledigaethus a ddangoswyd yn y lle, wedi digaloni y rhai a ewyllysient wneyd daioni, fel nad oedd ysbryd ynddynt i gynyg. Ond nid ymddengys er hyny i'r ardal gael ei gadael nad oedd rhyw rai ynddi yn glynu wrth yr Arglwydd. Arferai rhai fyned oddiyma yn rheolaidd i Rosymeirch, ac wedi hyny i Bentraeth, ar ol cychwyniad yr achos yno. Un o'r rhai ffyddlonaf oedd Mary Francis, Tynewydd, a phan y methodd hi gan oedran a llesgedd, a theithio i Rosymeirch, deuai y cyfeillion crefyddol i ymweled a hi, a chynalient gyfarfodydd gweddi yn ei thy, a hyny fu yn ddechreuad yr achos yma. Ymofynwyd am le i bregethu yma, ac agorodd William Jones, Ty'nycae, ei dŷ, ac ar brydiau gwahoddid y pregethwyr i'r Tymawr. Yn mysg y pregethwyr a ddeuant yma yr oedd Meistri Owen Thomas, Carrog; Jonathan Powell, Rhosymeirch; John Evans, Beaumaris; Hugh Lloyd, Groeslon, a Hugh Hughes, Dulas. Yr oedd hyn cyn y flwyddyn 1813, oblegid yn y flwyddyn hono ar y 13eg o Gorphenaf, yr ydym yn cael yn Llys Bangor, fod Mr. Jonathan Powell wedi trwyddedu Ty'nycae, yn mhlwyf Penmynydd, yn lle i bregethu. Wedi bod yn addoli am dymor yn Ty'nycae, symudwyd i dŷ gwag a elwid y Dragonbach. Nis gallwn gael allan i sicrwydd pa bryd y symudodd yr achos i'r Dragon, ond ymddengys mai yno y corpholwyd yr eglwys, ac yno yr oeddynt yn addoli pan ddaeth Mr. J. Griffiths i weinidogaethu i Bentraeth a Phenmynydd, mewn cysylltiad a Beaumaris. Cymerodd Mr. Thomas Davies ofal y lle mewn cysylltiad a Phentraeth, ac yn 1827, adeiladwyd y capel. Yr oedd rhifedi yr eglwys ar ei mynediad i'r capel newydd yn bump-ar-hugain, yn mhlith y rhai yr oedd y personau canlynol:—Hugh Roberts, Rhydyrarian; Michael Thomas, Gylched; John Jones, Glanyllyn; Owen Evans, Graigfach; Margaret Lewis, Tymawr; Mary Francis, Tynewydd; Mary Parry, Caehelyg, ac Ann Griffith, 'Ralltgeint. Bu y lle mewn cysylltiad gweinidogaethol a Phentraeth o ddechreuad yr achos, hyd ganol tymor gweinidogaeth Mr. Rees, yn Mhentraeth, ac er hyny hyd yn awr y mae y lle wedi bod fynychaf mewn cysylltiad a Berea, a than ofal yr un gweinidogion. Ni bu yr achos yma yn lluosog mewn unrhyw adeg, ac nis gellesid disgwyl iddo fod, oblegid nid yw y plwyf yn un poblog, ac y mae yr aneddau yn hynod o wasgarog.

Nid ydym yn cael i un pregethwr godi yn yr eglwys hon, ond bu yr hen bregethwr Thomas Jones yn byw yma am lawer o flynyddoedd, ac yn cadw ysgol yn y capel. Un o'r Deheudir'ydoedd, ond treuliodd dymor hir yn y Gogledd. Bu yn cadw ysgol yn Salem, Llanbedr, ac yn Henryd, a phregethodd lawer yn y ddau le, o gylch yr adeg y cychwynwyd yr achosion. Symudodd i Benmynydd, lle y treuliodd weddill ei oes, a chafodd fyw i oedran teg. Yr oedd yn ddyn bychan, byr, crwn, heinif, pan wedi gadael ei bedwar ugain oed, a phregethai yn egniol, ond fod ei lais yn gryglyd.

## RHOSFAWR.

Dechreuwyd pregethu gan yr Annibynwyr yn yr ardal yma y flwyddyn gyntaf o'r ganrif hon, os nad yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Yr oedd gwraig grefyddol o'r enw Ann Pritchard yn byw mewn ty bychan a elwid Tafarnywrach, yr hon oedd yn aelod yn Rhosymeirch, a thrwyddi hi deuai cyfeillion Rhosymeirch i'w thy i gynal cyfarfodydd gweddi, ac yn achlys-

Digitized by Google

urol deuart a phregethwr gyda hwy. Yr oedd John Bulk, at yr hwn yr ydym wedi cael achlysur i gyfeirio fwy nag unwaith, yn tramwy y wlad gan bregethu teyrnas Dduw, ac yr oedd ei bregethau cyffrous a tharanllyd yn tynu sylw y ffordd y cerddai. Gan fod y gymydogaeth hon ar y pryd yn hynod o lygredig ac ofergoelus, yr oedd pregethau John Bulk yn cario effeithiau grymus. Cyn hir dechreuwyd pregethu yn achlysurol mewn lleoedd eraill yn y gymydogaeth, ond gan yr aflonyddid arnynt gan derfysgwyr, trwyddedwyd Tanyrallt, yn mhlwyf Llanfair yn Macthafarneithaf, yn "Llys Bangor, Ebrill 30ain, 1811, gan Robert Roberts, gweinidog." Mae yn sicr genym mai Mr. Roberts, Ceirchiog, oedd hwn, oblegid cawn ei fod ef a Mr. Arthur Jones, Bangor, yn pregethu yma ar achlysur agoriad y lle. Aelodau yn Mhentraeth a Rhosymeirch oedd yr ychydig Annibynwyr oedd yn y lle, ac ymddengys i eglwys gael ei ffurfio yn Nhanyrallt cyn i'r capel gael ei godi. Dan ofal Mr. Evans, Beaumaris, yn nglyn a Phentraeth, yr oedd y lle yn benaf, ond cyrchai Mr. D. Beynon, hefyd yma yn fynych, ar ol ei sefydliad yn Llanerchymedd. Yn y flwyddyn 1816, yr adeiladwyd y capel, ac mewn cyfarfod a gynaliwyd yn Llanerchymedd, Ionawr 27ain a'r 28ain, 1817, rhoddwyd o Drysorfa y Sir 7p. 6s. i dalu am weithredoedd capel Rhosfawr.* Yr oedd Trysorfa wedi ei chychwyn "i gynorthwyo achosion amgylchiadol y sir," ac yr oedd Mr. Robert Roberts, Ceirchiog, yn drysorydd, a William Pierce i'w gynorthwyo; ond cwynai Mr. J. Powell mai ychydig a ddaeth i law. Nid oedd nifer yr aelodau pan yr aed i'r capel ond 14. Wedi i Mr. John Griffith gael ei urddo yn gydweinidog a Mr. J. Evans, bu y lle yn benaf dan ei ofal ef, ac wedi hyny yn olynol dan ofal Mr. Thomas Davies, a Mr. Henry Rees, mewn cysylltiad a Phentraeth, a bu Mr. Thomas Davies ar ol hyny yn gofalu am y lle mewn cysylltiad a Moelfro. Bu Mr. Edward Morris, yn awr o Penrhyndeudraeth, yn byw yma dros rai blynyddoedd, ac yn gofalu am yr eglwys, er nad urddwyd ef yma. Ar ol hyny bu yr eglwys yma am flynyddoedd lawer yn dibynu ar weinidogaeth achlysurol, hyd y flwyddyn 1869, pryd yr unasant a'r eglwys yn Moelfro i roddi galwad i Mr. William V. Davies, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac y mae yn parhau i ofalu am y lle, a'r achos yn myned rhagddo yn llewyrchus ag ystyried sefyllfa a phoblogaeth yr ardal. Coffeir gyda hiraeth am enwau llawer o ffyddloniaid a fu yn yr eglwys hon, ac y mae yn weddus yn arbenig i ni grybwyll am y didwyll a'r caredig Thomas Hughes, yr hwn a anrhegodd yr eglwys a thir claddfa berthynol i'r capel, a rhoddwyd ei gorph yntau i orwedd ynddi Rhagfyr 5ed, 1869.

Codwyd yma un pregethwr, sef William Jones, yr hwn a fu am flynyddoedd yn aelod a phregethwr defnyddiol a llafurus gartref ac oddicartref, ac nid yn fuan yr anghofir ei gynghorion doeth a difrifol. Hunodd yn yr Iesu yn y flwyddyn 1868.

Bu Hugh Hughes, Dulas, yn bregethwr cynorthwyol cymeradwy yn Mon am flynyddau lawer, ac yr ydym yn cael iddo fod o help mawr yn nghychwyniad llawer o'r achosion sydd yn awr yn flodeuog. Nid ydym yn gwybod yn mha le y dechreuodd bregethu, nag â pha eglwys yn neillduol yr oedd yn dal cysylltiad. Yr oedd Rhosfawr yn llawn mor gyfleus iddo ag un man, hyd nes y sefydlwyd achos yn Moelfro.

* O gofnodion Mr. Jonathan Powell, Rhosymeirch.

Digitized by Google

## MOELFRO.

Nis gallwn gael allan i sicrwydd pa bryd y dechreuwyd pregethu, onI yr ydym yn sicr mai yn nhymor gweinidogaeth Mr. Thomas Davies yn Mhentraeth, y bu hyny, ac yn lled fuan fel y gallwn gasglu ar ol ei sefydliad yno. Yr oedd Elizabeth Owen, gwraig Thomas Owen, yn aelod yn Rhosfawr, ond oblegid pellder y ffordd yno, llwyddodd i gael gan nifer o ferched ddyfod yn nghyd i gynal Ysgol Sabbothol yn Moelfro, ac wrth weled hono yn llwyddo, gwahoddwyd Mr. Thomas Davies, Pentraeth, i ddyfod i'r lle i bregethu. Bu cryn lwyddiant ar y gwaith, fel y penderfynwyd cael capel. Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1827. Costiodd y capel a'r ty cysylltiedig ag ef 150p,, ac yr oedd yr eglwys yn 25 o nifer pan aed i'r capel. O gylch yr adeg yma y daeth Mr. Evan Williams, myfyriwr o athrofa Neuaddlwyd, i'r ardal, ac urddwyd ef yn weinidog yma Llun y Sulgwyn, 1829. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Griffith, Caergybi; holwyd y gofyniadau a dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. O. Thomas, Carrog; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Amlwch, ac i'r eglwys gan Mr. J. Evans, Beaumaris. Llwyddodd trwy ei ysbryd cyfeillgar a'i ddawn ennillgar i sicrhau ei hun yn serch y gymydogaeth, a chadwai ysgol ddyddiol, ac yr oedd yn dra derbyniol gan y plant a'u rhieni. Priododd cyn hir ac aeth i fasnach, ond claddodd ei wraig cyn hir, ac yn mhen amser ailbriododd, a symudodd o'r lle i Benygroes, sir Gaernarfon, ac wedi hyny i America, wedi treulio ryw chwe' blynedd yn yr ardal yma. Dychwelodd o America, a bu yn weinidog am ychydig yn Ebenezer, Cefn-coed-cymer, ac wedi hyny yn Penycae, sir Aberteifi, lle y daw ei hanes etto dan ein sylw. Bu yr eglwys ar ol hyny rai blynyddoedd heb weinidog sefydlog, ond yn y flwyddyn 1837, rhoddwyd galwad i Mr. Henry Edwards, gwr ieuangc o'r Crwys, sir Forganwg, ac urddwyd ef Tachwedd 7fed, y flwyddyn hono. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri I. Jones, Groeslon; J. Evans, Beaumaris; E. Davies, Llanerchymedd; W. Jones, Amlwch; D. James, Rhosymeirch; W. Griffith, Caergybi; T. Owen, Llanfechell, ac H. Rees, Pentraeth. Ni bu tymor ei arosiad yma ond byr. Gwaelodd ei iechyd, a dychwelodd i'w fro enedigol, lle y bu farw yn fuan.

Yn y flwyddyn 1839, daeth Mr. Evan Thomas, o ysgol Marton yma, a bu yn y lle dros dymor yn pregethu yn gyson, ond ni urddwyd ef. Yr ydym eisioes wedi rhoddi ei hanes ef yn nglyn a Machynlleth, lle yr ydoedd pan y terfynodd ei yrfa. Daeth Mr. Thomas Davies yma ar ol hyny, yr hwn oedd ar llaw benaf yn nghychwyniad yr achos pan oedd yn weinidog yn Mhentraeth. Bu dros rai blynyddau yn weinidog yma, ac yn Rhosfawr, hyd nes y symudodd i Glanyrafon, a bu yr eglwys yma ar ol hyny am fwy nag ugain mlynedd heb weinidog. Yn niwedd y flwyddyn 1869, rhoddwyd galwad i Mr. William V. Davies, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Chwefror 22ain a'r 23ain, 1870. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri D. C. Rees, Capel mawr; J. Evans, Cana; J. Owens, Llangefni; W. M. Davies, Blaenycoed; J. R. Davies, Rhosymeirch; W. Lloyd, ac E. C. Davies, Caergybi. Mae Mr. Davies yn ymroddi i lafurio yma. Mae y capel yn cael ei ail adeiladu, a bydd yn barod i'w agor cyn diwedd y flwyddyn hon (1872). Bu llawer o siarad am ailadeiladu y capel,

* Llythyr Mr. W. V. Davies.

Digitized by Google

ond gohirid gwneyd hyny am nad oedd prydles gan yr eglwys ar y tir lle y safai, ond yn mis Medi, 1871, cafwyd tir yn rhad gan H. R. Hughes, Ysw., Kimmel.* Bu yma lawer o ffyddloniaid o bryd i bryd, ac y mae yma rai o gyffelyb ysbryd yn aros.

Codwyd yma un pregethwr, sef Richard Owen. Symudodd o'r ardal yma i Niwbwrch, ac y mae yn bregethwr cynorthwyol yno.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

HENRY EDWARDS. Gelwid ef weithiau Henry Thomas. Yr oedd yn frawd i Mr. Thomas Edwards, Ebenezer, sir Gaernarfon. Derbyniwyd ef yn aelod yn y Crwys, ac yno y dechreuodd bregethu. Aeth i'r Gogledd at ei frawd, a chyn hir derbyniodd alwad o Moelfro, Mon, ac urddwyd ef Tachwedd 7fed, 1837. Yr oedd yn ddyn ieuangc crefyddol a chymeradwy iawn, ac yn dra derbyniol fel pregethwr, er nad oedd o alluoedd cryfion na doniau helaeth. Gwanaidd oedd ei iechyd, a phrofodd awyr ynys Mon yn rhy gryf iddo. Ni bu yma ond prin ddwy flynedd o gwbl. Aeth i'w ardal enedigol, er mwyn adferiad i'w iechyd, a chyda bwriad i ddychwelyd, ond yr oedd y darfodedigaeth wedi ymaflyd ynddo, a bu farw yn fuan, ac ni chafodd pobl ei ofal, y rhai a'i hanwylent ef yn fawr, weled ei wyneb ef mwy.

THOMAS DAVIES. Ganwyd ef yn Llangeler, yn sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1792, a derbyniwyd ef yn ieuangc yn aelod o'r eglwys yn Saron. Gan fod ganddo ddawn gweddi nodedig, a'i ysbryd yn llawn gwres, anogwyd ef i ddechreu pregethu, ac yr oedd yn dra derbyniol gan yr eglwysi lle yr ymwelai a hwy. Symudodd i Gwmwysg, sir Frycheiniog, lle y bu am ysbaid yn pregethu, a disgwyliai yr urddasid ef yno, ond trwy ryw amgylchiadau, ond nid dim anheilwng o'i du ef, ni ddaeth hyny oddiamgylch. Aeth ar daith trwy y Gogledd, a derbyniodd alwad o Bentraeth a Phenmynydd, lle yr urddwyd ef yn y flwyddyn 1825. Llafuriodd yno gyda diwydrwydd a llwyddiant am chwe' blynedd, nes y symudodd i Bethania, Ffestiniog. Yr oedd yn bregethwr grymus a difrifol, ond gan nad oedd wedi cael manteision addysg teimlodd ei hun nad oedd yn gymhwys i le cynyddol, yn nghanol pobl ymchwilgar y fath ag oedd yn Ffestiniog, ond bu yno yn dra derbyniol am wyth mlynedd, ac y mae ol ei lafur yn y lle i'w ganfod hyd y dydd hwn. Bu am ychydig yn Hebron, a Nebo, ac Aberdaron, yn Lleyn, ac oddiyno symudodd i Moelfro a Rhosfawr, ac ar ol hyny bu yn byw yn Glanyrafon, ac yn gofalu am yr achos bychan yno, ond yn ei flynyddoedd olaf, yr oedd yn byw yn Bodffordd, heb ofal eglwysig arno, ond pregethai yn mha le bynag y byddai galwad am dano. Yr oedd Thomas Davies yn ddyn cywir a didwyll, ac yn llawn iawn o ysbryd ei waith, ond yn ei flynyddau diweddaf yr oedd ei lais wedi tori, a'i glyw wedi trymhau, ond yr oedd yn amlwg arno ei fod yn addfedu i wlad well. Bu farw Ebrill 26ain, 1865, yn 73 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Rhosymeirch.

## AMLWCH.

Mae yn eglur yr arferai Mr. Jenkyn Morgan bregethu yma yn achlysurol os nad yn gyson, er nas gallasom gael allan i sicrwydd yn mha le.

Yr oedd yn derbyn cynorthwy o'r Trysorfwrdd Presbyteraidd fel gweinidog Amlwch yn gystal ag fel gweinidog Rhosymeirch. Nis gallwn olrhain yr achos presenol mewn dilyniad difwlch hyd ei ddyddiau ef; ond y mae genym sicrwydd fod rhai o aelodau Rhosymeirch yn byw yma o gylch y flwyddyn 1785, a bod Mr. Benjamin Jones, eu gweinidog, yn dyfod yma i bregethu. Pregethid mewn ty anedd yr ochr arall i'r man lle y saif capel y Methodistiaid Calfinaidd, ond nis gallasom gael allan pa bryd y corpholwyd yr eglwys, na phwy oeddynt yr aelodau cyntaf, ond y mae agos yn sicr mai Mr. B. Jones a ffurfiodd yr eglwys yma, a bu Mr. William Jones, yr hwn a aeth oddiyma i Fachynlleth, dros ysbaid dwy flynedd yn cynorthwyo Mr. B. Jones yn Rhosymeirch, a'r eglwysi newydd a blanwyd ganddo. Gan mai un o Gwernogle oedd Mr. W. Jones, y mae yn dra thebyg ei fod yn gydnabyddus a Mr. B. Jones pan oedd yn Mhencader, ac mai trwy ei gydnabyddiaeth ag ef y daeth i Fon ar ei ol. Tua'r flwyddyn 1789, daeth Mr. Evan Jones, myfyriwr o'r athrofa yn Nghroesoswallt yma, a bu yma hyd y flwyddyn 1793, oblegid yr ydym yn cael cofrestr o fedyddiadau a weinyddwyd ganddo, Awst 18fed, 1793. Ymfudodd i'r America, lle y treuliodd weddill ei oes. Yn ysbaid byr gweinidogaeth Mr. Jones yma, prynwyd prydles ar dŷ annedd yn y Borth, Amlwch, a chyfaddaswyd y lle at addoli, ond cynyddodd y gynnulleidfa yma fel y bu raid helaethu y lle yn fuan. Yn niwedd y flwyddyn 1794, daeth Mr. John Evans yma o Fachynlleth. Llai na phedwar ugain oedd rhifedi yr aelodau ar sefydliad Mr. Evans yn y lle, ond tynodd ei weinidogaeth sylw buan. Cynnullai y fath luaws i'w wrando, fel y gorfodid ef am flynyddau i fyned i'r pulpud trwy ffenestr o'r tu cefn, a pharhaodd felly nes yr helaethwyd y capel. Llafuriodd Mr. Evans yma am 31 mlynedd, ond yn y flwyddyn 1825, rhoddodd ofal yr eglwys i fyny, a symudodd i fyw at ei ferch i Dremadog, ac yno terfynodd ei yrfa mewn oedran teg, ac yn gyflawn o ddyddiau.

Yn Gorphenaf, 1826, dechreuodd Mr. William Jones, Caernarfon, ei weinidogaeth yma, ac yn Awst, yr un flwyddyn, gosodwyd i lawr sylfaen capel newydd, ar dir a gafwyd ar brydles o 99 o flynyddau. Aeth y gynnulleidfa i'r capel newydd y Sabboth cyn y Sulgwyn 1827, pryd y pregethodd Mr. Jones oddiar 2 Cron. vi. 41, 42. "Ac yn awr cyfod, O Arglwydd Dduw i'th orphwysfa, ti ac arch dy gadernid; dillader dy offeiriaid, O Arglwydd Dduw, â iachawdwriaeth, a llawenyched dy saint mewn daioni. O Arglwydd Dduw, na thro ymaith wyneb dy eneiniog; cofia drugareddau Dafydd dy was." Yr oedd yn dŷ eang a chyfleus, gwerth 800p., a chyfrif ty y gweinidog sydd yn nglyn ag ef. Casglwyd cynnulleidfa luosog iddo, a bu cynydd graddol yn rhifedi yr eglwys. Yn y blynyddau 1839 ac 1840, cafwyd ymweliadau grymus oddiwrth yr Arglwydd, pryd yr ychwanegwyd nifer fawr at rifedi yr aelodau; a thrachefn yn y blynyddau 1859 ac 1860, ymwelodd Duw a'i bobl mewn llwyddiant mawr. Aeth y capel yn rhy gyfyng, ac yn y flwyddyn 1861, helaethwyd ef yn fawr trwy draul o fil o bunau. Mesura 54 troedfedd wrth 42 troedfedd, gydag oriel helaeth o'i amgylch. Effeithiodd arafwch y gweithfeydd copr yn y lle i raddau ar y gynnulleidfa a'r eglwys yn y deng mlynedd diweddaf, a gorfodwyd llawer i symud i leoedd eraill Yn mis Gorphenaf, 1868, rhoddodd Mr. Jones ei weinidogaeth yma i fyny, ar ol llafurio yn ddiwyd yn y lle am 42 mlynedd. Yr oedd yn flaenorol wedi ei dderbyn ar Drysorfa yr hen Weinidogion, ac y mae etto yn parhau i bregethu yn achlysurol, a hyny gyda derbyniad mawr. Derbyniodd Mr. Jones tua chwe' chant o aelodau

Digitized by Google

yma yn nhymor ei weinidogaeth. Yn y flwyddyn 1870, prynwyd hawl y tir, ar yr hwn y saif y capel, am 120p., a bellach y mae y tir a'r capel yn rhydd-feddiant i'r eglwys. Yn nechreu y flwyddyn 1870, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. George Williams, Trewyddel, sir Benfro, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yma yn fuan, a bu cryn dipyn o lwyddiant ar ei ddyfodiad, ond llai na dwy flynedd yr arhosodd yma, canys derbyniodd alwad o Abercanaid, gerllaw Merthyr Tydfil, a symudodd yno. Bu yma lawer o "rai rhagorol y ddaear" o bryd i bryd mewn cysylltiad a'r eglwys hon, y rhai y mae eu henwau yn perarogli hyd y dydd hwn, megis W. Parry, J. Owen, J. Pritchard, O. Jones, T. Pritchard, R. Owen, E. Jones, G. Williams, R. Owen, ac eraill. Mae eu llafurus gariad mewn coffa ger bron Duw, ac nid yw eu henwau wedi eu hanghofio ar y ddaear.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

John Evans. Mab Mr. J. Evans, y gweinidog. Yr oedd yn wr ieuangc gobeithiol iawn, a disgwyliadau mawr oddiwrtho. Dechreuodd bregethu pan yn dra ieuangc, ac wedi bod ar daith gyda'i dad, gwaelodd ei iechyd, a bu farw Medi, 1809, yn 18 oed. Parodd ei farwolaeth siomiant a thristwch mawr i'r holl wlad. Claddwyd ef yn mynwent Rhosymeirch.

David Hughes. Dechreuodd bregethu yn ieuangc. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef yn Casnewydd, Mynwy, a symudodd oddiyno i Drelech, lle y bu farw yn nghanol ei ddyddiau. Daw ei hanes yno dan ein sylw.

Hugh Hughes. Enciliodd ef at yr Eglwys Sefydledig.

William Hughes. Urddwyd ef yn Nhreforis, ond trodd at y Bedyddwyr, ac iddynt hwy y perthyn cofnodi y gweddill o'i hanes.

Richard Owen. Urddwyd ef yn Ebenezer a Llanfair, sir Aberteifi, ond trodd at yr Eglwys Sefydledig, ac y mae wedi marw er's blynyddoedd. Nid oedd yn amddifad o ddawn, ond gwan a chyffredin oedd ei synwyr a'i alluoedd.*

William Parry. Addysgwyd ef yn athrofa y Bala. Urddwyd ef yn Llanarmon, ac y mae yn awr yn Ngholwyn.

Evan J. Evans. Bu dan addysg yn athrofa y Bala. Urddwyd ef yn Pisgah a Penygroes, ac y mae yn awr yn Berea, Mon.

John Ll. Hughes. Bu yn efrydydd yn athrofa y Bala. Urddwyd ef yn Gwernllwyn, Dowlais, ac y mae yn awr yn Rehoboth, Penbre.

Edward Jones. Bu yn bregethwr cynorthwyol dros rai blynyddoedd, ond ymunodd a'r Methodistiaid Calfinaidd.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

EVAN JONES. Yr oedd yn enedigol o gymydogaeth Glandwr, sir Benfro, ac yn yr eglwys hono y derbyniwyd ef yn aelod, ac y dechreuodd bregethu. Yn y flwyddyn 1782, gwnaed cais gan eglwys Glandwr, at reolwyr y Trysorfwrdd Cynnulleidfaol, am iddo gael ei dderbyn i'r athrofa yn Nghroesoswallt. Mae y cais hwnw yn awr ger ein bron, wedi ei arwyddo gan John Griffith, gweinidog; Rees Thomas, John David, Thomas Griffith, Evan John, henuriaid; Mark Evans, John Evans, John James, a John David, diaconiaid. Cymeradwyent ef fel gwr ieuangc o alluoedd addawol, ac o olygiadau iachus. Ac y mae ef ei hun wedi rhoddi crynodeb o'i olygiadau,

* Wedi ysgrifenu yr uchod, hysbyswyd ni mai yn y Tabernacl, Liverpool, y dechreuodd Richard Owen bregethu.

Digitized by Google

a'i gymhelliadau at waith y weinidogaeth. Gallwn gasglu oddiwrth ei lawysgrif nad oedd wedi cael ond ychydig o fanteision addysg yn flaenorol. Cafodd dderbyniad i'r athrofa, ac wedi treulio ei amser yno, bu am ryw ysbaid yn Beaumaris, a bwriadai sefydlu yno. Daeth dros y mor o ryw borthladd yn sir Benfro neu sir Aberteifi, ac yn Amlwch y tiriodd, a thueddwyd ef, o herwydd rhyw resymau, i aros yno yn hytrach na myned i Beaumaris. Sefydlodd yno yn mis Mawrth, 1789, a bu yno hyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn 1793, pryd yr ymfudodd i'r America, ac yno y bu dros y gweddill o'i oes, ac nid oes genym ychwaneg o'i hanes. Dywed Mr. Jones, Amlwch, "gellir barnu am dano oddiwrth y gofrestr fanwl a rheolaidd o fedyddiadau a adawodd ar ol, ei fod yn ofalus yn ei swydd fel gwas i Iesu Grist yn ei eglwys."

JOHN EVANS. Ganwyd ef yn mhlwyf Llangranog, yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1753. Yn nyddiau ei ieuengctyd rhodiodd yn ol helynt y byd hwn, fel y lluaws o'i gyfoedion, ac yr oedd yn llawn deng-mlwydd-arhugain oed cyn iddo ddyfod yn ddifrifol i ystyried ei ffyrdd. Derbyniwyd ef yn aelod yn Mhenrhiwgaled, gan Mr. Benjamin Evans, Drewen, ac yno hefyd y dechreuodd bregethu. Wedi pregethu dros rai blynyddoedd yn ei wlad enedigol, daeth i Fachynlleth, lle yr oedd cynnulleidfa fechan wedi ei chasglu er's ychydig flynyddau, ac urddwyd ef yno tua'r flwyddyn 1791. Llafuriodd yno gydag ymroddiad mawr, a thrwy ei ymdrechion ef y cychwynwyd yr achosion yn Aberhosan a Phennal. Tua phedair blynedd yr arhosodd yn Machynlleth, oblegid yr ydym yn ei gael yn dechreu ei weinidogaeth yn Amlwch yn gynar yn y flwyddyn 1795. Yr oedd yn dra phoblogaidd yn Amlwch y blynyddoedd cyntaf wedi ei sefydliad yno, a pharhaodd felly, fel pregethwr, yn ystod ei arhosiad yn y lle. Pregethodd lawer y tuallan i Amlwch, ac i ba le bynag yr elai deuai cynnulleidfaoedd lluosog i wrandaw arno. Yr oedd yn gadarn yn athrawiaeth iachus, ac yn eiddigus dros roddi y clod i ras Penarglwyddiaethol yn iachawdwriaeth pechadur. Pe buasai mor eiddigus dros fywyd sanctaidd ag ydoedd dros athrawiaeth bur, buasai yn un o'r gweinidogion mwyaf llwyddianus yn ei oes. Yr oedd natur wedi ei ffafrio a chorph tal, llathraidd, tywysogaidd, yn llawn dwy lath a dwy fodfedd, a llais clir, cryf, a soniarus, a'i dymer lon, gymdeithasgar, yr hon a'i gwnai yn gydymaith dyddan i ba le bynag yr elai; ond yr oedd yfed yn brofedigaeth iddo, a gwanychodd hyny am dymor maith nerth ei weinidogaeth. Ychwanegodd y swydd o ysgolfeistr at y weinidogaeth, yr hyn a fu nid yn unig yn help i gynhaliaeth ei deulu, ond dygodd ef i gysylltiad a llawer o deuluoedd yn y wlad, ac yr oedd yn barchus ganddynt oll. Yr oedd dyweyd pethau cyffredin, bras, ac weithiau isel, yn brofedigaeth iddo ef, fel i lawer yn ei oes. Pregethai unwaith mewn cymanfa yn Nhalybont, sir Aberteifi, os cywir yr hysbyswyd ni, yn olaf yn yr oedfa ddau o'r gloch. Ei destyn ydoedd, "Canys nid ydym ni heb wybod ei ddichellion ef." Cyn darllen ei destyn dywedodd, "Mae fy mrodyr yma wedi bod yn pregethu Crist i chwi drwy y gymanfa. Yr ydw' inau ar y diwedd am dynu crib drwy ben y diawl." A chribo y diafol yn drwsgl y bu hefyd. Cyn diwedd y bregeth yr oedd wedi gwresogi, a chan estyn ei fraich hir allan, ac edrych yn gynhyrfus, gwaeddai yn groch, "Y diawl a'ch collo, bobl!" Dychrynai llawer wrth glywed y fath iaith fras, oblegid y swniai mor debyg i iaith dyn yn rhegi. Ond edrychai yn ngwyneb y gynnulleidfa yn ddiofn, ac ychwanegai, "O ddifri 'rwy'n dyweyd, a Duw a'ch caffo." Yr ydym yn crybwyll yr

Digitized by Google

engraifft yna fel dangoseg o nodwedd ei bregethau, ac yr oedd mewn amryw eraill, yn y cyfnod hwnw, lawer o bethau cyffelyb. Rhoddodd ei weinidogaeth i fyny yn Amlwch yn y flwyddyn 1825, a symudodd i fyw i Dremadog at ferch iddo, ac yno y bu hyd derfyn ei oes. Bu o lawer o help yn nghychwyniad yr achos yn Mhorthmadog ac yn Mhenmorfa, a phregethodd lawer yn yr holl leoedd o gylch yno pan fyddai galwad am dano. Am y deuddeng mlynedd olaf o'i oes yr oedd yn ddirwestwr trwyadl, a mynych y dywedai, pe buasai felly trwy ei oes y gwnaethai lawer mwy o ddaioni, heblaw y buasai yn llawer mwy hapus i'w brofiad ei hun. Bu farw Rhagfyr 7fed, 1849, yn 95 oed, wedi bod yn y weinidogaeth am yn agos i driugain mlynedd.

## LLANERCHYMEDD.

Mae yn anhawdd gwybod i sicrwydd pa bryd y dechreuwyd pregethu yma. Rhywbryd yn gynar yn yr ugain mlynedd olaf o'r ganrif ddiweddaf symudodd John James yma o Bwllheli, yr hwn oedd yn ddyn crefyddol. Tincer oedd John James wrth ei gelfyddyd, ac yr oedd gweled un o'i alwedigaeth ef yn glynu wrth yr Arglwydd yn beth anarferol. Dywedir fod y foneddiges grefyddol, Mrs. Edwards, Nanhoron, yn dyweyd unwaith wrtho, "Wel John James, nid oes ond ychydig o bobl o'ch galwedigaeth chwi yn grefyddol." "Nac oes, m'am," atebai John James, "ac nid oes ond ychydig chwaith o'ch dosbarth chwithau." Mor dda yw gair yn ei amser. Yr oedd John James yn ddyn o ddeall cryf, ac o ddawn rhwydd, ac yr oedd ei gysylltiad ef a'r achos gwan yma yn help mawr iddo yn ei gychwyniad, yn enwedig yn nglyn a dygiad yn mlaen ranau ysbrydol y gwaith. Nis gallwn gael allan a oedd yr achos wedi ei gychwyn cyn symudiad John James yma ai nid oedd. Yn nghofnodion Mr. Jonathan Powell, y rhai sydd yn awr ger ein bron, dywedir mai yn 1794 y dechreuwyd yr achos yma. Dywedir mai mewn ty anedd, yr hwn oedd yn wag ar y pryd, mewn lle a elwir yn awr y Walk, y dechreuwyd pregethu. Wedi hyny cymerwyd lle arall, heb fod yn mhell o'r un fan, a elwid y *Whitehorse*, oblegid iddo fod unwaith yn dafarndy, a chyfaddaswyd y lle at addoli. Crybwyllir am un Richard Price, yr hwn yn nghyd a'i wraig a fuont yn gefn mawr i'r achos, ac am flynyddau lawer rhoddasant ymborth a lletty yn rhad i'r pregethwyr a ddeuai heibio. Cadwent westy yn y lle a adnabyddid fel y *Liver*. Bu Edward Roberts yn aelod diargyhoedd am 60 mlynedd. Ymwasgodd Mr. Hughes, Tymawr, yn foreu a'r achos, a bu iddo yn noddwr caredig. Pregethid yn y lle gan weinidogion y sir, er nad ydym yn gwybod i'r eglwys fod dan ofal uniongyrchol yr un o honynt. Daeth Mr. Abraham Tibbott yma, a bu am dymor yn cadw ysgol yn y *Whitehorse*, lle y pregethid, ac yr oedd yn pregethu i'r gynnulleidfa, os nad oedd gofal yr eglwys arno. Yr oedd hyn wedi i'w gysylltiad ag eglwys Rhosymeirch ddarfod. Gan nad oedd yn bosibl cael tir yn y Llan i adeiladu capel, cafwyd tir ychydig y tu allan ar y ffordd i Langefni, gan Mr. Hughes, Tymawr, ar brydles o 99 mlynedd, am bum' swllt y flwyddyn o ardreth. Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1811, a galwyd ef Peniel. Yn y flwyddyn 1813, rhoddwyd galwad i Mr. David Beynon, gwr ieuangc o Ferthyr Tydfil, ac urddwyd ef yn fuan wedi y Sulgwyn y flwyddyn ganlynol. Nid oedd nifer yr aelodau pan sefydlodd Mr. Beynon yma yn

Digitized by Google

ddim ond 25, ond cynyddodd yr achos yn raddol, fel y bu raid cael oriel ar un ochr i'r capel. Tua thair blynedd yr arhosodd Mr. Beynon yma, canys symudodd i Landdeusant, ac ar ol hyny bu yr eglwys yma am ysbaid heb neb neillduol yn cymeryd ei gofal. Yn y flwyddyn 1823, daeth Mr. Owen Jones, Llanaelhaiarn yma, a thynodd ei ddoniau hyawdl sylw mawr, a phe buasai ei fuchedd yn cyfateb i'w ddoniau, ni safasai dim o'i flaen. Ni bu tymor ei arosiad yma ond byr.

Cyn diwedd y flwyddyn 1828, rhoddwyd galwad i Mr. William Williams (Gwilym Caledfryn), o Ddinbych, ond a fuasai am ychydig yn athrofa Rotherham. Urddwyd ef Mehefin 2il, 1829. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. A. Jones, Bangor; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Griffith, Caergybi; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Evans, Beaumaris; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. R. Roberts, Salem, ac i'r eglwys gan Mr. W. Jones, Amlwch.* Bu Mr. Williams yn ymdrechgar a llafurus yn nhymor byr ei weinidogaeth yma, a gwnaeth lawer tuag at goethi a dyrchafu chwaeth ieuengctyd yr eglwys, ond ychydig gyda dwy flynedd yr arhosodd yma. Symudodd i Bendref, Caernarfon. Wedi hyny rhoddwyd galwad i Mr. Evan Davies (Eta Delta), Llanrwst, a bu ef yma am naw mlynedd. Yn ei dymor ef cafwyd tir at adeiladu capel yn nhref-lan Llanerchymedd, a galwyd y capel yn ol enw y gweinidog yn Capel Evan. Adeiladwyd ef yn 1838, ac aeth y draul yn 400p. Yr oedd Mr. Davies yn gymeriad nodedig, ac yn dra adnabyddus fel y dadleuydd cyhoeddus cyntaf yn Nghymru dros lwyrymataliaeth; a phan yr amlygodd rhai awydd i roddi iddo ryw arwydd o barch am hyny, dymunodd ef i hyny gael ei roddi at y capel newydd a godasid ar ei enw. Bu yn ymdrechgar a llwydd-ianus i gasglu ato, a thalwyd y rhan fwyaf o'r ddyled. Symudodd Mr. Davies cyn diwedd 1842 i New Market, ac yno y treuliodd weddill ei oes, lle y daw ei hanes etto dan ein sylw. Wedi bod am fwy na blwyddyn heb weinidog, rhoddwyd galwad i Mr. John Roberts, yr hwn oedd yn bregethwr cynorthwyol parchus yn yr Abermaw, ac urddwyd ef Mai 22ain, 1844. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. R. Parry, Conwy; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Jones, Amlwch; gweddiodd Mr. W. Griffith, Caergybi; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E Evans, Abermaw, ac i'r eglwys gan Mr. W. Williams, Caernarfon.† Llafuriodd Mr. Roberts yma yn egniol am bum'-mlynedd-ar-hugain, nes y symudodd i Brymbo, sir Ddinbych. Talwyd y gweddill o'r ddyled oedd yn aros, yn benaf trwy ymdrechion yr Ysgol Sabbothol. Adgyweiriwyd Peniel, lle y mae gwas-anaeth yn cael ei gynal yn achlysurol, ac ail adeiladwyd capel Llanerch-ymedd trwy draul o fwy na 500p., fel y mae yn gapel hardd a chyfleus. Cynyddodd yr eglwys, y gynnulleidfa, a'r Ysgol Sabbothol. Wedi bod am dymor heb weinidog, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Evan Cynffig Davies, yr hwn ddwy flynedd cyn hyny a urddasid yn gydweinidog a Mr. W. Griffith, yn Nghaergybi, ac y mae Mr. Davies yn parhau i lafurio yma gyda derbyn-iad a pharch.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Richard Parry (Gwalchmai). Urddwyd ef yn Salem, Bryngwran, ac y mae yn awr yn Llandudno.

Robert Roberts. Urddwyd ef yn Ceidio, ac y mae yn awr yn y Graig, Rhymni.

* *Dysgedydd*, 1829. Tu dal. 308. † *Dysgedydd*, 1844. Tu dal. 217.

Digitized by Google

William Williams. Gwr ieuangc tra gobeithiol a fu farw cyn cwblhau ei dymor yn yr athrofa.

William Hughes. Mae yn bregethwr cynorthwyol yn y sir. Bu am dymor hir yn y Dwyran.

David Aubrey. Mae yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys.

Nid ydym yn gwybod am neb arall a gyfodwyd; ac y mae yn sicr fod llawer o ffyddloniaid wedi bod gyda'r achos yma o bryd i bryd, er nad anfonwyd eu henwau i ni, ond y mae eu llafurus gariad mewn coffadwriaeth ger bron Duw.

## MYNAEDDFWYN.

Mae yr eglwys yma mewn cysylltiad a Llanerchymedd, ac wedi bod o'r dechreuad dan yr un weinidogaeth. Dechreuwyd pregethu yma yn y flwyddyn 1827, mewn ty anedd a gymerwyd gan Meistri E. Jones, Clorachfawr; D. Owen, Trewyne, ac O. Jones, Parc-yr-ynys. Ni buwyd yn hir cyn cael capel, yr hwn a agorwyd Tachwedd 23ain a'r 24ain, 1829, a galwyd ef Hebron, ac yr oedd y tri wyr a enwyd uchod yn rhai mwyaf blaenllaw yn ei adeiladiad, ac yn ymddiriedolwyr iddo. Buont o gynorthwy mawr i'r achos, ac y mae eu hiliogaeth ar eu hol yn ffyddlon gydag arch Duw. Ni bu yr achos yma erioed yn gryf mewn nifer, ac y mae wedi dyoddef llawer gan symudiadau a marwolaethau, ond y mae yma er hyny nifer o ffyddloniaid yn glynu wrth yr Arglwydd. Nid oes achos i ni grybwyll am y gweinidogion a fu yma, gan ein bod eisioes wedi cyfeirio atynt yn nglyn a Llanerchymedd.

## LLANDDEUSANT.

Yn y flwyddyn 1749, symudodd Mr. William Pritchard o Fodlewfawr, i Glwchdernog, ac yn mhen rhyw ysbaid wedi hyny, neillduwyd ty bychan a elwid y Clwch-hir, ar dir Clwchdernog, yn lle i addoli. Nid yw yn debyg i eglwys gael ei ffurfio yma, ond pregethid ynddo gan weinidogion pob enwad a ddeuai heibio, oblegid er fod William Pritchard yn Annibynwr cydwybodol, etto yr oedd yn hollol ddiragfarn at bawb o bob enwad efengylaidd. Bu pregethu yn y Clwch-hir hyd ddiwedd oes W. Pritchard, ac nid oes genym son mwyach am bregethu yn y lle. Nid oes ond ychydig gydag ugain mlynedd er y tynwyd hen dŷ Clwch-hir i lawr, fel y mae yn yr ardal luaws mawr sydd yn ei gofio yn dda. Aeth ysbaid heibio ar ol marwolaeth W. Pritchard cyn fod genym son am bregethu yn yr ardal drachefn, er nad ydym ychwaith yn tybied iddi gael ei llwyr adael. Sonir y byddai Annibynwyr yn pregethu yn y pentref, yn y fan lle y saif y Siopnewydd yn awr. O gylch y flwyddyn 1793, daeth Mr. Zacheus Davies yma i bregethu a chadw ysgol. Un o ryw le yn y Deheudir ydoedd. Nid ydym wedi cael allan ei fod wedi ei urddo cyn dod yma, ac nid oes genym un prawf ei fod wedi ei urddo yma. Dywedir ei fod yn bregethwr tanllyd iawn. Efe fu y prif offeryn i adeiladu y capel cyntaf yma yn y flwyddyn 1795, a galwyd ef Bethania. Cynorthwyid ef yn benaf yn y gorchwyl gan William Pritchard o'r Hen-siop, yr hwn yn nghyd a'i wraig fu o help mawr i'r achos yma. Yr oedd Owen Thomas, Carrog wedi hyny, wedi dyfod i fyw i Fodwyn y flwyddyn flaenorol, a bu ef o lawer o help yn

Digitized by Google

nghychwyniad yr achos ac yn nghodiad y capel, er mai aelod yn Rhosymeirch ydoedd. Nid oedd y capel ond ty bychan llwyd, tô gwellt, ond yr oedd traul ei godi yn ormod i'r ychydig oedd yn y lle i'w dwyn, ac oblegid hyny aeth Mr. Z. Davies i'r Deheudir a chasglodd ddigon i dalu yr holl ddyled. Ond mynai rhywrai ei fod wedi casglu mwy na digon, a lluniwyd chwedl i'w ddrygu. Cyrchai llawer i'w wrando tra y bu yma, ond disgynodd yr achos yn isel wedi ei ymadawiad. Hugh Jones a Sian Francis o'r Fferam; a Hugh Rowlands ac Ann Williams o Gae'rgoll, Llanrhuddlad, ac Edward Prisiart Abram, yw yr unig rai y coffeir eu henwau yn nglyn a'r lle. Cynhaliai y brodyr hyn gyfarfodydd gweddio, ac yn achlysurol deuai Abraham Tibbott, John Jones, Ceirchiog; ac wedi hyny Robert Roberts, ac Owen Thomas, Carrog, i bregethu iddynt. Y ddau a enwyd olaf a fu o fwyaf o gynorthwy i'r achos am lawer o flynyddau, a bu y gofal yn llwyr wedi hyny ar Owen Thomas. Wedi urddo Mr. D. Beynon yn Llanerchymedd, bu gofal yr eglwys yma arno ef, ac yn y flwyddyn 1816, darfu ei gysylltiad a Llanerchymedd, a daeth i lettya i Meiriogan, a chadwai ysgol ddyddiol yn Bethania. Bu Mr. Beynon yn boblogaidd yma dros dymor, a chyrchai llawer i'w wrando, ond ymddrysodd mewn rhyw amgylchiadau, ac ymadawodd i'r Deheudir, a pharodd ei ymadawiad chwalfa fawr ar yr achos. Daeth Mr. Owen Jones yma ar ol hyny, mewn cysylltiad a Llanerchymedd, ond byr fu ei arosiad, ac er ei holl ddoniau nid oedd yr achos ond dilewyrch. Bu un James Williams yma yn cadw ysgol, a mynai gael ei urddo yn weinidog, ac oblegid na chafodd hyny, enciliodd at y Bedyddwyr. Rhoddodd hyny ergyd ychwanegol i'r achos oedd cisioes yn wan.

Yn yr amgylchiad yma cymerwyd gofal yr eglwys gan Mr. Owen Thomas, ac arno ef y bu y gofal hyd ei farwolaeth, a chynorthwyid ef gan ei fab, Mr. Thomas Owen, yn nghylch ei weinidogaeth. Tua'r flwyddyn 1822, y cymerodd Mr. O. Thomas y gofal, a'r flwyddyn ganlynol yr adgyweiriwyd ac yr helaethwyd y capel. Nid oedd yr achos yma ond isel yr holl flynyddoedd hyn, a phan fu farw Owen Thomas, yn y flwyddyn 1833, dywedir nad oedd ond un dyn yn aelod yn Bethania i ddechreu a diweddu yr Ysgol Sabbothol, sef Evan Hughes, ond a adnabyddid yn well fel Evan y Rholiwr. Dichon fod yma rai dynion eraill yn aelodau, ond efe yn unig oedd yn dyfod i'r ysgol, ac yn ymgymeryd a rhanau cyhoeddus y gwaith. Wedi marwolaeth Mr. Owen Thomas, datododd y cysylltiad rhwng Llanddeusant a Llanfechell, ac unodd yr eglwys hon a'r eglwys yn Bodedeyrn i roddi galwad i Mr. David Davies, myfyriwr o athrofa y Neuaddlwyd, ac urddwyd ef yn Bodedeyrn, Gorphenaf 27ain, 1836. Bu Mr. Davies yma yn ymdrechgar am flynyddau. Torodd diwygiad grymus allan yn y flwyddyn 1839, a chafodd yr eglwys yma brofi ei effeithiau grymus. Wedi bod yma tua saith mlynedd, symudodd Mr. Davies i Berea, Pentreberw, ac wedi hyny i Langefni, ac y mae yn awr yn Cerrig-cadarn, sir Frycheiniog.

Cyn diwedd y flwyddyn 1842, rhoddwyd galwad i Mr. William Roberts, pregethwr cynorthwyol oedd yn byw ar y pryd yn Rhosymedre, gerllaw Ruabon. Urddwyd ef yma Mawrth 21ain, 1843. Yr oedd gan William Roberts ddoniau melus a gwlithog, ond yr oedd yn flaenorol wedi dilyn arferion a lygrasant ei holl natur, a throdd yn ol drachefn i'w hen lwybrau. Symudodd oddiyma yn y flwyddyn 1846, i Tabor, sir Fynwy, a bu yno nes y bu raid i'r eglwys ymwrthod ag ef, ac y mae bellach er's blynydd-

Digitized by Google

oedd yn ei fedd! Yn ei dymor—sef yn y flwyddyn 1844—y codwyd y capel presenol, ni wnaeth ond ei godi, oblegid yn nhymor ei olynydd y talwyd am dano. Yn nechreu y flwyddyn 1848, rhoddwyd galwad i Mr. Robert Edward Williams, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Gorphenaf 18fed, 1848. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Griffith, Caergybi; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Thomas, Beaumaris; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. James, Rhosymeirch; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. W. Jones, Amlwch, ac i'r eglwys gan Mr. D. Roberts, Cemaes. Ymaflodd Mr. Williams yn ei waith o ddifrif, a theimlai mai y peth cyntaf i'w wneyd oedd talu dyled y capel. Yr oedd wedi costio 200p., ond yr oedd 131p. yn aros yn 1848, ond llwyddwyd cyn pen ychydig flynyddoedd i'w llwyr ddileu. Gweithiodd yr Ysgol Sabbothol yn rhagorol. Bu Mr. Williams yma yn llwyddianus am 'yn agos i ddeuddeng mlynedd, nes y symudodd i Ruthin yn 1859. Cyn hir ar ol hyny rhoddwyd galwad i Mr. Thomas T. Williams, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Ebrill 25ain, 1861. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. R. E. Williams, Ruthin; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Griffith, Amana; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. P. Howell, Pwllheli; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. M. D. Jones, Bala, ac i'r eglwys gan Mr. W. Griffith, Caergybi. Ychydig gyda dwy flynedd y bu Mr. Williams byw ar ol ei urddo, ond yn ei dymor byr gweithiodd a'i holl egni. Gwnaed rhyw adgyweiriadau mewnol yn y capel yn ei amser ef, a rhoddodd bywiogrwydd ei weinidogaeth, a'i ysbryd diwygiadol fywyd newydd yn yr eglwys. Bu farw Mehefin 10fed, 1863. Claddwyd ef yn barchus yn mynwent Bethania, a chymerodd yr eglwys a'r gynnulleidfa holl draul y claddedigaeth, ac erbyn hyn y mae maen hardd wedi ei osod ar ei fedd, a barau heiyrn yn ei gylchynu. Mae yr eglwys yn deilwng o ganmoliaeth am y cydymdeimlad mawr a ddangosasant ag ef yn ei gystudd, a'r parch a ddangosasant i'w weddillion marwol. Ar ol bod flwyddyn yn amddifad, rhoddwyd galwad i Mr. David John, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, i fod yn weinidog yma ac yn Llanfechell, ac urddwyd ef yno Medi 28ain, 1864. Bu Mr John yma yn llafurus am bedair blynedd, nes y symudodd i Booth-street, Manchester, yn 1868, ac yno y mae etto. Cyn pen blwyddyn wedi ymadawiad Mr. John, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Roberts, myfyriwr o athrofa y Bala, ac urddwyd ef Mai 11eg, 1869. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Lloyd, Caergybi; holwyd y gofyniadau gan Mr. E. Owen, Llansantffraid; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Williams, Caecoch; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. E. T. Davies, Abergele, ac i'r eglwys gan Mr. R. E. Williams, Beaumarris. Mae Mr. Roberts yn parhau i lafurio yma gyda chymeradwyaeth mawr. Mae yr eglwys hon wedi bod bob amser yn nodedig o heddychol, ac y mae wedi bod yn haelionus, nid yn unig i ddwyn ei threuliau ei hun, ond hefyd at achosion cyhoeddus crefydd. Aed i 100p. o draul yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf mewn paentio y capel, a gosod *railings* o'i gylch, ac ail wneyd y ty perthynol iddo, a thalwyd yr holl ddyled heb oedi dim. Yn mysg prif gefnogwyr yr achos yma er dyddiau William Pritchard, dylid cofnodi enwau Owen Jones a William Jones, Clwchdernog; William Pritchard a John Pritchard, Hensiop; David Roberts, Meiriogan; Thomas Jones, Melinllynon; William Jones, Glanalaw; David Williams, y Siop; Thomas Williams, Glanalaw; Robert Roberts, Mynyddadda, a bydd gofal a

ffyddlondeb Robert Jones, Tanylan, gynt, Grouant, yn awr, a'i briod, yn cael ei goffau tra yr erys y genhedlaeth bresenol yn y wlad. Teimlir chwithdod gan lawer i weled William Jones—neu 'newyrth Wil, fel y gelwid ef fynychaf—yn eisiau. Bu yn arweinydd y gân yma am flynyddau, ac nid yn fuan yr anghofir ei weddiau hwyliog, a'i amen cynes yn y cyfarfodydd mawrion. Mae yma un hen chwaer Elizabeth Hughes, wedi bod yn aelod 56 mlynedd. Derbyniwyd hi cyn dyfodiad Mr. D. Beynon i'r lle.

Ni chodwyd yma ond un pregethwr, sef John Jones, Marton, am yr hwn y crybwyllasom eisioes, Cyf. I., tu dal. 395.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

David Beynon. Ganwyd ef yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1792. Symudodd yn ieuangc i Ferthyr Trydfil, ac yno pan yn aelod yn Bethesda y dechreuodd bregethu. Yr oedd ef a Dr. Jenkyn yn dechreu yr un pryd, a chyd-deithiodd y ddau lawer gyda'u gilydd pan yn ieuangc. Aeth Mr. Beynon i sir Fon, ac urddwyd ef yn Peniel, Llanerchymedd, Mehefin 2il, 1814. Bu yno yn dderbyniol dros rai blynyddoedd. Rhoddodd yr eglwys yno i fynu a chyfyngodd ei lafur i eglwys Llanddeusant, yr hon oedd cyn hyny dan ei ofal. Priododd yno, ond ni bu y briodas mewn un modd yn un hapus. Ar wahan a'u gilydd y bu ef a'i wraig byw trwy eu hoes. Nid yw yn perthyn i ni ymholi i'r amgylchiadau, ond yn unig crybwyll y ffaith. Dychwelodd ef i'r Deheudir, a bu am dymor heb gysylltiad rhyngddo ag unrhyw eglwys. Aeth i Rwssia, lle y treuliodd lawer o flynyddau, ond yn mlynyddoedd olaf ei oes yr oedd yn byw yn Nantgarw, ac yn aelod yn y Groeswen, a phregethai pan fyddai galwad am ei wasanaeth. Yr oedd yn bregethwr cynes a bywiog, a phe buasai ei gerddediad wedi bod yn uniawn bob amser gallasai fod yn weinidog defnyddiol. Yn mlynyddoedd diweddaf ei oes yr oedd o ran ei gymeriad yn gwbl ddiargyhoedd, ond yr oedd olion y crwydriadau gynt yn amlwg wedi pylu ei feddwl. Yr oedd yn dda ganddo gofio y dyddiau gynt, a'r ysbryd a fwynhaodd yn nghychwyniad ei yrfa grefyddol. Bu farw yn mis Mehefin, 1872, yn 80 oed.

Thomas T. Williams. Ganwyd ef yn Nhanyffordd, yn mhlwyf Llanllechid, yn sir Gaernarfon. Cafodd fanteision crefyddol o'i febyd, a derbyniwyd ef pan yn ieuangc yn aelod yn Amana. Yr oedd ei dad yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys, a chododd dau frawd iddo i'r weinidogaeth. Bu am dymor yn athrofa y Bala, ond daliwyd ef gan waeledd, fel y lluddiwyd ef i ddilyn ei efrydiau yn gyflawn. Urddwyd ef yn Llanddeusant, Ebrill 25ain, 1861, ac yr oedd yn nodedig o barchus a chymeradwy gan yr eglwys a'r wlad oll. Pregethai yn rymus a dylanwadol, ac yn enwedig fel gweddiwr yr oedd ei ddoniau yn anarferol. Er nad oedd ond bychan o gorpholaeth yr oedd ei lais yn gryf a threiddiol, a chariai ddylanwad grymus ar ei wrandawyr. Coffeir hyd y dydd hwn am ei weddi effeithiol ar faes y gymanfa yn Mon unwaith. Cafodd effaith ddyfnach ar lawer na dim a fu yn y gymanfa. Gweithiodd ei ddiwrnod a'i holl egni. "Canwyll yn llosgi ac yn goleuo" ydoedd, ac yr oedd llawer "yn ewyllysgar dros amser yn gorfoleddu yn ei oleuni ef." Bu farw Mehefin 10fed, 1863, yn 28 oed, a chladdwyd ef yn Bethania, Llanddeusant, ac y mae maen pryd-ferth arno, yr hwn a roddwyd gan yr eglwys er coffadwriaeth am dano ef.

Digitized by Google

## LLANFECHELL.

Dechreuwyd pregethu yn yr ardal yma trwy offerynoliaeth un Richard Jones, yr hwn a ddaethai i fyw i'r Maesmawr. Yr oedd Richard Jones yn fab i John Owen, Caeaumon, a'i wraig yn ferch i William Thomas, Meillionen, ac arferai fyned i'r Capel mawr—lle yr oedd yn aelod—ar y Sabbothau, ac i'r cyfeillachau crefyddol, er fod ganddo ddeuddeng milldir o ffordd. Dywedir mai Mr. Rees Harris, Pwllheli, oedd y cyntaf a bregethodd yma, ond dilynwyd ef yn fuan gan eraill. Ymwelai Mr. Benjamin Jones yn fynych a'r ardal, ac wedi sefydliad Mr. Evan Jones yn Amlwch, deuai efe yma yn aml; ond nid oedd etto neb trwy yr holl ardal yn proffesu crefydd ond Richard Jones, Maesmawr, a'i wraig, ac er dirfawr golled i'r ardal bu Richard Jones farw, yn ddyn cymharol ieuangc, yn y flwyddyn 1787, a chladdwyd ef yn mynwent Rhosymeirch. Bu yma foddion crefyddol yn cael eu cynal wedi hyny gyda mesur o gysondeb, ac wedi i Mr. Owen Thomas symud i fyw i Carrog, cafodd yr achos yma adgyfnerthiad neillduol. Dechreuasant mewn ty a elwir Broc'nol, ac ar y dechreu nid oedd yno neb oedd yn proffesu crefydd ond Owen Thomas a gweddw Richard Jones, Maesmawr. Yn yr adeg yma daeth hen chwaer grefyddol o Amlwch atynt, o'r enw Jane Owen, ond a adnabyddid yn well fel Sian Owen Edward, a llawer cyfarfod gweddi fu heb neb ond Owen Thomas a Sian Owen Edward i gymeryd rhan ynddo. Darllenai Mr. O. Thomas ranau o'r ysgrythyr, ac yna dywedai yn ei ddull syml, "Dos dipyn i weddi Sian,"—ac wedi i Sian weddio, yna gweddiai yntau, a dyna fyddai yr holl gyfarfod. Un o'r rhai cyntaf a ymunodd a hwy oedd Lewis Jones, Broc'nol, gwr y ty lle y cynhelid y cyfarfodydd, ac ni bu Thomas Williams, Tyddyndu, a Richard Jones, mab Richard Jones, Maesmawr, yn hir cyn ymwasgu a'r dysgyblion. Yn y flwyddyn 1805, cafwyd darn o dir Maesmawr at godi capel arno, ac adeiladwyd ef y flwyddyn hono, a galwyd ef Ebenezer. Dywedir y byddai Richard Jones, Maesmawr, yn wastad ar yr addoliad teuluaidd yn gweddio ar ragddor y drws, ac un dymuniad ganddo dros ei blant bob amser fyddai am iddynt gael lle cyfleus i addoli. Bu ef farw cyn gweled ei blant wedi tyfu i fyny, a chyn gweled capel wedi ei godi; ond codwyd capel ar ei dir, a bu ei blant oll yn aelodau yn y capel hwnw. Costiodd y capel 150p., ond casglwyd y cwbl yn fuan trwy ffyddlondeb a diwydrwydd Mr. Owen Thomas. Nid oedd Mr. O. Thomas hyd yn hyn wedi dechreu pregethu; ond un nos Sabboth, yn y flwyddyn 1807, digwyddodd fod cyhoeddiad gwr dyeithr yn Penrhyn, Cemaes, ond siomwyd hwy o hono. Rhag i'r gynnulleidfa ymadael yn siomedig, anogwyd Mr. O. Thomas i ddyweyd gair wrthynt. Cydsyniodd a'r cais, a phregethodd oddiar y geiriau—"Gwresogodd fy nghalon o'm mewn, tra yr oeddwn yn myfyrio enynodd tân, a mi a leferais a'm tafod." Ac o hyny allan pregethai yn fynych yn Llanfechell a'r Penrhyn, ac yn mhob man lle y meddyliai fod bwlch ac eisiau ei gau. Gweinidogion Rhosymeirch ac Amlwch a ofalent yn benaf am yr achos yn Llanfechell, hyd nes y rhoddasant alwad i Mr. Owen Thomas, ac urddwyd ef yma Ebrill 12fed, 1814. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Griffith, Caernarfon; derbyniwyd cyffes ffydd y gweinidog gan Mr. R. Roberts, Ceirchiog; gweddiodd Mr. J. Powell, Rhosymeirch; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Amlwch, ac

i'r eglwys gan Mr. J. Powell.* Bu Mr. Thomas yma yn llafurus hyd ddiwedd ei oes, ond oblegid fod llesgedd henaint wedi ei ddal, a'i olwg yn pallu, rhoddwyd galwad i'w fab, Mr. Thomas Owen, i fod yn gydweinidog ag ef. Urddwyd ef Mehefin 10fed, 1828. Bu Mr. T. Owen yn gofalu am y lle hyd y flwyddyn 1848, pryd y rhoddodd ei gofal i fyny. Ar ol bod am rai blynyddau heb weinidog, rhoddodd yr eglwys yma alwad i Mr. John Jones, Scion, sir Flint, a dechreuodd ei weinidogaeth yma yn 1853, a bu yma yn dderbyniol hyd nes y symudodd i Maentwrog yn Hydref, 1857. Yn 1862, adeiladwyd yma gapel hardd, gwerth o leiaf 700p., yr hwn a roddwyd yn anrheg i'r eglwys a'r gynnulleidfa yn y lle gan Meistri Lewis o Liverpool. Maent yn enedigol o Cemaes, a'u rhieni a'u brawd hynaf yn gorwedd yn mynwent capel Ebenezer, ac yr oeddynt am wneyd cofadail i'w hanwyliaid sydd yn gorwedd yn y lle, yn gystal a chodi capel hardd er gwasanaeth y gynnulleidfa. Ar achlysur agoriad y capel newydd yn Hydref, 1862, sefydlwyd Mr. T. T. Williams, Llanddeusant, i fod yn weinidog, a bu yma yn llwyddianus hyd ddydd ei farwolaeth.

Ar ol hyny, rhoddwyd galwad gan yr eglwys hon, mewn cysylltiad a'r eglwys yn Llanddeusant, i Mr. David John, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef Medi 28ain, 1864. Ar yr achlysur gweinyddwyd gan Meistri F. Samuel, Abertawy; J. Peter, Bala; D. Williams, Bangor; T. Rees, D.D., Abertawy; W. Jones, Amlwch; W. Griffith, Caergybi; J. Roberts, Llanerchymedd; D. Roberts, Caernarfon; J. Stephens, Siloh, a J. Jones, Jerusalem. Bu Mr. John yma hyd y flwyddyn 1868, pryd y symudodd i Booth-street, Manchester. Cyn hir wedi ymadawiad Mr. John, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Hugh Jones, Cemaes, ac y mae y tri lle, Llanfechell, Cemaes, a Seion, o dan yr un weinidogaeth.

Yma y codwyd Owen Thomas a'i fab, Thomas Owen, i bregethu, am y rhai y cawn achlysur etto i ysgrifenu.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Owen Thomas. Ganwyd ef yn mhlwyf Hen-eglwys, Mon, Medi 24ain, 1764. Yr oedd ei dad yn amaethwr cyfrifol mewn lle a elwir Llan, Heneglwys, ond yr oedd yn dra amddifad o ogwyddiadau crefyddol, a chafodd ei fab lawer o wrthwynebiadau oddiwrtho ar gychwyniad ei yrfa grefyddol. Yr oedd ei fam yn proffesu crefydd ac yn aelod yn Rhosymeirch, a derbyniwyd Owen Thomas yn aelod yno pan yn 17 oed, gan Mr. Benjamin Jones. Dangosodd yn ddioed ei fod am ymafael o ddifrif yn holl waith crefydd, ac ni lesgawyd ef mewn un modd gan yr anhawsderau a'i cyfarfu. Yn y flwyddyn 1789, priododd ag Elizabeth, merch Morris Williams, Ty'nymynydd, Tregeuan, ac aeth i fyw i Gemaesycoed, yn mhlwyf Gwalchmai. Teimlai yn fawr tra yno o herwydd yr anfantais a ddyoddefai oblegid amddifadrwydd o foddion gras, etto cyrchai i Rosymeirch er y pellder i gyd gyda chysondeb, a thra yr oedd efe yn byw yma y cychwynwyd yr achos yn Ceirchiog, a rhoddodd Owen Thomas bob help yn ei allu i hyny. Symudodd yn y flwyddyn 1794, i Fodwyn; ac yr oedd yr achos yn Llanddeusant wedi ei gychwyn y flwyddyn cyn hyny, ond bu ei ddyfodiad ef i'r

* Allan o gofnodion Mr. Jonathan Powell.

ardal yn swcwr mawr i'r achos gwan yn ei gychwyniad. Chwe' blynedd yr arhosodd yn Bodwyn, oblegid symudodd yn y flwyddyn 1800 i Carrog, lle y treuliodd weddill ei oes, a daeth y lle yn adnabyddus trwyddo ef. Meddyliodd yn ddioed am gychwyn addoliad crefyddol yn Llanfechell, a chyn pen tair blynedd wedi ei ddyfodiad i'r lle, yr oedd yma achos wedi ei gychwyn. Nid oedd hyd yma wedi dechreu pregethu, ac ni ddechreuodd hyd y flwyddyn 1807, a'r pryd hwnw yn hollol ddifwriad y bu, megis y crybwyllasom eisioes, ond wedi iddo ddechreu pregethu yr oedd yn wastad mewn gwaith, a pha fwyaf yr arferai ag ef, cryfaf oll oedd ei ysbryd ynddo. Rhoddwyd galwad iddo i fod yn weinidog gan yr eglwys a gasglasid yn benaf trwy ei lafur ef, ac urddwyd ef Ebrill 12fed, 1814, ac ar ol hyny ymroddodd yn fwy cyflawn i'w waith, er na dderbyniai unrhyw gydnabyddiaeth er ei gynaliaeth am hyny. Cymerodd ran flaenllaw gyda chodi capel yn Bodffordd, gerllaw ei le genedigol, a bu yr eglwys yno dan ei ofal am rai blynyddoedd. Efe a fu y prif offeryn i ddechreu yr achos yn Nghemaes, ac yr oedd y lle dan ei ofal hyd ddiwedd ei oes. Teimlai fod maes ei lafur yn eang, oblegid yr oedd yn cynwys Llanfechell, Llanddeusant, a Chemaes, heblaw y byddai yn ymweled yn fynych a lleoedd eraill, a chan ei fod yn heneiddio a'i nerth yn pallu, urddwyd ei fab Thomas Owen i fod yn gynorthwywr iddo rai blynyddau cyn ei farwolaeth. Yr oedd Owen Thomas yn un o'r dynion cymhwysaf i wneyd y gwaith oedd rhagluniaeth wedi ei fwriadu iddo, ac y mae Annibyniaeth yn Mon yn ddyledus iddo ef, ac ychydig eraill o'i gydlafurwyr, am yr afael sydd ganddi yn y wlad. Er nad oedd Owen Thomas wedi cael manteision addysg yn helaeth, etto yr oedd yn deall trefn iachawdwriaeth yn dda, yn llawn o ysbryd ei phregethu, ac yn meddu dawn gwresog a difrifol wrth draddodi. Am grefydd y byddai ei ymddiddan yn wastad, ac nid elai i unrhyw ardal, nac i un teulu heb ymofyn a oedd rhywbeth a allai wneyd yno dros ei Arglwydd. Yr oedd ganddo ddawn nodedig mewn gweddi, a theimlai pawb wrth ei wrando fod ynddo hyder mawr ger bron Duw, ac yr oedd rhywbeth yn serchiadol yn ei holl gyflawniadau, yr hyn a'i gwnai yn anwyl gan bawb. Dangosai bob amser ofal mawr am grefydd yn ei deulu, ac ni chai dim ei atal yn nghyflawniad y ddyledswydd deuluaidd. Mynai hamdden i fendigo ei dŷ yn adeg brysuraf y cynhauaf. Yr oedd dyn digrefydd wedi dyfod ato i weithio ar un cynhauaf unwaith, yr hwn a ymhyfrydai mewn gwawdio ac ailadrodd gweddiau Owen Thomas a William Jones, un o'i gydweithwyr, y rhai a gadwent y ddyledswydd bob yn ail. Achwynai William Jones wrth Owen Thomas ar ei gydweithiwr, ac ychwanegai nas gallai weithio gydag ef yn hwy. Wedi holi am ei ymddygiad, dywedodd O. Thomas wrth W. Jones, "Wel aros di i ni gael gwel'd beth allwn ni 'neyd o hono." Boreu dranoeth wedi darllen pennod ei hun, a gwneyd ychydig sylwadau arni, galwodd Owen Thomas ar y gweithiwr fyddai yn arfer gwawdio, i roddi penill allan i'w ganu, oblegid arferent ganu bob amser ar y ddyledswydd deuluaidd. Ysgydwai y dyn ei ben, a gwrthodai wneyd, ond ni fynai Owen Thomas ei omedd, a bu raid i'r dyn roddi penill allan; ac aeth ryw un arall i weddi. Ar ol hyn yr oedd y gwawdiwr yn hollol ddistaw, a bygythiai ei gydweithwyr ef y byddai raid iddo weddio boreu dranoeth. Cafodd yr amgylchiad y fath effaith ar feddwl y dyn fel y difrifolodd ef yn y fan, ac nid yn unig rhoddodd i fyny wawdio ond dechreuodd weddio ei hun, a bu yn grefyddwr gloyw hyd ei fedd, a dymunodd gael ei gladdu mor agos ag y gellid at Owen Thomas.

Digitized by Google

Pregethodd Owen Thomas lawer, nid yn unig yn sir Fon, ond trwy holl siroedd Cymru, yn y Gogledd a'r De. Byddai yn aml yn myned ar daith am fis neu ychwaneg gan bregethu ddwy waith neu dair bob dydd, yn ol fel y byddai yn gyfleus, ac yr oedd bob amser yn dderbyniol yn mha le bynag yr elai. Marchogai yn wastad ar anifail da, a gofalai yn gyffredin am fyned a digon o arian gydag ef i glirio y daith, hyd yn nod pe na chawsai ddim; ac unwaith darfyddodd ei arian mor llwyr fel mai gan gyfeillion Bethel, sir Gaernarfon, y cafodd help i gyrhaedd hyd adref. Bu yn marchogaeth yr un anifail am ugain mlynedd, a da oedd erbyn diwedd ei oes, pan wedi colli ei olwg, fod cyd-ddealldwriaeth mor hapus rhwng yr hen gaseg ag yntau. Ond cafodd brofedigaeth oddiwrthi unwaith flynyddoedd cyn hyny. Mae yn debyg ei fod wedi ei phrynu gan y chwareuwyr a grwydrent y wlad, a bod y gaseg wedi bod yn dilyn bywyd felly gynt, ond ar ol dyfod i feddiant pregethwr, yr oeddid yn disgwyl iddi adael ei hen ffyrdd. Ond ryw dro pan oedd Owen Thomas yn myned gyda Jonathan Powell, Rhosymeirch, i gymanfa Rhiadrwy, wrth fyned trwy Gaernarfon, deallodd yr hen gaseg wrth swn yr udgyrn a'r tabyrddau fod y campwyr yn dwyn yn mlaen eu chwareuon, ac nid oedd atal arni i droi yn ol i'w hen lwybrau a myned i'w plith, ac yn eu canol ar ei chefn y cafodd Owen Thomas ei hunan. Cafodd ryw gyfaill caredig i'w harwain oddiyno, ond yr oedd y chwedl wedi cyrhaedd o'u blaen i Rhiadrwy, a mawr y difyrwch gafwyd i'w boeni am y peth. Yr oedd efe a William Hughes, Dinasmawddwy, yn mysg yr ychydig weinidogion a deithient y wlad yn lled reolaidd, ac yr oedd yn wastad ddisgwyliad am eu dyfodiad. Er fod Owen Thomas o gorph cryf, ac uwchlaw dwy lath o daldra, ond ei fod yn crymu ychydig yn ei war, etto teimlodd yn gynar, mewn cydmariaeth i'r hyn a allesid ddisgwyl, ddadfeiliad yn ei gyfansoddiad. Bu yn dihoeni am fwy na blwyddyn, fel na allai fyned yn mhell oddicartref, ond daliodd i fyned i ymweled a'r eglwysi dan ei ofal, a phregethodd tra y gallodd. Y gwasanaeth cyhoeddus diweddaf a gyflawnodd oedd gweinyddu yr ordinad o swper yr Arglwydd yn Llanfechell, ond nis gallodd orphen gan wendid. Ni bu byw ond ychydig fisoedd ar ol hyn. Ymwelodd Mr. Griffith, Caergybi, ag ef ychydig cyn ei farw, ac mewn llythyr a ysgrifenodd at Mr. John Jones, Marton, dywedai Mr. Griffith, "Amlygodd ei gyflawn orphwysiad ar y Crist ag oedd ef wedi bregethu mor ffyddlon i eraill. 'Rhyfedd drefn,' ebe efe, 'i gyd o ras.' Pan yn son am werthfawrogrwydd crefydd dywedodd, 'Y mae hi yn talu ei ffordd yn hynod.' Gyda golwg ar ragorol werth yr ysgrythyrau, sylwodd 'Fod llawer hymn yn *gordial* melus i'r enaid, ond mai yr addewidion oedd ei fywyd.' Cofiaf yn hir y pwys difrifol gyda pha un y'm cynghorodd i wneyd fy ngoreu i berswadio dynion i ymofyn am grefydd i fyw. Yr oedd yn brofiadol os ceid hi i fyw, y ceid hi i farw, ac yn ymwybodol mai byw *crefyddol* yw y dedwyddaf yn annibynol ar farw, a'i dragywyddol ganlyniadau."*

Yn ei ddyddiau olaf yr oedd rhywbeth neillduol wedi ei feddianu gyda golwg ar y lle i'w gladdu. Dyna oedd ei ymddiddan a'i feibion, ac a phawb a ddeuai i ymweled ag ef. Ond un boreu dywedodd wrth ei fab hynaf. "Yr wyf wedi meddwl yn mha le y cleddwch fi—cleddwch fi wrth Ebenezer." Dywedai ei fab nad oedd yno ddim lle, oblegid mai ar *lease* yr oedd y capel. "Do's at Richard Lewis, Gwenithfryn," ebe yntau, "a gofyn

* *Dysgedydd*, 1837. Tu dal. 357. "Bywgraphiad y Parch. O. Thomas."

Digitized by Google

iddo, a wnaiff o werthu darn o'r llain sydd yn ymyl gardd ty y capel." Aeth y mab ar ei air, a gwnaeth fel y gorchymynodd, ac wedi myned eilwaith prynodd ef, ac wedi dychwelyd dywedodd, "Wel, nhad, mi prynais o." "R'oist ti ernes arno," gofynai yntau. "Do, nhad," oedd yr ateb. "Wel," ebe yntau, "nid oes gen i ddim ond ffarwelio a chwi 'rwan;" ac wedi cau ei lygaid bu farw yn mhen ychydig funydau, Ebrill 15fed, 1833, yn 69 oed. Claddwyd ef yn y llain newydd-bwrcasedig, ac efe oedd y cyntaf a roddwyd i orwedd yno, a hyny cyn fod y lle wedi ei amgau, ond y mae yno dorf fawr yn gorwedd erbyn hyn, ac y mae y fynwent yn un o'r rhai prydferthaf yn yr ynys. Gweinyddwyd yn ngwasanaeth y claddedigaeth gan Meistri W. Griffith, Caergybi; W. Jones, Amlwch, a D. James, Rhosymeirch, ac yr oedd y dorf fawr o alarwyr oedd yn y lle yn un o'r rhai lluosocaf a welwyd mewn claddedigaeth erioed yn y wlad. Yr oedd yn barchus gan bawb yn ei fywyd, a chafwyd prawf eglur o hyny yn ei farwolaeth.

Thomas Owen. Yr oedd yn fab i'r hybarch Owen Thomas, Carrog. Dechreuodd bregethu yn Llanfechell, ac wedi bod yn pregethu dros rai blynyddau, urddwyd ef i fod yn gydweinidog a'i dad yn Llanfechell a Chemaes, Mehefin 10fed, 1828. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Jones, Amlwch; holwyd y gofyniadau gan Mr. D. James, Rhosymeirch; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. O. Thomas, Carrog, (tad yr urddedig); pregethodd Mr. R. Roberts, Salem, ar ddyledswydd y gweinidog, a Mr. W. Roberts, Groeslon, ar ddyledswydd yr eglwysi. Yn mhen rhai blynyddau wedi marw ei dad, rhoddodd Mr. T. Owen i fyny ofal yr eglwys yn Cemaes, gan gyfyngu ei lafur i Lanfechell; ond yr oedd ei gysylltiad gweinidogaethol a Llanfechell wedi darfod rai blynyddau cyn ei farwolaeth. Nid oedd Mr. T. Owen heb ei golliadau, a rhai a barant iddo ofid mawr, ond cydnabyddid ef gan y rhai a'i hadwaenent oreu, yn ddyn tyner, caredig, parod i bob cymwynas, ond ei fod yn llac a meddal, a thrwy hyny yn hawdd ei arwain; ond yr oedd yn dra ffyddlon a chywir i'w egwyddorion fel Ymneillduwr ac Annibynwr, ac ni fynai ei arwain gan neb yn hyny. Dangosodd weithgarwch mawr gyda'r ysgol Sabbothol, ac yr oedd yn barod a'i law i gyfranu at bob achos da a rhinweddol. Yr oedd yn dirion yn mysg ei bobl ei hun, ac yn dra gostyngedig yn mysg ei frodyr. Bu yn nychu yn hir, a dyoddefodd boenau corphorol mawr yn niwedd ei oes. Bu farw Medi 18fed, 1859, yn 69 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanfechell.

## CEMAES.

Yn y flwyddyn 1806, dechreuwyd pregethu yn achlysurol yma, mewn lle a elwir y Penrhyn. Mr. Owen Thomas, Carrog, a fu y prif offeryn i ddechreu yr achos, a chymerodd dŷ anedd i'r perwyl. Cynorthwyid gan gyfeillion Llanfechell, y rhai a ddeuent yma weithiau i gynal cyfarfodydd gweddio. Clywodd Mr. Owen Thomas fod dyn o'r enw William Jones, yr hwn oedd yn aelod defnyddiol yn Rhosymeirch yn edrych allan am le i fyw, ac heb golli dim amser aeth i chwilio am dano, a chytunodd ag ef i fyw ar dir Carrog, a bu hwnw o hyny allan yn help mawr i'r cyfarfodydd a gynhelid yn y Penrhyn. Dyoddefent brinder mawr o eisiau pregethwr, ac yma y dechreuodd Mr. Owen Thomas bregethu yn y flwyddyn 1807,

Digitized by Google

er mai aelod yn Llanfechell ydoedd ar y pryd. Trwyddedwyd Tygwyn, Penrhyn, yn lle at bregethu gan Owen Thomas yn Llys Esgobol Bangor, Tachwedd 14eg, 1811. Wedi pregethu a chynal moddion yn achlysurol yn y Penrhyn dros rai blynyddoedd, daeth capel y Methodistiaid yn Cemaes yn wag, a symudodd y gynnulleidfa fechan yno yn 1818. Hen ystordy ydoedd wedi ei gyfaddasu yn lle i bregethu, ond yr oedd yn dda ei gael y pryd hwnw. Derbyniwyd Owen Thomas, mab Mr. Owen Thomas, Carrog, yn aelod, a bu ef o help mawr i'r achos yma. Yn 1827, adeiladwyd yma gapel newydd, yr hwn a alwyd Bethel, yr hwn a gostiodd 220p., a'r flwyddyn ganlynol, Mehefin 10fed, 1828, urddwyd Mr. Thomas Owen yma yn gydweinidog a'i dad. Bu gofal yr eglwys ar Mr. T. Owen hyd y flwyddyn 1844, ac wedi iddo ymadael, rhoddwyd galwad i Mr. D. Roberts, o Fanchester, i fod yn weinidog yma ac yn Seion. Dechreuodd Mr. Roberts ei weinidogaeth yma yn gynar yn y flwyddyn 1845, a llafuriodd yma am chwe' blynedd agos, nes y symudodd i Bondref, Caernarfon. Yn nechreu 1853, dechreuodd Mr. John Jones, Seion, sir Flint, ei weinidogaeth yma mewn cysylltiad a Llanfechell a Seion, a bu yma hyd nes y symudodd i Faentwrog, yn 1857. Wedi bod am yn agos i chwe' blynedd heb weinidog, rhoddwyd galwad i Mr. Hugh Jones, pregethwr ieuangc yn Brynsiencyn, ac urddwyd ef yn weinidog yma ac yn Seion, Medi 29ain, 1864. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Dr. Rees, Abertawy; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Roberts, Llanerchymedd; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Jones, Amlwch; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Peter, Bala, ac i'r eglwysi gan Mr. D. Roberts, Caernarfon. Mae yr achos wedi cynyddu yn fawr er sefydliad Mr. Jones yma, a'r capel wedi ei helaethu fel y mae yn awr yn un o'r addoldai mwyaf cyfleus i bregethu a gwrando ynddo.

Yn mysg lluaws o ffyddloniaid yr eglwys hon, fel hyn yr ysgrifenir atom gyda golwg ar y personau canlynol:*—

"Lewis Jones. Bu am lawer y flynyddau yn arweinydd y canu, ac am fwy na hyny yn ddiacon. Nodweddid ef yn mhob cylch crefyddol gan ffyddlondeb difwlch. Ystyrid ef yn ddyn call iawn, meddai ar allu cryf i adwaen cymeriadau ac i'w trin gyda deheurwydd mawr. Gallai weinyddu ceryddon llymion i gymeriadau amheus yn yr eglwys mewn modd tra anuniongyrchol. Os drwg-dybid aelod o fod yn gogwyddo at rhyw bechod neillduol, yn lle ymosod yn uniongyrchol ar y troseddwr tybiedig, yn y cyfarfod neillduol gafaelai yr hen Lewis Jones, wrth ymddiddan a'r plant, yn y pechod hwnw ac ymdrinai ag ef yn y modd plaenaf a halltaf gan ddangos ei ddrwg a rhybuddio y 'plant bach, anwyl,' fel y galwai hwy, i'w ochel a'u holl egni. Llawer gwaith y gwelwyd ceryddon anuniongyrchol felly oddiwrtho yn gwneuthur lles mawr, pan y buasai goruchwyliaeth fwy uniongyrchol yn anamserol, ac o herwydd hyny yn niweidiol. John Lewis a'i briod, rhieni y brodyr sydd yn ffurfio *firm* y Lewis Brothers, Liverpool, oeddynt hwy. Buont hwy a'u plant yn llawer iawn o gymorth i'r achos pan yr oedd yn dda iawn wrtho. Byth ni welid yr un o'r deg plentyn yn gadael i'r un casgliad cyhoeddus fyned heibio heb roddi eu cyfran i mewn. Bu John Lewis yn nodedig am ei ffyddlondeb gyda holl waith crefydd. John Morris, Penrhyn, a Morris Owen, Ty'nllan, hefyd a fuont yn dra ffyddlon gyda'r achos am flynyddau lawer. Y mae priod yr olaf yn aros hyd heddyw fel dolen gydiol yn uno dwy oes.

* Llythyr Mr. H. Jones.

"Y mae yr achos crefyddol yma yn dra dyledus i dair chwaer, Elizabeth, Mary, ac Ann Jones, Cemaes. Eu ty hwy sydd wedi bod yn Bethania yr achos am feithion flynyddau, ac erioed ni bu lletty mwy cysurus, fel y gall ugeiniau o bregethwyr dystio. Y mae un o'r tair chwaer, Miss Ann Jones, yn aros, ac yn cadw cymeriad y ty a'r teulu i fyny yn anrhydeddus. Bu Elizabeth Jones yn aros am dymor yn Gwaredog, Amlwch, pryd yr arferai fyned i Seion i addoli, a bu yn llawer iawn o gymorth i'r cyfeillion yno am flynyddau lawer ar gychwyniad yr achos. Yr oedd Mary Jones yn nodedig am barodrwydd ei dawn, duwiolfrydedd ei meddwl, ac angerddoldeb ei theimlad. Llawer gwaith ar adegau oerion a marwaidd y rhoddodd hi y cyfarfod ar dân â dim ond adnod felus neu ddarn o benill nefolaidd. John Noall, Glanrhyd. Yr oedd efe yn enedigol o ddeheu-orllewin Lloegr. Dysgodd Gymraeg yn lled dda. Dewiswyd ef yn ddiacon yn Bethel a llanwodd y swydd hono a'r swydd o arweinydd canu gyda manylwch a ffyddlondeb mawr am lawer o flynyddau. Adwaenid ef fel dyn craff, manwl, cywir, a didderbynwyneb, gyda gwythien gref o dynerwch a charedigrwydd yn gorwedd o dan y cwbl. Yr oedd yn nodedig fel cerddor. Dyrchafwyd y canu o dan ei arweiniad ef i safle amlwg yn y lle. Bu ef a'i deulu o wasanaeth mawr i'r achos yma."

William Jones, Penybryn. Yr oedd yn fab i Richard Jones, am yr hwn y crybwyllasom yn nglyn ag Ebenezer, ac yn ŵyr i Richard Jones, Maesmawr, ac yn orŵyr i John Owen, Caeaumon. Aeth ef a'i frawd, Richard Jones, i Liverpool, a derbyniwyd hwy yn aelodau yn y Tabernacl, a dewiswyd hwy yn ddiaconiaid yr un pryd. Dychwelodd William Jones i Gymru, oblegid sefyllfa ei iechyd, a dewiswyd ef yn ddiacon yn yr eglwys yma, ac ennillodd iddo ei hun radd dda yn y cyflawniad o honi. Yr oedd yn ddyn blaenllaw gyda'r achos yn ei holl ranau, ac yn barod i bob gweithred dda. Mae yma lawer o ffyddloniaid etto yn aros, a chrefydd yn parhau yn yr hen deuluoedd o genhedlaeth i genhedlaeth.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Robert Edwards. Bu yn pregethu gyda'r Wesleyaid am flynyddoedd cyn ymuno a'r Annibynwyr. Mae yn awr yn Llanddeusant.

Hugh Owens. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1862.

Richard Jones. Mab ydoedd i William Jones, Penybryn, un o ddiaconiaid yr eglwys, am yr hwn y cyfeiriasom eisioes. Ganwyd ef yn Liverpool. Mae ei fam yn ŵyres i Hugh Hughes, un o'r tô cyntaf o Annibynwyr Cymreig Liverpool. Ysgrifenwyd cofiant i Richard Jones gan Mr. H. Jones, Cemaes, yr hwn a ymddangosodd yn y *Dysgedydd* am Hydref, 1866, a chymerwn o hono y difyniadau a ganlyn:—

"Hynodid Richard pan yn ieuangc gan fywiogrwydd, craffder, cof, penderfyniad, a dyfalbarhad. Mwynhaodd fanteision addysg da, a gwnaeth ddefnydd priodol o honynt. Yn 1858, derbyniwyd ef i gymundeb yn Bethel. Bu yn aros am beth amser ar ol hyny mewn swyddfa barchus yn Liverpool. Daeth adref a'i iechyd wedi ei anmharu i raddau. Ymadfywiodd yn fuan, ac ymroddodd i weithio yn ngwinllan ei Arglwydd. Tynodd ei dalent, ei sel, a'i dduwioldeb sylw yr eglwys arno. Penderfynodd pawb mai pregethwr oedd Richard i fod. Amlygwyd y penderfyniad iddo, ac wedi peth petrusdod ac oediad, ymostyngodd i farn yr eglwys, gan ymgyflwyno gorph ac enaid i'r gwaith. Pregethodd am y waith gyntaf yn y gyfeillach yn Bethel ar y 13eg o Fai, 1862. Ei destyn ydoedd, 'Pa lesâd

i ddyn, os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?' Ar y 15fed o'r un mis y bu farw ei dad. Rhaid fod marwolaeth ei dad wedi bod yn ergyd drom iddo ar adeg pan yr oedd ei deimladau yn rhwym o fod yn dra thyner a chynhyrfus. Ond er gwaethaf pob peth, ni wangalonodd; eithr efe a ymwrolodd yn lew. Ar nos Sabboth, yn lled fuan wedi marwolaeth ei dad, pregethodd oddiar yr un testyn ag y pregethasai arno yn y gyfeillach cyn hyny. Yn ystod y pum' mis dilynol pregethodd amryw weithiau. Yn nechreu Tachwedd, yr un flwyddyn, pregethodd ar nos Sabboth yn Bethania, Llanddeusant. Dyna y tro olaf y cafodd y fraint o agor ei enau yn gyhoeddus dros y Gwaredwr a garai mor fawr. Nid ydoedd yn gryf iawn pan yr ymaflodd yn y gwaith i ddechreu; ac wedi ymaflyd ynddo, pryderodd a llafuriodd ormod gydag ef i gyfateb i'w nerth. Cafodd anwyd trwm wrth ddychwelyd o Landdeusant pan y bu yn pregethu yno; a rhwng y cwbl, llesgaodd ei nerth, ac ymaflodd peswch ynddo a lynodd wrtho hyd angau. Ymladdodd yn egnïol am fisoedd lawer yn erbyn ei afiechyd. Pregethu oedd ei hoff bwngc drwy y cwbl. Cyfansoddodd luaws o bregethau yn ei gystudd, gyda'r bwriad o'u traddodi pan yr adferid ef. Trwy ymdrech, llwyddodd i ddilyn yr addoliad cyhoeddus yn lled gyson yn ystod yr haf diweddaf. O hyny allan caethiwyd ef bron yn hollol i'r ty; ond codai, a deuai i lawr bob dydd. Yr oedd ei awydd a'i obaith am wella yn lled gryf bron hyd y diwedd. Ond fel yr oedd awr ei ymddatodiad yn nesâu, diflanodd ei obaith, ac yn raddol, gwanhaodd ei awydd, a dysgodd ddywedyd, 'Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg.' Bu farw Chwefror 4ydd, 1866, yn 24 oed.

"Credwn fod yn Richard Jones elfenau pregethwr defnyddiol a phoblogaidd iawn. Yr oedd yn feddianol ar synwyr cyffredin cryf, a thalentau rhagorol—dychymyg bywiog, deall treiddgar, cof eang, llais peraidd, a thraddodiad llithrig a dylanwadol. Derbyniodd yn helaeth o'r gonestrwydd a'r ffyddlondeb, o'r sel a'r brwdfrydedd, o'r gostyngeiddrwydd a'r brawdgarwch a wnai ei dad yn ddyn mor anwyl a gwerthfawr. Yr ydoedd yn ddarllenwr mawr, yn fyfyriwr mawr, yn weddiwr mawr, ac yn weithiwr mawr."

## SILOH.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Llanrhwydrys, ond nid yw yn mhell iawn o Lanrhyddlad, lle flynyddoedd lawer yn ol y bu capel cydrhwng yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Methodistiaid. Yn y flwyddyn 1772, rhoddodd William Pritchard, Clwchdernog, lain o dir i adeiladu capel at wasanaeth y tri enwad a nodwyd. Cynrychiolid y tri enwad gan William Pritchard, dros yr Annibynwyr, William Roberts, Bodhedd, dros y Bedyddwyr, a Morris Edward, dros y Methodistiaid, ac yr oedd enwau y tri ar drawst yr hen gapel. Ond yn rhyw fodd aeth y capel yn llwyr i feddiant y Methodistiaid. Bu William Pritchard farw yn fuan ar ol hyny, ac ni adawodd ar ei ol neb o gyffelyb feddwl i ofalu am hawliau yr enwadau eraill yn y lle. Sefydlwyd yr achos a chodwyd capel Siloh trwy offerynoliaeth y diweddar Mr. John Roberts (Edeyrn Mon). Arferai ef a'i deulu cyn hyn fyned i Ebenezer, Llanfechell, ac yr oedd Mr. Roberts yn ddiacon ffyddlon yn yr eglwys yno. Adeiladwyd Siloh yn y flwyddyn 1838, ac agorwyd ef Tachwedd 14eg, y flwyddyn hono,

Digitized by Google

Nid oedd nifer yr aelodau ond ychydig ar gorpholiad yr eglwys, ac nis gallesid disgwyl cynnulleidfa luosog yma gan nad yw y wlad ond teneu ei phoblogaeth. Yn fuan wedi agor y capel, rhoddwyd galwad i Mr. David Roberts, gwr ieuangc o Fangor, i fod yn weinidog yma ac yn Seion, ac urddwyd ef Mai 7fed, 1839. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Griffith, Caergybi; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Davies, Salem; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. I. Jones, Groeslon; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Beaumaris, ac i'r eglwys gan Mr. W. Jones, Amlwch.* Wedi llafurio yma yn ddiwyd am dair blynedd, symudodd Mr. Roberts i Fanchester. Bu Mr. Mathew Lewis yma ar un adeg yn cadw ysgol ac yn pregethu yn achlysurol. Ar sefydliad Mr. William Roberts, yn Llanddeusant, unodd yr eglwys hon mewn cysylltiad gweinidogaethol a Llanddeusant, ac felly y mae wedi parhau hyd yma, ac ond edrych pwy fu y gweinidogion yno, gwelir pwy fu y gweinidogion yma. Cafodd yr achos bychan yma golled ddirfawr yn marwolaeth ei gychwynwr a'i noddwr caredig, Mr. John Roberts, yn Hydref, 1855, a Mrs. Roberts yn mhen pedwar diwrnod ar ei ol. Yr oeddynt hwy yn gwir ofalu am arch Duw, ac er i'r plant gael calon i gadw y ty yn agored fel cynt, ac i Samuel Roberts gael ei ddewis gan yr eglwys yn ddiacon yn lle ei dad, a'i fod yn cyflawni ei swydd yn ffyddlon, etto teimlir hyd y dydd hwn fod lle Edeyrn yn wag. Efe ydoedd mab hynaf yr hybarch Robert Roberts, o Salem, Bryngwran. Yr oedd o ddeall cryf, ac o dymer hynaws a phwyllog, ac etto yn hollol benderfynol. Ysgrifenodd lawer i'r *Dysgedydd* ac i'r *Seren Gomer* dan yr enw Edeyrn, a chymerodd ran amlwg yn y dadleuon duwinyddol ac eglwysig oedd yn cynhyrfu yn ei oes. Yr oedd yn ddyn o gymeriad gloyw, ac yn bleidiwr gwresog i bob achos da. Bu farw o glefyd poenus wedi pythefnos o gystudd caled, Hydref 1af, 1855, yn 55 oed. Ceir cofiant helaeth iddo yn y *Dysgedydd* am Hydref a Tachwedd, 1860, wedi ei ysgrifenu gan Mr. Edward Morris, un a fu yn hir yn ei wasanaeth.

Yn y flwyddyn 1862, ar agoriad capel newydd yn Ebenezer, Llanfechell, meddyliwyd am roddi yr achos yma i fyny gan nad oedd ond bychan, ac nad oedd y pellder yn fawr i Ebenezer, a rhoddodd yr eglwys yn Ebenezer alwad i Mr. T. T. Williams, y gweinidog oedd yma ac yn Llanddeusant ar y pryd. Teimlai amryw ar y pryd yn wrthwynebol i roddi yr achos i fyny, ond yr oedd y mwyafrif dros wneyd, ac ymunasant gan mwyaf a'r eglwys yn Llanfechell. Deallwyd yn fuan mai camgymeriad oedd hyny. Er nad oedd y pellder yn fawr, etto yr oedd yn ormod gan lawer ei deithio, a theimlai y rhai ffyddlonaf anfantais i ddilyn pob moddion. Cynhelid ysgol Sabbothol a gwasanaeth achlysurol yn Siloh yr holl amser yma, ac yn y flwyddyn 1859, penderfynodd y cyfeillion adgorpholi eu hunain yn eglwys yn Siloh, ac y mae yr achos er hyny yn myned yn mlaen yn siriol mewn cysylltiad gweinidogaethol a Llanddeusant a Llanfachreth. Collwyd amryw aelodau a gwrandawyr trwy y cam hwnw a gymerwyd, ac erbyn dychwelyd yn ol i Siloh, yr oeddynt wedi gwneyd eu cartref mewn lleoedd eraill.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Robert Thomas. Urddwyd ef yn Maenclochog, ac y mae yn awr yn weinidog yn Mhenrhiwgaled, sir Aberteifi.

Edward Morris. Urddwyd ef yn Abererch, ac y mae yn awr yn weinidog yn Mhenrhyndeudraeth.

* *Dysgedydd*, 1839. Tu dal. 221.

Digitized by Google

William Williams. Yr hwn sydd yn bregethwr cynorthwyol parchus, ond fod ei iechyd wedi ei anmharu.

## SEION.

Dechreuwyd pregethu yn y gymydogaeth hon tua'r flwyddyn 1835. Pan s. mudodd Owen Thomas, mab Mr. O. Thomas, Carrog, i Clegyrog, yn niwedd y flwyddyn 1834, bu am tua blwyddyn yn cerdded i Ebenezer, Llanfechell, i'r cyfarfodydd bob Sabboth, ond yn 1835, meddyliodd am gael pregethu yn y gymydogaeth hon, a bu ef a Richard Roberts, Glangors, ac eraill, am agos i dair blynedd yn ymgynnull i wrando pregethau yn Clegyrog a Rhosgoch. Nid ydym yn sicr pwy a bregethodd gyntaf yn y lleoedd hyn, mae yn debyg mai Mr. Thomas Owen, Llanfechell, a mynych y pregethai Mr. W. Jones, Amlwch, a Mr. E. Davies, Llanerchymedd, yma. Byddai O. Thomas ac R. Roberts, a'u teuluoedd, ac eraill o'r ardal, yn arfer myned i'r cyfeillachau ac i gymuno i Llanfechell, a mawr ganmolir yr hen gyfarfodydd a gafwyd yno, yn nghyda melusder y gyfeillach ar y ffordd, wrth fyned a dyfod. Ond gan fod cynydd yn y gynnulleidfa, ac angen am gapel yn y gymydogaeth, penderfynwyd chwilio am le at adeiladu, ac yn y flwyddyn 1838, cafodd O. Thomas, R. Roberts, ac eraill, brydles gan W. B. Hughes, Ysw., Plascoch, ar ddarn o dir—craig yn hytrach—perthynol i amaethdy bychan o'r enw Pantygist, am ddeg swllt y flwyddyn o ardreth am 99 o flynyddoedd. Dechreuwyd adeiladu yn ddioed. Mesurai y capel 24 troedfedd wrth 27 troedfedd o fewn y muriau. Traul yr adeilad, heb gynwys y cludiad oedd 140p., ond casglwyd tuag un ran o dair o honynt cyn agor y capel. Cynaliwyd cyfarfod agoriadol yma Tachwedd 14eg a'r 15fed, 1838, pryd y pregethodd Meistri W. Davies, Salem; J. Evans, Beaumaris; R. Parry, Conway; W. Rees, Dinbych; A. Jones, Bangor; W. Griffith, Caergybi; D. James, Capel mawr, ac E. Davies, Llanerchymedd, ac enwodd Mr. Arthur Jones, Bangor, ef yn Seion, sef Brynsych, meddai ef yn ei ddull tra hynod ei hun, ac y mae yn sefyll ar gopa craig digon sech, ond er hyny cafwyd ar y mynydd Seion hwn lawer o wlith a chawodydd hyfryd i gynyddu a ffrwythloni y rhai a blanwyd yma gan y gwinllanydd nefol, ac sydd heddyw yn y baradwys fry, lle ni "wywa byth eu blodau braf." Ni ffurfiwyd yma eglwys nes y cafwyd y capel, ac ymunodd y rhai canlynol yma y tro cyntaf:—O. Thomas a'i wraig; R. Roberts a'i wraig; W. Pritchard, y crydd; Elizabeth Evans, Gareglefn; R. Jones, Pantygist, a Fanny Parry, Maesmawr. Gweinyddwyd gan Mr. Thomas Owen, Llanfechell. Cynyddodd yr achos yn lled fuan, a rhoddasant alwad i Mr. David Roberts, Bangor, ac urddwyd ef yn Shiloh, Mai 6ed a'r 7fed, 1839. Yn mhen ychydig flynyddau symudodd Mr. Roberts i Manchester, a bu yno am dipyn o amser, ond yn y flwyddyn 1845, daeth yma yn ol, a bu yma, mewn cysylltiad a Chemaes, yn ffyddlawn a llwyddianus am dros chwe' blynedd. Derbyniodd alwad o Pendref, Caernarfon, a symudodd yno, ond parhâ y serch a'r anwyldeb heb wanhau hyd heddyw. Yn y flwyddyn 1853, rhoddwyd galwad i Mr. John Jones, Seion, sir Flint, i weinidogaethu yma mewn cysylltiad a Cemaes a Llanfechell, a bu yma am bedair blynedd, hyd nes y symudodd i Maentwrog. Ar ol hyny bu yr eglwys hon heb weinidog am ysbaid chwe' blynedd, ac yn yr adeg hono fe wywodd yr achos i raddau mawr. Penderfynwyd cael gweinidog, a rhoddwyd galwad i Mr. Hugh Jones, pregethwr ieuangc yn yr eglwys yn Bryn-

Digitized by Google

siencyn, i fod yn weinidog yma ac yn Cemaes, ac urddwyd ef Medi 29ain, 1864, ac y mae Mr. Jones yn parhau i lafurio yma gyda chymeradwyaeth a mesur helaeth o lwyddiant.

Cafodd yr eglwys ieuangc yma golled ddirfawr yn marwolaeth Mr. Owen Thomas, Clegyrog, y prif offeryn i gychwyn yr achos yma. Yr oedd yn fab i'r hybarch Owen Thomas, o Garrog, ac anogwyd yntau lawer gwaith i ddechreu pregethu. Daeth i Glegyrog yn fuan wedi iddo briodi, a bu ef a'i wraig, yr hon sydd etto yn aros, o help mawr i'r achos yma, ac y mae eu plant wedi cyfodi i wasanaethu Duw eu rhieni. Mae eu mab, Owen Thomas, Clegyrog, yn ddiacon defnyddiol yn yr eglwys. Yr oedd Owen Thomas yn ddyn pwyllog a deallgar, gwastad a didramgwydd yn ei holl ymarweddiad. Bu farw yn dra disymwyth un noswaith ar ol dod adref o'r gyfeillach, lle yr oedd wedi cael gwledd nad anghofir gan y rhai oeddynt yn bresenol. Richard Roberts, Glanygors, hefyd oedd yn un o'r rhai mwyaf cywir a ffyddlon, a bu o gynorthwy mawr i'r achos ar ei gychwyniad. Nid â caredigrwydd teulu Clegyrog, a theuluoedd y Fodolisaf, a'r Fodoluchaf, a theulu Glanygors, yn anghof yn fuan yn y wlad.

Codwyd yma un pregethwr, sef Robert Williams, yr hwn sydd yn awr yn fyfyriwr yn athrofa y Bala.

## SARON.

Mewn canlyniad i'r adfywiad grymus a gymerodd le yn y blynyddoedd 1839 ac 1840, ychwanegwyd llawer at yr eglwys yn Amlwch, ac yn eu plith amryw o gymydogaeth Bodgadfa. Yn eu mysg yr oedd Hugh Owen, Asgellog; Hugh Thomas, saer; John Michael, a'u gwragedd, a William a Catherine Parry, y Rhwngc. Bu y rhai hyn yn cerdded i Amlwch yn gyson am rai blynyddoedd ar y Sabboth ac i'r moddion wythnosol. Dechreuwyd pregethu yn yr ardal ar nosweithiau o'r wythnos gan Meistri T. Owen, Llanfechell, a W. Jones, Amlwch. Cyrchai amryw o gyfeillion Amlwch yma gyda Mr. Jones, yn enwedig yr hen frawd ffyddlon Owen Thomas, y *smelter*. Daeth ty anedd yn Modgadfa yn wag, a chymerwyd ef ar ardreth, ac ar y Sabboth, Mehefin 8fed, 1842, corpholwyd ynddo eglwys cynwysedig o saith o aelodau Amlwch oedd yn byw yn y gymydogaeth, a phump a dderbyniwyd o newydd i gymundeb ar y pryd. Bu cynydd graddol nes y daeth yr eglwys yn 30 mewn nifer. Derbyniwyd Henry Edwards a'i wraig yn aelodau, y rhai gyda theulu yr Asgellog, a fuont o help mawr i'r achos yn ei gychwyniad. Ymfudodd John Michael a'i deulu i America, ac yn ei ymadawiad collodd yr eglwys ddiacon ffyddlon, ond bu yn cyflawni yr un swydd yn America hyd nes y rhedodd ei yrfa i'r terfyn. Cafwyd tir i adeiladu y capel mewn man cyfleus, ac am bris rhesymol gan R. Hughes, Ysw., Plasbach, Llangeinwen, ac adeiladwyd y capel yn haf 1844. Cymerwyd arolygiaeth yr adeiladaeth gan Hugh Parry, Rhwngc, a rhoddodd chwech o bersonau fenthyg yr arian yn ddilog, fel na buwyd yn hir yn talu yr holl ddyled. Pregethwyd y bregeth gyntaf yn Saron, gan y gweinidog, Mr. Jones, Amlwch, Medi 8fed, 1844. Rhoddodd Mr. Jones ofal yr eglwys i fyny o herwydd ei lesgedd a'i henaint, ac yn y flwyddyn 1862, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Robert Hughes, Bontnewydd, i fod yn weinidog, a bu yma yn ddiwyd a defnyddiol dros rai blynyddoedd, nes y symudodd i Rhosymeirch, ei ardal enedigol. Ar sefydliad Mr. George Williams yn Amlwch, cymerodd hefyd

Digitized by Google

ofal yr eglwys hon, a siriolodd yr achos yn fawr yn ystod tymor ei weinidogaeth ef. Pan yr ymadawodd Mr. Williams yr oedd yn ymadael o fynwes yr eglwys gyda'r dymuniadau goreu am ei lwyddiant. Mae yr eglwys wedi prynu y tir o dan y capel, fel y mae bellach yn rhyddfeddiant iddi, ac wedi codi ty cyfleus yn nglyn ag ef, ac y maent yn bwriadu helaethu lle eu pabell.

## LLANFACHRETH.

Codwyd y capel hwn yn y flwyddyn 1834, yn benaf trwy ymdrech Mr. Thomas Owen, Llanfechell. Costiodd ryw gymaint dros 200p., a bu Mr. T. Owen yn llafurus i gasglu ato, ond yr oedd dyled o 160p. yn aros, yr hyn a fu yn hir yn faich trwm ar y lle. Nid oedd yma ond dau aelod pan godwyd y capel, sef Owen Williams, Penygraig, a'i wraig, ac y mae y ddau "wedi cael help gan Dduw," yn parhau yn ffyddlon. Bu yr achos yma yn hir fel llin yn mygu, ond etto heb ddiffodd, a gwelodd rai adegau lled flodeuog. Ar sefydliad Mr. David Davies yn Llanddeusant a Bodedeyrn, cymerodd hefyd ofal y lle hwn, a bu yn gwylio drosto hyd nes y symudodd o'r ardal. Bu y lle wedi hyny mewn cysylltiad a Llanddeusant dros dymor gweinidogaeth Mr. W. Roberts yno, ac am rai blynyddau yn nechreuad gweinidogaeth Mr. R. E. Williams. Unodd yr eglwys yma yn nechreu 1854 a'r eglwys yn Bodedeyrn i roddi galwad i Mr. John Hughes i fod yn weinidog, a bu y lle o dan ei ofal ef hyd ei farwolaeth, Tachwedd 28ain, 1868. Bu Mr. John Hughes yn dra ymdrechgar oddicartref yn casglu at dalu dyled y capel, a gweithiodd yr ysgol Sabbothol gartref yn egniol, fel y symudwyd trwy gydymdrech y baich fu yn hir yn gwasgu ar ysgwyddau gweiniaid. Mae y lle yn awr dan ofal Mr. T. Roberts, mewn cysylltiad a Llanddeusant. Cafodd yr eglwys yma golled fawr flynyddau yn ol yn marwolaeth Thomas Humphreys—dyn bywiog a gweithgar ag oedd a'i holl galon yn y gwaith; ac yn ddiweddar cafwyd colled fawr yn ymadawiad y chwaer ffyddlon Mary Jones. Gwyr y rhan fwyaf o'r pregethwyr a ymwelasant a'r lle y deuddeng mlynedd diweddaf am ei "llafurus gariad" hi. Mae golwg siriol ar yr achos, er nad ydyw yn gryf a lluosog mewn nifer.

## CAERGYBI.

Nid yw yr achos Annibynol yn y lle hwn ond diweddar mewn cydmariaeth. Aeth yn agos i ugain mlynedd o'r ganrif bresenol heibio cyn gwneyd un cynyg i'w sefydlu, ac yr oedd yr enwadau eraill wedi cael blynyddoedd o'i flaen i sefydlu eu hachosion. Gan fod John Davies, un o aelodau cyntaf yr eglwys, wedi ysgrifenu hanes yr achos o'i ddechreuad hyd ddyfodiad Mr. Griffith yma yn mis Gorphenaf, 1822, caiff ef lefaru yn ei eiriau a'i ddullwedd ei hun. Daeth John Davies yma i fyw Mawrth 21ain, 1817, ac yr oedd cyn hyny yn aelod yn yr eglwys yn Mhwllheli, dan ofal Mr. Benjamin Jones. Fel hyn yr ysgrifena:—

"Yn nechreu Mehefin, 1817, daeth y Parch. Owen Thomas, Carrog, a'r Parch. David Beynon, dau o weinidogion y sir, ar ymweliad a Chaergybi ar neges bersonol. Canfyddais hwy yn myned ar hyd yr heol, ac aethum atynt, a gwahoddais hwy i fy nhy. Yn y man cymhellais hwy i bregethu i'r bobl cyn ymadael o'r dref. Addawsant wneyd, a chafwyd benthyg addoldy y Bedyddwyr i'r perwyl. Taenwyd y gair drwy y dref, fod dau o weinidogion yr Annibynwyr i bregethu yno nos dranoeth, a chafwyd

cynnulleidfa luosog i wrandaw. Y dydd canlynol, cyn ymadael, gwnaethom gynygiad i geisio ffurfio achos yn y dref. Anogwyd fi gan y brodyr i ymofyn am le cyfleus i bregethu ynddo. Cyn hir, cefais hanes lle felly; ystafell ydoedd yn mesur 29 o droedfeddi wrth 20, yr hon a fuasai yn chwareudy, ac yn ysgoldy, ond yn awr yn botty. Gelwid hi 'y parlyrau,' am mai dau barlwr wedi eu gwneyd yn un ydoedd. Anfonais lythyr at y Parch. Owen Thomas, i'w hysbysu o'r peth. Yn y cyfamser cynelid cyfarfod misol yn yr ynys, ac aeth Mr. Thomas i'r cyfarfod a'r llythyr gydag ef. Gwnaeth ei gynwysiad yn hysbys i'r brodyr oeddynt yn bresenol, ac wedi ystyried yr achos, penderfynwyd ar fod y Parch. D. Beynon i ddyfod i edrych y lle. Gwelodd Mr. Beynon fod yr adeilad yn hynod o ddadfeiliedig 'Yr oedd darnau o waelod y drws,' meddai, 'wedi syrthio yn bydredig ymaith, yr holl ffenestri yn ddrylliedig, a'r tô mor dyllog fel na buasai yn bosibl aros yn yr adeilad ar gawod o wlaw. Er y cyfan, wrth weled y fath *shell* gref, ac eang, meddyliais y gallesid ei wneyd yn lle cyfleus am dymor o leiaf. Aethum at y foneddiges a'i perchenogai, ac wedi hir siarad, cydsyniodd am cais, a gorchymynodd y forwyn i estyn agoriad y *theatre* i mi. Taflodd ef ar y bwrdd, a theflais inau fy swllt yn ernes iddi, a'm calon yn bur lawen am i'r Arglwydd ei thueddu i roddi i ni ein dymuniad. Trefn y cymeriad oedd, fod i ni fyned i'r draul o adgyweirio yr adeilad, a thalu 5p. o ardreth blynyddol am dani. Aethum a hysbysrwydd o hyn i'r cyfarfod misol cyntaf ar ol gwneyd y cytundeb, ac amlygodd pawb eu cymeradwyaeth o'r hyn a wnaed.'

"Yn fuan ar ol hyny, daeth y Parch. Robert Roberts, Treban, i'r dref, a rhoddodd seiri coed a cheryg ar waith i adgyweirio y lle, yr hyn a gostiodd 8p. Bu y Parch. D. Roberts, Bangor, (wedi hyny o Ddinbych), mor garedig a dyfod yma, a chasglodd yr arian a enwyd yn y gymydogaeth mewn ychydig amser. Erbyn hyn, cafwyd cymdeithas amryw gyfeillion oeddynt wedi bod gyda'r achos mewn lleoedd eraill. Mr. Owen Lewis, o eglwys Beaumaris, yr hwn wedi hyny a adeiladodd ein Tabernacl. Gwelwyd llawer o'i ffyddlondeb ef tuag at yr achos gwan. Un arall o'r enw Thomas Williams, yr hwn oedd wedi bod yn aelod yn Bodedeyrn yn amser y Parch. John Jones, Ceirchiog, oddeutu 19 o flynyddau cyn hyn, ac ailymunodd a ni, a bu yn aelod ffyddlon a diacon gofalus hyd ei ddiwedd, a gellir argraffu ar gareg ei fedd, 'yr hyn a allodd hwn efe a'i gwnaeth.' Gorphenodd ei yrfa Awst 8fed, 1830. Yr oedd un arall o'r enw Robert Hughes, o eglwys y Parch. Jonathan Powell wedi dyfod yma ddwy flynedd cyn hyn, ymunodd yntau a'r achos, a bu am ysbaid yn gymorth mawr gyda'r canu, &c. Hefyd, yr oedd hen aelod arall o eglwys y Parch. J. Griffith, Caernarfon, wedi symud yma er's tua phum' mlynedd gyda ei phriod, Mr. David Roberts, barcer, yr oedd hwn yn ŵr didwyll yn ei alwedigaeth, fel yr hen frawd ffyddlon a chywir William Griffith, ei olynydd. Y rhagddywededig Mr. Roberts, oedd y cyntaf a dderbyniwyd yn 'y parlyrau,' ac erys byth yn ysgub y blaenffrwyth o eglwys yr Annibynwyr yn Nghaergybi.

"Yn niwedd y flwyddyn 1817, cawsom gyfarfod pregethu, pryd yr ymwelwyd â ni gan amryw o weinidogion yr ynys.* Cawsom lawer o

* Dyma drefn y cyfarfod a gynhaliwyd Tachwedd 4ydd a'r 5ed, 1817, fel y ceir yn nghofnodion Mr. Jonathan Powell. "Nos o'r blaen pregethodd J. Evans, Beaumaris, a J. Powell; dranoeth am 10, D. Griffith, Talsarn, ac E. Davies, Rhoslan; am 2, R. Roberts, a J. Evans, Amlwch; am 6, D. Beynon, a J. Powell."

Digitized by Google

anogaethau ganddynt i fyned yn mlaen, ac addewid y byddai iddynt hwythau wneyd a allent i'n cynorthwyo. Bu y cyfarfod hwn yn foddion i dynu sylw llaweroedd o'r newydd at yr achos, a'u hennill i wrandaw. Er mor waei oeddym, dangoswyd caredigrwydd mawr ar y pryd i'r cenhadau, yn enwedig gan Mr. John Ellis, swyddog perthynol i'r Dollfa, yr hwn a fu yn gyfaill calon, a chyn ei ddiwedd yn aelod ffyddlon gyda'r achos, fel y mae ei blant, a'i wyrion etto ar ei ol. Ar ei fwrdd ef y ciniawodd yr holl bregethwyr ar ddiwrnod y cyfarfod cyntaf hwnw. Buom yn lled anniben yn cael cyfleusdra i weinyddu yr ordinhadau. Ond cawsom hyny hefyd mewn amser. Y Parch. Owen Thomas, Carrog, oedd y cyntaf a weinyddodd swper yr Arglwydd yn ein plith. Wedi hyny cafwyd y fraint hon yn lled gyson, a derbyniwyd ambell un i gymundeb, ond yn lled anaml. Yn y flwyddyn 1819, daeth William Parry, a Margaret ei wraig, yma i fyw, y rhai oeddynt yn aelodau yn Llanerchymedd, a buont yn ffyddlon iawn fel y mae eu hiliogaeth hyd heddyw. Erbyn hyn, yr oeddym yn alluog i gynal cyfarfodydd gweddi pan ein siomid am bregethwr, ac ar amserau eraill. Yn y flwyddyn 1821, daeth Rowland Jones, a Margaret ei wraig, yma i fyw. Yr oeddynt yn aelodau o'r blaen yn Llangadwaladr, a bu eu dyfodiad yn llawer o gysur a chalondid i ni. Fel hyn, rhwng dyeithriaid a rhai wedi eu derbyn yn y lle, yr oeddym yn rhifo tua 12 o aelodau.

"O herwydd fod prinder llefarwyr yn y wlad, byddem weithiau heb neb i lenwi y Sabbothau. Parai hyny lawer o ddigalondid i ni, ac anturiasom feddwl am gael bugail i ofalu am danom. Buom yn ymddiddan a dau frawd ieuangc, un o athrofa Llanfyllin, a'r llall o athrofa Caerfyrddin. Cawsom addewid gan y ddau y deuent yma, ond fe'n siomwyd gan y naill a'r llall o honynt. Pan mewn iselder meddwl o'r herwydd, cawsom newydd da rhagorol gan y Parch. R. Roberts, Treban, sef fod Mr. William Griffith, Caernarfon, a'i frawd, yn athrofa Caerfyrddin, ac os gallem gael ganddo addaw dyfod atom, y byddai yn debyg o fod yn fendith i'r achos a'r gymydogaeth. Addawodd wneyd a allai tuag at hyny, ac felly y gwnaeth. Yn nechreu Awst, 1821, daeth cyhoeddiad John a William Griffith i fod yn pregethu yn Nghaergybi un o'r Sabbothau canlynol. Wedi i ni gael y cyhoeddiad, penderfynasom ofyn benthyg capel ein brodyr y Bedyddwyr, a chaniatawyd ef yn rhwydd iawn. Wedi i Mr. W. Griffith ddyfod, darfu i rai o honom ddefnyddio y cyfleusdra i ymddiddan ag ef ar y mater, ond ni roddodd un addewid, ac ni ddangosodd unrhyw wrthwynebiad ychwaith; addawodd ymweled a ni drachefn cyn dychwelyd i'r athrofa, ac ar ei ddyfodiad y tro hwnw, cawsom fwy o hamdden i ymddiddan, a chawsom beth cysur ganddo cyn ymadael. Pan ddaeth Mr. Roberts, Treban, i'r dref, tywalltasom ein calonau iddo ar yr achos, a deallasom ei fod yntau, ac eraill, yn cydweithredu o'n plaid; er ein bod yn cael ein diystyru gan rai, fel ychydig o bobl dlodion, dim ond 13 o aelodau, heb na chapel na chynnulleidfa, ond un fechan iawn, etto, yn meddwl cael dyn ieuangc dysgedig a pharchus i ddyfod i'n plith. Yr oeddym wedi meddwl am wneyd cais at eglwysi y sir i'n cynorthwyo i gael gweinidog am flwyddyn neu ddwy, a chrybwyllwyd hyny hefyd gan rai o'r gweinidogion mewn cyfarfod misol; ond dywedodd Mr. Griffith os byddai i Dduw dueddu ei feddwl i ddyfod i Gaergybi, yr ymddiriedai ef yn y Duw hwnw am gynaliaeth heb gymorth neb o'r eglwysi eraill. Felly y bu, ac y mae eglwys yn Tabernacl yn ddigon parod i uno yn nghyd i alw cyfarfod o ddiolchgarwch i Dduw o herwydd ei ddyfodiad i'w plith. Cyn diwedd y flwyddyn 1821, cytunasom

a'n gilydd i roddi galwad i Mr. Griffith i fod yn weinidog arnom, ac amlygasom ein penderfyniad i'n pleidiwr serchog, Mr. Roberts, Treban. Gyda'r parodrwydd mwyaf, cefnogodd yntau ein bwriad, ac addawodd ysgrifenu yr alwad, ac y caem ninau y tro nesaf y deuai i'r dref, gyfleusdra i'w llawnodi. Yn mhen tua mis ar ol hyn, daeth Mr. Roberts yma i bregethu, ac ar ddiwedd yr oedfa, boreu Sabboth, galwodd y cyfeillion yn nghyd, yna amlygodd y dyben, sef i lawnodi galwad i Mr. W. Griffith, Caernarfon, yr hwn oedd ar y pryd yn Nghaerfyrddin, i ddyfod i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Wedi deall hyn, yr oedd pawb am y cyntaf i ddyfod yn mlaen. Disgwyliasom yn bryderus am atebiad, ac ni a'i cawsom er ein llawenydd; dywedai Mr. Griffith y byddai yn debyg o fod gyda ni y mis Gorphenaf canlynol, ac ar y 16eg o'r mis hwnw, yn y flwyddyn 1822, cyfarfuasom mewn llawenydd mawr dros ben. Y Sabboth canlynol, sef yr 21ain, pregethodd Mr. Griffith oddiar Actau xviii. 9, 10.—'A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Paul trwy weledigaeth liw nos, Nac ofna; eithr llefara, ac na thaw. Canys yr wyf fi gyda thi, ac ni esyd neb arnat, i wneuthur niwed i ti; o herwydd y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon.'"

Mae parhad hanes yr achos o hyny hyd yn awr wedi ei ysgrifenu gan Mr. Griffith ei hun, ac nis gallwn wneyd dim yn well na'i gyhoeddi yn gyflawn.

"Y mae dilyniad yr hanes uchod wedi ei adael i mi o 1822 hyd 1872, haner can' mlynedd o daith yr anialwch; ond er fod yr amser yn faith, bydd yr adroddiad yn fyr. Daeth yr alwad y cyfeirir ati yn y llinellau blaenorol i'm llaw Chwefror 16eg, 1822, ac ar ol ystyriaeth ddwys, a gweddi daer, tueddwyd fi i gydsynio a hi. Barnai fy athraw, y Parch. D. Peter, nad oeddwn yn gwneyd yn iawn, gan y gallaswn yn hawdd gael maes mwy manteisiol i lafurio. Dau beth a barodd i mi benderfynu. Un peth oedd bywyd yr achos yn Nghaergybi. Sicrhai gweinidogion yr ynys y byddai yn rhaid iddynt ei roddi i fyny, os nad awn yno; nis gallwn oddef y meddwl o fod ei waed ar fy nwylaw. Peth arall oedd gradd o hyder yn addewid fy Nuw, na byddai arnaf eisiau dim daioni. Meddyliais pe buasai Syr John Thomas Stanley, oedd yn byw yn y gymydogaeth, yn addaw felly, y buaswn yn galonog, a theimlais mai gormod o sarhad fuasai amheu y Digelwyddog! Er hyny yr oedd fy ffydd yn egwan. Gyda bod y llythyr, yr hwn oedd yn cynwys atebiad cadarnhaol i'r alwad, wedi ei ollwng i'r llythyrgell, dywedais wrth fy nghydfyfyriwr hoff, y Parch. Caleb Morris, yr hwn oedd gyda mi ar y pryd, y buasai yn dda genyf ei gael yn ol, ond yr oedd hyny yn anmhosibl, 'yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd.' Pan ddaethum yma, 6 o frodyr, a 7 o chwiorydd oedd yn gwneyd i fyny yr holl eglwys, y gwrandawyr yn nghylch 40. Enwau yr aelodau ydoedd, Robert Jones, Thomas Williams, William Parry, Rowland Jones, William Williams, John Davies, Margaret Jones, Catherine Jones, Jane Evans, Margaret Parry, Elizabeth Roberts, Mary Lloyd, a Margaret Griffith. Rhyfyg a fuasai iddynt addaw fy nghynal, ac o herwydd hyny agorais ysgol. Cefais nawdd y gymydogaeth a'r wlad, ac yn fuan ysgrifenodd Dr. Abraham Rees, o Lundain, ataf, i'm hysbysu fod ysgol Dr. Daniel Williams i gael ei symud o'r man lle yr oedd. Gan fy mod o goleg Caerfyrddin, a'r Dr. yn hen gyfaill i fy nhad, dywedai y carai fy nghefnogi trwy osod yr ysgol o dan fy ngofal. Bu hyny yn gryn fantais i'r achos gwan, ac i minau. Pe gallaswn fyw heb yr ysgol, credwyf mai gwell ar y pryd oedd i mi ei



Digitized by Google

chadw; yr oedd yn fy nwyn i gydnabyddiaeth, ac yn rhoddi i mi beth dylanwad er daioni ar y plant a'u rhieni. Urddwyd fi i gyflawn waith y weinidogaeth Medi 25ain a'r 26ain, yn y flwyddyn 1822. Gan nad oedd genym gapel etto o'r eiddom ein hunain, cynaliwyd y cyfarfod yn addoldy y Bedyddwyr. Nos Fercher, dechreuodd y Parch. J. Evans, Amlwch, a phregethodd y Parch. W. Cooper, Dublin, oddiar Ioan i. 29; a'r Parch. D. Jones, Treffynon, yn Gymraeg, oddiar 1 Tim. i. 15. Boreu dydd Iau, am haner awr wedi 6, dechreuodd y Parch. D. Morgan, Machynlleth, a phregethodd y Parch. T. Lewis, Pwllheli, oddiar Ioan v. 25. Am 9, dechreuodd y Parch. J. Rees, Manchester, a thraddodwyd y gynaraeth gan y Parch. W. Jones, Caernarfon, oddiar 1 Cor. i. 2; gofynwyd yr holiadau gan y Parch. R. Roberts, Treban; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan y Parch. D. Jones, Treffynon, gydag arddodiad dwylaw; a phregethodd y Parch. W. Cooper, ar ddyledswydd y gweinidog, oddiar 1. Tim. iv. 12—16; a'r Parch. D. Roberts, Bangor, ar ddyledswydd yr eglwys, oddiar 1 Thes. ii. 20. Am 2, dechreuodd y Parch. Owen Thomas, Llanfechell, a phregethodd y Parch. D. Morgan, Machynlleth, oddiar Heb. xii. 4; a'r Parch. J. Breese, Llynlleifiad, oddiar Can. vi. 9. Am 6, dechreuodd y Parch. J. Evans, Beaumaris, a phregethodd y Parch. W. Cooper, oddiar Salm lxxxix. 15; a'r Parch. Daniel Griffith, (wedi hyny o Gastellnedd), oddiar Ezec. xxxvii. 9. Y nos ganlynol, pregethodd y Parch. J. Rees, Manchester, a'r Parch. J. Griffith, Beaumaris, yn awr o Buckley, oddiar Dat. xiv. 10, 11; a Iago i. 5. Pregethais inau y Sabboth canlynol oddiar Eph. iii. 8.

"Yr oedd yn beth anfantais y blynyddau cyntaf, fy mod y gweinidog Ymneillduol *sefydlog* cyntaf erioed yn y dref. Er fod yr enwadau eraill wedi hir ymsefydlu yma, byddent yn cael eu gwasanaethu gan amrywiaeth doniau o'r wlad bob Sabboth. Felly hefyd y gwasanaethid cynnulleidfa 'y parlyrau" am y pum' mlynedd cyntaf, a llettyai y brodyr yn fynych yn Crecristfawr gyda Mr. Griffith Roberts, ewyllysiwr da i'r achos y pryd hyny, ac aelod diwyd wedi hyny hyd derfyn ei oes, er fod ganddo dair milldir o ffordd i ddyfod atom. Da genym gael cyfleusdra i groniclo ei enw teilwng; y mae rhai o'i hiliogaeth yn dilyn ei esiampl yn Llynlleifiad, a Bryngwran, Mon. Trefn y gwasanaeth Sabbothol o 1822 hyd 1831, ydoedd cyfarfod gweddi am 7, oedfa Gymraeg am 10, ysgol am 2, ac oedfa Saesonaeg am 6. Gan fod y Llan y pryd hyny yn gauad y nos, byddai y Saeson elai yno y prydnawn, bron i gyd yn dyfod atom ninau yn yr hwyr. Gwelwyd fod hyn yn niweidio yr achos Cymraeg, ac o herwydd hyny peidiwyd a'r Saesonaeg; profodd y canlyniadau yn fuan mai iawn y gwnaethom. Ein gorchwyl mawr nesaf oedd adeiladu; cafwyd y safle mwyaf dewisol. Maintioli y capel oedd 45 o droedfeddi wrth 39, ac oriel o'i amgylch; yr oedd traul yr adeiladaeth yn 800p. Yr adeiladydd oedd y rhagddywededig Mr. Owen Lewis, yn awr o Langefni. Yr oedd yr anturiaeth yn fawr, ond safodd y cyfeillion, Mr. Roberts, Treban; Mr. Ellis, Marchog; a Mr. Roberts, Ty'nygroes, o dan bwys y ddyled gyda mi. Y mae parch yn ddyledus i'w henwau teilwng oddiwrth aelodau y Tabernacl o oes i oes. Pregethwyd ynddo gyntaf ar foreu Sabboth, Chwefror 22ain, 1824, y testyn y boreu hwnw oedd Neh. x. 39. Yn y flwyddyn 1845, helaethwyd y capel trwy ychwanegu *vestry* helaeth ato, ac ail-drefnu y llawr. Helaethwyd ef drachefn yn y flwyddyn 1856, trwy estyn saith lath at ei hyd, fel y cynwysai rhwng dau a thri chant yn fwy nag o'r blaen; costiodd yr helaethiad hwn 650p., heblaw 100p. am y tir oedd o'r blaen yn edringol, ond yn awr

Digitized by Google

sydd yn feddiant tragywyddol. Y mae yr ysgol Sabbothol wedi gweithio yn orchestol i ddileu y ddyled, ac wedi gorphen y gwaith. Y mae yma ysgoldy a dau dŷ anedd mewn cysylltiad a'r capel.* Cynydd graddol a pharhaus sydd wedi bod ar yr achos yma. Cafwyd ychwanegiadau anghyffredin at yr eglwys, y fath ag a elwir yn 'ddiwygiadau.' Cymerodd y blaenaf le yn yr haner blwyddyn gyntaf o fy ngweinidogaeth. Ymwelodd yr Arglwydd yn rasol iawn a ni y pryd hwnw. Derbyniwyd lluaws o aelodau, ac yn eu plith o benau teuluoedd, yn wyr a gwragedd gyda'u gilydd, y rhai fuont yn dra defnyddiol. Bu hyn yn foddion i'n calonogi yn fawr, fel arwydd er daioni. Cafwyd ymweliadau cyffelyb yn 1832 ac 1840. Hefyd, un arall grymus iawn yn 1848. Ond y mwyaf effeithiol o'r cyfan oedd, yr adfywiad nerthol yn 1859 ac 1869. Breintiwyd ni a thangnefedd heddychol o'r dechreu hyd yn bresenol. Unwaith y bygythiwyd yr eglwys ag ymraniad, pan yn ei phlentynrwydd dechreuol. Pwngc y ddadl oedd, pa un ai canwyllau *dip*, ynte canwyllau *mold*, a ddylesid ddefnyddio yn 'y parlyrau.' Yr oedd y naill blaid am ddangos yr achos allan yn anrhydeddus, a'r blaid arall am 'ddarparu pethau onest yn ngolwg pob dyn,' ac yn ofni y buasai y *fold* uwchlaw eu gallu hwy. Ond yr ydym ni eu holynwyr wedi myned uwchlaw y *fold* a'r *dip*, yn gymaint a bod y nwy *(gas)* ysblenydd wedi eu hymlid hwynt oll ymaith.

"Mae y gynnulleidfa gyda y blaenaf mewn ffyddlondeb yn ei chyfraniadau at yr achos, yn gartrefol ac yn gyffredinol. Breintiwyd ni hefyd a diaconiaid ffyddlon. Y mae y chwech a fu yn gwasanaethu y swydd wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur, ar ol ennill iddynt eu hunain 'radd dda,' sef Thomas Williams, David Hughes, Rowland Jones, Hugh Rowlands, Robert Roberts, gynt o'r Bank, ac E. Griffith, Anglesey-house. Mae yr wyth sydd yn aros o gyffelyb feddwl, ac yn gwir ofalu. Nifer yr aelodau eglwysig ydyw 420; yr ysgol Sabbothol 350; y gynnulleidfa 750. Nid oes yn aros yn yr eglwys yn bresenol gymaint ag *un* o'r 13 oedd gyda mi

* "Trwy ymdrech diflino y gynnulleidfa gartref, a'r gweinidog oddicartref, talwyd rhan o'r ddyled oedd y pryd hyny yn drom iawn ar ysgwyddau gweiniaid. Ond yn y flwyddyn 1853, pan brynwyd y tir, dywedodd ein gweinidog y talai ef y 100p. am dano, ar yr amod i'r eglwys dalu y ddyled o 300p. oedd yn aros ar y capel. Rhoes yr her i'r ysgol Sabbothol, a derbyniodd hithau y *challenge* yn siriol ac unfrydol.

"Gorphenodd ef ei waith yn ebrwydd, a daliodd hithau ati yn ffyddlon iawn, nes gorphen ei rhan hithau, ac nid yr *hen* ddyled yn unig, ond ymgymerodd hefyd yn galonog a'r ddyled newydd. Y mae ei hesiampl yn hyn wedi bod o fendith i'r wlad, fel nad oes nemawr ysgol yn yr ynys nad yw yn casglu at ddyled ein capeli. A disgwyliwn y bydd yn fuan yn jubili trwy holl ynys Mon, megis y mae yma gyda ni heddyw.

"Mae y treuliadau a'r taliadau mewn cysylltiad a'r adeiladaeth, o'r dechreu, fel y canlyn:—

TREULIADAU.

| | p. |
|---|---|
| Y capel y tro cyntaf . . . | 800 |
| Yr ysgoldy . . . . . . . | 120 |
| Helaethu y capel . . . . | 60 |
| Ail-drefnu yr ysgoldy a'r ty | 60 |
| Prynu y tir, &c. . . . . | 137 |
| Helaethu y capel drachefn . | 652 |
| | £1,829 |

TALIADAU.

| | p. |
|---|---|
| Y gynnulleidfa cyn 1833 . . | 82 |
| „ „ yn 1833 . . | 150 |
| „ „ yn 1856 . . | 501 |
| Yr ysgol Sabbothol . . . . | 395 |
| Casgliad y gweinidog. | |
| „ „ cyn 1833 . . | 290 |
| „ „ yn 1833 . . | 50 |
| „ „ yn 1853 . . | 100 |
| „ „ yn 1856 . . | 260 |
| | £1,829"† |

† Jubili Tabernacl, Caergybi. *Annibynwr*, 1864. Tu dal. 47.

ar y cyntaf. Ymadawodd y ddiweddaf yn 1871, sef ein hanwyl chwaer Catherine Jones, yn 92 mlwydd oed. Trwy diriondeb trugaredd ein Duw, gallaf ddyweyd bellach, 'Yn nghanol fy mhobl yr ydwyf fi yn trigo,' ac yn eu canol yr ydwyf yn debyg o noswylio. Cefais gymhelliadau i'w gadael am Dreffynon, Caerfyrddin, Llynlleifiad, Caernarfon, a Llundain; ond methais a gweled fy ngalwad oddi yma mor amlwg o Dduw, ag yr ymddangosai fy nyfodiad yma."

Mae Mr. Griffith wedi crynhoi llafur haner can' mlynedd o weinidogaeth lwyddianus yn mysg yr un bobl i gylch bychan, ond ni fynegwyd yr haner sydd i'w fynegu am ei lafur a'i lwyddiant. Aeth dwy gangen o'r eglwys allan yn heddychol i gychwyn achosion mewn lleoedd eraill, y rhai a ddaw dan ein sylw etto. Tabor ar fynydd Twr, a ddechreuodd yn y flwyddyn 1847, a'r Tabernacl Newydd, yn y dref, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1866. Ar yr 22ain o Fehefin, y flwyddyn hono, pan yn pregethu yn nghymanfa Pwllheli, tarawyd Mr. Griffith gan ergyd oddiwrth yr haul *(sun-stroke)*, yr hyn a'i hanalluogai am tua phedair blynedd i gyflawni ei weinidogaeth. Wrth weled amser ei fethiant yn myned yn hir, cynygiodd fwy nag unwaith i roddi ei swydd i fyny, ond ni fynai yr eglwys wrando ar hyny. Rhoddwyd galwad i Mr. Evan C. Davies, myfyriwr o athrofa Aberhonddu, i fod yn gydweinidog a Mr. Griffith, ac urddwyd ef Gorphenaf 25ain, 1869. Pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Lloyd, Caergybi; holwyd y gofyniadau a dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. W. Griffith; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. B. Jones, B.A., Penybont-ar-ogwy, ac i'r eglwys gan Mr. D. Griffith, Portdinorwic. Wedi cydlafurio yn hapus am ddwy flynedd, derbyniodd Mr. Davies alwad o Lanerchymedd, a symudodd yno, ac y mae gofal yr eglwys yma, fel cynt, yn gwbl ar Mr. Griffith, a chan fod ei iechyd i raddau mawr wedi ei adferu, y mae yn gallu cyflawni y weinidogaeth gyda chynorthwy ei frodyr yn lled ddifwlch, ond ei fod yn gorfod ymgadw o gyfarfodydd cyhoeddus. Ar derfyn ei haner canfed flwyddyn yn y weinidogaeth, y mae ei gyfeillion yn gwneyd Tysteb iddo yn arwydd o'u parch dwfn iddo a'u gwerthfawrogiad o'i lafur a'i gymeriad.

Cyfodwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

David Rowlands, B.A. Addysgwyd ef yn athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yn Llanbrynmair, ac y mae yn awr wedi ei ddewis yn athraw clasurol yn athrofa Aberhonddu.

Edward James. Urddwyd ef yn Llanaelhaiarn, ac y mae wedi bod bellach am flynyddoedd yn weinidog yno ac yn Sardis.

Robert Owen. Urddwyd ef yn Berea, Mon, a bu farw yno yn ddiweddar, lle y daw ei hanes dan ein sylw.

Thomas R. Jones. Mae yn awr yn fyfyriwr yn athrofa Aberhonddu.

Richard Jones. Mae yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys.

Thomas Nicholson. Dechreuodd bregethu yn ddiweddar, ac y mae yn bwriadu myned yn fuan i ryw athrofa. Mae eraill a fagwyd yn yr eglwys yma, ond a ddechreuasant bregethu ar ol myned oddiyma.

## TABOR.

Mae y capel yma ar ochr mynydd Twr, o fewn llai na dwy filldir i Gaergybi. Dechreuwyd yr achos yn y gymydogaeth hon mewn ty o eiddo y diweddar frawd Owen Hughes, yn y flwyddyn 1847. Adeiladwyd y

Digitized by Google

capel yn y flwyddyn 1848. Nid oedd eu nifer ar y dechreu ond saith, sef pump o feibion a dwy o ferched, ond deuai cyfeillion o'r dref yma i'w cynorthwyo am beth amser. Cynyddodd yr eglwys a'r gwrandawyr, fel y gwelwyd cyn hir olwg siriol ar yr achos, ond trwy y mynych symudiadau a gymerodd le, y mae yr achos wedi lleihau y blynyddoedd diweddaf. Mae y lle yn parhau dan ofal Mr. Griffith mewn cysylltiad a'r Tabernacl, Caergybi.

## Y TABERNACL NEWYDD, CAERGYBI.

Yn y flwyddyn 1866, o herwydd fod y gynnulleidfa wedi lluosogi, penderfynwyd adeiladu capel arall yn mharth gogleddol y dref. Costiodd uwchlaw 1100p. Galwyd ef y Tabernacl Newydd. Talwyd haner y ddyled pan agorwyd ef, a chan fod y ddau Dabernacl wedi rhanu gweddill y ddyled rhyngddynt, disgwylir na bydd yr holl ddyled yn hir heb gael ei thalu. Arwyddwyd dymuniad ar fod o leiaf gant o aelodau y fam-eglwys yn ymgymeryd a'r achos newydd. Oddeutu pedwar-ugain a symudodd, a'r rhai hyny yn mhob ystyr yn gyfeillion galluog i gadw tŷ. Yn y flwyddyn 1868 derbyniodd Mr. William Lloyd, Llundain, (Wern, cyn hyny,) alwad oddiwrth yr eglwys yma i weinidogaethu iddi, ac y mae yn parhau i lafurio yn y lle. Gan mai achos newydd ydyw, nid oes llawer o ffeithiau yn nglyn ag ef i'w cofnodi, ond y mae pob peth yn myned yn mlaen yn dra chysurus.

## BODEDEYRN.

Nid oes genym hanes cywir pa bryd y dechreuwyd pregethu yn y lle hwn, ond y mae yn sicr fod pregethu yma yn nechreu y ganrif hon, canys yr ydym yn cael yn nghofnodion Llys Esgobol Bangor, i Robert Roberts drwyddedu Plasmain, Bodedeyrn, Awst 11eg, 1801. Bu pregethu am ysbaid yn Plasmain, ac wedi hyny symudwyd i dŷ arall a elwid Llawr-y-llan, a chyfaddaswyd y lle hwnw at gynal addoliad. Bu yma un David Griffith yn pregethu ac yn cadw ysgol, ond nid ydym yn cael ei fod yn weinidog yma. Yr oedd yma yn flaenorol i urddiad Mr. R. Roberts yn y lle, ac arhosodd yma wedi ei sefydliad, oblegid yr ydym yn cael enw D Griffith, Bodedeyrn, yn aml yn nghofnodion Mr. Jonathan Powell yn yr adeg hono. Bu Mr. Robert Roberts yn dyfod yma yn hir i bregethu, ac ar y 29ain o Mehefin, 1810, urddwyd ef i fod yn weinidog yma ac yn Ceirchiog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Meistri A. Jones, Bangor; J. Powell, Rhosymeirch; J. Evans, Amlwch; J. Griffith, Caernarfon, a Dr. G. Lewis, Llanuwchllyn.* Llafuriodd Mr. Roberts yma yn ddiwyd a ffyddlon am bedair-blynedd-ar-hugain, hyd nes y gorfodwyd ef yn 1834 i roddi yr eglwys i fyny, oblegid sefyllfa ei iechyd. Codwyd yma gapel newydd yn y flwyddyn 1829, yr hwn a enwyd yn Saron, ac agorwyd ef Tachwedd 4ydd, y flwyddyn hono. Derbyniwyd y swm o 30p. o Gleifiog-isaf at ddileu dyled y capel, a chyfranodd Mr. Roberts, y gweinidog, 10p. i'r un dyben, a gwnaed y gweddill i fyny gan yr eglwys a'r ardal. Costiodd tua 100p., a thalwyd y cyfan. Ni dderbyniodd Mr. Roberts ddim am ei lafur gweinidogaethol yr holl flynyddoedd y bu yma, ac er fod hyny

* O gofnodion Mr. Jonathan Powell, Rhosymeirch.

Digitized by Google

o'i du ef yn dangos hunanymwadiad mawr, etto yr oedd yr eglwys trwy hyny yn cael ei chamfagu. Wedi bod dros ychydig heb weinidog wedi i Mr. Roberts roddi y gofal i fyny, yn nechreu y flwyddyn 1836, rhoddwyd galwad i Mr. David Davies, i fod yn weinidog i'r eglwys hon, ac i'r eglwysi yn Llanddeusant a Llanfachreth. Urddwyd ef yma Gorphenaf 27ain, 1836. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Williams, Caernarfon; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Evans, Beaumaris; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. James, Rhosymeirch; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. W. Griffith, Caergybi, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. W. Jones, Amlwch.* Bu Mr. Davies yma yn ddiwyd am yn agos i chwe' blynedd, hyd nes y symudodd i Berea, ac oddiyno i Langefni. Wedi ei ymadawiad ef, rhoddodd yr eglwys yma alwad i Mr. William Evans, yr hwn oedd yn weinidog yn Abererch, gerllaw Pwllheli. Bu yma rai blynyddoedd, nes y symudodd i'r Dwyran, ac oddiyno i Fagillt, lle y gorphenodd ei yrfa. Bu yr eglwys am rai blynyddoedd ar ol hyn heb weinidog, hyd nes y rhoddwyd galwad i Mr. John Hughes, pregethwr cynorthwyol yn yr eglwys, ac urddwyd ef Mawrth 21ain, 1854, i fod yn weinidog i'r eglwys hon a'r eglwysi yn Llanfachreth a Llanfairneubwll. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. J. Roberts, Llanerchymedd; holwyd y gofyniadau gan Mr. T. Ridge, Hermon; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. J. Roberts; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. D. James, Rhosymeirch, ac i'r eglwys gan Mr. W. Morris, Bryngwran.† Cynyddodd yr achos yn fawr yn nhymor gweinidogaeth Mr. John Hughes, a thynai ei ddoniau iraidd a melus lawer i wrando arno. Llafuriodd yma am bedair-blynedd-ar-ddeg, a gorphenodd ei yrfa Tachwedd 28ain, 1868. Bu yr eglwys heb weinidog hyd Ebrill, 1870, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. Howell R. Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn Hebron, Lleyn. Llai na blwyddyn yr arhosodd yma, canys symudodd yn Mawrth, 1871, i Bryngwran. Wedi bod ychydig gyda blwyddyn heb weinidog, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. William Solomon Roberts, yr hwn oedd yn weinidog yn Flint, a dechreuodd ei weinidogaeth yma Mai 12fed, y flwyddyn hon, (1872). Yn y flwyddyn 1868, adnewyddwyd a phrydferthwyd yr addoldy yn fawr, a bu yr holl ardalwyr yn garedig a haelionus ar yr achlysur, ac yn enwedig, cafwyd cefnogaeth a chymorth mawr gan Mr. Hugh Lewis, Liverpool. Ailagorwyd y capel Rhagfyr 7fed a'r 8fed, 1868. Coffeir yn barchus am enwau rhai ffyddloniaid a fu gyda'r achos yma, ac y mae hiliogaeth rhai o honynt yn dilyn llwybrau ffydd eu hynafiaid.

Cyfodwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

John Hughes. Yr hwn wedi hyny a urddwyd yn weinidog i'r eglwys.

Richard Hughes. Urddwyd ef yn Adulam, Tredegar, ac y mae yn awr yn Ebenezer, Pontypool.

Evan Jones. Urddwyd ef yn weinidog yn ddiweddar yn Capel Newydd, Mynytho, a Llanbedrog, sir Gaernarfon.

Edward Thomas Hughes. Mae yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

JOHN HUGHES. Ganwyd ef yn Llanynghenedl yn Mon, yn mis Mehefin, 1816. Arferai er yn blentyn wrando yr efengyl, ac yr oedd ganddo gof nodedig i ddal ar yr hyn a glywai, a dawn rhyfeddol i adrodd hyny i eraill.

* *Dysgedydd*, 1836. Tu dal. 289. † *Dysgedydd*, 1854. Tu dal. 237.

Digitized by Google

Dygwyd ef i fyny yn y gelfyddyd o ôf, a bu yn gweithio wrth yr einion dros ei holl ddyddiau, oddigerth ychydig o flynyddoedd yn niwedd ei oes. Dyn bychan, byr, crwn, cydnerth ydoedd, ac yr oedd yn hawdd deall pa alwedigaeth a ddilynai pa le bynag y gwelid ef. Bu am lawer o flynyddoedd yn gwrando yr efengyl cyn rhoddi ufudd-dod iddi. Dilynai bob pregethwr a ddeuai i'r wlad i ba enwad bynag y perthynai, fel yr oedd yn dra chyfarwydd a doniau penaf pob plaid grefyddol. O'r diwedd, rhoddodd ei hun i fyny i'r Arglwydd ac i'w bobl, ac ar ol iddo ymuno a'r eglwys dadblygwyd ei ddoniau gyda'r fath gyflymder fel yr anogwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu, a chyn hir iawn rhoddodd yr eglwys a'i derbyniodd yn aelod, a'r eglwysi mwyaf adnabyddus o hono, alwad iddo i fod yn weinidog, ac urddwyd ef, fel y crybwyllasom, yn mis Mawrth, 1854. Cynyddodd y son am dano yn gyflym, fel y daeth yn boblogaidd iawn trwy yr holl wlad. Yr oedd rhwyddineb ei draddodiad—tynerwch ei deimladau—a'r swyn oedd yn ei lais yn peri ei fod yn gorchfygu cynnulleidfaoedd cryfion. Dyoddefodd ddirmyg oddiwrth rai personau coegion oblegid mai dyn anllythyrenog ydoedd, ond yr oedd ef yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas Dduw," ac y mae meddu ar y cyfryw ddawn, gan bwy bynag y byddo, yn sicr o daro y galon. Achwynid arno gan rai ei fod yn "arbed mwy nag a weddai," ac y dylasai ei wisg a'i ymddangosiad fod yn fwy cydweddol ag urddas yr efengyl, ond fel yr ydoedd yr oedd ei ddylanwad yn cael ei deimlo i ba gynnulleidfa bynag yr elai. Gallesid disgwyl iddo fyw lawer o flynyddau, ond gostyngwyd ei nerth ar y ffordd, a daliwyd ef gan angau Tachwedd 28ain, 1868, yn 52 oed, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Llanddeusant.

## LLANFAIRNEUBWLL.

Dechreuwyd pregethu yn yr ardal ymat ua'r flwyddyn 1840, gan Mri. W. Griffith, Caergybi, a D. Davies, Llanddeusant, ac eraill. Yr oedd yma ychydig bersonau yn aelodau yn Bodedeyrn, a'r rhai hyny a flaenorent gyda chychwyniad yr achos. Yn y flwyddyn 1843, adeiladwyd yma gapel bychan, yr hwn a gostiodd 50p. mewn arian, heblaw cludiad y defnyddiau yr hyn a wnaed gan yr ardalwyr yn rhad. Coffeir yn barchus am ffyddlondeb Mr. R. Williams, Carna, a Mr. O. W. Williams, Coedelen, yn arolygiad adeiladaeth y capel. Agorwyd ef Tachwedd 28ain, 1843, pryd y gweinyddodd Meistri W. Griffith, Caergybi; D. James, Rhosymeirch; W. Jones, Amlwch; I. Jones, Hermon; T. Davies, Moelfro; D. Davies, Llangefni; W. Roberts, Llanddeusant, ac R. Roberts, Treban. Bu golwg pur lewyrchus ar yr achos ar ei gychwyniad, ond gwywodd yn fawr yn y blynyddoedd o 1855 hyd 1859. Crybwyllir gyda serch am ffyddlondeb John Owen, Crossing, yn yr adeg hono, ac am garedigrwydd teuluoedd Carna a Threflysg. Adnewyddodd yr achos yn fawr yn yr adfywiad grymus a gafwyd yn 1859 ac 1860, ac y mae ffrwyth y diwygiad hwnw i'w weled hyd y dydd hwn. Mae yr eglwys yma o'r dechreuad wedi bod mewn cysylltiad gweinidogaethol a Bodedeyrn, oddieithr am dymor byr yn ystod gweinidogaeth Mr. John Hughes, unodd a'r eglwys yn Maelog, dan ofal Mr. R. Roberts, ond wedi marwolaeth Mr. Roberts cymerodd Mr. J. Hughes ei gofal drachefn; ac y mae yn awr dan ofal Mr. W. S. Roberts. Mae yma olwg siriol a chalonog, a phe byddai yn weddus enwi personau byw gallem enwi amryw sydd wedi dangos mawr ofal calon am yr achos yn y lle.

Digitized by Google

## BRYNGWRAN.

Dechreuwyd yr achos hwn yn mhlwyf Ceirchiog, trwy offerynoliaeth yr efengylwr teithiol John Bulk. Nis gallwn gael o hyd i'r dyddiad, ond ymddengys ei fod yn fuan wedi y flwyddyn 1790. Daeth John Bulk i'r ardal pan oedd un Edward Williams yn adeiladu ty, ac mewn ymddiddan dywedodd wrtho, "Dyma le cyfleus iawn i bregethu, a wnewch chwi ei osod ar ardreth i mi i hyny?" Boddlonodd Edward Williams i wneyd os cai ganiatad ei feistr tir, yr hyn a ganiatawyd. Ardrethwyd ef am dair blynedd, a buwyd dros yr ysbaid hwnw yn pregethu ynddo. Dywedir mewn llythyr sydd yn awr ger ein bron, yr hwn a ysgrifenwyd gan Mr. R. Roberts, Treban, Gorphenaf 18fed, 1849, mai Mr. Abraham Tibbott a ffurfiodd yr eglwys. Os felly, y tebygolrwydd ydyw i hyny gymeryd lle tua'r flwyddyn 1794. Ar derfyn tair blynedd y cytundeb ag Edward Williams, adeiladwyd yma gapel bychan a tho gwellt iddo trwy offerynoliaeth un Thomas Rowlands, Treban. Yn nghofnodion Llys Esgobol Bangor, cawn i Bethesda yn mhlwyf Ceirchiog, Mon, gael ei drwyddedu fel capel Annibynol i bregethu ynddo, Hydref 17eg, 1793, gan un William Owen. Nid ydym yn gwybod pa un ai y ty anedd a godwyd gan Edward Williams ai y capel a'r to gwell a adeiladwyd trwy offerynoliaeth Thomas Rowlands oedd y Bethesda. Yn y flwyddyn 1796 daeth Mr. John Jones i'r wlad, ac urddwyd ef yn weinidog yn Ceirchiog, a bu yma hyd nes y symudodd i Liverpool tua'r flwyddyn 1803, at yr achos Cymreig oedd wedi ei gychwyn yno. Mae yn amlwg i'r eglwys yma fod heb weinidog sefydlog am rai blynyddau wedi ymadawiad Mr. Jones; ond yr oedd Mr. Robert Roberts, Treban, erbyn hyn wedi ymuno a'r achos ac wedi dechreu pregethu. Urddwyd ef yn Bododeyrn, Mehefin 29ain, 1810, a bu yn gweinidogaethu yn y ddau le tra y daliodd ei nerth. Yn y flwyddyn 1824 symudwyd yr achos o Ceirchiog, ac adeiladwyd capel yn mhentref Bryngwran, yn mhlwyf Llechylched, a galwyd ef Salem. Traul yr adeiladaeth oedd 150p. a thalwyd y cwbl cyn pen deng mlynedd, heb fyned allan o'r gymdogaeth. Deg-a-deugain oedd rhifedi yr aelodau ar eu symudiad o Geirchiog i Bryngwran. Yr oedd gofal penaf adeiladu y capel ar Mr. Roberts, y gweinidog, ond cynorthwyid ef yn ffyddlon gan ei gyfaill, Mr. Evan Griffith, tad y Mri. J. Evans, Gorslwyd, ac E. Griffith, Gwalchmai. Bu farw Mr. Evan Griffith yn fuan wedi agor y capel, a chafodd yr eglwys golled fawr yn ei ymadawiad. Cyflawnodd Mr. Roberts ei weinidogaeth gyda ffyddlondeb mawr, ond byrhawyd ei ddefnyddioldeb trwy ergyd o'r parlys mud (*apoplexy*) a gafodd bedair blynedd cyn ei farwolaeth. Dan yr amgylchiadau hyn, anogodd yr eglwys i roddi galwad i Mr. Richard Parry, Llanerchymedd, yr hwn oedd wedi arfer pregethu llawer iddynt yn flaenorol, i gydweinidogaethu ag ef. Cydsyniodd Mr. Parry a'u cais, ac urddwyd ef Gorphenaf 26ain, 1836. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. E. Davies, Llanerchymedd; holwyd y gofyniadau gan Mr. W. Griffith, Caergybi; dyrchafwyd yr urddweddi gan Mr. W. Jones, Amlwch; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Beaumaris, ac i'r eglwys gan Mr. W. Williams, Caernarfon.* Llafuriodd Mr. Parry yma am fwy na thair blynedd, fel plentyn gyda thad, hyd farwolaeth Mr. Roberts yn Ebrill, 1838, yna derbyniodd alwad o

* *Dysgedydd*, 1836. Tudalen 289.

Digitized by Google

Gonwy a Henryd, a symudodd yno. Rhoddodd yr eglwys yma ar ol hyn alwad i Mr. William Davies, Nefyn, yr hwn a lafuriodd yma yn egniol dros rai blynyddoedd. Yn y flwyddyn 1839, helaethwyd y capel yma trwy draul o 180p, ond symudwyd yr holl ddyled cyn hir trwy ymdrechion cartrefol. Daeth Mr. John Morris, a fuasai yn weinidog yn Bwlchyffridd, yma ar un adeg tua'r flwyddyn 1848, yr hwn a arweiniodd yr eglwys i gryn brofedigaeth, ond ymadawodd heb wneyd niwed mawr i'r achos. Yn nechreu y flwyddyn 1850, rhoddwyd galwad i Mr. William Morris i ddyfod yma o Birkenhead, ond a adnabyddid yn well fel Mr. Morris, Llanfyllin. Dechreuodd ei weinidogaeth yma yr ail Sabboth yn Mai, 1850, a llafuriodd yma yn ddiwyd am bedair-blynedd-ar-ddeg, hyd nes y gorfodwyd ef yn 1864, gan sefyllfa ei iechyd, i roddi y weinidogaeth i fyny, a symudodd i Lanfyllin i dreulio gweddill ei oes. Tynodd doniau poblogaidd Mr. Morris sylw mawr yn ddioed wedi ei sefydliad yma, ac adfywiodd yr achos yn fawr. Cyfranogodd yr eglwys hon yn helaeth o'r diwygiad grymus yn 1839 ac 1840, ac wedi hyny o'r ymweliad grasol yn 1859 ac 1860, ac y mae effeithiau yr ymweliadau yn aros etto. Bu yr eglwys heb weinidog o ymadawiad Mr. Morris hyd ddechreu y flwyddyn 1871, pryd y rhoddwyd galwad i Mr. Howell R. Jones, Bodedeyrn, ond llai na blwyddyn y bu yma cyn rhoddi ei weinidogaeth i fyny. Mae yma lawer o ffyddloniaid wedi bod o bryd i bryd, ac yn enwedig y mae teulu y Pandy, Treban, yn haeddu coffâd parchus yn nglyn a'r achos yma, oblegid hwynt hwy ar bob adeg sydd wedi bod yn brif golofn yr achos, a da genym ddeall fod crefydd yn aros yn eu hachau.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yn yr eglwys hon:—

Robert Roberts. Dechreuodd ef bregethu cyn diwedd tymor gweinidogaeth Mr. John Jones yma, a bu yn pregethu yn gynorthwyol am naw mlynedd cyn ei urddo. Daw ei hanes ef dan ein sylw etto.

Richard Jones. Yr oedd yn enedigol o Dolyddelen. Symudodd i'r ardal yma a dechreuodd bregethu, ac wedi bod yn yr ysgol am ysbaid gyda Mr. Griffith, Caergybi, aeth i athrofa Blackburn. Bu farw yn Milnthorpe, Westmoreland, Mawrth 12fed, 1867, yn 69 oed.

Robert Parry. Urddwyd ef yn Mhenmorfa, sir Gaernarfon, ac y mae yn awr yn Victoria, sir Fynwy.

Robert Roberts. Mab yr hybarch Robert Roberts, y gweinidog. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1839, a pharhaodd yn bregethwr cynorthwyol parchus hyd derfyn ei oes. Yr oedd yn ddyn heddychol a thangnefeddus, yn nodedig yn ei ofal a'i ffyddlondeb am yr achos yn gyffredinol, a gweithredodd fel Trysorydd cyfarfod chwarterol Mon am flynyddau lawer. Er nad oedd yn ddoniol fel pregethwr, etto yr oedd yn syml a sylweddol, ac yn ddiarebol fel ei dad ar gyfrif ei gyfarwydd-deb yn yr ysgrythyrau, y rhai a frithent ei bregethau. Yr oedd yn dderbyniol i ba le bynag yr elai, a'r rhai a'i gwrandawent ef amlaf a'i hoffent fwyaf. Ni theithiodd ond ychydig tuallan i'w wlad trwy ei oes, ac yr oedd ei amgylchiadau bydol yn gyfryw ag a'i galluogai i wasanaethu eglwysi tlodion heb osod baich arnynt. Cyfarfyddodd a'i angau mewn modd pruddaidd iawn, trwy syrthio yn rhyw fodd oddiar ei anifail ar y ffordd wrth ddychwelyd o Gaergybi, ryw ddiwrnod yn niwedd haf 1871. Colled fawr oedd ei golli nid yn unig i eglwys Bryngwran, ond i holl wlad Mon. Nid yn fynych y cyfarfyddir a'i gyffelyb ar gyfrif ei fywyd diargyhoedd, ei dymer dawel, ei ffyddlon-



Digitized by Google

deb i'w air, a'i barodrwydd i wneyd a allai o ddaioni yn mhob cylch. Er nad oedd gweddw ac amddifaid i alaru ar ei ol, etto yr oedd ganddo lu mawr o gyfeillion a pherthynasau, y rhai a deimlant yn hir chwithdod mawr wrth weled ei le yn wag.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

ROBERT ROBERTS. Gan nad oes neb yn fyw oedd yn adnabod Mr. Roberts yn well, nac yn alluocach i dynu darlun o hono, na Mr. R. Parry, Llandudno, ceisiasom ganddo ef ysgrifenu cofnodiad bywgraphyddol o hono. Bu Mr. Parry yn cydlafurio ag ef am flynyddau, a chafodd gyfle i'w weled yn ei deulu ac yn mysg pobl ei ofal. Rhoddwn ysgrif Mr. Parry yn gyflawn fel y cawsom hi.

"Yr oedd Mr. Roberts yn un o gedyrn Mon ddeugain mlynedd yn ol. Edrychid ato gan y cyhoedd fel amaethwr boneddigaidd, yn gystal a gweinidog defnyddiol. Yr oedd ei sefyllfa yn y byd, ei hawddgarwch personol, a'i ymddygiad dillyn, wedi ennill iddo radd dda yn ngolwg pob dosbarth drwy yr ynys. Yr oeddid yn edrych arno fel noddydd i enwad yr Annibynwyr, i raddau mawr, pan yr oedd yr achos ar ei godiad i sylw y cyhoedd. Yr oedd o ran ei berson o'r taldra canolig, yn hytrach yn fwy corphorol na'r cyffredin, a golwg gwrol iawn arno. Ymwisgai yn null yr amaethwr rhydd-ddeiliadol Cymreig; côt o frethyn cartref, gwasgod ddwbl, a llodrau a botynau pen glin, gyda ffunen sidan India goch-dywell. Yr oedd ganddo wedd hawddgar a gwên serchus, hollol naturiolg; wallt teneu, lled oleu, a llygaid yn llawn bywiogrwydd. Marchogai yn gyffredin i'w deithiau Sabbothol, a dangosai yn ei lywodraeth ar ei farch ieuangc, cnodiog, rhawnllaes, bywiog, ei fod yn gynefin a'r cyfrwy. Y mae cymaint a hyn o ddarluniad o hono yn ddigon er dangos y modd y tynai yr olwg arno sylw y wlad yn mhob man.

"Yr oedd Mr. Roberts o feddwl cryf, ac o duedd ddarllengar ac ymofyngar, perffaith rydd oddiwrth gulni, eiddigedd, neu ragfarn plaid. Yr oedd ei ddelw yn cael ei hargraffu yn naturiol ar ei holl dŷ. Yr oedd ei briod yn ateb yn gyflawn i'r darluniad o 'ymgeledd gymwys iddo,' ac yn fath o adsain i'w holl olygiadau a'i deimladau yn mhob modd. Yr oedd o feddwl eangach a chryfach na'r cyffredin o'r gwragedd, er nad oedd felly o ran ymddangosiad corphorol. Darllenai lawer, a chyda chof cryf, adroddai lawer o'r hyn a ddenai ei sylw fwyaf; defnyddiodd holl nodiadau Dr. Adam Clark, yn y gyfrol gyntaf o'i esboniad ar y Testament Newydd, bob gair mewn ychydig o ddyddiau; a rhoddodd ei sylwadau ar ei holl hynodrwydd, mewn cyfeillach i rai o'i chydnabyddiaeth yn dra medrus. Wedi dywedyd cymaint a hyn am y ddau, nid yw yn anhawdd bellach ddychymygu beth oedd yn gwneyd ymweliad a'u ty mor ddymunol gan bawb fu yn llettya yno. Yr oedd y plant, y rhai oeddynt yn lluosog, o'r un elfenau naturiol a ran meddwl a theimlad a'u rhieni, ac yn gwisgo eu cymeriad. Yr oeddynt oll, yn feibion a merched, yn llenorion, ac yn grefyddol, fel yr oedd eu haneddd ar unwaith yn eglwys, yn ysgol, ac yn nodded.

"Am ddechreuad bywyd crefyddol Mr. Roberts, ni all fod dim cywirach na'r hanes a rydd ei fab Robert i ni, yr hwn a geir mewn talfyriad yn y llinellau canlynol:—'Mab ydoedd i William a Mary Roberts. Ganwyd

Digitized by Google

ef mewn lle o'r enw Pandy, Carna, yn mhlwyf Llanfairneubwll, Mon, yn y flwyddyn 1772. Symudodd ei rieni oddiyno i Bandy, Treban, yn 1776, lle y gorphenasant eu tymor, ac yntau hefyd ar eu hol. Yr oedd o ran ei berson yn ddyn hardd, yn meddu ar ysbryd hynaws, meddwl cryf, gwybodaeth eang, ac yn ysgolhaig gwych; ond ymddengys ei fod, pan yn ddyn ieuangc, yn lled ddigrefydd, fel ag yr oedd llawer o'i gyfoedion y pryd hwnw, pan yr ymgynnullent at eu gilydd, hyd yn nod ar ddydd yr Arglwydd, i ryw fath o chwareuon ofer. Dychwelwyd ef at grefydd yn y modd canlynol:—Yr oedd ef, a'i frawd William, yn gyfeillion mawr i'r diweddar Mr. R. Lloyd, Beaumaris, yr hwn oedd yn byw yn yr un gymydogaeth a hwy. Ar ryw brydnawn Sabboth, cyfarfyddodd y tri a'u gilydd wrth ryw graig fawr, ar dir Mr. John Williams, Treban, i'r dyben a nodwyd, sef rhyw fath o wag ddifyrwch; ond trodd y tywydd yn hynod o wlawog y prydnawn hwnw, fel y methasant a myned yn mlaen a'u hamcan, a gorfu arnynt fyned i gysgod y graig i ochel y gwlaw, a rhywfodd, megis yn ddamweiniol, aethant i ymddiddan yn nghylch crefydd, a dwyshaodd yr ymddiddan yn fawr iawn, gan adgofio ambell i air a wrandawsent mewn pregethau. Wrth gydymddiddan, soniwyd am ddau ŵr ieuangc oedd yn proffesu crefydd yn yr ardal, a gofynent pa un a'i ffolach ai doethach oedd y bechgyn hyny na hwy,—fod y rhai hyny yn dilyn yr hen bobl, ac yn gweddio, a hwythau yn dilyn oferedd a gwag-ddifyrwch. Penderfynent yn y fan, mai y rhai hyny oedd yn eu lle, a hwythau o'u lle. "Yna." meddent wrth eu gilydd, "gwell fyddai i ninau fyned i wrando pregethau, a pheidio dilyn oferedd mwy," ac felly fu. Cawsant allan fod pregeth i fod mewn ty a elwid Cemaesbach yn yr hwyr, lle cyfagos i Gwalchmai. Aethant yno, a safasant yn nghanol yr ychydig oedd yn bresenol. William Evans, o'r Aberffraw, oedd y prif lefarwr, a Richard Owen, Glantraeth, yn dywedyd ychydig o'i flaen. Clywsant yno hefyd gyhoeddi un R. Jones, Pencaerau, i fod y Sabboth canlynol yn pregethu yn Llangristiolus, Aberffraw, a'r Cemaesbach, ac aethant i wrando arno i bob un o'r tri lle, a buont heb damaid o luniaeth o chwech o'r gloch y boreu hyd ddeg o'r gloch y nos. Yna dechreuodd yr holl gymydogaeth ddal sylw arnynt. Ond nid oedd sylw neb yn eu hatal i lynu gyda chrefydd, yr hyn a wnaethant byth mwy. Bu ef a'i frawd yn nechreu eu gyrfa grefyddol yn ymdrechgar iawn i sefydlu ysgol Sabbothol yn y gymydogaeth, yr hyn oedd yn lled ddyeithr yn Mon y pryd hwnw. Bu ei frawd farw yn sydyn yn Amlwch, Mai 16eg, 1805.

"'Neillduwyd Mr. Roberts yn weinidog yn Salem a Bodedeyrn, Mehefin 29ain, 1810. Gweinyddai Meistri George Lewis, Llanuwchllyn; J. Griffith, Caernarfon; Jonathan Powell, Rhosymeirch; John Evans, Amlwch; A. Jones, Bangor; W. Williams, Wern, a J. Evans, Bala, ar y pryd. Bu yn y weinidogaeth am wyth-mlynedd-ar-hugain, ac wedi dechreu pregethu naw mlynedd cyn hyny. Bu yn cyfaneddu y saith mlynedd cyntaf ar ol priodi yn Neuadd, Llanfaelog. Llafuriodd y pedair-blynedd-ar-ddeg cyntaf o'i weinidogaeth yn hen gapel Ceirchiog. Yn 1824, symudwyd yr achos i Salem Bryngwran, yr hwn a adeiladwyd trwy ei lafur ef. Dechreuodd afiechyd pwysig Mr. Roberts trwy darawiad o'r parlys. Bu farw Ebrill 12fed, 1838, yn 66 mlwydd oed. Bu Mrs. Roberts farw yn mhen un-mis-arbymtheg ar ol ei phriod.' Ychwanega Mr. Robert Roberts fel y canlyn:—'Dywed Mr. R. Parry, Llandudno, am dano, mewn llythyr at fy mrawd hynaf, Edeyrn Mon, ar yr achlysur o'i farwolaeth:—"Y dysgybl yr oedd

Digitized by Google

yr Iesu yn ei garu," ydoedd yr ymadrodd a darawai fy meddwl yn rymus pan y clywais am symudiad eich anwyl dad o fyd y profedigaethau i'r wlad sydd a'i phleser i barhau; ac nid wyf yn ofni cael fy ngwrthbrofi am y priodoldeb o gymhwyso yr ymadrodd ato, pan yr ystyriwyf yr amrywiol ragoriaethau yn y rhai yr ymdebygolai i'r dysgybl anwyl. Wrth grybwyll hyn, nid wyf yn meddwl cyflwyno dim newydd i chwi ar yr hwn y mae duwiolfrydedd ei gymeriad wedi gwneyd y fath argraffiadau, etto hyderaf na bydd yn anerbyniol genych i mi gymeryd fy rhyddid i dywallt y teimladau a orlanwant fy meddwl, mewn cofion am deilyngdod yr ymadawedig, y rhai nas gall llymder colyn angau eu dihanfodi, nac oerder y bedd eu bwrw ymaith i anghof. Y mae y gyfeillach a fu rhyngom lawer gwaith yn syniadau byw ar fy meddwl; ac y mae ei nodiadau synwyrlawn yn aros fel darluniadau trydanol o'm blaen, fel "y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto." Ond am yr holl adeiladaeth a ddisgwyliem oddiwrtho ef yr ydym wedi eu cael, ac yn iach mwy am ddyfyniadau o Goodwin, a Charnock, ac Owen, y tri chedyrn Protestanaidd, fel yr arferai ef eu galw. Ffarwel mwy am ambell hanesyn am daith "Bechgyn y ffuneni cochion," fel y dywedai rhywun am dano ef ac Owen Thomas, Carrog, "yn y rhai nad oes unrhyw berygl i wrandawyr gael eu siomi am y gwirionedd, megis y mae yn yr Iesu." Er na chyrhaeddodd efe mo binacl uwchaf poblogrwydd areithyddol, etto gwrandewid ef bob amser gyda symledd neillduol. Byddai pwysfawredd ei destyn y fath, a'i ddifrifoldeb a'i ddeheurwydd yn ei drafod yn gyfryw, fel yr ennillai astudrwydd gwrandawiad pob cynnulleidfa, ac yn enwedig y rhai mwyaf goleuedig. Yr oedd ei weinidogaeth yn llawn o hyfforddiad bob amser, ac yn fynych yn cael eu dilyn gan yr eneiniad hwnw sydd yn rhagori ar bob arabedd dynol. Os oedd yn rhagori mewn rhyw gangen neillduol o'r athrawiaeth, tebygwyf mai llwybr cyfiawnhad pechadur ger bron Duw ydoedd hono. Addawodd bregethu ar y pwngc hwnw mewn cyfarfod penodol, ond y mae yr addewid hono heb ei chyflawni etto, ac y mae hi erbyn hyn wedi myned yn rhy ddiweddar i ddisgwyl am y cwblhad. Yr oedd rhywbeth yn ei ddull, hyd yn nod yn darllen ei destyn, yn ddigon i argyhoeddi meddwl pob gwrandawr o'i ddifrifoldeb diffuant. Dangosai feddwl uwchlaw ymgeisydd am hunanglod, a phob ymadrodd a ddyferai o'i enau, a ddeuai er eglurhad, argyhoeddiad neu adeiladaeth. Cof yw genyf glywed y diweddar Mr. R. Lloyd, Beaumaris, yn dyweyd mai efe ydoedd yr ysgrythyrwr goreu a welodd erioed; ac yn wir, cefais inau brawf o hyny lawer gwaith; pan nad allwn ganfod adnod drwy gymorth y Mynegair, byddwn yn sicr o gael y cyfeiriad priodol ganddo ef. Rhaid ei fod felly wedi darllen y Bibl yn fanwl iawn. Yr oedd yn neillduol o ddifyrus yn ei gyfeillach, ni byddai prinder defnyddiau cyfeillach lle y byddai efe, naill ai mewn hanesyddiaeth, athrawiaeth, profiad, neu ynteu rhywbeth a dueddai er adeiladaeth fuddiol, fel y parai ras i'r gwrandawyr. Ond yn ystod ei waeledd diweddar, yr oedd ei dymherau wedi gwanhau llawer, fel nad allai ddal i ymddiddan nemawr am bethau mwyaf pwysig crefydd heb dori i wylo. Rywbyrd yn y gauaf diweddaf, pan oedd mewn hamdden neillduol o fanteisiol i gymdeithasu, tynais ymddiddan ag ef mewn ffordd o dybiaeth o'r hyn a allai fod yn ffurfio dedwyddwch y duwiol mewn gogoniant, tra yn adgoffa taith yr anialwch yn y byd hwn; er ei fod yn llawn awydd i ymddiddan, etto ni allai siarad tri gair ar y pryd heb wylo, yr oedd hyn yn dangos fod ei ysbryd yn ymaeddfedu ar gyfer y datodiad.

"'Yr oedd ei ddull rheolaidd o fyw yn deilwng iawn o efelychiad. Codai yn foreu, a darllenai lawer. Cof genyf am y tro cyntaf i mi fod yn y Treban, ar nos Sadwrn; penderfynais godi yn foreu ar y Sabboth, fel y byddwn i lawr o'i flaen. Codais cyn chwech o'r gloch, foreu hyfryd yn yr haf, ond y cyntaf a welwn oedd efe yn llewis ei grys yn darllen Esboniad Fawcett. Yr oedd ei olygiadau ar yr athrawiaeth yn ysgrythyrol, yn iachus, ac heb lynu nemawr wrth unrhyw drefniant dynol. Am ei gariad at yr achos crefyddol, yr oedd iddo air da gan y rhai oedd oddi allan, a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd yn hynod o haelfrydig at eraill, Eglwyswyr a phob dosbarth o Ymneillduwyr yr un modd.' Y mae Mr. Robert Roberts yn terfynu ei nodiadau gydag ychydig o ddyfyniadau o sylwadau tarawiadol ac effeithiol gan gymydog a chydlafurwr ei dad, sef Mr. W. Griffith, Caergybi:—"Tystia nad oedd chwe'-mlynedd-ar-hugain o'i golli wedi dileu ei hiraeth am dano, yn enwedig wrth ymweled a'r Treban, canys yno bob tro y canfyddai bortread byw o hono. Yn ei fab hynaf, sef Mr. William Roberts, bellach, y gwelai olynydd teilwng iddo fel penteulu, a llawer o'i ddullwedd corphorol, yn gystal a'i ddelw foesol, a'i weithredoedd yn gyffredinol." Dywed wrth derfynu, "mai taith i Dreban fyddai yr atodiad goreu i'w fywgraphiad gan ei anwyl fab a'i gyfenwydd."

"Yr oedd gofal mawr ar feddwl Mr. Roberts am lwyddiant yr achos yn Salem wedi ei ymadawiad. Pan yr oedd yn uwchder ei barch a'i ddefnyddoldeb, teimlai weithiau raddau o lesgedd yn dyfod dros ei natur, a gofynai am gymorth un oedd heb fod yn nepell ar y Sabbothau. Ar un Sabboth neillduol gwrandawai ef y boreu yn Salem, aeth gydag ef at ddau o'r gloch i Faelog, a gwrandawai ef yr hwyr drachefn yn Salem. Ni phregethodd ei hun y Sabboth hwnw. Yn fuan wedi hyn, dywedodd wrth rai o'r cyfeillion yno, y buasai yn dda ganddo iddynt ofyn ei gydweithrediad yn fynychach, ac yr ewyllysiai o'i ran ei hun, os byddent hwy yn gweled hyny yn briodol, i'w alw i gydlafurio ag ef. Cymerwyd yr amnaid gan yr holl eglwys, a chafodd ei foddhau yn fawr yn hyny. Dywedodd ei fod yn teimlo yn ddedwydd iawn yn wyneb yr hyn a wnaed. Gwanhaodd ei iechyd yn fuan, ac ni phregethodd ond ychydig mwy. Awgrymwyd mewn gair yn barod fod Mr. Roberts mewn sefyllfa gysurus yn y byd. Dyma engraifft o'i deimlad crefyddol. Mewn cyfarfod gweinidogion, gofynid ei help tuag at godi capel mewn lle penodol; dywedodd yntau ei fod yn meddwl y gallai wneyd yr hyn a ofynent, ac ychwanegai:—'Yr wyf yn meddwl i mi gael cerydd rhagluniaethol ar amgylchiad tebyg i hwn unwaith. Yr oedd capel yn y fan ar fan yn cael ei godi, ac yr oedd ar y cyfeillion eisiau cymhorth arianol yno. 'Yr oedd cyfeillion i mi,' meddai, 'ar yr un pryd, yn adeiladu llong newydd, ac yn arfer taerineb mawr arnaf am fenthyg, a hwy rywfodd a lwyddasant, ac ni allwn estyn cynorthwy i'r ddau achos. Pa fodd bynag, codwyd y capel, heb un diolch i mi, ac aeth y llong yn ddrylliau ar y fordaith gyntaf.' Ni fynegodd pa un a gafodd golled ai peidio yn achos y llong, etto dyna oedd y casgliad. Yr oedd ganddo ddylanwad mawr gyda boneddion a thirfeddianwyr y wlad, a bu hyny yn gryn wasanaeth tuag at gael tir i adeiladu capeli mewn llawer man yn Mon. Trwyddo ef y cafwyd y tir lle y saif capeli Amlwch, Bodedeyrn, Bryngwran, a lleoedd eraill, ac y mae yn debygol fod Caergybi yn y rhestr.

"Y mae y teulu erbyn hyn wedi myned ar wasgar, a rhai wedi huno yn yr Iesu, a gorphwys yn y bedd. Y mae yn anhawdd iawn myned heibio

Digitized by Google

drwy y llwybr hwn heb gyfeirio gair yn mhellach at y llenor gwych, y meddyliwr trwyadl, a'r cristion prydferth, Edeyrn Mon, ac y mae yn anhawdd atal deigr wrth edrych ar golli y craff, y tawel, a'r llafurus, Robert, ei frawd, a chanfod yn y ddamwain annisgwyliadwy a'i symudodd ymaith, yr olwg arno yn cael ei gipio gan angylion y nef, o ganol y perygl, i'r cerbyd awyrol, a'i gyflymu gan y meirch tanllyd, heb i'w carnau wreichioni mellt na'u gweryriad greu taranau, ar hyd y brif-ffordd i dŷ Tad yr Iesu, a'r etifeddiaeth a baratowyd i'r ffyddloniaid er cyn seiliad y byd! Y mae coffadwriaeth y tad a'r meibion fel perarogl drwy yr holl wlad hyd y dydd hwn!"

WILLIAM MORRIS. Ganwyd ef yn nghymydogaeth Castell-carreg-cenen, yn mhlwyf Llandeilo, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1796. Yn mhen ychydig wythnosau wedi ei enedigaeth symudodd ei rieni i Dreforis, Morganwg, lle y buont am rai blynyddau. Oddiyno symudasant i Lanelli, sir Gaerfyrddin. William oedd yr hynaf o deulu lluosog o blant. Gôf oedd ei dad, a chafodd yntau a'i bedwar brawd, Joseph, Thomas, John, a David, eu dwyn i fyny yn y gelfyddyd hono. Pan yn llangc ieuangc derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Nghapel Als, gan Mr. Howell Williams, a chyn ei fod yn ugain mlwydd oed cafodd ei anog gan ei weinidog a'r eglwys i arfer ei ddawn fel pregethwr. Daeth ar unwaith yn nodedig o boblogaidd. Yn fuan ar ol iddo ddechreu pregethu derbyniwyd ef i athrofa Llanfyllin. Ar orpheniad ei amser yno, cafodd alwad gan yr eglwys yn Llanfyllin i fod yn ganlyniedydd i'w athraw, Dr. G. Lewis, yr hwn yn niwedd y flwyddyn 1821, a symudasai gyda'r athrofa o Llanfyllin i Drefnewydd. Urddwyd Mr. Morris, Ionawr 2il, 1822. Bu yn llafurio yn y cylch hwn gyda chymeradwyaeth mawr am ddwy-flynedd-ar-bymtheg. Yn 1839, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Nglandwr, ger Abertawy, a symudodd yno. Yn mhen ychydig amser wedi iddo ymsefydlu yn Nglandwr, cymerodd ofal yr eglwys yn Bethel, Llansamlet, mewn cysylltiad a Glandwr. Gan fod Bethel yn lled bell oddiwrth ei annedd, a bod yr eglwys yn Libanus, Treforis, yn fwy cyfleus iddo, ac yn dymuno cael ei wasanaeth, rhoddodd ofal Bethel i fyny ac ymgymerodd a gofal Libanus, etto mewn cysylltiad a Glandwr. Yn y flwyddyn 1848, cafodd ar ei feddwl i roddi gofal ei eglwysi lluosog yn Nglandwr a Threforis i fyny a symud i Birkenhead, i gymeryd gofal yr eglwys Gymreig oedd newydd gael ei ffurfio yno. Tro anffodus iawn i'w deimladau a'i amgylchiadau oedd y symudiad hwn. Gyda ei fod yn dechreu ei waith yno, safodd amryw o'r gweithiau yn Birkenhead, a gwasgarwyd y Cymry o'r lle, nes i'r gynnulleidfa fyned yn agos i'r dim. Wedi bod yno mewn digalondid mawr am ychydig gyda dwy flynedd, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Mryngwran, ac yno y treuliodd y pedair-blynedd-arddeg olaf o'i fywyd gweinidogaethol. Yr oedd Mr. Morris wedi mwynhau iechyd lled dda ar hyd ei oes, er cymaint a deithiodd ac a bregethodd, ond yn y flwyddyn 1858, cafodd wely llaith, yr hyn a anafodd ei iechyd, ac yn y diwedd a fu yn angau iddo. Gwanychodd yn raddol nes iddo yn y flwyddyn 1864, orfod rhoddi y weinidogaeth i fyny. Wedi rhoddi ei ofal gweinidogaethol i fyny, penderfynodd symud i Lanfyllin, maes cyntaf ei lafur, a lle genedigaeth Mrs. Morris, i dreulio gweddill ei oes. Ond amser byr a gafodd yno. Ni bu nemawr o'i dŷ a'i wely o'r pryd yr aeth yno nes ei symud i wlad well. Cyfnewidiodd er gwaeth ar y Sabboth, Hydref 29ain, 1865, a phrydnawn dranoeth, anadlodd ei anadl olaf. Ei eiriau

Digitized by Google

diweddaf oeddynt, "Ffarwel, ffarwel." Claddwyd ef yn mynwent capel Annibynol Llanfyllin, lle y gorwedda gweddillion marwol amryw weinidogion enwog, a lluaws o grefyddwyr teilwng.

Cafodd Mr. a Mrs. Morris deulu lluosog. Y mae dau o'u meibion yn y weinidogaeth, sef Mr. Joseph Morris, gweinidog yr eglwys yn Brunswick Chapel, Caerodor, a Mr. W. E. Morris, yr hwn sydd yn genhadwr llwyddianus yn Salem, India. Yr oedd eu mab Griffith hefyd wedi dechreu pregethu, ac yn argoeli dyfod yn ddyn defnyddiol iawn, ond gwelodd yr Arglwydd yn dda ei alw ato ei hun ar gychwyniad ei fywyd cyhoeddus.

Yr oedd William Morris o ran corph tua phum' troedfedd a naw modfedd o daldra, yn felyn ei wallt, ac yn nodedig o luniaidd a hardd ei ymddangosiad. Yr oedd ei lais yn rhyfeddol o dreiddiol a pherseiniol. Nid oedd nemawr gwell ac effeithiolach canwr nag ef yn Nghymru. Fel dyn yr oedd yn nodedig am ei sirioldeb a'i gyfeillgarwch. Buasai yn anhawdd i neb dreulio awr yn ei gyfeillach heb ei anwylo. Yr oedd hynawsedd a charedigrwydd yn nodwedd amlwg ynddo ef, a phob un o'i frodyr. Yr oedd yn ddyn hynod am dynerwch ei deimladau. Gwelsom ef lawer gwaith wrth weddio a phregethu yn tori allan i wylo nes methu myned yn mlaen. Yr oedd yn nodedig o doddedig ac effeithiol fel gweddiwr cyhoeddus, ac yn neillduol felly yn mlynyddau olaf ei fywyd. Fel pregethwr yr oedd yn tra rhagori ar y rhan fwyaf o'i gydoeswyr. Yn nhymor ei weinidogaeth yn Llanfyllin, nid oedd un gweinidog Annibynol yn y Gogledd mor boblogaidd ag ef oddieithr Williams o'r Wern, a buasai ei gyhoeddiad ef agos yn mhob lle yn sicrhau torf mor luosog o wrandawyr ag a dynesid yn nghyd i wrandaw y pregethwr tywysogaidd o'r Wern. Yr oedd ei bregethau yn wastad wedi eu myfyrio yn dda, ac yn cael eu traethu ganddo mewn iaith syml, ddirodres, ac eglur. Yr oedd ei barabliad yn glir a pherseiniol, a'i frawddegau yn ddestlus. Lled araf y siaradai am yr haner awr cyntaf o'i bregeth, yna dyrchafai ei lais fel udgorn, a phan y buasai yn ei lawn hwyl yr oedd ei floeddiadau perseiniol mor effeithiol fel nas gallasai y gwrandawr caletaf a mwyaf disylw lai na theimlo. Yr oedd ei ddoniau wedi marweiddio i raddau mawr yn yr ugain mlynedd olaf o'i fywyd mewn cyferbyniad i'r hyn oeddynt yn moreu ei oes, ond parhaodd cyhyd ag y gallodd ddringo i'r pulpud i fod yn bregethwr gwir ddefnyddiol a derbyniol.

Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, a phregethai yn yr iaith Saesonig gyda chywirdeb a rhwyddineb. Ni ddigwyddodd i ni erioed daro wrth un rhagorach nag ef fel ysgrifenydd llythyrau. Yr oedd ei lawysgrifen a'i gyfansoddiad yn bob peth ag y gallesid ddymuno iddynt fod. Dyn cryno a thlws ydoedd yn ei gorph, ei wisgiad, ei gyfansoddiadau, ei lawysgrifen, ei draddodiad, a phob peth arall. Bydded heddwch i'w lwch a bendith Duw eu tad ar ei blant, ei wyrion, a'i hiliogaeth o genhedlaeth i genhedlaeth.

## MAELOG.

Mae y lle hwn yn mhlwyf Llanfaelog. Dechreuwyd pregethu yn mhentref Rhosyneigyr, gan Mr. George Rhydero, yr hwn oedd yn y lle ar y pryd yn cadw ysgol. Tyrai lluaws mawr i wrando yn Rhosyneigyr, a bernir mai yno y dylesid codi y capel, am ei fod yn fwy cyfleus na'r lle y mae i gorph y boblogaeth. Adeiladwyd y capel yn 1837, a galwyd ef Rehoboth. Costiodd y capel a'r ty perthynol iddo 140p., a bu Mr. G.

Digitized by Google

Rhydero yn dra ymdrechgar i gasglu ato. Nid oedd ond naw o aelodau yn y lle pan aed i'r capel. Wedi ymadawiad Mr. Rhydero o'r ardal bu y lle hwn mewn cysylltiad a Bryngwran hyd y flwyddyn 1856, pryd y rhoddwyd galwyd i Mr. Richard William Roberts, gwr ieuangc o'r gymydogaeth, ond a fuasai am dymor yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn mis Tachwedd, y flwyddyn hono. Bu yma yn ddiwyd am bedair blynedd hyd nes y rhoddodd angau derfyn ar ei fywyd defnyddiol. Bu y lle yma mewn cysylltiad gweinidogaethol a Llanfairneubwll dros dymor, ond yn ddiweddar y mae wedi ail uno a'r eglwys yn Bryngwran, fel yr arferai fod gynt. Ni bu yr eglwys yma erioed yn lluosog, ac nis gellir disgwyl iddi fod gan nad yw poblogaeth yr ardal ond teneu.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Richard William Roberts. Ganwyd ef mewn fferm a elwir Cerrigengan, yn sir Fon, yn y flwyddyn 1829. Magwyd ef mewn teulu crefyddol, a phan yn ieuangc derbyniwyd ef yn aelod yn Capel mawr, lle yr oedd ei rieni yn aelodau. Ymunodd ar ol hyn a'r eglwys yn Gwalchmai, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu am ysbaid yn athrofa y Bala, ac wedi dychwelyd adref, derbyniodd alwad gan yr eglwys fechan yn Maelog, ac urddwyd ef yno yn mis Tachwedd, 1856. Ymroddodd yn ffyddlawn i gyflawni ei weinidogaeth. Cymerodd ofal yr eglwys fechan yn Siloam, Llanfairneubwll, mewn cysylltiad a Maelog, a byddai yn myned yn fisol i weinyddu yr ordinhadau yn Brynsiencyn, ac ymwelai yn aml ag eglwysi eraill y sir, ac yr oedd yn dra derbyniol yn mhob man. Yn mis Tachwedd, 1860, aeth ar daith trwy ran o sir Gaernarfon, a chafodd anwyd, yr hyn a drodd yn glefyd, a thrwy anhawsder mawr y cyrhaeddodd dŷ ei fam, a gwaethygodd hyd ddydd ei farwolaeth, Sabboth, Rhagfyr 2il, 1860, pryd y bu farw yn 32 oed. Claddwyd ef yn mynwent Capel mawr, a daeth torf luosog i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref, a chyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan Meistri J. Roberts, Llanerchymedd; W. Griffith, Caergybi, a D. James, Capel mawr.

## GWALCHMAI.

Yr oedd yma bedwar o frodyr, a thair o chwiorydd crefyddol yn aelodau yn Salem, Bryngwran, a daeth i'w bryd i gychwyn achos yn y lle. Arferent fyned fynychaf ddwywaith bob Sabboth i Fryngwran, fel yr oedd ganddynt o leiaf ddeng milldir i gerdded bob Sabboth. Dyma eu henwau, Evan Griffith, Siop; Edward Williams, Hugh Thomas, Robert Owen, Elizabeth Owen, Mary Lewis, ac Eleanor Williams. Yn y flwyddyn 1844, cymerodd Mr. Evan Griffith dŷ anedd i gynal moddion crefyddol yno, a buwyd yn addoli yno am ysbaid dwy flynedd. Corpholwyd yma eglwys yn cynwys y personau a enwyd, gydag eraill a ymunodd a hwy. Pregethid iddynt gan weinidogion a phregethwyr y sir, ac yr oedd Mr. Thomas Davies, yr hwn oedd ar y pryd yn Glanyrafon, yn pregethu yn amlach yma na neb arall. Prynwyd darn o dir at adeiladu gan un Hugh Jones, a thalwyd am dano gan Mr. Evan Griffith, ond cafwyd ar ol hyny drafferth fawr i'w sicrhau gan mai ar y tir cyffredin yr ydoedd, ac am yr amheuid hawl gyfreithiol H. Jones arno, bu raid talu arian mawr drachefn er ei sicrhau. Cy-

Digitized by Google

meredd Mr. E. Griffith holl ofal yr adeiladu mewn arolygu a thalu am bob peth fel y byddai galwad, ond ad-dalodd yr eglwys iddo y cwbl. Costiodd y capel 120p. Agorwyd ef Sul a Llun y Pasg 1846. Galwyd ef Moriah. Yn y flwyddyn 1848, rhoddwyd galwad i Mr. Richard Hughes, aelod o'r eglwys, ac urddwyd ef yn weinidog yma, ac y mae yn parhau i lafurio yma hyd yr awr hon.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yma:—

Richard Hughes. Y gweinidog presenol.

Richard William Roberts. Urddwyd ef yn Maelog, a cheir ei hanes yn nglyn a'r eglwys yno.

Hugh Thomas Parry. Bu yn athrofa y Bala, ac urddwyd ef yn Abersoch a Bwlchtocyn, lle y mae etto.

## GLANYRAFON.

Dechreuwyd yr achos yma tua'r flwyddyn 1840, trwy ymdrech un o'r enw Michael Thomas, a ddaeth i'r ardal, a chodwyd y capel yn fuan ar ol hyny. Costiodd 70p., a galwyd ef Nazareth. Gwan iawn yw yr achos yma o'r dechreuad. Bu Mr. Thomas Davies yn byw yma am dymor, a bu yn dra ymdrechgar gyda'r achos. Coffeir yn barchus am garedigrwydd Mr. Griffith, offeiriad y plwyf, tra yr ydoedd yn yr ardal. Yr oedd ei dŷ yn agored i lettya y pregethwyr a ddeuai heibio, a byddai ef ei hun yn aml yn gwrando yn y lle. Bu yn gwasanaethu plwyfau Llandrygarn a Bodwrog am 35 mlynedd, a pherchid ef gan bawb fel boneddwr hynaws a christion efengylaidd. Bu fwy nag unwaith dan gerydd oddiwrth awdurdodau ei Eglwys oblegid ei fod yn rhy ryddfrydig a chymdeithasgar a'r Ymneillduwyr. Mae achos bychan Glanyrafon, mewn cysylltiad a'r achos yn Ngwalchmai, dan ofal Mr. R. Hughes.

## GROESLON.

Dechreuwyd pregethu yma yn nhymor gweinidogaeth Mr. B. Jones, yn Rhosymeirch, a bu yr achos yma yn dra blodeuog am flynyddau. Bu Mr. Hugh Lloyd, wedi hyny o Towyn, yma yn cadw ysgol, ac yr oedd efe yma pan godwyd y capel yn y flwyddyn 1815. Nis gwyddom pa fodd y buwyd cyhyd ar ol dechreu yr achos yma cyn adeiladu capel. Hydref 15fed, 1815, y cofrestrwyd y capel at addoli â hyny gan Mr. Jonathan Powell. Agorwyd y capel Tachwedd 8fed a'r 9fed, a galwyd ef Teman. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri W. Hughes, Brynbeddau; D. Griffith, Bethel; D. Roberts, Bangor; J. Jones, Talgarth; J. Evans, Beaumaris, a J. Griffith, Caernarfon. Yn y flwyddyn 1818, rhoddwyd galwad i Mr. Evan Roberts, myfyriwr o athrofa Llanfyllin, ac urddwyd ef Medi 23ain, y flwyddyn hono. Ar yr achlysur pregethodd Mr. D. Roberts, Pentir, ar natur eglwys; holwyd y gofyniadau gan Mr. J. Lewis, Bala; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. Arthur Jones; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. J. Evans, Beaumaris, ac i'r eglwys gan Mr. J. Powell, Rhosymeirch.* Llai

* Cofnodion Mr. Jonathan Powell.



Digitized by Google

na dwy flynedd yr arhosodd Mr. E. Roberts yma, canys ymfudodd i'r America. Daeth Mr. Titus Jones yma o athrofa Neuaddlwyd, a bu dros rai blynyddau yn pregethu ac yn cadw ysgol yn y wlad yma, ond nid oedd yr eglwysi yn addfed i'w urddo, ac oblegid hyny efe a ymadawodd at y Methodistiaid, ac a ddychwelodd i'r De, lle y treuliodd weddill ei oes. Yn y flwyddyn 1825, rhoddwyd galwad i Mr. William Roberts, myfyriwr o athrofa Neuaddlwyd, i fod yn weinidog yma, ac yn Hermon, a Cana, ac urddwyd ef yn Hermon, Hydref 12fed, y flwyddyn hono. Bu yma am bum' mlynedd, nes y rhoddodd angau derfyn ar ei fywyd Mai 29ain, 1830. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, rhoddwyd galwad i Mr. Ishmael Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn Llansanan, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yma yn y flwyddyn 1832. Bu Mr. Jones yma am ddeng mlynedd; ac am flynyddoedd ar ol ei ymadawiad bu yr eglwys heb weinidog, ac yn y cyfamser dirywiodd yr achos yn fawr. Nid oedd yma ond ychydig aelodau, ac yr oedd can' punt o ddyled ar y capel, yr hyn a deimlid yn faich trwm. Ymgymerodd Mr. Hugh Roberts a thalu y ddyled, a thrwy ei ddiwydrwydd yn casglu yn mhob man y cai ddrws agored, llwyddodd i'w dileu. Rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Hugh Roberts i fod yn weinidog iddi, ac urddwyd ef Ionawr 15fed, 1861, ac y mae yn parhau i lafurio yma, er nad yw yr achos ond egwan. Bu Hugh Williams a Jane Williams yn noddwyr caredig i'r achos, a chyrchai J. Davies, meddyg, Niwbwrch, yma yn ffyddlon am flynyddau er pelled ei ffordd.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Evan Roberts. Mab ydoedd i Hugh Roberts, Llwyniolyn, plwyf Llanfawr, gerllaw y Bala. Derbyniwyd ef yn aelod yn Rhydywernen, ac yno y dechreuodd bregethu. Aeth i'r athrofa yn Wrecsam, ac yr oedd yn fyfyriwr ynddi pan y symudodd i Lanfyllin. Urddwyd ef yn y Groeslon, Mon, yn mis Medi, 1818, a chyn diwedd y flwyddyn ganlynol ymfudodd i America. Bu am yn agos i flwyddyn yn gwasanaethu yr eglwys Gymreig yn New York, a chyn diwedd y flwyddyn 1820, ymsefydlodd yn weinidog yn Stuben. Llafuriai haner ei amser yn Stuben, a'r haner arall gyda'r Saeson yn y Turnpike. Yn y flwyddyn 1833, aeth i Paddy's Run, Ohio, ac wedi bod yno flwyddyn, dychwelodd i Stuben, lle y llafuriodd weddill ei oes. Bu farw Medi 10fed, 1836, yn 46 mlwydd oed. Dyna y cwbl a wyddom o'i hanes, ac yr ydym yn ddyledus am yr ychydig gofnodion uchod i "Hanes eglwys Gynnulleidfaol Stuben," a gyhoeddwyd yn y *Cenhadwr Americanaidd*, am Gorphenaf, 1871, wedi ei gasglu gan Mr. Sem Phillips, gynt o Langynidr.

William Roberts. Un o gymydogaeth Llanrwst ydoedd. Derbyniwyd ef yn aelod yn Nhrefriw, ac yno y dechreuodd bregethu. Wedi bod am ysbaid yn athrofa Neuaddlwyd, derbyniodd alwad o'r Groeslon, a Hermon, a Llanddaniel, ac agorwyd capel Cana dranoeth wedi ei urddiad, a bu yn gweinidogaethu yn y tri lle hyd ei farwolaeth. Dyn byr, cryf o gorpholaeth ydoedd, a gweithiodd yn galed yn nyddiau ei ieuengctyd. Yr oedd o ddeall cryf, ac yn nodedig am gywirdeb ei egwyddor, a gwastadrwydd diargyhoedd ei holl fywyd. Yr oedd ganddo ddawn pregethu a'i gwnelai yn dra derbyniol gan gynnulleidfaoedd, ac er nad oedd llawer o addurn arno, teimlid wrth ei wrando ei fod wedi derbyn ysbryd y weinidogaeth.

Digitized by Google

Priododd wraig weddw mewn fferm, yr hon oedd gryn lawer yn hŷn nag ef, yr hyn a barodd i ddynion prysur ac ymyrgar ei feio yn drwm, a chymerodd yntau hyny yn lled ddwys at ei feddwl. Bu yn dyoddef yn hir oddiwrth y clefyd melyn, ond ymddangosai ar brydiau yn gwella, a phan y gwelai arwyddion o hyny, llonai ei galon yn fawr, a phregethai a'i holl egni. Ond ei afiechyd a orchfygodd, a bu farw Mai 29ain, 1830, a chladdwyd ef yn mynwent Rhosymeirch.

## HERMON.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Llangadwaladr. Dechreuwyd pregethu yma tua'r flwyddyn 1813. Adeiladwyd y capel yn 1814. Rhoddwyd tir i adeiladu arno gan William W. Pierce, Tyddynenwe, a bu ef a Rowland Jones, Felin, Bodorgan, a Rowland Roderic, Fachell, yn cymeryd gofal yr adeiladaeth. Yr oedd y gwyr hyn yn aelodau yn y Capel mawr, ac yr oeddynt hwy a'u gweinidog, Mr. J. Powell, yn cyduno i gychwyn yr achos. Deg oedd nifer yr aelodau pan gorpholwyd yr eglwys. Agorwyd y capel Mehefin 12fed a'r 13eg, 1815. Pregethodd Meistri H. Hughes, Dulas; W. Hughes, Brynbeddau; D. Beynon, Llanerchymedd; J. Evans, Beaumaris; R. Roberts, Ceirchiog; Thomas Davies a William Jones, Dinbych, (T. Davies, Abertawy, a W. Jones, Amlwch, wedi hyny). Enwyd y capel yn Hermon gan Mr. J. Powell.* Cynyddodd yr achos i raddau dymunol, a rhoddwyd galwad i Mr. Evan Roberts i fod yn weinidog yma ac yn y Groeslon. Ychydig gyda blwyddyn yr arosodd yma, canys ymfudodd i America yn y flwyddyn 1819. Buwyd bum' mlynedd ar ol hyny heb weinidog, hyd nes y rhoddwyd galwad i Mr. William Roberts, yr hwn a urddwyd yma Hydref 12fed, 1825. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Jones, Caernarfon; holwyd y gofyniadau gan Mr. R. Roberts, Salem; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. O. Thomas, Carrog; pregethwyd i'r gweinidog gan Mr. P. Griffiths, Llanrwst, ac i'r eglwys gan Mr. A. Jones, Bangor. Llafuriodd Mr. Roberts yma hyd ei farwolaeth yn Mai, 1830. Dilynwyd ef gan Mr. Ishmael Jones, yr hwn a lafuriodd yma am bedair-blynedd-ar-ddeg. Ailadeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1843, trwy draul o 140p. Ymadawodd Mr. Jones oddiyma i Lanrwst, ac ar ol hyny bu yr eglwys dros rai blynyddau heb weinidog. Bu Mr. P. G. Thomas yma yn pregethu ac yn cadw ysgol dros dymor. Ond yn 1853, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Ridge, Llangwyfan, a bu yma dair-blynedd-ar-ddeg, hyd nes y gwaelodd ei iechyd, fel y bu raid iddo roddi y weinidogaeth i fyny. Yn y flwyddyn 1869, ymunodd yr eglwys hon a'r eglwys yn Capel mawr i roddi galwad i Mr. David C. Rees, Talybont, a dechreuodd ei weinidogaeth yma ar y 15fed o Awst, y flwyddyn hono. Gan fod yr hen gapel wedi myned yn gyfyng ac adfeiliedig, penderfynwyd yn unfrydol cyn diwedd y flwyddyn hono i gael capel newydd, ac wedi myned trwy yr ardal cafwyd addewidion haelionus am gynorthwy. Tynwyd y cynllun gan Mr. R. G. Thomas, Menai Bridge, a rhoddwyd y gwaith allan i Mr. R. Roberts, Caernarfon. Pregethwyd gyntaf yn y capel newydd gan Mr. D. C. Rees, y gweinidog, Ionawr 29ain, 1871, a chynaliwyd cyfarfodydd yr agoriad ar yr 21ain a'r 22ain o'r Mawrth canlynol. Mae yn

* Cofnodion Mr. J. Powell.

Digitized by Google

gapel prydferth, ac yn werth, a chyfrif y cludiad, 800p., ond nid oes yn aros o ddyled arno ond 386p., ac y mae yr eglwys a'r gynnulleidfa yn penderfynu gwneyd ymdrech cyn diwedd y flwyddyn i gael rhan dda o'r swm hwnw ymaith.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS RIDGE. Ganwyd ef yn Brynrhyd yn agos i Lanfaircaereinion, yn sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1801. Daeth yn ddeiliad argraffiadau crefyddol dwys pan yn ieuangc, a derbyniwyd ef yn aelod yn Mhenarth, gan Mr. James Davies, Llanfaircaereinion. Wrth weled ei gynydd mewn gwybodaeth, a'i ddoniau nodedig mewn gweddi, cymhellwyd ef gan y gweinidog a'r eglwys i ddechreu pregethu. Wedi pregethu am dymor o gylch ei gartref, aeth at Mr. W. Davies, brawd Mr. J. Davies, Llanfair, i Nefyn, a bu yn pregethu ac yn cadw ysgol yno am ychydig. Dechreuodd ei weinidogaeth yn y flwyddyn 1835, yn mysg yr eglwysi bychain yn Rhiw a Llansanan, ac wedi llafurio yno dros rai blynyddoedd, symudodd i Langwyfan. Tra yn aros yno, teithiai yn rheolaidd dros y mynydd i sir Fflint, a bu ef y prif offeryn i sefydlu yr achos yn Jerusalem, gerllaw y Wyddgrug, a symudodd yno i fyw. Yn y flwyddyn 1853, symudodd i Hermon, Llangadwaladr, Mon, lle y treuliodd weddill ei oes. Gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i roddi y weinidogaeth i fyny yn y flwyddyn 1865, ond yr oedd yn flaenorol wedi ei dderbyn ar Drysorfa yr hen weinidogion. Bu yn ddiwyd iawn tra y daliodd ei nerth a'i iechyd. Teithiodd lawer, ac yn wastad ar ei draed, a phregethai mewn amser ac allan o amser. Yr oedd yn ddyn siriol a bywiog, a llawer iawn o ddifyrwch yn ei natur. Pregethai yn dda, ond mewn gweddi yr oedd yn rhagori. Nid yn aml y clywid neb mwy dylanwadol nag ef wrth ddechreu yr oedfa ar faes y gymanfa. Yr oedd ganddo ryw O! fawr, uchel, gylchiog, gwmpasog, oedd yn hollol briodol iddo ei hun, a phan y ceid hono ganddo ar ei weddi, neu ar ei bregeth, gellid bod yn sicr fod yr ergyd wedi myned allan. Bu fyw bywyd diargyhoedd, a phan y daeth y diwedd yr oedd yn barod iddo. Bu farw Ebrill 13eg, 1867, yn 66 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangadwaladr, yn mhresenoldeb lluaws mawr o alarwyr.

## CANA, LLANDDANIEL.

Cychwynodd yr achos Annibynol yn yr ardal hon o dan amgylchiadau neillduol. Rhyw ddiwrnod yn y flwyddyn 1822, yr oedd un o'r enw Evan Parry, dilledydd, wrth ei alwedigaeth, yn gweithio yn Careg-y-ddyfnallt. Aeth Ellen Hughes, gwraig y ty, ac yntau i siarad am grefydd. Nid oedd un o'r ddau ar y pryd yn grefyddol, ond wedi eu dwyn i fyny mewn teulu oedd crefyddol. Pan yr oeddynt yn ymddiddan, daeth Michael Hughes, gwr y ty i fewn, a phan ddeallodd beth oedd ganddynt mewn llaw, ymunodd â hwy yn yr ymddiddan. Cauwyd drws yr ystafell lle y gweithiai Evan Parry ynddi, a threuliodd y tri o gylch awr o amser mewn cyfrinach grefyddol. Wrth ymadael a'u gilydd y noson hono, gwnaed penderfyniad i gyfarfod a'u gilydd yn yr un lle yn mhen yr wythnos. Pen yr wythnos a ddaeth, ac erbyn hyny yr oedd saith o bersonau yn y cynnulliad hwnw. Michael ac Ellen Hughes, gwr a gwraig y ty; Evan Parry, Tanyfynwent,

Digitized by Google

ac Ann Parry ei wraig; Ann Roberts, Ty'nylon, (chwaer gwraig y ty); Jane Hughes, Hensiop, a William Williams, Llaindrogan. O hyny allan cytunasant i gyfarfod yn wythnosol. Yn fuan wedi i gyfarfod wythnosol gael ei sefydlu ganddynt, daeth un Owen Evans, o'r Graigbach, Pentreberw, ac un Owen Jones, o Brynsiencyn, i'w cynorthwyo. Buwyd yn pregethu ac yn cadw ysgol Sabbothol yn Nghareg-y-ddyfnallt am rai blynyddau cyn codi capel yma. Yr oedd yma eglwys wedi ei ffurfio ar y pryd yn cynwys chwech o aelodau. Y personau a ofalent am yr achos yma yn benaf yn ei gychwyniad oeddynt Meistri J. Evans, Beaumaris; R. Thomas, Cerigllwydion, Llandegai, ac S. Edwards, Tre'rdryw. Yn y flwyddyn 1825, adeiladwyd yma gapel. Costiodd yr adeilad o gylch 140p. Agorwyd ef Hydref 13eg, 1825, dranoeth i urddiad Mr. W. Roberts, yn Hermon. Yn mysg eraill pregethodd Mr. A. Jones, Bangor, yn yr agoriad oddiar Ioan ii. 1—11, a dywedodd mai *Cana* y gelwid y capel. Llafuriodd Mr. Roberts yma yn ddiwyd a ffyddlon hyd ddydd ei farwolaeth, ac ni bu ei lafur yn ofer yn yr Arglwydd. Dilynwyd ef yma gan Mr. Ishmael Jones, yr hwn a fu yma am tuag wyth mlynedd. Wedi ymadawiad Mr. Jones bu yr eglwys heb yr un gweinidog sefydlog am flynyddau, hyd nes yr urddwyd Mr. William G. Thomas yma, ac ni bu ei arosiad ef ond byr yn y lle. Rhoddwyd galwad i Mr. William Evans, mewn cysylltiad a'r Dwyran, yn y flwyddyn 1853. Yr oedd Mr. Evans yn y Dwyran cyn hyn. Yr oedd yr eglwys y pryd hwnw yn rhifo 50 o aelodau. Yn amser Mr. Evans, sef yn y flwyddyn 1856, helaethwyd y capel. Dilewyd y ddyled oedd yn aros arno trwy ymdrechiadau cartrefol, a chynaliwyd cyfarfod jubili Mehefin 24ain, 1861. Wedi ymadawiad Mr. Evans yn y flwyddyn 1857, bu yr eglwys am hir amser heb yr un gweinidog sefydlog, ond byddai Mr. R. Hughes, Gwalchmai, yn dyfod yma yn fisol i bregethu a gweinyddu yr ordinhadau. Trwy yr adfywiad a fu yn niwedd y flwyddyn 1859 a dechreu 1860, lluosogodd yr eglwys i fwy na chymaint arall ag oedd o'r blaen, ac y mae yn dal o gylch yr un nifer o hyny hyd yn awr. Ni phrofodd yr un lle yn yr ynys ddylanwad yr adfywiad hwnw yn fwy nerthol na'r lle hwn. Am amser maith byddai rhyw nifer bob Sabboth, o'r bron, yn aros o'r newydd yn y gyfeillach grefyddol. Yn y flwyddyn 1862, helaethwyd y capel drachefn. Yr oedd traul yr adeiladaeth o gylch 600p. Y mae yn adeilad hardd a chyfleus, a 400p. o'r ddyled wedi ei thalu. Y ddau dro y buwyd yn helaethu y capel, ymgyfarfyddai y gynnulleidfa i addoli yn ysgubor yr Hensiop, a llawer cyfarfod melus a gafwyd yno. Ar ol bod am flynyddoedd, fel y nodwyd o'r blaen, heb weinidog sefydlog, yn y flwyddyn 1870, rhoddodd yr eglwys yma, mewn cysylltiad a Llanfairyborth, alwad unfrydol i Mr. J. C. Evans, o Birmingham, ar y pryd, a myfyriwr cyn hyny o athrofa Aberhonddu, i fod yn weinidog arnynt. Efe yw eu gweinidog presenol, ac y mae golwg lewyrchus ar yr achos.

Codwyd yma un pregethwr, sef Mr. Thomas Martin, yr hwn sydd yn parhau yn bregethwr cynorthwyol yn yr eglwys.

## NIWBWRCH.

Cychwynwyd yr achos yma yn y flwyddyn 1860, yn benaf trwy lafur Mr. Hugh Roberts, Groeslon. Nid yw y capel ond bychan, ond trwy ymdrech y cyfeillion yn y lle, a chynorthwy yn y sir, y mae yn rhydd o ddyled,

Digitized by Google

ac er nad yw ond "dydd y pethau bychain" ar yr achos, etto y mae yn myned rhagddo, a theimla y cyfeillion yn dra hyderus fod dyddiau gwell i dd'od. Mae Mr. Eskew Davies wedi bod o help mawr i'r achos yma, ac o gylch dwy flynedd yn ol daeth Mr. Richard Owen, pregethwr cynorthwyol o Moelfro i'r lle, ac yr oedd ei ddyfodiad yma yn sirioldeb mawr i'r achos bychan ar ei gychwyniad.

## DWYRAN.

Dechreuwyd pregethu yma Awst 21ain, 1848, mewn ty a gymerwyd i'r perwyl gan Mr. Robert Parry, yr hwn wedi hyny a urddwyd yn Mhenmorfa. Yr oedd Mrs. Griffith, Maenhir, a'i theulu, y rhai a symudasant yma o Gaernarfon, yn help mawr i'r achos ar ei gychwyniad, a buont felly hyd nes yr ymadawsant a'r ardal. Ffurfiwyd yma eglwys, er nad oedd ond pump yn y cymundeb cyntaf. Cafwyd tir at adeiladu capel ar brydles o 99 mlynedd, gan Mr. John Owen, Tafarntywysog, Llangeinwen, am yr ardreth o bunt yn y flwyddyn. Costiodd y capel 180p. Agorwyd ef Tachwedd 26ain, 1849. Cyn diwedd y flwyddyn ganlynol ymsefydlodd Mr. W. Evans, Bodedeyrn, yma yn weinidog, a bu yma hyd y flwyddyn 1857, pryd y symudodd i Bagillt. Urddwyd Mr. Richard Williams yn weinidog yma, ond ni bu ei arosiad ond byr yn y lle. Bu Mr. William Hughes yn ffyddlon i'r achos gwan yma am dymor hir. Lled isel yw yr achos yma, ond er ei fod fel "llin yn mygu," y mae rhyw amddiffyn neillduol yn parhau drosto.

Codwyd yma un pregethwr o'r enw Richard Owen. Daeth oddiwrth y Methodistiaid, ac ni bu yn hir cyn dychwelyd atynt.

## BRYNSIENCYN.

Dechreuwyd pregethu yma yn niwedd y flwyddyn 1842. Daeth Mr. Evan Thomas yma i fyw, am yr hwn y crybwyllasom yn nglyn a hanes Machynlleth, a bu o help mawr yn nghychwyniad yr achos. Corpholwyd yma eglwys, yr hon nad oedd ond wyth mewn nifer; ac yn nechreu y flwyddyn 1843, cymerwyd yma dŷ ar ardreth gan Mr. R. Parry, Carn, a gwnaed ef mor gyfleus ag y gellid tuag at gynal gwasanaeth crefyddol. Bu y llwyddiant tu hwnt i ddisgwyliadau neb, a gwelid angenrheidrwydd am gael capel yn y lle, ond yr anhawsder oedd cael tir mewn man cyfleus. Yn niwedd y flwyddyn 1843, prynodd Mr. Parry dŷ a gardd oedd ar werth, ac yn y flwyddyn ganlynol, adeiladwyd capel cyfleus arno, yr hwn a gostiodd 105p., ac yr oedd yr eglwys erbyn hyn wedi cynyddu i chwech-ar-hugain. Galwyd y capel yn Libanus. Talwyd yr holl draul yn fuan, ac yn y flwyddyn 1850, bu raid gwneyd eisteddleoedd ychwanegol ynddo, ac erbyn y flwyddyn 1859, yr oedd y lle wedi myned yn rhy gyfyng fel y bu raid ailadeiladu a helaethu y capel, a gwnaed ef yn dŷ cyfleus. Mesura 41 troedfedd wrth 28 troedfedd. Costiodd yr helaethiad 150p., ond trwy gydymdrech yr ysgol Sabbothol, yn benaf, talwyd yr holl ddyled. Mae yr achos yma wedi dyfod rhagddo yn fwy cyflym nag odid un yn y wlad, ac y mae yn awr mewn gwedd flodeuog; ac y mae fod yma nifer o bersonau wedi bod yn sefydlog yn y lle er dechreuad yr achos, ac mewn amgylchiadau bydol cysurus, ac yn gwir ofalu am dano, wedi bod yn help i'w

Digitized by Google

lwyddiant. Yn eu plith y mae coffâd parchus yn deilwng i enwau Meistri R. Parry, Carn; J. Edmunds, Porthamel, ac O. Jones, Bryn. Ni bu yma yr un gweinidog sefydlog er cychwyniad yr achos, ond bu y diweddar Mr. R. W. Roberts, Maelog, yn dyfod yma yn rheolaidd bob mis hyd ei farwolaeth i weini y cymundeb.

Codwyd yma un pregethwr, sef Hugh Jones, yn awr o Cemaes.

## LLANGEFNI.

Nid yw yr achos yma ond diweddar mewn cydmariaeth, ac yr oedd y tir i fesur mawr wedi ei feddianu gan enwadau eraill pan y cychwynwyd ef. Nid oedd y pellder yn fawr oddiyma i Rosymeirch, etto ychydig oedd nifer y rhai a gyrchent oddiyma yno. Gwnaed yma gynyg flynyddoedd lawer yn ol i gychwyn achos, a buwyd yn pregethu mewn ty anedd, ond darfyddodd cyn hir o eisiau gofal priodol. Yr oedd Mr. Christmas Evans wedi byw y rhan fwyaf o'i oes wrth Gapel Cildwrn yn ymyl yma, yr hyn a roddodd i'r Bedyddwyr afael gryf ar y wlad; a threuliodd Mr. John Elias y rhan olaf o'i oes yn y Fron, gerllaw Llangefni, yr hyn a ychwanegodd yn fawr at y dylanwad oedd eisioes gan y Methodistiaid ar y lle, ac anturiaeth fawr oedd cychwyn achos Annibynol yma dan y fath amgylchiadau. Ond ymgymerwyd a'r gorchwyl yn galonog, ac nid ofer fu y llafur. Yr oedd Mr. David Davies, yr hwn a symudasai o Landdeusant i Berea, wedi sefydlu ei lygaid ar y lle, ac efe a fu y prif offeryn i gychwyn yr achos. Adeiladwyd yma gapel yn y flwyddyn 1843, ac agorwyd ef Hydref 31ain, yr un flwyddyn, a galwyd ef Smyrna. Costiodd y capel 250p., ac aeth Meistri J. Roberts (Edeyrn), Cefncoch; Robert Jones, Tanylan; Robert Lewis, Plasmynydd, a Thomas Williams, Glanalaw, yn gyfrifol gyda Mr. Davies am yr arian i'w adeiladu, ond ni bu Mr. Davies yn hir cyn casglu digon i dalu yr holl ddyled, ac felly eu rhyddhau hwy oddiwrth eu cyfrifoldeb. Mae yn amhosibl llefaru yn rhy gryf am ffyddlondeb Mr. Davies gyda chodi y capel a thalu am dano. Nid arhosodd yma yn hir wedi hyny, canys symudodd i Rhiadrwy, ac y mae yn awr yn Cerygcadarn. Wedi ymadawiad Mr. Davies yn 1847, bu yr eglwys heb weinidog hyd Ionawr, 1864, pryd yr ymsefydlodd Mr. John Owen, Llanegryn gynt, yn weinidog yma, ac y mae yn parhau i lafurio yn y lle, a'r achos mewn gwedd siriol a chalonog. Cyfarfu yr achos yma a llawer o gyfnewidiadau o'i gychwyniad hyd yn awr, a chafodd golledion trymion trwy symudiadau a marwolaethau, ond y mae wedi ennill tir a myned rhagddo i raddau dymunol. Mae amryw o gymanfaoedd yr enwad yn y sir wedi eu cynal yma, ac oblegid fod y lle yn agos i ganolbarth yr ynys y mae y cynnulliadau hyny yma yn lluosog a phoblogaidd. Canmolir yr eglwys yma yn fawr ar gyfrif ei haelioni, ac oni buasai ei bod felly nis gallasai gadw y drws yn agored, a chynal gweinidogaeth yn gyson yn y lle. Er fod y capel yma wedi ei godi er's cynifer o flynyddoedd, etto eleni (1872) y cafwyd prydles arno, ac y mae yr eglwys yn bwriadu yn ddioed i wneyd adgyweiriadau helaeth arno oddimewn ac oddiallan.

Yma y dechreuodd Rowland Williams (Hwfa Mon), Llundain, bregethu, ac nid oes achos dyweyd i neb o'n darllenwyr pwy yw efe; ac y mae Hugh Thomas yma yn awr yn bregethwr cynorthwyol cymeradwy yn yr eglwys.

Digitized by Google

## BEREA.

Pentreberw y gelwir y lle yma yn gyffredin, ac y mae yn mhlwyf Llanidan, o fewn dwy filldir i Langefni. Pregethwyd yma gyntaf yn y flwyddyn 1839, yn nhy Roger Rowlands, gan Meistri D. Roberts, Siloh, a D. Davies, Llanddeusant, heb feddwl mwy ar y pryd na rhoddi oedfa yn y lle wrth fyned heibio, ond gwelwyd fod y lle yn gynyddol, a barnwyd y buasai yn fuddiol gwneyd cynyg ar sefydlu achos yma. Arferai yr ychydig aelodau oedd yn yr ardal yma fyned i Cana cyn cychwyn yr achos yn y lle, ac nid oeddynt ond un-ar-ddeg yn y cymundeb cyntaf a gafwyd yma. Buwyd yn ymgynnull am ychydig mewn ty anedd, ond cyn diwedd y flwyddyn, dechreuwyd adeiladu y capel, ac yr oedd yn barod i'w agor Mehefin 3ydd, 1840. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri E. Davies, Llanerchymedd; D. James, Rhosymeirch; T. Owen, Llanfechell; W. Davies, Salem; I. Jones, Hermon; D. Davies, Llanddeusant, a Ll. Samuel, Bethesda. Cynyddodd yr eglwys yn gyflym, a rhoddwyd galwad i Mr. D. Davies, Llanddeusant, yr hwn a sefydlodd yma. Nid oedd un achos yn y wlad yn fwy gobeithiol na'r achos hwn ar ei gychwyniad. Derbyniwyd cynifer a thri-ar-ddeg i gymundeb yr un Sabboth, ac yr oedd hyny yn nifer mawr mewn lle bychan gydag achos newydd. Rhoddodd Mr. Davies ofal y lle i fyny wedi bod yma tua thair blynedd, gan gyfyngu ei holl lafur i Langefni. Bu sefyllfa yr achos yn ddyryslyd iawn yn yr adeg oblegid ryw amgylchiadau, ond dygwyd pethau i drefn cyn hir, ond nid cyn ysigo yr achos i raddau mawr. Cyn diwedd y flwyddyn 1846, rhoddwyd galwad i Mr. Cadwaladr Jones, Ffestiniog, i fod yn weinidog i'r eglwys hon mewn cysylltiad a Llanfairyborth, a chynaliwyd cyfarfod ei sefydliad Tachwedd 9fed a'r 10fed. Adfywiodd yr achos yn fawr wedi dyfodiad Mr. Jones yma, a lluosogodd yr eglwys, ond ni bu ei arosiad yma yn hir, canys yn y flwyddyn 1849, symudodd i Langollen. Yn y flwyddyn 1851, rhoddwyd galwad i Mr. Owen Evans, gwr ieuangc o Lanfyllin, ac urddwyd ef yn weinidog i'r eglwys yma a'r eglwys yn Mhenmynydd, Mehefin 8fed a'r 9fed, 1851. Ar yr achlysur pregethwyd ar natur eglwys gan Mr. W. Morris, Bryngwran; holwyd y gofyniadau gan Mr. R. E. Williams, Llanddeusant; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan Mr. H. Rees, Pentraeth; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. R. Ellis, Brithdir, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. W. Jones, Amlwch. Bu Mr. Evans yma yn dra chymeradwy a phoblogaidd hyd nes y symudodd i Faentwrog, yn 1854, ac am dymor maith ar ol hyny bu yr eglwys yma heb weinidog sefydlog. Profodd yn helaeth o'r diwygiad grymus a fu yn y wlad yn y blynyddoedd 1859 ac 1860, ac yn niwedd yr haf 1860 helaethwyd yr addoldy trwy draul o fwy na 100p. Yn nechreu y flwyddyn 1867, rhoddwyd galwad i Mr. Robert Owen, o Gaergybi, ac urddwyd ef y dydd cyntaf o Ebrill ar ol hyny. Llafuriodd yma gyda derbyniad am bedair blynedd, pryd y rhoddwyd terfyn gan angau ar ei fywyd defnyddiol Ebrill 24ain, 1871. Wedi bod am ychydig amser heb weinidog, rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. Evan J. Evans, yr hwn am flynyddau lawer a fuasai yn weinidog derbyniol yn Pisgah a Penygroes, sir Gaernarfon, ac y mae argoelion gobeithiol am lwyddiant ar ei lafur yma.

Digitized by Google

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

Robert Owen. Ganwyd ef yn Nghaergybi, Tachwedd 7fed, 1838. Magwyd ef i fyny yn yr eglwys, ac yr oedd er yn fachgen yn gwybod yr ysgrythyr lân. Dangosodd ogwyddiadau crefyddol yn foreu, a derbyniwyd ef pan yn ieuangc yn aelod o'r eglwys yn y Tabernacl gan Mr. Griffith. Anogwyd ef cyn hir i ddechreu pregethu, ac yr oedd yn dra derbyniol i ba le bynag yr elai. Ennillai ei ddull syml a gwylaidd iddo barch pawb a'i hadwaenai. Derbyniodd alwad gan eglwysi Berea a Phenmynydd, yn ei wlad ei hun, ac urddwyd ef yno ddechreu Ebrill, 1867. Llafuriodd yma gyda derbyniad a chymeradwyaeth, ond gwanychodd ei iechyd, a chan ddisgwyl adferiad dan ymgeledd ei fam, dychwelodd i Gaergybi, ond bu farw Ebrill 24ain, 1871, yn 33 oed. Claddwyd ef yn mhen pedwar diwrnod yn nghladdfa gyhoeddus y dref, ac yr oedd agos holl weinidogion yr enwad yn y sir yno i ddangos parch i'w goffadwriaeth ar ddydd ei arwyl.

## LLANFAIRYBORTH.

Yn y flwyddyn 1839, torodd nifer o aelodau allan o eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn y lle hwn o herwydd ryw amgylchiad. Yn eu plith yr oedd Richard Edwards, un a fuasai am flynyddoedd yn flaenor gyda'r Methodistiaid, ac un Owen Owens, dyn blaenllaw gyda'r achos, ac yn meddu llawer o wybodaeth. Corpholwyd hwy gydag ychydig eraill yn eglwys Annibynol, a chyn diwedd y flwyddyn hono daeth hen gapel i'r Wesleyaid yn wag, yr hwn a brynwyd am 90p., ac aeth rhyw 30p. yn ychwanegol tuag at ei adgyweirio. Yr oedd nifer yr eglwys yn 14 yn y cymundeb cyntaf, ac ymddangosai yr arwyddion am lwyddiant ar y dechreu yn dra ffafriol. Dechreuodd Owen Owens, y crybwyllwyd am dano, bregethu yn fuan, ac yn mhen rhyw dair blynedd, urddwyd ef yn weinidog ar yr eglwys. Ni bu yma yn hir canys ymfudodd i America, lle y bu farw yn fuan. Bu Mr. Cadwaladr Jones yn gofalu am y lle mewn cysylltiad a Berea hyd ei ymadawiad i Langollen. Ar ol hyny rhoddwyd galwad i Mr. Phillip G. Thomas i weinidogaethu yma mewn cysylltiad a Beulah, Bangor, ac urddwyd ef yno Ebrill 21ain, 1851. Llafuriodd Mr. Thomas yma yn ddiwyd am chwe' blynedd, hyd nes y symudodd i Pennorth, Brycheiniog, lle y mae etto. Bu yr achos yma yn isel iawn am dymor ar ol hyny, ond ymwelodd Duw a'r "ychydig bobl druain dlodion" oedd yma yn gobeithio yn ei enw ef, ac yn y diwygiad grymus yn 1860, llonwyd calon y saint yma yn ychwanegiad degau atynt. Mae yr achos yn awr dan ofal Mr. J. C. Evans mewn cysylltiad a Cana. Coffeir yn barchus am lafur yr hen frawd Richard Edwards, yr hwn a fu yn "ffyddlon hyd angau" gyda'r achos y bu llaw ganddo yn ei gychwyniad.

Codwyd y personau canlynol i bregethu yma:—

Owen Owens. Yr oedd ef, fel y crybwyllasom, yn un o gychwynwyr yr achos, a rhywbeth yn nglyn ag ef a barodd yr anghydwelediad yn eglwys y Methodistiaid, yr hyn a achosodd ei gychwyniad. Yr oedd yn ddyn o ddeall cryf, a thynai sylw fel pregethwr, ond yr oedd ei dymer yn anhyblyg ac afrywiog, fel mai ychydig a ennillodd yr achos yma o'i gysylltiad ag ef.

Aeth i America yn fuan wedi ei urddo yma, ac ni wyddom ragor o'i hanes nag iddo farw yno cyn hir.

Thomas Owen. Mae ef yn awr yn Menai Bridge, ac yn bregethwr cynorthwyol mewn cysylltiad a'r eglwys yno.

Richard Williams. Urddwyd ef yn weinidog yn y Dwyran, ac y mae yn awr yn byw yn Llanllyfni.

## MENAI BRIDGE.

Saif y lle prydferth hwn ar lan yr afon Menai, yn nghymydogaeth y pontydd mawreddog sydd yn croesi yr afon, a gelwir y dref yn bresenol ar enw un o honynt. Yn lled ddiweddar y dechreuwyd yr achos Annibynol yn y lle hwn. O herwydd fod poblogaeth y dref yn cynyddu yn gyflym, meddyliwyd gan garedigion yr achos crefyddol yn y sir am godi capel Annibynol yma. Yr oedd yma ychydig Annibynwyr yn trigo yn barod, ond gan nad oedd moddion crefyddol yn cael eu cynal gan yr Annibynwyr yn y lle, yr oeddynt dan yr angenrheidrwydd i fyned at enwadau eraill i addoli, neu gerdded yn mhell at eu pobl eu hunain. Buwyd yn son llawer o bryd i bryd am ddechreu achos yn y lle cynyddol hwn. Dygwyd y mater o'r diwedd ger bron cyfarfod chwarterol y sir, a rhoddwyd pob cefnogaeth i'r anturiaeth. Bu Mr. Griffith, Caergybi, a'r diweddar Mr. Thomas, Beaumaris, yn nghyd ag ychydig eraill, ar ol llawer o drafferth, yn llwyddianus i sicrhau darn o dir i adeiladu capel arno yn y man mwyaf manteisiol yn y lle. Buwyd ychydig yn hŵy nag y meddylid yn dwyn yr adeilad i ben, ond penderfynwyd, er nad oedd y capel wedi ei gwbl orphen, i neillduo Ebrill 18fed, 19eg a'r 21ain, 1867, i'w agor. Pregethwyd ar yr achlysur gan Meistri E. Evans, Caernarfon; R. Thomas, Bangor; T. Thomas, Glandwr; J. Thomas, Liverpool; R. Williams (Hwfa Mon), ac H. E. Thomas, yn awr o Pittsburg, America. Boreu Sabboth yr 21ain, wedi i'r Meistri H. E. Thomas bregethu ar "Ganlyn Crist," ac R. E. Williams, yn awr o Croesoswallt, draddodi anerchiad ar "Natur Eglwys," galwyd ar y cyfeillion hyny oeddynt yn dewis ymuno a'u gilydd i gario achos y Gwaredwr yn mlaen yn y lle, i gyfodi ar eu traed, a gwnaeth y personau canlynol hyny:—R. Thomas, T. Owen, M. Jones, J. Owen, O. Owen, C. Thomas, E. Davies, M. Pritchard, M. Roberts, A. Roberts, M. Roberts, S. Williams, E. Williams, S. Williams, M. Evans, M. Williams, ac A. Williams, a chorpholwyd hwy yn eglwys gan Dr. W. Rees, Liverpool, ac ymunodd amryw aelodau o fanau eraill gyda hwy i gydgofio am angau Crist. Rhoddodd Mr. W. Thomas, (mab Mr. R. Thomas, London-house), bachgen pum' mlwydd oed, lestri cymundeb yn anrheg i'r eglwys, gwerth 5p. 10s., a rhoddwyd Bibl hardd hefyd ar y pulpud yn anrheg gan Mr. H. Roberts. Maintioli y capel ydyw 16 llath wrth 14, ac y mae wedi ei wneyd i 350 eistedd ynddo. Costiodd rhwng 800p. a 900p. Rhoddodd y boneddwr haelfrydig Mr. Morley, o Lundain, y swm anrhydeddus o 100p. ato. Mae y chwaer ieuengaf hon i eglwysi Annibynol Mon, dan rwymau i fod yn ddiolchgar am y gefnogaeth arianol a gafodd oddiwrth eglwysi y sir, ac hefyd am y cymhorth haelionus a estynwyd iddi gan amryw bersonau unigol, i'r dyben o symud ymaith y ddyled oedd yn aros ar yr addoldy. Trwy ymdrech ddiflino gartref, a chynorthwy eglwysi y sir, yn nghyda chyfran a dderbyniwyd o rodd Mr. Morley tuag at ddiddyledu y capeli gweiniaid yn Mon, y

mae yr addoldy hwn yn awr yn ddiddyled! Y mae golwg obeithiol am achos llewyrchus yn y lle cynyddol hwn, gyda bendith y nefoedd arno. Bu dyfodiad Mr. Thomas, London-house, a'i deulu, o Beaumaris, i'r lle hwn i gartrefu o les i'r enwad Annibynol. Cyfiawnder ydyw datgan mai efe fu y prif offeryn i gael capel Annibynol yn y lle, gwnaeth lawer aberth er mwyn ei gael, ac y mae efe a'i briod yn parhau yn ddiflino i wasanaethu yr achos. Bydd coffadwriaeth melus ac anwyl, tra y bydd byw y rhai oedd dan bwys y baich wrth gychwyn yr achos, am sirioldeb a haelioni y weddw, Mrs. Margaret Roberts, Cadnant, gyda'r hon y llettya y gweinidogion yn bresenol.

Codwyd yma un pregethwr, sef John Owen, yr hwn sydd yn ffyddlon ac yn gymeradwy. Yma hefyd y mae y brawd Thomas Owen, yr hwn a godwyd i bregethu yn Llanfair, ond a symudodd i'r lle hwn ar ddechreuad yr achos.

---

Wrth adolygu hanes eglwysi Mon, nid oes genym ond ychydig i'w ychwanegu at yr hyn a ysgrifenasom yn nglyn ag eglwysi neillduol. Mae yn weddus i ni gydnabod ddarfod i ni yn ein llafur i gasglu hanes eglwysi y sir, gael llawer o help oddiwrth y *Crynhodeb o hanes dechreuad a chynydd yr eglwysi Annibynol yn Mon*, gan Mr. W. Williams, Beaumaris, yr hwn a gyhoeddwyd gan gyfarfod chwarterol yr ynys. Ysgrifenasom i bob eglwys yn y sir i ymofyn, ac ni wnaeth rhai ddim ond ein cyfeirio at y *Crynhodeb* crybwylledig, a thrwy lawer o drafferth y gallasom ddwyn hanes y cyfryw hyd y dyddiau hyn. Gwelir fod genym luaws mawr o ffeithiau a dyddiadau am grefydd yn Mon na buont yn argraffedig erioed o'r blaen, ac ar gywirdeb y rhai y gellir dibynu. Buom yn ffortunus i gael gafael ar hen goflyfr i'r hybarch Jonathan Powell, yn yr hwn y ceir hanes y cyfarfodydd y bu ynddynt yn y sir yn yr ugain mlynedd olaf o'i oes, ac y mae wedi gadael ar ei ol lawer o sylwadau yn ei ddullwedd ei hun am bethau a phersonau. Nis gall lai na tharo meddwl y darllenydd wrth ddarllen hanes yr eglwysi, mai ychydig o deuluoedd sydd wedi bod yn gofalu am grefydd yn Mon o'r dechreuad hyd yr awr hon, ac y mae yn llawen i weled fel y mae crefydd yn aros yn rhai o'r teuluoedd hyny o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn mysg y gweinidogion a fu yma yn llafurio, gwelsom fod amryw o honynt mewn amgylchiadau bydol cysurus, ac felly yn gallu gweini i'r eglwysi heb bwyso arnynt am eu hangenrheidiau tymhorol, ac oni buasai hyny nid ydym yn tybied y gallasant fod mor llwyddianus yn mysg y bobl. Dichon y dylasai rhai o honynt, ar ol casglu yr eglwysi, eu dysgu i gyfranu yn helaethach at gynhaliaeth y weinidogaeth, ond yn sicr yr oedd yn help mawr i'w dylanwad yn mysg y rhai y llafurient, fod yr argraff mor ddwfn ar feddwl pawb mai hwynthwy, ac nid yr eiddynt a geisid ganddynt. Yr oeddynt yn gallu myned y tu allan i'w cylchoedd cartrefol i bregethu yr efengyl, ac yr oedd eu bod yn adnabyddus ac yn barchus yn eu gwlad yn sicrhau gwrandawiad iddynt i ba le bynag

Digitized by Google

yr elent. Ni bu yma er cychwyniad Ymneillduaeth yn yr ynys, ond ychydig o bersonau yn y weinidogaeth oedd yn nodedig am eu doniau a'u talentau, ond bu yma o bryd i bryd lawer oedd yn gwir ofalu am achos yr Arglwydd, ac y mae eu henwau'yn perarogli yn y wlad hyd y dydd hwn.

Yn y flwyddyn 1806, penderfynodd pedwar o weinidogion i gynal cyfarfod misol yn y sir, i bregethu, ac i ymddiddan a'u gilydd am achosion cyhoeddus teyrnas Iesu Grist. Y gweinidogion oeddynt A. Tibbott, J. Evans, Amlwch; J. Powell, Rhosymeirch, a Thomas Jones, Beaumaris. Cynaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Llanerchymedd, a chadwyd hwy wedi hyny yn dra rheolaidd. Deuai gweinidogion o sir Gaernarfon yn achlysurol i'w cynorthwyo, a chyn hir ychwanegwyd at eu rhif yn Mon. Cyn hyny arferid cynal cyfarfod bob haf yn Rhosymeirch neu Capel mawr, a deuai gweinidogion o bell ac agos i'r cyfarfodydd hyny. Mewn cyfarfod yn Amlwch yn Hydref, 1809, penderfynwyd gwneyd cais am ddimai yr wythnos oddiwrth bob aelod trwy y sir er cynorthwyo achosion amgylchiadol yr eglwysi. Dengys testynau eu hymddiddanion yn y cyfarfodydd misol beth oedd nodwedd eu cyfeillachau. Yn nghyfarfod misol Ceirchiog, a gynaliwyd yn Chwefror, 1810, yr oedd cais yn cael ei wneyd ar fod ymholiad yn mhob eglwys a oedd y ddyledswydd deuluaidd yn cael ei chario yn mlaen yn ddiesgeulus. Yn nghyfarfod misol Llanfechell, y Mawrth canlynol, yr oedd yr ymdriniaeth ar ddyledswydd yr aelodau roddai neu a gaffai dramgwydd. Yn nghyfarfod misol Ebrill, yr hwn a gynhaliwyd yn Llanddeusant ar y Pasg, yr oedd dau fater ger bron—Y pwys o fod gan bob Ymneillduwr reswm am ei Ymneillduaeth, a hawl gweinidogion Crist i bregethu holl ranau yr athrawiaeth yn ddiofn i'r bobl, ac i nodi allan gyfeiliornwyr a chyfeiliornadau. Bu hefyd dan sylw y cyfarfod hwnw yr anmhriodoldeb o offrymu dros y meirw i weinidogion Eglwys Loegr. Mae y crybwylliadau yna yn rhyw awgrym o destynau ymddiddan cyfrinachau neillduol y cyfarfodydd misol. Ond byddant weithiau yn ymyraeth a phethau a dybid, yn ein dyddiau ni, y tu allan i'w terfynau. Yn nghyfarfod misol Amlwch, a gynhaliwyd Mai 9fed a'r 10fed, 1814, penderfynwyd "amlygu trwy lythyr i Mr. Arthur Jones, nas gallem gydsynio a'i ddull o bregethu rhyw byngciau." Ond daeth Mr. Arthur Jones i'r cyfarfod misol canlynol, a gynaliwyd y Sulgwyn yn Mhentraeth, ac fel hyn y dywedir wedi y cyfarfod hwn, "Bu ymddiddan ag Arthur Jones am y pethau oedd yn bregethu, ond nis cafwyd boddlonrwydd ynddo o gwbl." Dyma fe wedi ei gael yn brin yn y glorian. Ond y mae yn ymddangos iddo ef a hwythau ddyfod i ddeall eu gilydd, oblegid yr ydym yn ei gael gyda hwy yn eu cyfarfodydd yn fuan ar ol hyny.*

Yr oedd gwedd deithiol i fesur ar y weinidogaeth yn eu plith, ac y mae hyny i raddau wedi parhau. Nid oedd ond ychydig o weinidogion yn y

* Cofnodion Mr. Jonathan Powell.

Digitized by Google

sir ar y dechreu, fel yr oedd cryn nifer o eglwysi dan ofal pob gweinidog, a byddent gyda hyny yn aml yn ymweled ag eglwysi eu gilydd. Cariodd gweinidogaeth deithiol y Methodistiaid ei dylanwad ar yr enwadau eraill, fel yr oedd gan newydd-deb a dawn dyeithr lawer o swyn i'r holl wlad, ac y mae rhyw gymaint o hyny yn aros etto, ond y mae y weinidogaeth sefydlog yn ymgodi i fwy o barch a dylanwad yn yr ynys bob blwyddyn, ac ni bu yr eglwysi yn gyflawnach o weinidogion yn un cyfnod o'u hanes nag ydynt yn bresenol, ac y mae yn ffaith, a brofir gan hanes y sir hon fel pob sir arall, mai yr eglwysi y mae y gweinidogion wedi bod yn fwyaf sefydlog, *fel rheol*, ydyw yr eglwysi mwyaf llwyddiannus a blodeuog.

Mae yr holl wlad wedi ei darostwng yn llwyr iawn dan ddylanwad yr efengyl. Dichon yn wir nad oes yr un wlad wedi ei darostwng yn llwyrach, ac y mae rhif proffeswyr crefydd mewn cyfartaledd i nifer y boblogaeth, mor uchel yma ag yn un sir yn Nghymru. Cymanfaoedd ac uchelwyliau crefydd ydyw y prif gynnulliadau i'r rhai y cyrcha lluaws y boblogaeth, a cheir cynnulleidfaoedd lluosog i wrando yr efengyl unrhyw awr o'r dydd, fel y nos, ac er nad yw moesau y trigolion yn cyfateb i fawredd ei breintiau, etto y mae y wlad ar y cyfan yn lled rydd oddiwrth ddrygau a throseddau cyhoeddus. Mae addoliad teuluaidd yn uchel yn y wlad, ac ychydig ydyw nifer y proffeswyr a geir trwy yr ynys nad ydynt yn darllen ac yn gweddio gyda'u teuluoedd ar eu haelwydydd. Yr oedd gofal mawr am hyn yn nyddiau ein tadau, ac yr ydym yn gobeithio nad ydyw yn llacio yn ein dyddiau ninau.

Ar y cyfan y mae yr eglwysi yn mwynhau heddwch mawr, ac ar rai adegau cafwyd ymweliadau grymus oddiwrth yr Arglwydd, ac nid yw y weinidogaeth, ond gydag ychydig eithriadau, o fewn cof y genhedlaeth bresenol, wedi ei gwarthruddo gan gymeriadau llygredig. Gwnaed ymdrechion mawrion yn ddiweddar i adeiladu a helaethu capeli y wlad, ac y mae haelioni anarferol wedi ei ddangos i dalu am danynt, a'r beichiau wedi eu llwyr dafiu oddiar amryw o eglwysi gweiniaid y sir trwy gydymdrech cyffredinol, fel y maent mewn sefyllfa fanteisiol i wneyd gwaith yr Arglwydd yn y gwahanol ardaloedd.

Digitized by Google

# SIR FAESYFED.

Mae y sir hon yn cael ei therfynu ar y dwyrain gan siroedd yr Amwythig a Henffordd, ar y gogledd gan sir Drefaldwyn, ac ar y gorllewin a'r de gan sir Frycheiniog. Y mae yn 272,128 erw o arwynebedd. Mynyddoedd moelion a chreigiau ysgythrog yw y rhan fwyaf o'r tir, ond y mae yma rai dyffrynoedd bychain nodedig o brydferth a ffrwythlon. Ychydig dros bum'-mil-ar-hugain yw nifer y trigolion, ac y mae y boblogaeth wedi sefyll yr un nifer o fewn ychydig ganoedd o ddechreuad y ganrif bresenol hyd yn awr. Nid yw yn debyg y bydd yma byth nemawr o ychwanegiad at rif y boblogaeth, oddieithr i fŵnoedd gael eu darganfod yn y mynyddoedd, yr hyn sydd yn beth digon posibl. Y Saesonaeg yn awr yw iaith yr holl breswylwyr, ac nid oes yma neb, oddieithr ychydig o hen bobl, yn deall y Gymraeg o gwbl. Yr oedd y gwasanaeth crefyddol yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y ddwy iaith yn nghapel Rhaiadr hyd o fewn pymtheng mlynedd yn ol, ond yn awr Saesonaeg yn unig yw iaith yr addoliad yno, fel yn mhob rhan arall o'r sir.

Gwnaeth Annghydffurfiaeth ei ymddangosiad yn y sir hon mor foreu ag un sir yn Nghymru oddieithr sir Fynwy. Yr oedd yma Buritaniaid yn pregethu er y flwyddyn 1633, os nad cyn hyny. Yn mhalas Syr Robert Harley, ar gyffiniau y sir hon, y cafodd Walter Cradock noddfa pan y diangodd rhag yr erlidwyr o Wrecsam yn 1635, a bu yn aros yma ac yn pregethu ar hyd a lled y sir am dair blynedd. Tua y flwyddyn 1635, neu yn fuan ar ol hyny, yr ennillwyd yr enwog Vavasor Powell i'r ffydd. Un genedigol o'r sir hon ydoedd, ac ar ol ei droedigaeth bu yn pregethu yma gyda nerth ac arddeliad mawr, nes iddo orfod cilio i Loegr rhag yr erledigaeth yn 1642. Pan drowyd "y ddwy fil" allan o'r eglwysi plwyfol yn 1662, yr oedd pump o honynt yn y sir fechan hon. Yn 1672, pan roddodd y brenin Siarl II. ychydig o ryddid i'r Ymneillduwyr, yr ydym yn cael y personau canlynol yn trwyddedu eu tai, ac yn cymeryd trwyddedau at bregethu:—"Ty Richard Mills, yn Glasgwm, at gynal addoliad gan yr Annibynwyr, Tachwedd 18fed, 1672; trwydded i John Hanmer i fod yn bregethwr Annibynol yn Llanbister; trwydded i Maurice Griffith i fod yn bregethwr Annibynol yn Begildy; trwydded i Edward Owen, o Glascwm, i fod yn bregethwr Annibynol; ty Ann King, o Lanbister, i fod yn addoldy

Annibynol; ty Richard Griffith, o Langynllo, i fod yn addoldy Annibynol."* Bu amryw achosion Annibynol yn y sir hon gynt, y rhai sydd er's oesau bellach wedi diflanu, neu gael eu llyngcu i fyny gan achosion diweddarach. Yr oedd achos hen iawn yn y Garn, yn mhlwyf Diserth, yn y ddeunawfed ganrif. Bu Mr. Christodocius Lewis, yr hwn a symudodd yno o Gapel Seion, sir Gaerfyrddin, yn weinidog yno o 1715 hyd 1760. Dilynwyd ef gan William Llewellyn, James Jones, Rees Jones, a John Thomas. Mae yn ymddangos fod yr achos hwn wedi myned i'r dim er's yn agos i gan' mlynedd bellach. Bu achosion hefyd yn Knighton, Maesyfed, a manau eraill, y rhai sydd wedi llwyr ddiflanu er's llawer o flynyddau.

Gwan iawn yw pob enwad o Ymneillduwyr yn sir Faesyfed yn awr. Mae yma ddeg o gapeli a chynnulleidfaoedd bychain gan yr Annibynwyr. Mae yma hefyd amryw gynnulleidfaoedd bychain gan y Bedyddwyr, y Wesleyaid, y *Primitive Methodists*, a phedair neu bump gan y Methodistiaid Calfinaidd; ond mae yn amheus a wnelai yr holl Ymneillduwyr o bob enwad trwy y sir, pe rhifid hwynt, bum' mil o bobl allan o'r pum'-mil-ar-hugain trigolion sydd yn wasgaredig trwy y sir. Ond er gwaned yw Ymneillduaeth yma, mae yr eglwysi plwyfol, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn weigion a hollol ddilewyrch, ac oni buasai fod yma ychydig o Ymneillduwyr i'w symbylu, mae yn sicr y buasai yr Eglwys Wladol yn llawer mwy dilewyrch nag ydyw.

## MAESYRONEN.

Mae y capel hwn yn sefyll ar lechwedd bryn uwchben parc a phalasdy Maesllwch, yn mhlwyf y Clâs, neu Glasbury, un o'r ardaloedd prydferthaf yn Nghymru. Mae yr achos Ymneillduol yma yn hen iawn. Gan fod yr enwogion Walter Cradock a Vavasor Powell wedi bod am flynyddau yn pregethu yn y parth hwn, a bod Richard Powell, yr hwn oedd yn un o'r profwyr, neu farnwyr cymhwysderau gweinidogion, dan y ddeddf a basiwyd yn 1649, er taenu yr efengyl yn Nghymru, wedi bod am flynyddau yn weinidog plwyfydd Llanigon a'r Clâs, mae yn naturiol barnu fod crefydd efengylaidd wedi gwreiddio ac ymledu yn yr ardal hon er amser y Senedd Hir, a chyn hyny. Yr oedd amryw o'r teuluoedd parchusaf a mwyaf dylanwadol o Aberhonddu i'r Gelli yn Ymneillduwyr proffesedig yn amser y Werin-lywodraeth, a safasant yn ddisigl yn eu proffes wedi adferiad Siarl II. Yr oedd rhai o Ymneillduwyr y parthau hyn yn Fedyddwyr er y flwyddyn 1650. Nid yn mhell o'r ardal hon y ganwyd ac y magwyd John Myles, sylfaenydd enwad y Bedyddwyr yn Nghymru. Yn amser yr erledigaeth yr oedd y Bedyddwyr yn cydaddoli a'r Annibynwyr yn y gwahanol aneddau lle y cyfarfyddent yn ddirgel. Yn fuan wedi cael deddf goddefiad yn 1688, ymranodd y frawdoliaeth yn dair eglwys. Ymffurfiodd yr Annibynwyr yn y parthau hyn yn eglwysi yn Maesyronen a Thredustan, a'r Bedyddwyr yn Maesyberllan. "Eglwys Llanigon" y gelwid y

* *State papers for* 1672.

Digitized by Google

frawdoliaeth cyn iddynt ymranu, am mai yn mhlwyf Llanigon yr oedd prif fan ei chynnulliad. Yr oedd yn eglwys luosog a gwasgaredig iawn, yn cyrhaeddyd o Droedrhiwdalar i Ferthyr Tydfil, ac o'r Gelli, ar derfynau sir Henffordd, hyd Gefnarthen, yn sir Gaerfyrddin. Mae yn debyg mai Mr. Richard Powell oedd yn cael ei ystyried fel gweinidog oddiar ffurfiad yr eglwys, yr hyn a gymerodd le rywbryd yn amser y Senedd Hir, hyd amser ei farwolaeth yn 1668. Yr oedd yma amryw bregethwyr yn ei gynorthwyo megis Lewis Prytherch, Henry Williams, o Ferthyr, a rhai eraill. Mae yn ymddangos mai ar weinidogaeth y cynorthwywyr hyn y bu yr eglwys yn ymddibynu o amser marwolaeth Mr. Powell hyd nes iddynt roddi galwad i Mr. Henry Maurice yn 1672. Bu Mr. Maurice yn llafurio yn ddiwyd a llwyddianus iawn yn y cylch eang hwn hyd ei farwolaeth yn 1682. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth yn holl ganghenau yr eglwys gan Mr. Rees Prytherch, Ystradwalter, ger Llanymddyfri, a bu yntau yn llafurus a llwyddianus iawn yn holl gylch eang y weinidogaeth hyd ei farwolaeth yn 1699. Ar ei farwolaeth ef dewisodd gwahanol ganghenau yr eglwys wasgaredig weinidogion iddynt eu hunain. Yr ydym yn barnu i gapel Maesyronen gael ei adeiladu tua y flwyddyn 1696, ond ni chafodd y weithred ei gwneyd cyn y flwyddyn 1714. Rhoddwyd y tir at adeiladu y capel yn rhodd i'r gynnulleidfa gan Lewis Lloyd, Ysw., o Faesllwch, yr hwn mae yn dra thebyg, oedd yn aelod o'r eglwys. Y gweinidog cyntaf yn Maesyronen, wedi iddi fyned yn eglwys ar ei phen ei hun, oedd Mr. David Price. Cafodd ei urddo yma tua y flwyddyn 1700, neu yn fuan ar ol hyny, a bu yn llenwi ei gylch yn effeithiol yma hyd derfyn ei oes yn 1742. Yn mhen tua thair blynedd wedi marwolaeth Mr. Price, rhoddwyd galwad i Mr. Lewis Rees, Llanbrynmair, a bu yma hyd 1748, pryd y dychwelodd i Lanbrynmair. Canlynwyd Mr. Rees gan Mr. James Davies, yr hwn fu yn weinidog yma o 1749 hyd 1759, neu o bosibl flwyddyn neu ddwy ar ol hyny. Nis gwyddom pa un ai symud oddiyma neu farw a wnaeth. Y nesaf y cawn ei enw fel gweinidog yma yw Walter Bevan. Yr oedd yma yn 1762. Mae ei hanes yn hollol anhysbys i ni. Dilynwyd ef yn 1767, gan William Llewellyn, yr hwn a fu yma hyd 1775, ac o bosibl flwyddyn neu ddwy ar ol hyny.* Y gweinidog nesaf oedd Mr. Thomas Bowen, myfyriwr o'r athrofa yn Abergavenny; urddwyd ef yma yn 1781, ac yma y bu yn rhyfeddol o boblogaidd a llwyddianus, nid yn unig yn Maesyronen, ond trwy yr holl wlad o'r Gelli i Aberhonddu, ac o Lanfairmuallt i Grughowell. Er mawr alar a cholled i'r gynnulleidfa a'r wlad yn gyffredinol, gogwyddodd ei feddwl i symud i Faesyrhaf, Castellnedd, yn 1796. Yn fuan wedi ymadawiad Mr. Bowen, rhoddwyd galwad i Mr. David Jones, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef yma Mawrth 22ain, 1797, pryd yr oedd y gweinidogion canlynol yn wyddfodol, a'r rhan fwyaf o honynt yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth:—Simon Williams, Tredustan; E. Davies, Hanover; D. Thomas, Penmain; E. Jones, Pontypool; T. Phillips, Neuaddlwyd; James Price, Caebach; Howell Powell, Casnewydd; Evan Davies, Aberhonddu; Jonathan Powell, Rhaiadr; Evan Harris, Llanymddyfri, a W. James, Caerdydd. Parhaodd Mr. Jones yn ei gysylltiad gweinidogaethol a Maesyronen am agos i haner can' mlynedd. Yn ei amser ef y trowyd y gwasanaeth yn hollol i'r iaith Saesonaeg. Yr oedd amgylchiadau yr ardal yn galw am hyny gan fod ieuengctyd y

* Cofnodion y Bwrdd Henadurol.

Digitized by Google

gymydogaeth yn ddieithriad yn anwybodus o'r Gymraeg. Nid oes yn yr holl ardal yn bresenol ond ambell un o'r hen bobl henaf yn deall y Gymraeg. Yr oedd yr eglwys fechan yn Brechfa, Brycheiniog, dan ofal Mr. Jones, mewn cysylltiad a Maesyronen, trwy holl dymor ei weinidogaeth. Yn y flwyddyn 1846, o herwydd henaint a methiant, bu raid iddo roddi ei ofal gweinidogaethol i fyny. Yr oedd rhif y cymunwyr yn Maesyronen pan roddodd ef ofal y lle i fyny yn gant, ac yn ddeugain yn Mrechfa. Yn fuan wedi hyn, rhoddwyd galwad i Mr. Thomas Havard, gan yr eglwysi lyn Maesyronen a Brechfa, a bu yn cael ei ystyried yn weinidog yn y ddau e ac yn Nhredustan, nes iddo gael ergyd o'r parlys yn 1861, yr hyn a'i gorfododd i ymddeol o'r weinidogaeth. Yn fuan wedi i Mr. Havard gael ei analluogi, rhoddodd yr eglwys yn Maesyronen, mewn cysylltiad a'r eglwys yn y Gelli, alwad i Sais o'r enw M. A. Harvey. Bu ef yn gwasanaethu y ddwy eglwys hyd ddechreu y flwyddyn 1868, pryd y symudodd i Wlad yr Haf. Cyn ei ymadawiad ef yr oedd yr eglwys yn Maesyronen wedi dechreu adeiladu capel yn mhentref Glasbury, er mwyn cyfleusdra yr aelodau a'r gwrandawyr a breswylient yn y rhan boblog hono o'r ardal. Yn haf y flwyddyn 1868, rhoddodd y fam-eglwys yn Maesyronen, a'r gangen yn Glasbury, alwad i Mr. J. R. Lewis, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma. Yn y flwyddyn 1871, derbyniodd Mr. Lewis alwad o Dorrington, sir Amwythig, a symudodd yno. Dilynwyd ef yn Maesyronen a Glasbury gan Mr. H. D. Shankland, gwr ieuangc genedigol o Lacharn, sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysg yn athrofa y Wesleyaid yn Richmond. Urddwyd ef yma yn nechreu y flwyddyn hon (1872). Mae llafur Mr. Shankland yn argoeli bod yn dderbyniol a llwyddianus yma.

Ychydig flynyddau yn ol darfu i Mr. DeWinton, perchenog presenol palasdy Maesllwch, wrthod i breswylwyr pentref Glasbury gael myned trwy ei barc ef i addoldy Maesyronen, yr hyn a'u gorfodai i gerdded tua milldir a haner yn fwy nag arfer er cyrhaedd eu haddoldy. Gan fod y ffordd trwy y parc yn cael ei ddefnyddio at fyned i'r capel er's mwy na chant a haner o flynyddau, penderfynodd y gynnulleidfa, er fod amryw o honynt yn denantiaid i Mr. DeWinton, na oddefent iddo eu gorthrymu heb fyny gwybod a oedd ganddo hawl i hyny. Dechreuwyd ymgyfreithio, ond yn fuan gwelodd cyfreithiwr y boneddwr fod ei achos yn ddrwg, a chynygiodd fod y ddadl i gael ei phenderfynu gan gyflafareddwyr. Penderfyniad y cyfryw ydoedd fod y llwybr i gael ei agoryd fel cynt a bod Mr. DeWinton i dalu pob costau.

Yn y ddeunawfed ganrif yr oedd achos blodeuog mewn lle o'r enw Maesgwyn, tua thair milldir i'r gogledd o Faesyronen. Mae yn debyg mai cangen o Faesyronen oedd yr achos hwn yn wreiddiol, ond tua y flwyddyn 1715 yr oedd yma gynnulleidfa o tua thri chant o rif, a'r dysgedig a'r enwog Vavasor Griffiths yn weinidog iddi. Bu Mr. Griffiths yn weinidog i'r gynnulleidfa hon hyd ei farwolaeth yn 1741. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth yma gan un o'i ysgolheigion o'r enw Thomas Morgan, yr hwn a fu yma hyd 1744, pryd y symudodd i Groesoswallt. Y gweinidog nesaf oedd Mr. David Lewis, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin, yr hwn a fu yma am fwy na deugain mlynedd, ac yn ol tystiolaeth Edmund Jones, Pont-y-pool, a bregethodd yr holl gynnulleidfa allan o'r capel. Gyda ei farwolaeth ef tua diwedd y ganrif ddiweddaf, darfu yr achos yn y lle hwn yn hollol.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Yn y cofnodion canlynol cynwysir gweinidogion Maesgwyn yn gystal a gweinidogion Maesyronen.

Richard Powell. Mae lle ac amser ei enedigaeth ef yn anhysbys i ni. Nid oes un amheuaeth na ddarfu iddo dderbyn ei addysg naill ai yn Rhydychain neu Gaergrawnt. Mae yn debyg ei fod yn pregethu rai blynyddau cyn dechreuad y rhyfel cartrefol fel offeiriad plwyf Llanigon, ac yn amser y Werinlywodraeth cafodd ei wneyd yn weinidog plwyf Glasbury, pan drowyd Alexander Griffiths allan oddiyno am anfoesoldeb. Mae Alexander Griffiths, yr hwn oedd yn ddyn galluog iawn, er ei fod yn ddyn drygionus, wedi cyhoeddi amryw fân lyfrau i ddifrio ac enllibio Annghydffurfwyr ei oes, ac y mae Richard Powell yn cael ei ran o ddifriaeth ac enllib ganddo. Cyhudda ef o ddyweyd yn un o'i bregethau, mai gweddi bwdr yw gweddi yr Arglwydd, ac nad Duw yw creawdwr y byd. Cyhudda ef hefyd o dderbyn can' punt y flwyddyn o dal gan y llywodraeth fel gweinidog, mewn ychwanegiad at ddegymau plwyf Llanigon a thri o blwyfydd cymydogaethol eraill, ac o farchogaeth o flaen ei blwyfolion yn erbyn byddin Syr William Waller. Mae y ffaith fod Griffiths yn cymeryd cymaint o drafferth i ddyfeisio cynifer o enllibiau celwyddog i'w taflu ar enw da Mr. Powell, yn dangos ei fod yn ddyn o nod a dylanwad. Hefyd y mae y ffaith fod Mr. Powell wedi cael ei osod yn y weithred seneddol er taenu yr efengyl yn Nghymru, yn un o brofwyr cymhwysderau y gweinidogion a anfonid allan dan y ddeddf hono, yn dangos ei fod yn cael edrych arno fel dyn o safle uchel. Dywed Mr. Thomas Watkins, un o ynadon heddwch sir Frycheiniog, fod Mr. Powell yn bregethwr gonest, galluog, a ffyddlon. Bu y dyn da a llafurus hwn farw yn ei anedd yn Mhenywerneithin, yn sir Faesyfed, yn y flwyddyn 1658, ac felly cymerwyd ef i dangnefedd cyn i'r erledigaeth a ddilynodd adferiad Siarl II. dori allan.*

Henry Maurice. Gwelir hanes yr Ynysgau, Merthyr.

Rees Prytherch. Yn nglyn a hanes Cefnarthen y rhoddir ei fywgraphiad ef.

Lewis Prytherch. Rhoddir ei fywgraphiad yntau yn nglyn a hanes Tredustan.

David Price. Nid oes genym braidd ddim o'i hanes ef. Yr ydym yn barnu mai yn yr athrofa yn Abergavenny, dan ofal Roger Griffiths, y derbyniodd ef ei addysg. Yn y Llwynllwyd, yn sir Frycheiniog, ond o fewn ychydig gyda dwy filldir i Faesyronen yr oedd yn cyfaneddu. Cafodd ei urddo, fel y nodasom, tua y flwyddyn 1700, a bu farw yn mis Awst, 1742. Yr ydym yn casglu oddiwrth ryw awgrymiadau mewn hen lawysgrifau fod Mr. Price yn weinidog o safle uchel, a'i fod yn ddyn mewn sefyllfa uwch na'r cyffredin o ran ei amgylchiadau bydol.

Lewis Rees. Gwelir hanes eglwys Mynyddbach, Morganwg.

James Davies. Dechreuodd ef ei weinidogaeth yn Maesyronen tua y flwyddyn 1749, a bu yno hyd y flwyddyn 1759. Nis gwyddom un o ba le ydoedd, na pha le na pha bryd y bu farw. Yr oedd ei fab, Richard Davies, yn fyfyriwr yn athrofa Caerfyrddin o 1754 hyd 1758. Yr oedd ganddo fab arall o'r enw Rees Davies yn bregethwr.

* *Rees's History of Nonconformity in Wales.*

Digitized by Google

WALTER BEVAN. Nid ydym yn gwybod dim o'i hanes ef. Yr oedd yn weinidog yn Maesyronen yn 1762. Nis gwyddom pa faint cyn hyny y daeth yno, na pha cyhyd ar ol hyny y bu yno.

WILLIAM LLEWELLYN. Yr ydym yn barnu mai yr un yw efe a'r William Llewellyn a urddwyd yn y Cwmmawr, Morganwg, yn 1746. Yn 1762, yr ydym yn ei gael yn weinidog yn y Garn yn sir Faesyfed, ac yn Gwenddwr, sir Frycheiniog, o 1766 hyd 1773. Yr oedd yn Maesyronen o 1769 hyd 1775, ac o bosibl am rai blynyddau yn ddiweddarach. Gallasai fod yn gofalu am Faesyronen a Gwenddwr yr un amser gan nad yw y pellder rhyngddynt yn gyflawn ddeng milldir. Nis gwyddom un o ba le ydoedd na pha bryd y bu farw.

THOMAS BOWEN. Gwelir hanes eglwys Maesyrhaf, Castellnedd.

DAVID JONES. Ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw y Drefawr yn mhlwyf Llanfyrnach, sir Benfro. Yr oedd ei rieni yn ddynion crefyddol iawn, ac yn aelodau ffyddlon o'r eglwys yn Nhrelech. Dygasant eu plant i fyny yn ofn yr Arglwydd. Yr oedd David Jones dan argraffiadau crefyddol er pan yr oedd yn blentyn ieuangc. Wedi bod am dymor yn yr ysgol a gedwid gan Mr. Owen Davies, Trelech, gweinidog ei rieni, anfonwyd ef i ysgol enwog Mr. John Griffiths, Glandwr. Tra yr oedd yno ymunodd a'r eglwys yn Glandwr, ac yn fuan wedi hyny dechreuodd bregethu. Wedi bod am rai blynyddau yn yr ysgol yn Glandwr, derbyniwyd ef i athrofa Caerfyrddin yn y flwyddyn 1788. Wedi gorphen ei amser yn yr athrofa bu yn agos i flwyddyn ar brawf yn Nghaernarfon. Bu wedi hyny ar brawf yn Llangattwg, Crughowell, lle y cafodd alwad. Tua yr un amser cafodd alwad o Faesyronen, a dewisodd y lle hwnw yn hytrach na Llangattwg. Urddwyd ef yn Maesyronen, fel y nodasom, Mawrth 22ain, 1797. Parhaodd i lafurio yn y maes hwn hyd y flwyddyn 1846, pryd y bu raid iddo o herwydd gwendidau henaint roddi ei swydd i fyny. Bu farw Tachwedd 1af, 1848, mewn oedran teg, a chladdwyd ef yn nghapel Maesyronen. Ar ddydd ei gladdedigaeth, pregethodd ei hen gyfaill Mr. Thomas Rees, o Huntington, oddiwrth Salm cxix. 174. Dywedir fod ei deimladau yn nefolaidd iawn yn ei gystudd, ac iddo ymadael a'r byd a'i lygaid yn gweled iachawdwriaeth yr Arglwydd.

Yr oedd David Jones yn ddyn hardd ac urddasol ei ymddangosiad cyn iddo ddechreu dadfeilio gan henaint. Perchid ef gan bawb o bob sefyllfa trwy holl gylch ei adnabyddiaeth. Yr oedd yn bregethwr da a synwyrol, ond dywedir mai prin y mynai gydnabod neb fel gweinidog rheolaidd heb ei fod wedi derbyn addysg athrofaol. Bu yr achos yn Maesyronen yn dra llewyrchus am flynyddau yn nhymor ei weinidogaeth ef, ond o herwydd ei fethiant i gyflawni dyledswyddau ei swydd yn ei flynyddau diweddaf, yr oedd y gynnulleidfa wedi lleihau yn fawr.

VAVASOR GRIFFITHS. Un genedigol o gymydogaeth Maesyronen, neu y Maesgwyn, oedd y gwr enwog hwn. Mae amser ei enedigaeth yn anhysbys i ni. Derbyniodd ei addysg yn athrofa enwog Mr. Samuel Jones, yn Tewkesbury. Urddwyd ef yn weinidog yr eglwys Annibynol yn y Maesgwyn, ryw bryd rhwng 1715 a 1725, a bu yn llafurio yma, ac mewn amrywiol leoedd eraill yn sir Faesyfed, hyd ei farwolaeth yn 1741. Yn 1733, ar farwolaeth Mr. Thomas Perrott, athraw yr athrofa yn Nghaerfyrddin, penodwyd Mr. Griffiths i fod yn athraw y sefydliad. Gwrthododd ef fyned i Gaerfyrddin, am y barnai y buasai yn well ar les y myfyrwyr i'r athrofa gael ei chadw yn y wlad, fel na buasent yn agored i brofedigaethau y dref.

Digitized by Google

Yn ngwyneb hyny penderfynodd y Bwrdd Henadurol a'r Bwrdd Cynnulleidfaol yn Llundain, i'r athrofa gael ei symud at yr athraw. Bu yn cael ei chadw am dymor yn Llwynllwyd, ty Mr. Price, gweinidog Maesyronen. Yn ystod y saith mlynedd y bu yr athrofa dan ofal Mr. Griffiths, bu yn cael ei chadw mewn tri neu bedwar o wahanol anedd-dai.

Yr oedd Mr. Vavasor Griffiths yn un o'r ysgolheigion goreu, ac yn un o'r dynion mwyaf duwiol yn ei oes. Ysgrifenai Edmund Jones, Pontypool, yn 1742, mai un o'r dynion goreu a adnabyddodd ef erioed oedd Mr. Griffiths, ac nad oedd yn disgwyl cyfarfod ei well nes iddo fyned i'r nefoedd. Yr oedd yn athraw o radd uchel, ac yn llywodraethu y myfyrwyr gyda gofal a llymder. Dichon ei fod yn arfer mwy o lymder nag a wnelsai oni buasai fod tynerwch eithafol ei ragflaenor, Mr. Perrott, wedi bod yn achlysur i lawer o'r myfyrwyr ymollwng i gyfeiliornadau blin mewn barn a buchedd. Colled drom i'r athrofa ac i Gymru yn gyffredinol oedd marwolaeth y dyn anghydmarol hwn.*

Thomas Morgan. Nid ydym wedi gallu cael allan yn mha ardal y ganwyd ef. Derbyniodd ei addysg athrofaol yn yr athrofa dan ofal Mr. V. Griffiths, ac ar draul y Bwrdd Cynnulleidfaol. Ar farwolaeth ei athraw yn 1741, dewiswyd ef yn ganlyniedydd iddo fel gweinidog yr eglwys yn y Maesgwyn. Yn 1744, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Nghroesoswallt, a symudodd yno, ac yno y bu yn barchus a defnyddiol iawn hyd derfyn ei oes, yr hyn a gymerodd le yn fuan ar ol y flwyddyn 1770.

David Lewis. Y oedd ef yn enedigol o Abertawy. Cafodd ei addysg yn athrofa Caerfyrddin. Dywed Thomas Morgan o Henllan, yr hwn oedd yn gydfyfyriwr ag ef, ei fod yn ddyn ieuangc difrifol, ac yn bregethwr da, ond fod gormod o'r meudwy ynddo. Urddwyd ef yn y Maesgwyn yn y flwyddyn 1745, ac yno y bu hyd ei farwolaeth, ond, fel y gwelsom, bu ei ddull meudwyaidd, neu anghyfeillgar o fyw yn foddion i ladd yr achos. Yr ydym yn barnu iddo fyw hyd yn agos i ddiwedd y ganrif ddiweddaf. Yr oedd yn fyw yn 1780, ac wrth bob tebygolrwydd am yn agos i ugain mlynedd ar ol hyny. Mae yn ffaith fod y dynion mwyaf diddefnydd yn gyffredin yn cael byw lawer yn hwy na'r dynion mwyaf defnyddiol. Un o bethau tywyll rhagluniaeth yw hyn.

## GLASBURY.

Mae y pentref prydferth hwn ar lan yr afon Wy, rhwng Talgarth a'r Gelli. Gan fod capel Maesyronen dros filldir o'r pentref, ac yn enwedig wedi i Mr. DeWinton, Maesllwch, fel y nodwyd yn hanes Maesyronen, wahardd i'r bobl fyned trwy y parc tua'r capel, fel yr arferent fyned gynt, yr oedd angen neillduol am addoldy yn y pentref. Trwy gallineb a diwydrwydd Mr. Richard Williams, pregethwr cynorthwyol yn Maesyronen, yr hwn a brynodd dŷ a gardd yn Glasbury, cafwyd yma dir cyfleus i adeiladu capel arno. Parodd adeiladiad y capel ddiflasdod nid bychan i eglwyswyr rhagfarnllyd yr ardal, a phe buasent yn gwybod dyben Richard Williams wrth brynu y ty, buasent yn sicr o roddi deg cymaint a'i werth am dano

* *Thompson's MSS.*

cyn y goddefasent iddo ef ei gael. Cynlluniwyd y capel gan Mr. Thomas, Glandwr, ac agorwyd ef Hydref 28ain, 1866, pryd y pregethwyd gan Dr. Thomas o Stockwell, ac eraill. Costiodd yr adeilad fil o bunau. Cyfranodd Samuel Morley, Ysw., tua chant a haner at y draul. Trwy ei haelioni ef, ac ymdrechion lleol, nid yw y ddyled sydd yn aros ar y lle yn drom. Wedi agoryd y capel sefydlwyd yma wasanaeth crefyddol cyson mewn cysylltiad a Maesyronen. Un eglwys yr ystyrir Maesyronen a Glasbury. Mae yma gynnulliad rhagorol, ac er fod y capel yn cynwys o dri i bedwar cant o eisteddleoedd, y mae eisioes wedi myned yn rhy fychan yn fynych i gynwys y gynnulleidfa. Yma yr urddwyd Mr. J. K. Lewis, Mehefin 23ain, 1868, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri Morris a Roberts, o athrofa Aberhonddu; J. Stephens, Brychgoed; D. P. Davies, Llanfair-muallt; Dr. Rees, Abertawy, ac eraill. Yma drachefn yr urddwyd Mr. D. H. Shankland, y gweinidog presenol. Gweinyddwyd yn ei urddiad gan Meistri Morris, Aberhonddu; Jones, Llacharn; Evans, Talgarth; Griffiths, Painscastle; Jones, Huntington, a Jowett, y Gelli. Wedi adeiladu y capel hwn, nid oes nemawr o breswylwyr pentref Glasbury yn myned i Faesyronen, ond pan y byddo y cyfarfod cymundeb yn cael ei gynal yno. Mae hen gapel Maesyronen etto yn wasanaethgar i breswylwyr y wlad ar y tu gogleddol iddo, tra y mae capel Glasbury yn rhyfeddol o gyfleus i breswylwyr y dyffryn o bob tu i'r afon.

## CAEBACH.

Yr oedd Ymneillduaeth wedi gwreiddio ac ymdaenu yn yr ardal hon er dyddiau yr Annghydffurfwyr. Fel y nodwyd yn y rhagarweiniad i hanes y sir, yr oedd achos yn y Garn, yn mhlwyf Disserth yn y flwyddyn 1715, ac yn ddiameu lawer o flynyddoedd cyn hyny. Yn y flwyddyn hono ymsefydlodd Mr. Christoducius Lewis, o Gapel Seion, sir Gaerfyrddin, yn weinidog yma, ac yma y bu hyd ei farwolaeth yn 1759, neu y flwyddyn ganlynol. Yn nhymor ei weinidogaeth ef yn y Garn yr adeiladwyd capel yn y Caebach, yn mhlwyf Cefnllys, tua thair milldir i'r gogledd o'r Garn. Ar draul Mr. Thomas Jones, gwr genedigol o'r ardal hon, ond a fuasai yn weinidog yn Titbury, yn sir Gaerloew, am ddeng-mlynedd-ar-hugain, yr adeiladwyd y capel cyntaf yma. Nid ydym wedi cael allan pa flwyddyn yr adeiladwyd ef, ond yr ydym yn barnu iddo gael ei adeiladu yn fuan ar ol 1715. Yr oedd Mr. Jones, y gwr a ddygodd draul yr adeiladaeth, yn fab i Mr. David Jones, Trefonen Hall, yn y sir hon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1675, a threuliodd ei holl fywyd cyhoeddus yn weinidog yn sir Gaerloew. Mae yn ymddangos ei fod yn ddyn lled gyfoethog. Yr ydym yn barnu mai Mr. C. Lewis oedd y gweinidog cyntaf yn y Caebach, mewn cysylltiad a'r Garn. Yn 1752, yr ydym yn cael un John Evans yn weinidog yma, ac yn 1755, cymerodd Mr. Simon Williams ofal y lle hwn, mewn cysylltiad a Rhaiadr. Yn fuan wedi symudiad Mr. Williams i Dredustan, rhoddwyd galwad gan yr eglwysi yn y Caebach a Rhaiadr i Mr. John Thomas, myfyriwr o athrofa Abergavenny, ac urddwyd ef Ebrill 23ain, 1767, pan y gweinyddwyd gan Meistri Edmund Jones, Pontypool; Isaac Price, Llanwrtyd, a Richard Tibbott, Llanbrynmair. Bu Mr. Thomas yn rhyfeddol o lwyddianus yma am rai blynyddau. Yr ydym yn cael y cof-

Digitized by Google

nodion canlynol ganddo yn hanes ei fywyd, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun:—"Daeth yr Arglwydd i lawr mewn modd anghyffredin yn y Caebach trwy weinidogaeth y gair oddeutu y flwyddyn 1769, yn debyg i ddydd y Pentecost, yn ein cyfarfodydd neillduol a chyhoedd, yn enwedig ar gyfranu yr ordinhad, nes y byddai amryw yn tori allan mewn llef wedi eu dwysbigo, ac eraill yn bendithio yr Arglwydd, canu a gweddio, a llefaru bob un wrth ei gymydog, a phobl y byd yn synu, ac yn ffaelu ymadael ambell waith trwy y dydd Sabboth, nes y buaswn i wedi dychwelyd yn fy ol ar ol pregethu yn Rhaiadr, a thrafaelu oddeutu ugain milldir yn mlaen ac yn ol. Cynwrf a ymdaenodd trwy'r cymydogaethau, ac ychwanegwyd llawer at yr eglwys. Neillduais bedwar yn eglwys y Caebach i fod yn ddiaconiaid a henuriaid, a thri o wyr ieuaingc hefyd, trwy gydsyniad yr eglwys, i arfer eu doniau yn gyhoeddus yn yr eglwys flodeuog hon. A pharhaodd pethau fel hyn yma dros y blynyddoedd 1770, 1771, a 1772, nes oedd y son am lwyddiant y Caebach, gerllaw ffynonau Llandrindod, trwy holl Gymru." Tua y flwyddyn 1778, darfu cysylltiad Mr. Thomas a'r eglwys hon fel ei gweinidog, a dilynwyd ef yma yn 1779, gan Mr. James Price, yr hwn a fu yma hyd ei farwolaeth, yn haf y flwyddyn 1804. Tuag amser marwolaeth Mr. Price, cafodd y capel ei ailadeiladu. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. David Powell, myfyriwr o athrofa Gwrecsam. Bu Mr. Powell yn gweinidogaethu yma am tua dwy-flynedd-ar-bymtheg. Rhoddodd ei ofal i fyny yn 1821. Wedi ei ymadawiad ef dewiswyd Mr. Richard Lewis, un o aelodau yr eglwys, i fod yn weinidog. Bu yntau yn llafurio yma gyda diwydrwydd a mesur o lwyddiant am bedair blynedd. Bu farw yn 1825. Wedi ei farwolaeth ef bu yn amser lled helbulus yma. Mynai Middleton Jones, Ysw., ymddiriedolwr yn ngweithred y capel a'r tir perthynol iddo, wthio un John Davies, o gymydogaeth Rhaiadr, ar yr eglwys yn erbyn ei hewyllys. Y canlyniad fu i'r rhan fwyaf o'r bobl fyned allan o'r capel, gan adael gweinidog yr ymddiriedolwr yno agos heb neb gydag ef. Wedi iddynt fyned allan buont yn addoli mewn amaethdai yn y gymydogaeth. Yn fuan dewisasant Mr. Daniel Williams o Lanfair-muallt, yn weinidog iddynt, ac urddwyd ef gan Mr. Lewis, Tredustan, ac eraill, mewn amaethdy yn mhlwyf Disserth. Tua phen blwyddyn wedi hyn bu farw Mr. Middleton Jones, ac yna cafodd Mr. Williams a'r eglwys y capel yn ol at eu gwasanaeth. Bu Mr. Williams yn weinidog yma hyd y flwyddyn 1844, pryd y gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i roddi ei swydd i fyny. Rai blynyddau cyn hyn yr oedd Mr. David Price, aelod o'r eglwys, yn cynorthwyo yma yn y weinidogaeth, a phan roddodd Mr. Williams y lle i fyny, urddwyd Mr. Price yn ganlyniedydd iddo. Cymerodd ei urddiad le Mehefin 13eg, 1844. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri T. Havord, Tredustan; R. Thomas, Rhaiadr; D. Jones, Maesyronen; D. Williams, y cynweinidog; D. Griffiths, Gelli, a J. Jones, Minsterley. Yn y flwyddyn 1867, teimlai Mr. Price nad oedd ei alluoedd a'i iechyd yn ei alluogi i gyflawni ei weinidogaeth yn deilwng mewn lle oedd yn awr wedi dyfod yn bwysig iawn ar gyfrif ei agosrwydd i ffynonau Llandrindod, ac felly rhoddodd ei ofal i fyny, fel y gallasai yr eglwys edrych allan am un cymhwysach i'r cylch. Yn y flwyddyn 1868, rhoddwyd galwad i Mr. Kilsby Jones, ac efe yw y gweinidog yma yn bresenol. Gan fod capel y Caebach tua milldir o ganol y boblogaeth, a bod lluaws o dai yn cael eu hadeiladu yn agos i'r ffynonau, cymerodd Mr. Jones dir at adeiladu capel yn nghanol y tai newyddion. Gosodwyd ei garreg sylfaen yn 1869,

Digitized by Google

gan y diweddar Mr. H. O. Wills, Caerodor, a chafodd ei orphen a'i agor yn 1871. Mae hwn yn addoldy hardd o werth tua 1500p. Cyfranodd Mr. S. Morley tua 200p. at y draul. Mae yma gynnulleidfa luosog iawn yn yr haf, ac y mae y lle yn hynod o gyfleus a gwasanaethgar i'r ymwelwyr.

Yr oedd Jonesiaid, Pencerrig, teulu cyfoethog a dylanwadol iawn, yn noddwyr selog i'r achos hwn yn y ganrif ddiweddaf, ac y mae rhai cenedlaethau o'r teulu wedi cael eu claddu yma. Gadawodd Mrs. Jones, Pencerrig, yr hon a fu farw yn 1789, fferm fechan o werth tuag ugain punt y flwyddyn yn waddol i'r achos yma. Ar ei marwolaeth hi collodd Ymneillduaeth ei gafael yn y teulu hwn.

Mae yn sicr i lawer gael eu codi o bryd i bryd i bregethu yn yr eglwys hon, ond nis gwyddom enwau neb o honynt ond Mr. Richard Lewis a Mr. David Price, y rhai fuont yn weinidogion yma, a Mr. Daniel Davies, yr hwn fu am ddwy-flynedd-a-deugain yn weinidog yn Wollerton, sir Amwythig.

Er mai yn nghapel newydd Llandrindod y mae y gwasanaeth yn cael ei gynal yn awr, etto y mae cyfarfodydd gweddio a phregethu achlysurol yn yr hen gapel. *Christ-church* yw yr enw wrth ba un y mae Mr. Kilsby Jones yn dewis i'r capel newydd gael ei adnabod, ac yr ydym yn gobeithio y bydd y lle yn deilwng o'r enw tra y byddo yma gareg ar gareg.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Christodulus Lewis. Yr oedd ef yn enedigol o blwyf Cynwil, sir Gaerfyrddin. Addysgwyd ef yn athrofa Caerfyrddin, dan Mr. W. Evans. Cafodd ei urddo yn Nghapel Seion, Llanddarog, tua y flwyddyn 1712, pan ffurfiwyd yr eglwys yno. Yn 1715 symudodd i sir Faesyfed, lle y bu hyd ei farwolaeth, tua y flwyddyn 1760. Nid ydym yn gwybod dim yn ychwaneg o'i hanes.

John Evans. Nid ydym yn gwybod dim am dano ef ond ei fod yma yn y flwyddyn 1752.

Simon Williams. Yn nglyn a hanes Tredustan y rhoddwn gymaint ag a wyddom am dano ef.

John Thomas. Cafodd y gwr hynod hwn ei eni yn mlwyf Myddfau, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1730, o rieni tlodion a hollol ddigrefydd. Cyn gynted ag y daeth yn alluog, anfonwyd ef i wasanaethu amaethwr. Er ei fod wedi ei fagu mewn teulu digrefydd fe weithiwyd ynddo trwy ryw foddion deimladau crefyddol pan nad oedd ond plentyn ieuangc iawn. Pan yr oedd ef yn llangc ieuangc yr oedd y diwygiad Methodistaidd yn cynhyrfu y wlad o gŵr i gŵr. Cafodd yntau y fraint o wrandaw amryw o'r prif bregethwyr, ac ennillwyd ef i wneyd proffes o grefydd pan yr oedd tua phymtheg oed. Yr oedd cyn hyn, heb nemawr neu ddim manteision addysg, wedi dysgu darllen ac ysgrifenu ychydig. Pan yr oedd newydd uno a'r gymdeithas grefyddol, aeth i Landdowror, a chaniataodd Mr. Griffith Jones iddo gael dyfod yn was iddo ef. Bu yno nes yr oedd yn ddeunaw mlwydd oed. Aeth oddiyno i Drefecca, lle y bu am yn agos i ddwy flynedd yn yr ysgol. Ar ei ymadawiad o Drefecca aeth i gadw ysgol yn mhlwyf Llanigan, sir Frycheiniog, a thra yno dechreuodd arfer ei ddoniau yn gyhoeddus fel pregethwr. Traddododd ei bregeth gyhoeddus gyntaf yn y

Digitized by Google

Cantref, gerllaw Aberhonddu, yn Ionawr, 1750. O hyn allan pregethu a chadw ysgol mewn gwahanol ranau o Ddeheubarth Cymru y bu, megis y Groeswen, Morganwg; Llansadwrn, sir Gaerfyrddin, ac yn agos i Drefdraeth, sir Benfro, &c., hyd y flwyddyn 1761, pryd y derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Rhydymardy, Morganwg, gan Mr. W. Evans, Cwmllynfell, a chyn diwedd y flwyddyn hono, derbyniwyd ef i'r athrofa yn Abergavenny, lle y bu dros bedair blynedd. Wedi gorphen ei amser yno bu ar fedr ymsefydlu fel gweinidog yn y Brychgoed a Thy'nycoed, ond gwrthodai rhai personau o ddylanwad yn yr eglwysi hyny arwyddo ei alwad, ac felly nid aeth yno. Yn fuan wedi hyny, cafodd alwad oddiwrth yr eglwysi yn Rhaiadr a'r Caebach, ac urddwyd ef yno, fel y gwelsom, yn 1767. Rhoddodd ofal yr eglwysi i fyny tua y flwyddyn 1778, ond bu yn byw, ac yn pregethu mewn gwahanol fanau yn sir Faesyfed, am tuag unmlynedd-ar-bymtheg ar ol hyny. Yn y flwyddyn 1794, symudodd i Langathen, sir Gaerfyrddin, ac oddiyno i Abergwyli. Yn Nghaerfyrddin yr oedd yn byw yn niwedd ei oes, ac yno y bu farw tua y flwyddyn 1811. Cyhoeddwyd hanes ei fywyd, wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun, yn y flwyddyn 1810, dan yr enw *Rhad Ras, neu lyfr profiad, mewn byr hanes am ddaioni yr Arglwydd tuag at ei wael wasanaethwr, John Thomas (awdwr Caniadau Seion), o'i febyd hyd yma.* Mae hwn yn llyfr rhyfedd iawn, ac yn werth ei ddarllen. Yn ol yr adroddiad a gynwysa y llyfr hwn, bu John Thomas yn un o'r pregethwyr mwyaf llafurus ac arddeledig yn ei oes. Nid oes nemawr o ardal yn Nghymru na bu ynddi lawer o weithiau, a bu rai gweithiau yn pregethu yn nghapeli Whitefield yn Llundain, ac yn amryw o gapeli yr Arglwyddes Huntington yn Kent ac Essex, &c. Yn ol ei adroddiad ef yr oedd rhyw effeithiau anghyffredin yn dilyn ei weinidogaeth pa le bynag yr elai. Er y dichon ei fod yn dderbyniol a llwyddianus iawn fel pregethwr teithiol, nid ydym yn tybied ei fod yn feddianol ar gymwysder i fod yn weinidog sefydlog. Yr ydym yn casglu oddiwrth ei ysgrifeniadau ei fod, er yn ddiameu yn ddyn duwiol iawn, yn lled blentynaidd yn ei ffordd, ac yn amddifad o fedr i beri i ddynion edrych i fyny ato fel dyn o bwys a dylanwad. Heblaw hanes ei fywyd, a'r llyfr hymnau a elwir *Caniadau Seion*, cyhoeddodd amryw farwnadau, a chyfieithodd rai man lyfrau o'r iaith Saesoneg. Mae ei hanes yn un o'r enghreifftiau rhyfeddaf o waith yr Arglwydd yn cyfodi un o ddyfnder tlodi ac anfanteision i sefyllfa o gryn nod a defnyddioldeb.

James Price. Y cwbl a wyddom am dano ef yw iddo gael ei urddo yn y Caebach tua y flwyddyn 1779. Ei fod yn ddyn parchus a defnyddiol, ac iddo farw yn haf y flwyddyn 1804.

David Powell. Yr oedd yn enedigol o blwyf Llanafanfawr, sir Frycheiniog. Derbyniwyd ef yn aelod yn Nhroedrhiwdalar, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu yn fyfyriwr yn athrofa Gwrecsam, ac ar orpheniad ei amser yno, urddwyd ef yn y Caebach, tua y flwyddyn 1804, lle y bu yn llafurio hyd y flwyddyn 1821. Yna rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny, ond parhaodd i bregethu yn achlysurol hyd derfyn ei oes. Bu farw Medi 2il, 1850. Yr oedd pawb a'i hadwaenai yn ei barchu ac yn ei gyfrif yn ddyn gwir dda.

Daniel Williams. Yn Llanfairmuallt yr oedd ef yn byw. Oriedydd *(Watchmaker)* ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn ddyn da a pharchus. Bu farw yn y flwyddyn 1854, a chladdwyd ef yn mynwent capel yr Annibynwyr yn Llanfairmuallt.

Digitized by Google

## RHAIADRGWY.

Mae yr achos Annibynol yn y lle hwn yn hen iawn, ond nid oes genym wybodaeth sicr trwy lafur pwy y dechreuwyd ef. Yr ydym yn barnu mai Mr. John Hanmer, yr hwn oedd yn enedigol o'r sir hon, ac a fu am flynyddau, yn amser y werinlywodraeth, yn bregethwr teithiol llafurus iawn yn siroedd Maesyfed ac Aberteifi, fu yr offeryn i'w ddechreu. Y gweinidog cyntaf y mae genym hanes am dano yma yw Mr. Thomas Walters Ymsefydlodd ef yma tua y flwyddyn 1692, ac yma y bu am yr ysbaid maith o driugain mlynedd. Bu farw mewn oedran teg yn 1752, mewn lle a elwid y Neuadd, yr hwn le a fuasai gynt yn garchardy, ac y buwyd yn addoli am flynyddau cyn adeiladu y capel. Yn y flwyddyn 1721, yr adeiladwyd y capel, ar ddarn o dir a brynwyd i'r perwyl gan Mr. Walters, y gweinidog. Medi 15fed, 1753, urddwyd Mr. Simon Williams yma, a bu yn llafurio yn y lle hwn, mewn cysylltiad a'r Caebach, hyd y flwyddyn 1765, pryd y symudodd i Dredustan, Brycheiniog. Yn y flwyddyn 1766, daeth Mr. John Thomas, o athrofa Abergavenny yma, a chafodd ei urddo, fel y nodwyd yn hanes y Caebach, yn Ebrill, 1767. Rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny yma ac yn y Caebach tua y flwyddyn 1778. Wedi hyn bu Mr. Thomas Bowen yn gofalu am y lle hwn, mewn cysylltiad a Maesyronen, am o bedair i bum' mlynedd. Yn ei amser ef adgyweiriwyd a helaethwyd y capel. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. David Davies, aelod o'r eglwys yn Llanwrtyd. Urddwyd ef yma tua y flwyddyn 1787. Yn 1790, symudodd i Langattwg, Crughowell, a dilynwyd ef yn y Rhaiadr, yr un flwyddyn, gan Mr. Jonathan Powell. Bu yma lwyddiant mawr dan weinidogaeth Mr. Powell am rai blynyddau, ond cyn terfyniad ei amser yma cyfododd dadl yn yr eglwys am athrawiaeth y Drindod. Yr oedd yma rai yn gogwyddo at Sabeliaeth, a mynai Mr. Powell eu diarddel, ond gan na chydunai yr eglwys a hyny, rhoddodd y lle i fyny yn 1798, a symudodd i Rosymeirch, Mon. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. Daniel Evans. Urddwyd ef yn y flwyddyn 1800, a bu yma yn barchus, ac i fesur helaeth yn llwyddianus, hyd ei farwolaeth yn Ebrill, 1834. Wedi marwolaeth Mr. Evans, bu yr eglwys yn awyddus iawn am gael yr enwog Mr. Williams o'r Wern, yn weinidog iddi, a theimlai Mr. Williams fesur o ogwyddiad i ddyfod yma, ond ni chaniataodd rhagluniaeth i hyny fod. Yn 1835, rhoddwyd galwad i Mr. John Griffiths, gweinidog yr eglwys Gymreig yn Manchester, a bu yma am yn agos i dair blynedd. Yn y flwyddyn 1836, tynwyd yr hen gapel i lawr, ac adeiladwyd yr un presenol. Yn niwedd y flwyddyn 1837, symudodd Mr. Griffiths i Fynydd Buckeley, yn sir Flint, lle y mae hyd yn bresenol. Yn 1839, rhoddwyd galwad i Mr. Robert Thomas, Glandwr, Abertawy, a'r hon y cydsyniodd. Bu dyfodiad Mr. Thomas i'r lle yn fendith neillduol i'r achos. Torodd diwygiad grymus allan yma yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi ei sefydliad yn y lle. Derbyniodd tua chant o aelodau i'r eglwys yn y flwyddyn 1841, a bu yma gynydd graddol trwy holl dymor ei weinidogaeth. Er galar mawr i bobl ei ofal a'r gymydogaeth yn gyffredinol, gwnaeth ei feddwl i fyny i symud i Hanover, sir Fynwy, yn 1848. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. David M. Davies, o Langefni, Mon. Daeth Mr. Davies yma yn 1849, ac ym-

adawodd i Gerrig-cadarn, lle y mae yn bresenol, yn mhen y deunaw mis. Yr oedd pethau yn lled annymunol yma yn ei amser ef, o herwydd bod yr hen bobl am gael mwy o Gymraeg yn y gwasanaeth, a'r bobl ieuaingc am fwy o Saesonaeg. Wedi ymadawiad Mr. Davies, rhoddwyd galwad i Mr. Rees Gwesyn Jones, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Tachwedd 30ain, 1851. Gweinyddwyd yn yr urddiad gan Meistri D. Williams, Troedrhiwdalar; J. Stephens, Brychgoed; H. Griffiths, athraw yn athrofa Aberhonddu; T. Evans, Llanarthwl, ac eraill. Bu Mr. Jones yma hyd y flwyddyn 1857, pryd y symudodd i Benybont-ar-ogwy. Ar ol ei ymadawiad ef bu yr eglwys am oddeutu tair blynedd dan ofal Mr. Kilsby Jones. Yn y flwyddyn 1862, rhoddwyd galwad i Mr. H. Kerrison, Sais hollol anwybodus o'r Gymraeg. Bu ef yma am tua phedair blynedd. Gwanychodd yr achos yn fawr yn y tymor hwn. Ar ei ymadawiad ef, cymerwyd gofal y lle drachefn gan Mr. Kilsby Jones, yr hwn erbyn hyn oedd wedi dychwelyd o Lundain i Lanwrtyd. Ail-lanwyd y capel gan Mr. Jones yn ddioed, ond rhoddodd ofal y lle i fyny yn mhen naw mis. Yn 1868, rhoddwyd galwad i Mr. Samuel Prosser, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma Mehefin 29ain, yn y flwyddyn hono. Gweinyddwyd yn yr urddiad gan Meistri Morris a Roberts, athrawon athrofa Aberhonddu; J. Stephens, Brychgoed; Dr. Rees, Abertawy, ac eraill. Mae gweinidogaeth Mr. Prosser yn dderbyniol iawn yma, a mesur o lwyddiant ar ei lafur. Mae yr achos hwn wedi dyoddef yn fawr yn y pum'-mlynedd-ar-hugain diweddaf, o herwydd newidiad iaith y gwasanaeth. Yr oedd yma hyd yn ddiweddar amryw hen bobl yn llawn o dân Cymreig, ac yr oedd dwyn y gwasanaeth crefyddol yn mlaen yn yr iaith Saesonig fel dwfr oer i'w hysbrydoedd tanllyd hwy. Pa fodd bynag, y Saesoneg sydd wedi ennill y dydd, fel nad oes yma yn awr nemawr i air o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn y pulpud.

Mae yn dra thebyg i lawer o bryd i bryd gael eu cyfodi i bregethu yma, ond nid ydym ni yn hysbys o enwau neb o honynt ond Mr. Thomas Evans, mab Mr. Daniel Evans, y gweinidog. Daw ei hanes ef dan sylw etto yn nglyn a Charmel a Llanwrthwl.

## COFNODION BYWGRAPHYDDOL.

Rhoddir hanes y gweinidogion a symudasant oddiyma yn nglyn a'r eglwysi y terfynasant eu hoes ynddynt.

THOMAS WALTERS. Yr oedd ef yn enedigol o ardal y Cilgwyn, yn sir Aberteifi. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1664. Gan fod ei dad yn dirfeddianwr helaeth, cafodd y manteision addysg rhagoraf. Yn athrofa Mr. Samuel Jones, Brynllwarch, y gorphenodd ei addysg.* Ymsefydlodd yn Rhaiadr, fel y nodasom, tua y flwyddyn 1692, a bu yno hyd derfyn ei oes. Bu farw Hydref 25ain, 1752, yn 88 oed, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Cwmdauddwr, Rhaiadr, lle y mae ei gareg fedd i'w gweled etto. Yr oedd Mr. Walters yn ddyn o gyfoeth mawr. Gadawodd ei eiddo i'w ferch, yr hon oedd ei unig blentyn. Y mae rhai o brif foneddigion y parthau hyn yn disgyn oddiwrthi hi, ond y mae ei hiliogaeth wedi llwyr-

* *Walter Wilson's MSS.*

Digitized by Google

ymwrthod ag egwyddorion Ymneillduol eu hynafiaid er's oesau bellach. Nid ydym yn gwybod dim am nodwedd Mr. Walters fel pregethwr, ond yr oedd yn ddyn o ddylanwad mawr ar gyfrif ei gyfoeth a'i ragoriaeth fel ysgolhaig.

DANIEL EVANS. Ganwyd ef yn ardal Crugybar, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1771. Yn eglwys Crugybar y dechreuodd broffesu a phregethu. Dechreuodd bregethu yr un amser a Mr. Hughes, Croeswen. Priododd yn lled ieuangc, a chyn dechreu pregethu, yr hyn fu yn rhwystr iddo gael addysg rhagbarotoawl i'r weinidogaeth. Yn mhen ychydig wedi iddo ddechreu pregethu, symudodd i ardal y Brychgoed, lle y bu am rai blynyddau yn bregethwr cynorthwyol derbyniol iawn. Yn 1799, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys yn Rhaiadr, ac urddwyd ef yno yn nechreu y flwyddyn 1800. Llanwodd ei gylch yn ffyddlon ac effeithiol am bedair-ar-ddeg-ar-hugain o flynyddau. Wrth bregethu yn Llanidloes ar nos Sabboth cymerwyd ef yn glaf. Trwy drafferth y dygwyd ef adref i Rhaiadr, lle y bu farw, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd, Ebrill 3ydd, 1834, yn 63 mlwydd oed. Claddwyd ef wrth ei gapel yn Rhaiadr.

Nid oedd Daniel Evans yn ysgolhaig nac yn ddyn o alluoedd nodedig, ond bu yn ddefnyddiol iawn yn ei oes. Yr oedd yn bregethwr eglur a derbyniol, a gwnaeth lawer mwy o ddaioni yn ei ddydd na llawer o rai rhagorach eu doniau, eu dysg, a'u galluoedd. Dichon i'w anwybodaeth o'r iaith Saesonig fod yn fesur o anfantais i'r achos, yn enwedig yn mlynyddoedd olaf ei weinidogaeth. Uchel-Galfiniad ydoedd o ran ei farn; a chan ei fod wedi dechreu ei fywyd crefyddol a chyhoeddus yn eglwys wresog Crugybar, a than weinidogaeth danllyd Isaac Price, mae yn naturiol casglu ei fod yn un nodedig o dwym yn ei gyflawniadau crefyddol, ac felly yr oedd.

## CARMEL.

Mae y capel hwn yn mhlwyf Nantmel, tua phum' milldir i'r deddwyrain o Rhaiadr. Trwy lafur Mr. Thomas Evans y casglwyd cynnulleidfa ac yr adeiladwyd capel yma, yn 1829. Wedi cael y capel yn barod, urddwyd Mr. Evans yn weinidog yma. Cymerodd ei urddiad le Mehefin 8fed, 1831. Yr oedd trefn y gwasanaeth fel y canlyn:—Dechreuwyd trwy weddi gan Mr. Richard Lloyd, Llanbadarnygareg; traddodwyd y gynaraeth gan Mr. J. Davies, Glandwr; derbyniwyd y gyffes ffydd gan Mr. D. Williams, Caebach; gweddiwyd yr urdd-weddi gan Mr. D. Williams, Troedrhiwdalar; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan Mr. T. Lewis, Llanfairmuallt, ac ar ddyledswydd yr eglwys gan Mr. W. Lewis, Tredustan. Parhaodd Mr. Evans i lafurio yma ac yn Llanwrthwl hyd derfyn ei oes yn 1869. Achos bychan sydd yma, ac nis gall lai na bod felly, gan nad yw yr ardal ond cymharol deneu ei phoblogaeth. Cyfodwyd yma ddau i bregethu, ond yr ydym wedi methu dyfod o hyd i'w henwau. Wedi marwolaeth Mr. Evans, rhoddodd yr eglwys hon, a'r eglwys yn Llanwrthwl, alwad i Mr. J. W. Jones, o Bontypridd, ac urddwyd ef Chwefror 24ain, 1870. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Meistri D. Williams, Troedrhiwdalar; J. Stephens, Brychgoed; W. I. Morris, Pontypridd, ac eraill. Yn Llanwrthwl y cynaliwyd y cyfarfod urddo. Mae Mr. Jones yn parhau i lafurio yma, a dywedir fod golwg obeithiol ar yr achos yn y ddau le.

Digitized by Google

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

**Thomas Evans.** Unig blentyn Mr. Daniel Evans, Rhaiadr, oedd efe. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1795. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan ei dad pan yr oedd yn dra ieuangc. Nid ydym wedi cael allan pa oed ydoedd pan y dechreuodd bregethu. Darfu iddo yntau, fel ei dad, briodi yn ieuangc iawn, trwy yr hyn y gosododd ei hun dan anfantais i gael yr addysg a allasai gael. Bu am ychydig amser yn yr ysgol ramadegol a gedwid mewn cysylltiad a'r athrofa yn y Drefnewydd. Yr ydym yn tybied mai wedi iddo gladdu ei wraig gyntaf y bu yno. Urddwyd ef, fel y nodasom, yn y capel a adeiladwyd trwy ei lafur ef ei hun, yn 1831. Llafuriodd yn ddiwyd yno, yn Llanwrthwl, cynnulleidfa arall a gasglwyd ganddo, ac agos trwy holl sir Faesyfed, nes i'w iechyd roddi i ffordd. Dyoddefodd boenau mawr oddiwrth y gymalwst a chlefydau eraill am y chwe' mis olaf o'i fywyd. Bu farw Chwefror 21ain, 1869, a chladdwyd ef wrth gapel Llanwrthwl. Gweinyddwyd ar ei gladdedigaeth gan Mr. Williams, Troedrhiwdalar; Mr. Price, Caebach, ac eraill. Bu yn briod dair gwaith, a chafodd naw neu ddeg o blant o'i ddwy wraig gyntaf, ond ni chafodd un o'r drydydd. Wrth amaethu y gallodd fagu ei deulu lluosog, gan nad oedd yr hyn a dderbyniai oddiwrth yr eglwysi bychain oedd dan ei ofal ond ychydig iawn.

Yr oedd Thomas Evans yn ddyn hynaws a siriol, ac yn hollol ddiymhongar. Perchid ac anwylid ef gan bawb o'i gydnabod. Nid oedd ei alluoedd a'i ddoniau fel pregethwr yn helaeth, ond yr oedd yn bregethwr defnyddiol a derbyniol. Er fod llawer o'i amser yn cael ei gymeryd i fyny o angenrheidrwydd gan ei ofalon tymhorol, ni ddarfu i nemawr o weinidog, yn ei oes, deithio mwy nag ef; ond yr oedd ei lafur yn gyfyngedig agos yn hollol i siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Pregethai yn y ddwy iaith, y naill fel y llall, ond Cymreigaidd iawn oedd ei barabliad o'r iaith Saesonig.

## GORE.

Mae y lle hwn yn mhlwyf *Old Radnor*, ac yn agos i derfynau sir Henffordd. Yr ydym yn cael fod Ymneillduaeth wedi gosod ei thraed i lawr yma yn foreu iawn. Cafodd Mr. John Weaver ei droi allan o eglwys *New Radnor* gan Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662. Mae yn ddigon tebygol mai ffrwyth ei lafur ef yw yr achos yn Gore. Darfu iddo ffurfio eglwys yma yn fuan wedi cael ei fwrw allan o'r Eglwys blwyfol, ond ni bu yn hir cyn symud i Henffordd, lle y treuliodd ei oes yn weinidog Ymneillduol. Bu farw yn bedwar ugain oed yn 1712. Merch iddo ef oedd gwraig yr enwog a'r dysgedig Samuel Jones, athraw yr athrofa yn Tewkesbury. Yn 1672, yr ydym yn cael Maurice a Richard Griffiths yn cyfodi trwyddedau i bregethu yn Bigeldy, yn yr ardal hon. Trwyddedodd Owen Morgan, o Bigeldy, ei dŷ hefyd yr un amser at bregethu ynddo. Nid oes genym un wybodaeth am Richard Griffiths, ond y mae enw Maurice Griffiths i'w ganfod yn fynych mewn hen lyfrau a gyhoeddwyd yn amser y werinlywodraeth. Yr oedd yn gyfaill neillduol i Vavasor Powell, a chan fod ei enw yn cael ei grybwyll mor fynych, yr ydym yn casglu ei fod yn ddyn o gryn bwys a dylanwad. Yr oedd yn fyw yn 1675. Nid ydym yn hysbys o'i hanes yn mhellach. Mae hanes yr achos yn Gore o 1672 hyd 1720,

Digitized by Google

pryd yr adeiladwyd y capel cyntaf yno, yn hollol anhysbys i ni, ac o'r pryd hwnw yn mlaen hyd 1742, nid ydym yn gwybod dim o'i helynt. Yn y flwyddyn 1742, yr oedd yma un James Beaumont yn pregethu. Mae yn ymddangos ei fod yn ddyn gwresog a phoblogaidd. Bu am rai blynyddau yn cydweithredu a'r Methodistiaid Calfinaidd. Dywedir mae cael ei daro a chareg gan erlidiwr pan yr oedd yn pregethu yn yr awyr agored fu yr achos o'i farwolaeth. Nis gwyddom pa bryd na pha le y cymerodd hyn le. Mae Mr. William Jones, gweinidog presenol Gore, yn un o hiliogaeth Beaumont. Wedi marwolaeth Mr. Beaumont bu un o'r enw Williams yma am rai blynyddau, ond nid oes genym ddim o'i hanes. Yr oedd yr achos yma wedi dadfeilio ac ar farw pan y daeth y diweddar Mr. Thomas Rees i Huntington yn 1802. Yr oedd y capel yn ddadfeiliedig, y ffenestri yn dyllog, a'r lês wedi rhedeg allan. Trwy ymdrech Mr. Rees, cafwyd les newydd, ac adgyweiriwyd y capel. Casglwyd yma gynnulleidfa dda yn mhen ychydig amser, a pharhaodd Mr. Rees i lafurio yma hyd y flwyddyn 1849, pryd y gorfodwyd ef gan henaint a methiant i roddi y lle i fyny. Yr oedd yr achos wedi dechreu gwywo yma rai blynyddau cyn hyn, o herwydd fod y gweinidog yn byw rai milldiroedd o'r ardal ac yn analluog o herwydd henaint i fod o fawr gwasanaeth fel gweinidog. Yn fuan wedi i Mr. Rees roddi y gofal i fyny, rhoddwyd galwad i Mr. W. Jones, y gweinidog presenol, ac urddwyd ef yma yn niwedd 1849. Aelod o eglwys Mr. Rees yn Huntington oedd Mr. Jones. Pedwar-ar-ddeg oedd rhif yr aelodau yn Gore pan ddechreuodd ef ei weinidogaeth yma, ond y maent er's rhai blynyddau bellach tua chant o rif. Mae Mr. Jones yn ddiweddar wedi cymeryd ystafell gyfleus at bregethu yn Kington, a bwriada ddechreu achos yno.

## HUNTINGTON.

Mae y pentref hwn yn sir Henffordd, ond gan mai i gyfundeb sir Faesyfed y perthyna yr eglwys oddiar gychwyniad yr achos, a bod y rhan fwyaf o'r bobl yn byw yn Maesyfed, y mae yn briodol i ni roddi ei hanes yma. Fe gafodd yr achos hwn ei ddechreuad dan yr amgylchiadau canlynol:—Tua chanol y ganrif ddiweddaf, aeth bachgen tlawd o'r pentref hwn i Lundain i edrych am ryw waith er ennill ei fywioliaeth. Daeth yn mlaen yno, nes iddo ddyfod yn fasnachydd glo, ac erbyn ei fod yn hen ŵr yr oedd wedi casglu cyfoeth dirfawr. Enw y gwr oedd Edward Gough. Yr oedd yn ddyn crefyddol iawn, ac yn Ymneillduwr selog. Penderfynodd yn ei henaint osod i fyny ysgol yn ei bentref enedigol i blant tlodion. Adeiladodd yma ysgoldy cyfleus, a gwaddolodd yr ysgol. Gwnaed yn amod yn y weithred, fod yn rhaid i'r ysgolfeistr fod yn Ymneillduwr ac hefyd yn bregethwr, os na ellid cael neb arall i bregethu yn yr ysgoldy ar y Sabbothau. Yn 1802, penodwyd Mr. Thomas Rees, o athrofa Caerfyrddin, i fod yn ysgolfeistr yma. Yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn y lle, heblaw cyfodi yr achos yn Gore o farw i fyw, casglodd gynnulleidfa a ffurfiodd eglwys Annibynol yn yr ysgoldy yn Huntington. Parhaodd Mr. Rees i wasanaethu yma hyd derfyn ei oes yn 1858. Bu Mr. Henry Rees yn weinidog yma am dair blynedd wedi marwolaeth ei dad, a symudodd oddiyma i Hythe, yn Kent, lle y mae etto. Yn Hydref, 1861, cymerodd Mr. W. Jones ofal yr eglwys hon mewn cysylltiad a Gore, ac efe yw y gweinidog yma hyd yn bresenol.

Digitized by Google

Codwyd y rhai canlynol i bregethu yn Gore ac yn Huntington:—
Henry Rees, mab yr hen weinidog.
William Jones, y gweinidog presenol.
W. Watkins. Yr hwn a ymfudodd i America, ac a fu farw yno.
John Bounds. Bu farw yn ddiweddar.
William Bayliss. Bu farw yn y flwyddyn 1832, yn 29 oed.
E. Watkins. Bu farw yn 1859, yn 45 oed.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

THOMAS REES. Ganwyd ef yn mhlwyf Meline, yn sir Benfro, yn 1774. Ymunodd a'r eglwys yn Brynberian yn ieuangc iawn, a phan yr oedd yn ddwy-ar-bymtheg oed dechreuodd bregethu. Derbyniwyd ef yn fyfyriwr i athrofa Caerfyrddin yn y flwyddyn 1796, a bu yno am chwe' blynedd. Mehefin 13eg, 1802, dechreuodd ar ei waith fel ysgolfeistr a phregethwr yn Huntington. Yn fuan wedi hyny cafodd ei urddo. Yr oedd tri-ar-ddeg o weinidogion yn ei urddiad. Heblaw cadw yr ysgol a phregethu yn Gore a Huntington bob Sabboth, pregethodd lawer yn y pentrefydd oddiamgylch, a bu lawer gwaith mewn perygl o'i fywyd oddiwrth erlidwyr wrth wneyd hyny. Gollyngwyd ergyd o ŵn ato unwaith wrth bregethu yn Eardisley, ond fe ddiogelodd yr Arglwydd ei fywyd. Parhaodd i bregethu hyd o fewn mis i'w farwolaeth. Bu farw yn ddedwydd iawn, Mai 14eg, 1858, a chladdwyd ef yn y fynwent gysylltiedig a'r capel a adeiladwyd ganddo yn ymyl yr ysgoldy yn Huntington. Yr oedd yn bregethwr chwaethus a synwyrol, ond nid oedd grym a bywiogrwydd mawr ynddo. Cyfrifid ef yn ddyn da iawn a hollol ymroddgar i wasanaeth ei Arglwydd.

## LLANBADARNYGAREG.

Mr. Richard Lewis, pan yr oedd yn bregethwr cynorthwyol yn y Caebach, a ddechreuodd yr achos yn y lle hwn. Bu yn teithio yma am flynyddau i bregethu, a thua y flwyddyn 1817, cafodd yma ddigon o broffeswyr crefydd i'w ffurfio yn eglwys. Wedi ei ffurfio bu yr eglwys fechan yn ymddibynu ar weinidogion y sir i weinyddu yr ordinhad iddi dros amryw flynyddau, gan ei bod yn rhy wan i gynal gweinidog ei hun. Y cyntaf a urddwyd yma oedd Mr. Richard Lloyd. Cymerodd ei urddiad le oddeutu y flwyddyn 1828. Bu ef yn gwasanaethu yr achos hwn yn ffyddlon am tua deuddeng mlynedd. Wedi iddo ddechreu yr achosion yn Hermon a Painscastle, rhoddodd Llanbadarn ac Aberedw i fyny a chyfyngodd ei lafur, am weddill ei oes, i'r ddau achos newydd. Y gweinidog nesaf yma oedd Mr. Evan Evans. Bu ef yma am ddeg neu ddeuddeng mlynedd, ac wedi ei ymadawiad ef, urddwyd Mr. D. Williams, yn awr o Fangor, yma, a bu yma nes y symudodd yno. Ar ei ol ef urddwyd Mr. Richard W. Lloyd yma yn 1854. Tua phedair blynedd y bu ef yma, yna symudodd i sir Amwythig, lle y mae yn bresenol. Ar ymadawiad Mr. Lloyd, daeth Mr. Evan Evans, yr hen weinidog yn ol, a bu yma drachefn am rai blynyddau. Dilynwyd ef gan Mr. Evan Harries, yr hwn a fu yma am ychydig gyda blwyddyn. Yn nechreu y flwyddyn hon daeth Mr. J. T. Pattison, yr hwn a ddychwelodd yn ddiweddar o Canada, yma ar brawf i weled a hoffa y lle, ac os gwel y bydd argoel iddo wneyd daioni yma, bwriada aros gan fod ganddo fodd i fyw heb ymddibynu ar gyfraniadau y bobl. Ni bu fawr lewyrch ar yr achos hwn oddiar ymadawiad Mr. Lloyd, y gweinidog cyntaf. Yr oedd yma olwg obeithiol ar bethau yn ei amser ef.

Digitized by Google

## ABEREDW.

Mae y lle hwn yn cael ei enw oddiwrth ymarllwysiad yr afonig Edw i'r Wy, tua phedair milldir islaw Llanfairmuallt. Dechreuwyd yr achos yn y lle yma gan yr un personau ag a ddechreuodd yr achos yn Llanbadarn-ygareg. Tua yr un amser y dechreuwyd y ddau, a than yr un weinidogaeth y maent wedi bod o'u dechreuad hyd yn bresenol. Mewn anedd-dy y buwyd yn cadw y gwasanaeth yma o ddechreuad yr achos hyd o fewn blwyddyn yn ol. Yn y flwyddyn 1870, rhoddodd Mr. Thomas Thomas o'r Crown, Llanfairmuallt, ddarn o ardd a brynasai ef yma yn ddiweddar at adeiladu capel. Cynaliwyd yma gyfarfod ar yr achlysur o osod y gareg sylfaen. Mr. T. Thomas a gyflawnodd y ddefod o osod y gareg, ac anerchwyd y gwrandawyr ar yr achlysur gan Meistri Kilsby Jones, H. Jones, Caerfyrddin; Dr. Rees, Abertawy; D. P. Davies, Llanfairmuallt, ac eraill. Mae y capel yn awr wedi cael ei orphen a'i agor, ac y mae yn addoldy bychan nodedig o dlws a chyfleus. Mae yma ac yn Llanbadarn leoedd gobeithiol iawn am achosion siriol pe gellid taro wrth weinidog cymhwys, ond byddai raid i'r neb a ddeuai yma fyw am rai blynyddau heb ymddibynu nemawr am ei gynaliaeth ar y bobl. Gyda bendith gellid cyfodi yma eglwysi cryfion yn raddol.

## HERMON A PAINSCASTLE.

Tua 1834, daeth Mr. Richard Lloyd, gweinidog Llanbadarnygareg, i fyw i Glanyrafon—fferm fawr yn mhlwyf Llanbedr. Yr amser hwnw nid oedd un addoldy Annibynol, nac un math o wasanaeth gan yr Ymneillduwyr o un enwad, ond cynnulleidfa fechan o'r *Primitive Methodists*, yn yr holl wlad o Faesyronen i Lanbadarnygareg—pellder o fwy na deuddeng milldir. Wrth weled amddifadrwydd ei gymydogion o'r efengyl dechreuodd Mr. Lloyd bregethu yn ei dŷ ei hun. Coronwyd ei lafur yn fuan a llwyddiant anghyffredin. Aeth Glanyrafon yn rhy fychan o lawer i gynwys y torfeydd a ddeuent yn nghyd i wrandaw y gair fel y bu raid rhanu y gynnulleidfa yn ddwy mewn gwahanol gyrau o'r ardal. Yn fuan cafwyd digon o ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig i ffurfio dwy eglwys—un yn *Portway* a'r llall yn *Painscastle*. Mewn anedd-dai yr addolai y cynnulleidfaoedd hyn dros rai blynyddau ar ol ffurfio yr eglwysi. Tra yr oedd Mr. Lloyd yn nghanol ei lafur a'i lwyddiant, galwodd yr Arglwydd ef ato ei hun yn ngrym ei ddyddiau, er galar a cholled ddirfawr i'r holl wlad, yn ol golwg dyn ar bethau. Bu farw yn 1845. Yn mhen dwy flynedd wedi marwolaeth Mr. Lloyd, rhoddodd yr eglwysi ieuaingc alwad i Mr. Henry Jones, o athrofa Aberhonddu, ac urddwyd ef yma yn 1847. Yn 1849, adeiladwyd capel Hermon, ac yn mhen ychydig flynyddau wedi hyny aeth capel y *Primitive Methodists* yn Painscastle yn wag, a phrynodd yr Annibynwyr ef. Wedi bod yma am ddwy flynedd, derbyniodd Mr. Jones alwad i sir Gaerloew, a symudodd yno yn Rhagfyr, 1849. O'r pryd hwnw hyd y flwyddyn 1852, bu Mr. W. Jones, Gore, yn dyfod yma bob mis i dori bara, a Mr. John Griffiths, Portway, aelod o un o'r eglwysi, a bregethai yn y ddau le ar y tri Sabboth arall. Yn 1852, penderfynwyd urddo Mr. Griffiths yn weinidog, ac efe yw y gweinidog yma hyd y dydd hwn. Mae Mr. Griffiths yn amaethwr cyfrifol yn byw ar ei dir ei hun. Mae yn ddyn bywiog, llawn o sel a gweithgarwch, a'r holl wlad yn edrych

Digitized by Google

i fyny ato fel oracl mewn pob peth gwladol a chrefyddol. Ar ei draul ef yn benaf yr adeiladwyd capel Hermon. Nis gallesid cael gwell dyn i ateb y cylch hwn nag ef, ond y mae perygl iddo anghymwyso y lle ar gyfer ei ganlyniedydd, trwy ei fod yn rhoddi ei wasanaeth yn rhad i'r eglwysi. Cynnulleidfaoedd bychain sydd yn y ddau le hyn, ac nis gallant byth fod yn lluosog, gan nad yw poblogaeth y wlad ond tenau.

Yr unig bregethwyr a godwyd yma yw Mr. Griffiths, y gweinidog, a Mr. Thomas Williams, amaethwr parchus. Y mae ef yn pregethu yma fynychaf bob Sabboth fel cynorthwywr i'r gweinidog.

## COFNODIAD BYWGRAPHYDDOL.

RICHARD LLOYD. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1804, yn y Fron yn mhlwyf Gwenddwr, sir Frycheiniog. Yr oedd ei rieni mewn amgylchiadau bydol cysurus iawn. Pan yn llengcyn ieuangc anfonwyd ef a dau o'i frodyr i'r ysgol i Aberhonddu, i'r dyben o'u dwyn i fyny i fod yn offeiriaid yn yr Eglwys Sefydledig. Cydsyniodd ei ddau frawd a dymuniad eu rhieni, ac aethant yn offeiriaid, ond gwrthododd ef a dewisodd yn hytrach fod yn amaethwr ac yn bregethwr Ymneillduol. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Gwenddwr, ac yno y dechreuodd bregethu. Yn fuan cyfododd i sylw neillduol fel pregethwr. Gan ei fod yn fwy o feistr ar y Saesoneg na'r Gymraeg cyfyngodd ei lafur fel pregethwr gan mwyaf i sir Faesyfed o gychwyniad ei fywyd cyhoeddus. Tua y flwyddyn 1828, neu yn fuan wedi hyny, urddwyd ef yn Llanbadarnygareg, a bu yn ffyddlon yn gwasanaethu yr achos yno ac yn Aberedw, nes iddo gychwyn yr achos yn Glanyrafon, yr hwn sydd yn awr yn ddwy eglwys yn Hermon a Painscastle. Wedi cychwyn y lleoedd hyn cyfyngodd ei lafur iddynt hwy yn benaf hyd derfyn ei oes. Bu y dyn da a defnyddiol hwn farw ar ol ychydig fisoedd o gystudd, Tachwedd 27ain, 1845, yn 41 mlynedd oed. Claddwyd ef wrth gapel Maesyronen.

---

Nid oes genym ddim i'w ychwanegu mewn ffordd o adolygiad ar hanes y sir hon, rhagor yr hyn a roisom yn yr arweiniad i mewn, ac yn nglyn a hanes y gwahanol eglwysi. Gwelir nad yw crefydd efengylaidd wedi cael ond ychydig ddylanwad ar y boblogaeth. Dichon fod sefyllfa drawsnewidiol y sir o'r Gymraeg i'r Saesonaeg wedi gwneyd mwy na dim arall er atal ei hefengyleiddiad, ac nid oes genym ond gobeithio a gweddio fod dyfodol llawer dysgleiriach yn ei haros.

---

*DIWEDD YR AIL GYFROL.*

---

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "TYST," OLD POST OFFICE PLACE, LIVERPOOL.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google